This is a digital copy of a book that was preserved for generations on library shelves before it was carefully scanned by Google as part of a project to make the world's books discoverable online.

It has survived long enough for the copyright to expire and the book to enter the public domain. A public domain book is one that was never subject to copyright or whose legal copyright term has expired. Whether a book is in the public domain may vary country to country. Public domain books are our gateways to the past, representing a wealth of history, culture and knowledge that's often difficult to discover.

Marks, notations and other marginalia present in the original volume will appear in this file - a reminder of this book's long journey from the publisher to a library and finally to you.

Usage guidelines

Google is proud to partner with libraries to digitize public domain materials and make them widely accessible. Public domain books belong to the public and we are merely their custodians. Nevertheless, this work is expensive, so in order to keep providing this resource, we have taken steps to prevent abuse by commercial parties, including placing technical restrictions on automated querying.

We also ask that you:

+ *Make non-commercial use of the files* We designed Google Book Search for use by individuals, and we request that you use these files for personal, non-commercial purposes.
+ *Refrain from automated querying* Do not send automated queries of any sort to Google's system: If you are conducting research on machine translation, optical character recognition or other areas where access to a large amount of text is helpful, please contact us. We encourage the use of public domain materials for these purposes and may be able to help.
+ *Maintain attribution* The Google "watermark" you see on each file is essential for informing people about this project and helping them find additional materials through Google Book Search. Please do not remove it.
+ *Keep it legal* Whatever your use, remember that you are responsible for ensuring that what you are doing is legal. Do not assume that just because we believe a book is in the public domain for users in the United States, that the work is also in the public domain for users in other countries. Whether a book is still in copyright varies from country to country, and we can't offer guidance on whether any specific use of any specific book is allowed. Please do not assume that a book's appearance in Google Book Search means it can be used in any manner anywhere in the world. Copyright infringement liability can be quite severe.

About Google Book Search

Google's mission is to organize the world's information and to make it universally accessible and useful. Google Book Search helps readers discover the world's books while helping authors and publishers reach new audiences. You can search through the full text of this book on the web at `http://books.google.com/`

7 a/i

101. e. 379.

S. Wilkinson
Transcribe

[illegible]

31

LLAW-LYFR Y BEIBL:

NEU

ARWEINIAD

I

Fyfyrdod o'r Ysgrythyrau Santaidd.

GAN

JOSEPH ANGUS, D.D.,

AELOD O'R GYMDEITHAS ASEAIDD.

CYFEITHIEDIG

GAN J. RHYS MORGAN (LLEURWG),

LLANELLI.

CAERFYRDDIN:

ARGRAFFWYD A CHYHOEDDWYD GAN WILLIAM MORGAN EVANS.

1860.

RHAGYMADRODD Y CYFIEITHYDD.

GYDWLADWYR HOFF,—

ER enwoced ydyw "CYMDEITHAS Y TRAETHODAU CREFYDDOL," oblegid rhagoroldeb y llyfrau a gyhoeddir ganddi o bryd i bryd, etto, nid oes yr un, hyd y nod o lyfrau y Gymdeithas yma, yn rhagorach, nac, feallai, lyfr yn y byd yn fwy cynnorthwyol i fyfyrio yr Ysgrythyrau Santaidd, nâ "LLAW-LYFR Y BEIBL, GAN Dr. ANGUS."

Drwy diriondeb trugaredd yr Hollalluog, yr ydwyf yn awr yn cael yr hyfrydwch a'r anrhydedd o gyflwyno i chwi y llyfr gwerthfawr yma mewn gwisg Gymreig.

Nid oedd, o'r blaen, yn ein hiaith, yr un llyfr cyffelyb iddo am gywirdeb, cyflawnder, ac eglurder y wybodaeth a rydd am y GYFROL YSBRYDOLEDIG.

Er mai dilys y canfydda y *craffus* a'r *beirniadol* lawer o wallau yn y cyfieithiad, etto, hyderwyf ei fod mor rydd oddiwrth feiau anafus, a diffygion pwysig, fel nad oes berygl i'r darllenydd *cyffredin* gael ei gamarwain.

Fy nymuniad diffuant, Gymry anwyl, yw, i chwi werthfawrogi y LLAW-LYFR, drwy ei bwrcasu a'i fyfyrio; a'm gweddi yw, a'r i'r LLAW-LYFR brofi yn fendith annhraethol i chwithau, drwy ëangu eich gwybodaeth am, cadarnhau eich ffydd yn, cynnyddu eich hymlyniad wrth, a chynhyrfu eich llwyr-ymostyngiad i, "AIR DUW, YR HWN SYDD YN BYW AC YN PARHAU YN DRAGYWYDD."

Ydwyf, eich gwasanaethwr ewyllysgar,

JOHN RHYS MORGAN.

Llanelli, Chwefror 2, 1860.

RHAGYMADRODD YR AWDWR.

Bwriadwyd y tudalenau canlynol i fod yn arweiniad i fyfyrdod o'r Ysgrythyr, ac ysgrifenwyd hwynt gyda golwg ar iddynt gael eu defnyddio gan *bob* dosparth o ddarllenwyr deallgar. Ar y darlleniad cyntaf, gan ddarllenwyr ieuainc, awgrymir i'r dosranau sydd wedi eu nodi (a), yn nhaflen y cynnwysiad, gael eu gadael allan, yn nghyd a rhyw ranau ereill y tybir eu bod yn rhy anhawdd. Y mae yr amcan i gyfaddasu y gwaith i fyfyrwyr ieuainc, a rhai wedi myned yn mhell yn mlaen, ar unwaith yn gwneuthur y cyfryw ddetholiad yn briodol; a chafodd y cyfan ei ysgrifenu fel ag i wneuthur y darnau a ddarllenir ar y cyntaf, yn hawdd eu deall, ac yn gyflawn ynddynt eu hunain. Ar y llaw arall, y neb a fyno ymofyn â'r llyfr ar bynciau neillduol, megys, ar fyfyrdod o'r Testament Groeg, neu ar y prawf o athrawiaethau arbenig, gall wneyd hyny yn hawdd drwy gymhorth y Mynegai.

Os bydd neb yn ewyllysio cyssylltu myfyrdod o'r llyfr yma â myfyrdod o Wyddoniaeth Dduwinyddol yn gyffredinol, bydd y trefniad canlynol o bwys iddo.

Y mae Duwinyddiaeth yn Eglurhäol, Hanesyddol, Rheolaidd, a Bugeiliol:—

O dan y pen Duwinyddiaeth Eglurhaol, rhoddir—

Ieithyddiaeth, neu fyfyrdod o ieithoedd yr Ysgrythyr, yn nghyd a'u tafod-ieithoedd perthynasol: gwel pen. i., dos. 2, 4; pen. iv., dos. 5.

Beirniadaeth, yr hon, yn gyntaf, a amcana sefydlu testun cywir; ac, yn ail, egluro hynodion ieithwedd, &c., yr amrywiol lyfrau: gwel pen. i., dos. 1, 3, 5, 6; pen. vi., dos. 1., yn nghyd a'r Arweiniadau i'r Pum-llyfr, yr Efengylau, yr Epistolau, &c.

Dehonglaeth, neu y rheol a'r ymarferiad o esbonio, pen i., dos. 6; pen. iv., a phen. vi.

Dan y pen Duwinyddiaeth Hanesyddol, rhoddir—

Henafiaeth (*Archæology*), a'i dwy ran: Henafiaeth *Feiblaidd*, yr hon sydd yn ymdrin âg hen arferion, &c., gwel pen. iv., dos. 6; ac *Eglwysig*, yr hon sydd yn ymwneyd â golygiadau y sectau a'r ysgrifenwyr boreuol yn mhlith Iuddewon a Christionogion, gwel pen. iv., dos. 6; Rhan ii., pen. iv.. dos. 2; pen. vi., dos. 1,; pen. vii., dos. 1.

Hanes Athrawiaeth, ar ba un nid ydyw y gyfrol hon yn ymdrin.

Dan y pen DUWINYDDIAETH REOLAIDD, rhoddir—

DUWINYDDIAETH OSODEDIGAETHOL (*Dogmatic*), yr hon sydd yn ymwneyd â phynciau y ffydd, &c.

DUWINYDDIAETH YMARFEROL, yr hon sydd yn ymdrin â'r ymarweddiad.

Gwel pen. iii., v., vii., yn nghyd a'r Arweiniad i Cor., Rhufeiniaid, &c.

Dan y pen DUWINYDDIAETH FUGEILIOL, rhoddir—

PREGETHWRIAETH ; nid yw hyn yn cael ei drin yn y gyfrol yma ond mewn modd anuniongyrchol, gwel pen. vii.

Y GOFAL GWEINIDOGAETHOL a'r GYFRAITH EGLWYSIG, am yr hyn ni ddywedir dim yma.

PROFION CRISTIONOGAETH, a HANES ALLANOL yr eglwys, ydynt bynciau gwahaniaethol ymchwiliad. Traethir yn helaeth ar y blaenaf, pen. i., dos. i ; pen. ii.. dos. 1—4, &c.

I rai o'r pynciau a nodir yn y gofres yma, nid ydyw y gyfrol hon yn ddim ond arweiniad, wedi ei bwriadu i dywys y myfyriwr addfed at weithiau helaethach ; ond ceir ei bod o helaethrwydd digonol, ar y rhan amlaf, i alluogi ymofynwyr difrifddwys i fyfyrio a meistroli profion, ffeithiau, ac athrawiaethau, yr Ysgrythyr drostynt eu hunain. Amcan y gyfrol yw dysgu dynion i ddeall a gwerthfawrogi y BEIBL, ac ar yr un pryd roddi y fath hyfforddiad mewn llênyddiaeth, a hanesiaeth henafol, ac a fyddo yn gynnorthwyol i'r gwaith o addysgiaeth gyffredinol yn mysg pob dosparth.

Er mwyn gwneyd addasrwydd y llyfr yn fwy cyflawn i fod yn ddefnyddiol, y mae cyfres o ofyniadau arno wedi eu darparu, yr hon sydd yn rhoddi crynodeb o'r cyfan.*

* Y mae y gyfres a nodir uchod yn gyssylltedig â'r llyfr hwn.—CYF.

CYNNWYSIAD.

RHAGYMADRODD Y CYFIEITHYDD .. .. tud. iii
ETTO YR AWDWR .. .. tud. iv

RHAN I.

ARWEINIAD .. .. tud. 1

PENNOD I.

AR BURDEB YR YSGRYTHYRAU: NEU Y BEIBL FEL YR YSGRIFENWYD EF GAN DDYNION YSBRYDOLEDIG .. .. tud. 3
Dos. 1. Purdeb yn cael ei ddarnodi a'i brofi, adr. 6—24.
Dos. 2.ª Ieithoedd gwreiddiol yr Ysgrythyr—yr Hebraeg a'r Ieithoedd Shemiaidd yn gyffredin: Ieithoedd Helleniaidd, neu Hebraeg a Groeg y Testament Newydd a'r Deg a Thringain, adr. 25—41.
Dos. 3.ª Llawysgrifau yr Ysgrythyr, adr. 42—64.
Dos. 4.ª Hen Gyfieithiadau o'r Ysgrythyr, adr. 65—74.
Dos. 5.ª Darlleniadau amrywiol yr Ysgrythyr: rheolau i benderfynu y testun, adr 75—112.
Dos. 6. Y cyfieithiad Seisnig, a'r un Cymreig, yr un, ar y cyfan, a'r testun gwreiddiol, adr. 113—134.

PENNOD II.

AR WIRIONEDD AC AWDURDOD YR YSGRYTHYR .. .. tud. 49
Dos. 1. Y mae yr Ysgrythyr yn hawlio ystyriaeth fel athraw ysbrydoledig, ac fel yr unig athraw ysbrydoledig, adr 135—145.
Dos. 2. Ysbrydoliaeth, adr. 146—150.
Dos. 3. Y Canon, adr. 151—166.
Dos. 4. Profion Ysgrythyrol, adr. 167—213.

PENNOD III.

NODWEDDAU NEILLDUOL Y BEIBL FEL DADGUDDIAD ODDIWRTH DDUW. tud. 84
Dos. 1. Dadguddiad o Dduw, o Grist, ac o'r natur ddynol. adr. 214—218.
Dos. 2. Dadguddiad o wirionedd crefyddol ysbrydol, adr. 219—227.
Dos. 3. Dadguddiad graddol a chynnyddol, adr. 228—238.
Dos. 4. Unoliaeth y Beibl, adr. 239—245.
Dos. 5. Nid dadguddiad trefnus o wirionedd neu reolau neillduol, adr. 246—253.

PENNOD IV.

AR DDEHONGLI YR YSGRYTHYRAU .. .. tud. 101
Dos. 1. Y pwys o fod yn ofalus wrth fyfyrio yr Ysgrythyr, adr. 254—269.
Dos. 2. Yr ysbryd yn mha un y dylid myfyrio y Beibl, adr. 270—273.
Dos. 3. Rheolau dehongliaeth, adr. 274—309.
Dos. 4. Defnyddioldeb a chymhwysiad rheolau dehongliaeth, adr. 310, 311.
Dos. 5.ª Cymhwysiad y rheolau yma at fyfyrdod o'r Ysgrythyrau gwreiddiol, adr. 312—338.
Dos. 6. Defnyddioldeb cynnorthwyon allanol mewn dehongliaeth; golygiadau Iuddewig a phaganaidd, hanesyddiaeth, gyffredin ac eglwysig; amseriaeth; hanesiaeth naturiol; arferion a defodau; daearyddiaeth, hanesiol ac anianyddol, adr. 339—404.
Dos. 7. Am gymhwysiad y rheolau yma er dehongli arallegau, dammegion, cysgodau, ac arwyddion, adr. 405—433.
Dos. 8.ª Am ddehongliaeth prophwydoliaeth, adr. 434—454.

PENNOD V.

Ar Fyfyrdod Rheolaidd ac Addysgiadol o'r Ysgrythyrau tud. 232
Dos. 1. Ar fyfyrdod o athrawiaethau yr Ysgrythyr, adr. 445—464.
Dos. 2. Ar fyfyrdod o orchymynion yr Ysgrythyr, adr. 465—472.
Dos. 3. Ar fyfyrdod o addewidion yr Ysgrythyr, adr. 473—480.
Dos. 4. Ar fyfyrdod o siamplau yr Ysgrythyr, adr. 481—487.

PENNOD VI.

Egwyddorion a Rheolau yn cael eu hegluro yn nyfyniadau y Testament Newydd o'r Hen, ac yn cael eu cymhwyso at ddad-ddyrysiad anhawsderau Ysgrythyrol .. .. tud. 249
Dos. 1.ª Dyfyniadau yn cael eu dosparthu a'u chwilio, gyda golwg ar gyflwr y testun, gwirioneddau a phrofion yr Ysgrythyr, yn nghyd ag egwyddorion dehongliaeth, adr. 489—500.
Dos. 2. Anhawsderau Ysgrythyrol, adr. 501—523.

PENNOD VII.

Ar Ddarlleniad Addysgiadol ac Ymarferol o'r Beibl .. tud. 270

RHAN II.

LLYFRAU Y BEIBL.

Arweiniad .. .. tud. 280

PENNOD I.

Pump-Llyfr Moses a Llyfr Job .. .. tud. 285
Dos. 1. Purdeb a gwirionedd y Pum-llyfr, adr. 7—13.
Dos. 2. Llyfr Job, adr. 14—17.
Dos. 3. Ar Farddoniaeth Hebreig a'r llyfrau barddonol, adr. 18.
Dos. 4. Pum-llyfr Moses yn cael eu trefnu a'u talfyru, gyda chynnorthwyon achlysurol, adr. 19—24.
Dos. 5. Amcan y gyfraith—crynodeb o'i sefydliadau crefyddol, adr. 25—31.

PENNOD II.

Llyfrau Hanesyddol a Barddonol hyd Farwolaeth Solomon tud. 318
Dos. 1. Llyfrau Hanesyddol yr Ysgrythyr yn gyffredinol, adr. 32—35.
Dos. 2. Braslun byr o'r llyfrau hanesyddol yma, adr. 36.
Dos. 3. Llyfrau Josua, Barnwyr, a Ruth, adr. 37—42.
Dos. 4. Llyfrau Samuel, Breninoedd, a'r Croniclau, adr. 43—51.
Dos. 5. Y llyfrau barddonol—y Salmau, Caniad Solomon, Diarebion, a'r Pregethwr, adr. 52—62.
Dos. 6. Y cyfan wedi ei drefnu a'i dalfyru, gyda chynnorthwyon achlysurol, adr. 63-68.

PENNOD III.

Llyfrau Hanesyddol a Phrophwydoliaethol o farwolaeth Solomon hyd ddiwedd Canon yr Hen Destament .. .. .. tud. 335
Dos. 1. Byr olygiad hanesyddol o'r tymmor hwn; y prophwydi mewn cyssylltiad ag Hanesyddiaeth, adr. 69—73.
Dos. 2. Natur prophwydoliaeth yn ystod y tymmor yma; prophwydoliaethau wedi eu trefnu yn ol yr amser a'r pynciau, adr. 74—76.
Dos. 3. Llyfrau Jonah, Joel, Amos, Hosea, Isaiah, Micah, Nahum, adr. 77—87.
Dos. 4. Llyfrau Sephaniah, Jeremiah, Habacuc, Daniel, Ezeciel, ac Obadiah. Y Caethiwed, adr. 88—94.
Dos. 5. Llyfrau Ezra, Haggai, Zechariah, Esther, Nehemiah, Malachi, adr. 95—102.
Dos. 6. Y cyfan wedi ei drefnu a'i dalfyru, adr. 103—106.
Dos. 7. Amseriaeth yr Ysgrythyr a banes foreuol gyffredin, o'r Diluw hyd ddiwedd y Canon, adr. 107.

PENNOD IV.

HANES WLADOL A MOESOL YR IUDDEWON O MALACHI HYD IOAN FEDYDDIWR tud. 413
Dos. 1. Braslun o hanes wladol yr Iuddewon yn ystod yr amser rhwng yr Hen Destament a'r Newydd, adr. 108—115.
Dos. 2. Braslun o hanes foesol a chrefyddol yr Iuddewon rhwng yr Hen Destament a'r Newydd, adr. 116—128.

PENNOD V.

YR EFENGYLAU .. .. tud. 425
RHAGARWEINIAD, adr. 129—134.
Dos. 1. Yr Efengylau yn eu perthynas â'u gilydd, adr. 135, 136.
Dos. 2. Purdeb yr Efengylau, adr. 137.
Dos. 3. Arweiniad i Matthew, Marc, Luc, Ioan, adr. 138—141.
Dos. 4. Amseriaeth yr Efengylau, adr. 142.
Dos. 5. Yr Efengylau yn cael eu cyssoni, adr. 143—150.
Dos. 6. Pynciau i sylwi arnynt wrth ddarllen yr Efengylau. Gwersi i'w casglu wrth gymharu adranau, adr. 151, 152.

PENNOD VI.

LLYFR YR ACTAU .. .. tud. 442
Dos. 1. Yr Efengyl a'r Cenedloedd, adr. 153—161.
Dos. 2. Arweiniad i Lyfr yr Actau, adr. 162, 163.
Dos. 3. Amseriaeth yr Actau a'r Epistolau ; trefn y cyfan, adr. 164—166.

PENNOD VII.

YR EPISTOLAU A LLYFR Y DADGUDDIAD .. .. tud. 483
Dos. 1. Ar fyfyrdod o'r Epistolau, adr. 167—169.
Dos. 2. Ar burdeb yr Epistolau, adr. 170.
Dos. 3. Cynnorthwyon i fyfyrio 1 a'r 2 Thessaloniaid, Galatiaid, 1 a'r 2 Corinthiaid, Rhufeiniaid, Iago, Ephesiaid, Colossiaid, Philemon, Philippiaid, Hebreaid, 1 Pedr, 1 Timotheus, Titus, 2 Pedr, 2 Timotheus, Judas, a'r gorchymynion a roddir yn mhob un, yn nghyd a thalfyriad o athrawiaethau, adr. 171—195
Dos. 4. Cynnorthwyon i fyfyrio 1, 2, a 3 Ioan, yn nghyd a Llyfr y Dadguddiad, adr. 196—204.

AGORIAD .. .. tud. 512

MYNEGAI .. .. tud. 554

GWALL.

Canfydda y darllenydd fod gwall wedi dygwydd yn rhifnodau y tudalenau o 511 hyd 545 : dylent fod 512, &c.

LLAW-LYFR Y BEIBL.

RHAN I.

ARWEINIAD.

"Defnyddiwyf yr Ysgrythyrau, nid yn unig fel ystordŷ i fyned iddo am arfau i ryfela, ... ond fel teml ysplenydd, lle yr ymhyfrydaf i edrych ar brydferthwch, cyfunedd, ac ardderchogrwydd yr adeilad; ac i gynhyrfu a chynnyddu fy mawrygiad a'm parch i'r Duw sydd yno yn cael ei bregethu a'i addoli."—Boyle: *Ar Ieithwedd yr Ysgrythyrau*, 3 *argraffiad, gwrth-ddadl* 8.

"Braidd y gallwn osod ein llygaid ar gymmaint ag un darn o'r llyfr rhyfeddol yma, nad ydyw wedi gweinyddu cysur neu addysg i filoedd, ac wedi cael ei gyfarfod gan ddagrau o alar edifeiriol neu o lawenydd diolchgar, wedi eu tynu o lygaid na wylant byth mwyach."—Payson: *Y Beibl uwchlaw pob Pris.*

"Y llusern hon, oddiar yr oesawl sedd,
Gymmerwyd gan Drugaredd. Sefyll wnaeth
Yn nghanol nos y byd, ac ar y gwyll
Taflai'i grasawl fwa, gan ddwys barhau
Trwy ddagrau heillt, ac ocheneidiau fyrdd,
I annog dyn i wrandaw, credu, a byw."—Pollok.

1. Y mae yr Ysgrythyrau santaidd, hyd y nod fel cyfansoddiad llênyddol, yn ffurfio y llyfr rhyfeddaf a welodd y byd erioed. O bob ysgrifeniadau hwynthwy yw yr henaf. Cynnwysant hanes y dygwyddiadau mwyaf dyddorawl a phwysig. Hanes eu dylanwad yw hanes gwareiddiad a dedwyddwch. Y goreu a'r gwaethaf o ddynion ydynt wedi dwyn tystiolaeth i'w heffeithioldeb fel moddion i oleuo a santeiddio; a chan eu bod wedi eu darparu gan "ddynion santaidd Duw, y rhai a lefarasant megys y cynhyrfwyd hwy gan yr Ysbryd Glân,"[a] i ddadguddio "yr unig wir Dduw, a'r hwn a anfonodd efe, Iesu Grist,"[b] y maent, ar y tir yma, yn meddu yr hawliau cryfaf i'n sylw mwyaf manwl a pharchus.

Y mae defnyddiad Llaw-lyfr i'r Beibl yn gofyn gocheliad neu ddau y dylai yr ysgrifenydd a'r darllenwyr beidio eu hannghofio.

2. Yn gyntaf, nid ydym i syllu ar yr adeilad gogoneddus yma o wirionedd yn unig fel edrychwyr. Nid ein gwaith ni yw sefyll o flaen y Beibl, a'i fawrygu; ond sefyll megys o'i fewn, fel y byddom i gredu ynddo ac ufyddhau iddo. Yn ffordd ufydd-dod a chymmundeb mewnol yn unig y canfyddir prydferthwch ei drysorau. Nid yw yn eu dadlenu i neb ond i'r gostyngedig a'r cariadus. Rhaid i ni fyned i mewn, ac ymgyssylltu â'r hyn a fynem ei wybod, cyn y gallwn ei adnabod ond mewn enw yn unig.[c]

3. Yn ail, ni ddylai myfyriaeth arweiniad i'r Ysgrythyr gael ei gymmeryd yn lle, na'i gymmysgu âg efrydiad o'r Ysgrythyr ei hunan. Gall y fath gynnorthwyon ein dysgu i edrych ar wirionedd fel ag i ganfod ei sefyllfa a'i agweddau; ond myned i mewn i'r gwirionedd yn unig sydd yn

[a] 2 Pedr 1, 21. [b] Ioan 17, 3; Sal. 19. [c] Diar. 2, 2—5; Ioan 7, 17.

rhoddi goleuni. Gall y ffordd yr ydym yn nghylch ei theithio brofi yn hyfryd ac yn brydferth; ond yn ei therfyn y mae ei swyn penaf. Arweinia at "ffynnonau iachawdwriaeth." Byddai meddwl y gwnelai y daith, neu olwg ar y dyfroedd bywiol, neu ar y lle y tarddant, ein disychedu, gynnwys yr hunan-dwyll mwyaf, a'r anwybodaeth dyguaf. Amcan mawr ein llafur yw rhoddi eglurhad a goleuni ar Lyfr Duw—"duw y llyfrau,"[a] fel y geilw un ef,—y Beibl ei hunan.

4. Yr enwau a ddynodant y gyfrol yma ydynt yn rai tra chynnwysfawr. Gelwir ef y BEIBL, neu y LLYFR, oddiwrth y gair Groeg *Biblos*, llyfr, enw a roddwyd ar y cyntaf (fel *liber* yn Lladin) ar risgl mewnol y palwyf (*linden, or teil-tree*), ac wedi hyny ar risgl y papyrfrwyn, y defnyddiau o ba rai yr oedd y llyfrau cyntefig weithiau yn cael eu gwneuthur.

Gelwir ef yr Hen Destament a'r Testament Newydd (hyny yw, cyfammod, neu bennodiad), y gair drwy ba un y gwelodd Duw yn dda osod allan y berthynas neu y cytundeb penodedig rhyngddo ef a'i bobl. Ar y cyntaf, cymhwysid y gair at y berthynas ei hunan,[b] ac wedi hyny at y llyfrau yn mha rai yr oedd cofnodau y berthynas yma yn gynnwysedig.

Yn mhlith yr Iuddewon, gelwid yr Hen Destament, "Y Gyfraith, y Prophwydi, a'r Ysgrifeniadau." Weithiau yr Ysgrifeniadau (neu, yn ol yr enw Groeg, *Yr Ysgrifeniadau Cyssegredig—Hagiographa*), a elwid, oddiwrth y llyfr cyntaf yn y ddosran, yn Salmau.[c]

Casglir oddiwrth hen awdurdodau Iuddewig pa lyfrau a gynnwysid yn y dosranau yma. Cyfrifa Josephus ddau ar hugain o lyfrau canonaidd yn yr Hen Destament, a gellir eu dosparthu oll yn y drefn ganlynol:—

Pum Llyfr Moses. *Torâh.* Y Gyfraith.

Y Prophwydi. *Nebiim.*

Y Dosparth Hanesyddol, *Nebiim Rishonim*, sef,—

1. Josua.	6. Daniel.
2. Barnwyr a Ruth.	7. Ezra a Nehemiah.
3. Samuel, 1 a'r 2.	8. Esther.
4. Breninoedd, 1 a'r 2.	9. Job.
5. Cronicl, 1 a'r 2.	

Y Prophwydi, a elwir yn briodol felly. *Nebiim Acharonim.*

10. Esay.	11. Jeremiah a'r Galarnad.
12. Ezeciel.	13. Y deuddeg Prophwydi bychain.

Yr Hagiographa, Cethubim, sef—

Y Salmau, y Diarebion, Caniadau Solomon, a'r Pregethwr.

Mewn copiau diweddar, gosodir y llyfrau canlynol hefyd yn yr Hagiographa:—Job, Ruth, Galarnad, Esther, Daniel, Ezra, Nehemiah, a dau lyfr y Cronicl. A dyma y drefn sydd yn bresenol mewn ymarferiad yn yr Ysgrythyrau Hebreig.

Y mae hefyd yr enwau, "Yr Ysgrythyr,"[d] "Yr Ysgrythyrau,"[e] a "Gair Duw,"[f] yn cael eu cymhwyso yn y Beibl ei hunan at y llyfrau santaidd, yn gystal a'r ymadrodd "Oraclau Duw."[g] Defnyddir yr ymadrodd olaf weithiau i ddynodi *y lle*, dan yr hen oruchwyliaeth, y cafodd ewyllys

[a] Y Synagog, Rhif. 14.

[b] Ex. 24, 7; 2 Bren. 23, 2; 2 Cor. 3, 6—14. *Diatheke*, mewn Groeg clasurol, yw trefniant neu ewyllys; mewn Groeg Helenaidd, y mae yn aml yn gyfystyr a *Suntheke*, eyfammod. Gen. 21, 27—32; 26, 28; 31, 44.

[c] Luc 24, 44. [d] Ioan 10, 35; Iago 4, 5. [e] Luc 24, 27.

[f] Luc 11, 28; Diar. 30, 5. [g] Act 7, 38; Rhuf. 3, 2; Heb. 5, 12.

Duw ei ddadguddio.[a] Y mae yr enwau, "Y Gyfraith,"[b] a'r "Prophwydi,"[c] bob un o honynt, ac weithiau y ddau yn nghyd,[d] yn cael eu harfer, drwy ddull-ymadrodd cyffredin, i osod allan yr oll o'r Hen Destament.

Gelwir yr ysgrifeniadau santaidd hefyd, weithiau, "Y *Canon* ysgrythyrol," oddiwrth air Groeg yn dynodi gwialen uniawn; wedi hyny, *rheol* neu *ddeddf*. Gal. 6, 16; Phil. 3, 16. Yn oes foreuol Cristionogaeth, arferid yr enw yma gyda gradd o anmhenodolrwydd, er ei fod yn gyffredin yn arwyddo safon barn ac ymarferiad. Fodd bynag, o amser Origen, cymhwysir ef at y llyfrau hyny a ystyrir gan Gristionogion o ddwyfol awdurdod. Y Beibl, gan hyny, yw y *canon*; hyny yw, safon awdurdodol crefydd a moesoldeb.

5. O'r holl enwau yma, fe allai mai "Gair Duw" yw y mwyaf cyflawn ac argraffiadol. Y mae yn ddigonol i gyfiawnhau ffydd y Cristion gwanaf, a chynnulla yn nghyd bob peth y gall yr ymchwiliad manylaf ei ddadlenu. Gallem lefaru yn helaethach am gynnwysiad yr enw yma; ond nis gallwn ddywedyd mwy nâ hyn,—Y mae yn ein dysgu i dderbyn y Beibl *fel lleferydd* doethineb a chariad dwyfol.

PENNOD I.

Ar Burdeb yr Ysgrythyrau: neu y Beibl fel yr ysgrifenwyd ef gan Ddynion Ysbrydoledig.

"Cadarnheir didwylledd ysgrifeniadau y ffydd Gristionogol gan brofion ydynt, mewn cyfartaledd, ddengwaith yn fwy amrywiol, helaeth, a phenderfynol, nag ellir ddwyn yn erbyn o blaid unrhyw hen ysgrifeniadau areill."—Isaac Taylor.

Dosran 1. *Purdeb (Genuineness) yn cael ei ddarnodi a'i brofi.*

6. Pe byddai ysgrif o bob llyfr o'r Beibl yn llawysgrifen yr awdwr yn awr ar gael, a phe gellid profi y ffaith o'i bod felly, byddai pob copi a gydunai â'r llawysgrifen hono yn berffaith. Er nad oes y fath ysgrifau o hen lyfrau yn awr i'w cael, etto y mae amgylchiadau yn dàl cyssylltiad â chadwraeth ac â throsglwyddiad llawysgrifau yr Ysgrythyrau a brofant eu purdeb gyda'r un faint braidd o sicrwydd a phe buasai y copïau cyntaf o hyd mewn bodoliaeth.

7. Dywedir fod llyfr yn *bur*, os bydd fel y cafodd ei ysgrifenu gan yr awdwr y mae yn dwyn ei enw: os bydd cynnwysiad y llyfr yn bresénol yn amrywio oddiwrth yr hyn a ysgrifenodd yr awdwr, dywedir ei fod yn *llygredig*; ac os na fydd y llyfr wedi ei ysgrifenu gan yr awdwr y priodolir ef iddo, dywedir ei fod yn *ffugiol* neu yn *dwyllodrus*.

8. Y mae dyfeisiad argraffu wedi gwneyd y pwnc o burdeb yr Ysgrythyrau yn llawer mwy syml. Penoda y gelfyddyd hon ddyddiadau (*dates*) llyfrau, a sierhâ y testun rhag cael ei lygru drwy luosogiad copïau ac argraffiadau. Gan nas gellir cyfnewid llyfrau argraffedig â'r pin, y mae

[a] 1 Bren. 8, 6; 2 Cron. 4 20; Sal. 28, 2.
[b] Mat. 5, 18; Ioan 10, 34; 1 Cor. 14, 21.
[c] Mat. 26, 56; Act. 3, 18, 21; 28, 33.
[d] Mat. 11, 13; 22, 40.

unrhyw gyfnewidiad o bwys yn y testun yn cael ei wneyd naill ai yn anmhosibl neu yn aneffeithiol. Llawysgrifau llyfrau argraffedig a gyflwynir, gan hyny, yn awr, heb ofni twyll, "i ofal anfarwol yr argraffwasg."

9. Er enghraifft, y mae yn awr ar gael gopïau argraffedig o'r Hen Destament yn Hebraeg, dyddiedig Soncino, o. c. 1488, a Brixiæ, o. c. 1494. Y mae copi o'r flwyddyn 1488 yn llyfrgell Coleg Exeter, Rhydychain; ac yn y llyfrgell Freniniol yn Berlin, y mae y copi (dyddiedig 1494) o'r hwn y gwnaeth Luther ei gyfieithiad Almaenaidd. Y mae ar gael hefyd gopïau o'r Testament Newydd, yn Groeg, dyddiedig Basil, 1516, golygiedig gan Erasmus, ac yn y Groeg a'r Lladin, dyddiedig Alcala, neu Complutum (yn Yspaen), 1514. Wrth gymharu y copïau hyn â'u gilydd, ac âg argraffiadau diweddar, ceir eu bod, ar y cyfan, yn cyduno. Y maent, gan hyny, ar unwaith yn profi bodoliaeth yr Ysgrythyrau yn y 15fed ganrif. Profant hefyd nad oes un anmhariad o bwys wedi cymmeryd lle yn nhestun argraffiadau diweddar yn ystod y 350 mlynedd olaf.

10. Y ddau argraffiad yma o'r Testament Newydd, y rhai ydynt wedi eu sefydlu ar ymchwiliad rhanol iawn o'r llawysgrifau, a ffurfiant sylfaen y testun awdurdodedig (Saesonaeg). Argraffwyd y copi yma gyntaf gan Elzevir, yn 1624. Heblaw y ddau argraffiad a nodir uchod, cafodd y fantais o chwilio argraffiadau Stephens (Paris, 1546), ac eiddo Beza (Gen. 1565), ond ni chyflwynodd o honynt lawer o ddarlleniadau pwysig.

11. Yr amser yr argraffwyd y cyfrolau yma, yr oedd copïau llawysgrifawl o'r Ysgrythyrau yn y rhan fwyaf o lyfrgelloedd cyhoeddus Ewrop. Y rhai hyn, yn nghyd âg ysgrifeniadau y Tadau, neu awdwyr eglwysig ereill o'r canol oesoedd, a ffurfiant sylwedd y rhan fwyaf o restrebau (*catalogues*) llyfrgelloedd y 15fed ganrif. Y Dr. Kennicott a gymharodd 630 o'r llawysgrifau yma wrth gyfansoddi ei sylwadau beirniadol ar y Beibl Hebreig. De Rossi a gymharodd 734 yn ychwaneg. Ac y mae dros 600 o lawysgrifau wedi cael eu harchwilio er dwyn allan argraffiadau diweddar o'r Testament Groeg.

12. Mewn perthynas i gyfansoddiadau clasurol Groeg a Rhufain, ystyrir ugain, neu ddeg llawysgrif yn llawn ddigon i ffurfio testun cywir. Pumtheg o lawysgrifau o Herodotus sydd yn adnabyddus i feirniaid, yr henaf o ba rai a berthyn i'r 10fed ganrif; ac y mae hyn yn gyfartaledd têg o'r hen lawysgrifau o'r awduron clasurol. Amlwg yw, gan hyny, fod y fantais, yn yr ystyr yma, yn ddirfawr o du yr Ysgrythyrau. Y mae y llawysgrifau yn cynnwys darpariaeth ddigonol er adferu y testun i'w burdeb gwreiddiol, ac, ar yr un pryd, yn rhoddi sicrwydd hollol rhag llygredigaethau helaeth.

13. Y llawysgrifau o'r Ysgrythyrau Hebreig, sydd yn awr ar gael, a ysgrifenwyd, gan mwyaf, rhwng y blynyddoedd o.c. 1000 ac o.c. 1457. Ond y mae rhai yn perthyn i'r 8fed a'r 9fed ganrif, yn mhlith y rhai y mae y ddwy lawysgrif oedd yn ddiweddar yn meddiant M. de Rossi, yr hwn a gyhoeddodd y darlleniadau amrywiol a gynnwysent. Y llawysgrifau o'r Testament Newydd, ac o'r *Deg a Thriugain* neu y cyfieithiad Groegaidd o'r Hen Destament, ydynt yn henach fyth. Y llawysgrif Alexandriaidd (codex Alexandrinus, a elwir yn A gan Wetstein, Griesbach, a beirniaid ereill), yr hon sydd yn bresenol yn yr Amgueddfa Frytanaidd, yn cynnwys, mewn pedair cyfrol, plyg bychan, yr Hen Destament a'r Newydd, sydd wedi ei hysgrifenu yn ddiau cyn diwedd y 5ed ganrif. Y mae llawysgrif y Vatican (a elwir B), yr hon a gedwir yn llyfrgell y Vatican yn Rhufain, yn perthyn i'r 4edd ganrif, fel y mae yn debyg fod y Codex Cottonianus (I), gweddillion yr hon ydynt yn bresenol yn yr Amgueddfa

Frytanaidd, tra mae darlleniadau amrywiol y cyfau ar gael yn ngweithiau yr Archesgob Usher. Y Codex Regius, neu Ephremi (C), a elwir felly oddiwrth yr awdwr, gweithiau yr hwn a ysgrifenwyd drosti, memrwn pa un a elwir *rescript*, neu "Ysgrifenedig ddwywaith," (yn Groeg, *palimpsest*, neu "rhwbiedig eilwaith,") a berthyna i'r 6ed ganrif. Perthyn y Codex Bez (D), yr hon a roddwyd gan y Diwygiwr Bezæ i Brif Athrofa Caergrawnt, yn ol barn Wetstein, i'r 5ed ganrif; a'r beirniaid a roddant iddi leiaf o henafiaeth a'i priodolant i'r 6ed neu y 7fed ganrif.

14. Y mae yn y Vatican lawysgrif o Virgil, yn honi henafiaeth mor bell yn ol a'r 4edd ganrif. Ond yn gyffredin y llawysgrifau clasurol a berthynant i'r tymmor rhwng y 10fed a'r 15ed ganrif. Mewn henafiaeth, gan hyny, yn gystal ag mewn rhifedi, y maent yn mhell islaw y llawysgrifau o'r Ysgrythyrau.

15. Fel yr ydym yn cyrhaedd amser y llawysgrifau boreuaf o'r Ysgrythyrau, y mae math arall o brawf, llawn mor ddylanwadol, yn ymgyflwyno i sylw; sef, y dyfyniadau o'r Ysgrythyrau, a'r cyfeiriadau atynt, a geir yn ysgrifeniadau y Tadau boreuol, ac yn yr alleiriadau Rabbinaidd. Er fod cyfeiriadau awduron clasurol y naill at y llall, yn ddigon i sefydlu henafiaeth y gweithiau y dyfynir o honynt, etto, nid yw y ddarpariaeth a ffurfiant tuag at ddiwygio testun pob un ond gwael ac anmherffaith iawn. Ni chynnwysant, yn gyffredin, ond math o ledgyfeiriad at ryw ffaith neu ddarn-ymadrodd. Hyd y nod pan yn fwy penodol, gwneir hwynt, yn gyffredin, mor ddiofal, fel nad yw eu gwerth beirniadol ond ychydig. Mewn dyfyniadau o'r Ysgrythyrau, y mae yn hollol wahanol. Gwneir hwynt, braidd bob amser, gyda'r gofal mwyaf; a rhoddir i lawr hyd y nod eiriau yr Ysgrifenwyr Santaidd, a ffurfiant bwnc o ymchwiliad helaeth, neu o ddysgeidiaeth ymarferol bwysig.

16. Wrth edrych yn gyntaf ar ddyfyniadau o'r Testament Newydd, cawn yn y 5ed ganrif ysgrifeniadau Theodoret, o Cyprus, yn Syria, ar Epistolau Paul, ac ar y rhan fwyaf o'r Hen Destament. Yn foreuach fyth, ysgrifenodd Cyril, o Alexandria, ar y Prophwydi, ac ar Ioan. Yn y 4edd ganrif, ysgrifenodd Chrysostom esboniadau ar yr oll o'r Testament Newydd. I'r un ganrif hefyd y perthyn ysgrifeniadau Gregory o Nyssa. Yn yr ail a'r drydedd ganrif, cawn ysgrifeniadau Origen a Theophilus o Antioch; darnau o bob un ydynt ar gael (yr ail yn Lladin yn unig), ac a ddyfynir yn aml gan ysgrifenwyr diweddarach. Cawn hefyd, yn yr 2il ganrif, ysgrifeniadau Irenæus, ac eiddo Clement, o Alexandria. Nid llai pwysig yw ysgrifeniadau Jerome, yr hwn, yn y 4edd ganrif, a ysgrifenodd esboniadau ar yr Ysgrythyr. I'r un ganrif hefyd y perthyn cyfansoddiadau lluosog Augustine. Nid yw y rhai hyn ond ychydig o awduron oes foreuol yr Eglwys Gristionogol. Cyflwynir dyfyniadau o'r Testament Newydd mewn dim llai nâ chant a phedwar ugain o ysgrifenwyr eglwysaidd (gweithiau y rhai ydynt yn awr ar gael); ac mor lluosog yw y rhai hyn, fel y gellid (meddir), allan o weithiau y rhai a flodeuasant cyn y 7fed ganrif, adferu holl destun y Testament Newydd, hyd y nod pe buasai yr ysgrifau gwreiddiol wedi eu colli. Gwnaeth y Dr. Bentley brawf o hyn, ac y mae yn cadarnhau cywirdeb y dywediad.

17. Ymchwiliad cyffelyb i'r testun Hebreig a'n caria yn ol i gyfnod ein Harglwydd. Y Targum, neu ddehongliad Onkelos, yr hwn a gyfieitha bum llyfr Moses i'r Hebraeg Caldeaidd (puraf), a ysgrifenwyd oddeutu 60 mlynedd cyn Crist. Ysgrifenwyd Targum Jonathan ar y Prophwydi a'r llyfrau hanesyddol ar ddechreuad y cyfnod Cristionogol. Yn y 4edd

ganrif, ysgrifenwyd Targum gan Joseph y Dall, ar yr *Hagiographa;* ac ychydig yn ddiweddarach, cyhoeddwyd amryw gyfansoddiadau cyffelyb ar ranau ereill o'r Ysgrythyr. Y Targumiau yma, deg mewn nifer, ydynt o werth mawr i benderfynu testun yr Ysgrythyr, gan eu bod, gan mwyaf, yn alleiriadau llythyrenol o'r Hebraeg gwreiddiol.

18. I gadarnhau y tystiolaethau yma o gywirdeb y Testament Newydd, ac i gario y prawf ar yr Hen Destament yn mhellach yn ol fyth, cawn yr hen gyfieithiadau o'r Ysgrythyrau. Yn y 9fed ganrif, cyhoeddwyd cyfieithiad o'r Beibl (o werth beirniadol mawr) i'r Slafonaeg, neu yr hen iaith Rwsiaidd. Yn y 6fed ganrif, cwblhäwyd cyfieithiad o'r holl Feibl i'r Georgiaeg. Yn y 5ed ganrif, gwnaed cyfieithiad i'r Armeniaeg, dan ofal Miesrob, dyfeisydd yr egwyddor Armenaidd; ac un arall i'r Gothaeg, dan Ulphilas. Yn y 3edd a'r 4edd ganrif, cyfieithiwyd yr oll o'r Testament Newydd, a rhanau o'r Hen Destament, i'r Coptaeg (neu y Memphïaeg), iaith yr Aifft Isaf—y Coptiaid oeddynt Gristionogion Aifftaidd; ac hefyd i'r Sahidaeg (neu y Thebaeg), iaith yr Aifft Uchaf. Yn y 4edd ganrif, gwnaed cyfieithiad i'r Ethiopaeg, yr iaith a leferid yn Ethiopia, gwlad Candace, ac a elwir Abyssinia. Gwnaed amryw o'r cyfieithiadau yma o'r Deg a Thriugain, rhai o'r Syriaeg, ac ychydig o'r Vulgate Lladin.

Y mae yn debygol fod y cyfieithiad Syriaidd o'r Ysgrythyrau Hebreig a Groegaidd, yr hwn a elwir *Peshito* (neu llythyrenol), yn perthyn i'r ganrif gyntaf. Yr oedd mewn ymarferiad cyffredin yn yr Eglwysi Syriaidd yn y flwyddyn 378, a dyfynid o hono y pryd hwnw gan Ephrem y Syriad, fel y cyfieithiad a dderbynid yn gyffredin, a'i fod mor hen, fel ag i alw am eglurìadau mynych. Y cyfieithiad gwir Philoxenaidd, neu Syriaeg Newydd, a berthyna i'r 6fed ganrif, a'r un Haracleanaidd (a elwir yn gyffredin Philoxenaidd), i'r 7fed ganrif. Y ddau gyfieithiad a gymmerant eu henwau oddiwrth y personau, dan nawdd y rhai y gwnaed hwynt. Gan fod y *Peshito*, fel yr arwydda ei enw, yn dra llythyrenol, y mae o werth mawr i benderfynu y testun gwreiddiol.

Ac nid yw y Vulgate ei hunan o bwys bychan yn y peth yma. Gwnaethwyd ef gan Jerome o gylch y flwyddyn 385. Rhan o hono, yn cynnwys y Testament Newydd, a gymmerodd o gyfieithiad Lladin henach, a elwid yr hen Italaeg, yr hwn a ddyfynir gan Tertullian yn y flwyddyn 220; ond cyfieithiodd y rhan fwyaf o hono ei hunan o'r Hen Destament gwreiddiol. Yn raddol, mabwysiadwyd y cyfieithiad yma gan yr Eglwys Ladinaidd, a hwn oedd y llyfr cyntaf erioed a argraffwyd. Y mae y testun yn bresenol yn dra llygredig.

Henach etto nâ'r rhan fwyaf o'r rhai hyn yw y cyfieithiadau o'r Hen Destament gan Symmachus, Aquila, Theodotion, a'r Deg a Thriugain. Yr oedd y cwbl yn llaw Origen yn y flwyddyn o.c. 228, a defnyddid hwynt ganddo wrth adolygu testun y Deg a Thriugain. Wedi hyny, efe a'u cyhoeddodd hwynt oll, yn nghyd a'r testun Hebreig, mewn llythyrenau Hebreig a Groeg, yn y gyfrol a elwid yn "Hexapla," neu y "Beibl chwechgolofnog." Cyfieithiad Aquila a wnaed oddeutu y flwyddyn 160, at wasanaeth yr Iuddewon Hellenaidd, a dyfynir o hono gan Justin Ferthyr (o. c. 160), a chan Irenæus (o. c. 176). Y mae yn gyfieithiad nodedig o llythyrenol, a darllenid ef gan yr Iuddewon yn eu synagogau. Ymddangosodd cyfieithiad Theodotion oddeutu yr un amser, a dyfynir o hono gan yr un awduron. Y mae cyfieithiad Symmachus o ddyddiad diweddarach, ac wedi ei wneuthur mewn iaith ystwyth ac eglur, heb fod yn gyfieithiad llythyrenol. Y tri testun yma ydynt yn awr wedi eu colli, ond eu ham-

rywiaethau pwysig ydynt ar gael yn nhestun chwech-golofnog y Deg a Thriugain, a gyhoeddwyd yn Mharis, yn 1713, gan Montfaucon.

Cyfieithiad y Deg a Thriugain (a elwir felly, ysgatfydd, oddiwrth y nifer o gyfieithwyr a dybir fod yn ei wneyd), yw yr henaf o'r cyfan. Derbynir ef gan Iuddewon a Christionogion, dyfynir o hono ya y Testament Newydd yn amlach nag o'r Hebraeg, ac yr oedd mewn arferiad yn gyffredin yn y Synagogau a'r Eglwysi Cristionogol cyntefig. Y cyfeiriad cyntaf ato sydd gan Aristobulus, yr hwn oedd yn byw yn yr ail ganrif cyn Crist. Dyddiad mwyaf tebygol ei orpheniad yw, oddeutu y flwyddyn c. c. 285, pan oedd Ptolemy Lagus a Ptolemy Philadelphus yn freninoedd ar yr Aifft.[a]

19. Dyna enghraifft o'r tystiolaethau drwy ba rai y profir fod y llyfrau, a elwid "yr Ysgrythyrau Santaidd," wedi eu hysgrifenu gan ddynion ysbrydoledig, yn bodoli, ac yn adnabyddus drwy y byd Rhufeinig ya y ganrif gyntaf o'r cyfnod Cristionogol (ac yn achos yr Hen Destament, ddwy ganrif cyn hyny), ac mai yr un yw testun y Beibl yn bresenol ag eiddo y llyfrau hyny.

20. Y mae y nodiadau yma i'w cymhwyso yn ddieithriad at lyfrau yr Hen Destament, ac at ugain allan o'r saith ar hugain yn y Testament Newydd. Yr ugain hyn ydynt, y pedair Efengyl, yr Actau, Epistolau Paul (oddieithr yr un at yr Hebreaid), ac Epistolau cyntaf Ioan a Phedr. Y llyfrau hyn a dderbynid yn gyffredinol fel rhai pur, ac am hyny gelwid hwynt Homologoumena (cydnabyddedig). Bu eglwysi neillduol am beth amser yn ammeu y saith ereill; ac, am hyny, gelwid hwynt Antilegomena (ammheuedig). Pa fodd bynag, ar ol ymchwiliad manwl a phwyllog, derbyniwyd hwynt fel rhai pur, ac yr oedd yr oediad yma yn dangos ar unwaith gyda'r fath ofal a manylwch yr oedd eu hawliau yn cael eu profi.

21. Er fod y ffeithiau yma yn benderfynol, etto nid ydynt yn rhoddi ond meddylddrych gwanaidd am nerth y prawf o burdeb yr ysgrythyrau. Y mae y llawysgrifau yn aneirif. Perthynant i bob oesau; a llawer o honynt ydynt yn hen iawn. Y maent wedi cael eu cadw am ganrifoedd, mewn gwahanol barthau o'r byd, dan ofal sectau gwrthwynebol, ac mewn amgylchiadau a wnelent gyfnewidion helaeth a phwysig yn anmhosibl. Edrychai eu meddianwyr ar y llawysgrifau yma fel y trysor gwerthfawrocaf, a phroffesent eu bod yn byw o dan ddylanwad y gwirioneddau cynnwysedig ynddynt. Cadwai copïwyr hwynt gyda'r gofal a'r parch mwyaf, gan gyfrif pob llythyren yn mhob llyfr, a chofresu pob dotyn yn y gyfraith.

Tra mae yr holl lyfrgelloedd yn Ewrop, a'r byd, a gynnwysent gopïau o'r Ysgrythyrau, wedi cael eu harchwilio, yr holl hen gyfieithiadau wedi cael eu manwl adolygu, llawysgrifau pob gwlad, o'r 3edd i'r 16eg ganrif, wedi eu gofalus gyd-gymharu, ac esboniadau y Tadau oll wedi cael eu holrhain drosodd a throsodd, nid oes dim wedi ei ddarganfod—dim cymmaint ag un darlleniad cyffredin, a all ddirymu un ran bwysig sydd hyd yma wedi ei derbyn fel yn bur. Mor eglur y dengys hyn fanylwch a mawredd y gofal dwyfol! Yn wir, y mae y penderfyniad nacäol hwn, nad yw ein Beibl ni yn cynnwys unrhyw wahaniaeth hanfodol oddiwrth Feibl yr Eglwys Gyntefig, yn ddigon o dâl ac o wobr am bob llafur ac amser sydd wedi eu cyssegru i'r ymchwiliad yma.

[a] Y mae Hody (ar awdurdod Clement ac Eusebius), Usher, Walton, Eichhorn, ac ereill, yn lled gydunol ya y dyddiad a briodolant iddo. Tybia rhai (De Wette yn mhlith ereill) iddo gael ei ysgrifenu gan wahanol awduron ar wahanol amseau; cydunir, er hyny, fod y cwbl o hono allan yn amser mab Sirach, c. c. 130.

22. Er mwyn rhoddi i'r darllenydd olygiad cywir o'r ymadrodd, nad ydyw ein Beibl ni yn gwahaniaethu yn *hanfodol* oddiwrth Feibl yr Eglwys Gyntefig, gallwn nodi beth a gynnwysir yn narlleniadau amrywiol y Testament Newydd.

Er enghraifft, yn yr Epistol at y RHUFEINIAID, yr hwn a gynnwysa 433 o adnodau, nid oes *(yn yr iaith Gymraeg—Cyf.)* ond tri o ymadroddion y byddai eu hystyr yn cael ei gyfnewid gan ddarlleniadau a ystyrir gan Griesbach yn bwysig:—

Yn pen. 11, 6, y mae yn gadael allan hanner ddiweddaf yr adnod.
Yn pen. 12, 11, darllena "amser" am "Arglwydd;" *air* am *uri*.
Yn pen. 16, 5, darllena "blaenffrwyth Asia" am "Achaia."

Y rhai hyn yw yr unig welliadau a effeithiant y synwyr, ac y maent oll yn ddibwys. I'w gwneuthur hwynt efe a chwiliodd yr holl brif lawysgrifau, heblaw 110 o rai ereill, a 30 o Fynydd Athos, wedi eu cymharu gan Matthæi, yr hwn i'r perwyl yma a deithiodd ran fawr o Rwsia ac Asia.

Yn y Galatiaid nid yw y gwellianau pwysig ond tri yn unig:

Yn pen. 4, 17, am "*eich cau chwi*," yn y rhan olaf, darllena "*ein cau ni*;" cyfnewidiad yn y gwreiddiol o un lythyren yn unig.
Yn pen. 4, 26, gadawa allan y gair "*oll*."
Yn pen. 5, 19, gadawa allan y gair "*tor-priodas*."

Nid yw y gwellianau yma yn gwahaniaethu dim ar yr ystyr.

Yn y 7959 o adnodau sydd yn y Testament Newydd, nid oes mwy nâ deg neu ddeuddeg o ddarlleniadau amrywiol o bwys mawr, ac nid yw y rhai hyn yn effeithio ar athrawiaethau yr Ysgrythyr, ond yn unig ar rifedi y prawf-ranau yn mha rai y mae yr athrawiaethau hyn yn cael eu dadguddio.

Y gwahanol ddarlleniadau pwysig a gydnabyddir gan Griesbach yw y rhai canlynol:—

Yn Actau 8, 37, y mae yn gadael yr adnod allan.
Yn Actau 9, 6, y mae yn gadael allan y rhan flaenaf o'r adnod.
Yn Actau 20, 28, am "eglwys Dduw," darllena "eglwys yr Arglwydd;" cyfnewidiad yn ymddibynu ar un lythyren—K am Th.
Yn Phil. 4, 13, yn lle "trwy *Grist*," darllena "trwy yr *hwn*."
Yn 1 Tim. 3, 16, yn lle "*Duw* a ymddangosodd," darllena "*yr hwn* a ymddangosodd;" gwahaniaeth yn ymgyfodi oddiwrth y dybiaeth fod dotyn wedi ei adael allan o un o'r ddwy lythyren yn y gair—*O* am *Th*.
Yn Ioan 1, 5, 7, 8, y mae yn gadael allan y geiriau o "yn y nef" hyd "ar y ddaear."
Yn Judas 4, y mae yn gadael allan "*Dduw*" yn niwedd yr adnod.
Yn Dad. 8, 13, am "angel" darllena "eryr."

Y mae y diwygiadau hyn oll, oddieithr Actau 20, 28, a 1 Tim. 3, 16, yn cael eu cadarnhau gan Scholz a Hahn. Yn y ddwy adnod uchod y mae y ddau ysgrifenydd yma yn cyduno â'r testun cyffredin, yr hyn hefyd a wnant yn llawer amlach nâ Griesbach mewn darlleniadau dibwys ereill.

Amryw o ddarlleniadau Griesbach, er nad ydynt yn dduwinyddol bwysig, a symudant anhawsderau o'r testun presenol.

23. Y mae ymchwilydd manwl wedi nodi 1314 o ddarlleniadau amrywiol o werth yn yr Hen Destament. O'r rhai hyn, mabwysiadir 566 yn y

cyfieithiad Seisnig; 147 o'r cyfan sydd yn effeithio ar y synwyr, ond nis gellir ystyried un o honynt fel o bwys duwinyddol: yn gyffredin y maent yn perffeithio y synwyr, neu yn diwygio dyddiad. Gwel Codex Criticus, gan Hamilton, Llundain, 1821.

24. Y mae ysgrifeniadau Terence (chwech darn yn unig) yn cynnwys 30,000 o amrywiaethau, ac nid ydynt wedi eu hadysgrifenu mor aml a'r Testament Newydd. Gallwn yn ddibryder, gan hyny, fabwysiadu geiriau Bengel, yr hwn, ar ol ymchwiliad llafurus i'r pethau hyn, a ysgrifenai at Reuss, ei ddysgybl, "Bwyta fara yr Ysgrythyr mewn symlrwydd, fel y mae wedi ei roddi i ti, ac na chymmer dy gythryblu os cyfarfyddi yma a thraw âg ambell i dywodyn wedi dyfod drwy y felin. Pe na byddai yr Ysgrythyrau Santaidd, y rhai sydd wedi eu hadysgrifenu gynnifer o weithiau, yn cynnwys amrywiaethau, byddai hyny yn wyrth mor fawr fel na fyddai ffydd ynddynt mwyach yn ffydd. O'r tu arall, synir fi na byddai mwy o ddarlleniadau amrywiol wedi canlyn yr holl adysgrifeniadau yma."[a]

Ond y mae llawer o ymadroddion eisoes wedi eu defnyddio sydd yn gofyn eglurhad. Ac os yw eu hystyr yn eglur, y mae llawer etto i'w ddywedyd mewn cyssylltiad â hwynt, cyn y byddo y darllenydd wedi ei gyflawn ddarparu i ddeall yr oll a gynnwysant. Nis gellir, yn wir, ammeu y penderfyniad *cyffredin*, fod y Beibl, ar y cyfan, fel y gadawwyd ef gan yr ysgrifenwyr ysbrydoledig; ond y mae y myfyriwr Beiblaidd yn aml yn sefyll mewn angen o ddefnyddiau i wneyd ymchwiliadau manylach. Awn yn mlaen, gan hyny, i roddi byr-hanes pellach o ieithoedd gwreiddiol y gyfrol santaidd—yr Hebraeg a'r Groeg Hellenaidd—y llawysgrifau, y cyfieithiadau, a'r darlleniadau amrywiol o'r testun cyssegredig

[b]Dos. 2. *Ieithoedd Gwreiddiol yr Ysgrythyr—yr Hebraeg, a'r Ieithoedd Shemiaidd yn gyffredin.*

25. Yr iaith Hebraeg, yn yr hon yr ysgrifenwyd yn agos yr oll o'r Hen Destament, oedd iaith yr Hebreaid, neu yr Israeliaid, yn amser eu hannibyniaeth. Adnabyddid hwynt gan y cenedloedd ereill wrth yr enwau Hebreaid, neu Iuddewon, ac nid wrth yr enw Israeliaid. Ond ni elwid eu hiaith yn Hebraeg hyd ddyddiau mab Sirach (c. c. 130). Y mae yn dygwydd gyntaf yn yr Apocrypha, lle y golyga yr Aramæaeg, neu yr Aramæaeg-Syriaidd. Hyn hefyd yw ystyr yr enw yn y Testament Newydd. Ymddengys mai Josephus oedd y cyntaf a gymhwysodd yr enw "iaith Hebraeg" *(Glôssa tôn Ebraiôn)* at hen iaith yr Iuddewon, ac at hon y mae yr ymadrodd yn cyfeirio bob tro y cyfarfyddir âg ef yn ei ysgrifeniadau. Y Targumiau a alwant yr Hebraeg "yn iaith santaidd," ac yn yr Hen Destament gelwir hi yn iaith Canaan, neu yn iaith yr Iuddewon. Esay 19, 18: 36, 13.

26. Addefir yn gyffredin mai yr Hebraeg oedd yr iaith gynnefin yn Nghanaan a Phœnicia. Profir hyny gan amryw fleithiau,—

(1.) Yr enwau Canaanëaidd ar bersonau a lleoedd a nodir yn yr Ysgrythyr ydynt Hebraeg pur, megys Abimelech, Melchisedec, Salem, &c.

(2.) Y darnau o'r ieithoedd Phœniciaidd a Charthaginiaidd sydd o hyd i'w cael ar fathonau a chreifftiau, cadwedig mewn ysgrifeniadau Rhufeinig a Groegaidd, ydynt Hebraeg. Tystia Augustine a Jerome fod y Carthaginëaeg lafaredig yn eu hamser hwy wedi ei gwneyd i fyny, yn benaf, o

[a] Dyfynedig gan Gaussen yn ei "Theopneustia." [b] Gwel Rhagymadrodd.

eiriau Hebreig; ac y mae profion fod Carthage wedi ei sylfaenu gan Phœniciaid, y rhai a adawsant Ganaan cyn y gallasai yr Iuddewon fod wedi bod yn hir yn y wlad.

(3). Hefyd, y mae yn hynod fod yr Ysgrythyrau yn ddystaw o barthed unrhyw wahaniaeth rhwng iaith y Canaaneaid ac eiddo yr Iuddewon, os oedd gwahaniaeth yn bodoli. Preswylient yr un tir, ac etto ni ddywedir fod unrhyw amrywiaeth iaith rhyngddynt, tra mae y gwahaniaeth rhwng iaith yr Hebrewr a'r Aifftiwr (Sal. 81, 5; 114, 1); ac hyd y nod y gwahaniaeth rhwng yr Hebraeg a'r ieithoedd a berthynent iddi, megys yr Aramæaeg a lefarid gan yr Assyriaid (Esay 36, 11), a'r Aramæaeg Ddwyreiniol, a lefarid gan y Caldeaid (Jer. 5, 15), yn cael ei nodi. Gellir ychwanegu ei bod yn debyg fod Hebraeg amser Abraham yn perthyn yn agos i'r iaith wreiddiol, os nad hono ydoedd. Sefydlir y dybiaeth yma, yn benaf, ar yr enwau priodol yn y pennodau blaenaf yn Genesis. Yr holl enwau hyn ydynt, yn yr Hebraeg, yn llawn o ystyr, ac yn yr iaith hono, y mae yr ystyr, bob amser, yn egluro y rheswm dros roddiad yr enw. Gwel Arweiniad Hävernick i'r Hen Destament, tud. 134; gwel hefyd Cofad. Phœnicia, gan Gesenius.

27. Y mae yr Hebraeg, neu fel y gellir ei galw, y Phœniciaeg ddiweddar, yn perthyn i deulu yr ieithoedd Shemiaidd; ac y mae, mewn ffurf a sylwedd, yn dwyn perthynas agos iawn âg aelodau ereill y teulu hwnw. Yr aelodau ereill hyny yw y rhai canlynol.

28. Yr Aramæaeg. Nid oes genym olion o'r hen Aramæaeg, fel y llefarid hi pan oedd yr Hebraeg yn iaith fyw. Ond, yn agos i Palmyra, yr ydys wedi darganfod creifftiau yn yr iaith hon, a gawsant eu hysgrifenu oddeutu dechreuad y cyfnod Cristionogol. Arferid yr iaith hon yn Syria a Mesopotamia. Gwel, Gen. 31, 47, a Jer. 10, 11.

29. O'r gwreiddyn cyffredin yma y tyfodd y Caldëaeg, neu yr Aramæaeg Ddwyreiniol, a lefarid yn Nghaldea a Babilon; a'r Aramæaeg Syriaidd, neu orllewinol, a lefarid yn mharthau gogleddol Mesopotamia a Syria; ac, fe allai, yr Hebraeg ei hunan. Ni adwaenir y Galdëaeg ond yn unig oddiwrth gofebau Iuddewig, yr Ysgrythyrau, a'r Targumiau. Ieithwedd bur Onkelos a elwir y dafodiaith Fabilonaidd, i'w gwahaniaethu oddiwrth iaith y Targumiau diweddarach, yr hon a elwid, tafodiaith Jerusalem neu Palestina, a'r hon, mewn gwirionedd, sydd gymmysgedd o'r Hebraeg a'r Aramæaeg neu y Syriaeg. Yr hyn a elwir yn awr yn Syriaeg, Aramæaeg newydd ydyw, fel y cafodd ei ffurfio a'i llefaru gan Gristionogion Emessa a'i chymmydogaethau. Cynnyrchodd yr iaith yma yn fore lênyddiaeth gyfoethog mewn hanesiaeth eglwysig a duwinyddiaeth, a pharha yn iaith eglwysig y Cristionogion Syriaidd. Y Caldëaeg yw iaith rhanau o Ezra a Daniel;[a] a'r Syriaeg oedd iaith yr Iuddewon yn nyddiau ein Harglwydd.

30. Cymmysgedd o'r Hebraeg a'r Armæaeg orllewinol yw y Samariaeg. Nid yw yr holl fater eglwysig yn yr iaith hon yn cynnwys ond Pum Llyfr Moses (*Samaritan Pentateuch*), yn nghyd a rhai caniadau adolygiedig gan Gesenius (Leipsic, 1824), allan o lawysgrifau yn yr Amgueddfa Frytanaidd.[b]

31. O'r holl ieithoedd a enwwyd hyd yma, yr Arabaeg sydd yn cyn-

[a] Eza 4, 8; 6, 18; 7, 12—26; Dan. 2, 4; 7, 28.

[b] Y mae yn Rhydychain lyfr a elwir "Liturgia Damascena" yn Samariaeg, allan o ba un y mae Gesenius wedi rhoddi golwg gryno ar y dduwinyddiaeth Samariaidd. *De Sam. Theol., Halle*, 1822.

nwys y llênyddiaeth ddiweddar gyfoethocaf o lawer; a hon, yn nesaf at yr Hebraeg, yw y pwysicaf o'r holl ieithoedd Shemiaidd. Llefarir hi o hyd mewn rhan fawr o Asia, a dosparth o Affrica. Ei dwy brif dafodiaith yw yr Himyariaeg, a lefarid gynt yn Yemen, ond sydd yn awr wedi diflanu, a'r Coreiaeg, a lefarid yn mharthau gogledd-orllewin Arabia, yn enwedig yn Mecca. Yr oedd hon yn iaith arferedig yn mhell cyn amser Mahomet, a hon yw tafodiaith gyffredin y bobl yn bresenol. Gwahaniaetha yr hen Arabaeg oddiwrth yr iaith hon yn ei ffurfiau, y rhai ydynt yn fwy amrywiol, ac yn ei sylwedd, yr hwn sydd yn fwy cynnwysfawr.

32. Trefedigaeth o Arabiaid, yn llefaru yr Himyariaeg, a sefydlasant yn fore y tu hwnt i'r Môr Coch, yn Ethiopia, a chyflwynasant eu hiaith i'r wlad hono. Yr iaith hon, wedi ei chyfnewid gan amser ac amgylchiadau, yw yr hen Ethiopaeg, yr hon sydd yn perthyn yn agos i'r Arabaeg. Y parth y llefarid hi ynddo yw Abyssinia; ac Amharaeg, neu Geezaeg, yw iaith bresenol y trigolion.

33. Y mae yr holl ieithoedd yma o werth mawr i arwain efrydydd yr Hen Destament i wybodaeth gywir o'r iaith wreiddiol; ac nis gellir ystyried un geiriadur Hebreig fel awdurdod ddigonol, heb ei fod wedi ei gasglu gyda chyfeiriad parhaus at ystyr gwreiddiau geiriau Hebreig yn yr ieithoedd cydberthynasol. Ar wybodaeth a defnydd o'r ieithoedd hyn yr ymddibyna rhagoriaeth geirlyfrwyr diweddar yn benaf.

Gellir dosparthu hanes yr Hebraeg i dri chyfnod, a pherthyn nodweddau neillduol o ran dull a geirweddiad i bob un o honynt.

34. (1.) Cynnwys y cyntaf yr iaith fel y llefarid hi yn nyddiau Moses, ac fel ei defnyddid ganddo ef yn ei Bum Llyfr. Y mae y llyfrau hyn yn cynnwys ffurfiau cyfansoddol ac ymadroddol, nad ydynt i'w cael yn un man arall. Y mae geiriau yn cael eu cyflwyno yr ymddengys eu bod yn fuan ar ol hyn wedi myned allan o ymarferiad, neu fod yr ystyrion yn mha rai y defnyddid hwy wedi eu colli. Y mae gwybodaeth o'r arferiad neillduol yma o bwys weithiau, er mwyn profi henafiaeth y llyfrau, a phrydiau ereill fel agoriad i fyned i mewn i feddwl rhanau arbenig o honynt.

(2.) Y mae cyfnewidiad eglur i'w ganfod ar ol amser Moses. Dygir i mewn eiriau newyddion, ac ymddengys fel pe bai yr hen rai wedi eu hannghofio. Dygir ffurfiau ymadroddol newyddion i arferiad cyffredin, a'r rhai a geir yn Mhum Llyfr Moses yn myned yn raddol allan o arferiad; ac fel hyn y parha pethau hyd amser Dafydd, yr hwn a ysgrifenai mewn iaith goeth a delaid dros ben. I'r cyfnod yma y perthyn ysgrifeniadau Solomon, Llyfrau y Barnwyr, Samuel, a Ruth. Y phrophwydi henaf, Jonah, Amos, a Hosea, ydynt yn ysgrifenu mewn ieithwedd fwy syml ac afrywieg nag a geir yn eu canlynwyr uniongyrchol; er hyny, y mae yr iaith yn bur. Esay, Micah, Nahum, Habaccuc, ac Obadiah, ydynt yn nodedig am brydferthwch eu hieithwedd; ac, yn y cyffredin, y mae yr Hebraeg yn bur; er y ceir mewn rhai o honynt, megys yn Micah, a rhan o Esay, ffurfiau ymadroddol (Aramæaeg yn benaf), ag sydd yn dynodi presenoldeb elfen estronol. Yr holl ysgrifenwyr yma, fodd bynag, a berthynant i gyfnod euraidd yr iaith Hebraeg.

(3.) Y mae Sephaniah (cydoesydd Josiah), Jeremiah, Daniel, ac Eseciel, yn perthyn i'r trydydd cyfnod, ac y maent oll yn arddangos dylanwad cyfathrach âg estroniaid; fel hefyd y gwna yr ysgrifeniadau a ymddangosasant yn ystod, neu yn union ar ol, y caethiwed. Ezra, Esther, a Nehemiah: yr holl ysgrifenwyr yma a ddefnyddiant eiriau ac ymadroddion nad oeddynt yn adnabyddus yn sefyllfa foreuol a phuraf yr Hebraeg. Y

prophwydi diweddaraf etto—Haggai, Sechariah, a Malachi, a ysgrifenant mewn ieithwedd burach, o herwydd, yn benaf, fod yr Hebraeg, yn ystod y caethiwed, wedi dyfod yn iaith ysgrifenedig, yn hytrach nâ bod yn iaith lafaredig. Gan eu bod yn ysgrifenu eu prophwydoliaethau, yr oedd llai o angen arnynt ddefnyddio ffurfiau ymadroddol cydymddyddanion cyffredin. Efallai mai rhan o waith y prophwydi oedd egluro eu prophwydoliaethau.[a]

35. Gellir dywedyd am Hebraeg yr holl gyfnodau hyn, nad oes iddi ond ychydig wreiddiau, fel y mae i eiriau, yn aml, ystyrion ailraddol neu gyffelybiaethol (*secondary or analogical*). Llawer o ymadroddion, gan hyny, a seiniant yn ddyeithr i'n clustiau ni, ac y mae rhai yn agored i egluriadau mympwyol.

36. Y ffeithiau yma a brofant henafiaeth, yn nghyd a chyfansoddiad graddol yr Ysgrythyrau. Dangosant hefyd y pwysigrwydd o benderfynu yr ystyr a briodolid i eiriau ar yr amser y defnyddid hwy gan bob ysgrifenydd, cyn chwilio eu hystyr mewn amseroedd diweddarach neu foreuach.

Helleniaith, neu Roeg-Hebreig y Testament Newydd, a'r Deg a Thriugain.

37. Cymmerodd dadl nodedig le yn yr 16eg ganrif. Dygwyddodd i Erasmus ac L. Valla haeru fod Groeg y Testament Newydd wedi ei llygru â Hebraeg mewn geiriau ac mewn ieithwedd, a gwrthwynebwyd hwynt gan H. Stephens, gyda thanbeidrwydd mawr. Yn ei ragymadrodd i'r Testament Newydd (o.c. 1576), cymmerodd arno brofi fod Groeg yr Ysgrifenwyr ysbrydoledig yn bur ac yn ieithweddol. Tarddodd dadl faith allan o'r haeriadau yma. Gelwid y naill blaid yn Buriaid, a'r llall yn Helleniaid neu Hebreigwyr. Ystyrid y pwnc yn bwysig ar amryw ystyriaethau:

[a] Ychydig o enghreifftiau a eglurant y brawddegau uchod:

"A gasglwydd at ei bobl," sydd ymadrodd yn perthyn yn neillduol i Bum Llyfr Moses, ac yn golygu "marw." "Huno gyda'i dadau" sydd ymadrodd cyffredin mewn llyfrau diweddarach. Yn llyfrau Moses, cymhwysir y gair "pobl" bob amser at yr Iuddewon. Y mae iddo ystyr helaethach yn y prophwydi, Hos. 9, 1; Esay 11, 10. Yr ymadrodd, "Cyfod, O Arglwydd," ar y cyntaf a ddefnyddid fel gweddi, i ddymuno am y presenoldeb Dwyfol wrth godi i fyny a chario yr arch. Yn y Salmau golyga yn aml, adgyfnerthiad a chymhorth.

Yn Mhum Llyfr Moses, y mae llawer o eiriau a ffurfiau neillduol, y rhai, fodd bynag, a gyfieithir fel geiriau cyffredin. *Mîn* am rywogaeth, *Qobab* am *Naqab*, melldithio, *Recush* am feddiant, *Shêsh*, lliain main, am *Buts*, y gair diweddaf, Ex. 26, 1; 1 Cron. 15, 27. Gwel hefyd Gen. 15, 9; Deut. 32, 11 (*Gôzel* am *Ben*), Ex. 2, 20, &c. Y mae Jahn wedi cyfrif dros ddau cant o'r cyfryw ymadroddion yn Mhum Llyfr Moses. Y geiriau estronol oll ydynt Aifftaidd, Gen. 41, 2, 18 (*Achû*); 41, 45, lle y gelwir Joseph yn "geidwad y byd" (Jerome). Gwel gweithiau Jablonski, I, 45, 374; II, 160, a Scholia Rosenmüller ar yr Hen Destament, I, 30, 32.

Felly hefyd mewn llyfrau ereill. Y mae gan Job amryw hynodion gramadegol a neillduolion ereill, 3, 2 (*p.pual Chora*), 4, 12; 26, 14 (*Sisial*), 4, 18 (gwrandawwr), 5, 26; 30, 2 (oes), 5, 2; 17, 7 (digllonedd). Sylwai Jerome, a phrofodd Schultens, fod iaith Job yn nodedig o gyfoethog mewn ymadroddion Syriaidd ac Aramæaidd, 4, 2; 39, 9; 16, 19.

Am eiriau ac ymadroddion a berthynant yn neillduol i ysgrifenwyr diweddarach, gwel 1 Cron, 21, 23 (*Morinim*), 1 Cron. 2, 13 (*Ishai*), Esther 4, 11 (*Sharbit*), 1 Cron. 18, 5, 6; etto 10, 12 (*Gupha* am *Gevyè*), 2 Cron. 11, 21 (*Isha-Nasha*, am *Laqach*, Gen. 4, 19). Am eiriau Persiaidd, gwel Nahum 3, 17, cadben, neu *satrap*. Esther 3, 9; Ezra 5, 17, trysorau—*Gaz*; oddiwrth ba un y deillia *Gaza*. Am eiriau Assyriaidd, gweler enwau priodol, Nebu—y blaned Mercher; Merodach—y blaned Mawrth. Nid yw yn angenrheidiol dyfynu geiriau Caldëaidd.

Gweler "Arweiniad Hävernick," §§ 31—35.

(1.) Yr oedd y pwnc yn cynnwys cwestiynau mewn duwinyddiaeth; oblegid, gofynid, os oedd ysgrifenwyr y Beibl yn ysbrydoledig, oni ddylasent ysgrifenu mewn Groeg bur? A ellai dynion ysbrydoledig, fel y cyfryw, wneuthur dim yn anmherffaith?

(2.) Ar y llaw arall, ystyrid ef yn bwysig fel pwnc o brawf; oblegid os yw Groeg y Testament Newydd yn Hebreig, profa y ffaith hon iddo gael ei ysgrifenu gan Iuddewon, ac, mae yn debygol, yn Judea.

(3.) Caniatëir yn gyffredin ei fod yn cynnwys rheol bwysig mewn dehongliad; oblegid, os oes neillduolrwydd yn perthyn i dafodiaith y Testament Newydd, nid yw myfyrio yr iaith gyffredin *(ê koinê)*, yn ddigonol er dehongli yr Ysgrythyrau. Dadleuid fod Groeg y Testament Newydd a'r Deg a Thriugain, yn debyg o fod yn meddiannu rheolau ac egwyddorion o'r eiddynt eu hunain.

38. Ymddangosai y ddwy blaid, yn ngwres y ddadl, fel wedi annghofio nad ydoedd ond pwnc o ffeithiau yn unig, ac nas gellid ei benderfynu drwy ystyriaethau cyffelyb i'r rhai uchod. Fod Groeg y Testament Newydd yn Hellenig sydd wirionedd, ac yn wirionedd, wedi iddo unwaith gael ei ganfod, sydd yn awgrymu gwersi pwysig. Y mae yn amlwg nad ydyw perffeithrwydd cyfansoddiad ysbrydoledig yn gynnwysedig mewn purdeb clasurol, yn gymmaint ag mewn eglurder ac addasrwydd i'w amcan priodol. Eglur yw i Roeg yr Ysgrythyr gael ei hysgrifenu gan Helleniaid; hyny yw, Iuddewon yn llefaru Groeg, dull pa rai o feddwl oedd wedi ei ffurfio ar seiliau Hebreig. Gwasanaetha hyn fel prawf cadarn o wirionedd eu hysgrifeniadau, ac hefyd fel rheol addysgiadol mewn dirnadiaeth. Eglur yw mai prif ffynnonell dirnadiaeth Feiblaidd yw y Beibl ei hunan; a rhaid i ni gasglu oddiwrtho, can belled ag y mae yn bosibl, feddwl ac ystyr ei ymadroddion. Y rhai hyn oll ydynt wersi pwysig; ond cyn y gellir eu cymhwyso gyda diogelwch, rhaid yn gyntaf sefydlu y ffaith ar yr hon y maent yn sylfaenedig, canys ni ellir mewn un modd eu cymmeryd hwynt yn brawf o'r ffaith ei hunan.

39. Yr iaith Roeg ei hunan sydd gymmysgedd o dafodieithoedd. Yr oedd yr Helleniaid, neu y Groegiaid, ar y cyntaf, yn gynnwysedig o amrywiol lwythau, dau o ba rai, sef y Doriaid a'r Ioniaid, oeddynt benaf. Y dafodiaith Doriaidd yw y gyntaf mewn amser ac mewn dylanwad. Un erwin lydan-sain ydyw. Yn mhlith ei phrif ysgrifenwyr, y mae Pindar, Sappho, Theocritus, a Bion. Y dafodiaith Ionaidd yw yr ail mewn amser. Y mae yn lefn a thyner. Llefarid hi ar y cyntaf yn Attica, ac wedi hyny, fel yr ymfudai yr Ioniaid i Asia Leiaf, daeth yn iaith y diriogaeth hono. Yn mhlith ei hawdwyr y mae Herodotus ac Anacreon.

Yr Atticaeg a ffurfiwyd ar ol i'r Ioniaid adael Attica, ac mewn ansawdd, meddianna le canol rhwng yr Ionaeg a'r Doriaeg. Y prif awduron a ysgrifenasant yn y dafodiaith yma ydynt, Thucidydes, Plato, Xenophon, Demosthenes, Æschylus, Sophocles, Euripides, ac Aristophanes.

Wedi i ryddid Groeg gael ei ddinystrio gan Philip o Macedon, cymmysgwyd y tafodieithoedd yma, a ffurfiwyd yr Hellenaeg, neu y dafodiaith gyffredin, sylfaen yr hon yw yr Atticaeg. Ar farwolaeth Alexander, meddiannai trigolion Macedon ac Alexandria y lle blaenaf mewn llenyddiaeth, yn gystal ag mewn gallu; ac oddiwrth eu dylanwad hwy daeth yr ieithweddau Macedonaidd ac Alexandriaidd yn gyffredin yn nhir Groeg, ac yn enwedig yn yr Aifft a'r Dwyrain.

Yr oedd llawer o Iuddewon yn byw yn Alexandria. Yno y gwnaed cyfieithiad y Deg a Thriugain, a chan mai Iuddewon oedd ei ysgrifen-

wyr, cafodd y Groeg Alexandriaidd, a lefarid ganddynt, ei thymheru yn y fath fodd ag i gynnwys meddyliau a ieithweddau yr Hebraeg. A hon yw iaith y Testament Newydd. Hellenaeg, neu, yn fwy priodol, Groeg-Hebrëig, ydyw: y Roeg ddiweddar; hyny yw, Atticaeg yn benaf, yn nghyd a chymmysgedd o dafodieithoedd ereill, a'r cwbl wedi ei ddullweddu gan Iuddewon preswyliedig yn Alexandria a Phalestina. O herwydd hyn, ceir ynddo eiriau o ieithoedd estronol, Aramæaeg, Lladin, Persiaeg, ac Aifftaeg; geiriau neillduol o ran sillebiaeth neu eu ffurf, eu terfyniad neu eu rhywogaeth; geiriau cyffredin i'r hen dafodieithoedd, ond annghyffredin yn yr Hellenaeg; yn nghyd a geiriau ac ymadroddion mewn ystyriaethau nodedig o Iuddewig neu Gristionogol.

Gellir gweled ymadroddion Aramæaidd yn Marc 14, 36 *(abba)*; Actau 1, 19 (maes y gwaed); Marc 3, 17 (meibion y daran); Math. 5, 22 (ynfyd). Geiriau Lladin yn Math. 10, 29; 18, 28; 5, 26; 17, 25; 27, 27, 65; 26, 53; Marc 15, 39; Luc 19, 20; Ioan 2, 15; Act. 19, 12. Ymadroddion Lladin yn Math. 12, 14; Marc 15, 15; Luc 12, 58; Act. 17, 9. Ymadroddion Persiaidd, Math. 27, 32; Act. 8, 27; Math. 2, 1; Marc 6, 11; Luc 23, 43 (paradwys, neu, ardd o goed ardderchog). Ymadroddion Aifftaidd, Math. 27, 59; Luc 24, 12.

Am fynegiad cyflawn o hynodion gramadegol, yn nghyd a neillduolion ereill, gwel Draethawd Planck, ar Natur a Chymmeriad Ieithwedd Roegaidd y Testament Newydd, *Bib. Repository*, 1831, tud. 638. Gwel hefyd hanes byr gan Moses Stuart, yn ei Gystrawen o'r Testament Newydd.

40. Y brif wers a ddysgir gan y ffeithiau hyn yw, yr angenrheidrwydd, er mwyn darllen y Testament Newydd, am wybodaeth o'r Groeg yn gyffredinol, a'r angenrheidrwydd, er mwyn ei ddeall, am wybodaeth o Roeg y Testament Newydd, ac o'r cyfieithiad o'r Hen Destament. Y mae y wybodaeth yma mor hanfodol, fel y gall y darllenydd Cymreig yn unig, heb ddim ond ei Feibl Cymraeg, ddeall y Testament Newydd yn well nâ'r ysgolhaig a gymhwyso at unrhyw ran o hono wybodaeth glasurol yn unig.

41. Er mwyn cynnorthwyo i fyfyrio Hebraeg, gwel y gramadegau a'r geirlyfrau cyffredin o'r iaith hono. Er myfyrio Groeg Hellenaidd, gwel ieithweddau Winer; unrhyw Ramadeg da o'r Testament Newydd, yn nghyd a Thiersch de Pentateuchi Versione Alexandrina. Y Mynegeiriau "Hebrëig a Seisnig," a "Groeg a Seisnig," ydynt hefyd o werth mawr i'r myfyriwr Seisnig. Y cymhorth goreu yn ddiammeu yw cfrydiaeth ofalus o'r Deg a Thriugain, wedi ei gymharu â'r Hebraeg, ac â'r Testament Newydd.

Dos. 3. Llawysgrifau yr Ysgrythyr.

42. Wrth lefaru am y llawysgrifau o'r Ysgrythyr, yr ydym eisoes wedi nodi eu hoed, yn nghyd a'u gwerth cymharol. Yn awr, y mae yn angenrheidiol nodi y ffeithiau ar ba rai y gorphwys y pethau hyn. Gellir gofyn, pa fodd y mae yn bosibl cael allan oedran llawysgrif, yr hon, yn aml, fydd wedi ei dryllio, ac yn gyffredin yn agored i ddylanwadau na allant fethu tywyllu ac anmharu y prawf o'i hoedran a'i chymmeriad?

43. Wrth ateb y gofyniad yma, gellir nodi fod y dyddiad yn ysgrifenedig ar rai llawysgrifau; a phan y mae hyn wedi ei wneyd gan y llaw gyntaf, a phethau ereill yn cyduno, ystyrir y prawf yn lled bender-

* Gwel Rhagymadrodd.

fynol. Ni cheir y fath ddyddiadau, fodd bynag, ar unrhyw lawysgrifau boreuach nâ'r 10fed ganrif.

44. Weithiau y mae hanes draddodiadol neu wybyddus llawysgrif yn gynnorthwy mawr. Er enghraifft, y Cod. Alex. (A.) a roddwyd gan batriarch Caercystenyn (Cyril Lucar), i Siarls I., ac yn ysgrifenedig arni yn Arabaeg, y traddodiad iddi gael ei hysgrifenu gan Thecla, tywysoges Aifftaidd, yr hon oedd yn byw nid yn hir iawn ar ol cynghor cyntaf Nice, o.c. 325: traddodiad a gadarnheir gan brofion mewnol.

45. Y mae y pwnc o ddyddiad, er hyny, fynychaf yn fwy anhawdd ei benderfynu; ac nis gellir gwneyd hyn, ond yn unig drwy ymchwiliad dyfal i brofion lled ddyryslyd, a gyfodant oddiwrth y defnydd ar ba un y byddis wedi ysgrifenu, ffurf y llythyrenau, a dullwedd gyffredinol yr ysgrifen.

46. Cafodd rai rhanau o'r hen Ysgrytbyrau eu hysgrifenu ar grwyn cyffeithiedig, neu rai wedi eu lliwio yn goch neu yn felyn. Yr oedd y crwyn hyn yn gyffredin wedi eu cyssylltu fel ag i gynnwys ar un rhol neu gyfrol[a] gyfran gyflawn o'r Beibl, megys Llyfrau Moses, neu y Prophwydi. Rhai o'r llawysgrifau henaf yn y byd ydynt gopiau o lyfrau Moses yn y ffurf yma.

Y nesaf mewn parhad oedd memrwn yr henafiaid. Derbyniodd ei enw (*pergamena*) oddiwrth Pergamos, y dref lle y gwnaethwyd ef gyntaf. Y rhan fwyaf o'r llawysgrifau sydd wedi dyfod i lawr i ni cyn y 6fed ganrif ydynt ar y defnydd yma. Weithiau defnyddid byrddau o goed,[b] neu lechi o feini, a elwid "*cawdices*" neu "*codices*;" oddiwrth hyn y cafodd yr enw "*codex*" ei roddi ar lawysgrif ar unrhyw ddefnydd. Defnyddid y cyfryw lechau yn aml iawn i amcanion cyfreithiol, lle yr oedd parhad yn beth pwysig. Ysgrifenid ar y llechau yma yn eu cyflwr naturiol (oddieithr pan ddefnyddid hwynt am amser byr, pan orchuddid hwynt â chwyr) â phin o haiarn, a elwid "*stylus*," oddiwrth yr hwn y cymmerwyd y gair Saesnig "*style*"—dullwedd.

Am oesau lawer, y defnydd mwyaf mewn ymarferiad a wnelid o'r papyrfrwyn, neu hesg yr Aifft. Dygwyd gwneuthuriad hwn, yn enwedig gan y Rhufeiniaid, i berffeithrwydd mawr. Ond tua diwedd y nawfed ganrif, yn lle papyrfrwyn, defnyddid, i raddau helaeth, bapyr gwneuthuredig o'r planigyn cotwm (nid annhebyg i bapyr presenol India a China); ac ychydig yn ddiweddarach, yn y 10fed a'r 11fed ganrif, daeth papyr wedi ei wneuthur o hen lian i arferiad.

Hen ysgrifenwyr cyffredin a gyfeiriant yn achlysurol at y gwahanol ddefnyddiau yma. Sonia Herodotus am grwyn geifr a defaid wedi eu cyffeithio, yn cael eu defnyddio gan yr Ioniaid (v. 58). Dywed Pausanias iddo ef yn Bœotia weled gweithiau Hesiod wedi eu cerfio ar blwm (ix. 31). Deddfau Rhufeinig a ysgrifenid yn aml ar lafnau o bres, a mynega Pliny fod y papyrfrwyn mewn ymarferiad yn mhell cyn rhyfel Caerdroia (c. c. 1184), Hanes. Nat. xii. 21—29. Hefyd, sonia Livy am lyfrau o lian cotwm—"*Libros linteos.*"

47. Y mae llawysgrifau ar yr holl ddefnyddiau hyn yn adnabyddus i henafiaethwyr, a chynnorthwyir yr ymofynydd oddiwrth y defnydd i benderfynu eu hoed a'u dechreuad.

48. Yr enghreifftiau henaf, o ddyddiad adnabyddus, mewn ysgrifiaeth

[a] Esay 8, 1; Jer. 36, 2; Sech. 5. 1.
[b] Ex. 32, 15; Deut. 6, 9; Esay 30, 8; Heb. 2, 2; Luc 1, 63; 2 Cor. 3, 3.

Roegaidd, ydynt lyfrau a gafwyd yn adfeilion Herculaneum a Phompeii. Dinystriwyd y dinasoedd hyn o. c. 79. Y mae y llyfrau a gafwyd yno yn ddiweddar o'r dyddiad hwnw, o leiaf, ac wedi eu gwneyd o leni o'r papyrfrwyn, wedi eu cyssylltu wrth eu gilydd â glud, a'u rholio. Y mae yr ysgrifen, yr hon a reda ar draws y gyfrol, mewn prif lythyrenau, heb unrhyw raniad o eiriau na brawddegau, heb aceniadau nac addurniadau, ac heb ond ychydig iawn o orphwys-nodau. Rhydd y llyfrau yma brawf o'r dull henaf o ysgrifenu, ac y maent yn henach nag unrhyw lawysgrifau o'r Testament Newydd.

Yn y llyfrgell freiniol yn Vienna, y mae copi o hen waith gan Dioscorides, y copi a ysgrifenwyd i ferch un o Amherawdwyr boreuol Caercystenyn, a diammeu ei fod yn perthyn i'r 5ed ganrif. Yn ffurf ei lythyrenau, a'i amddifadrwydd o bob nodau ac addurniadau, y mae yn cyduno â llawysgrifau Pompeii. Y mae profion pwysig mewn perthynas i oedran yn cael eu hawgrymu gan y neillduolion uchod.

49. Yn yr amseroedd boreuaf, rhenid y Testament Newydd i dair o ranau. Yr efengylau (*to evaggelion*), yr Epistolau a'r Actau (*to Apostolikon*), a'r Dadguddiad (*é apokalupis*). Yn y drydedd ganrif, rhanwyd yr Efengylau i ddau fath o bennodau; gelwid y rhai hwyaf "*titloi*," a'r rhai byraf "*Kephalaia*." Cyflwynwyd yr olaf gan Ammonius, ac oddiwrth hyny gelwid hwy, Y Rhaniadau Ammoniaidd. Yr oeddynt mewn arferiad cyffredin yn yr efengylau yn y 4edd ganrif; ac i'r rhaniadau yma y cyfaddasodd Eusebius ei gyfeiriadau; y rhai, oddiwrtho ef, a elwid y Canonau Eusebiaidd (o. c. 315—340).

50. Yn y rhan olaf o'r un ganrif (360), y mae Chrysostom yn sôn am yr arferiad o ysgrifenu llawysgrifau Beiblaidd ar y memrwn tecaf, ac, fel yr ydys yn barod wedi nodi, mewn llythyrenau o aur ac arian.

51. Yn y flwyddyn 458, cyhoeddodd Euthalius epistolau Paul, yn mha rai, am y tro cyntaf, y rhoddodd gynnwysiad y pennodau. Yn 490, rhanodd yr Actau a'r Epistolau yn wahanol ddosraniadau. A dywed ef ei hun iddo gyflwyno aceniadau i lawysgrifau oeddynt yn cael eu copio dan ei arolygiaeth; fodd bynag, ni ddaeth yr arferiad o hyn yn gyffredin hyd yr 8fed ganrif. Efe hefyd a chwanegodd at lyfrau y Testament Newydd yr olysgrifau sydd yn awr i'w cael yn y cyfieithiad Cymreig. Er gwneyd y llawysgrifau yn fwy dealladwy, darfu i Euthalius, yn mhellach, eu rhanu i linellau, a elwid *stichoi*, yn cynnwys mewn rhai enghreifftiau gynnifer o lythyrenau a allasid ddodi ar draws y llèn, ac mewn ereill, gynnifer o eiriau a allasid eu darllen heb un attaliad. Daeth y dull hwn o ysgrifenu, yn fuan iawn, i arferiad cyffredin. Yn yr 8fed ganrif, peidiwyd ysgrifenu y llinellau ar wahan, a dynodid hwynt gan ddotiau yn unig. Yn yr un ganrif, cyflwynwyd nodau gwahannodiadol ereill; ac yn ddiweddarach etto, gadawwyd allan y dotiau llinellawl. Yn y 7fed ganrif, cafodd llawysgrifau o wersi ysgrythyrol, i'w defnyddio mewn gwasanaeth cyhoeddus, eu lluosogi; ac oddeutu yr un amser, dechreuodd y llythyrenau yn mha rai yr ysgrifenid y llawysgrifau gael eu culhau a'u gwyro. Yn yr 8fed ganrif, yr oedd y cyfnewidiadau hyn yn dyfod yn amlycach; yn y 9fed, cyflwynwyd y gofynai a'r gwahanai; yn y 10fed, yr oedd y dull brysiog o ysgrifenu wedi dyfod yn dra chyffredin; ac yn y 12fed, cyflwynwyd y rhaniadau presenol i bennodau gan Hugo Sancto.

52. Y mae amryw reolau yn ymgyfodi oddiwrth y ffeithiau hyn :—

Nid yw llawysgrif, yn cynnwys y rhaniadau presenol i bennodau ac adnodau, yn henach nâ'r 12fed ganrif. Nid yw llawysgrif ar gotwm yn hen-

ach nâ'r 11eg ganrif. Nid yw llawysgrif yn y dull brysiol yn henach nâ'r 10fed ganrif. Nid yw llawysgrif mewn llythyrenau cul, gwyredig, yn cynnwys y gofynai a'r gwahanai, yn henach nâ'r 9fed ganrif. Nid yw llawysgrif wedi ei gwahannodi yn rheolaidd, neu yn nodi y llinellau (*stichoi*) â dotiau, neu lythyrenau addurnawl, yn henach nâ'r 8fed ganrif. Nid yw llawysgrif mewn prif lythyrenau, wedi ei rhanu yn llinellau, neu ei hacenu, neu yn cynnwys y rhaniadau, neu y *teitlau*, neu yr olysgrifau Euthalaidd, yn henach nâ'r 5ed ganrif. Ac nid yw llawysgrif yn cynnwys y canonau Eusebiaidd yn henach nâ'r 4edd ganrif.

53. Canfyddir nad yw y rheolau yma yn arwain, ond yn unig i benderfyniadau nacäol. Pan gymhwysir y ffeithiau yma er cyrhaedd penderfyniadau penodol, y maent yn gofyn llawer o ymchwiliadau manwl, a beirniadaethau cywrain. Gellir cael cyflawn hysbysrwydd yn y llyfrau canlynol:—

Ar yr holl hwnc, gwel "Montfaucon's Palæographia Græca." Arweiniad Hug i'r Testament Newydd, pen. 6. Darlithiau Scott Porter ar Feirniadaeth Feiblaidd, ac Arweiniad Michaelis (4 argraff.), cyf. ii.

54. Yn ddiweddar, mewn cymhariaeth, ac wedi ymchwiliad hirfaith, y cyrhaeddwyd y penderfyniadau hyn, a'r ffeithiau y maent yn sylfaenedig arnynt. Yn y cyfamser, canlyniadau nid llai eu pwys a gyrhaeddwyd, drwy gynnydd mewn dulliau ereill o ymchwilio. Efallai y deallir hyn yn well os rhoddwn ein nodiadau yn y ffurf hanesiol.

55. Y mae testun derbyniedig y Testament Groeg yn sylfaenedig, fel y gwelsom (ad. 10), ar destun Erasmus, ac eiddo y golygwyr Complutensiaidd. Argraffwyd y ddau destun yma oddiwrth lawysgrifau diweddar; felly, a llefaru yn gymharol, nid yw y testun derbyniedig o awdurdod uchel. Yr oedd archwiliad y llawysgrifau boreuol yn waith llawer iawn o flynyddau. Dechreuodd gydag Amlieithyr Llundain—"London Polyglot" (1657), yr hwn a ychwanegodd at argraffiadau blaenorol ddarlleniadau un ar bumtheg o lawysgrifau, yn nghyd âg eiddo hen gyfieithiadau. Curcellæus hefyd a chwiliodd amryw lawysgrifau tuag at gyhoeddiad o'r Testament Newydd, a argraffwyd gan Elzevir yn 1658. Yn 1675, cyhoeddodd Dr. Fell argraffiad, yn cynnwys darlleniadau deugain llawysgrif yn ychwanegol; a dewisiodd y Dr. Mill i orphen adolygiad mwy trylwyr o lawysgrifau a chyfieithiadau. Treuliodd y Dr. Mill 30 o flynyddau yn y gorchwyl hwn, a rhoddodd yn ei argraffiad ddarlleniadau llawer iawn o lawysgrifau na chawsant eu chwilio o'r blaen, yn nghyd â darlleniadau y Tadau boreuol. Yn 1734, helaethwyd y darlleniadau yma yn mhellach, drwy lafur Bengel. Yn mhen deugain mlynedd ar ol Mill, cyhoeddodd Wetstein ei argraffiad (1751) mewn dwy gyfrol unplyg. Ei destun ef yw yr un derbyniedig. Y mae, mewn nodiadau, yn cymhwyso ffrwyth ei ymchwiliadau at ddiwygio y testun pa bryd bynag y tybia ef yn ddiffygiol. Yn mhen mwy nâ deugain mlynedd ar ol hyn, cymhwysodd Griesbach reolau ac olrheiniadau Wetstein, er diwygio y testun ei hun (1796—1806), ac ychwanegodd lawer o ddarlleniadau amrywiol a ddarganfyddodd drwy ei ymchwiliadau ef ei hunan.

Yn y cyfamser, gwnaethwyd ychwanegiadau pwysig ereill at ein gwybodaeth. Yn 1782—8, cyhoeddwyd argraffiad gan Matthæi, o Foscow, yr hwn a hynodid, yn benaf, am ei fod yn cynnwys y darlleniadau a ganiatëid gan yr hyn a alwwyd wedi hyny, y Diwygiad Caercystenynaidd (*Constantinopolitan Recension*); tra yr oedd Alter yn Vienna (1786), Birch ac Adler yn yr Eidal, Moldenhauer a Tychsen yn yr Yspaen, ac ereill mewn manau ereill, yn ddiwyd yn gorphen ymchwiliadau ag oedd i gynnysgaethu

Griesbach â'i offer beirniadaethol. Y canlyniadau o hyn a gorfforwyd yn yr argraffiad o'r Testament Newydd, a gyhoeddwyd wedi hyny gan Birch yn Nghopenhagen.

56. Wrth gymharu y profion a ddadlenid gan yr olrheiniadau yma, cafodd Griesbach allan (fel ag yr awgrymwyd gan ei ragflaenoriaid) fod darlleniadau nodweddiadol yn gwahaniaethu llawysgrifau y Tadau, a chyfieithiadau neillduol. Dywedid fod llawysgrifau, &c., yn cynnwys un math arbenig o ddarlleniadau, yn perthyn i'r teulu Alexandriaidd; y rhai a gynnwysent fath arall yn perthyn i'r un Caercystenynaidd; a rhai yn cynnwys math arall yn perthyn i'r llwyth Gorllewinol.

Yr oedd y penderfyniad hwn, a thybied fod ei sylfaen yn dda, yn ddarganfyddiad o'r pwys mwyaf. Cyfnewidiodd yr holl wyddor. Hyd yma, y darlleniad oedd yn cael ei bleidio gan *fwyaf* o lawysgrifau, a ystyrid fel yn meddu y profion cryfaf o'i du; ond yn awr, nid rhifedi y llawysgrifau neillduol a bleidient unrhyw ddarlleniad, ond rhifedi y teuluoedd, oedd y prif bwnc. Mewn amseroedd diweddarach, Scholz, yr hwn a dreuliodd flynyddau lawer yn y gorchwyl, a ranodd lawysgrifau Groeg y Testament Newydd ar y cyntaf i bump, ac wedi hyny i ddau, o deuluoedd, sef, yr un Alexandriaidd, yr hwn a gynnwys un Gorllewinol Griesbach, a'r un Caercystenynaidd. O'r tri dosparth, cyssylltai Griesbach ei hun y pwys mwyaf â'r teuluoedd Alexandriaidd a Gorllewinol. Gellir ychwanegu fod Hahn a Lachmann yn cytuno mewn sylwedd â Scholz, ond fod y blaenaf yn cyssylltu pwysigrwydd â phrofion mewnol, a'r olaf yn cyssylltu hyny âg henafiaeth llawysgrifau.

57. Fodd bynag, rhaid cyfaddef, er nad ydyw ymchwiliadau diweddarach wedi cwbl ddymchwelyd yr egwyddor hon o drefnu, etto y maent wedi taflu ammheuaeth mawr arni. Nid ydys yn awr yn sicr nad ydyw penderfyniadau Griesbach ond un enghraifft o'r cyffredinoliadau brysiog hyny sydd braidd yn gymmaint o rwystr ac o gynnorthwy i gynnydd gwir wyddoniaeth. Cadarnhëir yr ammheuon yma gan ymchwiliadau y Dr. Lawrence o Ddulyn. Y mae cynnygion wedi bod gerbron y byd am beth amser, i gyhoeddi testun sylfaenedig, nid ar deuluoedd o lawysgrifau, ond ar y darlleniadau a gadarnhëir gan yr awdurdodau henaf. Y cyntaf i awgrymu yr egwyddor hon oedd Dr. Bentley. Y mae Lachmann wedi gweithredu yn ymarferol arni i raddau helaeth, ac y mae y Dr. Tregelles yn addaw glynu yn fanwl wrthi yn ei argraffiad bwriadedig o'r Testament Newydd. Pa un a yw henafiaeth yn *unig* yn faen-prawf digonol, sydd, er hyny, yn bwnc o ansicrwydd mawr. Yr oedd yr adysgrifwyr boreuaf yn agored i ddylanwadau lleol, yn gystal a'r rhai diweddarach. Gall llawysgrifau brysiog, o ddyddiad diweddar, fod yn gopïau cywir o rai boreu iawn sydd yn awr wedi eu colli, ac nid yw eu tystiolaeth *hwy* i gael ei ddiystyru; heblaw hyny, os oes unrhyw dir i ddosparthu llawysgrifau i deuluoedd, gall henafiaeth yn unig fod megys rhifnodau, yn dwyll ac yn fagl.

58. Llawysgrifau prif-lythyrenawl y Testament Newydd, eu dyddiad, eu cynnwysiad, lle y cedwir, pa bryd, a chan bwy y cyhoeddwyd hwynt.

Eu nód presenol	Enw.	Lle y cedwir hwynt.	Cynnwysiad.	Dyddiad. — Canrif.	Os cyhoeddwyd, pa bryd?	Cymmeriad cyffredin y testun, a'r prif Gymhariaethwyr.
A.	Codex Alexandrinus	Amgu. Fryt. Llundain	Yr Hen Destament a'r Newydd; diffygiol	v...	1786–1819, Woide. Barber	Caer. yn Efeng., Alexmewn lleoedd ereill.
B.	,, Vaticanus, 1209 ..	Llyfrgell Vat. Rhufain	,, ,,	IV.	Ar waith	Alex. Hug. Lach. Sch. Tisch.
C.	,, Regius neu Ephræmi	Llyfr. Freninol Paris ..	,, ,,	VI.	1843, Tisch.. ..	Alex. Wets. Griesbach, Tisch.
D.	,, Bezæ neu Gantabrig.	Llyfr. Prif. Caergrawnt	Efengylau, Actau, rhan o'r Epistolau; diffygiol	v. neu VII.	1793, Dr. Kipling	Mill. Wetstein.
D.	,, Claromontanus ..	Llyfr. Fr. Paris ..	Epistolau ereill; diffygiol	VIII... ..	.. ..	Wetstein.
E.	,, Basileensis	Llyfr. Gy. Basle.. ..	Efengylau; diffygiol ..	IX.	.. ..	Caer. Wetsein, Sch., Tisch.
E.	,, Laudianus	Llyfr. Bod. Rhyd...	Actau; diffygiol	VII. neu VIII.	1718	Mill.; defnyddiwyd gan Bede.
E.	,, San Germanensis ..	Llyfr. Am. Petersburg	Epis. Paul; anmherffaith	XI.	.. ..	Mill. Semler.
F.	,, Boreeli..	Llyfrgell Utrecht ..	Efengylau; diffygiol ..	IX.	Tisch.; ei ddarllenladau gan Vincke, 1843	Caer. Cym. i Wetstein.
F.	,, Coislianus .. .. (H. gan Griesb.)	Llyfr. Fr. Paris ..	Rhan o'r Hen Destament, Act. 9; 24, 5	VII.	Tisch	Caercystenynaidd.
F.	,, Augiensis	Col. Drin. Caergrawnt	Epistolau Paul	IX. neu X...	.. ..	Alex. Wets. Tisch.
G.	,, Harleianus, Seidelii, neu Wolfii A.	Am. Fryt. Llundain..	Efengylau; diffygiol ..	XI.	.. ..	Caer. Wolf. Tisch.
G.	,, Angelicus	Llyfr. Angel. Rhufain	Actau, Epistolau; Epistolau Paul a elwir I.	IX.	.. ..	Birch. Sch.
G.	,, Boernerianus	Llyfr. Elect. Dresden	Epistolau Paul, oddieithr yr Hebreaid	IX.	Matthæi, 1791 ..	Fel Cod. Augiensis, Hahn.
H.	,, Wolfii B.	Hamburg	Efengylau; diffygiol ..	XI.	.. ..	Caer. Wolf.
H.	,, Mutinensis	Modena	Rhan o'r Actau	Amryw, IX.—XV.	.. ..	Scholz.
H.	,, Coislianus	Lyfr. Fr. Paris	Rhan o Epistolau Paul ..	VI.	Cyhoeddwyd gan Montfaucon.	Wets. Gries.
I.	,, Cottonianus	Am. Fr. Llundain ..	Rhan o Mathew a Ioan	VII. neu VIII.	Darllen. gan Usher.	

Llawysgrifau prif-lythyrenawl y Testament Newydd, &c.—*Parhad.*

Eu nôd presenol	Enw.	Lle y cedwir hwynt.	Cynnwysiad.	Dyddiad. — Canrif.	Os cyhoeddwyd, pa bryd?	Cymmeriad cyffredin y testun, a'r prif Gymhariaethwyr.
I.	Codex Mosquensis	Llyfr. Moscow ..	Epistolau	IX.	Tisch. Mon. Med.	Matthæi. Simon i Mill.
K.	,, Cyprius neu Reg., 63	Llyfr. Fren. Paris ..	Efengylau	VIII. neu IX.	.. ..	Alex. Sch. Tisch.
L.	,, Regius, 62	,, ,,	Efengylau; diffygiol ..	IX.	Tisch. Mon. ..	Alex. Griesb.
M.	,, Regius, 48	,, ,,	Efengylau	X. ..	.. ..	Alex. Sch. Tisch.
N.	,, VindobonensisCæsareus (rhan o I, tebygol)	Llyfr. Am. Vienna..	Luc 24, 13–21; 39, 49	VII.	Tisch. Mon. ..	Cym. gan Alter. Tisch.
O.	,, Montefalconii	.. ..	Luc 18..	.. ..	.. ..	Wetst, Griesb.
O.	,, (Tisch.) Mosquensis, 120	Moscow	Rhan o Ioan	IX.	Math. 1785 ..	Tischen.
P.	,, Guelpherbytanus, A., adysgrif	Llyfr. Wolfenbuttel ..	Efengylau; diffygiol ..	VI. ..	1763, Knittel	
Q.	,, Guelpherbytanus, B., adysgrif	,, ,,	Luc ac Ioan; diffygiol ..	VI.	,,	
R.	,, Tubingensis.. ..	Tubingen	Ioan 1, 38–50	VII. ..	Gan Reuss, 1778	Wetst.
R.	,, (Tisch.) Neapolitanus	,,	Rhan o'r Efengylau ..	VIII... ..	.. ..	Tisch.
S.	,, Vaticanus,354.. ..	Vat. Rhufain	Efengylau	X. ..	.. ..	Caer. Birch.
T.	,, Borgianus	Veletri	Rhan o Ioan	IV. neu V. ..	1789, gan Georgi..	Alex. Georgi. Birch.
U.	,, Venetianus, neu Nanianus	Llyfr. St. Marc, Venice	Efengylau	X.	.. ..	Caer. Birch. Sch. Tisch.
V.	,, Mosquensis	Llyfr. Moscow	Efengylau; anmherffaith	Amryw, IX. a'r XIII.	.. ..	Caer. Gross. Matthæi.
W.	,, Regius, 314	Llyfr. Fr. Paris ..	Rhan o Luc	VIII... ..	.. ..	Alex. i Gries., a chan Schol. Tisch.
X.	,, Landshutensis, neu Monacensis	Munich	Efengylau; diffygiol ...	X. ..	.. ..	Alex. Sch. Tisch.
Y.	,, Barberinus	Llyfr. Barb. Rhufain	Rhan o Ioan	IX.	Tisch. Mon. ..	,, ,,
Z.	,, Dublinensis, adysgrif	Col. Drin. Dulyn ..	Mathew; diffygiol ..	VI. ..	1801, Dr. Barrett	Alex. Dr. Barrett.
Γ.	,, Vaticanus, rhan o I. ac N.	Vat. Rhufain	Rhan o Mathew	VII.	Tisch. ..	G. Marini.
Δ.	,, Sangallensis	St. Galle, Switzerland	Efengylau	IX. ..	1836, Rettig. ..	

59. Yn ychwanegol at y llawysgrifau prif-lythyrenawl hyn, y mae Griesbach wedi rhoddi rhifedi, cynnwysiad, a dyddiad 236 o lawysgrifau brysiog, o 1 i 236; rhoddodd Matthæi 23 yn ychwaneg, o 237 i 259; a Scholz 270, a gymharwyd ganddo ef am y tro cyntaf, naill ai yn gwbl neu mewn rhan, o 260 i 469. Gellir canfod y manylion yn yr egluriadau rhagarweiniol i'r argraffiadau o'r Testament Newydd gan Griesbach, Matthæi, Scholz, a Tischendorf; hefyd yn Horne ii., rhan 1, pen. 3, § 2; ac mewn rhan yn Meirniadaeth Scott Porter, tud. 304.

Cyfrifa Scholz 176 o lithiau o'r Efengylau, a 48 o'r Actau a'r Epistolau (Praxapostoli). O'r blaenaf, priodola un (Rhif. 135) i'r 6fed ganrif, a'r rhan fwyaf i gyfnodau rhwng y 10fed a'r 15fed.

Cyfrifa Scholz o gwbl,—

	Llawysgrifau Prif-lythyrenawl. (Uncial MSS.)	Llawysgrifau brysiol. (Cursive MSS.)
O'r Efengylau	27	469
Actau a'r Epistolau Cyffredin	8	192
Epistolau Paul..	9	246
Dadguddiad..	3	88

Y mae llawer o lawysgrifau ereill heb erioed gael eu cymharu. Cyfrifa Horne 31 a gedwir mewn llyfrgelloedd yn y deyrnas hon, a gwyddis fod ereill ar gael mewn llyfrgelloedd ar y Cyfandir.

60. Y mae hanes y testun Hebreig yn ferach o lawer. Y dull o ymchwilio a arferwyd mewn perthynas i'r testun Groeg o fewn y ddwy ganrif ddiweddaf a gymhwyswyd at yr Hen Destament er ys mil o flynyddau yn ol, yn Tiberias. Yno, adolygwyd a chymharwyd y llawysgrifau a fodolent y pryd hwnw, a ffurfiwyd testun, yr hwn sydd, ar y cyfan, yn dra thêg a chywir. Gelwir ef testun y Masoretaidd, ac y mae braidd yr holl olrheiniadau diweddar wedi terfynu yn bleidiol i'w ddarlleniadau. Ar wasgariad yr Iuddewon, drwy ddylanwad Mahometaniaeth, eu dysgedigion a ymfudasant tua'r gorllewin, i'r Yspaen, yr Eidal, a chanol-barth Ewrop, gan ddwyn gyda hwynt eu testun Masoretaidd o'r Ysgrythyr; a chyda threigliad amser, lluosogent gopïau i gyfarfod âg angen eu cenedl. Yr oedd gwerth y copïau hyn yn amrywio, yn ol y gofal a gymmerid wrth eu hysgrifenu. Fel mater o ffaith, y llawysgrifau Yspaenaidd, yn y cyffredin, yw y mwyaf cywir; y nesaf mewn cywirdeb yw y rhai Eidalaidd; a'r olaf, y rhai Ellmynaidd.

61. Un enghraifft o arafwch cynnydd gwirionedd yw, ddarfod i Buxtorf, un o'r prif ysgolheigion Hebreig, haeru, yn y 17eg ganrif, fod yr holl lawysgrifau o'r testun Hebreig yn berffaith unffurfiol. Cappellus (1650), yr hwn oedd y cyntaf i wrthwynebu y golygiad yma, a'r Esgob Walton, golygydd "Amlieithyr" Llundain, yr hwn a'i pleidiai, a ddechreuasant ar y gwaith o ffurfio offer beirniadaethol. O'r amser yma, dygwyd y gorchwyl o gymharu llawysgrifau Hebreig yn mlaen yn egniol; a'r canlyniad buan fu, cyhoeddiad o destun diwygiedig. Yn 1667, Athias, rabbi ac argraffydd yn Amsterdam, a gyhoeddodd Feibl Hebreig, testun yr hwn oedd yn sylfaenedig ar lawysgrifau a chyhoeddiadau argraffedig. Yn 1690, cyhoeddodd Jablonski argraffiad beirniadol yn Berlin; ac yn 1705, daeth argraffiad cywir dros ben allan gan Van der Hooght yn Amsterdam. Ffurfiwyd ei destun ar eiddo Athias, gyda darlleniadau Masoretaidd ar ymyl y ddalen, yn nghyd a chasgliad o ddarlleniadau amrywiol yn y diwedd. Cyhoeddwyd hefyd argraffiadau o werth beirniadol yn 1709, gan Opitz, yn Kiel; ac yn 1720, gan I. H. Michaelis, yn Halle; ac yn

1746-53, Houbigant a gyhoeddodd, yn Mharis, argraffiad ysplenydd, mewn pedair cyfrol unplyg; ond lleiheir llawer ar ei werth gan y diwygiadau dychymmygol sydd wedi eu corffori yn y nodiadau a'r cyfieithiad. Yn yr un flwyddyn, cyhoeddodd Kennicott ei draethawd cyntaf ar sefyllfa y testun Hebreig argraffedig; ac yn 1776-80, argraffwyd ei Feibl Hebreig, yn Rhydychain. Testun hwn yw eiddo Van der Hooght, yn nghyd a darlleniadau amrywiol 692 o awdurdodau gwahanol, yn cynnwys llawysgrifau cyhoeddiadau argraffedig, yn nghyd a darlleniadau Rabbinaidd. Yn 1784-8, cyhoeddodd De Rossi bum cyfrol o bigion allan o lawysgrifau Hebreig; ac yn 1793, darlleniadau pwysicaf Kennicott a De Rossi a gyhoeddwyd mewn argraffiad a ddaeth allan o Leipzig, gan Deoderlein a Meisner, ac o Vienna gan Jahn, yn 1806; cynnwysid hwynt hefyd yn yr argraffiad Seisnig o'r Ysgrythyrau, a gyhoeddwyd gan Boothroyd yn 1810-16.

62. Y canlyniad o'r holl ymchwiliadau yma yw, nad oes genym ond un dosparth o lawysgrifau, y Masoretaidd, ac nad ydyw eu hamrywiaethau darlleniadol yn fwy nag eiddo un teulu o lawysgrifau y Testament Groeg. Er fod angen am argraffiad o'r Beibl Hebreig, yn cynnwys y darlleniadau awdurdodedig gan hen gyfieithiadau, etto, mewn cyssylltiad â chywirdeb y testun presenol, byddai y cyfryw argraffiad yn gywreinrwydd yn hytrach nag yn bwysig.

63. Y mae unffurfiaeth cyffredin y llawysgrifau Hebreig, yn gwneuthur dosparthiad (*classification*) o honynt yn llai pwysig nag o'r llawysgrifau Groeg. Nodir 630 gan Keunicott, 258 o ba rai a gymharwyd yn drwyadl ganddo, a'r gweddill mewn rhan yn unig. Cymharodd De Rossi 751, a'r oll o honynt, oddigerth 17, am y tro cyntaf. Y mae llawer ereill yn aros heb eu cymharu (gwel Beibl Hebreig Jahn, cyf. iv., Att.) Er, fel y nodwyd, nad oes ond un adwelliant (*recension*), sef y Masoretaidd, etto, yn y 10fed ganrif, ymddengys fod un math o ddarlleniadau gan yr Iuddewon yn Mabilon, a math arall ganddynt yn Tiberias. Oddiwrth hyn y cyfododd y gwahaniaeth rhwng y teuluoedd dwyreiniol a gorllewinol. Rhydd y Dr. Walton, yn ei Amlieithyr (*Polyglot*) yr amrywiaethau ar ba rai y mae y gwahaniaeth hwn yn sylfaenedig. Cynnwysir hwynt yn y llythyrenau, a nodau llafariaid (*vowel points*). Mae rhifedi y blaenaf oddeutu 220, (ond ni wna un o honynt effeithio cyfnewidiad o bwys yn y synwyr,) ac y mae rhifedi yr olaf oddeutu 860. Mewn perthynas i'r llythyrenau, ein hargraffiadau ni a wahaniaethant oddiwrth y darlleniadau dwyreiniol mewn 55 o fanau; ac mewn perthynas i'r llafariaid, canlynant y testun Masoretaidd fel y sefydlwyd ef yn Tiberias. Bu copïau neillduol am hir amser yn glodfawr am eu cywirdeb, ond nid oes ond eu henwogrwydd traddodiadol wedi disgyn i'n dyddiau ni.

64. Prawf cynnwysol o gywirdeb cyffredinol y testun presenol yw, fod yr Iuddew yn cyduno â'r Cristion yn llythyren yr Hen Destament, a'r Rhufeinwr yn cyduno â'r Protestant yn llythyren y Newydd. Ar y pwnc yma, gwel Horne, cyf. 2, rhan 1, pen. 2, § i.; Scott Porter, tud. 73; Darlithiau yr Esgob Marsh ar Feirniadaeth a Dehongliaeth y Beibl; a Beirniadaeth Feiblaidd Davidson, cyf. 1.

[a] Dos. 4. *Hen gyfieithiadau o'r Ysgrythyr.*

65. Bu dechreuad a hanes y Deg a Thriugain am hir amser yn destunau dadl, er y gellir ystyried y pynciau cyssylltiedig â hwynt yn awr fel wedi eu penderfynu. Aristëas, ysgrifenydd a gymmera arno fod yn genedlddyn, ac mewn ffafr yn llys Ptolemy Philadelphus, a ddywed i'r cyfieithiad yma gael ei wneyd gan ddeuddeg a thriugain o Iuddewon (6 o bob llwyth), y rhai a anfonwyd i Alexandria gan Eleazar ar gais Demetreus Phalareus, ac i'r cwbl gael ei orphen mewn triugain a deuddeg o ddyddiau. Gwnaed amryw ychwanegiadau at yr hanes yma, yn honi cyfryngiad gwyrthiol er cyflawniad y gwaith, ac anffaeledigrwydd y cyfieithwyr. Profwyd nas gallasai yr haeriad yma fod yn wirionedd yn gyntaf gan y Dr. Hody; ond nid oes dim wedi ei ddarganfod sydd yn effeithio yn fawr ar werth nac amseryddiaeth y cyfieithiad. Ac ystyried y gwaith mewn modd beirniadol, gellir nodi ei fod yn cynnwys llawer o eiriau Groeg-Aifftaidd; a bod llyfrau Moses wedi eu cyfieithu yn llawer cywirach nâ'r llyfrau ereill. Llyfr Job, y Salmau, a'r Prophwydi, ydynt oll yn îs-raddol, yn enwedig Esay a Daniel; a chyfieithir y llyfrau hanesiol yn aml yn annghywir.

Ystyrid y cyfieithiad yma yn werthfawr iawn yn yr eglwys foreuol, er fod ysgrifenwyr yn appelio yn aml oddiwrtho at yr Hebraeg. Gyda golwg ar ei ddiwygio, ffurfiodd Origen ei Feibl chwe-plyg *(Hexapla)*. Tebyg i'r llyfr yma, yr oll o ba un a wnelai hanner cant o gyfrolau, gael ei ddifodi yn anrheithiad Cæsarea gan y Saraceniaid, o.c. 653; ond, yn ffodus, yr oedd testun y Deg a Thriugain (yr hwn a ffurfiai un o'r colofnau), wedi ei gopïo gan Eusebius, yn nghyd a'r diwygiadau a'r ychwanegiadau a gyflwynodd Origen oddiwrth gyfieithwyr ereill. Y testun chwe-plyg hwn, fel ei gelwir, a gyhoeddwyd yn Mharis gan Montfaucon yn 1714. O'r ddwy brif lawysgrifen o'r Deg a Thriugain, y mae un y Vatican (B) yn canlyn y cyfieithiad cyntefig, tra y mae yr un Alexandriaidd yn arddangos y darlleniadau corfforedig yn y Beibl chwe-plyg, ac yn cydymffurfio yn fwy cyffredinol â'r Hebraeg presenol.

Y prif gyhoeddiadau argraffedig o'r Deg a Thriugain ydynt, yr un Aldineaidd, yr hwn a gynnwys lawer o ddarlleniadau B; yr un Complutensiaidd, yr hwn yn aml a ganlyna yr Hebraeg Masoretaidd, a chweplyg Origen; yr un Rhufeinaidd neu Vaticanaidd, a'r un Grabianaidd, yr hwn sydd wedi ei gymmeryd o A yn benaf.

Cyfieithiad rhydd ydyw, yn hytrach nâ llythyrenol, a chollir synwyr y gwreiddiol ganddo yn aml. Er ei fod yn fynych yn werthfawr mewn dehongliaeth, nid ydyw yn gymmaint felly er penderfynu y testun.

66. Yn mhlith y cyfieithiadau boreuaf a sylfaenwyd ar y Deg a Thriugain, ceir yr hen un Eidalaidd. Yr oedd amryw gyfieithiadau Lladinaidd o'r Beibl yn nyddiau Augustine (bu farw 430); ond hwn oedd y rhagoraf o honynt. Dyga Jerome yr un dystiolaeth i'w ragoroldeb cyffredinol. Gwnaethwyd ef, fel y gellir casglu, oddiwrth ddarnau sydd o hyd er gael,[b] o'r llawysgrif Alexandriaidd, a phriodolir ef gan Eichhorn i'r ganrif gyntaf.

67. Arweiniodd amrywiaethau ac anmherffeithderau y cyfieithiad hwn

[a] Gwel Rhagymadrodd.
[b] Job, y Salmau, cyfranau o'r Apocrypha, a rhanau o lyfrau ereill.

Jerome (o.c. 382) i adolygu y testun, fel yr adolygodd Origen gyfieithiad y Deg a Thriugain. I'r perwyl yma, defnyddiodd Feibl chwe-plyg Origen, a diwygiodd yn ofalus yr oll o'r Hen Destament. Nid oes ond rhanau yn unig o'r adolygiad yma ar gael. Fel yr oedd llafur Jerome yn tynu at y terfyn, y Deg a Thriugain, yr hwn am amser maith oedd wedi cael ei dderbyn yn ffafriol gan yr Iuddewon, a ddechreuai syrthio i anfri, o herwydd, fe allai, fod y Cristionogion yn appelio ato. I gyfarfod â'r teimlad yma, cymmerodd Jerome arno ddarparu cyfieithiad yn uniongyrchol o'r Hebraeg i'r Lladin. Treuliodd yn y gorchwyl yma y rhan fwyaf o 20 mlynedd, a gorphenodd ef yn 405. Arweiniwyd llawer, gan barch ofergoelus i'r Deg a Thriugain, i wrthwynebu y cyfieithiad yma, ond yn raddol cyrhaeddodd ddylanwad; ac yn amser Gregory Fawr, yr oedd yn gyfartal iddo o leiaf mewn awdurdod, ac anrhydeddwyd ef â'r enw *Vulgate*. Gwneid y testun i fyny, mewn rhan, o'r hen Eidalaeg, mewn rhan o gyhoeddiad diwygiadol Jerome o'r cyfieithiad hwnw, ac yr oedd mewn rhan yn gyfieithiad newydd, wedi ei ffurfio yn uniongyrchol o'r Hebraeg. Yr oedd Jerome yn adnabyddus âg esbonwyr Hebreig, ac y mae llawer o'u hegluriadau yn gorfforedig yn y *Vulgate*; ond yn gyffredin, canlyna y Deg a Thriugain, hyd y nod pan fyddo hwnw yn amrywio oddiwrth yr Hebraeg. Y mae o fwy gwerth er dehongli na beirniadu, er ei fod yn ddefnyddiol i'r ddau. Y cyfieithiad o'r Salmau a wnaed allan o Feibl chwe-plyg Origen, a gelwir ef y *Psalterium Gallicanum*. Llygrwyd y testun yn fore, a chymmerodd amryw o ddynion dysgedig arnynt ei ddiwygio, yn mhlith y rhai yr oedd Alcuin a Lanfranc. Y ddau brif argraffiad yw eiddo Sixtus v., a Chlement viii.; ac er fod y ddau wedi eu cadarnhau gan yr awdurdod Babyddol, etto cynnwysant rai o'r gwallau mwyaf hynod.[a] (Gwel adran 76).

68. Gesid hanesiaeth eglwysig ddychweliad Ethiopia oddeutu o. c. 330; ac i'r un ganrif y perthyna y cyfieithiad o'r Ysgrythyrau i'r Gheezaeg, iaith gyssegredig Ethiopia. Nid yw ei awdwr yn adnabyddus. Er fod Bruce yn dywedyd iddo ef gael amryw gopïau perffaith ynddi o'r Hen Destament, etto nid ydynt yn gyffredin. Mae llawysgrifau o'r cyfieithiad yma mewn rhai o lyfrgelloedd Ewrop. Nid oes ond darnau yn unig wedi eu hargraffu. Canlyna y testun ddarlleniadau A, a sylfaenir ef yn gyfangwbl ar y Deg a Thriugain. Y mae yr oll o'r Testament Newydd wedi ei argraffu. Ymddengys fod y testun yn sylfaenedig ar y Peshito a'r Hen Eidalaeg.—Gwel Ludolf, Gieseler, a Theithiau Bruce.

Y mae y rhan fwyaf o'r Hen Destament ar gael hefyd yn y Coptaeg a'r Thebaeg, tafod-ieithoedd yr Aifft, er nad oes ond rhan o hono wedi ei argraffu. Amser mwyaf tebygol eu dechreuad yw y 3edd a'r 4edd ganrif, er y tybia rhai iddynt gael eu gwneyd mor foreu â'r ganrif gyntaf neu yr ail. Y ddau ydynt wedi eu sylfaenu ar y Deg a Thriugain, a chanlynant ddarlleniadau A. Ni wyddis pwy oedd y cyfieithwyr.

Y cyfieithiad *Gothaeg* o'r Beibl a wnaed gan Ulphilas, esgob y Gothiaid-Mœsöaidd, yr hwn a gynnorthwyodd yn Nghynghor Caercystenyn yn 359. Cyfieithiwyd ef o'r Groeg, ac y mae o gryn werth beirniadol; ond yn anffodus, nid oes ond darnau o hono ar gael. Y llawysgrif enwocaf o hono yw y Codex Argenteus, yr hwn a ysgrifenwyd mewn llythyrenau arian, ac a gedwir yn bresenol yn llyfrgell Upsal yn Sweden. Nid yw yn cynnwys ond y pedair Efengyl, ac y mae yn anmherffaith.

[a] Y llawysgrif bwysicaf o'r *Vulgate*, fel y darparwyd ef gan Jerome, yw y C. Amiatinus, sydd yn awr yn Florence. Ysgrifenwyd hi oddeutu y flwyddyn 541.

Am y cyfieithiad *Armenaidd*, ni wyddis nemawr fwy nag a fynegir mewn adran arall. Ei ddyddiad yw 410, a'r cyfieithydd yw Miesrob, yr hwn, fel yr ymddengys, a ddefnyddiai y Deg a Thriugain, a'r diwygiad Alexandriaidd fel sylfaen ei gyfieithiad. Gwnaed y cyfieithiad *Georgiaidd* yn y ganrif ganlynol, oddiwrth gopïau o'r un Armenaidd. Argraffwyd y cyfieithiad Armenaidd amryw droion (y Beibl, Amster. 1666, y Testament Newydd, 1668-1698), a'r holl Feibl yn y Georgiaeg a argraffwyd yn 1743 yn Moscow. Yr oedd rhanau o hono wedi eu hargraffu cyn hyny yn Tiflis.

Perthyna y cyfieithiad *Slaficaidd*, neu *Slafonaidd*, i'r 9fed ganrif, a thybir iddo gael ei wneyd gan feibion Leo, pendefig Groegaidd, yr hwn oedd y cyntaf i bregethu yr efengyl i'r Slafoniaid. Ystyrir ef fel essill o'r Deg a Thriugain, er fod hen dystiolaeth yn dywedyd iddo, mewn rhan fawr, gael ei wneyd o'r Eidalaeg, a chadarnheir y dystiolaeth yma gan ymchwiliadau diweddar. Diwygiwyd y testun yn fore, oddiwrth lawysgrifau Groegaidd; ac ystyrir ef, mewn canlyniad, o gryn werth mewn beirniadaeth. Argraffwyd y cyfan yn 1576, ac wedi hyny daeth amryw argraffidau o hono allan o Moscow.

69. Cafodd amryw gyfieithiadau Seisnig o ranau o'r Ysgrythyrau eu ffurfio oddiwrth y Vulgate. Oddeutu y flwyddyn 706, Adhelm, esgob cyntaf Sherborn, a gyfieithiodd y Salmau, ac Egbert, esgob yr Ynys Santaidd, a drôdd y pedair Efengyl i'r Saesoneg. Yn nghylch yr un amser (o.c. 735), cyfieithodd Bede ranau o'r Beibl. Cymmerodd y brenin Alfred arno gyfieithu y Salmau; ond bu farw (900), pan oedd ei waith oddeutu hanner ei orphen. Cyfieithodd Elfrig, o Gaergrawnt, Bum Llyfr Moses, a rhai o'r llyfrau hanesyddol. Gellir priodoli i hwn yr amryw gyfieithiadau o'r Hen Destament i'r Ffrancaeg, yr Eidalaeg, a'r Yspaenaeg, a wnaed cyn yr 16eg ganrif, ac hyd y nod Luther a wnaeth ddefnydd mawr o hono wrth gyfieithu y Beibl i'r Almaenaeg.

70. Y Pum Llyfr Samariaidd *(Samaritan Pentateuch)* sydd ddiwygiad yn hytrach nâ chyfieithiad o'r testun Hebreig. Cyfeiria Eusebius a Cyril at gopïau o hono, ond yr oeddid wedi hen gredu ei fod wedi cwbl syrthio i ddifodiant. Fodd bynag, yn nechreu'y 17eg ganrif, trosglwyddwyd copi o hono o Gaercystenyn i Paris. Wedi hyny, cafodd Usher afael mewn chwech o gopïau, a chymharwyd 16 gan Kennicott. Yr hanes mwyaf tebygol am y diwygiad hwn yw, iddo gael ei gymmeryd oddiwrth gopïau o Bum Llyfr Moses, oedd yn nwylaw yr Israeliaid pan ranwyd y deyrnas yn nyddiau Rehoboam. Y Salmau, ac ysgrifeniadau Solomon, y rhai oeddynt yn adnabyddus i Iuddewon duwiol yr oes hono, a wrthodwyd, o herwydd rhesymau eglur.

Rhoddid gormod o bris, ar y cyntaf, ar werth beirniadol darlleniadau yr adwelliant yma; ond yn awr, ni ystyrir hwy yn rhagori mewn dim ar yr Hebraeg. Ymddengys fod y Deg a Thriugain wedi ei ganlyn yn fynychach nâ'r testun Hebreig presenol, oddiwrth yr hwn, fodd bynag, nid yw yn amrywio llawer. Ystyria Gesenius ei ddarlleniadau yn rhagori ar yr Hebraeg yn Gen. 4, 8, lle y rhydd i mewn y geiriau, "Gad i ni fyned i'r maes." Gen. 14, 14, lle y darllena "efe a rifodd," yn lle "efe a arfogodd." Gen. 22, 13, lle y gadawa allan y geiriau "o'i ol ef." Ac yn Gen. 59, 14, lle y mae y gwahaniaeth mewn geiriau yn unig, ac nid mewn synwyr. Y Pum-Llyfr Samariaidd ydynt o werth mawr er penderfynu hanes y llafariaid Hebreig, ac er cadarnhau cywirdeb cyffredin y testun presenol; ond nid ydyw yn ffynnonell gweithrediadau annibynol gwerthfawr. Y llythyrenau yn mha rai y mae yn ysgrifenedig, ydynt, fe allai, ffurfiau henaf yr

Hebraeg. Rhaid peidio cymmeryd yr hen Bum-Llyfr Samariaidd yn lle y cyfieithiad Samariaidd mwy diweddar sydd yn argraffedig gydag ef yn y Beiblau amlieithawg, yr hwn sydd gyfieithiad llythyrenol iawn i'r Samariaeg ddiweddar.

71. Tebyg yw, i'r cyfieithiad o'r Ysgrythyrau a elwir Peshito gael ei wneuthur gan y cyfieithwyr hyny "a anfonwyd i Balestina gan yr Apostol Judas ac Abgarus, brenin Edessa." Dyma yr hen draddodiad, ac y mae ynddo ei hunan yn ddigon tebygol. Credir oddiwrth brofion mewnol, mai Cristionogion Iuddewig oedd y cyfieithwyr, ac iddynt droi yr Hen Destament o'r Hebraeg wreiddiol. Y mae yn cynnwys holl lyfrau canonaidd yr Hen Destament, a'r cyfan o'r Newydd, oddigerth 2 Pedr, 2 a 3 Ioan, Judas, a'r Dadguddiad. Gwahaniaetha y testun oddiwrth yr holl brif deuluoedd o lawysgrifau, er fod un o honynt ar ol y llall wedi bod yn ei hawlio. Argraffwyd y Testament Newydd gyntaf yn Venice yn 1555, a'r Hen Destament yn Meiblau amlieithawg Paris a Llundain.

Profion mewnol a thraddodiad a gydunant i'w briodoli i'r ganrif gyntaf. Y mae yn werthfawr iawn mewn beirniadaeth. Amryw gyfieithiadau Arabaidd, a'r cyfieithiad Persiaidd o'r Efengylau (argraffedig yn Amlieithyr Llundain), a wnaethwyd o'r Peshito.

Y cyfieithiad Philoxenaidd (Testament Newydd yn unig) a wnaed o'r Groeg, drwy law, neu dan ofal, neu yn nyddiau Philoxenius, Esgob Maberg, yn Syria, tua'r flwyddyn 508. Nid oes yn awr yr un lawysgrif o hono, ond rhoddir amryw ddarlleniadau o hono mewn llawysgrif yn y Vatican (153). Yn gynnar yn y ganrif ganlynol, Thomas o Harkel, neu Heraclea, canlynydd Philoxenius, a ddeohreuodd adolygu gwaith ei ragflaenydd, ac a gyhoeddodd gyfieithiad arall yn 616. Cynnwysa yr oll o'r Testament Newydd ond y Dadguddiad. Y llawysgrif gyflawnaf o hono yw un a berthynai gynt i Ridley, ond a gedwir yn awr yn y Coleg Newydd, Rhydychain. Y dullwedd sydd bynod o lythyrenol, ac o herwydd hyn y mae yn aml yn troseddu ar ieithwedd y Syriaeg.

Y mae hefyd bedwerydd cyfieithiad Syriaidd, yn cynnwys Gwersi allan o'r Efengylau (llawysgrif y Vatican, 19). Dyddiad y llawysgrif yw 1030, ond ymddengys fod y cyfieithiad yn perthyn i'r 5 neu y 7ed ganrif. Yr iaith sydd gymmysgedig o'r Caldaeg a'r Syriaeg. Y darlleniadau yn y cyffredin ydynt yn ffafriol i'r adwelliant gorllewinol; ac, weithiau, gelwir y llawysgrif y Syriaeg-Palestinaidd, neu gyfieithiad Jerusalem.

72. Y cyfieithiadau Arabaidd o amryw ranau o'r Ysgrythyrau, fel y rhoddir hwynt yn Meiblau amlieithawg Paris a Llundain, a wnawd gan wahanol awduron oddiwrth y Deg a Thriugain, rhwng y 10fed a'r 12fed ganrif. Cyfieithiwyd Job, y Croniclau, Barnwyr, Ruth, Samuel, a rhanau o lyfrau ereill, o'r Peshito Syriaidd.

73. Hefyd, oddiwrth hwn y gwnaed y cyfieithiad Persiaidd o'r Efengylau, a gyhoeddwyd, gyda chyfieithiad Lladin Le Clerc, yn Amlieithyr Llunain. Y mae yn llawn ymadroddion Arabaidd, a rhaid ei fod yn ddiweddarach nag amser Mahomet. Cyhoeddwyd cyfieithiad arall o'r un ran o'r Ysgrythyr yn 1652, gan Wheelock; ond nid yw y rhai hyn, yn nghyd a chyfieithiad diweddarach, a wnawd dan ofal Nadir Shah, 1740-1, ond o ychydig o werth mewn beirniadaeth.

74. Oddiwrth y ffeithiau hyn, eglur yw fod y Pum-Llyfr Samariaidd, y Deg a Thriugain, rhan o'r Vulgate, a'r Peshito Syriaidd, oll, i raddau mwy neu lai, o bwys er penderfynu testun yr Hebraeg wreiddiol; ond nad yw cyfieithiadau ereill o'r Hen Destament, a wnaed oddiwrth y rhai hyn,

ac nid oddiwrth y gwreiddiol, ond o ychydig werth, oddieithr i benderfynu testun y cyfieithiadau hyny oddiwrth y rhai y gwnaed hwynt. Mewn perthynas i'r Testament Newydd, yr holl gyfieithiadau boreuol o'r Groeg ydynt, wrth rheswm, o werth cyfartal i gyflwr cyffredin eu testunau, a mesur y cywirdeb gyda pha un y gwnaed hwynt. Nid yw cyfieithiadau diweddar yn werthfawr (na hen rai ychwaith, i raddau helaeth) ond fel cynnorthwyon dehongliyddol.

Gellir cael hanes cyflawn am hen gyfieithiadau yn "Le Long's Bibliotheca Sacra" (Argraffiad Masch), neu yn Arweiniad Horne, cyf. 2.

[a] Dos. 5. *Darlleniadau amrywiol yr Ysgrythyr: Rheolau i benderfynu y Testun.*

75. O'r llawysgrifau Hebreig, y mae dros 1300 wedi eu cymharu, a thros 600 o rai Groeg. Sylwer, nad yw y rhifedi yma yn cynnrychioli copïau cyflawn, ond yn unig rhanau o'r Ysgrythyrau. Y mae pob un o dair rhan yr Hen Destament (adran 4), yn ffurfio rhol yn yr Hebraeg; a phob un o'r rhanau i ba rai y dosparthir y Testament Newydd, yn ffurfio yn gyffredin un lawysgrif yn y Groeg.

76. Y mae y llawysgrifau hyn, wrth eu copio, wedi eu gwneyd yn agored i lawer iawn o wallau. Ni ryfeddir am hyn, pan gofir fod llyfrau sydd wedi eu hargraffu yn ofalus yn aml yn cynnwys llawer o wallau. Amlwg yw fod y perygl yn llawer mwy wrth ysgrifenu nag wrth argraffu. Y mae adolygiad a diwygiad yn anhawddach yn y blaenaf na'r olaf. Arafwch y gorchwyl o ysgrifenu a gynnydda y tebygolrwydd i lythyrenau, silliau, neu eiriau, gael eu hychwanegu, eu gadael allan, eu trawsgyfleu, neu eu cyfnewid. Byddai yr ysgrifenydd weithiau yn copïo oddiwrth lawysgrif o'i flaen; brydiau ereill ysgrifenai oddiwrth draethiad un arall. Yn yr olaf, twyllid ef yn aml gan ei glust, ac yn y blaenaf gan ei lygad. Byddai geiriau gwahanol, yn meddu yr un lythyren derfynol, neu frawddegau gwahanol yn meddu yr un gair terfynol, yn ei gwneyd yn hawddach i gamsynied. Camddealliad o'r lawysgrif o'r hon y copïai a'i atweiniai weithiau i'r un canlyniad. Gallai gamddeall y talfyriadau, neu gamranu y geiriau, lle y byddent (fel yn y rhan amlaf o hen lawysgrifau), wedi eu hysgrifenu heb nodau gorphwysol, a gallai yr ysgrif fod wedi ei llychwino, neu ran o honi fod wedi ei dileu. Yn annibynol, gan hyny, ar bob amcan yn y dyn, yr oedd y pethau hyn bob amser yn ei wneyd yn agored i gamsynied. Nid yw y canlyniadau, fodd bynag, ond anfynych yn effeithio yn fawr iawn ar ystyr y testun (er eu bod felly ar rai achosion); ond y maent yn gyffelyb i'r camsyniadau a gynnyrchir drwy wallau o eiddo y wasg, y rhai a ddiangant sylw hyd y nod darllenydd gofalus. Canfyddir amrywiaethau mwy pwysig yn y Beiblau a argraffwyd "drwy awdurdod" y Pabau Sextus a Chlement. Y mae *Hody* wedi dangos llawer iawn o'r amrywiaethau yma. Cymharer hwynt yn Diar. 25, 24; Math. 27, 35; Barn. 17, 2, 3; y rhai a adewir allan yn argraffiad Sixtine; ac yn 1 Sam. 24, 8; 2 Sam. 8, 8; y rhai a adewir allan yn argraffiad Clement. Heblaw hyny, gwrthddywedant eu gilydd, Jos. 2, 18; 9, 19; Exod. 32, 28; Gen. 24, 24; a 1 Bren. 2, 28.

Er enghraifft:—

77. (1.) Y mae llawer iawn o achosion, yn mha rai, o herwydd cyffelyb-

[a] Gwel Rhagymadrodd.

rwydd sain, neu ffurf, yr arweinid yr ysgrifenydd yn naturiol i wneyd darlleniad cyfeiliornus.

Yn Gen. 14, 5, yr Hebraeg, y Samariaeg, a'r Deg a Thriugain, a ddarllenant "gyda hwynt" (*Behem*); ond y Gymraeg, y Saesoneg, a saith o lawysgrifau, a ddarllenant "yn Ham," (*Becham.*)

Yn Barn. 8, 16, mewn rhai o'r llawysgrifau Hebreig, yn Saesoneg, ac yn Gymraeg, darllenir "ac a ddysgodd" (*Yadah*); ond llawer o lawysgrifau, y LXX, y Cald., yr Arab., y Syr., a'r Vulg., a ddarllenant, "efe a ddrylliodd" (*Yadash*), yr hyn yn ddiau yw y darlleniad priodol.

Yn 1 Bren. 1, 18, "Ac yn awr" yw y cyfieithiad Cymreig, *Veatta*, ond y mae 200 o lawysgrifau a'r Cald., yn darllen "A thithau," *Veatta*. Fel hyn y mae y gair wedi ei gyfieithu yn yr 20fed adnod.

Jonah 1, 9, yn Gymraeg, y Saesoneg, a'r rhan amlaf o lawysgrifau, y darlleniad yw, "Hebread ydwyf fi" (*Ivri*); ond y Deg a Thriugain, a rhai llawysgrifau, a ddarllenant *Ivdi*, "gwas Jehofah."

Rhoddir *lo* (na) am *lo* (iddo ef) bumtheg o weithiau yn yr Hen Destament, a'r gwrthwyneb ddwywaith. Ond y mae y gwahaniaeth yma, sef fod y testun a ddefnyddir gan yr Iuddewon, a'r un y gwnaethwyd ein cyfieithiad ni oddiwrtho, yn gywir yn y lleoedd yma, oddieithr, feallai, mewn un adnod, 2 Bren. 8, 10; yn lle "Dos, a dywed wrtho, diau y gelli fyw," dylem ddarllen, "yn ddiau ni elli fyw." Fel hyn y mae yn y llawysgrifau Hebreig presenol.

Yn Eph. 4. 19, y mae rhai llawysgrifau yn darllen "anobeitho" yn lle "diddarbodi" (*Apelpikotes* am *Apelgekotes*).

Canfyddir enghreifftiau cyffelyb yn Hebraeg, yn yr adnodau canlynol, 1 Sam. 20, 18; Sal. 59, 9.

Gellir gosod dan y pen hwn drawsgyflead llythyrenau, neu eiriau, megys "Salmai" am Samlai, Neh. 7, 48; Ezra 2, 46; "coed almugim" yn lle coed algummim, 1 Bren. 10, 11; 2 Cron. 9, 10. Yn 2 Sam. 6, 5; 1 Cron. 13, 8, y gwahaniaeth rhwng "chwareu â phob offer o goed ffynnidwydd," a "chwareu â'u holl nerth ac â chaniadau," a gynnyrchir, yn benaf, gan gyffelybrwydd mewn un lythyren, a thrawsgyflead un arall. Gwel hefyd yr Hebraeg yn 2 Sam. 6, 2, wedi ei gymharu â 1 Cron. 13, 6.

Nid oedd yr Iuddewon un amser yn ynghanu y gair Jehofah, ond pan gyfarfyddent âg ef yn yr Ysgrythyr darllenent *Adonai* neu *Elohim*. Y canlyniad yw, fod y geiriau olaf yn aml mewn llawysgrifau yn cael eu gosod am y blaenaf.

Nodasom mewn man arall (adr. 117) y modd y mae llythyrenau cyffelyb wedi eu cymmysgu mewn cyssylltiad â rhifnodau; cymmysgedd oedd yn hawddach ei wneyd yn sefyllfa foreuol yr iaith Hebraeg, o herwydd fod y llythyrenau yn debycach i'w gilydd nag yn bresenol.

78. (2.) Y mae cyffelybrwydd yn niweddiad geiriau neu frawddegau yn achosi camsyniad rai gweithiau.

Y mae yr achos yma wedi cynnyrchu darlleniadau amrywiol yn 1 Cron. 9, 5. Ymddengys fod 1 Bren. 14, 25, yn perthyn i'r dosparth yma; cymharer Sal. 37, 28, â'r Deg a Thriugain.

Yn Ex. 30, 6, feallai mai ailfynegiad yw yr ymadrodd "o flaen y drugareddfa sydd ar y dystiolaeth," o'r rhan flaenorol o'r adnod.

Yn Math. 28, 9, y geiriau "i fynegu i'w ddysgyblion ef" a adewir allan o lawer o lawysgrifau, megys B, D, ac hefyd o'r Vulg., Syr., Copt, Arm., Pers., Arab., Chrys., Jer., Aug.; ond ceir ef yn y rhan amlaf o lawysgrifau. Ar y llaw arall, y mae y rhan ddiweddaf o 1 Cor. 10, 28, wedi ei

chymmeryd o'r 26 adnod, ac y mae yn eisieu yn A, B, D, yn y rhan amlaf o'r hen gyfieithiadau, ac awdurdodau lluosog ereill.

79. (3.) Y mae dosparth helaeth o ddarlleniadau amrywiol wedi eu hachosi drwy ddefnyddiad o ymadroddion cyfystyr; megys "ac a lefarodd," yn lle "ac a ddywedodd," yn 2 Bren. 1, 10; "hwy a gawsant" am "hwy a welsant" (*eiron* am *eidon*), Math 2, 11; "y byd hwn" am "y byd presenol," Math. 12, 32; "cenadon Ioan" am "ddysgyblion Ioan," Luc 7, 24; "canlyned ar fy ol I" am "canlyned fi," Marc 8, 34.

80. (4.) Yr oedd llawer o'r copïwyr yn adnabyddus âg ieithoedd dwyreiniol ereill, ac, yn achos y Testament Newydd, â thafod-ieithoedd ereill, ac oddiwrth hyn tarddodd amrywiaeth mawr mewn orgraff, hyd y nod pan fyddo y synwyr yr un mewn sylwedd.

81. (5.) Yr oedd hen lawysgrifau, yn aml, heb ddim attalnodau, ac, hyd y nod heb raniadau geiriawl, a chyfododd rhai camsyniadau oddiwrth hyn, er eu bod yn anamlach nag y gallasid ddysgwyl.

Yn Sal. 48, 14, am "hyd angeu," y mae rhai llawysgrifau, a'r Deg a Thriugain, drwy gyssylltu y ddau air, yn darllen "hyd byth." Drwy gamsyniad cyffelyb, gellir darllen Sal. 25, 17, "Helaetha ofidiau fy nghalon, dwg," &c.; cymharer hefyd Sal. 4, 3, yn y Deg a Thriugain, ac yn yr Hebraeg.

82. (6.) Y mae talfyriadau weithiau yn cael eu camddeall. Yn Hebraeg, J yw y talfyriad o "Jehofah," ac y mae hefyd yn golygu YY, ac oddiwrth hyn gwneir camsyniad yn achlysurol. Yn nghyfieithiad y Deg a Thriugain o Jer. 6, 11, y geiriau "llid Jehofah" a droir yn "fy llid." Felly hefyd yn 1 Pedr 2, 3, am "graslawn" (*tirion*), yr hwn weithiau a a ysgrifenir *chs* (*chrêstos*), y mae rhai o'r Tadau (Clem-Alex., Greg. Naz. Theoph.) yn darllen Crist (*Christos*), yr hwn hefyd a ysgrifenir *chs*.

83. (7.) Yn llawysgrifau yr Hen Destament, nid oedd y copïwyr un amser yn rhanu gair, nac yn gadael unrhyw le gwag ar ddiwedd y llinellau; o herwydd hyny, yn aml, llanwent i fyny y llinell â rhyw hoff lythyren, neu â'r lythyren gyntaf yn y gair canlynol, yr hon, wrth gwrs, a ysgrifenid eilwaith yn nechreu y llinell nesaf; enghraifft o hyn yw "o'u plegid" yn Esay 35, 1. Ar y llaw arall, y mae copïwyr anwybodus wedi gadael allan lythyrenau diweddol geiriau, drwy eu cymmeryd yn lle y rhai a elwid *custodes linearum* (ceidwaid y llinellau).

84. (8.) Y mae darlleniadau ymyl y ddalen, weithiau, yn cael eu cyflwyno i gorff y llawysgrif, er mwyn diwygio neu egluro y testun gwreiddiol,

Tybir fod y geiriau "gwellt yn ddiau yw y bobl" yn perthyn i'r dosparth hwn, ac nid ydynt i'w cael yn y Deg a Thriugain. Tybia Jahn fod y rhif 50,000, a nodir yn 1 Sam. 6, 19, yn enghraifft arall o hyn.

Yn Marc 1, 16, ymddangosai y gair "ei" yn amwys; ac y mae llawer o lawysgrifau (54, heblaw yr oll o rai Stephens) yn darllen "y Simon hwn."

Yn Luc 7, 16, er eglurhad ar yr ymadrodd lled aneglur "Ac ymwelodd Duw â'i bobl," y mae 11 o lawysgrifau, yr Arm. a'r Pers., yn ychwanegu "er daioni" (*eis agathôn*).

Yn Luc 5, 7, y mae rhai llawysgrifau yn ychwanegu "ychydig" (*para ti*).

85. Gellir ystyried holl ffynnonellau y darlleniadau amrywiol sydd wedi eu nodi fel rhai damweiniol; er hyny, y mae darlleniadau ereill i'w cael ag ydynt, oddiar amcanion da neu ddrwg, wedi eu gwneuthur yn fwriadol.

Copïwr Groegaidd, er enghraifft, fyddai wedi arfer clywed ei iaith ei hun yn cael ei llefaru heb un cymmysgedd o ieithweddau dwyreiniol, a edrychai ar Hebreigiaith *(Hebraism)* fel gwall gramadegol, ac a'i diwygiai; gan annghofio fod y cyfryw ieithweddau yn tueddu i brofi purdeb yr ysgrifeniadau ysbrydoledig. Weithiau, yn lle y gwreiddiol, rhoddai eiriau Groeg a ystyrid ganddo yn eglurach a llyfnach. Weithiau diwygiai un efengylwr drwy y llall, a llenwai fyny yr adroddiad byraf oddiwrth yr un meithaf, neu cyfaddasai y dyfyniadau o'r Hen Destament at destun ei gopi ei hun, pa un bynag fyddai ai Hebraeg, ai Groeg, ai Lladin.

Mewn enghreifftiau ereill, gallai amcanion llai anrhydeddus gyfrif am wahaniaethau oddiwrth y testun gwreiddiol.

86. (9.) Mewn copïau neillduol o'r Ysgrythyrau, er enghraifft, weithiau, y mae camsyniad mewn sillebiad gair, ar ol ei wneyd unwaith, yn cael ei gadw yn mlaen drwy yr holl lyfr.

Yn llyfrau Moses, y mae y gair Hebreig am *fab* yn cael ei roddi 21 o weithiau am *ferch* (*na-ar* am *na-ara*), tra nad yw yr olaf i'w gael ond unwaith: Deut. 22, 9. Yr holl gyfieithiadau a'r Masora a'n cyfarwyddant i'w ddarllen fel enw menywaidd. Yn Ezeciel 40, y mae gwrthuni gramadegol mewn 34 o eiriau, drwy adawiad allan arwydd cyffredin y rhif lluosog (o flaen yr olddaw *vav*, neu *yodh*). Y Keri, fodd bynag, a'n cyfarwydda i'w ddarllen. Gellir ychwanegu fod rhai beirniaid yn priodoli yr amrywiaethau hyn i achosion ereill.

87. (10.) Cynnygid weithiau i ddiwygio llawysgrifau drwy wneyd yr iaith yn eglurach a mwy ystwyth.

Canfyddir, er enghraifft, fod llawer o ranau o'r Croniclau, wrth eu cymharu â Samuel, yn rhoddi geiriau diweddarach yn lle rhai annghynnefin yr ysgrifenydd boreuol. Y mae yr adnodau canlynol, wrth eu cymharu â chopïwyr, yn rhoddi darlleniadau amrywiol. Gwel yr Hebraeg o 1 Sam. 31, 12; 1 Cron. 10, 12; 2 Sam. 7, 23; 1 Cron. 17, 21; 2 Sam. 6, 16; 1 Cron. 15, 29.

Yn Luc 1, 64, y mae rhai llawysgrifau (Beze, a'r testun Complutensaidd) yn ychwanegu "a ollyngwyd."

Yn Exod. 15, 3, dywedir, "yr Arglwydd sydd ryfelwr." Ymddangosai y geiriau i'r copïwyr Samaritanaidd yn weiniaid, ac ysgrifenasant "rhyfelwr cadarn."

Dywedir yn Gen. 2, 2, i Dduw orphen ei waith ar y *seithfed* dydd; ond ymddengys y Samariaeg a'r Syriaeg fel yn darllen "ar y chweched dydd." Yn llyfrau Moses, y mae y gair am Dduw yn y rhif luosog (Elohim), a chyssylltir ef weithiau â berf unigol; brydiau ereill â berf luosog. Yn yr holl achosion olaf y mae amrywiaeth darlleniadau, y rhan amlaf o honynt (fel yn y Samariaeg) yn ffafriol i *enw* unigol (megys) Y Sanct, er yn cadw y ferf luosog; yr amcan o hyn, mae'n debyg, yw gwahardd y dyb fod yr Ysgrythyrau yn ffafriol i amlddduwiaeth. Gwel Gen. 20, 13; 35, 7.

Gellir sylwi fod llawysgrifau o'r teulu Alexandriaidd, yn aml, yn cyfnewid geiriau er mwyn yr hyn a ystyrir yn wall gramadegol, fel y cyfnewidir hwynt gan rai o'r teulu Gorllewinol, er mwyn gwneyd y meddwl yn fwy eglur.

88. (11.) Gwnelid cyfnewidiadau weithiau i gyfateb y darn cyd-redol (*parallel passage*), neu er gwneyd i'r testun gytuno â'r darn o ba un y dyfynir ef. Am ddylanwad y Deg a Thriugain ar y Testament Newydd, yn yr ystyr yma, gwel argraffiad Schulz o Griesbach (Berlin, 1827).

Luc 4, 18, y mae "iachâu y rhai drylliedig o galon" yn eisieu mewn

amryw o lawysgrifau. Tebyg iddo gael ei gymmeryd o gyfieithiad y Deg a Thriugain o Esay 61, 1. Math. 12, 35, y mae llawer o lawysgrifau yn gadael allan "y galon;" felly hefyd y gwna y *Vulg.*, *Syr.*, *Copt.*, *Pers.*, *Arab.* Tebyg fod y geiriau wedi eu cymmeryd o Luc 6, 45. Math. 20, 22, 23, y mae "a'ch bedyddio â'r bedydd y bedyddir fi" yn eisieu mewn amryw o lawysgrifau, ac yn y *Vulg.*, *Ethiop.*, a'r *Copt.*; feallai ei fod o Marc 10, 38. Math. 27, 35, y mae "er cyflawnu y peth a ddywedwyd" yn eisieu yn A, B, D, E, F, G, H, K, L, M, &c., ac mewn llawer o lawysgrifau ereill, yn gystal ag yn y *Syr.*, *Copt.*, *Ethiop.*, a'r *Arab.* Dichon ei fod o Ioan 19, 24. Actau 9; 22; 26; ac Act. 10; 11; ydynt, ar y tir yma, wedi bod mewn modd neillduol yn agored i ddarlleniadau amrywiol. Yn 1 Cor. 15, 5, nid yw "y deuddeg" yn eithaf cywir (oblegid yr oedd Thomas yn absenol), a rhai llawysgrifau a ddarllenant "*yr un ar ddeg.*" Yn Marc 8, 31, rhai llawysgrifau a ddarllenant "wedi tridiau," ac ereill "ar y trydydd dydd."

89. (12.) Weithiau y mae darn wedi cael ei gyfnewid yn fwriadol, er gwasanaethu amcanion plaid, neu ffafrio yr hyn a ystyrid yn achos gwirionedd. Yn Deut. 27, 4, yr Hebraeg a ddarllena "Ebal," a'r Samariaeg "Gerizim," yr hwn oedd yn y diriogaeth Samariaidd; a defnyddid y frawddeg yma fel rheswm dros adeiladu teml Samariaidd yno. Yn Barn. 18, 30, mewn llawer o lawysgrifau, ysgrifenir "Manasseh" yn lle "Moses;" a hyny, mae yn debyg, er mwyn cuddio gwarth teulu Mosea. Felly y cydnabydda Rabbi *Solomon Jarchi.* Cyfnewidiwyd Esay 64, 4; ac y mae yn awr yn annealladwy. Dyfynir hi yn 1 Cor. 2, 9. Esay 52, 14, am "wrthyt," y mae rhai llawysgrifau, y Caldaeg, Syriaeg, a'r Vulgate, yn darllen "wrtho." Fodd bynag, nid yw cyfnewidiadau bwriadol o'r fath yma ond anaml iawn yn yr Hen Destament, ac nid ydynt ond ychydig yn Groeg y Testament Newydd. Yn Math 1, 18, 25, y mae y geiriau "cyn eu dyfod hwy yn nghyd," a'r gair "cyntaf-anedig," wedi eu gadael allan o rai llawysgrifau, er mwyn ffafrio y morwyndod parhaus. Yn Marc 13, 32, amryw o lawysgrifau a Thadau a adawant allan "na'r Mab," fel yn ymddangos yn bleidiol i Ariaeth. Yn A, B, a rhai llawysgrifau ereill, gadewir allan Luc 22, 43, fel yn ymddangos yn wrthwynebol i ddwyfoliaeth ein Harglwydd.

90. (13.) Y mae hefyd amryw ddarlleniadau nad ydynt i'w priodoli i'r achosion sydd eisoes wedi eu nodi, ac nis gellir eu hegluro ond yn unig ar y dybiaeth o ddiofalwch yr ysgrifenwyr.

Yn 1 Cron. 6, 28, gadewir enw "Joel" allan (gwel ad. 33; 1 Sam. 8, 2.) Darlleniad priodol yr adnod yw "A meibion Samuel, y cyntaf-anedig Joel, a'r ail (a gyfieithir yn awr Fasni,) Abiah." Sylwa yr Esgob Lowth fod cynnifer a 50 o wallau bychain o'r natur yma yn Esay; ond nad oes un o honynt yn effeithio ar y synwyr. Canfyddir enghraifft nodedig yn 2 Sam 21, 19, yr hon a ddylai gael ei darllen fel 1 Cron. 20, 5. Yn Samuel, darllener *eth* am *beth*, ac *ach* am *eth*. Y mae y gair *argis* (gwebyddion) wedi dyfod i fyny yn anmhriodol o ddiwedd yr adnod. Nid yw y 430 o flynyddau a nodir yn Ex. 12, 40, fel amser ymdeithiad plant Israel yn yr Aifft, yn gywir. Nid oedd ond 215 o flynyddau; a phrin y mae y testun fel y saif yn gysson â Gal. 3, 17; Gen. 12, 4; 17, 1, 21; 25, 26. Y mae y *Sam.*, *Alex.*, y Deg a Thriugain, a rhai llawysgrifau, yn darllen "Ac o'u tadau, y rhai a breswyliasant yn nhir yr Aifft, ac yn Nghanaan." Fe allai, er hyny, y defnyddir yma gyffredinolrwydd ymadroddol, a ddeallid yn hawdd gan ddarllenwyr Iuddewig.

91. Y darlleniadau tarddedig o'r achosion hyn, a'u cyffelyb, a wnant i fyny amryw filoedd; ond yn y rhan amlaf, gellir dewis yr un a fynir, heb effeithio nemawr ar y synwyr. Gyda phriodoldeb y dywedwyd, fod y testun mwyaf annghywir a ysgrifenwyd erioed yn gadael gwirioneddau yr Ysgrythyr, ar y cyfan, heb eu cyfnewid.

92. Pwnc dyddorawl a phwysig dros ben, er hyny, yw, pa fodd y mae gwerth cymharol darlleniadau amrywiol i'w benderfynu? Cydnabyddir yr egwyddorion canlynol gan bob ysgolhaig cymhwys yn y gangen hon o ymchwiliad. Cymmerwyd hwynt yn sylweddol o Griesbach, Wetstein, a beirniaid ereill. Gellir gweled rheolau Griesbach yn gyflawn yn ei Brolegomena, neu yn dalfyredig yn Ieitheg Gyssegredig Planck, tud. 245, &c.; ac eiddo Wetstein yn ei Ragarweiniad i'r Testament Groeg. Rheolau cymmeradwyedig gan Eichhorn a De Wette, gyda chyfeiriadau neillduol i'r Hen Destament, a ellir weled yn Rhagarweiniad De Wette, i., 319.

93. (1.) Pan fyddo llawysgrifau, cyfieithiadau, a dyfyniadau, yn cyduno mewn darlleniad, y mae y prawf allanol yn hollol o'i blaid; a phan fyddo y darlleniad, fel hyn, yn cyduno â natur yr iaith, y synwyr, cyssylltiadau y ffeithiau hanesyddol, ac â'r rhanau cydredol (*parallel passages*), y mae y prawf mewnol yn gyflawn. Pan y cyduna y rhai hyn, nid oes un ammheuaeth am burdeb y darlleniad; ac y mae y prawf yma i'w gael mewn cyssylltiad â chorff mawr yr Ysgrythyrau, fel y cynnwysir hwynt yn yr argraffiadau cyffredin.

94. (2.) Y mae gwerth darlleniad yn cyfateb, yn gyffredin, i oed y llawysgrifen; oblegid pa henaf y byddo, mwyaf annhebyg yw o fod yn adysgrif o lawer o adysgrifau blaenorol (er y gall llawysgrif ddiweddar, wedi ei chopio yn gywir oddiwrth un foreu iawn, fod o fwy o awdurdod nag un henach nâ hi); y mae ei gwerth hefyd yn cyfateb i rifedi y llawysgrifau yn mha rai y mae i'w chael; i'r teulu i ba un y perthyn (rhai, gyda Griesbach, a ddewisant yr Alexandriaidd; ac ereill, gyda Schulz, a ddewisant y Caercystenynaidd); ac i'r gofal amlwg gyda pha un y byddo y llawysgrif wedi ei hysgrifenu.

Wrth ddarlunio y llawysgrifau Hebreig, llefarwn am y gwledydd lle yr ysgrifenwyd hwynt, yn hytrach nag am deuluoedd a ffurfiwyd ar unrhyw egwyddor arall: Yspaenaidd, Eidalaidd, ac Almaenaidd yn cynnrychioli eu dechreuad, a threfn eu gwerth beirniadol. Gellir gosod i lawr y rheolau canlynol fel cynnorthwy i'r ymofynydd er penderfynu y darlleniad cywir:—

95. (1.) Pan fyddo y prawf mewnol ac allanol yn groes i'w gilydd, dylai y blaenaf, yn gyffredin, gael ei ddewis; canys "y darlleniad pur" sydd ymadrodd yn cyfeirio at y prawf allanol yn hytrach nag at yr un mewnol. Gwneir ef i fyny, nid yn gymmaint o resymau, ag o awdurdodau.

96. (2.) Gall y prawf mewnol, er hyny, fod mor gryf, fel ag i orbwyso graddau helaethach o'r allanol (fel yn y rhan amlaf o ddarlleniadau Masoretaidd yr Hen Destament); mewn gair, gall hyn fod, lle bynag y byddo twyll y darlleniad yn amlwg, neu lle y byddo dygiad i mewn ddarlleniad neillduol yn hawdd i'w egluro.

97. (3.) Y mae darlleniadau yn sicr o fod yn gywir, pan yn cael eu hattegu gan y llawysgrifau henaf, gan y cyfieithiadau henaf, gan ddyfyniadau, gan ranau cydredol, a chan y synwyr, er nad yw y cyfryw ddarlleniadau i'w cael yn yr oll o'r llawysgrifau, nac yn y cyfieithiad cyffredin. Esay 60, 21, "Fy mhlanigion;" 1 Bren. 1, 18.

98. (4). Y mae yn dra thebyg fod darlleniadau yn gywir os byddant yn

eael eu pleidio gan ychydig o hen lawysgrifau, hen gyfieithiadau, dyfyniadau, rhanau cydredol, a'r synwyr, er na fyddant i'w cael yn y rhan amlaf o'r llawysgrifau.

2 Cron. 11, 18, yn y rhan amlaf o lawysgrifau, dywedir, "A Rehoboam a gymmerth *fab* (*ben*, am *bath*,) Jerimoth yn wraig." Dywed y cyfieithiad Cymreig yn iawn, "*merch*." Sal. 22, 16, y rhan amlaf o lawysgrifau a ddarllenant, "Fel llew fy nwylaw a'm traed" (*Kaari*); ond tair llawysgrifen, dau argraffiad cyhoeddedig, y Deg a Thriugain, y Syriaeg, a'r Vulgate, fel y cyfieithiad Cymreig, a ddarllenant, "trywanasant fy nwylaw a'm traed (*Kore*, neu *Kaaru*). Ereill, er hyny (Vitringa, Stuart), a ystyriant y testun Masoretaidd presenol yn ddiffynadwy. Ezec. 11, 7, y mwyrif o lawysgrifau a ddarllenant, "efe a ddwg allan" (*hotzi*). Ychydig o lawysgrifau, a'r holl gyfieithiadau, a ddarllenant, "myfi a ddygaf allan" (*otzi*). Eph. 5, 9, y llawysgrifau gan amlaf a ddarllenant, "yr Ysbryd;" ond A, a naw ereill, yn nghyd â'r Syriaeg, Coptaeg, Ethiopaeg, a'r Vulgate, a ddarllenant, "y goleuni."

99. (5.) Darlleniadau yn llyfrau Moses, a attegir gan y Samariaeg, rhai llawysgrifau Hebreig, yr hen gyfieithiadau, manau cydredol, a'r synwyr, ydynt yn ddiau yn gywir, er na cheir hwynt yn y rhan amlaf o lawysgrifau.

Gen. 47, 3, yn lle "dy weision sydd fugail" (*unig.*), darllenir mewn 30 o lawysgrifau, a'r Samariaeg, "fugeiliaid." Gallai darlleniad fod yn gywir hyd y nod pe na byddai i'w gael mewn unrhyw lawysgrifen Hebreig. Gen. 2, 24, "A hwy ill dau a fyddant un cnawd," felly y mae y Samariaeg, y Deg a Thriugain, yr Eidalaeg, y Syriaeg, yr Arabaeg, a'r Vulgate; Math. 19, 5. Felly hefyd Exod. 12, 40.

100. (6.) Weithiau, y mae cyduniad y llawysgrif henaf, a'r synwyr, yn ddigonol (er nid yn gyffredin) i ddangos fod y darlleniad yn gywir. Esay 57, 13, "Gwareded dy gynnulleidfäoedd di." Yn y rhan amlaf o lawysgrifau, y mae berf unigol; ond y mae deg yn darllen yn y lluosog. Y mae y rheol yma yn gymhwysiadol iawn i'r Testament Newydd.

101. (7.) Cyduniad y cyfieithiadau henaf, a'r synwyr, neu ddarn cydredol, sydd weithiau yn ddigon i ddangos priodoldeb darlleniad, yn enwedig yn yr Hen Destament.

Sal. 68, 18, "Derbyniaist roddion i ddynion." Ephes. 4, 8, a ddywed, "Ac a roddes roddion i ddynion." Felly hefyd y *Targ.*, *Syr.*, *Ethiop.*, *Arab.*, a rhai o'r Tadau. Y gair Hebreig presenol yw *lakachta;* trawsgyflëad y llythyrenau a eglura y gwahaniaeth—*chalakta*. Esay 59, 20, "I'r rhai a dröant oddiwrth anwiredd yn Jacob" yw y darlleniad presenol; ond y cyfieithiadau, a Rhuf. 11, 26, a ddarllenant, "A dry ymaith annuwioldeb oddiwrth Jacob." Gellir ystyried y Testament Newydd, yn y ddwy adnod uchod, fel yn rhoddi y meddwl cyffredin, ac nid y geiriau.

102. (8.) Pan fyddo testun yn llygredig iawn, gall darn cydredol awgrymu y darlleniad cywir.

2 Bren. 25, 3, am "ar y nawfed dydd o'r mis," darllener "o'r pedwerydd fis," fel yn Jer. 52, 6. 1 Cron. 1, 17, yn lle "Meibion Sem ..... Aram, ac Uz," darllener "Meibion Sem, a meibion Aram," &c., Gen. 10, 23. Esay 30, 17, yn lle "wrth gerydd pump y ffowch," darllener "wrth gerydd pump y ffoa deng mil," Lef. 26, 8.

103. Pan ddelom i ystyried darlleniadau nad ydynt ond yn debygol, ac yn cael eu pleidio yn gyfartal, neu yn agos felly, gan *brawf allanol*, y mae rheolau beirniadaeth yn myned yn fwy afrwydd, a rhaid eu cymhwyso gyda llai o fanylrwydd.

104. (1.) O ddau ddarlleniad a attegir yn gyfartal gan brofion allanol, y tebycaf i fod yn gywir yw yr un sydd yn cyfateb oreu i'r synwyr, neu yr un na allasai cyn hawdded a'r llall gael ei ysgrifenu mewn camsynied.

Yn 2 Cor. 5, 14, "(Os) bu un farw dros bawb," gadewir "*ei*" allan o lawer o lawysgrifau; ond y mae y synwyr yn galw am dano, ac y mae yn hawdd ei adael allan "o flaen *eis*." Act. 11, 20, "Wrth y Groegiaid" yw darlleniad llawer o lawysgrifau; ond fe allai mai "Wrth y Groegwyr" ddylai fod, ac fel hyn y mae llawer yn ei ddarllen. Y mae y ffaith yn deilwng o sylw ar gyfrif ei hynodrwydd, yn neillduol felly os ydyw yn ailfynegiad am lwyddiant yr efengyl yn mhlith y Paganiaid. Am y cyntaf, gwel Pen. 10, 44, 45. "*Groegiaid*" oeddynt Iuddewon yn byw o Balestina. Yn 2 Cor. 5, 3, llawer iawn o lawysgrifau a ddarllenant, "Os hefyd wedi ein gwisgo" (*Endusamenoi*). Ereill a ddarllenant, *Ekdusamenoi*, "Os byddwn hyd y nod wedi ein dynoethi, etto ni cheir ni yn noeth, oblegid y mae genym gorff gogoneddus," &c. Gellir ei rhoddi lawr fel rheol gyffredin, na ddylai darlleniadau nad ydynt yn rhagori ar y testun derbyniedig, gael eu rhoddi ynddo; ond os byddant gystal, neu yn agos felly, gosoder hwynt ar ymyl y ddalen.

105. (2.) O ddau ddarlleniad cydradd mewn tebygolrwydd, y cyflawnaf yw y tebycaf o fod yn bur, oddigerth fod rheswm i ammeu ffugiaeth, neu fod rhywbeth yn y testun i awgrymu ychwanegiad; yna, y mae y rheol yn cael ei chyfnewid.

Yn 1 Cron. 11, 32, cawn "Abïel;" ond yn 2 Sam. 23, 31, "Abialbon." Gellid yn hawdd adael allan y sill olaf. Felly hefyd yn Math. 2, 1, "yn nyddiau Herod Frenin" a adewir allan gan amryw lawysgrifau, ond y mae yn bur.

Etto, os bydd rheswm i ammeu ffugiaeth, neu fod rhywbeth yn y testun yn awgrymu ychwanegiad, y mae y rheol yn cael ei chyfnewid; oblegid byddai copïwyr, drwy fwriad, yn fwy tebyg o ychwanegu nâ gadael allan; ac yn debycach, drwy ddamwain, o adael allan nag ychwanegu. Y mae Act. 8, 37, yn eisieu yn A, ac mewn 60 o lawysgrifau ereill; hefyd yn y *Syr.*, *Ethiop.*, a'r *Cept.* Fe allai ei bod wedi ei hychwanegu o Rhuf. 10, 9.

106. (3.) O ddau ddarlleniad, un yn glasurol, a'r llall yn ddwyreiniol, yr olaf yw y tebycaf o fod yn bur.

107. (4.) O ddau ddarlleniad, un yn rhwydd, a'r llall yn afrwydd, yr olaf yn gyffredin sydd i'w ddewis. Y mae yr holl brif-feirniaid, Wetstein, Griesbach, Bengel, ac ereill, yn cydnabod ac yn amddiffyn y rheol yma, ac yn ei hystyried o werth hanfodol.

108. (5.) O ddau ddarlleniad (cyfartal o ran tebygolrwydd, dewiser hwnw sydd yn cyduno oreu â dullwedd, neu amcan yr ysgrifenydd, neu â'r cyd-destun.

Judas 1. Y mae "Santeiddiwyd gan Dduw Dad" (*egiasmenois*), yn fwy tebygol nag "anwyl" (*egapemenois*), am ei fod yn ymadrodd mwy cyffredin ar ddechreuad epistolau. Act. 17, 26, y mae "o un gwaed" yn fwy tebygol nag "o un" (fel yn Rhuf. 9, 10), am ei fod yn Hebreigiaith da. Ioan 6, 69, y mae "Tydi yw y Crist, Mab y Duw byw" (*Uios*), yn well nâ darlleniad Griesbach "Sanct Duw;" oblegid nid yw yr enw yma un amser yn cael ei gymhwyso at Grist, ond yn nghyffes y dyn cythreulig. Marc 1, 2, y mae "yn y prophwydi" yn rhagorach nâ darlleniad Griesbach a Mill, "yn y prophwyd Esay;" oblegid y mae dau brophwyd yn cael eu dyfynu (Esay 40, 3; Mal. 3, 1).

109. (6.) Gall darlleniadau tybiedig (*conjectural*), yn cael eu cynnal

gan y synwyr neu destunau cyffelyb, fod yn debygol; ond ni ddylid eu derbyn fel gwirionedd, oddieithr iddynt gael eu cadarnhau drwy brofion. Y mae yr ymadrodd "Duw a welodd mai da oedd" yn eisieu ar ddiwedd gwaith yr ail ddydd, Gen. 1, 8; ond ceir ef ar ddiwedd y 10fed adnod, yn nghanol gwaith y trydydd dydd. Tra thebyg yw, gan hyny, fod yr ymadrodd wedi cael ei drawsgyfleu, yn enwedig gan fod y Deg a Thriugain yn ei ddarllen ar ddiwedd yr 8fed adnod. Yn Josua 24, 19, y geiriau "Ni elliwch wasanaethu yr Arglwydd," a ymddangosant yn ddieithr yn nghanol annogaeth i wasanaethu Duw. Fe allai mai "na pheidiwch ei wasanaethu" (*La-Thokilu*) yw y darlleniad cywir, er nad ydyw wedi ei gadarnhau. Esay 52, 15, "Felly y taenella efe genedloedd lawer" (*yazze*), a eglurir yn gyffredin "efe a bura, neu a wna iawn drostynt;" ond nid yw yr ystyr yma yn cyduno â'r dara cyd-redol, ac yn mhob man arall y mae gan y ferf arddodiad (*al*) yn ei chanlyn. Darllena y Deg a Thriugain, "Cenedloedd lawer a'u mawrygant." Fe allai eu bod hwy yn darllen (*yechezu*) fel yn Sal. 11, 7; 27, 5. Rhodda geirlyfrwyr yr ystyr yma i'r gair presenol. Esay 17, 2, "Gwrthodwyd dinasoedd Aroer," ond nid oes synwyr mewn dywedyd fod dinasoedd dinas wedi eu gwrthod; ac heblaw hyny, nid oes dim a fyn hyn â Damascus. Fe allai mai (*adadi*) yw y darlleniad cywir. Y Deg a Thriugain a ddarllenant "am byth," yr hyn yw ystyr y gair olaf, a'r Caldaeg a ddarllena "ydynt wedi eu difrodi."

110. Nid yw gwelliadau tybiedig (*conjectural emendations*) yn cael eu caniatau yn y Testament Newydd (gan fod y llawysgrifau mor lluosog ac amrywiol), nac yn yr Hen Destament, ond anaml iawn.

111. Mewn ychydig o enghreifftiau, y mae dau neu ychwaneg o ddarlleniadau amrywiol yn perthyn i'r un darn, a phob un o honynt yn cyfateb i'r synwyr, ac yn cael eu pleidio gan lawysgrifau, cyfieithiadau, a dyfyniadau; ac yn yr achosion yma, y mae y debygoliaeth yn amrywio gyda'r profion, fel y mae penderfynu y darlleniad cywir yn orchwyl sydd yn gofyn ymbwyll a gofal mawr. Y mae yn foddhäol, er hyny, i wybod fod testun y Beibl yn gyffredin yn eglur a sicr, tu hwnt i bob ammheuaeth.

112. Er cynnorthwyo y darllenydd i gymhwyso y rheolau yma, cymmerwn fel enghraifft 1 Ioan 5, 7.

Y mae yr adnod yma yn argraffedig yn yr argraffiadau Clementaidd o'r Vulgate, yn yr un Complutensiaidd o'r Groeg, yn nhrydydd argraffiad Erasmus, ac oddiyno cyflwynwyd hi i destunau cyffredin Stephens, Beza, ac Elzevir.

Gellir dywedyd yn erbyn ei phurdeb,

1. Nad ydyw idd ei chael mewn un llawysgrif Roegaidd sydd â sicrwydd ei bod yn henach nâ'r 15fed ganrif. Gadewir hi allan o 174 o lawysgrifau brysiol, ac o A, B, G, H.

2. Y mae yn eisieu yn yr holl gyfieithiadau, oddieithr y Lladin, ac ni cheir hi yn y llawysgrif henaf o'r Vulgate, y C Amiatinus, nac mewn un yn foreuach nâ'r 9fed ganrif. Er enghraifft, y mae yn eisieu yn y ddau Syriaeg, Arabaeg, Coptaeg, Ethiopaeg, Armenaeg, a Slafonneg; er ei bod i'w chael mewn rhai argraffiadau o'r ddau olaf, ac yn y Peshito.

3. Ni ddyfynir hi gan yr hen Dadau Groegaidd. Dyfynir adnodau 6 a'r 8, ond ni wneir hyn â'r 7fed un amser.

4. Gadewir hi allan o'r argraffiadau beirniadol goreu o'r Testament Groeg: y cyntaf a'r ail gan Erasmus, Aldus, Harwood, Matthaei, Griesbach, Lachman, Scholz, Tisch., a Hahn; er, ar y llaw arall, rhoddir hi i fewn gan Mill a Bengel.

O blaid ei phurdeb, gellir dywedyd,

1. Ei bod i'w chael mewn rhai llawysgrifau Groeg, y *Codex Ravianus*, yn Berlin, y *Cod. Guelph*, a thair ereill, o berthynas i ba rai, fodd bynag, nodir, mai ffugiaeth yw y cyntaf; yn yr ail, y mae yr adnod wedi ei hysgrifenu, nid yn y testun, ond ar ymyl y ddalen; a bod y lleill yn perthyn i'r 15fed ganrif, neu yn ddiweddarach, ac nad ydynt, gan hyny, ond awdurdodau diweddar.

2. Y mae i'w chael yn yr hen gyfieithiadau Lladin, oddieithr mewn copiau a wnaed yn Affrica. Nid yw hyn ond rhan o'r gosodiad blaenorol, Rhif 2, mewn ffurf arall.

3. Tybir ei bod yn cael ei dyfynu gan rai o'r Tadau Lladinaidd; megys Tertullian, Cyprian, a Fulgentius. Nid yw yn eglur, er hyny, pa un ai o'r 7fed ai o'r 6fed a'r 8fed adnodau y mae y dyfyniad.

4. Dyfynir hi mewn Cyffes Ffydd, a roddir yn hanes yr erlidigaeth Vandalaidd yn Affrica, yr hwn a gyflwynwyd, meddir, gan gorff o Gristionogion yn y flwyddyn 484. Ystyrir, er hyny, nad yw y ffaith honedig yma yn ddigonol i wanhau profion pendant; ac heblaw hyny, y mae y peth ynddo ei hunan yn ammheüus.

5. Dywedir fod ffurfiad a chyssylltiad y geiriau yn galw am yr adnod: rheswm ag y gall y darllenydd Cymreig foddloni ei hunan o berthynas iddo.—*Beirniadaeth Feiblaidd Porter.*

Ar y cyfan, gwell peidio ymddibynu ar yr adnod hon pan yn dyfynu profion o athrawiaeth ysgrythyrol.

Dos. 6. *Y Cyfieithiad Seisnig (a'r un Cymreig—Cyf.) yr un ar y cyfan a'r testun gwreiddiol.*

113. Y mae pwnc dyddorawl etto yn aros. A yw y cyfieithiad Seisnig o'r Beibl yn gywir, ac a all y darllenydd ei gymmeryd, ar y cyfan, fel mynegiad o feddwl Ysbryd Duw? I hyn y mae yr atebiad wrth law. Y Beibl Seisnig, mewn modd hanfodol, yw Beibl yr eglwys gyntefig. Y PWYLLGOR a benodwyd yn amser y Weriniaeth (*Commonwealth*) i chwilio i'r posiblrwydd o'i ddiwygio a fynegai, er fod ynddo rai gwallau, etto, yn ol eu barn hwy, hwn oedd "y cyfieithiad goreu yn y byd." Addefa tyst diweddarach, y Dr. Geddes, "os ystyrir cywirdeb, ffyddlondeb, a sylw manylaf i lythyren y testun, yn nodweddau cyfieithiad rhagorol, fod yn rhaid cyfrif hwn, ar y cyfan, y goreu o bob cyfieithiad." "O'r holl gyfieithiadau Ewropaidd," medd Dr. A. Clarke, "hwn yw y cywiraf a'r ffyddlonaf; ac nid hyn yw ei unig ragoriaeth. Y mae y cyfieithwyr wedi cymmeryd gafael yn ysbryd ac enaid y gwreiddiol, ac yn ei osod allan, braidd yn mhob man, gyda grym ac effeithioldeb."[a] Dyga y Dr. Doddridge yr un dystiolaeth, ac ychwanega, "nad yw ei ddiwygiadau ef yn cyffwrdd â hanfodolion crefydd; anfynych y cyrhaeddant yn mhellach nâ phrydferthwch cymhariaeth, neu, o bellaf, gyssylltiad cyfreswm."[b]

[Er ucheled yw y canmoliaethau hyn i'r cyfieithiad Seisnig, etto meddyliwyf yr addefa pob un galluog ac addas i farnu fod y cyfieithiad Cymreig yn tra rhagori arno. Er prawf o hyn, nid oes angen ond cymharu yr adranau 115—125, yn Gymraeg ac yn y cyfansoddiad gwreiddiol.—*Cyf.*]

[a] Rhagymadrodd i'r Esboniad ar yr Hen Destament, tud. 19.
[b] Gweithiau, cyf. ii., tud. 329.

114. Ond er mai dyma dystiolaeth unfrydol awdurdodau cymhwys, etto cyfaddefir y gellid diwygio y cyfieithiad mewn rhai manau. Ac er na fyddai y diwygiadau yma o bwys hanfodol yn eu cyssylltiad âg athrawiaethau yr Ysgrythyrau; etto, pe gwnelid hwynt, gwasanaethent yn aml i symud gwrthddadleuon a ddygir yn awr yn eu herbyn.

115. (1.) Mewn rhai manau rhoddir ystyr anmhriodol i eiriau ac ymadroddion y gwreiddiol.

Yn Ex. 3, 22, dywedir fod yr Israeliaid wedi *benthycio* gan yr Aifftiaid bethau na feddylient byth eu dychwelyd. Dywediad syml y gwreiddiol yw, iddynt *ofyn* am danynt. Yn 2 Sam. 12, 31, y mae arddodiad yn cael ei gyfieithu *dan* yn lle *i*. Yn ol y cyfieithiad Cymreig, Dafydd a *arteithiodd ei gaethion yn greulon;*" ond "efe a'u gosododd i gyflawnu gorchwylion gwaradwyddus" yw meddwl y gwreiddiol. Salm 74, 4, am "nid oes rhwymedigaeth yn eu marwolaeth," darllener "nid oes rhwymau," neu anhawsderau hyd eu marwolaeth (*L*). *Rosenm.*

Yn hanes Eliseus, 2 Bren. 2, 23, y gair a gyfieithir "plant bychain" mewn manau ereill, a gyfieithir "dynion ieuainc," a chymhwysir ef at Isaac pan yn 28 oed, ac at Joseph pan yn 30. Yn 1 Cron. 19, 7, y mae gair yn cael ei gyfieithu "cerbydau," yn lle "marchogion," a gwneir i'r adnod wrthddywedyd 2 Sam. 10, 6. Gwna y diwygiad hwn y brawddegau yn gysson; 32,000 o wŷr (marchogion a thraedfilwyr) oedd yr holl nifer.

Yn 2 Bren. 6, 25, y nwydd a werthid am bum sicl o arian, oedd fath o bys, fel y dangosa Bochart; "pedwaredd ran cab" oedd oddeutu peint o'n mesur ni. Yn Gen. 4, 15, yn lle a osododd nôd ar," darllener, "a roddodd arwydd," neu "sicrwydd i." Yn Deut. 33, 25, yn lle "haiarn a phres fydd dan dy esgid di," darllener "haiarn a phres fydd yn farau i ti," neu "dy farau." Cyfeiriad ydyw at y gadwyn o fynyddoedd a ddiffynent Aser rhag rhuthriadau y cenedloedd. Yn Barn. 15, 8, 11, am "copa," darllener "agen." 1 Bren. 1, 45, yn lle "yn Gihon" (afon), darllener "wrth Gihon." 1 Bren. 4, 31, yn lle "meibion Mahol," darllener "chwareuwyr ar y tympanau." Cymharer 1 Cron. 2, 6. 1 Bren. 18, 42, yn lle "ymostyngodd ar," darllener "ymgrymodd hyd." 1 Bren. 18, 43, am "ddywedodd yntau, dos etto saith waith," darllener "ddywedodd yntau saith waith, Dos etto." Yn 2 Cron. 21, 11, am "gymhellodd," darllener "a yrodd," fel yn Deut. 4, 19; 30, 17. Yn Neh. 6, 11, yn lle "fel y byddai byw," darllener "a byw." Gan nad oedd Nehemiah yn offeiriad, nid oedd caniatâd iddo fyned i mewn i'r lle santaidd. Salm 86, 2, yn lle "canys santaidd ydwyf," darllener "canys duwiolfrydig," neu "wrthddrych dy ffafr ydwyf."

Act. 7, 45, yn lle ei "gymmeryd," darllener ei "dderbyn." Act. 22, 23, yn lle "bwrw," darllener "rhwygo." Act. 26, 18, yn lle "i'w troi," darllener "fel y byddo iddynt droi." Dywedir yn Gal. 4, 24, fod hanes mab Hagar, ac eiddo mab Sarah, yn "alegori," neu yn adroddiad ffugiol. Mynegiad syml yr apostol ydyw eu bod yn arddangos gwirionedd ysbrydol pwysig; Iuddewon y dyddiau hyny, "y Jerusalem sydd yn awr," yn cyfateb i Ishmael; a'r gwir gredinwyr, yr eglwys, i Isaac, etifedd yr addewid. Yn 2 Pedr 1, 5, yn lle "a hyn yma hefyd," darllener "ac o herwydd y peth yma," neu "ac am y rheswm yma." Mile*tus* (nid *um*), Euodi*a* (nid *as*) sydd gywir. Ac nid yw Josua mor debyg o gamarwain a Iesus, yn Heb. 4, 8; a Iesu, yn Act. 7, 45.

116. (2.) Mewn rhai enghreifftiau, nid yw holl rym y gwreiddiol yn cael ei fynegu.

Yn Ioan 1, 14, dywedir i'r "gair drigo yn ein plith ni;" ond y mae y gwreiddiol yn cyssylltu ei ymddangosiad â'r hen dabernacl fel preswylfod y gogoniant Dwyfol. Yn 1 Cor. 4, 13, dywedir fod yr apostolion wedi eu gwneuthur "*fel ysgubion y byd*" (defnydd clasurol), neu "offrymau dyhuddol" (y Deg a Thriugain a'r defnydd clasurol). "Wedi cael gwared o honom ni, ystyriai y byd ei hunan mewn cymhariaeth yn lân," neu "y mae yn ein hoffrymu yn aberthau i'w duwiau," Ioan 16, 2. Yn Heb. 12, 2, desgrifir Cristionogion fel "yn edrych ar Iesu;" ond y mae y gwreiddiol yn golygu, edrych i fyny ato ef, ac oddiwrth bob gwrthddrych arall o ymddiried. Yn 2 Tim. 2, 5, darllener "od ymdrech neb hefyd yn y campau;" felly hefyd yn 1 Cor. 9, 25. Yn 1 Thes. 4, 6, yn lle "mewn dim," darllener "yn y peth hwn."

Mewn amryw adnodau, gwanhëir synwyr y gwreiddiol drwy gam-gyfieithu y bannod Groeg. Er enghraifft, yn 2 Thes. 1, 12, darllenwn, "yn ol gras ein Duw ni, a'r Arglwydd Iesu Grist;" y gwreiddiol yw, "yn ol gras ein Duw a'n Harglwydd Iesu Grist;" ac felly hefyd yn 2 Pedr 1, 1. Y gwreiddiol yn Titus 2, 13, yw, "ymddangosiad gogoneddus ein Duw mawr a'n Hiachawdwr." 1 Thes. 4, 13, yn lle "megys ereill," darllener "fel y lleill o'r byd." Yn 2 Thes. 2, 15, darllener "pa un bynag aí drwy ein hymadrodd ni." Yn 1 Cor. 4, 5, darllener "ac yna y bydd gan Dduw i bob un ei glod ei hunan." Yn 1 Cor. 5, 9, darllener "mi a ysgrifenais atoch yn y llythyr hwnw."

Er nad ydyw y bannod Hebreig mor benodol a'r un Groeg, etto y mae yn bwysig. Yn Exod. 17, 14, darllener "*yn y llyfr*" (set, y gyfraith). Yn Salm 89, 37, darllener "*fel y tyst ffyddlawn yn y nef*" (yr enfys). Yn Esay 7, 14, y mae yr Esgob Lowth yn canlyn yr Hebraeg, ac yn darllen, "wele y forwyn yn beichiogi," &c.

117. (3.) Yr ydys mewn rhai achosion wedi edrych dros neillduolrwydd ieithwedd y gwreiddiol.

Yn 1 Bren. 2, 8, 9, lle y mae Dafydd yn dywedyd am Shimei, "Na âd di ef heb gospedigaeth..... dwg dithau ei benwyni ef i waered i'r bedd mewn gwaed," yn ol barn Dr. Kennicott, dylai y gair "*na*" gael ei ddefnyddio yn y rhan olaf, fel yn rhan flaenaf yr ymadrodd, fel y gwneir yn Sal. 1, 5; 9, 18; 38, 1; 75, 5; Esay 23, 4 (gwreiddiol), &c. Dengys y canlyniad i Solomon ddeall iaith Dafydd yn yr ystyr yma, oblegid efe a roddodd Joab i farwolaeth yn uniongyrchol; ond gyda golwg ar Shimei, er na ddaliodd ef yn ddieuog, etto, ei gosp oedd, cael ei rwymo i aros yn Jerusalem fel un nad oedd diogelwch o'i adael i fyned i un lle arall.—*Nodiadau Kennicott*, tud. 131. Yn 1 Cor. 4, 4, am "ni wn i ddim arnaf fy hun," dylid darllen, "nid wyf fi yn ymwybodus o ddim" (hyny yw, drwg). Yn Act. 17, 23, yn lle "eich defosiynau," darllener "gwrthddrychau eich addoliad." Yn 1 Cor. 1, 21, am "ffolineb pregethu," darllener "ffolineb y pregethiad," neu "y cyhoeddiad hwnw;" hyny yw, mewn cyfeiriad neillduol at yr athrawiaeth a bregethid. Felly hefyd yn Luc 11, 32. Yn 2 Pedr 2, 5, darllener "Noah, yn nghyd a saith ereill." Yn Heb. 12, 18, darllener "mynydd y gellid ei deimlo."

Weithiau, yn yr Hen Destament a'r Newydd, cyfieithir berfau mewn amseroedd anmhriodol.

Nid yw llawer o'r melldithion sydd yn y Salmau, mewn gwirionedd, ond rhagfynegiadau; a gosodant allan reol y llywodraeth Ddwyfol yn hytrach nâ dymuniad yr awdwr. Yn 2 Bren. 23, 30, darllener "mewn cerbyd *yn marw*." Gwel 2 Cron. 35, 24. Y mae y cyfieithiad presenol o,

Ioan 2, 13, yn gwrthddywedyd adnodau 26—28. Y gwreiddiol yw, "ac wedi dyfod swper." Yn Act. 2, 47, yn lle "y rhai fyddent gadwedig," darllener "y rhai cadwedig." Gwel 1 Cor. 1, 18; 2 Cor. 2, 15, 16; 4, 3. Yn Luc 5, 6, darllener "ddechreuodd rwygo," neu "yr oedd yn rhwygo" (gwel adn. 7). Felly hefyd Math. 8, 24; Luc 8, 23; Marc 4, 37; 1 Cor. 11, 23; 2 Pedr 1, 16. Yn 2 Cor. 5, 14, darllener "meirw yw pawb," neu "meirw fu pawb." Yn 2 Cor. 12, 2, 3, darllener "mi a adwaen." Yn Luc 23, 46, darllener "a lefodd â llef uchel, gan ddywedyd," neu "a ddywedodd â llef uchel."

Ymddengys y rhifedi a nodir mewn rhai rhanau o'r Hen Destament yn aruthrol fawr, a gellir eu diwygio drwy yr ieithwedd. Er enghraifft, yn 1 Sam 6, 19, dywedir, "Ac efe a darawodd wŷr Bethsemes (tref fechan), am iddynt edrych i arch yr Arglwydd, ïe, tarawodd o'r bobl ddeng ŵr a thriugain, a deng mil a deugain (50,070) o wŷr." Ac yn Barn. 12, 6, dywedir, "A chwympodd y pryd hwnw o Ephraim ddwy fil a deugain" (42,000), tra nad oedd y llwyth, ychydig cyn hyny, yn cynnwys ond 32,500 o bersonau. Gellir diwygio y ddwy adnod uchod drwy ffurf o gyfrif sydd o hyd yn gyffredin yn mhlith yr Arabiaid. Dywedant hwy, yn y flwyddyn 12 a 300 am 312. Am 1 Sam. 6, 19, ceir, a chyfieithu yn llythyrenol, "ïe, tarawodd o'r holl bobl driugain a deg o wŷr, hanner cannoedd, a mil," neu 1170. Ac am Barn. 12, 6, "cwympodd o Ephraim 40 a 2000, neu 2040.—*Taylor yn Calmet.*

Gellir nodi, yn y cyffredin, fod mynegiadau niferol, yn ieithoedd y Dwyrain, yn dra agored i wallau wrth eu hadysgrifeuu. Er enghraifft,—yn yr Hebraeg, *A* yw 1; *Ä* yw 1000; *B* yw 2; *C* yw 20; saif *Z̈* am 7000; *N* am 700 [yn y gwreiddiol, y mae tebygolrwydd neillduol mewn ffurf rhwng *B* a *C*, a rhwng *Z* ac *N*.—*Cyf.*]; ac mewn copiau boreuol iawn, y mae dodiad un lythyren yn lle y llall, drwy ddiofalwch, wedi achosi peth gwrthddywediadau,—2 Sam. 8, 4; 1 Cron. 18, 4. Y mae camsyniad cyffelyb yn 2 Sam. 10, 18; 700 (*n*); gwel 1 Cron. 19, 18, 7,000 (*z*). 1 Bren. 4, 26, 40,000 (*arbaisü*, tebygol); gwel 2 Cron. 9, 25, 4,000 (*arbâatha*). 1 Bren. 9, 23, 550 (*c n*); gwel 2 Cron. 8, 10, 250 (*r n*). 1 Bren. 9, 28; 420 (*th c*); gwel 2 Cron. 8, 18, 450 (*th n*). 2 Bren. 8, 26, 22 (*c b*); gwel 2 Cron. 22, 2, 42 (*m b*). Y mae y rhifnodau yn wallus hefyd yn Josephus.

118. (4.) Mewn rhai enghreifftiau, y mae yr un gair yn y gwreiddiol yn cael ei gyfieithu i wahanol eiriau yn y Gymraeg.

Yn Esay 37, 3, 4, awgrymai cyfieithiad cywir fod y dirmyg a daflodd Rabsaceh ar Judah, i ddychwelyd arno ef ei hun. Efe a *sarhâodd* Judah, a Duw a'i *sarhâodd* ef. Yn Salm 132, 6, "*maesydd y coed*" sydd gyfieithiad o'r hyn mewn gwirionedd sydd enw priodol, "*Jearim*," neu, fel ei rhoddir yn 1 Cron. 13, 5, "Ciriath" (neu ddinas) "Jearim." Yn Lef. 19, 5, "yn ol eich ewyllys eich hun," a ddylai yn hytrach fod, "*fel y byddo gymmeradwy oddiworthych*," fel yn adnod 7, ac felly hefyd yn 22, 20, 21.

Y gair a gyfieithir yn "*afael*" yn 1 Cor. 9, 24, ac yn "*ymaflyd*" yn Phil. 3, 12, a dröir yn "*gyfrifwyd*" yn Rhuf. 4, 3; Gal. 3, 6; Iago 2, 23. Y gair a gyfieithir "*glynu*" yn 1 Tim. 4, 13, a dröir yn mhob man arall yn "ofal," neu "sylw," &c. "Dyddanydd" (Ioan 14, 16; 15, 26; 16, 7) yw y gair a gyfieithir "eiriolwr" yn 1 Ioan 2, 1, a chynnwysir yr un drychfeddwl yn y gair "dyddanwch," yn Luc 2, 25, ac mewn manau ereill. Y mae y geiriau "cyfammod" a "thestament" yn cynnrychioli

yr un gair yn y gwreiddiol. Yn Actau 19, 2, y mae gair yn cael ei gyfieithu, "a oes Ysbryd Glân," yr hwn a roddir yn fwy cywir yn Ioan 7, 39, "canys etto nid oedd yr Ysbryd Glân wedi ei roddi."

Dylai yr adnodau canlynol gael eu cyfieithu yn unffurf: 1 Cor 15, 24, 26 (dileu, dinystrio); Marc 8, 35, 36 (einioes, enaid); 1 Cor. 7, 12, 13 (gollwng, gwrthod); Titus 2, 14; Heb. 1, 3; 9, 14, 23; 10, 2; 1 Ioan 1, 7; Ioan 15, 2, 3 (puro, glanhau).

119. (5.) O'r tu arall, y mae geiriau gwahanol yn y gwreiddiol yn cael eu cyfieithu yn aml drwy yr un gair yn y Gymraeg.

Yn yr Hen Destament, y mae y gair "oferedd," neu "gwagedd," yn cynnrychiolioli o leiaf dri gair Hebraeg, un yn golygu "anadl" neu ddimedd, fel yn Sal. 62, 9; un arall yn golygu hudoliaeth ddrygionus a difudd, fel yr eilunod paganaidd, Esay 41, 29; a'r llall yn golygu celwydd, fel yn Job 31, 5. Y mae yr holl eiriau hyn, *weithiau*, yn awgrymu difuddiant, a phechod; ond yn yr enghraifft flaenaf yn enwedig, defnyddir ef i osod allan anmhwysedd (*insignificancy*). Yn Salm 89, 47, y meddwl yw, "Mor ofer (diflanedig, ac anmhwysawl) yw plant dynion, y rhai a grëaist di."

"Arglwydd," mewn prif-lythyrenau, sydd gyfieithiad o Jehofah; ac Arglwydd mewn llythyrenau bychain, sydd gyfieithiad o air arall. Gwel Salm 110, 1. Y mae y gwahaniaeth yma o bwys.

Defnyddir y gair "edifeirwch" i gyfieithu gair sydd yn dynodi cyfnewidiad tuedd (*metanoia*), yr hyn yw ei briodol gymhwysiad. Ond defnyddir ef i gyfieithu gair arall, yn dynodi *gofid*, neu *gyfnewidiad cynllun* (*metamaleia*) yn unig, heb gynnwys unrhyw gyfnewidiad tuedd. Hyn yw ei feddwl yn Math. 21, 29, 32; 27, 3; 2 Cor. 7, 8, 10; Heb 7, 21. Yn mhob man arall, defnyddir y gair blaenaf.

Y gair "*ymarweddiad*" etto, a ddefnyddir i gyfieithu dau air, yn golygu, yn 1, "*dinesiaeth*," fel yn Phil. 3, 20; ac yn 2, yn mhob man arall, *dull o fyw*, neu *ymddygiad*. Y gair Groeg am *ymarweddiad*, yn yr ystyr ddiweddar (*modern sense*), a dröir yn ein cyfieithiad ni yn "ymadrodd," yn Math. 5, 37; Luc 24, 17; Eph. 4, 29; ac yn 1 Cor. 15, 33, yn "ymddyddanion."

Y mae "uffern" hefyd yn golygu, yn 1, y byd anweledig, lle yr ysbrydion ymadawol, heb unrhyw gyfeiriad at eu cyflwr o ddedwyddwch, neu o drueni, fel yn Math. 11, 23; 16, 18; Luc 10, 15; 16, 23; Act. 2, 27, 31; 1 Cor. 15, 55; Dad 1, 18; 6, 8; 20, 13, 14; ac yn 2, y lle o gospedigaeth dragywyddol, fel yn Math. 5, 22, 29, 30: 10, 28; 18, 9; 23, 15, 33; Marc 9, 43, 45, 47; Luc 12, 5; Iago 3, 6. Yn y gwreiddiol, cynnrychiolir y ddau ystyr yma gan eiriau gwahanol.

Defnyddir y gair "teml" i gyfieithu dau air; ac y mae yn dynodi naill ai yr oll o'r adeilad cyssegredig (*ieron*), neu y gyfran hono lle yr arosai y presenoldeb Dwyfol (*naos*). Yn yr ystyr flaenaf (yn cynnwys y cyntedd nesaf allan, yr hwn oedd heb un tô) cynnelid marchnadoedd ynddi (Math. 21, 12), ac yno y cyfarfyddai y Rabbiniaid a'u hysgolheigion. At yr ail y cyfeiriai ein Harglwydd, pan ddywedodd, "Dinystriwch y deml hon" (gan olygu preswyliad y natur Ddwyfol yn ei berson ef); felly hefyd y cymhwysir ef at Gristionogion yn 1 Cor. 3, 16; 6, 19.

"Ordeinio" sydd air a ddefnyddir fel cyfieithiad o amrywiol eiriau, ac y mae yn golygu "neilldua," Act. 10, 42; 17, 31; a "rhag-neilldno" yn 1 Cor. 2, 7. Y mae y gair a ddefnyddir yn yr adnodau canlynol yn wahanol, a golyga "ordeinio," gyda'r meddylddrych o drefnu, Act. 13,

48; Rhuf. 13, 1; Gal. 3, 19; 1 Cor. 9, 14. Yn Act. 16, 4, y mae yn golygu *sefydlu*. Dylai y gair "dieflig" yn Math. 8, 28, 33, gael ei gyfieithu "cythreulig."

120. (6.) Defnyddir rhai geiriau yn y cyfieithiad Seisnig mewn ystyrion na phriodolir iddynt yn bresenol, ac y mae rhai geiriau annghynnefin i'w cael hefyd yn y cyfieithiad Cymreig.

[*Astalch*, Salm 91, 4; Can. 4, 4. *Bwcled*, 1 Bren. 10, 17; 2 Cron. 9, 16. Ymddengys mai yr un peth a olyga y ddau air yna, sef math o darian fechan, neu law-darian; hyny yw, offeryn digon ysgafn i'w droi a'i drosi â llaw. *Esgud*, Iago 1, 19, ei ystyr yw craffus, bywiog, diwyd, dyfal. Y mae y gair "cysuro" (gwel 1 Cor. 14, 31) weithiau yn *gynghori*, 1 Thes. 5, 11; yn *rhybyddio*, 1 Thes. 5, 14; ac yn *addysg*, Rhuf. 15, 4. "*Iddo*," yn Iago 4, 13; 5, 1, a ddefnyddir fel cyfryngair yn galw am osteg neu sylw. "*Llesteirio*," Act. 24, 23, a feddylia *rhwystro, attal*, neu *luddias*. Ystyr "Llysu" yw *gwrthod*, neu bwrw heibio, Act. 4, 11; Math. 21, 42; Salm 118, 22. Wrth "*Lemain*," 2 Sam. 6, 16, y deallir llamu, neidio. "*Moledau*," Act. 19, 12; ystyr briodol y gair gwreiddiol yw arffedog, neu hanner-cylch, sef hanner-cylch y corff. Barna rhai ei fod yn arwyddo gwregys, am ei fod yn rhwymo arwisg yn ei hanner, am hanner y corff.—*Cyf.*]

Y mae *etifedd* yn aml yn golygu *meddiannydd*. "Etifedd y cyfiawnder sydd o ffydd," yw ei feddiannydd, Heb. 11, 7. Felly gwnaethwyd Crist yn etifedd, neu feddianydd pob peth, Heb. 1, 2. Y mae *Malais* (o *Malitia*) bob amser yn golygu drygioni neu bechod yn gyffredinol. Y mae yn golygu pechod yn ei natur hanfodol,—drygioni neu bechod, gan gyfeirio ato fel trosedd o'r gyfraith Ddwyfol, 1 Pedr 2, 16. Ystyr y gair "Marwhau" yw lladd, neu roddi i farwolaeth, Rhuf. 8, 13; Col. 3, 5. Wrth "dramgwyddo" y meddylir, weithiau, digio, neu roi achos i ddigio; brydiau ereill, y mae yn golygu rhwystr, attalfa, magl, neu gwymp, Salm 69, 22, &c. Ystyr bresenol y gair "*dirgelwch*," yw athrawiaeth, neu ffaith anamgyffredadwy, yn cynnwys yn aml, i'n tyb ni, y meddylddrych o wrthddywediad eglur ac annghymmodadwy. Ond yn yr Ysgrythyrau, y mae y gair yn golygu *peth cuddiedig wedi ei ddadguddio*; gwirionedd nad oedd o'r blaen yn adnabyddus wedi ei amlygu. Rhuf. 16, 25, 26; 1 Cor. 2, 7—10; Eph. 1, 9; 6, 19; Col. 1, 26, 27. Er fod athrawiaethau Beiblaidd yn aml yn cynnwys dirgelion yn ol ystyr gyffredin y gair; etto, nid yn yr ystyr yma y mae yr Ysgrythyrau yn ei ddefnyddio. Geilw Paul yr athrawiaeth o dderbyniad y cenedloedd i'r eglwys yn *ddirgelwch*, am nad oedd y peth mewn "oesoedd ereill wedi ei egluro i feibion dynion." Eph. 3, 3, 5. Defnyddir y gair *dirgelwch* hefyd yn Eph. 5, 32; ac yn Dad. 1, 20; a 17, 5, am arddangosiad arwyddluniol, yr hyn nid yw yn gwahaniaethu yn hanfodol oddiwrth yr ystyr a roddir uchod. Mae yn golygu arwyddlun o wirionedd dadguddiedig. Ni ddefnyddir y gair CREFYDD un amser yn yr Ysgrythyr am dduwioldeb, yr hyn yw ei ystyr diweddar, ond am wasanaeth, neu addoliad crefyddol. Nid yw y gair idd ei gael ond yn Act. 26, 5; Col. 2, 18 (gwreiddiol); a Iago 1, 26, 27. Meddylia (fel yn yr enghraifft olaf) arddangosiad allanol o deimlad crefyddol. Ar y cyntaf, yr oedd y gair "*Ceiniog*" yn golygu unrhyw ddarn o arian bathol; yn bresenol, cyfyngir ef i'n bathon copr mwyaf ni. Yr oedd y geiniog Rhufeinig yn werth yn agos wyth o'n ceiniogau ni, Ioan 6, 7. Gwel Dad. 6, 6, lle y mae yr ystyr yn cael ei wrthdroi. Cyflwynai

y "mesur o wenith er ceiniog" y meddylddrych o gyflawnder yn hytrach nâ phrinder. "Oferedd" yw peth disylwedd, ffugiol, twyllodrus, anfoesol, yn enwedig mewn cyssylltiad â chredo ddisail, ac eiluu-addolgar, Rhuf. 1, 21; Eph. 4, 17; 1 Pedr 1, 18. "Bro," "cyffiniau," a "thueddau," ydynt yn cael eu defnyddio weithiau yn gyfystyr, Barn. 18, 2; Math. 2, 16; 15, 21.

Ymddengys yn beth dyeithr fod dynion wedi cymmeryd mantais o'r geiriau annghynnefin yma i geisio gwrthbrofi gwirionedd yr Ysgrythyrau. Llawer iawn o'r gwrthwynebiadau a ddygir yn mlaen gan Voltaire ydynt yn sylfaenedig ar gam-gyfieithiadau cyffelyb o'r Vulgate.*

121. Gellir ychwanegu fod yn yr Ysgrythyr amryw annghysonderau ymddangosiadol, a hyny o ddiffyg unffurfiaeth yn y cyfieithiad.

Yn Salm 19, 4, gellir cyfieithu "*llinyn*" yn "*sŵn*," fel yn Rhuf. 10, 18. Yn Jer. 31, 32, gellir cyfieithu, "er fy mod i yn briod iddynt," yn "minau a'u hesgeulusais hwythau," fel yn Heb. 8, 9. Felly hefyd yn Hosea 14, 2 (Heb. 13, 15); Esay 28, 16 (Rhuf. 9, 33); Micah 5, 2 (Math. 2, 6); Salm 104, 4 (Heb. 1, 7); Sal. 68, 18 (Eph. 4, 8).

122. Y mae rhai geiriau heb eu cyfieithu, megys, AMEN; gwir, neu felly y byddo. HALELUIA; molwch Jehofa. HOSANNA; achub yn awr. MAMMON; cyfoeth. MARANATHA; yn nyfodiad yr Arglwydd. SABAOTH; lluoedd.

123. Y mae ychydig eiriau i'w cael na wyddis yn hollol beth yw eu hystyr. Dygwydda y gair HIGGAION driugain ac un ar ddeg o weithiau yn y Salmau, a thair gwaith yn Habaccuc. Tebyg mai nôd beroriaethol ydoedd. Y mae ystyr y gair SELAH yr un mor ansicr; ond defnyddid ef, feallai, i amcan cyffelyb.

124. Y mae y darlleniadau ar ymyl y ddalen yn aml iawn yn teilyngu sylw. Mynegant synwyr arall, o ba un y mae y gwreiddiol yn gyfaddas; ac y maent weithiau yn taflu goleuni ar y meddwl. Gellid, yn fanteisiol, eu lluosogi. Er enghraifft, gwel Gen. 21, 14, "A hi a aeth ac a grwydrodd yn anialwch Beerseba," fel mewn anobaith; neu "hi a gollodd ei ffordd." Yr oedd, feallai, wedi cychwyn i ddychwelyd i'r Aifft. Y mae darlleniadau ymyl y ddalen yn fwy dewisol yn y manau canlynol: Barn. 11, 31; Gal. 5, 24.

125. Dylid sylwi yn mhellach, nad yw y geiriau sydd wedi eu hargraffu yn ein cyfieithiad ni mewn llythyrenau Eidalaidd, i'w cael yn gyffredin yn y gwreiddiol. Y maent yn angenrheidiol yn aml i osod allan y meddwl, a gwnant hyny yn ddedwydd iawn yn fynych; er eu bod, weithiau, yn rhoddi neu yn ychwanegu synwyr nad ydyw i'w gael yn y testun cyssegredig.

Ceir enghraifft o gyflëad priodol geiriau Eidalaidd yn Sal. 109, 4, "Minau *a arferaf* weddi;" ac etto yn Sal. 133, 3, "Fel gwlith Hermon, *ac fel y gwlith* yn disgyn ar fynyddoedd Seion." Oni bai y geiriau Eidalaidd, byddai yr ymadrodd yn annghysson â ffeithiau naturiol. Yr oedd pellder Hermon yn fwy nâ chan milltir oddiwrth Seion. Ar y llaw arall, y maent, weithiau, yn tywyllu y meddwl, fel yn Ioan 17, 2.

Mewn rhai achosion, dylai y geiriau Eidalaidd gael eu hargraffu mewn llythyrenau Rhufeinaidd; megys y berfau cynnorthwyol, a'r gair "na," yn y fath adnodau a Deut. 33, 6; Sal. 75, 5; Esay 38, 18; Job 30, 20, 25. Nid yw yr ieithwedd Hebreig yn gofyn mynychiad y negedydd.

126. Nid yw cynnwysiad pennodau y Beibl, a theitlau ac olysgrifau

* Golygfa Hanesyddol o gyfieithiadau Beiblaidd Seisnig, gan Newcome, tad. 206.

llyfrau y Testament Newydd, yn ffurfio un rhan o'r ysgrifeniadau ysbrydoledig. (Gwel adr. 51).

127. Hefyd, nid yw dosparthiad presenol yr Ysgrythyrau i bennodau ac adnodau, yn nghyd â threfn yr amrywiol lyfrau, o ddechreuad Dwyfol, ac nid ydynt ychwaith o henafiaeth mawr. Y mae y llyfrau yn awr wedi eu trefnu, nid yn ol eu cyssylltiad hanesyddol, ond yn ol eu cynnwysiad, yn nghyd â sefyllfa eu hawduron. Y Vulgate oedd y cyfieithiad a ddosparthwyd yn bennodau gyntaf, yr hwn orchwyl a gyflawnwyd gan y Cardinal Hugo, yn y drydedd ganrif ar ddeg; neu, fel y meddylia Jahn, gan Langton, Archesgob Caergaint, 1227. Ni chyflwynodd ef ond y rhaniad i bennodau yn unig. Rhanwyd yr Ysgrythyrau Hebreig yn gyffelyb gan Mordecai Nathan, yn 1445, ac yn 1661 ychwanegodd Athias at ei destun argraffedig y rhaniad i adnodau. Dosparthwyd y Testament Newydd yn yr un modd gan Robert Stephens. Dywedir iddo ei orphen yn y flwyddyn 1551, yn ystod taith (*inter equitandum*) o Paris i Lyons.

Y rhaniadau yma ydynt, fel y gellid ddysgwyl, yn anmherffaith iawn; ac hyd y nod pan na fyddont yn annghywir, tueddant i dòri y synwyr, ac i dywyllu y meddwl.

Dechreua pwnc 2 Breninoedd yn adnod 24 o'r 6ed bennod. Desgrifiad o ymostyngiad a gogoniant Crist (pwnc Esay 53) a ddechreua yn mhennod 52, 13; ac y mae yr adnodau blaenorol o bennod 52 yn perthyn i 51. Y mae y 6ed adnod yn Jer. 3, yn dechreu prophwydoliaeth neillduol, yr hon sydd yn parhau hyd ddiwedd pennod y 6ed.

Y mae yr adnod gyntaf yn Col. 4, yn perthyn i'r 3edd bennod. Dylid, yn yr un modd, gyssylltu Gen. 2, 1—3, a'r bennod 1; Rhuf. 15, 1—13, a'r 14eg bennod; 1 Cor. 11, 1, a'r 10fed bennod; 2 Cor. 4, a phennodau 5, 6, 7.

Y mae y rhan olaf o Math. 9, yn perthyn i'r 10fed bennod. Perthyna Ioan 8, 1, i'r 7fed bennod, a'r ddwy adnod olaf yn Act. 4, a berthynant i'r 5ed bennod.

Fel rheol, nid oes un pwys i'w gyssylltu â'r rhaniadau i bennodau neu adnodau, os na fyddant yn cyduno â'r gwahan-bynciau (*paragraphs*). Canlyner gorphwysiadau yr adroddiad, a dalier sylw ar gyfnewidiad y pynciau a ddadleuir.

128. Sylwir ar hen raniadau y Testament Newydd yn adran 49. Er rhoddi cwbl gyfarwyddyd ar y pen hwn, rhoddwn hanes byr o raniadau cyntefig yr Hen Destament.

Iuddewon y dyddiau hyn a ddefnyddiant y dosraniad diweddar o bennodau ac adnodau. Ond yr oedd hen lawysgrifau yn cael eu rhanu yn amrywiol. Perthynai i'r gyfraith 54 o raniadau mawrion, a elwid *Parashoth*, ac yr oedd rhaniadau cyffelyb i'r prophwydi, y rhai a elwid *Haphtaroth*, neu ollyngiadau (*dismissions*), ac a ddarllenid yehydig cyn diwedd y gwasanaeth. Yr oedd un o'r rhanau yma yn cael ei darllen bob Sabboth. Yr oedd rhaniadau llai yn cael eu defnyddio, yn enwedig yn y gyfraith, y rhai hefyd a elwid *Parashoth;* weithiau gelwid hwynt "agored" (*Phathuhoth*), lle y mae toriad amlwg yn y synwyr; ac weithiau yn "gau," neu bwyso ar (*Sethumoth*, neu *Smucoth*), lle y byddo y synwyr yn rhedeg yn mlaen. Ceir 669 o'r rhaniadau yma yn Mhum Llyfr Moses yn unig. Eu nodau gwahaniaethol yw *Ph* ac *S*.

129. Arferiad yr Iuddewon, wrth gyfeirio at yr Hen Destament, oedd mynegu pwnc y ddosran, fel y parhëir yn mhlith yr Arabiaid wrth ddyfynu o'r *Coran*.

"Yn Elias," Rhuf. 11, 12 (ymyl y ddalen), a gyfeiria at 1 Bren. 17, 19. "Y bwa" yn 2 Sam. 1, 18, sydd yn cyfeirio at gân o'r enw yn Llyfr Jazer. Dichon hefyd fod "yn y berth" yn cyfeirio at Ex. 3.

130. Ni ddylai y diwygiadau hyn arwain neb i feddwl yn isel am y Beibl Cymreig. Pa fwyaf y chwiliwn arno, uchaf i gyd fydd ein barn am ei ragoroldeb cyffredinol. Ond rhaid i sêl dros unrhyw gyfieithiad roi ffordd i sêl dros y gair Dwyfol hwnw a geisia ei osod allan.

131. Rhoddwyd y diwygiadau yma yn dra helaeth, o herwydd amrywiol resymau. Atebant wrthddadleuon ag ydynt wedi eu dwyn yn mlaen yn erbyn yr Ysgrythyr Santaidd. Symudant ymaith anhawsderau, a chyssonant wrthddywediadau ymddangosiadol. Y maent hefyd yn werthfawr, am eu bod yn egluro mewn modd tra chyflawn natur y gwahaniaethau a fodolant rhwng ein cyfieithiad ni a'r testun gwreiddiol. Y mae yn amlwg y gellir unioni llawer o'r gwahaniaethau yma drwy gymharu rhanau cyfystyr, fel y mae y moddion angenrheidiol er eu diwygio, i raddau helaeth, yn nwylaw y darllenydd Cymreig. Ac nid ydynt yn cyffwrdd â'r penderfyniad i ba un y mae awdurdodau cymhwys wedi dyfod iddo, braidd yn ddieithriad, fod y Beibl Seisnig [ac, o ganlyniad, yr un Cymreig—*Cyf.*] yr un ag eiddo yr eglwys foreuol.

132. Y Beibl Seisnig a ddefnyddir yn bresenol sydd ffrwyth amrywiol adolygiadau. Yn y rhagymadrodd i "Feibl yr Esgob" (o. c. 1568), gwneir cyfeiriad eglur at yr hen gyfieithiadau Sacsonaidd, ac y mae ar gael yn awr ranau o'r Beibl wedi eu cyfieithu i'r Sacsonaeg gan Bede, gan Alffred Fawr, a chan Ælffrig o Gaergaint. Y mae hen lawysgrifau Sacsonaidd o'r efengylau yn awr yn cael eu cadw yn llyfrgell yr Amgueddfa Frytanaidd, ac yn Ngholeg Corpus Christi, Caergrawnt.

Y cyfieithiad cyflawn cyntaf o'r Beibl a wnaed gan Wycliffe, oddeutu o. c. 1380. Nid oedd i'w gael am lawer o flynyddau, ond mewn llawysgrifen; ond y mae y cyfan yn awr wedi ei argraffu (y Testament Newydd yn 1731, a'r Hen Destament yn 1848). Edrychid ar y gwaith gyda drwgdybiaeth mawr, a chyflwynwyd ysgrif i Dŷ yr Arglwyddi, er rhoddi attaliad arno; ond drwy ddylanwad John O'Gaunt, cafodd ei gwrthod. Fodd bynag, penderfynwyd mewn cymmanfa a gynnaliwyd yn Rhydychain yn 1408, na cheid cyfieithu unrhyw destun o'r Ysgrythyr i'r Saesoneg, fel llyfr na phamphletyn; ac nid oedd caniatâd i ddarllen unrhyw lyfr o'r fath. Arweiniodd y penderfyniad yma i erlidigaeth greulawn; ond y mae lle i gredu fod, drwy y cyfan, lawer o lawysgrifau o'r Ysgrythyrau y pryd hwnw mewn cylchrediad helaeth yn Lloegr.

Yr argraffiad cyntaf o'r Beibl yn Saesoneg, a gyhoeddwyd gan Tyndale; y Testament Newydd yn 1526, a'r Beibl, mewn rhan, yn 1532. Bu Tonstall, Esgob Llundain, a Syr Thomas More, yn llafurus ac ymdrechol iawn i brynu ac i losgi yr holl argraffiad; ond y canlyniad o hyn fu, galluogi y cyfieithydd i gyhoeddi argraffiad helaethach a mwy cywir.[a]

Ar farwolaeth Tyndale (yr hwn a fu farw yn ferthyr i'r gwirionedd), Miles Coverdale a ddiwygiodd y cyfan, ac a'i cyflwynodd i'r Brenin Harri VIII., o. c. 1535; ac yn 1537, John Rogers, yr hwn a fu yn cynnorthwyo Tyndale, a'r hwn oedd yn byw yr amser yma yn Antwerp, a gyhoeddodd adargraffiad, wedi ei gymmeryd o un Tyndale a Choverdale. Cyhoeddodd yr un yma dan enw ffugiol, sef *Thomas Mathews*. Ar ol hyn (o. c. 1539), cyhoeddwyd argraffiad diwygiedig gan Richard Taverner.

[a] Gwel Hanes y Beibl Seisnig, gan Anderson; yn nghyd âg "Ein Beibl Seisnig," gan Gymdeithas y Traethodau Crefyddol.

Ymddangosodd y *Beibl Mawr* yn o. c. 1539. Eiddo Coverdale ydoedd, wedi ei ddiwygio gan y cyfieithydd, dan nodded Cranmer. Argraffwyd ef mewn unplyg mawr. Ysgrifenodd Cranmer Ragymadrodd i'r argraffiad a ddaeth allan yn 1540, ac oddiwrth hyn gelwid ef yn "Feibl Cranmer." Cyhoeddwyd ef "drwy awdurdod."

Cyhoeddwyd un ar ddeg o argraffiadau o'r Ysgrythyrau yn ystod y saith mlynedd o deyrnasiad Edward (VI.); ond ni amcanwyd at gyfieithiad newydd nac at ddiwygiad.

Cyhoeddwyd *Beibl Genefa* yn nheyrnasiad Mari, o. c. 1557—60. Coverdale, ac ereill, ag oeddynt wedi ffoi am noddfa i Genefa, a'u golygasant, ac a ychwanegasant y nodiadau ymyl-ddalenol. Derbyniodd yr Archesgob Parker awdurdod oddiwrth y Frenines Elizabeth, i adolygu y cyfieithiadau oeddynt eisoes mewn bodoliaeth; a thrwy gymhorth amryw esgobion, ac ereill, yn 1568, cyhoeddodd yr hyn a elwid *Beibl yr Esgob*. Cynnwysa sylwadau byrion; ac yn yr argraffiadau lleiaf (o 1589), rhenir y testun i adnodau, fel yn *Meibl Genefa*.

Argraffwyd yr un testun wedi hyny, mewn maintioli mwy (yn 1572), gydag amrywiol ragdraethiadau, dan yr enw *Beibl Mathew Parker*. Parhäodd mewn arferiad cyffredin yn y llànau am 40 mlynedd, er fe allai fod Beibl Genefa yn cael mwy o'i ddarllen yn ddirgelaidd.

Y Testament Newydd *Rhemiaidd*, a'r Hen Destament *Douayaidd*, a ffurfiant Feibl Seisnig y Pabyddion. Argraffwyd y blaenaf yn *Rheims* (o. c. 1582), a'r olaf yn *Douay* (o. c. 1609—10).

Yn 1603, penderfynodd y Brenin Iago gael diwygiad o'r cyfieithiad. Appwyntiodd 54 o ddynion dysgedig i wneuthur hyn. Saith a deugain yn unig a ymgymmerasant â'r gwaith, a chwblhäwyd ef mewn pedair blynedd (o 1607 i 1611). Y testun yma, wedi ei ddarparu fel hyn, a'i argraffu yn 1611, yw y *cyfieithiad awdurdodedig*.

[Y crybwylliad cyntaf am gyfieithiad Cymreig o unrhyw ran o'r Beibl a wneir gan y Dr. R. Davies, Esgob Tŷ Ddewi, yr hwn a ddywed, fod cyfieithiad mewn llawysgrifen o Bum Llyfr Moses yn bod oddeutu y flwyddyn 1527. Cafodd amryw ranau o'r Beibl eu cyfieithu i'r Gymraeg yn ystod teyrnasiad Edward VI., at wasanaeth y *Llyfr Gweddi* a wnaed y pryd hwnw.

1551, Argraffwyd yr efengylau a'r epistolau o gyfieithiad W. Salesbury.

1567, Y Testament Newydd, mewn pedwar plyg bychan, o gyfieithiad W. Salesbury.

1588, Yr holl Feibl, yn cynnwys yr Hen a'r Newydd, yn nghyd â'r Apocrypha, mewn unplyg, o gyfieithiad y Dr. Morgan. Bernir fod nifer y copïau a argraffwyd oddeutu 500; ond nid oes sicrwydd am hyny.

1603, Y Salmau ar gân, gan y Cadben Gwilym Canoldref. Cyhoeddwyd hwynt yn Llundain, gan Thomas Salesbury.

1620, Yr holl Feibl, yn cynnwys yr Hen Destament a'r Newydd, yn nghyd â'r Apocrypha, o gyfieithiad y Dr. R. Parry. Nifer y copïau a argraffwyd ydoedd 500; ac yr oeddynt yr un fath o ran plygiad a llythyren a Beibl y Dr. Morgan.

1630, Yr Hen Destament a'r Newydd, yn nghyd â'r Apocrypha, Llyfr Gweddi Cyffredin, a'r Salmau Cân, mewn wythplyg bychan. Yr argraffiad hwn a gyhoeddwyd drwy haelioni rhai o ddinaswyr Llundain, ac ereill, at wasanaeth y Cymry. Nid yw nifer y copiau a argraffwyd yn wybyddus.

1647, Y Testament Newydd, mewn deuddeg plyg, heb gynnwysiad i'r pennodau—1,000 o gopiau.

1648, Ail argraffiad o'r Salmau Cân, gan yr Archiddiacon Prys, mewn deuddeg plyg.

1654, Yr holl Feibl, mewn wythplyg bychan—6,000 o gopiau. Gelwir hwn weithiau yn *Feibl Cromwel.*

1654, Argraffiad ar wahan o'r Testament Newydd, mewn wythplyg—1,000 o gopiau; wedi ei argraffu â llythyren frasach nâ'r Beibl, o'r un dyddiad.

1672, Y Testament Newydd, gyda'r Salmau, mewn rhyddiaith ac ar gân. Yr argraffiad hwn a gyhoeddwyd drwy danysgrifiadau a wnaed at hyny yn Nghymru a Lloegr. Argraffwyd ef mewn wythplyg, a chynnwysai 2,000 o gopiau.

1678, Yr holl Feibl, yn nghyd â'r Llyfr Gweddi Cyffredin, mewn wythplyg; argraffedig yn Llundain.

1690, Y Beibl, mewn wythplyg—10,000 o gopiau. Yr argraffiad hwn a gyhoeddwyd gan y Parch. D. Jones, o Landyssilio, drwy gynnorthwy Arglwydd Wharton, ac ereill.

1690, Y Beibl, mewn wythplyg—1,000 o gopiau; argraffedig yn Rhydychain at wasanaeth yr eglwysi. Gelwir ef yn *Feibl yr Esgob Lloyd.*

1718, Y Beibl, mewn wythplyg—10,000 o gopiau; argraffedig yn Llundain. Hwn yw yr argraffiad cyntaf a gyhoeddwyd dan nawdd y Gymdeithas er Lledaenu Gwybodaeth Gristionogol, ac a arolygwyd gan y Parch. Moses Williams. Y mae yn cynnwys yr Apocrypha, y Salmau Cân, ychydig hymnau, a ffurf o weddiau; hefyd, cyfeiriadau ar ymyl y ddalen, a chynnwysiad i'r pennodau.

1727, Y Beibl, mewn wythplyg—5,000 o gopiau; argraffedig yn Llundain. Cyhoeddwyd yr argraffiad hwn dan yr un nawdd a'r diweddaf. Nid oes ynddo gyfeiriadau na chynnwysiad i'r pennodau; ac o herwydd hyny, ni chafodd ei brisio, nac ymofyn ar ei ol gymmaint gan y bobl.

1746, Y Beibl, mewn wythplyg—15,000 o gopïau; Caergrawnt. Hwn oedd y trydydd argraffiad a ddygwyd allan dan nawdd y Gymdeithas er Lledaenu Gwybodaeth Gristionogol. Y mae yn cynnwys yn agos yr oll a gyhoeddwyd yn argraffiad 1718; a dygwyd ef drwy y wasg dan arolygiaeth Mr. R. Morris, o'r Swyddfa Fôrawl, yr hwn ydoedd ysgolhaig Cymreig enwog. Yn yr argraffiad hwn, a'r un dilynol, mabwysiadwyd yr un llythyreniad ag a wnaed yn *Meibl yr Esgob Lloyd.*

1752, Y Beibl, mewn wythplyg—15,000 o gopïau; Llundain. Yr argraffiad hwn, yr un fath a'r un a wnaed yn 1746, a gyhoeddwyd dan arolygiaeth Mr. Morris, ar draul y Gymdeithas er Lledaenu Gwybodaeth Gristionogol.

1752, Y Testament Newydd, gyda'r Salmau, mewn wythplyg—2,000 o gopïau; Llundain. Argraffwyd hwn oddiwrth yr un a wnaed yn 1672, gan y Gymdeithas er Lledaenu Gwybodaeth Gristionogol. Gwnaed amryw adargraffiadau o hono yn yr Amwythig.

1770, Y Beibl, mewn wythplyg—20,000 o gopïau; Llundain. Cyhoeddedig gan y Gymdeithas er Lledaenu Gwybodaeth Gristionogol. Yr un llythyreniad ag sydd yn Meibl yr Esgob Lloyd.

1769, Y Beibl, mewn pedwarplyg; Caerfyrddin. Gyda sylwadau gan y Parch. Peter Williams. Y mae hwn wedi cael ei adargraffu o leiaf ddeuddeg o weithiau yn Nghaerfyrddin, heblaw argraffiadau cyffelyb a wnaed mewn manau ereill o Gymru. Y mae yr un Beibl wedi ei argraffu mewn unplyg, gyda cherfluniau, gan Fisher a'i Gyf., Llundain.

1779, Y Testament Newydd.

1789, Y Beibl, mewn unplyg; Llundain. Argraffiad o ychydig nifer oedd hwn, wedi ei wneuthur at wasanaeth yr eglwysi, gan y Gymdeithas er Lledaenu Gwybodaeth Gristionogol.

1790, Y Beibl, mewn deuddeg plyg, gyda chyfeiriadau Mr. John Cann; argraffedig yn Nhrefecca, yn sir Frycheiniog, dan arolygiaeth Mr. Peter Williams. Gwnaed argraffiad o'r un Beibl wedi hyny yn Nghaerfyrddin.

1799, Y Beibl, mewn wythplyg—10,000 o gopïau; a'r Testament Newydd wedi ei argraffu ar wahan (wythplyg hefyd); 2,000 o gopïau. Yr argraffiadau hyn a wnaed dan arolygiaeth y Parch. John Roberts, yn Rhydychain, gan y Gymdeithas er Lledaenu Gwybodaeth Gristionogol.

1800, Y Testament Newydd, mewn wythplyg, a argraffwyd yn Rhydychain, heb gynnwysiad i'r pennodau cyfeiriol.

Yr argraffiadau a nodwyd uchod, oddieithr 10,000 o gopïau o'r Testament Newydd, mewn gwahanol blygiadau, a argraffwyd yn yr Amwythig, yn y flwyddyn 1800, oedd yr oll a wnaed cyn ffurfiad y Feibl Gymdeithas Frytanaidd a Thramor. Yr argraffiad helaeth a wnaed yn 1779 a werthwyd mor fuan ag y cyhoeddwyd ef; ac nid oedd y bedwaredd ran o'r wlad wedi ei diwallu. Fel mai prinder Beiblau yn Nghymru a arweiniodd i sefydliad y Gymdeithas; felly, un o'i gweithredoedd cyntaf, wedi cael ei sefydlu, ydoedd cais i gwrdd â'r angen hwn oedd ar y Cymry am Feiblau. Penderfynodd y Gymdeithas, yn 1804, wneyd argraffiad o'r Beibl a'r Testament Cymraeg. Y nifer a orchymynwyd ydoedd 20,000 o Feiblau deuddegplyg, gyda 5,000 o Destamentau yn ychwanegol, mewn llythyren frasach. Yr argraffiad a ddewisiwyd yn gynllun ydoedd yr un a wnaed yn Rhydychain yn 1799; a derbyniwyd gwasanaeth y Parch. T. Charles, o'r Bala, i barotoi copi i fyned i'r wasg. Yn y flwyddyn 1805, amlygodd y Gymdeithas er Lledaenu Gwybodaeth Gristionogol ei bwriad o wneyd argraffiad o 20,000 o gopiau o'r Beibl Cymreig, yn unol â llythyreniad yr un a wnaed yn 1746; ond rhoddodd y flaenoriaeth wedi hyny i argraffiad 1752. Er mwyn gochelyd yr annghyfleusdra o annghyssondeb rhwng eu hargraffiadau, penderfynodd y Feibl Gymdeithas Frytanaidd a Thramor, y gwnai hithau hefyd fabwysiadu yr un testun, a daeth ei hargraffiad, wedi ei barotoi oddiwrth y safon hon, drwy y wasg yn 1806. Y mae nifer y copiau a ddosparthwyd ar wahanol amserau gan y Feibl Gymdeithas Frytanaidd a Thramor, gan gynnwys hwn, ei hargraffiad cyntaf, o'r flwyddyn 1806 hyd fis Mawrth, 1855, fel y canlyn:—

Beiblau	417,489
Testamentau	479,567
Dwyieithawg, Cymraeg a Saesneg	36,166
Cyfanswm	933,222[a]

Yn 1842, cyhoeddodd y diweddar Barch. John Williams, y pryd hwnw o'r Drefnewydd, gyfieithiad Cymreig o'r Testament Newydd, am ba un y dywed y Cyfieithydd ei hun fel hyn:—"Am y cyfieithiad presenol, a gynnygir i'r darllenydd, nid ydys ynddo wedi dilyn yr un o'r testunau argraffedig yn mhob man. Gallai hyn, ar yr olwg gyntaf, ymddangos yn chwith; ond erbyn yr ystyria y darllenydd, nad oedd yr un o'r easglwyr, neu y cymharwyr hyny yn anffaeledig neu ysbrydoledig, o Erasmus hyd y Proffesor Griesbach, a'u bod hwythau eu hunain weithiau yn ystyried darlleniad ymylaidd (*marginal*) o gymmaint, os nad mwy, o awdurdod

[a] Gwel y "Gwyddoniadur Cymreig," tudal. 639—40.

nâ'r un yn y testun, gallai y maddeuir i ni am ddewis darlleniadau Griesbach mewn rhai manau, a'r eiddo Mill ac ereill mewn manau ereill; ond pa un bynag a faddeuir i ni neu beidio, dyna, oddiar yr ystyriaeth ddifrifolaf, oedd yn rhaid i ni ei wneuthur."—*Cyf.*]

133. Y fath ddoethineb sydd ganfyddadwy yn y ffaith fod genym air ysgrifenedig—Ysgrythyr, ac nid traddodiad; ac nid llawer o Feiblau, ond un. Dadguddiad mwy nâ hyn a luosogai anhawsderau ymchwiliaeth. A buasai dadguddiad llai nâ hyn, er ys amser maith, wedi colli ei eglurder. Yn annibynol ar bob amcan i anmharu cenadwri Ddwyfol, buasai raid i draddodiad geiriol ddyoddef oddiwrth gyflwr y rhai a'u derbynient. Mor ddibaid yw dylanwad cyflwr moesol dyn ar ei farn a'i amgyffrediad, fel y buasai yn rhaid i unrhyw draddodiad anysgrifenedig fyned, feallai, yn ddiarwybod drwy gyfnewidiadau mawrion. Hefyd, pob gwirionedd a beidiai mewn unrhyw oes a bod o bwysigrwydd presenol, a adewid allan o nifer y gwirioneddau a drosid i'r oes nesaf. Oni bai y Beibl, ni byddai genym ond dadguddiad hynod o anafus; ac o berthynas iddo, byddem yn annghytuno, nid yn gymmaint am ystyr geiriau ein Meistr, ag am y geiriau eu hunain. Gan hyny, mewn byd tueddol i anmharu pob peth sydd yn santaidd, ac i ddirymu pob peth sydd wir, y fath fendith yw, gan nad beth bynag sydd wedi myned yn hen, fod modd i adnewyddu ei ieuengtyd; a pha beth bynag all fod wedi ei annghofio gan yr eglwys, nad ydyw wedi ei golli yn anadferadwy. Y mae hadau diwygiad ac adnewyddiad gwybodaeth genym: nid llai nâ "Gair Duw, yr hwn sydd yn byw ac yn parhau yn dragywydd."

134. Ac etto, *os ar gyfrif hyn oll* yr annghofiwn ni y parch dyledus i Feibl ysgrifenedig, y fendith yma a dry yn felldith i ni. Fel yr oedd pob gwirionedd ysgrythyrol yn cael ei hysbysu gynt, rhoddai Duw brofion eglur o ba le yr oedd yn dyfod, a phaham yr anfonid ef. Gelwid ar ddynion i gredu yr ymadrodd, am fod braich yr Arglwydd wedi ei ddadguddio. Arswyd ac ymostyngiad, yn nghyd a chydwybodolrwydd o ddynesiad Dwyfol, a argreffid ar feddyliau dynion drwy yr arwyddion mwyaf addysgiadol. *Clywodd* Adda lais Duw yn yr ardd, cyn iddo gael ei alw i gyfrif am ei anufydd-dod. Pan lefarodd Duw wrth feibion Israel, cawsant y fath brofion eglur o'i allu, fel y dymunent beidio clywed ei lais ef mwy (heb gyfryngwr). Pan lefarai wrth Moses, yr oedd ei gwmwl ar y tabernacl, neu ei daranau yn peru i'r mynydd grynu. Dysgwyd Samuel drwy arwyddion gwyrthiol i roddi croesaw calonog i'r genadwri Ddwyfol. Pan welodd Esay y golygfeydd, y gallwn ni yn awr gyda chan lleied o wyleidd-dra ddarllen am danynt, mewn ymwybodolrwydd o'i annheilyngdod, efe a lefodd, "Gwae fi, o herwydd gŵr halogedig o wefusau ydwyf fi." Darparwyd Ioan i dderbyn ei weledigaethau drwy olygfa a orchfygodd ei holl gynheddfau, fel y syrthiodd i lawr megys marw. Eglur yw fod dadguddiad *ysgrifenedig* cyflawn yn annghysson â'r fath brofion gwyrthiol; ac y mae perygl rhag i gynnefindra â llais y Beibl, ac ymddangosiad syml y gyfrol ei hunan, ein denu i'w darllen fel cyfansoddiad cyffredin. Dylem, gan hyny, drwy fyfyrdod a difrifoldeb, gyflenwi y teimladau a gynnyrchid gynt, gan arwyddion gweledig o'r presenoldeb a'r awdurdod Ddwyfol. Nid gair un cydradd â ni ydyw; ac os ewyllysiwn gael ein bendithio drwyddo, rhaid i ni ei fyfyrio gyda'r meddyliau syml a pharchus hyny, ag sydd yn gweddu i ni pan yn dàl cymdeithas â'r Goruchaf, yr hwn yw Awdwr y llyfr, a'n Barnwr ninau.

PENNOD II.

Ar Wirionedd ac Awdurdod yr Ysgrythyr.

"Yr wyf wedi dysgu rhoddi y parch hwn i'r llyfrau hyny yn unig o'r Ysgrythyr a elwir yn ganonaidd. Darllenwyf lyfrau ereill heb feddwl fod unrhyw beth yn wirionedd am eu bod hwy yn meddwl hyny, ond am eu bod yn alluog i'm perswadio, naill ai drwy yr awdwyr canonaidd, neu drwy rhyw reswm tebygol, nad yw y peth hwnw yn gwyro oddiwrth wirionedd."—Augustine, *Ep.* 19: *bu farw* 430.

"Os ammheuwyd rhai o'r llyfrau hyn ar y cyntaf, ond ar ol ymchwiliad a gawsant eu derbyn, y maent wedi eu cadarnhau drwy y prawf."—Prawf Morsol Gambier.

"Os nad yw y ffeithiau yma (ar ddechreuad, natur, a llwyddiant y grefydd Gristionogol) wedi eu profi, nid oes dim yn hanes dynoliaeth a ellir ei gredu."—Y Prif Ynad Bushe.

Dos. 1.—*Y mae yr Ysgrythyr yn hawlio ystyriaeth fel athraw ysbrydoledig, ac fel yr unig athraw ysbrydoledig.*

135. Wrth brofi purdeb llyfrau yr Ysgrythyr, ni ddywedwyd dim am eu Dwyfol awdurdod. Yr oll sydd wedi ei brofi yw, eu bod wedi deilliaw i ni fel y gadawwyd hwynt gan eu hysgrifenwyr. Rhaid casglu pa beth ydynt, a pha beth y maent yn hòni eu bod, yn gyntaf oddiwrth y llyfrau eu hunain.

Ychydig o sylw a rydd foddlonrwydd cyflawn i'r darllenydd gyda golwg ar wirionedd y gosodiadau canlynol:—

136. (1.) Y mae llyfrau yr Ysgrythyr yn gosod allan genadwriaeth ein Harglwydd fel yn Ddwyfol. Proffesa ei fod yn ddysgawdwr wedi ei anfon oddiwrth Dduw, a chyhoedda o'r dechreu ei fod i roddi ei fywyd er iachawdwriaeth dynion. Ioan 8, 42; 7, 16; 17, 8; 3, 14—18.

Yn brawf o'i genadwriaeth, cyflawnodd lawer o weithredoedd gwyrthiol, a dangosodd wybodaeth oruwch-naturiol o'r galon ddynol, ac o ddygwyddiadau dyfodol. Math. 11, 2—6; Ioan 5, 36; 15, 24; 6, 64; 16, 30; Math. 20, 17—19; Luc 19, 42—44.

Yr oedd y rhai a'i hadwaenent ef oreu, ac a deimlent yn lleiaf caredig tuag ato, yn analluog i roddi cyfrif oddiwrth achosion naturiol am ei allu a'i ddoethineb. Marc 6, 1—3; Luc 4, 22; Ioan 7, 15.

Yr oedd ei fywyd cyhoeddus yn hunan-ymwadol a diduedd, a'i fywyd dirgelaidd yn ddifai a haelfrydig. 1 Pedr 2, 22, 23; Math. 27, 3, 4; Act. 10, 38; Ioan 4, 34; 6, 15; 7, 18.

Rhoddwyd ef i farwolaeth (megys y rhagddywedodd) am wneuthur ei hunan yn "gystal a Duw,"—cyhuddiad na chafodd ei wadu ganddo; ac ar ol ei farwolaeth, adgyfododd o'r bedd. Luc 22, 70; Ioan 20, 17; Act. 1, 3.

Ar y tir yma, penderfynwn fod ei eiriau i'w derbyn fel yn Ddwyfol. Ioan 14, 10, 11; 12, 44—50; Math. 17, 5.

137. (2.) Gosodant allan gommisiwn yr apostolion fel yn Ddwyfol. O wyth ysgrifenydd y Testament Newydd, yr oedd pump o honynt—Mathew, Ioan, Pedr, Iago, a Judas—yn mhlith rhifedi yr apostolion i ba rai y rhoddodd Crist allu i gyflawnu gwyrthiau, a chyhoeddi ei efengyl ef i'r byd. Math. 10, 1—4; 7, 8; Luc 9, 6.

Yn y cymmeriad yma, ar bedwar o achlysuron gwahanol, addawodd

iddynt bresenoldeb dysgawdwr Dwyfol, yr hwn fuasai yn adalw i'w cof y pethau oedd ef ei hunan wedi eu dysgu iddynt, ac yn cyflwyno iddynt wybodaeth gyflawnach a mwy parhaus o'i wirionedd ef.[a] Profai yr apostolion eu commisiwn drwy y gwyrthiau a gyflawnid ganddynt, yn enw a thrwy allu Crist, a chyfranent ddoniau goruwch-naturiol i ereill.[b]

Profid eu cenadwriaeth gan hunan-ymwadiad santaidd, purdeb amcan, a chan y llwyddiant buan a hollol annghyfrifadwy (a llefaru mewn dull dynol) a ganlynodd eu gweinyddiadau. Act. 4, 16; 5, 29; 2, 41; 12, 24.

Penderfynwn, gan hyny, fod geiriau Mathew, Ioan, Pedr, Iago, a Judas yn Ddwyfol. Ioan 14, 12—14; 20, 21; Math. 10, 20; 1 Ioan 4, 6.

138. Ysgrifenwyd Efengyl Marc, ac eiddo Luc, gan gymdeithion i'r apostolion. Argyhoeddwyd Marc gan Pedr (1 Pedr 5, 13), ac yr oedd Luc yn gyfaill mynwesol iawn i Paul. Papias (blodeuodd 110), Justin (bu farw 164), Irenæus (blodeuodd 180), ac Origen, ydynt oll yn llefaru am Efengyl Marc, fel yn cael ei derbyn yn gyffredinol, ac fel wedi ei thraethu (*dictated*), neu wedi ei chadarnhau gan Pedr.

Bu Luc a Phaul fyw yn nghyd am ddwy flynedd yn Mhalestina; yr oeddynt gyda'u gilydd yn y rhan fwyaf o deithiau Paul, ac yn ystod carchariad Paul yn Rhufain. Act. 21, 17; 24, 24; 28, 16; Col. 4, 14; 2 Tim. 4, 11.

Dyfynir Luc 10, 7, fel Ysgrythyr yn 1 Tim. 5, 18. Y mae Irenæus, Tertullian, ac Origen yn llefaru am ei efengyl fel yn cael derbyniad cyffredinol, ac fel wedi ei chadarnhau gan Paul.

139. (3.) Gosodant allan gommisiwn Paul fel yn Ddwyfol. Galwwyd ef i'r swydd apostolaidd—hònai awdurdod apostolaidd, yr oedd yn cadarnhau ei honiadau drwy gyflawnu gwyrthiau, cyfranu i ereill ddoniau goruwch-naturiol, dangosodd yr hunan-ymwadiad mwyaf, ymostyngodd i'r dyoddefiadau dwysaf, cydnabyddid ef gan y lleill o'r apostolion, a bu yn hynod lwyddiannus. Y mae, gan hyny, yn hòni ei fod yn llefaru yn enw Crist, a bod ei eiriau yn Ddwyfol. 1 Cor. 15, 8; Act. 26, 12—17; 2 Cor. 11, 5; Gal. 1, 1—12; 2, 6; 1 Cor. 2, 10—13; 1 Cor. 7, 40; Rhuf. 15, 18, 19; 2 Cor. 12, 12; Act. 19, 6; 2 Tim. 1, 13, 14; 2 Cor. 11, 7; 2 Cor. 1, 5; Gal. 2, 7—9; 2 Cor. 11, 14—16; 2 Cor. 5, 18—20; 1 Thes. 2, 13.

140. (4.) Darluniant Ddwyfoldeb yr ysgrifeniadau apostolaidd yn gyffredinol. Cyfansoddwyd yr ysgrifeniadau apostolaidd drwy orchymyn Dwyfol, ac mewn cyflawniad o'r commisiwn ag oedd yr ysgrifenwyr wedi ei dderbyn. 1 Thes. 4. 15; 1 Tim. 4, 1; Dad. 1, 19; Ioan 20, 31; 1 Ioan 5, 13; 1 Cor. 14, 37.

Yr un amcan oedd mewn golwg gan yr apostolion yn eu hysgrifeniadau ag yn eu pregethau. Judas 3; Heb. 13, 22; 1 Ioan 2, 1, 26.

Y mae ysgrifeniadau yr apostolion yn gosod allan eu cyfarwyddiadau geiriol hwynt mewn ffurf ddwysedig a pharhaus, a hawliant i'r ddau yr un awdurdod. Eph. 3, 3—5; 1 Ioan 1, 1—5; 2, 12—14; Ioan 20, 31; 2 Pedr 1, 15; 2 Pedr 3, 1, 2; 2 Thes. 2, 15; 3, 14; 1 Cor. 15, 1 (2, 13).

Derbyniwyd ysgrifeniadau yr apostolion gan y Cristionogion cyntaf fel o awdurdod gyfartal i'w pregethau, a chynnyrchent yr un effeithiau. Act. 15, 19—31; 16, 4; 2 Cor. 7, 8—10; 2 Thes. 2, 1.

[a] Math. 10, 19, 20; Luc 12, 11, 12; Marc 13, 11 (Luc 21, 14); Ioan 14, 16; gwel hefyd Math. 28, 18—20; Marc 16, 20; Act. 1, 4; 21, 4; 1 Pedr 1, 12.

[b] Act. 3, 16; Heb. 2, 4; Act. 5, 12, 15; Marc 16, 17, 18; Act. 8, 17—19.

Ceir profion fod yr ysgrifeniadau apostolaidd o'r dechreu yn cael eu dàl yr un mor gyssegredig a'r Hen Destament, a'u bod yn cael eu dyfynu fel geiriau Duw. 2 Pedr 3, 15, 16: Iago 4, 5 (cymharer Gal. 5, 17—21): Iago 2, 8 (cymharer Math. 22, 39).

141. (5.) Y mae y Testament Newydd yn gosod allan y grefydd Iuddewig a'r Ysgrythyr Iuddewig fel yn Ddwyfol. Y mae Crist, ac ysgrifenwyr y Testament Newydd, yn hòni fod crefydd yr Iuddewon o Dduw. Crist, yn Ioan 4, 22: Pedr, yn Act. 3, 13: Paul, yn Rhuf. 9, 4.

Cydnabyddant Ddwyfoldeb y dadguddiad a roddwyd i Abraham ac i Moses. Crist, yn Ioan 8, 56: Pedr, yn Act. 3, 25: Paul, yn Gal. 3, 18: Crist, yn Marc 12, 26: Ioan, yn Ioan 1, 17: Paul, yn 2 Cor. 3, 7.

Cydnabyddant awdurdod Ddwyfol y gyfraith foesol, a dechreuad Dwyfol y seremoniau Iuddewig, a gosodiadau gwladol cyfraith Moses. Crist, yn Math. 15, 4: Pedr, yn 1 Pedr 1, 15, 16: Paul, yn Rhuf. 7, 22 (gwel ad. 7, 12). Crist, yn Luc, 22, 15, 16: Ioan, yn Ioan 19, 36: Paul, yn 1 Cor. 9, 8, 9.

Darluniant Gristionogaeth fel cwblhad Iuddewaeth, ac wedi ei rhagfynegu gan y prophwydi. Yn yr un modd cydnabyddai ysgrifenwyr yr Hen Destament, fod yr hyn a lefarent, neu a ysgrifenent, wedi ei roddi iddynt gan Dduw, a'i gyhoeddi yn ol ei orchymyn ef. Crist, yn Math. 5, 17: 26, 54, 56: Pedr yn Act. 10, 43: Paul, yn Eph. 2, 20. Rhuf. 3, 21: 2 Cor. 3, 6—14. Ex. 4, 12, 15, 16: Deut. 18, 18: Jer. 1, 6: Amos 3, 7, &c.

Daliant awdurdod Ddwyfol yr hen Ysgrythyrau Iuddewig, dan y dosraniad triphlyg o'r Ddeddf, y Prophwydi, a'r Salmau, a dan enwau ereill llawn mor adnabyddus, a phriodolant y cwbl i'r Ysbryd Glân. Math. 22, 31: Heb. 13, 5: Act. 28, 25: Math. 22, 43: Rhuf. 3, 12: Ioan 10, 35: Gal. 3, 8: Heb. 3, 7 (cym. 4, 7): 1 Pedr 1, 11.

142. Cawn yma, gan hyny, neillduolrwydd cyntaf y Beibl. Y mae yn proffesu bod yn llyfr oddiwrth Dduw; llefara yn mhob man gydag awdurdod Ddwyfol, a hawlia ein hymostyngiad ni. Hwn yw yr unig lyfr sydd yn honi "Duw fel ei awdwr, gwirionedd digymmysg fel ei gynnwysiad, ac iachawdwriaeth dynion fel ei amcan." Os caniatäwn awdurdod ein Harglwydd fel dysgawdwr Dwyfol, y mae awdurdod y Beibl wedi ei sefydlu. Os gwadwn awdurdod y Beibl, yr ydym yn gwadu gwirionedd rhai o'i addysgiadau mwyaf lluosog, a chyda hyny Ddwyfoldeb ei genadwriaeth.

143. Fel y mae yr Ysgrythyr lân yn hawlio cael ei hystyried yn llyfr Duw,—yn awdurdod Ddwyfol, felly y mae yn honi mai hi yw yr *unig* awdurdod. Hon yw y rheol mewn ffydd, ac mewn ymarweddiad. I gael allan ei meddwl, defnyddiwn reswm a barnau dynion da, a phrofiad calon dduwiol; ond nid yw yr un o'r cynnorthwyon yma, na'r oll o honynt gyda'u gilydd, i gael eu hystyried yn gyfartal iddi mewn awdurdod. Nid ydynt yn rhanau o'r gyfraith, ond cynnorthwyon i'w hegluro. Canlyn rheswm neu brofiad mewn materion o ffydd, pan wrthwynebir eu penderfyniadau gan y Beibl, yw ei wadu; eu canlyn pan fyddont yn ychwanegu ato yw caniatâu dadguddiad arall; a'u gwneuthur yn *brif reol*, pan gyduuant âg ef, yw seilio ein hufydd-dod ar ddoethineb ddynol, ac nid ar wirionedd Duw. Nid yw ffydd felly, hyd y nod yn yr achosion lleiaf, yn ymostyngiad i'r awdurdod Ddwyfol.

144. Canfyddir oddiwrth y rhanau canlynol o'r Ysgrythyr fod y penderfyniadau yma wedi eu tynu oddiwrth wersi y Beibl ei hunan. Y mae

yr ysgrifenwyr ysbrydoledig yn anerch dynion o bob gwlad a sefyllfa. Diar. 8, 1—4; Salm 49, 1—3; Rhuf. 10, 12, 13. Gwel Deut. 29, 29; Salm 78, 5—7.

Y rhanau pwysicaf o'r llyfrau ysbrydoledig a gyflwynwyd, yn achos yr Hen Destament, i'r Iuddewon yn eu cynnulliadau, ac yn achos y Newydd, i'r bobl yn gyffredinol, ac i'r eglwysi. Deut. 5, 22; 31, 24, 26; Esec. 33, 30, 31; Jos. 23, 6; Jer. 36, 2—6; Hab. 2, 2; Math. 7, 28; Act. 5, 20; Rhuf. 1, 7 (2 Cor. 1, 1; Gal. 1, 2; Col. 1, 2; Phil. 1, 1); Dad. 2, 29.

Apwyntiodd Duw i'r llyfrau hyn gael eu darllen yn gyhoeddus, mewn iaith ddealledig gan y bobl, yn mhlith yr Iuddewon, ac yn yr eglwys Gristionogol. Deut. 31, 11—13; Jos. 8, 33—35; Ezra 7, 6—10; Neh. 8. 1—8; 1 Thes. 5, 27; Col. 4, 16.

Y mae darlleniad dirgelaidd (*private*) o'r Ysgrythyr, yr hyn a gymhellir yn gryf yn yr Hen Destament, yn cael ei orchymyn yn y Newydd. Deut. 11, 18—20; Sal. 19; Sal. 1, 2; Jos. 1, 8; Act. 8, 30—35; 17, 11; Rhuf. 15, 4; 2 Tim. 3, 15; 2 Pedr 1, 19.

Y mae dynion yn y diwedd i roddi cyfrif i Dduw am eu barnau a'u hymarferiadau crefyddol. Preg. 11, 9; Rhuf. 14, 4—12; Iago 4, 12.

Ar yr egwyddor o gyfrifoldeb dyn y mae y Beibl yn apelio, mewn modd arbenig, at ei reswm. 1. Sam. 12, 7; Jer. 2, 9—11; Marc 7, 14, 16; 1 Cor. 10, 15.

Y mae ymarferiad barn bersonol—mewn ysbryd parod i gymmeryd ei ddysgu, wrth gwrs—yn cael ei osod allan yn y Testament Newydd fel yn hanfodol i fodoliaeth a chynnydd gwir grefydd. Mat. 6, 22, 23; 1 Cor. 14, 20; Col. 1, 9; Phil. 1, 9, 10; Act. 17, 23. Gwel 1 Pedr 3, 15; Rhuf. 12, 12.

Annogir dynion yn y Beibl i ddwyn pob athrawiaeth a gynnygir iddynt, yn nghyd a'u cymmeriadau eu hunain, at y prawf ysgrythyrol, neu y gwirionedd apostolaidd. Esay 8, 20; 1 Ioan 4, 1; 1 Thes. 5, 20, 21; Eph. 5, 6, 8—10, 17; Col. 2, 18; Gal. 6, 4, 5; 2 Cor. 13, 5; 1 Cor. 11, 28—31.

Yr oedd ein Harglwydd a'i apostolion, wrth anerch y rhai oedd â'r Hen Destament yn eu meddiant, yn appelio bob amser at ei awdurdod. Gwel adr. 141. Ein Harglwydd a'i apostolion a gondemniant bob trawshoniad ysbrydol, a chyfeiriant at eu dysgeidiaeth hwy fel y safon uchaf. Math. 23, 1, 8—10; 2 Cor. 1, 24.

Y mae annigonolrwydd hollol rheswm anoleuedig i ddarganfod nac i iawn werthfawrogi gwirionedd Dwyfol, yn ei wneyd yn llwyr anaddas i wneuthur mwy nag egluro y dadguddiad. Nis gall eistedd mewn barn arno. Salm 19; 1 Cor. 2, 9, 14; 1, 18—25; Gal. 1, 11, 12.

Gorchymynodd Duw o'r amseroedd boreuaf i beth bynag oedd i fod yn rheol ffydd ac ymarferiad gael ei ysgrifenu. Ex. 17, 14; Deut. 31; 19; Hos. 8, 12; Esay 8, 19, 20.

Arweiniwyd yr ysgrifenwyr ysbrydoledig i ddefnyddio iaith o'r fath ag oedd ysbryd Duw yn gymmeradwyo. Dan. 12, 7—9; Math. 10, 19, 20; 1 Pedr 1, 10—12; 2 Pedr 1, 21; 2 Tim. 3, 16; Heb. 1, 1; 1 Cor. 2, 12, 13.

O herwydd hyn, tynir penderfyniadau oddiwrth eiriau neillduol. 1 Cor. 15, 45; Heb. 3, 7—10.

Gwaherddir pob cynnyg i ychwanegu at, neu dynu oddiwrth eiriau Duw. Deut. 4, 2; 12, 32 (Heb. 13, 1); Diar. 30, 5, 6; Dad. 22, 18, 19 (Gal. 3, 15.)

Traddodiadau geiriawl yr Iuddewon, y rhai a feïr yn y gyfraith a'r prophwydi, a gondemnir gan ein Harglwydd Iesu. Esay 29, 13, 14; Math. 15, 2—9.

Os oedd dadguddiedigaethau yr Hen Destament, y rhai, mewn cymhariaeth, oeddynt anmherffaith, yn ddigonol er dysgeidiaeth ac iachawdwriaeth, rhaid fod darganfyddiadau cyflawnach y Testament Newydd yn llawer mwy felly. Sal. 19, 7—11; 119, 130; 9, 104; Diar. 22, 19—21; Ioan 20, 30, 31; 1 Ioan 1, 34; 1 Cor. 15, 1—4.

Profa ymchwiliad i'r adnodau a ddyfynir uchod mai yr Ysgrythyrau yw ein hunig *reol* ni: ein bod dan rwymau i'w myfyrio, ac mai yn ol y defnydd a wnawn ni o'r fendith yma y deuant yn "arogl bywyd i fywyd, neu yn arogl marwolaeth i farwolaeth."[a]

145. Y mae y rhai hyn yn mhlith egwyddorion cyntaf Protestaniaeth, y maent yn hawlio i ni y rhagorfraint, ac yn cymhell arnom y ddyledswydd o chwilio y Beibl drosom ein hunain. Cofier, er hyny, nad yw ein diogelwch yn gorwedd mewn cydnabyddiad o'r egwyddorion yma, ond yn y cymhwysiad o honynt, ac yn y grediniaeth o'r athrawiaethau, ac ymarferiad o'r gorchymynion a ddadguddir yn y Beibl.

Dos. 2. *Ysbrydoliaeth.*

146. Y gwirionedd cyffredin fod llyfrau yr Ysgrythyr o ddechreuad ac awdurdod Ddwyfol a fynegir weithiau mewn ffurf arall, a dywedir eu bod yn Ysbrydoledig. Dynion santaidd a'u llefarasant neu a'u hysgrifenasant, megys y cynhyrfwyd hwynt gan yr Ysbryd Glân.

147. Beth bynag sydd yn perthyn i eglurhad o'r gwirionedd yma, megys, pa fodd yr oedd dynion yn cael eu hysbrydoli, a pha un a oedd yr un fath ysbrydoliaeth yn angenrheidiol yn mhob achos a'i gilydd, sydd yn ddamcaniaeth (*theory*) a ddeil berthynas â phynciau ag ydynt yn gywrain yn fwy nâ defnyddiol. Y gwirionedd ei hunan yn unig sydd yn cael ei gyflawn ddadguddio. Yn mhlith y paganiaid, a'r Iuddewon anysbrydoledig, credid fod pob gweithrediad gwirfoddol yn cael ei attal tra yr oedd y person ysbrydoledig dan ddylanwad y cynhyrfiad Dwyfol. Yn mhlith y Cristionogion boreuol, yr oedd yr athrawiaeth o ysbrydoliaeth yn cael ei dàl mewn modd ymarferol yn hytrach nâ golygianol (*speculative*), er eu bod yn gyffredinol yn credu fod ysgrifenwyr y Beibl, pan yn ysbrydoledig, yn arfer eu galluoedd meddyliol cyffredin. Ni ddywedent ond ychydig am y moddau a'r rhywiau gwahanol o ysbrydoliaeth. Fodd bynag, pan ddechreuwyd ammeu awdurdod Pabyddiaeth yn yr amseroedd diweddar, chwiliwyd yr oll o athrawiaeth yr ysbrydoliaeth yn fwy manwl. Cydnabyddid y ffeithiau yn gyffredin; ond ystyrid y ddamcaniaeth, neu y mynegiad a'u gosodent allan, ac a gyfrifai am danynt, yn bwnc agored i ddadl. Gwel y dyfyniadau o eiddo y Tadau yn "Nghyssondeb yr Efengyl," gan Westcott.

Dalia rhai fod yr Ysbryd santaidd wedi traethu (*dictate*) y llyfrau cyssegredig air yn ngair,[b] fel y maent genym yn yr ieithoedd gwreiddiol; ereill, er hyny, a ddaliant fod hyn yn myned yn mhellach nâ'r ffeithiau, a'i fod yn anghysson â gwahaniaethau ieithweddol, amrywiaeth y dyfyniadau, ac

[a] Am yr Ysgrythyrau a ddyfynir uchod, gwel yn helaeth yn Nuwinyddiaeth Feiblaidd Morren, rhan I, ar Reol Ffydd.

[b] Calamy, Haldane, ac ereill ydynt bleidwyr traethiad geiriawl (*verbal dictation*).

hyd y nod proffesiadau yr awdwyr eu hunain. Ychydig a ddysgent mai gwirioneddau sylfaenol y Beibl yn unig a roddwyd[a] drwy ysbrydoliaeth, tra y mae y rhesymau a'r egluriadau o ddechreuad dynol. Yn ateb i'r rhai hyn, digon yw dywedyd, oddieithr i ni gael hysbysrwydd pa wirioneddau sydd yn sylfaenol, fod yr amcaniaeth yma yn taflu yr holl Ysgrythyr i warth, a'i bod yn annghyson â'r rhanau hyny o'r Beibl sydd yn ei osod allan fel safon mewn pethau crefyddol.

Ereill, etto, a ddalient mai y rhanau hyny o'r Beibl sydd â daionusrwydd eu tuedd foesol yn anammheuol, ydynt Ddwyfol, a dim arall. Yr amcaniaeth yma a ddiosga y Beibl o bob awdurdod, a thybia fod yn rhaid i ddyn feddu golygiadau cywir am yr hyn sydd yn foesol ddaionus cyn y gall ddefnyddio y Beibl.[b]

Amcaniaeth arall, ac un llawer mwy rhesymol, yw yr hon a fabwysiadwyd gan y Dr. Doddridge, a llawer o dduwinyddion diweddar.[c] Yn hon tybir fod gwahanol fathau o ysbrydoliaeth; y cyntaf a'r uchaf yn darparu at ddadguddiad o bethau nad oeddynt o'r blaen yn adnabyddus i'r ysgrifenwyr santaidd; yr ail yn darparu at ddiogelu yr ysgrifenwyr wrth arddangos yr athrawiaethau a'r ffeithiau oedd o'r blaen yn wybodus iddynt; a'r drydedd yn rhoddi awdurdod Ddwyfol, drwy gymmeradwyaeth dynion ysbrydoledig, ar ranau o ysgrifeniadau a gyfansoddwyd yn wreiddiol heb fod dan ysbrydoliaeth.

Nid yw yr amcaniaeth yma yn gwahaniaethu yn hanfodol yn ei chanlyniadau oddiwrth un arall sydd wedi cael ei dewis gan lawer. Daliant fod dynion santaidd yn ysgrifenu mewn ufydd-dod i orchymyn Dwyfol; ac wrth ysgrifenu, eu bod yn cael eu cadw, ni wyddom pa fodd, yn rhydd oddiwrth gyfeiliornad, pa un bynag a wnelent ai dysgu gwirioneddau anadnabyddus iddynt o'r blaen, neu gyhoeddi gwirioneddau a ffeithiau oedd eisoes yn wybodus iddynt. Yn ol y darluniad yma, yr hwn yn wir sydd yn fynegiad o'r ffaith, yn hytrach nag yn amcaniaeth o berthynas iddi, y mae *ysbrydoliaeth* yn cael ei briodoli i'r holl Ysgrythyr, tra y cyfyngir *dadguddiad* i'r gweithrediadau hyny o eiddo yr Ysbryd yn cyflwyno i ddynion wirioneddau anadnabyddus iddynt o'r blaen. Y mae yr *oll* o'r Ysgrythyr yn *ysbrydoledig*, a gwirioneddau newyddion ydynt yn ddadguddiedig, neu, fel y mae Thomas Scott yn ei fynegu, "y mae ysbrydoliaeth yn darganfod *gwirionedd newydd* (galwwn ni hyn yn ddadguddiad), ac yn arolygu cyflwyniad yr hen. Bydd cadw y gwahaniaeth yma mewn cof yn llesol.

148. Y rhai hyn (oddigerth yr olaf) ydynt ddamcaniaethau am ysbrydoliaeth. Y ffaith sydd ganddynt i'w chynnwys a'i hegluro yw, fod yr Ysgrythyr yn mhob man yn draethiad, neu yn air doethineb Ddwyfol, a'i bod yn gosod allan y meddylddrychau bwriadedig gan yr Ysbryd Glân. Dyma y ddawn y proffesa ysgrifenwyr ysbrydoledig eu bod wedi ei derbyn. Eu hysgrifeniadau ydynt yn Ddwyfol ysbrydoledig, neu, i ddefnyddio geiriau un nad oedd yn enwog iawn am gywirdeb ei olygiadau ar y pwnc yma, "wedi eu bywiogi drwyddynt yn gwbl gan yr Ysbryd."—*De Wette.*

149. Er enghraifft, y mae ysgrifenwyr yr Hen Destament yn honi hyn iddynt eu hunain. Ex. 4, 15, 16; 19, 9. Lev. passim; Deut. 4, 2; Num 23, 12; 2 Sam. 23, 2; Jer. 1, 7—9; Eseciel 3, 4—10; Micah 3, 8, &c.

[a] Priestly, ac hyd y nod Burnet: gwel ar yr Erthyglau, Erth. 6.
[b] Kant. [c] Esgob D. Wilson, &c.

Y mae ysgrifenwyr y Testament Newydd yn honi hyn i eiddo yr Hen, ac iddynt eu hunain. 2 Pedr 1, 20, 21; Luc. 1, 20; 1 Pedr 1, 11; Act 1, 16; 28, 25; Heb. 3, 7. Ioan 14, 26; 16, 13, 14; 1 Cor. 2, 13; 14, 37; 1 Thes. 2, 13; 4, 8; 2 Pedr 3, 1, 2, &c.

150. Yr oedd y ddawn, fodd bynag, yn caniatau i'r ysgrifenwyr cyssegredig wneyd ymchwiliad diwyd a ffyddlawn;[a] gosod allan yr un meddwl mewn gwahanol eiriau;[b] y fath wahaniaethau, (nid gwrthddywediadau) rhwng hanesion dynion ysbrydoledig ag oedd yn debyg o godi oddiwrth sefyllfan neillduol pob un;[c] dyfyniadau o awdurdodau ysbrydoledig ereill;[d] defnyddiad ysgrifeniadau anysbrydoledig;[e] ac amrywiaethau ieithweddol, o'r fath a ganfyddir drwy gymhariaeth o Ezeciel ac Esay, o Ioan a Phaul; a'r rhai hyny yn cyfodi oddiwrth wahaniaeth yn y cyfansoddiad meddyliol, effeithiau addysg, yn nghyd a dylanwadau ereill. Ychwaneger at hyn, fod yr ysgrifenwyr ysbrydoledig weithiau yn ansicr o gyflawn ystyr a chymhwysiad eu cenadwri,[f] a bod y genadwri yma wedi ei thraddodi mewn *iaith* gymmeradwy gan Ysbryd Duw,[g] ac y mae genym y ffeithiau ysgrythyrol am yr athrawiaeth hon. Gorchwyl damcaniaeth, os gellir ffurfio damcaniaeth, yw cynnwys ac egluro y ffeithiau yma.

Dos. 3. *Y Canon.*

151. Y pwnc o awdurdod llyfrau yr Ysgrythyr, a osodir i lawr weithiau mewn ffurf arall, drwy ofyn a ydyw y cwbl yn perthyn i'r Canon; pwnc sydd wedi ei benderfynu, os profir unwaith eu bod wedi eu hysgrifenu gan ddynion ysbrydoledig. Dywedir weithiau, mae yn wir, ein bod yn profi ysbrydoliaeth y llyfrau drwy brofi eu canoneiddrwydd yn gyntaf. Y mae yr eglwys wedi eu derbyn, ac am hyny y maent yn Ddwyfol. Y drefn wrthwynebol, er hyny, yw yr un gywir. Y maent yn Ddwyfol, ac am hyny y mae yr eglwys wedi eu derbyn. Derbynir y llyfrau yn awr, fel yn *ganonaidd*, am fod genym brofion boddhäol o'u hysbrydoliaeth; a phe byddai llyfrau ereill i'w cael, ag y gellir profi eu bod o Ddwyfol ddechreuad,, ac heb gael eu cydnabod yn y canon presenol, byddem yn rhwym o roddi lle iddynt yn mhlith y lleill.

152. Gan hyny, y mae y pwnc o *ganoneiddrwydd* llyfrau yr Ysgrythyr yn driphlyg. A yw pob llyfr yn gynnyrch ei awdwr proffesedig? a ydyw

[a] Luc 1, 1—4.

[b] Cymharer Math. 25, 26, 27; Luc 22, 19, 20; a 1 Cor. 81. 24, 25; a Math. 3, 17; Marc. 1, 11; a Luc 3, 22. I'r dosparth yma y perthyn defnyddiad o'r Hen Destament. Cymmerir y rhai hyn, naill ai o'r Deg a Thriugain heb roddi y geiriau yn gywir, ac hyd y nod pan na fyddo geiriad y cyfieithiad yma yn ddiwall, neu, weithiau (pan fyddo y gwreiddiol yn gwahaniaethu oddiwrth y Groeg), yn uniongyrchol o'r Hebraeg. Y mae cywirdeb y dyfyniadau yn gymwysedig mewn rhoi y sylwedd yn hytrach nag mewn rhoi y geiriau. Gwel Pen. 6.

[c] Gwel Arweiniad i'r Efengylau, Rhan 2.

[d] Sal. 108, a Sal. 59, 8—12; 60, 9—14; Gen. pennodau 10, 11, a 1 Cron. 1, 17, &c.; 2 Bren. 17, 37; ac Esay 36, 1—22; Mic. 4; Esay 2; hefyd Cron. gyda Bren. a Samuel. Y mae Eichhorn wedi rhoddi cyfres o'r cyfryw ddyfyniadau.

[e] Jos. 10 13; Num. 51, 14; Judas 9, 14, 15.

[f] 1 Pedr 1, 10, 11; Dan. 12, 8; felly hefyd, nid yw y ffeithiau a nodir yn yr adnodau canlynol yn ysgrifenedig yn Ysgrythyr yr Hen Destament, Act. 7, 22; 2 Tim. 3, 8; Heb. 9, 4, fod y cwchau o *aur*; Heb. 12, 21, geiriau Moses; ffeithiau yn 11, 37 &c.; felly hefyd gladdiad y patriarchiaid yn Sychem, Act. 7, 15.

[g] 1 Pedr 1, 10, 11; Dan. 12, 8; 2 Tim. 3, 16; Heb. 1, 1; 1 Cor. 2, 12, 13. Gwel adran 144.

yn wirionedd? ac a oedd yr ysgrifenydd wrth ei gyfansoddi dan arweiniad neilldnol yr Ysbryd? Y mae *purdeb a gwirionedd* yn cael eu cynnwys yma; ac er fod y ddosran hon wedi ei gosod rhwng y dosranau ar y pynciau hyn, etto y mae yr ymresymiad yn gofyn y ffeithiau perthynol i bob un o honynt.

153. Dechreuwn gyda'r Testament Newydd. Yr oedd ar gael yn yr eglwys foreuol lawer o ysgrifeniadau a broffesent roddi hanes bywyd a chymmeriad ein Harglwydd, ond pedwar o honynt yn unig a dderbynid fel yn awdurdodol. Caniatëid ar bob llaw eu bod yn gynnyrchion yr Efengylwyr sydd â'u henwau wrthynt. Ysgrifenwyd Efengyl Marc ac eiddo Luc, y naill dan ofal ac arolygiad Pedr, a'r llall dan ofal ac arolygiad Paul. Heblaw hyn, y mae yn ysgrifenedig fod Ioan wedi cydnabod yn gyhoeddus awdurdod y tair Efengyl gyntaf, ac wedi ychwanegu ei un ei hunan i'w cwblhau. Y llyfrau yma, gan hyny, a ysgrifenwyd gan Apostolion, i ba rai yr oedd y Ceidwad mewn modd arbenig wedi addaw yr Ysbryd i'w tywys hwynt i bob gwirionedd, i ddwyn ar gôf iddynt beth bynag oedd efe ei hunan wedi ei ddywedyd wrthynt, ac i'w haddasu i roddi ei efengyl ef i'r byd.

Yn yr un modd hefyd, er mewn ffordd llai uniongyrchol, tybir fod Ioan wedi dwyn tystiolaeth i lyfr yr Actau.[a] Felly hefyd am Epistolau Paul. Y mae triarddeg o honynt yn dwyn ei enw. Yr oedd dysgyblion ereill yn dystion mai efe a'u hysgrifenodd hwynt.[b] Ysgrifenai yn gyffredin drwy ysgrifwas (*amanunensis*), yr hwn hefyd oedd yn dyst o burdeb ei ysgrifeniadau:[c] yn yr enghreifftiau hyn, efe a ychwanegai ei gyflwyniad a'i anerchiad.[d] Anfonai ei lythyrau drwy genadon cyfrinachol.[e] Y mae naw o honynt, fodd bynag, wedi eu cyfeirio at gorfforiaethau cyhoeddus o bobl. Gorchymynai ar i'r cyntaf o honynt gael ei ddarllen yn y gynnulleidfa gyhoeddus; yr ail, ac yn wir yr oll o'r gweddill, a ddarllenwyd yn gyhoeddus hefyd;[f] a gwyddom oddiwrth Ignatius, Polycarp, a Chlement, ac yn enwedig oddiwrth Pedr, fod ei Epistolau yn cael eu hystyried fel Ysgrythyr ysbrydoledig, ac yn cael eu darllen gyda Chyfraith a Phrophwydi yr Hen Destament, ac Efengylau y Newydd.[g] Er cwblhau y prawf yma, gellir ychwanegu fod iaith Pedr wedi cael ei defnyddio ganddo wedi i holl epistolau Paul at yr eglwysi gael eu hysgrifenu,[h] a'i fod yn rhoddi iddynt enw ("Ysgrythyr"), yr hwn, er ei fod yn dygwydd hanner cant o weithiau yn y Testament Newydd, nid ydyw yn cael ei gymhwyso at neb ond y llyfrau *canonaidd* presenol. Y penderfyniad yw, mai eiddo Paul yw yr epistolau hyn, eu bod yn meddu yr hyn a honai Paul iddynt (adr. 139), a'r hyn oedd yr eglwys foreuol a phrif apostol yn ei briodoli iddynt, sef, ysbrydolrwydd; ac, o ganlyniad, awdurdod ganonaidd. Nid geiriau a ddysgir gan ddyn ydynt, ond geiriau yr Ysbryd Glân.

Yr holl ranau o'r Testament Newydd sydd hyd yma wedi eu nodi, a ystyrid yn Ddwyfol cyn gynted ag y cyhoeddwyd hwynt, yn nghyd a

[a] Gwel y profion yn Wordsworth ar y Canon, tud. 156—160.
[b] 1 Thes. 1, 1; 2 Thes. 1, 1.
[c] Rhuf. 16, 22.
[d] Col. 4, 18; 1 Cor. 16, 21.
[e] Rhuf. 16, 1; Attodiad; Col. 4, 7, 8; Attodiad; Eph. 6, 21; Phil. 2, 25.
[f] 1 Thes. 5, 27; 2 Thes. 2, 15; 3, 6—14; 2 Cor. 1, 13; Col. 4, 16.
[g] Ign. i Eph. pen 12; Polyc. i Phil. 3, 11, 12; Clem. i Cor. 1, c. 47; 2 Pedr 3, 15, 16.
[h] Ychydig cyn marwolaeth Pedr, yr hwn a ddyoddefodd ferthyrdod yr un flwyddyn a Phaul, 2 Pedr 1, 14.

1 Pedr a 1 Ioan. Y rhelyw o lyfrau y Testament a elwid ammheuedig, fel y gwelwn yn adr. 20; neu, am na ffurfiasant ran o'r canon hyd nes y cawsant eu harchwilio yr ail waith, gelwid hwynt yn Ail-Ganonaidd (*Deutero-Canonical*). Yn raddol yr enhillasant y lle yma yn y Canon. Derbynid hwynt gan y rhan amlaf o'r eglwysi ar ddechreu y bedwaredd ganrif, a chan yr oll o honynt ar ddiwedd y ganrif hono.

Nid yw yn angenrheidiol rhoddi profion neillduol pob llyfr yn bresenol. Y pwynt i aylwi arno yw, nad oedd yr ammheuon a fodolent yn dàl perthynas â chanoneiddrwydd ysgrifeniadau Iago, Cephas, Ioan, a Judas; ond â'r gofyniad, ai hwy oedd awdwyr yr ysgrifeniadau sydd yn dwyn eu henwau? Ac nis gall yr ammheuon yma greu syndod. Yr oedd y pwnc yn un o'r pwys mwyaf. Yr oedd llawer o gyfansoddiadau ffugiol ar led, yn dwyn enwau yr apostolion.[a] Gellir dyfynu cyfarwyddiadau ysgrythyrol i fod yn bwyllog a gofalus.[b] Y mae neillduolrwydd yn perthyn i'r profion mewnol o awduriaeth yr epistolau yma. Er enghraifft, y mae yr epistol at yr Hebrëaid heb enw yr awdwr, a gwahaniaetha mewn ieithwedd oddiwrth y rhan amlaf o epistolau Paul. Yn yr un modd, y mae ieithwedd 2 Pedr yn amrywio oddiwrth ei epistol cyntaf. Yn Iago a Judas darlunir yr awdwyr, nid fel apostolion, ond fel "gweision" i Grist; tra yn 2 a 3 Ioan, y mae yr ysgrifenydd yn desgrifio ei hunan fel "henuriad," ac nid fel apostol. Cyfeiria Judas hefyd at hanesion a gynnwysid fel y tybir mewn ysgrifeniadau anawdurdodol. Heblaw hyn oll, cyfeiriwyd yr holl epistolau yma naill ai at Gristionogion yn gyffredinol, neu at bersonau unigol, ac nid at eglwysi neillduol. Nid oedd, gan hyny, un corff o ddynion yn gofalu am eu cadwedigaeth; a'r profion allanol o'u plaid nid oeddynt o angenrheidrwydd ond ychydig. Fod yr holl achosion hyn o ammheuaeth yn gweithredu sydd wybyddus. Yr oedd yr argyhoeddiad yn y diwedd yn gyffredinol. Ac hyd y nod yr ammheuon a attaliodd dderbyniad cyfrau fechan o'r Ysgrythyr gan ranau o'r eglwys foreuol, y maent yn awr yn gwasanaethu i gadarnhau ein ffydd yn y gweddill.

154. Y ffeithiau yma a nodant i raddau digonol linell yr ymresymiad, drwy ba un y profir canoneiddrwydd llyfrau y Testament Newydd. Dangoser iddynt gael eu cyfansoddi gan y personau sydd â'u henwau wrthynt, a bod rhesymau dros gredu fod eu hawdwyr yn ysgrifenu dan arweiniad yr Ysbryd, ac y mae y prawf o'u canoneiddrwydd yn gyflawn. Fel rhan o'r profion—ac mewn rhyw ystyr, rhan îs-raddol o honynt, oblegid y prif brofion a ddeilliant oddiwrth hawliau a chymmeriad y llyfrau eu hunain,—gellir ychwanegu fod y llyfrau sydd yn awr yn ffurfio y canon yn cael eu darllen yn y cynnulleidfäoedd Cristionogol cyntaf, fel rhai o awdurdod Ddwyfol,[c] fod awduron eglwysig yn dyfynu yn helaeth o honynt,[d] a'u bod yn gwneyd i fyny lyfrau canonaidd yr eglwys foreuol.

155. Cyhoeddwyd pumtheg llechres (*catalogues*) o'r cyfryw lyfrau rhwng y blynyddoedd o. c. 200 ac o. c. 400. O ba rai y mae chwech—sef eiddo Athanasius, Epiphanius, Ruffin, Awstin, trydydd gynghorfa Carthage, ac awdwr dienw gweithiau Dionysius yr Areopagiad—yn cyduno â'r canon presenol: y mae tri, sef eiddo Cyril, cynghorfa Laodicea, a Gregory Nazianzen, yn gadael allan Lyfr y Dadguddiad yn unig; y mae un, sef eiddo Caius, tua 196 mae yn debygol, yn gadael allan Iago a Judas, 2 Pedr, 2 a 3 Ioan, a'r Hebrëaid; y mae un arall, sef eiddo Origen, yn

[a] Jones ar y Canon, i. 37—45.
[b] 2 Thes. 2, 1, 2; 1 Ioan 4, 1.
[c] Lardner, ii, 132, 526.
[d] Lardner ii. 52, 72, 93, 109.

gadael allan Iago a Judas, er ei fod mewn man arall yn eu cydnabod hwynt. Y mae llechres Eusebius yn nodi Iago a Judas, 2 Pedr, 2 a 3 Ioan, a'r Dadguddiad, fel yn cael eu hammeu gan rai. Gadewir yr Hebrëaid a'r Dadguddiad allan gan Philastrius. Gesid Amphilochius y cyfan i fewn, ond noda yr Antilegomena (gwel adr. 20); ond y mae efe ei hunan yn ystyried yr Hebrëaid yn bur, a llefara Jerome am yr Hebrëaid fel yr unig lyfr ammheüus, er ei fod mewn man arall yn derbyn yr epistol hwnw.[a]

Ychwaneger at y profion hyn awdurdod y Peshito, ac eiddo y cyfieithiadau Lladinaidd boreuol. Cynnwysa y cyntaf yr oll o'r llyfrau presenol, oddieithr 2 Pedr, 2 a 3 Ioan, Judas, a'r Dadguddiad; a thebyg yw y cynnwysai yr olaf yr oll o'r llyfrau a osodwyd wedi hyny yn nghyfieithad Jerome.

156. Er y gelwir barn yr eglwys foreuol yn brawf îs-raddol, neu anuniongyrchol, etto y mae y farn hono yn aml wedi cael ei hystyried yn ddigonol i benderfynu canoneiddrwydd llyfrau yr Ysgrythyrau. Cymmerid derbyniad y llyfrau hyn gan yr eglwysi fel prawf o'u hysbrydolrwydd; yn gymhwys fel y byddai penderfyniad llys cyfreithiol cyfaddas yn cael ei ystyried yn dystiolaeth ddigonol o unrhyw ffaith a brofid ger ei fron, neu, fel y cymmerir barn meidronydd (*mathematician*) enwog yn brawf o gywirdeb unrhyw osodiad. Ni ddylai yr arferiad yma, fodd bynag, arwain ein sylw oddiwrth natur y prawf. Pwnc o brawf ydyw, ac nid o awdurdod. Nid yw cyfrif llyfr yn ganonaidd yn unig am fod *cynghor* neu *eglwys* wedi gwneyd hyny, yn rhesymol nac yn Ysgrythyrol. Ein doethineb yw, defnyddio y fath benderfyniad (yn unol â'i wir werth) i'r dyben o benderfynu hawliau y llyfr ei hunan. Y mae canoneiddrwydd pob llyfr, hyny yw, ei hawl i gael lle yn y canon, yn bwnc mor fawr a'r pwnc o ddwyfoliaeth ei awdurdod, ac y mae yn cynnwys ystyriaeth o'r un profion. Rhan yn unig o'r cyfryw brofion yw barn foreuol, ond rhan bwysig ydyw, mae yn wir, oblegid cymmerwyd y gofal mwyaf o'r dechreu i wahanu y pur oddiwrth y ffugiol; etto nid ydyw ond rhan. Gall gynnorthwyo, ond ni ddylai reoli ein penderfyniadau.

157. Canoneiddrwydd yr Hen Destament a sefydlir oreu gan y Newydd. Ein Harglwydd a dderbyniodd fel Ysgrythyr yr hyn a roddodd yr Iuddewon iddo fel Ysgrythyr, a llefarai yr apostol am ragorfraint yr Iuddew fel yn gynnwysedig yn benaf yn ei feddiant o "Oraclau Duw." Fel prawf o berthynas agos y ddwy oruchwyliaeth, ac o'r modd y mae y Testament Newydd yn cadarnhau yr Hen Destament, gellir nodi fod y blaenaf yn cynnwys dim llai nâ 263 o ddyfyniadau uniongyrchol o'r olaf, a bod y dyfyniadau yma wedi eu cymmeryd braidd o bob llyfr. Y *cyfeiriadau* amlwg at yr Hen Destament ydynt yn lluosocach nâ hyn; y mae eu rhifedi dros 350. Gwel Pen. vi., Dosran i.

158. Profir drwy dystiolaethau anwadadwy fod y canon wedi ei sefydlu fel y mae yn bresenol yn amser ein Harglwydd Iesu. Yn ychwanegol at ddyfyniadau yn y Testament Newydd o lyfrau neillduol, y mae Josephus a Philo yn dwyn tystiolaeth i'r llyfrau eu hunain, ac i'r parch a delid iddynt gan yr Iuddewon. Dyweda Josephus yn benodol fod y canon a osodai efe i lawr yn cael ei dderbyn gan yr holl Iuddewon, y buasent oll yn ei

[a] Gellir gweled yr awdurdodau hyn yn y gwreiddiol yn Wordsworth ar y Canon, Attodiad, A. Y mae trjarddeg o'r pumtheg yn cael cyfeirio atynt yn llyfr Jones ar y Canon, i., 73—76.

bleidio hyd at farw, ac na feiddiodd neb erioed ychwanegu atynt, tynu oddiwrthynt, na'u cyfnewid (Gwrth. Ap. 1, 8.)

159. Nid yw y tystiolaethau a geir yn y wahanran nesaf yn llai penderfynol. Wrth arolygu y gyfres yma rhaid cofio, pan fyddo llyfrau neilldduol yn cael eu gadael allan o restrebau proffesedig o Ysgrythyrau yr Hen Destament, mai tra thebyg yw fod y llyfrau hyny yn gynnwysedig yn y rhai blaenorol. Esther, er enghraifft, yn Nehemiah, Ruth yn y Barnwyr, a'r Galarnad yn Jeremiah. Cyfrifir am y ffaith fod y Testament Newydd heb gynnwys dyfyniadau o rai llyfrau o'r Hen Destament ar yr egwyddor syml, na cbafodd yr ysgrifenwyr achlysur i ddyfynu o honynt. Nid oes ammheuaeth nad oedd ein holl lyfrau presenol yn gynnwysedig yn nghanon yr Hen Destament yn amser ein Harglwydd. Dyfynir hwynt fel y cyfryw o dan y rhaniad Iuddewig cyffredin.

160. Gellir trefnu yr awdurdodau y cyfeirir atynt yn yr adran flaenorol fel y canlyn :—

Y mae y *Testament Newydd*, yr hwn yn ddiau sydd yn awdurdodol, yn cyfeirio at yr holl Ysgrythyr, dan y rhaniad triphlyg o Gyfraith, Prophwydi, ac Ysgrifeniadau. Appelia hefyd at bob un o'r llyfrau, oddieithr Ruth, Ezra, Nehemiah, Caniadau, Pregethwr, ac fe allai y Galarnad. Y mae cyfieithiad y Deg a Thriugain, yr hwn sydd arbrawf (*evidence*), yn eu cynnwys oll. Sonia *mab Sirach*, c. c. 130, am y rhaniad triphlyg; ac y mae *Philo*, o. c. 41, yn dyfynu o honynt oll, oddigerth Ruth, Croniclau, Nehemiah, Esther, Caniadau, Pregethwr, Galarnad, Ezeciel, a Daniel. Y mae *Josephus*, g. o. c. 37, yn eu cyfrif yn ol eu dosparthiadau, gan gyfrif yr holl lyfrau presenol. Y mae *Melito*, 177, yn nodi y cyfan, oddigerth Esther a'r Galarnad. *Origen*, 230, a'i noda oll yn ddieithriad. *Athanasius*, 326, a noda y cyfan, oddieithr Esther. Y mae *Cyril* (*Jerusalem*), 348, yn nodi y cyfan, fel hefyd y gwna *Cynghor Laodicea*, 363; *Epiphanius*, 368; a *Hilary* o Poictiers, 370. Nodir hwynt oll oddigerth Esther gan *Gregory o Nazianzen*, a chan *Amphilochius*, 370. Y mae y *Canonau Apostolaidd*, y rhai ydynt o ddyddiad ansicr, ond nid diweddarach nâ diwedd y ganrif hon (4edd), yn nodi y cyfan, fel hefyd y gwna y cyfansoddiad (*constitution*) Apostolaidd. Y rhai hyn ydynt awdurdodau Groegaidd.

O'r awdurdodau Lladinaidd, y penaf yw *Jerome*, 392; *Rufin*, 397; *Cynghor Carthage, y trydydd*, 397; ac Augustine, 395; a chydunant i nodi y cyfan.

161. *Pa fodd* y cafodd llyfrau yr Hen Destament eu cadw sydd bwne o gryn anhawstra, ac nis gallwn ond rhoddi yr eglurhad mwyaf tebygol. Gosodwyd llyfrau y gyfraith yn y tabernacl gydag arch y cyfammod, a chadwyd hwynt yno yn ystod y teithiau yn yr anialwch, ac ar ol hyny yn Jerusalem.[a] O bryd i bryd, gosodwyd y gwahanol lyfrau hanesyddol a phrophwydol yn yr un cyssegr, o Josua hyd amser Dafydd. Ar adeiladaeth y deml, gosododd Solomon ynddi y llyfrau boreuaf,[b] a chyfoethogodd y casgliad â chynnyrchion ysbrydoledig ei ysgrifell ei hunan. Ar ol ei ddydd ef, cyfododd rhes o brophwydi, Jonah, Amos, Esay, Hosea, Joel, Micah, Nahum, Sephaniah, Jeremiah, Obadiah, a Habbaccuc. Blodeuasant oll cyn dinystr y deml, ac helaethasant y gyfrol ysbrydoledig drwy ychwanegiadau gwerthfawr. Mewn oddeutu 420 mlynedd wedi adeiladu y deml, llosgwyd hi gan Nebuchodonozor. Nid yw yn wybodus

[a] Deut. 31, 9, 26: Jos. 24, 26: 1 Sam. 10, 25. [b] 2 Bren. 22, 8: Esay 34, 16.

beth a ddaeth o lawysgrifau yr Ysgrythyrau Santaidd. Llefara Daniel, fodd bynag, yn Mhabilon am lyfr y gyfraith fel yn adnabyddus, ac hefyd am Jeremiah, a phrophwydi ereill.[a] Yn fuan ar ol goresgyniad Babilon gan Cyrus, yr Iuddewon a ryddhäwyd o gaethiwed, a thrwy gefnogiad Haggai a Zechariah, ailadeiladasant eu teml, ac adferasant yr addoliad dwyfol.

Yn mhen oddeutu 50 mlynedd wedi i'r deml gael ei hailadeiladu, dywed traddodiad i Ezra wneyd casgliad o'r ysgrifeniadau cyssegredig, a sicr yw iddo gymmeryd poen mawr i esbonio yr hen gyfraith, a'i rhoddi mewn gweithrediad (gwel Neh. 8, 1, 3, 9.) Ychwanegwyd at y casgliad yma (fe allai gan Simon y Cyfiawn) ysgrifeniadau Ezra ei hun, yn nghyd ag eiddo Nehemiah a Malachi, ac fel hyn y cwblhäwyd canon yr Hen Destament; canys o ddyddiau Malachi, ni chyfododd prophwyd hyd Ioan Fedyddiwr, yr hwn a gyssylltai y ddau gyfammod, ac am yr hwn y rhagddywedwyd y buasai yn rhagflaenu dydd mawr yr Arglwydd. Mal. 3, 1.

Dywedir yn gyffredin mai gorchwyl y Synagog Fawr oedd casglu y llyfrau canonaidd yn nghyd, yr hon oedd gorff o bobl i ba un y perthynai y fath ddynion ag Ezra, Nehemiah, Haggai, Zechariah, Malachi, ac wedi hyny Simon y Cyfiawn. Gwneir cyfeiriadau eglur at fodoliaeth a llafur y corff hwn yn yr ysgrifeniadau Iuddewig henaf. Ar ol y caethiwed sefydlwyd synagogau yn Judea, a thrwy y byd, a chafodd copïau o'r Ysgrythyrau ysbrydoledig eu lluosogi mor fawr, fel ag i wneuthur cadwraeth llawysgrifau neillduol yn bwnc o fwy o gywreinrwydd nag o bwysigrwydd hanesyddol.[b] Yr ydys mewn pennod flaenorol wedi nodi bodoliaeth a hanes foreuol y Deg a Thriugain.

162. Os dygwn y llyfrau a elwir Apocrypha at y profion (*tests*) hyn, gorfodir ni i wadu dwyfoliaeth eu hawdurdod.

163. Y mae y *profion allanol* yn benderfynol. Ni cheir hwynt mewn un lechres o ysgrifeniadau canonaidd a wnaed yn ystod y pedair canrif gyntaf ar ol Crist, ac ni edrychid arnynt fel rhan o reol ffydd hyd benderfyniad cynghor Trent, 1545. Nid ydyw *Philo* byth yn eu dyfynu, fel y gwna â'r Ysgrythyrau Santaidd, ac y mae Josephus mewn modd pendant yn eu gwrthod.[c] Ni dderbyniodd yr eglwys Iuddewig hwynt fel rhan o'r canon, ac nid ydyw Crist na'i apostolion un amser yn eu dyfynu, yr hyn sydd yn ffaith deilwng o sylw, wrth ystyried fod Paul dair gwaith yn dyfynu beirdd paganaidd. Y mae hefyd yn hynod fod y prophwyd ysbrydoledig olaf yn terfynu ei ragfynegiadau drwy gymmeradwyo llyfrau Moses i'w gydwladwyr, a chan arwyddo nad oes un genad arall i'w ddysgwyl ganddynt hyd ddyfodiad yr ail Elias.[d]

Yn erbyn y prawf allanol diymwad yma, rhaid gosod i lawr y ffaith fod llyfrau neillduol wedi cael eu dyfynu fel yn ganonaidd gan un neu ragor o'r Tadau.

Baruch yn unig a ddyfynir fel yn ganonaidd gan Origen, Athanasius, Cyril, ac Epiphanius. O'r eglwys Ladinaidd, Augustine yn *unig* a ddyfyna fel yn ganonaidd Tobit, Judith, Doethineb Solomon, Ecclesiasticus, a'r 1 ac 2 Maccabeaid. Ysgrifenwyr ereill, perthynol i'r 3edd a'r 4edd ganrif,

[a] Dan 9, 2, 11. Yn yr adnodau hyn, am y gair llyfr, mwy priodol yw *Y Llyfr*.
[b] Gwel Stuart ar y Canon, ac arweiniad Havernick i'r Hen Destament, Edin. tud. 18—22.
[c] Gwrth. Apion. i., 8. [d] Mal. 4, 4—6.

ydynt naill ai yn peidio dyfynu o'r llyfrau, neu yn gwadu eu canoneiddrwydd.

164. Y mae *profion mewnol* hefyd yn erbyn eu hysbrydoliaeth. Nid oes un o'r ysgrifenwyr yn honi awdurdod ddwyfol; ac y mae rhai o honynt yn ei sylweddol wadu.[a] Cynnwysa y llyfrau fynegiadau croes i hanesyddiaeth;[b] gwrth-ddywedant eu hunain;[c] a cheir ynddynt bethau croes i athrawiaethau[d] a gorchymynion yr Ysgrythyr.[e]

165. Cyn belled ag y cydunant âg ysbryd a gorchymynion yr efengyl, y mae y llyfrau hyn o werth i ddybenion hanesyddol, ac "er dysgeidiaeth mewn arferion;" ond nid oes *awdurdod* yn perthyn iddynt, ac ni ffurfiant un rhan o reol ffydd.

166. Gellir rhoddi eglurhad pellach ar ddefnyddioldeb a phwysigrwydd ymarferol y llyfrau yma. Y maent oll yn egluro cynnydd gwybodaeth yn mhlith yr Iuddewon, yn nghyd a'u chwaeth, eu cymmeriad crefyddol, a'u llywodraeth; tra y mae rhai o'r llyfrau yn egluro hen brophwydoliaethau, ac yn profi eu cyflawniad; ac ereill yn arddangos syniadau ac egwyddorion uchaf dynion anysbrydoledig.

Y lleiaf eu gwerth yw, 1 ac 2 Esdras, Tobit, Judith, Esther, Susanna, ac Eilun Bel a'r Ddraig. Cynnwysa y rhai hyn arwyddion o hygoeledd plentynaidd, neu ddiofalwch gwirfoddol am y gwirionedd.

Y mae lle canol yn ddyledus i lyfr Baruch, Caniad y Tri Phlentyn, a Gweddi Manasseh. Nid ydys yn sicr pwy oedd eu hawdwyr, ac y mae ynddynt lawer o gamsyniadau; ond tebyg yw iddynt gael eu hysgrifenu gydag amcanion didwyll, a dangosant y golygiadau a goleddid yn yr oes hono am grefydd bersonol.

Y gweddill o'r llyfrau hyn a hawliant le uwch. Doethineb Solomon, er na chafodd ei ysgrifenu gan y Pregethwr, etto y mae yn debyg iddo gael ei fwriadu fel efelychiad o'i ysgrifeniadau, a chynnwysa lawer o gynghorion tarawiadol. Ecclesiasticus sydd yn fynych yn rhagorol, er nad yw yn honi ysbrydoliaeth. Y mae hefyd yn ddefnyddiol i'r myfyriwr, am ei fod yn dangos pa fodd yr esboniai yr Iuddewon eu cyfraith, pa obeithion oedd wedi tarddu o'r addewidion dwyfol, a thrwy ba resymau y cymhellid yr ymarferiad o dduwioldeb. Rhydd llyfr I. y Maccabëaid hanes gwaredigaeth yr Iuddewon dan y teulu anrhydeddus oddiwrth ba un y mae yn cymmeryd ei enw. Cynnwysa lawer o siamplau o ffydd wronol, a gellir ei ddarllen gyda'r un amcan a rhyw hanesiaeth gywir arall. Nid yw yr ail lyfr can gywired a'r cyntaf mewn hanesyddiaeth na moesoldeb, ond eglura grediniaeth ddiysgog yr Iuddewon mewn bywyd dyfodol, ac arddengys amryw enghreifftiau o ymlyniad wrth grefydd a sefydliadau y gyfraith.

[a] 2 Mac. 2, 23: 15, 38: Prol. Eccles.

[b] Baruch, 1, 2, cymharer â Jer. 43, 6, 7. Y mae Stori Bel a'r Ddraig yn gwrthddywedyd yr hanes i Daniel gael ei daflu i ffau y llewod.

[c] Cymharer 1 Mac. 6, 4—16: 2 Mac. 1, 13, 16: 2 Mac. 9, 28, gyda golwg ar y lle y bu Antiochus Epiphanes farw. Cymmer ysgrifenydd Doethineb Solomon arno fod y llyfr wedi ei gyfansoddi gan Solomon, a dyfyna Esay 13, 11—18.

[d] Y mae gweddian dros y meirw yn cael eu caniatau, 2 Mac. 12, 43—45. Cyflawnhad drwy weithredoedd yn cael ei awgrymu, Tob. 12, 8, 9: 2 Esd. 8, 33.

[e] Celwydd yn cael ei ganiatâu, Tob. 5, 12: 12, 15. Sonir am huuanladdiad fel gweithred o wroldeb, 2 Mac. 14, 42; llofruddiaeth a gymmeradwyir, Judith 9, 2—9, cymharer Gen. 49, 7; a chaniatëir hudoliaethau dewiniol, Tob. 6, 16, 17.

Am hanes llyfrau Apocraphyddol ereill, gwel Fabricii Codex Pseudigr. V. T. 1713—41, a Codex Ps. N. T. 1713—22, yn nghyd ag *Auctarium* Birch, 1804, neu Jones ar y Canon.

Dos. 4. *Profion Ysgrythyrol.*

167. Y cwbl sydd hyd yma wedi ei ddwyn yn mlaen o berthynas i awdurdod yr Ysgrythyrau, sydd wedi ei gymmeryd o'r Ysgrythyr ei hunan. Nid ydym ond wedi trefnu a dangos ei hawliau. Y profion drwy ba rai yr attegir yr hawliau yma ydynt yn mhlith y mwyaf dyddorawl o bynciau ymchwiliad. Nis gallwn yma ond braidd cyffwrdd â hwynt, a rhaid boddloni ar gyfeirio at amrywiol awduron am wybodaeth gyflawnach.

168. Gwelsom fod yr Ysgrythyrau yn bur, a bod eu hamrywiol lyfrau, o'r amser boreuaf, yn cael eu derbyn fel wedi eu hysgrifenu gan y personau sydd â'u henwau wrthynt. Yn gyffredin, ni phrofa yr ymchwiliad yma ddim yn ychwaneg, ond yn yr achos hwn y mae profion o *burdeb* yn brofion o wirionedd hefyd. Y mae gwirionedd yr hanes yn gyffredin yn oblygedig yn y profion o burdeb yr ysgrifen. Y mae y llyfrau yn cael eu dyfynu a'u copïo fel hanesyddiaeth, a derbyniwyd hwynt fel y cyfryw tra yr oedd tystion o'r rhan fwyaf o'r amgylchiadau a ddesgrifir ganddynt yn fyw. Fod Palestina dan iau Rhufain, fod Iesu Grist wedi ei eni yn ystod teyrnasiad Herod, ei fod yn proffesu bod yn ddysgawdwr wedi ei anfon oddiwrth Dduw, ei fod yn honi gallu i wneyd gwyrthiau, fod y gwyrthiau a gyflawnai bob amser yn llesol, fod ei foesoldeb y fath ag oedd yn hollol anadnabyddus i'r cenedloedd, ac yn newydd hyd y nod i'r Iuddewon, fod ganddo amryw gaulynwyr, ei fod dan Pontius Pilat wedi ei roddi i farwolaeth, i lawer o gannoedd, gan gredu ei fod wedi adgyfodi oddiwrth y meirw, ddyfod yn ddysgyblion iddo, fod ei ddysgyblion mewn ychydig flynyddau wedi gwasgaru dros yr holl fyd Rhufeinig,—(yn fyr) fod holl brif fynegiadau hanesyddol yr efengyl yn ffeithiau,—y mae hyn oll yn gynnwysedig (beth bynag a dybir am eu pwysigrwydd ysbrydol) yn mhurdeb yr ysgrifen. Ystyrid y cyfan yn wirionedd hanesyddol; fel, tra yr oedd llawer yn gwrthod yr efengyl, yr oedd y ffeithiau ar ba rai y mae mewn un ystyr yn sylfaenedig, yn cael eu cydnabod gan bawb.

169. Gwneir y mynegiad hwn yn amlwg drwy eglurhad ar brofion blaenorol (adr. 16). Yn y pedair canrif gyntaf, y mae genym dros hanner cant o awduron yn dwyn tystiolaeth i'r ffeithiau a fynegir neu a awgrymir yn yr hanesiaeth efengylaidd. Y mae ysgrifeniadau yr awduron hyn, naill ai yn gyfain, neu ddarnau o honynt, o hyd ar gael. Cyfeiria Jerome (392) at oddeutu hanner cant ereill, ysgrifeniadau pa rai sydd wedi eu colli. Y mae yr awduron hyn yn perthyn i bob parth o'r byd, o'r Euphrates i'r Pyranees, ac o'r Almaen Ogleddol i'r Sahara Affricanaidd. Llefarant yn y Syriaeg, y Groeg, a'r Lladinaeg. Cynnrychiolant grediniaeth cyrff lluosog o Gristionogion proffesedig, a chyfaddefiadau lluoedd o rai nad oeddynt Gristionogion. Cydunant i ddyfynu yr Ysgrythyr fel yn bur a gwirioneddol. Cyfeiriant ati fel cyfrol arbenig, yn cael ei derbyn yn gyffredinol. Gwnant sylwadau arni, ac esboniant hi. Cyfeiriant ati fel yn Ddwyfol. Derbynid adroddiad y ffeithiau gan hereticiaid, y rhai a ymneillduent oddiwrth gorff mawr y ffyddloniad, ac ni wahaniaethent ond yn unig yn yr athrawiaethau, y rhai a dybient hwy fod y ffeithiau hyn yn

eu cynnwys; ac hyd y nod anffyddwyr, y rhai a wadent y ffydd, a seilient eu gwadiad ar y ffeithiau cynnwysedig yn yr ysgrifen bresenol. Mor gyffredin oedd crediniaeth o ffeithiau yr efengyl wedi dyfod, fel y cawn Justin Ferthyr (165) yn sylwi, fod gweddiau a diolchiadau yn cael eu hoffrymu i'r Tad drwy Iesu yn mhlith pob cenedl, tra, yn mhen deugain mlynedd ar ol hyny, y mae Tertullian yn dywedyd fod Cristionogion yn flurfio y mwyrif braidd yn mhob dinas.

Ysgrifenwyr paganaidd ac Iuddewig, gan hyny, heb lefaru am y Testament Newydd, na rhoddi, mewn canlyniad, un dystiolaeth o'i burdeb, ydynt, mewn ffordd gyffredin, yn cadarnhau, ac yn achlysurol yn egluro, hanes bywyd ein Harglwydd a'i ddysgyblion. Josephus, yn ei flwyddolion (*annals*, o. o. 37—93), Tacitus yn ei Hanesyddiaeth (o. c. 100), Suetonius yn ei Ddarnau Bywgraffyddol (o. c. 117), Juvenal yn ei Duchanau (o. c. 128), a Phliny yn ei Lythyrau (o. c. 103), ydynt oll yn cadarnhau mynegiadau yr hanes gyssegredig. Yn wir, nis gall un o gofnodau hanesyddiaeth henafol ddangos bregrifyn (*fraction*) o'r profion, gan ba rai yr attegir hanesyddiaeth yr efengylau. Gwel y darnau dyfynedig gan Paley, tud. 1, pen. 2.

170. Y prif ysgrifenwyr eglwysig, y rhai a brofant ar unwaith burdeb a gwirionedd cyffredinol y Testament Newydd, yw y rhai canlynol:—

Y GANRIF GYNTAF.

Yr Ysgrythyrau yn cael eu dyfynu fel yn bur a gwirioneddol, ac fel cyfrol neillduol.	Yn cael eu dyfynu fel o awdurdod arbenig, neu Ddwyfol, ac yn cael eu dehongli a'u hesbonio.	Yn cael cyfeirio atynt gan amrywiol sectau, a chan wrthwynebwyr.
Barnabas; perthyna ei Epistol i'r ail ganrif.	Barnabas.	
Hermas, Bugail, etto.	Hermas.	
Clement, Rhufain, bu farw 100.	Clement.	
Ignatius, blod. 70, bu farw 116.	Ignatius.	
Polycarp, bu farw 166.	Polycarp.	

YR AIL GANRIF.

Quadratus, 122.		Basilides, Alex., 122.
Papias, blod. 119, marw 163.		Valentiniaid, Rhuf., 140.
J. Ferthyr, blod. 148, marw 165.	J. Ferthyr.	Sethiaid, Aifft, 140.
Dionysius (Cor.), 163.	Tatian, bl. 158, marw 176.	Carpocratiaid, Alex., 145.
Ch. yn Lyons, 170.	Dionysius.	Marcion, 156.
Melito, blod. 170.		Montaniaid, 157.
Hegesippus, blod. 175.		Encratitiaid, 165.
Irenæus, bl. 176; marw 202.	Irenæus.	
Athenagoras, 176.		Celsus.
Theophilus (Aut.), 178.	Theophilus.	{Theodotus, Artemon,} 193.

Y DRYDEDD GANRIF.

Yr Ysgrythyrau yn cael eu dyfynu fel yn bur a gwirioneddol, ac fel cyfrol neillduol.	Yn cael eu dyfynu fel o awdurdod arbenig, neu Ddwyfol, ac yn cael eu dehongli a'u hesbonio.	Yn cael cyfeirio atynt gan amrywiol sectau, a chan wrthwynebwyr.
Origen, bl. 185–213.	Origen.	Hermogenes, Carthage, 203.
Tertullian, bl. 198, marw 220.	Tertullian.	
Minucius Felix, marw 220.	Ammonius, Alex., 200-235.	
	Hippolytus, 200, marw 250.	
Clement, Alex., bu farw 217.	Clement.	
Dionysius, Alex., blod. 232.	Dionysius.	
Cyprian, Carth., 200–258.	Cyprian.	
Commodian, blod. 270.	Novatian, Rhuf., 250.	Novatiaid, Rhuf., 251.
Victorin (Almaen).	Victorin.	Sabelliaid, Aifft, 258.
Arnobius, blod. 307.	Lucian, bu farw 312.	Porphyry, Rhuf., 262.
Lactantius, bu farw 325.		Paul o Samosata, Antioch, 265.
Eusebius, 270–340.		Manichæaid, Persia, 274.

Y BEDWAREDD GANRIF.

Hilary, Poictiers, marw 368.	Gregory Nazien, 328–359.	
Apollinaris, Laodic., bl. 362.	Athanasius, bu farw 373.	Ariaid, 318.
Damasus, Rhuf., 366.	Ephraem, Syrus, marw 378.	Donatiaid, 328.
Gregory, Nyssa, 331–396.	Basil (Cæsarea), marw 378.	Julian, Amher., marw 365.
Theodore, Tarsus, bl. 376.	Cyril (Jerus), 315–386.	Priscillianiaid, 378.
Eusebius, Nico., bl. 335.		Apollinariaid, 378.
Ambrose, Milan, 374–397.	Ambrose.	
Didymus, Alex., 375–396.		
Amphilochius, Iconium, bl. 380.	Epiphanius, Cyprus, 368, marw 403.	
	Palladius, bl. 407.	
Jerome, 329–420.	Jerome.	
Chrysostom, 344–407.		Pelagiaid, 410.

Gelwir y rhai hyn, weithiau, yn brawf hanesyddol, a ffurfia bwnc y rhan gyntaf o gyfrol Paley. Os cydnabyddir eu gwirionedd, gosodant yr ymofynydd yn y sefyllfa o gydoesydd â'n Harglwydd, gan adael hawliau ei grefydd ef i'w penderfynu gan brofion ereill.

171. A chaniatâu bodoliaeth Bôd o allu a daioni anfeidrol, y mae tebygoliaethau cryfion na adawsai efe ei greaduriaid mewn anwybodaeth a thrueni; ac y mae yr un mor debyg y byddai pob hysbysiaeth oddiwrtho yn cynnwys cyfeiriad uniongyrchol at eu cyflwr, ac yn arddangos cyssondeb rhwng gweithredoedd ereill y Creawdwr a'u gilydd. Y tebygoliaethau hyn a ffurfient yr hyn a elwir *profion tebygol (presumptive evidence)* dadguddiad, ac olrheinir hwynt gan y fath ysgrifenwyr ag Ellis, Leland, a Butler. Y profion seiliedig ar ddadguddiad ei hunan a elwir y *penodol.*

Y mae yn Nuw briodoliaethau o allu a gwybodaeth, santeiddrwydd a chariad; ac weithiau, y mae y profion Ysgrythyrol yn cael eu trefnu yn ddosparthiadau cyfatebol iddynt, a llefarwn yn ganlynol am y *gwyrthiol*, y *prophwydol*, a'r *moesol.*

Y mae cenadwri oddiwrth un arall, etto, yn cynnwys prawf deublyg o'i gwirionedd; sef, tyst-lythyrau yn cael eu dwyn gan y cenadwr, a rhyw bethau neillduol yn y genadwri ei hunan. Y tyst-lythyrau ydynt *allanol,*

a'r nodau yn *fewnol.* Yn ol y drefn yma, y mae prophwydoliaeth yn fynych yn perthyn i'r ddau. Y mae y brophwydoliaeth yn y genadwri, a'r cyflawniad, naill ai yn y Beibl, neu mewn hanes cyffredin. Y mae y prawf *mewnol,* etto, yn ddeublyg; yn ol fel y byddo yn cael ei seilio, yn 1, ar orchymynion y Beibl, cymmeriad dynion ysbrydoledig, neu ar ddylanwad gwirionedd mewn cynnyrchu santeiddrwydd, yr hwn, fel y gellir ei alw, sydd yn brawf moesol; ac, yn 2, ar ei gyssondeb mewnol—yn llênyddol, athrawiaethol, a chydweddol, ar gyfaddasrwydd y genadwri i angenion dynion, neu ar ei chyssondeb â'n holl olygiadau uchelaf a santeiddiaf am Dduw, yn ei gymmeriad a'i amcanion. Gellir galw hwn y *prawf ysbrydol;* a dyma y trefniad wrth ba un yr ydym yn bwriadu glynu.

172. Y mae yn hyfryd sylwi fod pob math o brawf yn orlawn o addysg ysbrydol uniongyrchol. Profa gwyrthiau, o leiaf, nad tynged yw natur anianyddol, na chyfansoddiad materol o bethau yn unig ychwaith. Profa prophwydoliaeth fod pethau materol a moesol (natur a dyn) yn cael eu llywyddu gan law rydd a Hollalluog. Y pethau oedd gynt yn bynciau pwysig mewn *crefydd naturiol,* ydynt yn awr wedi eu penderfynu yn mhrofion yr un *ddadguddiedig.* Sylwir mewn lle arall ar y gwirionedd goblygedig mewn prophwydoliaeth a gwyrthiau, yn nghyd â'r duedd santaidd amlwg sydd yn mhrofion moesol y Beibl. Yn wrthwynebol i'r hyn a haerir weithiau, gall myfyrdod duwiolfrydig o'r profion Cristionogol fod yn foddion diwylliant ysbrydol.

173. Gyda golwg ar y gwahanol brofion o wirionedd yr Ysgrythyr, gan hyny, gellir eu gosod yn y drefn ganlynol:—

I. PROFION ALLANOL (*External Evidence*); yn appelio at ein synwyrau.

Allanol.
- 1. UNIONGYRCHOL (*direct*), fel yn ngwyrthiau ein Harglwydd, Ioan 3, 2; 5, 36; 10, 37; 14, 11.
  Gweithiau gan yr Esgob Douglas; Campbell; West; Sherlock; Le Bas.
- 2. ADOLYGOL (*Retrospective*); fel yn y cyssylltiad rhwng Crist a gwyrthiau a phrophwydoliaethau yr Hen Destament, Luc 24, 26, 27; Ioan 5, 47.
  Leslie; Stillingfleet; Faber; Kidder; Brown; Simpson.
- 3. RHAGOLYGOL (*Prospective*); fel yn nghyflawniad prophwydoliaethau er dyddiau ein Harglwydd, Ioan 14, 29.
  Davidson; Newton; Keith.

II. PROFION MEWNOL (*Internal Evidence*); y rhai ydynt naill ai yn

Mewnol.
- *a.* FOESOL; yn appelio at ein cydwybod; ac yn cynnwys yn
  - Moesol.
    - 1. GORCHYMYNION MOESOL y Beibl.
      Jenyns; Gregory.
    - 2. CYMMERIAD EIN HARGLWYDD a'r ysgrifenwyr ysbrydoledig.
      Newcome; Lyttelton.
    - 3. CYMMERIAD A BYWYDAU Y CRISTIONOGION BOREUOL, a dylanwad cyffredinol y gwirionedd.
      Chalmers; Warburton; Ryan; Pliny, &c.
- *b.* neu YSBRYDOL; yn appelio at ein hamgyffredion meddyliol, ac at ein natur newydd yn gyffredinol. Y mae yn cynnwys yn
  - Ysbrydol.
    - 1. Yr YSGRYTHYRÓL neu y LLENYDDOL, neu ddoethineb a chyssondeb gwirionedd dadguddiedig.
      Yn ei wahanol oruchwyliaethau.—Alexander.
      Yn amrywiol ranau yr ysgrifeniad.—Graves ar Bum Llyfr Moses; Horæ Paulinæ Paley; Blunt; Birks, &c.
      A natur.—Cyssondeb (*analogy*) Butler; Chalmers.
    - 2. Y PROFIADOL. Yr efengyl yn cael ei theimlo yn gyfaddas i'n angenion.
      Pascal; Fuller; Erskine; Sumner; J. J. Gurney.
    - 3. Yr YSBRYDOL, a elwir yn briodol felly. Y Beibl yn gysson â chymmeriad ac âg amcan Duw.
      Gil. Wardlaw; Aldis; Athroniaeth Ischawdwriaeth, Cym. Tr. Cref.

174. Yn yr Ysgrythyr, a chan yr holl hen ysgrifenwyr Cristionogol, y mae llwyddiant yr efengyl yn cael ei gyssylltu â meddiant (o du ein Harglwydd) o allu gwyrthiol. Credai dynion, yn yr oes gyntaf o leiaf, am fod gweithredoedd Dwyfol neu wyrthiau (sef ffeithiau na allent gymmeryd lle oddiwrth achosion naturiol, neu heb weithrediad gallu goruwch-naturiol) yn dwyn tystiolaeth i wirionedd y genadwri. Appeliai ein Harglwydd yn aml at y gweithredoedd yma, fel rhai na chyflawnwyd eu bath gan un dyn arall, ac fel profion o Ddwyfoliaeth ei genadwri. Efe a iachäodd y claf, ac a gyfododd y marw, nid unwaith yn unig, ond gannoedd lawer o weithiau; oblegid dywedir yn aml eu bod yn dwyn pobl gleifion ato ef, a'i fod yntau yn eu hiachâu hwynt oll. Math. 4, 24; 12, 15; 14, 14; 15, 30; 19, 2, &c.; Marc 1, 34; 3, 10; Luc 6, 17; 9, 11.

Rhoddodd yr un gallu i'w ddysgyblion, yn gyntaf i'r deuddeg, ac wedi hyny i'r Deg a Thriugain. Ar ol ei ymadawiad, derbyniodd ei apostolion allu i gyfranu y ddawn wyrthiol yma i bawb y gosodent eu dwylaw arnynt; ac felly cafodd cannoedd, os nid miloedd, eu cynnysgaethu â hi. Sicr yw fod yr apostolion yn llefaru am dani fel peth a adnabyddid yn gyffredin; ac yn ei chyfrif fel un o arwyddion dysgawdwr Dwyfol-anfonedig. Yn wir (pan nad oedd un Testament Newydd), ymddengys gallu gwyrthiol fel y prawf angenrheidiol o genadwri oddiwrth Dduw.

175. Cydnabyddai pawb ddigonolrwydd y profion a ddygid yn mlaen yn y ffurf yma gan ein Harglwydd, Ioan 7, 31; 3, 2. Yr effaith ar y rhai a edrychent ar ei *wyrthiau*, mewn ysbryd *dysgadwy*, oedd argyhoeddiad dwys mai efe oedd y Messiah, Ioan 6, 14; 2, 11, &c., fel mai yr effaith a ddylai *hanes* y gwyrthiau hyny, yn nghyd â'r athrawiaethau a gadarnhëid ganddynt, gynnyrchu, yw ffydd gadwedigol, Ioan 20, 30, 31.

176. Eithr onid twyllo y bobl a wnaeth efe? Pa fodd? Cyflwynodd ei grefydd yn mhlith gelynion. Cyflawnodd ei wyrthiau yn gyhoeddus. Yr oedd synwyrau dynion yn alluog i farnu am danynt. Yr oedd y gelynion yn manwl wylied ei weithrediadau. A phaham? Rhagwelai a rhagfynegodd ei farwolaeth. Dywedodd y cawsai ei ddysgyblion fyned drwy erlidigaeth a dyoddefaint, a chymhellodd ac arferodd santeiddrwydd cyffredinol.

Eithr onid oedd efe ei *hunan* yn cael ei dwyllo? O ba le, gan hyny, y deilliai sobrwydd a santeiddrwydd ei orchymynion, ffyddlondeb trylwyr ei rybyddion, a'r gwahaniaeth rhwng ei ddysgeidiaeth ef a dysgwyliadau ei gydwladwyr? Nid oedd cymmaint ag un arwydd o benboethni i'w ganfod ynddo ef. Rhagddywediadau ein Harglwydd yn hyn a gyflawnwyd yn fuan.

Ymddengys i'r rhan fwyaf o'r apostolion selio eu tystiolaeth â'u gwaed, a darfu i bob un o honynt fyned drwy y prawf fel gwron. Y ffeithiau canlynol ydynt wedi eu casglu, yn benaf, o hanesyddiaeth eglwysig. Nid ydynt oll, fodd bynag, yr un mor ddiammheuol:—

Mathew a ddyoddefodd ferthyrdod (drwy y cleddyf) yn Ethiopia. Marc a fu farw yn Alexandria, ar ol cael ei lusgo drwy ystrydoedd y ddinas hono. Luc a grogwyd ar olew-wydden, yn Groeg. Ioan a osodwyd mewn pair o olew berwedig, ond diangodd rhag angeu, ac alltudiwyd ef i Ynys Patmos. Pedr a groeshoeliwyd â'i ben tuag i waered, yn Rhufain. Iago a gafodd dòri ei ben yn Jerusalem. Iago Leiaf a fwriwyd oddiar binacl y deml, ac a gurwyd ar lawr i farwolaeth. Phylip a grogwyd yn erbyn colofn yn Phrygia. Bartholomew a flingwyd yn fyw. Andrew a rwymwyd wrth groes, oddiar yr hon y pregethodd i'w erlidwyr, nes y bu farw. Thomas a drywanwyd drwy ei gorff yn Coromandel yn

India. Judas a saethwyd i farwolaeth â saethau. Llabuddiwyd Matthias yn gyntaf, ac wedi hyny tòrwyd ei ben. Barnabas a labuddiwyd i farwolaeth gan yr Iuddewon yn Salonica. Paul, "mewn marwolaethau yn fynych," a gafodd dòri ei ben yn Rhufain gan Nero. A yw y byd yn dangos siamplau tebyg i'r rhai hyn mewn didwylledd a ffyddlondeb?

177. Mewn gwirionedd, nis gellir gosod y prawf yma o'r neilldu, ond drwy ddychymmygu gwyrth fwy a rhyfeddach nâ'r cyfan. Os nad ydyw Crist oddiwrth Dduw, y mae genym Iuddew gwledig, yn newid crefydd y byd, yn cymhlethu yn hanes ei fywyd gyflawniad hen ragddywediadau, a'r moesoldeb o'r radd uchelaf, mor wahanol i ddysgeidiaeth draddodiadol ei gydwladwyr ag oedd yn rhagori ar reolau athroniaeth genedlig; yn dyoddef yr arteithiau dwysaf gyda'r hunan-feddiant mwyaf, a'i ddysgyblion yn cael eu cymhell i ymostwng i'r unrhyw driniaethau, a llawer o honynt i farwolaeth greulawn, er mwyn cynnal, nid opiniynau, ond y ffaith haeredig o'i adgyfodiad gwyrthiol. Cawn hefyd y canlynwyr yma, a hwy yn "wŷr anllythyrenog," yn myned allan, gan bregethu ar y pynciau uchelaf, yn perswadio preswylwyr dinasoedd Rhufeinig a Groegaidd i daflu ymaith eu heilunod, i ymwadu â chrefydd eu tadau, i wrthod addysgiadau eu hathroniaeth, ac i dderbyn yn eu lle, fel dysgawdwr anfonedig o'r nef, Iuddew o sefyllfa isel, ag oedd wedi ei osod i farwolaeth warthus. Ac y maent oll yn dwyllwyr! Byddai derbyn yr *eglurhad yma* ar y ffeithiau addefedig hyn yn cydnabod gwyrth fwy nâ'r un a gynnwysir yn y Beibl.

178. Gellir cymhwyso y nodiadau yma, yn yr un modd, at wyrthiau yr Hen Destament; a gellir chwilio y cyfan wrth y profion a osodir i lawr (yn nhraethodyn Leslie) fel y nodau anffaeledig o sylweddolrwydd ymddangosiadau gwyrthiol. 1. A oeddynt y fath ag y gellai synwyrau dynion farnu am danynt? 2. A oeddynt yn gyhoeddus? 3. A oedd rhyw gofarwyddion yn cael eu cadw i fyny, neu rhyw weithredoedd allanol yn cael eu cyflawnu, er cof am y dygwyddiadau a gyflawnid yn gyhoeddus fel hyn? 4. A gafodd y cyfryw gofarwyddion a defodau eu gosod i fyny ar yr amser y cymmerodd y dygwyddiadau hyn le, ac a gynnaliwyd hwynt yn gysson ar ol hyny? Y mae y *ddau arbrawf cyntaf* yn ei wneyd yn anmhosibl i ddynion ar yr amser gael eu twyllo, a'r *ddau olaf* yn ei wneyd yr un mor anmhosibl i dwyll gael ei arfer mewn unrhyw oes ganlynol. Os cymhwysa y darllenydd y profion hyn at wyrthiau y Beibl, ac yna at wyrthiau haeredig dysgawdwyr ereill, efe a wel ar unwaith y gwahaniaeth rhwng y twyllodrus a'r gwirioneddol.

179. Gwyrthiau o wybodaeth yw prophwydoliaethau, fel y mae gweithredoedd gwyrthiol yn wyrthiau o allu. Yr olaf yn gyffredin a ddygant eu profion gyda hwynt, tra y mae profion y blaenaf yn raddol a phentyrol (*accumulative*). Y mae efrydu prophwydoliaeth yn dra addysgiadol, nid yn unig er cadarnhad i'n ffydd, ond hefyd er goleuni i'r eglwys. Mae yr angen a nodai Arglwydd Bacon am lyfrau yn y dosparth yma, wedi ei gyflenwi i raddau helaeth yn ddiweddar, yn enwedig gan y fath weithiau ag eiddo Newton a Keith.

180. Mewn trefu i brophwydoliaeth ffurfio rhan o brofion yr Ysgrythyr, y mae yn angenrheidiol, yn gyntaf, i'r dygwyddiad a ragddywedir fod y tu hwnt i gyfrifiad a rhagwelediad dynol; yn ail, fod y brophwydoliaeth yn adnabyddus cyn y byddo y dygwyddiad yn cymmeryd lle; ac yn drydydd, fod y brophwydoliaeth yn cael ei chyflawnu heb fod gan y goruchwylydd unrhyw olwg fwriadol ar amcan Duw. Pe gallasai deall ragweled y canlyniad, gallai y brophwydoliaeth beidio bod ond enghraifft

o ddoethineb ddynol. Os na ragfynegwyd y canlyniad, nid oes yr un prawf prophwydol. Ac os arweiniodd y rhagfynegiad ddynion i geisio ei gyflawniad, yna nid yw y cyflawniad ond canlyniad dyfeisgarwch ddynol. Gwir fod rhagfynegiadau nad yw yr un o'r nodau yma yn gymhwysiadol iddynt; ond er fod y cyfryw ragfynegiadau yn ddefnyddiol i amcanion ereill, nis gellir eu hystyried yn benderfynol fel profion o wirionedd Ysgrythyrol.

181. Gellir sylwi fod profion prophwydoliaethol yn rhedeg drwy y Beibl, a bod eu rhagfynegiadau priodol yn perthyn i bob un o'r goruchwyliaethau. Yn uniongyrchol ar ol y cwymp, cawn yr addewid am Geidwad; yn amser Enoch, rhagfynegiadau am farn ddyfodol; ac yn nyddiau Noah, am y diluw. Ar ol y diluw, rhoddodd prophwydoliaeth freinlen newydd o fendithion tymmorol, ac addewid am barhad y tymmorau hyd ddiwedd amser. Yn Abraham, rhoddodd y cyfammod deublyg o Ganaan a'r efengyl, gan addaw i'w hiliogaeth wlad o'r hon ni feddiannodd ef ond bedd, ac i'r holl genedloedd, y cawsent eu bendithio yn ei hâd ef.[a] Rhagfynegodd gaethiwed yr Aifft, ac addawodd waredigaeth.[b] Drwy Jacob, rhagfynegodd hanes y Patriarchiaid a'u disgynyddion.[c]

Attaliwyd y ddawn yn ystod caethiwed yr Aifft, ond cafodd ei hadnewyddu ar roddiad y gyfraith. Y pryd hwnw, rhagfynegodd ddyfodiad ail a galluocach brophwyd,[d] mawredd dyfodol Judah,[e] a thynged y bobl Hebreig hyd ddiwedd amser;[f] tra yr oedd yr oll o'r oruchwyliaeth drwy gysgodau yn rhagddangos athrawiaethau mawrion yr efengyl. Mae attaliad am 400 mlynedd yn canlyn rhoddiad y gyfraith, ac un o gyffelyb barhad yn rhagflaenu dyfodiad ein Harglwydd. Yn nyddiau Samuel, swydd brophwydol yr hwn a nodir mewn modd neillduol,[g] rhagfynegodd ganlyniadau y dewisiad o frenin tymmorol,[h] marwolaeth Saul,[i] appwyntiad a chymmeriad Dafydd,[k] sefydliad ei deyrnas,[l] genedigaeth a chymmeriad Solomon,[m] ac, wedi hyny, rhaniad y deyrnas,[n] dymchweliad yr eilun-allor yn Bethel,[o] a gwasgariad Israel. Cawn hefyd yn gydamserol ddesgrifiadau byrion o natur a llwyddiant dyfodol teyrnas Crist.

Y mae prophwydoliaethau a gwyrthiau Elias ac Eliseus yn llanw lle pwysig yn hanesiaeth y ddwy deyrnas,[p] ac yn cyrhaedd yn eu profion yn agos hyd ddyddiau Jonah, gyda'r hwn y gellir dywedyd fod cyfres y prophwydi Hebreig yn dechreu. Rhagfynegodd Amos ddinystr Samaria, a gwasgariad olaf y Deg Llwyth,[q] fel y gwna Esay,[r] yr hwn hefyd a ragfynega gaethiwed tymmorol Judah yn Babilon,[s] talaeth fechan a chyfeillgar, a gwaredigaeth Hezeciah oddiwrth Assyria, lluoedd yr hon oedd y pryd hwnw yn amgylchynu Jerusalem.[t] Yr holl amgylchiadau mwyaf hynod a berthynent i'r caethiwed a gawsant eu rhagfynegu—amser ei barhad, triugain a deg o flynyddau,[u] y rhesymau moesol o hono,[v] ei ganlyniadau, a'r moddion drwy ba rai yr oedd i'w ddwyn i derfyniad.[w] Cyflwynir hefyd enwau cenedloedd oeddynt y pryd hwnw braidd yn anadnabyddus, yn nghyd âg enw gorchfygwr dyfodol; ac y mae eglurder hanesyddol wedi ei roddi i'r holl brophwydoliaeth.

[a] Gen. 12, 2, 3; 15, 13. [b] Gen. 15, 14. [c] Gen. 49. [d] Deut. 18, 15.
[e] Num. 23. [f] Deut. 4, 28; 33. [g] 1 Sam. 3, 20. [h] 1 Sam. 8, 11—18.
[i] 1 Sam. 28, 19. [k] 1 Sam. 16, 13, 14. [l] 2 Sam. 7, 12—17.
[m] 1 Cron. 22, 9; gwel 1 Bren. 4, 25. [n] 1 Bren. 11, 34, 40. [o] 1 Bren. 13.
[p] 2 Bren. 1—12. [q] Amos 9, 9, &c. [r] Esay 7, 6—8. [s] Esay 39, 2—6.
[t] Esay 37. [u] Jer. 29, 10, &c. [v] Ezec. 24; Jer. 30, 1—20; Esay 27, &c.
[w] Esay 13, 19; 14, 3; 44, 45; Jer. 25, 1; Ezec. 2, 12; 23, &c.

Yn ystod yr holl amser, y mae y prophwydi yn rhag-arwyddo cyfnewidiad neshäol y cyfammod Mosenaidd, yn rhoddi hanes dyfodol y prif genedloedd paganaidd, ac yn cwblhau y cyhoeddiad am y Messiah, ei waith, a'i brynedigaeth.

Yn y caethiwed, cawn brophwydoliaethau Obadiah, a Daniel, ac (mewn rhan) Ezeciel. Ar ol y caethiwed, prophwydoliaethau Haggai, Zechariah, a Malachi, a lonent adeiladwyr y deml, ac a gyfeirient yn fwy eglur at ddyfodiad yr efengyl.

Ac fel hyn, y mae gwaith boreuaf a diweddaraf prophwydoliaeth yn ddarpariadol i Gristionogaeth. Y mae swydd a gwaith ein Harglwydd yn cael eu gosod allan fel dechreuad a diwedd y dadguddiad boreuol o eiddo Duw.

182. Y mae fod prophwydoliaeth yn cael ei gwneyd fel hyn yn wasanaethgar i un amcan mawr, yn teilyngu sylw manylach. Gwyddom fod crefydd y Beibl yn cael ei chydnabod, mewn gwirionedd, yn mysg dau gan miliwn o'r hiliogaeth ddynol; a thra y mae cyfundraethau ereill yn dangos arwyddion o ddarfodiad buan, y mae hon yn parhau i ymledu ar bob tu, ac ymddengys fel wedi ei bwriadu i orlenwi y ddaear. Er ys ychydig dros ddeunaw can mlynedd yn ol, nid oedd ganddi fil o ganlynwyr. Y mae y ffaith yma ynddi ei hunan yn bwysig, ond y mae yn llawer mwy fellypan y cyssylltir hi â'r rhagfynegiadau Ysgrythyrol sydd wedi eu trosglwyddo i lawr i ni. Rhagddywedwyd yn eglur y buasai y cyfnewidiad mawr hwn yn cymmeryd lle; y buasai yn cael ei effeithio drwy hâd y wraig[a] (ymadrodd a ymddengys yn hunan-wrthddywediadol); y buasai mewn cyssylltiad â'r bobl oedd i ddeilliaw oddiwrth Abraham;[b] ond er ei fod mewn cyssylltiad â hwy, etto y buasai drwy gyfrwng cyfammod *newydd*;[c] mai nid yr holl genedl, ond un o'r genedl, oedd i fod yn awdwr y cyfnewidiad hwn; y buasai yn cael ei ddirmygu a'i gondemnio gan ei gydwladwyr; ac er ei fod i gael ei roddi i farwolaeth, etto y buasai yn sefydlu teyrnas ëang a pharhaus.[d] Yr hen lyfrau a lefarant gydag eglurder am ei natur ddynol a Dwyfol;[e] am ei ddisgyniad oddiwrth Isaac, nid Ishmael; oddiwrth Jacob, nid Esau; oddiwrth Judah, ac nid Reuben,[f] y mab henaf, neu Lefi, tad y llwyth offeiriadol; ac oddiwrth Dafydd, yr ieuengaf o feibion Jesse.[g] Mynegant amser ei ddyfodiad;[h] lle ac amgylchiadau ei enedigaeth;[i] ei swyddau, fel prophwyd, offeiriad, a brenin;[k] maes ei weinidogaeth foreuol;[l] ei wyrthiau,[m] ei ddyoddefiadau, a'i farwolaeth;[n] ei adgyfodiad a'i esgyniad;[o] anfoniad yr Ysbryd Glan;[p] ac ymledaeniad cyffredinol gwirionedd yn y diwedd.[q] Nid yw y rhai hyn ond enghreifftiau o dros gant o brophwydoliaethau sydd wedi eu cyhoeddi yn gyffredin mewn iaith eglur a goleu; oll yn cyfeirio at berson a gwaith ein Harglwydd; heb sôn am y cyfeiriadau cysgodol a chyffelybiaethol, y rhai, yn eu cymhwysiad olaf, a derfynent ynddo ef.

183. Traddodwyd y rhan fwyaf o'r rhagfynegiadau yma o leiaf chwe chant o flynyddau cyn ei ymddangosiad ef; yr oedd llawer o honynt yn dra annhebyg, ac hyd y nod yn ymddangos yn gwrthddywedyd eu gilydd; ac y maent oll mor neillduol, fel ag i gynnwys ymarferiad o allu a doethineb gwyrthiol. Rhagfynegiad rhydd a chyffredinol (am ryw orchfygwr

[a] Gen. 3, 15. [b] Gen. 22, 18. [c] Jer. 31, 31; 32, 40; Exec. 37, 26; Mica 4, 1.
[d] Esay 9, 6; 11, 1; Ezec. 34, 23. [e] Esay 9, 6. [f] Gen. 49, 10.
[g] 1 Sam. 16, 11; Jer. 23, 5. [h] Gen. 49, 10; Dan. 9, 24; 7; Hag. 2, 6—9.
[i] Micah 5, 2; Esay 7, 14. [k] Sal. 110; Zech. 6, 13; Esay 61, 1.
[l] Esay 9, 1; Math. 4, 14. [m] Esay 35, 5, 6. [n] Sal. 22, 16; Esay 53.
[o] Sal. 68, 18. [p] Joel 2, 28. [q] Esay 53; 9, 7; Sal. 2, 6; 22.

mawr, er enghraifft) a allesid ei wneyd fe allai oddiar led-dybiaeth; ond cyfres o ragfynegiadau, yn cynnwys llawer o neillduolion manwl, a chroes i'w gilydd mewn ymddangosiad, a'r cwbl yn cael eu cyflawnu yn mherson ein Harglwydd, nis gallasent gael eu rhoddi ond yn unig ganddo Ef, yr hwn sydd yn gweithio pob peth wrth gynghor ei ewyllys ei hun. Mor addysgiadol yw sylwi, tra nad oes un *dyn*—hyd y nod Moses—yn destun rhes o ddarluniadau prophwydol,—y mae y Messia yn destun iddynt oll. Pan ddaeth efe, yr oedd ganddo ei arwyddion o'i flaen, yn gystal a chydag ef. Daeth yn y ffurf ac i'r amcan oedd Duw ei hunan wedi ei ragddywedyd "drwy enau ei santaidd brophwydi, y rhai oedd o ddechreuad y byd." Luc 2, 70.

184. Ac nid yw tynged cenedloedd ereill yn cael ei hesgeuluso. Duw a ddadguddiodd i Noah hanes ei olafiaid; Canaan, yn was gweision, fel y mae ei hiliogaeth am hir amser wedi bod; Japheth wedi ei ëangu, ac yn preswylio yn mhebyll Shem, neu Ewrop yn feistr ar Asia. Dadguddiodd i Abraham y farn oedd o bell yn aros yr Aifft a'r Amoriaid, yn nghyd â'r farn oedd ar ddyfod ar Sodom a Gomorra. Llefarodd Balaam am yr Hebreaid, am gyfodiad Cristionogaeth, y barnau oedd i syrthio ar yr Amaleciaid, y Ceneaid, a'r Assyriaid. Rhagfynegodd Moses gyfodiad y gallu Rhufeinig wyth can mlynedd cyn iddo gael bodoliaeth.

Rhagfynegwyd am Ishmael dair mil o flynyddau yn ol, y buasai ei deulu yn preswylio yn mhresenoldeb eu gelynion; y buasai eu dwylaw hwy yn erbyn pob dyn, a llaw pob dyn yn eu herbyn hwythau. Ac y maent i'r dydd heddyw heb eu darostwng, er fod Sesostris, a Cyrus, a'r Rhufeiniaid, a'r Tyrciaid, oll wedi ceisio eu gorchfygu.

Y mae dymchweliad y gallu Persiaidd gan Alexander,[a] a darostyngiad Babilon, Tyrus,[b] a'r Aifft,[c] yn cael eu darlunio yn y prophwydi, naill ai cyn i'r taleithiau hyny gyfodi i fawredd, neu ar yr amser y safent yn mhlith y galluocaf o'r cenedloedd. Buddugoliaethau y Saraceniaid a'r Tyrciaid,[d] enwau y teyrnasoedd oedd i gael eu gwaredu rhag eu gallu, neu i syrthio dano, hanes Edom,[e] a Moab,[f] Ammon,[g] a Philistia,[h] a ragfynegir oll gyda'r fath fanylrwydd a neillduolrwydd ag sydd yn profi fod yn rhaid eu bod yn bresenol yn ngolwg y prophwyd.

Rhoddwyd y prophwydoliaethau yma yn nghanol dirywiad y cyfammod Iuddewig, a bwriadwyd hwynt i geryddu balchder y cenedloedd, i weinyddu cysur ac addysg; ac, uwchlaw y cwbl, i arwain meddyliau dynion at y deyrnas ddisigl. Daniel, yn nghanol y caethiwed, a gyfrifodd ac a bwysodd deyrnasoedd y ddaear, a chyfeiriodd at lywodraeth yr "Hen Ddihenydd." Gwel Davison, tud. 303.

185. At y ffeithiau hyn, gellir ychwanegu fod pob addewid sydd wedi ei sylweddoli yn y bywyd hwn, pob atebiad i weddi, pob anrhydedd a roddir i ffydd weithgar, pob bendith ysbrydol a dderbynir fel canlyniad i ufydd-dod ysbrydol, yn gyflawniad prophwydoliaeth. Ac y mae personau a dygwyddiadau cysgodol yr oruchwyliaeth flaenorol yn ychwanegiad pellach at brawf prophwydol y ffydd, nes, yn y diwedd, y mae genym gyfres o brophwydoliaethau mor gyflawn a goleu, fel ag i herio unrhyw eglurhad islaw ysbrydoliaeth yr Hollalluog. Gwel ar y pwnc yma, "Cyflawniad yr Ysgrythyr," gan Fleming.

[a] Dan. 11, 2, 4. [b] Exec. 28, 1—20. [c] Exec. 29, 14, 15.
[d] Dan. 11, 40, 41. [e] Jer. 49, &c. [f] Jer. 48.
[g] Ezec. 25, 2—10; Zeph. 2, 9, &c. [h] Ezec. 25.

186. Er mwyn ffurfio drychfeddwl mwy penodol am y rhagfynegiadau hyn, yn nghyd a'r perffeithrwydd gyda pha un y gwnant i fyny angenion prophwydoliaeth, fel prawf o ddadguddiad Dwyfol (gwel adr. 180), gall y darllenydd gymharu Sal. 22, ac Esay 53, â'r Efengylau; neu gall gymmeryd rhagfynegiadau Pum Llyfr Moses[a] ar hanes y bobl Iuddewig, y rhai y cyfeirir atynt gan Nehemiah,[b] ac a ailadroddir mewn rhan yn llyfrau Amos, Jeremiah, ac Ezeciel. Bu Pum Llyfr Moses yn nghadwriaeth gwrthwynebwyr am fwy nâ 2500 o flynyddau, a'r holl brophwydoliaethau oeddynt yn adnabyddus ac yn cael eu dyfynu gan ysgrifenwyr ereill er ys mwy nâ 2000 o flynyddau. Yn yr achos yma, gan hyny, nis gellir ammeu blaenoriaeth y rhagfynegiad ar y cyflawniad.

187. Yr oedd Abraham yn ddiblant pan roddwyd iddo yr addewid gyntaf;[c] ac yn mhen yn agos 200 mlynedd ar ol hyn, er fod yr addewid yn y cyfamser wedi ei hadnewyddu lawer gwaith, etto nid oedd ei deulu wedi cynnyddu ond i driugain a deg o eneidiau yn unig.[d] Eu cadwedigaeth a'u mawredd a ragfynegwyd gan Balaam[e] a Moses, pan yr oedd y cyfryw ganlyniad yn hollol annhebygol, pan oedd yr holl genedl dan anfoddlonrwydd Dwyfol, a phan oedd cenedloedd ereill cryfach nâ hwynt, a'r rhai yr oeddynt hwy wedi cael gorchymyn i'w difetha, yn cyd-gynllunio eu dinystr. Rhagfynegodd Esay y caethiwed yn nyddiau brenin duwiol a llywodraeth lwyddiannus. Rhoddwyd prophwydoliaeth Jeremiah am waredigaeth pan fygythid hwynt gan ddinystr hollol yn Mabilon, a phan yr oedd deg o'r llwythau eisoes wedi myned o'r golwg.[f]

Ar ol dymchweliad Jerusalem, daeth eu tir i gael "ei fathru gan y cenedloedd,"[g] a hwythau a yrwyd allan o'u gwlad. Y maent am yn agos 2000 o flynyddoedd wedi bod heb wahaniaeth llwythau, heb dywysog, heb lywodraeth, heb deml, heb offeiriadaeth; wedi eu gwasgaru ac etto wedi eu cadw; yn byw yn mysg y cenedloedd, ac etto heb gymmysgu â hwynt, ac o hyd yn "ddiareb ac yn wawd yn mysg yr holl bobloedd." Y mae y dygwyddiadau yma heb ddim yn debyg iddynt, ac y maent yn groes i bob profiad. Nis gallai dyn eu rhagweled hwynt, a sicr yw nas gallasai dyn o'i amcan ei hun eu cyflawnu hwynt. I wneuthur y wers yn foesol gyflawn, y mae y gyfraith yn aros, ac y mae yr Iuddewon yn gwylied y prophwydoliaethau sydd yn cael eu cyflawnu yn eu hanes hwy; ac y maent felly wedi dyfod nid yn unig "yn waradwydd ac yn warthrudd," ond hefyd "yn ddysg ac yn syndod i'r cenedloedd sydd o'u hamgylch." (Ezec. 5, 15.)

188. Y mae eu hanes yn dyfod yn fwy argraffiadol wrth ei gymharu âg eiddo yr Edomiaid. Yr oedd y ddwy genedl wedi disgyn oddiwrth Isaac. Yr Edomiaid a gyfodasant i allu ac awdurdod yn foreuach nâ'r Iuddewon, ni chawsant erioed eu gwasgaru i gaethiwed; a phan gafodd Jerusalem ei dinystrio, yr oeddynt hwy yn ffurfio cyfundeb blodeuog. Deg ar hugain o ddinasoedd adfeiliedig, o fewn taith tri diwrnod i'r Môr Coch, a ddygant dystiolaeth i'w mawredd blaenorol.

Rhagfynegwyd dinystr hollol i wlad ac i hiliogaeth Esau, Jer. 49, 17, 10; Obad. 8; a dinystr hollol sydd wedi dyfod arnynt.

Yr oeddynt yn nodedig am eu doethineb: yn awr y mae y crwydriaid yn Edom wedi suddo i'r ynfydrwydd mwyaf, ac edrychant ar yr adfeilion a'u cylchynant fel gwaith ysbrydion, Obad. 8.

[a] Deut. 28, 64, 65; Lef. 26, 32, 33.
[b] Neh. 1, 8.
[c] Gen. 15, 2.
[d] Gen. 46, 27.
[e] Num. 23, 9.
[f] Jer. 30, 10, 11; 33, 25, 26; 46, 27, 28.
[g] Luc. 21, 24.

Gorwedda Edom ar y ffordd unionaf i India, ond "nid â neb drwyddi yn oes oesoedd;" ac "hyd y nod yr Arabiaid," meddai Keith, "a ofnant fyned iddi, nac arwain neb o fewn ei therfynau." Esay 34, 10. Y bobl a ymwelant â hi a ddesgrifir fel y rhai mwyaf anwar a bradwrus, ac felly y rhagddywedodd y prophwyd, Mal. 1, 4.

Dywedir fod ei hannghyfannedd-dra i fod yn barhaus (Jer. 49, 7—22); a mynega teithwyr, nad ydyw y wlad ond un maes helaeth o dywod, yn cael ei chwythu i fyny o'r Môr Coch.

Pa ragwelediad dynol allasai ragfynegu tyngedfenau mor neillduol?

Gallwn ychwanegu enghraifft neu ddwy arall:—

189. Traddododd Esay ei brophwydoliaeth gant a thriugain mlynedd cyn i Babilon gael ei dymchwelyd. Yr oedd Judea y pryd hwnw yn deyrnas nerthol. Yr oedd Persia, gwlad frodorol Cyrus, mewn cyflwr o farbariaeth, ac nid oedd Babilon ei hunan ond dechreu cyfodi i sylw; o'r braidd yr oedd ei bodoliaeth yn adnabyddus i'r Hebreaid.

Yn mhen can mlynedd ar ol Esay y prophwydodd Jeremiah; ac yr oedd Babilon y pryd hwnw yn "ogoniant teyrnasoedd," "ac yn foliant yr holl ddaear." Nebuchodonosor a helaethodd ac a ardderchogodd y ddinas, a thrwy yr holl diriogaeth hono yr oedd ei awdurdod yn oruchel.

Dechreua Esay y prophwydoliaethau yma, rhagfynega ddymchweliad y ddinas, geilw enw ei gorchfygydd yn Cyrus,[a] gan arwyddo mai ei gyfenw ydyw, ac nid un rhoddedig iddo ar ei enedigaeth.[b] Mae yn galw pobloedd o Elam (Persia) a Media,[c] dywed pa fodd yr eir i mewn i'r ddinas, y sychir i fyny yr afon, y pyrth dwy-ddalenog yn cael eu gadael yn agored, a'r lle yn cael ei gymmeryd yn ddiarwybod, yn ystod noson o gyfeddach a meddwdod.[d] Ychwanega y ddau brophwyd fod y lle i fod byth yn annghyfannedd, yn drigle bwystfilod rheibus, a dyfroedd drewedig.[e]

Yn mhen can mlynedd ar ol traddodiad y gyntaf o'r prophwydoliaethau hyn, y maent yn dechreu cael eu cyflawnu. Gorchfygodd Nebuchodonosor Judea, ac mewn dau hanesydd annibynol, Herodotus a Xenophon (y blaenaf o ba rai oedd yn byw 250 o flynyddau ar ol Esay, a'r olaf 350), y mae genym brawf hanesyddol o fanylrwydd cywirdeb yr holl brophwydoliaethau. Dywed Herodotus i Cyrus gymmeryd arno yr enw hwnw ar ei esgyniad i'r orsedd, Llyfr i. 114. Y mae Xenophon yn nodi cymmeriad cymmysglyd ei fyddin, ac yn mynegu yn neillduol am y Persiaid a'r Mediaid, Cyrop. v. ciii., 38. Y mae y ddau ysgrifenydd wedi gadael hanes manwl am y gwarchae, tröad yr afon, cymmeriad y ddinas, a marwolaeth y brenin.

Dywed Strabo fod y ddinas yn ei amser ef yn unigedd ëang. Haera Lucian "y byddis yn fuan yn chwilio am Babilon, ac nis ceir hi, fel y mae yn barod wedi dyfod ar Ninefeh," pen. xvi. Mynega Pausanias nad oedd dim wedi ei adael ond y muriau, p. viii, adr. 33. Dywed Jerome ei bod yn ei amser ef yn drigle gwylltfilod; ac y mae teithwyr diweddar (yn eynnwys Syr R. K. Porter) yn dwyn tystiolaeth i'r annghyfannedd-dra cyffredinol. "Nid ydyw (meddai un) yn fawr gwell nâ chors, ac nis gallwn ymattal rhag meddwl mor ffyddlawn y mae yr amryw brophwydoliaethau wedi eu cyflawnu."

190. Dinas fwy fyth oedd Ninefeh, ac nid oedd yn llai enwog fel

[a] Esay 44, 28; 45, 1. [b] Esay 45, 4.
[c] Esay 21, 2; 13, 4, 5; Jer. 51, 27, 28.
[d] Esay 44, 27; 45, 1; Jer. 51, 39, 57; 50, 58.
[e] Esay 13, 20—22; 14, 23; Jer. 51, 37, 38.

colofn o'r gallu Dwyfol. Yr oedd y lle hwn can hyned ag Assur, mab Shem; ac yr oedd ar un amser yn agos triugain milldir o amgylchedd. Yr oedd y ddinas yma yn orlawn o gyfoeth a balchder, yn dywedyd, "Myfi sydd, ac nid oes ond myfi," Seph. 2, 15. Anfonwyd Jonah, gan hyny, i ragfynegu ei dinystr; ac er iddi edifarhau, etto, o fewn ychydig flynyddau, anfonwyd Nahum i ail gyhoeddi y genadwri. Yn mhen can mlynedd ar ol hyn, ac o fewn hanner cant i'w dinystr, rhagfynegodd Sephaniah ei dymchweliad yn y modd mwyaf manwl a llythyrenol. Y mae geiriau y prophwyd, wrth eu cymharu âg eiddo yr hanesydd (Diodorus Siculus) yn darllen yn fwy tebyg i hanes nâ phrophwydoliaeth. Haera Lucian, yr hwn a flodeuodd yn yr ail ganrif ar ol Crist, ac oedd hefyd yn frodor o'r parthau hyny, ei bod wedi ei llwyr ddinystrio. ac nad oedd lled troed o honi yn aros. Mor drylwyr yw darfyddiad ei holl fawredd.

191. At ffeithiau fel hyn y mae Duw yn appelio. "Pwy a draethodd hyn er cynt? Onid myfi yr Arglwydd?.. Trowch eich gwynebau ataf fi holl gyrau y ddaear, fel y'ch achuber; canys myfi wyf Dduw, ac nid neb arall." Esay 45, 20, 21, 22.

192. Profion Cristionogaeth, y rhai sydd wedi cael eu hystyried genym hyd yma, ydynt yn allanol ac uniongyrchol, a gellir eu rhanu i'r gwyrthiol a'r prophwydol. Y mae yn aros gangen helaethach o brofion—y moesol, y llênyddol, a'r ysbrydol, neu (a chymhwyso yr un enw atynt oll) y mewnol.

193. Os nad yw y Beibl o Dduw, rhaid mai chwedl gyfrwys a thwyllodrus ydyw; a'r pwnc sydd gan brofion mewnol i'w ystyried yw—pa un yw y dybiaeth fwyaf debygol. Er hyny, ymddengys, ar yr olwg gyntaf, y gellir ammeu ein haddasrwydd i benderfynu beth a *ddylai* dadguddiad oddiwrth Dduw fod, etto yr ydym yn addas i benderfynu yn y peth hwn, ac i ddywedyd, a yw dysgeidiaeth y Beibl yr hyn allasid ddysgwyl am dani oddiwrth benboethwyr neu dwyllwyr. Gall pob un farnu y pwnc yma; etto, y mae yn gofyn peth profiad ac adnabyddiaeth â'r byd, yn gystal ag adnabyddiaeth â'r Ysgrythyr, i'w hiawn werthfawrogi.

194. Neillduolrwydd cyntaf moesoldeb yr Ysgrythyr, yw y pwys a gyssylltir yn mhob man â santeiddrwydd. A barnu oddiwrth yr hyn a wyddom ni am gyfundraethau o ddechreuad dynol, buasai crefydd oddiwrth ddyn yn treulio ei nerth ar gyflawniadau defodol, neu yn caniatâu i fawredd gwasanaeth iddi hi ei hunan, wneuthur iawn am esgeulusdra o ddyledswyddau ereill. Rhydd Mahomedaniaeth y lle uchâf i'r rhai a ymladdant ac a syrthiant yn y frwydr. Rhydd Hindwaeth y wobr benaf i gyflawniad addoliad defodol. Dysgai traddodiad Iuddewig fod pob Iuddew yn ddiau yn gadwedig. Yr Ysgrythyrau, o'r tu arall, a ddygant bob dyn i bresenoldeb Bôd anfeidrol ei santeiddrwydd, gerbron yr hwn y mae y cymmeriadau dynol uchaf yn syrthio yn gondemniedig;[a] a chyhoeddant yn ddigon eglur nas gall dim a fedrwn ni ei ddywedyd neu ei gyflawnu dros achos Crist wneyd i fyny y diffyg o rinwedd ymarferol. Y mae y rhai a bregethant yn enw Iesu i gael eu gwrthod os byddant yn weithredwyr anwiredd,[b] ac y mae derbyniad y wir ffydd yn gwneuthur santeiddrwydd Cristionogol yn fwy rhwymedig.[c]

195. Nid yw y ddyledswydd foesol a ddysgir yn yr Ysgrythyrau y fath

[a] Job 40, 4; Esay 6, 5; Dan. 9, 4; 1 Tim. 1, 15.
[b] Math. 7, 22, 23; Luc 6, 46.
[c] 1 Cor. 5, 11, 12.

ag y buasai dyn yn debyg o'i darganfod na'i chymmeradwyo. Pan ymddangosodd ein Harglwydd, yr oedd y Rhufeiniaid yn ymffrostio yn eu gogoniant milwrol, a'r Groegiaid yn ymfalchio yn rhagoriaeth eu doethineb. Ffynai yr ysbryd Phariseaidd yn mhlith yr Iuddewon, ac yr oedd yr holl genedl wedi ei rhanu rhwng sectau gwrthwynebol, yn cyduno i gasâu eu gorchfygwyr, a'r oll o'r byd cenedlig. Buasai penboethyn yn sicr o lynu wrth blaid; a buasai twyllwr yn gwenieithio i bob sect, drwy ddangos beiau y lleill, neu i'r genedl, drwy gondemnio ei gorchfygwyr. Ein Harglwydd, o'r tu arall, a ddaeth, fel dysgawdwr annibynol; ceryddai gyfeiliornad, condemniai yr holl sectau, ac ni wnaeth ddim i geisio denu ffafr y bobl. Ei orchymynion, y rhai a berent i ddynion ddychwelyd da am ddrwg, i garu eu gelynion, i fod yn ostyngedig a maddeugar, i ystyried pob cenedl a phob sefyllfa yn gyfartal gerbron Duw, nid oeddynt yn dderbyniol gan neb; ac etto yr oeddynt yn cael eu cyhoeddi a'u cymhell gyda'r difrifoldeb a'r cyssondeb mwyaf.

196. Gellir dywedyd yn wir fod dynion yn barod i gymmeradwyo graddau helaethach o burdeb bob amser nag y maent yn barod i'w ymarfer, a bod y traethodau a ysgrifenwyd gan yr hen athronwyr yn desgrifio rhinwedd uchelach o lawer nag oedd i'w gael yn mhlith eu cydwladwyr. Y mae hyn yn wir, a phe myfyriasai y pysgodwyr Iuddewig athroniaeth, ni fuasai yn rhyfeddod pe dysgasent hwythau foesoldeb uwch nag oedd yn cael ei ymarfer ganddynt. Ond "gwŷr anllythyrenog" oeddynt hwy, ac y mae eu gorchymynion yn myned, nid yn unig y tu hwnt i'r hyn a arferid gan ddynion, ond hefyd yn mhellach nâ'r hyn a gymmeradwyid ganddynt. Y mae yr efengyl, nid yn unig yn well nag ymarweddiad dynol, ond y mae yn aml iawn yn wrthwynebol iddo. Nid oedd na thawelwch mewn dyoddefiadau, na maddeuant am ddrygau, nac ymarferiad o ysbryd ymostyngol, yn cael eu harfer na'u mawrhau gan y byd; a phan y mae yr efengyl yn dysgu y dyledswyddau hyn, arddengys hwynt mewn cyssylltiad â gwroniaeth ysbrydol o'r fath nâ ŵyr y byd ddim am dano, a'r hwn sydd bob amser wedi ei dybied yn annghysson â'r rhinweddau amyneddgar a gymhellir gan yr Ysgrythyrau.

197. Ychwaneger at y ffaith yma un arall (ar yr hon y mae Paley yn ymhelaethu), sef, fod yr Ysgrythyrau yn amcanu at reoli meddyliau a chymhellion dynion, ac na foddlona ar ddim llai nag agwedd calon sydd yn cyfeirio ein holl weithredoedd at ewyllys Duw; ac nis gellir llai nâ theimlo nad yw moesoldeb yr efengyl o ddynion. Nis gallai dynion drwg ddysgu y fath wirioneddau, ac ni wnelai dynion da dwyllo y bobl.

198. Y mae etto neillduolrwydd arall yn moesoldeb y Beibl, yr hwn sydd ynddo ei hunan yr un mor gywir a tharawiadol. Llefarir yn mhob man am bechod fel drwg yn *erbyn Duw*; ac yn mhob man, nid yr offeryn, neu y goruchwylydd dynol, a dderchefir, ond *Duw yn unig*. Y mae y golygiad cyntaf yn hollol annghysson â phob athrawiaeth baganiaidd; ac y mae yr ail yn annghydweddol â thuedd naturiol y galon ddynol. "Hon (meddai Cicero) yw egwyddor gyffredin yr holl athronwyr, nad ydyw Duw un amser yn anfoddloni, nac yn anfon drygfyd ar ddyn." *De. Off.*, lii, 28.

Yn wrthwynebol i hyn, gosodir pechod allan yn yr Ysgrythyr fel peth drwg a chwerw, am ei fod yn *dianrhydeddu Duw*. O herwydd hyn y daeth dinystr ar yr Amaleciaid,[a] ar Sennacherib,[b] ac ar Belshazzar.[c] O

[a] Exod. 17, 16, ymyl y ddalen. [b] 2 Bren. 19, 22—37. [c] Dan. 5, 23.

herwydd hyn y rhoddwyd y cenedloedd i fyny i feddwl annghymmeradwy.[a] O herwydd hyn y dadleuai Duw â'r Iuddewon,[b] ac â Moses.[c] O herwydd hyn y cospwyd Eli[d] a Dafydd.[e] O herwydd hyn y bu farw Nadab ac Abihu,[f] Uzzah[g] a Herod.[h] Ac o herwydd hyn y daeth drygau ar Solomon, y rhanwyd ei deyrnas i Israel a Judah, ac y caethgludwyd ac y dinystriwyd y ddwy.[i]

Duw yn unig a anrhydeddir. Ymddengys mai pwnc mawr yr holl ysgrifenwyr yw arwain meddyliau dynion ato Ef. Gesyd yr athraw gau ei *hunan* allan fel rhyw un mawr (Act. 8, 9); ond yn y Beibl, Duw yn unig sydd yn cael ei dderchafu. Eglurir y rheol yma gan Moses, Deut. 1, 31; 2, 33; 3, 3; 4, 32—38; Ex. 18, 8. Josua, Jos. 23, 3. Dafydd, 1 Cron. 29, 11, 14. Daniel, Dan. 2, 20; 23, 30. Ezra, Ez. 7, 28. Nehemiah, Neh. 2, 12. Pedr ac Ioan, Act. 3, 12—16. Paul, Act. 21, 19; 1 Cor. 3, 5; 2 Cor. 4, 7.

Yn yr un modd gosodir allan y greadigaeth fel Duw mewn natur,[k] a chwyldröadau a chynnydd teyrnasoedd, fel Duw mewn hanesyddiaeth.[l]

199. Gyda golwg, mewn rhan, ar gryfhau y teimladau a gynnyrchir gan y neilldduolion yma, y gwneir ffydd yn egwyddor ufydd-dod a llwyddiant. Mewn cyssylltiad â Duw, ffydd yw cyfaddefiad o'n gwendid, a'n ymwrthodiad o bob ymffrost; ac etto, mewn cyssylltiad â llwyddiant, y mae yn hollalluog; gwirionedd ag sydd mor drwyadl athronyddol ag ydyw o bwys ysbrydol. Ac etto gwirionedd ydyw a ddadguddir yn unig yn y Beibl. Rhuf. 3, 27; Eph. 2, 8, 9; 1 Cor. 1, 29—31; Ioan 11, 40; Esay 7, 9.

200. Y mae tegwch ac onestrwydd yr ysgrifenwyr ysbrydoledig yr un mor nodedig a'u gorchymynion moesol; ac y maent yn hollol annghydweddol â thwyll a phenboethni.

Ceryddant y bobl am eu pechodau. "Gwrthryfelgar fuoch yn erbyn yr Arglwydd, er y dydd yr adnabum chwi," medd Moses (Deut. 9, 24); a rhoddir yr un golygiad gan yr holl ysgrifenwyr diweddarach. Barn. 2, 19; 1 Sam. 12, 12; Neh. 9.

Llefarant gyda'r un eglurder am danynt eu hunain, ac am y rhai oedd â'u cymmeriadau yn debyg o roddi bri ar eu hachos. Rhagddywedodd Moses y buasai yr Iuddewon yn troseddu ei gyfraith ef, ac y buasai prophwyd mwy nag ef yn cyfodi i ddysgu y bobl. Gen. 49, 10; Deut. 18, 15, 18; Act. 7, 38.

Cofnoda gyda phob manylrwydd bechodau y Patriarchiaid,—Gen. 12, 11—13; 20, &c.; pechodau Lefi ei daid, Gen. 49, 5—7; pechodau Aaron ei frawd, a'i feibion hynaf, Exod. 32; Lef. 10; a'i bechodau ei hunan, Num. 20, 12; 27, 12—14; Deut. 32, 51.

Y mae yr efengylwyr, yn yr un ysbryd, yn nodi eu beiau eu hunain, yn nghyd ag eiddo yr apostolion. Math. 26, 31—56; Ioan 10, 6; 16, 32; Math. 8, 10, 26; 15, 16; 16, 7—11; 18, 3; 20, 20. Y mae Marc a Luc yn llefaru yr un mor eglur, Marc 6, 52; 8, 18; 9, 32, 34; 10, 14; 14, 30, 32, 35—45; 16, 14; Luc 8, 24, 25; 9, 40—45; 18, 34; 22, 24; 24, 11. Gyda'r un cywirdeb hefyd y cofnoda yr Ysgrythyr ymostyngiad

[a] Rhuf. 1. 21, 28. [b] Heb 3, 19. [c] Num. 20, 12.
[d] 1 Sam. 2, 29, 30. [e] 2 Sam. 12, 9, (Sal. 51, 4.)
[f] Lef. 10, 1—3, 10. [g] 2 Sam. 6, 7. [h] Act. 12, 23.
[i] 1 Bren. 11, 3—14; 2 Bren. 17, 14—20; 2 Cron. 36, 16, 17; Luc 19, 42—44; Rhuf. 11, 20.
[k] Sal. 104, 10; Jer. 5, 24; Joel 2, 23, 24; Math. 10, 29.
[l] Jer. 17, 7—10; Dan. 4, 35; Jer. 25, 9; Esay 44, 28.

ein Harglwydd, ei ddyoddefiadau, a'i îselder. Math. 27, 46; Heb. 5, 7. Y mae yr apostolion, heb un attaliad, yn cofnodi annhrefn yr eglwysi oedd wedi eu planu ganddynt hwy eu hunain, ac hyd y nod yn ychwanegu fod rhai yn eu mysg wedi bod yn ammeu eu hawdurdod apostolaidd hwy. 1 Cor. 1, 11; 5, 1; 2 Cor. 2, 4; 11, 5—23; 12, 20.

Fel hyn y mae symledd yn hynodi y Beibl, ac yn cymhell i'r meddwl yr argyhoeddiad nad oedd gan ei awdwyr un amcan arall mewn golwg, ond "drwy eglurhad y gwirionedd, ganmawl eu hunain wrth bob cydwybod dynion yn ngolwg Duw." Lowth, ar Fyfyrio yr Ysgrythyr.

201. Ond nis gall unrhyw ddosraniad roddi meddylddrych cywir am foesoldeb y Beibl. Rhaid ei gymharu yn y crynswth âg addysgiaeth arall. Y mae dynion wedi canmawl *direbau* (*maxims*) *o rinwedd*, neu wedi appelio at *syniadau moesol ein natur*, neu wedi ceisio cynnyddu santeiddrwydd drwy *gyfundraethau o foesoldeb*. Ond y mae y rhai hyn oll yn ddiffygiol. Nid yw direbau cyffredin rhinwedd, ond mynegiadau pwyllineb, heb awdurdod na dylanwad. Ein syniadau moesol ydynt yn wylaidd a diflanedig, yn hawdd i'w llygru gan y nwydau cryfion yn nghymmydogaeth pa rai y trigant; a phan fyddo fwyaf o'u hangen, y byddant hwy wanaf; ac y mae cyfundraethau o foesau, fel pob cwrs o ymresymu, yn ymddibynu ar berffeithrwydd ein galluoedd, ac y maent yn ormod o destunau dadl i ddyfod yn gymhellion cryfion i weithrediad santaidd. Y mae yr holl gynlluniau yma, fodd bynag, yn ddiffygiol, am nad ydynt yn gwneyd cyfrif o'n cwymp, ac o'r angenrheidrwydd am ddarparu gogyfer â'n hadferiad. Y mae y Beibl, ar y llaw arall, yn dysgu y Cristion i ddefnyddio yr holl gynnorthwyon hyn, gan osod y cwbl yn ddarostyngedig i'w wersi ef. Dechreua ei waith drwy gydnabyddiaeth o'n dinystr ni, a rhagweliad deallus o'i amcan ei hun: dyga yr enaid i heddwch â Duw, ac âg ef ei hunan; goleua ac addysga y gydwybod; bywha a phura y teimladau; darostynga y nwydau i'r rheswm, y rheswm i gariad, a'r cwbl i Dduw; darpara offerynoliaeth mor ymarferol ac effeithiol a'r gwirioneddau a ddadguddia, ac y mae y rhai yr ymorphwysa arnynt yn annearol a goruchel.

202. Un o'r profion moesol mwyaf anwrthwynebol o Ddwyfol ddechreuad y Beibl yw, cymmeriad Crist. Prawf ydyw, er hyny, sydd i'w deimlo yn hytrach nag i'w ddesgrifio; a bydd ei nerth yn gyfatebol i rym a thuedd y syniad moesol yn y darllenydd. Meddyliau santaidd a phur, a'i teimlant yn fwy nag ereill; a'r rhai sydd, fel Nathaniel, yn "Israeliaid yn wir, yn y rhai nid oes dwyll," a ddywedant fel yntau, "Rabbi, tydi yw Mab Duw, tydi yw brenin Israel."

Y mae tri pheth yn amlwg yn hanes ein Harglwydd:—(1.) Y mae yr holl adroddiad yn rhydd oddiwrth arfoliant. (2.) Y mae y cymmeriad yn hollol anfyfyriol; ysgrifenwyd yr hanes gan ddynion amddifad o ymarferiad, heb ddysgeidiaeth, nac hyawdledd; ac heblaw hyny, (3.) Y mae hyd y nod gelynion yr efengyl wedi methu canfod bai yn nghymmeriad moesol Crist. Appelia yr apostolion at dystiolaeth pob dyn i'w foesoldeb, fel ffaith hynod ac adnabyddus. Yr oedd ei ddysgeidiaeth foesol ei hun yn appeliad o'r un natur; canys pe buasai yn euog o'r ymarferiadau a gondemnia, buasai ei wrandawwyr yn sicr o ganfod hyny, a cheryddu ei annghyssondeb.

Ymddengys oddiwrth yr adnodau canlynol, fod ei santeiddrwydd yn cael ei gydnabod yn gyffredinol:—Ioan 7, 46—51: 8, 46: 10, 32: Math. 26, 59: 27, 23, 24: Luc 23, 13—15: Act. 3, 13, 14: 1 Pedr 2, 21—23.

Dangosir ei dosturi a'i haelfrydedd yn Ioan 4: Luc 9, 55: 10, 30—37: Marc 7, 26, &c.: 10, 13—21: 45—52: Luc 13, 16: 14, 12: 22, 50, 51: Math. 9, 36, &c.: 18, 11, &c. Ei garedigrwydd a'i serch yn Mathew 14, 27—31: Luc 19, 5: 22, 61: Ioan 11: 19, 25—27. Ei larieidd-dra a'i ostyngeiddrwydd yn Math. 9, 28: 18, 22, &c.: 5, 1—12: Luc 22, 24: Ioan 13, 4. Ei wroldeb moesol, ei sefydlogrwydd, a'i ymroddiad, Math. 26, 39—46: Marc 10, 32: Luc 4, 23, &c.: 13, 31, &c.: 18, 29, &c.: Ioan 11, 7: 18, 4, &c. Ei ddidwylledd, a'i gasineb at ragrith ac ymgais am boblogrwydd, yn Math. 6, 1—18: 10, 16—39: 22, 18, &c.: Marc 12, 38—40: Luc 11, 44, &c.: Ioan 16, 1—6. Ei gymmedrolder, a'i amddifadrwydd o sarugrwydd penboeth, Mathew 8, 19: 23, 23: Luc 5, 29—35: Ioan 2, 1, &c: Marc 12, 17.

"Y mae cymmeriad Crist (ebai ysgrifenydd enwog) yn brawf nodedig o Ddwyfoliaeth y Beibl. Nis gall yr Hindw feddwl am ei sant Brahminaidd, ond yn unig fel yn meddu y llwyr-ymattaliad a'r sarugrwydd hwnw a fawrygir ganddo yn ei gynlluniau byw *(living models)*. Socrates Plato sydd gyfansoddedig o elfenau ag ydynt yn ymarferol Roegaidd, gan ei fod yn gymmysgedd o'r rhinweddau hyny a ystyrid yn angenrheidiol er addurno y doethawr. Gellid yn hawdd dynu cynllun o'r dysgawdwr Iuddewig allan o ysgrifeniadau y Rabbiniaid, a byddai yn mhob peth yn cyfateb i'r Ysgrifenyddion a'r Phariseaid a geryddir yn yr efengyl. Ond yn mywyd ein Gwaredwr, arddangosir cymmeriad sydd yn mhob peth yn gwahaniaethu oddiwrth arlun cenedlaethol yr ysgrifenwyr, ac oddiwrth gymmeriad yr holl hen genedloedd; ac y mae yn amrywio oddiwrth yr holl nodweddau yr ymddengys fod arferiad, addysg, crefydd, neu wladgarwch wedi eu cyssegru fel y mwyaf ardderchog. Y mae pedwar o wahanol awdwyr wedi cofnodi gwahanol ffeithiau; ond y maent yn arddangos y meddylddrych, a'r meddylddrych hwnw yn amrywio oddiwrth bob peth oeddynt o'r blaen wedi ei weled neu ei glywed, a rhaid eu bod wedi ei gopïo oddiwrth yr un gwrddrych gwreiddiol. Ac yn mhellach, y cymmeriad gogoneddus yma, tra nad ydyw yn benthycio dim oddiwrth y Groegiad, na'r Indiad, na'r Iuddew, ac er nad oes ganddo ddim yn gyffredin gyda deddfau sefydlog perffeithrwydd, etto y mae yn ngolwg pob credadyn yn gynllun o ragoroldeb. Canlynir ef gan y Groegiad, er nad ydyw yn sylfaenydd yr un o'i sectau; perchir ef gan y Brahmin, er ei fod yn cael ei bregethu gan un yn perthyn i *gaste* y pysgotwyr; ac addolir ef gan y dyn coch o Ganada, er ei fod yn perthyn i'r linach lwydwyn atgas."

203. Y mae un peth etto yn aros o berthynas i foesoldeb y Beibl; sef, effaith ei grefydd ar gymmeriadau dynion. Heblaw fod ffeithiau neillduol yn profi y gwirionedd yma, cydnabyddir yn gyffredin fod athrawiaethau y Beibl yn cyduno â'i orchymynion, a'u bod yn y sylwedd o honynt yn cynnwys cymhellion cryfion i santeiddrwydd. Ar yr egwyddor yma, y mae Fuller yn myned yn mlaen yn ei "Efengyl yn Dyst iddi ei hunan," ac Erskine yn ei draethawd ar y Profion Mewnol. Gwel hefyd 1 Pedr 2, 12.

Cyfyngwn ein hunain, fodd bynag, at ychydig o ffeithiau er eglurhad o'r gwirionedd cyffredin. Y mae effeithiau yr efengyl yn yr oes gyntaf yn dra adnabyddus, a darlunir hwynt yn achlysurol yn yr epistolau. Y mae Paul wedi nodi allan yr hyn a gymmerodd le yn Ephesus a Chorinth,[a] a Phedr a noda yr effeithiau a gynnyrchwyd yn Pontus a Galatia.[b] Mewn oes anfoesol, ac o dan y llywodraethau gwaethaf, Cristionogion (y rhai fuont

[a] 1 Cor. 6, 11; Eph. 4, 19; 2, 1.

[b] 1 Pedr 4, 3.

unwaith heb fod yn well nâ'u cymmydogion) a gyrhaeddasant y fath enwogrwydd mewn rhinwedd, fel nad oes, fe allai, neb erioed wedi rhagori arnynt.

Y mae appeliadau cyffelyb i'w cael yn ysgrifeniadau yr amddiffynwyr boreuol. Canmolir eu rhinweddau gan Clement o Rufain (o. c. 100), yn ei epistol at y Corinthiaid,—"Pwy (ebe fe) sydd erioed wedi byw yn eich plith, ar nad ydyw wedi mawrygu eich duwioldeb sobr a chymmedrol, a mynegu mawredd eich llettygarwch. Yr ydych yn ostyngedig, ac nid yn falch; yn foddlawn i'r bara beunyddiol y mae Duw yn ei roddi i chwi; yn gwrandaw ei air ef gydag astudrwydd, ac yn ymhelaethu mewn cariad." Mae Justin Ferthyr (o. c. 165), yr hwn oedd wedi bod yn athronydd Platonaidd, yn dywedyd yn ei Amddiffyniad, "Nyni, y rhai o'r blaen a ymhyfrydem mewn godineb, ydym yn awr yn cynnal y diweirdeb manylaf; y rhai a ddefnyddiem swynion dewiniaeth ydym wedi ymroddi i wasanaeth y gwir Dduw; ac nyni, y rhai a fuom yn caru arian ac elw yn fwy nâ phob peth arall, ydym yn awr yn bwrw yr hyn sydd genym i drysorfa gyffredin, ac yn rhanu i bob dyn yn ol y byddo ei angenion." Yr ydych chwi (meddai Minucius Felix wrth wrthwynebydd paganaidd) yn cospi drygioni pan *gyflawner* ef; ond yr ydym ni yn dàl ei fod yn bechadurus i feithrin meddwl drwg. A'ch plaid chwi y mae y carcharau wedi eu gorlenwi, ond nid oes yno yr un Cristion, oddieithr ei fod yno fel cyffesydd, neu wrthgiliwr. Hefyd, y mae Tertullian, yr ysgrifenydd eglwysig Lladinaidd cyntaf sydd â'i waith wedi ei drosglwyddo i lawr i ni (o. c. 220), yn gwneuthur appeliad cyffelyb, a llefara am luoedd mawrion yn yr amherodraeth Rufeinig fel yn ddeiliaid y cyfnewidiad yma. Ail-adroddir yr appeliadau yma gan Origen yn ei atebiad i Celsus (o. c. 246); a chan Lactantius, y dysgawdwr o Gaercystenyn (o. c. 325); ac y mae hyd y nod yr Amherawdwr Julian yn arddangos y Cristionogion fel rhai a ddylent gael eu hefelychu gan y paganiaid, ar gyfrif eu cariad at ddyeithriaid, ac at elynion, ac ar gyfrif santeiddrwydd eu bucheddau.

Y dylanwad yma o eiddo yr efengyl a ganfyddid yn foreu yn mysg yr hen genedloedd. Yn Groeg, yr oedd Lycurgus a Solon wedi bod yn cefnogi yr aflendid mwyaf. Yn Rhufain, yr oeddynt yn cael eu cymmeradwyo a'u hymarfer yn gyhoeddus. Yn mysg braidd yr oll o'r hen genedloedd, cymmeradwyir hunanladdiad. Canmolir hi gan Seneca a Phlutarch, Pliny yr Henaf, a Quintilian; a chyfaddefa Gibbon nad ydyw paganiaeth yn cyflwyno un rheswm yn ei herbyn. Yr oedd aberthau dynol ac offrymiad plant yn cael eu caniatâu a'u cymhell. Ond pa le bynag y deuai yr efengyl, yr oedd yn condemnio yr ymarferion hyn, yn eu gwrthwynebu, ac yn y diwedd yn eu difodi. Sicr yw mai nid gwareiddiad a'u diddymodd, oblegid cedwid hwynt i fyny gan genedloedd llawer mwy coethedig nâ'r Cristionogion; ac y mae eu difodiad, bob amser, wedi ei ddwyn yn mlaen, nid yn ol cynnydd goleuni dynol, ond yn ol llwyddiant gwirionedd Dwyfol.

Cynnorthwyo yr angenus, a gofalu am y tlawd, ydynt neillduolion a berthynant braidd yn hollol i genedloedd Cristionogol. Nid oedd yn Nghaercystenyn gymmaint ag un adeilad elusengar cyn cyflwyniad yr efengyl yno, ac ni fu y fath adeilad erioed yn hen ddinas Rhufain. Ar ol cyflwyniad Cristionogaeth, fodd bynag, yr oedd yn y blaenaf o'r dinasoedd yma fwy nâ deg ar hugain o adeiladau i dderbyn yr amddifaid, y cleifion, y dyeithriaid, yr hen, a'r tlawd. Ac yn Rhufain yr oedd pump ar hugain o dai mawr wedi eu neillduo i'r un amcan. Gyda'r un sicrwydd hefyd y

gellir profi fod yr efengyl wedi diddymu amlwreigiaeth, lleihau dychrynfeydd rhyfel, prynu caethion, rhyddhau carcharorion, attal ysbryd gormes, a diwyllio deddfau cenedloedd barbaraidd. Gibbon a ddywed, "Rhaid i wirionedd a thegwch gydnabod fod argyhoeddiad y cenedloedd hyn wedi cyfranu llawer o fendithion i'r Hen Fyd yn gystal ag i'r Newydd,—wedi attal llwyr ddiflaniad llênyddiaeth, wedi lleddfu creulondeb yr amseroedd, wedi cysgodi y tlawd a'r diymgeledd, ac wedi cadw ac adfywio heddwch a threfn cymdeithas wladol."[a]

Fel y mae rhagluniaeth Duw i'w chanfod, gan hyny, yn nghadwraeth y Beibl, felly hefyd y mae ei ras i'w ganfod yn ei heffeithiau; ac y mae yr effeithiau hyny yn dwyn tystiolaeth gref i Ddwyfoldeb ei ddechreuad, 1 Thes. 1, 4—10; Gal. 5, 22.

204. Nid oes unrhyw waith yn rhoddi golwg well ar angen dyn am yr efengyl nag eiddo Leland, "*Ar y Fantais a'r Angenrheidrwydd o Ddadguddiad Cristionogol,*" yn cael ei ddangos oddiwrth sefyllfa crefydd yn yr hen fyd paganaidd, gyda golwg ar wybodaeth ac addoliad yr unig wir Dduw, rheol dyledswydd foesol, yn nghyd â sefyllfa ddyfodol o wobrwyon a chospedigaethau. Dengys yn eglur fod desgrifiadau y Beibl o gyflwr y Cenedloedd yn wirionedd i'r llythyren, fod eilun-addoliaeth yn casglu nerth yn eu plith yn ol fel y tyfent hwy mewn coethder, fod yr hen athronwyr yn drwyadl gamsyniol yn egwyddorion cyntaf moesoldeb, fod y cyfundraethau goreu yn druenus o ddiffygiol, a bod yr holl reolau yn amddifad o eglurder ac awdurdod; gyda golwg ar fywyd dyfodol, yr oedd y rhan fwyaf yn ei wadu, ac o'r rhai a broffesent grediniaeth ynddo, nid oedd neb yn rhoddi iddo bwys priodol na rhesymol.

205. Anmhosibl helaethu ar y rhan hono o brofion Ysgrythyrol a elwir cyssondeb gwirionedd dadguddiedig: ac y mae y pwnc wedi cael ei drin yn gyflawn gan amrywiol ysgrifenwyr.

Y mae gweithiau y Dr. Kidder, ac eiddo Dr. W. L. Alexander, yn ddyddorawl ar gyssondeb y *goruchwyliaethau.*

Ar y cytundeb rhwng *athrawiaethau,* a neillduolion y Beibl, a ffeithiau mewn *Natur,* y mae Cyssondeb (*Analogy*) yr Esgob Butler yn anefelydd.

Ar y cyd-darawiad rhwng *hanesyddiaeth gyffredin a chyssegredig,* gellir gyda boddlonrwydd chwilio gweithiau Bryant, Lardner, Gray, Prideaux, Shuckford, a Russell.

Am gyd-darawiadau o natur fanwl ac ystadegol rhwng *daearyddiaeth* a *hanes naturiol* Palestina, gellir cael cyflawnder o ddefnyddiau yn ngweithiau Harmer, Clarke, a Keith.

Am y cyssondeb rhwng gwahanol ranau yr *Ysgrythyr* ei hunan, gellir cael llawer o gyfarwyddyd yn ngweithiau Graves, Blunt, Paley, a Birks.[b]

Yn ddiau y mae y cyd-darawiadau yma yn aneirif, ac wedi eu gwasgaru drwy holl ranau yr Ysgrythyr. Ymddengys rhai o honynt yn dra dibwys, fel pan ddywedir i'n Harglwydd fyned i *lawr* o Nazareth i Gapernaum; ac y mae y Dr. Clarke yn nodi allan berffeithrwydd cyssondeb yr ymadrodd â daearyddiaeth y parth hwnw. Y mae ereill yn nodedig o effeithiol, fel pan ddywedir fod gwaed a dwfr wedi dyfod allan o ystlys Iesu; ac y mae awdurdodau meddygol yn cadarnhau, os bydd y galon wedi ei thrywanu

[a] Hanes Gibbon, pen. 55. Am gasgliad helaeth o ffeithiau cyffelyb, gwel Ryan ar Effeithiau Crefydd.

[b] Gwel yr argraffiad o Brofion Paley, gyda nodiadau, gan Birks; hefyd Horæ Paulinæ Paley, yn nghyd a Horæ Apostolicæ, gan Birks, cyhoeddedig gan Gymdeithas y Traethodau Crefyddol.

neu ei thòri, y daw gwaed a dwfr allan o'r archoll. Ereill ydynt yn *feirniadol*, fel pan ddywedir nas gallasai unrhyw ysgrifenwyr adnabyddus ysgrifenu yn ieithwedd llyfrau y Beibl, ar unrhyw amser ar ol dinystr Jerusalem; ac nas gallasai yr amrywiol lyfrau yma gael eu hysgrifenu ar unrhyw *un* amser. Y maent, y tu hwnt i bob dadl, yn weithiau gwahanol awdwyr a gwahanol oesau. Y mae rhai yn *hanesyddol*, fel pan nodir fod yr holl ysgrifenwyr, ar ol amser yr apostolion, yn arfer yr enw Cristionogion i ddynodi canlynwyr Crist, enw, nad yw un amser yn y Testament Newydd yn cael ei gymhwyso gan Gristionogion at eu gilydd. Y mae hyd y nod yr enwau—"etholedig" a "ffyddlawn," y rhai a ddefnyddir gan yr apostolion, yn arwyddo fod y grefydd newydd yn berffeithiad o'r hen. Y mae rhai yn *grefyddol*, hyny yw, wedi eu sefydlu ar neillduolion y gyfundraeth grefyddol ddadguddiedig, fel pan ddywedir mai crefydd y Testament Newydd yn unig sydd yn gadael allan yr *un* ordinhad a fuasai yn naturiol a chymmeradwy gan Iuddewon a Phaganiaid, sef offrymu aberthau anifeilaidd. Y mae gadawiad hyn allan yn addysgiadol. Y mae effaith y cwbl yn dra argraffiadol, ac y mae ynddo ei hunan yn brawf sylweddol o wirionedd yr hanes, a gonestrwydd yr awdwyr.

Gellir casglu rhyw feddylddrych am Horæ Paulinæ Paley drwy chwilio yr adnodau canlynol; y gynsail yw, fod y llyfrau a ddyfynir wedi eu hysgrifenu naill ai gan wahanol awdwyr, neu ar wahanol amserau, a chyda dybenion hollol wahanol.

Rhuf. 15, 25, 26.	Act. 20, 2, 3; 21, 17; 24, 17—19; 1 Cor. 16, 1—4; 2 Cor. 8, 1—4; 9, 2.
Rhuf. 16, 21—24.	Act. 20, 4.
Rhuf. 1, 13; 15, 23, 24.	Act. 19, 21.
1 Cor. 4, 17—19.	Act. 19, 21, 22.
1 Cor. 16, 10, 11.	Act. 19, 21; 1 Tim. 4, 12.
1 Cor. 1, 12; 3, 6.	Act. 18, 27, 28; 19, 1.
1 Cor. 9, 20.	Act. 16, 3; 21, 23, 26.
1 Cor. 1, 14—17.	Act. 18, 8; Rhuf. 16, 23; 1 Cor. 16, 15.

Dichon y byddai un enghraifft yn fwy tarawiadol etto. Barnabas, yr hwn a werthodd ei feddiant, ac a osododd yr arian wrth draed yr apostolion, oedd (fel y dywedir wrthym), yn frodor o Cyprus (Act. 4, 36, 37). Dywedir wrthym hefyd, yn hollol ddamweiniol, fod Marc yn nai iddo (Col. 4, 10). Cymharer y ffeithiau hyn â'r adnodau canlynol (lle y dywedir i Ioan Marc fyned cyn belled a Cyprus, ei wlad enedigol, ac iddo yn fuan ymuno â'i fam yn Jerusalem, er anfoddlonrwydd mawr i Paul), ac mor nodedig yw cyssondeb y cyfan; 1 Cor. 9, 6, 7; Act. 11, 20, 22; 13, 4; 15, 37, 39; a 13, 13. Y mae y cyssondeb sydd yn rhedeg drwy bob peth perthynol i Barnabas o hono ei hunan (medd Mr. Blunt), yn ddigon i brofi llyfr yr Actau yn hanes o berffaith ffyddlondeb. Gwel Horæ Apostolicæ Birks, cyhoeddedig gan Gymdeithas y Traethodau Crefyddol. Cymharer, yn yr un modd, derfyniad disymmwth yr hanes yn Act. 8, 40, ac Act. 21, 8, 9.

206. Ond yn ychwanegol at brofion moesol yr Ysgrythyr—profion yn cael eu hawgrymu gan foesoldeb y Testament Newydd, gan gymmeriad ein Harglwydd, gan degwch, didwylder, a hunan-ymwadiad y Cristionogion cyntaf, a chan brydferthwch moesol egwyddorion Cristionogol, fel yr eglurir hwynt yn mywydau credinwyr cysson, y mae profion ysbrydol uniongyrchol yn bodoli. Y profion yma a werthfawrogir mewn rhan gan y deall,

ond yn llawer mwy felly gan y galon a'r gydwybod. Cyn belled ag yr ymdrinia â dyn, fel y mae yr efengyl yn ei *gael*, appelia yn gyffelyb at bawb; cyn belled ag yr ymdrinia â dyn, fel y mae yr efengyl yn ei *ffurfio*, appelia yn unig at y *credadyn*. Cyfeiria yr apostol at y rhan gyntaf o'r prawf yma yn 1 Cor. 14, 23—25; ac at yr ail yn Rhuf. 8, 16; 1 Ioan 5, 20.

207. Y prawf hwn sydd gynnwysedig, mewn rhan, yn y cytundeb sydd rhwng yr hyn y teimla y pechadur argyhoeddedig ei hun a'r hyn y mynega y Beibl ei fod. Yr efengyl a gyhoedda hollol lygriad y natur ddynol. Llefara, nid yn unig am weithredoedd camweddus, ond am annuwioldeb yn arferiad dwfn a greddfol yn yr enaid, ac am yr angenrheidrwydd o gyflawn adnewyddiad. Pe teimlid fod y desgrifiad hwn yn annghywir; pe byddai dyn yn ymwybodol o hyfrydwch mewn darostwng ei ewyllys i ewyllys Duw, ac mewn ufyddhau i orchymynion sydd yn ceryddu ei hunanoldeb a'i falchder, yna gallai ar unwaith annghredu gwirionedd yr efengyl. Ond pan y mae efe yn cael fod y desgrifiad yn cyfateb i'w gyflwr ef ei hun, a bod pob ymgais at chwilio yn fanylach yn dadguddio iddo berffeithrwydd y cydundeb hwn, y mae ynddo ef ei hunan brawf o wirionedd y genadwri.

208. Ail radd y prawf sydd wedi ei gyrhaedd pan fyddo dyn yn cael allan fod darpariadau yr efengyl wedi eu cyfaddasu i'w gyflwr ef. Mae ef yn euog, ac eisieu maddeuant arno. Mae ef yn llygredig, ac eisieu santeiddrwydd arno. Amgylchynir ef â themtasiynau, ac y mae eisieu nerth arno. Mae yn byw mewn byd o ofid a chyfnewidiad, ac y mae arno eisieu rhan mwy digonol nâ all y byd roddi iddo. Mae efe yn marw, yn brawychu rhag angeu, ac yn hiraethu am ddadguddiad eglur o fywyd arall. A chyfarfydda yr efengyl â'r holl angenrheidiau hyn. Cyhoeddiad ydyw o faddeuant i'r euog, o santeiddrwydd i'r aflan edifeiriol, o dangnefedd i'r profedig, ac o fywyd i'r cyfryw a eisteddant yn mro a chysgod angeu.

209. A chyda fod perffaith gyfaddasiad i angen dynoliaeth, nid llai tarawiadol yw y cydundeb rhwng y desgrifiad a roddir yn yr efengyl o'i effeithiau, a phrofiad y Cristion. Yr effeithiau o grediniaeth o'r gwirionedd a ddesgrifir drosodd a throsodd yn yr Ysgrythyr. Pob addewid sydd ragfynegiad, yn derbyn cyflawniad dyddiol. Edifeirwch a'i ffrwythau; ufydd-dod ffydd a'r cynnyddol oleuni a'r tangnefedd a rodda; nerth gweddi; dylanwad gwirionedd Cristionogol ar y deall, y galon, a'r cymmeriad; ymdrechfeydd, buddugoliaethau, a gorchfygiadau hyd y nod y bywyd newydd, a ddesgrifir oll, ac a gyfansoddant brawf ymarferol o'r radd uchaf; prawf a gynnydda gyda'n cynnydd ni, ac a luosoga gyda phob cam a roddwn mewn gwybodaeth a chariad at y gwirionedd. Ni allasai y fath drylwyr wellediad i'n cyflwr moesol, a'r fath wybodaeth o'r cyfnewidiadau, y rhai mae gwirionedd crefyddol yn gyfaddasedig i'w cynnyrchu, byth ddeillio o ddoethineb ddynol; a phrofant mai Duw ei hunan yw awdwr y llyfr yn yr hwn y dadlenir y fath ansoddau.

210. Yr ydym, beth bynag, yn ail ddywedyd y rhybydd, fod y prawf hwn gan mwyaf yn werthfawr er cadarnhad ffydd y Cristion; canys ni werthfawrogir ef, ac ni ddeallir ef gan neb arall. I'r cyfryw, beth bynag, mae y prawf hwn mor gryf, fel y mae yn aml yn rhagori ar bob un arall. Nid oes ond ychydig o ddyddordeb i'r Cristion yn yr hen ddadl rhwng Cristionogaeth ac Anffyddiaeth; mae efe eisoes yn teimlo y gwirionedd, yr hwn y mae profion yn ceisio yn unig ei gynnal; ymddengys yn afreidiol i ddadleu gwiredd y peth y mae efe eisoes yn ei fwynhau; y mae ganddo ef "y dystiolaeth ynddo ei hun."

211. Gellir chwanegu hefyd, nad yw y prawf yn dibynu cymmaint ar Gristionogaeth, fel y mae yn gyfaddasedig i'n hangenion, ag y mae ar Gristionogaeth wedi ei chyfaddasu i hyrwyddo ein santeiddrwydd. Pan yr ymddangosodd Crist, yr Iuddewon a deimlent angen gwaredwr daearol. Ni fynent un amser Fessiah a wnai y cenedloedd yn gyd-etifeddion.

Cyfundraeth Mohammed etto aydd wedi ei chyfaddasu gyda medrusrwydd mawr i ddymuniadau pobl anianol, llygredig-feddwl, ac uchelfrydig. Yr Hindŵaid a lynant wrth grefydd sydd yn amddifad o brofion, oblegid ei bod yn gyfaddasedig i'w chwaeth hwy. Yr enghreifftiau hyn, beth bynag, ydynt dra gwahanol i achos Cristionogaeth; daeth atom ni heb fod yn gydffurf â'n tueddiadau naturiol, ond yn ceisio eu cydffurfio hwy â hi ei hunan; a phan y dechreua y gwaith hwn, y pryd hwnw yn unig y mae ei chyfaddasiad yn dyfod i'r golwg.

Y cenedloedd paganaidd a chwiliasant am grefydd wedi ei chydffurfio â'u tueddiadau llygredig eu hunain; ac wedi ei chael hi, hwy a'i cofleidiasant ac a'i credasant. Cyfundraethau paganaidd ydynt wedi eu cyfaddasu at ddyn fel y mae, ac fel y dymuna fod pan etto mewn cariad â phechod; yr efengyl sydd wedi ei chyfaddasu at ddyn fel y mae, ac fel y dylai fod. Paganiaeth sydd gyfaddasiad cyfundraeth lygredig at natur lygredig; yr efengyl sydd gyfaddasiad cyfundraeth fywhäol at natur sydd ag eisieu ei hadnewyddu. Y gyntaf a geisia gydffurfio ei dysgeidiaeth â'n harchwaeth ni; yr ail a geisia gydffurfio ein harchwaeth ni â'i dysgeidiaeth hi. A phan y mae y cydffurfiad olaf yma yn myned yn mlaen, y mae gan y credadyn brawf o'r gwirionedd. Pan y mae yn credu, mae ganddo obaith ffydd; yna daw gobaith profiad—profiad wedi ei seilio ar ddylanwad santeiddiol cariad Duw. Rhuf. 5, 2—5.

Mae dau lwybr yn agored i'r physigwr yr ymddiriedwyd gwellhad rhyw glefyd marwol iddo. Gall drin yr arwyddion, neu gall drin y clefyd ei hunan. Os mewn achos o dwymyn, y mae yn awyddus yn unig i dòri syched y claf, neu yn y parlys-mud i gyffroi y cyfansoddiad, gellir dywedyd fod ei driniaeth wedi ei chyfaddasu i angenion y dyoddefydd; ond nid yw hyny yn debyg o'i adferu. Cyfundraeth well a drinia y clefyd, a'r feddyginiaeth hono ydyw yr un briodol sydd wedi ei chyfaddasu i'w symud ymaith. Y prawf o ddaioni y feddyginiaeth yw, nid ei blasusrwydd, neu ei gallu i loni, ond gwelliant diysgog a pharhaus y claf; tystiolaeth wedi ei seilio ar ymarferiad, ac yn cadarnhau llawer ar y rhesymau hyny, y rhai yn wreiddiol a barasant iddo ef wneuthur defnydd o honi. Ac felly am yr efengyl. Gall loni a gall foddio y chwaeth; ond y prawf o'i gwirionedd, ac o'i bod yn cael ei derbyn yn wirioneddol, yw ei thueddiad i hyrwyddo ein santeiddrwydd.

212. Beth, gan hyny, yw rheswm ein gobaith? sydd ofyniad y gall pob ymofynydd ei ofyn a'i ateb. Nis gellir dysgwyl i neb roddi pob atebiad sydd ddichonadwy i'r gofyniad, oblegid ymchwiliad cyflawn i brofion Cristionogaeth a gymmerai i fyny oes gyfan; ond hawdd yw rhoddi y cyfryw atebiad ag a gyflawnha ein ffydd ni. Cristionogaeth, a'r llyfrau Cristionogol ydynt yn bod, ac wedi bod am ddeunaw cant o flynyddoedd. Ysgrifenwyr Cristionogol a chyffredin (*profane*) a gydunant yn yr addefiad hwn. Sylfaenydd mawr ein ffydd a wnaeth wyrthiau yn broffesedig er profi ei ddanfoniad, ac a roddodd yr un awdurdod i'r apostolion. Hwynt oll a ddyoddefasant yn arw, a'r rhan fwyaf o honynt a fuont feirw er tystiolaeth o'u crediniaeth yn y gwirioneddau a'r ffeithiau a gyhoeddasant. Y ffeithiau hyn, a'r gwirioneddau seiliedig arnynt, a gofleidiwyd gan yr apos-

tolion a'r Cristionogion cyntefig er gwaethaf dylanwad gwrthwynebol y cyfundraethau crefyddol, yn y rhai y magesid hwynt.

Cymmeriad a hanes Sylfaenydd y ffydd a ragfynegwyd gannoedd o flynyddoedd cyn hyn yn yr Ysgrythyrau Iuddewaidd. Efe a ddysgai y moesoldeb puraf. Rhagfynegodd ef ei hun lawer o bethau, a chyflawnwyd hwynt. Ei athrawiaethau a gyfnewidiasant gymmeriad y rhai hyny a'u derbyniasant, a dynerasant ac a wareiddiasant genedloedd henafol, ac y maent wedi bod yn mhob man y dylanwadau cryfaf yn hanesiaeth yr hil ddynol. Hawliant eu tarddiad oddiwrth Dduw, a chynnaliant eu hawl trwy brofion aneirif; a rhaid i ni gyfaddef eu bod oddiwrth Dduw, neu eu priodoli i ysbryd o'r twyll gwyrthiol a chymmwynasgar. Chwaneger at hyn oll fod gan yr hwn sydd yn eu derbyn dystiolaeth chwanegol ynddo ei hun o'u tarddiad a'u santeiddrwydd, ac y gall ddywedyd oddiar brofiad, "Ac a wyddom ddyfod Mab Duw, ac efe a roes i ni feddwl fel yr adnabyddom yr Hwn sydd gywir. Ac yr ydym ni yn y Cywir hwnw, sef yn ei fab ef Iesu Grist. Hwn yw y gwir Dduw a'r bywyd tragywyddol." 1 Ioan 5, 20.

Nid yw y ffeithiau hyn yn anamlwg, ond yn hygyrch i bawb, ac yn ddealladwy i'r gwanaf. Mae *un ran* o'r prawf hwn yn aml yn ddigonol i'r ymofynydd diduedd; nid oes un gyfundraeth grefyddol arall wedi ei seilio ar wyrthiau a phrophwydoliaeth, nac yn amlygu cymmaint o santeiddrwydd a chariad. Mae *yr holl brawf cynhlethedig*, yn benderfynol ac anwrthwynebadwy.

213. Ac etto, mewn perthynas i'r profion hyn, y mae llawer o annghrediniaeth yn mhlith ymofynwyr a Christionogion proffesedig. Mae annghrediniaeth yn mhlith ymofynwyr o herwydd diffyg didwylledd, a pharodrwydd i ddysgu; ffaith ag sydd ei hun yn brawf o wirionedd yr Ysgrythyr, ac yn gysson â thrafodiaeth gyffredinol Duw. Ysgafader, neu ragfarn, neu ddiofalwch mewn bywyd cyffredin, yn fynych a arweinia ddynion ar gyfeiliorn, ac a'u gwna yn analluog i wybod pa beth sydd ddoeth neu wir. Ac y mae yr Ysgrythyr wedi mynegu yn bendant, na chaiff y rhai hyny nad ydynt yn caru gwirionedd ddeall gwirionedd. Mor ddwys y teimlodd Grotius y meddwl hwn, fel yr ystyriodd brofion Cristionogaeth, fel hi ei hunan, yn brofion o Ddwyfol darddiad yr efengyl, yn Ddwyfol gyfaddasedig i brofi cymmeriad a chalonau dynion.

De Verit, ii., adr. 19. Gwel hefyd Dan. 12, 10; Esay. 29, 13, 14: Math. 6, 23; 11, 25; 13, 11, 12; Ioan 3, 19; 1 Cor. 2, 14; 2 Cor. 4, 4; 2 Tim. 3, 13.

Mae diffyg ymddiried yn nghyflawnder y profion Cristionogol yn mhlith Cristionogion proffesedig hefyd, ac, mewn canlyniad, diffyg ymofyniad. Addefa Baxter ei fod yn ei ieuenctyd yn cael ei boeni o berthynas i'w ddidwylledd ei hun, ond yn ei ddyddiau diweddaf profid ef âg ammheuon yn nghylch gwirionedd yr Ysgrythyr. Ymchwiliad manylach, fodd bynag, a'u bwriodd hwynt ymaith. Y prawf mwyaf penderfynol a gafodd efe, ydoedd y mewnol: megys yr un a darddai oddiwrth dystiolaeth Ysbryd Duw a'i ysbryd ef ei hun. "Ysbryd prophwydoliaeth," ebe fe, "oedd y cyntaf; ysbryd gallu gwyrthiol ydoedd yr ail; ac yn awr," meddai, "mae genym ysbryd adnewyddiad a santeiddrwydd." "Bydded i Gristionogion, gan hyny," efe a ychwanegai, "hysbysu eu hammheuon, a chwilio i mewn i brofion Dwyfol wirionedd, canys y mae digon o ddarpariadau ar gyfer eu symud oll."

Gellir chwalu y rhan amlaf o'r ammheuon a deimla dynion da yn y

modd hyn. Ereill, gan mwyaf yn ddychymmygol, a allant aros; ac nid ydynt i'w chwalu hyd y nod drwy y profion goreu. Ond y mae i'r rhai hyn wellhad. Nis gall athroniaeth eu gwasgaru; ond gall gweddi ac ymarferiad iachus mewn gwahanol ranau o fywyd Cristionogol, lle nad yw ammheuaeth yn cyrhaedd, wneuthur hyny; neu, a bod y meddyginiaethau hyn yn methu, dysgant ni i feddwl llai am eu pwysigrwydd, ac i aros yn amyneddgar am oleuni dysgleiriach. Mae ein natur ni yn amrywiog, a gellir yn aml wella anweithgarwch un ran trwy gynnyddu bywiogrwydd rhan arall. Ffydd sigledig sydd arwydd o ddiffyg bywiogrwydd mewn man arall, ac a iachëir oreu trwy dalu sylw mwy diysgog i ddyledswydd ymarferol. Anhawsderau nas gall un ymchwiliad eu symud a doddant ymaith yn aml o flaen y gwres a'r bywiogrwydd a gynnyrchir gan gariad gweithgar.

PENNOD III.

Neilldduolion y Beibl fel Dadguddiad oddiwrth Dduw.

"Mae cariad dyn at yr Ysgrythyr ar ddechreuad gyrfa grefyddol yn gyfryw, fel y gwna y ganmoliaeth a rydd Cristionegion henach i'r Beibl ymddangos yn ormodol; ond ar ol ugain neu ddeng mlynedd ar hugain o fywyd crefyddol, mae y cyfryw ganmoliaeth bob amser yn seinio yn annghyfatebol. Mae ei brydferthion yn ymddangos gymmaint yn fwy cyflawn nag yr ymddangosent ar y cyntaf."—Dr. Arnold.

"Chwilio am Dduwinyddiaeth mewn Athroniaeth yw chwilio am y byw yn mhlith y meirw; felly chwilio am Athroniaeth mewn Duwinyddiaeth yw chwilio am y marw yn mhlith y byw."—Bacon, *Advancement of Learning*.

"Yr Hen Destament a'r Testament Newydd ni chynnwysant ond un gyfundraeth o grefydd. Nis gellir dealt un ran heb y rhan arall. Maent fel y rholiau ar y rhai yr ysgrifenid hwynt gynt. Un testun sydd o'r dechreu i'r diwedd; ond y mae yr olwg a gawn ni arno ef yn cynnyddu yn amlycach amlycach fel yr agorwn ni y rhol ar yr hon y mae yn ysgrifenedig."—Cecil.

Dos. 1. *Dadguddiad o Dduw, ac o'r Natur Ddynol.*

214. Mae amryw olygiadau yn y rhai y gellid edrych ar yr Ysgrythyr. Y pwysicaf yw y golygiad hwnw a'i harddengys fel dadguddiad o Dduw a dyn: o Dduw yn ei berthynas â dyn, o ddyn yn ei berthynas â Duw: ac o'r ddau yn eu perthynas â gwaith a swydd ein Harglwydd.

215. Yr Ysgrythyr sydd ddadguddiad o Dduw, o'i gymmeriad a'i ewyllys. Mae'r ewyllys hono, mae yn wir, wedi ei hysgrifenu ar weithredoedd ei ddwylaw, ac yn eglurach ar gyfansoddiad dyn; ond yn y Beibl yn unig y mae yr adysgrif yn gyflawn, ac yno yn unig y cedwir hi rhag anmharu.

216. Neu, gyda'r un cywirdeb, gellir desgrifio yr oll fel arddangosiad o'r natur ddynol mewn personau, ac mewn cenedloedd dan bob ffurf o *ddadenhuddiad;* santaidd, temtiedig, syrthiedig, dirywiedig, yn brynedig, yn credu, yn gwrthod y ffydd, yn ymdrechu, yn fudugoliaethus, ac yn gyflawn. Y Beibl a ddechreua gyda dyn yn ngardd Eden, gyda'i Wneuthurwr

fel ei gyfaill; ac ar ol hanes rhyfedd, arddengys ef drachefn yn yr un gymdeithas, er nad mwyach ar y ddacar neu yn mharadwys, ond yn y nef. Yr oll o wynfydedigrwydd fforffetiedig wedi ei ennill yn ol trwy ymgnawdoliad, a dyoddefaint Mab Duw.

217. Yn fwy cyffredinol etto, gellid desgrifio y Beibl fel ystorfa o ffeithiau a dyledswyddau, ac o bob gwirionedd ysbrydol. Mae yn rhoddi hanes gwironeddol o'r byd, ac o'r amseroedd henaf, ar ba rai mae ysgrifeniadau dynol yn ddystaw, neu wedi eu llenwi â chwedlau; achlysur a chanlyniadau uniongyrchol y pechod cyntaf; tarddiad cenedloedd, ac amrywiaeth ieithoedd. Fel hyn yr ydym yn dilyn llwybriad *(progress)*, ac yn nodi unffurfiaeth yr egwyddorion hyny ar ba rai mae dynion wedi eu llywyddu o'r dechreuad, a'r oll o honynt yn dwyn tystiolaeth i ddoethineb a santeiddrwydd Duw, ac i drugarogrwydd y weinyddiaeth Ddwyfol. Yr ydym yn dilyn llwybriad a dadenhuddiad y natur ddynol, ac o drefn iachawdwriaeth; y gyntaf yn cael ei dangos yn mhob amrywiaeth sefyllfa ag sydd bosibl, a'r ail, yn dylanwadu ar holl weithredoedd Duw, wedi ei pherffeithio yn Nghrist, ac yn arddangosedig yn yr efengyl. Mewn gair, yr ydym yn cael fod y pynciau mawrion (pa un ai o ffaith neu o ddyledswydd) a gawsant sylw y doethaf o ddynion, wedi eu penderfynu trwy awdurdod, ac ar egwyddorion nad ydynt yn galw am, nac yn caniatâu appeliad. Mae genym benderfyniadau y Duw anfeidrol ddoeth wedi eu rhoddi i ni, fel sylfaen ein barnau a'n gweithredoedd, a'i addewid fel sylfaen ein gobaith.

218. Nid yw y gofyniadau hyn, gan hyny, yn anmhriodol mewn un ran o'r Beibl:—Pa beth a ddysga i ni am ddyn? neu am Dduw? neu am drefn fawr iachawdwriaeth? neu am adferiad y natur ddynol i'w mawrhydi a'i gwynfydedigrwydd cyntefig?

Dos. 2. *Y Beibl yn Ddadguddiad o Wirionedd Crefyddol Ysbrydol.*

219. Os cedwir mewn cof yr olwg yma ar bwnc y Beibl,—Duw yn ei berthynas â dyn, a dyn yn ei berthynas â Duw, a Duw a dyn yn eu perthynas â gwaith a swydd ein Harglwydd,—eglurir un neillduolrwydd o eiddo yr Ysgrythyr, sef ei chyflawnder a'i byrdra.

Rhydd hanes y byd, fel "byd Duw," ac fel y mae wedi ei arfaethu i ddyfod yn deyrnas i'w Fab. Dywed wrthym am ei ddechreuad, fel y gwybyddom, wrth yr hyn a wnaeth Duw, y parch dyledus iddo; beth yw ei allu Ef, cyfraith yr hwn y mae y llyfr hwn wedi ei dadguddio; creaduriaid yr hwn ydym ni, fel y gwahaniaethom ef oddiwrth eilunod y paganiaid, y rhai ydynt bethau dychymmygol, neu ranau o'i greadigaeth ef.

Ymddengys fod holl hanesiaeth ddilynol y Beibl wedi ei hysgrifenu ar yr un egwyddor. Hanesiaeth ysbrydoledig o grefydd ydyw (dyn yn ei berthynas â Duw), ac o bethau ereill, megys y dylanwadant arni. Cenedloedd eilun-addolgar a ddygir i sylw, nid am eu bod o bwys annibynol, ond am eu bod yn dylanwadu ar yr eglwys, neu am y dylanwedir arnynt hwy gan yr eglwys; ac felly, mae hanes a phrophwydoliaeth yn parhau o'r trosedd cyntaf, trwy holl ystod trueni ac euogrwydd dyn, hyd gyfnod y lleferir am dano mewn llawer dull dan y ddwy oruchwyliaeth, pryd "y cyfyd Duw y nefoedd freiniaeth, yr hon ni ddistrywir byth." Dan. 2, 44.

Y mae fod y mynegiadau hanesyddol hyn yn rhoddi digon o faterion i chwilio i mewn iddynt, neu (pe byddent anwireddus) i'w gwrthbrofi; ac y mae eu bod heb eu gwrthbrofi erioed, yn dangos yn eglur fod eu henaf-

iaeth a'u helaethrwydd yn goelbrofion cryfion o wiredd yr Ysgrythyr ;[a] ond egwyddor detholiad, ac amcan amlwg y cyfan sydd dan sylw yn bresenol. Trosglwyddo gwirionedd crefyddol yw amcan amlwg yr awdwr. Pa beth bynag sydd wedi ei ddadguddio sydd raid ei astudio â'r ffaith hon mewn golwg; a pha beth bynag sydd heb ei ddadguddio a ellir ei ystyried yn anhanfodol i gyflawniad yr amcan hwn.

220. Cofier hefyd, mai Duw fel yn *santeidd* yn ei berthynas â dyn fel *pechadur*, a Duw a dyn yn eu perthynas â Christ fel y Gwaredwr, sydd yn ffurfio pwnc mawr yr Ysgrythyr; a bod yr hyn a ddywedir wrthym â chyfeiriad at y berthynas sydd rhwng y cyfryw fodau.

Cymmerer er enghraifft hanes y trosedd cyntaf. Amcan hanes y cwymp sydd ddiau yn foesol. Dengys y modd y mae temtasiwn yn gweithio, a chyfeiria ein meddyliau at yr Iachawdwr. Craffwn ar yr argyhoeddiad o ddyledswydd, ar y myfyrdod o'r pleser yr hwn y gall pechod ei gynnyrchu, marweidd-dra canlynol cydwybod, a'r gobaith y gellir boddloni y tueddfryd, ac etto osgöi cospedigaeth, dymuniad yn cynnyddu, nwyd yn gryfach, cydwybod yn myned yn wanach, nes o'r diwedd yr ewyllys a ennillir, a'r weithred a gyflawnir. Y mae pob pechod yn gyffelyb. Felly y mae gwers *foesol* y cwymp yn gyflawn, er fod llawer yn guddiedig.

Rhanau dilynol o'r Ysgrythyr ydynt wedi eu hysgrifenu ar yr un egwyddor. Yn hanes Cain, ac yn nghynnydd buan drygioni, yr ydym yn sylwi ar ganlyniadau pechod, ac oddiwrth y diluw yr ydym yn dysgu pa mor ddwfn y syrthiodd dyn. Ac etto, y mae pob dangosiad o anfoddlonrwydd Duw wedi ei dymheru yn y fath fodd gyda thrugaredd fel ag i'n parotoi ni i dderbyn y gwirionedd deublyg, fod Duw wedi darparu Gwaredwr i'n hadferu i ffafr Ddwyfol, a Santeiddydd i'n hadnewyddu i santeiddrwydd, a bod dyn mewn angen o'r ddau. O hyn y mae, fod yn nghanol yr holl ddrygioni hyn ffeithiau wedi eu cofnodi, y rhai a ddaliant allan obaith am adferiad, ac hyd y nod a rag-gysgodant y moddion i'w sicrhau. Yn Abel, a Seth, ac Enoch, a Noah, yr ydym yn cael ffydd yn yr addewid Ddwyfol; ac, o ganlyniad, santeiddrwydd. Hwy "a alwasant ar enw yr Arglwydd." Hwy "a offrymasant aberth rhagorach" nâ'u cymmydogion annuwiol, yr hyn a ddengys ar unwaith eu rhwymau a'u heuogrwydd; hwy "a rodiasant gyda Duw."

Fel yr adboblogir y byd, gwelir pechadurusrwydd dynol mewn dulliau ereill. Dynion a wasgerir dros y ddaear, ac o'r diwedd y mae dull Duw o weithredu yn newid. Gwneir teulu neilldual yn ystorfa yr ewyllys Ddwyfol, a'i hanes a roddir. O'r teulu yna, "mab yr addewid" a ddewisir; ac o'i feibion ef, nid yr henaf a'r anwylaf, ond yr ieuengaf. Yna rhoddir hanes ei ddisgynyddion ef gyda chyfeiriad deublyg, yn gyntaf at eu ffydd a'u hufydd-dod hwy eu hunain, ac yn ail at ddyfodiad y Messiah. Y mae amcan pellenig ac amcan uniongyrchol, ac y mae y ddau yn foesol. *Gosodiadau* y bobl hyn a eglurant athrawiaethau y *groes*; ac heblaw hynny, y mae genym gofnodiad o'u pechodau er ein rhybydd ni, ac o'u hedifeirwch er ein hefelychiad a'n hannogaeth.

Yn nghylch yr holl hanesion hyn gallesid dywedyd llawer o bethau sydd wedi eu hattal. Gallesid egluro anhawsderau. Gallesid ateb gofyniadau pwysig, rhai naturiol, hanesyddol, neu foesol. Ond rhaid i ni chwilio am eglurhad ar y gofyniadau hyn mewn man arall.

Er enghraifft, darllenwn am Assyria mewn un man yn llyfr Genesis

[a] Gwelar y nodiadau hyn wedi eu hegluro yn Nghyssondeb Butler, Rhan 2.

(Gen. 10, 11, 12), ond dim wedi hyny am 1,500 o flynyddoedd, hyd amser Menahem (2 Bren. 15, 19); ac nid oes genym goffa am yr Aifft rhwng dyddiau Moses a dyddiau Solomon. Mae hanes foreuol y ddwy genedl yn hynod o dywyll, ac feallai yn annhreiddiadwy. Ond nid yw y wybodaeth yn hanfodol i'n hiachawdwriaeth ni, nac i hanes yr eglwys, ac nid yw wedi ei rhoddi.

Yn yr Ysgrythyrau prophwydoliaethol, mae y neilldnolrwydd hwn yr un mor eglur. Maent oll naill ai yn hynod foesol, neu efengylaidd, neu bob un o'r ddau. Gallasai fod fel arall, heb niweidio prophwydoliaeth fel prawf allanol o'r Ysgrythyr. Gallesid ysgaru y doniau o ragfynegiad ac o addysgiad moesol; ond, mewn gwirionedd, maent yn un. Yr hyn a allasai wasanaethu i foddio cywreinrwydd naturiol, sydd wedi ei osod o blaid santeiddrwydd ymarferol. Y prophwyd yw yr athraw, ac hanes y dyfodol (yr hyn yw prophwydoliaeth) sydd wedi dyfod fel hanes y gorphenol, yn llawforwyn gwirionedd efengylaidd, a chynnydd ysbrydol.

Felly y mae gyda'r cwbl sydd wedi ei ddadguddio mewn perthynas i Grist. Yr ydym yn darllen am fawredd ei berson gyda chyfeiriad parhaus atom ni, ac at ein hiachawdwriaeth. Os gosodir ef allan fel goleuni y byd, y mae i'n harwain ni i ffordd tangnefedd; os fel Oen Duw, gwneir hyny i'n prynu ni â'i waed; os fel yn myned i mewn i'r nef, y mae fel ein Hiawn a'n Cyfryngwr. Galwwn ni ef yn gyfiawn yn "Fab Duw;" carai ef alw ei hunan yr hyn ni alwodd ei apostolion ef erioed, a chyda chyfeiriad at ei gydymdeimlad a'i waith, yn "Fab y Dyn."

Yr Ysgrythyr, gan hyny, sydd ddadguddiad o wirionedd *crefyddol*, wedi ei gyfaddasu i'n natur ni fel y mae yn syrthiedig ac yn euog. Yr ydym ni, gan hyny, yn ei ddefnyddio yn briodol yn unig pan y gwasanaetha i'n santeiddrwydd a'n cysur. Gallasai ddadguddio gwirionedd arall, neu gallasem ni ystyried y gwirionedd a ddadguddia yn unig yn arddunol a gogoneddus. Ond nid hyny yw dyben Duw. Mae efe wedi rhoddi y gwirionedd i ni 'er ein haddysg, ein hargyhoeddiad, ein hunioniad, a'n sefydliad mewn cyfiawnder. Gall pob gwybodaeth fod yn ddefnyddiol, ond y mae hon yn *angenrheidiol*. "Na ollwng hi, cadw hi, canys dy fywyd di yw hi." Diar. 4, 13.

221. Awgrymir dwy reol ymarferol gan y nodiadau hyn. Yn gyntaf, rhaid i ni beidio dysgwyl dysgu unrhyw beth o'r Ysgrythyr, ond y sydd, mewn ystyr grefyddol, o bwys i ni ei wybod. Rhai a geisiant "y marw yn mhlith y byw" (fel y geiriai Arglwydd Bacon ef), ac a edrychant i'r Beibl am athroniaeth naturiol, a gwybodaeth ddynol; ereill a chwiliant am ddirgel bethau, y rhai a berthynant yn unig i Dduw; a'r ddau a geryddir gan gymmeriad noeth a dyben y Beibl. Cofnodiad ydyw o wirionedd angenrheidiol ac achubol, neu o wirionedd mewn golygiadau a chyssylltiadau crefyddol, ac o ddim arall. Ei hanesion ydynt fyr neu helaeth, yn ol fel y gall byrdra neu helaethder sicrhau y dybenion hyn oreu.

222. Yn ail. Mae yn gweddu y Cristion i wneuthur cymhwysiad ymarferol o bob gwirionedd a ddadguddia yr Ysgrythyr. Rhaid iddo gredu a chymhwyso yr oll. Gwrthod y gwirionedd sydd gyfeiliornus, gwadu moesoldeb sydd gyfeiliornus, ac y mae yr un mor gyfeiliornus i wahanu y naill oddiwrth y llall. Mae rhinwedd yn dyfod yn bur a chyflawn yn unig pan ei llunir ar wirionedd.

223. Ond er nad yw y Beibl yn ddadguddiad o wyddor, etto gellir dysgwyl iddo fod yn rhydd oddiwrth gyfeiliornad, ac i gynnwys, mewn iaith

ochelgar a syml, llawer o ddoethineb guddiedig, a dulliau o ymadroddi a gydunant â ffeithiau naturiol, perffaith wybyddus i Dduw, ond yn anwybyddus i'r rhai y bwriadwyd y dadguddiad ar y cyntaf.

Mae y dysgwyliad hwn yn rhesymol; ac yn y ddau olygiad, mae y Beibl yn cynnwys cyferbyniad tarawiadol i lyfrau cyssegredig cenedloedd paganaidd.

224. Yr oedd yr oll o'r hen gyfundraethau o grefydd, a holl athronwyr enwog henafiaeth, mor bell ag y maent yn adnabyddus, yn dàl syniadau ar wybodaeth mor wrthun a'u duwinyddiaeth.

Yn athroniaeth Groeg a Rhufain, y nefoedd oeddynt gromen dewdrwch uwchben y ddaear;[a] cronen foglynedig â ser, fel y galwai Aristotle hwynt. Doethion yr Aifft a ddalient fod y byd wedi ei ffurfio drwy symudiad yr awyr, ac esgyniad fflam; Plato a ddaliai mai bôd deallawl ydoedd; Empedocles a ddaliai fod dau haul; Zencippus a ddaliai fod y sêr wedi eu cynneu drwy eu symudiad, a'u bod hwy â'u tân yn maethu yr haul.

Yr holl genedloedd dwyreiniol a gredent fod y cyrff nefol yn dylanwadu yn rymus, ac yn fynych yn anhapus,[b] ar amgylchiadau dynol; a bod holl natur yn gyfansoddedig o bedair elfen, tân, awyr, daear, a dwfr, pethau nad ydynt yn elfenol.

Yn yr athroniaeth Hindwaidd, y ddeaer a arddangosir fel yn lefn a thrionglog, yn gyfansoddedig o saith o esgynfëydd, a'r crynswth yn orphwysedig ar benau cawrfilod, y rhai pan yn ymysgwyd a achosant ddaeargryn-fäau. Mohammed a ddysgai fod y mynyddoedd wedi eu creu i attal y ddaear rhag symud, ac i'w dàl megys gan angorau a chadwyni. "Tadau yr Eglwys" eu hunain a ddysgent athrawiaethau nid llai gwrthun. "Crynder y ddaear," medd Lactuntius, "sydd gyfryw athrawiaeth nad oes neb yn ddigon anwybodus i'w chredu."

Pan y gellir dadymchwelyd pob hen gyfundraeth a eilun-addoliaeth trwy ei hathroniaeth gyfeilornus, mor addysgiadol yw, nad oes un o ddeugain o ysgrifenwyr y Beibl, y rhai amlaf o ba rai oeddynt yn byw yn agos i'r naill neu y llall o'r cenedloedd a ddaliant y golygiadau hyn, wedi ysgrifenu un llinell yn ffafriol iddynt. Mae y dystawrwydd hwn yn gysurol, ac yn ein cynnysgaethu â chadarnhad tarawiadol o wirionedd eu cenadwri.

225. Mae manylrwydd haeriadau Ysgrythyrol, a'u cydundeb â darganfyddiadau diweddar, hefyd yn hynod.

Yr Ysgrythyrau, er enghraifft, a lefarant am y ddaear fel *cronen*, ac fel *yn grogedig ar ddiddym*. Esa. 40, 22; Job 26, 7—10; Diar. 8, 27. Wrth draethu am ei hoedran, gwahaniaethant rhwng creadigaeth mater annghyflunedig a chreadigaeth y nefoedd a'r ddaear. Gen. 1, 1, 2. Rhoddant i ddyn ddechreuad diweddar iawn, ac y mae eu cywirdeb yn hyn yn cael ei brofi gan gyflwr cydnabyddedig crystyn y ddaear, a chan gofgolofnau henafiaeth. Desgrifiant y nefoedd fel *ëangder annherfynol*, ac nid fel cronen dewdrwch; a goleuni fel elfen annibynol ar yr haul, ac yn flaenorol iddo, gan rag-ganfod athrawiaeth â dderbynid yn gyffredinol gan ymofynwyr diweddar. Pan y llefarant am awyr, dywedant fod Duw *wedi rhoddi pwysau ynddo*, fel y profodd Galileo; ac am y moroedd, iddo roddi iddynt eu dognedd; hyny yw, cyfartaledd o dir a môr, y cyfryw ag sydd yn awr yn bod yn hanfodol i iechyd a diogelwch bywyd anifeilaidd a llysieuol. Priodolir pwysigrwydd i'r dyfroedd goruwch yr ëangder, yr hwn a werthfawrogir yn unig gan wyddoniaeth ddiweddar: codir llawer o filiynau

[a] Firmamentum, stereema.

[b] Dus astron, drygblanedog.

o dunnelli drwy darthiad bob dydd o arwyneb Lloegr yn unig. (Gwel *Whewell's "Bridgewater Treatise."*)

Pan y llefarant am yr hil ddynol, rhoddant iddi un dechreuad neu ffynnonell, ac a ddangosant hunandeb dechreuol iaith, a'i rhaniad canlynol, nid i amrywiaeth diddiwedd o gangen-ieithoedd, fel sydd yr awr hon, ond yn hytrach i ddwy neu dair tafodiaith gyntefig; ffeithiau, er wedi eu hammeu yn hir, sydd wedi eu cadarnhau gan genedloniaeth ac Athroniaeth. Gen 11, 1; 10, 32. Pan yr attaliant yr haul, hyny yw, cylchdroad y ddaear, attaliant y lleuad hefyd; rhagofal nas gallesid ei ystyried yn angenrheidiol oni buasai tröad dyddiol y ddaear. Pan y llefarant am y sêr, yn lle eu cyfrif yn fil, fel y gwnai hen seryddwyr (Hipparchus a ddywed 1022, Ptolemy 1026), dywedant eu bod yn aneirif, ac y mae pellebyron diweddar wedi profi mai nid troell-ymadrodd ydyw. "Duw," medd Syr John Herschel, wedi sylwi ar dyrau ser a ser-nifwlion yn y nefoedd, "a'u gwasgarodd megys llwch trwy anfeidroldeb ëangder." A phan y llefara yr Ysgrythyr am eu lluoedd hwynt, dywed am danynt fel pethau dibynol, materol, ac ufydd. Esay 40, 26, 27.

226. Yr Ysgrythyr a lefara mewn perthynas i ffeithiau athronyddol mewn iaith gyffredin bywyd, ac weithiau nid yw yr iaith hono yn eithaf cywir; megys yn Job 38, 6; 9, 6; Salm 104, 3; Diar. 3, 20. Ac y mae y rheswm yn amlwg. Pe buasai iaith fanwl athronyddol yn cael ei harferyd, buasai yr Ysgrythyr yn llai dealladwy: ac hefyd, gwnelai y fath iaith, yn desgrifio ffeithiau naturiol *nid* fel yr ymddangosant, ond fel y *maent*, y cyfryw ffeithiau mewn gwirionedd yn faterion dadguddiad. A buasai hyny yn rhwym o gynnyrchu ammheuon yn mhlith yr anwybodus, a rhagfarn (oddiar anmherffeithrwydd angenrheidiol addysgiad yr Ysgrythyr o'r cyfryw bynciau) yn mhlith yr athronaidd, gan ddystrywio yn mhlith pawb yr unoliaeth syniad y mae y Beibl yn tueddu i'w gynnyrchu. Deuai y Beibl felly yn Ddwyfol, ond yn llaw-lyfr anmherffaith o wyddiant; a buasai hyny yn drefniad mor anffafriol i wrteithiad ysbryd gwir athronyddol ag i leshad gwir grefydd ei hunan.

227. Ac nid yw y modd y mae y Beibl wedi sylwi ar bynciau dansoddol, neu egwyddorion mawrion moesoneg, yn llai nodedig. Mae yn ddigon eglur fod deddfau ein natur foesol yn wybyddus i Awdwr yr Ysgrythyr; ond nid ydynt wedi eu traethu yn rheolaidd. Y maent yn hytrach yn oblygedig trwy gymhlethiad yn y gwirioneddau a'r gorchymynion sydd wedi eu dadguddio.

Mae ymchwiliad annibynol wedi darganfod er ys amser maith fod calon dyn yn cael ei nodweddu yn fawr gan ei feddyliau, a bod yr hyn sydd yn denu y meddwl yn dylanwadu ar y cymmeriad. Y mae athrawiaeth yr Ysgrythyr, mai sylw ymarferol a chrediniol i wirioneddau Cristionogaeth yw yr offeryn mawr i ddwyn yr enaid i sefyllfa santaidd, yn hollol gysson â'r ddeddf hon. 1 Ioan 4, 10, 16, 19; Gal. 2, 20; 1 Cor. 15, 2; 2 Cor. 3, 18; 1 Tim. 4, 16; Salm 119, 9—11; Salm 19; 1 Pedr 1, 22.

"Pa fodd y gall dyn reoli ei grediniaeth?" sydd ofyniad a feddiannodd sylw dynion meddylgar am hir amser. "Trwy dalu sylw i dystiolaethau, ac yna trwy fyfyrio gwirionedd," yw atebiad athroniaeth. Ac y mae yr Ysgrythyr yn hollol gysson â'i dyfarniad hi. Dylanwada ar y ffydd a'r serch, nid trwy eu dadansoddi, neu gynnyg eu cryfhau a'u puro yn dreisiol, ond trwy chwilio gwirionedd, a dàl cymdeithas â'r pethau hyny a deilyngant ac a hawliant ein cariad. Y Beibl a orchymyn i ni i ystyried a gwrandaw, gan ein sicrhau y bydd ystyrieth ostyngedig a difrifol yn di-

weddu mewn ffydd, a ffydd a ddilynir gan deimlad santaidd a phriodol. Dynion a gredant trwy roddi gwrandawiad i'r gwirionedd,—Actau 8, 6, 8; Heb. 2, 1; Diar. 4, 1—4; 2, 1—9; Marc 4, 24, 25; Actau 17, 11, 12. Eu hanedifeirwch sydd ganlyniad o'u hesgeulusdra, a'u hesgeulusdra o gyflwr cyfeiliornus y galon,—2 Thes. 2, 11, 12; Marc 8, 18; Ioán 3, 19, 20; 5, 38, 39; 2 Cor. 4, 3, 4; Hosea 4, 10. Dylanwedir ar serch santaidd gan wrandawiad a ffydd,—Gal. 5, 6; 2 Cor. 5, 11; Heb. 11, 7; 1 Ioan 4, 16, 18; Rhuf. 6, 6; Col. 1, 22, 23; Jos. 22, 5.

Mae yr Ysgrythyr yn corffori y deddfau hyn, ac yn gweithredu arnynt; gan chwanegu, fodd bynag, y ffaith bwysig, sef, lle byddo santeiddrwydd ac iachawdwriaeth yn dilyn gwrandawiad ac ystyriaeth, fod hyny yn mhob rhan i'w briodoli i ras a bendith yr Ysbryd Dwyfol.

Rhodd yr Ysbryd yw gwrandawiad,—Actau 16, 14; Sech. 12, 10. Ei rodd ef yw ffydd, yr hon a ddilyna wrandawiad,—Actau 10, 44 (gwel 11, 17, 18); 11, 21. Ei rodd ef yw eglurach dealltwriaeth o'r gwirionedd, yr hyn sydd yn dilyn efrydiaeth grediniol o hono,—Esa. 42, 7; Salm 119, 18; Luc 24, 45; 1 Cor. 2, 14; 2 Cor. 3, 16; Eph. 1, 17, 18. Ei rodd ef yw teimlad santaidd a ddilyna efrydiaeth fanwl a chrediniol o'r gwirionedd,—Ez. 36, 27; 2 Thes. 2, 13; 2 Pedr 1, 2, 3; Gal. 5, 22.

Dos. 3.—*Y Beibl yn Ddadguddiad Graddol a Chynnyddol.*

228. Neillduolrwydd arall perthynol i'r Beibl yw, ei fod yn ddadguddiad graddol a chynnyddol.

229. Y mae gwirioneddau ac amcan Duw, ynddynt eu hunain, yn analluog o gynnydd; ond nid yw y dadguddiad o'r gwirioneddau yma felly. Mewn natur, y mae yr haul wrth godi yn gwasgaru niwl y boreu, ac yn dwyn un parth ar ol y llall i oleuni, nes, yn raddol, y byddo wedi gwisgo pob bryn a dôl âg arddercho2rwydd. Yr oedd y wlad yno o'r blaen, ond nis gellid ei chanfod. Felly hefyd mewn dadguddiad, y mae y cynnydd, nid yn y gwirionedd, ond yn yr eglurder a'r dylanwad gyda pha rai y mae yr Ysgrythyr yn ei ddadlenu.

230. Yn y dechreuad, er enghraifft, Duw a ddysgai unoliaeth ei natur, tra nad oedd y gwirionedd fod lluosogrwydd yn yr hanfod Ddwyfol yn cael ei ddysgu ond yn aneglur. Ymddengys llawer o ymadroddion yn y llyfrau boreuaf fel wedi eu bwriadu i'w hawgrymu.[a] Yn y prophwydi diweddarach, daw y gwirionedd allan gyda mwy o eglurder;[b] ac yn y Testament Newydd, y mae wedi ei gyflawn egluro. Yn yr un modd, cydnabyddir gwaith yr Ysbryd Glân yn yr Hen Destament, a gwneir hyny gydag eglurder cynnyddol fel yr ydym yn agoshau at amseroedd yr efengyl; ond

[a] Y fath ymadroddion, er enghraifft, a "Gwnawn ddyn ar ein delw" (gwel Gen. 1, 26; 3, 22); a defnyddiad enw lluosog gyda berf unigol wrth osod allan y gwir Dduw, Gen. 1, 1; Sal. 58, 11 (Heb.); Diar. 9, 10 (Heb.), &c. Yr ymadroddion yn Num. 6, 22—27, wrth eu cymharu â bendithiad (*benediction*) y Testament Newydd, Esay 6, 3, 8; 48, 16; Jer. 23, 5, 6, ydynt yn nodedig iawn. Tebyg yw fod y geiriau, "Angel yr Arglwydd," gan gyfeirio yn y rhan amlaf o fanau at y Messiah, yn ei olygu fel gwrthddrych o addoliad Dwyfol, yn ol fel y mae yr ysgrifenwyr Iuddewig yn gyffredin yn dàl. Gwel Gen. 16, 7, a'r 13, lle y mae yr enw annghyflwynadwy "Jehofah" yn cael ei roddi iddo. Gwel hefyd Gen. 22, 11—18; 31, 11—13; 32, 28—30; Hos. 12, 4, 5; Gen. 48, 15, 16; Ex. 3, 2—15; 19, 19, 20; 20, 1; 23, 20, 21, wedi eu cymharu âg Act. 7, 38; Jos. 5, 13—15; 6, 2; Barn 13, 3—23; Esay 63, 8, 9; Mal. 3, 1.

[b] Esay 9, 6; Mic. 5, 2; Sech. 13, 7.

yn y Testament Newydd yn unig y cawn gyflawn olwg ar ei be. dd, y waith.[a]

231. Y mae y dadleniad graddol yma o'r ewyllys Ddwyfol yn fwy nerth edig fyth yn ei berthynas â'n Harglwydd. Cynnwysai yr addewid gyntaf (Gen. 3, 15) fynegiad prophwydol o drugaredd, a rhagfynegai ei ddyfodiad a'i waith, er mewn geiriau aneglur. Yr oedd y weithred gofnodedig gyntaf o addoliad cymmeradwy (Gen. 4, 4; Heb. 11, 4) yn gysgod, gan ddangos drwy weithred ffydd yr offrymydd yn nghyflawniad yr addewid gyntaf. Yr oedd buddugoliaeth i fod drwy ddyoddefiadau, a gosodiad o'r diniwed yn lle yr euog.

Yr arwyddion a'r cysgodau yma a luosogwyd gyda threigliad amser. Yr oedd llawer o'r hyn oedd gysgodol a phrophwydol yn mhersonau, neu yn addoliad Enoch,[b] Noah,[c] Melchisedec,[d] a Job;[e] ac yr oedd mwy fyth yn hanes Abraham[f] a'i ddisgynyddion uniongyrchol.

Dan oruchwyliaeth Moses, gweithredoedd neu bersonau ereill, a lleoedd a phethau cysgodol, a gawsant eu sefydlu, a dangoswyd amcan eu sefydliad yn y modd mwyaf amlwg.[g] Prophwydoliaethau hefyd a ddaethant yn fwy eglur ac aml.[h]

Rhwng dyddiau Samuel a Malachi—yspaid mwy nâ chwe chant o flynyddoedd—y mae rhes o brophwydi yn ymddangos, y rhai, yn raddol, a osodant allan berson a gwaith y Messiah; rhagfynegant hefyd dywalltiad yr Ysbryd, a llwyddiant cyffredinol y gwirionedd,[i]—pynciau ar ba rai y mae y dadguddiad boreuaf yn ddystaw.

Nid yw y prophwydi, yn helaethrwydd eu rhagfynegiadau, wedi myned tu hwnt i'r addewid gyntaf, yr hon a fwriadwyd i roddi gobaith am waredigaeth gyflawn; ond yn eu heglurder, yn manylrwydd yr hanes a roddant o'r hyn a gynnwysid mewn prynedigaeth, yn nghyd â'i phris, y mae gwahaniaeth dirfawr rhyngddynt; tra yn yr un pethau, y mae yr efengylau wedi myned tu hwnt i'r prophwydi, o gymmaint, o leiaf, ag yw y prophwydi wedi myned tu hwnt i'r gyfraith.

232. Y mae yn deilwng o sylw hefyd, fod rhagfynegiadau yr hen oruchwyliaeth, a'i hathrawiaethau ymarferol, yn myned yn mlaen law yn llaw. Y mae y dadguddiad yn ymëangu ar bob tu. Y goleuni sydd yn dysgleirio ar ffynnonell fywiol, neu ar faes cynauaf y gwirionedd, a ddengys gyda'r un eglurder y llwybr sydd yn arwain iddynt. Y mae y gyfraith yn rhoddi gorchymynion Dwyfol yn fwy cyflawn nâ goruchwyliaethau blaenorol, tra mae y prophwydi yn myned tu hwnt i'r gyfraith, ac yn sefyll mewn lle canol rhyngddi hi a'r efengyl. Traethant yn fwy cyflawn ar egwyddorion santeiddrwydd personol, fel y gwahaniaethir hwynt oddiwrth burdeb rhesymol a seremoniol, ac y mae llai o gyfeiriad at addewidion tymmorol yn eu cefnogaethau. Y mae gorchymynion y gyfraith, yn y gyfraith, yn fyr a sarug: bygythion a gyhoeddir gyda thoster digymmysg. Yn y prophwydi, cyflwynir y cwbl mewn lliwiau tynerach a mwy swynol; y mae pelydrau oddiwrth rhyw oleuni pell, ond dirgelaidd, wedi syrthio ar eu llinellau tywyllion, ac wedi eu goleuo i'w gyffelybrwydd ei hunan. Dywedai y gyfraith, "Câr yr Arglwydd dy Dduw â'th holl galon, ac â'th holl nerth;" ac nis gallasai dim fod yn fwy ëang nâ'r gorchymyn hwn.

[a] Gen. 1, 2; 6, 3; Sal. 51, 11, 12; Esay 48, 16; 61, 1; Esec. 3, 24, 27.
[b] Judas 14. [c] 1 Pedr 3, 20; Gen. 8, 20. [d] Heb. 5, 6.
[e] Job 19, 25; 1; 42, 7, 8. [f] Gen. 12, 3; 26. 4; 49, 10, &c.
[g] Lef. 1, 4; 6, 2—7; 17, 11. [h] Num. 24, 17; Deut. 18, 15; Act. 3, 22, 23.
[i] 1 Pedr 1, 11; Salm 68, 18; Joel 2, 28; Esa. 53; 61, 11; Sec. 14, 9.

weddi[illegible]d bynag, yn ei esbonio a'i gymhell, yn ei fywiogi
D[illegible]n cyfeirio ei gymhwysiad at fwy o santeiddrwydd.
[illegible]l bywyd yn eu dwylaw hwy yn dyfod yn fwy fwy

[illegible]b, ydynt yn foddion nerthol er cynnyrchu duwioldeb;
[illegible]ag yr ânt, yn ychwanegiadau at osodiadau gwasanaeth
[illegible]yw yn cynnwys darpariaeth benodol tuag at drefn o

234. Pe cy[illegible] y darllenydd orchymynion Pum Llyfr Moses o berthynas i edifeirwch ag eiddo y prophwydi yn nghylch yr un ddyledswydd,[a] neu fynegiadau y ddau am y berthynas rhwng yr Iuddewon, neu y byd yn gyffredinol, a'r Hwn a ddaeth i fod yn oleuni i'r Cenedloedd yn gystal ag i'w bobl Israel,[b] neu pe sylwai ar ysbrydolrwydd ac eglurder cynnyddol[c] holl derfyngylch gwirionedd ysbrydol, fel y mae gwawr dydd yr efengyl yn agoshau, nis gall fethu deall cyssondeb a graddoldeb cynnydd dadguddiad. Canfydda yn y ddau brofion o bresenoldeb y Duw hwnw, yr hwn (fel y dywed Butler) "a ymddengys yn bwyllog yn ei holl weithrediadau," a'r hwn a gyflawna ei holl amcanion drwy gamrau araf ac olynol, pa un bynag ai i gyfnewidiadau y tymmorau, neu symudiadau Rhagluniaeth, neu ddadleniadau mwy ffurfiol ei ewyllys, y perthynant.

235. Y neillduolrwydd yma o eiddo yr Ysgrythyr a ddengys y pwysigrwydd o i holl ranau y Beibl gael eu darllen yn y drefn yn mha un y dadguddiodd yr Ysbryd hwynt. Y mae trefniad amseryddol o'r hanesiaeth gyssegredig, y Salmau, a'r Prophwydi, yn hanfodol er cyflawn ddeall eu hamrywiol ranau; ac nid ydyw yn llai angenrheidiol er ffurfio golygiad eglur a chysson am ddadleniad graddol y cymmeriad a'r cynlluniau Dwyfol.[d]

236. Ac hyd y nod pan na fyddom yn sylwi ar amlygiad *graddol* gwirionedd, dylid cofio fod myfyrio yr Ysgrythyr mewn modd amseryddol yn fynych yn hanfodol er ffurfio golygiad cywir am ei gwerthfawredd.

Er enghraifft, cymharer dau epistol cyntaf Paul â'r un diweddaf o'i eiddo, i ac 2 Thes. â 1 ac 2 Tim., fel y gorweddant ochr yn ochr yn ein cyfeithiad ni, a chanfyddwn y fath gyfnewidiadau y mae amryw flynyddau o lafur wedi eu cynnyrchu yn nheimladau yr apostol, ac yn nghyflwr yr eglwys.

Er mor effeithiol yw yr hanes a roddir o ddyoddefiadau yr apostol yn 2 Cor. 11, etto, y mae trefniad amseryddol yn dangos nad ydyw y bennod yma yn cynnwys ond ychydig, mewn cymhariaeth, o'r profion sydd genym o'i ddidwylledd. Ysgrifenwyd hi cyn ei garchariad yn Judea ac yn Rhufain. Y mae dwy flynedd o garchar, llongddrylliad, carchariad arall, ac yn y diwedd merthyrdod, i'w hychwanegu at y cyfrif.

Y mae Voltaire yn gwawdio grym yr iaith, yn yr hon (fel y meddylia) y rhagfynegir tynged pobl, nad oedd eu llain cul o wlad dros 200 milltir o hŷd. Gwnelai trefniad amseryddol ei nodiad yn fwy tarawiadol, ond gallai befyd awgrymu y modd i symud yr anhawsder. Y mae y brophwydoliaeth yn cynnyddu yn hyderus a chynnwysfawr, pan y mae y genedl y nesaf peth i fod wedi ei difodi. A ydyw, gan hyny, yn debyg o fod wedi cael ei dechreuad mewn balchder cenedlaethol, neu o gael ei chyflawniad mewn adfywiad a llwyddiant cenedlaethol?

237. Llefarir weithiau am y dadleniad graddol yma o'r ewyllys Ddwyfol

[a] Deut. 30, 1—6; Ezec. 18; Esa. 57, 15, 16; Salm 40, 6—8; 51, 16, 17.
[b] Esa. 66, 21. [c] Gwel yn neillduol Jer. 31, 31—34.
[d] Am drefniadau amseryddol o'r oll Feibl, gwel Rhan II.

fel goruchwyliaethau dilynol—goruchwyliaeth Adda, y Batriarchaidd, y Foesenaidd, a'r Efengyl. Y mae goruchwyliaeth yn golygu y ffordd yn yr hon y mae Duw yn ymwneyd â dynion, neu (yn y cyssylltiad yma) y gwirionedd fyddo wedi ei ddadguddio, a'r ordinhadau, a'r ymddygiad caulynol a orchymynwyd ganddo.

Ni pharhäodd goruchwyliaeth ADDA ond yn unig dros ystod diniweidrwydd dyn. Parhäodd yr un BATRIARCHAIDD am fwy nâ 2500 o flynyddau, a rhoddir ei hanes yn Gen. 3; Exod. 20. Gelwir hi felly oddiwrth y ffaith mai penau teuluoedd oedd llywodraethwyr a dysgawdwyr dynion—(Patriarchiaid), fel Adda, Seth, Enoch, a Noah, cyn y dïluw, ac ar ol hyny, Job, Melchisedec, Abraham, a'i ddisgynyddion uniongyrchol. Hwynthwy oedd ceidwaid yr ewyllys Ddwyfol, gwylwyr prophwydoliaeth, a chyflwynodd rhai o honynt yn eu hanesion gysgodau o'r Arglwydd Iesu. Nid oedd, yn ystod y tymmor yma, ond ychydig o ragfynegiadau, ond yr oedd arwyddion eglur o ddarparu tuag at ddyfodiad y Messiah, fel yn y gwahaniaeth rhwng anifeiliaid glân ac aflan, mewn cyssylltiad âg aberth, Gen. 8, 20, mewn aberth ei hunan, ac yn y cyfammod âg Abraham, Gen. 15, 20. Gellir canfod hefyd yn yr oruchwyliaeth Batriarchaidd lawer o egwyddorion cyntaf yr un Foesenaidd.

Parhäodd y cyfammod a wnaed â'r Iuddewon drwy Moses—yr oruchwyliaeth FOESENAIDD—oddeutu 1500 o flynyddau, ac y mae yn orlawn o bersonau, lleoedd, a phethau cysgodol. Yr oedd y bobl Iuddewig mewn gwirionedd yn gysgod yn eu sefydliadau a'u hanes. Gwel Lef. 6, 2—9; 16, 21; 17, 11; Eph., Heb., a 1 Cor. 10.

Goruchwyliaeth yr EFENGYL, egwyddorion mawrion yr hon a ellir eu holrhain yn y trefniannau blaenorol, sydd wedi ei sefydlu ar y ffeithiau a roddir yn yr *efengylau*, bywyd a marwolaeth ein Harglwydd. Yn yr *Actau* canfyddwn wirionedd mewn gweithrediad yn mhlith credinwyr unigol, ac yn yr eglwys; yn yr *epistolau* y mae yr athrawiaethau sylfaenedig ar y ffeithiau yma yn cael eu hegluro a'u cymhell; ac yn y *Dadguddiad*, cawn, mewn gweledigaethau prophwydol, hanes gwirionedd yn ei frwydrau â chyfeiliornad, ac o'r eglwys hyd ddiwedd amser.

238. Y llyfrau yma a gyfansoddant oruchwyliaeth yr efengyl, a chyda hwynt (can belled ag y perthyna y sefyllfa bresenol), y mae dadguddiad gwirionedd efengylaidd yn terfynu. Gall fod rhanau yn y Beibl nad yw eu cyflawn ystyr wedi ei ddarganfod etto, ac, feallai eu bod yn cael eu "cadw," megys y dywedai Boyle, "i ddarostwng rhyw heresi ddyfodol, neu i egluro rhyw ammheuaeth sydd etto heb ei ffurfio, neu i ddymchwelyd rhyw gyfeiliornad sydd etto heb gael enw," neu i ddangos drwy brofion prophwydol newydd ei fod wedi dyfod oddiwrth Dduw. Heblaw hyny, y mae yr Ysgrythyr fel y môr; yn glir ardderchog, ond yn ddwfn anfesurol. Nid oes, gan hyny, unrhyw derfyn penodol i'n hymdreiddiad i'w feddwl. Ond nid ydym i ddysgwyl am ddadguddiad pellach, ac nid ydym i ystyried ychwanegiadau dynion fel dadleniadau o athrawiaeth ysgrythyrol.

Nid ydyw yn angenrheidiol ychwanegu enghreifftiau o gamddefnyddiad y gwirionedd yma. Ar hyn, y mae Pabyddiaeth yn eglurhad sefydlog. Dadleua dros ddadleniad gwirionedd, tu allan i'r Ysgrythyr, ac yn yr eglwys. Dywedir ganddi hi, er enghraifft, mai gwynfydedigrwydd y meirw sydd yn marw yn yr Arglwydd yw hedyn naturiol addoliad seintiau. Yn yr un modd, presenoldeb Crist yn y swper yw gwreiddyn addoliad aberth yr offeren, a chyfarchiad yr angel yw gwreiddyn dwyfolyddiaeth y forwyn. Ond nid yw hyn oll ond camddefnydd. Graddol ddadleniad gwirionedd

yn yr Ysgrythyr sydd un peth; ac ychwanegiad, yr hwn a orchuddia y gwirionedd, sydd beth arall; dros y blaenaf yn unig yr ydym ni yn dadleu.

Dos. 4. *Unoliaeth y Beibl.*

239. Ac nid yw *unoliaeth* y gyfrol santaidd yn llai addysgiadol. Cynnwysa angen cyntaf llyfr mawr—amcan unigol, a'r amcan hwnw yn cael ei gadw mewn golwg yn mhob tudalen.

240. Nid yw yr unoliaeth yma (sylwer) i'w briodoli i'r amgylchiad fod y gyfrol wedi ei chynnyrchu gan un awdwr, neu mewn un oes. Yr oedd cynnifer a deugain o wahanol ysgrifenwyr (a chynnwys awdwyr y darnau lleiaf) yn ei chyfansoddi. Y mae y dullwedd yn awr yn hanes, yna yn gân, yna yn ymresymiadau neu gydymddyddan, yna yn fywgraffiadau, neu yn brophwydoliaethau, neu yn llythyrau. Rhaid fod dirgelwch yr unoliaeth rhyfeddol yma yn ddyfnach nâ'r holl achosion hyn o amrywiaeth, ac yn ddigon cryf i wrthwynebu eu dylanwad. Ceir ef, yn wir, yn ngofal goruwch-naturiol Un sydd yn anfeidrol mewn gallu a doethineb. Y mae yr holl adeilad, cwblhad yr hwn a gymmerodd 4000 o flynyddau, yn gymmesurol drwyddo; a rhaid fod iddo Sylfaenydd Dwyfol, yr hwn, ar y cyntaf, a gynlluniodd, ac wedi hyny a arolygodd y cyfan.

241. Edrycher etto, er enghraifft, ar *unoliaeth* amcan moesol y gyfrol. Hanes bodau dynol ydyw, yn eu perthynas â Duw; yn gyntaf am ddyn, fel dyn; wedi hyny am deuluoedd; wedi hyny am genedl; yna am gymdeithas ëangach yr eglwys. Yn yr holl ddadguddiadau proffesedig ereill, y mae yr ysgrifenwyr yn traethu yn helaeth ar ddechreuad y greadigaeth (megys yn Shastras yr Hindûaid), neu ar ddamcaniaeth anianyddol bywyd dyfodol (megys yn nadguddiadau ffugiol Mahommed), neu ar bynciau nas gellir dychymmygu eu bod o un pwys ymarferol (megys yn ffugdreithiau y Talmud, chwedlau yr eglwys Rufeinig, a breuddwydion Swedenborg). Ar y llaw arall, y mae holl ddysgeidiaeth y Beibl yn cyfeirio at Dduw fel yn gyssylltiedig â dyn, naill ai yn unigol neu gymdeithasol, neu at ddyn fel yn gyssylltiedig â Duw, ac y mae ei holl ddysgeidiaeth yn foesol ac ymarferol. Nid yw yn cynnwys dim pythoniaeth *(cosmogony)*, dim cyfriniaeth *(mythology)*, dim arddansoddiaeth *(metaphysics)*, dim rhyfeddodau nad ydynt yn foesol; dim dychymmygol, heb ei fod hefyd yn sylweddol. Yn ei hanesion, ei fywgraffiadau, ei brophwydoliaethau, a'i Salmau, nid oes ganddo ond un amcan, sef aduno ac adgyweirio y cyssylltiadau drylliedig rhwng Duw a dynolryw, a rhwng dyn a dyn:—ei amcan mawr yw prynu a santeiddio ein hiliogaeth ni.

242. Os edrychwn ar yr athrawiaethau a gredid ac a ddysgid, cawn fod eu hunoliaeth yr un mor nodedig. Mae egwyddorion mawrion Cristionogaeth wedi cael eu cydnabod gan yr holl ddynion santaidd dan bob goruchwyliaeth. Crefydd, wrth ei hystyried yn "ymarferol," sydd bob amser yn gynnwysedig mewn ffydd ac ufydd-dod. Ac fel cyfundraeth o wirionedd ("crefydd athrawiaethol"), nid yw erioed wedi cyfnewid. Cawn o'r amseroedd boreuaf grediniaeth yn unoliaeth Duw; yn nghreadigaeth a chynnaliaeth pob peth drwy allu Dwyfol; mewn rhagluniaeth gyffredinol a neillduol; mewn cyfraith Ddwyfol yn sefydlu y gwahaniaeth rhwng uniondeb a chamwedd; yn nghymp a llygredigaeth dyn; yn athrawiaeth yr Iawn drwy ddyoddefiadau dirprwyol; yn rhwymedigaeth ac effeithioldeb gweddi; mewn dylanwad Dwyfol uniongyrchol; yn nghyfrifoldeb dyn; ac yn yr angenrheidrwydd am santeiddrwydd ymarferol.

Y mae y *gyfraith*, fel ei rhoddwyd gan Moses, yn orlawn o seremoniau; ac amlwg yw ei bod wedi ei chyfaddasu i ateb amgylchiadau neilluol un bobl. Nid oes ond ychydig o seremoniau yn perthyn i'r *efengyl*, y rhai ydynt nodedig am eu symledd; ac y mae yr oll o honi o gymhwysiad cyffredinol. Ond, er fod y ddwy gyfundraeth, ar yr olwg gyntaf, yn ymddangos mor wahanol i'w gilydd, etto nid ydynt ond un mewn hanfod. Cyflwynant yr un golygiadau am Dduw ac am ddyn; awgrymant neu eglur ddysgant yr un gwirioneddau, ac y maent yn gyfaddasedig i gynnyrchu yr un teimladau.

Un enghraifft yn ychwanegol: rhoddir yn yr Ysgrythyr yn olynol amryw ddarluniau o'r natur ddynol; un wedi ei gymmeryd cyn y diluw, un arall yn fuan ar ol hyny; un fe ddichon oddeutu 800 mlynedd yn ddiweddarach, ac a gedwir yn llyfr Job; un arall 500 mlynedd yn ddiweddarach fyth, gan Ddafydd; y pummed 500 mlynedd ar ol hyny, gan Jeremiah; a'r chweched 500 o flynyddau yn ddiweddarach etto, gan Paul. Cymhared y darllenydd y darluniadau yma â'u gilydd, ac â phrofiad, a theimla fod i bob desgrifiad mewn gwirionedd yr un gwreiddyn, ac mai yr un oedd amcan yr ysgrifenwyr ysbrydoledig; sef derchafiad ein natur ni, drwy ostyngeiddrwydd, edifeirwch, a ffydd. Gen. 6, 5; 8, 21; Job 15, 16; Sal. 14, 2, 3; Rhuf. 1, 19; 3.

243. Cynnwysa yr unoliaeth yma athrawiaethau sydd yn mhell uwchlaw gwybodaeth ddynol. Y Beibl yn mhob man a ddadguddia yr un Duw, santaidd, doeth, a da; mynega am ei amcanion yn llywodraethu y byd, ac am ganlyniad olaf yr ymdrech bresenol rhwng da a drwg.[a] Traetha am y natur ddynol, ac am wir ddedwyddwch;[b] dosrana gyda chywirdeb dihafal gymhellion dirgelaidd gweithrediadau dynoliaeth, ac eglur ddengys ffynnonell fawr trueni dyn; pynciau sydd wedi cael sylw dwysaf y doethaf o ddynion, golygiadau pa rai ydynt mor hynod am eu hanmhenodolrwydd a'u hamrywiaeth ag yw eiddo y Beibl am gyssondeb ac eglurder.

244. Y mae dau nodiad yn cael eu hawgrymu gan y ffeithiau yma—

Yn gyntaf, Rhaid ystyried y Beibl, nid fel cyfres o ddadguddiadau neilluol, ond fel yn un ac yn anranadwy. Athrawiaethau a ddadguddir yn amlwg yn y Testament Newydd, a ymddibynant lawer am eu profion, a mwy am eu hegluriadau, ar yr Hen Destament. Perffeithrwydd un oruchwyliaeth yw y llall. Y gyntaf yw y cysgod neu y darlun daearol, yr ail yw y sylwedd nefol. Gellir casglu beth yw natur y "pethau da i ddyfod" oddiwrth y "cysgod" yn gystal ag oddiwrth y pethau eu hunain. Heblaw hyny, y mae gan yr hen ysgrifen lawer o gydweinyddiaethau (*associations*) hanesyddol a gwerthfawr. Meithrinai yn yr eglwys henafol yr un grasusau ag sydd yn awr yn angenrheidiol. Arddengys ddynion santaidd yn ymdrechu yn erbyn yr un temtasiynau a ymosodant arnom ninau. Uwchlaw y cwbl, rhaid cofio fod amser i'w gael yn hanes unigolion, a chenedloedd, yn gystal a'r rhywogaeth, sydd yn gwneuthur cyflwyniad gwirionedd mewn ffurfiau mor elfenol, ac annghelfydd mewn ymddangosiad, a'r rhai a geir yn yr Hen Destament, yn ymddangos yn hanfodol er ffurfiad cymmeriad ysbrydol. Gwyddis fod rhai o hanesion ac ymarferion yr hen oruchwyliaeth, hyd y dydd heddyw, yn rhoddi i genedloedd paganaidd feddylddrych eglurach am santeiddrwydd Dwyfol, ac am ddyledswydd ddynol, nac hyd y nod ddadleniadau cyflawnach y Testament Newydd.

[a] Gen. 3, 15; Dan. 7, 14; 1 Ioan 3, 8.
[b] Gen. 1, 26; Rhuf. 3, 23; Preg. 12, 13; Math. 5. 3, &c.

245. *Yn ail*, Gwasanaeth hyn yn faen prawf pwysig o wirionedd, ac o werth perthynasol gwirionedd. Pe dywedid, er enghraifft, nad ydyw aberth ac offeiriadaeth Crist yn cael eu dadguddio yn yr efengyl, neu mai gwirioneddau israddol ydynt, edrychwn i'r gyfraith, neu oruchwyliaethau blaenorol; ac os dadleuir nad oes yn yr efengyl nac offeiriadaeth nac aberth, yna cawn yn y gyfraith gyfres o ddefodau cysgodol, heb na chyfeiriad nac ystyr yn perthyn iddynt. Y gwaed, yr allor, y lle santaidd, a'r eiriolaeth iawnol, ydynt oll yn gysgodau o ddim, ac y mae yr oruchwyliaeth flaenorol wedi ei hyspeilio o'i holl ystyr. Os bu iddi bwysigrwydd, y mae yn awr wedi ei ddiddymu, ac y mae sefydliad yr efengyl yn ei lle yn arwyddo cyfnewidiad, hyd y nod yn egwyddorion y llywodraeth Ddwyfol. Dan yr oruchwyliaeth hono, yr oedd cyfraith yn anmhlygedig; yn awr y mae yn llesg a diafael. Y pryd hwnw yr oedd edifeirwch *yn unig* yn hollol analluog gyda golwg ar achub, yn awr y mae yn nerthol ac effeithiol. Maddeuid i ddyn ar y cyntaf ar sail Iawn, o'r hyn lleiaf, drwy nehelfraint. Ac yn awr y mae y dirgelwch wedi ei ddadlenu. *Y mae* dadguddiad yn gyfangorff cysson. Athrawiaethau yr oruchwyliaeth olaf a ddadleuant eu cynnwysiad, ac a ddysgant yn fwy eglur, dylanwadol, a chysson, pan yn cael eu myfyrio yn mhlith cynlluniau yr un flaenorol.

Dos. 5. *Nid yw yn Ddadguddiad trefnus (systematic) o Wirionedd, neu o Reolau neillduol.*

246. Un arall o neillduolion y Beibl, ac un llawn mor hynod a'r rhai sydd eisoes wedi eu nodi, yw fod y gwirioneddau a ddadguddia yn hollol amddifad o bob ffurf gyfundraethol. Nid oes ynddo yr un crynodeb o athrawiaethau Cristionogol, nac ychwaith o reolau neillduol ar ddyledswyddau y bywyd Cristionogol. Ymddengys hyn yn fwy nodedig, oddiwrth fod y rhan fwyaf o lyfrau crefyddau gau (y Coran a'r Shastras, er enghraifft) yn rhoddi y darluniad mwyaf penodol o'r "ffydd," ac yn cynnwys y cyfarwyddiadau manylaf gyda golwg ar ymprydiau, golchiadau, a phethau ereill perthynol i'r gwasanaeth crefyddol.

247. Y mae y neillduolrwydd yma yn naturiol ac addysgiadol. Y rhan flaenaf o'r Hen Destament (a llawer o'r un olaf) sydd yn hollol hanesyddol. Dysgir gwirionedd moesol yn unig drwy hanes, ac y mae yr hanes yn ddernynol ac yn gryno. Yr oedd Duw wedi bod mewn cymmundeb â dyn am fwy nâ 2,000 o flynyddau cyn iddo roddi "y gyfraith." Nis gellir cyflawn gasglu oddiwrth yr hyn sydd wedi ei ysgrifenu beth oedd wedi ei ddadguddio ganddo, neu pa fodd y dadguddiodd ef. Yn wir, ymddengys fod rhan fawr o'r Beibl wedi ei amcanu nid i ddadlenu gwirionedd yn gymmaint ag i gorffori gwirionedd ag oedd eisoes wedi ei ddadguddio.

Ysgrifenwyd y Testament Newydd hefyd i'r rhai hyny oeddynt wedi derbyn addysg yn y ffydd Gristionogol, ac wedi ei chofleidio. Gan hyny, nis gellir braidd ddysgwyl iddo gynnwys addysg elfenol *rheolaidd*, na chrynodeb o erthyglau y ffydd. Yr oedd yr eglwysi wedi cael eu ffurfio yn ol addysg Ddwyfol, ac ar gynllun Dwyfol, cyn i'r epistolau gael eu hysgrifenu; ac eglur yw fod yr efengylau yn hanesyddol, a'u bod yn cynnwys, neu yn awgrymu gwirionedd crefyddol, yn hytrach nâ rhoddi dadguddiad trefnus o hono.

248. Y mae crefydd naill ai yn wrthddrychol neu destunol; yn gyfundraeth o athrawiaeth santaidd, neu o egwyddorion pur a gweithgar. Y

blaenaf sydd wirionedd, a'r ail sydd dduwioldeb. Dadguddir y ddau yn y Beibl, ond yn y ffurf o enghreifftiau, neu ddarluniadau damweiniol, yn fwy nag yn y ffurf o addysg rheolaidd.

Sylwer, er enghraifft, pa fodd y llefara y Beibl am gymmeriad Duw fel llywydd moesol, ac am ddyn fel yn bechadurus ac fel yn santaidd.

Wrth gymmeriad Duw y meddylir ei allu, ei ddoethineb, a'i santeiddrwydd; ac wrth ei lywodraeth foesol, y golygir ei arolygiaeth o weithrediadau ac amgylchiadau y bydyssawd, yn ol egwyddorion sefydlog a santaidd.

Ei berffeithderau a ddadguddir yn mhob man drwy y Beibl, ond dadguddir hwynt yn ei *weithredoedd*. Nid ydynt un amser yn cael eu darnodi, ac ni sonir am danynt, ond mewn cyssylltiad â rhyw amcan ymarferol.

Pan, drwy ddiffyg amynedd neu annghrediniaeth Sarah, y cymmerodd Abraham Hagar, gan ddysgwyl gweled cyflawniad buan o'r addewid Ddwyfol, ceryddodd Jehofah ef, ac am y tro cyntaf, a lefarodd am dano ei hun fel "y Duw Hollalluog." Gen. 17, 1. Pan lefodd Israel, "Cuddiwyd fy ffordd oddiwrth yr Arglwydd," yr ateb a roddwyd oedd, "Oni wyddost .... na ddiffygia ac na flina Duw tragywyddoldeb: ni ellir chwilio allan ei synwyr ef." Esay 40, 28.

Wrth ystyried ei lywodraeth, cawn ei hegwyddorion, naill ai yn gorfforedig mewn ffeithiau, neu mewn gorchymynion ymarferol yn unig. Ei oruchwyliaethau ydynt fel ef ei hunan yn annghyfnewidiol. Yn mhob cenedl ac oes, yr hwn sydd yn gwneuthur cyfiawnder sydd gymmeradwy. Y mae efe yn barnu yn ol gweithred pob un.[a] Efe a lywodraetha yr hyn sydd yn ymddangos yn fwyaf damweiniol.[b] Dyg ei amcanion i ben drwy foddion a ymddangosant yn ddystadl neu yn annghymhwys.[c] Gwna hyd y nod y drygionus yn offerynau i gyflawnu ei ewyllys.[d] Y mae yn maddeu, ac yn barod i faddeu.[e] Gwrandawa ac ateba weddi.[f] Sylwa ar egwyddorion dynion, fel yn achos gwraig Lot a Joas.[g] Efe a gerydda y rhai y mae yn eu caru fwyaf, megys Moses, Dafydd, a Hezeciah.[h] Y mae efe yn cadw y cyfiawn, ac ni fydd neb a ymddiriedo ynddo ef yn ddiamddiffyn.[i]

Gosodir dyn ger ein bron mewn goleuni llawn mor addysgiadol. Pe byddai i ni ddosranu a desgrifio ein pechadurusrwydd, cawn anffyddiaeth wawdlyd yn y cynddiluwiaid,[k] cenfigen yn mrodyr Joseph, ac yn Cain;[l] malais yn Saul;[m] athrod yn Doeg a Siba;[n] dirmygiad o ddysgeidiaeth Ddwyfol yn Corah ac Ahab;[o] cybydd-dod yn Achan a Balaam, yn Gehazi a Judas;[p] uchelgais yn Abimelech, a meibion Zebedëus;[q] a balchder yn Hezeciah a Nebuchodonosor.[r]

Gyda golwg ar annghyssonderau y natur ddynol, dengys hwynt i ni yn

[a] Deut. 10, 17; 2 Cron. 19, 7; Rhuf. 2, 11; Gal. 2, 6; Ephes. 6, 9; Col. 3, 25; 1 Pedr 1, 17.
[b] Jeremiah 38, 7—13; Act. 16, 23.
[c] 1 Sam. 9, 3, 15, 16; Barn. 7, 13—15.
[d] Neh. 13, 2; Act. 2, 23.
[e] Dan. 9, 24; 2 Cron. 7, 14.
[f] 2 Cron. 33, 12, 13; Gen. 24, 12.
[g] Gen. 19, 26; 2 Bren. 13, 9.
[h] Num. 20, 12; 2 Sam. 24, 11, 15; 2 Cron. 32, 25.
[i] 1 Sam. 17, 37; Phil. 4, 12, 18.
[k] Judas 14, 15.
[l] Gen. 4, 5; 37, 11.
[m] 1 Sam. 18, 28, 29.
[n] 1 Sam. 22, 9; 2 Sam. 16, 1.
[o] Num. 16, 3; 1 Bren. 20, 22.
[p] Jos. 6, 19, &c.
[q] Barn. 9, 1—5; Marc 10, 35.
[r] 2 Bren. 20, 13; Dan. 4, 30.

Ahitophel, y cyfaill a'r bradwr ;[a] yn Joab, yr hwn oedd filwr dewr, a gwas ffyddlawn;[b] ac etto oedd yn "wneuthurwr drygioni," ac yn un a wrthwynebodd appwyntiad Duw, ac a ochrodd gydag Adonijah ;[c] yn Jehoram, yr hwn oedd ddystrywiwr delwau Baal, ac etto yn glynu wrth bechod Jeroboam ;[d] yn Herod, ei barch i Ioan, a chaledrwydd ei ysbryd o anufydd-dod ;[e] yn Agrippa, ei grediniaeth o'r prophwydi, a'i wrthodiad o'r efengyl ;[f] mewn llawer o'r prif-flaenoriaid, eu ffydd yn Nghrist, a'u parodrwydd i gydano â'r Sanhedrim i gyhoeddi arno y ddedfryd ei fod yn "headdu angeu."[g]

Canfyddwn alla *human-dwyll* yn Dafydd a Balaam.[h] Gallu *rhagfarn* yn Naaman, yn Nicodemus, ac yn nhrigolion Athen ac Ephesus ;[i] gallu *ymarferiad* yn Ahab, yr hwn a ymostyngodd gerbron Elias, ac etto a ddychwelodd at ei eilunod ;[k] ac yn Felix, am yr hwn y darllenwn iddo grynu unwaith, ond ni ddarllenwn iddo grynu byth ar ol hyny.[l]

Gwelir y perygl o gyssylltiadau annuwiol yn y cynddiluwiaid, ac yn Esau, y rhai a ymbriodasant â'r rhai hyny oedd dan felldith Duw ;[m] yn Solomon ;[n] yn nghyssylltiad Jehosaphat âg Ahab (drwy Athaliah) ;[o] ac yn nghyssylltiad Ahab â Jesebel ;[p] a drygedd llwyddiant bydol yn Rehoboam[q] ac Uzziah.[r]

Os edrychwn etto am arddangosion o ragoroldeb Cristionogol, cawn ef, nid yn cael ei ddarnodi, ond ei egluro: ffydd yn Abraham ;[s] amynedd yn Job ;[t] llarieidd-dra yn Moses ;[u] penderfyniad yn Josua ;[v] gwladgarwch yn Nehemiah ;[w] cyfeillgarwch yn Jonathan.[x] Yn Hannah cawn siampl i famau ;[y] ac yn Samuel, Josiah, a Timotheus, cawn siampl i blant ;[z] yn Joseph a Daniel, i ddynion ieuainc ;[aa] yn Barzillai i'r oedranus ;[bb] yn Eliezer i weision ;[cc] yn Dafydd, i'r rhai sydd dan awdurdod ;[dd] ac yn ein Harglwydd Dwyfol i bawb, o bob oes a sefyllfa, mewn dyledswydd ac mewn dyoddef.

I wneuthur y gwirionedd a ddysgir yn y siamplau yma yn gyflawn, rhaid olrhain y profion o'u gwendid. Methasant yn y rhanau hyny lle yr oeddynt gryfaf. Abraham drwy ofn,[ee] Job drwy ddiffyg amynedd,[ff] a Moses drwy ddrygnawsedd a rhyfyg.[gg]

Os ymofynwn etto allan o'r Ysgrythyr am yr hyn a alwai Paley yn "rinweddau addoliadol" crefydd, parch tuag at Dduw, ystyriaeth barhaus o'i ragluniaeth, ffydd yn ei ddoethineb a'i drefniadau, tuedd ar bob achlysur i droi at ei drugaredd am gymhorth a maddeuant, cawn hwynt yn cael eu hegluro yn hytrach na'u darnodi; hyny yw, yn gorfforedig mewn cym-

[a] Sal. 55, 13; 2 Sam. 16, 15.
[b] 2 Sam. 12, 28; 24, 3.
[c] 2 Sam. 3, 27—39
[d] 2 Bren. 3, 1—3.
[e] Marc 6, 16—20.
[f] Act. 26, 27, 28.
[g] Ioan 12, 42; Math. 26, 66.
[h] 2 Sam. 12, 5—7; Num. 32.
[i] 2 Bren. 5, 11, 12; Ioan 3; Act. 17, 18; 19, 28.
[k] 1 Bren. 21, 27; 22, 6.
[l] Act. 24.
[m] Gen. 6, 1—3; 26, 34.
[n] Neh. 13, 25, 26.
[o] 2 Bren. 8, 18—26.
[p] 1 Bren. 21.
[q] 2 Cron. 12, 1.
[r] 2 Cron. 26, 16.
[s] Gal. 3, 7—9.
[t] Iago 5, 11.
[u] Num. 12, 13.
[v] Jos. 24, 15.
[w] Neh. 1, 4; 5, 14.
[x] 1 Sam. 19, 2—4, &c.
[y] 1 Sam. 1, 27, 28.
[z] 1 Sam. 3; 2 Cron. 34, 9; 2 Tim. 3, 15.
[aa] Gen. 39, 9.
[bb] 2 Sam. 19, 34, 35.
[cc] Gen. 24.
[dd] 1 Sam. 24, 6—10, &c.
[ee] Gen. 20, 2.
[ff] Job 3, 1.
[gg] Deut. 32, 51.

meriad a siampl, ac nid yn ol cyfartalwch ;[a] a'r cwbl wedi eu cymhwyso gyda'r cywreinrwydd mwyaf, ac hyd y nod drwy y ffurf a argymmerant, at ein hangenion ni.

Y presenoldeb yma yn yr Ysgrythyr o ddynion fel ni ein hunain, sydd yn ei dwyn adref at ein galwedigaethau ac i'n calonau. Teimlir fod ynddi rywbeth dynol yn gystal a Dwyfol. Cyferfydd â ni yn mhob amgylchiad. Teimlwn, fel yr edrychwn, fod ganddi allu, yr hwn, fel llygad darlun da, sydd yn sefydlog arnom, trown i'r lle y mynom.[b] (Gwel Ddarlithiau Bampton, gan Miller, tud. 128.)

249. Mor hanfodol yw y nodwedd yma i gyfrol sydd wedi ei bwriadu i bob oes ac i bob gwlad! Pe rhoddesid erthyglau o ffydd, neu reolau manwl o ymarferiad, buasai yn rhaid iddynt gael eu cadw am byth yn nghyd, a chyda hwynt yr heresiau a'r cyfeiliornadau y bwriadwyd hwynt i'w condemnio. Rhaid fuasai iddynt fod naill ai yn gyffredinol iawn, ac felly yn anaddas i'w hamcan bwriadedig, neu ynte mor fanwl, fel ag i beidio bod yn arferadwy yn mhob gwlad, nac yn ddealladwy i bawb Cristionogion. Y mae y Coran, er enghraifft, yn gosod y pwys mwyaf ar offrymu gweddî ar gyfodiad a machludiad haul; a phrofa y rheol hon ar unwaith na chafodd crefydd y gau-brophwyd erioed ei bwriadu i Greenland neu Labrador, lle nad ydyw yr haul yn machlud am amryw fisoedd. Hefyd, gallai crynodeb o athrawiaeth, a fyddai yn berffaith ddealladwy i Gristion oedranus a phrofiadol, fod agos oll yn ddirgelwch i Hottentotiad dychweledig.

250. Ac hyd y nod pe byddai yn alluadwy gwneuthur crynodeb o'r fath yn ddealledig, byddai ei effeithiau ar feddyliau Cristionogion yn ddiaystriol. Trysorent yn eu cof hyd y nod eiriau y Gredo, heb chwilio y rhanau ereill o'r Ysgrythyr. Ni fyddai lle i feddwl, dim galwad i ymchwilio, dim cynhyrfiad i'r teimladau, na dim diwylliad i'r galon. Gan mai y ffydd ei hunan fyddai y gredo, ac nid y peth oddiwrth yr hwn y mae y ffydd i'w dysgu, telid iddi barch diog a diles. Pan fyddo ein galluoedd wedi eu cynhyrfu, ein sylw wedi ei feddiannu, pan fyddom yn casglu, yn diwyllio, neu yn helaethu ein gwybodaeth yn unig, y mae y wybodaeth hono yn gwneuthur yr argraff briodol arnom. Nid ydyw Duw wedi gwneuthur yr Ysgrythyr fel gardd, lle mae y ffrwythau yn addfed, a'r blodau yn ymagor, a phob peth wedi ei gyflawn ddadlenu i'n golwg; ond fel maes, lle y mae genym dir a hadau pob peth gwerthfawr, ond lle nas gall dim gael ei ddwyn i berffeithrwydd heb ein diwydrwydd ni;"[c] nac wedi hyny, heb wlith gras y nef. "Yr wyf (meddai Cecil) yn cael yn y Beibl neilldu-olrwydd mawr, yr hwn sydd yn ymddangos fel pe yn dywedyd wrth bawb a amcanant wneyd cyfundraeth o hono. Nid wyf o'r un meddwl a chwi .... myfi a safaf yn unigol. Nis gall y mawr a'r doeth byth ddyhyspyddu fy nhrysorau; a thrwy ffigurau a dammegion, deuaf i lawr at deimladau a dealltwriaethau yr anwybodus. Gadewch fi fel yr wyf, ond myfyriwch fi yn barhaus."

251. Y mae gormod o ddewisiadau hefyd, hyd y nod yn mhlith dynion

[a] Y mae gan Paley rai nodiadau ardderchog, yn cymhwyso yr egwyddorion yma at y cymmeriad a roddir yn yr Ysgrythyr o'n Harglwydd. "Profion," tud. 231, argraff. Cym. y Traethodau Crefyddol.

[b] Heblaw ateb yr amcanion moesol yma, y mae yn deilwng o sylw, mai dullwedd yr Ysgrythyr, yn gynnwysedig o ffigurau, a siamplau neilldual, neu "enwau unigol," yw yr hon yr anmharir leiaf arni drwy gyfieithiad. (Gwel Rheitheg Whateley, rhan iii., pen. 2, adr. 2.

[c] Dirgelwch Duwioldeb More.

da. Pe buasai pob gwirionedd o'r un natur wedi eu gosod yn nghyd yn yr Ysgrythyr, yr hyn a ddarllenid fwyaf arno gan ddynion fyddai yr hyn a gerid ganddynt fwyaf; a hyny ar draul esgeuluso yr hyn fyddai yn llawn mor bwysig, ond yn llai blasus. Ond gan fod gwirionedd wedi ei wasgaru drwy y Beibl, dysgir ni i feddwl am athrawiaeth mewn cyssylltiad â dyledswydd, ac am ddyledswydd mewn cyssylltiad â'r egwyddorion drwy ba rai y cymhellir hi.

252. Dengys y ffeithiau yma ddrygedd cyfundraeth yr eglwys Rufeinig; y mae hi yn condemnio myfyrdod o'r Beibl, gan feithrin gwrthwynebrwydd dyn i chwilio i'r gwirionedd, a'i foddlonrwydd diog i'r hyn sydd yn barod wedi ei ddarparu. Ymddengys fod hyd y nod cyfansoddiad yr Ysgrythyrau Cristionogol wedi ei fwriadu i wylio yn erbyn y duedd yma.

Awgrymant wers hefyd i'r rhai hyny a ystyriant y Beibl yn ddylanwadol yn unig pan wneir ef yn drysorfa gwirionedd dealltwriaethol. Dichon mai Duwinyddiaeth Reolaidd *(Systematic)*, sylfaenedig ar y Beibl, yw perffeithrwydd olaf gwybodaeth; ond nid ydyw, o angenrheidrwydd, felly mewn cymmeriad. Gall dyn gael ei dynu at y gair cyssegredig gan ei ddarluniadau o'r daioni Dwyfol, a gall ei garu â chariad mawr am ei holl drugaredd, neu obeithio yn ei addewidion, neu borthi ei enaid â'i foethau, neu ffurfio ei fywyd wrth ei gynghor, heb wneyd dim tuag at wneyd cyfundraeth o'i athrawiaethau, na deall dim o ymadroddion neilldnol gwirionedd duwinyddol. Y bywyd hwn o dduwiolfrydedd, gyda chydnabyddiad o Ragluniaeth, ac efelychiad o Grist, yw y prif beth; yn gyssylltiedig â myfyrdod cyfundraethol, gwna ddyn yn fawr mewn santeiddrwydd, ac yn ddwfn yn ei ddoethineb; ond gall santeiddrwydd a doethineb fodoli heb fyfyrdod cyfundraethol.

253. Y mae trydedd wers yn cael ei hawgrymu ganddynt. Traethodau holwyddorawl rheolaidd ar athrawiaeth ydynt yn ddefnyddiol, yn benaf i ddarnodi a chadw undeb y ffydd; ond ni ddylid edrych arnynt fel offeryn au dysgeidiaeth grefyddol, nac fel ystorfeydd gwybodaeth effeithiol. Anerchant y deall yn unig, a hyny yn aml mewn ffurfiau rhesymegawl, heb hanes, na siampl, na theimlad, na gallu. Ni chynnwysant gynlluniau o santeiddrwydd, na chyffyrddiadau o eiddo natur. Defnyddier hwynt, gan hyny, yn eu lle priodol; ond cofier mai yr offeryn Dwyfol er diwyllio dyn yw y llyfr hwnw sydd yn orlawn o siamplau o dynerwch, o dosturi, a chynghorion; yr hwn a rydd allan seiniau, ac edrychiadau, a geiriau, ag ydynt yr un pryd yn ddynol ac yn Ddwyfol; bob amser yr un, ac etto yn wastad yn newydd—y Beibl.

[Ar bynciau y Ddosran yma, gwel "Cyfeiliornadau Eglwys Rufain, wedi eu holrhain i'w gwraidd yn y Natur Ddynol," a "Thraethodau ar rai o Neilldnolion y Grefydd Gristionogol," gan yr Archesgob Whateley.]

PENNOD IV.

Ar Ddehongli yr Ysgrythyrau.

"Y mae dyn yn gallu ymboeni gydag unrhyw orchwyl bydol, ond y mae chwilio yr Ysgrythyrau gyda diwydrwydd yn feichus ac yn flinderus iddo. Ychydig sydd yn awyddus i fod yn nerthol yn yr Ysgrythyrau, er yn argyhoeddedig eu bod yn cynnwys y peth penaf perthynol i ddynion.—Locke, *Commonplace Book, Rhagymadrodd.*

"Y mae y fath gyssylltiad a chydluniad o eiddo y naill ran wrth y llall yn gyffredin yn y Beibl, fel nas gellir ei ddeall ond yn anmherffaith drwy ei ddarllen yn annhrefnus. Darllener y cwbl, gan hyny, yn drefnus.—Dr. Francis Roberts.

"Nid yw yr ystyr *drofegol (tropical)* yn ddim ond yr ystyr *ffigurol.* Fel y dywedwn, mewn iaith ddeilliedig o'r Groeg, fod *trofeg* yn cael *ei throi* o'i hystyr lythyrenol neu ramadegol, felly y dywedwn, mewn iaith ddeilliedig o'r Lladin, fod *ffigur* yn cael ei defnyddio y pryd hwnw; o herwydd, yn y fath achosion, y mae ystyr y gair yn gwisgo *agwedd* newydd. Yr un gwrthgyferbyniad, gan hyny, yr hwn a nodir gan y geiriau, ystyr lythyrenol ac ystyr ffigurol, sydd hefyd yn cael ei nodi gan y geiriau, ystyr ramadegol ac ystyr drofegol.—Marsh, *Darlithiau, Rhan III.*

Dos. I. *Y pwys o fod yn ofalus wrth fyfyrio yr Ysgrythyr.*

254. Gellir casglu y pwysigrwydd o fyfyrio y Beibl yn ofalus drwy bob cymhorth cyrhaeddadwy, oddiwrth yr amgylchiadau cyssylltiedig â pharotöad y llyfrau santaidd.

Ysgrifenwyd hwynt gan wahanol awdwyr, yn perthyn i bob gradd o ddiwylliant, ac i amrywiol ddosparthiadau,—offeiriaid fel Ezra, beirdd fel Solomon, prophwydi fel Esay, rhyfelwyr fel Dafydd, bugeiliaid fel Amos, gwleidiadwyr fel Daniel, ysgolheigion fel Moses a Phaul, pysgotwyr, "dynion anllythyrenog ac anwybodus," fel Pedr ac Ioan.

Yr oedd yr awdwr cyntaf, Moses, yn byw 400 mlynedd cyn gwarchaedigaeth Caerdroia, a 900 mlynedd o flaen yr hynaf o ddoethion Groeg ac Asia, Thales, Pythagoras, a Chonfucius; ac yr oedd yr awdwr olaf, Ioan, yn byw 1500 o flynyddoedd yn ddiweddarach nâ Moses.

Ysgrifenwyd y llyfrau mewn gwahanol leoedd; yn nghanolbarth Asia, ar dywod Arabia, yn niffaith-leoedd Judea, yn mhyrth y deml, yn ysgolion y prophwydi yn Bethel a Jericho, yn mhalasau Babilon, ar lànau eilun-addolgar Chebar, ac yn nghanol y gwareidd-dra Gorllewinol. Y mae y cyfeiriadau, y ffigurau, a'r ymadroddion wedi eu cymmeryd oddiwrth ddulliau, golygfeydd, ac arferion, hollol wahanol oddiwrth eu gilydd, ac oddiwrth rai diweddar Ewrop.

Y mae rhai o'r ysgrifenwyr, fel Moses, yn ffurfio cyfreithiau; ereill yn ysgrifenu hanesyddiaeth, fel Joshua; ereill yn cyfansoddi Salmau, fel Dafydd; neu ddiarebion, fel Solomon. Ysgrifena Esay brophwydoliaethau; yr efengylwyr fywgraffiadau; ac amryw o'r apostolion lythyrau.

Y mae llyfrau cyfain, a rhanau o lyfrau, yn cyfeirio at y paganiaid, fel yn Esay a Nahum; tra y mae rhanau wedi eu cyfeirio at yr Iuddewon yn unig. Bwriadwyd un Efengyl i Hebreaid dychweledig, a'r llall i Genedloedd. Cyfeiriwyd y llythyrau at y Corinthiaid at ddynion oedd yn meddu ond ychydig o barch i awdurdod, ac yn anfoddlawn i gymmeryd eu gorfodi, ond gan cyn lleied o rwymau ag oedd alluadwy. Yr Epistol at y Galatiaid a gyfeiriwyd at ddynion oeddynt yn ewyllysio dwyn eu dychwel-

edigion dan gaethiwed y ddeddf. Y mae y llythyr at y Rhufeiniaid yn anerch (mewn *rhan*) yr hunan-gyfiawn Phariseaidd; ac epistol Iago, y crefyddwr ffugiol a diofal.

Y mae amser, lle, gwaith, a hanes blaenorol, cymmeriad ac amcan yr amrywiol ysgrifenwyr, ac hyd y nod sefyllfa y rhai a anerchid ganddynt, oll yn gofyn ystyriaeth; oblegid rhaid fod yr amgylchiadau yma yn cario dylanwad ar iaith yr Ysgrythyr, os nid ar y meddyliau corfforedig ynddi.

255. Ymddengys y pwysigrwydd o fod yn ofalus wrth fyfyrio yr Ysgrythyr yn fwy etto, os ystyriwn yr anhawsder i gyflwyno i ddynion, mewn iaith ddynol, unrhyw feddylddrych am wirionedd crefyddol neu ysbrydol.

256. Y mae y rhan fwyaf o'r iaith a ddefnyddir gan ddynion o berthynas i bethau ysbrydol, yn sylfaenedig ar gyfatebiad neu debygolrwydd. Y mae hyn yn wir am bob iaith sydd yn traethu am y meddwl, neu ei weithredoedd; ac yn enwedig am iaith yr amseroedd boreuol. Yn mabandod cenedloedd, y mae iaith braidd i gyd yn ffigurol, a desgrifia ffeithiau cyffredin drwy gymhorth arwyddion naturiol. Y mae hyd y nod y gair ysbryd, yn ei darddiad, yn meddwl "anadl." Dywedir fod y meddwl yn *gweled* gwirionedd, am fod y weithred drwy ba un y mae y meddwl yn dyfod o hyd iddo yn dwyn rhyw debygoliaeth i waith y llygad. Ystyr llythyrenol y gair "*reflect*" (adystyried) yw plygu, neu daflu yn ol, fel ag i edrych o gylch ein meddyliau. "Sylwi" sydd ymarferiad meddyliol yn cyfateb i ymestyniad y llygad wrth archwilio rhyw wrthddrych allanol. Y mae yn angenrheidrwydd perthynol i gyflwr dyn, ei bod braidd yn anmhosibl desgrifio unrhyw ffaith gyssylltiedig â'r meddwl, neu â gwirionedd ysbrydol, ond mewn iaith wedi ei benthycio oddiwrth bethau materol. Nis gellir cyssylltu unrhyw feddylddrych penodol â geiriau hollol ysbrydol neu ddansoddol.

257. Ac y mae Duw yn gweled yn dda i ymostwng at ein hangenion ni. Arweinia ni i wybodaeth newydd, drwy gyfrwng yr hyn sydd yn barod yn adnabyddus. Dadguddia ei hunan mewn geiriau ag oeddynt o'r blaen yn arferedig. Os llefara am dano ei hun, rhaid gwneuthur hyny mewn geiriau a fyddont yn wreiddiol wedi cael eu hawgrymu gan weithrediadau y synwyrau. Os llefara am y nefoedd, gwaa hyny mewn ffigurau wedi eu cymmeryd oddiwrth olygfeydd y ddaear.

Dywedwn fod Duw yn "ymostwng at ein hangen ni." Y mae hyn yn wirionedd; ond gellir dywedyd gyda'r un faint o gywirdeb, fod Duw, ar ol argraffu ei ddelw ei hunan ar bethau naturiol, yn eu defnyddio i ddesgrifio ac i egluro ei hunan. "Y byd gweledig yw gwyneb-fynag (*dial-plate*) yr un anweledig." Corfforwyd meddyliau ysbrydol, ar y cyntaf, mewn arwyddion naturiol; ac yn awr, defnyddir yr arwyddion hyny i gyflwyno meddylddrychau am wirionedd ysbrydol. Y byd gweledig a'r un anweledig ydynt yn perthyn mor agos i'w gilydd, fel y mae y dyn duwiolfrydig, beth bynag, yn ei gael yn orchwyl anhawdd i'w hysgaru. Y mae y byd naturiol, iddo ef, yn arwyddlun ac yn dyst o fyd yr ysbrydoedd. Deilliant o'r un llaw. Yn ei olwg ef

"Y byd hwn
Cysgod o'r nefoedd yw, a thebyg iawn
I'w gilydd yw yr hyn sydd yn y ddau."

Y mae yn anmhosibl gwrthod yr argyhoeddiad fod llawer o'r ffigurau wedi eu dechreu drwy y cyfryw ymarferiad, a'u bod yn gynnyrchion chwaeth bur, a duwioldeb trwyadl.

Ac nid yw yr ysgrifenwyr ysbrydoledig yn defnyddio iaith ffigurol yn unig oddiwrth natur gwirionedd ysbrydol, nac oddiwrth y berthynas ryfeddol sydd yn bodoli rhwng pethau naturiol ac ysbrydol. Y gyfryw iaith yw y fwyaf priodol yn aml, o herwydd ei dylanwad a'i hardderchogrwydd. Cyflwyna ddrychfeddyliau i'r meddwl gyda mwy o fywiogrwydd nâ desgrifiad rhyddieithol. Y mae yn bywiogi y dychymmyg, tra yn addysgu y farn, ac yn argraffu ar y cof drwy swyno y galon.

258 (1.) Yn yr Ysgrythyr weithiau, er enghraifft, y mae pethau cyffredin yn cael eu cyssylltu â'r hyn sydd yn ysbrydol. Duw a breswylia yn y "goleuni." Y mae efe yn gosod i fyny ei "deyrnas." Y nefoedd yw ei "orseddfainc." Desgrifir ffydd y Cristion drwy yr unrhyw ymadroddion. Y mae yn "teimlo" gair y bywyd. Y mae yn "gweled" yr Anweledig. Y mae yn "dyfod" at Grist, ac yn "pwyso" arno.

259 (2). Y mae y Beibl weithiau yn benthycio cymhariaethau oddiwrthym ni ein hunain, ac yn llefaru am Dduw fel yn meddiannu teimladau a thymherau dynol, ac fel yn cyflawnu gweithredoedd dynol. Priodolir dwylaw, a llygaid, a thraed, i Dduw; a'r meddwl yw, fod ganddo allu i gyflawnu yr holl weithredoedd y mae yr aelodau hyn o'n heiddo ni yn offerynol i'w cyflawnu. Gelwir ef "y Tad," am mai efe yw creawdwr a chynnaliwr dyn, ac yn enwedig am mai efe yw awdwr bywyd ysbrydol. Efe a "ddyrcha lewyrch ei wyneb," pan yn dadguddio ei bresenoldeb a'i gariad (Sal. 4, 6), ac efe a "guddia ei wyneb" (Sal. 10, 1), pan y mae y benditbion yma yn cael eu hattal.

Yn Gen. 6, dywedir, "Ac edifarhäodd yr Arglwydd wneuthur o hono ef ddyn;" hyny yw, yr oedd dyn wedi myned drwy bechod mor anhyfryd ac anfuddiol, fel nad oedd gan Dduw mwyach hyfrydwch yn ei waith.

Yn Gen. 18, 21, efe a ddywed, "Disgynaf yn awr, ac edrychaf," i awgrymu y byddai iddo ef chwilio gweithredoedd dynion cyn eu condemnio hwynt.

Yn Jer. 7, 13, y mae yn dywedyd, "Minau a leferais wrthych, gan godi yn foreu a llefaru," i awgrymu y dyddordeb a gymmerai yn eu hawddfyd, a'r gofal gyda pha un yr oedd wedi bod yn eu dysgu.

Yn Dan. 4, 35, dywedir, "Yn ol ei ewyllys ei hun y mae yn gwneuthur," hyny yw, y mae yn gweithredu, nid yn fympwyol, ond yn annibynol ar ddynion, ac yn y fath fodd ag i ofyn yn gyfiawn ymostyngiad cyflawn oddiwrthym.

Gellir nodi yn gyffredinol, er fod rhyw gyfatebolrwydd rhwng y cariad a'r doethineb, y wybodaeth a'r santeiddrwydd, a briodolir genym i Dduw, a'r unrhyw deithi mewn dyn, etto y mae gwahaniaeth dirfawr rhyngddynt. Y maent yn Nuw yn anfeidrol mwy cyflawn a gogoneddus nag ynom ni; etto y mae digon o debygoliaeth yn yr arwyddion o bob un, i gyfiawnhau eu desgrifio drwy yr unrhyw ymadroddion.

O berthynas i ddefnyddiad yr iaith gyfaleddol yma, y mae o bwys i ni sylwi ar ddau beth:

260 (1.) Nid yw y ffigurau drwy ba rai y lleferir am wirionedd ysbrydol, yn cael eu defnyddio, fel mewn desgrifiad cyffredin, i roddi mawredd neu urddas annaturiol i'r gwrthddrychau a ddarluniant. Y mae llawer mwy o sylwedd a pherffeithrwydd yn y pethau a ddesgrifir, nag yn y pethau a ddefnyddir i'w desgrifio. Y mae felly yn mhob iaith o'r fath. Y meddwl a *bwysa* resymau, ac y mae y weithred yma yn fwy gogoneddus nâ'r ymarferiad gallofyddol (*mechanical*) oddiwrth ba un y cymmerir yr ymadrodd. Y mae Duw yn *gweled* yn llawer perffeithiach nâ'r llygad;

ac nid yw y goleuni yn yr hwn y preswylia efe yn cael ei ddarlunio ond yn anmherffaith iawn gan yr elfen faterol i ba un y mae yr enw yn cael ei briodoli. Pan y dywedir mai yr eglwys yw priodas-ferch Crist, nid yw y berthynas ddaearol ond ffurf isel o'r berthynas nefol; megys nad yw teyrnasoedd daearol, a mawrhydi daearol, yn ddim ond cysgodau gwanaidd o'r gwirioneddol. Gan hyny, y mae yr iaith ffigurol ag ydym ni yn rhwym o'i defnyddio wrth lefaru am bethau ysbrydol, yn mhell o fewn cylch y gwirionedd, ac nid ydyw byth y tu hwnt iddo.

261 (2.) Canlyniad angenrheidiol defnyddiad y gyfryw iaith yw, fod ymadroddion cymhariaethol yn cael eu harfer, rai troion, mewn amrywiol ystyriaethau.

Er enghraifft, dywedir fod Duw yn edifarhau, ac yn troi oddiwrth y drygioni a fygythiodd yn erbyn pechaduriaid, ac mewn manau ereill, dywedir, "Nid dyn yw Duw i ddywedyd celwydd, na mab dyn i edifarhau" (Num. 23, 19); yn y lle cyntaf, meddylir fod Duw yn cyfnewid ei ymddygiadau tuag at ddynion pan fyddont hwy yn cyfnewid; ac yn yr ail, nad oes nac anwadalwch nac anwiredd ynddo ef.

Yn Sal. 18, 11, dywedir am Dduw, "Efe a wnaeth dywyllwch yn ddirgelfa iddo;" ac yn 1 Tim. 6, 16, dywedir ei fod "yn trigo yn y goleuni." Yn y lle cyntaf, meddwl tywyllwch yw anolrheiniadwy; ac yn yr ail le, ystyr goleuni yw, purdeb, deall, neu anrhydedd. Dywedir yn Ex. 33, 11, fod Duw wedi "llefaru wrth Moses wyneb yn wyneb," ac yn ad. 20, tystiolaetha nas gall dyn weled ei wyneb ef a byw. Yn yr adnod gyntaf y mae yr ymadrodd yn golygu cymdeithas, heb gyfryngdod un arall; a'r meddwl yn yr ail yw, cael golwg gyflawn ac agos ar y gogoniant Dwyfol.

Yr ydys wedi sylwi fod yr un gair yn yr Hebraeg yn golygu "bendithio" a "melldithio," ac y mae y gwahaniaeth ystyriaethol yma wedi cynhyrfu syndod. Ystyr gwreiddiol y gair yw "plygu y glin;" ac yr oedd y weithred yma yr un mor briodol wrth ofyn ffafr i ereill ac wrth eu cyhuddo hwynt.

262 (3.) Gellir nodi yn mhellach fod y Beibl yn aml yn llefaru am wirionedd ysbrydol, mewn ymadroddion awgrymedig gan ffeithiau perthynol i hanesiaeth Iuddewig, neu gan ddefodau o Ddwyfol osodiad.

Y meddylddrych am santeiddrwydd, er enghraifft, am yr hwn, yn ei ystyr Gristionogol, nid oes gan y paganiaid yr un gair, a gafodd ei awgrymu i'r Iuddewon drwy gyfrwng gosodiad neillduol. Yr oedd yr holl anifeiliaid perthynol i Balestina wedi eu rhanu i lân ac aflan. O'r rhai glân, dewisid un "difeius a difrycheulyd" i fod yn aberth; dewisiwyd llwyth neillduol allan o'r llwythau ereill i'w offrymu; golchid yr aberth yn gyntaf mewn dwfr glân, ac elai yr offeiriad drwy ymolchiad cyffelyb. Er hyn oll, nid oedd na'r offeiriad, na neb o'r bobl, na'r offrwm, yn cael eu hystyried yn ddigon santaidd i ddyfod i'r presenoldeb Dwyfol, ond offrymid yr aberth y tu allan i'r lle santaidd. Yr oedd y meddylddrych o burdeb anfeidrol Duw yn cael ei awgrymu fel hyn i ystyriaethau yr edrychwyr; ac felly daeth santeiddrwydd dan y gyfraith i feddwl "purdeb i wasanaeth cyssegredig;" ac o dan yr efengyl, rhyddhad oddiwrth bechod, meddiant o syniadau ysbrydol, neu y "Ddwyfol anian."

Dysgid dryghaeddiant pechod, a'r athrawiaeth am iawn, mewn geiriau wedi eu cymmeryd oddiwrth ddefodau llawn mor gynnwysfawr. Lleddid yr offrwm, a'i waed (yr hwn oedd y *bywyd*) a daenellid ar y drugareddfa, a thuag at y lle santaidd; a thra y gweddïai y bobl yn y cyntedd nesaf allan, canfyddent y golofn dywell o fŵg yn esgyn i fyny oddiwrth yr aberth

oedd yn llosgi yn eu lle. Mor eglur y dangosai hyn fod cyfiawnder Duw yn dân ysol, ac mai drwy iawn ddirprwyol yn unig yr oedd modd i eneidiau y bobl ddianc. Bwriadwyd y meddylddrychau a awgrymid fel hyn i barhau drwy yr holl oesau, a chawn hwynt yn cael eu gosod allan yn fynych drwy ymadroddion wedi eu benthycio oddiwrth yr hen ddefodau yma.

Yr oedd yr offeiriaid hefyd, dan y gyfraith, yn gwisgo llian gwŷn, ac yn ymdrwsio mewn dillad ysplenydd; a defnyddir ymadroddion wedi eu cymmeryd oddiwrth yr arferion yma i osod allan burdeb ac urddas y pryn-edigion.

Yn yr un modd, y mae yr oll o'r hanesiaeth Iuddewig yn awgrymu gwirionedd ysbrydol, ac ymadroddion cyfaleddol. Dynion ydynt "gaethweision" pechod. Eu ffordd sydd drwy yr "anialwch." Croesant "Iorddonen" angeu. Ant i mewn i'r "orphwysfa" sydd etto yn ol i bobl Dduw. Y mae ganddynt hefyd eu "rhagflaenor;" eu "prophwyd;" eu "hoffeiriad," yr hwn hefyd, ar ol dyddiau Saul, a elwir mewn prophwydoliaeth, eu brenin.

263 (4.) Gellir nodi etto, fod llawer o ymadroddion y Testament Newydd yn cael eu defnyddio mewn ystyriaethau hollol anadnabyddus i ysgrifenwyr cyffredin yr iaith Roeg.

Ystyr y gair a ddefnyddir yn y Testament Newydd am *ostyngeiddrwydd*, mewn Groeg glasurol, yw gwael-frydedd (*mean-spiritedness*); ac er fod Plato wedi defnyddio y gair unwaith neu ddwy i osod allan ysbryd gostyngedig, etto cyfaddefir nad yw hwn ond ystyr annghyffredin. *De leg.* IV. Nid oedd gan y Groegiaid yr un rhinwedd yn dwyn yr enw hwnw, ac y mae hyd y nod Cicero yn nodi nad ydyw llarieidd-dra yn ddim ond diffyg. De Off., III., 32. *Gras* yn yr ystyr o ffafr Ddwyfol anhaeddiannol; *cyfiawnhad* fel bendith efengylaidd; *Duw* fel Bôd santaidd, hunan-hanfodol, a thrugarog; *ffydd* fel offeryn i santeiddrwydd, ac yn hanfodol er maddeuant: defnyddir yr holl eiriau yma yn y Testament Newydd Groeg, ac yn yr holl gyfieithiadau o hono, mewn ystyr arbenig a neillduol. I ni, y maent yn hen eiriau mewn ystyr *newydd*. Ond er fod y cyfnewidiadau yma yn ystyrion geiriau yn yr Ysgrythyr yn anarferol o luosog; etto, y mae yn hyfryd meddwl nad oes angen fod un cam-ddealltwriaeth o berthynas i'r geiriau a ddefnyddir fel hyn, oblegid y mae yr Ysgrythyr ei hunan yn darnodi y meddylddrychau a gyflwynant, weithiau drwy gyfeiriad at yr hen oruchwyliaeth, ac weithiau drwy eglurhad penodol, neu anuniongyrchol, o'r ymadroddion eu hunain.

264. Gall gwybodaeth o'r modd y mae gramadegwyr yn enwi ac yn dosranu yr amrywiol ffigurau y mae ein sefyllfa yn ein gorfodi i'w defnyddio wrth lefaru am wirionedd ysbrydol, gynnorthwyo y darllenydd i ddehongli yr Ysgrythyr. Nid yw adnabyddiaeth o'r enwau yn hanfodol, ond gall gwybodaeth o'r gwahaniaethau ar ba rai y sylfaenir y dosparthiad, brofi yn aml felly.

265. Pan fyddo gair, fyddo wedi arfer cael ei gymhwyso at un peth, yn cael ei gymhwyso at beth arall, y mae yno DROFEG, neu ffigur; ac y mae yr ymadrodd yn drofegawl neu ffigurol. Pa fodd bynag, os bydd ystyr flaenaf gair wedi myned allan o ymarferiad, y mae yr un gyffelybiaethol yn dyfod yn briodol ystyr. Er enghraifft, meddwl gwreiddiol y gair Hebreig "bendithio" oedd "plygu y glun;" ond nid yw yr Ysgrythyr yn ei ddefnyddio yn yr ystyr yma, ac am hyny, dywedir mai "bendithio" yw ei *briodol*, ac nid ei ffigurol ystyr.

Pan fyddo rhyw *debygoliaeth* rhwng y ddau beth at ba rai y cymhwysir gair, gelwir y ffigur yn GYFFELYBIAETH (*Metaphor*), megys "Cenaw llew wyt ti, Judah," Gen. 49, 9. "Myfi yw y wir winwydden," Ioan 15, 1.

Pan na fyddo rhyngddynt un debygoliaeth, ond yn unig *cyssylltiad*, gelwir y ffigur yn GYFORDDWYN (*synecdoche*); fel, pan ddefnyddir y gair cwpan am yr hyn a gynnwysir ynddo, 1 Cor. 11, 27; neu pan fyddo rhan yn cael ei rhoddi am y cyfan, megys "fy nghnawd" am "fy nghorff," Sal. 16, 9.

Pan na fyddo y cyssylltiad yn ganfyddadwy, neu pan ffurfir ef yn y meddwl, megys pan roddir yr achos am yr effeithiau, neu yr arwydd am y peth a arwyddocëir, gelwir y ffigur yn DRAWSENWAD (*Metonymy*), fel yn Ioan 13, 8. "Oni *olchaf* di, nid oes i ti gyfran gyda myfi," lle, wrth olchi, y meddylir puro neu lanhau. Weithiau y mae y ffigur yn cael ei esbonio yn yr Ysgrythyr ei hunan, fel yn 1 Pedr 3, 21, lle yr eglurir bedydd fel yn meddwl yno, "ymateb cydwybod dda tuag at Dduw."

Yr holl ffigurau blaenorol a gyfeiriant at eiriau *sengl*. Y rhai canlynol a gyfeiriant at amryw eiriau, fel ag y gwnant i fyny arddangosiad neu hanes cysson.

266. Unrhyw fynegiad o ffeithiau tybiedig, a ganiatâ eglurhad llythyrenol, ag sydd hefyd yn gofyn, neu yn cyfiawn ganiatâu, esboniad moesol neu ffigurol, a elwir yn ARALLEG (*Allegory*). Y mae i hanes neu ystori yr hyn yw trofeg i eiriau unigol, yn ychwanegu ystyr ysbrydol neu foesol at feddwl llythyrenol yr ymadroddion a ddefnyddir. Weithiau y mae yr aralleg yn *bur*; hyny yw, heb fod yn cynnwys unrhyw gyfeiriad uniongyrchol at y cymhwysiad o honi, megys yn hanes y mab afradlon. Brydiau ereill, y mae yn *gymmysgedig*, megys yn Sal. 80, lle yr awgrymir yn ddigon eglur (ad. 17,) mai yr Iuddewon yw y bobl y bwriadwyd y winwydden i'w harddangos.

Pan fyddo yr aralleg wedi ei hysgrifenu yn nullwedd Hanesyddiaeth, ac yn cael ei chyfyngu at amgylchiadau a allant fod wedi cymmeryd lle, gelwir hi yn DDAMMEG.

Pan fyddo yr aralleg yn cynnwys mynegiadau o ddygwyddiadau, y rhai ni allasent, oddiwrth eu natur, gymmeryd lle, gelwir hi yn FFUG-HANES (*Fable*). (Barn. 9, 6—21; 2 Bren. 14, 9; 2 Cron. 25, 18.)

Pan fyddo y tebygoliaethau, ar ba rai y byddo aralleg wedi ei sylfaenu, yn mhell ac yn dywyll, gelwir hi yn DDYCHYMMYG (*Riddle*). Nid oes angen dywedyd dim, fodd bynag, am ddychymmygion yr Ysgrythyrau, am fod eu hystyr cuddiedig bob amser yn cael ei egluro. (Barn. 14, 14; Diar. 30, 15—21.)

Pan fyddo tebygoliaeth rhwng dau berson, neu bethau yn cael eu gosod allan, nid mewn geiriau, ond drwy ryw weithred neu wrthddrych, y gwrthddrych neu y weithred sydd (a llefaru felly) âg ystyr deublyg iddi, sef un llythyrenol ac un ysbrydol, a elwir yn GYSGOD (*Type.*) Arddangosiad deublyg mewn gweithrediad ydyw; fel y mae aralleg yn arddangosiad deublyg mewn geiriau.

Pan fyddo y gwrthddrych, neu y gwaith a ddangosir yn bresenol, wedi myned heibio, neu yn yr ymyl, gelwir y weithred sydd yn ei arddangos yn ARWYDDLUN (*Symbol*), a dywedir ei bod yn arwyddluniol. Fel hyn y mae bedydd yn arwydd allanol a gweledig o ras mewnol ac ysbrydol; a'r bara a fwytäwn, a'r gwin a yfwn yn y swper santaidd, ydynt yn arwyddocau corff a gwaed Crist. (Gwel hefyd 1 Bren. 11, 30; 2 Bren. 13, 14—19; Jer. 27, 2—8; 13, 1—7; 18, 2—10.) Rhai pethau, megys y Pasg,

ydynt yn arwyddluniau, ac yn gysgodau. Y maent yn adgofion o un dygwyddiad, ac yn rhagddangosion o un arall. Y mae yr iaith a dynir oddiwrth gysgodau ac arwyddluniau yn ddarostyngedig i'r un rhëolau a ffigurau ymadrodd cyffredin.

267. Enw cyffredin, gan hyny, yw *trofanawl*, neu *ffigurol*, a gymhwysir at eiriau neu ymadroddion unigol, a chynnwysa gyffelybiaeth, cyforddwyn, a thrawsenwad; *arallegol* etto sydd enw cyffredin, a gymhwysir at adroddiad cysson, ac a ddefnyddir pan fyddo, neu pan roddir, i'r cyfryw adroddiad ystyr deublyg, pa un bynag fyddo ai dychymmyg, ffughanes, dammeg, neu hanes cyffredin. *Cysgodol* a berthyn i weithred ag iddi feddwl deublyg, a chyfeiria yn gyffredin at rywbeth dyfodol; perthyna *arwyddluniol* i weithredoedd ag iddynt feddwl deublyg, a chyfeiria yn gyffredin at rywbeth wedi myned heibio, neu yn agos wrth law.

268. Gellir nodi nad yw y ffigurau ymadroddol yma yn perthyn yn neillduol i iaith y Beibl. Ceir hwynt yn yr holl ieithoedd; ond gan mai yn yr ieithoedd henaf y ceir hwynt yn fwyaf cyffredin, a chan eu bod yn angenrheidiol i'n galluogi i lefaru yn ddylanwadol, ac hyd y nod yn ddealladwy, am wirionedd ysbrydol, y maent yn aml iawn yn yr Ysgrythyr. Y mae dealltwriaeth o honynt, gan hyny, yn nodedig o bwysig, mewn trefn i amgyffred rhai rhanau o'r Ysgrythyr, ac i ochelyd cyfeiliornad wrth ei dehongli.

269. Casgler, ynte, yr amrywiol ffeithiau yma at eu gilydd. Ysgrifenwyd yr Ysgrythyr gan wahanol bersonau, ar adegau pell oddiwrth eu gilydd, mewn gwahanol wledydd, yn nghanol defodau ac arferion hollol annhebyg i'n heiddo ni, ar bynciau o'r fath ëangaf a mwyaf amrywiol—yn wladol, eglwysig, hanesyddol, a phrophwydol; gofynai yr olaf, yn enwedig, am ymadroddion manwl ac amwysol, a'r ewbl wedi ei fynegu mewn ieithoedd meirwon, ac i raddau helaeth mewn dullweddau cyfaleddol a ffigurol. Cofier hefyd, fod pwnc mawr yr Ysgrythyr, megys y gwelsom, yn cyrhaedd drwy holl amser, gan gynnwys gorchymynion a gwirioneddau (naturiol a moesol), gyda pha rai nid oes gan ein rheswm a'n profiad ni ond ychydig adnabyddiaeth; nad ydyw yn gyfyngedig i amser, ond ei fod yn cynnwys yn ei gyssylltiadau y ddau fyd; fod ei holl ddadleuiadau yn gyfyngedig i gylch bychan, ac yn cael eu trin mewn modd nodedig o fyr; ac ymddengys ar unwaith yn amlwg, pa faint o ddysgeidiaeth sydd yn angenrheidiol er gwneyd y pethau hyn yn eglur. Y ffaith yw, y mae gwirionedd llythyrenol yn narnodiad Locke o dduwinyddiaeth: Cyfeiriad yw o bob gwybodaeth i'w dyben priodol, gogoniant y Duw tragywyddol, a lles bythol yr hiliogaeth ddynol.

Dos. 2. *Am yr ysbryd yn mha un y dylid myfyrio y Beibl.*

"Y mae Duw wedi penderfynu i bethau Dwyfol fyned drwy y galon i'r meddwl, ac nid drwy y meddwl i'r galon. Mewn trefn, gan hyny, i adnabod pethau Dwyfol, rhaid eu caru, ac awn i mewn i wirionedd yn unig drwy gariad."—PASCAL (Rhan i, adr. 3).

"Nis gall yr hwn sydd heb gredu brofi, ac nis gall yr hwn sydd heb brofi wybod."—ANSELM.

"Rhaid i'r duwinydd ei hunan gredu yr athrawiaethau a fyfyria. Heb y cyfaddasiad moesol yma, y mae yn anmhosibl iddo gael golwg gywir i wirionedd duwinyddol."—THOLUCK (*Lectures on Methology, Bib. Rep.*, 1844).

"Y mae yn angenrheidiol i ddehonglydd Beiblaidd deimlo dyddordeb mewnol yn athrawiaethau duwinyddiaeth. Y mae myfyrdod o'r Testament Newydd yn rhagdybied syniad o dduwioldeb, a phrofiad crefyddol, fel cyfaddasiad anhebgorol i'r gwaith. Ni ddeallir y Beibl yn iawn, ac mewn modd ysbrydol, heb i Ysbryd Duw ei

hunan ddyfod yn ddehonglydd i'w eiriau; yr *angel ddehonglydd* i agor i ni y gwir feddwl."—HAGENBACH.

"Pectus est quod facit theologum."—"Y galon yw yr hon a wna dduwinydd."—*Arwyddair* NEANDER.

270. Wrth lefaru am fyfyrio y Beibl, y mae y lle cyntaf yn ddyledus i feithriniad meddwl isel a duwiolfrydig. Gweddus yw i ni, yn gyntaf oll, feithrin yr arferiad o roddi sylw dwys a pharchus i bob peth a ddadguddir ynddo, a dymuno dysgeidiaeth fewnol yr Ysbryd santaidd, yr hon y mae Duw wedi ei haddaw i'r rhai a ofynant ganddo. Efallai nas gellir galw hon yn un o reolau dehongliaeth, ond y mae yn hanfodol er cymhwysiad pob rheol. Addefir gwirionedd cyffelyb o berthynas i bob pwnc o ymchwiliad. Rhaid cael chwaeth farddonol cyn y gellir gwerthfawrogi gwir farddoniaeth. Y mae myfyrio athroniaeth yn gofyn ysbryd athronyddol. Y mae yn angenrheidiol i ymofynydd i weithrediadau natur, uwchlaw pob peth, gael ei lanw â thymher y gyfundraeth gasgliadol (*inductive*) a ddysgwyd gan Bacon; ac ni ddylid ammeu y gwirionedd yma pan ei cymhwysir at y Beibl.

271. Y mae *angen* dysgeidiaeth Ddwyfol ar ddynion, nid o herwydd anhawsderau neillduol iaith yr Ysgrythyr, ac nid o herwydd anamgyffredolrwydd athrawiaeth yr Ysgrythyr—oblegid y pethau sydd wedi eu dadguddio egluraf sydd yn cael eu cam-ddeall fwyaf—ond o herwydd na ddysga dynion heb y cyfarwyddyd yma, ac am nas gallant *adnabod* y gwirioneddau hyny a ddadguddir yn unig i'r rhai sydd yn eu teimlo hwynt. Pan ymddangosodd Crist, yr oedd y goleuni yn llewyrchu yn y tywyllwch, ac nid oedd y tywyllwch yn ei amgyffred. Tymher ansantaidd oedd wedi amgylchu llygad y meddwl â'r hyn oedd yn hollol groes i "oleuni clir," ac wedi anmharu y llygad ei hunan. Dallineb *calon* a gynnyrchodd anwybodaeth; a daeth ymddyeithriad oddiwrth fuchedd Duw ar unwaith yn achos ac yn effaith ddyfnhäol "deall wedi ei dywyllu." —Eph. 4, 18. Dadguddir *ffynnonell* y ddysgeidiaeth yma yn ddigon eglur: y mae y Cristionogion oll "wedi eu dysgu gan yr Arglwydd;" a'r hwn a roddodd i eglwys Ephesus "ysbryd doethineb a dadguddiad," oedd "Duw ein Harglwydd Iesu Grist, Tad y gogoniant," Eph. 1, 17. Y modd y mae *sicrhau* y ddysgeidiaeth yma sydd wedi ei ddadguddio hefyd gyda'r un eglurder. "Y rhai llariaidd a hyffordda efe mewn barn; a'i ffordd a ddysg efe i'r rhai gostyngedig." "Os ewyllysia neb wneuthur ei ewyllys ef, efe a gaiff wybod am y ddysgeidiaeth, pa un ai o Dduw y mae," Ioan 7, 17. "O bydd ar neb o honoch eisieu doethineb, gofyned gan Dduw.... a hi a roddir iddo ef." Amlwg yw fod mwynder plentynaidd, calon ufydd, a meddwl ymddibynol a gweddigar, yn hanfodol i fyfyrdod llwyddiannus o'r gwirionedd Dwyfol. Gan hyny, "*Bene orasse est bene studuisse,*" sydd wirair, mewn un ystyr, o eiddo Luther, ond mewn gwirionedd o eiddo Duw.

272. Mewn trefn i gwblhau y gwirionedd hwn, y mae yn angenrheidiol ychwanegu nad ydyw Ysbryd Duw yn cyflwyno i feddwl, hyd y nod y Cristion hawdd ei ddysgu, ufydd, a duwiolfryd, unrhyw athrawiaeth, neu feddwl o'r Ysgrythyr, nad ydyw eisoes yn gynnwysedig yn yr Ysgrythyr ei hunan. Efe a wna ddyuion yn ddoeth er bod i *fyny at* yr hyn a ysgrifenwyd, ond nid uwchlaw hyny. Pan agorodd Crist ddeall ei apostolion, gwnaeth hyny "fel y deallent yr Ysgrythyrau," Luc 24, 45. Pan agorodd efe galon Lydia, hi a ddalodd ar y pethau a leferid gan *Paul*; gweddiai Dafydd ar i Dduw agor ei lygad, fel y gwelai bethau rhyfedd *allan o'i*

gyfraith ef, Sal. 119, 18. Y mae, "Yn y Beibl, a thrwy y Beibl," gan hyny, ar unwaith yn arwyddo pwnc a threfn doethineb Ddwyfol. Beth bynag a ddysgir yn groes iddo, neu yn ychwanegol ato, neu heb ei gymhorth, sydd i'w briodoli naill ai i ysbryd y tywyllwch, neu i ni ein hunain.

273. Cymmerir egwyddor gyntaf dehongliaeth Feiblaidd allan o'r Beibl ei hun. Meddianna yr un lle yn nysgeidiaeth ein Harglwydd, yr hwn, yn ei bregeth ysgrifenedig gyntaf, a sicrhäodd i Nicodemus mai "oddieithr geni dyn drachefn, ni ddichon efe weled"—ni ddichon ddeall natur, na chyfranogi o fendigedigrwydd—"teyrnas nefoedd," Ioan 3, 3. Cymharer hefyd 1 Cor. 2, 14; 1 Cor. 12, 8; 1 Cor. 1, 21; 1 Ioan 2, 20, 27; 2 Cor. 4, 1—6; 1 Pedr 2, 1, 2; Iago 1, 21; Sal. 25, 4, 5; 119, 12, 18; 2 Tim. 3, 13, &c.

Dos. 3. *Rheolau Dehongliaeth.*

"Arweinia dosraniad gramadegol manwl, ac ymlyniad diwyro wrth reolau egluriadaeth, i'r un golygiadau am wirionedd ag a goleddir gan dduwinyddion, y rhai a ddygant synwyr cryf a duwioldeb trwyadol i fyfyrio y Beibl."—THOLUCK.

"Yr amrywiol ddadleuon yn mysg dehonglwyr, ydynt yn gyffredin wedi terfynu yn yr addefiad, mai yr hen olygiadau Protestanaidd am ystyr y testun cyssegredig yw y golygiadau cywir."—WINER.

"Yr hwn a ymfoddlona i ddefnyddio y moddion yma, gan adael heibio y rhagfarnau a ddygir gan lawer gyda hwynt at bob pwnc; a anrhydeddir drwy ennill dealltwriaeth o'r Ysgrythyr; os nid yn mhob peth, etto yn y rhan amlaf; os nid ar unwaith, etto gwna hyny yn y diwedd."—WHITAKER (*Disput. of Scrip.*, *p.* 473.)

"Y Cristion mwyaf anllythyrenog, os gall yn unig ddarllen ei Feibl, ac a ofalo ei ddarllen yn y modd yma, efe a gyrhaedda, nid yn unig yr oll o'r wybodaeth ymarferol hono sydd yn hanfodol er iachawdwriaeth; ond hefyd, drwy fendith Duw, daw i'r fath raddau yn wybodus yn mhob peth perthynol i'w grefydd, fel na byddo yn agored i gael ei gamarwain gan resymau gweigion, na chan haeriadau twyllodrus, y rhai a ymdrechant impio eu mympwyau eu hunain ar oraclau Duw."—HORSLEY.

274. Pa un bynag ai yn llythyrenol neu drofegol y defnyddir geiriau, rheol gyntaf dehongliadaeth, yw chwilio i'r synwyr yn mha un y mae arferiad eyffredin yn eu defnyddio. Gan fod holl ysgrifenwyr yr Ysgrythyrau santaidd wedi llefaru neu ysgrifenu er mwyn cael eu deall, rhaid i ni ddehongli eu hiaith fel y dehonglwn iaith bywyd cyffredin.

Dywedant wrthym, er enghraifft, "nid oes un yn gwneuthur daioni;"[a] yn ffigurol, fod "pob enawd wedi llygru ei ffordd;"[b] gan gadarnhau yr un gwirionedd mewn dwy ffurf wahanol. Mynegant fod edifeirwch yn angenrheidiol er maddeuant,[c] ac mai rhoddion Crist yw edifeirwch a maddeuant.[d] Gosodir allan holl athrawiaethau yr efengyl mewn iaith sydd yn llawn mor syml a phenderfynol: bodoliaeth a pherffeithderau Duw; unoliaeth y Jehofah, Duw y Tad, y Mab, a'r Ysbryd Glân; cwymp dyn; llygredigaeth y natur ddynol; ein cyfrifoldeb moesol; prynedigaeth drwy iawn Crist; adnewyddiad y galon drwy ddylanwad yr Ysbryd Glân; rhadlonrwydd a phenarglwyddiaeth Dwyfol ras; santeiddrwydd cynnyddol Cristionogion, a'u dedwyddwch tragywyddol yn y diwedd. Os oes ystyr i iaith, dysgir yr athrawiaethau yma mewn rhanau aneirif o'r Beibl, a hyny mewn geiriau nas gellir eu camsynied.

275. Er mor syml yw y rheol yma, etto, tòrir hi yn fynych wrth ddehongli yr Ysgrythyrau. Origen, er enghraifft, wrth ddarllen i Abraham yn ei hen ddyddiau briodi Ceturah, ac wedi cael allan mai ystyr *Ceturah*

[a] Rhuf. 3, 12. [b] Gen. 6, 12. [c] Esay 55, 7. [d] Act. 5, 31.

yn Hebraeg yw "arogl peraidd," a bod "arogl peraidd" yn gymhwysiadol neillduol at y rhai hyny sydd â chyfiawnder yn perarogli eu cymmeriad, a feddyliodd mai rhaid mai y meddwl pwysicaf oedd, fod Abraham, yn ei hen ddyddiau, wedi dyfod yn hynod o santaidd. Esboniwr diweddarach, Cocceius, wrth egluro yr 8fed Salm, pan ddywedir fod "defaid ac ychain," "ehediaid y nefoedd, a physgod y môr," wedi eu gosod dan ei draed ef, a feddyliodd fod pawb Cristionogion yn ddarostyngedig i Grist, a bod hyd y nod yr annuwiolion (yn cael eu gosod allan drwy yr adar a'r pysgod), er yn anfoddlawn, o dan ei reolaeth ef.

276. Cyfeiliornad cyffelyb a wna yr hanes egluraf yn ffugiaith, a dysga ni i edrych ar holl wyrthiau Crist fel dygwyddiadau cyffredin, wedi eu desgrifio yn aneglur. Ar yr egwyddor yma, nid yw hanesiaeth Ysgrythyrol yn golygu unrhyw beth sydd yn bennodol, neu ynte, golyga unrhyw beth y gall darfelydd bywiog ei ddychymmygu ei bod yn ei feddwl. Yn ol pob un o'r ddwy ffordd, nid yw yr arwyddocâd yn y Beibl, ond yn meddwl yr ymofynydd.

277. Ond, tra yr ydym, fel rheol gyffredin, i ddeall geiriau yr Ysgrythyr yn eu hystyr arferol, y mae rhai neillduolion yn gofyn am sylw. Gan fod y Beibl wedi ei gyfieithu o'r Hebraeg, a hyny mewn modd tra llythyrenol, y mae y cyfieithiad Seisnig [a'r un Cymreig.—*Cyf.*] yn aml yn defnyddio ieithweddau ac ymadroddion perthynol i'r iaith hono, ac y mae y rhai hyn i'w deall, nid yn ol yr ieithwedd Seisnig [neu Gymreig.—*Cyf.*], ond yn ol yr un Hebreig.

(*a*). Er enghraifft, yr Iuddewon yn aml iawn a draethent feddwl ansoddol, nid drwy ddefnyddio ansoddair, ond ail enw; a gellir olrhain yr arferiad yma yn Ngroeg-Hebreig y Testament Newydd. "Gwaith eich ffydd, a llafur eich cariad, ac ymaros eich gobaith," a feddylia "eich gwaith crediniol, eich llafur cariadus, a'ch amynedd gobeithiol." 1 Thes. 1, 3. Felly hefyd yn Eph. 1, 13, "ysbryd yr addewid" a feddylia "yr ysbryd addawedig."

(*b*). Ieithwedd gyffredin yn yr Hebraeg oedd galw person o nodwedd neillduol, neu agored i ryw ddrwg neillduol, yn blentyn neu yn fab i'r nodwedd neu y drygioni hwnw.

Yn 1 Sam. 2, 12, gelwir meibion Eli yn "feibion Belial," sef meibion drygioni. Wrth "fab tangnefedd" yn Luc 10, 6, y golygir person o feddwl mwyn ac astud, tueddol i roddi i'r efengyl dderbyniad ewyllysgar. Yn Eph. 5, 6—8, wrth "blant yr anufydd-dod," a "phlant y goleuni," y mae golygu personau anufydd, a phersonau goleuedig.

Felly hefyd yn Math. 24, 15; Marc 13, 14; Rhuf. 7, 24; 1 Ioan 3, 10; Iago 2, 4; Heb. 1, 3; Dad. 3, 10. Dichon, fodd bynag, fod yr ieithwedd mewn rhai o'r adnodau yma yn bwysleisiol.

(*c*). Y mae cymhariaeth etto yn cael ei gosod allan yn yr Hebraeg mewn modd neillduol. Caru a chasâu, er enghraifft, sydd ymadrodd Hebreig am ddewis un peth o flaen y llall. Yn Luc 14, 26, dywedir, "Os daw neb ataf fi, ac ni chasâ ei dad;" am yr hyn y cawn yn Math. 10, 37, "Yr hwn sydd yn caru tad yn fwy nâ mysi." Defnyddir yr un ymadrodd yn Ioan 12, 25; yn Rhuf. 9, 13; yn Gen. 29, 18; 30, 31; ac yn Deut. 21, 15.

Y mae cymhariaeth yn cael ei hawgrymu weithiau drwy ddefnyddio rhagferfau negyddol. Felly yn Gen. 45, 8, "*Nid* chwi a'm hebryngodd I yma, *ond* Duw." Duw oedd yn hytrach nâ chwi. Felly yn Ex. 16, 8; 1 Sam. 8, 7; Diar. 8, 10; Hos. 6, 6; Jer. 7, 22, 23. Felly yn Marc 9,

37, "A phwy bynag a'm derbyn I, *nid* myfi y mae yn ei dderbyn, ond yr hwn a'm danfonodd I." Nid yn gymmaint, neu, nid myfi yn unig, ond efe. Felly yn Math. 5, 39; Luc 14, 12; Ioan 5, 22, 30, 45; 6, 27; 1 Cor. 1, 17; Eph. 6, 12; 1 Thes. 4, 8.

(*d*). Y mae enwau *lluosog* yn cael eu defnyddio weithiau yn yr Hebraeg, i arwyddo bodoliaeth mwy nag un, er, fe allai, mai at un y bydd y cyfeiriad yn cael ei wneyd. Gen. 8, 4; 19, 29; Barn. 12, 7; Neh. 3, 8; Math. 24, 1, lle mae "ei ddysgyblion" yn golygu un o honynt. Gwel Marc 13, 1; Math. 26, 8; Ioan 12, 4; Math. 27, 44; Marc 15, 32; Luc 23, 39; Luc 23, 36; a Math. 27, 48. Mewn rhai o'r enghreifftiau hyn, fodd bynag, yr oedd yr oll, neu amryw o honynt, yn cyfranogi o'r syniad. Marc 5, 30, "dillad;" hyny yw, un o honynt, yr uchaf.

(*e*). Y mae enwau rhieni, neu henafiaid, yn cael eu harfer yn aml yn yr Ysgrythyrau am eu hiliogaeth.

Yn Gen. 9, 25, dywedir, "Melldigedig fyddo Canaan;" hyny yw, ei hiliogaeth. Cofier nad oedd y felldith yma i effeithio dim ar y rhai hyny o'i hiliogaeth oedd yn gyfiawn; oblegid Canaanëaid oedd Melchisedec ac Abimelech, yn gystal a'r wraig hono ddaeth at Grist, merch yr hon a iachäodd efe. Gen. 14, 18—20; 20, 6; Math. 15, 22—28. Yn yr un modd, gosodir Jacob ac Israel yn aml am Israeliaid, fel yn Ex. 2, 24; Sal. 14, 7; 1 Bren. 18, 17, 18.

(*f*). Y mae y gair "mab" yn cael ei arfer weithiau, drwy Hebreigiaeth (yr hyn, yn wir, sydd yn gyffredin braidd yn mhob iaith), i ddynodi disgynydd pell.

Gelwir yr offeiriaid yn feibion Lefi. Mephiboseth a elwir yn fab Saul, er mai Jonathan oedd ei dad, 2 Sam. 19, 24; felly yn Gen. 46, 22. Gelwir Sechariah, ŵyr Ido (Sec. 1, 1), yn fab iddo, Ezra 5, 1. Fel hyn, y mae "mab" yn cael ei arfer am unrhyw ddisgynydd, a "thad" am unrhyw henafiad, 1 Cron. 1, 17.

Defnyddir y gair "brawd" yn yr un modd am unrhyw berthynas gyfochrog (*collateral*). Cymhwysir ef fel hyn gan Abraham at Lot, yr hwn oedd yn nai iddo.[a] Hefyd, mewn un enghraifft, y mae hiliogaeth dyn a briododd ferch i Barzilai yn cael ei galw, oddiwrth dad ei mam, yn feibion Barzilai.[b] Yn yr un modd y gelwir Jair yn fab Manasseh, o herwydd i'w daid briodi merch i un o benau llwyth Manasseh. Meddylir hefyd mai yn y modd yma y disgynodd Mair oddiwrth Ddafydd, fel yr oedd ein Harglwydd yn fab i Ddafydd, nid yn unig drwy ei dad cyfrifedig, ond hefyd am fod ei fam wedi disgyn yn uniongyrchol oddiwrtho.

278. Gwybodaeth o'r rheolau ymadrodd olaf yma, yn aml, a adgyweiria wrthddywediadau ymddangosiadol. Er enghraifft, yn 2 Bren. 8, 26, gelwir Athaliah yn ferch Omri, ac yn adn. 18, gelwir hi yn ferch Ahab. Y gwir yw, merch Ahab ydoedd, ac ŵyres Omri. Gwel hefyd 1 Bren. 15, 10; 2 Cron. 13, 2; a 1 Cron. 3, 15, yn gymharedig âg 2 Cron. 36, 9, 10.

279. Y mae neillduolion ereill, Hebreigiaethau anmherffaith (*semi-Hebraisms*), sydd ag angen eu nodi.

(*a*). Y mae rhai rhifedi yn cael eu defnyddio yn yr Hebraeg am nifer anmhenodol.

"Deg," er enghraifft, a olyga "amryw," yn gystal a'r rhif neillduol hwnw, Gen. 31, 7; Dan. 1, 20.

[a] Gen. 14, 16; 29, 12, 15; tebyg yw fod y gair yn cael ei ddefnyddio felly hefyd yn Ioan 7, 3; Gal. 1, 19. [b] Ezra 2, 61; Neh. 7, 63.

"Deugain" a feddylia "llawer." Gelwir Persepolis, mewn iaith Ddwyreiniol, yn "ddinas y deugain tŵr," er eu bod yn llawer lluosocach nâ hyny. Hyn, mae yn debyg, yw y meddwl yn 2 Bren, 8, 9, lle y dywedir fod Hazael wedi dwyn yn anrheg i Eliseus lwyth deugain o gamelod o bethau da Damascus. Hyn hefyd, fe ddichon, yw y meddwl yn Ezec. 29, 11, 13.

Y mae "saith," a "deg-a-thriugain," yn cael eu defnyddio i osod allan rifedi mawr a chyflawn, ond ansicr, Diar. 26, 16, 25; Sal. 119; 164; Lef. 26, 24, &c. Gorchymynir i ni faddeu, er enghraifft, "hyd ddengwaith a thriugain seithwaith," i arwyddo, os edifarha ein brawd am ei bechod, nad oes dim diwedd i fod ar faddeuant. Y mae y saith cythraul a fwriwyd allan o Mair o Magdala yn arwyddo ei dyoddefaint poenus, ac, fe allai, ei mawr ddrygioni.

(*b*). Y mae yr Ysgrythyrau weithiau yn defnyddio rhif crwn (*round number*), pan na fyddo yn rhoddi y nifer yn hollol gywir.

Oddiwrth Num. 25, 9, a 1 Cor. 10, 8, dysgwn fod rhwng 23,000 a 24,000 wedi eu lladd gan y pla. Yn yr adnod gyntaf nodir 24,000, ac yn yr ail 23,000. Yn Barnwyr 11, 26, rhoddir 300 mlynedd am 293. Gwel Jos. 4, 19: Num. 33, 3; a chymharer 14, 33: Barn. 20, 46, 35: 9, 5, 18, 56.

(*c*). Defnyddir berfau yn achlysurol yn yr Ysgrythyr, yn dynodi bodoliaeth neu weithrediad syml, pan na fyddo dim ond mynegiad, neu gyhoeddiad, yn cael ei olygu, neu dybiaeth fod y weithred yn cael ei chyflawnu, neu y bydd iddi gael ei chyflawnu, neu ei bod wedi ei chyflawnu.

Yn Lef. 13, 3, 13, er enghraifft, dywedir fod yr offeiriad yn glanhau y gwahan-glwyfus; y meddwl yw, ei fod yn ei gyhoeddi, neu yn ei ddadgan, yn lân. Y mae y llythyren yn lladd; hyny yw, yn dadgan marwolaeth fel canlyniad pechod, Rhuf. 5, 20; Phil. 3, 7. Gwel hefyd Rhuf. 4, 15; 7, 9; 2 Cor. 3, 6. Felly hefyd mewn prophwydoliaeth. Jer. 1, 10; Ezec. 43, 3: Esay 6, 10.

(*d*). Wrth ddehongli geiriau yr Ysgrythyr, y mae yn angenrheidiol sylwi, fod yr enwau priodol yn cael eu defnyddio mewn modd tra neilldual. Y mae yr un enw yn aml hefyd ar wahanol bersonau.

Enw cyffredin breninoedd yr Aifft, o amser Abraham hyd oresgyniad yr Aifft gan y Persiaid, oedd Pharoah (neu lywydd, oddiwrth *Phre*, yr haul), fel yr oedd Ptolemy yn enw cyffredin ar ei breninoedd ar ol marwolaeth Alexander. Ymddengys fod Abimelech (yn arwyddo, fy nhad y brenin) yn enw cyffredin ar freninoedd y Philistiaid. Agag oedd enw breninoedd yr Amaleciaid; fel yr oedd Benhadad (mab yr haul) ar freninoedd Damascus. Yn mhlith y Rhufeiniaid, Augustus Cæsar oedd y teitl cyffredin ar eu hamherawdwyr. Yr Augustus a nodir yn Luc 2, 1, oedd yr ail o'r enw hwnw. Y Cæsar a deyrnasai pan groeshoeliwyd Iesu oedd Tiberius. Yr amherawdwr at yr hwn yr appeliodd Paul, yr hwn a elwir yn Augustus ac yn Cæsar, oedd Nero, Act. 25, 21. Ymddengys fod gan freninoedd yr Aifft a'r Philistiaid, fel eiddo y Rhufeiniaid, enwau priodol yn gystal a rhai cyffredin. Darllenwn, er enghraifft, am Pharoah Necho ac am Pharoah Hophra; a'r Abimelech a nodir yn Sal. 34, a elwir Achis yn 1 Sam. 21, 11.

Adnabyddir personau gwahanol yn y Testament Newydd wrth yr enw cyffredin Herod. Herod Fawr, fel ei gelwir mewn hanesyddiaeth gyffredin, oedd yr hwn, yn ei hen ddyddiau, a laddodd y plant yn Methlehem. Efe a adadeiladodd ac a ardderchogodd y Deml, ac a helaethodd Cæsarea,

Yr oedd yn hynod am ei eiddigedd a'i greulondeb. Ar ei farwolaeth, rhoddwyd hanner ei deyrnas (yn cynnwys Judea a Samaria) i'w fab Archelaus; y rhan fwyaf o Galilea a roddwyd i'w fab Herod y Tetrarch, neu y Brenin, Luc 3, 1: Math. 14, 9: a rhoddwyd rhyw ranau o Syria a Galilea i'w drydydd fab, Philip Herod. Herod y Tetrarch a dòrodd ben Ioan, ac a wawdiodd ein Harglwydd yn ei ddyoddefiadau olaf. Ei ymddygiad tuag at Herodias, ei nith a'i chwaer-yn-nghyfraith, a derfynodd yn ei alltudiad i Gaul. Llywodraethau Herod a Philip a roddwyd yn y diwedd i Herod Agrippa, ei nai, a brawd Herodias, yr hwn a elwir yn yr Ysgrythyr yn Herod yn unig. Mewn amser, daeth ef yn feddiannol ar yr holl diriogaeth yn Mhalestina a fuasai yn perthyn i'w daid, Herod Fawr. Hwn oedd llofrudd yr apostol Iago, a bu farw yn druenus a disymmwth yn Cæsarea. Ei fab ef oedd Herod Agrippa, a elwir yn y Testament Newydd yn Agrippa yn unig. O'i flaen ef y dygwyd Paul gan Ffestus. Yr oedd cymmeriad y dyn hwn yn wahanol iawn i eiddo ei dad, ac y mae gwybodaeth o'r ffaith, mai nid yr un person oeddynt yn hanfodol er iawn ddeall yr hanes.

Rhoddir yr un enw hefyd i wahanol leoedd. Y mae Cæsarea yn enw ar ddwy ddinas; gelwir un yn Cæsarea Philippi, yn Galilea, a'r llall ar làn Môr y Canoldir. Yr un a nodir drwy holl Actau yr Apostolion, oedd y porthladd o ba un fynychaf yr oedd teithwyr yn gadael Judea er myned i Rufain. Antioch, yn Syria, etto oedd y lle y dechreuodd Paul a Barnabas ar eu llafur, a'r lle y galwwyd dysgyblion Crist gyntaf yn Gristionogion. Y mae yr Antioch y sonir am dani yn Act. 13, 14, ac yn 2 Tim. 3, 11, yn Phrygia. Y mae Mispeh ("tŵr gwylladwriaeth") yn Mynydd Gilead, lle y preswyliai Jephtha, a'r lle y gwnaeth Jacob a Laban eu cyfammod, Gen. 31, 49: Barn. 11, 34; yr oedd Mispeh yn Moab, 1 Sam. 22, 3, yr hwn, fe ddichon, oedd yr un a'r blaenorol: ac yr oedd Mispeh yn Gibeah, lle y preswyliai Samuel, a'r lle y dewisiwyd Saul yn frenin, 1 Sam. 7, 11: ac yr oedd Mispeh hefyd yn llwyth Judah, Jos. 15, 38.

Weithiau y mae yr un enw yn cael ei gymhwyso at berson ag at le. Magog, er enghraifft, sydd enw ar fab i Japheth, ac y mae hefyd yn enw a roddir ar y wlad a breswylid gan y bobl a elwid Gog, y Scythiaid, mae yn debygol, neu y Tartariaid, fel y gelwir hwynt yn bresenol. Ezec. 38; Dad. 20, 8. Y mae y Tyrciaid wedi deilliaw o'r un cyff.

Rhoddir enwau gwahanol weithiau ar yr un personau a'r un lleoedd. Tad-yn-nghyfraith Moses, er enghraifft, a elwir yn Hobab ac yn Jethro, Barn. 4, 11; Ex. 3, 1. Fe allai mai taid ei wraig ef oedd Reuel, ond gelwir ef yn dad iddi, Ex. 2, 18. Yr un yw Lefi a Mathew. Yr un person yw Thomas a Didymus; ystyr y geiriau yw gefeilliaid. Thaddeus, Lebbæus, a Judas, ydynt wahanol enwau ar yr un apostol. Sylvanus, Lucas, a Timotheus, ydynt ffurfiau Lladin o Silas, Luc, a Timothy; y tri olaf a berthynant i'n cyfieithiad ni, ac nid i'r gwreiddiol.

Horeb a Sinai ydynt enwau a gymhwysid gynt ac yn awr at bigynau gwahanol o'r un gadwyn o fynyddoedd; ac y mae y ddau enw ar droion yn cael eu cymhwyso at yr holl gadwyn.

Gelwid Cesarœa (yn Galilea) yn Lais, ac wedi hyny yn Dan, 1 Bren. 12, 29; Barn. 18, 29.

Llyn Gennesaret a elwid gynt yn Fôr Cinnereth, ac wedi hyny yn Fôr Galilea, neu Fôr Tiberias, Math. 4, 18; Ioan 21, 1.

Gelwid yr Abyssinia bresenol yn Ethiopia, ac weithiau yn Cus; yr enw olaf, fodd bynag, a gymhwysid at Arabia, neu at India yn gyffredinol: oddi-

wrth hyn, mae yn debyg, y daeth Cusistan. Gelwid Groeg yn Jafan a Groeg, Esay 66, 19; Sech. 9, 13. Yr Aifft a elwir yn Ham a Rahab, Sal. 78, 51; Esay 51, 9.

Gelwir y Môr Marw yn Fôr y Gwastadedd, ar nen yn agos i ba un y safai dinasoedd Sodom a Gomorrah; y Môr Dwyreiniol, oddiwrth ei sefyllfa mewn cyssylltiad â Jerusalem; ac weithiau y Môr Heli, 2 Breninoedd 14, 25; Gen. 14, 3.

Y Nile a elwir yn yr Ysgrythyr Sihor, Jos. 13, 3; ond yn fwyaf cyffredin yr Afon; y mae y ddau enw, fodd bynag, yn cael eu cymhwyso at ffrydiau ereill.

Môr y Canoldir a elwir weithiau yn Fôr y Philistiaid, am eu bod hwy yn preswylio ar ei ororau; neu y Môr Eithaf; neu yn fwy cyffredin, y Môr Mawr, Ex. 23, 31; Deut. 11, 24; Num. 34, 6, 7.

Gelwir y Tir Santaidd yn Wlad Canaan, Gwlad Israel, Gwlad Judea, Palestina, neu Wlad y Bugeiliaid, a Gwlad yr Addewid, Ex. 15, 14; 1 Sam. 13, 19; Esay 14, 29: Heb, 11, 9.

280. Y mae adnabyddiaeth fanwl o'r moddau amrywiol y cymhwysir enwau priodol o bwys mawr, yn enwedig er cymmodi gwrthddywediadau ymddangosiadol yn yr Ysgrythyr Santaidd.

Er enghraifft, gelwir Ahaziah, mab Jehoram, yn Azariah a Jehoahaz, 2 Bren. 8, 29; 2 Cron. 22, 6; 21, 17.

Jehoahaz, mab Josiah, a elwir yn Johanan ac yn Salum, 2 Bren. 23, 30; 1 Cron. 3, 15; Jer. 22, 11.

Gelwir Jehoiada, yr offeiriad, yn Johanan, ac, mae yn debyg, yn Barachias, 2 Cron. 24, 20; 1 Cron. 6, 9; Math. 23, 25. Yr un yw ystyr yr holl enwau yma.

Gelwir Uzziah yn Azariah; Nathaniel yn Bartholomew. Yn y cyfryw enghreifftiau, yr un ystyr sydd yn fynych i'r gwahanol enwau.

281. Amlwg yw, fodd bynag, fod i air yn aml amrywiol ystyrion, a phob un o honynt yn cael eu caniatâu gan ymarferiad cyffredin. Y mae arnom, gan hyny, angen ail reol dehongliaeth; er mwyn deall ystyr gair, angenrheidiol yw chwilio i ystyr y geiriau ereill, â pha rai y mae yn gyssylltiedig yn y frawddeg; hyny yw, rhaid i ni benderfynu yr ystyr yn mha un y mae yr arferiad cyffredin yn ei ddefnyddio yn ei gyssylltiad neillduol.

Er enghraifft, wrth FFYDD weithiau y mae golygu yr efengyl (athrawiaeth fawr yr hon yw ffydd yn Nghrist), fel yn Gal. 1, 23, "Ei fod yr awr hon yn pregethu y ffydd, yr hon gynt a anrheithiasai." Felly hefyd yn 1 Tim. 3, 9: 4, 1: Act. 24, 24. Golyga, etto, wirionedd, neu ffyddlondeb, fel yn Rhuf. 3, 3, "a wna eu hanghredinjaeth hwy ffydd Duw yn ofer?" Ac felly hefyd yn Titus 2, 10 (gwreiddiol); ac, fe ddichon, yn Gal. 5, 22. Golyga yn mhellach, mewn un adnod, brawf neu dystiolaeth, Act. 17, 31 (Groeg). Meddylia argyhoeddiad trylwyr o ddyledswydd, megys yn Rhuf. 14, 23; neu, yn yr ëangder mwyaf, yr ymarferiad hwnw o eiddo y meddwl a'r galon drwy ba un y derbynia dyn wirionedd ysbrydol a Dwyfol (Heb. 11); neu, yn fwy penodol, yr ymorphwysiad hwnw o eiddo y meddwl a'r galon ar waith Crist, fel sail ein maddeuant, a moddion ein santeiddiad (Rhuf. 3, 28).

CNAWD a feddylia weithiau yr hyn sydd yn dyner a dysgadwy; megys yn Esec. 11, 19, "a rhoddaf iddynt galon gig:" yma y mae yn wrthgyferbyniol i galon o gareg. Golyga hefyd, y natur ddynol, heb unrhyw gyfeiriad at ei phechadurusrwydd, Ioan 1, 14: Rhuf. 1, 3: 9, 3: neu, yn

fwyaf cyffredin, y natur ddynol, fel y mae yn llygredig a phechadurus, Rhuf. 8, 5: Ephes. 2, 3. Meddylia hefyd yr hyn oll sydd yn allanol a seremoniol mewn crefydd, fel yn wahaniaethol oddiwrth yr hyn sydd yn fewnol ac ysbrydol, megys yn Gal. 6, 12: 3, 3; lle y cyfeiria yn fwyaf neillduol at seremoniau goruchwyliaeth Moses (cymharer Phil. 3, 3).

IACHAWDWRIAETH, a feddylia mewn rhai manau ddiogelwch a gwaredigaeth allanol, megys yn Ex. 14, 13: Act. 7, 25 (gwreiddiol): neu iachad, megys yn Iago 5, 15, lle y dywedir, yn achos Cristion cystuddiol, fod gweddi y ffydd yn iachau y claf. Ei feddwl mwyaf cyffredin, fodd bynag, sydd yn dàl perthynas â bendith ysbrydol, pryd y cynnwysa weithiau gyfiawnhad am gymmaint o'n hiachawdwriaeth sydd wedi ei chwblhau ar y ddaear, megys yn Ephes. 2, 8: Luc 1, 79: neu, yn fwyaf cyffredin, y mae yn golygu yr oll o'r fendith sydd wedi ei sicrhau gan Grist i gredinwyr, gan ddechreu gyda maddeuant, a diweddu mewn gogoniant tragywyddol, Rhuf. 13, 11. Weithiau, ei ystyr syml yw yr efengyl, fel yn Heb. 2, 3, lle y dywedir ei bod wedi "dechreu eu thraethu drwy yr Arglwydd, ac wedi ei sicrhau i ni gan y rhai a'i clywsant ef."

Yn yr un modd, y mae yr Ysgrythyr yn defnyddio y gair GWAED mewn amryw ystyriaethau. Duw a wnaeth "o un gwaed bob cenedl o ddynion," Act. 17, 26: hyny yw, y mae iddynt yr un dechreuad naturiol. Rhoddi i'r annuwiol waed i'w yfed, yw gosod yn eu dwylaw gwpan marwolaeth. Yn Math. 27, 25, wrth "Bydded ei waed ef arnom ni, ac ar ein plant," y meddylir, yr euogrwydd o'i osod ef i farwolaeth: "bydded ei farwolaeth (hyny yw, yr euogrwydd o hono) arnom ni." Yn Rhuf. 5, 9, dywedir fod y Cristion yn cael ei gyfiawnhau drwy waed Crist: ac yn Heb. 9, 14, dywedir fod gwaed Crist yn "puro ein cydwybodau oddiwrth weithredoedd meirwon." Gwisgoedd y gwaredigion a wneir yn wynion yn ngwaed yr Oen. Gwaed Crist, yn yr adnodau yma, a olyga ei "ufydd-dod i angeu," ei "offrymiad o hono ei hun" ar y groes, yn sail ein cyfiawnhad, ac yn offeryn a chymhelliad ein santeiddrwydd.

Meddwl cyffredin y gair GRAS yw "ffafr." Pan gymhwysir ef at Ddduw, meddylia y ffafr anhaeddiannol a ddangosir ganddo ef tuag at ddynion, megys yn 2 Tim. 1, 9, "Yn ol ei arfaeth ei hun a'i ras." Heblaw hyny, golyga holl amrywiol roddion y gras hwnw: cyfiawnhad, megys yn Rhuf. 5, 15: nerth a santeiddrwydd, megys yn 2 Cor. 12, 9, "Digon i ti fy ngras I:" a gogoniant tragywyddol, 1 Pedr 1, 13. "Gair ei ras," Act. 14, 3, yw yr efengyl. Ac yn Heb. 13, 9, meddylia athrawiaethau yr efengyl, ac nid bwydydd a defodau.

Penderfynir meddwl y gair yn agos yn yr oll o'r adnodau yma oddiwrth y cyssylltiad yn mha un y mae yn sefyll. Y meddylddrychau cyffredin a awgrymir gan y geiriau, a ddarnodir gan eu cyssylltiad neillduol.

282. Y rheol a'n cynnorthwya fel hyn i ddewis, allan o amrywiol ystyriaethau gair, yr ystyr sengl sydd yn briodol i'r lle, a'n cynnorthwya hefyd i benderfynu pa un ai yn llythyrenol ai yn ffigurol y mae y gair yn cael ei ddefnyddio. Os, wrth ddarllen y frawddeg, y cawn fod y geiriau yn eu hystyr briodol yn cynnwys gwrthddywediad, neu anmhosiblrwydd, eglur yw fod yno ymadrodd ffigurol.

Yn 1 Pedr 2, 5, er enghraifft, gelwir Cristionogion yn "feini bywiol." Yn Rhuf. 13, 12, annogir hwynt i "wisgo arfau y goleuni." Yn 1 Pedr 1, 13, dywedir wrthynt am "wregysu lwynau eu meddwl." Yn yr holl adnodau yma y mae cyssylltiad y gair yn dangos ei fod yn ffigurol. A'i gymmeryd wrtho ei hunan, gallai fod yn ffigurol, neu gallai fod yn llythyr-

enol; ond yn ei gyssylltiad presenol, byddai dehongliad llythyrenol yn annghysson. Fel hyn, etto, y mae yn eglur mai ffigurol yw y golchiad y dyweda yr apostol fod Cristionogion wedi ei dderbyn (1 Cor. 6, 11): oblegid dygir ef oddiamgylch "drwy Ysbryd Duw." Rhaid deall gorchymyn Crist, "Gad i'r meirw gladdu eu meirw" (Math. 8, 22), yn ffigurol; a'i feddwl yw, gâd i'r rhai bydol eu meddwl ofalu am amgylchiadau bydol. Geiriau Crist, "Hwn yw fy ngwaed," ydynt yn ffigurol, gan fod y dehongliad llythyrenol o honynt yn groes i reswm ac Ysgrythyr.

Wrth ddefnyddio iaith ffigurol, ymddengys fod yr ysgrifenwyr ysbrydoledig wedi dewis eu hymadroddion ar yr egwyddor o debygoliaeth.

Defnyddir yr hyn sydd fawreddog mewn natur i osod allan yr hyn sydd urddasol a phwysig yn mhlith dynion; y cyrff nefol, mynyddoedd, a phrenau praffion, i ddarlunio teyrnasoedd, neu rai mewn awdurdod; y tir isel, y cangenau, a'r ddaear yn gyffredinol, i ddesgrifio y werin, neu y bobl.

Dangosir cyfnewidiadau gwladyddol drwy ddaeargrynfâu, tymhestloedd, diffygion *(eclipses)*, tröad afonydd a moroedd yn waed, &c. Jer. 4, 23—28; Esay 13, 10, 13; Math. 24, 29; Act. 2, 19.

Defnyddir pethau sydd â dylanwad meithrinol yn perthyn iddynt, megys gwlith, cafodydd, a ffrydiau, i osod allan fendithion ysbrydol, Esay 25, 6; Ioan 4, 13, 14.

Cyfeirir mewn ymadroddion ffigurol at nodweddau anifeiliaid; bwystfilod ac adar ysglyfaethgar, ydynt yn arwyddo gormeswyr.

Y mae corn yn golygu gallu, Dan. 8. Gwialen a olyga ymarferiad o'r gallu hwnw mewn ceryddu. Goleuni a thywyllwch a osodant allan lawenydd a galar, gwybodaeth ac anwybodaeth, llwyddiant ac aflwyddiant, santeiddrwydd a phechod.[a] Priodas, yn aml, a arwydda gyfammod â Duw; a godineb, droseddiad o'r cyfammod hwnw, drwy eilun-addoliaeth. Wrth winllan, yn aml, y golygir yr eglwys; os bydd yn dwyn grawn gwylltion, y mae yn anffrwythlawn; os bydd ei chaeau wedi eu tynu i lawr, y mae yn gystuddiol, neu yn llygredig, Esay, 5, 1—7.

Ni phrofa y rheol yma bob amser, pa un ai yn llythyrenol ai yn ffigurol y mae geiriau i'w deall, er ei bod, yn y rhan amlaf o achosion, yn myned yn mhell i wneuthur hyny. Sylwir ar reolau ereill yn yr hyn a ganlyn.

283. Tra y mae y geiriau a ddefnyddir, neu eu cyssylltiad yn y frawddeg, yn aml yn awgrymu y meddwl, etto, y mae yn angenrheidiol weithiau i edrych yn mhellach nâ'r geiriau, ac hyd y nod y frawddeg, at y cyddestun; ac yno cawn—

284. (1.) Eiriau a darnau-ymadrodd *(passages)* yn cael eu hesbonio yn iaith yr ysgrifenwyr ysbrydoledig eu hunain; weithiau drwy ddarnodion, weithiau drwy siamplau, a phrydiau ereill drwy ymadroddion sydd yn cyfyngu yr ystyr.

Yn Heb. 11, er enghraifft, y mae Ffydd yn cael ei desgrifio, ac wedi hyny ei hegluro. Dywedir mai dysgwyliad hyderus ydyw am y pethau yr ydys yn eu gobeithio, a chyflawn sicrwydd o'r pethau nid ydys yn eu gweled; ac wedi hyny rhoddir siamplau o'r ddwy ran o'r darnodiad. Yn Noah, yr oedd yn argyhoeddiad perffaith o wirionedd Duw gyda golwg ar y diluw. Yn Abraham, yr oedd yn ddysgwyliad hyderus am gyflawniad yr addewid a wnaethwyd iddo ef, ac i'w hâd. Os bydd y gair Dwyfol yn llefaru am drugareddau, y mae ffydd yn gobeithio am danynt; ond os llefara am bethau gwir ysbrydol a dyfodol, y mae ffydd yn credu ynddynt:

[a] Esther 8, 16; Esay 5, 20; Sal. 97, 11; Ephes. 5, 14.

Fe allai nad oes yr un darn-ymadrodd yn egluro yn well nâ hwn yr anhawsdra i wneyd cyfieithiad da, yn nghyd â doethineb Duw wrth roddi i ni Feibl o siamplau, yn hytrach nag un o ddarnodiadau. Y gair "sail" sydd gyfieithiad llythyrenol o'r gwreiddiol, a meddylia, beth bynag sydd yn sefyll dan, neu yn cynnal y cwbl sydd wedi ei gyssylltu âg ef, pa un bynag ai pynciau ai ansoddau fyddont. Ni allesid cael yr *un* gair unigol i osod allan feddwl y gwreiddiol yn fwy cyflawn; ac etto, nid yw yn eglur. Yn Heb. 1, 3, cyfieithir yr un gair yn "berson," ac yn 2 Cor. 11, 17, yn "hyder" (o ymffrost); ac y mae y ddau gyfieithiad yn gywir. Y meddwl cyflawn yw, dysgwyliad hyderus ar sail dda. Y mae ffydd, gan hyny, gyda golwg ar yr hyn a obeithir, yn beth, ar yr hwn y gall hyder cyflawn a sylweddol orphwys. Heblaw hyny, y mae hefyd yn sicrwydd y pethau nid ydys yn eu gweled. Y meddylddrych cyflawn yma etto yw, y fath brawf o'r pethau ni welir, ag sydd yn dystewi pob ammheuaeth, ac yn symud ymaith bob gwrthwynebiad; neu, yn hytrach, hi yw yr argyhoeddiad a gynnyrchir gan y cyfryw brawf. Y mae yr holl ëangder meddwl yma i'w gael yn y geiriau gwreiddiol; ond ni all *un* gair ei fynegu. Pe buasai y Beibl wedi ei wneyd i fyny o ddarnodiadau, buasai cyfieithiad heb aralleiriad yn anmhosibl. Hawdd, gan hyny, y gallwn deimlo yn ddiolchgar mai llyfr o siamplau, yn benaf, ydyw, a'i fod yn egluro ei egwyddorion drwy fywydau credinwyr, yn hytrach nag mewn ymadroddion dyrus, a rhesymegawl.

PERFFEITHRWYDD, etto, a ddarnodir mewn amryw ranau o'r Beibl. Yn Sal. 37, 37, defnyddir ef fel yn gyfystyr âg uniondeb neu ddidwylledd, daioni sylweddol a diragrith; a hyn yw ei ystyr cyffredin yn yr Hen Destament, 1 Cron. 12, 33, 38. Yn y Testament Newydd, y mae yn golygu naill ai meddiant o wybodaeth gywir ac eglur o wirionedd Dwyfol, neu feddiant, i raddau mwy neu lai, o HOLL rasusau y cymmeriad Cristionogol. Y cyntaf yw y meddwl yn Heb. 5, 14, lle y dywedir fod "bwyd cryf yn perthyn i'r rhai perffaith;" sef "y rhai hyny, o herwydd cynnefindra, y mae ganddynt synwyr wedi ymarfer i ddosparthu da a drwg." Felly hefyd yn 1 Cor. 2, 6; Phil. 3, 15. Yr ail yw yr ystyr yn Iago 1, 4, lle y darnodir "perffaith" fel yn "gyfan, heb ddiffygio mewn dim." Yn 2 Pedr 1, 5—7, rhoddir cyfres o'r grasusau a wnant i fyny y Cristion perffaith.

Yn Ephes. 3, 4, 5, darnodir DIRGELWCH drwy enghraifft, fel y gwirionedd, y cawsai y cenedloedd fod yn gyfranogion o'r addewid yn Nghrist drwy yr efengyl.

DULL Y BYD HWN a olyga gyflwr naturiol bywyd, fel yn wrthgyferbyniol i deyrnas Crist; mynediad allan yr ysbryd hwnw ydyw, sydd yn gweithio yn mhlant anufydd-dod.

Yn Gal. 4, 3, defnyddir yr ymadrodd GWYDDORION Y BYD, ac eglurir ef yn adn. 9, 10, o'r un bennod. Gwel hefyd Heb. 2, 5; 6, 5; 1 Cor. 10, 11.

Nid anfynych, hyd y nod mewn adroddiad syml, y mae y meddwl yn cael ei gyfyngu, neu ei egluro gan y cyd-destun.

Cymharer Gen. 6, 19, 20; 7, 2, 3, lle y llefarir am y "cwplau," ac am rifedi y cwplau, ar eu penau eu hunain; hefyd, oddiwrth Gen. 48, 8, 10, casglwn mai rhanol oedd dallineb Jacob. Oddiwrth Exod. 6, 3, a Gen. 13, 4 (Heb., Jehofah), gellir casglu nad oedd ffyddlondeb Jehofah i gyflawnu ei addewidion wedi ei ddadguddio i'r Israeliaid hyd eu hymadawiad o'r Aifft (*Exode*). Oddiwrth Exod. 9, 6; 9, 20, amlwg yw fod y gair

"oll" yn golygu y cyfan ond yr eithriadau a nodir. Y Lefiaid a dreulient bum mlynedd ar brawf, cyn ymosod yn gyflawn ar eu swydd; gweler Num. 4, 3; 8, 24. Yn yr un modd, agwedder *(modify)* Num. 14, 30, wrth Jos. 14, 1; a Jos. 11, 19, wrth 15, 63.

285. (2.) Weithiau, lle na byddo darnodiad ffurfiol, gwneir y meddwl yn eglur drwy gyfrwng rhyw ymadrodd cyfaleddol, neu ymadrodd cyffelyb; neu drwy ddefnyddio rhai gwrthgyferbyniol.

Yn Gal. 3, 17, y "cyfammod âg Abraham" a eglurir fel yr addewid a roddes Duw iddo ef.

Yn Rhuf. 6, 23, meddwl y gair marwolaeth (cyflog pechod) a gesglir oddiwrth yr ymadrodd gwrthgyferbyniol "dawn Duw yw bywyd tragywyddol drwy Iesu Grist ein Harglwydd."

Yr ymadrodd, "wedi eich gwreiddio a'ch adeiladu yndda ef," yn Col. 2, 7, a eglurir fel yn meddwl bod "wedi eu cadarnhau yn y ffydd." Yn Rhuf. 4, 5, dywedir "i'r neb nid yw yn gweithio, ffydd a gyfrifir yn gyfiawnder," ac y mae y gair "gweithio" yn cael ei egluro mewn amryw fanau yn yr un bennod. Yn adn. 2, yr ymadrodd yw "cyfiawnhau drwy ffydd." Oddiwrth yr un adnod, dysgwn ei fod yn meddwl y gwrthwyneb i "gredu yn yr hwn sydd yn cyfiawnhau yr annuwiol." Felly yn Iago 2, 14, y ffydd, yr hon nis gall achub, yw y ffydd sydd yn ymfoddloni ar eiriau, ac nid ar weithredoedd. Ffydd ydyw sydd heb ufydd-dod;—ffydd ydyw o'r fath a feddiannir gan gythreuliaid (adn. 19,) ac nid y fath a deimlid gan Abraham (adn. 23). Cael "cyfiawnhad drwy weithredoedd," gan hyny, yn ol Paul, a gynnwysa yn bennodol wrthodiad o Grist fel Ceidwad i'r euog, ac ymlyniad wrth yr oll o'r cyfammod, tra y mae "y gweithredoedd" y sonia Iago am danynt yn cynnwys ffydd yn Nghrist. Dysgir yr un gwirioneddau gan ein Harglwydd yn Ioan 3, 36, lle y dywedir, "Yr hwn sydd yn credu yn y Mab, y mae ganddo fywyd tragywyddol; a'r hwn sydd heb gredu i'r Mab, ni wel fywyd." Y gair a gyfeithir yma "heb gredu" yn y gwreiddiol yw "heb ufyddhau;" yn dangos, fel y noda Doddridge gyda phriodoldeb, fod y ffydd gyda pha un y cysylltir bywyd tragywyddol, yn egwyddor o ufydd-dod cyflawn.

Dywedir yn 1 Ioan 3, 9, "Pob un a aned o Dduw, nid yw yn gwneuthur pechod;" ond wrth gymharu yr ymadrodd yma â rhanau ereill o'r epistol, cawn mai meddwl y geiriau, "gwneuthur pechod," yw "rhodio mewn tywyllwch," 1, 6; bod, "heb gadw ei orchymynion ef," 2, 4; "casâu ei frawd," 2, 9; a "charu y byd," 2, 15; ymadroddion a ragdybiant ymarferiad sefydlog, ymarferiad croes i ysbryd Cristion.

286. I'r dosparth yma y perthyna ymadroddion cyfochrol (*parallelisms*), neu fesurau yr Ysgrythyrau gwreiddiol; yn mha rai y mae un ran o frawddeg, gyda mwy neu lai o gywirdeb, yn cyfateb i'r llall.

Y mae y cyfochredd (*parallelism*) weithiau yn GYFYSTYR (*synonymous*), neu RADDIADOL (*gradational*); yn rhoddi yr un meddwl yn gywir, neu yr un meddwl gyda rhyw ychwanegiad.

Y mae y Salm gyntaf yn enghraifft ardderchog o'r ymestyniad meddwl graddol yma:—

Gwynfyd y gwr
Ni rodia yn nghynghor yr annuwiolion,
Ac ni saif yn ffordd pechaduriaid,
Ac nid eistedd yn eisteddfa gwatworwyr.

Y mae y raddiaeth yn amlwg,—

Rhodia—sydd â chyfathrach achlysurol.	Cynghor—lle o ymgynnulliad cyhoeddus.	Annuwiolion — negyddol ddrwg.
Saif—sydd âg adnabyddiaeth agos.	Ffordd—llwybr dewisedig.	Pechaduriaid — gweithredol ddrwg.
Eistedd—sydd â chyssylltiad parhaus.	Eisteddfa—gorphwysfa arferol.	Gwatworwyr — halogedig ddrwg.

Gellir cael enghreifftiau cyffelyb yn Sal. 24, 3, 4; Esay 56, 6, 7.

Ceir enghraifft o'r gyfochredd gyfystyr yn Diar. 16, 32. Cymmeradwyir y diog i ddigofaint, nid am ei fod yn ddiystyr a difater, ond am ei fod yn "rheoli ei ysbryd ei hun;" y mae un ymadrodd yn darnodi meddwl y llall.

Ymestyna y cyfochreddau yma weithiau dros bennodau cyfain, neu dros lyfrau o'r Ysgrythyr. Yn yr achos yma, y mae yn ofynol cymmeryd peth gofal i olrhain y cyffelybrwydd yn y meddwl. Megys yn Sal. 132.

Y mae ad. 1, 2, 3, 4, 5, 6, yn cael eu cyfateb	gan ad. 12.	
Ad. 7	,,	gan ad. 13.
Ad. 8	,,	gan ad. 14.
Ad. 9	,,	gan ad. 15, 16.
Ad. 10	,,	gan ad. 17, 18.

Ceir enghraifft gyffelyb yn Sal. 135, 15—18.

Y mae talu sylw i'r cyfochreddau yma yn angenrheidiol yn aml er dwyn allan feddwl yr Ysgrythyr. Er enghraifft, yn Luc 12, 47, 48, y mae cymharu yr ymadrodd, "Nid ymbarotôdd, ac ni wnaeth yn ol ei ewyllys ef," â'r ymadrodd, "ac a wnaeth bethau yn haeddu ffonodiau," yn awgrymu y rheawm fod gweithredoedd o fyrder (*omission*), yn ngwyneb gwybodaeth, i'w cospi â llawer o ffonodiau, tra y mae pechodau o drosedd heb wybodaeth i'w cospi âg ychydig.

Y mae y *Cyfochreddau* weithiau yn GYFERBYNIADOL (*Antithetic*), yn cynnwys ymadroddion, ac weithiau syniadau cyferbyniol.

Dywedir, er enghraifft, yn Diar. 10, 7, fod "coffadwriaeth y cyfiawn yn fendigedig;" lle y mae ystyr y gair coffadwriaeth yn cael ei benderfynu gan y linell ganlynol, "ond enw y drygionus a bydra." "Enw" a "choffadwriaeth" ydynt yn gyfystyr. Yn Diar. 11, 24, nid y gwasgaru sydd â thueddu ynddo i ychwanegu, yw y gwasgaru y byddai afradlonedd yn debyg o foddloni ynddo; ond yr ymarferiad o haelfrydedd doeth, oblegid y mae y rhan ganlynol yn ei gyferbynu âg arbed mwy nag a weddai, yr hyn sydd yn tueddu i dlodi.

Yn Hosea 14, 9, dywedir, "Uniawn yw ffyrdd yr Arglwydd, a'r rhai cyfiawn a rodiant ynddynt; ond y troseddwyr a dramgwyddant ynddynt," eglur yw mai y rhai cyfiawn yw y rhai ufydd.

Y mae hefyd fathau ereill o gyfochreddau mydryddol yn aml yn yr Ysgrythyr; ond gan mai cyfochreddau cystrawol yn unig ydynt (ac am hyny a elwir CYFOSODOL neu GYSTRAWOL—*synthetic or constructive*), ac nad ydynt yn cyfeirio ond yn unig at ffurf y frawddeg, nid yw yn angenrheidiol sylwi arnynt yma. Sal. 19, 7, 11; Sal. 148, 7—13; Esay 14, 4—9, ydynt yn enghreifftiau.

287 (3.) Penderfynir y meddwl yn aml iawn gan yr ymresymiad cyffredin, nen gan awgrymiadau y cyd-destun.

(*a*.) Weithiau darnodir y meddwl gan awgrymiadau y cyd-destun, ac y mae y geiriau i'w cymmeryd mewn ystyr gyfyngol.

Yn Salm 7, 8, y mae Dafydd yn gweddio, "Barn fi, O Arglwydd, yn

ol fy nghyfiawnder;" hyny yw, yn ol ei ddiniweidrwydd o berthynas i gyhuddiad Cus y Benjaminiad. Defnyddia yr un ymadrodd yn aml gyda chyfyngiadau cyffelyb. Y mae y gair "cyfiawn," neu "mwy cyfiawn," yn cael eu cymhwyso hyd y nod at ddynion drwg; megys yn 1 Bren. 2, 32; ac yn 2 Sam. 4, 11. Yn yr ail enghraifft, gelwir Isboseth yn gyfiawn (er iddo wrthwynebu yr hyn a wyddai oedd yn addewid oddiwrth Dduw mewn perthynas i Ddafydd,) i arwyddo yn unig na ddrygodd ei lofruddwyr. Cymhwysir yr un ymadrodd at Sodom a Gomorrah, o herwydd eu bod yn llai euog nâ Jerusalem, Esec. 16, 52. Gelwir cynghor Ahitophel yn *dda*, ac ymddygiad y goruchwyliwr annghyfiawn yn *ddoeth*, nid am eu bod mewn gwirionedd felly, ond am eu bod yn foddion tebygol i gyrhaedd amcanion pob un o honynt.

Dywedir yn Ioan 9, 3, "Nid hwn a bechodd, na'i rieni chwaith." Y meddwl syml yw, nad oedd ei ddallineb yn gosp am unrhyw bechod neillduol.

Yn Iago 5, 14, gorchymynir i henuriaid yr eglwys eneinnio y claf, a gweddio drosto; "a gweddi y ffydd a iacha y claf." Eglwys Rufain a sylfaena ar y geiriau unigol yma athrawiaeth yr eneinniad eithafol (*extreme unction*), yr hwn, meddant, sydd i gadw enaid y trengedig. Ond y mae yn eglur oddiwrth ad. 15, 16, mai "iachad" y corff sydd yn cael ei olygu.[a] Beth bynag, gan hyny, a gynnwysid yn yr ymarferiad yma, yr oedd i gael ei gadw, nid gyda golwg ar achub yr enaid; ond, yn achos un ag oedd eisoes yn Gristion, gyda golwg ar adferu yr iechyd.

(*b.*) Gall y cyd-destun, neu drefniad cyffredinol darn-ymadrodd, brofi fod geiriau i'w deall mewn ystyr hollol wahanol i'w hystyr arferol.

Yn 1 Bren. 22, 15, y geiriau "Dos, a llwydda," a lefarwyd mewn gwawd, ac a feddyliant yr hyn oedd yn hollol groes i hyny. Ymddengys oddiwrth adnodau 12, 32, mai meddwl y geiriau, "Cyfod, a dos," yn Num. 22, 20, yw, "Os ydyw dy galon, ar ol yr hyn oll a ddywedais wrth yt, yn sefydlog ar droseddu fy nghorchymyn, dos ar dy antur dy hunan." Gellir gweled defnyddiad y dull yma o ymadroddi yn 1 Bren. 18, 27; Barn. 10, 14; Marc 7, 9; 1 Cor. 4, 8.

288. Y mae ymresymiad cyffredin amrywiol ddarnau yr Ysgrythyr fynychaf yn ddigon eglur i ddynodi meddwl y geiriau a ddefnyddir. Dylid talu sylw manwl, fodd bynag, i'r defnydd a wneir o'r ymsangau a'r banynau (*parentheses and particles*): y banynau a gyssylltant wahanol gangenau brawddeg neu ymresymiad yn nghyd, a'r ymsangau a dynant y geiriau cynnwysedig ynddynt y tu allan i linell uniongyrchol yr ymresymiad. Yr olaf a attalia gyfluniad gramadegol y frawddeg, a'r blaenaf a'i cwblha neu a'i perffeithia.

289. Pan y mae yr ymsang yn fyr, nid ydyw yn creu un rhwystr, a braidd y gellir dywedyd ei fod yn attal yr ymresymiad, megys yn Phil. 3, 18, 19: Act. 1, 15. Pan fyddo yn faith, ymddengys fel yn dyrysu yr ymresymiad, a diwedda yn aml yn ail-adroddiad geiriau y rhan flaenorol. Y mae Ephes. 3, 2, i 4; 1 (rhan flaenaf) i gyd mewn cromfachau: felly hefyd yn Phil. 1, 27, i 2, 16: ac feallai 3, 2, i 3, 14. Yn y cyntaf a'r olaf o'r enghreifftiau yma, y mae y geiriau, "gan hyny," yn brawf o ddiwedd yr ymsang.

Yn y rhanau rhesymiadol o'r Ysgrythyr, y mae yr ymsang yn cael ei

[[a] "Iachau" yw y gair a ddefnyddir yn Gymraeg, ond "cadw," *achub* ("*save*,") yn Saesoneg.—*Cyf.*]

nodi allan yn aml drwy y gair "canys:" megys yn Rhuf. 2, 11—16; neu 13—16: 2 Cor. 6, 2: Ephes. 2, 14—18.

290. Y mae talu sylw i'r banynau yn fynych yn bwysig.

YNA, er enghraifft, sydd yn fynych yn bwysleisiol: a defnyddir ef, [fe allai, y rhan amlaf yn Gymraeg—*Cyf.*] fel rhagferf amserol, megys yn Mal. 3, 4, a'r 16. Ac etto yn 1 Thes. 4, 17, "A'r meirw yn Nghrist a gyfodant yn gyntaf. Yna ninau, y rhai byw, y rhai a adawwyd, a gipir i fyny gyda hwynt yn y cymylau." Y geiriau GAN HYNY, yn gyffredin, a gyfeiriant at gasgliad neu benderfyniad wedi ei dynu oddiwrth yr hyn sydd yn rhagflaenu; ond y mae yn meddwl weithiau fod y frawddeg wedi cael ei hattal gan ymsang, neu ei bod yn cael ei hail-adrodd: a meddylia, "megys y dywedais o'r blaen," neu "i ail-ddechreu." Math. 7, 24 (gwel ad. 21): 1 Cor. 8, 4 (gwel ad. 1): Marc 3, 31 (gwel ad. 21): Ioan 6, 24 (gwel ad. 22): Gal. 3, 5 (gwel ad. 2). DRWY, a olyga weithiau offerynoliaeth; megys yn Ioan 15, 3. "Drwy y gair a leferais I wrthych:" ac weithiau "er mwyn," Rhuf. 5, 1: a phrydiau ereill, "yn nghanol," Gal. 4, 13. YN AWR, sydd weithiau yn rhagferf amserol; weithiau meddylia "fel y mae y peth," gan wrthgyferbynu peth gweithredol âg un tybiedig, Ioan 18, 36, lle y mae rhan gyntaf yr adnod yn dangos beth fyddai y canlyniad. "Pe" buasai breiniaeth Crist o'r byd hwn, Luc 19, 42: Heb. 8, 6 (ad. 4.) [YN HYTRACH a feddylia, o'r tu arall, o flaen, yn well, Ephes. 5, 11; Math. 6, 30; 10, 6, 28; 25, 9; Luc 10, 20; 11, 28; 12, 31; Heb. 12, 13.—*Cyf.*]

291. Tywyllir y cyssylltiad weithiau drwy ddefnyddio cydymddyddaniad aneglur, lle na byddo y dadleuon, y gwrthddadleuon, a'r atebion wedi eu nodi yn amlwg.

Gwel, Rhuf. 3, 4, &c., lle y cawn gydymddyddan rhwng yr apostol a gwrthddadleuwr. Yn Esay 52, 13; 53, 54, y mae cydymddyddan rhwng Duw, y prophwyd, a'r Iuddewon. Y Salmau 20, 15; 24, 104, ydynt yn atebol (*responsive*).

Y mae sydynrwydd traws-symudiad, mewn adroddiad hanesyddol, ac yn enwedig mewn prophwydoliaeth, yn achosi anhawsder. Dygwyddiadau gwahanol a phellenig ydynt yn aml yn cael eu huno yn yr hyn a ymddengys yr un darn-ymadrodd. Cyfoda anhawsder yn aml iawn oddiwrth y ffaith fod terfyniad ymresymiad yn cael ei adael allan, neu gynsail (*premise*) yn cael ei chuddio, neu wrthddadl yn cael ei hateb heb ddywedyd wrthym ni beth yw yr wrthddadl.

Y mae yr epistol at y Rhufeiniaid yn cynnwys siamplau o'r holl anhawsderau yma. Rhuf. 3, 22—24; 8, 17, 18; 9, 6; pennodau 3 a 4.

292. Y mae sylwi ar y cyd-destun o bwys mawr er cael allan feddwl iaith ffigurol yr Ysgrythyr, ac er mwyn penderfynu pa un ai ffigurol neu lythyrenol yw yr iaith. Weithiau mynegir neu awgrymir mai ffigurol yw yr ymadroddion, ac yna eglurir eu meddwl. Brydiau ereill, y mae yn ofynol edrych ar resymiad cyffredinol, neu ar awgrymiadau (*allusions*) y darn-ymadrodd.

Yn 1 Pedr 3, 21, darnodir y *bedydd* sydd yn ein hachub ni. "Nid bwrw ymaith fudreddi y cnawd" ydyw, "eithr ateb cydwybod dda tuag at Dduw." "Dwyn pechodau" un, sydd ymadrodd ffigurol, yn golygu dyoddef y gospedigaeth am dano. Oddiwrth hyn y mae yr ymadroddion cyfystyr, sef *tori ymaith*, a *marw*, wedi eu cyssylltu âg ef, Exodus 28, 43; Lef. 19, 8.

Yn Hosea 4, 12, ac mewn manau ereill (yn enwedig yn Eseciel), dywedir

mai "ysbryd godineb" a dynodd yr Israeliaid ar gyfeiliorn; ond ychwanegir yn uniongyrchol, "Ar benau y mynyddoedd yr aberthant, ac ar y bryniau y llosgant arogl-darth," i ddangos mai anffyddlondeb ysbrydol yw yr hyn y llefara y prophwyd am dano.

Pan ddywedodd Crist, "Yr hwn sydd yn fy mwyta I, a fydd byw trwof fi," Ioan 6, 57, yr Iuddewon a'i camddeallasant ef, er ei fod cyn hyny wedi egluro ei feddwl, oblegid yn yr un bregeth yr oedd wedi mynych fynegu yr un gwirionedd mewn ymadroddion llythyrenol, "Yr hwn sydd yn credu ynof fi, sydd ganddo fywyd tragywyddol." Deallir y testun hwn yn llythyrenol gan y rhan amlaf o ysgrifenwyr Pabyddol, er fod ein Harglwydd, yn y modd egluraf, wedi rhoddi iddo yr eglurhad ffigurol yma; ac am ordinhad y swper, at yr hon y meddyliant hwy y mae y geiriau yn cyfeirio, nid oedd wedi ei sefydlu y pryd hwnw, ac yr oedd yn hollol anadnabyddus i'w wrandawwyr.

Yn Math. 26, 28, geilw Crist y gwin yn "fy ngwaed;" ac etto yn ad. 29, geilw yr un cwpan yn ffrwyth y winwydden; gan ddangos fod ei ymadrodd cyntaf yn ffigurol. Y geiriau yn 1 Cor. 3, 15, "Eithr efe ei hun a fydd cadwedig; etto, felly megys trwy dân," yw yr ymadrodd ysgrythyrol a ddyfynir yn gyffredin o blaid athrawiaeth Babyddol y purdan. Wrth dalu sylw i'r cyd-destun, canfyddir fod y cwbl yn ffigurol. Cyfaddefir mai ffigurol yw y coed, gwair, a sofl, y gall dyn eu hadeiladu ar y sylfaen. Y mae y sylfaen ei hunan yn ffigurol, a golyga Grist; ac y mae yn rhaid deall y geiriau "megys drwy dân," mewn ystyr gydweddol â rhediad cyffredinol y darn-ymadrodd.

Gellir canfod ymadroddion ffigurol cyffelyb yn 1 Cor. 5, 8; Math. 16, 6, 12. Gwel hefyd Esay 51, 1; Ephes. 5, 32, lle y llefarir am yr undeb rhwng Crist a'i eglwys (ac nid am briodas) fel y dirgelwch.

293. Pan fyddo y geiriau, cyssylltiad y frawddeg, a'r cyd-destun, yn methu symud ymaith bob tywyllwch, ac yn methu cyfleu meddwl yr ysgrifenydd yn gyflawn, y mae, y pryd hwnw, yn angenrheidiol edrych ar ddyben ac amcan y llyfr ei hunan, neu ryw gyfran helaeth o hono yn mha un y byddo yr ymadroddion yn dygwydd. Y mae y rheol a nodasom olaf yn cyffwrdd â hyn; ac, yn wir, y mae holl reolau dehongliaeth yn ymlithro yn raddol y naill i'r llall.

294. Weithiau y mae amcan dosran, neu amcan y llyfr ei hunan, yn cael ei nodi.

Yn Rhuf. 3, 28, er enghraifft, y mae yr apostol Paul yn mynegu y penderfyniad i ba un yr oedd ei ymresymiadau hyd yma wedi ei arwain; sef, fod dyn yn cael ei gyfiawnhau drwy ffydd heb weithredoedd y ddeddf. Y mae y prif benderfyniadau yn yr Epistol at yr Ephesiaid yn cael eu nodi, y cyntaf yn athrawiaethol, yn 2, 11, 12, nad oedd y cenedloedd mwyach yn estroniaid; a'r ail yn ymarferol, yn 4, 1—3, yn annog Iuddewon a Chenedloedd i feithrin ysbryd a thymher gydweddol â'u perthynas newydd. Mynegir penderfyniadau ail-raddol yn 3, 13; 4, 17, 25; 5, 1, 7; 6, 13, 14; lle y mae canlyniad pob ymresymiad olynol yn cael ei nodi allan yn gyffredin gan y geiriau, 'gan hyny,' 'o herwydd paham,' neu 'o herwydd hyn.'

Mynegir amcan y *Diarebion* i ni yn 1, 1—4, 6; amcan yr Efengylau yn Ioan 20, 31; ac amcan y Beibl ei hun yn Rhuf. 15, 4; 2 Tim. 3, 16, 17.

295. Nis gellir canfod amcan rhai rhanau o'r Beibl ond yn unig oddiwrth yr achlysuron ar ba rai yr ysgrifenwyd hwynt.

Y mae yn debyg i Salm 90ain gael ei hysgrifenu gan Moses, ar yr amser

yr anfonodd Duw blant Israel yn ol i grwydro yn yr anialwch. Eglurir amcan Salmau 18, 34, 3, 51, gan eu harysgrifau (*inscriptions*). Y Salmau sydd â'r geiriau 'Caniad y Graddau,' 120—134, wedi eu hysgrifenu uwchlaw iddynt, a ysgrifenwyd i'r Iuddewon i'w cânu yn ystod eu teithiau blynyddol i Jerusalem. Oddiwrth y wybodaeth o'r ffaith yma, canfyddir meddwl ychwanegol mewn llawer o'r adnodau.

Yr epistolau at y *Colossiaid*, yr *Ephesiaid*, a'r *Galatiaid*, a ysgrifenwyd oll i egluro athrawiaethau neillduol yr efengyl, ac i ateb cam-ddarluniadau yr athrawon Iuddewig oeddynt wedi ymlusgo i'r eglwys. Eglurir llawer o ymadroddion drwy gyfeiriad at Actau yr Apostolion, ac yn enwedig at y 15fed bennod, lle y cawn hanes yr holl bwnc a ddadleuir yn yr epistolau yma.

296. Y prif foddion, fodd bynag, i gyrhaedd gwybodaeth o hono, yw myfyrdod dwys a dyfal-barhäol o'r llyfrau eu hunain. Unwaith y cyrhaeddir y wybodaeth yma, tafla oleuni mawr ar ymadroddion neillduol, ac eglura ranau ereill o'r Beibl mewn ffordd addysgiadol a rhyfeddol.

Er mwyn deall gorchymyn ein Harglwydd, Math. 19, 17, 'Os ewyllysi fyned i mewn i'r bywyd, cadw y gorchymynion,' y mae yn rhaid edrych ar yr amcan. Gofyna ymofynydd balch ac hunan-gyfiawn, 'Pa beth da a wnaf, fel y caffwyf fywyd tragywyddol?' ac y mae ein Harglwydd, er mwyn ei geryddu a'i ddarostwng, yn ei gyfeirio at y gyfraith.

Y mae testun y prophwydoliaethau yn Esay 1, 39, yn cael eu dynodi yn gyffredinol. Nid yw testunau y pennodau canlynol mor amlwg, ac nis gellir olrhain y cyssylltiad ond drwy ddarlleniad manwl. Pan ganfyddir ef, tafla oleuni ar y meddwl. Pennodau 51—55, er enghraifft, a ffurfiant un brophwydoliaeth; cynnwysa 51, 1—8, apeliad dwys, yn cael ei adrodd dair gwaith, at y bobl, ar iddynt wrandaw. Cynnwysa adnodau 1, 4, 7; 51, 9; 52, 12, apeliad difrifol at Dduw ac at Seion: adnodau 9, 17; 52, 1; 52, 13; 53, 12, ydynt ddesgrifiad gogoneddus o waith y Messiah, a ffurfiant ganol-bwnc y brophwydoliaeth; desgrifia y 54ain ganlyniadau ei waith ar dynged yr eglwys, a'r 55ain ar dynged y byd.

297. Y mae yn anhawdd dywedyd, weithiau, pa un ai amcan union-gyrchol y darn-ymadrodd, neu amcan cyffredinol y llyfr, sydd i'w hystyried. Yn Luc 15, er enghraifft, y mae amryw ddammegion yn cael eu cyfeirio at y Phariseaid, y rhai a gwynent fod ein Harglwydd yn derbyn pechaduriaid; ac yn mysg y dammegion hyn, y mae un y mab afradlon. Sicr yw mai amcan efengyl Luc yw dangos, a chymmeradwyo yr efengyl i'r Cenedloedd; ac y mae y gofyniad yn ymgyfodi, pwy a feddylir wrth y mab henaf, a phwy wrth yr ieuangaf? Dywed rhai mai y Pharisead a'r pechadur; dywed ereill mai yr Iuddew a'r Cenedl-ddyn. Cadarnhëir y dehongliad blaenaf gan amcan y cyd-destun; a'r olaf, gan amcan cyffredinol yr Efengyl. Gwelir fod y ddau ddehongliad hyn yn gysson ac yn debygol. Y mae o bwys mawr talu sylw digonol i amcan y dammegion.

Gyda golwg ar yr 'orphwysfa' (neu, fel y gellir ei gyfieithu, cadwraeth gorphwysfa, neu Sabbath) y llefarir am dani yn Heb. 4, yr ydys wedi ammeu pa un ai at y Sabbath llythyrenol, at y nefoedd, neu at y tangnefedd y mae yr efengyl yn ei ddwyn, yr hwn, fodd bynag, a derfyna mewn bywyd tragywyddol, y mae yn cyfeirio; pwnc nas gellir ei benderfynu ond yn unig oddiwrth yr ymresymiad. Cymharer ad. 3, 9, 10.

Yn yr un Epistol, y mae y desgrifiad o Melchisedec fel heb achau, wedi creu peth anhawsder. Sylwir, fodd bynag, mai cymharu ei offeir-

iadaeth ef âg eiddo Crist y mae yr apostol, a dywedir fod y ddau yn debyg yn hyn; sef, eu bod, fel eu gilydd, heb olyniaeth, ac felly yn gwahaniaethu oddiwrth offeiriadaeth Aaron. Ystyr gyfyngol, ac nid un gyffredinol y geiriau, gan hyny, yw yr unig un a ofynir gan yr ymresymiad. Felly hefyd, os bydd arnom eisieu goleuni pellach am y gwrth-ddywediad ymddangosiadol rhwng Paul a Iago, edrychwn ar amcan eu hepistolau. Amcan yr epistol at y Rhufeiniaid yw profi, nas gall un dyn gael ei gyfiawnhau drwy gyflawnu dyledswyddau y gyfraith, o herwydd y byddai ei ufydd-dod yn anmherffaith. Amcan Epistol Iago yw profi nas gall neb gael ei gadw drwy ffydd nad yw yn tueddu at santeiddrwydd. Os cedwir yr amcanion hyn mewn golwg, ceir fod y gwrth-ddywediadau ymddangosiadol yma yn diflanu. Desgrifir amcan Epistol Ioan, pennod 2, 1, fel yn gyffelyb i eiddo Epistol Iago. Wrth gymharu amcan y llythyr at y Rhufeiniaid, ac amcan y llythyr at y Galatiaid, eglurir gwrth-ddywediad ymddangosiadol rhyngddynt. Yn un, caniatëir cadw dyddiau, Rhuf. 14, 5. Yn y llall, gwaherddir hyny, Gal. 4, 10, 11. Rhoddir y caniatâd i Iuddewon argyhoeddedig, cydwybodau pa rai oeddynt yn dyner ac yn bryderus o berthynas i roddi heibio defodau y gyfraith, yn yr hon yr oeddynt wedi cael eu meithrin. Cyfeiriwyd y gwaharddiad at ddychweledigion *Cenedlig*, y rhai a dybient nas gallai y groes eu hachub, ond drwy enwaediad. Yr oedd eu gwaith yn cadw diwrnodau i'w briodoli i'r teimlad hwnw, ac am hyny condemnid ef.

298. Y mae y rheol dehongliad fwyaf gynnwysfawr etto yn aros. Cymharu Ysgrythyr âg Ysgrythyr; "pethau ysbrydol â phethau ysbrydol," 1 Cor. 2, 13. Drwy gadw at y rheol hon yn unig y mae yn bosibl i ni ddyfod yn sicr o wir ystyr darnau ymadrodd neillduol; ac, uwchlaw y cwbl, y gallwn gael allan athrawiaethau yr Ysgrythyr ar bynciau o ffydd ac ymarferiad. Yn wir, gwirionedd Ysgrythyrol yw yr unig eglurhad cysson ar yr hyn oll a ddysga yr Ysgrythyr o berthynas i'r pwnc yr ymchwilir iddo; a dyledswydd Ysgrythyrol yw yr unig eglurhad cysson ar bob gorchymyn o eiddo yr Ysgrythyr, gyda golwg ar y ddyledswydd dan sylw. Y mae yr un fath wrth fyfyrio yr Ysgrythyr ag wrth fyfyrio gweithredoedd Duw. Yr ydym yn gyntaf yn chwilio pob ffaith neu orddangosiad (*phenomenon*), gan benderfynu ei hachos; ac wedi hyny, yn ei chyfresu â ffeithiau ereill cyffelyb, ac yna yn ymdrechu eglurhau y cwbl. Y cyfryw eglurhad a elwir yn ddeddf gyffredin.

299. Ymddengys y pwysigrwydd o fyfyrio yr Ysgrythyr yn y modd yma yn dra eglur oddiwrth gamsyniadau yr Iuddewon. "Ni a glywsom o'r ddeddf (meddynt hwy) fod Crist yn aros yn dragywyddol," Esay 9, 7; Dan. 7, 14, "a pha wedd yr wyt ti yn dywedyd fod yn rhaid dyrchafu Mab y dyn?" Yr oedd tragywyddol barhad ei deyrnas wedi cael ei ragfynegu amryw droion; ac yr oeddid hefyd wedi rhagfynegu y buasai efe yn cael ei ddyrchafu, a'i dòri ymaith, ond nid o'i achos ei hun, Esay 53; Dan. 9, 26. Buasai cymhariaeth o'r rhanau yma yn symud ymaith sylfaen eu gwrthddadleuon.

300 (1.) Yr ydys weithiau yn cymharu Geiriau yr Ysgrythyr â'u gilydd, er mwyn cael allan eu meddwl. Er enghraifft, gelwir Dafydd yn 1 Sam. 13, 14, ac yn Act. 13, 22, yn "ŵr wrth fodd calon Duw," ac yr ydys wedi gofyn a yw yr ymadrodd yma wedi ei fwriadu i ddàl Dafydd allan fel cynllun o berffeithrwydd. Fodd bynag, wrth gyfeirio at 1 Sam. 2, 35, cawn y geiriau yn cael eu defnyddio etto, "A chyfodaf i mi offeiriad ffydd-

lawn, a wna yn ol fy nghalon a'm meddwl;" ac y mae hyn yn awgrymu y meddylddrych gwreiddiol, sef, y buasai Dafydd, yn enwedig yn ei ymddygiad swyddol, yn cyflawnu yr ewyllys Ddwyfol, ac yn dàl i fyny y deddfau oedd Duw wedi eu gorchymyn.

Casglwn oddiwrth y Salmau a hanesyddiaeth, fod Dafydd yn ddyn enwog am dduwioldeb, etto, yn wreiddiol, mewn cyfeiriad at ei swydd fel brenin y rhoddwyd y desgrifiad hwn o hono; er hyny, gall fod yn gymhwysiadol iawn at yr ysbryd o dduwioldeb cyffredin a ddangosid gan Ddafydd, ac at yr edifeirwch dwfn a dwys a ddangosodd wedi iddo gael ei fradychu i bechod.

Yn Gal. 3, 27, darllenwn, "Canys cynnifer o honoch ag a fedyddiwyd i Grist, a wisgasoch Grist;" ac wrth droi i Rhuf. 13, 14, cawn fod "gwisgo Crist" yn sefyll yn wrthwynebol i "wneuthur rhagddarbodiad dros y cnawd." Ac etto yn Col. 3, 10, y mae yr un ymadrodd, "gwisgo" y dyn newydd, yn golygu "adnewyddiad mewn gwybodaeth, yn ol delw y Gwaredwr" (ad. 12), "ymysgaroedd trugareddau, cymmwynasgarwch, gostyngeiddrwydd, addfwynder, ymaros, ac, yn ben ar hyn oll, cariad, yr hwn yw rhwymyn perffeithrwydd." Yn Gal. 6, 17, dywed yr apostol, "O hyn allan na flined neb fi" (drwy y fath waradwyddiadau, fel pe byddwn yn gyfaill i'r ddeddf seremoniol); "canys dwyn yr wyf fi yn fy nghorff nodau yr Arglwydd Iesu." Wrth droi i 2 Cor. 4, 10, cawn eiriau cyffelyb, 'gan gylcharwain yn y corff bob amser farweiddiad yr Arglwydd Iesu;' ac wrth droi etto i 2 Cor. 11, 23—27, casglwn mai ystyr syml 'nodau yr Arglwydd Iesu,' oedd creithiau ei ddyoddefaint dros Grist, ac nid (fel y mae rhai wrth esbonio yr ymadrodd yn llythyrenol wedi tybied) olion neu warthnodau y groes.

Y mae cymharu geiriau yr Ysgrythyr yn aml yn hanfodol er iawn ddeall gwirionedd Ysgrythyrol, yn enwedig mewn perthynas i enwau priodol.

Yn Sal. 106, 19, er enghraifft, dywedir, 'Llo a wnaethant yn HOREB;' hyny yw, fel yr ymddengys oddiwrth Exod. 32, yn y lle arbenig yn mha un y cymmerodd Duw hwynt i gyfammod, ac yn uniongyrchol ar ol iddynt ymrwymo i ymwrthod â phob eilun-addoliaeth.

Yn Num. 22, 24, cawn ddesgrifiad o gymmeriad BALAAM; ac, ar y cyntaf, y mae ei sefyllfa fel prophwyd yn gwneyd i ni dybied ei fod yn ddyn duwiol, ond ei fod yn camsynied yn alaethus. Wrth droi i'r Testament Newydd, fodd bynag, yr ydym yn cael y pwnc wedi ei benderfynu. Dywed yr apostol Pedr wrthym, mai cybydd-dod oedd ei fagl. Gesid yr apostol Judas ef gyda Chain a Chora; ac yn Dad. 2, 14, dywedir wrthym mai yn ol ei awgrymiad ef y taflodd Balac demtasiwn yn ffordd meibion Israel, yr hon a achosodd ddinystr 23,000 o honynt mewn un dydd.

301. Wrth dalu sylw manwl i'r Ysgrythyr, canfyddwn fod, o'r hyn leiaf, dri math o gyfochreddau geiriol (*verbal parallels.*) *Yn gyntaf*, pan fyddo yr un peth yn cael ei ddywedyd yn yr un geiriau, megys Ex. 20, 2—17; Deut. 5, 6—18; Sal. 14; 53; Esay 2, 2—4; a Micah 4, 1—3. Yma gellir defnyddio un rhan-ymadrodd i egluro y llall, neu gall yr achlysur, neu y cymhwysiad o hono, daflu goleuni ar yr ymadrodd ei hunan. Er enghraifft, cyfeirir at Esay 6, 9, 10, chwech o weithiau yn y Testament Newydd, a chymhariaeth o'r ymadroddion a eglura y testun. *Yn ail*, pan fyddo yr un ffeithiau yn cael eu hadrodd mewn geiriau cyffelyb, neu debyg i'w gilydd, megys yn Exodus, Lefiticus, a Deuteronomium; Samuel, Breninoedd, a'r ddau Gronicl; ac yn yr Efengylau. Yn yr achos yma, y

mae ymadroddion eglur yn esbonio rhai aneglur. Y mae un rhan-ymadrodd yn egluro neu yn agweddu y llall, megys yn Math. 2, 1, a Luc 2, 1—4. *Yn drydydd,* pan fyddo y geiriau neu yr ieithweddau yn cael eu defnyddio mewn cyssylltiadau gwahanol. Yr ymadrodd 'athrawiaeth iachus,' er enghraifft, a ddefnyddir yn 1 Tim. 1, 10; 6, 3; 2 Tim. 1, 13; 4, 3; Tit. 1, 9; 2, 1, 2, 8; ac wrth gymharu yr adnodau yma, cawn fod y geiriau yn golygu athrawiaethau mawrion a syml yr efengyl, fel yn wrth-gyferbyniol i dwyll a chyfrwysdra, ac fel yn santeiddiol yn eu dylanwad. Mewn achosion o'r fath yma, dylai ystyr geiriau, mewn rhanau-ymadrodd, lle y byddo yn cael ei benderfynu gan y cyssylltiad, gael ei gymhwyso er dehongli rhanau ymadrodd lle na byddo dim i'w benderfynu. Yn Rhuf. 7, 18, meddylia y gair 'cnawd' gyflwr naturiol a llygredig, a phrofir hyn oddiwrth pen. 8, 8, &c.

Weithiau y mae yr ymadroddion a ddefnyddir, er yn gyffelyb ynddynt eu hunain, yn cael eu harfer mewn ystyriaethau hollol wahanol, megys yn y rhanau canlynol:—Ioan 1, 21; Math. 11, 14; Ioan 5, 31; 8, 14; Act. 9, 7; 22, 9; Luc 1, 33; 1 Cor. 15, 24.

Ymadroddion a ymddangosant yn groes i'w gilydd a gyssonir fel yma. Er enghraifft, y mae cynnygiad Duw am saith mlynedd o newyn, 2 Sam. 24, 13, yn cynnwys y tair blynedd blaenorol, yn ystod y rhai yr oedd y drygfyd hwnw wedi ffynu, 2 Sam. 21, 1. Nid oes yn 1 Cron. 21, 11, 12, yr un cyfeiriad at y newyn blaenorol; a'r cynnyg, gan hyny, yw, am dair blynedd yn unig. Felly hefyd yn 2 Sam. 24, 24; 1 Cron. 21, 25.

302. Y mae o bwys cadw golwg ar ddwy reol gyffredin wrth ystyried cyfochreddau geiriol. *Yn gyntaf,* ymofyn beth yw yr ystyr yn mha un y mae y geiriau sydd i'w harchwilio yn cael eu defnyddio mewn rhanau ereill o'r un awdwr; wedi hyny, mewn ysgrifeniadau ereill o'r un dyddiad, ac yna drwy yr holl Feibl. Y mae ystyr geiriau yn fynych yn cyfnewid; ac nid yw pob awdwr yn defnyddio yr un gair yn yr un ystyr. Ac *yn ail,* nis gellir derbyn unrhyw ystyr oddiwrth ran-ymadrodd a fyddo yn ymddangos yn gyfochrawg, os bydd yr ystyr hwnw yn annghysson â'r cyd-destun, neu âg ymresymiad yr awdwr. Er enghraifft, yn yr Epistolau at y Rhufeiniaid a'r Galatiaid, pan ddefnyddir y gair 'gweithredoedd' wrtho ei hun, meddylia yr hyn sydd yn wrthgyferbyniol i ffydd, sef, cyflawniad dyledswyddau deddfol fel sylfaen iachawdwriaeth. Yn Iago, y mae y gair bob amser yn golygu yr ufydd-dod a'r santeiddrwydd sydd yn deilliaw oddiwrth ffydd. Mewn un ystyr, y mae gweithredoedd yn annghysson âg iachawdwriaeth; ac mewn ystyr arall, y maent yn hanfodol er ei chyrhaedd. Ond y mae yn anmhosibl egluro y naill wrth y llall. Felly hefyd yn Ioan 1, 1, nis gellir egluro yr ymadrodd "*gair*" oddiwrth 2 Tim. 4, 2, lle y mae yr un ymadrodd yn cael ei ddefnyddio, ond mewn ystyr wahanol. Y "gair" yn Timotheus a olyga yr efengyl; ond nis gellir cymhwyso yr ystyr yma i'r ymadrodd yn Ioan, fel ag i roddi unrhyw synwyr cysson i'r cyd-destun.

303. (2.) Yr ydym weithiau yn cymharu ffeithiau neu athrawiaethau yr Ysgrythyr mewn trefn i gael cyflawn olwg ar wirionedd Ysgrythyrol. Hyn yw cyfochredd o FEDDYLDDRYCHAU (*parallelism of ideas*), ac nid o eiriau yn unig.

Os, er enghraifft, yr ewyllysiwn wybod pa un a yw y cwpan yn swper yr Arglwydd i'w gymmeryd gan yr holl ffyddloniaid, neu ynte gan yr offeiriad yn unig, trôwn i Math. 26, 27, lle y cawn y gorchymyn, "Yfwch bawb o hwn." Ac os gofynir pa un a yw y gair "pawb" i'w gymmeryd

fel yn golygu yr apostolion yn unig, neu ynte yn ei ystyr ëangaf, trown i 1 Cor. 11, 28, lle yr ymdrinir â'r un pwnc. Yno cawn bob tro (chwech mewn nifer), fod bwyta o'r bara, ac yfed o'r cwpan, yn cael eu nodi gyda'u gilydd, ac yn cael eu gorchymyn i'r holl Gristionogion yn gyffredinol. Y siars a roddir i bawb ydyw, "Eithr holed dyn ef ei hun, ac felly bwytäed o'r bara, ac yfed o'r cwpan."

Os archwiliwn Math. 16, 18, "Ti yw Pedr, ac ar y graig hon yr adeiladaf fy eglwys," gyda golwg ar gael allan feddwl y geiriau, trown i 1 Cor. 3, 11, lle y cawn mai unig sylfaen yr eglwys yw Crist. Yn yr ystyr, gan hyny, o fod yn sylfaen, ar ba un y mae iachawdwriaeth yr eglwys yn gorphwys, y mae y geiriau yn groes i'r rhanau ereill o'r Ysgrythyr. Trown etto i Act. 2, 41, ac i Act. 10; 15, 7, a chawn mai pregethu Pedr oedd moddion yr argyhoeddiadau cyntaf, yn mhlith Iuddewon a Chenedloedd. Ei lafur ef, gan hyny, ddechreuodd yr adeilad; ac yn y golygiad yma, gellid dywedyd ei fod yn sylfaen i'r eglwys. Neu, gall y mynegiad gyfeirio at gyffes Pedr, fel y meddyliai Augustine a Luther, ac yna yr ymadroddion cyfochrawg ydynt, Gal. 1, 16; Ioan 6, 51; 1 Ioan 3, 23; 4, 2, 3.

Y rheol bwysicaf o berthynas i gyfochredd o'r natur yma yw, fod ymadrodd yn mha un y mae meddylddrych yn cael ei osod allan mewn modd bŷr ac aneglur, yn cael ei esbonio gan y rhai y byddo yn cael ei ddadguddio ynddynt yn eglur ac yn gyflawn; a bod ymadroddion anhawdd a ffigurol yn cael eu hesbonio gan rai sydd briodol ac eglur.

Er enghraifft, y mae yr athrawiaeth o gyfiawnhad drwy ffydd yn cael ei dadlenu yn fŷr yn Phil. 3, 9, ac yn gyflawn yn yr Epistolau at y Rhufeiniaid a'r Galatiaid.

"Creadur newydd" sydd ymadrodd ffigurol, a ddefnyddir yn Gal. 6, 15, ac a eglurir yn pen. 5, 6, ac yn 1 Cor. 7, 19.

Y cariad a nodir yn 1 Pedr 4, 8, yw "cariad brawdol," a dywedir ei fod yn "cuddio llawer o bechodau;" nid am ei fod yn eu difodi, ac felly yn cyfiawnhau y pechadur, ond am ei fod (fel yr awgrymir yn Diar. 10, 12) yn diffoddi cynhenau ac ymrafaelion.

304. Pan eglurir unrhyw ran-ymadrodd drwy gyfeiriad, nid at un neu ragor o destunau, ond drwy gyfeiriad at rediad cyffredinol yr Ysgrythyr, dywedir ei fod i'w ddehongli yn ol CYSSONDEB (*Analogy*), NEU REOL Y FFYDD. Y mae genym enghreifftiau o gyfeiriad o'r fath yma yn Gal. 5, 14, ac etto yn 1 Corin. 15, 3—11, lle y mae yr apostol yn gosod i lawr y ffeithiau a'r athrawiaethau perthynol i farwolaeth ac adgyfodiad Crist, ac yn myned yn mlaen i brofi ffeithiau ac athrawiaethau ereill oddiwrthynt.

Y cyssondeb ffydd yma a elwir yn y Beibl, "yr Ysgrythyrau," 1 Cor. 15, 3, 4; "yr holl ddeddf," megys yn Gal. 5, 14; "genau ei holl brophwydi," Act. 3, 18. "Cyssondeb y ffydd" yw yr ymadrodd a ddefnyddir gan Paul yn Rhuf. 12, 6, lle y mae yn annog y rhai oeddynt yn esbonio yr Ysgrythyrau (neu yn prophwydo) i wneuthur hyny yn ol cyfartaledd neu gyssondeb, yn ol mesur neu reol y ffydd.

Y mae yr ymadrodd, gan hyny, yn gysson â "holl rediad yr Ysgrythyrau;" ac y mae yr athrawiaeth a sylfaenir arno yn cael ei chymmeryd oddiwrth yr holl destunau perthynol i'r un pwnc, wedi eu cymharu yn anmhleidgar; ymadroddion pob un yn cael eu rheoleiddio gan eiddo y lleill, a'r cyfan yn cael eu hegluro gan eu cyssondeb cydunol.

(1.) Gosodir Duw allan yn yr Ysgrythyr, er enghraiff, fel Ysbryd, hollwybodol, santaidd, a goruchel. Yr holl destunau, gan hyny, a ymddang-

osant fel yn ei ddarlunio yn faterol, lleol, terfynol mewn gwybodaeth, mewn gallu, neu mewn cyfiawnder, ydynt i'w dehongli yn gydweddol â'r gwirioneddau dadguddiedig uchod.

(2.) Pe byddai rhyw esboniwr yn egluro y testunau Ysgrythyrol sydd yn llefaru am gyfiawnhad drwy ffydd, fel pe byddai yn ein rhyddhau oddiwrth ein rhwymedigaethau i santeiddrwydd, rhaid gwrthod y cyfryw ddehongliad, am ei fod yn gwrthdaraw yn erbyn prif amcan ac ysbryd yr efengyl.

(3.) Yn Diar. 16, 4, dywedir, "Yr Arglwydd a wnaeth bob peth er ei fwyn ei hun, a'r annuwiol erbyn y dydd drwg." Y mae y meddyldrych sydd wedi ei seilio gan rai ar y geiriau yma, sef fod yr annuwiolion wedi eu creu er mwyn iddynt gael eu condemnio, yn annghysson â rhanau aneirif o'r Ysgrythyr (Sal. 145, 9; Ezec. 18, 23; 2 Pedr 3, 9). Y meddwl, gan hyny, fel y penderfynir ef gan gyssondeb y ffydd, yw, y caift pob drygioni weinyddu er gogoniant Duw, a gweithredu tuag at gyflawniad ei amcanion bendigedig ef.

305. Fel hyn y mae athroniaeth yn dehongli ymddangosiadau naturiol. Wedi i ddeddf gyffredinol unwaith gael ei sefydlu, gosodir ffeithiau neillduol dani; a phob peth a ymddangoso yn groes iddi, a archwilir mewn modd arbenig; ac o ddau eglurhad o'r dyryswch ymddangosiadol, dewisir yr un fyddo yn cyduno orcu â'r ddeddf gyffredinol.

306. Y mae defnyddiad testunau cyfochrawg yr Ysgrythyr, er penderfynu pa un ai ffigurol neu lythyrenol fyddo yr iaith, o bwys mawr. Er enghraifft, y mae Duw yn gosod ei hunan allan yn fynych fel yn rhoddi i ddynion i yfed o gwpan y mae efe yn ei ddàl yn ei law; cynnerant ef, a syrthiant yn swrth i'r llawr mewn meddwdod arswydus. Y mae rhai o'r prophwydi yn defnyddio y gymhariaeth mewn modd bŷr iawn, ac heb un eglurhad.[a] Yn Esay 51, 17—23, y mae yn cael ei chyflawn esbonio, ac y mae meddwl y geiriau yn dyfod yn amlwg. Difrodiad a diymadferthwch mwy nag a ellir ei ddwyn, yw y meddwdod; a'r cwpan yw cynddaredd (neu ddigofaint cyfiawn) Jehofah.

Dywedir yn Act. 2, 21, "A bydd, pwy bynag a alwo ar enw yr Arglwydd, a fydd cadwedig;" a gellir gofyn, Beth a feddylir wrth "enw yr Arglwydd?" Mathew a ddywed, mai "nid pob un a'r sydd yn dywedyd Arglwydd! Arglwydd! a gaiff fyned i mewn i deyrnas nefoedd;" felly y mae yr adnod i'w deall, nid yn llythyrenol, ond mewn ystyr gyfyngol. Wrth droi i Rhuf. 10, 11—14, ac i 1 Cor. 1, 2, cawn fod yr iaith yma, yr hon a ddyfynir o'r prophwyd Joel, yn cynnwys addefiad mai Crist yw y Messiah, ac ymddibyniad ar yr athrawiaethau a ddadguddiodd.

307. Amlwg yw, tra fyddo ystyr ffigurol gair yn gyffredin yn cynnwys rhyw gyfeiriad at ei ystyr lythyrenol, rhaid peidio tybied fod y ffigurol yn cynnwys yr oll ag sydd yn y llythyrenol; y mae tebygoliaeth mewn un peth, neu ychwaneg, yn ddigon i gyfiawnhau y gymhariaeth.

Geilw Crist ei ddysgyblion yn ddefaid iddo; ac eglur yw, mai pwyntiau y gymhariaeth ydynt, ei serch ef tuag atynt, a'i ofal am danynt, a'u hymlyniad hwythau wrtho, a'u hymddiried ynddo. Y mae synwyr cyffredin yn darganfod ac yn nodi allan derfynau cymhwysiad yr ymadroddion. Y mae Crist, mewn modd mwy cyfyngol, yn galw ei hunan yn Oen, gyda chyfeiriad neillduol at ei gymmeriad a'i aberth. Felly, gelwir pechod yn yr Ysgrythyr yn ddyled; Iawn yn daliad dyled; a phardwn yn faddeu-

[a] Nahum 3, 11; Hab. 2, 16; Sal. 75, 8, &c.

ant dyled. Ond rhaid peidio cynnal yr ymadroddion mor ystyfnig, fel ag i ddàl y bydd pawb yn y diwedd yn gadwedig, am fod Crist wedi marw dros bechod dyn; neu, fod pechaduriaid yn rhydd i fyw mewn pechod, am fod Crist wedi ufyddhau i'r gyfraith. Y mae dynion yn feirw mewn pechod, ond nid mor feirw ag i fod yn rhydd oddiwrth y ddyledswydd o edifeirwch; ac nid ydynt yn ddieuog, os diystyrant yr alwedigaeth Ddwyfol. Y mae y rheolau yma yn ddigon eglur, pan eu cymhwysir at destunau a gynnwysant ffigurau, seiliedig ar wrthddrychau materol. Er eu bod yn llai rhwydd, etto y maent yn fwy pwysig, pan yn cael eu cymhwyso at destunau a gynnwysant ffigurau seiliedig ar y natur ddynol, neu fywyd cyffredin. Tebyg yw fod mwy o gyfeiliornadau wedi cyfodi oddiwrth wthio iaith gyfaleddol i eithafoedd, nag oddiwrth unrhyw achos unigol arall; ac yn erbyn y duedd yma y mae yn ofynol i'r myfyriwr dwys a difrifol o'r Beibl fod mewn modd arbenig ar ei wyliadwriaeth.

308. Gan hyny, er mwyn penderfynu meddwl unrhyw ran o'r Ysgrythyr, pa un bynag ai yn ffigurol neu yn llythyrenol y byddo y geiriau yn cael eu defnyddio, rhaid codi y gofyniadau canlynol:—Beth yw ystyr yr ymadroddion? Os na fydd iddynt ond un ystyr, dyna y meddwl. Os bydd amryw ystyriaethau yn perthyn iddynt, gofynwn, Pa un o'r ystyriaethau yma sydd yn cael ei ofyn gan ranau ereill y frawddeg? Os bydd dwy neu ychwaneg o ystyriaethau yn aros, yna, Beth yw y meddwl a ofynir gan y cyd-destun, fel ag i wneuthur synwyr cysson o'r cyfan? Os bydd etto yn aros fwy nag un ystyr, pa un ynte a ofynir gan yr amcan (*scope*) yn gyffredin? Ac os metha y gofyniad yma a chynnyrchu ond un atebiad, yna, Beth a ofynir gan ranau ereill o'r Ysgrythyr? Os, ar ol ateb yr holl ofyniadau yma, y ceir ei fod etto yn bosibl priodoli mwy nag un meddwl i'r rhan-ymadrodd, yna y mae y ddau ddehongliad yn gywir; ac y mae yn rhaid i ni ddewis yr un fyddo yn fwyaf cydunol â'r holl ammodau, neu edrych i ryw le arall am arweiniad pellach.

309. Y mae o bwys i ni sylwi fod y rheolau yma yr un mor gymhwysiadol at yr iaith a chwiliwn, pa un bynag ai ffigurol neu lythyrenol fyddo, a pha un bynag ai mewn hanesyddiaeth neu mewn prophwydoliaeth—ai mewn alegori neu mewn adroddiad eglur, y byddo yn cael ei defnyddio. Ni cheir un reol i drofegau, ac un arall i eiriau yn eu hystyr priodol, ac ni cheir ychwaith un reol i ddehongli geiriau dammegion yr Ysgrythyr, ac un arall i egluro geiriau ei mynegiadau hanesyddol. Gwir ein bod yn dysgwyl gweled geiriau yn cael eu defnyddio yn eu hystyr lythyrenol, mewn hanes neu adroddiad, tra mewn barddoniaeth neu alegori gellir dysgwyl fod y ffigurol yn gorbwyso. Yr ydym, fodd bynag, yn cymhwyso yr un rheolau, er fod rhai o honynt, mae yn wir, mewn rhai achosion, yn fwy angenrheidiol nâ'u gilydd; etto cymmerwn y meddwl cynnwysedig yn y geiriau fel y byddo y meddwl hwnw yn cael ei ddarnodi, a'i gyfyngu (os bydd felly) gan yr holl frawddeg, gan y cyd-destun, gan amcan yr ysgrifenydd, neu gan ranau ereill o'r Beibl.

Ac nid ydyw o lai pwys i sylwi fod y rheolau hyn yn ofynol, nid yn unig er dehongli yr Ysgrythyr, ond hefyd i ddehongli pob iaith a ddefnyddir yn nghyfathrach bywyd.

Dos. 4. *Am ddefnyddioldeb a chymhwysiad rheolau mewn dehongliaeth.*

Nis gall y darllenydd lai nâ chanfod, fod rhyw egwyddorion cyffredin, a berthynant i bob iaith, yn gorwedd islaw y rheolau dehongliaeth gosodedig genym, ag sydd yn llywodraethu y cymhwysiad o honynt. Y mae o bwys i ddangos yr egwyddorion yma, gan eu bod yn cyfiawnhau y rheolau rhoddedig, ac yn cynnorthwyo yn eu cymhwysiad.

310. Mewn trefn i ganfod meddwl y rhanau amlaf o'r Beibl a ddysgant wirioneddau sylfaenol yr efengyl, yr unig beth angenrheidiol yw adnabyddiaeth â'r pwnc, ac â'r iaith a ddefnyddir. Os bydd y Beibl yn ein hiaith ni, a ninnau yn deall beth yw y pwnc yr ymdrinia âg ef, bydd y meddwl yn gyffredin yn eglur. Nis gellir cael o'r Ysgrythyr un enghraifft o ranymadrodd aneglur, am yr hon y gellir yn rhesymol dybied ei bod yn cynnwys unrhyw wirionedd athrawiaethol, heb ei bod yn cael ei hegluro mewn rhanau ereill.

Y fantais fawr o gael rheolau dehongliaeth yw, nid i ddarganfod meddwl unrhyw ranau eglur o'r Ysgrythyr, ond i gael allan feddwl y rhai hyny sydd yn ddyrys ac aneglur.

Etto, gan ei bod, ar lawer o bwyntiau pwysig, yn angenrheidiol i ni gymharu yr Ysgrythyrau mewn trefn i gael allan a *phroft* eu meddwl, a chan fod y gyfryw gymhariaeth, ynddi ei hun, yn rhan o'n dysgyblaeth, yn meithrin ein santeiddrwydd, ac yn gyfaddas i ddadblygu trysorau gwirionedd Dwyfol, y mae o bwys mawr i'r Cristion gwaelaf ddeall a chymhwyso y rheolau yma. Dadguddiad sydd i fod yn bwnc myfyrdod ein bywyd, ac y mae yn eglur mai ewyllys Duw yw, i holl adnoddau dysgeidiaeth, diwydrwydd, a gweddi, gael eu defnyddio yn yr ymchwiliad. Y mae dyn mor ymddibynol am ei wybodaeth o'r ewyllys Ddwyfol, ar gymhelliad a thymher ei ymchwiliadau, yn nghyd ag ar ddysgeidiaeth Ysbryd Duw, fel, yn aml iawn, y mae Cristion isel a gweddigar, heb ond ychydig o fanteision, yn cyrhaedd adnabyddiaeth gywirach ac ëangach o'r Ysgrythyr, nag a wna dyn o fanteision mwy, a galluoedd cryfach, heb ond duwioldeb gwanaidd. Y mae yr ymarferiad o ysbryd gweddigar a dysgadwy, gan hyny, yn un o egwyddorion pwysicaf dehongliaeth Feiblaidd.

Nid pob ystyr o ba rai y mae y geiriau yn gyfaddas, ac nid pob ystyr sydd ynddo ei hunan yn wirionedd, yw gwir feddwl unrhyw ran o'r Ysgrythyr; ond y meddwl bwriadedig gan yr ysgrifenwyr ysbrydoledig, neu, mewn rhai achosion, gan yr Ysbryd Glân, er nad oedd yn cael ei ddeall ond yn anmherffaith gan yr ysgrifenwyr eu hunain.

Y mae meddwl yr Ysgrythyr i'w benderfynu oddiwrth y geiriau; *gwir* wybodaeth o'r geiriau yw gwybodaeth o'r meddwl.

Sefydlir ystyr geiriau gan arferiad iaith. Rhaid cael allan yr arferiad, pryd bynag y byddo yn alluadwy, allan o'r Ysgrythyr ei hunan.

Y mae geiriau yr Ysgrythyr i'w cymmeryd yn eu hystyr gyffredin, oddieithr pan ddangosir fod yr ystyr hwnw yn annghysson â geiriau ereill yn y frawddeg, â'r ymresymiad neu y cyd-destun, neu â rhanau ereill o'r Ysgrythyr.

O ddau feddwl, yr un sydd i'w ddewis, yn gyffredin, yw yr un oedd yn fwyaf amlwg i amgyffrediad gwrandawwyr, neu ddarllenwyr gwreiddiol y rhan ysbrydoledig, gan wneuthur caniatâd am yr ymadroddion ffigurol hyny, y rhai ydynt mor adnabyddus, fel ag i beidio bod yn eithriad i'r rheol gyffredin. Rhaid i'r meddwl a gyssylltir â geiriau yr Ysgrythyr gyduno, bob amser, â'r cyd-destun. Pan fyddo y meddwl cyffredin yn

annghysson â'r cyd-destun, gwrthoder ef, a dewiser y cyfryw feddwl arall ag a fyddo yn cyflawnu gofynion a hawliau y rhan-ymadrodd, a'r hwn y gellir profi ei fod yn cael ei gadarnhau gan arferiad, naill ai mewn ysgrifenwyr cyffredin, neu yn y Beibl.

Gellir defnyddio amcan rhan-ymadrodd, neu ymresymiad yr ysgrifenydd, yn unig i benderfynu pa un o ddau feddwl sydd i'w ddewis, yn ol fel y byddo eglurder yr amcan neu yr ymresymiad; ac nis gall yr amcan benderfynu y meddwl, os na fydd rhyw feddwl neillduol yn cael ei ofyn gan yr amcan.

Rhaid i'r rhan-ymadrodd gyfochrol sydd yn penderfynu ystyr geiriau, gynnwys naill ai yr un geiriau, yn cael eu defnyddio mewn rhyw ystyr gyffelyb; neu eglur yw fod yn rhaid iddo lefaru am yr un peth, neu am rywbeth mor debyg, fel ag i roddi achlysur i gymhariaeth.

Nid oes un athrawiaeth sylfaenedig ar destun unigol yn perthyn i gyssondeb y ffydd. Defnydd penaf cyssondeb y ffydd yw ein dysgu i wrthod dehongliad anysgrythyrol. Os bydd dau feddwl tybiedig rhan-ymadrodd yn gydunol â'r cyssondeb yma, nis gellir cymhwyso y rheol fel ag i benderfynu pa un o honynt sydd yn gywir. Nid yw y rheol yma yn gymhwysiadol mewn ymresymiad dadleugar, ond ar y dybiaeth fod yr athrawiaeth a gymhwysir er mwyn dehongliaeth yn cael ei *chydnabod* yn *Ysgrythyrol*. Os na chydnabyddir hi, nis gellir ei chymhwyso yn nehongliad testun ammheüus.

311. Duwinyddiaeth yw holl feddwl yr Ysgrythyr, neu y meddwl a ddysgir yn yr holl Ysgrythyr, yn ol fel y mae y meddwl hwnw yn cael ei agweddu, ei gyfyngu, a'i esbonio gan yr Ysgrythyr ei hunan. Nid yw duwinyddiaeth Ysgrythyrol yn un peth, a meddwl yr Ysgrythyr yn beth arall. Arddangosiad ydyw, wedi ei gysson ddehongli, o holl fynegiadau y Beibl, ar yr amrywiol ffeithiau, athrawiaethau, a gorchymynion sydd yn cael eu dadguddio yn llyfr Duw.

[a] Dos. 5. *Cymhwysiad o'r rheolau yma at fyfyrdod o'r Ysgrythyrau gwreiddiol.*

"Fel na wasgwn fyfyrdod o'r Ysgrythyrau gwreiddiol ar y rhai y mae diffyg manteision ac amser yn eu rhyddhau oddiwrth hyny, felly nis gallaf lai nag annghymmeradwyo y rhai hyny, nad oes yn perthyn iddynt na diffyg galluoedd, nac amser i dreiddio drwy nis gwn pa faint o fyfyrdodau ereill, ac etto, a allant beidio gwneuthur hyn; a'r rhai, tra nad arbedant unrhyw lafur na thrafferth idd ei osod y tu hwnt i allu yr enwocaf o'r athronyddion i'w twyllo mewn athrawiaeth arall, ydynt, er hyny, yn gadael eu hunain, yn yr athrawiaeth am iachawdwriaeth, yn agored i gael dylanwadu arnynt gan anwybodaeth, gan dwyll, a phleidgarwch dehonglydd; a thrwy hyny, ymddangosant yn fwy anmharod i gymmeryd pob opiniynau ar goel, nâ'r rhai hyny, ar wirionedd neu dwyll pa rai yr ymddibyna, nid llai nâ gogoniant Duw, ac fe allai eu cyflwr tragywyddol eu hunain. Tebygwyf na ddylai y rhai a ddysgant ieithoedd ereill, beidio dysgu yr ieithoedd hyny a anrhydeddodd Duw drwy lefaru ynddynt wrthym ni; ac a ddefnyddiwyd ganddo i'n bendithio â'r athrawiaeth nefol hono, sydd wedi dyfod oddiwrtho ef, ac yn arwain ato ef."—BOYLE.

"Y mae yr arferiad o ddarllen yr Ysgrythyrau yn yr ieithoedd gwreiddiol, yn rhoddi goleuni ac ystyr newydd i ranau aneirif."—CECIL. *Gweddillion*, tud. 199.

312. Y rheolau dehongliaeth a gymhwyswyd yn y dosran ddiweddaf at ein cyfieithiad ni, ydynt yr un mor gyfaddas i fyfyrdod o'r Ysgrythyrau gwreiddiol. Y mae pwysigrwydd y cyfryw fyfyrdod yn amlwg, oddiwrth y ffaith fod yr holl gyfieithiadau, gyda chywirdeb mwy neu lai, fel arweinwyr at feddwl yr ysgrifeniadau ysbrydoledig. Wrth gyfeirio i Dos. 6,

[a] Gwel Rhagymadrodd.

pen. 1., canfyddir am ystyr geiriau neillduol, cyssylltiad ymresymiadau, a phwysigrwydd rhanau cyfochrol, eu bod oll yn agored i gael eu tywyllu gan hyd y nod y cyfieithiadau goreu.

313. Wrth fyfyrio ac egluro iaith fyw, penderfynwn yr ystyr drwy gyfeiriad at ymadroddion cyffredin bywyd; ond gyda golwg ar ieithoedd yr Ysgrythyrau gwreiddiol, yr ydym yn gorfod ymddibynu am wybodaeth o'u meddwl braidd yn gyfangwbl ar lyfrau; ein hawdurdod yw gramadegau, geiriaduron, a chyfieithiadau, ac i'r rhan fwyaf o ddybenion, y mae eu hawdurdod yn ddigonol.

314. Ond wrth ddywedyd fod ein gwybodaeth o feddwl ieithoedd gwreiddiol yn gorphwys ar awdurdod, yr ydym yn defnyddio ymadrodd ag y mae o bwys rhoddi eglurhad arno; llefarwn am awdurdod cyfraith, ac am awdurdod tyst, neu lawysgrifen, ond y mae y gair yn y manau yma yn cael ei ddefnyddio mewn ystyriaethau tra gwahanol. Wrth awdurdod *cyfraith* y meddylir ei gallu cyfiawn; wrth awdurdod *tyst* y golygir ei dystiolaeth, yr hon a ystyrir genym ni yn fwy neu yn llai credadwy yn ei pherthynas â'r pwnc mewn llaw. Yn awr, yn yr ail ystyr yma yn unig y llefarwn am awdurdod geiriaduron. Y mae llawer o bwys yn gyssylltiedig â geiriadur da, am ei fod yn proffesu rhoddi, wedi eu manwl chwilio, ystyriaethau y geiriau a gynnwysa, yn nghyd â chrynodeb o'r profion ar ba rai y gorphwysa yr ystyriaethau hyny. Os byddwn yn anmeu ei eglurhad, yr ydym naill ai yn chwilio geiriaduron ereill o ddyddiau Hesychius (o. c. 400) i lawr, os mai Groeg fydd y gair; neu ynte yn chwilio y rhanau ymadrodd lle y mae y gair yn cael ei ddefnyddio, ac wedi hyny yn pwyso drosom ein hunain y profion a gynnwysant. Pa bryd bynag, gan hyny, y dehonglwn orchymyn Dwyfol wedi ei roddi i ni mewn iaith farw, *penderfynwn feddwl* y gorchymyn drwy gyfrwng awdurdod ddynol, hyny yw, tystiolaeth; *ac ufyddhawn i'r* gorchymyn am fod awdurdod Duw yn perthyn iddo. Y mae y gwahaniaeth yma rhwng dau ystyr y gair yn bwysig.

Os, gan hyny, y bydd rheswm i ammeu yr ystyr a roddir i air, neu ran ymadrodd, mewn unrhyw eiriadur neu ramadeg, awn yn mlaen i chwilio y meddwl hwnw drosom ein hunain, a gellir mabwysiadu amrywiol gynlluniau.

315. i. Gallwn ymofyn âg awdurdodau ereill, gramadegau neu eiriaduron. Os bydd yr ymadrodd yn yr Hebraeg, gallwn droi i ramadeg neu eiriadur o'r ysgrifenwyr Hebreig boreuaf, Juda Chajug (1040), a Jona ben Gannach (1121), y rhai a gedwir mewn llawysgrif yn y llyfrgell Fodleiaidd (*Bodleian library*); i ramadeg Moses Kimchi (12fed ganrif), neu i ramadegau ei frawd, D. Kimchi, neu Elias Levita, yr oll o ba rai sydd wedi eu cyhoeddi. Gallwn chwilio gramadeg a geiriadur Gesenius, sylfaenydd yr ysgol Hebreig brofiadol (*empirical*) ddiweddar, neu ramadeg Ewald, sylfaenydd yr ysgol wyddonol (*scientific*), neu fynegai Fürst, yn nghyd â gweithiau Hebreig Delitisch, ei ddysgybl, a sylfaenydd yr ysgol hanesyddol; y cyntaf yn gwneyd defnydd mawr o enghreifftiau, a defnydd cymmedrol o'r Arabaeg a'r ieithoedd perthynasol (*cognate*); yr ail, mewn modd rhy arbenig, yn chwilio athroniaeth yr iaith; a'r trydydd yn sylfaenydd ymchwiliad hanesyddol, ac yn defnyddio y Sanscrit er dehongli yr Hebraeg. Am wybodaeth o dafod-ieithoedd cyd-drasol, neu berthynasol, gallwn droi i Bumieithyr (*Pentaglot*) Schindler (Ham. 1612), Seithieithadyr (*Heptaglot*) Castel (Llundain, 1669), i ramadeg Hottinger o'r Heb.; Chald.; Syr.; a'r Arab. (1649), neu i ramadegau Hebreig (*Institutiones*, 1737, *Origines Hebrææ*, 1723), Schultens.

316. Gyda golwg ar yr iaith *Roeg*, gallwn ddefnyddio, naill ai gramadeg Groeg cyffredinol, megys, er enghraifft, eiddo Buttman, neu Matthiæ, neu Jelf, yn nghyd â geiriadur cyffredinol, Thesaurus Stephens, er enghraifft, neu law-eiriadur Liddell a Scott, neu gallwn ddefnyddio gramadeg a geiriadur Hellenaidd, neu berthynol i'r Testament Newydd. Y mae gramadeg Winer yn gyfoethog mewn egluriadau ar ieithwedd y Testament Newydd; ac y mae geiriadur Schleusner yn anmhrisiadwy o herwydd y goleuni a dafla ar y Testament Newydd oddiwrth gyfieithiad y Deg a Thriugain. Geiriaduron Bretschneider, a Robinson, ydynt hefyd yn dra adnabyddus, ac yn wir ddefnyddiol.

317. ii. Gallwn chwilio y cyfieithiadau o'r Beibl. Rhoddant olygiadau y cyfieithydd am ystyr geiriau yr Ysgrythyr.

Y blaenaf mewn gwerth i amcanion dehonglyddol yw y darnau o Origen a Jerome, y ddau yma a gymmerasant boen mawr i sicrhau gwir feddwl yr Ysgrythyrau gwreiddiol.

Y nesaf at y rhai hyn yw y cyfieithiadau Groegaidd. Y Deg a Thriugain yn unig, fodd bynag, sydd yn aros mewn cyflwr perffaith. Y mae o werth mawr, ond metha yn aml a bod o wasanaeth mewn rhanau anhawdd, a hyny o herwydd rhyddid y cyfieithiad,[a] diofalwch neu anwybodaeth y cyfieithwyr,[b] a'r angen am reolau dehongliaeth sefydlog.

Y nesaf mewn gwerth yw y Targumiau (Gwel Rhan II), ac, islaw y rhai hyn, y mae esboniadau y Talmud, a'r Nodiadau Masoretaidd.

Ainsworth ar y Deg a Thriugain, ac esboniad Gill drwyddo, ydynt yn gyffredin yn rhoddi dehongliadau y Targumiau, &c., pryd bynag y byddont o bwys.

Yr olaf oll yn mhlith y cyfieithiadau henafol yw y Peschito a'r Vulgate. Y blaenaf sydd, ar y cyfan, wedi ei gyfieithu yn dda, ond nid anfynych yr anurddir ef gan ychwanegiadau, a rhanau wedi eu gadael allan. Lleihëir gwerth y llall gan y ffaith (yr hon a gydnabyddir gan Jerome), ei fod wedi ei gyfieithu yn frysiog; ei fod, er mwyn peidio tramgwyddo clustiau y bobl, wedi cadw i fewn lawer o'r hen gyfieithiadau, er ei fod yn eu hystyried yn annghywir (Rhagymadrodd i'r Deg a Thriugain, a'r Esboniad ar Preg.), oddiwrth y defnydd rhydd a wnaed o'r Deg a Thriugain, ac oddiwrth annghywirdeb cyffredin testun y Vulgate diweddar.

Y rhanau hyny o'r Vulgate a gyfieithiwyd gan Jerome ydynt yn well cynnorthwyon *dehonglyddol* nâ'r llyfrau ereill; ond er *penderfynu* y *testun* Hebreig, llyfrau ereill (perthynol i'r Hen Gyfieithiad Italaidd) ydynt y mwyaf pwysig.

Y mae gwerth cyfieithiadau diweddar yn amrywio. Cyfieithiadau Lladinaidd, wedi eu gwneuthur gan *Babyddion*, ydynt, yn gyffredin, yn nodedig o lythyrenol, ac yn aml yn aneglur; y fath yw cyfieithiadau Pagninus (1528), Arias Montanus (1584), Cajetan (1639), a Malvenda (1650). Rhai (megys cyfieithiad Clarius) ydynt yn sylfaenedig ar y Vulgate, ac ni wnant ond ei ddiwygio. Houbigant (1753) a rydd gyfieithiad dillyn o'i destun Hebreig diwygiedig. Cyfieithiwyd y Testament Newydd gan Erasmus a Sebastiani.

Yn mhlith y *Protestaniaid*, rhydd Munster (1534) gyfieithiad deallad-

[a] Esay 1, 21; 4, 4; 42, 1; Exod. 6, 12, 30; Deut. 32, 8; 33, 2; Num. 12, 6; Exod. 18. 17.

[b] Esther 7, 4; Lef. 19, 26; Sal. 78, 69; Exod. 14, 2. Cymharer Num. 33, 7; Esay 23, 1, 10, 14; Ezec. 27, 12; 38, 13; ac Esay 2, 16; 60, 9; (gwel egluriadau pellach yn y Critica Sacra, gan Carpzov, Testament Newydd, tud. 513).

wy o'r Hebraeg, rhagorach nag eiddo Pagninus a Montanus. Y mae, fodd bynag, yn canlyn yr un testun a'r awduron yma, ac, mewn egwyddorion cyfieithiad, nid ydyw yn gwahaniaethu yn mhell oddiwrthynt.

Dechreuodd Leo Juda (1543—4) gyfieithiad arall o'r Hebraeg a'r Deg a Thriugain, yr hwn a gyhoeddwyd gan Bibliander; eafodd y Testament Newydd ei ychwanegu gan ereill. Y mae y cyfieithiad yma yn rhydd ac yn ffyddlawn.

Castalio (1573) a rydd gyfieithiad arall o'r gwreiddiol, yn yr hwn yr ymdrechodd gyflëu yr ystyr mewn *Lladin clasurol dillyn.* Y mae, fodd bynag, yn ddiffygiol mewn symledd a grym.

Cyfieithiad Junius a Tremellius (1590) a ystyrir gan M. Poole yn mysg y goreu. Mynegent y fannod drwy y rhagenw dangosol. Cyfieithiad yr Osiandiaid, fel eiddo Clarius, sydd yn sylfaenedig ar y Vulgate. Y mae cyfieithiad Schmidt (1696) yn hynod lythyrenol, ac eiddo Dathe (1773—99) yn nodedig am ffyddlondeb a dillynder. Gwerthfawrogir *Testament Newydd* Beza yn fawr iawn.

O'r cyfieithiadau diweddar i ieithoedd llefaredig, y mae eiddo Luther yn un o'r goreu (1517—30). Dyma sylfaen y cyfieithiad Swediaidd (1541), Danaidd (1550), Icelandaidd (1584), yr Isellmynaidd boreuol (1560), a'r Finniaidd, yn nghyd a'i thafodieithoedd cyd-drasol (1642, &c). Hefyd, gwnaed cyfieithiad Almaen-Swissiaidd gan Leo Juda (1525—29), ac yn 1667, cyhoeddwyd cyfieithiad newydd, neu ddiwygiedig, at wasanaeth yr un eglwys yn Zurich. Cyfieithiad Luther hefyd a ddiwygiwyd ac a gyhoeddwyd gan y Zuingliaid yn 1679.

Cyfieithiwyd yr Ysgrythyrau i'r Ffrancaeg gan R. P. Olivetan (1535), yn nghyd a chryn rifedi o gyfeiriadau o'r Deg a Thriugain wedi eu gosod ar ymyl y ddalen. Y cyfieithiad hwn a ddiwygiwyd, yn benaf gyda golwg ar yr iaith, gan Calvin (1540); wedi hyny, gan Bertram, Beza, ac ereill (Genefa, 1588); ac y mae er yr amser hwnw wedi myned, o bryd i bryd, drwy gyfnewidiadau cyffelyb; y diwygiad gan Ostervald a adwaenir oreu. Cyhoeddwyd cyfieithiad Ffrengig yn Amsterdam (1718), gan Beausobre a L'Enfant, a mawr ganmolir ef oblegid ei gywirdeb.

Drwy orchymyn Cymmanfa Dort, gwnaed cyfieithiad i'r *Isellmynaeg*, yn lle cyfieithiad a wnaed oddiwrth eiddo Luther, ac a ddefnyddid hyd y pryd hwnw. Argraffwyd y cyfieithiad yma yn 1637, ac uchel-brisir ef am ei ffyddlondeb.

Y mae dau gyfieithiad o'r Hen Destament i'r Ysbaenaeg; un wedi ei wneuthur gan Babydd (Reyna), Basil, 1569, a'r llall gan Brotestant (Valera), Amsterdam, 1602. Sylfaenir hwynt yn benaf ar gyfieithiad Lladin Pagninus, a'r ail, mewn rhan, ar y Beiblau Ffrengig—Genefaidd. Y mae hefyd dri chyfieithiad Ysbaenaidd wedi eu gwneuthur o'r Vulgate (1478, 1793—4, 1824)

Y cyfieithiad *Italaidd* goreu yw eiddo Diodati (a dröwyd wedi hyny i'r Ffrancaeg), 1607. Canlyna y Deg a Thriugain a'r Hebraeg, ac y mae yn rhydd, cywir, ac eglur.

Yn wrthwynebol i gyfieithiadau Protestaniaid i'r ieithoedd llefaredig (*vernacular*), y mae cyfieithiadau Pabyddol, yn gyffredin o'r Vulgate, wedi eu gwneuthur braidd i'r oll o'r ieithoedd uchod.

318. Nid yw yr holl gyfieithiadau yma, fodd bynag, yn enwedig y boreuaf o honynt, mor werthfawr a geiriadur diweddar da. Gwnaed y rhan fwyaf o honynt o dan ddylanwadau neillduol, ac yn nghanol llawer o anhawsderau. Y mae gan eiriadurwr diweddar gynnorthwyon gwell a lluos-

ocach, testun mwy diammheuol, ac hyd y nod yr offeryn a ffurfir gan y cyfieithiadau hyn eu hunain. Felly, gyda yr holl fanteision yma, byddai ei fod yn peidio rhagori, yn ei brofi naill ai yn anaddas neu yn ddiofal.

319. iii. Wrth ymchwilio yn mhellach i'r meddwl, gallwn geisio cynnorthwy oddiwrth y GEIRIAU EU HUNAIN, eu tarddiad, cyffelybrwydd ymadrodd, ac oddiwrth ystyr geiriau cyffelyb mewn tafodieithoedd cyddrasol (*cognate.*)

320. (1). Y mae *Geirdarddiaeth* (*Etymology*) yn olrhain llwybreiddiad ystyr geiriau, y cyfnewidiadau mewn ffurf yr ânt drwyddynt, ac yn nodi allan bwysigrwydd eu hamrywiol ranau. Y mae yn fynych yn cyfleu y gwir feddwl, yn egluro awgrymiadau y cyd-destun, ac yn cyfrif am dröad yr hen gyfieithiadau.

Yn Genesis, dylid cyfieithu y "ffurfafen" yn "ëangder," yn wrthwynebol i'r Deg a Thriugain, y Vulgate, y Saesoneg, [a'r Gymraeg]. Ystyr y gwreiddiol yw curo, neu ledu allan.

Yr ymadrodd "gwneyd cyfammod," yn yr Hebraeg, a gyfeiria at yr ergyd a darewai yr offrwm, marwolaeth yr hwn oedd yn ei gadarnhau.

Offeiriad, *iereus*, a elwir felly oddiwrth y ffaith ei fod yn gofalu am bethau cyssegredig, neu am ei fod yn aberthu i Dduw, *iera resein*, yn yr ystyr o *thuein*. Felly *gwneuthur (facere)* am *aberthu (sacrificare)*, Virgil Ec. iii, 77, ac "*asa*" am offrymu, Lef. 9, 6, 16; Num. 28, 24.

Y gair gwreiddiol am "weinidog" yn Heb. 8, 2, a olyga, mewn Groeg glasurol, un a gyflawna waith cyhoeddus ar ei draul ei hunan; neu, ac edrych ar yr holl ymadrodd fel Lladin-iaith (*Antistes Sacrorum*), golyga fod ein Harglwydd yn llywyddu yn addoliad yr eglwys, ac yn ei chyflwyno yn gymmeradwy drwy ei eiriolaeth.

Ystyr briodol y gair Hebraeg am "wneuthur iawn" (*Kipper*) yw, "cuddio dros," neu ddyhuddo am, bechod; ac wedi hyny, cymmodi, hyny yw, symud anfoddlonrwydd un arall o berthynas iddo. Y gair cyfatebol yn y Deg a Thriugain a'r Testament Newydd (*ilaskomai*) a olyga, yn gyntaf, gymmodi, ac wedi hyny, gwneyd iawn am. Y mae y ddau feddylddrych yn gynnwysedig yn mhob un o'r geiriau, ac weithiau yn cael eu cyflawn fynegu.

Meddwl y gair Groeg am "aberthu" (*thuein*) yn Homer, yw llosgi gwîn neu luniaeth yn y tân fel offrwm; ac mewn ysgrifenwyr diweddarach, golyga aberthu, a elwir yn briodol felly. Oddiwrth yr ystyr ddeublyg yma, cawn ddwy gyfres o eiriau Groeg, un yn cyfeirio at laddiad yr ebyrth, *thuo, thusia;* a'r llall at y peraroglau, neu yr arogldarth a offrymid i Dduw (*thumiama,* thus,) ac weithiau cyssylltir y ddau feddylddrych, Lef. 4, 31; Eph. 5, 2. Oddiwrth hyn hefyd yr arferir y gair *thuo* i gyfieithu dau air Hebreig gwahanol, un yn golygu aberthu, a'r llall losgi arogldarth, 1 Sam. 3, 14; 2 Cron. 25, 14; 28, 3; Jer. 1, 16; 44, 5.

Y mae ystyr briodol yn perthyn yn agos i'r holl enwau yn yr Hebraeg, a gwasanaetha gwybodaeth o'u hystyr i daflu goleuni ar y cyd-destun. Prophwydoliaethau Jacob o berthynas i'w feibion, a gyfeiriant i raddau helaeth at eu henwau. Cymharer Gen., pen. 49, â phen. 29, a 30. Gwel hefyd Ruth 1, 20; Gen. 4, 16.

Felly hefyd ystyr "pentyru marwor tanllyd," Diar. 25, 21, 22, a Rhuf. 12, 20, a eglurir gan y ffaith mai meddwl gwreiddiol "*chatha*" yw cymhwyso tân, ac wedi hyny meddalhau.

Y mae y Deg a Thriugain a'r Vulgate wedi troi Sal. 7, 14, fel y gwnaethant, o herwydd eu bod yn cyfieithu yn eir-darddiol; ac felly

mewn manau ereill, cyfieithiad geir-darddiol yw *enotizomai*, o'r gair Hebraeg *heezin*, Lef. 14, 52, fel, *trimerieis, shillesh*, Deut. 19, 3. Yn y Groeg, ystyr y gair "ail-ennyn," yn 2 Tim. 1, 6, yw chwythu y tân yn fflam, *anazopurein*.

Wrth ddefnyddio y cyfieithad Seisnig a'r un Cymreig, ni chaniatäir geirdarddiaeth fel arweinydd i'r ystyr, ond yn unig pan fyddo geirdarddiaeth yr ieithoedd yma yn cyduno â geirdarddiaeth y wreiddiol: efengyl, er enghraifft—*evaggelion*; croeshoelio—*sauroô*; rhagbenderfynu—*proorizô*; cyfryngwr—*mesitês*—eiriolwr, un sydd yn gweithredu dros un arall, yn enwedig i gynnyrchu heddwch rhwng pleidiau. Nad ydyw geirdarddiaeth, o honi ei hun, yn sefydlu y meddwl, oddieithr pan fyddo yr arferiad naill ai yn ammheüus neu yn ddystaw, sydd egwyddor bwysig; ac o herwydd y cyfnewidiadau a gymmerant le mewn ystyr geiriau, y mae bob amser yn arweinydd ansicr.

321. (2.) Y mae CYFFELYBRWYDD (*Analogy*) yn penderfynu ystyr gair mewn un ffurf oddiwrth ystyr adnabyddus gair arall mewn ffurf gyffelyb, neu feddwl un gair oddiwrth eiddo gair gwrthgyferbyniol neu gydunol.

Er enghraifft, os cyfarfyddwn yn yr Hebraeg âg enw yn terfynu yn (*Y*), gallwn gasglu, oddiwrth ystyr gyffredin y terfyniad yma, ei fod yn debygol mai rhif trefnol (*ordinal number*), neu enw tadol (*patronymic*) ydyw; os cyfarfyddwn âg *enw berfol* (*verbal noun*) yn dechreu âg (*M*), tebyg yw ei fod yn arwyddo gweithred, neu y lle y cyflawnir rhyw weithred; oblegid hyn, y rhan amlaf, yw meddwl y llythyren ragluniol (*preformative*) yma.

Yn gyffredin, y ffurfiau Hiphil o ferfau ydynt achosiadol (*causative*) o'r Kal, fel *yatsa*, "myned allan," ac yn Hiphil, "dwyn allan;" *abhad*, "trengu," ac yn Hiphil, "dinystrio." Os, gan hyny, y cyfarfyddwn â berf yn Hiphil, tebyg yw fod iddi ystyr achosiadol; etto, y mae eithriadau i'r rheol yma.

Cafodd y Deg a Thriugain ffurfiau Hiphil yr Hen Destament yn dra anhawdd eu cyfieithu heb arall-eiriad (*paraphrase*); ac o herwydd hyny, y mae y cyfieithiad hwnw weithiau yn defnyddio berf ganolryw (*neuter*) mewn ystyr weithredol, Gen. 2, 9; 4, 11; 19, 24; Num. 6, 25; 34, 17; a gellid meddwl fod y Testament Newydd yn aml yn defnyddio yr un ffurf i'r un amcan.

Math. 5, 45, yn llythyrenol "efe a goda," "efe a wlawia;" hyny yw, "efe a achosa i godi," "efe a achosa i wlawio." 1 Cor. 3, 6, "cynnyddodd," hyny yw, "a roddes y cynnydd." Yn Luc 11, 53, nid "hwy a ddechreuasant lefaru allan o law," neu "ddystewi," ond yn hytrach "hwy a achosasant i Grist lefaru allan o law;" hyny yw, "ei annog i ymadrodd." 2 Cor. 2, 14, yn llythyrenol, "gorfoleddu," neu "arwain yn gaeth," megys yn Col. 2, 15; ond yn hytrach fel yn y cyfieithiad Cymreig, "peru i ni oruchafiaeth."

Fod "ffolineb" yn Gen. 34, 7; Deut. 21, 21; Jos. 7, 15; 2 Sam. 13, 15, yn golygu pechod, a ellir gasglu oddiwrth y ffaith fod "doethineb" mewn amrywiol ranau o'r Ysgrythyr, yn golygu "uniondeb," neu "dduwioldeb."

Yn Math. 6, 2, 5, 16, yr ydys wedi cyfieithu *apechousi tòn misthón* yn "hwy a rwystrir, neu a attelir o'u gwobr" (Gerard), ac y mae *apechoniai* yn cael ei ddefnyddio yn yr ystyr o attal oddiwrth; fodd bynag, yr enw, *apochê*, a olyga dderbyniad cyflawn, ac oddiwrth hyn, gellir cymmeryd yr ymadrodd fel yn meddwl, "y maent yn derbyn eu gwobr;" hyny yw, yr oll a gânt byth.

Y mae amrywiol gyfieithiadau wedi eu rhoddi o'r gair *epiousion* yn Math. 6, 11; nid ydyw yn dygwydd yn y Deg a Thriugain, ac y mae yn air annghyffredin iawn. Yr ydys wedi ei gyfieithu, "angenrheidiol er ein cynnaliaeth" (Vulgate), "cyfaddas er ein cynnaliaeth" (Macknight), "digonol dros y fory, neu dros y bywyd dyfodol" (Grotius): penderfynir y meddwl, fodd bynag, oddiwrth ymadrodd cyffelyb: meddylia *periousion* mwy nâ digon, a chan fod *epi* yn aml yn golygu cyfartalwch, neu gyfaddasrwydd, y mae *epiousion* yn golygu digon; cyduna y cyfieithiad yma â'r cyd-destun hefyd.

322. (3.) Gallwn gymharu y geiriau yn yr Ysgrythyr â'r un geiriau yn yr ieithoedd cyd-drasol. Er fod gwerth ieithoedd cyd-drasol weithiau yn cael eu his-brisio, etto y maent wedi cael eu gorwerthfawrogi. Cymhwysir hwynt o fewn terfynau priodol gan eiriadwyr diweddar, ac y maent yn ddefnyddiol yn benaf pan fyddo hen gyfieithiadau yn gwahaniaethu, a phan na fyddo genym, yn yr Hebraeg, ddefnyddiau digonol i ddarnodi ystyr ymadroddion.

(*a.*) Rhoddant wreiddiau geiriau, tardd-eiriau o ba rai yn unig a geir yn yr Ysgrythyr, ac felly cynnorthwyant i gael allan feddwl cysson.

Er enghraifft, "aithan" sydd air lled annghyffredin, a chyfieithir ef yn "ffrwd gref" (hyny yw, byth-lifiadwy), Amos 5, 24; "afonydd cryfion" (byth-lifiadwy), Sal. 74, 15; "nerth" (llifiad cysson), Exod. 14, 27; "cadarn" (parhaus), Micah 6, 2; "cedyrn" (llwyddiannus), Job 12, 19; felly Num. 24, 21; Jer. 49, 19. Y gwreiddyn yn yr Arabaeg a olyga "parhau i redeg;" wedi hyny, "parhau" yn gyffredinol, hyny yw, "aros," ac wedi hyny, "bod yn anchwiliadwy gyfoethog:" oddiwrth hyn y deilliodd croes-ystyrion ymddangosiadol y testunau lle y mae y tardd-air i'w gael.

(*b.*) Penderfynant ystyriaethau a allent fod, oni bai hyny, ond yn unig yn ddychymmygol.

Er enghraifft, dygwydda *balag* bedair o weithiau yn Hiphil: Job 9, 27, "ymgysuraf;" Job 10, 20, "ymgysurwyf;" Sal. 39, 13, "oryf häwyf;" Amos 5, 9, "nertha." Ystyr y gwreiddyn yn yr Arabaeg yw "dysgleirio fel y wawr," "bod, neu wneuthur yn oleu a thawel;" ac y mae yr ystyr yma yn cyfarfod angenion yr holl adnodau uchod. Yn yr un modd yr adnabyddir llawer o'r llysiau a'r mŵnau a nodir yn yr Ysgrythyr.

(*c.*) Dangosant synwyr cyntefig gwreiddiau, ystyrion ail-raddol pa rai a geir yn yr Ysgrythyr, er fod y cyntefig yn taflu goleuni ar rai testunau.

Er enghraifft, *gadhal* a olyga "bod yn fawr;" ond ei feddwl yn yr Arabaeg yw "plethu," ac yna "gwneuthur yn fawr, neu yn gryf;" felly y mae enw wedi ei ffufio oddiwrtho, yn golygu "plethiadau ar gŵr y wisg" (*fringes*), Deut. 22, 12; "rhwydwaith," neu "gadwynwaith," 1 Bren. 7, 17. Enw arall wedi ei ffurfio yn gyffelyb a olyga "gyhyrwch" (*brawniness*), Exod. 15, 16; ac yn Job 7, 17, defnyddir y ferf yn ei hystyr gynhenid, "ymdrech," neu "ymgodymu;" yn Gymraeg, "mawrhau." Felly, meddwl *Tsadak* yw, "bod yn gyfiawn;" yn yr Arabaeg, bod yn "gyndyn," "didroi," "anmhlygadwy;" oddiwrth hyn "y rhai a garcherir yn gyfiawn" yn Esay 49, 24, a ddylai fod "caethglud y rhai anmhlygadwy;" gwel ad. 25.

(*d.*) Eglurant ymadroddion ieithweddol, gwir ystyr y rhai nis gellir ei benderfynu mewn un ffordd arall.

Ar yr oll o'r wahanran yma, gwel "Rheithiau" (*Institutes*) Gerard. Cymmerwyd yr enghreifftiau olaf, gan mwyaf, o Schultens. Gellir cael hefyd rifedi mawr yn Ngeiriadur Gesenius.

Wrth gymhwyso yr egwyddorion yma at y Testament Newydd, y mae natur yr iaith Roeg, mawredd yr offer beirniadol a feddiannwn eisoes mewn awduron clasurol, a'r cyssylltiad rhwng y Testament Newydd, drwy y Deg a Thriugain, âg iaith yr Hen Destament, yn gwneuthur dullweddiadau (*modifications*) o honynt yn angenrheidiol.

323. Gyda golwg ar y Testament Newydd, gallwn chwilio ystyr ei eiriau yn ymadroddion awduron clasurol.

Ystyr gyffredin *pistis* yw "ffydd;" ond defnyddir ef yn y golygiad o brawf yn Act. 17, 31; felly hefyd yn Aristotle, Polyb.

Epaggellomai, ynddo ei hun, a olyga "gyhoeddi," wedi hyny "addaw," a phan yn cael ei ganlyn gan enwau neillduol, meddylia "broffesu" (1 Tim. 2, 10). Defnyddir y gair yn gyffredin am broffesu celfyddyd, neu wyddoniaeth, Diog. Laert., Proem. 5, 12; Xen. Mem. i., 2, 7.

Pará, mewn cyfansoddiad, a olyga yn aml yn y Testament Groeg, "wrth y ffordd," Rhuf. 5, 20; neu "yn ddirgelaidd," Gal. 2, 14; Judas 4: a cheir y defnyddiad yma mewn awduron clasurol, Polyb., Herodian, Plut.

Yn Luc 15, 12, "*to epibállon méros*" sydd ymadrodd cyfreithiol, yn arwyddo y gyfran ddeilliedig i ddyn fel etifedd: dengys defnyddiad y gair yma mor llwyr yr oedd yr afradlon wedi ymddyeithrio oddiwrth bob teimlad mabaidd.

Epibalôn eklaien, yn Marc 14, 72, "A chan ystyried hyny," a olyga yn hytrach, "ac wedi rhuthro allan;" y mae felly yn cyduno â Mathew a Luc, Polyb.

Yn Ioan 5, 5, "*echôn en tê astheneia*" sydd Roeg clasurol am "fod yn glaf;" felly, pan gyfieithir y geiriau, "yr oedd dyn claf, deunaw mlwydd ar hugain oed" (Paulus), y mae y tröad yn groes i'r arferiad Groegaidd.

Y brawddegau a ymddangosant yn anmherffaith yn Luc 13, 9; 19, 42; 22, 42 (Gr.), ydynt oll yn Roeg da; y mae yn arferiad yn aml i adael allan derfyniad (*apodosis*) brawddeg ar ol "*ei*" neu "*ean*," pan fyddo y meddwl yn eglur, Raphel.

Bos, Elsner, Kypke, Grotius, Wolf, Wetstein, Raphel, ydynt oll, i raddau helaeth, wedi egluro ieithweddiad y Testament Newydd oddiwrth ymadroddion clasurol. Gwnaed hyn gan Kypke, a Raphel, oddiwrth awduron neillduol, a chan y lleill oddiwrth awdurdodau clasurol yn gyffredin.

324. v. Neu, gallwn droi i weithiau Josephus, neu Philo, y rhai nid ydynt yn hyn yma yn ddibwys. Ystyr eirdarddiol *metebrizesthai*, yw crogi i fyny yn yr awyr, a defnyddir ef gan Josephus a Philo am "fod yn ammheüus o feddwl," fel yn y Testament Newydd.

Ystyr lythyrenol *upôpiazein*, yw "taraw dan y llygad" (Luc 18, 5; 1 Cor. 9, 27); ond yn gyffredin meddylia "gythruddo," "cystuddio."

Y gair *ephêmeria*, a gyfieithir "dydd-gylch" yn Luc 1, 5, a feddylia wasanaeth dyddiol y deml, yr hwn a gyflawnid gan finteioedd o offeiriaid yn olynol (Jos.).

"Barn" (*krisis*), yn Math. 5, 31, oedd enw a roddid i lys y saith ynad oedd ag awdurdod ganddynt i gospi troseddiadau bychain (Jos.).

Yn Ioan 10, 22, *egkainia* (adnewyddiad) sydd air a ddefnyddir gan Philo fel un priodol i osod allan y gyssegr-wyl, yr hon a gynnelid ar y 25ain o Kisleu; fel y mae *nêsteia* yn ympryd gyssylltiedig â dydd y cymmod, 10 Tisri. Act. 27, 9.

Yr holl ymadroddion hyn, yn nghyd â llawer iawn ereill, a berthynant yn neillduol i ysgrifenwyr Iuddewig. Am egluriadau cyflawn, gwel Ott. (Excerpta ex F. Josepho), *Krebsii* (Obs. ex F. Josepho), a *Loesneri* (Ob. ex Philone).

325. vi. Cawn ymchwiliad i'r ieithoedd Semiaidd, yn cynnwys yr Hebraeg, yn dra defnyddiol, o ba rai, yn wir, y mae llawer o ymadroddion y Testament Newydd wedi eu cymmeryd.

Gellir canfod Hebreigieithau yn Heb. 1, 2, *aiōn*—olam; *eirēnē* yn fynych—shalom, "pob bendith," Marc 5, 34; Luc 7, 50; "tangnefedd i chwi" yw y ffurf Hebreig o "gyfarch," fel *chairein* yn Groeg, Iago 1, 1; weithiau defnyddir *eirēnē* yn y Groeg yn yr ystyr o heddwch, Luc 14, 32; ac weithiau yn yr ystyr Gristionogol, Rhuf. 2, 10; Luc 19, 42; meddylia *exomologeisthai* (*hodah*) "gydnabod teithi un arall fel ag i "foliannu," Math. 11, 25; defnyddir *poreuesthai* i ddynodi "dull o fyw;" *ei*, ar ol berfau o dyngu, a olyga, *nid*, Marc 8, 12; Heb. 4, 3, 5; ystyr **anagkē* yw "cyfyngder, drygfyd," Luc 21, 23; Cor. 7, 26; *eis ton aiōna, tous aiōnas*—"am byth," "profi marwolaeth," Math. 16, 28; nefoedd, am Dduw, Dan. 4, 23; gwel 22; Math. 21, 25; Luc 15, 21; **opheilema aphienai*—"maddeu pechodau;" *deein* a *luein* (*shere esar*), "gwahardd neu appwyntio;" "marw mewn pechod" yn Ioan 8, 21, 24, yw "marw o herwydd pechod" (Lef. 5, 6); a *moichos* yn cael ei ddefnyddio yn ysbrydol ar ol yr Hebraeg (*zone*), ac nid yn llythyrenol, fel yn y Groeg, Iago 4, 4, ydynt oll yn Hebreigieithau, er fod y rhai a nodwyd (*) i'w cael mewn awduron clasurol, ac am hyny a elwir yn Hebreigieithau anmherffaith. Felly yn Act. 19, 6; 24, 4; 2, 14; Iago 2, 9; Math. 15, 2; Marc 7, 22—"drwg-lygad" yw—cenfigenus.

Am ymadroddion Aramæaidd ereill, gwel adr. 39. Hebreigieithau y Testament Newydd a gyflawn eglurir yn ngweithiau Lightfoot, cyfrolau attodiadol Schoetgenius, ac yn Esboniad Gill. Y mae Esboniad Koppe ar y Testament Newydd (o'r Actau i'r Dadguddiad) yn dra gwerthfawr am roddi canlyniadau ymchwiliadau ei ragflaenwyr yn y maes yma.

326. vii. Er mwyn penderfynu ystyr geiriau, nid dibwys yw ymofyn â hen egluriadau, ac arnodiadau (*scholiasts and glosses*), yn nghyd âg ysgrifeniadau y Tadau boreuol. Y ddau flaenaf a roddant y meddwl yn gyffredinol, heb gynnyg cadarnhad, na darnau profiadol (*proof passages*), ac y mae yr ail yn rhoddi dehongliadau proffesedig o iaith yr Ysgrythyr.

Hesychius, er enghraifft, a eglura "dippynau" (*tittles*) y gyfraith, drwy eu galw yn nodau a wnelid wrth ddechreu ysgrifenu llythyrau (*archē grammatos*), Math. 5, 18; ac eglura Suidas, *Battologein*, drwy "aml-eiriaeth," neu "lefaru llawer" (*polulogia*), 6, 7.

Eglurir *mustērion* gan Clem. Rom. (1 Cor.) fel dirgelwch dadguddiedig.

Ystyr geirdarddiol *authentein andros*, 1 Tim. 2, 12, yw, lladd ei gŵr; ond y mae Theophylact yn ei egluro yn, "ymawdurdodi ar;" ac felly y cyfieithiad Cymreig. Meddwl priodol *eutrapelia* yw, "araeth fywiog;" ond y mae Chrysostom yn ei araeth ar y pwnc yma, a Jerome, yn ei egluro fel rhywbeth a ddywedir (yn gyffredin yn ynfyd a phechadurus) i gynnyrchu chwerthin; y mae y geiriau "chwedlau ynfyd," gan hyny, yn rhoddi y gwir feddwl. Gellir casglu oddiwrth Act. 1, 2, fod *analupsis*, Luc 9, 51, yn cyfeirio at esgyniad ein Harglwydd, a phrofir hyn gan ddefnydd cyffelyb o'r ymadroddion yn y Tadau.

Y rhai hyn ydynt egluriadau geiriol: gellir canfod egluriadau athrawiaethol mewn dosran ganlynol.

Y prif arnodiau Groegaidd yw geiriaduron Hesychius (400), Suidas (980), a Phavorinus (1523); yr Etymologicum Magnum (10fed ganrif), yn nghyd â gweithiau Zonaras (1118), a Photius (850). Adolygwyd arnodiadau, neu egluriadau, y pedwar blaenaf, cyn belled ag y dalient gys-

sylltiad â'r Testament Newydd, gan C. G. Ernesti, 1785—6, ac eiddo Zonaras yn 1618. Hefyd, Matthæi (Mosc. 1774—5, Lips. 1779), ac Alberti (Lug. Bat. 1735), a gyhoeddasant arnodiadau wedi eu dethol oddiar ymylon hen lawysgrifau o'r Testament Newydd.

Am olwg ar yr egluriadau a roddir gan y Tadau ar ymadroddion (*terms*) y Testament Newydd, gwel 'Suiceri Thes. Eccl.' ii tom, 1728, yr hwn yw y llyfr cyflawnaf o lawer ar y pwnc yma, neu ddangosegau (*indexes*) argraffiadau da o'r Tadau eu hunain. Am ddysgeidiaeth y Tadau ar lyfrau neu ranau o'r Ysgrythyr, gwel y casgliadau mawrion a gyhoeddwyd dan yr enw Catenæ; y mae rhai o'u hesboniadau yn dda, a llawer yn ddiwerth.

327. viii. Fodd bynag, y mae y prif gymhorth i fyfyrio y Testament Newydd etto yn ol, sef cyfieithiad y Deg a Thriugain; y mae geiriau ac ymadroddion yn cael eu cymmeryd yn aml o'r cyfieithiad hwnw, ac yn cael eu defnyddio mewn synwyr hollol neillduol.

Er enghraifft, *diathēkē*, mewn Groeg clasurol, a olyga "drefniad o feddiant," neu "ewyllys;" ond yn y Deg a Thriugain, defnyddir ef yn aml (i gyfieithu Berith) yn yr ystyr o "gyfammod," neu "gytundeb rhwng pleidiau," yr hyn a fynegir gan awduron clasuron drwy y gair *sunthēkē*, Gen. 17, 9, 10. Cymhwysir ef at y cytundeb rhwng Abraham ac Abimelech, 21, 27—32: rhwng Laban a Jacob, 31, 44; cymharer Deut. 7, 9; 17, 2; 29, 9; Sal. 131, 12; Crist a roddir *eis diathēkēn*, Esay 42, 6; 53, 3.

Defnyddir *alētheia*, "gwirionedd," am, a golyga, "bob uniondeb a santeiddrwydd," Sal. 26, 3; 86, 11; ac am "sylwedd," fel yn wrthwynebol i "lun neu gysgod," Ioan 1, 17; Heb. 8, 2.

Golyga *nomos*—*Thorah*, yr holl drefniant Moesenaidd, Deut. 4, 8, 44; Math. 5, 17; 7, 12: Ioan 1, 17.

Ystyr *sugkrinein*, mewn Groeg glasurol, yw "dyrysu, neu gymmysgu;" ond yn y Deg a Thriugain, ei ystyr yw "dehongli, neu egluro," Gen. 40, 8; ac oddiwrth hyn y tarddodd "gan farnu pethau ysbrydol â phethau ysbrydol," neu "i bethau ysbrydol," 1 Cor. 2, 13.

Epì tò autò—*yachdav*, "ynghyd," Math. 22, 34; Act. 1, 15; 2 Sam. 2, 13; 19, 10.

Am *pasa sarxou*—"ni chaiff un cnawd"—kol lo, Exod. 12, 15, 43, y mae y Deg a Thriugain weithiau yn defnyddio yr ymadrodd clasurol, *ouk oudeis*, Exod. 10, 15.

Y Deg a Thriugain a gyfieithia *chatath* yn yr ystyr o "*bech-aberth*," *tò tes amartias*, Lef. 18, 25; *tò perì amartias*, Lef. 5, 8; *tò upèr amartias*, Lef. 8, 2; *ilâsmos*, Ezec. 44, 27; ac oddiwrth hyn y deilliodd y defnydd o'r ymadroddion yma yn y Testament Newydd. Ar y llaw arall, gellir nodi fod *chatath*, fel *amartia*, yn golygu y "weithred o bechod," a'r "duedd bechadurus." Nid oes yn y Testament Newydd yr un ymadrodd perodol yn cyfateb i "vitium," yr hyn yw y weithred, a "vitiositas," yr hyn yw y duedd, yn y Lladinaeg. Cymharer "pechod" â "llygredigaeth."

Y mae *O erchomenos*, "yr un dyfodol," yn gyfieithiad o eiddo y Deg a Thriugain o amrywiol ymadroddion a gyfeiriant at ein Harglwydd, ac oddiwrth hyn cymhwysir yr ymadrodd yn aml ato ef yn y Testament Newydd, Luc 3, 19; Heb. 10, 37; nid "a ddaw," ond "sydd yn dyfod," neu "sydd i ddyfod," Dad. 1, 8.

Y mae y Testament Newydd hefyd yn orlawn o gyfansoddiadau Hellenaidd (*Hellenistic constructions*). Er enghraifft, enwau arbenig (*nouns absolute*), Dad. 1, 4, 5; 2, 20; 3, 12; llywodraethau annghyffredin (*unusual governments*), ansoddair gydag achosion genedol (*genitive cases*), lle

nad ydyw Groeg dda yn gofyn arddodiad, Ioan 6, 45, a'r gwrthwyneb, Math. 27, 24; *apo* yn yr ystyr o "drwy," neu "oblegid," Math. 11, 19; 18, 7; Gal. 1, 1; 2 Cor. 3, 18; Act. 22, 11.

328. Fodd bynag, gall y cyfeiriad at ddefnydd Hellenaidd gael ei gario i eithafion; yr ydys, er enghraifft, wedi cyfieithu *dikaiosunē*, Rhuf. 3, 25, 26, yn "drugaredd;" ac amddiffynir y cyfieithiad drwy apelio at y Deg a Thriugain, lle yr arferir ef am *chesedh*. Y mae y Deg a Thriugain ei hunan, fodd bynag, yn diwygio y cyfieithiad yma. Defnyddir ef naw o weithiau yn yr ystyr yma yn yr Hen Destament, ac y mae saith o'r rhai hyn yn Mhum Llyfr Moses; etto y mae yn ei gyfieithu amryw gannoedd o weithiau, hyny yw, braidd bob amser, yn gyfiawnder (*Tsedek*).

329. Fe allai mai y ffordd oreu i ddangos y cyssylltiad rhwng yr Hebraeg, y Deg a Thriugain, a'r Testament Newydd, yw, egluro ystyr yr amrywiol eiriau Groeg a gymhwysir yn yr Ysgrythyr at waith ein Harglwydd; cymmod, Iawn, glanhad (*expiation*), prynedigaeth, tros-osodiad, ac iachawdwriaeth.

(*a*). Wrth edrych dros y Testament Newydd yn Gymraeg, cawn "gymmod" neu "gymmodi" mewn amryw adnodau, yn mhob un o ba rai (oddieithr un), y gair Groeg sydd rhyw ffurf o *allassō*, "cynnyrchu cyfnewidiad rhwng pleidiau" (pan, er enghraifft, y byddo annghytundeb wedi cymmeryd lle rhyngddynt); ond wrth droi i'r Deg a Thriugain, nid yw y gair yma un amser yn cael ei ddefnyddio yn yr ystyr yma o gwbl, ac nid oes yn yr adnodau aml yn yr Hen Destament, a lefarant am "wneuthur cymmod," yr un cyfeiriad geiriol at ranau cyffelyb yn y Testament Newydd. Cynnwysir y meddylddrych mewn amryw adnodau; ond nid ydyw un amser yn cael ei fynegu drwy y gair hwn, na thrwy unrhyw air sengl arall. Yr ymadroddion cyffredin yw "troi ymaith ddigofaint," "adferu," a "derbyn;" ffurfiau ydynt yn gyffredin o *ratsa* a *dektón*, Esay 56, 7; 60, 7; Jer. 6, 20; Lef. 19, 7. Oddiwrth hyn y deillia y penderfyniad pwysig, nad yw y gair a gyfieithir yn y Testament Newydd yn "gymmodi" yn cyfeirio ond yn unig at y cyfnewidiad a gynnyrchir gan ryw fesur o drugaredd, ac nid at natur y mesur hwnw ynddo ei hunan; ni ddesgrifia ond yn unig y cyfnewidiad a gynnyrchir yn ein perthynas ni â Duw, fod ei syniad moesol o anfoddlonrwydd yn erbyn pechod (a elwir "ei ddigofaint") wedi ei dawelu, a gelyniaeth ac amheuon y pechadur wedi eu symud. Gellir casglu fod y cyfnewidiad deublyg yma oddiwrth yr adnodau canlynol:—Heb. 10, 26, 27; Rhuf. 5, 9; Heb. 9, 26, 28; 2 Cor. 5, 18—20; Eph. 2, 16; 1 Cor. 7, 11; Col. 1, 20, 21.

(*b*.) Mewn un adnod, fodd bynag, y mae genym yn y Groeg air arall, *ilaskomai*, yn cael ei gyfieithu yn "wneuthur cymmod," Heb. 2, 17. Gellir canfod ei feddwl wrth chwilio yr adnodau y dygwydda ynddynt yn yr Hen Destament. Y gwir yw, gair ydyw a dröir yn gysson yn y cyfieithiad Cymraeg yn "wneuthur cymmod," neu "wneuthur iawn am," Lef. 6, 30; 8, 15; Ezec. 45, 20; Dan. 9, 24, &c.

(*c*.) Ond cynnyrchai syndod, pe hwn fyddai yr unig fan yn y Testament Newydd lle y mae yr ymadrodd i'w gael. Dygwydda etto, mewn gwirionedd, yn Rhuf. 3, 25; 1 Ioan 2, 2; 4, 10; ond cyfieithir ef yn IAWN yn mhob un o'r adnodau yma. Cawn hefyd yr un gair, a gyfieithir mewn manau ereill yn "wneuthur cymmod," yn cael ei droi yn Num. 33, 35, yn LANHAU. Nid yw y gair a gyfieithir "gras" yn Rhuf. 5, 2, yn dàl un cyssylltiad âg ymadrodd yr Hen Destament; ond yr un gair ydyw a gyfieithir yn "gymmod" yn yr ystyr a nodir gyntaf uchod, hyny yw, cyfnewidiad sefyllfa mewn pleidiau oeddynt o'r blaen mewn ymrafael.

(*d.*) Hyd yma, ymddengys pob peth yn eglur. "Cymmod" ac "Iawn," *yn yr oll o'r Testament Newydd*, oddigerth Heb. 2, 17, ydynt gyfieithiadau o'r un gair, a golygant y cyflwr o gyfeillgarwch neu gymmeradwyaeth i'r hwn y cyflwynir ni gan yr efengyl. "Cymmod," yn yr ystyr y defnyddir ef yn Heb. 2, 17, a "chymmod" yn ystyr unol yr *Hen Destament*, "Iawn" yn y Testament Newydd, a "glanhau" yn yr Hen Destament (Num. 33, 35), ydynt yn gyfieithiadau gwahanol o'r un geiriau Hebreig a Groeg, *kipper*, ac *exilaskomai*, mewn rhyw un neu gilydd o'u ffurfiau. Er y gellir ystyried y geiriau yma fel yn un, etto perthyna iddynt ddwy ystyr, y naill yn cael ei gynnwys yn y llall. Golygant dawelu, heddychu, neu gymmodi, Gen. 33, 20; Diar. 16, 14; Ezec. 16, 63; ac hefyd glanhau oddiwrth euogrwydd, 1 Sam. 3, 14; Sal. 65, 3; Diar. 16, 6; Esay 6, 7, &c. Mewn *cymmod* (*propitiation*), rhoddir amlygrwydd i'r meddylddrych cyntaf, mewn *dyhuddiant* (*expiation*) i'r ail; ac mewn *Iawn*, câwn gyfeiriad eglur at y ddau.

(*e.*) Yr hyn sydd yn gwneyd iawn, yn heddychu, neu yn dyhuddo, a elwir yn Groeg *ilasmos*, *exilasmos*, a *lutron*, oll yn gyfieithiadau o ddau air tarddedig o'r gair Hebreig kipper (kephurim, a kophér), hyny yw, pris neu orchudd.

(*f.*) Defnyddio *lutron* am *kopher* a gyflwyna ffurf ymadrodd arall, "prynedigaeth." Enw (*noun*) yw y gair, ac y mae bob amser yn y Testament Newydd yn cynnrychioli *lutrôsis*, neu *apolutrôsis*. Y ddau ydynt yn ddarluniadol o'r *weithred* o ryddhau un arall drwy dalu rhyw *lutron* neu *apoina*; hyny yw, "*pridwerth*," neu "*ddirwy*;" ac oddiwrth hyn y lleferir bob amser yn y Testament Newydd am y *cyflwr* o fod yn brynedig fel yma.

Golyga y geiriau (yn 1,) prynu yn ol yr hyn a werthwyd dan y gyfraith, drwy dalu y pris am dano, Lef. 25, 25; ac (yn 2,) prynu yn ol yr hyn fyddo wedi ei gyflwyno (*devoted*), drwy osod rhywbeth arall yn ei le, Lef. 27, 27; Exod. 13, 13; Sal. 72, 14; Sal. 130, 8; Esay 63, 9.

Gelwir y pris a delir yn *lutron* (Math. 20, 28; Marc 10, 45), *antilutron* (1 Tim. 2, 6); a'r geiriau Hebreig ydynt *Geulla* a *Phidyon*, y rhai ydynt yn cyfateb yn union i *lutron* a *Kopher*, y rhai eilwaith sydd yn cyfateb i *ilasmos*. Yn 1 Tim. 2, 6, dywedir mai Crist ei hunan yw y pridwerth yma.

"Prynedigaeth," gan hyny, mewn modd cyffredinol, yw cyflwr o ryddhad drwy gyfrwng pridwerth. Oddiwrth hyn, defnyddir ef i ddynodi *rhyddhad oddiwrth gospedigaeth*, neu euogrwydd, Eph. 1, 7; Col. 1, 14; *santeiddiad*, yr hyn yw rhyddhad oddiwrth *awdurdod* pechod, 1 Pedr 1, 18; yr *adgyfodiad*, yr hyn yw rhyddhad gweithredol y corff o'r *bedd*, canlyniad pechod, Rhuf. 8, 23; *cwbl iachawdwriaeth*, yr hyn yw rhyddhad gweithredol oddiwrth bob drwg, Eph. 1, 14; 4, 30; 1 Cor. 1, 30; Tit. 2, 14.

Defnyddir ef unwaith heb un cyfeiriad at bechod, Heb. 11, 35, ac fe allai yn Luc 21, 28.

(*g.*) Y mae gair arall (*agôrazô*), yn cael ei gyfieithu yn "brynu" yn Gal. 3, 13; 4, 5; Dad. 5, 9; 14, 3, 4; a golyga, megys y cyfieithir ef yn mhob man arall, *bwrcasiad*, neu yr hyn a brynir mewn marchnad. Yr hyn a delir yn yr achos yma a elwir *timê* (pris), a dywedir mai Crist yw y pris yma, Gal. 3, 13; neu ei waed, Rhuf. 5, 9. Nid oes yn y gair a gyfieithir "pwrcasu," *peripoieisthai*, yn Act. 20, 28, yr un cyfeiriad at brynedigaeth, neu bris; ei feddwl syml yw, "ennillodd iddo ei hun." Y

geiriau canlynol, fodd bynag, a ddangosant nad yw yr ystyr yn gwahaniaethu llawer oddiwrth brynu, fel y defnyddir y gair hwnw mewn lle arall.

(*h.*) Yn Num. 35, 31, 32, dygwydda y gair "iawn" ddwy waith. Cyfieithiad ydyw yno o kopher, neu *lutra*, yr hyn sydd yn "dyhuddo," neu yn "prynu." Defnyddiad yr ymadroddion yma yn mherthynas i athrawiaeth y Testament Newydd a arwydda fod yr hyn a wnaed ac a dalwyd yn marwolaeth ein Harglwydd, yn mhob ystyr, yn ddigonol; sicrhäodd faddeuant i ni, a chyflawnodd yr holl amcanion moesol a dybiodd Duw yn angenrheidiol o dan gyfundraeth o ddeddf santaidd.

(*i.*) Nid yw y gair "tros-osodiad" i'w gael yn y Testament Newydd; ond mynegir y meddylddrych yn aml yn y ddau Destament. "Ac fe a'i cymmerir yn gymmeradwy ganddo, i wneuthur cymmod drosto," yw ymadrodd yr Hen Destament, Lef. 1, 4; 7, 18; ac â hyn y cyduna y Testament Newydd. Cawn yma mewn arferiad mynych, *uper* ac *anti;* y cyntaf yn golygu "ar ran," "dros," ac "yn lle:" a'r olaf yn ddiammeu yn golygu "yn lle." Ni ddylid rhoddi pwys mawr ar y cyntaf o'r ymadroddion yma, am ei fod yn cael ei ddefnyddio yn fynych lle y gall olygu "er mantais i," Rhuf. 8, 26, 31: 2 Cor. 1, 2: etto yn Ioan 15, 13, a 1 Ioan 3, 16, ymddengys fel pe yn golygu "yn lle:" a hyn yn ddiau yw ystyr *anti*, Math. 20, 28: Marc 10, 45: gwel Math. 2, 22; "yn lle." Fodd bynag, ar wahan oddiwrth bob gosodiadau neillduol, y mae genym dair cyfres o ymadroddion sydd yn eglur ddysgu yr athrawiaeth yma.

(1.) *Gwnaethwyd* Crist yn *felldith drosom ni*, Gal. 3, 13; ceir ymadrodd cyffelyb yn 2 Cor. 5, 21.

(2.) Efe a *roddodd ei hunan yn aberth dros ein pechodau ni*, 1 Cor. 15, 3; Eph. 5, 2: Gal. 1, 4: 1 Tim. 2, 6, 14: Heb. 7, 27: 5, 1, 3: 10, 12: Rhuf. 5, 6, 7, 8: 1 Cor. 1, 13: 5, 7: 11, 24: 1 Pedr 3, 18: 4, 1.

(3.) *Rhoddodd Crist ei fywyd dros ein bywyd ni*, neu, yr ydym ni yn byw drwy ei farwolaeth ef, Gal. 2, 20: Rhuf. 14, 15: 2 Cor. 5, 15. Cymharer Rhuf. 16, 4: Esay 53, 45. Y mae y meddylddrych o drososodiad yn yr holl adnodau hyn, ac y mae yr ymadrodd, er nad ydyw yn Ysgrythyrol, yn grynodeb gyfleus o'r cyfan.

(*k.*) Y mae "*iachawdwriaeth*," yn mhob man yn y Testament Newydd, yn cynnrychioli *sōtēria*, neu *sōtērion*. Cyfieithir *sōtēria* yn "*iachawdwriaeth*," oddieithr yn Act. 27, 34: a Heb. 11, 7, lle y cyfeiria at waredigaeth dymmorol. Golyga y meddylddrych cyflwynedig yn y gair, pa fendithion bynag a gynnwysa prynedigaeth,—heb unrhyw gyfeiriad at *lutron*, nac at ddim arall fel sylfaen iddynt. Cynnwysa waredigaeth *bresenol*, Luc 19, 9, neu *ddyfodol*, Phil. 1, 19: Rhuf. 13, 11. "Iachawdwriaeth," gan hyny, yw y *sefyllfa* i ba un y mae yr efengyl yn cyflwyno y rhai oll a gredant, heb gyfeirio at y moddion a ddefnyddiwyd, na'r pris a dalwyd. Y fath yw y penderfyniad i ba un y mae geirdarddiaeth ac arferiad y Testament Newydd yn arwain.

Wrth droi i'r Deg a Thriugain, fodd bynag, cawn fod y meddylddrych o gymmod yn gynnwysedig yma. Yn aml iawn, *sōtērion* yw y cyfieithiad o *shelem* (*zebhach*), *hedd*-aberth, *thusia sōteriou*, Lef. 3, 1—3; 4, 10; 7, 20: 11, 4; Barn. 20, 26; 21, 4. Aberth, neu ad-daliad, yn adferu heddwch yw *shelem;* ac felly, y mae ystyr *sōtērion* yn cyffwrdd â'r meddylddrych o gymmod.

(*l.*) Oddiwrth y gymhariaeth yma o'r Testament Newydd, y Deg a Thriugain, a'r Hebraeg, yr ydym yn casglu y pethau canlynol:—

Cymmod, drwy roddi pwys ar feddwl ail-raddol *kipper*, ac i feddwl

blaenaf *exilaskomai*, sydd weithred yn tueddu, neu yn cynhyrfu, at ymarferiad o drugaredd, ac yn darparu gogyfer â'r ymarferiad hwnw mewn modd cysson â chyfiawnder.

Dyhuddiant (*expiation*), drwy roddi pwys ar feddwl blaenaf *Kipper*, ac ar feddwl ail-raddol *exilaskomai*, sydd weithred yn darparu tuag at symudiad ymaith bechod, ac yn difodi y rhwymau i'w gospi.

Iawn, drwy roddi pwys i'r ddau, sydd yn meddwl dyhuddiant a chymmod yn gyssylltiedig.

Dywedir fod iawn Crist wedi ei wneyd drwy dros-osodiad, o herwydd iddo ddyoddef yn *ein lle ni*, a dwyn *ein pechodau ni*; ac y mae, drwy gyflawniad, neu foddlonrwydd, o herwydd ynddo y mae y gyfraith droseddedig yn cael ei hanrhydeddu, holl amcanion cospedigaeth yn cael eu hateb mewn modd urddasol i'r Deddf-roddwr, a santeiddrwydd yn y diwedd yn cael ei sicrhau i'r Cristion. Ei effaith yw *heddychiad* (*katallagé*). Y mae y syniad moesol o gyfiawnder yn Nuw, wedi ei gymmodi â phechadur, ac y mae y darpariaeth yn cael ei gwneyd er symud ymaith ein gelyniaeth ni; ac y mae yn *brynedigaeth*, neu waredigaeth *weithredol*, am bris, oddiwrth bechod yn ei euogrwydd a'i lywodraeth, oddiwrth bob trueni, ac oddiwrth angeu. *Iachawdwriaeth* hefyd sydd waredigaeth weithredol, ond heb un cyfeiriad amlwg at y pris a dalwyd. *Iawn*, gan hyny, sydd rywbeth a gynnygir i Dduw; *prynedigaeth* ac *iachawdwriaeth* sydd rywbeth a gyfrenir i ddyn. *Iawn* yw sail *prynedigaeth*, a *phrynedigaeth* yw canlyniad *iawn* (Esay 53, 4—9, 10, 12). Amcan y cyntaf yw boddio cyfiawnder Duw, amcan yr ail yw gwneyd dyn yn ddedwydd; gorphenwyd y cyntaf ar y groes, mae yr ail mewn gweithrediad dyddiol, ac ni chaiff ei chwblhau gyda golwg ar yr eglwys, hyd nes y gorphenir pob peth, Dan. 9, 24; Eph. 4, 30.

Wrth fyfyrio Helleniaethau y Testament Newydd, ac olrhain eu cyssylltiad â'r Hen, bydd y Nov. Test. Græc., Editio Hellenistica, Llundain, 1843, o werth: y mae yn gynnwysedig o destun y Testament Newydd, ac egluriadau o'r Deg a Thriugain, o eiriadaeth pob adnod. Am gynnorthwyon pellach, gweler adr. 331.

330. Cyfeiria yr egluriadau a'r nodiadau yma yn benaf at ystyr geiriau. Rheolau ereill dehongliaeth ydynt wedi eu hegluro eisoes—y geiriau cyssylltiedig â'r frawddeg, y cyd-destun, yr amcan (*scope*), a'r rhanau cyfochrog—ac y maent yr un, pa un bynag a fyddwn ai dehongli y gwreiddiol, neu gyfieithiad, ac nid oes galwad i roddi eglurhad pellach arnynt yma. Y maent yr un mor gymhwysiadol hefyd at fyfyrio yr Ysgrythyrau gwreiddiol.

331. Gyda golwg ar ranau cyfochrog, rhaid cofio nad yw cyfochreddau *geiriol* yn ddefnyddiol, ond yn unig pan y byddo y cyfieithiad wedi ei wneyd yn wir gywir: a rhaid i gymhariaeth ac ymchwiliad o'r gwreiddiol gael ei wneyd drwy gyfrwng, nid cyfieithad, ond y gwreiddiol ei hunan. Gellir canfod pwysigrwydd y nodiad yma yn adr. 329, lle y canfyddir y byddai defnyddio y cyfieithiad Seisnig, [a'r un Cymreig], hyd y nod ar y pwnc pwysig o waith Crist, yn sicr o gamarwain, gan nad yw y Testament Newydd ei hunan yn cyfieithu yn gysson, a chytuna lai fyth yn ei gyfieithiad âg ymadroddion cyfatebol yr Hen Destament. Yn ffodus, y mae yr anhawsder yma, yr hwn flynyddau yn ol a fyddai yn anorchfygol, wedi ei symud i raddau helaeth drwy y cynnorthwyon a nodir isod.

I fyfyrio *cyfochreddau geiriawl Hebreig*, y Mynegai goreu yw eiddo Fürst; ac i fyfyrio Groeg y *Testament Newydd*, y goreu yw eiddo Burder.

Er mwyn sicrhau arferiad cyfieithiad y Deg a Thriugain, ymofyner â Mynegai Trommius, yr hwn sydd yn rhoddi y gair Groeg, yn nghyd â'r manau y mae yn cael ei ddefnyddio, a hyny wedi ei gyfleu dan amrywiol eiriau Hebreig i ba rai y cyfieithir ef. Taflen arall yn yr un llyfr a rydd yn gyntaf y gair Hebreig, ac wedi hyny ei amrywiol gyfieithiadau i'r Groeg. Gall y myfyriwr dderbyn cymhorth mawr oddiwrth "Fynegai Groeg y Sais," yr hwn a rydd Roeg y Testament Newydd, yn nghyd â'i gyfieithiadau Seisnig; ac oddiwrth "Fynegai Hebreig y Sais," yr hwn a rydd yr un cyfarwyddyd yn yr Ysgrythyrau Hebreig. Yn yr ail daflenau o bob un, rhoddir y gair Seisnig, a'i amrywiol gynnrychiolion Groeg a Hebreig. "Mynegai" *Taylor* sydd wedi ei ffurfio yn ol yr un cynllun. Gwna *Wilson* y gair Seisnig yn sylfaen ei Fynegai, gan roddi y cynnrychiolion Hebreig; fodd bynag, y mae cynllun Mynegeiriau Hebreig a Groeg y Sais yn fwy defnyddiol. Nis gellir cymharu Groeg y Testament Newydd â'r Deg a Thriugain, ond yn unig drwy Trommius a Bruder, neu drwy gymhorth Geiriadur Schleusner, neu Thesaurus Biel.

332. Nid ydyw neillduolion yr iaith Roeg yn fwy addysgiadol ac arddercheg mewn dim nag yn nefnyddiad y fannod (*article*); a chan fod y rheolau o berthynas i hyn yn gynnorthwy pwysig i ddehongli yr Ysgrythyr, gall fod yn gyfleus eu rhoddi i lawr yma.

333. Ni fedd yr iaith Roeg ond un fannod, sef y benodol (*definite*); am y fannod anmhenodol, defnyddir y gair "*tis*" (rhyw) yn y Testament Newydd; yn achlysurol iawn drwy "*o*" a *chyfranai* (*participle*), *o speirôn*, "hauwr;" neu, yn gyffredinol, drwy adael allan y fannod benodol.

Y meddyldrych cyffredin a gynnwysir yn nefnyddiad y fannod benodol yn y Groeg, yn gystal ag yn y Saesnaeg a Chymraeg, yw, fod y gwrthddrych o flaen pa un y gosodir hi yn adnabyddus; ond y mae seiliau yr adnabyddiaeth yma mor wahanol, mewn rhai golygiadau, ag yw arferion yr ieithoedd eu hunain. Cyfyd adnabyddiaeth oddiwrth amrywiol achosion, megys,

(*a*). Pan fyddo pethau ynddynt eu hunain yn adnabyddus, neu yn cael eu hystyried fel yn bresenol i'r synwyrau.

1. Enwau personau tra adnabyddus, yn gyffredin, a gymmerant y fannod; ac am eu bod yn dra adnabyddus, gwnant yn aml hefyd hebddi. Megys *Iêsous* ac *ô Iêsous*: gwel Math. 1, 1—16; 2, 16, 19. Gadewir y fannod allan, yn gyffredin, ar fynegiad cyntaf enw. Hefyd, y mae enwau personau nad ydynt yn hollol adnabyddus yn cymmeryd y fannod pan fynegir hwynt yr ail waith.

2. Os bydd yr enw priodol yn cael ei ganlyn gan ddesgrifiad a fyddo yn cynnwys y fannod, y mae yr enw hebddi, oddigerth fod y person yn un nodedig iawn. "Ioan *y* Bedyddiwr" sydd ffurf gyffredin.

3. Cyssylltir y fannod âg enwau gwrthddrychau a fyddont yn bresenol i'r pleidiau perthynol, Math. 26, 23, yn *y* ddysgl. Ioan 13, 26, *y* tamaid. Marc 11, 5, gollwng *yr* ebol. 1 Thes. 5, 27, epistol *hwn*. Math. 13, 27, efrau *hyn*. Oddiwrth hyn y defnyddir yr achos enwedigol (*nominative*) gyda'r fannod i fynegu yr achos galwedigol (*vocative*), Eph. 5, 22; Heb. 1, 8.

4. Yn y Roeg, y mae y rhagenw meddiannol (*possessive pronoun*), gydag enw, yn cymmeryd y fannod; nid fy ewyllys I—yr ewyllys o'r eiddof fi—ond "yr ewyllys o'r eiddot ti," a wneler. Y mae rhai o'r rheolau uchod yn gymhwysiadol at y Gymraeg, ac ereill heb fod. Gallwn, yn wir, ddywedyd, *y* Crist; ond, wedi hyny, nid enw priodol yw "Crist," ond desgrifiad, a golyga "yr eneinniog."

(*b*). Gall adnabyddiaeth gyfodi oddiwrth rywbeth yn y cyd-destun, megys,

1. Mynegiad blaenorol. Luc. 2, 16, *y* dyn bach; yn ad. 12, dyn bach. Ioan 4, 43, yn mhen *y* deuddydd; ad. 40, deuddydd. Mabwysiedir y rheol yma bryd bynag y gellir gwneyd hyny heb droseddu un arall.

2. Cudd-gynnwysiad (*implication*) mewn rhyw ymadrodd blaenorol. Marc 2, 4, *y* tô, ad. 1. Luc 15, 4, yr amyn un pum ugain; un o gant wedi ei cholli. Luc 11, 38, o flaen *y* giniaw; ad. 37, giniawa gydag ef. Math. 1, 24, o'r cwsg yn yr hwn y cafodd freuddwyd, ad. 20. Math. 10, 12, i dy; hyny yw, lle y derbyniant chwi, ad. 11; Act. 20, 13; 2 Thes. 2, 11; gwel 9, 10.

3. Cymdeithasiad (*association*), pan fyddo yr enw heb gael ei guddgynnwys mewn unrhyw beth a fynegwyd yn flaenorol yn dàl perthynas âg ef. Ioan 21, 8, a ddaethant mewn llong; hyny yw, cwch y llong bysgota; gwel ad. 3: felly hefyd, Act. 27, 16; Luc 11, 7; Ioan 13, 5; Marc 4, 38; Act. 20, 9, *y* ffenestr, hyny yw, yr unig un oedd i'r ystafell; Act. 21, 26, 27, *yr* offrwm, ac felly yn cyfeirio drwy y cyfan at y gyfraith a'r addunedau. Y mae y fannod a wneir fel hyn yn angenrheidiol gan y cyd-destun, i'w mynegu yn aml drwy y rhagenw meddiannol "dodi ei (Gr. *y*) ddwylaw arno," Act. 9, 17.

Gwelir y gwahaniaeth rhwng y rheolau Cymreig a'r rhai Groeg oddiwrth yr enghreifftiau uchod.

(*c*). Cyfyd adnabyddiaeth oddiwrth rywbeth nad ydyw yn cael ei fynegu na'i awgrymu, ac y mae amryw foddau yn hyn.

1. Enwau dansoddol (*abstract nouns*) a gymmerant y fannod yn gyffredin, a phob amser y byddont yn cael eu personeiddio. 1 Cor. 15, 26, *yr* angeu (o th.). Ioan 7, 22, 23, enwaediad. 1 Cor. 11, 14, naturiaeth, Math. 11, 19; Phil. 3, 3. I'r dosparth yma perthyna rhifedi yn ddansoddol (*tò én*, unoliaeth, y cyflwr o fod yn un), a'r modd annherfynol (*infinitive*), pan yn cael ei ddefnyddio fel sylweddair, *to pisteuein*—gan gredu. Nid yw y defnydd yma yn gyffredin iawn yn y Saesoneg.

2. Y mae enwau yn arddangos gwrthddrychau mewn natur a fodolant yn unigol, a sylweddau naturiol cyfain, yn gyffredin yn cymmeryd y fannod. Math. 5, 18, nefoedd a daear: 24, 29, yr haul. Marc 13, 28, haf (y tymmor gwresog); goleuni, halen, dwfr. Yr ydym ni yn gyffredin yn gadael y fannod allan mewn achosion fel hyn; o leiaf, pa bryd bynag y byddo defnyddiad o honi yn dynodi rhyw un peth unigol, yn hytrach nâ sylwedd cyffredinol.

3. Geiriau yn dynodi rhywogaeth gyfan o anifeiliaid, neu wrthddrychau, ydynt yn gyffredin yn cymmeryd y fannod. Math. 6, 1, dynion, fel dynion: 7, 6, cŵn, fel cŵn. Math. 10, 16, seirff. Luc 21, 29, ffigysbren. Iago 3, 4, (y) llongau. Byddai gadael y fannod allan, yn dynodi nad ydyw y mynegiad a wneir yn wir ond am rai yn unig, ac nid am y dosparth yn gyfan. Y mae y Gymraeg yn gyffredin mewn achosion fel hyn yn gadael allan y fannod.

4. Dosparthiadau cyfain o oruchwylwyr a'i cymmerant yn gyffredin. Math. 10, 10, *y* gweithiwr. Math. 18, 17, *y* publican. Math. 25, 32, *y* bugail.

5. Llawer o eiriau yn mhob iaith a gyflwynant feddylddrychau adnabyddus i bob dosparth o ddarllenwyr, ac y maent yn briodol yn cymmeryd y fannod: ac, yn gyffredin, y mae yn well ei gadw, hyd y nod mewn cyf-

ieithiad, er i'r cyfieithiad beidio bod yn llawn mor eglur. Math. 17, 24, *ta didrachma, yr* hanner sicl treth y deml: 21, 12, *y* colomenod a ddefnyddid; hyny yw, yn ngwasanaeth y deml. Ioan 18, 3, *ê speira*, y rhan oedd ar ddyledswydd. Ioan 1, 21, ai *y* prophwyd wyt ti? Luc 21, 8, *o kairos*, yr amser (a ddysgwyliwyd cyhyd). 1 Cor. 3, 13, *y* dydd a'i dengys, Heb 10, 25. *Eis tòn aiōna*—am byth, i dragywyddoldeb, Math. 21, 19: Marc 11, 14: Ioan 4, 14. Felly *ê odós*, y ffordd hon, hyny yw, yr efengyl, Act 9, 2: 19, 9, 23: 24, 22: felly mewn ymadroddion diarebol, Math. 23, 24, *y* camel, *y* gwybedyn: felly, *tò óros*, *y* dosparth mynyddig o Balestina, Math. 14, 23: Marc 3, 13. *O krêmnos*, *y* dibyn (a amgylchynai y llyn), Math. 8, 32. *To plòion*, Math. 13, 2: Marc 4, 1, y llestr a ddefnyddid yn gyffredin gan ein Harglwydd a'i apostolion. *E oikia*, y tŷ i'r hwn yr elai yn Nghapernaum, Math. 13, 1, 36: Marc 9, 33. Gan fod Luc ac Ioan yn ysgrifenu, y cyntaf i ddynion na wyddent ddim am Balestina, a'r ail ar ol i holl agwedd y wlad gael ei chyfnewid, nid ydynt, o herwydd rhesymau digonol, un amser yn defnyddio yr ymadroddion olaf y cyfeiriwyd atynt.

334. Yr eithriadau i'r rheolau hyn ydynt amrywiol, ond hawdd i'w dosparthu.

(*a*). Gellir dywedyd fod y fannod yn gyffredin yn cael ei gadael allan lle byddo y meddwl mewnol mor amlwg, fel na effeithia hyny ar ei eglurder.

Enwau priodol ydynt yn aml hebddi, 1 Cor. 3, 22. Enwau dansoddol ydynt hebddi yn aml hefyd. Y mae rhai o brif wrthddrychau natur hebddi, Math. 13, 6: 1 Cor. 15, 41: 2 Pedr 3, 10: Iago 1, 6. Ansoddeiriau uchraddol (*superlatives*) a rhifedi trefnol ydynt yn ei defnyddio, neu yn ei gadael allan, Marc 15, 33: Math. 14, 25: 22, 38. Y mae felly i ryw raddau yn y Gymraeg.

(*b*). Y mae enwau, nad ydynt ynddynt eu hunain yn bennodol, yn aml hebddi, yn enwedig os byddant mewn arferiad cyffredin iawn. Ar yr achlysuron yma, gwneir hwynt yn eglur gan y cyd-destun, neu arferiad, ac y maent yn ddiamwys (*unambiguous*).

Basileus, mewn Groeg glasurol, a feddylia, brenin: *ò basileus*, y brenin Persiaidd: ac y mae gan *basileus* ei hunan yr ystyr yma mewn Groeg diweddarach. Felly, yn y Testament Newydd, cymhwysir *theos*, heb un fannod, at Dduw, a *Kurios* at Jehofa, yn y Testament Newydd, ac yn y Deg a Thriugain, 1 Thes. 2, 5: gwel ad. 10: gwel Math. 10, 28, 37.

(*c*.) Enwau a ddefnyddir yn rhagferfiol (*adverbially*), hyny yw, gydag arddodiaid (*prepositions*), a wnant yn aml heb y fannod. Ioan 1, 1: Rhuf. 8, 4.

335. Cymhwysiad cywir o'r rheolau yma a symuda lawer o anhawsderau, ac y mae yn hanfodol er iawn ddeall rhanau o'r Ysgrythyr.

Dywedir, er enghraifft, yn Math. 1, 17, mai yr holl genedlaethau o Abraham i Dafydd yw pedair ar ddeg. Fe allai fod y fannod yma yn cyfeirio, yn hytrach, at y cenedlaethau oeddynt newydd gael eu nodi.

Yn yr Epistol at y Rhufeiniaid, y mae *nomos*, heb y fannod, yn cyfeirio at unrhyw ddadguddiad, neu reol ysgrifenedig o ddyledswydd foesol, tra mae *o nomos* yn cyfeirio at ddeddf Moses, neu at ryw ddeddf arall oedd newydd ei nodi.

336. Defnydd neillduol iawn o adawiad allan y fannod, yw galw sylw at y meddylddrych yn y gair difannod.

Heb. 1, 1, 2, gynt, Duw a lefarai drwy y prophwydi, yn awr drwy un

sydd yn Fab, *èn viô*: felly 7, 28. 1 Cor. 14, 4, un *dyn—eglwys*. Ioan 3, 6, yr hyn a aned o'r cnawd (bannod) sydd *gnawd* (heb fannod). Rhuf. 11, 6, nid yw gras (bannod) yn *ras* (heb fannod) mwyach, 7, 13.

337. Y rheolau canlynol ydynt yn bwysig gyda golwg ar gyflead geiriau.

(*a*). Pan fyddo dau, neu ychwaneg, o eiriau yn gyssylltiedig, ac yn ddesgrifiadol o wrthddrych unigol, neu o wrthddrychau a ystyrir fel yn unigol, gosodir y fannod (megys yn Gymraeg) o flaen y cyntaf yn unig.

Math. 12, 22, y dall a mud. Luc 11, 28, yr hwn sydd yn gwrandaw ac yn cadw. Ioan 6, 40: Rhuf. 2, 3: 1 Ioan 2, 4: Eph. 5, 20.

(*b*). Ac nid yw y fannod i gael ei hail osod pan na fyddo ond dosparth unigol o bethau neu ansoddau yn cael ei ddarlunio drwy fynegiad o'i ranau.

Eph. 3, 18, *y* lled a'r hŷd, &c., yn desgrifio yr helaethrwydd. Math. 20, 19, i'w watwor (bannod), a'i fflangellu, a'i groeshoelio—y dyoddefiadau. Felly hefyd yn Act. 8, 6: 1 Cor. 11, 22.

(*c*). Na phan fyddo y geiriau a ddefnyddir yn cyflwyno ond un meddylddrych, er i hwnw fod yn un cymhlethedig (*complex.*)

Phil. 2, 17, ar aberth a gwasanaeth eich ffydd. 2 Cor. 13, 11, a Duw y cariad a'r heddwch, 2 Pedr 1, 10.

(*d*). Na phan fyddo dau neu ychwaneg o bersonau yn gwneyd i fyny ond un oruchwyliaeth, neu weithred unigol yn cael ei chyfeirio yn erbyn dau neu ychwaneg o bersonau.

Math. 17, 1, Pedr (bannod), ac Ioan, ac Iago, Luc 19, 11: Act. 3, 11: 17, 15.

(*e*). O'r tu arall, ail osodir y fannod lle y rhoddir pwysigrwydd i bob un o'r pethau a enwir.

Math. 23, 23: Titus 3, 4, ymddangosodd daioni a dyngarwch Duw ein Hachubwr.

(*f*). A phan na fyddo y geiriau a ddefnyddir yn ddarluniadol o wrthddrych unigol, neu o beth a ellir ei ystyried fel y cyfryw.

Heb. 11, 20, bendithiodd Isaac, *ton Iakôb*, a *ton Esav*. 2 Thes. 1, 8, i'r sawl nid adwaenant.... ac i'r sawl nid ydynt yn ufyddhau.

(*g*). Cymhwyser y rheolau yma i egluro y canlynol:—Tit. 2, 13: 2 Thes. 1, 12: Eph. 5, 5: 1 Tim. 5, 21: 2 Pedr 1, 11: Judas 4.

338. Y cyntaf, mewn amseroedd diweddar, i archwilio athrawiaeth y fannod Roeg oedd Granville Sharp; gwnaethwyd hyn wedi hyny i raddau helaethach, a chyda mwy o gywirdeb, gan y Dr. Middleton, rhai o benderfyniadau yr hwn, fodd bynag, ydynt wedi eu dymchwelyd gan ymchwilwyr diweddar. Y rheolau uchod ydynt yn gysson â'r cyfryw o eiddo Middleton ag ydynt wedi sefyll y prawf, a'r rhan amlaf o honynt a gymmerwyd yn sylweddol o "Ieithweddau" Winer, ac o "Ramadeg Green o dafodiaith y Testament Newydd," 1842.

Dos. 6.—*Am ddefnydd cynnorthwyon allanol i ddehongli y Beibl.*

"Y Beibl sydd gyffelyb i ardd ëang, yn yr hon y mae cyflawnder ac amrywiaeth mawr o ffrwythau a bledau, rhai o honynt yn fwy hanfodol, neu ysplenydd, nag ereill; etto ni oddefir i gymmaint ag un dyfu ynddi heb fod ganddo ei ddefnydd a'i brydferthwch yn y gyfundraeth. Iachawdwriaeth i bechaduriaid yw y prif wirionedd a amlygir yn mhob man, ac yn mhob goleuni; ond y mae y pur o galon yn gweled ynddo fil o linellau o'r cymmeriad Dwyfol, o hono ei hunan, ac o'r byd; rhai o honynt yn amlwg a hyf, ac ereill, mewn ystyr, wedi eu tafluo i'r cysgod, fel pe byddent wedi eu bwriadu i gael eu chwilio a'u myfyrio."—Cecil, *Gweddillion* (*tud.* 198).

339. Er mwyn cyflawn ddeall yr Ysgrythyrau, cyssoni gwrthddywediadau ymddangosiadol, casglu fyny yr holl wirionedd a gynnwysa, ac i'n galluogi weithiau hyd y nod i ddewis, o amrywiol ystyrion, yr un mwyaf cysson â'r ewyllys Ddwyfol, y mae yn fynych yn angenrheidiol ymofyn am ryw gymhorth allanol (*collateral*). Y mae arnom eisieu gwybod yr opiniynau a'r meddylddrychau a ffynent yn mhlith y bobl, i ba rai y rhoddwyd gwahanol ranau yr Ysgrythyr; ffeithiau o hanesiaeth gyffredin, o amseriaeth, o hanesiaeth naturiol, ac yn enwedig arferion a defodau cenedloedd dwyreiniol.

340. Y mae defnyddioldeb y cynnorthwyon allanol yma, mewn rhai achosion, wedi cael ei anwerthfawrogi yn hynod, a'i orwerthfawrogi i'r unrhyw raddau mewn achosion ereill. Hwynthwy yw y prif fyfyrdod gan lawer, a meddyliant nad oes neb yn addas i ddeall y Beibl hyd nes y byddo mewn cyflwr i'w defnyddio. Dirmygir hwynt gan ereill. Annghofia y dosparth *cyntaf* mai prif werth y cynnorthwyon yma yw cadarnhau synwyr fyddo eisoes wedi ei ddarganfod, neu egluro testunau llai pwysig; oblegid y mae mynegiadau am bob gwybodaeth hanfodol i iachawdwriaeth, wrth gymharu y naill â'r llall, yn ddigon eglur. Annghofia yr *ail* ddosparth fod y cynnorthwyon yma yn fynych yn angenrheidiol i benderfynu y synwyr lle y byddo yn ammheüus, ac os esgeuluswn hwynt, bydd llawer o feddwl rhanau neillduol a phwysig o'r Ysgrythyr yn aros yn guddiedig.

341. (i.) Y mae yn fynych o bwys i feddiannu rhyw wybodaeth am y meddylddrychau a'r opiniynau a ffynent yn mhlith y bobl y rhoddwyd yr ysgrifeniadau ysbrydoledig iddynt, neu yn mhlith y cenedloedd cylchynol.

Er enghraifft, ar yr amser yr ymddangosodd ein Harglwydd, yr oedd yn mysg yr Iuddewon ddysgwyliad cyffredinol am ddyfodiad y Messiah, a'i deyrnasiad ef a elwid, "y byd a ddaw," "y Jerusalem nefol,"[a] "teyrnas nefoedd," neu "teyrnas Dduw."[b] Myned i mewn i'r deyrnas hono oedd dyfod yn ddysgybl iddo ef. Yr oedd meddyliau yr Iuddewon am ei natur yn gyfeiliornus iawn; ac yr oedd yn angenrheidiol i'n Harglwydd eu hargyhoeddi hwynt. Gwna hyn yn ei ddysgeidiaeth ei hun, ac eiddo ei apostolion. Gan hyny, rhaid dysgu natur teyrnas Dduw o'r Testament Newydd, ac y mae y ffaith (yr hon a ddysgwn oddiwrth ffynnonellau allanol) fod yr enw yn cael ei roddi gan yr Iuddewon i deyrnasiad y Messiah, yn perffeithio ein gwybodaeth, ac yn cadarnhau y dehongliad.

"Efe a anwyd drachefn," oedd y desgrifiad Iuddewig o broselyt; ac y mae y defnydd yma o'r ymadrodd yn cadarnhau y dehongliad cyffredin o iaith ein Harglwydd, Ioan 3.

"Rhwymo a gollwng," megys y dangoswyd gan Lightfoot, a olyga yn mysg yr Iuddewon, wahardd fel yn annghyfreithlawn, neu ganiatâu fel yn gyfreithlawn (megys y defnyddir "heb fod yn rhwymedig i" o hyd yn ein plith ni). Oddiwrth hyn canfyddir wir ddehongliad Mat. 18, 8 (Wetstein).

Gwneir y gorchymynion yn y bregeth ar y mynydd yn fwy argraffiadol gan y ffeithiau canlynol:—Daliai y Phariseaid nad oedd meddyliau y galon un amser yn bechadurus (gwel Mat. 5, 28); a'r Ysgrifenyddion, fod y rhoddion y gofynid i'r addolwyr Iuddewig eu gosod ar yr allor yn gwneuthur iawn am bob trosedd nad oedd yn agored i'w ddwyn dan sylw y Barnwr (ad. 24). Dadleuent oll, medd Maimonides, y gellid gwneyd pob llw i'r nef, neu i'r ddaear, yn dwyllodrus; nad oedd yr unrhyw rwymedig-

[a] Schoetgenii, Horæ Heb. i., Diss. v., Chap, vi.
[b] Gwel Lyall's Propædia Prophetica, p. 270.

aeth bwysig yn perthyn iddynt ag i lŵon lle yr oedd enw Duw yn dygwydd (ad. 34). A chredid hefyd (Buxtorf) na chawsai gweddi faith ddychwelyd yn wag (6, 7).

342. Prif ffynnonellau gwybodaeth ar opiniynau yr hen Iuddewon, yw y Targumiau a'r Talmud. Y nesaf mewn pwys yw y Sohar gan R. Simeon ben Joshai, yr hwn a flodeuodd yn gynnar yn yr ail ganrif. Rhoddir y parch mwyaf i'r llyfr hwn, ac efe yw sylfaen y Cabbala, gwel Rhan ii., "Arweiniad i'r Efengylau." Ei bwnc yw dyfodiad y Messiah, a'r dygwyddiadau rhagfynegiedig o berthynas i'w deyrnasiad. Eglura feddwl yr Ysgrythyr, ac annghrediniaeth yr Iuddewon, a bod yr ystyr a roddir i'r amryw brophwydoliaethau a ddyfynir gan yr apostolion yn y Testament Newydd, yr un (gyda dau neu dri o eithriadau arbenig) a'r ystyr a roddir iddynt gan yr Iuddewon yn gyffredinol. Er enghraifft, yr holl awdurdodau sydd newydd eu nodi, a gymhwysant yr oll o'r Salmau, a'r oll o brophwydoliaethau Esay a ddyfynir yn y Testament Newydd, at y Messiah. Ac etto, nid ydynt yn credu mewn Messiah, er iddo ef eu llanw mor nodedig.

Caiff y myfyriwr olygiadau awduron Iuddewig wedi eu dyfynu yn helaeth yn yr Horæ Hebraicæ gan Lightfoot a Schoetgenius; yn esboniadau y Dr. Gill a Koppe, ac yn nodiadau Wetstein ar y Testament Groeg.

343. Tra y gall meddwl gwreiddiol y geiriau a ddefnyddir yn yr Ysgrythyr gael ei awgrymu yn aml gan wybodaeth o'r opiniynau a goleddid mewn amseroedd boreuol, y mae yn deilwng o sylw, fodd bynag, nad ydyw y meddwl hwnw ond cymhorth attegol, yn unig i gael allan eu defnydd Ysgrythyrol. Wrth "ddyn ail-enedig" y golygai yr Iuddew broselyt—un wedi ei wneuthur yn Iuddew drwy enwaediad, neu fedydd. Ond er fod y defnydd hwn o'r ymadrodd yn cyfrif am ei fabwysiad gan ein Harglwydd, ac i raddau helaeth yn esbonio ei feddwl, etto eglur yw nas gellir casglu ei wir a'i gyflawn ystyr, ond oddiwrth yr Ysgrythyr ei hunan.

344. Y mae gwybodaeth o opiniynau crefyddol y cenedloedd a gylchynent yr Israeliaid, yn ddefnyddiol yn aml hefyd.

Yn mhlith yr *Aifftiaid*, er enghraifft, yr oedd oen, neu fyn, yn wrthddrych parch, a'r gwrryw, fel cynnrychiolydd Ammon, a addolid.

Pläau yr Aifft a syrthiasant oll ar wrthddrychau a addolid gan yr Aifftiaid, ac felly yr oeddynt yn geryddon i eilun-addoliaeth, yn gystal ag yn brofion o'r gallu Dwyfol.

Y *Phœniciaid*, ar yr uchel-wyliau, a fwytâent gnawd eu haberthau heb ei ddigoni; sychent ran o hono yn yr haul, a rhan a fathrent er amcanion swyngyfareddol; y perfedd a ddefnyddient mewn dewiniaeth, a'r darnau er swynion a hudoliaethau (*charms and enchantments*). Yr holl arferion yma a waherddid i'r Iuddewon; ac er fod llosgiad yr aberth mewn tân yn dysgu iddynt wersi pwysig ereill, diau ei fod hefyd yn eu dysgu i ochelyd defodau y paganiaid.

Gwel hefyd Lef. 19, 28; Lef. 11, 11; Salm 16, 4; Jer. 44, 17, 18.

Yn mhlith yr hen *Bersiaid* credid fod dau dduw, cyfartal mewn gallu, Ormuzd ac Ahrihman. Yn ei anerchiad i Cyrus, y mae Jehofah yn hòni awdurdod ar y ddau. "Myfi sydd yn llunio goleuni a thywyllwch, llwyddiant a drygfyd," Esay 45, 7.

Llawer o'r rhai a gofleidiasant yr athroniaeth *ddwyreiniol* a ddaethant yn Gristionogion, ac a amcanasant gymmysgu erthyglau y blaenaf âg athrawiaethau Crist. Rhai o honynt (y Gnosticiaid, er enghraifft) a goleddent y fympwy, fod amryw haniadau o'r Duwdod, a elwid y Gair, y Bywyd,

y Goleuni, &c.; a thybir fod yr apostol Ioan yn cyfeirio at yr opiniynau yma yn Ioan 1, 1—18, lle y mae yn hawlio yr holl deitlau yma i'n Harglwydd.

Moesoldeb isel a dynid gan lawer o honynt oddiwrth eu hegwyddorion, ac ereill a gyfiawnhâent yr arferion llym-dostaf. Gellir ystyried mympwyon golygiannol (*speculative*) y sectau yma yn cael eu gwrthwynebu gan y fath Ysgrythyrau a'r rhai a ganlyn:—1 Ioan 1, 1, 2, 7: 2, 22, 23: 4, 2, 3, 9, 14, 15: 5, 1—5, 9—20; a'u hymarferion gan 1 Ioan 1, 5, 6: 2, 2, 6: 3, 4—10: 5, 18, 21. Gweithredoedd y Nicolaiaid oeddynt, mae yn debyg, o'r un natur, Dad. 2, 6.

Yr athroniaeth *Roegaidd* a ffynai fwyaf yn Ewrop, a dangosai y cymmeriad Groegaidd ei duedd mewn ymchwiliadau cyfrwys. Dwy yn unig o'r sectau Groegaidd a nodir yn yr Ysgrythyr, yr Epicuriaid a'r Stoiciaid. Daliai y cyntaf nad oedd Duw yn cymmeryd unrhyw ran yn nhrefniadau y bydyssawd, ond ei fod yn byw mewn rhyw barth pellenig; a'r ail a ddaliai mai efe oedd enaid y byd. Cydunent, fodd bynag, i hòni fod y Groegiaid yn rhagori ar bob cenedl arall. Yr apostol Paul a gerydda y ddwy, Act. 17, 18—32, ac a ddengys gyfeiliornadau y naill a'r llall, gan ddadlenu iddynt athrawiaethau mawrion yr adgyfodiad, ac iawn Crist. Gwybodaeth o'u golygiadau a eglura ei appeliad, a gerydda "hwyrfrydigrwydd" i gyhoeddi yr efengyl, ac a ddengys symledd a mawrhydi gwirionedd.

Y mae Dwyfoliaeth ein Harglwydd, ac annefnyddioldeb y gyfraith seremoniol, yn cael eu dysgu yn epistolau Paul. Cadarnhad o'r golygiad yma yw, fod yr *Ebioniaid*, y rhai a gadwent y gyfraith yma, ac a ddalient ddyncliaeth syml y Gwaredwr, yn gwrthod yr epistolau hyn, ac ni dderbynient ond yn unig gopi darniedig o Efengyl Matthew. Wilson, tud. 283.

Llawer o bregethau ein Harglwydd a gynnwysant gyfeiriadau uniongyrchol at olygiadau yr amrywiol sectau Iuddewig. Gwel y darllenydd nodiadau helaeth ar y golygiadau hyny yn yr arweiniad i'r efengylau.

345. Y mae gocheliad yn angenrheidiol yma etto. Y cyfeiliornadau y cyfeirir atynt yn y rhanau a wneir fel hyn yn eglur drwy y wybodaeth yma, ydynt yn aml yn lleol a thymmorol. Tarddant, fodd bynag, oddiwrth rhyw duedd ddofn yn y natur ddynol, ac y maent yn debyg o ymddangos mewn gwahanol ffurfiau, ac y mae y gwrthbrofiad a roddir o honynt yn yr Ysgrythyrau, bob amser yn cynnwys gwirioneddau o gymhwysiad parhaus a chyffredinol.

346. (ii.) Y mae gwybodaeth o hanesiaeth henafol gyffredin (*profane*), yn aml yn gynnorthwyol i fyfyrio y Beibl.

Yn Gen. 46, 34, dywedir, "Pob bugail sydd ffieidd-dra gan yr Aifftiaid." Y ffaith yma a eglura roddiad tir Goshen (ar derfyn eithaf yr Aifft) i'r Israeliaid, trefniad a'i cadwai rhag ymgyssylltiad rhy agos gyda'r Aifftiaid, ac a esbonir ynddo ei hunan gan ymchwiliadau y Dr. Hales, a Mr. Faber. Dywedant wrthym, oddiwrth ddernyn perthynol i Manetho, i'r Aifft, oddeutu y flwyddyn c. c 2159, gael ei goresgyn gan lwyth o fugeiliaid o Arabia, y rhai, ar ol llawer o flynyddoedd o lywodraeth greulawn, a yrwyd allan drwy wrthryfeliad cyffredinol tywysogion yr Aifft Uchaf, ac a ymneillduasant wedi hyny i Balestina (*tir y bugeiliaid*), ac a adnabyddir yn yr Ysgrythyr fel y Philistiaid. Oddiwrth y dygwyddiad yma, yr hwn a gymmerodd le cyn dechreuad arlywyddiaeth Joseph, gellir canfod y rheswm am y ddrwg-dybiaeth gyda pha un y cafodd yr Israeliaid, y rhai a ddaethant o'r un cyfeiriad, eu derbyn, yn nghyd â'r dirmyg gyda pha un yr edrychid ar eu gwaith fel bugeiliaid crwydrawl ac ansefydlog.

Tra mae henafiaethwyr Aifftaidd, Champollion, Rosellini, a Wilkinson, yn cytuno yn y golygiad yma o oresgyniad gan fugeiliaid, etto gellir ychwanegu fod Hengstenberg, er fe allai heb reswm digonol, wedi taflu ammheuon ar yr holl ran yma o hanes Manetho. Gwel Taflenau o Amseriaeth Aifftaidd (Rhan ii).

Y mae yn nodiad addysgiadol, fod hanes Assyria, ac henafiaethau yr Aifft, y rhai gynt oeddynt brif offerynau anffyddiaeth, yn awr yn cyfleu un o'r profion allanol cryfaf o wirionedd yr Ysgrythyr.

Felly etto, yr esboniad goreu ar Deut. 28, ac ar brophwydoliaeth ein Harglwydd am ddinystr Jerusalem, sydd i'w gael yn hanes y rhyfeloedd Iuddewig gan Josephus. Yr oedd efe ei hunan yn Iuddew o enedigaeth; ganwyd ef yn Jerusalem, oddeutu o. c. 37, ac yr oedd yn llygad-dyst o'r gwarchae ar y ddinas. Cadarnhëir gwirionedd ei hanes gan ysgrifenwyr cyfoesol, a chan dystiolaeth yr Amherawdwr Titus.

Eglurir Math. 2, 2, 3, gan y ffaith, fod ar y pryd hwnw ddysgwyliad cyffredinol yn y Dwyrain, fod tywysog mawr oddeutu ymddangos i lywodraethu y byd, Tac. Hist. 1. 5; Suet. Vit. Vesp. c. 4.

Yn Math. 24. 15, 16, ein Ceidwad a rybyddia ei ddysgyblion i adael Jerusalem cyn dechreuad y gwarchae; a dyweda hanes gyffredin wrthym eu bod wedi ennill drwy ei gyfarwyddiadau, oblegid cyn i'r ddinas gael ei chylchynu gan y byddinoedd Rhufeinig, hwy a ymneillduasant i Pella, ar du dwyreiniol yr Iorddonen.

Yr heddwch a nodir yn Act. 9, 31, a eglurir gan hanesiaeth gydamserol. Rhaid peidio ei phriodoli i argyhoeddiad Saul, oblegid parhäodd yr erlidigaeth am dair blynedd wedi hyny, ond i'r amgylchiad, i Caligula, y pryd hwnw (o. c. 40), amcanu gosod i fyny ei ddelw yn y Santaidd Santeiddiolaf. Yr oedd arswyd yr Iuddewon rhag yr halogedigaeth bygythiol yma mor fawr, fel y dênodd eu sylw oddiwrth y Cristionogion, ac felly "yr eglwysi a gawsant heddwch."

Yn Actau 17, 16, dywedir fod Athen yn "llawn eilunod" (ymyl y ddalen). Geilw Ælian (o. c. 140) hi yn allor Groeg; a dyweda Pausanias, hanesydd arall, wrthym (o. c. 170), fod mwy o ddelwau yn y ddinas yma nag yn holl Groeg gyda'u gilydd. Holl henafiaeth a gyduna i'w gosod allan fel sedd dysgeidiaeth Roegaidd, ac fel ysgol y byd. Mor addysgiadol yw y cymmysgedd yma o oleuni naturiol a dygn eilun-addoliaeth.

Canfyddir mawrhydi ymddygiad Paul yn ei anerchiad i Ffelix (Act. 24, 25), hyd y nod ar wyneb yr hanes. Dywed Josephus fod Ffelix yn nodedig am ormesu, a'i fod wedi bod yn byw mewn godineb gyda Drusilla, gwraig brenin diweddar Edessa. Ni amddiffynodd Paul ei hunan, ac ni arosodd ar erchylldod y pechodau yr oedd Ffelix yn euog o honynt, ond ymresymodd yn y modd cywreiniaf am y rhinweddau o gyfiawnder a chymmedrolder, ac athrawiaeth bwysig y farn a fydd. Nid oedd gan Ffelix un esgus i'w rwystro i lefaru, ac etto eglur yw ei fod yn teimlo ei appeliadau.

347 (iii). Y mae hanesiaeth eglwysig hefyd yn werthfawr er dehongli yr Ysgrythyrau; weithiau drwy gyflwyno *ffeithiau*, o berthynas i ba rai y mae yr ysgrifenwyr ysbrydoledig yn ddystaw; ac weithiau drwy roddi hanes *golygiad* (*opinion*) yn yr eglwys ei hunan.

Dysgwn, er enghraifft, fod yr efengyl, yn mhen deng mlynedd ar hugain ar ol marwolaeth ein Hiachawdwr, a chyn dinystr Jerusalem, wedi cael ei phregethu yn Macedonia a Syria, gan Judas; yn yr Aifft a rhanau o Affrica, gan Marc, Simon, a Judas; yn Ethiopia, gan Eunuch Candace, a chan Matthias; yn Pontus, gan Pedr; yn nhiriogaethau y saith eglwys,

gan Ioan; yn Parthia, gan Mathew; yn Scythia, gan Philip ac Andreas; yn Persia, gan Simon a Judas; yn Media, gan Thomas; yn yr Eidal a Groeg, gan Paul. Ffurfiwyd eglwysi, oddeutu yr un amser, yn y rhan amlaf o'r parthau yma. Mor fuan y tarddodd egin y deyrnas i fyny, ac y llanwodd y ddaear, Marc 16, 15—20.

348. Y mae hanes golygiadau cywir dynion da, a dechreuad rhai cyfeiliornus, hefyd o bwys mawr.

Cristionogion Smyrna, mewn llythyr a dynwyd i fyny ganddynt, yr hwn sydd o hyd ar gael, ac a rydd hanes merthyrdod Polycarp, mewn atebiad i gyhuddiad o eiddo yr Iuddewon, eu bod yn barod i addoli Polycarp yn lle Crist, a ddywedent, "Hyn sydd anmhosibl, oblegid Crist yn unig yw, ac a all fod yn wrthddrych addoliad. Iddo ef yn unig y cyflwynwn addoliad;" ac ychwanegant, "a'r merthyron ydynt wrthddrychau diolchgarwch a chariad yn unig." Holl Dadau y tair canrif gyntaf, a draddodant yr un athrawiaeth o berthynas i'n Harglwydd, ac "am hyny (medd Eusebius), y mae yr holl Salmau a hymnau a ysgrifenwyd gan y ffyddloniaid, o'r dechreu, yn mynegu moliant Crist, ac yn priodoli Dwyfoldeb iddo." Han. Egl. v., c. 27, 28; Math. 28, 17.

Dyledswydd pob dosparth i chwilio yr Ysgrythyr a awgrymir yn eglur mewn amryw ranau o'r Beibl;[a] ac y mae yn ddyddorawl gwybod fod ysgrifenwyr boreuol yr eglwys yn cymhell y ddyledswydd yma yn yr ymadroddion cryfaf. Chrysostom a Jerome, Origen ac Augustine, ydynt oll yn cyduno yn y peth yma. Y maent hyd y nod yn cadarnhau fod yr achos o ddrygedd eu hamseroedd i'w gael yn y ffaith "nad oedd yr Ysgrythyrau yn adnabyddus." (Gwel adr. 144.)

349. Nid yw yr opiniynau yma yn *awdurdod*, ond y maent yn *brofion*. Profant mai y dehongliad a gyssylltir yn awr â'r rhanau o'r Ysgrythyr sydd yn llefaru am y gwirioneddau yma, yw yr un a gymmeradwyai ei hunan i sylw dynion da, y rhai a feddiannent fanteision neillduol i benderfynu meddwl y gyfrol ysbrydoledig.

350. Ac nid llai pwysig yw hanes golygiadau annghywir am bynciau o wirionedd.

Darllenwn gyntaf, er enghraifft, am y teitl o Esgob cyffredinol (yn Rhufain), o. c. 606; am awdurdod ganonaidd yr Apocrypha, y Vulgate, a thraddodiadau, fel erthyglau ffydd, yn Nghynghor Trent, yn yr 16eg ganrif; am ddefnyddiad y Lladinaeg yn yr addoliad yn lle y dafodiaith lafaredig, yn y 7fed ganrif (666). Traws-sylweddiad a ddysgwyd gyntaf yn yr 8fed ganrif. Yn yr 11eg ganrif, anafwyd swper yr Arglwydd drwy sefydlu cymmundeb o un math. Yn y 12fed ganrif, y dysgwyd athrawiaeth y Saith Sacrament gyntaf. Nid yw yr athrawiaethau am rinwedd haeddiannol penyd, y purdan, a gweddio dros y meirw, yn dyddio yn mhellach yn ol nâ'r 7fed ganrif; ac ni chwbl gadarnhäwyd hwynt hyd y flwyddyn 1140. Nid oedd yr hawl i roddi llythyrau maddeuant (*indulgences*) yn cael ei hôni gan y Pabau hyd y 12fed ganrif. Cadarnhäwyd cel-gyffesiad (*auricular confession*) gyntaf gan y 4ydd Gynghor Lateraidd, yn y 13eg ganrif. Ordeiniwyd gweddwdod gorfodol a chyffredinol y lleygwyr yn y 4ydd ganrif, a chadarnhäwyd ef gan Gregory VII. ar ddiwedd yr 11eg. Col. 2, 23; 2 Thes. 2, 7—12.

351. Nid yw fod y cyfeiliornadau yma wedi cael dechreuad mor ddiw-

[a] 2 Tim. 3, 15; Ioan 5, 39; Act. 17, 11, 12; Luc 16, 29; Math. 22, 29; Ioan 21, 30, 31; 2 Pedr 1, 19; 1 Thes. 5, 27; Dad. 1, 3.

eddar, mewn cymhariaeth, yn awdurdod yn eu herbyn, ond y mae yn brawf o feddwl y Beibl. Profa mai newydd-beth yw Pabyddiaeth, ac na ddysgwyd ei daliadau gan y rhai oeddynt yn byw agosaf i amser ein Harglwydd, y rhai oedd â'r manteision mwyaf ganddynt i gael allan feddwl yr Ysgrythyr.

352. O berthynas i'r cymhorth a dderbyniwn fel hyn oddiwrth hanesiaeth, canon bwysig yw, nad ydyw y ffaith hanesyddol a gesglir oddiwrth ysgrifenwyr cyffredin (*profane*), neu eglwysig (*ecclesiastical*), yn unig, yn rhan o'r Beibl. Gall gynnwys gwirionedd a ddysgir yn yr Ysgrythyr; a chredwn y gwirionedd hwnw am ei fod i'w gael yno; neu gall egluro mynegiad Ysgrythyrol, ac heb fod ei hunan yn ddadguddiedig mewn un man. Yn yr achos hwnw, credwn yn ol y profion, ond ni dderbyniwn hi byth fel gwirionedd yn cael ei ddysgu gan Dduw.

353. (iv.) Y mae gwybodaeth o drefn dygwyddiadau, ac o'r cyfnodau rhyngddynt, yn hanfodol er iawn ddeall rhanau o'r Beibl; a'r gyfryw wybodaeth a gyflwynir gan Amseriaeth (*Chronology*), sef y wyddor o gyfrif a threfnu tymmorau, a chyfnodau o amser.

Er enghraifft, y mae gwybod am yr *ail* genedlaeth ar ol Adda, fod pob cnawd wedi llygru ei ffordd, fel ag yr edifarhäodd Duw wneuthur o hono ef ddyn, yn egluro llygredigaeth y natur ddynol.

Er cymmaint oedd euogrwydd Sodom a Gomorrah, ymddengys yn fwy arswydus wrth ystyried iddo gyrhaedd ei eithafion cyn pen can mlynedd ar ol marwolaeth eu henafiad Noah.

Y farn yn erbyn tŷ Eli, yn Silo, a ddechreuodd gael ei chyflawnu yn marwolaeth ei feibion; ond ni chwblhäwyd hi hyd oni fwriwyd Abiathar o'r swydd offeiriadol, yn mhen pedwar ugain mlynedd wedi hyny (1 Bren. 2, 26, 27). Y mae Duw yn sicr yn ei ymweliad, er yn bwyllog.

Y pechod a ddianrhydeddodd fwyaf ar gymmeriad Dafydd a gyflawnwyd pan oedd efe yn hanner can mlwydd oed. Rhydd hyn eglurhad addysgiadol ar nerth temtasiwn, ac annigonolrwydd profiad crefyddol maith, i gynnal y Cristion.

Oddiwrth 2 Bren. 23, 13, dysgwn i'r lleoedd a adeiladwyd i Astaroth aros hyd ddyddiau Josiah, neu am 350 o flynyddoedd. Tebyg yw i Solomon farw yn edifeiriol, etto teimlid canlyniadau ei bechod am amryw genedlaethau.

Y boreuaf o'r ysgrifeniadau apostolaidd yw yr Epistol cyntaf at y Thessaloniaid, a chynnwysa gyfarwyddyd penodol am i'r llythyr gael ei ddarllen i'r eglwysi. Y mae y cyfarwyddyd hwn, wedi ei roddi ar y fath amser, yn dangos fod y dosparth yma o ysgrifeniadau yn ran o ganon yr Ysgrythyr.

Y mae dyddiad yr Epistol at Timotheus, o. c 64, yn agos deng mlynedd ar hugain ar ol argyhoeddiad Paul, yn ychwanegu pwys mawr at ei fynegiad, mai efe oedd y penaf o bechaduriaid. Eglur yw na pheidiodd un amser a choleddu ystyriaeth ddwys o'i bechadurusrwydd. Gallwn fesur ein cynnydd mewn santeiddrwydd wrth raddau ein gostyngeiddrwydd, 1 Tim. 1, 15.

Meddylia rhai esbonwyr fod 2 Cor. 11, 25, yn cyfeirio at y dygwyddiadau a gofnodir yn Act. 27; ond yr oedd yr epistol yma, mewn gwirionedd, wedi ei ysgrifenu cyn i'r dygwyddiadau hyny gymmeryd lle.

Grotius ac ereill a briodolent y dyn pechod a nodir yn 2 Thes. 2, 3, i Caligula; ond yr oedd Caligula wedi marw ddeuddeg mlynedd cyn i'r epistol gael ei ysgrifenu.

Ychwanegir grym gorchymyn Pedr, 1 Pedr 2, 17, "Anrhydeddwch y Brenin," gan y ffaith mai y gormeswr Nero oedd y pryd hwnw yn Amherawdwr y byd Rhufeinig.

Ymchwiliad i'r 5ed bennod o Genesis a ddengys y gallasai Noah dderbyn hanes y crëad oddiwrth Adda, yn unig drwy Enos, neu drwy ei dad Lamech. Yr oedd Lamech am 56 mlynedd yn cydoesi âg Adda, ac am 100 mlynedd â Sem. Yr oedd Sem yn cydoesi am amryw flynyddau âg Abraham ac Isaac. Gallasai cyflwyniad o Adda i Isaac fod yn unig drwy Lamech a Sem. Mor hawdd yw cyfrif am drosglwyddiad gwirionedd Dwyfol o'r amser boreuaf.

Aeth dros 4,000 o flynyddoedd o amser heibio rhwng rhoddiad yr addewid gyntaf a'i chyflawniad; mwy nâ 400 mlynedd rhwng yr addewid a roddwyd i Abraham a'i chyflawniad dan Josua; ac nid llai nâ 400 rhwng prophwydoliaeth Malachi a'i chyflawniad yn Ioan Fedyddiwr. "Mil o flynyddoedd ydynt gyda'r Arglwydd megys un dydd." Er fod yr addewid yn oedi yn hir, etto yr ydym ni i ddysgwyl am dani.

Y mae y wybodaeth yma yn bwysig neillduol mewn dehongli prophwydoliaeth, er ein galluogi i benderfynu y dygwyddiad a ragfynegir, ac i ganfod y cyflawniad.

Er enghraifft, penderfynir ystyr Esay 37, 22—34, oddiwrth pennod 36. Y cyntaf sydd ragfynegiad am waredigaeth nodedig rhag perygl bygythiol; a'r olaf a gyfeiria at Hezeciah a Sennacherib, fel y personau yn mha rai y cafodd y rhagfynegiad ei gyflawnu.

354. Yn amseriaeth pob cenedl, sefydlir ar ryw ddyddiad nodedig, oddiwrth yr hwn y dechreuant gyfrif. Cristionogion a gyfrifant o enedigaeth Crist, O. C. Y Rhufeiniaid a gyfrifent o sefydliad eu dinas, A. U. C. Y Groegiaid drwy Olympiadau, y gyntaf o ba rai a ddyddid 776 o flynyddoedd cyn Crist, oddeutu 55 o flynyddoedd cyn y caethiwed, yn nyddiau Uzziah. Gelwir y tymmorau yma yn brif-nodau (*epochs*), neu gyfnodau (*eras*), er mai yr olaf yw yr enw mwyaf cyffredin. Y rhai canlynol yw y prifion:—

Y flwyddyn Roegaidd o'r byd o	Medi 1, c. c. 5598.
Cyfnod Caercystenyn, yn wladol ac eglwysig	Eb. 1, Medi 1, c. c, 5508.
Y cyfnod Iuddewig, eglwysig a gwladol, O. B.	Eb., Medi, c. c. 3761.
Cyfnod Abraham, neu y cyfnod Eusebiaidd .	Hyd. 1, c. c. 2015.
Cyfnod dinystriad Troia	Meh. 12, neu 24, c.c. 1184.
Cyfnod teml Solomon	Mai, c. c. 1015.
Yr Olympiadau, Ol.	Lloer Newydd Alban Hefin, c. c. 776.
Y cyfnod Rhufeinig (y flwyddyn Gonsulaidd o Ion. 1), A. U. C.	Eb. 21, c. c. 753.
Cyfnod Nabonassar	Chwef. 26, c. c. 747.
Cyfnod y Seleucidæ	Medi 1, c. c. 312.
Y cyfnod Pabol a Chaercystenynaidd. . .	Ion. 1, Medi 1, c. c. 3.
Y cyfnod Cristionogol, O. C.	Ion. 1, O. C. 1.
Yr Hegira, y cyfnod Mahommedanaidd . .	Gor. 16, O. C. 622.
Y cyfnod Persiaidd	Meh. 16, O. C. 632.

355. Gan fod amryw ddygwyddiadau nodedig yn cael eu cofnodi yn yr Ysgrythyr, a phob un o honynt o bwys cenedlaethol neu gyffredinol, y mae i amseriaeth gyssegredig amrywiol ddosranau. Cyfrifa yr Iuddewon o'r Cread (O. B.), o'r Diluw, o'r mynediad allan o'r Aifft, Num. 33, 38; 1 Bren. 6, 1; neu o adeiladaeth y deml, 2 Cron. 8, 1.

Dechreua y cyfnod cyntaf gyda'r Cread, a diwedda gyda'r Diluw. Cesglir ei barhad yn unig o'r Ysgrythyr, drwy gyfrif i fyny oedran y patriarchiaid ar enedigaeth y mab sydd â'i enw yn cael ei gofnodi (nid bob amser yr hynaf). Gwel Gen. 5. Cynnwysa y rhifedi yma yn ol y testun Hebreig cyffredin 1656 o flynyddau, yn ol y testun Samaritanaidd 1307, ac yn ol y Deg a Thriugain 2262, neu 2256 o flynyddau.

Yn y cyfieithiad Cymreig, fel yn y Seisnig, y dyddiadau a benderfynir gan y testun Hebreig sydd yn cael eu defnyddio yn gyffredin, a'r trefniad o honynt a fabwysiedir, yw yr un a gwblhäwyd gan yr Archesgob Usher, wedi cyfnewid ychydig arno gan yr Esgob Lloyd.

O ba le y cymmerwyd.	Cyfnod.	Usher	Deg a Thriugain.	Josephus gan Hales
Gen. 5.. ..	1. O'r cread i'r diluw	1,656	2,262	2,256
Gen. 11, 10–32; 12, 4	2. O'r diluw i alwad Abraham	427	1,207	1,062
Gen. 21, 5; 25, 26; 47, 9, 28.	3. O alwad Abraham i'r Mynediad o'r Aifft ..	430	425	445
1 Bren. 6, 1 .	4. O'r Mynediad, &c., i sylfaeniad teml Solomon	479	601	621
	5. O sylfaeniad y deml i adferiad Cyrus	476	476	493
	6. O adferiad yr Iuddewon i enedigaeth Crist ..	536	537	534
		4,004	5,508	5,411

Yr Iuddewon diweddar a gyfrifant oed y byd ar ddyfodiad Crsit yn 3760; 244 o flynyddau yn llai nag Usher.

356. Y gwahaniaeth rhwng y Deg a Thriugain a'r Hebraeg yn y gosodiadau amseryddol yma, a ganfyddir mewn rhan oddiwrth y tafleni canlynol; y mae dechreuad yr amrywiaethau yn hawdd i'w egluro.

Rhydd y Deg a Thriugain i chwech o'r patriarchiaid *cyn* y Diluw, gan mlynedd yn ychwanegol, ar enedigaeth ei fab. Ychwanegir hefyd chwech mlynedd i Lamech, er, yn nhestun diwygiedig Josephus, cymmerir ymaith y chwech mlynedd yma. Yn union *ar ol* y Diluw, ychwanega y Deg a Thriugain 100 mlynedd at oedran pob un o'r chwech patriarch cyntaf. Rhydd i fewn hefyd, megys y gwna Luc 3, 36, enw Cainan, gan ei wneyd yn 130 mlwydd oed pan aned Salah; a gwna Serug yn bedwar ugain mlwydd oed yn lle deg ar hugain. Yr holl wahaniaeth, gan hyny, yn yr ail gyfnod yw 780 mlynedd. Cyduna y testun Samaritanaidd â'r Deg a Thriugain yn y cyfnod yma, ond ei fod yn gadael Cainan allan. Cyn y Diluw, cyfrifa 1307 o flynyddau.

Cyfyd y gwahaniaeth yn nyddiad y trydydd cyfnod oddiwrth y ffaith fod yr amseriaeth seiliedig ar y Deg a Thriugain yn cyfrif galwad Abraham fel wedi ei roddi yn Haran, tra y mae Usher, a'r Cymraeg fel y Saesoneg, yn ei ystyried wedi ei roddi bum mlynedd cyn hyny yn Ur (Gen. 12, 1; gwel hefyd Act. 7, 2, 3).

I. O'r Greadigaeth i'r Diluw.

Prawf.		Hebreig.	Deg a Thriugain.	Sam.
		Blynyddau.	Blynyddau	Blynyddau
Gen. 5, 3	Bu Adda fyw	130 a chenedlodd	230	130
,, 6	Seth, bu fyw	105 ,,	205	105
,, 9	Enos, bu fyw	90 ,,	190	90
,, 12	Cainan I., bu fyw	70 ,,	170	70
,, 15	Mahalaleel, bu fyw	65 ,,	165	65
,, 18	Jared, bu fyw	162 ,,	162	62
,, 21	Enoch, bu fyw	65 ,,	165	65
,, 25	Methuselah, bu fyw..	187 ,,	187*	67
,, 28	Lamech, bu fyw	182 ,,	188†	53
Gen. 7, 11	Noah, ar amser y Diluw.. ..	600 mlynedd.	600	600
		1656	2262	1307

Josephus a wna y cyfanswm yn 2256; cyduna â'r Hebraeg yn Lamech, ac â'r Deg a Thriugain mewn manau ereill.

* Rhai copïau, 167. † Jos. 182.

II. a'r III. O'r Diluw i'r Mynediad o'r Aifft.

Prawf.		Hebreig.	Deg a Thriugain.	Sam.
		Blynyddau.	Blynyddau.	Blynyddau
Gen. 11, 10	Bu Sem fyw wedi y Diluw	2 a chenedlodd	2	2
,, 12	Arphaxad, bu fyw	35 ,,	135	135
LXX, a Luc 3, 36.	Cainan II., bu fyw	. .	130 a chenedlodd	..
Gen. 11, 14	Salah, bu fyw	30 a chenedlodd	130	130
,, 16	Heber, bu fyw	34 ,,	134	134
,, 18	Peleg, bu fyw	30 ,,	130	130
,, 20	Reu, bu fyw	32 ,,	132	132
,, 22	Serug, bu fyw	30 ,,	130	130
,, 24	Nahor, bu fyw	29 ,,	79	79
Gen. 11, 26, 32; 12, 4.	Terah, bu fyw	130 ,,	130	130
Gen. 12, 4	Abraham, bu fyw	75 a chafodd yr addewid.	75	75
,, 21, 5	,, bu fyw ar ol hyn..	25 a chenedlodd	20	20
,, 25, 26	Isaac, bu fyw	60 ,,	60	60
,, 47, 9	Jacob, oedran	130 yn myned i'r Aifft.	130	130
Ex. 12, 40, 41; LXX. Gal. 3, 17; gwel Num 26, 59.	Israeliaid yn yr Aifft ..	215 o flynyddau	215	215(?)
		857	1637	1502
Felly, yr oedd y mynediad o'r Aifft, o. B.		2513	3899	2749
neu c. c.		1491		

Achosir yr amrywiaethau yn y pedwerydd gyfnod, nid gan wahanol ddarlleniadau, yn gymmaint a chan awdurdod un rhan-ymadrodd (*passage*), ac ystyr rhai ereill. Ac nid yw y pwnc yn rhydd oddiwrth anhawsderau pwysig.

Usher, gan gymmeryd 1 Bren. 6, 1, fel ei arweinydd, a wna y pedwerydd cyfnod yn 480 mlynedd (479 mlynedd ac 16 dydd). Os yw darlleniad yr adnod yma yn gywir, y mae y pwnc wedi ei benderfynu. Y Deg a Thriugain, drwy ddarlleniadau gwahanol, a awgryma ansicrwydd y testun. Nid oes un dyddiad yn yr adnod gyfochrawg (*parallel*), 2 Cron. 3, 2. Josephus, Theophilus, ac ereill, ydynt wedi gadael cyfundraethan amseryddol a ymddangosant fel yn anwybodus o'r cyfrifiad yma, yr hwn a nodir gyntaf gan Eusebius, yn y 4edd ganrif, ac nid yw efe yn ei fabwysiadu. Ymddengys yr Apostol Paul, hefyd, fel yn rhoddi 450 o flynyddau o amser o ddosparthiad Canaan "hyd Samuel" (Act. 13, 20); ac os felly, rhaid fod yr holl gyfnod o leiaf yn 579 o flynyddau.[a] Tybia Usher, fodd bynag, fod y 450 o flynyddau yn cyfeirio at yr amser rhwng genedigaeth Isaac a'r mynediad i Ganaan, yr hwn syniad sydd i raddau yn annaturiol. Noda Josephus am yr holl gyfnod, 592 o flynyddau (Hyn. 8, 3, 1); 632 (10, 8, 5); a 612 (20, 10, 1); a'r Dr. Hales, ar ol diwygiadau amlwg, a dybia mai ei wir gyfrifiad yw 621 o flynyddau. Cyfrifa Pestavus 519 o flynyddau; Greswell 549 o flynyddau; Jackson 579 o flynyddau; Clinton a Cuningham 612 o flynyddau.

Wrth droi i'r hanes yn y Barnwyr, a chyfrif y cyfnodau a nodir i fyny, nid ydyw hyny yn egluro y gofyniadau a godir gan y gwahanol olygiadau yma. Nodir chwech gwasanaeth (*servitudes*), yn cyrhaedd dros 111 o flynyddau; a phedwar ar ddeg o Farnwyr (heb gyfrif Josua, Eli, na Samuel), yn cyrhaedd dros 279 o flynyddau; drwy ychwanegu at y rhifedi yma 46 a 83, fel yn y nodyn isod,[a] cawn gyfnod cyflawn o 519 o flynyddau. Ond y mae yma amryw o elfenau ansicr. A yw y gwasanaethau a'r Barnwyr yma i unrhyw raddau yn gydoesol? Tybia Usher eu bod; a Hales, drwy dybied fod Barnwyr 2, 18, yn gymhwysiadol atynt oll, a benderfyna nad ydynt. Hefyd, ni ddywedir dim wrthym am barhad llywodraeth Josua, na llywodraeth yr Henuriaid, y rhai a'i goroesasant, oddigerth yn achos Othniel, ei fab-yn-nghyfraith. Nid ydyw yn eglur ychwaith pa un ai llywodraethwr gwladol, neu farnwr gwladol yn unig, megys y desgrifir ef gan Usher, oedd Eli. Os yr olaf, nid ydyw i'w gyfrif yn amseryddol yn mhlith y Barnwyr. Ac yn olaf, nis gallwn gasglu oddiwrth yr Ysgrythyr pa faint o amser aeth heibio rhwng marwolaeth Samson a Saul. Eli a farnodd Israel am ddeugain mlynedd, ond gwna Usher ef yn gydoeswr â Samson, ac nid yn ganlyniedydd iddo. Cyfrifa efe un flynedd ar hugain rhwng marwolaeth Eli ac etholiad Saul; er mai braidd, os felly, y gallasai Samuel fod yn "hen ac yn benwyn" (1 Sam. 12, 2). Cyfrifa Eusebius ddeugain i Eli, a chynnwysa Samuel yn nheyrnasiad Saul, tra y mae Josephus yn cyfrif deuddeg a deugain i Eli a Samuel; rhydd Hales dri ugain a deuddeg iddynt. Tybia Clinton gyfrifiad Paul yn terfynu gyda dechreuad swyddogaeth Samuel fel barnwr, ac a rydd iddi barhad o ddeuddeg ar hugain o flynyddau. Ar y cyfan, gan hyny, os rhoddwn heibio y darlleniad yn 1 Bren. 6, 1, ac os ydym yn ansicr o wir feddwl Act. 13, 20, nid oes genym ddefnyddiau i symud ymaith yr anhawsderau y mae y pedwerydd cyfnod hwn yn eu cynnwys.

[a] Sef, Yn yr anialwch, ac hyd ddosparthiad y wlad..... 46 o flynyddau.
Barnwyr hyd Samuel ..... 450 ,,
Saul 40 : Dafydd 40 : 3ydd Sol. 3 ..... 83 ,,
579

Y mae dyddiadau y pummed a'r chweched cyfnod yn agos a bod yn gydunol, a chesglir hwynt, y cyntaf o'r Ysgrythyr, a'r ail braidd yn gyfangwbl o awduron cyffredin.

357. Nid ydyw yn hawdd penderfynu hawliau cymharol y cyfundraethau yma. Yr amseriaeth hŵyaf a ystyrir gan lawer fel yn fwyaf teilwng o ymddiried; ac, yn mhlith rhesymau ereill, y rhai canlynol:—

1. Ystyrir yr Hebraeg fel y fwyaf tebyg o gael ei chyfnewid, am fod y defnyddiad o honi am beth amser wedi'r cyfnod Cristionogol wedi ei gyfyngu yn fawr i'r Iuddewon (ac yn benaf i'r mwyaf dysgedig yn eu plith), y rhai oedd â rheswm ganddynt dros fyrhau yr amser rhwng y greadigaeth a genedigaeth Iesu, mewn trefn i geisio gosod allan nad oedd y tymmor penodedig gan eu hesbonwyr hwy i'r Messiah ymddangos wedi myned heibio etto; tra nas gellir tybied, ar y llaw arall, fod cyn gryfed rheswm yn bodoli ar ran y cyfieithwyr Iuddewig o'r Deg a Thriugain; nis gellid ychwaith gael *cyfleusdra* i gyfnewid y cyfieithiad Groeg, ar ol ei wneuthur, oblegid yr oedd iddo gylchrediad helaeth, ac yr oedd mewn arferiad cyhoeddus cysson yn mhlith Iuddewon a Christionogion.

2. Ystyrir y meithder amser a briodolir gan y Deg a Thriugain, y testun Samaritanaidd, a Josephus, i'r cyfnod rhwng y Diluw a genedigaeth Abraham (oddeutu 1100 o flynyddau) yn fwy cysson â ffeithiau hanesyddol nâ'r amser byraf a briodolir gan yr Hebraeg (oddeutu 350 o flynyddau), yr hyn a ymddengys yn annigonol i luosogiad a gwasgariad disgynyddion Noah dros wledydd ëang, yn cyrhaedd o India ac Assyria i Ethiopia, yr Aifft a Groeg; ac i sefydliad amherodraethau rheolaidd a galluog Babilon, Ninefeh, a'r Aifft; heblaw y penaduriaethau llai yn Nghanaan, y rhai a ymddangosant fod wedi ëu sefydlu gan ddisgynyddion Ham, ar ol gyru allan breswylwyr boreuach.

3. Ymddengys yr amseriaeth hŵyaf fel yn dwyn oedran pob Patriarch, ar enedigaeth ei fab hynaf, i fwy o gyfartalwch â byrhad graddol yr einioes ddynol.

Y rhai a lynant wrth y cyfrifiad byraf, a ddygant yn mlaen, yn benaf, yr ystyriaethau canlynol:—

1. Cywirdeb cyffredin y testun Hebreig gwreiddiol, yr hwn a gadwwyd gan yr Iuddewon gyda'r gofal mwyaf eiddigeddus.

2. Y manteision a gyflwynid gan yr amseriad byraf, er trosglwyddiad gwirionedd dadguddiedig, yn yr oesoedd boreuol, mewn modd diogel a chyflym; drwy wneyd Lamech yn gydoeswr âg Adda ac â Sem, tra yr oedd Sem yn gydoeswr âg Abraham.

3. Y cyd-darawiad (o leiaf o fewn ychydig flynyddoedd) rhwng y dyddiad a roddir i'r greadigaeth a chyfnod seryddol nodedig, pan oedd echel fwyaf (*major axis*) trogylch (*orbit*) y ddaear yn cydredeg â llinell y cyhydeddau (*equinoxes*).

4. Y mae yr wrthddadl a dynir oddiwrth fyrdra yr amser rhwng y Diluw a genedigaeth Abraham, wrth ei gymharu â lluosogrwydd ymddangosiadol poblogrwydd y ddaear, yn cael mwy nâ'i gyfarfod gan gynnydd y trigolion mewn tiriogaethau newyddion mewn amseroedd diweddar, a chan y ffaith fod y testun Hebreig yn rhoddi cynnifer o genedlaethau o leiaf a'r Deg a Thriugain; tra y mae, ar y dybiaeth fod dynion yn gyffredin yn priodi can foreued a'r oedran a briodolir yn y testun Hebreig, yn awgrymu poblogrwydd lluosocach.

Ar y cyfan, gan hyny, y mae yr amseriaeth hŵyaf heb ei sefydlu; ac, heb dderbyn holl gyfrifiadau Usher, gallwn gyda diogelwch ei hystyried mor debyg o fod yn gywir ag unrhyw gyfundraeth wrthwynebol.

358. Yn ychwanegol at yr holl anhawsderau a gynnyrchir gan y perygl o gamsynied wrth gopïo ffigurau a'r darlleniadau gwahanol mewn canlyniad, y mae anhawsderau ereill mewn amseriaeth, yn cyfodi oddiwrth wahanol ddulliau o gyfrif.

Gwelsom fod y prif gyfnodau yn dechreu ar wahanol fisoedd. Y mae gan wahanol genedloedd ddwy neu dair o ffyrdd i gyfrif dechreuad y flwyddyn ei hunan, gwladol ac eglwysig; gwladol, consulaidd (*consular*); ac uwchlaw y cwbl, nid yw y flwyddyn mewn amsereg yn cyduno â'r flwyddyn mewn amser gwirioneddol. Er enghraifft, cynnwysai y flwyddyn Juliaidd 365 o ddyddiau, a 6 awr, yr hyn oedd 11 o fynydau, a 9 eiliad yn ormod. Byddai y flwyddyn Juliaidd, gan hyny, 14¼ o ddyddiau yn mlaen o o. c. 1 i o. c. 1836. Cynghor Nice, fodd bynag, a dynodd allan 2¼ o ddyddiau; ac yn 1552, Gregory XIII. a ddiwygiodd y dydd-lyfr (*calender*), drwy orchymyn i'r 5ed o Hydref gael ei alw yn 15fed, a gwneuthur ymaith fel hyn â 10 niwrnod yn ychwaneg. Yn Lloegr, cyfrifwyd y 3ydd o Fedi, 1751, fel y 14eg, ac yn 1800, gadawwyd allan y 29ain o Chwefror. Yr ydym, gan hyny, wedi cywir ddiwygio gorgyfrifiad y cyfnod Juliaidd, fel o o. c. 30, i o. c. 1836, y mae genym, o fewn ychydig oriau, yn union 1806 o flynyddau.

Y mae cyfnodau ereill yn fwy cyfeiliornus nâ'r un Juliaidd, ac eglur yw y rhaid i'r diffyg o'r cyfnewidiadau angenrheidiol, yn mhob un, achosi llawer o gamsyniadau.

Neillduolion cyfrifiadol ereill a ychwanegant yn mhellach at ein anhawsderau.

(*a.*) Er enghraifft, llefara haneswyr Iuddewig am deyrnasiad brenin, yr hon a barhäodd drwy un flwyddyn gyfan, a rhanau o ddwy ereill, fel teyrnasiad o dair blynedd. Gall fod yn ddwy flynedd a deg mis, neu gall fod yn un flynedd a dau fis.

(*b.*) Gosodant i lawr weithiau y prif rifedi, gan adael allan yr amrif (*odd number*), neu y llairif; megys yn Barn. 20, 35; gwel ad. 46.

(*c.*) Gan fod meibion, yn yr hen amherodraethau, yn teyrnasu yn aml gyda'u tadau, amser teyrnasiad y ddau a wneir weithiau i gynnwys amser teyrnasiad y llall, ac weithiau i beidio ei gynnwys.

Fel hyn y dywedir i Jotham deyrnasu un ar bumtheg o flynyddau, 2 Bren. 15, 33; ac etto, yn ad. 30, sonir am ei ugeinfed flwyddyn. Ymddengys iddo deyrnasu am bedair blynedd gydag Uzziah, yr hwn oedd wahanglwyfus. Felly hefyd 2 Bren. 13, 1, 10; 2 Bren. 24, 8, wedi eu cymharu âg 2 Cron. 36, 9.

Eglurir Daniel 1, 1; Jer. 25, 1, gan egwyddor gyffelyb. Yr oedd Nebuchodonosor yn frenin gyda'i dad pan warchaewyd ar Jerusalem.

Yr ydys, gyda llawer iawn o fantais, wedi cymhwyso y dull neillduol hwn o gyfrif, er egluro taflenau amseryddol yr Aifft, a gwledydd dwyreiniol ereill.

(*d.*) Nid anfynych y dygwydda fod dulliau gwahanol o gyfrif yn cael eu mabwysiadu gyda golwg ar yr un amgylchiad.

Gwel Gen. 15, 13, a Gal. 3, 17; Moses a lefara am 400 mlynedd o enedigaeth Isaac i'r mynediad allan o'r Aifft; a Phaul am 430 o flynyddau o alwad Abraham hyd roddiad y gyfraith, yr hyn a gymmerodd le yn mhen tri mis ar ol y mynediad allan o'r Aifft. Gwel Exod. 12, 40.

Y mae yr un nodiad yn gymhwysiadol at rifedi ereill. Dywedir yn Gen. 46, 26, 27, mai yr holl eneidiau a aeth gyda Jacob i'r Aifft (heb gynnwys gwragedd ei feibion), oedd triugain a chwech, neu (ac ychwanegu Jacob, Joseph, a'i ddau fab), tri ugain a deg. Yn Act. 7, 14, dywedir i Joseph anfon a chyrchu ei dad Jacob, "a'i holl genedl, pumtheg enaid a thri ugain." Cynnwysa y nifer olaf *naw* gwraig meibion Jacob (oblegid yr oedd gwragedd Judah a Simeon wedi marw, ac yr oedd eiddo Joseph gydag ef yn yr Aifft). Wrth ychwanegu y naw yma at y triugain a chwech, gwnant y pumtheg a thriugain a nodir yn yr Actau. Ystyrid yr adnodau hyn, am hir amser, fel yn cynnwys gwrthddywediad.

Wrth gymharu Ezra 2, a Neh. 7, cawn i 42,360 o bersonau ddychwelyd o Babilon, o ba rai y mae y rhifedi o lwythau Benjamin, a Judah, ac o'r offeiriaid, yn cael eu rhoddi. Y mae y rhifedi yn Nehemiah yn cyrhaedd 31,089; yn Ezra, 29,818. Wrth ychwanegu at rifedi Nehemiah 494 o enwau, a nodir yn unig yn Ezra, ac at Ezra 1,765 o enwau a nodir yn unig yn Nehemiah, cawn mai y canlyniad yw eu bod yn cyduno, 31,583. Y mae y gwahaniaeth, 10,777, yn cynnrychioli rhifedi y personau a berthynent i lwythau ereill. Buwyd am hir amser yn ystyried y gwrthddywediad ymddangosiadol yma fel gwrthddadl yn erbyn yr hanes.

O berthynas i'r gwrthddywediadau ymddangosiadol yma yn gyffredin, gweddus yw i ni ddrwgdybio ein hanwybodaeth ein hunain yn hytrach nâ chywirdeb yr ysgrifenydd. Nis gall un adnod fod yn fwy gwrthddywediadol nag Ezeciel 12, 13; ac etto cyflawnwyd hi yn llythyrenol: ni welodd Sedeciah Babilon, er iddo farw yno.

Y mae dwy reol o bwys mawr wrth ffurfio cyfundraeth amseryddol.

1. Penderfyner cyfnodau pwysig, a chyfrifer yn mlaen neu i fyny oddiwrthynt. Cyfnod genedigaeth ein Harglwydd, yn ddiau, yw canolbwnc pob amseriaeth diweddar, a llawer o'r henafol. Blwyddyn y cynghor yn Jerusalem, neu farwolaeth Herod, yw yr agoriad i amseriaeth yr Actau; megys y mae dyddiad argyhoeddiad Paul yn agoriad i'w Epistolau. Y dychweliad o'r caethiwed, dinystriad Jerusalem gan Nebuchodonozor, ac adeiladaeth y deml gyntaf, ydynt oll (a chyfrif i fyny o o. c. 1) yn gyfnodau perthynol i hanesiaeth yr Hen Destament. Eglura Clinton y rheol yma yn dda mewn amrywiol ranau o'i Fasti.

2. Lle bynag y byddo yn bosibl, profer penderfyniadau amseryddol wrth ffeithiau astronomyddol.

Dechreuai y Pasg Iuddewig, er enghraifft, ar y dydd o flaen yr hwn y byddai y lloer yn llawn, rhwng y 18fed o Fawrth a'r 16eg o Ebrill. Gan nas gall diffyg fod ar y lleuad ond pan fyddo yn llawn, dydd y Pasg ar unrhyw flwyddyn fydd y dydd blaenorol i unrhyw ddiffyg a gymmer le rhwng y dyddiau hyn. Dydd y Pasc oedd y 14eg o Nisan; ac wrth gyfrif yn ol, cawn y dydd cyntaf o bob blwyddyn. Yr oedd y Pentecost yn mhen hanner cant o ddyddiau cyflawn ar ol y 14eg o Nisan; ac yn mhen 177 o ddyddiau ar ol llawn lloer Nisan—chwech o newydd loerau, yr oedd gwyl y Pebyll. Yr oedd Dydd Mawr y Cymmod cyn hyn bump o ddyddiau, sef y 10fed o Tisri.

Cymhwysir y rheol hon gan Mr. Greswell i gadarnhau ei amseriaeth. Gan dybied i groeshoeliad ein Harglwydd gymmeryd lle ar y 5ed o Ebrill, o. c. 30, cyfrifa fod yn rhaid i ddiffyg a nodir gan Dion gymmeryd lle Awst 1af, o. c. 45, ac un arall a nodir gan Pliny Ebrill 30ain o. c. 59.[a]

[a] Nid yw ymresymiadau Mr. Greswell ar y ffeithiau yma yn gyflawn. Metha ddangos y dolenau a gyssylltant ddyddiadau y diffygion â dyddiad croeshoeliad ein Harglwydd.

Taflenau Pingré, seiliedig ar gyfrifiadau seryddol, a ddangosant i ddiffygion gymmeryd lle, mewn gwirionedd, ar y dyddiau yma.

Gellir cael diffygion cofnodedig yn nhaflenau Pingré, ac yn amseriaeth Playfair. Gwel hefyd Amseriaeth Hales, i., tud. 74.

Hefyd, y mae taflenau wedi cael eu ffurfio er diwygio y camsyniadau a gymmerasant le mewn canlyniad i'r gwahaniaeth rhwng y flwyddyn amseryddol ac astronomyddol.

359. v. Y mae llawer o'r cyfeiriadau a'r mynegiadau yn yr Ysgrythyr na ellir eu hegluro heb wybodaeth o hanesiaeth naturiol.

Yn Salm 92, 12, er enghraifft, dywedir, "Y cyfiawn a flodeua fel palmwydden;" ac eglurir cymmeriad y cyfiawn, mewn modd ardderchog, gan nodweddau y pren yma. Nid yw y balmwydden yn tyfu yn nyfnderoedd y goedwig, nac yn y marldir ffrwythlawn, ond yn yr anialwch. Ymddengys ei gwyrddlesni yn aml fel yn dyfod allan o'r llwch crasboeth. "Yn yr ystyr yma (medd Laborde) y mae fel goleudy cariadus yn arwain y teithiwr i'r man y mae dwfr i'w gael." Y mae y pren yn nodedig am ei *brydferthwch;* ei dyfiad syth ac uchel, ei nenfwd (*canopy*) deiliog; ei bluf (*plumes*) chwyfiawl, arwyddlun moliant yn mhob oes. Y mae hyd y nod ei ddail yn arwydd o lawenydd a moliant. Nid ydyw byth yn gwywo, ac nid yw y llwch un amser yn aros arno. O herwydd hyny plethid ef yn y bwthynau yn ngwyl y Pebyll (Lef. 23, 40), chwyfid ef yn uchel gan y lluaws a ddaeth gyda'r Messiah i Jerusalem (Ioan 12, 13), a gosodir ef allan fel yn nwylaw y gwaredigion yn y nefoedd (Dad. 7, 9). Y mae y pren hefyd yn tra ragori mewn *defnyddioldeb.* Dywed Gibbon fod brodorion Syria yn llefaru am 360 o ddefnyddiau at ba rai y cymhwysir ef. Ei gysgod a adnewydda y teithiwr. Ei ffrwyth a adfera ei nerth. Cyfeiria ef at ddwfr, pan ballo ei enaid gan sychedd. Maluria ei geryg i'w gamelod. Gwneir glythau (*couches*) o'i ddail, gwrychau a muriau o'i gangenau, a rhaffau neu daclau (*riggings*) o'i linion (*fibres*). Ei ffrwythau goreu a ddygir ganddo pan yn hen; cesglir y ffrwythau mwyaf rhagorol yn aml pan fyddo y pren wedi cyrhaedd can mlwydd oed. Danfona hefyd, oddiwrth yr un gwreiddyn, rifedi lluosog o blanigion, y rhai a dyfant mewn amser nes ffurfio coedwig (Barn. 4, 5). Y fath arwyddlun prydferth ydyw o'r cyfiawn mewn byd anial ac euog! Gall fod yn addysgiadol ychwanegu, nad yw y pren yma, yr hwn unwaith oedd yn arwyddlun o Palestina, i'w ganfod yn awr ond yn anaml yn y wlad hono.

Pren ardderchog arall a geir yn Mhalestina, a'r hwn hefyd sydd yn arwyddlun o'r Cristion, yw y *gedrwydden.* "Y cyfiawn a gynnydda fel cedrwydden." Bwria y pren yma ei wreiddiau i'r graig holltiedig. Y mae, fel y balmwydden, yn hoffi y dwfr; ac os bydd i'r ffynnonau gerllaw pa rai y tyf sychu, gwywa, a pheidia ei dyfiant. Fel y saetha ei wreiddiau yn mhell i'r mynydd, felly y bwria ei gangenau ar led. Y mae byth yn wyrdd fel y balmwydden; ac er ei fod yn gynnefin â thywydd gauafaidd, etto gorchuddir ef â dail bob amser. Ei risgl a'i ddail ydynt yn dra pheraroglaidd, ac y mae "arogl Libanus" wedi dyfod yn ddiareb am bereiddddra. Y mae y gedrwydden yn ddifeth (*sound*) hyd y nod i'r galon. Addurna ael y mynydd, ac wedi hyny gwna wasanaeth yn y deml. Ar ol byw am fil o flynyddau, y mae yn cadw ei holl brydferthwch, ac wedi hyny yn rhoddi ardderchogrwydd i nenfwd (*ceiling*) a gwarddrysau (*lintels*) tŷ yr Arglwydd. Y fath yw cymmeriad a dylanwad Cristion penderfynol a chysson.

Yn Deut. 32, 11, dywedir i Dduw ddysgu Israel megys y dysga yr

eryr ei chywion. Pan fyddo y rhai bychain yn ddigon hen i ehedeg, hi a ysgydwa ei nyth i fyny, gwasgara ei rhanau, a gorfoda yr adar ieuainc i ehedeg i ryw glogwyn cyfagos; yna, hi a ymchwyfia (*flutter*) drostynt, gan eu dysgu i ysgwyd eu hadenydd, ac i gynnal a rheoli eu hunain drwy eu symudiadau. Pan gaiff eu bod yn flinedig neu yn anfoddlawn, lleda ei hadenydd, cymmer ei chywion ar ei chefn, ac ymgyfyd â hwynt i'r uchelder. Wedi hyny, mewn trefn i arfer eu nerth, ysgydwa hwynt ymaith; a phan ganfydda fod eu hadenydd yn methu, neu fod gelyn gerllaw, ymsaetha odditanynt gyda chyfrwystra rhyfeddol, ac felly adfera eu nerth ar unwaith, neu gesyd ei chorff ei hunan rhwng ei rhai bychain a'r perygl fyddo yn eu bwgwth. Yr eryr yw yr unig aderyn sydd wedi ei gynnysgaethu â'r reddf yma, ac y mae yr oll o'i thriniaeth yn awgrymu gwersi addysgiadol o berthynas i ymddygiadau Duw. Ceir yn hanes yr hen Israeliaid, ac yn hanes yr eglwys, ei fod ef drwy gystudd yn diddyfnu ei bobl oddiwrth eu gorphwysfan—yn yr Aifft, yn y byd, ac yn eu cyfiawnder eu hunain: efe a gyfyd i fyny eu nyth. Ymchwyfia drostynt, drwy siamplau dynion da, drwy arddangosiad o'i berffeithderau, a thrwy fywyd a chymmeriad ei Fab; tra mae ei addewid a'i Ysbryd yn cynnal eu calonau, ac yn gwneuthur eu dedwyddwch a'u diogelwch mor sicr ac annghyfnewidiol a'i eiddo ei hunan.

Mewn gwledydd mynyddig, fel Palestina, dewisid yr *asyn*, neu y mul, yn aml o flaen hyd y nod y march, i ddybenion cartrefol. Yn ganlynol, nodir asynod yn mysg cyfoeth Abraham a Job, Gen. 12, 16; Job 42, 12. Mephiboseth, ŵyr Saul, a farchogai ar asyn; felly hefyd y gwnelai Ahitophel, prif-weinidog Dafydd; ac mor ddiweddar a theyrnasiad Jehoram, mab Ahab, gofynid gwasanaeth yr anifail yma gan y cyfoethogion. Y Sunamees, er enghraifft, yr hon oedd berson o radd uchel, a gyfrwyodd ei hasyn, ac a farchogodd i Garmel, preswylfod Elisëus, 2 Bren. 4, 8, 24. Mewn amser diweddarach, fodd bynag, hyd y nod o deyrnasiad Solomon, daeth camrau y march i gael eu hystyried yn fwy urddasol a mawreddog. Cyflwynwyd gre (*stud*) o'r meirch mwyaf ysplenydd—meirch o Arabia—gan Solomon ei hunan; ac wedi dychweliad yr Iuddewon o Babilon, eu gwŷr mawr, gan mwyaf, a farchogent ar feirch neu ar fulod. Gan hyny, daeth ymddangos yn gyhoeddus ar asyn yn nôd o dlodi ac iselder; a hon oedd yr ystyriaeth a flynai yn gyffredin yn amser ein Harglwydd. (Cymharer Sech. 9, 9, â Math. 21, 45.)

Yr Hebreaid a ddefnyddient yr ych a'r asyn i aredig y tir, Esay 30, 24; 32, 20; ond gwaherddid eu hieuo wrth yr un aradr, mewn rhan, o herwydd annghyfartalwch eu camrau, ac mewn rhan, am nad oedd yr anifeiliaid yma byth yn cymdeithasu yn ddedwydd â'u gilydd. Feallai fod y gwaharddiad yma wedi ei fwriadu i awgrymu anmhriodoldeb cyfathrachiad rhwng Cristionogion ac eilun-addolwyr, mewn bywyd cymdeithasol a chrefyddol; ond ar y cyntaf, bwriadwyd ef, a hyny yn benaf, er amddiffyn yr anifeiliaid rhag camdriniaeth.

Cymharir Issachar i asyn, ac awgryma y gymhariaeth fywiogrwydd a nerth corfforol. Dywedir hefyd y byddai iddo ogwyddo ei ysgwydd i ddwyn, ac i ddewis iau caethiwed o flaen caulyniadau ansicr rhyfel, ac esmwythdra annghlodus o flaen rhyddid cyfiawn, Gen. 49, 14; a chyfiawnwyd y brophwydoliaeth yma yn hanes y llwyth uchod, yr hwn a ymostyngodd yn olynol i'r Phoeniciaid ar y naill law, ac i'r Canaaneaid ar y llall.

Y mae cynffon y ddafad Syriaidd yn llawer mwy nag eiddo defaid ereill

Mewn dafad yn pwyso triugain pwys a deg, y gynffon, yn aml, a bwysa bumtheg; ac ystyrir hi y rhan fwyaf ddanteithiol o'r anifail. Oddiwrth hyn y gorchymynir, yn ngwasanaeth crefyddol yr Hebreaid, i'r offeiriad gymmeryd yr hwrdd *a'i gynffon* (neu y gloren, fel y gelwir hi yn ein cyfieithiad ni, Lef. 3, 9), a'u cyflwyno yn aberth i'r Jehofah. Yr oedd y ddau i'w gosod ar yr allor, i arddangos cyfanrwydd a gwerth yr aberth... Y mae y ddafad, yn ei chyflwr dof, yn greadur gwanaidd a diamddiffyn. Ymddibyna, gan hyny, ar y bugail am ddiffyniad a chynnaliaeth. Cynnwysa yr Ysgrythyr lawer o gyfeiriadau effeithiol at duedd yr anifeiliaid yma i grwydro o'r gorlan, ac (mewn gwlad fel Judea) i roddi eu hunain i fyny i ddinystr, Salm 119, 176; Esay 53, 6..... Y bugail Dwyreiniol a eilw ei ddefaid, a hwy a adnabyddant ei lais, ac a'i canlynant ef. Ei ofal ef am danynt, a'u diogelwch hwythau dan ei ofal, a osodir allan mewn modd ardderchog yn Ioan 10, 11. Amlwg yw, fod gwybodaeth o'u harferion yn anhebgorol er iawn werthfawrogi delwadau (*imagery*) yr Ysgrythyr.

Y mae y *llew* yn nodedig am nerth a gwroldeb. Os pellha oddiwrth elyn, gwna hyny â'i wyneb tuag ato. Ar ol iddo ladd ei ysglyfaeth, efe a'i rhwyga yn ddarnau, ac a'i llarpia gyda'r awydd mwyaf, Salm 17, 12; Hos. 13, 8. Yn ol hen naturiaethwyr, y mae y llew ieuanc yn byw drwy hela, ac anfynych y gadawa yr anialwch; ond wedi iddo fyned yn hen, ymwela â lleoedd mwy cyfaneddol, a daw yn fwy peryglus i ddyn. Eglura y ffaith yma iaith Duw drwy Hosea, "Myfi a fyddaf i Ephraim (neu y deg llwyth) fel llew (hen)," a'r mwyaf, gan hyny, i'w arswydo; "ac i dŷ Judah fel cenaw llew," pen. 5, 14. Yn unol â'r brophwydoliaeth yma, gyrwyd Ephraim i dir pellenig, lle y dyoddefodd y llwyth hwn gaethiwed hirfaith, tra y cadwodd Judah ei le am 133 o flynyddau yn mhellach; a dygwyd ef wedi hyny i gaethiwed am dymmor byrach, sef triugain a deg o flynyddau. Un o guddfanau y bwystfil yma oedd ar y tir isel, yn nghymmydogaeth yr Iorddonen, yr hon bob gwanwyn, fel y Nilus, a orlifa ei cheulanau. Ar y tymmor yma, gan hyny, gosodid yr holl lochesau dan ddwfr, a'r holl fwystfilod a yrid i'r bryniau, lle, yn fynych, y cyflawnent ddifrodiadau mawrion, Jer. 49, 19. Felly, daeth y geiriau, "fel llew oddiwrth ymchwydd yr Iorddonen," yn ddiareb yn Judea, yr hon y mae darganfyddiad diweddar mewn cymhariaeth wedi ein galluogi i'w deall. Y mae nerth yr efengyl yn taraw dychryn i galonau yr anedifeiriol, ac yn cyfranu cysur i'r eglwys, yn cael ei gymharu i ruad y llew, Joel 3, 16. Cyfeirir weithiau at duedd ysglyfaethgar y llew, a gwneir hyny bob amser mewn ystyr ddrygionus. Yn 1 Pedr 5, 8, y mae Satan yn cael ei gymharu i lew, a gelynion yr eglwys yn gyffredin a osodir allan dan yr un enw, Esay 5, 29.

Benthycir llawer iawn o ymadroddion a ffigurau ereill oddiwrth hanesiaeth naturiol. "Olew" y grawn olewydd a leddfa boen, ac a gynnydda iechyd, drwy gauad chwysdyllau y corff yn erbyn anweddau (*exhalations*) peryglus. Ystyrid ef yn nodedig o effeithiol i wrthweithio effeithiau gwenwyn, ac oddiwrth hyn defnyddir ef yn aml i osod allan nerth yr efengyl. Yr oedd ei deithi meddygol (gwel Iago 5,) yn ei wneyd o werth masgnachol mawr; ac oddiwrth hyn y dywedir, "Y neb a hoffo olew, ni bydd gyfoethog."

Y "myrr" a'r "balm" (neu balsam) dwyreiniol ydynt fathau o sudd (*gums*) tra pheraroglaidd, y rhai a ddylifant oddiwrth goed, naill ai yn naturiol neu ynte drwy dòri y rhisgl, ac yr oeddynt mewn bri mawr fel

nwyddau masgnachol. Ystyrid balm Gilead, Jer. 8, 22, yn feddyglyn gwerthfawr iawn, ac yn aml defnyddir yr ymadrodd yn ffigurol i ddynodi unrhyw foddion gwellhad neu adferiad mawr.

Arferion y morgrugyn, y locust, y camel, y golomen, ydynt oll yn ddyddorawl; ond y maent yn gyffredin yn ddigon adnabyddus, neu ynte yn cael cyfeirio atynt gydag eglurder digonol yn yr Ysgrythyr ei hunan.

360. Er pan gwblhawyd y Beibl Cymreig, y mae ein gwybodaeth am lysieueg ddwyreiniol, yn enwedig, wedi cynnyddu yn fawr; a chan fod grym delweddau yr Ysgrythyr yn ymddibynu yn aml ar wybodaeth o'r planigion a nodir, rhoddwn daflen o'r holl blanigion y cyfeirir atynt yn y Beibl, yn nghyd a'r cyfryw ddesgrifiad o honynt ac a alluoga y darllenydd i'w hadnabod. Mewn rhai enghreifftiau, y mae y canlyniadau yn ddychymmygol yn hytrach nag yn ddiammheuol gywir; ond nid yw y rhai hyn ond ychydig, ac hyd y nod yn y rhai yma, nid oes un ammheuaeth gyda golwg ar gywirdeb cyffredin yr egluriadau a gynnygir. Gwnaed y daflen i fyny oddiwrth amryw ysgrifeniadau, ac yn benaf oddiwrth erthygl llafurus ar y pwnc a ddarparwyd gan y Dr. Royle, i Wyddoniadur Beiblaidd y Dr. Kitto.

Almon sydd enw dau bren a nodir yn yr Ysgrythyr; un o ba rai, Luz, ac a gyfieithir "collen" yn Gen. 30, 37, yw yr almon wyllt (Boch. Jer. Rosenm.), a'r llall, Shaked, yw yr almon gwrteithiedig. Y blodau ydynt gyffelyb i eiddo yr afallen, o liw rhosynaidd, ar y cyntaf, ac wedi hyny yn wynion. Oddiwrth hyn defnyddir ef yn arwyddlun o henaint, Preg. 12, 5; ac o unrhyw gyfryngiad disymmwth, oddiwrth gynnarwch ei flodeuad, Jer. 1, 11; Num. 17, 8; Gen. 43, 11.

Almugim, neu Algumim, sydd anadnabyddus. Y mae Sandal-wydd, yr hwn sydd naill ai yn felyn neu wyn, ac yn beraroglaidd, yn cyfateb i'r desgrifiad a roddir yn 1 Bren. 10, 11, 12. Fe allai mai camsyniad o eiddo yr adysgrifwyr yw yr enw a roddir yn 2 Cron. 2, 8; gwel 1 Bren. 10, 11, ac 2 Cron. 9, 10, 11.

Aloes, yn briodol aloë-wydd (*lign-aloes*), a ofyna ei wahaniaethu yn ofalus oddiwrth yr aloë, yr hwn nid yw yn rhoddi allan arogl hyfryd; gwel Salm 45, 8; Num. 24, 6. Y mae y pren hwn o hyd yn adnabyddus yn India, dan yr enw Aghil, ac yn Ewrop fel yr Eryr-bren (*Aquilaria*). Y pren sydd yn dra pheraroglaidd, a dywedir mewn traddodiad Dwyreiniol ei fod yn un o goed Paradwys. Y mae yn bren prisfawr iawn, a defnyddid ef gynt i berarogli y llieiniau yn mha rai y rhwymid cyrff meirw, Ioan 19, 40. Heb. Ahalim.

Afal yr Ysgrythyr, mae yn debyg, yw y cynafal (*quince*), yr hwn sydd lawer mwy aroglbêr a melys yn y Dwyrain nag yn Ewrop (Cels. Ray). Gall mai yr eurafal (*citron*) ydyw, yr hwn sydd yn ffrwyth moethus, eurliw, Diar. 25, 11; Joel 1, 12; Can. 2, 3, 5; 7, 8. Heb. Tappuach.

Anis, neu Dill, a ddygwydda yn unig yn Math. 23 (*anêthon*). Llysieuyn o werth bychan ydyw. Ei hadau ydynt beraroglaidd a gwyntyrol, ac yn rhoddi olew a ddefnyddir yn helaeth mewn gwynogrwydd (*flatulency*).

Bresych Gwylltion, 2 Bren. 4, 39. Y cucumer gwyllt, dail yr hwn ydynt debyg i eiddo y winwydden, ond o natur wenwynig, a blas chwerw. Heb. Kikayon a Pakuoth.

Brwynen, Esay 9, 14; 58, 5. Er y dylai y gair gael ei droi yn gorsen, neu frwynen, etto, cyfieithir ef yn "fach" yn Job 41, 2. *Gome*, yr hwn

a gyfieithir "llafrwyn" yn Exod. 2, 3; a "brwyn" yn Esay 18, 2; 35, 7, yw y *papyrfrwyn* Aifftaidd, yr hwn a berthyna i lwyth yr hesg (*sedges*), ac nid i'r brwyn. Tyfa i wyth neu ddeg troedfedd o uchder. Y cyff sydd drionglog, heb ddim dail, ond addurnir ef â phen mawr, casnachog, llwynawl. Defnyddir ef i wnenthur badau, hoelion, matresi, a rhaffau, ac o'r cyff y tynid papyr enwog yr Aifft. Ceir y planigyn yma yn holl ranau y Nilus, yn agos i Babilon, ac yn India. Heb. Agmon.

Bulwg, Job 31, 40, fe allai mai hwn yw y planigyn a adwaenir wrth yr enw efrau (*cockle*). Ond mwy tebygol yw mai math o fochlys (*Solonum Nigrum*), neu flaidd-lys (*aconite*) ydyw. Cyfieithir y lluosog o'r enw yma yn rawn gwylltion, Esay 5, 2. Y mochlys y cyfeiriwyd atynt a dyfant yn gyffredin yn y Dwyrain; yr enw Arabaidd sydd gyffelyb i'r un Hebraeg. Y mae y ffrwyth yn gysgbar (*narcotic*) a gwenwynig. Heb. Beushim.

Calamus, neu gorsen felus (*sweet cane*), Exod. 30, 23; Can. 4, 14; Ezec. 27, 19; Esay 43, 24; Jer. 6, 20. Ceir y planigion yma yn Asia a'r Aifft, er y dywedir yn Jeremiah fod y pereiddiaf yn dyfod o wlad bell. Meddylia Dr. Royle, mai rhywogaeth a gafwyd yn yr Himalayas (a'r hon a eilw efe, *Andropogon Calamus Aromaticus*) sydd yn ateb oreu i ddesgrifiad yr Ysgrythyr. Yr oedd yn un o ddefnyddiau olew eneinniad y cyssegr. Heb. Kana.

Camphir, Alhenna (Gr. *Kupros*) y Dwyrain ydyw, fel y mae yn debygol. Y mae yn frysgen (*shrub*) dra pheraidd, ac yn dwyn blodau tebyg i eiddo y pibwydd (*lilac*). Gwneir powdr o'r dail, a defnyddir ef yn Syria ac yn yr Aifft i liwio yr ewinedd a'r aeliau, Can. 1, 14; 4, 13. Heb. Kopher.

Cassia, Exod. 30, 24; Ezec. 27, 19, sydd fath o cinnamon canolig. Rhydd y rhisgl olew hanfodol, yr hwn, er ei fod yn cael ei roddi i raddau helaethach, etto, sydd yn llai aroglus, ac o flas surach nâ'r cinnamon. Heb. Kida.

Cedrwydden sydd enw, fe allai, ar lwyth y pinwydd, yn enwedig y godidocaf o honynt, sef cedrwydd Libanus. Fe allai fod y gair Hebreig yn cael ei ddefnyddio i'r un helaethrwydd a'r gair Cymreig. Oddiwrth hyn y mae genym yr un goch, neu gedrwydden pwyntel (*pencil*), yr hon oedd ferwydden (*Juniper*), ac, yn wir, mae yn debygol mai merwyddên oedd cedrwydden Pum Llyfr Moses (Lef. 14, 4, 6), yr hwn bren oedd gyffredin yn anialwch Sinai. Heb. Erez.

Cenhin (*Chatsir*, *Prasòn*), Num. 11, 5. Y gair a gyfieithir felly a dröir yn "laswellt" yn 1 Bren. 18, 5; Job 8, 12; ac yn "wair" yn Diar. 27, 25. Ei briodol ystyr yw unrhyw beth gwyrdd. Ond y rhan fwyaf o'r cyfieithiadau a'u tröant yn "genhin" yn yr adnodau uchod; ac yn yr Aifft yr oedd y planigyn yn adnabyddus (ac, yn wir, yn cael ei addoli) er yn fore iawn.

Cibau (*Keratia*), Luc 15, 16; fe allai mai codau y pren Carob a feddylir, yr hwn a elwir hefyd pren St. Ioan. Y mae o faintioli canolig, a'i ffrwyth yn gynnwysedig o godau gwastad, chwech modfedd o hŷd, ac un o led. Yr hadau ydynt yn gelyd, chwerwon, a diddefnydd; ond defnyddir y codau i borthi moch. Y mae y pren yn gyffredin yn yr Ys-

paen, a'i godau oedd prif fwyd ceffylau y marchogion Prydeinig yno yn 1811 ac 1812.

Cicaion, Jonah, 4, 6—10, addefir yn gyffredin yn bresenol, mai y Palma Christi, neu blanigyn yr olew gwarchlys (*castor oil*) ydoedd. Tyfa yn fuan iawn, gyda dail palmaidd llydain, ac y mae, yn enwedig pan yn ieuanc, yn dra chysgodfawr. O hadau y pren y tynir yr olew.

Cneuen sydd gyfieithiad o ddau air Hebreig.

Botnim, Gen. 43, 11, math o bren cnau peraroglaidd (*pistachio-nut tree*), yr hwn sydd yn dra adnabyddus yn Syria ac India, ond nid yn yr Aifft; ac *Egoz*, pren cnau Ffrengig (*walnut*), yr hwn a elwir "*gouz*" yn y Persiaeg a'r Arabaeg. Can. 2.

Coriander sydd blanigyn ag iddo flodeuyn yn cael ei gynnal gan amryw belydr yn dyfod allan o'r un canolbwynt (*umbelliferous*), yn dwyn ffrwyth (a elwir hâd) o ffurf gronellog (*globular*), o liw llwydaidd, ac oddeutu maintioli pupren (*pepper-corn*). Y mae yn gyffredin yn Neheubarth Ewrop, a gwrteithir ef yn Essex. Defnyddir y ffrwyth gan ddistyllwyr (*distillers*), &c.; ac y mae yn dda iawn i'r cylla, Exod. 16, 31; Num. 11, 7. Heb. Gad.

Corsen y Dwyrain sydd blanigyn tàl, glaswelltog, yn gynnwysedig o gyff hir gwag-gymmalog (*hollow-joint*), gyda dail llym-dorawl (*sharp-cutting*). Tyfa y planigyn ar lànau afonydd, ac mewn lleoedd llaith, 1 Bren. 14, 15; Job 40, 21; Esay 19, 6, 7; 36, 6: Ez. 40, 5; Math. 11, 7; a defnyddid ef i fesur, pysgota, cerdded, &c.

Math o gorsen fechan a ddefnyddid i ysgrifenu, 3 Ioan 13. Y mae y gorsen yn gyffredin iawn yn y morfeydd rhwng y Tigris a'r Euphrates. Heb. Kane.

Cucumer, Num. 11, 5: Esay 1, 8: a gyfieithir yn briodol. Gelwir y planigyn yn Kissa gan yr Arabiaid, a gwrteithir ef yn helaeth yn y Dwyrain. Heb. Kishuim.

Chwant; meddylir yn gyffredin mai y caprwydd (*caper-plant*) a olygir wrth y gair a gyfieithir fel hyn yn Preg. 12, 5 (gwel 2 Sam. 19, 34, 35), yr hwn a rydd fath o heli sur, cynhyrfus i'r cylla (*stomach*). I'r dyben yma, defnyddir y blodeuyn, ac ar rai achlysuron y cibyn (*pod*) anaddfed, a'r grawn brydiau ereill. Heb. Ebiyona.

Danadl, Diar. 24, 31: Job 30, 7: Seph. 2, 9, *Chàrul*. Meddylia Royle mai mwstard gwyllt ydyw. Y mae yn ddinystriol i lysiau ereill. Ceir hwynt yn gyffredin yn y Dwyrain, ac adnabyddir hwynt wrth yr enw Chardul. Y ddanadlen, mae yn debygol, yw y planigyn a nodir yn Esay 34, 13: Hos. 9, 6: Diar. 24, 31 (*Kimmosh*), lle y mae yn cael ei gyfieithu felly.

Derwen, Gen. 35, 8; Esay 2, 13: 6, 13: 44, 14: Ezec. 27, 6: Hos. 4, 13; Amos 2, 9: Sec. 11, 2. Mewn manau ereill, lle ceir y gair derwen, pren *turpentine* ddylasai fod (gwel gwagl). Nid yw y dderwen yn gyffredin yn Mhalestina, ac ni cheir y dderwen Seisonig (*Q. robur*) yno. Derw Basan ydynt o hyd o faintioli mawr; ond gwneir hwynt i fyny yn benaf naill ai o'r dderwen fyth-werdd (*Q. ilex*), y dderwen bigog (*prickly cupped oak—Q. Valonia*), neu y brinwydden (*Kermes oak*—gwel Derwen Ysgarlad). Heb. Allon.

Derwen Ysgarlad Palestina, nid ydyw yn cael ei nodi yn yr Ysgrythyr,

ond y trychfilyn sydd yn byw arni (*Tolaath*) a nodir, Exod. 25, 4: Lef. 14, 4, 6, &c. Prinwydden (*Kermes*) yw y pren (oddiwrth hyn, rhuddgoch), neu *quercus coccifera* (derwen fyth-wyrdd), ac ymddengys y trychfilod, math o abwydyn (*worm—vermes*, ac oddiwrth hyn *vermillion*), fel yn tyfu ar y cangenau, ac edrychid arnynt am hir amser fel gordyfiadau (*excrescenses*) llysieuog o'r pren ei hunan. Y trychfilod yma ydynt o liw coch bywiog, ac mewn amser boreuol ffurfient y lliw ysgarlad cyffredin. Rhoddwyd hwn heibio, mewn rhan, gan y purpl Tyrcaidd, ac mewn amseroedd diweddarach gan yr eirosliw (*cochineal*), cynnyrch trychfilyn arall (*Coccus cactus*), yr hwn sydd frodor o America Ddeheuol.

Drain, enw cyffredin, *Chedek*, *Choach*, *Qoz*, *Naazuz*, *Shait*, *Sikkim* (pigau), *Sirim*, *Zenim*. Groeg, *akantha* yn y Deg a Thriugain, ac yn Math. 7, 16: 13, 7, 22: 27, 27: Ioan 19, 2, 5. Yr holl eiriau yma a gyfeithir drain, ac nid oes dim yn yr ymadroddion i arwain i wybodaeth fanylach o'r rhywiogaethau y cyfeiriant atynt: enw arall yw *Atad*, Barn. 9, 14, 15: Salm 58, 9, a chyfieithir ef mieren, math o rafnwydden (*buckthorn*) mae yn debyg. Rhydd allan wialenau hirion, meinion, dreiniog; a thybir gan lawer mai hon yw y ddrainen â pha un y coronwyd Crist, *Zizyphus Spina Christi*.

Drain, ysgall, a mieri, ydynt hyd y dydd hwn yn lluosog iawn yn Mhalestina. Y fieren gyffredin (*common*), a'r fieren gyssegredig (*holy*), ydynt yn dra chyffredin, ac ysgall a guddiant ddarnau mawrion o dir, ac a dyfant i faintioli anferth. Yn mhlith ereill, sonia teithwyr am yr ysgallen Syriaidd wèn, gyda'r amrywiaeth Aifftaidd, neu borphoraidd, a'r ysgallen fwsg-aroglaidd (*musk-scented*), *Carduus mollis*.

Efrau (*Zizania*) Math. 13, 25, y *Lolium temulentum*, math o lysieuyn neu laswelltyn, cyffelyb i wenith; y mae yn tlodi y tir, ac yn dwyn hadau o ansawdd niweidiol.

Ebenus, Ezec, 27, 15, sydd bren a brisid yn fawr am ei liw a'i galedrwydd. Calon y dalbalmwydden (*date-tree*) ydyw, lluosogrwydd o ba rai a dyfant yn y Dwyrain, yn enwedig yn Ceylon. Heb. Hobhnim.

Ffa a ddygwydda yn 2 Sam. 17, 28: Ezec. 4, 9, ac a gyfieithir yn briodol. Y mae amrywiol fathau, ond nid ydynt yn gwahaniaethu llawer oddiwrth eu gilydd. Heb. Pol.

Ffacbys (*fitches*, hyny yw, *vetches*) a ddygwydda yn unig yn Esay 28, 25, 27, ac, fe allai, mai rhywogaeth o Nigella ydyw. Yr hadau ydynt dduon, a defnyddir hwynt yn y Dwyrain fel hadau *carraway*, i'r dyben o roddi blas sur (*acid*) llysieuog (*acromatic*) ar fwydydd. Heb. Ketsach.

Ffacbys (*lentiles*), math o blisgrawn (*pulse*), oddiar flwydd-ffrwythydd bychan. Y mae o liw *chocolate* (llwydgoch), a chymharir ef gan Pliny i liw y tywod cochlyd o gylch y pyramidiau. Wilkinson (Anct. Egypt) a rydd ddarluniad o wneuthuriad cawl ffacbys, wedi ei gymmeryd oddiar hen faen, Gen. 25, 34: 2 Sam. 17, 28. Heb. Adashim.

Ffawydden (*Chesnut-tree*), Gen. 30, 37: Ezec. 31, 8; fe allai mai y blanwydden (*plane*), un o'r coed ardderchocaf, oedd hwn. Yr oedd eiddo Assyria yn nodedig o brydferth.

Ffigysuydd, Arab. teen: a gyfieithir yn briodol; brodor o'r Dwyrain; ac y mae iddo ddail llydain cysgodfawr (1 Bren. 4, 25.) Ymddengys y

ffigysen ar alban eilir (*vernal equinox*), a chynnyrcha dri chnwd o ffrwyth. Addfeda y cyntaf oddeutu diwedd Gorphenaf, ei flas sydd hyfryd, a bwytêir ef yn gyffredin yn wyrdd (Jer. 24 2); cedwir y lleill yn aml mewn sypynau, neu deisenau, 1 Sam. 25, 18, &c. Heb. Teena.

Ffynidwydd (*Berosh*), a nodir yn fynych yn yr Ysgrythyr, 2 Sam. 6, 5; Can. 1, 17, &c., ac fe allai fod yr enw yn cynnwys amryw goed o lwyth y pinwydd. Edrycha rhai ar y gypreswydden a'r ferywen fel gwir gynnrychiolion y Berosh, ereill ar y gedrwydden, ac ereill ar y binwydden gyffredin. Ceir hwynt oll yn Mhalestina; a chan fod y gedrwydden a'r ffynidwydden yn barhaus yn dygwydd gyda'u gilydd yn yr Ysgrythyr, tebyg yw eu bod yn cynnwys yr holl rywogaeth.

Galbanum, yn Exod. 30, 34 yn unig, sydd fath o sudd (*gum*) cryf, ond nid hynod o beraidd, a dynir allan o frysgen (*shrub*) perthynol i deulu yr Umbelliferæ (*Bubon Galbanum*). Defnyddid ef wrth ddarparu arogldarth.

Garlleg, yn Num. 11, 5 yn unig. Adnabyddir y planigyn yma yn bresenol wrth yr enw Eschalot, neu Shalot, ac y mae yn gyffredin yn Ewrop (*Allium Escalonium*, hyny yw, o Ascelon). Dywed Herodotus ei fod yn cael ei weinyddu i raddau helaeth i'r llafurwyr a adeiladent y Pyramidiau. Heb. Shum.

Gopher a nodir yn unig yn Gen. 6, 14. Y mae yn debyg mai pren o'r llwyth pinwydd ydyw, fe allai y gypreswydden (*Bochart, Celsius*), cyflawnder mawr o ba un a geir yn Assyria. Heb. Gopher.

Gwinwydden (*Gephen, Ampelos*), Gen. 9, 20, &c.; pren tra adnabyddus, ac a fawr brisir yn y Dwyrain. Yr oedd enwogrwydd neilldúol yn perthyn i winwydd Eschol a Sorek. Tyfid y winwydden ar uchrodfeydd (*terraces*) ar fynyddoedd Palestina, Esay 5, 1; Micah 1, 6; neu ar lawr, Ezec. 17, 6, 7. Weithiau ffurfiai wasgotty (*arbour*), 1 Bren. 4, 25; Hos. 2, 12, naill ai yn cael ei gynnal ar byst, neu wedi ei blethu. *Per-winwydden*—dynion o duedd haelionus, Jer. 2, 21; Esay 5, 2. *Gwinwydden wyllt, neu ddyeithr*,—dynion anenwog a drygionus, Deut. 32, 32; Gen. 40, 9, 10, &c.

Hesg (a gyfieithir gweirglodd-dir yn Gen. 41, 2, 18), Job 8, 11, fe allai unrhyw blanigyn llysieuog, o dyfiant bras. Heb. Achu.

Helygen, Salm 137; Esay 44, 4; yr oedd yn dra adnabyddus yn Judea, ac un rhywogaeth o honi, yr helygen wylofus (*weeping willow*), yw y Salix Babylonica. Mae yn debyg mai yr helygen Aifftaidd yw y *Tsaphtsapha* (*Salix Ægypt*), yn Ez. 17, 5.

Hoccys, yn Job 30, 4 yn unig; fe allai mai yr hyn a ddeallwn ni yn awr wrth yr enw ydyw. Y mae o hyd yn ddysglaid gyffredin yn mysg y tlodion. Meddylia ereill mai math o hel-lys (*orache*) a olygir; felly Bochart a Dr. M. Good. Heb. Malluach.

Isop, Exod. 12, 22, &c., naill ai mintys y creigiau (*marjoram*), prysgen fechan, a'i dail yn orchuddiedig â manblu (*dawn*) meddal a gwlanog, cyfaddas i ddàl hylif (*fluid*); neu y gaprwydden ddreiniog (Royle), yr hon sydd yn tyfu yn wyllt yn Syria, ac yn meddiannu nodweddau glanhäol. Arab. Asaf. Heb. Ezov.

Llawrwyf (*bay-tree*) a ddygwydda, mae yn debyg, yn unig yn Salm 37, 35. Y *laurus nobilis* ydyw, yr hwn sydd bren bythwyrdd, o arogl peraidd a hyfryd. Heb. Ezrach.

Lili; cymhwysir yr enw yma, mae yn debyg, at amryw blanigion cyffredin yn Mhalestina. Yn y rhan amlaf o fanau yn yr Ysgrythyr lle y defnyddir y gair, y mae cyfeiriad at y *lotus*, neu ddwfr-lili y Nile. Bwytëid y rhywogaeth yma fel lluniaeth; y gwreiddiau, y gorsen, a'r hadau, ydynt oll yn dra hyfryd i'r archwaeth, cyn ac ar ol eu sychu. Oddiwrth hyn y daeth y cyfeiriad at ymborthi yn mhlith y lili. Perthyna "lili y dyffrynoedd," hyny yw, rhedleoedd dwfr, hefyd i'r rhywogaeth yma, Can. 2, 2, 16; 4, 5. Gwisgid y blodeuyn ar wyl-dymmorau, a ffurfiai un o addurniadau y deml, 1 Bren. 7, 19. Heb. Shushan.

Lili y Testament Newydd (*krinon*) yw y lili martagon ysgarlad (*Lil. Chalcedonium*), blodeuyn mawreddog, tebyg i benwisg (*turban*). Blodeua yn Ebrill a Mai, pryd, fel y mae yn debygol, y traddodwyd y bregeth ar y mynydd, a pherthyna yn naturiol i Galilea. Gelwir hi yn y Testament Newydd yn "lili y maes," Math. 6, 28.

Llin (*Pishta*), Esay 43, 17, yr hwn sydd blanigyn cyffredin, ac a ddefnyddid i wneyd lliain, rhaffau, a thewynion (*torches*). Gwrteithir ef yn helaeth yn yr Aifft a Syria. Groeg, *linon*, Math. 12, 20.

Shesh, yr hwn a gyfieithir lliain main a sidan, oedd, mae yn debyg, y planigyn *cywarch* (*hemp*), a elwir yn yr Arabaeg *husheesh*, yr hwn a wna fath o ddiod feddwol (oddiwrth hyn y deilliodd y gair Seisnig *assassin*), ac a adnabyddir yn bresenol wrth y "*bang*" Dwyreiniol. Gwrteithir y planigyn yn Persia, Ewrop, ac India.

Y mae dau air arall yn cael eu troi yn lliain yn y cyfieithiad Cymreig, "Bad" a "Butz;" defnyddir y cyntaf yn Mhum Llyfr Moses, &c., a thebygol mai y lliain a wneid o lîn ydyw; defnyddir yr olaf yn unig yn Cron. a'r Prophwydi, a thebygol mai defnydd cotwm ydoedd. Ni sonir am y nwydd yma hyd ar ol y caethiwed. Cyfieithir ef yn gyffredin yn lliain main, ac fe allai fod ei edafedd yn feinach nag eiddo y llîn. Y mae yn debyg mai lliain oedd "*Bussos*" y Testament Newydd. Cyfieithia "Bussos" y ddau air yn y Deg a Thriugain. Nid yw y gair *cotwm* yn dygwydd yn yr Ysgrythyr, ond ceir yr enw Hebreig (*Karpas*) yn Esther 1, 6, lle y cyfieithir ef "*gwyrdd*." Ymddengys nad oedd y planigyn cotwm yn adnabyddus yn Mhalestina cyn y caethiwed. Y cotwm yw gwrthlain (*lining*) yr hadgod, ac a gesglir â'r llaw fel y byddo y codau yn addfedu ac yn rhwygo.

Llwyfen, Esay 6, 13, yw y waglwyfen (*teil-tree*), neu balalwyf (*linden tree*) llysieuwyr (*Tilia Ewrop*); gelwir ef hefyd pren *turpentine* (*Pistachia terebinthus*). Y gair a dröir fel hyn, a gyfieithir "derwen" yn Gen. 35, 4. Tyfa i uchder mawr, a chynnyrcha fath o *durpentine* o flas ac arogl derbyniol.

Mandragorau, Gen. 30, 14, 16; Can. 7, 13, *Atropa Mandragora*, planigyn tebyg i *wylaeth* (*lettuce*) mewn maint a ffurf, ond ei ddail o wyrdd tywyll. Ei ffrwyth sydd o faintioli afal bychan; addfeda yn nghynauaf y gwenith (Mai). Y mae yn nodedig am ei ddylanwad llonawl a hyfryd.

Merywen, 1 Bren. 19, 4, 5; Job 30, 4; Salm 120, 4; y mae yn debyg mai y banadl Yspaenaidd ydyw. Llosga y pren yma gyda fflam hynod o oleu, gan roddi allan wres mawr; oddiwrth hyn y sonir am farwor meryw yn Salm 120. Nodir y ffaith hon gan amryw deithwyr Dwyreiniol.

Mieri.—Planigion dreiniog Palestina ydynt lusog iawn, ac ysgrifenwyr Rabbinaidd a ddywedant fod cynnifer a dau ar hugain o eiriau yn cael eu defnyddio yn yr Ysgrythyr i osod allan y rhywogaethau yma. Nid yw y planigion neillduol a ddynodir drwy y geirian hyn yn gyffredin yn adnabyddus, ond y maent oll braidd yn ddreiniog a diddefnydd.

Mieren, Barkanim, yn Barn. 8, 7, 16, sydd fath o blanigyn dreiniog pigog; Rosen. a'i cyfieitha "ffustiau" (*flails*). *Chedek,* Diar. 15, 19, "drain," a Micah 7, 4, "mieren," sydd fath o fochlys (*night-shade*), Solanum spinosum (Royle).

Mieren, Barn. 9, 14, 15, &c. *Alád,* yn briodol *drain,* gwel drain. *Choach,* draenen, neu ysgallen; gwel ysgallen.

Milet, Ezec. 4, 9, *panicum miliaceum* llysieuwyr; gronyn bychan a wrteithir yn Lloegr weithiau i borthi ieir, &c., ac a godir yn gyffredin yn y Dwyrain. Defnyddir ef yn fwyd yn Persia ac yn India. Heb. Dochan.

Morwydd, yn y Testament Newydd "*masarnen*" (cyf. J. W.), Luc 17, 6, (gwahaniaetha yn fawr oddiwrth y sycamorwydden, yr hon sydd yn fath o ffigysbren), yw merwydden Ewrop; y mae yn gyffredin iawn yn Mhalestina. Fe allai mai ystyr briodol y gair a gyfieithir morwydd yn 2 Sam. 5, 23, 24; 1 Cron. 14, 14, 15, yw aethnen (*poplar*). Cyfateba ysgydwad ei dail i'r darluniad a roddir yn yr adnodau yma. Dygwydda yr un gair yn Salm 84, 6, ac ystyrir ef yno fel enw priodol (Baca), ond y rhan amlaf o'r cyfieithiadau a'u tröant yn "wylofain." Dyffryn Baca, yn cyfateb i "ddyffryn wylofain."

Mwstard (*Sinapi*), sydd naill ai yn rhywogaeth o'r planigyn adnabyddus yn Lloegr wrth yr enw yma, yr hwn sydd âg un o'r hadau lleiaf, ac sydd ynddo ei hunan yn mhlith y talaf o blanigion llysieuawl, neu y *Salvadora Persica,* sef prysgen, neu bren, a'i hadau yn cael eu defnyddio i'r un amcan a mwstard (Royle, Irby).

Myrr sydd gynnrychiolydd o ddau air Hebreig, y cyntaf o honynt (*mor, smurna*) a gyfieithir yn briodol yn Exod. 30, 23; Salm 45, 8, &c.; Mare 15, 23, 36. Sudd ydyw a fwrir allan gan y *Balsamodendron Myrrha,* a phlanigion ereill. Y mae yn dra pheraroglaidd, yn gyffeiriol (*medicinal*), ac yn weddol gynhyrfus (*stimulating*). Arferai y Groegiaid ef fel cyffer yn eu gwin. Ceir ef yn Arabia ac Affrica.

Bedolach, Gen. 2, 12; Num. 11, 7, sydd, mae yn debyg, yn nodd a adnabyddir o hyd fel *bdellium.* Chwysa y nodd allan o fwy nag un pren, a cheir ef yn India ac Affrica.

Lot, yn briodol yw *labdanum.* Nodd ydyw a roddir allan gan y *Cistus,* ac a ddefnyddir yn awr yn benaf mewn mygdarthu, Gen. 37, 25; 43, 11. Suddion ereill cyffelyb a nodir yn yr Ysgrythyr, ydynt:—

Balm (*tzari*), Gen, 37, 25; Jer. 8, 22. Y mae yn debygol mai hwn yw balm Gilead (yr Hebraeg o'r cyfryw air, *Boshem,* fodd bynag, a gyfieithir fynychaf yn "cyffeiriau pêr," neu beraroglau). Y mae y pren yma yn gyffredin yn Arabia ac Affrica. Ni cheir y sudd ond mewn symiau bychain, ac y mae yn dra pheraroglaidd a meddyginiaethol.

Peraogl (*frankincense*) sydd fath o sudd a gymmerir oddiwrth rywogaeth o Storax, ac y mae yn dra pheraidd. Defnyddid ef yn benaf i

fygdarthu, ac yr oedd yn cael ei arfer yn ngwasanaeth y deml. Ystyrid ef fel arwyddlun o weddi, Lef. 2, 1; Salm 145, 1, 2; Dad. 8, 3, 4. Heb. Lebona.

Llysiau, Gen. 37, 25; 43, 11, sydd fath o nodd a gymmerir, fe allai, oddiwrth y pren *tragacunth*. Heb. Necoth.

Stacte, a nodir yn unig yn Exod. 30, 34, sydd fath arall o nodd, ond ni adwaenir ef yn sicr. Meddylia Celsius mai math o fyrr gwael ydoedd. Heb. Neteph.

Myrtwydd a dyf yn wyllt yn Mhalestina, ac a gyrhaedda oddeutu ugain troedfedd o uchder. Ei ddail ydynt dywyllion a dysglaer, a'i flodau gwynion ydynt yn dra pheraidd. Defnyddid ei gangenau yn Ngwyl y Pebyll. Neh. 8, 15; Esay 41, 17—19. Heb. Hadas.

Nard, Marc 14, 3 (*nerd*, a gyfieithir *nardus* yn yr Hen Destament), y planigyn *Nardostachys Jatamansi*, o'r hwn y gwneir perarogl hyfryd a gwerthfawr. Y gwreiddyn, a'r dail a dyfant allan o hono, ydynt yn debyg i gethrau (*spikes*); oddiwrth hyn y deilliodd yr enw (*stachys*, cethr), Can. 1, 12; 4, 13, 14; Ioan 12, 3.

Olewydden, pren byth-wyrdd, cyffredin o Itali i Caubul. Cedwir y ffrwyth anaddfed mewn halen dadmeredig, a defnyddir ef gydag *ancwynion* (*desserts*); pan yn addfed, dryllir ef mewn melinau, a cheir o hono olew hynod o bur a phrisfawr. Defnyddid yr olew a'r pren yn Ngwyl y Pebyll. Yr oedd yn Judea yn arwyddlun llwyddiant, Salm 52, 8; ac y mae wedi bod yn mhob oes yn arwyddlun heddwch.

Mae yn debyg mai rhywogaeth wyllt o'r *Olea Europæa* yw yr olewydden wyllt yn Rhuf. 11, 17, 24. Dull cyffredin o impio yn yr Eidal oedd gosod cangen o'r olewydden wyllt mewn cyff un wedi ei gwrteithio (*Columella*). Heb. *Zaith*.

Palm, neu talbalmwydden (*date-tree*); Arab., *tamr*, yw un o'r coed mwyaf gwerthfawr yn y Dwyrain, Exod. 15, 27. Yr oedd cyflawnder o hono, yn enwedig yn nyffryn yr Iorddonen (oddiwrth hyn gelwid Jericho yn "ddinas y palmwydd"), ac yn rhanau anial Syria (*Tamar Palmyra*). Ystyrid hi yn nodweddiadol o Judea, gan mai yno y cyfarfyddwyd â hi gyntaf gan genedloedd a deithient o Ewrop tua'r Dehau. Heb. *Taman*.

Perth (*Seneh*, *Batos*), Exod. 3, 2; Deut. 33, 16. Ystyr y gair Groeg yw drysïen; ac y mae *Rubris sanctus* yn gyffredin yn Mhalestina. Meddylia Pococke mai yr hysbyddaden (*hawthorn*) yw, yn fwyaf tebyg. Heb. Sene.

Pomgranad (afal-graenedig); pren o werth mawr mewn hinsoddau poethion. Ei ffrwyth sydd gronellog, ac o faintioli afal tra mawr. Cynnwysa y rhan fewnol rifedi o hadau purpl neu rosynaidd, sudd melus, gydag ychydig o flas sur, 1 Sam. 14, 2. Nid yw y pren yn annhebyg i'r ysbyddaden gyffredin, ond ei fod yn fwy. Gwrteithir ef yn Affrica Ogleddol, a thrwy holl Asia, Hag. 2, 19: Deut. 8, 8: Can. 8, 2: Joel 1, 12. Heb. Rimmon.

Yr oedd pomgranadau cerfiedig wedi eu gosod ar benau colofnau y deml.

Pompion, Num. 11, 5. Llwyth y cicaion, i'r rhai y perthyna y cucumerau a phompionau, ydynt mewn bri mawr yn y Dwyrain, a cheir cyflawn-

der o honynt yn yr Aifft ac India. Y maent o amryw fathau,—yr Aifftaidd (*cucumis chate*), pompion-y-dwr gyffredin, &c., a thebyg yw eu bod oll yn gynnwysedig yn yr un enw Ysgrythyrol. Heb. Abattichim.

Poplysen, Gen. 30, 37: Hos. 4, 13; naill ai y boplysen wèn, neu y pren storax ydyw. O'r olaf y ceir sudd (*resin*) hyfryd peraroglus. Y mae pob un o'r coed yn cyfateb i'r desgrifiad a roddir yn Genesis ac Hosea. Yn y blaenaf, y mae y Deg a Thriugain yn cyfieithu storax, ac yn yr olaf poplysen. Y cyfieithiad yn Genesis yw yr henaf, a mwyaf awdurdodol. Heb. Libna.

Pren-box y Dwyrain: yr un yw ag eiddo Ewrop, ond ei fod yn y Dwyrain yn tyfu yn wyllt ac yn fawr, Esay 41, 19; 60, 13. Y mae yn hynod gyfaddas i randiroedd mynyddig, a thir calchfaenaidd, fel Libanus. Heb. Teashur.

Rhosyn, Can. 2, 1; Esay 35, 1. Er fod y rhosyn yn adnabyddus yn Syria, ac un rhywogaeth (y rhosyn Damasc) yn cymmeryd ei enw oddiwrth Damascus, etto nid ydyw yn cael ei nodi yn yr Ysgrythyr. Y gair a gyfieithir felly (megys yr arwydda ei enw) sydd blanigyn crynwreiddiol (*bulbous-rooted*). Y mae yn debygol mai y Narcissus ydyw, yr hwn a geir drwy holl Syria, ac sydd yn beraidd ac ardderchog dros ben. Heb. Chavatzeleth.

Rhyw, a nodir yn unig yn Luc 11, 42; planigyn cyffredin gardd, a elwir felly, ydyw. Ei ddail a roddant allan arogl cryf a chwerw, a defnyddid hwynt gynt yn feddyginiaethol.

Saffrwn (*Krokos*), rhan o'r *crocus* melyn, Can. 4, 14. Ffurfid y perarogl hyfryd yma o esgellau (*stigmas*) a choesig (*style*) y blodeuyn, a defnyddid ef i roddi blas (*flavour*) ar gig a gwin, ac hefyd fel meddyglyn cynhyrfiol cryf. Y mae yn gyffredin iawn drwy holl Asia, a deillia ei enw Cymreig (Saffrwn) o'r Arabaeg "Zafran."

Sebon yr Ysgrythyr, Jer. 2, 22; Mal. 3, 2, oedd ulyf llysnur (*carbonate of Soda*), wedi ei dynu oddiwrth fath o hel-lys (*saltwort*). Gelwir lludw y fath yma o blanigion, mewn masgnach, yn "*barilla*," a defnyddir ef yn ngwneuthuriad gwydr. Fe allai fod ulyf golch-ludw (*potash, pearlash*), yr hwn a geir drwy losgi poplys a phlanigion ereill, yn gynnwysedig dan yr enw yma. Heb. *Bor*, neu *Borith*.

Sillon, Ezec. 28, 24; *Sirpad*, Esay 55, 13; *Shamir*, Esay 32, 13; ac yn mhob man arall yn Esay, oddigerth 55, 13, ydynt blanigion dreiniog anadnabyddus.

Sinnamon, Ex. 30, 23; Diar. 7, 17; Can. 4, 14; Dad. 18, 13, yw rhisgl y *laurus kinnamomum*. Ceir y planigyn yma yn India a China; dygir y fath oreu o Malabar a Ceylon.

Sittah, yr *acacia*, neu ddraenen yr Aifft, Exod. 25, 5, &c. Y cyff sydd yn syth a dreiniog, y rhisgl sydd o liw du-lwyd, y pren sydd ysgafn a pharhaus, ac o herwydd hyny yn dra chyfaddas mewn adeilad symudol fel y Tabernacl. Y mae yr holl rywogaeth yma yn dwyn blodau, ac yn hynod am eu pereidd-dra a'u hardderchogrwydd.

Sycamorwydden, 1 Bren. 10, 27; Salm 78, 47, &c., a gam-gyfieithir gan y Deg a Thriugain, *sukaminos* (gwel, Morwydd). Y mae yn ei ddail yn gyffelyb i'r morwydd: ond mewn gwirionedd, ffigysbren ydyw, yn dwyn

ffrwyth isel a gwael (*Ficus sycomorus*). Y mae yn uchel a chysgodol (Luc 19, 4), ond nid yw y pren o werth mawr (1 Bren 10, 27 : 2 Cron. 1, 15). Gwnelid cistiau cyrff peraroglelig yr Aifft o hono yn gyffredin. Rhaid gwahaniaethu hon oddiwrth ein sycamorwydden ni, yr hon sydd fath o fasarnen (*maple*).

Tom-colomenod, 2 Bren. 6, 25, sydd, mae yn debyg, fath o bysen (*pea*) gyffredin yn y Dwyrain. Yn yr Arabaeg, yn awr, cymhwysir yr un enw at ysgarthion colomenod ag at y pys yma (*Bochart, Taylor*). Meddylia rhai mai gwreiddyn blodeuyn gwyllt, seren Bethlehem, yw y nwydd a nodir yma. Heb. Dibhyonim.

Thynon (Dad. 18, 12), yr oedd mewn mawr fri gan y Rhufeiniaid, y rhai a'i galwent yn thya, neu bren citron. Nid ydyw yn tyfu ond yn unig yn nghymmydogaeth mynydd Atlas, yn Affrica, a chynnyrcha "*sandarach rosin*" masgnachaeth. Y mae yn dra balmaidd a pheraroglus.

Wermod, Hos. 10, 4; Amos 6, 12, a gyfieithir "gwenwyn" yn Deut. 29, 18, a "bustl" yn Gal. 3, 19. Ystyria Dreuellius a Celsius mai cegedin (*hemlock*) yw y gwir feddwl; meddylia ereill mai enw cyffredin ydyw ar unrhyw lysieuyn chwerw (Royle). Heb. Rosh.

Wermod (*Laana, apinthion*), "gwreiddyn chwerwedd," Deut. 29, 17; Dad. 8, 10, 11, arwyddlun o drallod. Y mae amrywiol rywogaethau o'r llwyth hwn (*Artemisia*), siampl o ba rai yw ein planigyn ni (*A. absinthium*). Ceir amryw fathau yn Judea, pob un o ba rai sydd yn chwerw dros ben. Wermod masgnachaeth a gynnwysa benau y planigion, eu blodau, a'u hadau ieuainc, wedi eu cymmysgu.

Wynwyn sydd blanigyn tra adnabyddus yn y wlad hon ac yn y Dwyrain. Cyll ei flas egrol (*acrid*) mewn hinsoddau poethion, ac y mae yn dra blasus a maethlawn.

Ysgall (*Dardar*), Gen. 3, 18. Yn y Deg a Thriugain, a'r Testament Newydd, *tribolos*, Math. 7, 16; Heb. 6, 8; planigyn pigog cyffredin, yn ymledu dros y llawr. Tribulus (*choach*), dreinlwyn, fe allai, Job 41, 2; Diar. 26, 9; Esay 34, 13.

361. Yr ydym, am yr un rhesymau (gwel adr. 360), yn rhoddi tafleni o'r mwnau a nodir yn yr Ysgrythyr. Taflant oleuni ar lawer o adnodau.

1. *Pridd a Sylweddau Mwnawl.*

Brwmstan, neu losgfaen (*sulphur*), sydd fŵn a geir mewn sefyllfa naturiol, ac a dynir gan gelfyddyd o gallestr (*pyrites*), ac amryw ffurfiau creigiawg. Ceir ef yn y ddau gyflwr yn Mhalestina, Gen. 19, 24, 25; Sal. 11, 6; Ezec. 38, 22; Esay 30, 33: 34, 9; Dad. 14, 10. Heb. Gophrith.

Ceir gwybyg (*naphtha*) hefyd yn Mhalestina, ac y mae, mewn cyssylltiad â'r blaenorol, yn dra hylosg. Dygwydda y gair hwn yn unig, neu, yn hytrach nid ydyw y daiar-olew yma yn cael ei nodi ond yn unig yn nghyfieithiad Theodotion o ran o Daniel.

Clai, daear feddal, a ddefnyddir i wneuthur llestri pridd, Esay 29, 16; 45, 9; Jer. 18, 4, 6; ac ar ol ei gymmysgu â thywod—gelwir ef felly yn llaid (*mud*)—er adeiladu, Job 4, 19. Y mae "Tit" (yn briodol, llaca), hefyd yn cael ei wneuthur yr un ystyr a chlai yn Esa. 41, 25.

Daear.—Y mae i'r gair yma, yn yr Hebraeg, dri chynnrychiolydd; *Eretz,*—*y* ddaear, gyfanneddol ac annghyfanneddol; *Adama*, yn briodol, daear goch, neu dir gwrteithiedig, ac weithiau yr holl ddaear; ac *Aphar*, pridd sych, neu lwch. Y mae geiriau hefyd am lwch mân iawn (Deut. 28, 24; Nah. 1, 3); ac am lwchyn neu demigyn (Esay 40, 15). Ceir tri o enwau ar dalpiau o bridd, Job 7, 5; 31, 33, Joel 1, 17.

Daearbyg, neu dduglist (*asphalt*), a gyfieithir clai, sydd ddaear-glud (*earth-resin*), a geir i raddau helaeth iawn yn nghymmydogaeth y Môr Marw, a manau ereill. Defnyddid ef fel cymhrwd (*cement*), Gen. 11, 3, a gwneir felly o hyd yn Zante, a rhai rhanau o'r Dwyrain. Dywed Pliny fod yr Aifftiaid yn ei ddefnyddio i ddiogelu cychod papyrfrwyn y Nilus rhag gollwng dwfr (gwel Exod. 2, 3). Heb. Chamar.

Halen, a geir yn helaeth yn Mhalestina. Y mae y Môr Marw yn gyflawn iawn o hono. "Dyffryn yr Halen" yn 2 Sam. 8, 13; 1 Cron. 18, 12; Sal. 60; sydd wastadedd ëang, yn gorwedd i'r Dehau-Orllewin i'r Môr Marw. Y pyllau halen yn Seph. 2, 9, oeddynt, mae yn debyg, yn gyffelyb i'r rhai a gloddir o hyd ar derfynau y Môr Marw, i ba rai y rheda y dwfr, ac y ceir yn fuan grystyn tew o halen. Yn ffigurol, y mae halen yn dynodi *parhad*, cyfeillgarwch, taliad, neu gynnaliaeth, anffrwythlonedd; dylanwad pur, daionus, ac iachus; cadwedigaeth rhag malldod. Oddiwrth hyn y deilliodd "cyfammod halen," yn 2 Cron. 13, 5; Rosenm. ar Lef. 2, 13; Ez. 4, 14, ymyl y ddalen; Sal. 107, 34 (am nas gall dim dyfu mewn tir wedi ei orchuddio â halen, Jer. 17, 6; Barn. 19, 45); Col. 4, 6 (lle y cyfeiria at ymadrodd tra tharawiadol); Math. 5, 13; Marc 9, 50. Heb. Melach.

Nitr (llysnur, *soda*), Llad. *Natrum;* Heb. *Nether;* sydd wrthsur (*alkali*) mwnawl (megys y mae Borith, a gyfieithir Sebon, yn wrthsur llysieuol); ceir ef mewn cyflwr naturiol yn yr Aifft, &c. Ni ddygwydda ond yn unig yn Jer. 2, 22; ac yn Diar. 25, 22. Gwna finegr (unrhyw beth sur) iddo fwrw allan arogl anhyfryd, a dinystria ei nodweddau. Oddiwrth hyn y llefarwyd yr adnod olaf.

Tywod sydd yn helaeth yn Mhalestina, a defnyddir ef yn aml fel cymhariaeth i osod allan gyflawnder, helaethrwydd, pwys, &c. Heb. Chol.

2. *Meini a Chreigiau.*

Alabaster (o'r Coptaeg, y maen *gwyn-wawr*), a elwir felly yn bresenol, sydd fath o fynorglai (*gypsum*); yn mhlith yr henafiaid, cymhwysid y gair at flweh wedi ei wneuthur o fath o onyx (Pliny, lit. 36, pen. i), Math. 26, 7; Marc 14, 3; Luc 7, 37. Dywed Pliny fod defnydd mawr yn cael ei wneyd o hono mewn math o flychau perarogl, fel ag y mae yn parhau yn yr Aifft.

Calch (Seed, Esay 33, 12; Amos 2, 1; Deut. 27, 24), yn fwyaf priodol sydd fynor-glai, yr hwn oedd yn fwy cyfaddas i'r amcan a nodir yn Deut. 27. Yr oedd calch, neu fynor-glai, yn cael ei ddefnyddio er yn foreu i blastro. Dan. 5, 5.

Calch-faen, Esay 27, 9, yw prif ddefnydd creigiau Syria a Phalestina. Y mae yn galed a gwyn-wawr; weithiau yn felyn neu lwyd. Heb. Gir.

Callestr, Deut. 8, 15; 32, 13; Sal. 114, 8; Esay 50, 7; Job 28, 9, a gyfieithir hefyd yn graig. Creigiau Sinai, at ba rai y cymhwysir yr enw yn Deut. 8, ydynt ithfaen (*granite*), myldardd (*porphyry*), a gwyrdd-

faen, ac nid oes amheuaeth nad at y cyfryw greigiau y cyfeiria. Heb. Chalamish.

Craig (Tsur) sydd enw rhywiol (*generic*). Creigiau uchel, serth, addas i ymnoddi ynddynt, a elwir *Sela*, Barn. 15, 8, 11; 1 Sam. 14, 4; Sal. 18, 3.

Grisial (Ezec. 1, 22; Job 28, 18) a olyga *iâ* yn llythyrenol yn Hebraeg a Groeg; maen dysglaer, tebyg i wydr ydyw, o ryw y callestr. Dad. 4, 6; 22, 1. Heb. Kerach, Gabhish.

Maen (Even) sydd enw rhywiol. Y mae gan yr Hebraeg enwau neillduol ar grynfeini (*pebbles*) a marian, Chatsats, Mavoth, Tsiror.

Marmor (Shesh) sydd galchfaen manronynawg. Ystyr yr enw yn Hebraeg yw gwyn-der, ac feallai mai hwn oedd y lliw cyffredin, 1 Cron. 29, 2; Esther 1, 6; Can. 5, 15. Y mae yn gyffredin iawn yn Arabia a Phersia. Dywed Josephus i Herod adeiladu yr ail deml â marmor, naill ai o Arabia, neu, o bosibl, o fynyddoedd Syria.

3. *Meini Gwerthfawr.*

Acat, mwn cyffredin, cyfansawdd o gallestr ac amryw emau; gelwir ef felly oddiwrth yr afon Achates yn Sicily (Pliny) Exod. 28, 19; 39, 22. Y mae y gair sydd yn Esay 54, 12; Ez. 27, 16, yn wahanol (Kadkod). Gair Arabaeg cyffelyb a olyga goch bywiog, ac y mae yn debygol mai y rubi dwyreiniol yw y maen y cyfeirir ato.

Adamant (Diamond) Yahalom, a Shemir. Y *cyntaf* yw yr *Onix*, math o Galcedoni amryliw. Pan yn goch, gelwir ef sardonix (gwel *Sardius*); pan yn llwyd-goch, calcedonix; pan yn felyn-ddu, yn memphitonix. Yr oedd y gem yma, yr Onix, yn lled ddysglaer (*semi-transparent* fel yr *ewin* dynol, oddiwrth yr hwn y derbynia ei enw), a gwnelid defnydd mawr o hono mewn argrifon (*cameos*) a seliau, Ex. 28, 18; Ezec. 28, 13. Ceir yr ail yn Jer. 17, 1; Ez. 3, 9; Zech. 7, 12; ac, fe allai, ei fod yn golygu yr ellfŵn (*emery*), math o fŵn allogol (*aluminous*) caled iawn, ac a ddefnyddir i gaboli gwydr.

Amethyst, math o greigrisial (*quartz*) glas, tryloyw; y mae weithiau yn borphoraidd neu lwydaidd. Tybiai y Groegiaid fod ganddo allu i yru ymaith feddwdod, ac oddiwrth hyn y cafwyd ei enw Groegaidd; a'r Hebreaid a dybient ei fod yn medru cynnyrchu breuddwydion (*Chelem*, breuddwyd), Dad. 21, 20.

Beryl, maen Tarsis, neu *chrysolith*, gem *melynaur* ydyw yn briodol, weithiau yn gogwyddo at felyn-wyrdd, Exod. 28, 20; 39, 13; Can. 5, 14; Ezec. 1, 16, &c.; Dad. 21, 20; gwel *Onix*.

Carbuncl (yn fflachio fel mellten); y gwyrddfaen (*emerald*) dwyreiniol, yn hytrach, yw y gair a gyfieithir felly (*smaragdos*); gem gwyrdd arddcrchog, o amryw arliwiau (*shades*), Exod. 28, 17; Ezec. 28, 13; felly hefyd y Deg a Thriugain, a Josephus.

Defnyddir geiriau ereill yn Esay 54, 12, a golygant "feini dysglaer." Deillia y gair carbuncl yn wreiddiol o carbo, gloyn tanllyd. Gwel *Rubi*.

Jaspis, gem nas gellir gweled drwyddo (*opaque*), o amryw liwiau,—gwyrdd, coch, a melyn, Exod. 28, 20; Ezec. 28, 13; Dad. 4, 3; 21, 11, 18, 19.

Lygur, neu *hyacinth*, gem tryloyw, eur-felyn-goch, ac a geir yn Ceylon ac India, Ex. 28, 19; Dad. 9, 17; 21, 20.

Onix,—Y beryl neu y *Chrysoprase* fe allai, Gen. 2, 12: Dad. 21, 20 (hyny yw, maen cenin-wyrdd): y mae yn gyffredin yn dryloyw, ac o liw gwyrdd gwanaidd, Exod. 25, 7: Ezec. 28, 13.

Rubi (*emerald*), Ezec. 28, 13, yn hytrach carbuncl, Exod. 28, 18. Cynnwysir dan yr enw yma amryw feini cochion llachar, yn enwedig y rubi, y groned (*garnet*), &c.

Saphir, gem tryloyw, yn gyffredin o liw yr awyr, ac yn galed iawn; oddiwrth hyn, cymharir llawr gorsedd Duw yn y nef iddo. Exod. 24, 10; Ezec. 1, 26; Dad. 21, 19. Ein *lapis lazuli* ni oedd Saphir y Groegiaid; yr un lliw a saphir yr Ysgrythyr, ond yn llawer meddalach.

Sardius (*Odem*, maen coch), yn briodol, gem o liw cnawd (*carnelian*, *à carne*), ac o lwyth y Chalcedoni. Y mae yn gyffredin iawn yn Arabia, a cheir ef i raddau helaeth yn Sardis, yn Lydia, Exod. 28, 17; Ezec. 28, 13; Dad. 4, 3; 21, 28.

Tophas, gem melyn, gydag arliw coch, llwyd, neu wyrdd, ac a geir yn Neheubarth Arabia. Oddiwrth hyn y deilliodd Tophas, Cus; ac ynys yn y llynelyn Arabaidd, a elwid Ynys Tophas (Diod. Sic. Pliny), Job 28, 19: Exod. 28, 17: Ezec. 28, 13: Dad. 21, 19.

Gwelir fod y desgrifiadau yn y Dadguddiad yn dàl cyssylltiad agos iawn â'r rhai sydd yn Exodus ac yn Ezeciel.

4. *Meteloedd.*

Alcam (*Tin*), a nodir gyntaf yn Num. 31, 22. Yn ddiweddarach, y Tyreiaid a'i dygent o Tarsis, Ezec. 27, 12: nodir offeryn llyfalu (*levelling*) o alcam yn Zech. 4, 10. Defnyddir y gair hefyd am sorod plwm ac arian (gwel *Plwm*), yn Esay 1, 25.

Ambr, Ezec. 1, 4, 27; 8, 2; yn briodol efallai sydd fetel cyfansoddedig o gopr ac aur. Y gair "*Election*" a ddefnyddir gan y Deg a Thriugain i'w gyfieithu, a olygai ambr, a chyfansoddiad arall cyffelyb. (Pliny.) Ceir y gair Groeg cyfatebol yn Dad. 1, 15, "*pres coeth*."

Arian (*Keseph*, yn llythyrenol, metel gwyn, megys yn Groeg,) a geir mewn cyflwr naturiol, yn gyssylltiedig â llosgfaen, a surion (*acids*). Gorwedda yn aml yn wythenau, Job 28, 1, ac a burid drwy blwm a gwres (gwel, *Plwm*). Plwm ac arian yn gymmysg a elwir sorod arian, a gelwir yr arian ysgaredig yn arian puredig, Sal. 12, 6. Dygid ef (yn mhlith manau ereill) o Yspaen, Ezec. 27, 12: Jer. 10, 9. Cawn ei fod mewn ymarferiad cyffredin yn foreu, Gen. 23, 15, 16. Gwnelid llawer o lestri o hono, Gen. 44, 2; Exod. 12, 35; Num. 7, 13: 10, 2. Y nodiad cyntaf am dano fel bathon (*money*) sydd yn Gen. 20, 16. Nid bathonau, fodd bynag, oedd y siclau, ond darnau wedi eu pwyso allan; gwel Gen. 23, 16; ac felly hyd y nod yn nyddiau Jeremiah, Jer. 32, 9. Y bathoniad (*coinage*) cyntaf yn Mhalestina oedd yn nyddiau y Maccabeaid; gwel adran 374. Y gair a gyfieithir, "darn o arian," yn Jos. 24, 32, yn briodol yw y Kesitah; hyny yw, yn ol fel y casgla Gesenius oddiwrth Gen. 33, 19, a 23, 16, darn cyfartal i bedwar sicl.

Aur (*Segor*, *Kethem*, yn briodol, yr hyn o'r braidd a guddir; *Charuts*, yr hyn a ddysgleiria yn gryf: *Paz*, *aur* pur, a Zahab, aur ei hunan, enw y mwn), a geir yn bur, ac wedi ei gymmysgu âg arian neu haiarn. Yr Iuddewon a dderbynient eu haur yn benaf o Sheba ac Ophir, yn Arabia, 1 Bren. 9, 28: Sal. 45, 9. Ni cheir aur yno yn bresenol, ond hen ys-

grifenwyr (Artemid. Diod. Sic.) a sicrhant ei fod i'w gael yno gynt i gryn helaethrwydd. Y lleoedd a enwir yn Dan. 10, 5, ac 2 Cron. 3, 6, ydynt yn anadnabyddus. Dichon fod aur curedig neu anmhur yn cael ei nodi yn 1 Bren. 10, 16, 17. Purid aur ac arian weithiau drwy dân, Diar. 17, 3: a defnyddid plwm, delydr, halen, alcam, ac eisin, i'r amcan hwnw. Defnyddid addurniadau euraidd yn foreu. Y nodiad cyntaf am aur masgnachol, a geir yn oes Dafydd, 1 Cron. 21, 25.

Copr, neu *bres*; deillia yr enw cyntaf o Cyprus, lle y ceir cyflawnder o hono. Pres yw copr wedi ei gymmysgu â sinc neu alcam. Mewn amseroedd boreuol, defnyddid y delid (*metal*) yma yn gyffredin yn lle haiarn. Lle bynag y dygwydda'r gair "*dur*" yn ein cyfieithad ni, ei feddwl yw *pres*. Ceir cyflawnder o dystiolaethau oddiwrth awdurdodau clasurol ac Aifftaidd fod pres yn cael ei ddefnyddio yn helaeth, a dywedir fod yr Aifftiaid yn hyddysg yn y gelfyddyd o'i dymheru. Defnyddid ef i wneyd bwäau, a phob math o arfau, colofnau y deml, 1 Bren. 7, 13—21; y bâdd, neu y môr yn nghyntedd yr offeiriaid, y ffyrch a ddefnyddid wrth aberthu, a'r drychau, oeddynt oll o'r defnydd yma, Ex. 38, 8; 2 Bren. 25, 13. Dichon mai cymmysgiad o'r ddau ddelid oedd y "pres melyn da mor brydferth ag aur," yn Ezra 8, 27. Gwel *Ambr*.

Delydr (*Antimony*), neu gyfferfŵn (*stibium*), a ddygwydda yn yr Hebraeg, ond a gyfieithir *lliwio* (sef y llygaid) yn llythyrenol â delydr, 2 Bren. 9, 30; Jer. 4, 30: Ezec. 23, 40. *Kachal* yw y ferf; lliwio â gwirf (*al-kohol*), sef llwch mân dû, wedi ei wneyd o'r delid yma. Yr enw (hyny yw, al-kohol), a gymhwyswyd, yn y diwedd (yn Ewrop), at y rhan ysbrydol *bur* o ddiodydd poethion. Dywedir fod meini Jerusalem wedi eu gosod mewn cyfferfŵn "lliwiau têg," Esay 54. 11.

Haiarn a ddefnyddid i raddau helaeth yn Syria, hyd y nod yn yr amseroedd boreuaf, Deut. 8, 9. Gwnelid offerynau gwaith o hono, Num. 35, 16: Deut. 27, 5. Yn Jer. 15, 12, gelwir dur yn "haiarn o'r gogledd." Gelwid y llwyth ag oedd yn enwog am ei wneuthuriad yn yr hen amseroedd yn *Chalybes*, a phreswyliai yn agos i'r Môr Dû. Oddiwrth hyn y deilliodd desgrifiad Jeremiah, a'i enw Groegaidd. Enw arall ar ddur (Palda, o'r Arabaeg), a gyfieithir "fflamau," Nah. 2, 4: pladuriau dur. Gwel *Copr*.

Mwn (*ore*) aur neu arian, sydd yn yr Hebraeg âg enw neillduol yn perthyn iddo. Ei ystyr briodol yw (Arabaeg yn gyffelyb) rhywbeth wedi ei dori ymaith. Tröir ef yn amrywiol yn ein cyfieithiad ni. Heb. Betzar.

Plwm (*lead*) a nodir gyntaf yn Ex. 15, 10. Cyn bod arian-byw yn adnabyddus, defnyddid ef i buro arian. Oddiwrth hyn y deilliodd amrywiol ymadroddion, Jer. 6, 29: Ezec. 22, 18. Yn Amos 7, 7, sonir am bwysau o blwm, neu blwmed. Y gair yw yr un Arabaeg am blwm (*Anak*).

Am gyfarwyddyd pellach ar y pwnc uchod, ymofyner â Mwnyddiaeth yr Ysgrythyr gan Rosenmüller, a Geiriadur Gesenius.

362. vi. Y mae gwybodaeth o arferion a defodau yr Iuddewon o wasanaeth mawr wrth esbonio yr Ysgrythyr.

363. Preswylfeydd. (*a*.) Rhai yn preswylio mewn pebyll oedd sylfaenwyr y genedl Iuddewig. Dyfeisiwyd pebyll cyn y diluw, ac ymddangosant fel yn perthyn yn naturiol i fywyd bugeiliol, Gen. 4, 20. Y pebyll cyntaf a orchuddid â chrwyn, Ex. 26, 14: ond gorchuddiadau y rhan amlaf o'r rhai a nodir yn yr Ysgrythyr oeddynt o flew geifr, wedi ei nyddu

a'i wau gan y gwragedd (Ex. 35, 26): o herwydd hyn yr oedd eu lliw yn ddû (Can. 1, 5): ni ddefnyddid pebyll o liain, ond yn unig yn achlysurol ar wyliau, ac i amcanion teithiol. Dichon fod y babell foreuol rhywbeth yn gyffelyb i'r un a ganfyddir yn bresenol yn Arabia, o ffurf hirgul (*oblong*), a'i huchder yn y canol yn wyth neu ddeg troedfedd. Yr oedd gan berson o bwys weithiau dair neu bedair o babellau: un iddo ei hunan, un arall i'w wragedd, a'r drydedd a'r bedwaredd i'w weision, ac i ddyeithriaid, Gen. 24, 67; yn fwyaf cyffredin, fodd bynag, dosparthid un babell fawr â llèni yn ddwy neu dair o ranau. Yr oedd y Tabernacl Santaidd wedi ei ffurfio yn ol y cynllun yma, Ex. 26, 31—37.

(*b.*) Am fythod (*huts*), yr adeilad sydd yn cyfryngu rhwng pabell a thŷ, ni ddarllenwn ond ychydig yn yr Ysgrythyr. Ymddengys eu bod yn cael eu defnyddio gan Jacob i gysgodi ei anifeiliaid (Gen. 33, 17); a chawn hwynt mewn amser diweddarach yn cael eu hadeiladu mewn gwinllanoedd, i gysgodi y rhai a wylient eu cynnyrch addfedol (Job 27, 18; Esay 1, 8).

(*c.*) Mae yn debyg i'r Israeliaid weled tai gwych yn yr Aifft; wedi eu mynediad i Balestina, fodd bynag, cyfaneddent yn y tai oedd wedi eu hadeiladu gan eu cyn-breswylwyr; ac wedi hyny, cyfodent eu rhai eu hunain yn ol yr un cynllun. Rhaid fod adeiladaeth deuluol wedi cynnyddu yn ystod y freniniaeth (*monarchy*). Diammeu i balas Solomon, yr hwn a adeiladwyd drwy gymhorth Phœniciaid, awgrymu diwylliadau. Y mae Jeremiah (22, 14) yn dynodi rhyw fawredd mewn adeiladaeth; ac yn nyddiau ein Harglwydd, yr oedd y dosparthiadau uchelaf wedi casglu hyfforddiant yn ddiau oddiwrth reolau celfyddydol y Groegiaid.

364. (*a.*) Yr oedd tai y tlodion yn y dwyrain, yn gyffredin, wedi eu hadeiladu o glai; ac am hyny, daethant yn arwyddluniau priodol o ansicrwydd y bywyd dynol. Yr oedd yn hawdd tori trwy y muriau, ac mor hawdd a hyny ddinystrio y tai (Job 24, 16; Ezec. 12, 5; Math. 6, 19.)

(*b.*) Yr oedd tai y cyfoethogion o ddull gwahanol. Yn gyffredin yr oedd iddynt bedair o ystlysau, un o ba rai a wynebai yr heol, yn yr hon nid oedd ond drws, ac un neu ddwy o ffenestri bychain i fyny. Agorai y drws i borth, yr hwn a arweiniai drwy ystlys-ddrws i aros-gell (*waiting-room*), a'r aros-gell i gyntedd pedwar ochrog, yn agored uwchben, ac yn cael ei gylchynu gan furiau mewnol y tŷ. Rhedai llwybrau gorchuddiedig yn aml yn mlaen wrth ochrau y muriau ar y llawr isaf, tra yr oedd orielau o'r un maintioli uwchlaw iddynt. Gyferbyn â'r fynedfa a arweiniai o'r aros-gell i'r cyntedd, yr oedd yr ystafell westa (*guest-chamber*, Luc 22, 11), lle y derbyniai y meistr ymwelwyr, ac y dygai yn mlaen weithiau ei orchwylion. Yr oedd y nèn yn wastad, yn cael ei chylchynu ar y tu nesaf allan gan fron-glawdd, neu fur-ganllaw; ac ar y tu nesaf i'r cyntedd gan reilwydd (*balustrade*), neu waith dellt. Yr oedd y grisiau i'r nèn, ac i bob llawr o'r adeilad, yn gyffredin yn y petryal, yn y gongl nesaf i'r fynedfa, fel y gallasai pob ymwelydd esgyn i'r nèn, ac i bob un o'r ystafelloedd, heb fyned drwy yr ystafelloedd isaf. Yn yr haf, cysgai y bobl ar y nèn, a defnyddid ef bob amser fel lle i addoli, i alaru, neu i orphwys. Cyfodid pebyll yma ar Wyl y Pebyll; ac ar dymmorau o wyliau neu lawenydd cyhoeddus, ymgynnullai yr ymwelwyr yn fynych yn y petryal islaw, yr hwn a orchuddid ar brydiau.

Y ffeithiau hyn a eglurant yr adnodau canlynol, yn nghyd a llawer ereill: Deut. 22, 8; 1 Sam. 9, 25; 2 Sam. 11, 2; Esay 22, 1; Act. 10, 9; Marc 13, 15; 2, 4.

(*c.*) Yr oedd drysau y tai dwyreiniol yn ddwbl, ac yn symud ar golynau (*pivots*); sicrheid hwynt â barau (Deut. 3, 5; Barn. 16, 3), o goed neu o fetel, Esay 45, 2. Nid oedd yr hen gloion ond llithrynau (*slides*) coed yn unig, yn cael eu sicrhau gan ddannedd neu gliciedau, Can. Sol. 5, 4. Yr oedd drysau yr ystrydoedd, yn gystal a phyrth y trefi, wedi eu haddurno âg arysgrifiadau, wedi eu cymmeryd o'r Gyfraith (Deut. 6, 9). Nid oedd gwydr yn y ffenestri, ond yr oeddynt wedi eu delltio; rhoddid gorchuddiadau teneuon arnynt yn y gauaf, neu gauadau (*shutters*), a thyllau digonol ynddynt i ollwng goleuni i fewn, 1 Bren. 7, 17; Can. 2, 9.

(*d.*) Nid oedd simneiau i'r hen dai, ond gwnelid tyllau weithiau, drwy ba rai y diangai y mwg, Hos. 13, 3. Mewn tai o'r dosparth goreu, gwresogid yr ystafelloedd gan olosgoed (*charcoal*), fel y mae yr arferiad yn parhau yn y Dwyrain (Jer. 36, 22); Ioan 18, 18.

(*e.*) Y mae dodrefnau tŷ wedi bod bob amser yn ychydig a bychain yn y dwyrain. Mewn ystafelloedd eistedd, y mae cadeiriau neu seddau bychain, ac weithiau fyrddau, i'w canfod, Marc 14, 54. Yr oedd yr eisteddfa naill ai yn rhuchen (*rug*), neu fatras, ar ba un yr eisteddai y bobl yn glungroes, neu â'u cluniau wedi eu plygu danynt, neu yr oedd yn eisteddfa droediog, megys cadeiriau ac ystolau (1 Bren. 2, 19; 1 Sam. 1, 9; Diar. 9, 14; Math. 21, 12). Y gwelyau yn gyffredin oeddynt yn gynnwysedig o fatrasau a chwrlidau brodiog; nid oedd cynfasau, gwrthbanau, na choedgwelyau yn adnabyddus; er fod ysgiw bren, neu ystram (*frame*) droediog o gangenau y balmwydden, yn cael eu defnyddio ar benau y tai i osod y gwelyau arnynt (Salm 132, 3; Amos 6, 4).

(*f*). Y llestri cyffredin mewn tŷ oeddynt o bridd, neu gopr, ac yr oedd rhai o ledr; yr oeddynt yn gynnwysedig o grochanau, callorau (*kettles*), costrelau lledr, dysglau, cwpanau, &c. Lampau, wedi eu gwneuthur o bridd neu o fetel, ac a borthid gan olew yr olewwydd, a ddefnyddid i roddi goleuni yn y nos; ac yn nhai y cyfoethogion, gosodid hwynt ar seddau (*stands*), y rhai a elwid canwyll-brenau, ac yr oedd i'r rhai hyny yn achlysurol gangenau i amryw lampau (Gen. 15, 17: Ex. 25, 31—40). Cedwid lamp bob amser i losgi drwy y nos (Job 18, 6: Diar. 20, 20).

(*g.*) Yr oedd trefi Palestina yn fychain o faintioli, ond yn dra lluosog. Ymddengys mai yr unig eithriadau oedd Jerusalem, a Samaria, ac ar ol hyny Cæsarea: oddiwrth eu hamddiffadrwydd o demlau ac adeiladau cyhoeddus (oddigerth yn Jerusalem), rhaid nad oedd eu hymddangosiad ond gwael, yn enwedig drwy fod yr ystrydoedd yn hynod o gulion, marwaidd, ac heb eu palmantu. Yr oedd muriau uchel i lawer o'r trefydd hyny, hyd y nod yn amser Moses (Num. 13, 25—33); ac y mae pyrth, y rhai a olygant furiau, yn cael eu nodi mor foreu a dyddiau Abraham (Gen. 19, 1). Y rhan amlaf o'r gorchwylion cyhoeddus a ddygid yn mlaen wrth y pyrth (Gen. 23, 10, 18: Deut. 21, 19: Ruth 4, 1): yno hefyd y cynnelid y marchnadoedd, cyhyd ag y bu masgnach yr Israeliaid yn gyfyngedig yn benaf i werthiad eu cynnyrchion, neu eu deadelloedd eu hunain (2 Cron. 18, 9: Neh. 8, 1, 3): ond wedi hyny, yr oedd ganddynt mewn trefi mawrion farchnadleoedd (*bazaars*), neu ystrydoedd gorchuddiedig o fasgnachdai o'r fath ag sydd yn awr yn gyffredin yn y Dwyrain.

365. Yr oedd Gwisg yr Iuddewon yn gynnwysedig yn gyffredin o ddau ddilledyn, un o honynt oedd math o arwisg neu grys, yn dyfod yn dŷn am y corff, yn nghyd a llewis hirion, fynychaf, ac yn cyrhaedd ychydig islaw y gluniau, ac yn ddiweddarach hyd y migyrnau: a'r llall oedd wisg laes, o rai llatheni o hŷd, yn cael ei sicrhau dros yr ysgwyddau, a'i thaflu o

gylch y corff. Y wisg gyntaf yn unig a wisgid fynychaf yn y tŷ. Ystyrid hi yn gyffredin, fodd bynag, fel math o wisg gartrefol, yn mha un nid oedd yn arferol talu ymweliadau, na rhodio allan. Oddiwrth hyn y dywedir yn yr Ysgrythyr am bersonau wedi eu gwisgo yn hon yn unig, eu bod yn noeth (Esay 20, 2, 4: Ioan 21, 7: Ioan 13, 4), neu eu bod wedi gosod eu gwisgoedd o'r neilldu.

Yn gyffredin, yr oedd y llewis yn ddigon hir i guddio y dwylaw, ac ar ymweliadau defodol, defnyddid hwy i'w cuddio. Ar achlysuron a ofynent neu a olygent unrhyw ymdrech fawr a pharhaus, byddai y fraich yn cael ei dynoethi, a'r llawes yn cael ei thorchi fyny, neu ei chymmeryd ymaith, Esay 52, 10: Ezec. 4, 7.

Y wisg nesaf allan (math o fantell, neu frith-wê—*plaid*), a ddefnyddid weithiau fel gorchudd yn y nos, neu fel gwely (Deut. 24, 13; Exod. 22, 27). Yr Israeliaid wrth adael yr Aifft a rwymasant eu toes ynddi. Prophwydi ac ereill a'i rhwyment o gylch eu penau, fel arwydd o barch neu o alar (1 Bren. 19, 3; 2 Sam. 15, 30; Esther 6, 12); neu weithiau fel amddiffyniad rhag y gwlaw neu y gwynt. Pan wedi ei chynnull am ganol y corff, gelwir y wisg yn arffed (2 Bren. 4, 39), a phan wedi ei chynnull am yr ysgwyddau, gelwir hi yn fynwes (Sal. 79, 12; Luc 6, 38). Yr oedd llawer iawn o gyfoeth cenedloedd dwyreiniol yn gynnwysedig yn y gwisgoedd yma, y rhai oeddynt yn hawdd i'w cyfnewid, ac yn aml iawn a roddid neu a wisgid fel arwyddion o serch a pharch, Gen. 45, 22; 2 Bren. 5, 22.

Yn lle crys sengl, gwisgai y cyfoethogion grys o liain main, tra yr oedd yr un allanol wedi ei wneuthur o ddefnydd garwach, a'r fantell a wisgid fel dilledyn ychwanegol. Yr oedd prydferthwch y gwisgoedd yma yn gynnwysedig, nid yn eu ffurf, oblegid yr un oedd hono bob amser, ond yn eu gwŷnder, Preg. 9, 8; ac yn aml iawn yr oeddynt yn cael eu rhwygo fel arwydd o alar neu edifeirwch, Gen. 37, 34; Job 1, 20.

Yr oedd y wisg isaf wedi ei gwneuthur o liain neu gotwm, a'r un uchaf yn gyffredin o wlân, neu o wlân a blew. Amlwg yw fod y gelfyddyd o frodio (*embroidery*) i ryw raddau yn adnabyddus, Ex. 35, 35; Barn. 5, 30; ac ymddengys fod un teulu yn enwog neillduol am wneuthur lliain main, 1 Cron. 4, 21. Y lliwiau dewisolaf mewn dillad oedd gwŷn a glas, ac amryw gysgodion o goch a phorphor; a'r rhai hyn yn wir yw yr unig liwiau a nodir yn yr Ysgrythyr.

Gwisgid gwregys weithiau am y crys, neu y wisg isaf, yr hwn oedd wedi ei wneuthur naill ai o ledr, a'i sicrhau â chraff (*clasp*), neu o fwslin, yr hwn a rwymid amryw weithiau o amgylch y lwynau, Jer. 13, 1; Math. 3, 4; a defnyddid ef yn fwy cyffredin fyth am y fantell. Wrth deithio, neu ymwneyd âg unrhyw beth oedd yn gofyn ymdrech fawr, yr oedd cael y lwynau wedi eu gwregysu fel yma yn anhebgorol angenrheidiol. Yr oedd cyllell neu gleddyf yn cael eu dwyn weithiau yn y gwregys, a byddai llênyddwyr yn dwyn corn dû, a phinau ysgrifenu, 2 Sam. 20, 8; Ezec. 9, 2; pethau gwerthfawr ereill a roddid hefyd yn aml ynddo, 1 Sam. 25, 13; 2 Sam. 18, 11; Math. 10, 9. (Groeg).

Yr oedd îs-lodrau (*drawers*) yn rau o wisg yr Arch-offeiriad, a dichon eu bod, mewn amser diweddarach, yn cael eu defnyddio gan y bobl yn gyffredinol (Ex. 28, 42). Gwisgid hwynt yn agosaf at y person.

Gwisgid sandalau am y traed, y rhai oeddynt yn gynnwysedig o wadnau o ledr neu o goed, wedi eu sicrhau am y traed â chareiau (Math. 3, 11). Wrth drosglwyddo meddiant, neu gyflwyno i'r berthynas agosaf unrhyw

rwymedigaeth bersonol, yr oedd yn arferiad rhoddi i fyny un o'r sandalau (Ruth 4, 7), megys yr arferid rhoddi maneg yn y canol oesoedd. Yr oedd taflu esgid neu sandal dros wlad yn arwydd o feddianniad (Sal. 60, 8). Yr oedd cymmeryd ymaith y sandalau yn arwydd o barch (Ex. 3, 5; Deut. 25, 9). Yr oedd eu dattod, neu eu cario, yn cael ei gyflawnu yn aml gan weision, ac yr oedd gwneuthur hyn yn arwydd cyffredin o gyflwr isel a gwasaidd, Marc 1, 7; Act. 13, 25; Math. 3, 11; Esay 20, 4. Ni ddefnyddid hosanau un amser, ac yr oedd y mwyrif o'r bobl yn gyffredin yn hollol droednoeth, oddieithr yn y gauaf, neu wrth deithio.

Gadewid y gwddf yn gyffredin yn noeth, ac yn aml iawn y pen hefyd: Pan orchuddid ef, yr oedd hyny yn cael ei wneyd yn mhlith y graddau uchelaf gan fath o benrwymyn (*turban*), ac yn mhlith y bobl gyffredin gan ddarn o liain, wedi ei sicrhau âg ysnodén o gylch yr aeliau; a chan wraged, yr oedd gorchudd (*veil*) yn gyssylltiedig â'r penrwymyn yma, yr hwn a guddiai y rhan uchaf o'r person.

Yr Israeliaid a adawent i wallt y pen a'r farf dyfu; tòrid y blaenaf yn achlysurol, ac nid oedd gwneuthur defnydd rhanol o'r ellyn i drin y farf yn annghyfreithlawn. Yr oedd moelni yn annghyffredin, ac yn ddirmygedig, 2 Bren. 2, 23; Esay 3, 24: Jer. 47, 5. Y farf, fel arwydd o oedran gwr, a berchid yn fawr iawn; yr oedd ei thòri, poeri arni, ei thynu, ac hyd y nod cyffwrdd â hi, oddieithr fel cyfarchiad, yn ddirmyg dirfawr (2 Sam. 10, 4—6: 1 Cron. 19, 3—6: Esay 7, 20); ac yr oedd gwaith dyn yn cam-drin ei farf ei hunan, yn arwydd o ynfydrwydd, neu eithafion galar (1 Sam. 21, 13: 2 Sam. 19, 24; Esay 15, 2).

366. Yr oedd yr holl Ddwyreinwyr yn gyffredinol, yn nghyd â'r Israeliaid, yn syml a di-rwysg iawn yn eu LLUNIAETH, yr hwn oedd yn gynnwysedig i raddau helaeth o fara, ffrwythau, mêl, llaeth, ymenyn, a chaws. Ni ddefnyddid ond ychydig o gig, gan fod lluniaeth anifeilaidd yn cael ei chyfyngu i raddau gan y gyfraith, yr hon a waharddai i gnawd unrhyw anifail gael ei fwyta ond y rhai a gnöent y cil, ac a fforchogent yr ewin, nac unrhyw bysgod ond y cyfryw oedd âg esgyll a chèn ganddynt (Lef. 11, 1—28). Yn y ffordd gyffredinol yma, yr oedd y mochyn yn cael ei wahardd; ond am ei fod yn gyffredin yn cael ei fwyta yn y Dwyrain, yr oedd y cymhwysiad yma o'r gwaharddiad hwn o eiddo y gyfraith yn tynu mwy o sylw nâ'r lleill. Yr oedd y gwaed a'r brasder, dalen fawr yr afu, a'r arenau, yn cael eu gwahardd hefyd. Nid oedd ond ychydig ddefnydd yn cael ei wneuthur o ednod; colomenod, a'r iar gyffredin, oedd yr unig adar dofion a gedwid yn Mhalestina, oddieithr yr "ednod breision" a ddarperid i fyrddau Solomon a Nehemiah (1 Brenin. 4, 23: Neh. 5, 18). Ni sonir ond dwywaith yn unig am ŵyau fel erthyglau lluniaeth. Er fod pysgod yn meddu cèn ac esgyll yn cael eu caniatâu, etto nid ymddengys fod llawer o ddefnydd yn cael ei wneuthur o'r caniatâd yma; yr oedd pysgota, fodd bynag, yn arferiad tra adnabyddus (Job 19, 6: Esay 51, 20: Job 41, 1: Esay 19, 8). Sonir am bysgod-lynoedd yn Nghaniad Solomon (7, 4); yr oedd y Phœniciaid hyd y nod yn dwyn pysgod yn groes i'r wlad o Fôr y Canoldir i Jerusalem (Neh. 13, 16); ac ymddengys fod un o byrth y ddinas, yr hwn a elwid Porth-y-pysgod, wedi ei benodi fel lle i'w gwerthu (2 Cron. 33, 14: Neh. 3, 3).

Yn mhlith y trychfilod, gellir nodi fod caniatâd i fwyta locustiaid, Lef. 11, 22; ac yr oeddynt yn y Dwyrain yn erthygl o luniaeth cyffredin, Math. 3, 4.

Nid oedd bara yn cael ei wneuthur yn dorthau, fel gyda ni, ond yn deis-

enau, rholenau (*rolls*), a lledrogenau (*biscuits*) teneuon, ac yr oedd pob teulu yn pobi iddo ei hun, a hyny yn ddyddiol. Yr oeddid yn pobi mewn amryw ddulliau; pobid y rholen neu y deisen dewaf ar yr aelwyd boeth, a'r bara tenau ar lafnau o fetel, neu o gylch ochrau llestri pridd, neu bwll yn y llawr, Gen. 18, 6: Lef. 2, 2: 4, 5. Cyflawnid y gwaith yma ar y cyntaf, fel malu grawn, gan wragedd a merched teuluoedd, Gen. 18, 6; 2 Sam. 3, 6, 8; Jer. 7, 18; ond mewn amser, gadewid ef ar rai achosion i weision, 1 Sam. 8, 13. Nid oedd y bara a ddefnyddid yn gyffredin yn gofyn ei dòri, ond dryllid ef, Esay 58, 7: Galar. 4, 4: Math. 14, 19.

Yr oedd gan yr Iuddewon yn gyffredin ddau bryd o fwyd yn y dydd; un yn y boreu, rhwng y drydedd a'r chweched awr; a'r llall, eu prif bryd, oddeutu yr unfed awr ar ddeg, neu bump o'r gloch yn nawn y dydd. Wrth y pryd yma, yr holl westeion a ledorweddent ar lythau, wedi eu gosod o amgylch bwrdd crwn. Yn yr agwedd yma yr oedd pen un dyn yn dyfod yn agos at ddwyfron ei gymmydog, ar fynwes yr hwn, gan hyny, y dywedid ei fod yn pwyso. Oddiwrth hyn, canfyddir pa fodd y dywedodd Crist wrth Ioan pwy a'i bradychai ef, heb i'r dysgyblion ereill glywed ei ddesgrifiad, Ioan 13, 23; Diar. 26, 15. Yr oedd y traed yn cael eu hestyn allan oddiwrth y bwrdd, ac wrth reswm hwy a gyrhaeddid gyntaf gan unrhyw berson a ddelai i mewn i'r ystafell (Luc 7, 38). Oddiwrth hyn y dywedir fod y wraig a olchodd draed ein Harglwydd yn sefyll o'r *tu ol* iddo. Yr arferiad yma a fenthyciwyd oddiwrth y Persiaid; mewn amseroedd boreuach, dichon fod yr Iuddewon yn defnyddio seddau (*seats*), neu yn eistedd, fel y mae yr arferiad yn bresenol yn y Dwyrain, o gylch bwrdd wedi ei chyfodi ychydig fodfeddi uwchlaw y llawr.

Rhoddid yr ymborth yn y genau â'r llaw, heb gymhorth cyllell na fforch, ac oddiwrth hyn y tarddodd yr arferiad o ymolchi cyn ac ar ol bwyd, Marc 7, 5. Mewn amser boreu iawn, yr oedd pob gwesteiwr yn cael ei gyfran ei hun ar wahan, Gen. 43, 34; gwel 1 Sam. 1, 5; ond yn ddiweddarach, yr oedd pawb yn bwyta o'r un ddysgl.

Y ddiod a gymmerid yn gyffredin, nid yn ystod y pryd bwyd, ond ar ol hyny, oedd dwfr, neu wîn wedi ei gymmysgu â dwfr. Y gwin sur cyffredin, wedi ei gymmysgu yn y ffordd yma, a elwir yn ein cyfieithiad ni yn finegr, a hwn oedd diod arferol llafurwyr a milwyr, Ruth 2, 14; Math. 27, 48. Hwn a roddwyd gan y milwyr i'n Harglwydd, pan waeddodd, "Y mae syched arnaf." Y ddiod a gynnygiwyd iddo cyn hyny, finegr a bustl, neu wîn a myrr, Math. 27, 34: Marc 15, 23, oedd yr hwn a roddid i bersonau ag oeddynt yn nghylch cael eu dienyddio, mewn trefn i'w merwino (*stupify*) hwynt. Ein Harglwydd bendigedig a wrthododd ei yfed. Mewn llawn ymwybodolrwydd y dyoddefodd y groes, gan ddiystyru y gwaradwydd.

Y ddiod a roddid i bob gwesteiwr, yn yr hen amseroedd, a estynid iddo mewn cwpan neillduol, wedi ei gymmysgu yn barod gan ŵr y tŷ; ac oddiwrth hyn y daeth y gair cwpan i gael ei ddefnyddio yn aml i osod allan ran neu gyfran dyn, Sal. 11, 6: Esay 51, 22: Math. 26, 39. Y "gwîn cymmysgedig," yn y cyfieithiad Cymreig, nid gwîn a dwfr ydoedd, ond gwîn wedi ei wneuthur yn gryfach drwy berlysiau (*spices*), Diar. 23, 30. "Diod gref" ydoedd ddiod feddwol iawn, wedi ei gwneuthur o ffrwyth y dalbalmwydden, ac amrywiol hadau, Lef. 10, 9: 1 Sam. 1, 15.

Aml iawn y byddai olew gwerthfawr yn cael ei ddefnyddio mewn gwleddoedd i eneinnio y gwahoddedigion, Sal. 23, 5: 45, 7: Amos 6, 6. Anrhydeddwyd Crist yn y modd yma gan y wraig, Math. 26, 7. Hi a

dòrodd ŷ blwch, neu y llestr, yn brawf o burdeb yr olew; yr oedd ei wddf wedi ei selio, i ddangos mai perarogl tramor ydoedd, Marc 14, 3.

Gan fod y prif bryd o fwyd yn cael ei gymmeryd yn nawn y dydd, gelwid ef yn gyffredin yn swper. Y goleuni a'r llawenydd oedd yn y tŷ ar y cyfryw achlysuron a ddefnyddid yn aml i osod allan ddedwyddwch y nefoedd, tra yr oedd y tywyllwch oddiallan, y "tywyllwch eithaf," yn cael ei ddefnyddio i arddangos trueni y colledigion, Math. 8, 12.

367. Nid yw y drefn o DRETHU á arferid yn Mhalestina cyn dyddiau y Rhufeiniaid yn cael ei gosod i lawr yn eglur. Y cyllid breiniol, fodd bynag, a wnelid i fyny, mewn rhan, o anrhegion, 1 Sam. 10, 27: 16, 20: 2 Cron. 17, 5; o gynnyrch y dëadelloedd breninol, 1 Sam. 21, 7; 2 Cron. 26, 10: 32, 28, 29; o diroedd a gwinllanoedd wedi eu fforffedu, neu wedi eu hadennill o gyflwr naturiol, gan y brenin, 1 Bren. 21, 9—16: 1 Cron. 27, 28; o deyrnged, y ddegfed ran, mae yn debyg, o ennill y bobl, 1 Sam. 8, 15: 17, 25 (gwel Gesenius); o yspail oddiwrth genedloedd gorchfygedig, 2 Cron. 27, 5; ac mewn taliadau a gyfodid oddiar farsiandwyr a deithient drwy y diriogaeth, 1 Bren. 10, 15. Yn ddiweddarach fyth, cawn, fe allai, yn lle rhai o'r pethau uchod, doll neu dreth ar erthyglau ymborth, yn cyfateb i'n cyllid (*excise*) ni, Ezra 4, 14, 19, 20. Yr oedd y ddau yma o ddechreuad Persiaidd neu Assyriaidd. Y mae genym wybodaeth gywirach am y dull o drethu a arferid yn amser ein Harglwydd.

Yn fuan wedi darostwng Judea yn dalaeth o'r amherodraeth Rufeinig, gwnaethwyd cofrestr o enwau a meddiannau y preswylwyr, ac ar ol y cofrestriad yma, sefydlwyd hyn a hyn y pen o "dreth neu doll." Gosodid y dreth yma gan ynadon pob dinas. Achlysurodd hyn lawer o amrywiaeth barn yn Judea; a chynnyrchodd fwy nag un gwrthryfel, Act. 5, 37. Cymhellid ein Harglwydd i ymresu gyda'i phleidwyr, neu gyda'i gwrthwynebwyr, Mat. 22, 17. Telid y dreth i gasglyddion, naill ai mewn arian Rhufeinig (y *denarius*, neu y geiniog), neu mewn arian Groegaidd (y *drachma*). Fodd bynag, os yn yr olaf y telid ef, yr oedd yn ofynol i'r arian gael eu cyfnewid gan y masgnachwyr, neu y "cyfnewidwyr arian," oblegid ni dderbynid ond arian Rhufeinig yn unig i'r drysorfa Rhufeinig.

Heblaw y cofrestr-gyllid neu dreth y pen, yr oedd hefyd fasgnach-gyllid (*custom duties*), neu drethi yn cael eu talu ar nwyddau a anfonid allan o'r wlad, neu a ddygid i mewn iddi, Math. 9, 9. Yr oedd y rhai hyn wedi eu sefydlu drwy gyfraith, a chyfodid hwynt gan swyddogion y cyllid drwy eu gweision. Yn y Testament Newydd, gelwir y gweision yma yn Bublicanod, a'r swyddogion cyllidawl yn Ben y Publicanod. Profai y gyfundraeth o drefnu y cyllid yn demtasiwn gref i'r Publicanod, y rhai yn gyffredin oeddynt yn anmhoblogaidd.

Y drydedd *dreth* gyhoeddus yn Judea oedd yr hanner sicl gofynol, yn ol y gyfraith, i bob Iuddew ei dalu i drysorfa y *deml*. Telid ef bob amser mewn arian Iuddewig, a chan yr holl Iuddewon, hyd y nod y rhai oeddent yn byw allan o Balestina. Y cyfnewidwyr arian, y rhai a eisteddent yn y deml, a gasglent yr arian Iuddewig yma, drwy gyfnewid arian Groegaidd neu Rhufeinig am danynt, Math. 21, 12: Ioan 2, 16. Ystyrid y dreth yma fel yn cael ei thalu i Dduw; gan hyny, pan y mae ein Harglwydd yn awgrymu i Pedr fod plant breninoedd yn rhydd oddiwrth deyrnged, arwydda mai efe ei hunan oedd Mab Duw, Math. 17, 26.

Y mae y gwahaniaeth yma rhwng yr amryw fathau o drethi yn cael ei gadw bob amser yn y Testament Newydd gwreiddiol, ac yn gyffredin yn y cyfieithiad Cymreig.

368. Gwybodaeth o'r DULLIAU o GYFRIF a arferid yn mhlith yr Iuddewon, a'n cynnorthwya yn aml i gasglu gwersi o'r Ysgrythyrau, ac y mae weithiau yn hanfodol er rhoddi dehongliad dealladwy o iaith yr Ysgrythyr.

Y canlynol ydynt daflenau o'r pwysau, y mesurau, a'r arian, a nodir yn y Beibl. Cymmerir hwynt allan o waith Arbuthnot, fel y dyfynir ef gan Horne.

369. (1.) Pwysau Iuddewig, wedi eu darostwng i bwysau Seisnig (*troy weight*).

	Pwys.	Wns.	Ceiniog-bwys.	Gronyn.
Y gerah, yr ugeinfed ran o sicl	0	0	0	12
Becah, hanner sicl	0	0	5	0
Y sicl..	0	0	10	0
Y maneh, 60 sicl	2	6	0	0
Y dalent, 50 maneh, 3,000 o siclau	125	0	0	0

370. (2). Hŷd-fesurau yr Ysgrythyr, wedi eu darostwng i fesurau Seisnig:—

								Troed. Seis.	Mod.
Bys-led (*digit*), Jer. 52, 21								0	0·912
4	Lled llaw, Ex. 25, 25							0	3·648
12	3	Rhychwant, Exod. 28, 16						0	10·944
24	6	3	Cufydd, Gen. 6, 15					1	9·888
96	24	6	2	Gwrhyd, Act. 27, 28				7	3·552
144	36	12	6	1·5	Corsen Execiel, Exec. 40, 3—5			10	11·328
192	48	16	8	2	1·3	Trostan Arabaidd ..		14	7·104
1920	480	160	80	20	13·3	10	Llinyn mesur, Ez. 40, 3	145	11·04

371. (3). Mesurau hirion yr Ysgrythyr:—

								Milltir.	Camrau.	Troed.
Cufydd								0	0	1·824
400	Ystad, Luc 24, 13							0	145	4·6
2000	5	*Taith diwrnod Sabboth, Act. 1, 12..						0	729	3·0
4000	10	2	Milltir dwyreiniol, Math. 5, 41..					1	403	1·0
12000	30	6	3	Parasang				4	153	3·0
96000	240	48	24	8	Taith diwrnod			33	172	4·0

* A elwid felly, am mai hyn oedd y pellder rhwng y tabernacl a therfyn eithaf y gwersyll.

372. (4.) Mesurau yr Ysgrythyrau, i gynnwys hylifau (*liquids*), wedi eu darostwng i win-fesur Seisnig:—

							Galwyni.	Peintiau.
Y caph..							0	0·625
1·3	Y log, Lef. 14, 10						0	0·833
5·3	4	Y cab..					0	3·333
16	12	3	Yr hin, Exod. 30, 24				1	2
32	24	6	2	Y seah			2	4
96	72	18	6	3	Y bath, neu epha, 1 Bren. 7, 26, Ioan, 2, 6		7	4
960	720	180	60	20	10	Y corus, neu homer, Ez. 45, 14, Es. 5, 10	75	5

373. (5.) Mesurau yr Ysgrythyr, i gynnwys pethau sychion, wedi eu darostwng i rawn-fesur (*corn measure*) Seisnig :—

							Peceidiau.	Galwyni.	Peintiau.
Y gachal							0	0	0·1416
20	Y cab, neu choinix, 2 Bren. 6, 25; Dad. 6, 6 ..						0	0	2·8333
36	1·8	Yr omer, Exod. 16, 36; 29, 40					0	0	5·1
120	6	3·3	Y seah, Math. 13, 33				1	0	1
360	18	10	3	Yr ephah, Ezec. 45, 11 ..			3	0	3
1800	90	50	15	5	Y letech, Hos. 3, 2 ..		16	0	0
3600	180	100	30	10	2	Yr homer, neu y corus, Num. 11, 32; Hos. 3, 2.	32	0	0

374. (6). Arian Iuddewig, a'u gwerth mewn arian Seisnig :—

							£	s.	c.
Y gerah, Exod. 30, 13							0	0	1·2687
10	Y becah, Exod. 38, 26						0	1	1·6875
20	2	*Sicl, Exod. 30, 13; Esay 7, 23; Math. 17, 27. ..					0	2	3·375
1200	120	50	Y maneh, neu minah Hebreig, Luc 19, 13 ..				5	14	0·75
60000	6000	3000	60	Y dalent			342	3	9
Y solidus aureus, neu y sextula, oedd yn werth							0	12	0·5
Y siculus aureus, neu y sicl aur, oedd yn werth..							1	16	6
Y dalent o aur oedd werth							5475	0	0

* A fathwyd gyntaf gan Simon Maccabæus, 1 Mac. 15, 6.

Yn y daflen flaenorol, prisir arian yn ol 5.s, ac aur yn ol £4 yr wns. Yn yr hen amseroedd, yr oedd aur ac arian yn llawer prinach nag yn awr, ac am hyny, yr oedd o werth cymharol uwch. Y mae yn debyg y buasai sicl yn pwrcasu yn agos y deg cymmaint ag a wnelai swm cyffelyb yn ein dyddiau ni.

375. (7.) Arian Rhufeinig a nodir yn y Testament Newydd, a'u gwerth yn ein harian ni :—

	£	s.	c.	Ffyrling.
Yr hatling (*lepron*, neu *assarion*), Marc 12, 42	0	0	0	0¾
Y ffyrling (*kodrantes*), Marc 12, 42 .. .. oddeutu	0	0	0	1½
Y geiniog, neu y denarius (*denarion*), Math. 22, 19	0	0	7	2
Y bunt, neu y mina	3	2	6	0

Y drachma Groegaidd mewn arferiad cyffredin oedd oddeutu yr un gwerth a'r denarius. Y daric Persiaidd yw y darn bathol henaf a nodir yn yr Ysgrythyr, a'r henaf a wneir yn adnabyddus i ni gan hanesyddiaeth. Yr oedd braidd yn drymach nâ'r gini. Gwel 1 Cron. 29, 7, lle y cyfieithir ef yn *sylltau;* ac Ezra 2, 69; 8, 27; Neh. 7, 70—72, lle y cyfieithir ef yn *ddrachmonau.*

376. Gellir egluro amryw adnodau drwy y taflenau yma. Oddiwrth daflen y 3, dysgwn fod taith diwrnod Sabboth yn llai nâ milltir. Mor addysgiadol yw hyn o berthynas i gyssegredigrwydd y dydd, pan oedd pob peth tebyg i flinder corfforol yn cael ei wahardd.

Oddiwrth daflen 6, dysgir ni i ryfeddu hunan-ymwadiad mawreddog Eliseus. Cynnygiodd Naaman iddo 6,000 o ddarnau, neu siclau aur, neu

fwy nâ deng mil o bunnau. Dyma y demtasiwn o dan ba un y syrthiodd Gehazi, ac etto nid oedd yn esgusodi ei euogrwydd.

Yr un daflen a eglura afresymoldeb ysbryd anfaddeuol, a mawredd ein heuogrwydd ein hunain. Y dyledwr a daflodd ei gydwas i'r carchar am ei fod yn ei ddyled ef o 3 punt, oedd ei hunan newydd gael maddeuant am 10,000 o dalentau, neu, os arian oeddynt, uwchlaw tair miliwn o bunnau, Math. 18, 24.

Mor eglur y mae prophwydoliaeth Esay, "Dirmygedig yw, a diystyraf o'r gwŷr," yn cael ei hesbonio gan y ffaith i Judas ei fradychu am ddeg darn ar hugain o arian, neu £3 10s. 8c., y pris a delid am gaethwas fyddai wedi ei ladd gan anifail.

Oddiwrth daflenau y 4edd a'r 5ed, dysgwn anfoddlonrwydd Duw yn erbyn cybydd-dod.

"Deg cyfair o winllan a ddygant un bath, a lle homer a ddwg ephah," Esay 5, 10.

Hyny yw, un erw o dir a gynnyrcha lai nâ galwyn o win, a naw rhan o ddeg o'r hadau a gollir. Ffolineb yw anffyddlondeb ac annghrefydd yn mhob ystyr. Ofn yr Arglwydd yw dechreuad doethineb.

377. Yr oedd y dull Iuddewig o gyfrif amser yn un neillduol. Yr oedd ganddynt ddwy o flynyddau: y gyssegredig a'r wladol. Dechreuai yr un gyssegredig yn Mawrth neu Ebrill (yn ol y lleuad), mis rhyddhad meibion Israel o'r Aifft; a'r un wladol yn Medi neu Hydref, dechreuad y tymmor hau.[a] Y prophwydi a ddefnyddiant y blaenaf; a'r rhai a ganlynent orchwylion gwladol neu amaethyddol a ganlynant yr olaf. Rhenid y flwyddyn i ddeuddeg o fisoedd lleuadawl (*lunar*), a thrydydd-ar-ddeg gyda phob tair blynedd. Hyd y dychweliad o'r caethiwed, nid oedd yr un enw gwahaniaethol ar y misoedd yma, oddigerth y cyntaf, yr hwn a elwid Abib (mis y "grawn-dywysenau gleision"), neu Nisan, mis y "ffoedigaeth," Esth. 3, 7. (Gwel, Exod. 12, 33; Heb.). Wedi y caethiwed, rhoddid enwau Babilonaidd arnynt.

Y dydd *naturiol* oedd, o gyfodiad hyd fachludiad haul (megys gyda'r Rhufeiniaid), ac a ddosperthid (ar ol y caethiwed), i ddeuddeg o oriau annghyfun-hyd. Y dydd *gwladol* (*civil*) oedd o chwech yr hwyr hyd chwech yr hwyr canlynol; gwahaniaethai yn hyn oddiwrth y dydd gwladol Rhufeinig, yr hwn, fel ein heiddo ni, oedd o ganol nos i ganol nos. A dosperthid hwn etto i nos a dydd o hŷd cyfartal. Mewn amseroedd boreuol iawn, dosperthid y nos i dair gwyliadwriaeth. Y gyntaf (Galar. 2, 19) hyd ddeuddeg o'r gloch; y ganol hyd dri yn y boreu (Barn. 7, 19); a'r wyliadwriaeth foreuol hyd chwech (Exod. 14, 24.) Yn amser ein Harglwydd, fodd bynag, yr oedd y nos yn cael ei rhanu fel gyda'r Rhufeiniaid, i bedair gwyliadwriaeth, o dair awr yr un (Marc 13, 35); y drydedd o ba rai a elwid caniad y ceiliog (Math. 26, 34). Y *dydd*, a elwid yn briodol felly (o chwech yn y boreu hyd chwech yr hwyr), a renid i ddeuddeg o oriau; y drydedd, y chweched, a'r nawfed o ba rai a neilldüid i wasanaeth addoliad cyhoeddus. Cedwir y dosparthiad yma o hyd yn mhlith yr

[a] Dywed y Rabbiniaid fod y flwyddyn yn dechreu yn Mawrth, megys y gwneiai y flwyddyn Rufeinig, ac yn Medi; ond y tebygolrwydd yw, ei bod, mewn amseroedd *boreuach*, yn dechreu, y naill gyda'r newydd-loer yn Ebrill, a'r llall gyda'r newydd-loer yn Hydref. Gwel Jahn *Archæologia Bib.*, § 103.

Iuddewon. Mewn amseroedd boreuol iawn, ac hyd y caethiwed Babilonaidd, dosperthid y dydd i'r rhanau canlynol:—

Tòriad y dydd.	Canol dydd, am 12 o'r gloch.
Y boreu.	Nawn y dydd, o 3 o'r gloch hyd 6.
Gwres y dydd, o 9 o'r gloch hyd 12.	A'r hwyr.

O'r chweched awr (neu ddeuddeg o'r gloch) hyd derfyn y dydd, a elwid yn hwyr. Dosperthid y rhan yma o'r dydd yn ddwy gyfran, a phob un o honynt a elwid yn hwyr, Exod. 12, 6; Lef. 23, 5 (gwreiddiol).

378. Y mae y gwahaniaethau yma yn egluro amryw adnodau.

Ac yn nghylch yr unfed awr ar ddeg, dywedodd y meistr wrth y llafurwyr, "Paham y sefwch chwi yma *ar hyd y dydd yn segur?*" (Math. 20, 6). Gyda ni nid ydyw etto yn brydnawn ar yr unfed awr ar ddeg; gyda'r Iuddewon, yr oedd oddeutu awr cyn machludiad haul..... Y ffeithiau yma a wnant ymresymiad Pedr yn rymus. Canys (eb efe) y drydedd awr o'r dydd yw hi (naw o'r gloch), Act. 2, 15, amser yr aberth boreuol, cyn yr hwn nid oedd yr Iuddewon yn bwyta nac yn yfed.

Ar ddydd y croeshoeliad, dywedir, "A thywyllwch a fu ar yr holl ddaear (*dir*) o'r chweched hyd y nawfed awr;" hyny yw, o ddeuddeg o'r gloch hyd dri. Cedwid y pasg bob amser ar y llawn loer; nis gallasai y tywyllwch yma, gan hyny, gymmeryd lle yn ol rhediad cyffredinol anian, drwy ddiffyg ar yr haul..... Ar y nawfed awr y gwaeddodd Crist â llef uchel, ac yn fuan wedi hyny (neu "*rhwng yr hwyr*," ar amser offrymiad yr hwyrol aberth) efe a drengodd..... Dywed Ioan i Pilat ddwyn yr Iesu allan at y bobl, "yn nghylch y chweched awr" (Ioan 19, 14); gan gyfrif, fe allai, o ganol nos, dechreuad y dydd gwladol Rhufeinig. Wedi dymchweliad y wladwriaeth Iuddewig, er mwyn cyfrif, yr oedd yn fwy naturiol mabwysiadu dydd Gwladol Ewrop a'r Aifft.

Ar y bedwaredd wyliadwriaeth o'r nos, neu oddeutu tòriad y wawr, yr aeth Iesu at ei ddysgyblion ar y môr. Yr oedd, gan hyny, wedi treulio yr holl nos mewn gweddi, Marc 6, 48.

Rhoddir y ganmoliaeth fwyaf i'r gwas, yr hwn a gafodd ei Arglwydd yn gwylio ar yr ail a'r drydedd wyliadwriaeth; h. y., o naw i dri, Luc 12, 38.

Y mae yn angenrheidiol sylwi fod yr Iuddewon, a Dwyreinwyr ereill, yn gyffredin, yn llefaru am unrhyw ran o ddydd, neu dymmor o amser, fel pe byddai yn gyflawn.

Felly dywedodd Iesu, "Wedi tridiau yr adgyfodaf," Math. 27, 63, er na fu ond diwrnod a hanner yn y bedd, sef o fachludiad haul ddydd Gwener hyd dòriad y wawr ar y Sul. Awgrymai hefyd, gan ddyfynu o Jonah, y buasai efe yn y bedd dri diwrnod a thair nos; hyny yw, rhan o dri o ddyddiau gwladol gwahanol; dydd a nos, yn meddwl diwrnod o bedair awr ar hugain, Math. 12, 40; 1 Sam. 30, 12, 13. Yn yr un modd y gelwir wythnos yn wyth niwrnod yn Ioan 20, 26, megys y gwneir yn fynych yn yr Almaenaeg.

379. Cyfeirir at lawer o arferion ereill yn yr Ysgrythyr, ar ba rai y mae yn anmhosibl ymhelaethu.

Er enghraifft, Iuddewon cyfoethog, yn yr hen amseroedd, a ddysgent rhyw lawgelfyddyd i'w plant, er eu darparu gyferbyn âg unrhyw gyfnewidiad a allai ddygwydd er gwaeth yn eu hamgylchiadau bydol; ac felly, cafodd Paul addysg dda, a dysgodd wneuthur pebyll, Act. 18, 3.

Yn amser y Pasg, pobl Jerusalem a ddarparent ystafelloedd neillduedig, yn mha rai y gallai unrhyw ddyeithrddyn gadw yr wyl; ac o herwydd

hyn yr anfonodd Crist Pedr ac Ioan, heb unrhyw bryder, i chwilio am oruwch-ystafell i'r amcan yma, Marc 14, 15.

Yn Rhufain, yn yr hen amseroedd, yr oedd plant yn cael eu mabwysiadu, ar y cyntaf, yn ddirgelaidd; ar ol hyny, daeth y *mabwysiad* i gael ei gadarnhau gan ddeddf gyhoeddus; a'r plant a fabwysiedid felly a ddelent yn etifeddion i'r rhai a'u *mabwysiedent*. Oddiwrth hyn y dywedir yn Rhuf. 8, fod Cristionogion wedi eu mabwysiadu; ac etto eu bod yn dysgwyl y mabwysiad, sef prynedigaeth eu cyrff; hyny yw, eu harddeliad cyhoeddus ar ddyfodiad yr Arglwydd, adn. 23.

Y cyfarchiad cyffredin yn y Dwyrain oedd cusan; weithiau ar y farf (2 Sam. 20, 9), weithiau ar y rudd; cusan parch a mawrygiad oedd ar yr ael (Gen. 27, 26; Exod. 4, 27; 1 Sam. 10, 1; Salm 2, 12; Act. 20, 37.) ..... Wrth gyfarfod, arferai yr Iuddewon lawer o ddefodau; ac am hyny yr oedd personau a anfonid ar negeseuon pwysig yn cael eu gwahardd i gyfarch gwell i neb ar y ffordd (2 Bren. 4, 29; Luc 10, 4)..... Y cyfarchiad arferol oedd, "Heddwch fyddo gyda thi" (Barn. 19, 20; 1 Sam. 25, 6); gellir gweled ffurfiau ereill yn Ruth 3, 10; 2, 4; Sal. 129, 8.

Wrth dalu ymweliad â phersonau uwchraddol, yr oedd dynion yn gyffredin yn dwyn anrhegion gyda hwynt (Diar. 18, 16; Job 42, 11). Breninoedd a thywysogion hefyd a roddent anrhegion fel arwydd o fawrhad (Gen. 45, 22, 23: Esther 8, 15: 1 Sam. 18, 4). Yr oedd peidio gwisgo gwisgoedd a roddid fel hyn yn dramgwydd mawr (Math. 22, 11, 12).

Dirmyg a ddangosid drwy gam drin y farf, drwy boeri yn y wyneb, drwy osod dynion i gyflawnu gorchwylion isel (Barn. 16, 21; Galar. 15, 13), drwy guro y dwylaw (Job 27, 23), drwy daflu gwaradwydd ar fam dyn (1 Sam. 20, 30; 2 Sam. 3, 39; 16, 10; 19, 22), drwy ddianrhydeddu y marw (Jer. 26, 23; 8, 1; 16, 5—7.)

Nid oedd gwestdai fel ein heiddo ni yn yr amseroedd boreuaf, ac arosai teithwyr yn gyffredin yn yr heol, neu wrth y porth, hyd oni waboddid hwynt i ryw dŷ (Gen. 19, 2; Barn. 19, 15—21). Yn amser ein Harglwydd, yr oedd lleoedd o dderbyniad i'w cael, lle yr oedd lletty wedi ei ddarparu; ond rhaid oedd i bob llettywr ddwyn ei luniaeth, ei danwydd, a'i wely ei hunan. Yn ystabl y cyfryw westdy, am nad oedd lle yn y rhan o hono oedd yn llettyfa, y ganwyd Ceidwad y byd. Yr oedd lleoedd cyffelyb, ond fe ddichon heb breswylwyr parhaus, i'w cael yn ymyl y prif ffyrdd hyd y nod yn nyddiau y patriarchiaid (Gen. 42, 27; 43, 21; Exod. 4, 24). Y mae lleoedd o'r fath i'w cael o hyd yn y Dwyrain; gelwir y blaenaf yn *khans*, a'r olaf yn *caravanserais*.

Pan fyddai person farw, ei berthynasau a rwygent eu dillad o'r pen i'r traed, a gwnaed rhwygiad llai gan edrychwyr; galarwyr cyflogedig hefyd a ychwanegent, yn aml, at arwyddion y galar, drwy eu llefau a'u peroriaeth (Jer. 9, 17, 18; Math. 9, 23; Act. 9, 39). Yr oedd balmeiddio (*embalm*) yn gyffredin; ond, oddieithr yn yr Aifft, ymddengys nad oedd y gorchwyl yn cynnwys fawr ond eneinniad y corff â chyfferi peraroglus, a'i rwymiad mewn lliain. Yr oedd y gladdedigaeth yn cymmeryd lle o fewn pedair awr ar hugain ar ol y farwolaeth; ni ddodid y corff mewn arch, ond tyn-rwymid ef o'r pen i'r traed ar elor agored, a dygid ef felly i'r gladdfa, yr hon oedd bob amser, oddigerth mewn cyssylltiad â breninoedd a dynion nodedig, dipyn o bellder o'r ddinas. Yr oedd claddfa gyffredin i'r tlodion; ond yr oedd teuluoedd yn aml â'u beddau yn eu maesydd neu eu gerddi eu hunain. Ni chyflawnid unrhyw ddefod neillduol

wrth y bedd, ond terfynid y dydd drwy wledd angladdol (2 Sam. 3, 35; Hos. 9, 4). Dangosid galar ar ol hyny drwy ddillad rhwygedig a sachliain, weithiau drwy orchuddio y wyneb, ac weithiau drwy daenellu llwch ar y pen (2 Sam. 3, 31; 19, 4; Job 2, 12). Naddid y beddau yn gyffredin yn y creigiau, gydag ogofâu o amgylch iddynt, a phob un o honynt yn cynnwys corff (Job 10, 21, 22; 33, 18; Sal. 88, 6; Esay 14, 9—19; 38, 10; Ezec. 32, 18.)

Cospedigaeth caethion yn unig oedd *croeshoeliad*, neu ddynion y bwriedid sefydlu y gwaradwydd mwyaf arnynt. Nid oedd yn gospedigaeth Iuddewig, ac ni weinyddid hi ar ddinesydd Rhufeinig. Ac fel hyn traddodwyd Crist i'r cenedloedd, a chyfrifwyd ef gyda'r troseddwyr yn ei farwolaeth, Math. 20, 19.

Ar wyl y pebyll, y bobl ("ar y dydd diweddaf o'r wyl") a *dynent ddwfr* o ffynnonell Siloam, yr hon a ddeuai allan o'r graig yn agos i'r deml. Yfent ran o'r dwfr yma yn nghanol bloeddiadau gorfoleddus; cânai y bobl eiriau Esay, "Mewn llawenydd y tynwch ddwfr o ffynnonau iachawdwriaeth;" a'r rhan arall a dywalltent ar yr aberth hwyrol; gwel Ioan 7, 37.

Yn amser ein Harglwydd, yr oedd yn arferiad gyffredin i *freninoedd* Syria fyned i *Rufain*, i gael eu teitlau wedi eu cadarnhau gan yr amherawdwr a'r senedd, neu i geisio eu ffafr. Aeth Herod Fawr at Augustus, a'i feibion a ymwelasant â Rhufain i'r dybenion yma. Aethant, yn ol fel y mae ein Harglwydd yn mynegu, "i dderbyn teyrnas, ac i ddychwelyd," Luc 19, 12. Yr arferiad yma a eglura y cyfeiriadau achlysurol tuag ati a wneir mewn llawer o'r dammegion; ac y mae yn rhoddi prawf anunion-gyrchol o wirionedd yr efengyl.

Potelau yr henafiaid a wneid, nid o wydr, ond o grwyn; ac am hyny, hwy a grebychent yn y mwg (Sal. 119, 83), ac a holltent os gosodid ynddynt win newydd neu eplesedig, Math. 9, 17.

Wrth brofi dyn, yn yr hen amseroedd, a gyhuddid o droseddau yn erbyn y wladwriaeth, y dinaswyr a'i profent a bleidleisient dros ei ryddhad drwy ollwng *careg wèn* i flwch, a thros ei gondemniad drwy ollwng iddo *gareg ddu*. Am hyn y dywedir y bydd i'n Harglwydd roddi i bob un sydd yn gorchfygu gareg wèn (Dad. 2, 17).

Yr oedd llawer o arferion yn yr hen amser yn gyssylltiedig â selio. Yr oedd y *sêl*, yr hon yn gyffredin oedd sêl-fodrwy (*signet-ring*), yn dwyn enw y perchenog, yn diogelu y gwrthddrych, Job 14, 17, ac yn sicrhau dirgelwch, Esay 29, 11. Yr oedd yn rhoddi awdurdod a chyfanrwydd i bapyrau, Neh. 9, 38; Esther 8, 8; Dan. 6, 9, 13, 17; neu yr oedd yn nodi y gwrthddrych fel meddiant neillduol y person y byddai ei sêl wedi ei gosod arno, 2 Tim. 2, 19; Rhuf. 4, 11; Dad. 7, 2, 3.

380. (vii.) Y mae gwybodaeth o DDAEARYDDIAETH, o dan ei dosraniad dyblyg o hanesyddol ac anianyddol (*historical and physical*), o ddefnydd mawr mewn myfyrdod o'r Ysgrythyr.

381. Y Beibl a'n cyfeiria at ranau uchel Armenia, a'r dyffrynoedd tor-eithiog rhwng y Tigris a'r Euphrates, fel preswylfa gyntaf dynoliaeth ar ol y diluw. Balchder ac eilun-addoliaeth Sinaar a'u gwasgarodd. Sem a'i ddisgynyddion a feddiannasant yr orynys (*peninsula*), rhwng y Môr Dû a'r Môr Indiaidd; Cam a feddiannodd Affrica; ac wedi peth amser, Japheth a feddiannodd Ewrop, a rhan o Asia.

Wrth fyned yn mlaen i'r Deau-ddwyrain o Ararat, deuwn i Fynydd Libanus yn Mhalestina, a chawn o'n cylch "diroedd y Beibl." Wrth

edrych i'r Deau o'r fan yma, ar ein llaw aswy, yn mhell dros yr anialwch Syriaidd, y mae yr Euphrates a'r Tigris, y rhai, gan gyfodi yn Armenia, a redant i'r llynclyn Persiaidd; ac wrth lifo, amgylchant y wlad a elwir Mesopotamia ("rhwng yr afonydd"). Ar lànau yr afonydd yma y ffurfiodd dynion gyfeillachau gyntaf; cyfododd dinas Babilon ar yr Euphrates, a dinas Ninefeh ar y Tigris.

Rhwng yr Euphrates a'r ucheldir gwastad, o du y dwyrain i'r Iorddonen, y mae Arabia Deserta (anial); i'r deau, Arabia Petrea (greigiog), a Phetra yn brif ddinas iddi; yn fwy byth i'r deau, ac yn cyrhaedd hyd y Môr Indiaidd, a'r llynclyn Persiaidd, y mae Arabia ffrwythlawn, o'r hon (neu drwyddi) y dygid aur a pherlysiau hanesiaeth ddwyreiniol.

382. Gan ddychwelyd i Libanus, ac edrych (o hyd i'r deau) ar y diriogaeth islaw i ni, cawn Balestina, a Phœnicia ar ei goror ogleddol (goror Tyrus a Sidon), a Philistia ar ei thu deheuol. Wrth edrych am foment i'r Gogledd (gan dybied ein bod yn sefyll ar Hermon, lle yr ymddengys Libanus ac Antilibanus fel yn ymuno), cawn ddwy gadwyn o fryniau yn rhedeg drwy yr oll o Syria, Libanus, ac Antilibanus, hyd nes y collir hwynt yn Asia Leiaf; y tir a gylchynant a elwir Cœle Syria (neu Syria Geuawl); gelwir ef hefyd Gwastadedd Libanus; enw ei brifddinas yw Baalbec—dinas yr *haul*. Wrth edrych etto i'r deau, cawn y cadwyni yma yn rhedeg drwy yr oll o Balestina, hyd nes y collir yr un ar y llaw chwith yn y Môr Coch, a'r un ar y llaw ddeau yn ngorynys Sinai, mangre crwydriadau yr Israeliaid am ddeugain mlynedd.

I'r gorllewin i'r tir olaf yma y mae yr Aifft yn gorwedd.

383. Yn union odditanom, ar y tu aswy, y mae dinas Damascus, yr hon sydd byth yn enwog am ragfarn a ffrwythlondeb; ar y llaw ddeau y mae dyfroedd gwyrddion di-lanw Môr y Canoldir, yn cyssylltu marsiandïaeth Ewrop â marchnadoedd y Dwyrain; ac yna yn olynol, Cyprus, Crete, Malta, a Sicily—"ynysoedd y môr." Os edrychwn yn uniawn i'r llaw ddeau, awn i mewn i Asia Leiaf, taleithiau amrywiol yr hon a nodir yn yr Actau. Os rhedwn i'r gorllewin, a chroesi Mor Ægea, deuwn i Hellas, neu Groeg ("Achaia"), lle y cawn Macedonia yn y gogledd, a Thrace yn y gogledd-ddwyrain. O Macedonia, Illyricum a ymestyna yn mlaen ar linell ogledd-orllewinol. Gan groesi y Môr Adriataidd, glaniwn yn Brundisium, yn yr Eidal, awn yn mlaen oddiyno dros y creigiau Appeninaidd i Rufain, ar eu hochr orllewinol. Gallwn deithio oddiyno ar hyd y tir dros yr Alpau, neu ar y môr, drwy lynclyn Genoa i Ffrainc (Gaul); ac o Ffrainc, dros y Pyrenees i'r Yspaen; a chan fyned rhagom i'r deau, deuwn i "Tarsis." Hwyliwn oddiyno ar hyd oror ogleddol Affrica, nes cyrhaedd drachefn Garmel a Libanus.

Gan sefyll o hyd ar fynydd Hermon, ar yr aswy, y tu hwnt i'r Iorddonen, cawn uchel-diroedd Gilead a phorfeydd-dir Basan. Y mae yr holl wlad yn ardderchog a ffrwythlawn. Dywed Buckingham fod y dyffryn-oedd wedi eu llenwi â grawn, ac âg olewwydd; a'r bryniau wedi eu gorchuddio â gwinwydd. Gwel, Num. 32, 1—4. Yma, ar y tu deau, yr oedd tiriogaethau Ammon, Moab, ac Edom.

384. Rhwng y gadwyn o fynyddau a ymestyna yn groes i'r rhan hono o'r wlad a orwedd ar du dwyreiniol yr afon, a chadwyn Libanus, yr hon, ar yr ochr orllewinol, a ymestyna i'r deau (dan yr enwau, mynyddoedd Naphtali, mynyddoedd Ephraim, neu Israel, a mynyddoedd Judah), y gorwedd dyffryn yr Iorddonen; yn cynnwys Llyn Gennesaret (neu Fôr

Tiberias), yr Iorddonen ei hun, a'r Môr Marw. Holl hŷd yr Iorddonen, yn nghyd a'i gŵyriadau, sydd oddeutu 200 milltir; a lled Môr Gennesaret sydd o wyth i ddeg. Cymharer Math. 14, 23, a Ioan 6, 19. Ar y tu gorllewinol i'r rhes yma o fynyddoedd, a rhyngddi hi a'r môr, y mae rhandir Tyrus, yn nghyd a gwastadedd neu ddyffryn Saron, a gwlad y Philistiaid. O du y deau, "y ffordd y delych i Gaza," sydd anialdir; ac felly terfyna y gwastadedd arforawl yn anialwch Gaza; y canolbarth, neu wastadedd yr Iorddonen, yn anialwch Sinai; a'r parth o'r tu hwnt i'r Iorddonen, yn anialdiroedd Edom.

Esay 35, 2; Can. 2, 1.

385. Wrth edrych etto ar y parth nesaf atom, nid ydyw yn anhawdd nodi dyffryn trionglawg yn ymagor at y môr wrth Fynydd Carmel, un o derfyniadau mynyddoedd Israel, a mynyddoedd Nephtali, neu Galilea, a rhan arall o'r un gadwyn, mynyddoedd Gilboa, yn ffurfio yr ochrau ereill iddo. Yr ydys wedi galw y gwastadedd yma yn olynol wrth yr enwau dyffryn Esdraelon, dyffryn Jezreel, a dyffryn Megiddo. Yr afon Cison, "yr hen afon" hono, a ddylifa drwyddo i'r Môr Mawr, nid yn mhell o Acre, Barn. 4, 13; 5, 21. Gorwedd tref fechan Nazareth yn mhlith y bryniau ar du y gogledd. Y dyffryn yma oedd maes buddugoliaethau Deborah a Barac, Gideon, y Philistiaid yn eu rhyfel olaf â Saul, Ahab ar Benhadad, a'r Aifftiaid ar Josiah. Yr Assyriaid a'r Persiaid, y Croesgadwyr (*Crusaders*), a'r Saraceniaid, yr Aifftiaid a'r Tyrciaid, yr Arabiaid a'r Ffrancod, a ymladdasant yma: ac ar y rhyfel-faes hwn o eiddo y cenedloedd yr ennillodd Bonaparte un o'i fuddugoliaethau ychydig cyn iddo gael ei orfodi i ollwng ei afael ar Syria. Cyfyd mynydd Tabor ar du gogleddol y gwastadedd.

Barnwyr 4, 12—24; 1 Sam. 31; 1 Bren. 20; 2 Bren. 23, 29.

386. Os canlynwn, fel hyn, hanes lleoedd neillduol a nodir yn yr Ysgrythyr, cawn yr ymarferiad yn nodedig o ddyddorawl ac addysgiadol.

Rhwng Jerusalem a Beerseba, ac oddeutu ugain milltir o bob un o'r lleoedd hyn, y gorwedd un o'r dinasoedd henaf yn y byd, yr hon yn awr a breswylir gan oddeutu 6,000 o Arabiaid, sef dinas Hebron. Yma y bu Abraham, Isaac, a Jacob yn byw; yma y derbyniasant yr addewid, ac insel y cyfammod; ac yma y claddasant eu gwragedd. Yn nyddiau yr ysbïwyr, preswylid hi gan feibion Anac. Josua a'i dinystriodd, a rhoddwyd y lle i Caleb. Pan adeiladwyd hi, daeth yn un o'r dinasoedd Lefiaidd; yma yr eneinniwyd Dafydd yn frenin ar Israel; yma y llofruddiwyd Abner; yma y sefydlodd Absalom ei brif wersyllfa yn ystod y gwrthryfel; ac uwchlaw un o lynoedd Hebron (amryw o ba rai sydd etto yn aros) y crogodd Dafydd lofruddwyr Isboseth.

Num. 13; Jos. 10, 37; 14, 13; 2 Sam. 2, 11; 3, 27; 15, 7, 12.

Oddeutu ugain milltir i'r dwyrain o Jerusalem y gorwedd dinas Jericho; ond nis gellir ei chyrhaedd ond ar hyd ffordd unig a pheryglus (y Ffordd Waedlyd y gelwid hi yn nyddiau Jerome). Yn ngolwg muriau hon y darfyddodd y manna. Dymchwelwyd hi yn nyddiau Josua, a chyhoeddwyd melldith ar bwy bynag a'i hadeiladai,—melldith a gyflawnwyd 520 mlynedd wedi hyny ar Hiel. Yr oedd yn ysgol i'r prophwydi yn amser Eliseus. Yma y bu farw Herod Fawr. Ymwelwyd â'r ddinas unwaith gan ein Harglwydd, pryd y llettyodd yn nhŷ Zacceus.

1 Bren. 16, 34; 2 Bren. 2, 4, 5; Math. 20, 29, 30.

Rhwng Jericho a'r Iorddonen y gorwedd tref Gilgal, lle y gosodwyd i fyny y deuddeg careg a gymmerwyd o'r afon, pan aeth yr Israeliaid drwy-

ddi. Yma yr aberthodd Samuel, y cynnaliai ei lysoedd, ac y cydnabyddodd Saul fel brenin. Ac yr oedd yma hefyd un o ysgolion y prophwydi. Yr oedd yn nyddiau Ahas, fodd bynag, yn fangre eilun-addoliaeth, ac yn wrthddrych melldithion y prophwydi. Y lle yn yr hwn yr adnewyddodd plant Israel eu cyfammod â'n Duw, a'r lle o'r hwn yr oedd mor aml wedi myned i fyny gyda'u lluoedd, a ddaeth fel hyn yn halogedig gan eilun-addoliaeth, Jos. 4, 19; Hos. 9, 15.

Os olrheiniwn hanes Silo, y lle a ddewisodd Josua i'r Tabernacl, ac yn yr hwn yr arosodd am fwy nâ 400 mlynedd, hyd amser Eli, cawn yn fyr hanes un o'r dinasoedd mwyaf ffafredig, ond a gafodd ei gwrthod wedi hyny, Jos. 18, 1—10; Barn. 21, 19—23; 1 Sam. pen. 1—6; 1 Bren. 11, 29; 12, 15; 14, 2, &c.; Salm 78, 60; Jer. 7, 12—14; 26, 6.

Gellir casglu y teimladau neillduol gyda pha rai yr ymwelodd Jacob â Beersheba, lle y bu yn offrymu aberth (Gen. 46, 1), oddiwrth Gen. 31, 33; 22, 19; 26, 23—25. Yr oedd llawer o amgylchiadau santaidd wedi ei gwneuthur eisoes yn dra anwyl iddo.

Bydd i nodiad byr ar Balestina daflu goleuni ar amrywiol ranau o'r Hen Destament a'r Newydd.

Palestina.

387. *Ei Henwau.*—Gelwir hi y byd,[a] y ddaear neu y tir. Oddiwrth hyn y dywedir fod Solomon yn teyrnasu o'r afon (Euphrates) hyd derfynau y ddaear, Salm 72. Y mae i'r geiriau yma, yn mherson Crist, gyflawniad sydd fyth yn helaethach. Y wlad a orweddai i'r tu deau o Judea oedd Arabia, ar ymyl eithaf pa un (oddiwrth y môr), yr oedd dinas Sheba, neu Saba. Ac oddiwrth hyn y dywedir fod brenines Sheba wedi dyfod o eithafoedd y ddaear i wrandaw doethineb Solomon.

Cafodd y wlad ei phreswylio yn fore gan ddisgynyddion Canaan, ŵyr Noah (Gen. 11). Oddiwrth hyn y cafodd ei galw yn wlad *Canaan.* Gelwid hi oddiwrth ddisgynyddion Jacob, yn wlad *Israel.* Oddiwrth y ffaith mai llwyth Judah yn unig braidd a'i meddiannai ar ol y caethiwed, gelwid hi Judea (Salm 76, 1). Oddiwrth y cyfammod a wnaeth Dnw âg Abraham, ac â'i hâd, gelwid hi yn wlad yr addewid, Gen. 12, 7; 13, 15; Ex. 15, 14; Heb. 11, 9. Ac oddiwrth y Philistiaid, neu y Pali (bugeiliaid), y rhai a breswylient ei gororau deheuol, gelwid hi Palestina. Tir Duw, Lef. 25, 23, y tir santaidd, ydynt hefyd yn enwau a roddir arni yn yr Ysgrythyr. Dylid nodi, fodd bynag, fod *terfynau y wlad* i ba un y rhoddir yr enwau yma wedi amrywio ar wahanol adegau.

Ei Maint a'i Rhaniadau.—Hŷd holl dir Israel, o Dan i Beerseba, oedd yr un a'r pellder o Gaerefrog (York) i Lundain, neu oddeutu 200 milltir; ac yn ei rhanau lleiaf yr oedd yn llai nâ'r pellder o Gaerefrog i Lynlleifiad, neu oddeutu 90 milltir. *Am saith canrif wedi y gwasgariad,* preswylid hi gan y Canaaneaid, y rhai a'i rhanent rhwng deg o genedloedd. Wedi hyny, daethant i lawr i saith, Gen. 15, 18—21; Deut. 7, 1; y cryfaf o honynt oedd yr Amoriaid, a'u henw a ddefnyddir weithiau am y cyfan, Gen. 15, 16. *Pan aeth yr Israeliaid i Ganaan,* yr oedd y Philistiaid, y Moabiaid, y Midianiaid, yr Ammoniaid, a meibion Amalec ac Edom, yn preswylio ar ei chyffiniau, a rhai o honynt o fewn ei therfynau. Dosranodd *Josua* y wlad i ddeuddeg rhan; rhoddodd ran i bob llwyth,

[a] Luc 2, 1; Act. 11, 28; Luc 4, 25; 21, 26: Iago 5, 17.

gan gyfrif Ephraim a Mannaseh yn mhlith y llwythau; ac yr oedd rhan Lefi rhwng y lleill.

Yn y *Gogledd* y preswyliai Aser, Naphtali, Zabulon, ac Issachar; wedi hyny, Galilea y Cenedloedd, a Galilea Briodol.

Yn y *Canol*, Ephraim a hanner llwyth Mannasseh; wedi hyny, Samaria.

Yn y *Deau*, Judah, Benjamin, Dan, a Simeon; wedi hyny, Judea.

Y tu hwnt i'r Iorddonen, Reuben, Gad, hanner llwyth Mannasseh; wedi hyny, Perea, &c.

O dan deyrnasiad Solomon, y deyrnas a helaethwyd yn fawr, a daeth y gwahaniaeth rhwng y llwythau yn llai canfyddadwy. Yr oll o'i diriogaeth ef, gan hyny, a ranwyd o'r newydd i ddeuddeg dosparth, pob un o dan ei swyddog priodol (1 Bren. 4, 7—19).

Ar farwolaeth Solomon, deg o'r llwythau a wrthryfelasant yn erbyn Rehoboam ei fab, a ffurfiasant deyrnas Israel, prif-ddinas yr hon oedd Sichar, neu Sichem. Y llwythau ereill, Benjamin a Judah, yn nghyd a rhanau o Dan a Simeon, a ffurfiasant deyrnas Judah, prif-ddinas yr hon oedd Jerusalem. Y rhaniad yma, fodd bynag, a beidiodd, wedi dymchweliad teyrnas Israel gan Shalmaneser, yr Assyriad, wedi iddo barhau am 254 o flynyddau, a'r wlad a syrthiodd yn olynol i ddwylaw yr Assyriaid, y Groegiaid, yr Iuddewon (dan y Maccabeaid), a'r Rhufeiniaid.

Yn amser ein Harglwydd, yr oedd y wlad yn rhanedig i bump o dalaithau. 1. Galilea, yr hon a gynnwysai y rhan fwyaf o olygfeydd ei weinidogaeth bersonol ef, ac o'r hon y dewisodd y rhan fwyaf o'i ddysgyblion, Esay 9, 1; Math. 2, 22, 23; Luc 4, 14; Math. 26, 69; 28, 7, 16. Yr Iuddewon a ddirmygent y dalaeth yma, oblegid ei phellder o Jerusalem, ei chyssylltiad â'r Samariaid, yn nghyd ag anmhurdeb yr iaith a leferid gan y bobl, Marc 14, 70. 2. Samaria, yr hon a gynnwysai ganolbarth y deyrnas, ac a wahanai Galilea oddiwrth Judea, Ioan 4, 4. 3. Judea, yr hon oedd yn agos o'r un helaethrwydd a hen deyrnas Judah. 4. Talaeth Perea (neu tu hwnt i'r Iorddonen), yr hon a gynnwysai Abilene, lle yr oedd Lysanias yn detrarch, Luc 3, 1, Trachonitis, Iturea neu Auranitis,[a] Gaulonitis,[b] Batanea, yr hen Basan, ond yn llai ëang, Perea Briodol (rhwng yr Arnon a'r Jabboc), lle y tòrwyd pen Ioan, a Decapolis (neu ddosparth y deg ddinas). 5. Idumea, tiriogaeth a ychwanegwyd gan y Rhufeiniaid. Cynnwysai ranau deheuol eithaf Judea, yn nghyd a rhan fechan o Arabia. Wedi peth amser, ymgymmysgodd yr Idumeaid â'r Ishmaeliaid.

388. Y rhaniadau yma, mewn amseroedd diweddarach, ydynt wedi myned drwy amryw gyfnewidiadau. Yn y bummed ganrif, dosparthwyd y wlad i dair o ranau, Judea a Samaria; Galilea a Thrachonitis; Perea ac Idumea. Yn amser rhyfeloedd y groes, sefydlwyd esgobaethau yn y prif ddinasoedd. O dan yr awdurdod Dyrciaidd ddiweddar, y mae yr holl wlad wedi ei rhanu rhwng y Pachaliaid, neu lywodraethau Acre a Damascus.

389. Hyrwyddir myfyrdod o'r Ysgrythyr Santaidd, drwy gael meddylddrych priodol am raniadau y wlad, ac am gyfnewidiadau y llywodraeth yn amser ein Harglwydd.

[a] 1 Cron. 1, 31 (oddiwrth Jetur); Ezec. 47, 16, 18; Hauran.
[b] Jos. 20, 8.

Herod Fawr a deyrnasa o c. c. 37 hyd c. c. 3, drosodd

Judea, Samaria, Idumea.	Galilea, Perea Briodol.	Trachonitis ac Iturea.
Cyllid, 400 o dalentau (oddeutu un filiwn o bunnau.)	Cyllid, 200 o dalentau.	Cyllid, 100 o dalentau.
Gadawa y rhai hyn i'w fab,	Gadawa y rhai hyn i'w fab,	Gadawa y rhai hyn i'w fab,
Archelaus, yr hwn a alltudiwyd ar dalaeth a osodwyd dan raglawiaid, o ba rai un o'r penaf oedd	*Herod Antipas*, yr hwn a dòrodd ben Ioan.	*Philip Herod* (Ioan 4).
Pontius Pilat, o. c. 7 i 36 (bu farw 36).	Herod Antipas yn cael ei alltudio (40).	Philip yn marw (37).

Herod Agrippa (ŵyr Herod) yn cael ei wneyd yn frenin ar y cyfan (Act. 12), o. c. 41—44.

Herod Agrippa yn marw, o. c. 44.

Llywiawdwyr Rhufeinig. Ffadus Alexander. Ffelix (y 4ydd Lywiawdwr). Ffestus (y 5ed Lywiawdwr)	Agrippa (mab Herod Agrippa), tetrarch Trachonitis, yn cael ei wneuthur yn detrach Galilea hefyd. Paul yn ymresymu o'i flaen yn Cesarea (Act. 25, 26).

390. Y mae agwedd allanol y wlad yn doredig a mynyddig iawn. Banau uchaf Libanus a Sinai (y rhai a orweddant oddeutu 400 milltir oddiwrth eu gilydd) a gyfodant yn agos 10,000 o droedfeddi uwchlaw Môr y Canoldir. Tardda yr Iorddonen o lethr y blaenaf; ac yn Llyn Tiberias, y mae yn ei llyfel (*level*) 750 o droedfeddi yn îs nâ Môr y Canoldir. Yn y Môr Marw, y mae y gostyngiad wedi cynnyddu i 1,312 o droedfeddi; a chan fod y môr hwnw yn 1,350 troedfedd o ddyfnder, y mae yma gyfnewidiad mwy yn yr arwyneb nag sydd i'w gael mewn unrhyw ran arall o'r byd. O wastadedd Esdraelon, y bryniau i'r Deau a barhânt i gyfodi yn raddol, nes yn Jerusalem y cyrhaeddwn yr uchder 3,900 o droedfeddi uwchlaw arwyneb y Môr Marw. Cyrhaeddant uchder mwy yn ngwlad fryniawg Judah (i'r Deau o Jerusalem); i'r Dwyrain, y wlad a ostynga yn ddisymmwth, fel y mae Jericho 3,406 o droedfeddi islaw Jerusalem, er nad oes ond ugain milltir rhyngddynt: mor gywir yw y desgrifiad a roddir yn y Beibl, Luc 10, 30; Ioan 7, 10; Act. 24, 1. Cymharer Gen. 26, 2; 46. 3.

Ceir lluaws o ogofäu mewn llawer o'r mynyddoedd yma. Eu llethrau a roddant borfeydd helaeth i ddefaid (Amos 1, 2), a'r gwastadedd a geir ar gopäau rhai o honynt a orchuddir âg ŷd. Tyfai yr olewydden a'r ffigysbren yn agenau y creigiau, a pha le bynag y ceid dyfnder o ddaear. Y dolydd oeddynt yn nodedig o doreithiog a ffrwythlawn, ac hyd y nod yr anialdiroedd a ffurfid, yn benaf, o dir porfa ëang, anaddas i'r aradr, ond cyfoethog mewn glaswellt â choed. Yr oedd cynnyrchion pob hinsoddau i'w cael yn Mhalestina, ac yn aml iawn yr oedd ffigyswydd a thalbalm.

wydd yr hinsawdd poeth, a derwen a phinwydden yr hinsawdd gymmedrol, yn tyfu ar yr un rhes o fryniau. Buasai hinsawdd gwastadol fwyn a heulawg yn ddinystriol i ddiwydrwydd egniol, a phybyrwch cymmeriad y trigolion; a gyrasid hwynt gan wlad heb ynddi ddim ond mynyddau a chlogwyni i gynghreirio gyda'u cymmydogion paganaidd. Mynyddoedd, lle y tyfai olewydd a gwenith; banau eiräawg Libanus, a dyffryn dwfn a gwresog yr Iorddonen—tir âr a phorfa—ymddengys y cwbl yn gyfaddas i amgylchiadau y bobl etholedig, ac yn cyfateb i'r desgrifiad Beiblaidd—"gwlad dda, gwlad afonydd dyfroedd, ffynnonau, a dyfnderau yn tarddu allan yn y dyffryn, ac yn y mynydd."

391. Fe allai fod y boblogaeth, yn amser Dafydd, oddeutu pedair neu bum miliwn (gwel 2 Sam. 24, 9), neu rhwng 400 a 500 i bob milltir ysgwar; cyfartaledd cyffelyb i'r un a geir yn bresenol yn Nrydybarth Gorllewinol (*West Riding*) Sir Gaerefrog. Poblogaeth bresenol Syria, yr hon sydd bedair gwaith gymmaint a'r deyrnas o dan Dafydd, yw oddeutu milwn a hanner.[a] Ac ymddengys hyd y nod y boblogaeth yma yn cael ei chynnal gydag anhawsdra; ac y mae rhan fawr o'r wlad yn hollol ddiffrwyth. Priodola yr Ysgrythyr ei ffrwythlondeb blaenorol i fendith neillduol Duw, a'i diffrwythder presenol i "angerdd ei ddigofaint mawr ef." Gwel Lef. 26, 3—5; Deut. 7, 12—14; 11, 8—15; 28, 1—12, wedi eu cymharu â Deut. 29, 23—25; 28, 16—24, 38—42.

392. Prif-ddinas Judea oedd Jerusalem. Ei henw, yn nyddiau Abraham, oedd Salem,[b] a gelwid hi Jebus pan feddianodd Israel y Tir Santaidd.[c] Feallai i'w henw Iuddewig gael ei awgrymu gan y ffeithiau yma, a golyga etifeddiaeth, neu gartref heddwch. Perthynai rhan o'r ddinas i Benjamin, a rhan i Judah. Sylfaen y cwbl yw craig uchel, ac arni bedwar o benau neu o fryniau, ac esgyniad serth o bob tu, ond o du y Gogledd.[d] Amgylchir tair o'r ochrau gan ddyffryn dwfn, a chyfyd mynyddoedd uwch etto y tu hwnt i'r dyffryn; felly, nid ydyw y ddinas i'w chanfod yn hawdd hyd oni ddelo y teithiwr yn agos ati. Y mae y tir yn dra cherygog, a'r wlad o gylch yn sych a diffrwyth.

Yr oedd ëangder y ddinas yn amrywio ar wahanol amseroedd. Yn amser ei dymchweliad olaf gan Titus yr ydoedd ëangaf. Cynnwysai y pryd hwnw Seion, Acra, Moriah, a Bezetha. Yr oedd Seion ar ochr ddeddwyreiniol y ddinas, ac yn union i'r gogledd o hono, yr oedd Acra. Seion oedd yr uchaf o'r ddau; y rhan hono o Jerusalem oedd wedi ei hadeiladu arno a elwid y Ddinas Uchaf, a'r rhan oedd wedi ei hadeiladu ar Acra, y Ddinas Isaf. Gwahenid hwy gan fur uchel, yr hwn a gyfodwyd, ar y cyntaf, gan Ddafydd, yr hwn a breswyliai ar fynydd Seion. Saif eglwys Brotestanaidd Seisnig yn awr ar Seion.

Moriah (lle y tybir yr oedd Abraham yn nghylch aberthu Isaac pan attaliodd yr angel ei law ef) a saif i'r Dwyrain o Acra, ac ar hwn yr adeiladwyd y deml. Yr oedd y dyffryn rhyngddo ac Acra yn agos wedi ei lenwi fyny, er mwyn gwneyd ffordd rwyddaeh i fyned i'r deml. Cyssylltid Moriah â Seion gan bont ac uchrodfa (*terrace*). Y mae yn awr yn sylfaen i deml Fahometanaidd Omar. I'r gogledd yr oedd bryn Bezetha, yr hwn a unwyd â'r ddinas gan Agrippa. Holl amgylchedd y muriau oedd oddeutu pedair milltir a hanner.

393. Cymhwysir enw y *deml* yn yr Ysgrythyrau Cymreig, nid yn unig at y lle appwyntiedig i'r addoliad Dwyfol—y cyssegr Santaidd Santeiddiolaf,

[a] Mynegiad y Dr. Bowring. [b] Gen. 14, 8. [c] Jos. 15, 8. [d] Salm 125, 2.

ond hefyd at y cynteddau a'r adeiladau cyssylltiedig â hi. Adeiladwyd y deml *gyntaf* gan Solomon. Ni pharhäodd ei hadderchogrwydd cynnwynol ond yn unig am bedair blynedd ar ddeg ar ugain, pryd y cymmerodd Sisac, brenin yr Aifft, hi, ac y dygodd ymaith ei thrysorau. Wedi myned drwy amrywiol halogiadau, yn y diwedd yspeiliwyd a llosgwyd hi gan y Caldeaid, dan Nebuchodonosor, c. c. 584. 2 Bren. 25, 13—15; 2 Cron. 36, 17—20.

Adeiladwyd yr ail deml gan Zorobabel, ac yr oedd yn llawer llai gogoneddus, Ezra 3, 12; halogwyd hi gan Antiochus Epiphanes, yr hwn a gyfododd ddelw o Jupiter ar allor y poeth-offrwm, c. c. 163. Arosodd yn y cyflwr yma am dair blynedd, pan y purwyd, ac yr adgyweirwyd hi gan Judas Maccabaeus, c. c. 160, 1 Macc. 162.

Oddeutu un flynedd ar bumtheg cyn genedigaeth Crist (h. y., c. c. 20), ymosodwyd ar y gorchwyl o adgyweirio, neu raddol adadeiladu, y deml yma, gan Herod Fawr. Am naw mlynedd a hanner, cadwodd 18,000 o weithwyr arni, ac ni arbedodd un draul i'w gwneuthur yn gyfartal mewn mawredd ac ardderchogrwydd i'r adeiladaeth gyntaf. Wedi ei farwolaeth ef, parhäodd yr Iuddewon i'w haddurno a'i helaethu, fel, ar ddechreuad gweinidogaeth ein Harglwydd, yr oedd y pryd hwnw heb ei gorphen, er fod chwech a deugain o flynyddau wedi myned heibio er pan gasglodd Herod ei ddefnyddiau, ac y dechreuodd ar y gwaith, Ioan 2, 20. Yr holl adeilad a wneid i fyny o feini gwynion celyd, o faintioli anferth, ac amgylchynid hi gan fur uchel iawn.

Pan gymmerodd Titus Jerusalem, chwenychai gadw y deml; ond bu ei ymdrechion mwyaf egniol yn aneffeithiol, a dinystriwyd y cwbl drwy dân ar yr un dydd, ac yn yr un mis, ag y llosgwyd y deml gyntaf gan Nebuchodonosor, *Lois* (Awst) 15fed, o. c. 73. Nid ydoedd yn cynnwys nac arch neu drugareddfa, na Secina, na thân santaidd, wedi ei gynneu ar y cyntaf o'r nefoedd, nac Urim a Thummin, nac ysbryd-prophwydoliaeth, fel y deml gyntaf; ond cafodd ei gwneyd yn "fwy gogoneddus" drwy ei bresenoldeb a'i ddysgeidiaeth Ef, yr hwn yw Dymuniad yr holl genedloedd (Hag. 2, 9).

Ond gadewch i ni fyned y tu fewn i'r muriau aruthrol yma, drwy un o'r pyrth deheuol, "y porth Prydferth." Yr ydym yn awr yn y cyntedd allanol, neu gyntedd y Cenedloedd, a gallwn gerdded o'i amgylch; y mae pob ochr iddo yn 250 o latheni o hŷd. Cynnelir marchnad yma, lle y gwerthir halen, arogldarth, ac eidionau—y cwbl at aberthu. Yma hefyd yr eisteddai y cyfnewidwyr arian; ac yma, neu, fe allai, yn un o'r cynteddau nesaf, yr oedd y drysorfa.

O'n blaen, ond wedi ei gyfodi ychydig droedfeddi, a'i wahanu â mur isel, y *mae cyntedd y gwragedd.* Ar y colofnau yma sydd yn rhedeg ar hyd yr holl fur, gallwn ddarllen arysgrifiadau, yn rhybyddio Cenedloedd, a phersonau aflan, rhag dyfod i mewn dan boen marwolaeth. Gwel Eph. 2, 13, 14.

Esgyniad o bumtheg gris â'n harweinia i'r cyntedd mewnol, neu gyntedd y gwŷr. Yn y ddau gyntedd yma, y rhai gyda'u gilydd a elwid cyntedd yr Israeliaid, y gweddïai y bobl, tra yr offrymai yr offeiriad arogldarth yn y cyssegr, Luc 1, 10. Yn nghonglau y petryal yma y mae ystafelloedd a gymhwysir at buredigaeth y gwahangleifion, ac at wasanaeth y Nazareaid.

Y tu fewn i gyntedd yr Israeliaid, y mae cyntedd yr offeiriaid; hwynthwy yn unig a feiddient fyned i mewn iddo. Arweinia esgyniad o ddeu-

ddeg gris ni i'r deml ei hunan. Wrth fyned i mewn, awn drwy y porth (*portico*), lle y croga offrymau llŵawl (*votive offerings*) addolwyr selog: gwel Luc 21, 5. Yma hefyd y mae yr ystafelloedd lle yr arferai y Sanhedrim ymgynnull, hyd nes i fynychrwydd dygwyddiad ymrafaelion a gorthrech ei wneyd yn angenrheidiol iddynt gynnal eu cyfarfodydd yn y cyntedd allanol.

O'r porth yma, awn i mewn i'r cyssegr, neu y lle Santaidd; ac o'n blaen o hyd y mae y Santaidd Santeiddiolaf, yn cael ei guddio gan lèn ddwbl, yr hon, ar groeshoeliad yr Iesu, a rwygodd yn ddau, i ddangos fod y ffordd i'r cyssegr Santeiddiolaf wedi ei hegluro a'i hagoryd i bawb drwy yr un Cyfryngwr, Iesu Grist. Heb. 10, 19—22. Yr oedd y Santaidd Santeiddiolaf yn ugain cyfudd ysgwar (rhwng deg ar hugain a deugain troedfedd), ac nid elid i mewn iddo ond unwaith yn y flwyddyn, ar ddydd mawr y cymmod, Lef. 16, 2, 15, 34; Heb. 9, 2—7.

Yma, ar ddinystr Jerusalem, y cafodd Titus y canwyllbren aur, bwrdd y bara gosod, a'r udgyrn cyssegredig a ddefnyddid i gyhoeddi blwyddyn y Jubili. Y mae *bwa* (*arch*) Titus wedi cadw lluniau y creiriau (*relics*) hyn, ac y mae o hyd yn mhlith y profion o wirionedd y Beibl.

Ond gadewch i ni adael y deml. Yma, ar y gongl ogledd-ddwyreiniol, yr oedd marchnad y defaid, ac yn nglyn â hi yr oedd Llyn Bethesda. Gwerthid y defaid i wasanaeth y deml, a golchid hwy yn y llyn cyn eu trosglwyddo i'r offeiriaid.

Ar gongl ogledd-orllewinol mur y deml yr oedd castell cadarn, wedi ei adeiladu gan Herod Fawr, ac a elwid Antonia. Yr oedd wedi ei gyssylltu â chynteddau y deml gan res o risiau, a gwylid ef gan warchodlu Rhufeinig. O'r man yma y rhedodd y Pencadben a'i filwyr i ddarostwng y cythrwfl a gyfodasai yr Iuddewon mewn canlyniad i Paul (fel y tybient hwy) gymmeryd Trophimus y tu fewn i gylch cyssegredig y deml. Yma, mae yn debyg, y preswyliai Pilat pryd bynag y deuai o Cæsarea i Jerusalem. Y castell yma, gan hyny, oedd y Prætorium, lle y cynnaliai y prif-ynad ei lys cyfiawnder, Ioan 18, 28, 33; 19, 9; Math. 27, 27 (gwreiddiol).

O flaen y Prætorium yr oedd palmant derchafedig, a elwid Gabbatha, ac arno yr oedd y fainc, neu eistedle barn. Gwnaethwyd y palmant hwn fel y gallai yr Iuddewon gael eu hachosion wedi eu penderfynu heb iddynt gael eu halogi drwy fyned i mewn i'r Prætorium. Pan holodd Pilat yr Iesu ar wahan oddiwrth yr Iuddewon, yr oedd yn y Prætorium; ond pan yn eu presenoldeb, ar y palmant derchafedig yr oedd. Yno y condemniodd Pilat ef. Yn y Prætorium y gwatworodd y milwyr ef, Marc 15, 16. Pilat, fe allai gydag amcan i gynnyrchu tosturi yn meddyliau yr Iuddewon, a'i dygodd ef allan drachefn i'r palmant, a phan draddodwyd yr Iesu yn y diwedd iddynt, arweinwyd ef drwy borth cyfiawnder (ar du gorllewinol y deml), i Galfaria, yr hwn oedd ychydig o'r tu allan i'r muriau, ac yno y croeshoeliasant ef.

394. Ar y nos y bradychwyd ein Harglwydd, ymddengys iddo gael ei gymmeryd o Gethsemane i dŷ Annas (ar Acra), oddiyno i dŷ Caiaphas, ar Fynydd Seion, oddiyno i'r Prætorium, oddiyno i balas Herod, yn Bezetha, oddiyno yn ol i'r Paætorium, ac wedi hyny, yn olaf, i Galfaria.

395. I'r dwyrain o Jerusalem saif Mynydd yr Olewydd, a dyffryn, yn nghyd ag afon Cedron rhyngddynt. Y dyffryn hwn sydd wedi bod am fwy nâ 3,000 o flynyddau, ac y mae hyd y dydd heddyw yn cael ei ddefnyddio yn gladdle. Gelwir ef yn yr Hen Destament yn ddyffryn Jehosaphat, Joel 3, 2.

396. I'r dehau yr oedd dyffryn Hinnom (Gehenna), lle y bu yr Iuddewon unwaith yn addoli Moloch, ac yn offrymu eu plant eu hunain yn aberthau iddo. Pan adferodd Josiah hwynt at addoliad y gwir Dduw, gwnaed y dyffryn yn lle i dderbyn ysgarthion y ddinas, a chyrff drwgweithredwyr dienyddedig, 2 Bren. 23, 10; 2 Cron. 28, 3. Er mwyn difa y sylweddau hyn, cedwid tânau yno i losgi yn barhaus, ac oddiwrth hyn daeth y lle i gael ei ddefnyddio fel arwyddlun o gospedigaeth ddyfodol, Math. 5, 22. Ar lechwedd ddeheuol y dyffryn, gorwedda Maes y Crochenydd, yr hwn, oddiwrth amgylchiadau ei bryniad, a ddaeth i gael ei alw yn Faes y Gwaed.

397. Trengodd mwy nâ miliwn o Iuddewon yn ninystr Jerusalem, a chymmerwyd 97,000 yn garcharorion. Yn mhen oddeutu triugain mlynedd ar ol hyn, yr Iuddewon, y rhai oeddynt wedi dechreu ymgasglu o gylch eu hen artrefle, a alltudiwyd oll, a gwaharddid iddynt ddychwelyd dan boen marwolaeth, a chafodd y lle y safai y deml arno ei aredig i fyny. Yn mhen amryw gannoedd o flynyddau wedi hyn, cafodd y ddinas ei hadadeiladu. Yn 614, cymmerodd y Persiaid feddiant o honi, a lladdwyd 90,000 o Gristionogion. Yn 637, cymmerwyd hi gan y Saraceniaid, y rhai a'i cadwasant hyd 1079, pan ddaeth y Tyrciaid yn feistriaid arni. Y mae o hyd yn ddinas fawr, gydag oddeutu 20,000 o drigolion, ond mathrir hi gan y cenedloedd,—y mae yn "ddiareb ac yn watworgerdd" iddynt.

Wedi dinystr Jerusalem gan Titus, llawer o'r Iuddewon a symudasant i Tiberias, ac am hir amser, bu y lle hwn yn brif-eisteddle eu llênyddiaeth a'u haddoliad.

398. Gwybodaeth o ddaearyddiaeth, yn aml, a eglura, ac a gyssona fynegiadau y Beibl, a ddengys brydferthwch ac ardderchogrwydd rhanau neillduol o hono, ac a ddyg allan y synwyr, a allai fod, oni bai hyny, yn guddiedig.

Er enghraifft, Asia yn y Testament Newydd a olyga ran fechan o Asia Leiaf, o ba un yr oedd Ephesus yn brif-ddinas; oddiwrth hyn deallir pa fodd yr oedd yr Apostol, wedi iddo gael ei wahardd i fyned i Asia, yn teimlo ei hun yn rhydd i fyned i Bithynia, un o daleithiau Asia Leiaf, Act. 2, 9; 1 Cor. 16, 19; Dad. 1, 4.

Cymhwysir y gair "môr" yn aml yn yr Ysgrythyrau at afonydd mawrion. Gelwir y Nilus felly, Nah. 3, 8. Y mae y desgrifiad yn gymhwysiadol at No-Ammon, neu Thebes, hen brif-ddinas yr Aifft, yr hon a adeiladwyd ar y ddau du i'r Nilus, ac yr oedd 300 milltir oddiwrth Fôr y Canoldir, gwel hefyd Esay 27, 1; Jer. 51, 36. Gelwir yr Euphrates felly, Esay 19, 5. Y mae y Nilus o hyd yn myned dan yr enw yma, el Bahr (y môr), Ymchwiliadau (*Researches*) Robinson, i. 542. Y geiriau "cyffiniau," Math. 2, 16, a "thueddau," Math. 15, 21, a olygant derfynau unrhyw ddosparth.

Yr Iuddewon, yn amser ein Harglwydd, a alwent bob cenedl wareiddiedig, heblaw hwy eu hunain, yn Roegiaid, Act. 19, 10; 20, 21; Rhuf. 1, 16; 2, 9, 10; 10, 12; a'r Groegiaid a alwent bawb, heblaw *hwynt eu hunain*, yn Farbariaid. Am hyn, y wraig a elwir gan Matthew yn Ganaaneaid, a elwir gan Marc yn Roeges, ac yn Syro-Phœniciad, Math. 15, 22; Marc 7, 26; fe allai fod Marc yn defnyddio y gair "*Syro*" gyda bwriad i ddangos i'w ddarllenwyr Rhufeinig (i ba rai y bwriadodd efe ei efengyl) nad ydoedd yn perthyn i Carthage, "dinas Phœniciaidd."

Y gair "Groegwr" neu "Helleniad," fodd bynag, a gyfeiria at *Iuddewon*,

y rhai a breswylient, gan mwyaf, allan o Judea, ac a ddefnyddient iaith ac arferion y Groegiaid, Act. 6, 1; 9, 29; 11, 20.

Yr ydys weithiau wedi cymmeryd yr ymadrodd yn Ioan 4, 4, "Ac yr oedd yn rhaid iddo fyned drwy Samaria," fel yn awgrymu fod y "rheidrwydd" yn sylfaenedig ar y bwriad Dwyfol. Ond y ffaith yw fod Samaria yn gorwedd rhwng Judea a Galilea, a bod y ffordd uniawn i Jerusalem yn arwain drwy y wlad hono.

Fod y Gadareniaid yn cadw moch, a ystyrir fel trosedd ar gyfraith Iuddewig, a thybir mai ar gyfrif hyny y caniatäodd ein Harglwydd i'r cythreuliaid fyned i'r genfaint; ond dywed Josephus, fodd bynag, mai dinas Roegaidd oedd Gadara, ac mai yn ddiweddar yr oedd wedi cael ei huno â Galilea, Luc 8, 37.

Wrth gymharu Luc 24, 50, ag Actau 1, 12, ymddengys i'n Harglwydd arwain ei ddisgyblion cyn belled a Bethania, ac etto esgynodd oddiar fynydd yr Olewydd. Y ffaith yw fod gardd Gethsemane ar un ochr i fynydd yr Olewydd, y nesaf i Jerusalem, a phentref Bethania ar yr ochr arall iddo. Gellir gweled y ddau le oddiar ben y mynydd, ac y mae y ddwy adnod yn hollol gysson.

Yn Esay 28, 1, gelwir Samaria yn "goron balchder," ac y mae "arddderchogrwydd ei gogoniant yn cael ei gymharu i "flodeuyn diflanedig" y meddwyn. Yr arferiad y cyfeirir ato yma (a'r hwn a nodir yn Doethineb 2, 7, 8), yw yr un i wisgo coronau (*chaplets*) ar wledd-dymmorau. Heblaw hyny, yr oedd Samaria wedi ei hadeiladu ar gopa craig gron, a gallai y ffaith yma awgrymu y drychfeddwl priodol o goronbleth o flodau wedi ei rhwymo am ben y meddwyn.

Prif ddinas Edom a ddarlunir, gyda'r un cywirdeb, fel un yn "trigo yn holltau y graig," ac yn "uchel ei thrigfa," Obad. 3: anmhosibl cael desgrifiad cywirach o ddinas ryfeddol Petra, adfeilion yr hon a ddarganfyddwyd gan Burckhardt, yn 1811, ac sydd wedi cael ymweled â hi yn ddiweddar gan y Dr. Wilson.

399. Wrth ddefnyddio tudlen (*atlas*) diweddar o Balestina, yn rhoddi enwau yn yr Arabaeg, gall y daflen ganlynol fod o ddefnydd:—

Ain, ayun—pistyll, s.
Arabah—gwastadedd, neu anialwch.
Bahr—môr, neu lyn.
Beit—tŷ.
Bir—ffynnon.
Burg—castell.
Deir—lleiandy (*convent*).
El, en, er, &c.—yr (*the*).
Ghor—dyffryn rhwng dau fynydd.
Hajr—maen mawr.
Hammaun—bâdd.
Jebel, jebal—mynydd, s.
Jisr—pont.
Kabr—beddrod.
Khân—gwestdy.
Khulat, Kusr, Kasr—castell.
Merj—gwaen.
Mesjed, mosk—teml.
Mukam—beddrod sant.
Nahr—afon.
Nukb—adwy (*pass*).
Ras—penrhyn, neu pen.
Tel—bryn.
Wady, Wely—dyffryn, neu rhedfa dwfr.

400. Y geiriau daearyddiaeth anianyddol (*physical geography*) a gynnwysant hinsawdd, tywydd, tymmorau, &c.; ac aml iawn tafla gwybodaeth o'r pethau yma oleuni ar yr Ysgrythyr.

401. Y mae hinsawdd Judea yn yr haf yn wresog iawn, ac yn aml yn profi yn farwol. Llawer o filwyr o fyddin Baldwin IV. a fuont feirw o'r achos yma, yn agos i fynydd Tabor, ac yn y lle (Sunem) y bu farw mab y Sunamees yn nyddiau Eliseus, 2 Bren. 6, 18—20. Mor argraffiadol yw cymhariaeth y prophwyd pan yn llefaru am y Ceidwad,—"A gwr fydd megys cysgod craig fawr mewn tir sychedig," Esay 32, 2.

Nid oedd gwlaw yn ystod yr haf yn Mhalestina; ond yn yr hwyr syrthiai y gwlith yn dew a disymmwth, ac aml y gwlychai y teithiwr esgeulus hyd at y croen. Y boreu canlynol, sychid ef i fyny yr un mor ddisymmwth. A'r ffaith yma cymharer yr adnodau canlynol, Salm 133, 3; Hos. 6, 4: 14, 5; 2 Sam. 17, 12.

Dywed Philo wrthym nad oes dim gwlaw yn yr Aifft; ac y mae yn sicr mai anfynych iawn y gwlawia yn y wlad hono.[a] Oddiwrth hyn profir gwirionedd gwyrth y cenllysg a nodir yn Exod. 9, 18—26, a'r calon-galedwch a ddangoswyd gan Pharaoh wrth wrthwynebu cenadwri Moses.

Y gwlaw a flaenorir yn gyffredin gan ffwgl (*squall*) o wynt. Cymharer 2 Bren. 3, 16, 17, a Diar. 25, 14.

Y mae *dwyreinwynt* Palestina yn ddinystriol iawn i lysiau. Yn y gauaf y mae yn sych ac oer, ac yn yr haf yn sych a gwresog. Dyga ymaith ireidd-dra y dail yn rhy fuan, a gwywa hwynt.[b] Y mae yn nodedig o beryglus pan yn rhuthro dros For y Canoldir.[c] Y gwynt yma—Euroclydon, neu Levanter, fel y gelwir ef gan forwyr diweddar—a brofodd mor ddinystriol i'r "Castor a Phollux."[d] Gwynt y *gorllewin* a ddygai gafodau, ac, ar ol hir sychder, wlaw trwm.[e] Yr oedd gwynt y *gogledd* yn oer a sychlyd.[f] Dygai y *deheuwynt* wres,[g] a chorwyntoedd.

Y corwyntoedd yma a ddefnyddir weithiau yn yr Ysgrythyr i egluro gallu Duw yn ninystr yr annuwiol, a'r modd disymmwth y mae yn eu gorddiwes.[h] Mr. Bruce, yn ei deithiau i ddarganfod ffynnonell y Nilus, a oddiweddwyd yn ddisymmwth gan gorwynt, yr hwn a gyfododd gamel i fyny, ac a'i taflodd i gryn bellder. Taflodd ef ei hunan hefyd a'i weision i lawr ar eu gwynebau, nes tynu y gwaed allan o'u ffroenau. Maillet a'n hysbysa fod teithluoedd (*caravans*) cyfain wedi cael eu claddu yn y tywod a gludir gan y gwyntoedd yma. Pan yn gyssylltiedig â'r *Simoom* poeth a heintus, y maent yn nodedig o farwol. Mynega Thevenot am 4,000 o bersonau wedi mygu drwy yr achos yma yn 1655, ac am yn agos 20,000 yn 1688. Cymharer Esay 17, 13; Hos. 13, 3; Esay 32, 2; Math. 7, 27; Diar. 29, 1. *Sylwadau Harmer, i.*, 164.

Nis gall neb, ond y rhai a wyddant beth yw bod yn fyr o ddwfr yn y tymmor hafaidd, ffurfio meddylddrych priodol am werth ffynnonau yn y Dwyrain. Y ffynnonau yma fuont yn achos ymryson rhwng Abimelec ac Isaac, Gen. 26; ac y mae Moses yn cofnodi haelfrydedd Duw, yn rhoddi i'r Israeliaid bydewau y rhai ni chloddiasant. Y mae teithwyr, wrth groesi yr anialdiroedd, yn myned weithiau gymmaint a 80 milltir heb ddwfr. Y ffynnonau hefyd ydynt yn aml yn ddyfnion iawn, llawer o honynt yn 160 troedfedd, ac wedi hyny ni lenwir hwynt ond â dwfr gwlaw. Wrth fyned i Jerusalem, yr Israeliaid duwiolfryd a elent o nerth i nerth, a'r gwlaw a lenwai y llynau, Salm 84; gwel hefyd Gen. 24, 16. Ymddengys oddiwrth hyn y priodoldeb o gymharu athrawon gau i ffynnonau heb ddwfr, yn chwerw siomi gobeithion eu gwrandawwyr, 2 Pedr 2, 17. Y mae yr *hud-ddwfr* (*mirage*), neu ymddangosiad dysglaer dyfrawl tywod pellenig, yn cael ei ddefnyddio hefyd i osod allan siomedigaeth. Twyllir camelod a theithwyr, a phan gyrhaeddant yr hyn a ymddengys yn llain o ddwfr, ni chânt ond tywod crasboeth. Gwel Jer. 15, 18, ymyl y ddalen.

[a] Sec. 14, 18. [b] Gen. 41, 6; Esec. 17, 10; 19, 2; Hos. 13, 15.
[c] Sal. 48, 7. [d] Act. 27, 14. [e] Luc 12, 54; 1 Bren. 18, 44, 45.
[f] Diar. 25, 23; Job 37, 9, 22. [g] Luc 12, 55; Sec 9, 14. [h] Diar. 1, 27; 10, 25.

Y mis cyntaf yn y flwyddyn gyssegredig oedd yr hwn y canlynai ei gan hyny, yn cyfateb weithiau i Fawrth,

Mis y flwyddyn		Enw.	Yn cyfateb i Fisoedd y	Gwyliau a Gwersi.
Gyssegredig.	Wladol.			
1af	7fed	Abib, neu Nisan (30 dydd), Ex. 12, 2; Ezra 7, 9; Neh. 2, 1; Esth. 3, 7.	Rhanau o Fawrth ac Ebrill.	3. Lef. 6; Jer. 7, 21. 14. Oen y Pasg yn cael ei ladd. Y Pasg. 16. Blaenffrwyth y cynauaf haidd yn cael ei gyflwyno. 21. Diwedd gwyl y Pasg a'r bara croyw.
2il	8fed	Tyar, neu Zif (29 dydd), 1 Bren. 6, 1.	Rhanau o Ebrill a Mai.	11. Lef. 16, 1; Ez. 22. 14. Yr ail Basg (Num. 9, 10, 11), i'r rhai na allent gadw y cyntaf.
3ydd	9fed	Sisan, neu Siuvan (30 dydd), Esther 8, 9.	Rhanau o Fai a Mehefin.	6. Y Pentecost, neu wledd yr wythnosau. Blaenffrwyth y cynauaf gwenith (Lef. 23, 17, 20) a blaenffrwyth yr holl dir, Deut. 26, 2, 10,16; 1 Bren. 12,25–33. 10. Num. 1; Hos. 1.
4ydd	10fed	Thammuz (29 dydd).	Rhanau o Fehefin a Gorphenaf.	3. Num. 13, 1; Jos. 2. 26. Num, 22, 2; Mic. 5, 7.
5ed	11eg	Ab (30 dydd), Ezra 7. 9.	Rhanau o Orphenaf ac Awst.	3. Num. 30, 2; Jer. 1. 20. Deut. 1; Esay 1.
6ed	12fed	Elul (29 dydd), Neh. 6, 15.	Rhanau o Awst a Medi.	3. Deut. 7, 12; Esay 49, 14. 20. Deut. 16, 18; Esay 51, 12.
7fed	1af	Tisri, neu Ethanim (30 dydd), 1 Bren. 8, 2.	Rhanau o Fedi ac Hydref.	1. Gwyl yr Udgyrn, Lef. 23, 24; Num. 29, 1. 10. D. y Cymmod, Lef. 23, 27. 15. Gwyl y Pebyll, neu y cynnull, Exod. 23, 16; Lef. 23, 34. Blaenffrwyth y gwin a'r olew, Lef. 23,39. 21. Gen. 1; Esay 42, 5.
8fed	2il	Marchesvan, neu Bul (29 dydd), 1 Bren. 6, 38.	Rhan. o Hyd. a Thach.	8. Gen. 23, 1; 1 Sam. 1, 1.
9fed	3ydd	Chisleu (30 dydd), Sec. 7, 1; Neh. 1, 1.	Rhan. o Dach. a Rhag.	10, Gen. 37, 1; Amos 2, 6. 25. Y Gyssegr-wyl, 1 Mac. 4, 52–59; Ioan 10, 22, 23.
10fed	4ydd	Thebeth (29 dydd), Esther 2, 16.	Rhanau o Rhag. a Ion.	25. Exod. 10, 1; Jer. 46, 13.
11eg	5ed	Shevet, neu Shebat (30 dydd), Sec. 1, 7.	Rhan. o Ion. a Chwef.	17. Exod. 21. 1; Jer. 34, 8.
12fed	6ed	Adar (29 dydd), Ezra 6, 15. Ve Adar, neu 2il Adar.	Rhanau o Chwefror a Mawrth.	1. Ex. 38, 21; 1 Sam. 17, 13. 14, 15. Gwyl y Purim. 25. Lef. 1; Esay 43, 21.

lawn lloer yn nesaf ar ol yr alban eilir (*vernal equinox*), ac yr oedd, weithiau i Ebrill, ac weithiau i ranau o'r ddau.

	Tymmorau a Thywydd.	Cynnyrchion.
Cynauaf yn dechreu.	Y *diweddar* wlaw yn dechreu disgyn, Deut. 11, 14; Sec. 10, 1. Y tywydd yn oerllyd yn ystod y gwlaw, Ezra 10, 9; Ioan 18, 10. Darpara y gwlaw yma yr ŷd i'r cynauaf. Gwres mawr, yn enwedig yn y dyffrynoedd. Yr afonydd yn chwyddo gan y gwlawogydd, Jos. 3, 15; 1 Cron. 12, 15; Jer. 12, 5.	Haidd yn addfed yn Jericho; rhan o'r gwenith yn y dwyaen; y ffigysbren yn blodeuo; ffigysen y gauaf o hyd ar y pren, Mat. 21, 19, Marc 11, 13.
	Y *diweddar* wlaw yn disgyn yn fynych. Y gwlawogydd yma yn cael eu blaenori yn aml gan gorwyntoedd, 1 Bren. 18, 45.	Haidd, fynychaf, 3 wythnos yn gynnarach nâ'r gwenith. Tòrir haidd ymis yma, Ruth 1, 22. Dech. gwenith addfedu.
Haf yn dechreu.	Sychder mawr. O Ebrill i Fedi, dim gwlaw na tharanau, 1 Sam. 12, 17; Diar. 26, 1. Y *boreu gwmwl* i'w ganfod yn fore, ac yn cilio yn fuan. Hos. 6, 4; 13, 3. Gwlith trwm yn y nos, Job 29, 9; Salm 133, 3. Y Gogledd-wynt a'r Dwyrein-wynt yn cynnyddu y sychder. Gen. 41, 6; Jer. 4, 8.	Gwenith yn addfedu ar y bryniau yn Mehefin; yn y dyffrynoedd yn gynnar yn Mai. Glaswellt mewn rhai manau yn llathen o uchder, Ioan 6, 10.
	Gwres yn cynnyddu.	Y grawnwin cynnar, Lef. 26, 5. Reis a'r ffigys cynnar yn addfedu.
Tymmor poeth.	Gwres angerddol. Y wlad yn ymddangos fel wedi ei llosgi i fyny. Libanus yn agos yn rhydd oddiwrth eira.	Ffigys addfed yn Jerusalem; olifiaid yn Jericho; grawnwin yn addfedu.
	Y gwres o hyd yn angerddol. 2 Bren. 4, 19, 20; Salm 121, 6; Esay 49, 9, 10; Dad. 7, 16.	Cynauaf y grawnwin yn gyffredinol.
Tymmor hau yn dechreu.	Gwres y dydd; rhew y nos, Gen 31, 40. Cafodydd aml; y *cynnar* wlaw yn dechreu. Aredig a hau yn dechreu.	
	Weithiau dechreua y cynnar wlaw yn awr. Gwenith a haidd yn cael eu hau.	Y grawnwin diweddar yn cael eu casglu.
Gauaf yn dechreu.	Coed yn colli eu dail. Eira yn dechreu disgyn ar y mynyddoedd, Jos. 36, 22.	
	Yr oerfel yn fawr ar y mynyddoedd. Cenllysg; eira, Jos. 10, 11; Salm 47. 16, 17. Tywydd yn gynhes ar brydiau. Ez. 33, 30, 31.	Glaswellt a llysiau yn tyfu ar ol y gwlaw.
Tymmor oer.	Yd yn cael ei hau o hyd. Y tywydd yn oer ar ddechreu y tymmor oer, ond yn gwresogi yn raddol.	Ffigys y gauaf i'w cael ar y coed, er eu bod wedi colli eu dail.
	Taranau a chenllysg yn aml. Haidd weithiau yn cael ei hau.	Y pren almon yn blodeuo.

Nid oes gwahaniaeth mawr gyda golwg ar ansoddau gwres ac oerni rhwng dyddiau a nosweithiau Ewrop. Y mae yn hollol wahanol yn y Dwyrain. Y mae nosweithiau yn nghanol yr haf, yn aml, can oered ag yn Mharis yn mis Mawrth, tra y mae gwres y dyddiau yn llosgedig. Cymharer Gen. 31, 40, a Jer. 36, 30; Esay 49, 10; Dad. 7, 16. Syr J. Chardin, Harmer, i., 182.

402. Y mae yn addysgiadol sylwi fod yr Ysgrythyr bob amser yn gosod allan y tywydd, deddfau yr hwn a ymddangosant yr anhawddaf i'w penderfynu, fel o dan lywyddiaeth ac arolygiad y Creawdwr, Math. 5, 45; Act. 14, 17; Jer. 5, 24; Sal. 147, 16—18; Nah. 1, 5, 6.

Profa sylwadau Harmer yn drysorfa gyfoethog o egluriadau ar ddaearyddiaeth anianyddol Palestina. Teithwyr diweddar, yn enwedig y Dr. Robinson, Dr. Kitto, a'r Dr. John Wilson, ydynt wedi ychwanegu llawer at ein gwybodaeth.

403. Wrth gyssylltu y dull cyffredin o gyfrif yn mhlith yr Iuddewon â ffeithiau daearyddiaeth anianyddol, a'r tymmorau penodedig i'r amrywiol wyliau blynyddol, ffurfiant daflen o werth a dyddordeb mawr, fel y gwelir yn y tudalenau blaenorol.

404. Awgryma myfyrdod o'r daflen yma un neu ddau o gyfaleddau (*analogies*) amlwg. Y mae yr haf a'r gauaf yn Mhalestina yn cyfateb i'r unrhyw dymmorau yn Lloegr; megys y gwna amser y gwres mwyaf, Mehefin ac Awst; a'r oerfel mwyaf, Ionawr. Y tymmor hau yw ein Hydref ni; a dechreua y cynauaf gyda'n gwanwyn ni, a phery drwy ddechreu yr haf.

Dechreua y tymmorau gwlawog yn Mhalestina oddeutu yr Albanau (*Equinoxes*). Y gwlaw yn ein hydref ni yw y *cynnar*, neu wlaw yr hâd; y gwlaw yn ein gwanwyn ni yw y *diweddar*, neu wlaw y cynauaf. Y mae un yn bywhau yr hâd, a'r llall yn llenwi y dwysen. Yn gyffredin, y gwlawogydd a ddeuant o'r gorllewin; curir hwynt i fyny o Fôr y Canoldir. Nid oes dim yn fwy annghyffredin nâ gwlaw yn ystod y cynauaf, a'r haf; eglura y ffaith yma syndod y bobl, fel ei desgrifir yn 1 Sam. 12, 17.

Yr Israeliaid a groesasant yr Iorddonen yn Ebrill, pan oedd yr afon wedi chwyddo gan wlawogydd y gauaf; a hyn gyfansoddai yr angenrheidrwydd am y wyrth a gofnodir yn Jos. 3.

Sefydlir dyddiadau (*dates*) yr Ysgrythyr yn aml drwy gyfeiriad at y tymmorau neu y cynnyrchion, 2 Sam. 21, 9; Num. 13, 20; neu drwy gyfeiriad at y gwyliau, Ioan 10, 22.

Yr ydys wedi meddwl fod y ffaith a gofnodir yn Luc 4, 17, yn penderfynu amser ymweliad ein Harglwydd â'r Synagog yn Nazareth. Gorphenid darllen y Gyfraith yn y deuddeg Sabbath a deugain o bob blwyddyn; dechreuid ei darllen yn Tisri (Medi), a sylfaenid yr arferiad ar Neh. 8, 2; a Deut. 31, 10, 11. Ar Wyl y Pebyll, darllenid Gen. 1—6; ac ar y Sabboth cyn hyny, Deut. 29, 10, gydag Esay 61, 1—63, 10. Y cyfrifiad yma, yr hwn sydd eiddo Lamy, a sefydla yr ymweliad ar y 14eg o Tisri. Ymddengys y cyd-destun, fodd bynag, fel yn gosod yr amser yn nes i'r Pentecost; ac awgryma geirweddiad (*phraseology*) Luc, fod Crist wedi dewis yr ymadrodd, yn hytrach nag wedi ei gael yn nhrefn gyffredin y darlleniad. Y mae Lamy wedi rhoddi yr holl wersi (*App. Bibl.*, Llyfr i., pen. 5). Yn y daflen flaenorol, ni roddir ond yn unig dechreuad ychydig o honynt.

Daw sêl y bobl, a nodir yn 2 Cron. 30, 23, yn fwy eglur, wrth ystyried eu bod yn cadw yr wyl saith niwrnod ereill *yn nghanol y cynauaf*.

Awgrymir gwersi pwysig yn aml gan wybodaeth gywir o ffeithiau o'r fath

a gynnwysir yn y daflen yma. Er enghraifft, croes-hoeliwyd ein Harglwydd ar y dydd yr offrymid oen y pasg, a chyfododd ar y dydd y cyflwynid blaenffrwyth y cynauaf cynnar,—"blaenffrwyth y rhai a hunasant." Tywalltwyd yr Ysbryd ar ddydd y Pentecost, pan gyflwynid blaenffrwyth y ddaear i'r deml; ac ar y dydd hwnw, 3,000 o bersonau, "o bob cenedl dan y nef," a ychwanegwyd at yr eglwys, Act. 2, 5, 41. Y mae Gwyl y Pebyll (pan offrymid diolchgarwch am gasgliad i fewn holl ffrwythau y tir) etto i ddyfod.

Daw iaith ein Harglwydd, yn cymharu y Phariseaid i feddau wedi eu gwyngalchu, yn fwy eglur wrth ystyried y ffaith iddi gael ei llefaru yn union o flaen y Pasg, ac ar ol gwlawogydd y gauaf, pan oedd yr luddewon yn brysur yn gwyngalchu y beddrodau yn agos i Jerusalem, ac yn darparu erbyn yr wyl.

Dos. 7. *Ar gymhwysiad y rheolau yma er dehongli Arallegau, Dammegion, Cysgodau, ac Arwyddion yr Ysgrythyr.*

"Gan fod yr Ysgrythyrau wedi eu hysgrifenu i feddyliau dynion, ac i ddynion pob oes.....nid ydynt i'w dehongli *yn unig* yn ol synwyr priodol y lle, nac mewn cyfeiriad neillduol at yr achlysur presenol ar ba un y llefarwyd y geiriau.....ond cynnwysant ynddynt eu hunain, yn ranedig (*distributively*), ac yn gynnulledig (*collectively*) ffynnonellau a ffrydiau athrawiaethol anysbyddadwy i ddyfrhau pob rhan o'r eglwys .....nid wyf am i ddynion fod yn hyf mewn arallegau.....ond yr wyf yn mawr gondemnio y dehongliad hwnw o'r Ysgrythyr sydd yn unig yn ol y dull a arferir gan ddynion i ddehongli llyfr cyffredin."—BACON, *Cynnydd Dysgeidiaeth.*

"Gallasai ein Harglwydd lefaru iaith gyffredin moesoldeb, ond y mae yn dysgu drwy ddammegion, am y gwyddai y buasent yn aros yn fwy parhaus yn y cof a'r farn."—SYR P. SYDNEY.

"Manifestè dicta absolvent parabolas."—*Irenæus, llyfr ii., pen.* 47.

405. Yr ydym hyd yma wedi bod yn llafurio i gasglu synwyr yr Ysgrythyr, ac mewn trefn i benderfynu y synwyr hwnw, nid oedd yn angenrheidiol ond yn unig cael allan ystyr y geiriau. Y mae rhai rhanau o'r Beibl, fodd bynag, lle y mae yn ofynol cael math o ddehongliad ychwanegol. Hyd yma yr ydys wedi ystyried ystyr y geiriau fel y Beibl. Fodd bynag, yn y rhanau ag ydym yn nghylch cyfeirio atynt, y mae ystyr pellach, a elwir yr arallegawl neu ysbrydol. I'r dosparth yma y perthyna arallegau a dammegion, cysgodau, gweithredoedd cysgodawl, ac arwyddion y gyfrol santaidd; a chan eu bod yn cyduno yn egwyddorion y dehongliad cymhwysiadol atynt oll, cynnwyswn hwynt o dan un enw, fel arallegau.

406. Gwahaniaethant oddiwrth ffigurau yr Ysgrythyr mewn amryw bethau neillduol.

Yn gyntaf, Ni chyflwynant i'n sylw ond yn unig yr ystyr lleiaf ei bwys y bwriadwyd i'w gyfleu, tra mae yr un moesol neu ysbrydol am dymmor yn guddiedig; ond mewn ffigurau, yr ystyr ailraddol neu leiaf ei bwys, yn gyffredin, yw yr amlycaf. Er enghraifft, pan y dywedir mai Mab y Dyn yw yr hauwr, defnyddiwn ffigur, a phenderfynir ystyr y gair hauwr oddiwrth ei le yn y frawddeg. Ond pan ddywedwn, "hauwr a aeth allan i hau," ni fynegwn ond un meddwl, tra mae meddwl arall mewn golwg, yr hwn ni fynegir.

Yn ail, Y mae ffigurau bob amser yn gosod allan un peth fel peth arall, a phenderfynir y meddwl ar unwaith drwy adael allan y pethau yn mha rai y gwahaniaethant, a chyssylltu y pethau y cydunant ynddynt. Mewn arallegau neu ddammegion, ni ddywedir un amser mai un peth yw peth arall, er y gellir dywedyd hyn wrth egluro y ddammeg.

Yn drydydd, Mewn ffigurau, nid oes ond un ystyr yn gysson â'r cyd-destun ac â'r amcan; mewn aralleg neu ddammeg, y mae dau, y geiriawl a'r arallegawl; y geiriawl sydd esboniad ar y geiriau, a'r arallegawl ar y pethau a arwyddir drwyddynt.

407. Rhaid cofio nad ydym, mewn aralleg, neu gysgod, i ddysgwyl i'r meddwl geiriawl a'r ystyr arallegawl, *gyduno yn mhob peth*. Yr aralleg, cyn belled, sydd debyg i droell-ymadrodd (*figure of speech*). A digon yw mewn ffigur os bydd y ddau beth cymharedig yn cyffwrdd mewn un pwynt, ac mewn aralleg nis gellir dysgwyl i bethau gyfarfod yn mhob pwynt. Ar yr un pryd, y mae yr aralleg yn gwahaniaethu cymmaint oddiwrth y ffigur, fel y mae yn gyffredin yn cyffwrdd mewn *mwy nag un peth*. Yn ei natur, cymhariaeth barhaus ydyw, a gall yr esboniwr fyned yn mlaen yn ddiogel ar y dybiaeth fod cyd-darawiad yn y rhan fwyaf o bethau; ac ni ddylai ymattal rhag cymharu nes y byddo y gyffelybiaeth wedi cilio, oddieithr ei bod yn annaturiol, neu nes y byddo yn amlwg fod yr amgylchiad o dan ystyriaeth wedi ei ychwanegu er mwyn rhoddi prydferthwch neu rym i'r adroddiad.

408. Yr achlysuron ar ba rai y mae yn briodol defnyddio arddangosion arallegawl ydynt luosog. Y mae yn profi tuedd addysgadwy (Math. 13, 13). Y mae yn ddefnyddiol nodedig i roddi dangosiad ffigurol o wirionedd, cyn y byddo bwriad idd ei gyflawn ddadguddio. Ateba y dyben yma yn aml yn yr Hen Destament, ac yn Llyfr y Dadguddiad. Y mae yn ddefnyddiol er ennill barn dyn yn ei erbyn ei hunan, fel yn achos Dafydd, ac mewn llawer o'r dammegion; ac hyd y nod pan na fyddo dirgeliad yn angenrheidiol, aml iawn y dena sylw dynion, a allant, oni bai hyn, aros yn ddiystyr.

409. Holl reolau dehonglyddiaeth arallegawl a gymmerant yn ganiatäol fod dehongliad geiriawl yr ymadrodd wedi ei gwblhau, a'u bod, os bydd yr aralleg yn gysgod neu arwyddlun, wedi cywir benderfynu beth yw y weithred neu yr arwydd, i ystyr arallegawl yr hwn yr ydym yn nghylch ymchwilio. Nis gellir myned ddim yn mlaen yn y gwir ddehongliad hyd nes y byddo hyn wedi ei wneuthur; rhaid i ni yn gyntaf wybod beth yw y gwrthddrych, cyn y gallwn wybod beth a fwriedir ei ddangos drwyddo.

410 (1.) Y rheol ddehonglyddol gyntaf yw,—penderfynu yr amcan (*scope*), drwy gyfeirio naill ai at y cyd-destun, neu at ddarnau cyfochrog (*parallel passages*); a chymmeryd gafael yn y gwirionedd neillduol y bwriadwyd y cysgod neu y ddammeg i'w osod allan, gan ei wahaniaethu oddiwrth bob gwirionedd arall cyfagos iddo, a bydded i'r rhanau o'r ddammeg a eglurir gael eu hegluro yn gysson â'r gwirionedd neillduol yma.

Mewn perthynas i arallegau, y mae eu hamcan yn gyffredin yn cael eu hysbysu, megys yn Salm 80; ac eglurir y cyfan yn adnod 17, lle y cyflwynir gŵr llaw ddeau Duw yn y fath fodd ag i gyfeirio at Israel fel y winwydden. Y mae weithiau, fodd bynag, yn ofynol edrych i ranau ereill o'r Beibl.

Aralleg faith yw yr oll o Lyfr y Caniadau, ac o dan y ffurf yma arddangosir y serch ysbrydol rhwng Crist a'i eglwys. Er mwyn egluro y llyfr, rhaid i ni droi i ranau ereill o'r Ysgrythyr, lle mae y berthynas rhwng Duw a'i eglwys yn cael ei gosod allan mewn ymadroddion cyffelyb. Felly hefyd Esay 5, 1—7; Ezec. 15, 19, 10, 14; 19, 1—9; 23; 31, 3—17.

Mynegir amcan y dammegion, yn gyffredin, yn y cyd-destun; weithiau gan ein Harglwydd ei hun (Math. 22, 14), weithiau gan yr hanesydd ysbrydol yn ei eiriau ei hun (Luc 18, 1).

Gosodir ef allan weithiau yn nechreuad y ddammeg (Luc 18, 9; 19, 11); weithiau yn ei diwedd (Math. 25, 13; Luc 16, 9); ac weithiau yn y ddau le, megys yn Math. 18, 23; gwel adnodau 21 a 35. Felly hefyd yn Math. 20, 1—16; Luc 12, 15—21.

Rhaid i ni weithiau, er yn annghyffredin, droi at ymadrodd cyfochrawl, megys, er cael dehongliad cyflawn o Luc 15, 3, trôwn i Math. 18, 12, &c.

Pan na ellir penderfynu yr amcan oddiwrth un o'r amgylchiadau yma, rhaid i ni y pryd hwnw droi at achlysur neu bwnc y ddammeg ei hun. Yn y modd yma y penderfynir ystyr dammeg y ffigysbren ddiffrwyth (Luc 13, 6, 9), a dammeg y mab afradlon. Canfyddir yn eglur oddiwrth raddiaeth (*progress*) y dammegion, a myfyrdod o'r amgylchiadau dan ba rai y traddodwyd hwynt, beth oedd amcan ein Harglwydd yn eu llefariad.

411. Mewn perthynas i *gysgod*, y mae o bwys cofio, nas gellir casglu beth oedd amcan neu fwriad Duw wrth ei sefydlu ond yn unig o'r Beibl. Cesglir hyn weithiau o'r Hen Destament, megys yn achos Moses, Deut. 18, 15, yn fynych o'r Testament Newydd yn unig, megys yn Ioan 3, 14; 6, 32; 1 Cor. 5, 7, 8; Math. 12, 40, &c. Yr egwyddor a osodir i lawr yn yr Epistol at yr Hebreaid yw, fod yr oll o'r oruchwyliaeth flaenorol yn arwyddluniol—yn gysgod daionus o bethau a fyddent. Wrth gymhwyso yr egwyddor yma, dylid cadw yn ofalus at y rheolau canlynol.

412. Y mae pob dehongliad o ddammeg neu aralleg, a fyddo yn annghysson â'r gwirionedd mawr a ganfyddir yn gynnwysedig ynddi, i'w wrthod.

Er enghraifft, yr ydys wedi tybied fod dammeg y Samaritan yn cyfeirio at ein Harglwydd; y teithiwr clwyfedig at ein hiliogaeth bechadurus ni; yr offeiriad a'r Lefiad, at y ddeddf foesol a'r ddeddf seremonïol; y lletty, at yr eglwys: esboniad sydd yn hollol annghysson âg amcan y Ceidwad. Nid digon, gan hyny, fod y gwirioneddau a dybiwn fod yn gynnwysedig yn arallegau a chysgodau yr ysgrythyr yn wirioneddau ysgrythyrol, rhaid dangos yn eglur eu bod yn cael eu golygu yn nyben Duw yn sefydlu y naill, ac amcan dysgawdwyr ysbrydoledig wrth lefaru am y llall.

Y mae y nodiad yma yn gymhwysiadol at holl ranau y dammegion, a gellir ei wrthdroi. Yr ydym mewn meddiant o'r dehongliad cywir pan fyddo yr holl brif amgylchiadau yn cael eu hegluro. Os bydd ein dehongliad yn drygu, neu yn gwneyd unrhyw ran bwysig o'r hanes yn ddirym, y mae y dehongliad yn annghywir; a phan fyddo genym ddehongliad cywir o'r cyfan, y mae y dehongliad hwnw o unrhyw ran i'w wrthod, os na fydd yn cyfrana at gyssondeb a grym y cwbl. Er enghraifft, wrth egluro dammeg y mab afradlon, y mae llawer o esbonwyr wedi disgyn at fanylion hollol annghydweddol âg amcan eglur, ac â grym yr adroddiad. Ysgariaeth yr afradlon oddiwrth holl serchiadau cartref—ei benderfyniad i geisio dedwyddwch lle nad ydyw Duw i'w gael—y cyfnewidiad truenus yn ei sefyllfa, a'i ymwybodolrwydd o'r cyfnewidiad hwnw—ei ymdrech i wellhau ei amgylchiadau—ei siomedigaeth chwerw, a'i angenion—ei benderfyniad i ddychwelyd—cariad y tad a'i roesaw—y wledd a'r llawenydd a achoswyd gan ei ddychweliad—anfoddlonrwydd ac ysbryd dannodol y brawd henaf—ymresymiad gogoneddus y tad—eglura yr holl ranau yma wirionedd mawr y ddammeg, sef parodrwydd Duw i roesawi dychweliad y gwaethaf o'i blant, ac y maent oll yn bwysig. Y mae gwadu, fel y mae rhai wedi gwneyd, fod ymadawiad yr afradlon â'i artref yn cyfeirio at wrthgiliad dyn, yn gwanhau y ddammeg; ac y mae dysgu mai cariad tragywyddol Duw, neu sêl yr Ysbryd, yw y fodrwy—

fod y pechadur yn cael ei alw yn frawd ieuengaf am fod dyn yn ieuengach fel pechadur nâ dyn fel bôd cyfiawn—mai pregethwr deddfol oedd y dinasydd wrth yr hwn yr ymlynodd efe—mai personau hunan-gyfiawn oedd y moch—mai gweithredoedd o gyfiawnder oedd y cibau—mai y llo pasgedig oedd Crist—mai moddion buchedd uniawn, athrawiaethau a gorchymynion yr ysgrythyr, oedd yr esgidiau—mai pregethu yr efengyl oedd y beroriaeth a glywodd y brawd henaf—y mae hyn oll yn galw y sylw oddiwrth wers fawr y ddammeg, at athrawiaethau nas gellai y dysgyblion eu cael yn y ddammeg ei hunan. Drwy droi y cyffyrddiadau mwyaf llednais yn wirioneddau ysgrythyrol pwysig, y mae amcan mawr y cyfan yn cael ei dywyllu, a dysgir ni i osod meddwl *yn yr* ymadrodd, ac nid i dynu un *allan* o hono; yr hyn sydd arferiad ag y byddwn yn debyg o'i ddefnyddio er drygau mwy a phwysicach mewn lleoedd ereill.

413. Ond tra mae pob peth a eglurir i'w esbonio, gan gadw golwg at amcan yr ysgrifenydd, etto, gofyniad pwysig ydyw, pa mor bell y mae manylion (*details*) dammegion ac arallegau yr ysgrythyr yn cyfeirio, yn y cymhwysiad o honynt, at ffeithiau cyfatebol (*corresponding facts*). Oddiwrth y dehongliad ysbrydol o ddammegion a roddir i ni yn yr ysgrythyr, gallwn gasglu y dylem ochelyd yr eithafnod o feddwl mai yr amcan o'r cyfan yn unig sydd yn bwysig, a'r eithafnod o hòni fod meddwl deublyg yn perthyn i bob rhan.

Yn nammegion yr hauwr a'r efrau, er enghraifft, y rhai a esboniodd ein Harglwydd ei hunan, y mae y cymhwysiad moesol yn disgyn i neillduolion manylaf yr adroddiad; yr adar, y drain, a'r tir creigiog, y mae iddynt oll eu hystyr; ac, fel y nododd Tholuck, gellir dywedyd, ar y cyfan, fod perffeithrwydd y gyffelybiaeth yn gyfartal i gyfoeth ei chymhwysiadau. Ni eglurir yr holl amgylchiadau, fodd bynag, hyd y nod yn y dammegion yma. "Tra yr oedd dynion yn cysgu;" yn nammeg yr efrau (Math. 13, 25), a'r ymadrodd "cloddio nis gallaf," a "chardota sydd gywilyddus genyf," yn nammeg y goruchwyliwr annghyfiawn, nid oes un o honynt yn cael ei gymhwyso yn y dehongliad a roddwyd gan ein Harglwydd ei hunan. Felly, yn yr aralleg hŵyaf yn yr ysgrythyr—Llyfr y Caniadau—tebygol nad ydyw y desgrifiad a roddir o'r briodasferch yn ddim mwy nâ mynegiad o serch ac ymhyfrydiad Jehofa tuag at ei etholedigion.

Bydd y ddwy reol ganlynol, mewn ychwanegiad at yr un uchod, o berthynas i amcan y ddammeg, yn ddigonol i'n cadw ar ein gwyliadwriaeth wrth ddehongli dammegion ac arallegau yr Ysgrythyr.

414 (2). Mewn perthynas hyd y nod i athrawiaethau cysson âg amcan y ddammeg, neu y cysgod, nid oes unrhyw benderfyniad i'w dynu oddiwrth un o honynt a fyddo yn annghysson â dadguddiadau eglur gwirioneedd dwyfol.

Yr arch-offeiriad dan y gyfraith a offrymai yn gyntaf dros ei bechod ei hun, ac wedi hyny dros bechodau y bobl. Ond nid ydyw yn canlyn oddiwrth hyn fod Crist wedi cyfranogi o'n natur bechadurus ni; y gwrthwyneb i hyn yw y gwirionedd, "oblegid ynddo ef nid oedd bechod." Felly hefyd am oen y pasg, yr oedd yn gysgod o'n Harglwydd; rhagddangosai ei farwolaeth a'i berson, ond ni ddangosai effeithioldeb ei farwolaeth, na santeiddrwydd ei natur mewn unrhyw fodd cyfatebol.

Os cynnygir profi y dylid gweddio ar seintiau gogoneddedig, am i'r gŵr goludog yn y ddammeg weddio ar Abraham, gwrthodwn y dehongliad fel yn annghyson â mynegiadau pendant yr Ysgrythyr; neu os cesglir (fel y gwnelai yr hen Belagiaid), oddiwrth ddammeg y gwas ffyddlawn, neu y

mab afradlon, fod Duw yn maddeu i ni ar dir syml ein hedifeirwch a'n gweddiau, heb aberth nac eiriolaeth, gwrthodwn y dehongliad fel yn annghysson â holl rediad y Beibl (Ioan 8, 24; Heb. 10). Nis gallwn gasglu ychwaith oddiwrth Luc 15, 7, fod y Phariseaid yn ddynion cyfiawn, y rhai nid oedd raid iddynt wrth edifeirwch; neu oddiwrth ad. 29, na throseddodd y brawd hynaf erioed orchymyn ei dad; nac oddiwrth Luc 16, 1, fod anonestrwydd mewn unrhyw ystyr dda yn wir ddoethineb. Yr oedd Dafydd yn gysgod o'n Harglwydd yn ei gymmeriad breninol, ac yn ei ddisgyniad teuluol; ond nid yn ei bechodau.

415 (3.) Y mae o bwys peidio gwneuthur na chysgodau na dammegion yn brif, neu yn unig ffynnonell athrawiaeth ysgrythyrol. Gellir egluro drwyddynt athrawiaethau fyddo eisoes wedi eu profi, ond nid ydym i gasglu athrawiaeth yn unig neu benaf oddiwrth eu harddangosiadau.

Rhai o'r esbonwyr borëol, heb un rheswm, a gasglent hanes gwrthgiliad Satan oddiwrth ddammeg y goruchwyliwr annghyfiawn. Dywedid mai efe oedd y prif un yn mhlith gweision Duw; ac iddo, wedi cael ei droi o'i le o ymddiried, dynu yr angylion ereill ar ei ol, y rhai a demtiwyd ganddo âg addewid am waith ysgafnach, a gwasanaeth esmwythach. Nis gallwn benderfynu oddiwrth ddammeg y deng morwyn, am fod pump o honynt yn gall a phump yn ffol, mai hanner y rhai a broffesant grefydd a gedwir, ac y bydd i'r hanner arall gael eu colli yn y diwedd. Yn nammeg y ddafad golledig, nid aeth ond yn unig un o gant ar ddisberod; yn nammeg y drylliau arian, un o ddeg a gollwyd: nis gellir gwneuthur yr un o'r amgylchiadau yma yn sylfaen i athrawiaeth.

Canfyddir mai dullweddiad (*modification*) yw y ddwy reol uchod o'r rheol a'n dysga i ddehongli yn ol cyssondeb y ffydd, ac i edrych i ranau eglur am feddwl rhanau aneglur.

416. Rheolir dehongliad arwyddluniau, a gweithredoedd arwyddluniol, gan yr un egwyddorion a dehongliad arallegau. Nid ydyw *mynegiad* arwyddluniol yn ddim ond un ffigurol, seiliedig ar gyfaledd (*analogy*), neu debygoliaeth, ac eglurir ef yn ol egwyddorion cyffredin dehongliad pob ymadroddion ffigurol.

417. Dammegion a ffugebau (*fables*) yr Hen Destament ydynt y rhai canlynol:—

Y prenau yn gwneyd brenin, gan Jotham, Barn. 9, 7.
Oenig y dyn tlawd, gan Nathan, 2 Sam. 12, 1.
Y ddau frawd yn ymrysson, 2 Sam. 14, 6.
Y carcharor a ddiangodd, 1 Bren. 20, 39.
Gweledigaeth Michea, 1 Bren. 22, 19—23,
Yr ysgallen a'r gedrwydden, 2 Bren. 14, 9.
Y winllan yn dwyn grawn gwylltion, Esay 5, 1.

Ceir y dammegion yn yr Efengylau wedi eu nodi yn amseryddol (*chronologically*), yn yr arweiniad i'r Efengylau.

418. Y mae Neander wedi dosranu dammegion ein Harglwydd gyda golwg ar y gwirioneddau a ddysgir ynddynt, a'u cyssylltiad â'i deyrnas ef.

Dammegion ar gynnydd teyrnas Crist:—

1. Yr hauwr, Math. 13, 3; Marc 4, 3; Luc 8, 5.
2. Yr efrau, Math. 13, 24.
3. Yr hedyn mwstard, Math. 13, 31; Marc 4, 31; Luc 13, 18, 19.
4. Y lefain, Math. 13, 33; Luc 13, 20, 21.
5. Y rhwyd, Math. 13, 47.

Nodweddau moesol er myned i mewn i deyrnas Crist:—
Dammegion gwrth-phariseaidd, neu nodweddau negyddol.
6. Y ddafad golledig, Math. 18, 12; Luc 15, 4.
7. Y darn arian colledig, Luc 15, 10.
8. Y mab afradlon, Luc 15, 11—32.
9. Y Phariseaid a'r Publican, Luc 18, 9—14.
10. Ymdrech am y lle blaenaf mewn gwleddoedd, Luc 14, 7—11.
Nodweddau penodol.
11. Y ddau fab, Math. 21, 28.
12. Y trysor cuddiedig, Math. 13, 44.
13. Y perl, Math. 13, 45, 46.
14. Y tŵr a'r brenin rhyfelgar, Luc 14, 28—33.
15. Y wisg briodas, Math. 22, 11.
Galwad i fyned i mewn i'r deyrnas.
16. Y wledd, Luc 14, 16—24; Math. 22, 1—14.
Gweithgarwch yn nheyrnas Crist.
17. Y winwydden, Ioan 15, 1.
18. Y gwinllanwyr annuwiol, Math. 21, 33—41.
19. Y talentau, Math. 25, 14—30; Luc 19, 12—27.
20. Y ffigysbren ddiffrwyth, Luc 13, 6.
21. Ffafr yn annibynol ar weithredoedd, Math. 20, 1—16. Y Llafurwyr.
Gwir ysbryd teyrnas Crist.
Maddeugarwch.
22. Y Samaritan, Luc 10, 25—37.
23. Y gwas anfaddeugar, Math. 18, 23; Luc 7, 41.
Yr iawn ddefnydd o feddiannau bydol.
24. Y goruchwyliwr annghyfiawn, Luc 16, 1—23.
25. Y gŵr goludog a Lazarus, Luc 16, 19.
26. Y deng morwyn, Math. 25.
Gweddi.
27. Y weddw daer, Luc 18, 1.
28. Y cyfaill ar ei daith, Luc 11, 5—10.

419. Y mae awduron ereill wedi mabwysiadu rhaniadau gwahanol. Y Dr. Gray a'u dospartha i

(1.) Y rhai a ddangosant natur a chynnydd yr oruchwyliaeth efengylaidd.

(2.) Y rhai a ddangosant wrthodiad yr Iuddewon, a galwad y cenedloedd.

(3.) Y rhai a gyflwynant addysgiaeth foesol.

Greswell a'i dospartha i'r prophwydol a'r moesol.

420. Mwy dewisol nag un o honynt yw dosraniad Lisco. Efe a'u golyga fel *tri* dosparth.

i. Y rhai a ddangosant y deyrnas nefol fel yn *cynnwys* gwirioneddau a galluoedd Dwyfol yn eu dechreuad, ac yn eu heffeithiau bendigedig. Gwel y gyfres flaenorol, 1, 3, 4, 11, 12.

ii. Y rhai a ddangosant y deyrnas nefol yn *sylfaenedig* ar y gwirioneddau yma, a'r rhai hyn ydynt,—

1. Y rhai a berthynant i'r eglwys fel cyfangorff, 20, 18, 16, 15 (galwedigaeth ac etholedigaeth yn gwahaniaethu), 2, 5.
2. Y rhai a berthynant i fynediad unigolion i mewn i'r eglwys, 6, 7, 8, 14.

iii. Y rhai a ddangosant y deyrnas nefol yn ffydd, cariad, a gobeithion ei haelodau. O berthynas—

1. I ffydd a gostyngeiddrwydd, &c., 21, 9, 11, 25, 26.
2. I gariad (Luc 7, 41), 23, 22.
3. I obaith, 26, 19.

Y dosranau yma ydynt yn bwysig, yn benaf am eu bod yn dangos golygiadau awdwyr enwog ar *amcan* pob dammeg. Dylid gofalu peidio cadw mor agos at y dosraniad a fabwysiedir genym, ac i adael heibio wersi moesol amlwg.

421. Egwyddorion dehongliad arallegau a dammegion, a elwir yn briodol felly, ydynt yr un mor gymhwysiadol at lawer sydd yn hanesyddol yn yr Ysgrythyr. Er enghraifft, yr oedd yr hen bobl Iuddewig yn dàl yr un berthynas â Duw ag y mae yr eglwys Gristionogol, a phob Cristion yn unigol, yn ddàl yn bresenol. Eu dyoddefiadau yn yr Aifft—eu gwaredigaeth drwy Moses—eu crwydriadau yn yr anialwch—a'u mynediad i Ganaan—y mae y cyfan yn cysgodi ffeithiau pwysig yn hanes pawb Cristionogion. Yr oedd yr Israeliaid nid yn unig yn byw dan yr un awdurdod a ni, ac yn cael eu llywodraethu drwy drefniant dysgyblaethol cyffelyb i'n heiddo ni, ond yr oedd ffeithiau eu hanes yn gysgodol o hanes yr eglwys (Rhuf. 2, 28; 1 Cor. 10, ; Heb. 4; 1 Pedr 2, 10; Dad. 15, 5.)

422. Amlwg yw hefyd, fod y berthynas rhwng y bobl Iuddewig â rhai o'r cenedloedd a'n cylchynent yn gysgod o'r berthynas rhwng yr eglwys Gristionogol a'i gwrthwynebwyr; Sodom ac Ismael, yr Aifft a Babilon, y mae iddynt oll eu cynnrychiolwyr yn hanes y gwir Israel (Gal. 4, 25; Dad. 14, 8).

423. Gellir ychwanegu, tra mewn un agwedd yr oedd Israel fel mab yn gynnrychiolydd o'n Harglwydd, fod hefyd gymmeriadau enwog yn mhlith yr Israeliaid yn gysgodau o hono; megys Moses yn mhlith y prophwydi; Dafydd a Solomon yn mhlith y breninoedd; ac, yn ganlynol, y mae ymadroddion ag oeddynt yn wreiddiol yn wirionedd am y cysgod, yn cael eu cymhwyso at Grist fel y gwrthgysgod, neu y cyflawniad. Gwel Hos. 11, 1; wedi ei chymharu â Math. 2, 15, &c.

424. Ac fel y bobl, felly hefyd yr oedd defodau ac addoliad yr Hen Destament yn gysgodol. Yr holl oruchwyliaeth oedd yn gysgod daionus bethau i ddyfod, ac nid eu gwir ddelw neu eu sylwedd. Y sylwedd hwnw oedd Crist (Heb. 10, 1).

Fel hyn, er dechreuad ein hiliogaeth, y mae cyfres gyssylltiadol a pharhaus o arddangosiadau wedi bod, pob un yn cynnwys rhyw wirionedd, a'r oll yn tueddu i egluro swydd neu waith ein Harglwydd, neu gymmeriad a hanes ei bobl.

Yr hanes a'r addoliad Iuddewig a ffurfiant un cysgod mawreddog. Yr Hen Destament (fel y nododd Augustine er ys cryn amser), yw y Newydd wedi ei lenu; a'r Testament Newydd yw yr Hen wedi ei ddadlenu.

425. Wrth ddehongli yr holl gysgodau yma, yn nghyd ag hanesyddiaeth yn ei hawgrymiadau ailraddol neu ysbrydol, defnyddiwn yr un rheolau ag wrth ddeongli yr hyn yn briodol a elwir dammegion ac arallegau: cymharer yr hanes, neu y cysgod, â'r gwirionedd cyffredin a gynnwysir yn y cysgod ac yn y gwrthgysgod; disgwylier cydundeb mewn amryw neillduolion, ond nid yn y cyfan; a bydded i ddehongliad pob rhan gyduno âg amcan y cyfan, ac â'r dadguddiad eglur o athrawiaeth Ddwyfol yn holl ranau ereill y gyfrol santaidd.

426. Wrth gymhwyso y rheolau yma, y mae o bwys cofio nad oedd yr

ysgrifenwyr ysbrydoledig un amser yn dinystrio synwyr hanesyddol yr Ysgrythyr er mwyn sefydlu yr un ysbrydol (fel y mae rhai ymchwilwyr wedi gwneyd), ac nid ydynt yn cael meddwl cuddiedig yn y geiriau (fel y gwna yr Iuddewon), ond yn unig yn ffeithiau pob rhan: y mae yr ystyr hwnw bob amser yn eglur, naturiol, ac ysgrythyrol, a chyfyngant eu hunain at y cyfryw esboniadau ag sydd yn egluro rhyw wirionedd o bwysigrwydd ymarferol neu ysbrydol (Heb. 5, 11; 9, 5). Yn wir, wrth chwilio y rhanau o'r Hen Destament a ddyfynir yn y Newydd, gwelir yn eglur eu bod yn cael eu dwyn yn mlaen gyda chyfeiriad naill ai at hanes bersonol a swydd gyfryngol ein Harglwydd, at gymmeriad ysbrydol ei deyrnas, neu at dynged ddyfodol ei eglwys.

427. Y mae y dehongliad arallegawl o'r Ysgrythyr wedi cael ei gamddefnyddio, fel y mae o bwys rhoddi egluriadau helaethach ar y nodiadau yma.

428. Yr oedd yr hen Iuddewon yn arallegu ar *eiriau* yr Ysgrythyr.

Er enghraifft, yn y gwreiddiol o'r gair a gyfieithir "*creodd*," Gen. 1, 1, y maent yn cael y llythyren gyntaf o'r Hebraeg am Dad, Mab, ac Ysbryd; ac oddiwrth hyn profant athrawiaeth y Drindod. Cymhwysant Salm 21, 1, at Grist, am fod llythyrenau y gwreiddiol am "llawenycha," drwy drawsgyflead (*transposition*), yn gwneuthur Messiah. Dygwydda y llythyren "A" (*Aleph*) chwech o weithiau yn Gen. 1, 1; a chan fod *ä* yn cynnrychioli mil, tybiant mai bodoliaeth y byd am 6,000 o flynyddau yw y gwirionedd cynnwysedig yn y ffaith yma. Ystyriant "Ath," arwydd y cyflwr cyhuddol penodol (*definite accusative*) yn Hebraeg, fel yn cynnwys holl hanfod peth, a'i fod yn cael ei wneyd i fyny o'r llythyren gyntaf a'r un ddiweddaf yn yr egwyddor Hebreig. Yn yr un ysbryd y dywed y gau-Farnabas i Abraham enwaedu 318 o ddynion ei deulu, Gen. 14, 14, am fod y nifer yma mewn llythyrenau Groeg yn arddangos Iesu a'r Groes, I=10, H=8, a T=300.

429. Ar y llaw arall, y mae rhai ysgrifenwyr yn arallegu yr Ysgrythyr, drwy ddinystrio eu *ffeithiau*.

Er enghraifft, dywedir nad oedd i Ioan Fedyddiwr fodoliaeth sylweddol, ond mai math o arddangosiad cyfrinol (*mythic*) ydoedd o gorff cynnulledig y prophwydi Iuddewig yn eu perthynas â Christ. Dywedant nad ydyw yr adroddiad am y lletty a'r preseb yn Bethlehem yn cynnwys dim mwy nâ genedigaeth gyffredin pob peth Dwyfol i'n byd ni.

Yn yr un ysbryd y bernid nad oedd saith niwrnod y greadigaeth yn golygu dim ond perffeithrwydd gwaith Duw, a bod symudiad Ysbryd Duw ar wyneb y dyfroedd yn golygu golchiad ysbrydol y bedydd Cristionogol.

430. Y mae arferiad arall, er nad ydyw yn un llai drygionus, wedi cael ei fabwysiadu yn mhob oes, sef caniatâu gwirionedd hanesyddol yr adroddiad ysbrydoledig, a sylfaenu ar bob rhan o honi ryw athrawiaeth ysbrydol, nid fel yr eglurir hi, ond fel y profir ac y bwriedir hi gan yr Ysbryd Glân.

I'r duedd yma y gellir olrhain y meddylddrych y bydd y Milflwyddiant yn y seithfed fil o flynyddoedd yn hanes y byd. Ar yr un egwyddor, ystyrid dosparthiad yr anifeiliaid i lân ac aflan, fel yn arddangos rhinwedd a drygioni yn y natur ddynol. Gwnelid y mynegiadau symlaf drwy hyn yn wrthun. Dywedodd Moses, "Beth bynag a hollto yr ewin, ac a gnoa ei gil, a fwytewch," gan arwyddo, medd Epistol Barnabas, y dylem ymlynu wrth y rhai hyny sydd yn myfyrio ar y gorchymyn, ac sydd (yn hollti yr ewin, hyny yw) yn byw yn y byd hwn, ond sydd â'u dysgwyliad mewn

byd arall. Cyfeiria y nefoedd a'r ddaear, yn ngweddi yr Arglwydd (medd Tertullian), at gorff ac enaid dyn, Luc 11, 2. Y pump torth â pha rai y porthodd ein Harglwydd y lluaws, medd Clement, a arwyddant y pump synwyr, Ioan 6, 9. Ysgrifenydd arall (Cyril) a'u hystyria hwynt fel pump llyfr Moses, a'r ddau bysgodyn fel yr athroniaeth Roegaidd, yr hon a gynnyrchir ac a ddygir yn mlaen drwy ddyfroedd paganaidd; neu ddysgeidiaeth ein Hiachawdwr, fel yn apostolaidd ac efengylaidd. Hyd y nod Origen a adeilada ar yr hyn a eilw efe yn arwyddluniau (*images*) yr ysgrythyr, yr athrawiaeth y bydd yn y diwedd adferiad cyffredinol i'r holl fydyssawd ysbrydol i'w burdeb a'i fendigedigrwydd gwreiddiol.

Meddylia Justin fod ymdrech Jacob yn gysgod o demtiad ein Harglwydd, a bod y niwed a dderbyniodd yn arddangos dyoddefaint a marwolaeth Crist.

Athanasius, yr hwn weithiau a gondemnia y dull hwn o ddehongli, wrth esbonio Math. 5, 29, a dybia fod y corff yn golygu yr eglwys, y llygaid a'r dwylaw yr esgobion a'r diaconiaid, y rhai a ddylent gael eu tòri ymaith os cyflawnent weithredoedd niweidiol i'r eglwys.

Meddylia Hilari mai wrth adar y nefoedd (Math. 6, 26—30) y mae golygu ysbrydion aflan, i'r rhai y rhodda Duw fywyd heb drafferth. Angylion yw y lili; paganiaid yw y glaswellt. Mam plant Zebedeus a arddengys y gyfraith; a'i meibion, yr Iuddewon crediniol.

Cyril a ystyria Malchus yn gysgod o'r Iuddewon, ac, fel y tòrodd Pedr ei glust ddeau ef ymaith, mai felly yr attelir hwy rhag iawn glywed, gan fod eu clywed yn unig yn anystyriol neu anufydd.

Cyfiawnhëid yr holl ddehongliadau yma mewn egwyddor. Ystyrid synwyr hanesyddol eglur yr ymadrodd bob amser fel y lleiaf pwysig, ac weithiau fel yn hollol anwireddus; tra mae yr ystyr ysbrydol neu arallegawl yn unig a ystyrid yn deilwng o feddwl goleuedig. Oddiwrth hyn y dadleua Origen fod hanes y cread, godineb Lot, dwy wraig Abraham, priodas Jacob â Leah a Rachel, oll mewn aralleg; mor fuan y cynnyrcha un eithafion y llall.

Canlynid y siamplau yma i raddau helaeth yn mysg yr amrywiol sectau a gyfodasant yn yr eglwys foreol. Yr oeddynt oll yn cyfiawnhau eu hopiniynau drwy ddehongliadau arallegawl o'r ysgrythyr, nes o'r diwedd fod yr ystyr hanesyddol llythyrenol, yn nghyd â'r holl wersi moesol ac ysbrydol a gyflwynai, yn cael ei esgeuluso neu ei wadu.

431. Duwioldeb goleuedig a wrthoda yr holl ddehongliadau ffugiol yma, fel cynnyrchion dychymmyg crwydrawl, ac ni fetha gasglu oddiwrth ranau hanesyddol yr ysgrythyr y gwersi hyny o ddoethineb santaidd y bwriadwyd hwynt i'w cyflwyno. Y pynciau hanfodol ydynt, fod llawer o gymmeriadau a gweithrediadau yn cael eu cofnodi yn yr Hen Destament fel yn gysgodol, fod llawer iawn mwy yn arddangos nodweddau y dylem ni eu hefelychu neu eu condemnio, fod ereill yn egluro egwyddorion y llywodraeth ddwyfol sydd o hyd mewn grym, ac na ddylid dehongli yr un o honynt heb gyfeirio at y dadguddiadau eglur a roddir mewn rhanau ereill o'r gair dwyfol.

432. Gellir ychwanegu fod cysgodau yn brophwydol, a gellir eu defnyddio i brofi yn gystal ag i egluro yr efengyl. Siamplau, cyfaleddau (*analogies*), a thebygiaethau (*resemblances*), sydd heb gael eu nodi fel yn gysgodol, ydynt yn eglurhäol yn unig. Y maent yn egluro y gwirionedd yn hytrach nag yn ei brofi.

433. Ar y pynciau a drinir yn y ddosran yma, gwel yn neillduol ar y dammegion,—

Pregethau DODD ar y Gwyrthiau a'r Dammegion, 4 cyf., 1757.
Darluniad A. GRAY o'r Dammegion, 1777.
LISCO ar y Dammegion. Clark, 1840.
Nodiadau TRENCH ar Ddammegion ein Harglwydd, 1847,

Ar y Cysgodau, heblaw M'Ewen a Wilson (o Irvine),—

EFENGYL yr Hen Destament, o St. Matthew, gan Charlotte Elizabeth.
Darlithiau MARSH ar Feirniadaeth a Dehongliaeth Feiblaidd, lle y dadleuir nad oes dim yn gysgod os na fydd yn cael ei gydnabod fel y cyfryw mewn modd ffurfiol yn y Testament Newydd. FAIRBAIRN (Cysgodraeth —*Typology*—yr Ysgrythyr), yr hwn a ddadleua fod y Testament Newydd yn cadarnhau fod yr oll o'r oruchwyliaeth flaenorol yn gysgodol. Cymhwysa yr egwyddor yma at y sefydliadau patriarchaidd a Moesenaidd, ac at hanesyddiaeth.
EDWARDS ar y Cysgodau o'r Messiah.

Ar Ddehongliad Allegol (*Allegorical*), gwel,—

OLSHAUSEN ar Ddehongliaeth Feiblaidd, fel y dysgir hi gan yr ysgrifenwyr ysbrydoledig; neu, ar ystyr ddwfn ysbrydol yr ysgrythyr. Neufch., 1841, a
MAENSCHER ar y Cysgodau, a Dehongliaeth Gysgodol o'r Ysgrythyr. *American Biblical Repository*, Ion., 1841.

DOS. 8.—*Ar Ddehongliaeth Prophwydoliaeth.*

"Mewn ystyr neillduol, yr ydys yn briodol wedi galw hanesiaeth yn ddehonglydd prophwydoliaeth; ond i'r Israeliad, yr oedd prophwydoliaeth yn fwy o ddehonglydd hanesyddiaeth, oblegid rhoddai iddo ef rybydd dealladwy am ddygwyddiadau cyfagos, a chynnysgaethai ef â rhesymau rhagluniaeth Duw yn nygiad oddiamgylch y dygwyddiadau hyny."—DAVIDSON: *Darlithiau ar Brophwydoliaeth.*

434. Y mae yr holl anhawsderau perthynol i ddehongliaeth ysgrythyrol y cyfeiriasom atynt, i'w cael mewn prophwydoliaeth. Ei iaith sydd yn dra ffigurol, ac, yn fynych, yn allegol. Y cyfeiriadau at hanesiaeth ac amgylchiadau yr amseroedd ydynt luosog. Y dygwyddiadau cofnodedig ydynt, gan mwyaf, yn ddyfodol, ac nid ydynt yn cael eu cyflawn ddadguddio. Ar bob tir, gan hyny, y mae y gofal mwyaf yn angenrheidiol er iawn ddeall meddwl y rhagfynegiadau ysbrydoledig.

Fel y gelwid y prophwydi yn weledyddion (*seers*), felly, prophwydoliaethau yr Hen Destament a elwid yn gyffredin yn weledigaethau, Num. 24, 17; 2 Cron. 9, 29; Ezec. 37; Hab. 2, 1. Y mae rhai o honynt wedi eu cofnodi mewn ysgrifen er hyfforddiad i'r eglwys ar bob amser, ac ereill a gyflwynid mewn geiriau gan y prophwydi i'w cydoesolion; a'r cyfan mewn iaith wedi ei chymmeryd, i raddau helaeth, oddiwrth yr arferion a'r addoliad cyffredin yn eu mysg hwynt. Oddiwrth hyn y cyfododd amryw o nodweddau neillduol yr ysgrythyrau prophwydol.

435. O berthynas i *amser*:—

1. Llefara y prophwydi yn aml am bethau perthynol i'r dyfodol pell, fel yn bresenol yn eu golwg.

Megys yn Esay 9, 6, dywedir, "Canys bachgen a aned i ni, mab a roddwyd i ni." Felly yn Esay 42, 1.

2. Llefarant am bethau dyfodol fel wedi myned heibio.

Er enghraifft, yn Esay 53, y mae yn agos yr oll o weithrediadau bywyd "gwas" Duw yn cael eu gosod allan fel wedi eu cwblhau; ymddengys y prophwyd fel yn sefyll rhwng marwolaeth ein Harglwydd a'i ogoniant dyfodol.

3. Pan nad oedd amser penodol dygwyddiadau neillduol yn cael eu dadguddio, y prophwydi a'u darluniant fel yn barhaol (*coutinuous*). Gwelent y dyfodol mewn gofod (*space*) yn hytrach nag mewn amser; ymddengys y cyfan, gan hyny, fel wedi ei ragfyrhau (*fore-shortened*), a sylwir ar y golygol (*perspective*) yn hytrach nag ar bellder gwirioneddol. Ymddangosant yn fynych yn llefaru am bethau dyfodol fel y desgrifid y sêr gan sylwedydd cyffredin, gan eu tyru yn ol eu hymddangosiad, ac nid yn ol eu gwir sefyllfaoedd.

Er enghraifft, yn Jer. 50, 41, y mae goresgyniad cyntaf, a chyflawn ddinystr Babilon, wedi eu cyssylltu, heb unrhyw sylw yn cael ei wneuthur o'r cyfwng rhyngddynt: aeth yn agos mil o flynyddoedd heibio rhwng ysgydwad cyntaf yr amherodraeth yn ymosodiad y Persiaid a chyflawn ddymchweliad y ddinas.

Yn Esay, pen. 10 a 11, y mae gwaredigaeth yr Iuddewon oddiwrth iau yr Assyriaid yn cael ei chyssylltu â'r waredigaeth oedd i gael ei heffeithio gan y Messiah.

Yr un modd Esay, Micah, Hosea, Ezeciel, a Jeremiah, y maent oll yn cyssylltu y ddau ddygwyddiad yma, ond heb awgrymu fod y Messiah i gymmeryd rhan yn y ddau.

Sechariah hefyd, yr hwn oedd yn byw ar ol yr alltudiad, a gyssyllta iachawdwriaeth ysbrydol yr eglwys yn y dyfodol pell â gwaredigaeth dymmorol yr Iuddewon dan Alexander a'r Maccabeaid.

Yn y desgrifiad a roddir o ymostyngiad a gogoniant y Messiah, anfynych y gwneir sylw o'r amser oedd i fyned heibio cyn sefydliad ei deyrnas. Cyssylltir y ddau yn aml yn yr un adnodau, megys yn Sec. 9, 9, 10. Yn yr un modd y mae Joel yn cyssylltu tywalltiad yr Ysbryd ar ddydd y Pentecost, â'i gyfraniad cyffredinol mewn amseroedd diweddarach, pen. 2, 28, &c.

Mae yn wir fod yr amser penodol, weithiau, yn cael ei ddadguddio i'r prophwyd, a'i gofnodi, megys yn mherthynas i deithiau Abraham a'i hiliogaeth yn yr Aifft, Gen. 15. 13; y pum mlynedd a thriugain yn mha rai yr oedd Israel i gael ei thori, Esay 7, 8; a'r caethiwed yn Babilon, Jer. 29, 10; ond yn fwyaf cyffredin, yr oedd y prophwydi yn anwybodus o hono, fel y dywedir wrthym gan yr apostol Pedr, ac y cydnabyddir gan Sechariah, 1 Pedr 1, 10—12; Sec. 14, 7.

Aml iawn y mae dygwyddiadau, yn lle cael eu harddangos yn barhäol, yn cael eu cydgymmysgu. Eglurir y sylw yma gan brophwydoliaethau olaf Esay, a rhai o brophwydoliaethau ein Harglwydd o berthynas i ddinystr Jerusalem, a'r farn ddiweddaf, Math. 24, 28, 29.

436. O berthynas i *iaith*:—Gan fod y dyfodol, fel hyn, yn cael ei arddangos mewn gweledigaethau, ac o dan oruchwyliaeth gysgodol, nid ydyw yn achos o un rhyfeddod fod y cyfan, yn aml, yn cael ei ddesgrifio mewn iaith ffigurol ac allegol, neu arwyddluniol. Pe buasai prophwydoliaeth yn mhob man yn gynnwysedig mewn desgrifiad llythyrenol, buasai yn rhwystro ei hamcan, ac, naill ai yn attal y cyflawniad, neu yn cymmeryd oddiwrth y brophwydoliaeth gyflawnedig bob prawf o ddechreuad dwyfol. Heblaw hyny, fel y mae pob peth daearol yn wasanaethgar i ddarlunio

pethau ysbrydol, felly hefyd y mae yr oll o'r oruchwyliaeth Iuddewig. Gan hyny, y mae iaith wedi ei benthyca oddiwrth natur ac oddiwrth y gyfraith mor briodol ag ydyw yn angenrheidiol. Eglurir unoliaeth ac ëangder cynlluniau Duw ganddi oll.

Er enghraifft, y Messiah dan yr efengyl oedd i fod yn frenin, ac oblegid hyn, y prophwydi a'i darluniai fel yn feddiannol ar nodweddau prif dywysogion y ddwyf-lywyddiaeth (*theocracy*) Iuddewig, a phriodolant iddo, fwy nag unwaith, y teitl Dafydd, yr hwn, mewn llawer o bethau, oedd yn gynllun o awdurdod freiniol, Hos. 3, 5; Jer. 30, 9; Act. 13, 34. Yn yr un modd y darluniant ei gymmeriad fel prophwyd neu offeiriad, ac yn mhob achos lluosogant gymhariaethau cyfaddas i gyflwyno y drychfeddwl uchelaf am ei swydd, Salm 110; Sec. 6; Heb. 7. Yn gyffelyb hefyd y llefarant am deyrnas ei ras, neu ei ogoniant, fel perffeithrwydd uchaf yr oruchwyliaeth Iuddewig. Gelwir hi Jerusalem, neu Seion, Esay 62, 1, 6, 7; 60, 15—20; Gal. 4, 26—28; Heb. 12, 22. Gwel hefyd, Esay, 60, 6, 7; 66, 23.[a] Ymddengys tywalltiad yr Ysbryd i Joel fel ëangiad cyffredinol o'r tair ffurf o ddadguddiad dwyfol a geir yn yr Hen Destament. Y drychfeddwl y bydd i'r holl genedloedd addoli y gwir Dduw, a osodir allan gan Secharias, drwy ddywedyd y bydd iddynt ymuno yn ngwyl y pebyll (14,16). Ymddengys cariad ac ufydd-dod perffaith pobl Dduw i Hosea, ac ereill, fel symudiad ymaith addoliad Baal, ac fel ymadawiad yr eglwys oddiwrth Assyria a'r Aifft, Sec. 14, 16; Esay 19, 19—21; Sec. pen. 2, 14, a 13; Mic. 5. Gogoniant dyddiau y Messia a osodir allan drwy amseroedd llwyddiannus Dafydd a Solomon, Sec. 3, 10; 1 Bren. 4, 25. Cyffredinolrwydd heddwch, drwy uniad Judah ac Israel, Hos. 1, 11; Esay 11, 13. Yn yr un modd y mae gelynion teyrnas y Messiah, nid yn unig yn cael eu galw ar yr enw rhoddedig ar elynion yr hen ddwyf-lywyddiaeth, sef cenedlaethau y Cenedloedd, ond y maent hefyd yn dwyn enw rhyw un pobl, y rhai oeddynt y pryd hwnw yn nodedig o elyniaethus, neu nerthol. Yn Esay 25, gelwir hwynt ar enw Moab; yn Esay 63, ac Amos 9, 12, ar enw Edom; ac yn Ezec. 38, ar enw Magog. Y mae, yn wir, brophwydoliaethau neillduol am y rhan fwyaf o'r cenedloedd neu y dinasoedd yma. Ond hefyd, defnyddir eu henwau yn yr adnodau uchod, ac ereill, yn rhywogaethol (*generically*), neu yn ffigurol. Cawn, gan hyny, ragfynegiad o adferiad Moab ac Elam yn y dyddiau diweddaf, Jer. 48, 47; 49, 39. Oddiwrth hyn hefyd y mae y "fendith i'r tir" i fyned allan "yn y dydd hwnw" o Israel, Assyria, a'r Aifft, Esay, 19, 18—25.

437. Ni ddylid rhyfeddu wrth y neillduolrwydd yma mewn iaith brophwydol. Ceir hi yn llenwi yr oll o'r hen oruchwyliaeth. Dechreuodd yr oruchwyliaeth hono gyda'r addewid i Abraham. Yr oedd ei hiliogaeth i fod fel y sêr, ac yr oedd holl genedloedd y ddaear i gael eu bendithio ynddo ef, ac yn ei hâd. Cyflawnwyd y rhan gyntaf o'r brophwydoliaeth yma yn ei hâd naturiol, fel yr awgryma Moses, Exod. 32, 13; Deut. 1, 10, 11. Cymhwysir hi gan Paul hefyd at ei hâd ysbrydol, at bawb a gredont, Rhuf. 4, 16; Gal. 3, 8, 9. Y fendith ar yr holl genedloedd hefyd, yr ail ran o'r addewid, sydd i fod ar bawb credinwyr a dderbynir drwy Grist, yr hwn yw yr hâd yn ol y cnawd, Gal. 3, 16, 19, 29.

Y ffaith nodedig nesaf yn hanes yr Iuddewon yw, eu gwaredigaeth o'r Aifft; ac mewn cyssylltiad â'r waredigaeth hono, defnyddir yr ymadroddion rhyfeddaf i osod allan eu ffafr yn ngolwg Duw. Yr holl ymadroddion

[a] Gwel "Bickersteth ar y Prophwydoliaethau," tud. 50.

yma, fodd bynag, a gymhwysir yn y Testament Newydd at yr eglwys. Dywedir i Dduw eu *dewis* hwynt (Deut. 10, 15; Ezec. 20, 5; Eph. 1, 4. Efe a'u *gwaredodd*, ac a'u *hachubodd* hwynt (Exod. 3, 8; 14, 30; Gal. 1, 4; 1 Thes. 1, 10; 2 Tim. 1, 9). Efe a'u *crëodd*, ac a'u *galwodd* hwynt (Esay 43, 1; 44, 2; 1 Cor. 1, 9; Col. 3, 10). Y ddau ydynt *feibion, gweiniaid*, ac *anwyl* (Ezec. 16, 3—6; Esay 44, 2; Deut. 32, 6; Gal. 3, 26; 1 Pedr 1, 3); y ddau ydynt *frodyr* (Deut. 1, 16; Col. 1, 2); yn *dŷ*, yn *deulu* (Num. 12, 7; Heb. 3, 6); yn *genedl* (Deut. 4, 34; 1 Pedr 2, 9); y ddau ydynt *gyd-ddinasyddion*, yn cael eu cylchynu gan ddyeithriaid (Exod. 20, 10; Eph. 2, 19); ac y mae pob un yn etifeddion i'w etifeddiaeth briodol (Num. 26, 53; Heb. 9, 15). Yn yr un modd cymharer cymhwysiad y geiriau canlynol, dan y ddwy oruchwyliaeth:— "Gweision;" "gwr" a "gwraig," "mam" a "phlant;" "godineb;" "cyssegr," neu "deml;" "offeiriaid;" "saint," neu "santaidd;" "agos," neu "yn mhell;" "cynnulleidfa," neu "eglwys;" "gwinwydden," "gwinllan;" "bugail," "deadell;" "etifeddiaeth," neu "gyfran;" neu y rhagorfreintiau a'r dyledswyddau a awgrymir gan yr ymadroddion uchod, a cheir fod yn agos yr oll o enwau nodweddiadol Israel yn cael eu cymhwyso at y corff o gredinwyr. Yn yr achos cyntaf, cyn belled ag yr oedd a fynai y bobl, y bendithion a'r perthynasau yma oeddynt yn ddaearol a thymmorol; ond yn yr ail, yn ysbrydol a thragywyddol, gan y mwynhëid bendithion ysbrydol *personol* yn y ddau.

Yr apostolion, drwy eu holl ysgrifeniadau, a ymresymant ar yr un egwyddor. Nyni, y rhai a gredwn, ac ydym wedi ein dwyn i undeb â Christ, ydym blant i Abraham, ac etifeddion ei addewid ef (Gal. 3, 29; Rhuf. 4, 11, 16); yn *Israel* Duw (Gal. 6, 16); fel yn wahanedig oddiwrth yr Israel yn ol y cnawd (1 Cor. 10, 18), y gwir enwaediad (Phil. 3, 3); y rhai, gan hyny, a honant yr hen addewidion (Gen. 22, 16, 17, a gymhwysir at yr holl gredinwyr; Heb. 6, 13, 20; Deut. 31, 6; Jos. 1, 5, dyfynedig Heb. 13, 4, 5: Hos. 1, 10: 2, 23, dyfynedig Rhuf. 9, 24—36).

438. Wedi y mynediad allan o'r Aifft, daeth sefydliad y ddeddf seremoniol, ei haberthau, ei hoffeiriadaeth, ei thrugareddfa, ei thabernacl a'r deml, a'i haddoliad. Nid ydyw braidd yn angenrheidiol sylwi fod yr holl bethau hyn yn cael eu gosod allan gan y prophwydi fel yn cael eu hadferu yn y dyddiau diweddaf; ac yn yr Efengylau, cymhwysir pob un o'r ymadroddion at ein Harglwydd, neu at ei Eglwys. Y mae efe yn offeiriad, ac yn gymmodfa (*ilastérion*), yn dabernacl (*skené*, Ioan 1, 14), ac yn deml (*naós*, Ioan 2, 19); ac y mae ei eglwys felly hefyd, ar ol ei esgyniad ef (1 Cor. 3, 16). Ei haelodau a offrymant aberthau ysbrydol. Ffurfiant offeiriadaeth freninol, a chenedl santaidd.

439. Dechreua y cyfnod prophwydol nesaf gyda Samuel. Ei brif swydd ef oedd darparu tuag at sefydliad awdurdod freninol. Gorchymynwyd iddo, fodd bynag, i aicrhau i Dafydd y buasai ei hâd yn eistedd ar yr orsedd yn dragywydd; *hyny yw*, yn llythyrenol, hyd derfyniad y deyrnas, neu, yn ysbrydol, yn mherson ei Fab, hyd oni osodid pob peth dan ei draed ef. Nid yw Samuel na Nathan yn dywedyd dim am yr ystyr ëang yma; ond Dafydd, ac efe yn brophwyd ei hunan, a'i dealla yn eglur, ac a'i cymhwysa mewn rhan ato ef ei hun (2 Bren. 2, 4), ond a briodola gyflawnder yr addewid i'w Arglwydd, Sal. 2; 72; 110. Yn y Testament Newydd, cymhwysir yr holl Salmau yma at y deyrnas a ddechreuodd Iesu Grist pan ymddangosodd yn y byd (Heb. 1, 5), neu, pan gyfododd oddiwrth y meirw (Rhuf. 1, 4).

440. Terfynir y cyfnod prophwydol yma gyda rhagfynegiadau Amos, Hosea, Esay, a'r prophwydi diweddaraf. Pwnc mawr eu prophwydoliaethau yw adferiad yr Iuddewon, ac adsefydliad yr oruchwyliaeth hono a ymddangosai fel yn prysuro, heb obaith am wellhad, i ddifodiant. Arddangosir y pwnc yma mewn ffurf ddeublyg. Y prophwydi oeddynt yn byw cyn y caethiwed, a'r rhai oeddynt yn byw ynddo, a ragfynegant adferiad, ac a fenthyciant oddiwrtho ymadroddion i ddesgrifio sefydliad teyrnas newydd. Haggai a Zechariah a ragfynegant adeiladiad teml, ac a lefarant, dan y ffigur yma, am yr eglwys. Wedi gorpheniad y deml, yr oedd yr addoliad Iuddewig yn hunanol a thwyllodrus. Malachi, gan hyny, a ragfynega ddyfodiad un oedd i buro meibion Lefi, ac i sicrhau oddiwrth bawb aberth ysbrydol.

Mewn gair, y mae nid yn unig y prophwydi, ond hefyd yr holl ysgrifenwyr ysbrydoledig, yn desgrifio yr eglwys mewn ymadroddion benthyciol oddiwrth gyfnodau dilynol yn hanes yr hen oruchwyliaeth. Ond pa un ai am fod prophwydoliaeth yr Hen Destament yn cael ei gosod allan mewn iaith seiliedig ar yr oruchwyliaeth hono, nad oes iddi *o herwydd hyny* unrhyw gyflawniad pellach neu fwy llythyrenol, sydd bwnc arall. Yn y cyfamser, sylwer ar y ffaith, oddiwrth ba un y mae yr ymofyniad yma yn cyfodi. Y mae y ffaith ei hunan o bwys mawr wrth egluro y ddeddf a'r efengyl.

441. Cyfyd neillduolrwydd arall perthynol i brophwydoliaeth oddiwrth gymmeriad cysgodol yr hen oruchwyliaethau. Nid yn unig llefara eu hiaith, ond y mae iddi hefyd yn aml gymhwysiad deublyg. Cyfeiria at un gwrthddrych drwy ragflaeniad *(anticipation)*, ac yn rhanol, ac at y llall yn gyflawn; a bydd y gwrthddrych blaenaf yn gynnrychiolydd o'r olaf. Ceir y cyfeiriad deublyg yma yn yr addewidion i Abraham (Gen. 15, &c.); yn mhrophwydoliaethau Jacob o berthynas i Judah (Gen. 49), yn eiddo Balaam (Num. 24, 17), a Nathan (2 Sam. 7, 12—17), a Dafydd mewn rhai o'r Salmau, mewn llawer rhan o Esay, ac mewn prophwydi ereill. Fel y mae hanes yr Iuddewon yn rhag-gysgodi hanes yr eglwys, felly y gwna prophwydoliaeth gyda golwg ar brofiad y ddau. Nid yw yr holl ranau prophwydol yn meddu y cymhwysder yma, ac, a barnu oddiwrth yr enghreifftiau yn y Testament Newydd, nid oes unrhyw ranau yn cwbl feddu y cyfryw gymhwysderau. Mewn gair, cyfyngir y cymhwysiad deublyg at ddygwyddiadau cyffelyb o dan ddwy oruchwyliaeth wahanol a phell oddiwrth eu gilydd, ac nid yw un amser yn gymhwysiadol at ddau ddygwyddiad gwahanol dan yr un oruchwyliaeth. Prophwydoliaethau am yr adferiad o Babilon (Jer. 31; Esay 52), ar osodiad i fyny dabernacl Dafydd (Amos 9), ac ar ei deyrnas (2 Sam. 7), yr oedd iddynt oll, i raddau penodol, gyflawniad uniongyrchol, ac etto cymhwysir hwynt yn y Testament Newydd at oruchwyliaeth yr efengyl. Rhaid cyfyngu y cymhwysiad deublyg yma at yr oruchwyliaeth hono, naill ai ynddi ei hun, neu yn ei chanlyniadau.

442. Oddiwrth yr ystyr deublyg yma y mae yn canlyn, megys yn y cyflawniad cyntaf y mae terfynau i'r fendith ragfynegedig, felly, yn yr ail, y mae cyflawnder o feddwl sydd yn ymddangos yn anmhosibl ei ddyspyddu. Er enghraifft, yr oedd yr addewid i Dafydd, mewn rhan yn ammodol, ac mewn rhan yn anammodol. Fel yn ammodol, nis gellir ei gymhwyso at Grist; ac fel yn anammodol, nis gellir ei gymhwyso yn ei feddwl llythyrenol cyflawnaf at Dafydd. "Minnau a gadarnhaf orseddfainc ei freniniaeth *ef byth*. Os trosedda efe, mi a'i ceryddaf â gwialen ddynol.....

ond fy nhrugaredd nid ymedy âg ef, megys ag y tynais hi oddiwrth Saul." 2 Sam. 7, 13—15. Ail-adroddir yr ammod gan Dafydd a Duw (1 Bren. 2, 4; 9, 4); ac nid oedd, gan hyny, i'r addewid y buasai hâd Abraham yn meddiannu yr orsedd *byth*, yn ei hystyr lythyrenol, ond cyflawniad cyfyngedig. Gall *byth* olygu hyd ddiwedd y deyrnas, neu hyd ddiwedd y llywodraeth; cynnwysa yr ymadrodd barhad cysson drwy yr holl gyfnod—cyfundraeth o bethau at ba rai y deallir fod cyfeiriad yn cael ei wneyd. Mewn gwirionedd, teulu Dafydd a feddiannodd yr orsedd hyd ddiwedd y deyrnas, gan ei dàl drwy ugain o ddisgynyddion am dros 400 mlynedd; tra, yn nhymmor byr teyrnas Israel (254 mlynedd), bu pedwar-ar-bumtheg o freninoedd, allan o *naw* o deuluoedd gwahanol. Yr oedd, gan hyny, gyflawniad llythyrenol i'r addewid; ond eglur yw, ei fod yn gyflawniad llai gogoneddus nâ phan yn cael ei gymhwyso at y Messiah. Yn wir, y mae prophwydoliaeth wedi ei benthycio oddiwrth gysgodau blaenorol mor annghyfaddas i ddesgrifio ei deyrnas ef ag yw adroddiad, seiliedig ar sefydliadau seremoniol, i ddesgrifio ei swydd. Gelwir ef genym yn brophwyd ac offeiriad, ein haberth a'n heiriolwr; ond nis gall yr un o'r sefydliadau, oddiwrth ba rai y mae yr enwau yma wedi eu cymmeryd, fynegu ei ogoniant, na dywedyd ei werth.

443. Ond tra mae cymhwysiad deublyg i brophwydoliaethau perthynol i gysgodau a gwrthgysgodau, rhaid i ni ychwanegu fod prophwydoliaethau ereill, y rhai ydynt o natur egwyddorion moesol cyffredinol, a'r rhai ydynt, o herwydd hyny, yn cael eu cyflawnu yn aml. Ucheldrem dyn a iselir (Esay 2, 11), y rhai a ymadawant â'r Arglwydd a ddifethir (1, 28), bara yr hwn a rodia mewn cyfiawnder a roddir iddo, ei ddwfr fydd sicr (Esay 33, 15, 16), ydynt yn enghreifftiau. Llefarwyd pob un o honynt ar achlysur *neillduol*, ac y mae pob un, fel gwirionedd cyffredin, yn gymhwysiadol at bob amseroedd. Yr ysgrifeniadau prophwydol ydynt gyflawn o'r cyfryw ragfynegiadau *moesol*; ac, o berthynas iddynt, y mae nodiad Leighton yn nodedig o briodol, fod "ffrwd bêr prophwydoliaeth, fel yr afonydd, wedi gwneuthur ei glànau ei hunan yn ffrwythlawn a hyfryd, fel y rhedai heibio, ac y dylifai o hyd yn mlaen i oesoedd dyfodol."

444. Gan mai y cyfryw yw adeilad prophwydoliaeth, y mae yn eglur mai y rheolau dehongliaeth mwyaf pwysig yw y rhai hyny sydd yn cyfeirio at hanes ac amgylchiadau yr awduron—defnydd ac ystyr iaith ffigurol yn gyffredin—rhagfynegiadau cyfochrawg (*parallel predictions*) a chyflawniadau rhanol—ac yn enwedig y cyfryw a awgrymir gan y cymbwysiad a wneir o hen ragfynegiadau yn y Testament Newydd.

1. Bydded i fyfyriwr prophwydoliaeth ymofyn beth oedd gwir gyflwr y prophwyd, yn (1.) o berthynas i'w oes, ac yn (2), o berthynas i'w brophwydoliaethau. (1.) Yr oedd pob prophwyd yn genadwr i'w amseroedd ei hunan. Benthyciai ei ddelweddau (*imagery*) oddiwrth amgylchiadau ei wlad, a chyfaddasai ei genadwri at gyflwr moesol a naturiol ei wlad fel yr oedd yn bodoli, neu fel yr oedd yn cael ei rhagweled. Os rhagfynega efe ddrygfyd cyfagos, y dyfodiant pell yw gwrthgyferbynydd (*opposite*) y drygfyd a gyhoedda. Os desgrifia ddaioni uniongyrchol, y dyfodol yw cyflawniad y daioni a ddesgrifia. Ac hyd y nod pan fyddo y dyfodol hyny yn fwy pell, y mae bob amser wedi ei uno â'r presenol drwy ymadroddion cymhwys i alluoedd, a chyfaddas i angenion yr oes. (2.) Hefyd, myner gwybod ei sefyllfan (*standing point*) mewn perthynas i'w ragfynegiadau ei hunan. Os yn bosibl, cymmered y myfyriwr ei le wrth ochr y prophwyd, ac edrycked gydag ef ar y gorphenol a'r dyfodol. Os bydd ei wlad yn gor-

wedd yn annghyfannedd o'i gylch, dysger sylweddoli *(realize)* a darlunio ei chyflwr. Os ymddengys mewn gweledigaeth yn nghanol golygfeydd yr efengyl, safer yn agos ato ar enedigaeth, neu farwolaeth, neu yn nheyrnas ein Harglwydd.

Er enghraifft, mewn trefn i ddeall Esay, darllener yn ami 2 Bren. 14—21; 2 Cron. 16—22. Sylwer hefyd ar gyssylltiad, ac, os bydd bosibl, ar ganolbwynt, pob prophwydoliaeth (gwel adr. 435). Pa le a pha bryd yr ysgrifenwyd y chwech pennod olaf o Zechariah sydd yn bwnc hanfodol er iawn ddeall y rhan hon o'i brophwydoliaethau. Os ysgrifenwyd hwynt ganddo ef (ac nid fel y tybia rhai, gan Jeremiah), rhaid fod y pennodau yma yn cyfeirio at amser ein Harglwydd, dinystr yr ail deml, a'r dygwyddiadau canlynol (14, 2). Ond etto, os mai ar ol dychweliad Ezra gyda'r fintai olaf o'r gaethglud y cawsant eu hysgrifenu, nid ydyw rhagfynegiadau pen. 10, etto wedi derbyn hyd y nod gyflawniad rhanol. Gwel Rhagarweiniadau i'r llyfrau prophwydol.

2. Dylid ymgyfarwyddo â iaith prophwydoliaeth :—ei ffigurau a'i harwyddluniau. Y mae prophwydoliaeth yn gyfoethocach yn y pethau hyn nâ hanesiaeth gyffredin. Y mae ei dullwedd barddonol, yn nghyd a rhesymau ereill, yn gwneyd y defnydd o'r pethau hyn yn angenrheidiol a phriodol. Y mae ystyr y ffigurau yma yn lled agos a chael eu penderfynu, ac er nad oeddynt fe allai yn eglur i'r rhai a'u defnyddiasant gyntaf, dylent fod yn adnabyddus i ni gyda'r Beibl gorphenedig yn ein dwylaw.

Er enghraifft, cymharer yr adnodau canlynol :—

Desgrifiadau o gystudd a drygfyd, Sal. 42, 7; Esay 13, 13; 29, 6; 34, 4; Jer. 4, 23—26; Ezec. 32, 7, 8; 38, 20; Joel 2, 10, 30, 31; Amos 8, 8, 9.

Dwyfol ragluniaeth a gras yn cyfrynga i waredu o beryglon, Sal. 18, 7—17; Nah. 1, 4, 5; Hab. 3, 5—11; Zech. 14, 4.

Llawenydd gwaredigaeth, Esay 33, 17; 35, 1—7; 55, 12, 13; 60, 13; 65, 25; Joel 4, 18.

Gwel hefyd y gyfres o arwyddluniau ysgrythyrol ar ddiwedd y Ddosran hon. Er penderfynu pa un a ddefnyddir geiriau yn ffigurol neu beidio, gellir cael goleuni pellach yn fynych.

(*a.*) Oddiwrth y geiriau eu hunain.

I'r rheol yma y perthyn lluaws o egluriadau seiliedig ar gymmeriad cysgodol y bobl Iuddewig. Y mae teyrnas Dafydd, ar ol ei ymddangosiad ef, yn cael ei rhagfynegu, a llefarir am ddygwyddiadau boreuaf hanesiaeth Iuddewig fel pe buasent i gael eu hail gyflawnu, Esay 11, 15, 16; felly yn Zech. 10, 11; Hos. 2, 14, 15; Esay 4, 5.

(*b.*) Weithiau oddiwrth y cyd-destun.

Byddai esbonio Esay 66, 20, yn llythyrenol, yn ei wneyd yn angenrheidiol esbonio ad. 21, 23, yn llythyrenol hefyd; yr hyn a gynnwysai adsefydliad yr offeiriadaeth a'r addoliad Iuddewig. Ymddengys y golygiad olaf yn annghysson â'r ymresymiad yn Heb. 10. Yn yr wyth pennod olaf o Ezeciel, ymddengys yr esboniad llythyrenol, ar yr olwg gyntaf, yn cael ei bleidio gan lawer o bethau, ac etto y mae ynddynt lawer o adnodau nas gellir eu hesbonio yn llythyrenol. Er enghraifft, dywedir yn pen. 47, 1—12, fod ffrwd o ddwfr o ddyfader anmhlymiadwy yn dyfod allan o'r deml, yn adferu dyfroedd y Môr Marw, ac yn gwasgaru bywyd lle bynag y delo. Y mae cyfaddasrwydd yr ymadroddion yma i osod allan gynnydd yr efengyl drwy dywalltiad yr Ysbryd yn amlwg; felly yn Zech. 14, 8. Rhaid, yn mhob achos, rhoddi esboniad cysson ar y cyfan.

(c.) Weithiau y mae yn angenrheidiol cyfeirio at ddarnau cyfochrawl.

Yn Esay 11, llefarir am deyrnas y Messiah fel teyrnas o heddwch; ac yn pen. 9, sonia y prophwyd am ryfeloedd a buddugoliaethau ei deyrnasiad. Cyfeiriad at y Testament Newydd, neu at ranau ereill o'r un prophwyd, a ddengys fod pen. 9 wedi ei llefaru yn ffigurol. Y mae y rhyfel a'r heddwch yn sylweddol, ond nid yn llythyrenol.

3. Rheol euraidd yw, gan nad ydyw prophwydoliaeth yn "hunan-ddehonglyddol" (o ddehongliad priod, 2 Pedr 1, 20), fod yn rhaid i bob un o brophwydoliaethau yr ysgrythyr gael eu cymharu âg ereill ar yr un pwnc, ac â hanesiaeth yn gyffredin ac yn ysbrydoledig. Rhagfynegiadau cyfochrawl, yn fynych, a daflant oleuni y naill ar y llall, a chyflawniadau cofnodedig a eglurant brophwydoliaethau, neu ranau o brophwydoliaethau, annghyflawnedig. Fel hyn y gwna hanesiaeth a'r Testament Newydd yn aml benderfynu ystyr adnodau neillduol, a'r rhai hyn a oleuant ac a eglurant eu priodol gyssylltiadau.

Cymharer yn y modd yma y rhagfynegiadau cyfochrawg ar Babilon, Tyrus, yr Aifft, Ammon, Ninefe, Edom, a Moab (gwel Crynodeb o'r Prophwydi, Rhan ii.), ac ar y dyn pechod, 2 Thes. 2; 1 Ioan 2, 18; Dan. 7; Dad. 13.

Gellir gweled rhai enghreifftiau o gyflawniad cofnodedig, wedi eu cymmeryd o hanesiaeth gyffrediu, yn y Ddosran ar Brofion.

Gellir gweled cyflawniadau cofnodedig yn y Testament Newydd yn y bennod ar Anhawsderau Ysgrythyrol.

4. Sylwer ar egwyddorion dehongliaeth brophwydol a gadarnhëir yn y Testament Newydd. Rhydd oddiwrth Dduw feddwl yr Hen Destament, a thra y penderfyna synwyr rhanau neillduol, awgryma egwyddorion dehongliaeth cymhwysiadol at y cyfan (Gwel Pen. VI., Dos. 1).

Yn lle nodi allan yr egwyddorion yma yn y modd mwyaf cyflawn, gallwn sylwi ar, ac egluro un a awgrymir braidd yn mhob pennod o'r Dadguddiad diweddaraf.

Dyben a thestun mawr prophwydoliaeth yw Crist, naill ai yn ei berson a'i swydd, neu yn sefydliad ei deyrnas. Gellir rhesu y rhan fwyaf o ragfynegiadau yr Hen Destament dan y rhaniad deublyg yma; y mae rhai o honynt eisoes wedi eu cyflawnu, ereill yn cael eu cyflawnu, ac ereill etto ydynt i gael eu cyflawnu ar ryw ddydd dyfodol.

Rhoddodd prophwydoliaeth yr addewid gyntaf am Waredwr yn mharadwys. Yn Abraham, cyssylltai gyfammod Canaan âg eiddo yr efengyl. Yn y gyfraith, llefarai am yr ail brophwyd; ac mewn cysgodau, rhagddangosai athrawiaethau Cristionogaeth. Dadguddiodd i Dafydd deyrnas ei Fab mawr. Yn nyddiau y prophwydi diweddaraf, rhagarwyddai gyfnewidiadau yr oruchwyliaeth Iuddewig, rhoddodd hanes y prif deyrnasoedd paganaidd, a chwblhäodd y cyhoeddiad am y Messiah. Ar ol y caethiwed, rhoddodd wybodaeth eglurach fyth am ddyfodiad yr efengyl. Yn nyddiau ein Harglwydd, llefarai mewn dammegion, a rhagfynegiadau uniongyrchol; ac yn olaf, mewn iaith dywell arwyddluniol, rhagdraethodd hanes a gogoniant diweddaf ei deyrnasiad. Yn wir, "tystiolaeth Iesu yw ysbryd prophwydoliaeth," Ioan 5, 39; Act. 3, 18; 10, 43; Rhuf. 1, 2; 3, 21, 22; Dad. 19, 10.

Y mae y ffaith hon o'r pwys mwyaf. Profa amcan cyffredin, a chyfynga hen brophwydoliaethau. Dysga ni i edrych am Grist yn mhob man, dan y ddwy oruchwyliaeth, ac eglura feddwl *cyffredin* y rhagfynegiadau hyn eu hunain.

445. Tra mae y rhan fwyaf o ymofynwyr yn cyduno, ar y cyfan, yn y rheolau hyn, etto y mae y cymhwysiad o honynt wedi arwain i ganlyniadau gwahanol iawn, yn benaf o achos y pwysigrwydd a gyssylltir gan wahanol ddospeirth â rheolau neillduol.

Y mae y canlyniadau yma yn cyduno mewn llawer o bethau sydd yn hanfodol,—

1. Cyflawniad llythyrenol rhagfynegiadau perthynol i ddyfodiad cyntaf ein Harglwydd a ganiatëir gan bawb. Rhanau a ymddangosant fel wedi eu cyflawnu yn ddigonol, mewn ystyr gyffredinol, gan ddygwyddiadau ei fywyd, ydynt, er hyny, wedi eu cyflawnu i'r llythyren. Ei waith yn marchogaeth ar asyn, rhaniad ei ddillad, appwyntiad ei farwolaeth gyda'r anwir, a'i fedd gyda'r cyfoethog, ydynt yn enghreifftiau, Zec. 9, 9; Salm 22, 18; Esay 53, 9.

2. Cyflawniad llythyrenol llawer o brophwydoliaethau perthynol i hanes yr Iuddewon, a chenedloedd ereill, a gydnabyddir gan y rhan fwyaf; a'r ddwy ffaith yma a ddefnyddir gan un dosparth o ymofynwyr fel prawf o wirionedd yr ysgrythyr; a chan y dosparth arall defnyddir hi fel prawf o wirionedd yr ysgrythyr, ac hefyd fel egluriadau o'r egwyddorion dehonglyddol ddylent gael eu cymhwyso at brophwydoliaethau annghyflawnedig.

3. O berthynas i'r gyfundraeth o brophwydoliaeth yn gyffredinol, cydnabyddir gan y rhan fwyaf fod iddi ddau ganolbwnc, o amgylch y rhai y mae pob dygwyddiadau yn troi; y canolbwyntiau yma a nodant y manau o ba rai y gellir, yn y modd goreu, arolygu hanes y byd a'r eglwys. Un yw dyfodiad cyntaf ein Harglwydd i ddyoddef, a'r llall yw ei ail ddyfodiad i deyrnasu; yr olaf i gael ei ganlyn yn mhen rhyw amser gan y farn.

4. Adferiad dyfodol yr Iuddewon, llwyddiant cyffredinol gwirionedd yn nghyflawniad prophwydoliaethau gogoneddus yr Hen Destament—yn diweddu ar ol amrywiol ymdrechion yn nymchweliad gelynion y ffydd, a gydnabyddir hefyd gan y rhan fwyaf. At y golygiad yma, y mae amryw o'r ddau ddosparth yn ychwanegu dychweliad yr Iuddewon i'w tir eu hunain.

Y maent hefyd yn cyduno, i raddau helaeth, wrth ddesgrifio y dygwyddiadau yma. Prophwydoliaethau am fendithion ysbrydol i'w mwynhau dan yr efengyl, a gymhwysir yn ddibryder gan y ddau ddosparth at yr eglwys Gristionogol, a dadleuir gan bob plaid y bydd teyrnasiad cyfiawnder yn *weledig* yn gystal ag yn ysbrydol, yn effeithio ar berthynasau cymdeithasol, a thrwy ei dylanwad, yn cyflunio (*modify*) pob cymdeithas ddynol. Y mae cytundeb sylweddol, can belled, rhwng myfyrwyr prophwydoliaeth.

446. Yr hyn a nodir uchod (yn fyr) yw yr *oll* ag y mae un dosparth yn ei gael ynddynt. Rhoddant bwys mawr ar y ffeithiau, fod yr Iuddewon yn gysgodau, fod y gwahaniaeth rhwng yr Iuddew a'r Cenedlddyn wedi ei ffurfiol ddiddymu, a bod ein goruchwyliaeth ni yn ysbrydol; ond meddyliant, fodd bynag, os cymmerir y dygwyddiadau mewn prophwydoliaeth yn llythyrenol, yr arweiniant i grediniaeth o adferiad Iuddewaeth, a chyflwyniad cyfundraeth gyfaddas i'r eglwys yn ei mabandod, yn hytrach nag yn ei chyflawn oed; ac wrth weled nad yw y desgrifiadau yma, can belled ag y mae a fyno adsefydliad yr Iuddewon â hwynt, yn cael ei ail adrodd yn y Testament Newydd, a bod llawer o brophwydoliaethau a ymddangosant fel yn gymhwysedig atynt hwy fel cenedl, yn cael eu cyfeirio yn y Testament Newydd at yr eglwys, neu at ddychweliad yr Iudd-

ewon, Act, 2, 17—21; Rhuf. 11, 26; penderfynant mai dehongliad ysbrydol o'r holl gyfres yw y mwyaf cydweddol â rhediad yr ysgrythyr.

Y mae y dosparth arall yn myned yn mhellach. Addefant fod llawer o'r ymresymiad yma yn wir; ond ni chydnabyddant fod y cwbl yn wirionedd. Wrth ystyried fod prophwydoliaethau, hyd y nod am fendithion ysbrydol, wedi cael, i raddau helaeth, eu cyflawnu yn llythyrenol, fod yr Iuddewon yn cael llefaru am danynt dan y ddwy oruchwyliaeth fel rhai a gerir o hyd er mwyn eu tad, fod llawer o brophwydoliaethau (y rhai hyny, er enghraifft, a lefarant am Israel a Judah, mewn ymadroddion ydynt naill ai yn annghymhwysadwy at y dychweliad cyntaf, neu wedi eu hysgrifenu ar ol hyny, Esay 11, 12; Hos. 3, 15; Zec. 14) yn aros heb eu cyflawnu, fod iaith y prophwydoliaethau yma, er ei bod yn fynych, mewn ystyr gyffredin ac is-raddol, yn gymhwysadwy at yr eglwys Gristionogol, etto nas gellir ei chymhwyso yn unig ati heb droseddu y rheolau ymadroddol mwyaf cyffredin, fod prophwydoliaethau sydd yn ddiammheu â chyflawniad boreol iddynt mewn hanesiaeth Iuddewig, neu yn yr eglwys Gristionogol (megys Esay 13, 9, 10; 25, 8; Hag. 2, 6) yn cael cyfeirio atynt yn y Testament Newydd, fel rhai sydd a'u cyflawniad o hyd yn ddyfodol (Math. 24; 1 Cor. 15, 54; Heb. 12, 26), dadleuant, er fod llawer o brophwydoliaethau wedi cael eu cyflawniad cyntaf yn hanes yr Iuddewon, ac ereill wedi cael eu cyflawniad ysbrydol dan yr efengyl, fod llawer etto yn aros i'w cyflawnu mewn ystyr mwy helaeth a llythyrenol. Daliant, gan hyny, drwy y cyfan, yr egwyddor o ddehongliaeth llythyrenol, pa un bynag ai at adferiad yr Iuddewon, neu at ail, hyny yw, fel y meddylia llawer, ymddangosiad Crist *cyn* y milflwyddiant, neu at sefydliad ei deyrnas ef, y cyfeiria y brophwydoliaeth.

447. Gellir, oddiwrth y tafleni canlynol, gael cyflawn olwg ar y ddwy gyfundraeth ddehongliyddol yma. Cymmerwyd un o "Fynegair" Powel (1673); a'r llall o'r "Arweiniad i'r Prophwydoliaethau" gan Bickersteth.

1. Cesglir yr Iuddewon o bob parth o'r ddaear, a dygir hwynt i'w tir eu hunain, Esay 11, 11; 27, 12, 13; 43, 5, 6; 49, 11, 12; 60, 4. Cymharer Jer. 3, 18; 16, 14, 15; 23, 3; 30, 10; 31, 7—10; 32, 37; felly Hos. 11, 10, 11; Seph. 3, 10; Zec. 8, 7, 8; 10, 8—10.

2. Dygir hwynt i'w lle gan y Cenedloedd, y rhai a ymunant â'r Iuddewon, ac a ddeuant yn bobl i'r Arglwydd, Esay 49, 22; 14, 2; 60, 9; 66, 18, 20; 2, 2—4. Cymharer Jer. 3, 17; 16, 19; Ezec. 47, 22, 23; Mic. 5, 3; Zec. 2, 11; 8, 20—23.

3. Cyflawnir gwyrthiau mawrion ar ddychweliad yr Iuddewon.

(1.) Yr Euphrates a sychir i fyny, Esay 11, 15, 16; Zec. 10, 11; Dad. 16, 12; Hos. 11, 15; Mic. 7, 15.

(2.) Rhoddir afonydd mewn anialdiroedd, Esay 41, 17—19; 48, 20, 21; 43, 19, 20.

(3.) Anfonir prophwydi, Esay 66, 18—21; Hos. 12, 9, 10.

(4.) Bydd yr Arglwydd Grist ei hunan fel eu pen, Esay 35, 4; 52, 12; 58, 8: Hos. 1, 10, 11: Mic. 2, 12, 13.

4. Adferir yr Iuddewon i'w sefyllfa gynt, gyda barnwyr a chynghorwyr; yr Arglwydd Grist fel eu Brenin, yr hwn, y pryd hwnw, a gydnabyddir yn frenin ar y cenedloedd ereill, Esay 1, 26: 60, 17. Cymharer Jer. 23, 4: 30, 8, 9, 21: Hos. 3, 5: Ezec. 34, 23, 24: 37, 24, 25: Esay 54, 5: Obad. 21: Zec. 14, 5, 9. Salm 22, 27, 28.

5. Bydd iddynt fuddugoliaethu ar eu holl elynion, a bydd i bob teyrnas a chenedl ymostwng iddynt, Esay 11, 13, 14: 14, 1, 2: 41, 14—16:

49, 23: 60, 12: 25, 10—12: Joel 3, 7, 8, 19, 20: Obad. 17, 18: Mic. 4, 6—13: 5, 5—7: 7, 16, 17: Zec. 2, 13: 9, 13—16: 10, 5, 6: 12, 6: Num. 24, 17: Esay 60, 10—16: 66, 19, 20.

6. Yr Iuddewon, ar ol eu hadferiad, a fyddant byw yn heddychlawn, heb ymraniad nac ymrafael, Esay 11, 13, 14: 14, 1, 2: Jer. 3, 18: 50, 4: Ezec. 37, 21, 22: Hos. 1, 11.

Byddant yn lluosog iawn, Esay 27, 6: 44, 3, 4: 49, 18—21: 54, 1—3: 61, 9: Jer. 23, 3: 30, 18—20: 31, 27: Ezec. 36, 37, 38.

Bydd eu llwyddiant allanol yn fawr, Esay 32, 16—18: 33, 24: 54, 13—17: 60, 18, 21: Jer. 23, 3—6: 30, 10; 31, 34—40: 33, 6—9: 50, 9, 10: Joel 3, 17, 18: Mic. 7, 18—20: Seph. 3, 13.

Byddant yn fendith i'r byd, Esay 19, 24, 25: 61, 9: Jer. 33, 9: Ezec. 34, 26: Seph. 3, 19: Zec. 8, 13.

7. Bydd tir Judea yn nodedig o ffrwythlawn, Esay 29, 17: 35, 1—9: 51, 3, 16: 54, 11—13: 55, 12, 13: 60, 13, 17: 65, 25: Ezec. 34, 26, 27: 36, 36: Joel 3, 18: Amos 9, 13, 14.

8. Adadeiladir Jerusalem, i beidio cael ei dinystrio mwy, Esay 52, 1: 26, 1: 60, 18: 33, 6: Joel 3, 17: Obad. 17; Zec. 14, 10, 11: Jer, 31, 38—40: Ezec. 38, 11.

9. Ychydig cyn amser argyhoeddiad yr Iuddewon, bydd rhyfeloedd ac annghyfannedd-dra mawr, Esay, 34: Joel, 3, 1—10: Seph. 3, 8, 9: Ezec. 28, 25, 26: Hag. 2, 21—23; Jer. 30, 7—10: 2 Cron. 15, 3—7.

Dyma un golygiad. Cymmerir pob adnod fel y saif yn llythyrenol.

Y golygiad arall, gan edrych ar gymmeriad cysgodol yr hen Iuddewon, ac ar natur yr iaith brophwydol, a ystyria y cwbl fel yn gymhwysiadol naill ai at y dychweliad cyntaf o gaethiwed, neu at ddychweliad ar ol hyny i eglwys Crist dan oruchwyliaeth yr efengyl, neu at argyhoeddiad yr Iuddewon, a sefydliad y gyfundraeth hono yn eu plith a ragarwyddid gan eu deddf eu hunain.

Cyn penderfynu o berthynas i un o'r golygiadau yma, bydded i'r myfyriwr, mewn modd gostyngedig a gweddïgar, gymharu y dehongliad ysbrydoledig â'r hen brophwydoliaethau a roddir yn y Testament Newydd.

448. Rhodda taflen Mr. Bickersteth ddygwyddiadau, mewn rhan yn gydamserol â'r blaenorol; ac, mewn rhan, ar ei ol.

1. Fel y mae amseroedd y Cenedloedd yn myned heibio, dymchwelir eu gallu, er fod niferi lluosog o honynt wedi cael eu dychwelyd i'r ffydd (Dan. 2, 7: Dad. 7, 9—14: Rhuf. 11, 25—32: Luc 21, 24, 25); adelwir yr Iuddewon mewn modd gweledig i'r eglwys, Dan. 9, 27; Ezec. 20, 32—44; Esay 49, 9—12; 62, 1.

2. Cyfranogant o ffafr adnewyddol, dychwelir hwynt i'w tir eu hun,[a] a byddant yn agored i erlidigaeth oddiwrth y Cenedloedd gwrthgiliedig, y rhai, dan yr Annghrist diweddaf, a ddeuant yn erbyn yr Israel adferedig.[b]

3. Yn fuan, ymddengys arwyddion yn yr haul ac yn y sêr,[c] a gwelir arwydd Mab y dyn ei hunan yn y nefoedd.[d]

[a] Ezec. 36, 1—38; 37, 20—23; Salm 37; Esay 11, 11, 12; 62, 4; 60, 21; Jer. 31, 1—6; Gen. 13, 14—18; 15, 18—21; 17, 7, 8; 26, 3, 4; Ex. 6, 2—8; Lef. 26, 40—44; Deut. 30, 4—6; 32, 43.

[b] Jer, 30, 1—9; Esay 10, 20—27; Dan. 9, 27; Esay 31; 33, 1—10; Ezec. 38, 1—16; Dan. 11, 41—45; Joel 2, 1—20; Mic. 4, 8—10; Dan. 12, 12.

[c] Math. 24, 20—29; Luc 21, 24—26; Heb. 12, 26—28; Hag. 2, 6, 7; Esay 13, 9—11; 34, 1—4; Joel 3, 12—15; 2, 31, 32; Mal. 4, 1—6.

[d] Math. 24, 29, 30; Esay 18, 3—7; 11, 12—14; Dan. 8, 13, 14; Math. 23, 39; Luc 17, 24.

4. Cyfyd Crist ei feirw, cyfnewidia ei saint byw, a chyfodant i fod gydag ef yn yr awyr, Math. 24, 31; Dad. 11, 15, 18; 1 Cor. 15, 51—54; 1 Thes. 4, 15—17; 2 Thes. 1, 7; Esay 27, 12, 13; Dad. 3, 10; Esay 26, 19—21; Mal. 3, 17.

5. Ymgyssyllta y bwystfil â breninoedd y ddaear yn erbyn yr Arglwydd,[a] ac efe a dywallta ei farnedigaethau ar Anghrist a'i ganlynwyr, gan ddadleu â phob cnawd, drwy dân a chleddyf.[b]

6. Cymmeriad yr oruchwyliaeth yma fydd yn wahaniaethol, cospawl, a phuredigol (1 Cor. 3, 12—15; Mal. 3, 3; Zech. 13, 9; Marc 9, 42, 50; Jer. 20, 9; 23, 29; Sal. 98, 3; 1 Pedr 4, 12; 2 Pedr 3, 10—13; Dad. 3, 18). Y mae addewid neillduol i'r Iuddewon (Esay 51, 16). Y mae cyfnod i fod i'r tân ac i'r trallod ar ddechreu y teyrnasiad milflwyddawl (Ezec. 38, 22; 39, 6; Esay 66, 15, 16), ac hefyd ar ei ddiwedd (Dad. 20, 9), Math. 24, 1; Dan. 12, 1; Jer. 30, 7; Dad. 19, 20; 20, 9.

7. Disgyna Crist ar yr Olewwydd, gyda'i saint, yn ngolwg Israel,[c] y rhai a roesawant ei ddyfodiad.[d] Rhwymir Satan; dechreua ei deyrnasiad milflwyddawl, dros ei saint a'r cenedloedd fyddant etto heb eu difa.[e]

8. Bydd y teyrnasiad yma yn fendigedig iawn, ond llecha gwrthryfel o hyd yn mysg y cenedloedd. Gollyngir Satan yn rhydd am dymmor, Zech. 14, 17—19; Dad. 20, 9.

9. Y farn ddiweddaf, Dad. 20, 10—15.

10. Y nefoedd newydd a'r ddaear newydd; dim môr mwyach. Y ddinas santaidd yn disgyn, Duw oll yn oll, a'r saint yn teyrnasu yn oes oesoedd, Dad. 21; 22, 5.

Nid ydys yn cyduno pa un a yw *holl fanylion* y cynllun yma i gael eu cyflawnu yn llythyrenol ac yn hollol yn y drefn yma, ond yn ol y gyfundrefn ddehonglyddol hon y mae y cynllun i gael ei gyflawnu yn gyffredinol.

Nis gallwn ond braidd nodi y golygiad arall o'r adnodau yma. Y rhai sydd wedi eu cymmeryd oddiwrth hen brophwydi, ac sydd etto heb eu cyflawnu, a ddehonglir yn ysbrydol am yr eglwys a'i gelynion, naill ai yn ei chyflwr presenol, neu pan wedi ei chynnyddu drwy argyhoeddiad yr Iuddewon, ac ychwanegiadau helaethach oddiwrth y cenedloedd: y rhai hyny yn 1 Thes. 1 a'r 2, ac yn 1 Cor., a lefarant am adgyfodiad y meirw, a gymhwysir at yr *un* adgyfodiad; a'r rhai a lefarant am ddyfodiad ein Harglwydd a ddehonglir yn unol â'r naill neu y llall o'r ffeithiau canlynol:—

i. Y mae "dyfodiad Crist" yn ymadrodd a gymhwysir at ei ddyfodiad yn y cnawd, naill ai—

(*a.*) Yn ei enedigaeth, Ioan 16, 28; 1 Ioan 4, 2, 3; 2 Ioan 7; Math. 18, 11; 20, 28; Eph. 2, 17; 1 Tim. 1, 15.

[a] Math. 24, 30; Dad. 11, 18; 16, 14; Esay 8, 8—10; 10, 24—26; 24, 21, 22; 27, 4; 31, 4; 54, 15; 66, 18; Joel 3, 1, 2; Mic. 4, 11—13; Seph. 3, 8, 9. Zech. 12, 2—5; 14, 1—5; Dad. 19, 19.

[b] Mat. 24, 36—39; Dad. 15, 1; 16, 1; Dan. 9, 27; Esay 10, 24—26; 14, 24, 26; 24, 21—23; 34; 63; Dad. 9, 10—21; Joel 3, 11—16; Nah. 19, 11, 15; Esay 30, 27—33; Ezec. 38, 17—23; Dan. 7, 9—14; Mal. 4, 1, 3; Math. 3, 12; 2 Thes. 1, 8; 2, 8; Dad. 19, 15, 20; Esay 66, 16; Dad. 19.

[c] Act. 1, 11; Zech. 14, 4, 5, 10—14; Esay 64, 1; 66, 1; 60, 13; Ezec. 43, 7—9; Esay 66, 18, 19; Esay 25, 9; Math. 23, 29; Rhuf. 11, 26; Esay 59, 20; Zech. 2, 10—12.

[d] Zech. 12, 10—14; Jer. 31, 8—12; Act. 3, 19—21; Esay 12, 2, 4; Sal. 117; 118, 98; Dad. 19, 1—6.

[e] Esay 32, 1; Dan. 7, 18, 27; 12, 4; Luc 22, 28—30; Ioan 1, 51; Dad. 11, 18; 20, 4, 6.

(*b.*) Ei ymosodiad ar ei weinidogaeth, Math. 3, 11; Marc 1, 7; Luc 3, 16; Ioan 1, 15, 30; Math. 11, 17; Ioan 5, 43: 9, 39.

ii. Cymhwysir ef at unrhyw gyfryngiad (*interposition*) mawr, ond anweledig.

(*a.*) Megys er cospedigaeth, neu wobrwyad, Dad. 2, 15, 16: 3, 3; Math. 10, 23 (?).

(*b.*) Megys yn rhoddiad nodedig yr Ysbryd, Ioan 14, 18, 28: Math. 16, 28; Marc 9, 1.

(*c.*) Megys yn ninystr Jerusalem, Math. 24, 27: Luc 21, 6, 7, 27: Marc 13, 26, ad. 30.

iii. Cymhwysir ef at ei ymddangosiad i'r farn gyffredinol, Math. 16, 27, ac mewn llawer o fanau ereill.

Oddiwrth yr iaith yma penderfynir, megys y daeth Crist yn y cnawd, ar y Pentecost, yn Asia Leiaf, i symud rhagorfreintiau eglwysi gwrthgiliedig, yn Judea i ddinystrio yr hen deml, mai felly y daw yn y cyfraniad adnewyddol ac helaethach o'i Ysbryd, ac yn y diwedd, yn bersonol, i farn. Cymmerir yr holl "ddyfodiadau" er cospedigaeth oddiwrth yr olaf, a'r holl "ddyfodiadau" mewn gras oddiwrth y blaenaf. Dechreuodd ei deyrnasiad yn ei adgyfodiad, ac ar ddydd y Pentecost (Salm 2; Marc 9, 1; Rhuf. 1, 4; Heb. 1, 5.) Wedi ymdrechion o eiddo egwyddorion cryfion, y fath ag y cyfeirir atynt mewn llawer o'r adfodau sydd wedi eu dyfynu uchod, gorphenir hi cyn belled ag y mae a fyno arddangosiad daearol â hi, yn y gogoniant milflwyddawl.

449. Wedi gosod i lawr y cyfundraethau gwahanol yma, nid ystyriwn hi yn angenrheidiol i'w chwilio na'u hamddiffyn. Nodwn yn hytrach eu cyduniad sylweddol. Buddugoliaeth ddyfodol y gwirionedd, ysbrydolrwydd a gogoniant teyrnasiad Crist, yn nghyd a mawredd a bendigedigrwydd ei eglwys, a lleshad canlynol drygau daearol, ydynt bethau a berthynant i'r ddwy. Y man y gwahaniaethant yw o berthynas i ddulliau ac amgylchiadau y cyfnewidiadau yma, yn hytrach nag o berthynas i'r cyfnewidiadau eu hunain; ac o berthynas i'r amgylchiadau hyn, nis gallwn ond cyfeirio y myfyriwr at ddadguddiadau y Testament Newydd, ac at yr egwyddorion dehongliddol cyffredinol a gadarnhëir yn ei ddyfyniadau o'r Hen Destament (gwel pen. vi.)

450. Mewn dehongliadau o amseroedd prophwydoliaeth, pan nad oes blynyddoedd yn cael eu nodi, cydunir yn gyffredin fod dyddiau i'w cyfrif fel blynyddoedd. Sylfaenir y rheol yma ar amryw gyfaleddau (*analogies*), ac y mae o'r hyn lleiaf yn dra thebygol. Gwel Num. 14, 34; Ezec. 4, 5, 6; lle y mae Duw mewn modd penodol yn appwyntio "pob dydd am flwyddyn."

Etto, deallir yr ymadrodd "Amser, amseroedd, a hanner amser," fel yn golygu tair a hanner o flynyddau prophwydol, hyny yw, blynyddau o 360 o ddyddiau prophwydol yr un, neu yn y cwbl 1260 o flynyddau, y tymmor a roddir i gyfodiad a chwymp Anghrist, Dan. 7, 25. Gwel hefyd Dad. 11, 2, 3, lle yr ymddengys fod yr un tymmor yn cael sôn am dano, megys 1260 o ddyddiau, neu 42 o fisoedd.

Y mae rhai o brophwydoliaethau mwyaf nodedig yr ysgrythyr, fodd bynag, yn nodi yr amser mewn *blynyddoedd*. Y cyfryw yw y 430, a'r 400 o flynyddau yn hanes disgynyddion Abraham, Gen. 15, 13: Exod. 12, 40: y triugain a phump o flynyddau a nodir gan Esay, yn mha rai yr oedd Israel i gael eu tôri, Esay 7, 8: y triugain mlynedd a deg o gaethiwed Judah, a'r deng wythnos a thriugain o flynyddau (oblegid nid ydyw

y gair dydd i'w gael yn yr ymadrodd) yn mha rai yr oedd y Messiah i gael ei ladd, Dan. 9, 26.

Eglur yw nad bwriad Duw yw rhoddi i ni wybodaeth gywir o berthynas i'r amseroedd neillduol a ragfynegir yn yr Ysgrythyr. Y mae y rhai hyn wedi eu gosod yn ei feddiant ei hunan, ac ychydig iawn yn fynych o santeiddrwydd ysbryd sydd mewn ceisio eu gwybod. Y brophwydoliaeth a gymmaha ein gobaith, ac a ddyrchafa ein teimladau. Sicrha ni o berthynas i'r canlyniad diweddol, a gesyd ragfynegiadau neillduol i lawr, y rhai ydynt yn dra defnyddiol er cyrhaedd dirnadiaeth foesol ac ysbrydol o'r amcan Dwyfol, yr hwn, fodd bynag, sydd yn dra gwahanol i'r symudiad gallofyddol sydd newydd gael ei gondemnio genym. Y dyddiadau ydynt yn fynych yn anhawdd eu cyflen hyd y nod mewn prophwydoliaethau sydd wedi eu cyflawnu; a dylai y ffaith yma ddysgu gostyngeiddrwydd a gwylcidd-dra wrth ddehongli prophwydoliaethau sydd à'u cyflawniad etto i ddyfod.

Y caethiwed, er enghraifft, a barhäodd driugain a deg o flynyddau, ac y mae o leiaf ddau ddyddiad gwahanol oddiwrth ba rai y gallasai ddechreu.

O ddygiad Daniel ymaith hyd y gorchymyn gan Cyrus, 2 Cron. 36, 5—7; 22.

O ddinystr y deml yn nyddiau Zedeciah hyd y gorchymyn a roddodd Darius am ei hadferiad, 2 Cron. 36, 14, 21: Ezec. 6.

Yehwanegir dyddiad arall gan Prideaux, sef o'r deoliad (*deportation*), olaf gan Nebuzaradan hyd gyssegriad y deml, Jer. 52, 30: Ezec. 6.

Y mae dehongliad y deng wythnos a thriugain yn Daniel yn agored i'r un anhawsdra. Ysgrifenwyd cyfrolau ar ddyddiad neillduol dechreuad y tymmor, ac er fod yr ystyr yn awr, mewn eymhariaeth, yn eglur, etto ni roddai yr adnodau i'r hen Iuddewon ond meddyldrych cyffredinol am amser dyfodiad ein Harglwydd. Gwel Bickersteth ar y prophwydoliaethau, tud. 191: Hales, dyfynedig gan Dr. Kitto: a Fuller ar y Dadgudd-iad, Preg. 30.

"Pa bryd, a pha ryw amser," y ddau beth yma ydynt yn bynciau priodol o ymchwiliad wrth fyfyrio y prophwydi: ond rhaid cofio, er hyny, i Dduw roddi i ni eu rhagfynegiadau hwy yn hytrach fel rhan o'n haddysg foesol nag i foddloni ein cywreinrwydd: a "bwriada Efe i'w ragluniaeth ef, ac nid ein heiddio ni, gael ei hegluro drwyddynt i'r byd."—*Syr I. Newton.*

451. Yn nghanol yr anhawsderau yma, y mae dwy ffaith yn dra chysurlawn i'r darllenydd cyffredin.

Gall, gyda gofal, yn hawdd wahaniaethu rhwng prophwydoliaeth, a'r rhanau hyny o'r ysgrifeniadau prophwydol y dynt yn unig yn hanesyddol neu foesol. Yr ydym wedi gweled fod rhanau o'r fath yn lluosog, a'u bod yn dra addysgiadol. Cynnwysant ddesgrifiadau effeithiol o cuogrwydd a gwarthrudd yr Iuddewon, appeliadau grymus, ac arddangosiadau tarawiadol, o'r cymmeriad Dwyfol: ond ni ddylent gael eu cymmysgu à'r adroddiad prophwydol. Gan nad pa mor ddirgelaidd y dichon i'r brophwydoliaeth fod, y mae y wers foesol yn gyffredin yn eglur. Gwel Jer. 9, 11—14.

452. Pan na byddo cyfeiriad arbenig unrhyw brophwydoliaeth neillduol yn eglur, gellir yn fynych benderfynu ei meddwl cyffredinol.

Er enghraifft, wrth ddarllen Dad. 6, 1, 2, eglur yw, beth bynag a ddeallir wrth y march gwyn, y bydd y cyfnod (*era*), neu y dygwyddiad at ba un y cyfeiria y prophwyd, a'r hwn sydd y blaenaf o gyfres, yn un heddychlawn a llwyddiannus: megys y mae y cyfnod, neu y dygwyddiad a

ddesgrifir (6, 3, 4), yn un o erlidigaeth a thywallt gwaed: Desgrifia adnodau 5, 6, gyfnod o lywodraeth gyfiawn mewn undeb â newyn: adnodau 7, 8, gyfnod o glefyd marwol, a dinystr: adnodau 9—11, gyfnod o erlidigaeth drom a maith: adnodau 12—17, gyfnod o gyfnewidiad cyffredinol, tòriad i fyny amherodraethau, a dymchweliad hen sefydliadau. Gall fod llawer o wahaniaeth barn o berthynas i ba gyfnod neu ddygwyddiad neillduol y cyfeiria y rhagfynegiadau hyn ato, ond nodweddau cyffredinol y cyfnod a gydnabyddir braidd ar bob llaw.

Felly hefyd y mae holl lyfr y Dadguddiad: beth bynag all meddwl ymadroddion neillduol fod, dadguddia yn eglur ddyfodiad ein Harglwydd mewn gallu a gogoniant mawr: hyd y dyfodiad hwnw y bydd dyoddefaint a chystudd ei eglwys, ac ar ol hyny y bydd ei gorfoledd a'i bendigedigrwydd. Mor gysurlawn yw y gwirioneddau yma yn mhob oes, ac mor argraffiadol y dadguddir hwynt yn yr oll agos o ysgrifeniadau prophwydol yr Ysgrythyr.

Y mae gwersi moesol ac ysbrydol prophwydoliaeth, gan hyny, yn aros, a gellir eu cymhwyso gan bawb i gynhyrfu eu hymdrechion, ac i gynnal eu ffydd. Heblaw hyny, ufydd-dod i'r gwersi yma yw y ddarpariaeth oreu tuag at ddeall yr hyn sydd ddirgelaidd: rhoddir bendith arbenig i'r rhai a "ddarllenant, a wrandawant, ac a gadwant" y dywediadau cynnwysedig mewn prophwydoliaeth.

453. Yn ychwanegol at y rhagfynegiadau am ddyfodiad ein Harglwydd (gwel Rhan. II), a'r rhai hyny a roddir yn y prophwydi (gwel Arweiniad i'r Llyfrau Prophwydol, Rhan II.), y mae o bwys nodi fod yn agos yr oll o lyfrau yr Hen Destament yn cynnwys prophwydoliaethau. Yr oedd prif ddygwyddiadau hanesyddiaeth Iuddewig, fel y noda Dr. Davison, oll wedi eu rhagfynegu. Gellir cael golwg gyflawn ar y rhagfynegiadau yma yn "Nghyssondeb Prophwydoliaethau yr Ysgrythyr," gan Brown, neu yn yr "Agoriad i'r Prophwydoliaethau," gan Simpson. Llundain, 1809.

Yn y llyfrau hanesol, er enghraifft, o Genesis, i ail Cronicl, y mae dros gant o brophwydoliaethau, yn nghyd a'u cyflawniadau, yn ysgrifenedig. Ac y mae y cwbl naill ai yn profi gwirionedd yr Ysgrythyr, neu yn egluro egwyddorion dehongliaeth brophwydol. Y Diluw, Gen. 6, 17 (7. 21, 23). Canaan a Sem, 9, 25, 26 (Jos. 9, 23; 1 Bren. 9, 20, 21); hanes Ismael, 16, 12 (gwel Hebraeg Job 39, 5); 21, 20 (Esay 21, 17): 17, 20, (Gen. 25, 18). Ail-adeiladiad Jericho, Jos. 6, 26 (1 Bren. 16, 34). Tŷ Eli, 1 Sam. 2, 30; 4, 14, 17; 22, 9—23 (1 Sam. 4, 11; 2, 27; gwel Ezec. 44, 15). Enw ac ymddygiad Josiah, 1 Bren. 13, 1—3 (2 Bren. 23, 15—20; yn mhen 350 o flynyddoedd.

454. Y mae dehongliaeth iaith arwyddluniol neu ffigurol yn bwnc o anhawsdra mawr. Rhaid chwilio am wybodaeth gyflawn o berthynas i hyn yn y fath weithiau ag "Agoriad i Iaith Arwydluniol," gan Wemyss, Edin. 1835; "Arwyddluniaeth Gyssegredig" Mills, 1853; neu "Y Traethawd Rhagymadroddol" yn ei esboniad ar y Dadguddiad, gan Daubuz. Gellir casglu natur yr iaith yma oddiwrth yr enghreifftiau canlynol:

Aifft, arwydd o allu balch ac erlidigaethus, megys Rhufain, Dad. 11, 8.
Agoriad, arwydd o awdurdod; hawl i agor ac i gau, Esay 22, 22; Dad. 1, 18; 3, 7; 20, 1.
Arogl-darth, arwydd o weddi, Salm 141, 2; Dad. 8, 4; Mal. 1, 11; offrymid ef gyda thân wedi ei gymmeryd oddiwrth y poeth offrwm.
Babilon, arwydd o elyn eilun-addolgar, ac erlidigaethus i'r eglwys; yn enwedig Rhufain baganaidd a Phabyddol, Esay 47, 12; Dad 17, 18.

Braich, arwydd o nerth neu awdurdod, Salm 10, 15; Esay 52, 10. *Wedi ei diosg*, arwydd o allu mewn gweithrediad.

Brwmstan (h. y., careg losgedig), arwydd o boen, Job 18, 15; Sal. 11, 6; Dad. 14, 10; 20, 10.

Bwa, arwydd o ymdrech neu fuddugoliaeth, Dad. 6, 2; neu (am ei fod yn dueddol i droi o'r neilldu) o dwyll, Jer. 9, 3; Hos. 7, 16.

Bwystfil, arwydd o lywodraeth draws a gormesol, neu o allu bydol yn unig, Dan. 7, 3, 17; Ezec. 34, 28.

Arth, arwydd o elyn ynfyd a chreulon, Diar. 17, 12; Esay 11, 7; Dad. 13, 2.

Gafr, arwydd o'r breninoedd Macedonaidd (Ægeades), ac yn neilldu o Alexander, Dan. 8, 5—7; ac o'r annuwiolion yn gyffredinol, Math. 25, 32, 33.

Ci, arwydd o aflendid a gwrthgiliad, Diar. 26, 11; Phil. 3, 2; Dad. 22, 15; hefyd o wyliadwriaeth, Esay 56, 10.

Draig (*crocodile* yn Hebraeg o Job 7, 12; Esay 27, 1: 51, 9: Ezec. 29, 3: 32, 2: Salm 74, 13), arwydd o'r Aifft, ac felly o unrhyw allu annghristaidd, Dad. 12, 3: 13, 1.

Locust, arwydd o fyddin elyniaethus a dinystriol, Joel 1, 2: Dad. 9: y penaeth a elwir Abaddon, neu Apollyon, *h, y.*, y dinystrydd.

Llew, arwydd o un yn meddiannu gallu ac awdurdod, 2 Bren. 23, 33; Amos 3, 8: Dan. 7, 4: Dad. 5, 5.

Llewpard, arwydd o elyn creulon a thwyllodrus (Esay 11, 6: Jer. 5, 6: Hab. 1, 8), Dan. 7, 6: Dad. 13, 2.

March, arwydd o'r galluoedd addas i ryfel a buddugoliaeth, Zech. 10, 3: arwydd o fuandra, Joel 2, 4; ei farchogaeth yw cael awdurdod, Deut. 32, 13; Esay 58, 14.

Tarw, arwydd o elyn ffyrnig, Salm 22, 12; bustych=pobl, Jer 50, 26; a phasgfeydd (*stalls*)=dinasoedd neu dai.

Bwyta, arwydd o fyfyrdod ar, neu gymmundeb â gwirionedd, Esay 55, 1, 2; arwydd o ganlyniadau ymddygiad blaenorol, Ezec. 18, 2: arwydd o ddinystr meddiant, neu heddwch dyn, Dad. 17, 16; Salm 27, 2.

Canhwyllbren (felly y dylai "canwyll" gael ei gyfieithu), arwydd o oleuni, llawenydd, gwirionedd, a llywodraeth, Dad. 2, 5: gwel Exodus 25, 31, 32: 1 Bren. 11, 36; *hyny yw*, ni phalla dilynydd byth, Sal. 132, 17.

Cerbyd, arwydd o lywodraeth neu amddiffyniad, 2 Bren. 2, 12; Salm 76, 6; cerbyd a dau o farchogion, Esay 21, 7: Cyrus a Darius (Louth). Yn Zech. 6, 1; y pedair amherodraeth fawr. Cerbydau Duw, lluoedd y nefoedd, Salm 68, 18; Esay 66, 15.

Cerub, arwydd o ogoniant breiniol Duw (Wemyss), Salm 18, 12; neu o'r Drindod a natur ddynol Crist (Parkhurst); o angylion (Lowman, Pierce, Mack.); o ragoriaethau gweision Duw (Taylor, Newc.); o angylion, ac, yn y Dadguddiad, o'r gwaredigion (Mede); ò berffeithderau dadguddiedig Duw; gwel Gen. 3, 24; Ex. 25, 18, 22; 37, 7, 9; Lef. 16, 2; Num. 7, 8, 9; 1 Bren. 6, 23; 8, 7; 2 Cron. 3, 10, 13; Ezec. 1, 10.

Clorian, arwydd o ymdrafodiaeth neu fasnach dêg a chyfiawn, Job 31, 6; neu o brinder (pan gyfeirir at werthu ŷd, &c.), Lef. 26, 26; Ezec. 4, 16; Dad. 6, 5.

Coed (*Forest*), arwydd o ddinas neu deyrnas; prenau uchel o lywodraethwyr, Esay 10, 17—34; 32, 19; Jer. 21, 14; Ezec. 20, 46.

CORN (*Horn*), arwydd o awdurdod, Amos 6, 13 (Heb.); Deut. 33, 7 (gwel Jos. 17, 14—18); 1 Bren. 22, 11; Mic. 4, 13; hefyd o urddas breiniol, Jer. 48, 25; Dan. 8, 9; Dad. 13, 1. Cyrn yr allor, pan gyffyrddid â hwynt, a ffurfient gyssegrfan (*sanctuary*), Ex. 21, 14; Amos 3, 14; Jer. 17, 1. *Cyrn*, neu belydrau, oedd ran o'r gogoniant a briodolid i Dduw, Deut. 33, 2; Hab. 3, 4 (Heb.), ac i Moses.

CORON, arwydd o awdurdod ddirprwyedig (*delegated*), Lef. 8, 9; neu o awdurdod a buddugoliaeth amherodrol, Dad. 19, 12 (Groeg, *diadem*).

CWPAN, arwydd o foethusrwydd hudawl, Dad. 17, 11; o ddefodau eilun-addolgar, 1 Cor. 10, 21; o etifeddiaeth dyn, Dad. 14, 10; 18, 16.

CYNAUAF, arwydd o ddystryw ar amser, Jer. 51, 33; Esay 17, 5; Dad. 14, 14—18; cryman, arwydd o'r offeryn, Joel 3, 13; arwydd o amser cyflawn waredigaeth, neu gydgynnulliad; felly (Horseley) Hos. 6, 11; arwyddlun o faes llafur yr eglwys, Math. 9, 26.

CYNTAF-ANEDIGION, feddiannent awdurdod ar eu brodyr, Gen. 20, 37; oeddynt offeiriaid y teulu, Exod. 24, 5; a gyssegrid i Dduw, Exod. 13, 1, 13; a santeiddient y teulu drwy eu derbyniad eu hunain, ac a feddiannent ran ddyblyg o'r etifeddiaeth, Deut. 21, 17. Gwel Heb. 2, 10, 11; 3, 1; Col. 1, 12.

DARARGRYN, arwydd o gynhyrfiad nerthol, Joel 2, 10; Hag. 2, 21; Dad. 6, 11.

DWYFRONEG, yr hyn sydd yn amddiffyn y rhan fywiol, ac yn taraw dychryn i elyn, Esay 59, 7; 1 Thes. 5, 18; Dad. 9, 9.

DWYLAW, arwydd o weithrediadau; dwylaw pur, dwylaw yn llawn gwaed, &c., a arwyddant y cyfryw weithredoedd, Salm 90, 17; Job 9, 30; 1 Tim. 2, 8; Esay 1, 15. Golchi dwylaw sydd arwydd o iawn, neu o ryddid oddiwrth euogrwydd, 1 Cor. 6, 11; 1 Tim. 2, 8; arwydd o awdurdod; ar y llaw ddeau sydd le o barch, Marc 16, 19; rhoddi deheulaw cymdeithas sydd arwydd o gyfraniad iawnderau a bendithion, Gal. 2, 9. Rhoddi y llaw yw rhoi i fyny i un arall, Salm 68, 31; 2 Cron. 30, 8 (Heb.); yr oedd derchafu y llaw i fyny yn arwydd o dyngu, Gen. 14, 22: Dan. 12, 7. Nodau ar y dwylaw, arwydd o wasanaethgarwch ac addoliad eilunod, Zec. 13, 6; gosod dwylaw ar un arall, arwydd o drosglwyddiad bendith, awdurdod, neu euogrwydd, Gen. 48, 14—20: Dan. 10, 10; dwylaw Duw yn cael eu gosod ar brophwyd a arwydda ddylanwad ysbrydol, 1 Bren. 18, 46; Ezec. 1, 3; 3, 22; ei fys, dylanwad llai; ei fraich, dylanwad mwy.

GEMAU, arwydd o ardderchogrwydd, prydferthwch, amrywiaeth; gwel Taflen y Gemau.

GODINEB, anffyddlondeb i gyfammod, ac felly arwydd o eilun-addoliaeth, yn enwedig yn mhlith pobl oleuedig, Jer. 3, 8: Dad. 2, 22.

GRAWNWIN, *addfed*, arwydd o bobl barod i gospedigaeth, Dad. 14, 18; *wedi eu lloffa*, arwydd o bobl wedi eu dwyn ymaith, Jer. 52, 28—32.

GWENYNEN, arwydd o'r brenin Assyriaidd, Esay 7, 18, a osodir allan felly mewn arwyddluniau; hefyd o unrhyw oresgynwr creulawn, Deut. 1, 44: Sal. 118, 12.

GWINWYDDEN, arwydd o ffrwythlondeb mawr, Jer. 2, 21: Hos. 14, 7: Dad. 14, 18: *gwinllan*, arwydd o ddinystr y cyfryw, Dad. 14, 19.

GWISGOEDD, arwydd o raddau neu sefyllfa: gwisgoedd *glân*, arwydd o burdeb: *gwynion*, o santeiddrwydd, Sal. 51, 7; neu ddedwyddwch, Esay 52, 1: Dad. 3, 4: Zech. 3, 3: yr oedd rhoddi anrheg o wisgoedd yn arwydd o ffafr, 1 Sam. 17, 4.

GWYNT, yn *cynhwyfu* yr awyr, arwydd o gythrwfliadau: yn *cael ei attal*, arwydd o dawelwch, Dad. 7, 1.

GWYRYFON, arwydd o weision ffyddlawn, heb eu llygru gan eilun-addolaeth, Dad. 14, 4.

LLIW, arwydd o natur y peth at yr hwn y cymhwysir ef: *du*, arwydd o alar a chystudd, Job 30, 30: Dad. 6, 5—12: *gwelw*, o glefyd marwol, Dad. 6, 8: *cooh*, o dywallt gwaed, neu fuddugoliaeth, Zech. 6, 12: Dad. 12, 3: neu o'r hyn nis gellir ei fwrw ymaith, Esay 1, 18: *gwyn*, o brydferthwch a santeiddrwydd, Preg. 9, 8: Dad. 3, 4: *gwyn* a *dysglaer*, oedd lliw breiniol ac offeiriadol yr Iuddewon, megys yr oedd porphor i'r Rhufeiniaid.

LLYFR, *wedi ei dderbyn*, arwydd o ordeiniad, 2 Bren. 10, 2: *wedi ei ysgrifenu oddifewn ac oddiallan*, o gyfres *faith* o ddygwyddiadau; *seliedig*, o'r hyn sydd ddirgelaidd: bwyta llyfr, arwydd o ystyriaeth, Jer. 15, 16; Dad. 10, 9: "llyfr y bywyd," y llechres yn mha un y mae enwau y prynedigion wedi eu hysgrifenu, gwel, Ezra 2, 62: Dad. 3, 5: llyfr *wedi* ei agor, arwydd o ddechreuad barn, Dad. 20, 12.

LLYFFAINT (*Frogs*), arwydd o elynion aflan a haerllug, Dad. 16, 13.

LLYGAID, arwydd o wybodaeth, ffyddlondeb, a gogoniant, Zech. 4, 10; o lywodraeth, Num. 10, 31; drwg-lygad=cenfigen; llygaid hachonus= rhyddfrydedd.

MANNA, arwydd o gynnaliaeth Ddwyfol ac anfarwol, Dad. 2, 17; gwel Exod. 16, 33, 34.

MAM, cynnyrchydd unrhyw beth, Dad. 17, 5; arwydd o *ddinas*, plant yr hon yw ei phreswylwyr, 2 Sam. 20, 19; Esay 49, 23: o'r *brif ddinas*, merched yr hon yw y dinasoedd ymddibynol, Esay 50, 1: Hos. 2, 2, 5: o eglwys y Testament Newydd, Gal. 4, 26.

MEDDWDOD, arwydd o ffolineb mewn pechod, Jer. 51, 7: ac o'r syfrdanrwydd cynnyrchiedig gan farnau Dwyfol, Esay 29, 9.

MESUR, rhanu, neu fesuro; arwydd o fuddugoliaeth a meddiant, Esay 53, 12: Zech. 2, 2: Amos 7, 17, lle y mae adfesuriad yn golygu adfeddianiad.

MYNYDD, arwydd o sefydlogrwydd a mawredd, Esay 2, 2: Dan. 2, 35.

NEFOEDD A DAEAR, a ddefnyddir mewn ystyr driphlyg, yr anweledig a'r moesol, y gweledig a'r llythyrenol, a'r gwladyddol. Yn yr ystyr olaf, y nefoedd sydd arwydd o lywodraethwyr: daear, o'r bobl: nefoedd a daear, o deyrnas, neu wladwriaeth, Esay 51, 15, 16: 65, 17: Jer. 4, 23, 24: Math. 24, 29.

Syrthio o'r nefoedd, yw colli mawrhydi: *y nefoedd yn agored*, sydd olygfa newydd yn y byd gwladyddol: *drwy wedi ei agor yn y nef*, dechreuad llywodraeth newydd: gwel Hag. 2, 6—22: *Haul*, *lloer*, a *sêr*, ydynt arwyddion o awdurdod, orychel neu ailraddol, Esay 24, 21, 23: Joel 2, 10: Dad. 12, 1.

PRENIAU, *uchel*, arwydd o lywodraethwyr, Ezec. 31, 5—9: *isel*, arwydd o bobl gyffredin, Dad. 7, 1: 8, 7.

PRES, arwydd o waeledd a chyndynrwydd, Esay 48, 4: Jer. 6, 28: neu o nerth a sefydlogrwydd, Sal. 107, 16: Esay 65, 4.

PRIODAS, arwydd o sefyllfa o undeb o dan gyfammod, ac felly o berffeithrwydd, Esay 54, 1—6: Dad. 19, 17.

PYSGOD, arwydd o ffaenoriaid y bobl, *hyny yw*, o'r môr, Ezec. 29, 4, 5: Hab. 1, 4.

TAN, arwydd o air Duw, Jer. 23, 29: Hab. 3, 5: o ddinystr, Esay 42,

25: Zech. 13, 9: o buredigaeth, Mal. 3, 2: o erlidigaeth, 1 Pedr 1, 7: o gospedigaeth a dyoddefaint, Marc 9, 44.

TELYN, arwydd o foliant a llawenydd, Sal. 49, 5: 33, 2: a ddefnyddid, yn enwedig ar ol bnddugoliaeth, 2 Cron. 20, 28: Esay 30, 32: Dad. 14, 1, 2.

UDGORN, *yn cael ei chwythu*, arwydd o rybydd o ddynesiad dygwyddiadau pwysig.

PENNOD V.

AR FYFYRDOD RHEOLAIDD AC ADDYSGIADOL O'R YSGRYTHYRAU.

"Addysgiadau o'r Ysgrythyr, a ymddangosant yn hollol gyfreithlawn, a ddylent gael eu derbyn yn y modd mwyaf gochelgar, neu yn hytrach eu gwrthod o gwbl, ond cyn belled ag y cadarnheir hwynt gan fynegiadau Ysgrythyrol eglur."—BRIDGES, *ar y weinidogaeth Gristionogol.*

"Nid oes un wyddor yn fwy arweiniol (*inductive*) nâ duwinyddiaeth..... Ysgrif o eiriau a ffeithiau yw y Beibl..... a'n dyledswydd ni yw eu dosparthu, gan eu gosod, drwy gynllun arweiniol manwl, yn eu trefn briodol, ac wedi hyny tynu" (neu gasglu) oddiwrthynt y gwirioneddau cyffredin cyfreithlawn."—ESGOB KENTUCKY.

"Y mae Cristion Beiblaidd, yn ddiarwybod iddo ei hun, yn benthycio ac yn uno yr hyn sydd ragorol yn mhob cyfundraeth, heb wybod feallai pa mor bell y cyduna efe â hwynt, oblegid y mae yn cael y cyfan yn y gair ysgrifenedig."—NEWTON: *Gweithiau*, vi. 418.

DOS. 1. *Ar fyfyrio Athrawiaethau yr Ysgrythyr.*

455. Eglur yw y gellir dadguddio gwirionedd mewn gwahanol ffyrdd; naill ai mewn modd awdurdodol, megys cyfraith: neu hanesyddol, mewn ffordd o esiampl: mewn addewid, neu mewn athrawiaeth. Dadguddir gwirioneddau y Beibl yn yr holl ffurfiau yma, ac yn fynych iawn y mae un yn cynnwys y llall. Gorchymyn a gynnwysa athrawiaeth; athrawiaeth, addewid; ac athrawiaeth ac addewid a gynnwysant ddyledswydd gyfatebol.

456. Pe gosodasid gorchymynion, athrawiaethau, ac addewidion yr ysgrythyr ar wahan gyda'u gilydd, buasai genym gyfundraeth o wirionedd ar un egwyddor drefniadol. A phe gosodasid yr athrawiaethau a'r gorchymynion perthynol i bob gwirionedd ysgrythyrol gyda'u gilydd, cawsem, wedi hyny, gyfundraeth o wirionedd ar egwyddor wahanol. Yn yr amgylchiad cyntaf, dosparthid gwirionedd ysgrythyrol dan ffurf y mynegiad, yr hwn a allai fod yn orchymynol, yn addawol, neu yn athrawiaethol. Yn yr ail, byddai gwahanol ffurfiau y mynegiadau ysgrythyrol wedi eu dosparthu dan y *gwirioneddau* i ba rai y perthynai pob un. Cyssylltir y ddwy egwyddor drefniadol yma gan y myfyriwr gofalus. Y golygiad hwnw o'r cyfan sydd yn rhoddi y meddwl priodol i bob rhan o'r gair dwyfol, gan roddi y lle priodol i bob gwirionedd a dyledswydd, mewn trefn a phwysigrwydd, fel ag i wneuthur i un gwirionedd a dyledswydd *anrhydeddu* y lleill, ac *ymddangos* ei hunan yn y modd mwyaf manteisiol, yw y wir gyfundrefn dduwinyddol.

457. Ac nid ydyw yr angenrheidrwydd am y cyfryw drefniad yn perthyn yn neillduol i'r Beibl. Mewn natur ac mewn rhagluniaeth, y mae ffeithiau a gwrthddrychau wedi eu gwasgaru mewn amrywiaeth diderfyn. Gwaith gwyddoniaeth yw darganfod undeb a threfn yn eu mysg oll. Gan hyny, y cyfreithiau cyffredinol a reolant y bydyssawd, a'r rheolau ymddygiad drwy ba rai y llywydda dynion eu bywydau, ydynt fel eu gilydd yn ffeithiau wedi eu darostwng i gyfundraeth gan ofal a deall. Defnyddiwn hefyd yn y ddau achos yr un egwyddor o ymchwiliad—egwyddor fawr athroniaeth arweiniol (*inductive philosophy*). Testunau yr Ysgrythyrau a gyfansoddant sylfaen duwinyddiaeth, fel y mae ffeithiau natur yn ffurfio sylfaen gwyddoniaeth naturiol, neu megys y mae ffeithiau ymwybodusrwydd (*consciousness*), yn gwneyd i fyny sylfaen athroniaeth feddyliol. Yn y Beibl, fodd bynag, y mae genym y fantais hon,—tra mai ffeithiau yw yr unig seiliau oddiwrth ba rai y casglwn ddeddfau cyffredinol mewn natur, cawn fod deddfau cyffredinol gwirionedd a dyledswydd, yn gystal ac enghreifftiau neillduol, yn mha rai y canfyddir y deddfau hyny, yn cael eu cymhwyso yn yr Ysgrythyr at amcanion bywyd.

458. Y mae myfyrdod rheolaidd o'r Beibl (rhaid i ni nodi yma) yn gwahaniaethu i raddau helaeth oddiwrth y dehongliad o hono. Dehongliaeth sydd yn ymwneyd yn unig â meddwl adnodau unigol; ond y mae Duwinyddiaeth Reolaidd yn eu hystyried yn eu perthynas y naill â'r llall, ac â ni ein hunain.

459. Pan ddywedwn ein bod yn myfyrio athrawiaethau yr Ysgrythyr yn ei gorchymynion, yr ydym yn corffori gwirionedd pwysig. Y mae cyssylltiad hanfodol rhwng athrawiaethau Cristionogaeth. Y mae athrawiaeth, nid yn unig yn cynnwys gorchymyn drwy awgrymiad (*implication*), ond y mae yn arddangos gwirionedd yn y fath olygiadau ag sydd wedi eu cyfaddasu gan Dduw i gynhyrfu serchiadau santaidd, a'r serchiadau yma ydynt egwyddorion uniongyrchol ymddygiad santaidd. Y mae crediniaeth o athrawiaethau yr efengyl, ac ufydd-dod, gan hyny, yn anwahanadwy. "Moesoldeb yw crefydd mewn ymarferiad, a chrefydd yw moesoldeb mewn egwyddor." Yr hwn sydd yn caru Duw, sydd yn cadw ei orchymynion ef; a'r hwn sydd yn cadw y gorchymynion, sydd yn caru Duw. Gall dyn amcanu ysgaru y pethau y mae Duw wedi eu huno fel hyn. Gall esbonio gwirionedd fel ag i ddinystrio moesoldeb, gwneuthur y "gyfraith yn ddirym drwy ffydd," neu gall "ddàl y gwirionedd mewn annghyfiawnder." Ond amcan Duw yw i wirionedd bob amser gynnyrchu santeiddrwydd, fel ag y mae yn hanfodol iddo. Nid ydyw santeiddrwyd, gan hyny, byth i'w gael heb wirionedd; ac os cafwyd gwirionedd rhywbryd heb santeiddrwydd, y mae felly am fod drygioni y natur ddynol wedi llwyddo i'w hysgaru.

460. Y mae myfyriaeth reolaidd o'r Ysgrythyr wedi cael ei chamddarlunio yn rhyfeddol. Rhai a ddaliant nad oes modd fod gwybodaeth ddealladwy o'r Ysgrythyr hebddi, ac ereill a ddaliant ei bod yn ddiddefnydd; nad ydyw, mewn gwirionedd, ond gweddillion ymarferiadau ysgolheigaidd, y byddai eu dinystr yn fendith i'r eglwys. Ond y mae y golygiadau yma, fodd bynag, yn annghywir. Y rhanau hyny o'r Beibl a gynnwysant grynodebau eglur o wirionedd, ydynt mor lluosog (Tit. 2, 11—14; Eph. 2, 4—10), fel y bydd i ddyn da, yn ddiarwybod iddo, yn aml gasglu cyfundraeth gynnwysfawr a chywir. Ar y llaw arall, y mae gwrthod cyfundraeth yn ein gorfodi i gyfyngu ein hunain at osod allan athrawiaeth yn iaith yr Ysgrythyr; neu yn ein gwneuthur yn agored i'r perygl o

gam-ddarlunio un athrawiaeth wrth argymhell un arall: neu, yn fwy cyffredin fyth, temtia ni i edrych dros gydbwysedd neu gyssylltiad priodol athrawiaethau, ac felly arweinia ni i gyfeiliornad, yr hwn sydd yn fwy hudol, o gymmaint a'i fod mewn rhan yn sylfaenedig ar wirionedd. "Egwyddorion cyffredinol wedi eu tynu oddiwrth neillduolion," medd Locke, "yw gemau gwybodaeth, yn cynnwys swm mawr mewn ychydig le; ond y mae y rhai hyn, o herwydd hyny, i'w defnyddio gyda mwy o ofal a gochelgarwch, rhag, os cymmerwn y ffugiol yn lle y cywir, y bydd ein colled yn fwy pan ddaw ein ystor i gael ei manwl brofi."

461. Gellir myfyrio y Beibl mewn modd rheolaidd i amcan deublyg; naill ai, *yn gyntaf*, i benderfynu athrawiaethau yr Ysgrythyr, neu, *yn ail*, i benderfynu ei rheolau mewn moesoldeb a santeiddrwydd. Y gyfundraeth athrawiaethol a ffurfir fel hyn a elwir gosodedigaethol (*dogmatic*), neu dduwinyddiaeth athrawiaethol; a gelwir y gyfundraeth o ddyledswydd, duwinyddiaeth *foesol*, neu *ymarferol*. Mae y ddwy, fodd bynag, yn yr Ysgrythyr, wedi eu cydwau yn y modd agosaf, fel y maent yn y profiad dynol.

462. Wrth gasglu gwirionedd athrawiaethol o'r ysgrythyr, cynnullwn yn nghyd yr holl destunau sydd yn cyfeirio at yr un pwnc, pa un bynag fyddont ai athrawiaethau, gorchymynion, addewidion, neu siamplau; cymharwn hwynt mewn modd anmhleidgar, cyfyngwn fynegiadau un testun wrth eiddo un arall, ac eglurwn y cyfan mewn modd cysson. Pan fyddo y gosodiad a dynir genym oddiwrth yr holl destunau yn cynnwys y cwbl a fynegant, a dim mwy, gellir ei ystyried fel gwirionedd Ysgrythyrol cyffredin.

463. Y rheolau canlynol ydynt mor eglur ag ydynt o bwysig:—

Rhaid i ni gasglu ein golygiadau am athrawiaeth Gristionogol yn benaf o'r Testament Newydd, gan ddehongli ei fynegiadau yn gysson â'u gilydd, ac â ffeithiau a dadguddiadau eglur yr Hen Destament.

Wrth gario allan y rheol yma, y mae yn angenrheidiol egluro rhanau ammwys (*ambiguous*) a ffigurol drwy rai sydd yn eglur a llythyrenol; a rhanau lle y mae pwnc yn cael ei fyr-ddesgrifio drwy y rhai hyny lle y mae yn cael ei drin i helaethrwydd; a haeriadau cyffredinol drwy rai ereill (os bydd y cyfryw i'w cael) a ymdriniant â'r un gwirionedd mewn modd mwy cyfyng, neu gyda rhai eithriadau.

Rhaid nid yn unig i'r holl ranau sydd yn llefaru am yr un athrawiaeth gael eu hesbonio yn gysson â'u gilydd, ond rhaid hefyd i'r athrawiaeth gael ei dàl mewn cyssondeb âg athrawiaethau ereill.

Er enghraifft, yr Ysgrythyrau, wrth gymharu gwahanol ranau, a ddysgant mai rhoddion Duw yw edifeirwch, ffydd, ac ufydd-dod.[a] A gasglwn ni, gan hyny, fod dynion yn ddieuog os na fydd iddynt edifarhau, a chredu ac ufyddhau i'r efengyl? neu a ydym yn ei ystyried yn ddiangenrhaid i annog dynion i edifeirwch, ufydd-dod, a ffydd? Os felly, y mae ein golygiadau yn annghywir, oblegid y mae yr euogrwydd o anedifeirwch yn cael ei gyfrif yn gyfangwbl ar ddyn.[b] Mynegir mai annghrediniaeth yw ei bechod mawr, a sail ei golledigaeth;"[c] ac y mae peidio ufyddhau i Dduw yn cael ei gondemnio yn mhob man. Annogir dynion hefyd i edifarhau,[d] a chredu, ac ufyddhau. Felly y dysgai Samuel yr Israeliaid, ac felly yr annogai Pedr Simon Magus, a llofruddwyr ein Harglwydd.[e]

Er y gall gwirioneddau gael eu dadguddio yn yr Ysgrythyr ag y mae yn

[a] Ioan 15, 5; Act. 6, 31; Eph. 2, 8; Phil. 1, 29; 2, 13; 1 Pedr 1, 2.
[b] Math. 11, 20, 21; Dad. 2, 20, 21. [c] Ioan 3, 18; 16, 9. [d] Marc 1, 15.
[e] Actau 3, 19; 8, 22.

anhawdd i ni eu cyssoni; etto nid oes un gwirionedd a ddelir fel ag i wrthddywedyd un arall yn cael ei ddal fel y mae y Beibl yn ei ddadguddio.

Defnyddier a dehongler athrawiaethau yr Ysgrythyr gyda pharch neillduol i'r amcanion ymarferol i ba rai y dadguddir hwynt yn yr Ysgrythyr.

Y mae y defnydd a wneir yn yr Ysgrythyr, er enghraifft, o athrawiaeth etholedigaeth yn dra addysgiadol. Pa fodd bynag yr edrychir ar yr athrawiaeth ei hunan, cyduna pawb i gyfaddef nas gall gynnwys unrhyw anwyldeb gwammal (*capricious*), heb reswm na doethineb; nis gall ychwaith gael ei hystyried fel serch seiliedig ar deilyngdod, neu yn ceisio ein dedwyddwch ni fel ei dyben penaf. Dangosiad ydyw yn hytrach o gymmeriad Duw, yr hwn a'i gesyd allan fel yn gweithredu yn unol â'i amcan ei hun; a thrwy sicrhau yr amcan hwnw, yn arddangos ei ogoniant, ac yn dwyn oddiamgylch y daioni cyffredinol. Arddangosir yr athrawiaeth yn yr Ysgrythyr, hefyd, yn unig i'r cyfryw amcanion a'r rhai hyn: i fynegu mai ffafr annibynol Duw yw ffynnonell iachawdwriaeth, ac i dòri ymaith bob gobaith am dderbyniad drwy weithredoedd, megys yn Rhuf. 11, 5, 6; i gyfrif am annghrediniaeth yr Iuddewon heb ei hesgusodi, megys yn Rhuf. 9; neu i ddangos sicrwydd llwyddiant teyrnas Crist er gwaethaf pob gwrthwynebiad, megys yn Math. 21, 42; Ioan 6, 37. Wrth ei hystyried yn annibynol ar y ffeithiau hyn, gall gael ei gwneyd yn sylfaen i gyhuddiad o wammalrwydd, neu gall (fel yn mhlith yr Iuddewon) ddyfod yn feithrinfa hunanoldeb; neu gall gael ei defnyddio i ddinystrio yr athrawiaeth o ddynol gyfrifoldeb, neu o ymroddiad Cristionogol i ddyledswydd. Wrth ystyried yr athrawiaeth mewn modd cyfundraethol, hyny yw, a'i golygu mewn cyssylltiad â'r gwirioneddau yn mysg pa rai y mae yn sefyll, a'i chymhwyso i'r amcanion y defnyddid hi gan y dysgawdwyr ysbrydoledig, y mae ynddi duedd ddarostyngol a santeiddiol.

Dysgir hefyd yn yr Ysgrythyr yr athrawiaeth o ddylanwad Satanaidd; ond yn unig er mwyn rhoddi i ni olygiad eglurach am werthfawredd gwaith Crist, a'n cynhyrfu i fwy o wyliadwriaeth a gweddi, 2 Cor. 4, 4; Eph. 2, 2; 6, 12; Ioan 13, 27; Luc 8, 30; Dad. 12, 9; 1 Ioan 3, 8; Eph. 6, 11—18, &c.

Y cyssylltiad dirgelaidd rhwng y trosedd cyntaf a'r ffaith fod pawb o dan gondemniad, a gadarnhëir mewn modd eglur yn y 5ed bennod o'r Epistol at y Rhufeiniaid, ac yn 1 Cor; ond yn unig er mwyn mawrhau gras Duw yn ein prynedigaeth drwy Grist.

Athrawiaeth y Drindod sydd ddadguddiad o Dduw yn dàl perthynas â dyn; ac er ei bod yn cael ei chyflwyno weithiau (megys yn yr ordinhad o fedydd), yn syml, fel erthygl o ffydd, etto, yn gyffredin, ceir hi mewn cyssylltiad â bendithion ysbrydol, ac yn enwedig mewn cyssylltiad â threfn iachawdwriaeth, 2 Cor. 13, 14.

Rhaid cofio, etto, nad ydyw casgliadau wedi eu tynu gan reswm oddiwrth osodiadau sylfaenedig ar fynegiadau yr Ysgrythyr, i'w hystyried yn ysbrydoledig, oddieithr fod y casgliadau hyny eu hunain yn cael eu dadguddio.

Er enghraifft, y mae yn sicr fod gweithredoedd neillduol, perthynol i oruchwyliaeth bersonol, y rhai mewn rhai adnodau a briodolir mewn modd syml i Dduw, yn cael eu priodoli mewn lleoedd ereill i'r Tad, neu i'r Mab, neu i'r Ysbryd Glân, a bod mawrygiad ac addoliad yn cael ei hawlio i bob un. Gallwn ni, gan hyny, ddywedyd fod tri Pherson yn y Duwdod—a dim ond un Duw; neu fod Trindod mewn Undod. Yr ydym fel hyn yn gosod allan wirionedd Ysgrythyrol mewn ffordd gyfleus. Ond os cynnyg-

iwn i egluro y gwirionedd yma, neu dynu casgliadau pell oddiwrth yr eiriadaeth a ddefnyddir, yr ydym mewn perygl naill ai o dywyllu cynghor drwy eiriau heb wybodaeth, neu ynte o gynnull gwersi nad ydyw Duw yn eu dysgu.

Etto, fod pawb dynion yn bechaduriaid, a bod gweithredoedd santeiddiaf y dynion goreu yn syrthio yn fyr o ddyfod i fyny â gofynion y gyfraith Ddwyfol, ydynt wirioneddau dadguddiedig yn yr Ysgrythyr, a chynnwyswn y ddau yn y mynegiad cyffredinol, fod dynion yn drylwyr lygredig; ond os, oddiwrth y mynegiad yma, y tynwn ni y casgliad fod pawb yn bechaduriaid i'r un graddau, er fod y casgliad yn ymddangos yn gynnwysedig yn y mynegiad, etto nid ydyw yn wers Ysgrythyrol, ond casgliad wedi ei dynu gan reswm dynol, nid oddiwrth air Duw, ond oddiwrth iaith anmherffaith dyn. Y mae pawb dynion dan rwymau i gredu yr Ysgrythyr, a'r hwn sydd yn credu yr Ysgrythyr, sydd hefyd yn credu yr oll a welir yn gynnwysedig ynddi. "Ond," medd Jeremy Taylor, "ni ddylid gwasgu ar un dyn ganlyniadau wedi eu tynu oddiwrth yr Ysgrythyr, oddieithr fod yr adysgrif wedi ei gwneyd gan yr un llaw ag a ysgrifenodd y gwreiddiol. Canys yr ydym yn sicr fod hwnw wedi dyfod, yn y symledd o hono, oddiwrth Ysbryd anffaeledig; ond yr hwn a orchymyna i mi gredu ei gasgliadau ef, a orchymyna i mi gredu ei fod ef yn ymresymydd annghyfeiliornus; am yr hyn nid ydyw Duw wedi rhoddi i mi un gorchymyn, ac nis gall ef ei hunan roddi un sicrwydd."*

Yn wir, gyda golwg ar yr holl athrawiaethau a berthynant yn neillduol i'r Ysgrythyr, y mae rheol y merthyr Ridley mor Gristionogol ag ydyw o athronyddol. "Yn y pethau hyn," ebe fe, "yr wyf mor ofnus, fel na feiddiaf lefaru yn mhellach, ïe, nac mewn un modd braidd, ond fel y mae y testun yn fy arwain fel pe buasai erbyn fy llaw,"

Ond heblaw penderfynu gwirioneddau yr efengyl, er mwyn ffurfio cyfundraeth o wirionedd, nid ydyw yn llai pwysig penderfynu pwys cymharol y gwirioneddau hyn; ac os bydd bosibl, y drefn yn mha un y dadguddia yr Ysgrythyr hwynt. Gyda'r golygiad yma, noder:—

1. Pa bethau sydd yn cael eu *gadael allan* mewn un llyfr, neu mewn amryw, neu mewn llawer; ac yna tyner y casgliad, nad ydyw yn debygol fod y pethau a adewir allan mor bwysig a'r pethau hyny a gynnwysir yn yr holl lyfrau.

2. Noder y pynciau a gymmeradwyir fynychaf i sylw gan ein Harglwydd, a chan ei apostolion.

Os gofynir, er enghraifft, beth yw yr amgylchiad mwyaf nodedig yn sefydliad y swper olaf, yr ateb yw, ei chymmeriad coffadwriaethol; oblegid nodir y neillduolrwydd yma dair gwaith yn ngeiriau y sefydliad, 1 Cor. 11, 24, 25, 26.

Ar yr un tir, y mae rheol gweithrediad Dwyfol o bwysigrwydd amlwg. Awgryma ein Harglwydd dair gwaith, a phob tro gyda dwysder mawr, fod doniau a ymarferir yn barhaus yn cael eu cynnyddu, tra mae doniau a barhaus esgeulusir yn cael eu hattal, Math. 13, 12; 25, 29: Luc 19, 26. Felly hefyd am ostyngeiddrwydd, yr hwn a nodir gydag anrhydedd arbenig ddim llai nâ saith gwaith yn y tair Efengyl flaenaf, Math. 18, 4, &c.

3. Sylwer yn ofalus ar yr hyn a berthyn yn *gyffredin* i'r ddwy oruchwyliaeth, y Gristionogol a'r Iuddewig.

Y mae unoliaeth ac ysbrydolrwydd Duw, ei allu a'i wirionedd, yn cael

* Annogaethau yn erbyn Pabyddiaeth.

eu mynych ddadguddio yn y ddwy. Y mae diolchgarwch a chariad felly yn mhlith ein dyledswyddau blaenaf. Gorchymynion aml y gyfraith, o berthynas i aberthau, a'r lle mawr a roddir i'r gwirionedd, fod Crist "wedi ei offrymu unwaith i ddwyn ymaith bechodau llaweroedd," ydynt yn egluro pwysigrwydd mawr yr athrawiaeth, yn nghyd â'r pwys o feddiannu teimladau priodol o berthynas iddi, Heb. 9, 28.

4. Sylwer ar y *gwerth a roddir yn yr Ysgrythyr* ei hunan i unrhyw wirionedd neu orchymyn cynnwysedig ynddi.[a] Weithiau y mae cynneddf (*quality*) yn cael ei gosod allan megys yn hanfodol,—"Heb ffydd, anmhosibl yw rhyngu bodd Duw." Weithiau rhoddir un gynneddf o flaen un arall, megys cariad o flaen ffydd a gobaith, 1 Cor. 13. Ar yr egwyddor yma y cyssylltir pwys mawr â'r cynneddfau sydd i reoli penderfyniadau dydd y farn. Megys ffydd, iawn lywodraethiad o'n meddyliau, ein geiriau, ein teimladau, ein gweithredoedd, ein hymarferion, a'n tueddiadau.[b]

Gall y darllenydd gymhwyso y rheolau blaenorol i benderfynu pwysigrwydd marwolaeth ac adgyfodiad ein Harglwydd, yn nghyd â chyssylltiad y ddau beth yma â chyfiawnhad a santeiddrwydd; gwel,

Gal. 2, 20; 3, 1: 3, 13: 5, 24: 5, 11: 6, 12, 14: 1 Cor. 1, 13, 17, 18, 23: 2, 2, 8: 5, 7: 8, 11: 11, 26: 15, 3: Rhuf. 3, 24, 25: 4, 24, 25: 5, 8, 19: 6, 5—8, 10: 8, 3, 32: 14, 15: Eph. 1, 7: 2, 16: 5, 2: Col. 1, 14, 18—20, &c.

Y mae y ffaith o adgyfodiad ac esgyniad ein Harglwydd, fel prawf o orpheniad a derbyniad ei waith, ac fel gwystl o adgyfodiad ei bobl, yn cael ei nodi dros hanner cant o weithiau yn yr epistolau yn unig. Mae yn eglur, gan hyny, nad ydyw unrhyw olygiad o'r efengyl sydd yn rhoddi lle ail-raddol i'r athrawiaethau yma yn perthyn i efengyl yr Ysgrythyr.

464. Gellir gosod i lawr un neu ddwy o egwyddorion cyffredinol er cynnorthwyo yn y cymhwysiad o'r rheolau yma.

1. Rhaid peidio gwneyd dim yn bwnc o ffydd nad ydyw yn bwnc o ddadguddiad.

2. Wrth fyfyrio y Beibl, rhaid peidio sefydlu y farn hyd nes y byddo y gwirionedd ei hunan yn penderfynu. Rhaid peidio caniatâu unrhyw ogwyddiad ond yr hyn a dderbynir oddiwrth yr Ysgrythyrau eu hunain; os amgen, ni fydd ein gwybodaeth ond yn unig tuedd a dychymmyg.

3. Dylai pob athrawiaeth gael yr un pwys ag sydd yn cael ei roddi iddi yn yr Ysgrythyr.

4. Lle mae athrawiaeth yr Ysgrythyr yn bwysig ac angenrheidiol, ceir yr Ysgrythyr yn gyflawn ac yn eglur. Pan na fyddo yr Ysgrythyr yn gyflawn ac eglur, naill ai nid ydyw yr athrawiaeth ynddi ei hunan yn bwysig, neu ynte nid yw gwybodaeth sicr o honi yn perthyn i'n cyflwr presenol.

5. Gan fod y Beibl yn ysbrydoledig, nis gall, mewn gwirionedd, wrthddywedyd ei hun. Nid ydyw rhai gwrthddywediadau ymddangosiadol ond geiriol yn unig, ac y mae iawn ddehongliad o'r geiriau yn symud ymaith bob anhawsder. Gellir egluro ereill, a ddechreuant yn yr athrawiaethau eu hunain, drwy y naill neu y llall o'r tair rheol ganlynol:—

(*a*.) Pan fyddo yr un weithred yn cael ei phriodoli i wahanol bersonau, y mae ystyr yn mha un y mae yn wir am y ddau.

[a] Gwel "Esboniad ar Efengyl Luc," gan James Thomson, D.D. Rhagarweiniad.

[b] Ioan 3, 15; Math. 15, 18, 20; 13, 43, 49; 16, 27; Rhuf. 2, 6; Gal. 6, 8; Dad. 14, 13; 1 Ioan 3, 23. Yr holl adnodau yma a brofant mai amcan yr efengyl yw, nid maddeuant yn unig, ond santeiddrwydd hefyd, a bod addasrwydd i'r nef yn cynnwys hawl a chymmeriad.

Dywedir, er enghraifft, ddeg o weithiau, i Pharaoh galedu ei galon, a deg o weithiau i Dduw galedu ei galon ef; ac y mae y ddau fynegiad mewn un golygiad yn wirionedd. Gellir casglu oddiwrth ddadguddiadau yr Ysgrythyr am gymmeriad Duw, pa beth sydd *heb fod* yn briodol ystyr; a gall yr ystyr priodol gael ei fynegu i ni yn yr Ysgrythyr, neu gall beidio cael ei fynegu. Os nad ydyw yn cael ei egluro, mae yr ystyr hwnw yn un "o'r dirgeledigaethau sydd yn perthyn i'r Arglwydd." Os ydyw yn cael ei fynegu, yna y mae yr ystyr sydd yn cyssoni y mynegiadau, a'r mynegiadau eu hunain, yn cael eu dadguddio.

Enghreifftiau yn mha rai y mae yr Ysgrythyr yn priodoli yr un weithred i wahanol bersonau:—

Exod. 18, 17—26; Deut. 1, 9—13, o berthynas i ordeiniad barnwyr. Num. 13, 1—20; Deut. 1, 22, o berthynas i anfon ysbïwyr. 2 Sam. 24, 1; 1 Cron. 21, 1, yn nghyfrifiad y bobl gan Dafydd.

(*b.*) Pan fyddo nodweddau a ymddangosant yn wrthwynebol i'w gilydd yn cael eu priodoli yn yr Ysgrythyr i'r un person neu wrthddrych, y mae ystyr yn mha un y mae y ddau haeriad yn gywir.

Er enghraifft, y mae ystyr yn mha un y mae pawb dynion yn bechaduriaid; ac y mae ystyr yn yr hwn nid ydyw rhai dynion (y rhai hyny a aned o Dduw) yn cyflawnu pechod (1 Ioan), ac y mae y ddau ystyr yn Ysgrythyrol. Rhaid casglu beth yw yr ystyrion yma oddiwrth y Beibl, os ydynt wedi eu dadguddio. Os nad ydynt wedi eu dadguddio, credwn y mynegiadau, ac aroswn am oleuni pellach. Y mae ystyr yn yr hwn y mae Duw yn ymweled â phechodau y tadau ar y plant, ac y mae ystyr yn yr hwn nid yw y plant yn dwyn pechodau y tadau, Exod. 20, 5; Ezec. 18, 20. Naill ai y mae effeithiau pechod y tad yn syrthio yn dymmorol ar ei blant, er mai tynged *olaf* pob dyn yw canlyniad ei ymddygiad ei hun, neu gellir cyfyngu yr adnod flaenaf i'r rhai a'i casânt ef: pentyrir cospedigaeth yn y ddau achos.

(*c.*) Pan ddywedir yn yr Ysgrythyr fod un peth yn sicrhau iachawdwriaeth, ac y dywedir fod diffyg o beth arall yn amddifadu o honi, y mae bodoliaeth un peth o angenrheidrwydd yn cael ei awgrymu yn modoliaeth y llall.

Dywedir, er enghraifft, fod ffydd yn ein hachub, ac etto nis gall neb fod yn gadwedig sydd yn casâu ei frawd. Y mae y ddau osodiad yn gywir; ac, yn wir, nid ydyw ffydd a chariad un amser yn cael eu hysgaru.

Dyma y *canon* sydd yn cyssoni rhagorfreintiau ffydd â'r addewidion a wneir i gymmeriad, megys yn y bregeth ar y mynydd. Nid am fod gan y cyfryw gymmeriadau ffydd y bendithir hwynt, oblegid y mae yr addewid yn ddilys; ond y mae hyn am fod ffydd yn ffurfio y cyfryw gymmeriadau, ac felly yn dwyn y credadyn o fewn cylch yr addewid.

Dos. 2. *Gorchymynion yr Ysgrythyr.*

465. Yr ydys wedi gosod myfyrdod o athrawiaeth yr Ysgrythyr yn mlaenaf yn y bennod yma am ddau reswm. Y rhan fwyaf o'r rheolau cymhwysiadol at fyfyrdod o'r cyntaf, ydynt yn gymhwysiadol at fyfyrdod o'r cyfan. Heblaw hyny, ceir fod athrawiaeth Ysgrythyrol yn gorwedd wrth wraidd pob gwir foesoldeb. Dechreua yr efengyl ei chenadwri drwy yr "adroddiad am heddwch," gan ddadlenu trugaredd faddeuol Duw trwy farwolaeth ei Fab. Yna arddengys ei gwirioneddau fel cymhellion i santeiddrwydd. Pan gymmer y gwirioneddau hyn feddiant o'r galon, dysg ni

i ganfod fod yr Ysgrythyr yn gofyn ufydd-dod uchel ac ysbrydol: ac o dan ddylanwad yr hawliau yma, dysgwn wasanaethu yn newydd-deb yr Ysbryd, ac nid yn hender y llythyren. Hon, gan hyny, yw trefn profiad dynol; gwybodaeth yn y galon, neu wirionedd, a ragflaena wirionedd yn yr ymarferiad, neu ddaioni; neu, yn iaith syml yr Ysgrythyr, y mae dyn yn cael ei santeiddio drwy ffydd, drwy weithrediad yr Ysbryd Glân.

466. Pan fyddo darllenydd Beiblaidd yn chwilio ac yn trefnu ei orchymynion, caiff mai llyfr o egwyddorion ydyw, yn hytrach nag o gyfarwyddiadau. Ac o egwyddorion mewn ystyr ddyblyg: Cyfeiria ei orchymynion at gymhellion (*motives*) yn hytrach nag at weithrediadau, a gelwir y cymhellion hyn yn egwyddorion, neu ddechreuadau gweithgarwch; ac heblaw hyny, ei orchymynion ydynt arwirebau (*maxims*) cynnwysfawr; ac o herwydd hyny, y maent yn egwyddorion o foesoldeb yn hytrach nag yn rheolau penodol. Pan lefara am santeiddrwydd, y mae yn golygu ffydd, serch yn cael ei iawn reoli, purdeb mewnol, uniondeb moesol yn y duedd; ac arddengys y rhai hyn oll, nid fel sail ei iachawdwriaeth, ond fel y prawf a'r canlyniad o honi. Deddf y deg gorchymyn, yr hon ar y cyntaf a ymddengys fel yn cyfeirio yn unig at yr ymarferiad, a osodir allan gan ein Harglwydd yn y ffurf o gariad at Dduw ac at ddyn; gostyngeiddrwydd a ffydd efengylaidd tuag at Dduw, a phob ymddygiad santaidd tuag at ein cyd-ddynion, yw y mynegiadau priodol o'r teimladau mewnol yma. Yr oedd y neillduolrwydd ymddangosiadol yma, perthynol i'r gyfundraeth efengylaidd, yn sefyll allan yn fwy amlwg yn nyddiau ein Harglwydd, oddiwrth y ffaith fod traddodiad *Iuddewig* wedi rhoddi pwys gormodol i sêl a manyldra defodol; ac y mae yn cyfrif am lawer o'r gwrthwynebiad a gyfarfyddodd dysgawdwyr cyntaf y gwirionedd. Fod hyn hefyd yn neillduolrwydd perthynol i'r gyfraith, sydd eglur oddiwrth natur ei gorchymynion, a dysgeidiaeth ein Harglwydd, oblegid pan y mae efe yn gwasgu ar ei wrandawwyr y pwysigrwydd o dueddiadau mewnol, nid ydyw un amser yn llefaru am y gyfraith fel yn feius, ond yn unig ei rhyddhau oddiwrth gam-esboniadau y Phariseaid, a dadblygu ei hystyr ysbrydol. Gwel hefyd Marc 12, 32—34.

467. Hyd y nod pan fyddo gorchymynion yr efengyl yn cael eu rhoddi mewn ffurf benodol, bwriedir hwynt yn aml fel yn ddarluniadol yn hytrach o gymmeriad nag o weithredoedd penodol. Y mae gorchymyn ein Harglwydd, "I'r neb a fyno ymgyfreithio â thi, a dwyn dy bais, gâd iddo dy gochl hefyd," yn enghraifft, Math. 5, 40. Anfynych y byddai cydymffurfiad penodol â'r gorchymyn yn alluadwy. Ni byddai aros am achlysur i'w gymhwyso, ac ni fyddai ei gymhwyso o gwbl, ond o ychydig wasanaeth; ond meithrin y duedd at yr hon yr amcana, yw un o'r prif foddion i gynnyddu santeiddrwydd.

468. Neillduolrwydd arall perthynol i orchymynion yr efengyl yw, eu bod yn cael eu gosod allan yn gyffredin mewn ymadroddion cynnwysfawr, a bod y cymhwysiad o honynt, a'r gwahaniaethau sydd yn canlyn y cymhwysiad hwnw, yn cael ei adael i reswm y darllenydd. Gwir fod y cyfreithiau mor eglur, fel ag y mae y meddwl cydwybodol ac addysgadwy wedi ei adael mewn ychydig berygl o gamsynied. Etto, rhan o'n dysgyblaeth ni yw, ein bod wedi ein gadael i'w cymhwyso. Y mae y fath eglurder yn y gorchymyn, fel y gall yr hwn sydd yn rhedeg ddarllen; ond wedi'r cyfan, y mae y fath bosiblrwydd o gyfeiliorni ag sydd yn arddangos Duw fel yn profi "beth sydd yn ein calonau, a pha un a gadwwn ni ei orchymynion ef ai peidio."

469. Wrth gymhwyso y gwahaniaethau yma at y ddeddf foesol, fel y rhoddir hi yn yr Hen Destament neu yn y Newydd, gellir sylwi,—

1. Pa ddrwg bynag a wahardda yn y gradd uchaf, y mae yn ei wahardd yn y gradd isaf. Llofruddiaeth a'r nwydau maleisus yn mhob gradd, godineb a holl bechodau y cnawd, twyll ac annghyfiawnder, cam-dystiolaeth mewn cyfathrachiad dirgelaidd ac mewn llysoedd cyfreithiol, lledrad a drwg-chwennychiad, a dymuniadau anfoddus, ydynt oll yn cael eu condemnio; ac yn

2. Pan fyddo pechod yn cael ei wahardd, y mae y ddyledswydd gyferbyniol yn cael ei chymhell; a phan orchymynir unrhyw ddyledswydd, gwaherddir y pechod cyferbyniol. Gwahardda ddefnyddio delwau o beth au anweledig i amcanion addoliadol, ac fel hyn cymhella wasanaeth ysbrydol. Wrth wahardd pob gwrthddrych arall o addoliad crefyddol, cynnwysa fod Duw i gael ei addoli, ei barchu, a'i garu. Cylchyna y berthynas dadol a mamol â santeiddrwydd ac âg anrhydedd; ac fel hyn, condemnia y diystyrwch a'r annibyniaeth twyllodrus a feithrinir yn rhy fyaeh. Yr ëangiad ymddangosiadol yma o feddwl y gorchymynion ysbryderedig yw canlyniad angenrheidiol y gwirionedd cyffredin, mai llyfr o egwyddorion yw y Beibl, yr hwn sydd yn attal neu yn meithrin tueddiadau, ac yn llefaru yn iaith awdurdod gynnwysfawr.

470. Gan gadw mewn cof fod gorchymynion yr Ysgrythyr yn cyfeirio yn benaf at dueddiadau yr enaid, eu bod wedi eu llefaru gan mwyaf mewn ymadroddion cyffredinol, a bod y cymhwysiad o honynt wedi ei adael i'r darllenydd, y mae yn angenrheidiol sylwi yn mhellach ar y gwahaniaeth pwysig sydd rhwng y gorchymynion hyn a'u gilydd.

Gelwir rhai yn *foesol*, a rhai yn *bendant*, a sylfaenir y gwahaniaeth ar yr Ysgrythyr ei hun. Yr Esgob Butler a ddarnoda orchymynion *moesol* fel rhai sydd â'u mesur mewn rheswm naturiol, tra y mae gorchymynion *pendant* â'u rhesymau a'u mesur yn ddamweiniol (*incidental*), yn ddarbodus (*economical*), neu yn wladyddol (*political*). Y mae y rheswm am y blaenaf yn dragywyddol, ac am yr ail yn dymmorol. Etto, y mae yr Esgob Butler a Dr. Doddridge yn darnodi y blaenaf fel gorchymynion, y rhesymau dros ba rai a ganfyddir genym; a'r olaf fel gorchymynion nad ydym yn canfod y rhesymau drostynt. Drwy gyssylltu y darluniadau yma, dichon y gallem gael darnodiad gwell nag un o'r ddau. Gorchymynion *pendant* a gyfeiriant yn uuig at weithredoedd allanol, a'r cyfryw weithredoedd allanol nad ydynt yn dylifo yn naturiol o galon ufyddgar; gorchymynion moesol, ar y llaw arall, a gyfeiriant at santeiddrwydd mewnol, neu at weithredoedd fel arddangosion naturiol o deimlad santaidd. Y mae y ddau fath (o fewn terfynau neillduol) yn rhwymedig, ac y mae beiusrwydd neillduol yn perthyn i'r esgeulusiad o bob un o honynt. Troseddu deddfau *moesol* yw anufyddhau i'n rheswm ein hunain ac i Dduw. Troseddu deddfau *pendant* yw pechu pan fyddo temtasiwn wanaf yn gyffredin, a phan fyddo anufydd-dod yn cynnwys gwadiad uniongyrchol o'r awdurdod ddwyfol.

Rhai gorchymynion (mae yn eglur) ydynt gymmysgedig yn eu natur, y rhai ydynt mewn rhan yn foesol, ac mewn rhan yn bendant. Y cyfryw yw deddf y Sabbath. Amlwg yw, ei bod yn ddyledswydd foesol ar greaduriaid, wedi eu ffurfio fel y ffurfiwyd dynion, i dalu rhyw fath o addoliad unol; ond pa un ai ar y seithfed dydd, neu y dydd cyntaf o'r wythnos, y telir yr addoliad hwnw, sydd i'w benderfynu gan ddeddf bendant. Y mae yn eglur hefyd ein bod yn agored i gamsynied yn nefnydd-

iad geiriau y gwahaniaeth yma. Dyledswyddau *moesol* ydynt yn *bendant* yn yr ystyr o'u bod wedi cael eu gorchymyn mewn modd penodol; ac y mae dyledswyddau *pendant* yn foesol, yn yr ystyr o'u bod yn gofyn cymhelliad santaidd i'w cyflawnu; yr ydys hefyd yn myned dan euogrwydd os edrychir arnynt gyda diystyrwch neu ddirmyg.

471. Gwahaniaetha deddfau pendant yn helaeth, fodd bynag, oddiwrth y rhai hyny sydd yn unig yn foesol.

Yn eu *natur*. Y moesol ydynt yn hanfodol santaidd ac annghyfnewidiol; y pendant ydynt ddibwys, hyd nes y byddo y gorchymyn wedi ei roddi. Dan y gyfraith, er enghraifft, nid oedd edrych ar y sarff bres, taenellu gwaed ar byst y drws, yn weithredoedd rhwymedig, hyd nes i Dduw eu gorchymyn, ac nid oedd y ddau ond tymmorol yn eu parhad.

Yn eu *profion*. Y gorchymyn moesol sydd ysgrifenedig, er yr ymddengys yn fynych yn agos a chael ei ddileu, yn y galon; tra nad ydyw y gorchymyn pendant yn ysgrifenedig ond yn y Beibl yn unig. Yr olaf, gan hyny, sydd bwnc o ddadguddiad pur, ac y mae amrywiaethau yn mhlith Cristionogion o berthynas iddynt yn fwy hawdd, ac (oni allwn ddywedyd?) yn llai anesgusodol.

Yn eu *sylfaen*. Gorchymynion moesol ydynt yn seiliedig ar natur Duw a natur dyn, ac ar y berthynas a fodola rhyngddynt; sylfaen gorchymynion moesol yw ewyllys Duw yn unig. Llywyddir yr ewyllys hono yn ddiau gan ddoethineb, ac y mae amcan cyffredin llawer o orchymynion pendant yn eglur. Er enghraifft, bedydd, a swper yr Arglwydd, a'r Sabboth, ydynt oll yn gyfaddasedig i amcan neillduol; ond nid ydyw wedi ei ddadguddio paham y mae yr ordinhadau hyn yn unig, ac nid rhai ereill.

Yn *helaethrwydd eu rhwymedigaeth*. Y mae rhwymedigaeth gorchymynion moesol yn gyffredinol. Nid oes un cyflwr dychymmygadwy heb fod llywodraeth foesol Duw yn ei gyrhaedd. Ar y llaw arall, y mae gorchymynion pendant yn neillduol. Yr oedd y gyfraith seremoniol yn cynnwys yr Iuddewon, ond nid y Cenedloedd. Yr oedd addoli mewn llwyni yn cael ei ganiatâu i'r patriarchiaid (Gen. 21, 23), ond yn cael ei wahardd i feibion Israel (Deut. 16, 21). Dan yr efengyl, y mae yn hollol ddibwys yn mha le yr addolir Duw (Ioan 4, 21). Yr oedd defodau ereill yn rhwymedig ar yr offeiriaid, ac nid ar y bobl. Felly dan yr efengyl, y rhai hyny y gorchymynir iddynt yn unig sydd i gyfranogi o swper yr Arglwydd.

Gwahaniaethant hefyd yn y *dull a'r modd o'u cadw*. Ufyddhëir i orchymynion moesol, y rhai a gymhellant egwyddorion, mewn mil o weithredoedd gwahanol. Gorchymynion *pendant*, yn rheoli ymddygiad yn unig, ydynt yn unffurf, a rhaid ufyddhau iddynt yn ol cyfarwyddyd a llythyren y gyfraith.

Ac yn olaf, yn eu *cyssylltiad*. Gorchymynion moesol ydynt, o angenrheidrwydd, yn gyssylltiedig â'u gilydd. Gall gorchymynion pendant fod felly drwy awdurdod, ond nid ydynt felly yn eu natur. Canlynir ffydd gan obaith, llawenydd, a chariad. Cariad at Dduw a gryfhâ ein galar o herwydd pechu, a'n hofn rhag pechu; a chariad at ddyn a fwyha ein ffyddlondeb a'n haelfrydedd. Ond nid oedd enwaediad yn golygu santeiddrwydd na phurdeb seremoniol. Gall sefydliadau gael eu cadw ar wahan; "ond y mae rhinweddau bob amser (meddai yr Esgob Hale) yn myned gyda'u gilydd yn lluoedd."

472. O berthynas i gymhwysiad y deddfau hyn, moesol a phendant, rhaid cofio,—

1. Nad ydyw gorchymynion moesol, mewn gwirionedd, un amser yn

gwrthddywedyd y naill y llall. Os bydd gwrthddywediad ymddangosiadol, byddwn wedi camddehongli y meddwl, neu derfynau y gyfraith.

2. Sefydliadau pendant, gan eu bod yn seiliedig yn unig ar ddeddf Duw, ni chaniatëir ychwanegu at rifedi y rhai a ddadguddir yn yr Ysgrythyr. Rhaid i sefydliadau a broffesant fod o ddwyfol ddechreuad, nid yn unig beidio cael eu gwahardd, ond eu gorchymyn yn bendant yn yr Ysgrythyr. Byddai cynnyddu rhifedi y cyfryw sefydliadau, meddai y Dr. Whichcote, yn "lleihau rhifedi pethau cyfreithlawn, yn dwyn cydwybodau dynion i gaethiwed, yn amlhau pechod yn y byd, yn gwneyd y llwybr yn gulach nag y gwnaed ef gan Dduw, ac yn rhanu ei eglwys ef."

3. Pan fyddo gorchymynion pendant yn ymyraeth â chadwedigaeth y gyfraith foesol, rhaid i'r ddefod allanol roddi ffordd i arddangosiad o deimlad santaidd, offrymiad aberth i gynhyrfiadau trugaredd, a chadwedigaeth y Sabboth i ddeddf cariad.

4. Y mae Duw yn gwrthod ei sefydliadau pendant ei hunan pan fyddo dynion yn eu gwneyd yn derfynol, neu yn eu gosod i fyny mewn gwrthwynebiad i, neu yn lle santeiddrwydd, Esay 1, 11—17; 66, 3; Mic. 6, 7, 8; Jer. 7, 4, 5; Amos 5, 21.

Dos. 3. *Addewidion yr Ysgrythyr.*

473. Cyfrwng mawr adnewyddiad a santeiddiad dyn, drwy ddylanwad yr Ysbryd Glân, yw ffydd yn addewidion yr efengyl. Pan fyddo dynion yn cael eu hail-eni, hyny yw, eu hadferu i gyflwr a chymmeriad plant, cymmer hyn le dan ddylanwad yr un Ysbryd santaidd, drwy hâd anllygredig y gair dwyfol wedi ei dderbyn i'r galon. Pan yn cael eu cyfiawnhau, y mae drwy ffydd; a thrwy ffydd y gwneir hwynt yn santaidd: ffydd yw ein "tarian," ein "gwaith," ein "buddugoliaeth," ein "bywyd."

Wrth fyfyrio a chymhwyso addewidion, y mae o bwys i ni gofio y noddiadau canlynol:—

474. Addewidion cyffredinol y Beibl ydynt fynegiad o gynghor annghyfnewidiol Duw. Mae dynion yn aml wedi cyssylltu y meddylddrych hwn o gynghor âg amcanion dirgelaidd Duw yn unig, fel pe buasai yr amcanion hyny yn wrthwynebol i'w air, neu wedi eu bwriadu i rwystro a diddymu ei fynegiadau. Ond yn yr Ysgrythyr, llefarir bob amser am yr addewidion fel y dadguddiad o'i amcan, a'r troseddiad o'i addewid fel gwadiad, nid o'i air yn unig, ond hefyd o hono ei hunan. Yr oedd wedi addaw "cyn dechreuad y byd," Titus 1, 2; a dyfynir yr addewidion yn brawf o'i annghyfnewidioldeb, Heb. 6, 17, 18.

475. Y mae rhai o'r addewidion yn gyffredinol, ac ereill yn neillduol a thymmorol; ac y mae o bwys i wahaniaethu rhyngddynt. Gwnaed addewidion i Noah, i Moses, i Dafydd, ac i Pedr, nas gellir eu cymhwyso atom ni. Yr addewid a roddwyd i'r Israeliaid am lwyddiant allanol oedd yn un dymmorol, cyfatebol i'w goruchwyliaeth hwynt, a chyfaddas (mewn cyflwr lle nad oedd pethau tragywyddol yn cael eu dadguddio mor eglur) i sicrhau ufydd-dod. Felly hefyd y cafodd y dawn gwyrthiol, ac anffaeledigrwydd i ysgrifenu a chadarnhau yr Ysgrythyrau, eu haddaw i oes gyntaf yr eglwys yn unig; ond y maent yn awr wedi eu hattal. Yr efengyl yw yr addewid gyffredinol, a'r unig un. Hon, gan hyny, yw sylfaen a mesur ein ffydd. Llawer o addewidion, fodd bynag, a wnaed i gredinwyr unigol, ydynt yn gangenau o'r addewid gyffredinol, ac fel y cyfryw, y maent o hyd i'w cymhwyso at gredinwyr. Er enghraifft, addewid Duw i

Josua a gymhwysir gan Paul at y Cristionogion Hebreaidd,—"Ni'th lwyr adawaf;" a gweddia Nehemiah am gyflawniad yr addewid a roddwyd i Moses, Jos. 1, 5; Heb. 13, 5; Neh. 1, 5—11.

I'r dosparth yma y perthyn yr addewidion cyssylltiedig â'r bywyd presenol, yn enwedig y rhai cynnwysedig yn yr Hen Destament. Pan gymhwysir hwynt at Gristion cysson, cynnwysant wirionedd cysson, sef fod crefydd, drwy wneuthur dynion yn onest, sobr, a diwyd, yn meddiannu tuedd wastadol i sicrhau bendithion tymmorol. Llaw y diwyd a gyfoethoga, ac annogir diwydrwydd gan yr efengyl. Ond cywirir sefydlogrwydd y ddeddf hon gan dair o ystyriaethau:—1. Erlidigaeth a dyoddefaint a ragfynegir mewn modd pendant am yr eglwys, ac er mwyn Crist; ac y mae y cyfryw ddyoddefaint, ynddo ei hunan, yn bwnc addewid. 2. Y mae addewidion tymmorol yr Hen Destament yn cael eu cyfyngu hyd y nod gan gymmeriad yr oruchwyliaeth efengylaidd. Un o ffydd yn hytrach nag o olwg ydyw. 3. Heblaw hyny, defnyddir trugareddau tymmorol yn awr er daioni ysbrydol y Cristion, ac y maent yn cael eu rhoddi neu eu hattal, yn ol fel y byddo hyny yn tueddu i'w lesâu. Dan y gyfraith, nid oedd gwialen y drygionus yn gorphwys mor aml ar gyfran y cyfiawn, oblegid yr oedd gwersi Rhagluniaeth yn mhlith prif ddysgawdwyr yr eglwys a'r byd. Yn awr, fodd bynag, y mae y Beibl yn gyflawn; ac y mae Duw (a llefaru felly) yn rhydd i gymhwyso ei ddysgyblaeth at angenion *pob un* o'i blant. Wrth ofyn, gan hyny, am gyflawniad bendithion tymmorol, hyd y nod pan fyddont yn gyffredinol, rhaid i ni gofio fod llwyddiant wedi peidio bod yn fynegiad gwastadol o'r ffafr ddwyfol, a bod rhagluniaeth yn cael ei gweinyddu yn awr mewn modd gwasanaethgar i ddysgyblaeth ysbrydol yr eglwys.

476. Y mae rhai o'r addewidion yn ddiammodol (*absolute*), ac ereill yn ammodol. Yr addewidion am ddyfodiad y Messiah a galwad y Cenedloedd ydynt yn ddiammodol. Yr addewid am faddeuant, ac o'r bendithion hanfodol er iachawdwriaeth, a grogir ar ein ffydd ni. Hefyd, y mae cynnydd y Cristion mewn santeiddrwydd, a'i ryddhad oddiwrth geryddon, yn ymddibynu ar ei ddiwydrwydd, ei ufydd-dod, a'i weddi.

Gellir dywedyd mewn modd cyffredinol, fod pob addewid o fendith ysbrydol i Gristionogion unigol yn cael ei rhoddi i gymmeriad ac ar ammodau. Felly y credai Nehemiah, ac am hyny diwedda ei weddi drwy gydnabod fod yr addewid yn cael ei gwneuthur yn unig i'r cyfryw rai a drosant at Dduw, ac a gadwant ei orchymynion ef i'w gwneuthur. Gwel hefyd 1 Cron. 28, 9, 19; Ezec. 33, 13—15; Iago 1, 5—7; 1 Sam. 2, 30; Rhuf. 4, 3, 12; Heb. 4, 1. Gwneir yr addewidion hyn i *gymmeriad*; ac y mae didwylledd a ffydd yn cael eu gofyn bob amser. Os ydym yn ceisio bendith, rhaid i ni rodio yn llwybrau Abraham. Os ydym yn dymuno arwyddion neillduol o'r ffafr Ddwyfol, rhaid i ni feithrin yr ysbryd isel gyda pha un y mae Duw yn gweled yn dda aros. Ac y maent hefyd yn cael eu rhoddi ar *ammodau*. Rhoddir goleuni pellach, a doniau cyfoethocach, bob amser mewn cyfartalwch i'n diwydrwydd, ein gwresogrwydd, ein ffyddlondeb, a'n gweddigarwch ni:

Cyn belled, gan hyny, ag y mae unrhyw addewid o'r Ysgrythyr yn gyffredin, a ninnau yn cyflawnu ei hammodau, gallwn ei chymhwyso atom ein hunain mor ddibetrus a phe buasai ein henw yn ysgrifenedig ynddi. Os bydd hyd y nod yn addewid neillduol, wedi ei rhoddi i un sant, ond yn gangen o addewid gyffredinol yr efengyl; ac os byddwn ni yn gwneuthur fel y gwnaeth yr hwn a'i cafodd ar y dechreu, y mae yn dyfod yn eiddo i ni ein hunain.

477. Yr ydys yn aml iawn yn edrych dros y cyssylltiad yma sydd rhwng addewidion yr Ysgrythyrau a'r ammodau perthynol iddynt. Dynion a gymhwysant yr addewidion fel pe byddent wedi eu gwneuthur i alar a thrueni. Y gwir yw, nid oes un addewid yn cael ei rhoddi yn unig i *drueni*, ond i drueni yn llefain am ymwared, ac yn ei geisio yn y ffordd osodedig gan Dduw. Iaith unol yr Ysgrythyr yw, "Galw arnaf fi yn nydd trallod; mi a'th waredaf, a thi a'm gogoneddi," Salm 50, 15. Yn yr ystyr hwn, gwahaniaetha ei haddewidion oddiwrth ei gwahoddiadau. Yr olaf ydynt orchymynion a roddir i bawb, hyd y nod i'r anedifeiriol a'r annghredadyn (Marc 1, 15); a'r blaenaf a roddir i'r edifeiriol yn unig, neu i'r anedifeiriol, ar y dybiaeth y bydd iddynt droi a chredu.

478. Y mae Duw yn aml yn addaw bendith heb nodi yr amser y bydd iddi gael ei chyfranu. Duw a wareda y cyfiawn allan o'i drallodion, ond ni fynegir i ni yr amser (Salm 37). Y mae Crist i ddyfod etto, a'n cymmeryd ni ato ei hunan (Ioan 14, 1—3); "ond am y dydd hwnw, a'r awr, nis gŵyr neb." Y mae ymddiried yn yr addewid, gan hyny, yn cynnwys amynedd a ffydd. Ni frysia yr hwn a gredo, Esay 28, 16; Rhuf. 1, 7; 2 Thes. 3, 5.

479. Mewn trefn i wneyd iawn ddefnydd o'r addewidion, rhaid eu cymmeryd, nid fel sylfaen neu fesur dyledswydd, ond etto fel cymhellion i ymdrech a gweddi.

Y mae Duw wedi addaw gwaredu ei eglwys, a dinystrio ei wrthwynebwyr; ond nid yr addewidion hyn yw ein harweinwyr ni. Derbyniodd Paul addewid y cawsai weled Rhufain, ac etto pan ffurfiwyd y gynghrair i'w ladd ef, yn uniongyrchol arferai foddion er amddiffyn ei fywyd, fel pe na buasai yr un addewid wedi ei rhoddi iddo (Act. 23, 11—17). Y gorchymyn yw ein rheol ni yn mhob achos, er y gall yr addewid ddylanwadu ar ein hameanion, a'n cefnogi i weddiau.

Addawodd Duw wrth Dafydd, y buasai yn sefydlu ei dŷ, a Dafydd gan hyny a ymbiliai yn fwy taer ar Dduw am gyflawniad yr addewid, 2 Sam. 7, 16—25. Yr oedd Duw, yn nyddiau Elias, wedi addaw "anfon gwlaw ar y ddaear," 1 Bren. 18, 1; ac etto gweddiai Elias gyda'r taerni a'r difrifoldeb mwyaf, 1 Bren. 18, 42—44.

Gwyddai Daniel fod y triugain mlynedd a deg caethiwed ar derfynu pan osododd ei wyneb mewn gweddi i geisio eu cyflawniad, Dan. 9, 2, 3.

Pan addawodd ein Harglwydd yr Ysbryd Glân, parhäodd y dysgyblion mewn gweddi, nes i'r addewid gael ei chyflawnu, Act. 1, 14.

480. Er gwneuthur iawn ddefnydd o'r addewidion, rhaid eu defnyddio i gynnyddu ein santeiddrwydd. Rhoddwyd hwynt fel y byddem ni gyfranogion o'r dduwiol anian. Ac nid ydyw amcan Duw yn cael ei ateb, oni fyddant yn dyfnhau ein diolchgarwch, ac yn ein rhwymo i fywyd o ufyddod santaidd a thrylwyr, 2 Pedr 1, 4; 2 Cor. 7, 1.

Dos. 4. *Siamplau yr Ysgrythyr.*

481. Wrth fyfyrio a chymhwyso siamplau yr Ysgrythyr, y mae yn angenrheidiol cyfeirio y sylw at amryw bethau.

1. Y mae llawer o bethau wedi eu cofnodi yn yr Ysgrythyrau er mwyn eu beio. Ceir siamplau o annghyfiawnder ac eilun-addoliaeth, y rhai ydynt naill ai yn cael eu gwrthwynebu gan y gyfraith, neu yr oeddynt yr amser hwnw yn cael eu condemnio mewn modd pendant. Nid ydyw eu cofnodiad wedi ei fwriadu er mwyn santeiddio y ffeithiau, neu i'n cyfiawn-

hau ni wrth eu hefelychu; ond i egluro drygedd y natur ddynol, a chyfiawnder Duw, neu i ateb rhyw ddyben pwysig a santaidd.

2. Gweithredoedd dyn da, y rhai oeddynt, er hyny, yn ddrwg; neu, ar dir arall, heb gael eu bwriadu i'w hefelychu genym ni, ydynt weithiau yn cael eu cofnodi er mwyn eu beio. I'r dosparth yma y perthyn amwysiaith Abraham gerbron Pharaoh; anwiredd Rebecca a Jacob; ynfydrwydd ffugiol Dafydd, 1 Sam. 21, 13; a'r lladdfa yn Jabes Gilead. I'r dosparth yma hefyd y perthyn y cyfryw weithredoedd ag a ganiatëid o dan y gyfraith, ond a waherddir dan yr efengyl. Amlwreigiaeth, er enghraifft, a ganiatëid i'r Iuddewon, yn unig "o herwydd caledwch eu calonau:" ni chafodd erioed ei orchymyn. Y mae ymresymiad ein Harglwydd yn ei gondemnio (Marc 10, 6), ac ni ddylem chwaith, oddiwrth siamplau plant, ddysgu mesurau dyledswyddau mewn dynion.

3. O dan yr hen oruchwyliaeth, yr oedd llawer o weithredoedd yn cael eu cyflawnu ar orchymynion pendant. Offrymodd Abraham ei fab; dinystriodd Josua y Canaaneaid; gosododd y Lefiaid yr eilun-addolwyr yn y gwersyll i farwolaeth; gwrthryfelodd Jehu yn erbyn tŷ Ahab, 2 Bren. 9; ond cafodd pob un o'r gweithredoedd yma eu cyflawnu yn awdurdod gorchymyn neillduol a phendant. Mae y ffaith fod Duw wedi eu gorchymyn mewn modd pendant, yn eu cymmeryd allan o lechres y gweithredoedd efelychadwy. Rhaid cael cyffelyb awdurdod i wneyd gweithredoedd cyffelyb yn gymmeradwy.

Gellir sylwi, pan fuasai gorchymyn neillduol yn cael ei roddi, fod y rheswm yn cael ei gyssylltu yn gyffredin, er mwyn dangos y gorchymyn yn un tymmorol. Gorchymynwyd i Abraham offrymu ei fab, er mwyn profi ei ffydd; dinystriodd Josua y Canaaneaid, am fod amser eu prawf wedi myned heibio, a hwythau wedi profi eu hunain yn eilun-addolwyr anadferadwy; gosodid eilun-addolwyr yn Judea i farwolaeth, oblegid yno yr oedd eilun-addoliaeth yn drosedd yn erbyn awdurdod oruchel y Brenin anweledig.

4. Wrth farnu siamplau yr Hen Destament, rhaid chwilio allan yr egwyddor oddiar ba un yr oedd y gweithredoedd yn cael eu cyflawnu. Hon yw y rheol awgrymedig yn yr lleg bennod o'r Hebreaid, lle y cofnodir rhai gweithredoedd fel siamplau yn unig yn yr egwyddor o ffydd, oddiwrth ba un y tarddasant. Heb y rheol yma, gellid gwneyd i'r Ysgrythyr ganiatau y gweithredoedd mwyaf gwrthwynebol. Er enghraifft, dywedir yn Gen. 21, 9, i Ismael watwor Isaac, ac oddiwrth Gal. 4, 29, dysgwn mai arddangosiad o ysbryd erlidigaethus, ac o ddirmyg ar addewidion Duw, oedd y watwaredd yma. Elias, ar y llaw arall, a watworodd brophwydi Baal, i ddangos ffolineb a drygioni eilun-addoliaeth. Nid canlyniad teimlad digofus oedd gwaith Elias yn galw am dân o'r nefoedd (2 Bren.), ond awydd i argyhoeddi tywysog drygionus, a phobl eilun-addolgar; pan ewyllysai Iago ac Ioan, fodd bynag, arfer yr un gallu, ein Harglwydd a'u ceryddodd hwynt, am, mewn rhan, fod ei deyrnas ef yn gwahardd y cyfryw foddion, ac mewn rhan, am fod y dymber yn mha un y llefarent yn nwydus a dialgar.

482. Gellir gosod allan yr holl ystyriaethau hyn yn y ffurf o reolau; a'r canlyniad yw, nad ydym i efelychu arferion y mae yr Ysgrythyr yn eu cofnodi a'u condemnio; nac arferion a gofnoda gyda cherydd, oddieithr fod yr arferion hyny yn santaidd yn gystal ag yn gyfreithlawn; na'r hyn a wnaed yn ol gorchymyn neillduol a thymmorol; na'r hyn a wnaed mewn canlyniad i wybodaeth israddol; ac ni ddylem efelychu na barnu gweith-

redoedd da, hyd y nod dynion da, heb ystyried eu cymhellion a'u hamcan.

Neu, gellir cynnull y cyfan yn nghyd mewn un egwyddor. Mewn perthynas i siamplau yr Hen Destament, *rheol y farn* yw, ein bod i edrych ar bob gweithred fel ag yr oedd y person a'i cyflawnodd yn rhwym o edrych arni yn wyneb y gyfraith o dan yr hon yr oedd efe yn byw, a *rheol negyddol* (*negative*) *efelychiad* yw, nad ydym i gymmeryd unrhyw weithred yn siampl, os bydd yn annghysson â gorchymynion y Testament Newydd. Rheol gadarnhaol (*positive*) efelychiad a ganfyddir isod.

483. O ba ddefnydd, gan hyny, yw siamplau yr Ysgrythyr, a pha fodd yr ydym ni i'w defnyddio? Y maent yn ddefnyddiol iawn.

Wrth ddehongli rheolau yr Ysgrythyr lle y byddo y synwyr yn cael ei ammeu. Os bydd y siampl wedi ei rhoddi gan ddynion oeddynt ar y pryd yn ysbrydoledig, a'r siampl hono yn gydymffurfiol â'r rheol dan sylw, yna y mae genym ddehongliad ysbrydoledig o'i hystyr. Penderfynir ystyr llawer rhan o'r Ysgrythyr gan ymddygiad Paul yn gwrthwynebu Pedr ar bwnc yr enwaediad, a chan arferiad yr apostolion yn gyffredinol. Yr ydym mewn achosion o'r fath yn efelychu y siampl, nid am fod dynion da wedi ei gadael, ond am ei bod, dan yr amgylchiadau, yn dangos beth yw meddwl Crist.

Gallwn, fel hyn, yn aml, gael eglurhad ar feddwl yr Ysgrythyr gan y siamplau sydd wedi eu gadael i ni gan ddynion ysbrydoledig. Er enghraifft, "Na thwng ddim," yw un o orchymynion ein Harglwydd, Math. 5, 33—37. Yn yr un bennod, dywed wrthym iddo ef ddyfod, nid "i dòri y gyfraith" (adn. 17, 18), a chan fod y gyfraith yn caniatau llwon, gellir casglu nad ydyw pob llwon, i bob dybenion, yn cael eu cynnwys yn y gwaharddiad yma. Eglur yw, wrth gyfeirio at 2 Cor. 11, 31—33; Rhuf. 1, 9, fod y gorchymyn yn golygu ein hymddyddanion cyffredin, y rhai ddylent fod, ië, ië, nage, nage. Yr oedd y pechod a gondemnir fel hyn yn gyffredin iawn yn mhlith yr Iuddewon. Drwy yr un dull o ymresymu, ceir fod y geiriau, "Na wrthwynebwch ddrwg," yn yr un bennod, yn golygu "na feithrinwch ysbryd atdaliadol, neu ddialeddol." Ni ddarfu i'n Harglwydd gwyno ar y gyfraith yn nwylaw yr ynadon, ac ni waharddodd i'w ddysgyblion appelio ati pan fuasai cyfiawnder cyhoeddus yn gofyn hyny. Efe ei hunan a lefarodd yn erbyn taraw yn annghyfiawn, Ioan 18, 23: a gwrthwynebodd Paul ddrwg cyn belled ag ardystio yn erbyn y gwaradwyddiadau creulawn a gruglwythid arno; ac ar achlysur arall, gwnaeth hyn cyn belled ag appelio at Cæsar, Act. 25, 11. Meddwl y gorchymyn, gan hyny, yw, dyoddefwch ddrwg yn hytrach nag ymddial.

Y maent o ddefnydd etto—

I'n dysgu i gymhwyso rheolau yr Ysgrythyr at achosion neillduol. Y Testament Newydd, i raddau helaeth, sydd lyfr, nid o gyfarwyddiadau arbenig, ond o egwyddorion, ac y mae llawer o ddoethineb yn angenrheidiol i'w cymhwyso.

Os gofynir, er enghraifft, pa un a yw yn ddyledswydd ar bawb Cristionogion i lefaru am y gwir Dduw, neu am ei Fab, ac i annog ereill i gredu ynddo, appeliwn at orchymynion yr efengyl, gorchymynion cyfeiriedig at yr holl saint, a dysgwn egluro a chymhwyso y gorchymynion oddiwrth siamplau yr Ysgrythyr. *Abraham*, Gen 18, 19. *Y Gaethforwyn*, 2 Bren. 5, 3. *Y cythreulig adferedig*, Marc 5, 20. *Anna*, Luc 2, 38. *Andreas a Phedr*, Ioan 1, 41—46. *Y wraig o Samaria*, Ioan 4, 29. *Y Cristionogion erlidiedig*, Act. 8, 4. *Apollos*, Act. 18, 25. *Acwila a Phriscilla*, Act. 18, 26. *Phoebe ac ereill yn Rhufain*, Rhuf. 16, 12. *Philemon*, adnod 6.

Gellir cael egluriadau gwych ar werth siamplau yn y peth hwn, wrth gymharu yr egwyddorion moesol a roddir i lawr yn Llyfr y Diarebion, yn nghyd à'r cymhwysiad o honynt yn y gwahanol gymmeriadau a nodir yn yr Ysgrythyr. Dywedir, er enghraifft, "Rhyw un a ymffrostia ei fod yn gyfoethog, ac heb ddim ganddo, ac arall ei fod yn dlawd, a chyfoeth lawer iddo." O'r egwyddor gyntaf, cawn egluriadau yn Ahab, 1 Bren. 21, 4, 16, 22; yn Haman, Esther 5, 11—13; y Pharisead hunan-gyfiawn, Luc 18, 11—14; yn y Corinthiaid hunanol, 1 Cor. 4, 8; yn y gau-athrawon y cyfeirir atynt gan Pedr, 2 Pedr 2, 18, 19; ac o'r ail, yn Mathew Luc 5, 27, 28; Zaccheus, Luc 19, 8, 9; Paul, 2 Cor. 6, 10; Phil. 3, 8. Y dychweledigion Ephesiaidd, Act. 19, 19; Eph. 2; ac yn Eglwys Smyrna, Dad. 2, 9; wrth ei chymharu ag eglwys Laodicea, Dad. 3, 17.

Fodd bynag, defnydd mawr siamplau Ysgrythyrol yw, nid gwasanaethu i amcanion dehongliadol, ond cynnyddu ein santeiddrwydd. Eglurant wirionedd Dwyfol, a dyledswydd ddynol—dangosant y posiblrwydd o ufydd-dod—ceryddant ein anmherffeithderau, drwy arddangos pechodau dynion da, a chynhyrfant ein gwyliadwriaeth a'n haelfrydedd.

Os yw y Cristion, er enghraifft, yn gofyn, a yw yn bosibl iddo ef wasanaethu Duw yn nhrafnidiaeth y byd, yn gystal ag mewn unigedd, neu yn ngwasanaeth cyhoeddus crefydd? cofied fod gan Enoch, yr hwn a rodiodd gyda Duw, feibion a merched; fod gan Abraham feddiannau mawrion; fod Joseph yn llywydd ar yr Aifft; fod Moses yn frenin yn Israel (Deut. 33, 5); fod Jeremiah yn byw mewn llysoedd breiniol; fod Daniel yn drydydd llywydd yn nheyrnas Babilon; ac nad oedd ein Harglwydd bendigedig ei hunan yn llai santaidd fel y saer nâ phan yn cyflawnu ei weinidogaeth gyhoeddus, neu pan yn offrymu ei hun yn aberth mawr ar y groes.

A ydym ni am brofi ein hedifeirwch, a phenderfynu pa un ai bydol ai ysbrydol ydyw? Gallwn edrych ar ei ffrwythau, neu ei gymharu â siamplau Ysgrythyrol. Cawn wir edifeirwch yn Dafydd, 2 Sam. 12, 13, a Salm 51; yn Manasseh, 2 Cron. 33, 12, 13; yn Job 42, 6; yn Ninefe, Jonah 3, 5, 8; yn Pedr, Math. 26, 75; yn y Publican, Luc 18. Cawn edifeirwch bydol yn Pharaoh; yn Saul, 1 Sam. 15, 24; yn Ahab, 1 Bren. 21, 27; yn Johanan, Jer. 13, 12, 20; ac yn Judas, Math. 27, 3, 5.

A ydym ni yn gwylied gyda'r gofal mwyaf dros y pechodau parod i'n hamgylchu, ac yn teimlo yn ddiogel rhag ereill y teimlwn ein hunain yn llai tueddol iddynt? Gallwn, gyda mantais, gofio i Abraham, tad y ffyddloniaid, golli ei ymddiried yn Rhagluniaeth Duw; i Moses, y gŵr llarieiddiaf, lefaru yn amryfus â'i wefusau; i Job rwgnach (Job 6, 8, &c.); ac i'r dewraf o ddysgyblion ein Harglwydd, drwy ofn, dyngu a rhegu nad adnabyddodd ef erioed.

Gall dylanwad y siamplau yma gael ei gynnyddu, drwy i ni ddewis y rhai a ddaliant fwyaf o debygoliaeth i'n hachos ni ein hunain, neu wrthgyferbynu ymddygiad gwahanol bersonau mewn amgylchiadau cyffelyb.

Gallwn gymharu gostyngeiddrwydd Ioan Fedyddiwr, y gwir ddysgawdwr, â hunanoldeb Simon Magus, y dysgawdwr gau, yr hwn a osodai allan ei fod ef ei hun yn rhywun mawr, Ioan 1, 19, 27, ac Act. 8, 9; digofaint Jeroboam ac Uzziah, pan geryddwyd hwynt, ac ymostyngiad a diwydrwydd Jehosaphat, 1 Bren. 13, 4; 2 Cron. 26, 19; 2 Cron. 19, 24, &c.

484. Ac ni ddylem edrych yn ysgafn ar werth y cyfryw siamplau. "Yr oll," medd Luther, "sydd yn ddefnyddiol i fywyd daionus a all athroniaeth, dynion doeth, a rheswm cyffredin, ei ddysgu, a gyflwynir i ni mewn

siamplau ac achosion, gan hanesyddiaeth. A phan edrychom yn fanwl ar hyn, cawn fod yn agos bob iawnderau, celfyddyd, cynghorion daionus, rhybydd, bygythiad, dychryn, cysur, cryfhâd, addysg, a phwyll, wedi dylifo oddiyma, fel o ffynnonell fywiol." Ac fel hyn, daw siamplau yn foesoldeb a ddysgir drwy ffeithiau, "Crist a'i efengyl yn cael eu pregethu oddiwrth hanesion ei deyrnas ei hunan,"* a phrofiad ei eglwys.

485. Gellir nodi, mewn modd cyffredinol, os bydd y pwnc at yr hwn y cyfeiria y siampl o *natur foesol*, ein bod i efelychu siamplau dynion ysbrydoledig, can belled ag y byddo y rheswm dros yr ymarferiad yr un yn eu hachos hwy a'r eiddom ninnau. Os na fydd yr achosion yn gyffelyb, yna ufyddhäwn i'r gorchymyn drwy feithrin yr ysbryd corfforedig yn y siampl, heb efelychu y siampl ei hun. Y mae, er enghraifft, yn egwyddor, fod Cristionogion "drwy gariad i wasanaethu eu gilydd," ac os bydd cyflawnder gan eglwysi un dosparth, ac eglwysi mewn dosparth arall yn dyoddef tlodi, yr eglwysi yn yr achos blaenaf ydynt i ufyddhau i'r gorchymyn, drwy gasglu i'w brodyr tlodion, megys y gwnelai yr eglwysi boreuol, Act. 11, 28, 30; 1 Cor. 16, 1. Cymhwysant y rheol yn yr un ffordd. Ond os dywedir ei bod yn canlyn oddiwrth yr egwyddor yma, y dylem efelychu siamplau y Cristionogion boreuol, a golchi traed ein gilydd, yna cymhwyswn yr egwyddor eithriadol a enwwyd uchod. Yr oedd yr arferiad yma mewn gwledydd dwyreiniol yn adnewyddiad cyffredin ac angenrheidiol; ond byddai ei arfer *yma* yn dinystrio amcan yr arferiad. Cusan oedd y ffurf ddwyreiniol o gyfarch, a'i hamcan oedd arddangos teimlad serchog a charedig; y mae egwyddor yr ymarferiad (sef meithrin a dangos teimlad serchog) o hyd yn rhwymedig; ond nid ydym yn efelychu y siampl, neu yn arddangos yr egwyddor yn y ffurf hon, oblegid fod yr arferiad wedi darfod. Amlwg yw oddiwrth y Testament Newydd, fod gan yr eglwys foreuol ei chariad-wleddoedd (*love-feasts*); nid oes genym hanes eu bod o appwyntiad dwyfol, ond fe allai mai cynnyrch naturiol serchogrwydd brawdol oeddynt. Ac, am hyny, pan gamddefnyddid hwynt, yr apostol a'i condemniai. "Y rhai hyn (meddai Judas) sydd frychau yn eich cariad-wleddoedd chwi." Condemniwyd y camddefnydd o swper yr Arglwydd hefyd; ond yn yr achos yma, cafodd y sefydliad ei adordeinio. Y mae cadwedigaeth y cyfryw wleddoedd, gan hyny, yn ganiatäol, os byddant yn tueddu i ddyfnhau y teimladau y bwriadwyd hwynt i'w dangos; ond amlwg yw nad ydyw y siampl o awdurdod rhwymedig.

486. Os bydd yr hyn y cyfeiria y siampl ato yn sefydliad penodol *(positive institution)*, nid oes grym yn y gynreol *(precedent)* mewn cyssylltiad yn unig â'i amgylchiadau achlysurol. Er enghraifft, o berthynas i swper yr Arglwydd, cadwwyd hi mewn goruwch-ystafell, gyda bara croyw, y rhai a gyfranogent yn lled-orwedd (*reclining*) wrth y bwrdd, ar y pummed dydd o'r wythnos, ac yn hwyr y dydd hwnw. Nodir tair o'r ffeithiau yma mewn modd penodol, ac nid oes ammheuaeth o berthynas i'r lleill; etto ni thybir fod yr un o'r pethau hyn yn hanfodol er iawn gadwedigaeth o'r ordinhad.

Y rhan fwyaf o gyfarfodydd o gredinwyr a nodir yn y Testament Newydd, a gedwid ar y dydd cyntaf o'r wythnos (Act. 20, 7; 1 Cor. 11, 20). Pregethid y rhan amlaf i'r Iuddewon, a'r lleill a addolent gyda hwynt, ar y seithfed dydd (Act. 13, 42; 18, 4; 16, 13). Eglur yw y byddai ffurfio ein siampl yn yr achos yma yn ol siampl apostolaidd, heb ystyried y

* Neander.

rheswm dros eu hymddygiad, yn cymmysgu nodweddau hanfodol ac achlysurol eu hufydd-dod. Cynghorent Gristionogion yn benaf ar y dydd cyntaf o'r wythnos, am mai Cristionogion yn unig a ddelent i'r gwasanaeth. Pregethent ar y dydd Sadwrn am y gellid cyrhaedd y bobl yn gyffredin y pryd hwnw.

487. Y mae o bwys sylwi yn yr holl achosion yma (y rhai a gyfeiriant at orchymynion moesol, a'r rhai a berthynant i sefydliadau pendant), fod y ddyledswydd o ufydd-dod yn seiliedig ar y *gorchymyn;* a phenderfynir cymhwysiad a helaethrwydd y gorchymyn gan yr eiriadaeth a ddefnyddir, a chan siamplau dynion ysbrydoledig, yn unol â'r rheolau sydd newydd eu rhoddi.

PENNOD VI.

Egwyddorion a Rheolau y Pennodau blaenorol yn cael eu hegluro yn Nyfyniadau y Testament Newydd o'r Hen, ac yn cael eu cymhwyso at Ddad-ddyrysiad Anhawsderau Ysgrythyrol.

488. Y mae braidd yr holl arweiniadau i'r Ysgrythyr yn ymdrin âg anhawsderau Ysgrythyrol fel cangen neillduol o ymchwiliad. Y mae rhesymau eglur yn erbyn y drefn hon; ond y mae, ar y cyfan, yn gyfleus ymlynu wrthi. Can belled âg y mae anhawsderau yn esbonio unrhyw reol ddehonglyddol, neu a gânt eu hegluro ganddi, y maent yn perthyn i ddehonglyddiaeth; ond gan fod llawer o honynt yn caniatau gwahanol egluriadau, a chan y gallent, pe gosodid hwynt dan reolau, wneuthur i'r rheolau eu hunain gael eu hammeu, y mae yn well ymdrin â hwynt ar wahan. Heblaw hyny, y mae hyd y nod bodoliaeth anhawsderau yn cyfodi pwynt ag y mae o bwys i ni ei chwilio, ac nis gellir gwneyd hyn mewn modd manteisiol ond mewn pennod wahanedig.

Wrth eu myfyrio yn eu lle priodol, a chyda'r sylw y mae eu pwys yn ei ofyn, a dim rhagor, ni wna anhawsderau yr Ysgrythyr niwed i ddarllenydd gostyngedig a gweddïgar. Hwy a gynnyrchant ymchwiliad, ac a gynnyddant ymddiried. Ceir yn y rhai a berthynant i ddehongliaeth brofion diymwad o burdeb a gwirionedd y Beibl, a'r rhai hyny a berthynant i athrawiaeth a ddysgant ostyngeiddrwydd a ffydd. Y mae gwir gyssondeb, er ei fod yn gorwedd yn ddwfn, mewn gwirionedd; y mae canolbwynt, o ba un yr ymddengys pob gwirionedd yn drefnus; meddylia Duw i ni ei gyrhaedd yn y diwedd, ac yn y cyfamser i wneyd yr ymdrech. Yr ymdrech hono, hyd y nod yn annibynol ar ei chanlyniadau olaf, a ddaw â gwobr bresenol gyda hi.

Dos. 1. *Dyfyniadau yn cael eu dosparthu a'u chwilio gyda golwg ar gyflwr y Testun, gwirioneddau a phrofion yr Ysgrythyr, yn nghyd ag egwyddorion Dehongliaeth.*

489. Y dyfyniadau a wneir o'r Hen Destament yn y Newydd a ffurfiant bwnc o ddyddordeb mawr. Eglurant gyflwr y testun gwreiddiol, a phrofion yr Ysgrythyr. Esboniant hen gysgodau, hanesion, a phrophwydoliaethau. Dadleuant egwyddorion cywir dehongliaeth; a chan fod yr esboniadau a'r egluriadau yma wedi derbyn cadarnhad dynion ysbrydoledig, amlwg yw eu bod o'r gwerth mwyaf.

Gellir myfyrio dyfyniadau yr Ysgrythyr i amcan deublyg:—naill ai i benderfynu yr amrywiaethau geiriol rhwng yr Hen Destament a'r Newydd, yn nghyd a'r gwersi a ddysgir gan hyn, neu ynte i benderfynu y gwirioneddau ysbrydol, a'r egwyddorion dehonglyddol a gynnwysir yn y dyfyniadau yma. Ymlynwn wrth y dosraniad deublyg yma yn y nodiadau canlynol.

Y mae y dyfyniadau yma yn dra lluosog, y cyfan yn 263; cyfeiriadau llai uniongyrchol a wnant i fyny 376, neu y cyfanswm o 639. O'r rhai hyn, y mae yn—

	Dyfyniadau.	Cyfeiriadau.		Dyfyniadau.	Cyfeiriadau.		Dyfyniadau.	Cyfeiriadau.
Math.	37	43	Gal.	9	5	Iago.....	5	10
Marc	17	10	Eph.....	4	3	1 Pedr....	10	9
Luc	19	31	Phil.....	—	2	2 Pedr....	1	9
Ioan.....	15	19	Col.....	—	2	1 Ioan	—	4
Actau	31	21	2 Thes....	—	2	Judas	—	4
Rhuf.	52	15	1 Tim.....	1	4	Dad.....	1	115
1 Cor.	18	17	2 Tim.....	1	1			
2 Cor.	9	6	Heb.	33	44			

Rhifedi y dyfyniadau o bum llyfr Moses yw 90, ac y mae y cyfeiriadau ato uwchlaw 100; o'r Salmau 71, cyfeiriadau 30; o Esay 56, cyfeiriadau 48; o'r Prophwydi Lleiaf, oddeutu 30.

Y mae y dyfyniadau naill ai yn brophwydol, arddangosol (*demonstrative*), egluriadol, neu ddarluniadol: y *prophwydol* a gynnwysant y rhai a gyfeiriant yn uniongyrchol at Grist a'i efengyl, megys Math. 4, 15, 16; neu gysgodol, hyny yw, nodant yn wreiddiol rhyw ddygwyddiad neu berson cysgodol, ac wedi hyny rhyw ddygwyddiad neu berson arall dan yr efengyl, megys Ioan 19, 36; yr *arddangosol*, a brofant rhyw fynegiad, megys Ioan 6, 45; yr *egluriadol*, yn egluro rhyw fynegiad neu ffaith, megys Heb. 12, 20; a'r darluniadol, a gynnwysant ymadroddion a gymmerir o'r Hen Destament mewn ystyr newydd, megys Rhuf. 10, 18. Nid yw y rhai olaf ond ychydig iawn. Rhai, yn ddiau, ydynt yn arddangosol ac egluriadol; hyny yw, y maent drwy siamplau yn egluro ac yn profi rhyw wirionedd cyffredinol, megys Gal. 3, 11. Dyfyniadau *prophwydol*, yn perthyn i'n Harglwydd, neu ei eglwys, a gyfrifant oddeutu 120.

Nis gellir cyflawn werthfawrogi y cyfeiriadau at yr Hen Destament, ond drwy chwilio y Deg a Thriugain; o herwydd nid oes unoliaeth ymadroddol yn ymddangos bob amser yn y cyfieithiad Cymreig.

Gwneir y dyfyniadau, yn gyffredin, o'r Deg a Thriugain; weithiau o'r Hebraeg, mewn gwrthwynebiad i'r Deg a Thriugain; ac yn fynychach fyth,

mynegant feddwl cyffredin y ddau. Y maent weithiau yn fanwl, ac yn cyduno yn y geiriau; ond brydiau ereill y maent yn aralleiriawg iawn, neu wedi cael eu byrhau lawer; ond hyd y nod yn yr enghreifftiau hyn, nid oes un cam yn cael ei wneyd â meddwl cyffredin y gwreiddiol.

490. Wrth edrych yn gyntaf ar Eiriadaeth (*phraseology*) y dyfyniadau yma, gellir nodi:—

1. Gellir cymhwyso y dyfyniadau o'r Deg a Thriugain a geir yn awr yn y Testament Newydd, i raddau neillduol, i gywiro testun y cyfieithiad hwnw. Y mae y rheol yma yn gymhwysiadol, am fod testun y Testament Newydd wedi cael ei wylied yn fwy gofalus nâ thestun y Deg a Thriugain. Ar y llaw arall, nid ydyw o gymhwysiad helaeth, oddiwrth y ffaith nad ydyw ysgrifenwyr y Testament Newydd yn gofalu am ddyfynu y geiriau, ac yn fynych iawn gadawant destun y Deg a Thriugain yn gyfangwbl am yr un Hebreig.

2. Gellir, yn achlysurol, gymhwyso y dyfyniadau yn y Testament Newydd i gywiro testun Hebreig yr Hen Destament.

Er enghraifft, yn Hab. 1, 5, yn lle "yn mysg y cenedloedd," darllener "chwi ddirmygwyr," fel yn Act. 13, 41; hyny yw, nid *B'goim* ond *B'zim*. Felly hefyd yn Esay 29, 13, a Math. 15, 8, 9; Gen. 47, 31, a Heb. 11, 21; Sal. 40, 6, a Heb. 10, 5, 7; Amos 9, 11, 12, ac Act. 15, 16; Sal. 16, 10, Heb. ac Act. 2, 27; Hos. 13, 14, a 1 Cor. 15, 55 (yn lle "Byddaf," darllener "pa le?")

3. Fel yr ydym wedi gweled, gellir cyfieithu amryw ranau yn yr Hebraeg yn yr un ffordd a'r dyfyniadau yn y Testament Newydd. Fel rheol, yn yr enghreifftiau yma, cymmer y Deg a Thriugain feddwl ail-raddol y geiriau yn y gwreiddiol, a'r cyfieithad Seisonig (a Chymreig) y meddwl cyntaf.

Er enghraifft, yn Sal. 19, 4, y Gymraeg a gyfieitha "llinyn," a'r Deg a Thriugain "swn;" ac felly yn Rhuf. 10, 18. Ystyr y gair yw "llinyn neu dant," ac oddiwrth hyny peroriaeth, neu unrhyw sŵn. Felly yn Esay 28, 16, a 1 Pedr 2, 6; Jer. 31, 31—34, a Heb. 8, 9.

Fodd bynag, ar ol gwneyd yr holl ddiwygiadau yma, y mae nifer mawr o ranau yn aros nad ydynt yn cyduno yn fanwl â geiriau y Deg a Thriugain, nac â'r Hebraeg. Yn wir, y mae oddeutu un hanner o'r dyfyniadau yn rhoddi y synwyr, yn hytrach nâ'r geiriau. Gellir ychwanegu fod y synwyr yn cael ei roddi yn yr oll, hyd y nod pan na fyddo yr ymadroddion yn eithaf cywir. Gwel yn Rhuf. 15, 12 (Esay 11, 10); 1 Cor. 2, 9 (Esay 64, 3); 1 Cor. 1, 31 (Jer. 9, 24). Ar y llaw arall, y mae yr holl ymresymiad, weithiau, yn cael ei wneyd i droi ar y *geiriau* a ddefnyddir, megys yn Heb. 3, 7—10; Gal. 3, 16; 1 Cor. 15, 45.

491. Ymddengys fod y dyfyniadau yma yn cael eu gwneuthur ar yr un egwyddor ag a fabwysiedid gan ysgolhaig cyfaddas wrth ddyfynu y cyfieithiad Cymreig presenol. Lle bynag y mae y Deg a Thriugain yn gosod allan feddwl y gwreiddiol gyda chywirdeb digonol, defnyddir ef gan yr ysgrifenwyr ysbrydoledig; ond mewn rhanau neillduol cyfieithiant yn uniongyrchol o'r Hebraeg.

Matthew, er enghraifft, a ddefnyddia y Deg a Thriugain yn aml; ond mewn rhanau sydd yn cyfeirio at y Messia, y mae yn talu sylw neillduol i'r gwreiddiol, ac yn ei ganlyn yn hynod o fanwl. Ar y llaw arall, y mae Paul, yn yr Hebreaid, yn dyfynu yn agos bob amser o'r Deg a Thriugain, ac yn gyffredin yn yr un geiriau.

492. Tra y mae y rhan amlaf o'r amrywiaethau rhwng y Testament Newydd a'r Hen yn cael eu hegluro ar yr egwyddor mai y synwyr yn

hytrach nâ'r geiriau a ddyfynir, etto y mae yn yr amrywiaeth amcan eglur rai prydiau.

Er mwyn cyfaddasu dyfyniad i'r cyd-destun, y mae y rhif, neu y person, neu yr amser, neu y llais yn cael ei newid, Luc 4, 12 (Deut. 6, 16); Luc 8, 10 (Esay 6, 9); Ioan 19, 36 (Exod. 12, 46).

Er cyfaddasu yr ymresymiad, neu i awgrymu gwers ychwanegol, y mae ystyr yr Hebraeg yn cael ei gyfyngu yn y dyfyniad; yr ystyr mwyaf yn cynnwys y lleiaf: fel hyn,—

Yn Act. 3, 25, y mae Pedr, wrth ddyfynu Gen. 22, 18, yn defnyddio "tylwythau" yn lle "cenedloedd," gan awgrymu i'w wrandawwyr Iuddewig fod y cenedloedd yn frodyr iddynt.

Felly yn Heb. 5, 10, y mae y gair *cohen*, yr hwn yn adn. 6ed a gyfieithiodd Paul yn "offeiriad," yn cael ei droi ganddo yr un mor gywir, ac yn fwy cyfaddas i'w ymresymiad, yn "*arch-offeiriad*." Gwna hyn drwy ddilyn y Deg a Thriugain.

Yn Heb. 1, 6, cawn angylion yn lle "duwiau," fel yn Salm 97, 7. Ystyr y gwreiddiol yw "*rhai galluog*," a chymhwysir ef at Dduw, duwiau gau, angylion, ac yn gyffredin at y rhai sydd yn uchel mewn awdurdod. Cymmer yr apostol yr ystyr gyfyngaf, gan adael allan y gweddill.

Yn Rhuf. 11, 26, 27, defnyddir y gair "Gwaredwr" yn lle "Prynwr." Buasai y gair olaf yn yr ymadrodd yma yn ymddangos yn ammwys (*ambiguous*) wedi i Grist wneuthur ei ymddangosiad.

Felly yn 1 Cor. 3, 20, dyfynedig o Sal. 94, 11, yn lle "dynion," darllena yr apostol "doethion," ac yn Math. 4, 10, dywed ein Harglwydd "addoli" yn lle "ofni." Felly hefyd Rhuf. 14, 11.

493. Etto, y mae rhanau o brophwydoliaeth yn cael eu gadael allan weithiau, o herwydd nad ydyw yr ymresymiad yn galw am danynt, neu o herwydd eu bod yn debyg o gyfodi pwnc nad oedd yr ysgrifenydd ysbrydoledig yn bwriadu ymdrin âg ef y pryd hwnw.

Er enghraifft, wrth ddyfynu Zech. 9, 9, y mae Mathew yn gadael allan "Cyfiawn ac achubydd yw efe," am nad oedd y ffaith hono yn ymddangos yn eglur y pryd hwnw.

Felly hefyd wrth ddyfynu Jer. 31, 34, gadawa Paul allan gyfran a gynnwysai addewid oedd heb gael ei chyflawnu yr amser hwnw, Heb. 10, 16. Felly Rhuf. 10, 15, ac 2 Cor. 6, 17.

494. Weithiau, etto, y mae dyfyniad y Testament Newydd yn cael ei fynegu yn eglurach nag yn y Deg a Thriugain, ac weithiau dyga allan y meddylddrych yn fwy cyflawn nag hyd y nod y gwreiddiol ei hunan.

Er eglurhad, cymharer cyfieithiad y Deg a Thriugain o Job 5, 13, â dyfyniad yr apostol yn 1 Cor. 3, 19; ac hefyd yr Hebraeg, y Deg a Thriugain, a'n cyfieithiad ni o Esay 29, 14, gyda 1 Cor. 1, 19.

Tra yr ymddengys, gan hyny, mai yr egwyddor gyffredin yw, fod yr ysgrifenwyr ysbrydoledig yn cadw meddyliau yn hytrach nâ geiriau y gwreiddiol, etto rhaid i ni beidio penderfynu yn frysiog fod amrywiaethau geiriawl heb un ystyr iddynt; a llawer llai fod y cyfryw amrywiaethau yn annghywir. Nid oes gwahaniaeth meddwl mewn un man, ac y mae yr amrywiaeth geiriawl ei hunan yn fynych yn awgrymu addysgiadau defnyddiol.

495. Y dyfyniadau yn Llyfr y Dadguddiad, y rhai yn gyffredin ydynt yn anuniongyrchol, ydynt yn dra dyddorol. Cyssylltant ragfynegiadau y ddwy oruchwyliaeth, a thaflant oleuni ar ystyr iaith arwyddluniol y Gyfrol Santaidd.

496. Y prif addysg, fodd bynag, sydd i'w chasglu oddiwrth ddyfyniadau

y Testament Newydd a berthyn i'r gwirionedd a ddysgir ganddynt. Eglurant athrawiaethau a moesau (*ethics*) yr hen Ysgrythyrau, a'r ddwy oruchwyliaeth; cynnwysant brofion o wirionedd yr Ysgrythyr; ac awgrymant reolau pwysig mewn dehongliaeth Feiblaidd.

1. Bywyd drwy ffydd, iachawdwriaeth drwy Grist, a'r ddyledswydd o santeiddrwydd, ydynt oll yn cael eu dysgu i'r eglwys Iuddewig a chenedlig o'r hen Ysgrythyrau.

Iachawdwriaeth drwy ffydd, a thrwy Grist, a brofir drwy ddyfyniadau yn Rhuf. 1, 17; Gal. 3, 6—9: 14, 16; Rhuf. 4, 10, 11: 1 Pedr 2, 6, 7: Ioan 8, 56. Ffydd, oddiwrth ei pherthynas â rhywbeth sydd gyfiawnder, a gyfrifir yn gyfiawnder, Rhuf. 4, 3—8. Condemnir dynion o herwydd annghrediniaeth, Heb. 3, 7—10. Gwel hefyd Heb. 8, 9, 10.

Etholedigaeth gras, a'r addewid mor llydan a'r cwymp, Rhuf. 11, 5: 10, 10.

Santeiddrwydd yn hanfodol, ei fod yn gynnwysedig mewn cariad, ac yn cael ei gymhell gan siampl Ddwyfol, 2 Cor. 6, 16; Math. 22, 37—39: 1 Pedr 1, 16: Math. 23, 23.

Gras yn cael ei roddi i'r gostyngedig, ac mewn mesurau helaethach i'r rhai a wnant y defnydd goreu o hono, Iago 4, 6.

Bendith dymmorol bresenol yn gyssylltiedig âg ufydd-dod hyd y nod o dan yr efengyl, Eph. 6, 2, 3; 1 Pedr 3, 10, 11.

Yr adnodau yn yr Hen Destament at ba rai yr ydym wedi cyfeirio fel yn cynnwys Dwyfoliaeth y Messia, a goruchwyliaeth yr Ysbryd Glân, a ddyfynir yn y Testameut Newydd gyda'r un amcan. Darllener Pen. iii., Dos. 3, a sylwer ar a ganlyn:

Dywedir yn Esay mai y Jehofa ei hunan yw y maen tramgwydd ar yr hwn y syrthiodd Israel, Esay 8, 13, 14; Rhuf. 10, 9, 11; 9, 32, 33. Felly yn Esay 45, 21—25, gelwir y llefarydd yn Jehofa, ac y mae pob glun i blygu iddo. Dyfynir ei iaith gan Paul, Rhuf. 14, 11, i brofi fod yn rhaid i bawb ymostwng i *Grist*.

Llefarir am y weledigaeth a ddesgrifir yn Esay 6, 3—10, gan Ioan, fel golygiad ar ogoniant Crist, Ioan 12, 41; a "llais yr Arglwydd," yr hwn a lefarodd wrth y prophwyd, a elwir gan Paul, yr Ysbryd Glân, Act. 28, 25.

Yn yr Epistol at yr Hebreaid (1, 6, 8, 10), y mae yr apostol yn cymhwyso at Grist Sal. 97, 7; 45, 6, 7; 102, 25—27; ac y mae y person y llefarir am dano yn cael ei ddarlunio yn yr holl adnodau yma fel llywodraethwr y byd, y Creawdwr annghyfnewidiol.

Fod yr hen eglwys yn credu mewn anfarwoldeb, yn yr adgyfodiad, ac yn y farn ddyfodol, ellir gasglu oddiwrth Math. 22, 32; Heb. 11, 5, 13, 14; 1 Cor. 15, 55 (gwel Judas 14, 15), a'r amrywiol adnodau lle y mae dydd mawr yr Arglwydd yn cael ei nodi, 1 Thess. 5, 2; Dad. 6, 17; Joel 2, 31; Mal. 4, 5; Sal. 17, 15; Job 19, 26; 21, 10; Dan. 12, 2; Hos. 13, 14.

497. Wedi y cyfan, nid ydyw dyfyniadau neillduol yn rhoddi ond drychfeddwl anmherffaith iawn am unoliaeth egwyddorion y ddau gyfammod.

"Holl gyfundraeth grefyddol yr Iuddewon, yn yr ystyr fwyaf briodol, sydd brophwydoliaeth; ac nid ydyw y rhanau unigol o'u llyfrau cyssegredig yn ddim ond mynegiadau yr ysbryd hwnw sydd yn bywiogi y cyfan."—Davison.

498. 2. O berthynas i'r profion prophwydoliaethol cynnwysedig yn y dyfyniadau yma, gwel adran 182. Cyfeiriant mewn rhan at berson ein Harglwydd, ac mewn rhan at gynnydd ei eglwys. Y prophwydoliaethau uniongyrchol a diamheuol ydynt uwchlaw 70; a'r rhai cysgodol, yn nghyd

a'r rhai sydd naill ai yn gysgodol neu uniongyrchol, a wnant i fyny fwy nâ 50 yn ychwaneg.

499. 3. Y rheolau dehongliaeth Feiblaidd a awgrymir gan y dyfyniadau yma ydynt yn dra phwysig.

1. Gellir egluro a phrofi yr holl efengyl, yn ei gorchymynion a'i gwirioneddau, allan o'r Hen Destament.

2. Y natur ddynol, yr hon sydd yr un yn mhob oes, a osodir allan yn hanes a desgrifiadau yr Hen Destament.

Gweler ddrygioni dynol yn cael ei ddarlunio mewn rhanau wedi eu cymmeryd o Esay a'r Salmau, Rhuf. 3, 13—18.

Annghrediniaeth amseroedd Noah a Lot yn ail gymmeryd lle dan yr efengyl, Luc 17, 27—29; Math. 24, 37.

3. Gellir cymhwyso yr egwyddor gynnwysedig yn ngorchymynion a mynegiadau yr Hen Destament mewn modd addysgiadol, er attegu gwirioneddau efengylaidd.

Gwel Ioan 10, 34. Os yw ynadon yn cael eu hanerch drwy enw darluniadol o'r awdurdod ddwyfol (duwiau), pa faint mwy teilwng o'r enw hwn yw Mab Duw?

Felly hefyd, dengys yr apostol oddiwrth Deut. 25, 4, mai teilwng i'r gweithiwr ei gyflog, ac y gall y rhai sydd yn pregethu yr efengyl fyw wrth yr efengyl, 1 Tim. 5, 11; 1 Cor. 9, 9.

Felly, oddiwrth Esay 55, 3, "rhoddaf i chwi sicr drugareddau (hyny yw, y ffafr addawedig i) Dafydd," sef, y buasai ei hâd yn cael eistedd ar ei orsedd yn dragywydd, penderfyna yr apostol gyda golwg ar Grist, at yr hwn y mae yn cyfeirio, fod yn rhaid ei fod wedi adgyfodi oddiwrth y meirw. Gwel hefyd 2 Cor. 8, 15; Act. 13, 34; ac yn gyffredinol, Rhuf. pen. 9 hyd 15.

4. Yn yr un modd y gellir cymhwyso yr egwyddorion cynnwysedig yn *hanesiaeth* yr Hen Destament at brofiad yr eglwys dan yr efengyl; pa un bynag ai egluro cymmeriad dynol, neu oruchwyliaethau Duw, y byddo yr hanesiaeth hono, Rhuf. 9, 7, 9; Gal. 4, 22—31; 1 Cor. 10, 4; Rhuf. 8, 36; 1 Cor. 10, 1—11; Heb. 3, 7—10; 10, 26—30.

Oddiwrth y dyfyniadau yma, nis gellir, mae yn wir, haeru gyda chywirdeb, fod y personau y cyfeirir atynt yn y rhanau gwreiddiol, yn gysgodau o'r personau y cymhwysir y dyfyniad atynt; a llai fyth y gellir dywedyd am y personau a *enwir* yn y dyfyniadau hyn, fod yn rhaid i ni ddeall wrthynt y personau a olygid gan yr ysgrifenydd yn y Testament Newydd. Nid ydyw yr hyn a ddyfynir yn ddim ond *achos i'r pwynt*, yn profi ac yn egluro egwyddor neillduol drwy siampl. Er enghraifft, y mae yr apostol yn y 9fed bennod o'r Rhufeiniaid, yn profi fod etholedigaeth yn ol gras, hyd y nod o'r Iuddewon (yr hyn a ddygai ei ddarllenwyr yn mlaen fel gwrthddadl yn erbyn yr efengyl), wedi bod drwy yr holl oesoedd; ac y mae yn sefydlu y penderfyniad yma drwy ddangos na chafodd holl hiliogaeth Abraham eu dewis, ond yn unig ei ddisgynydd oddiwrth Sarah; ac na chafodd holl hiliogaeth Isaac eu dewis, ond yn unig ei ddisgynyddion drwy Jacob.

5. Rhanau o'r prophwydi sydd yn cynnwys addewidion cyffredinol, neu sydd yn ddarluniadol o ddosparthiadau, ydynt, wrth gwrs, yn cael eu mynych gyflawnu. Y maent, mewn gwirionedd, yn egwyddorion cyffredinol. Gwel y dyfyniadau o Esay 6, 9, 10; gwel Math. 15, 8, 9; Act. 13, 41. Gwel hefyd Esay 54, 13; Hab. 2, 4; Heb. 13, 5 (o Jos. 1, 5).

6. Gall prophwydoliaethau, a elwir yn briodol felly, gael cyflawniad

dyblyg, yr hyn sydd ffaith, o ba un y mae amryw ddarluniadau wedi cael eu rhoddi.

Weithiau, er enghraifft, y mae y personau neu y pethau yn gysgodau y naill o'r llall;[a] weithiau y maent, mewn agweddau neillduol, yn un;[b] ac weithiau, y mae y dygwyddiadau y cyfeirir atynt wedi eu cydgymmysgu i'r fath raddau, fel y mae yn anhawdd eu gwahaniaethu.[c]

500. Os dywedir fod y cyflawniad dyblyg yma (beth bynag fyddo yr eglurhad) yn gwanhau profion prophwydoliaeth, dylid cofio, mewn atebiad, fod y ffeithiau ar ba rai y mae yn seiliedig—natur gysgodol y ddwy oruchwyliaeth, er enghraifft, neu yr hunaniaeth cyflawn sydd rhwng achosion Crist ac eiddo ei eglwys—yn cynnwys ynddynt eu hunain brofion a chysur; tra mae llawer o'r Salmau,[d] a'r rhan amlaf o ragfynegiadau ein Harglwydd, a gymmerwyd o'r prophwydi, i'w cymhwyso yn unig ato ef.

Dos. 2. *Anhawsderau Ysgrythyrol.*

"Mewn duwinyddiaeth, rhaid i lawer o bethau gael eu gadael mewn modd disymmwth (*abrupt*), a'u terfynu fel hyn,—'O ddyfnder!' ..... Oblegid yr oedd traethydd (*inditer*) yr Ysgrythyr yn gwybod pedwar o bethau nas gall un dyn eu gwybod—dirgelion teyrnas gogoniant, perffeithrwydd cyfreithiau natur, dirgelion calon dyn, ac olddilyniad dyfodol yr holl oesoedd."—BACON.

501. Ysgrifenwyd y Beibl "er addysg i ni," a "thrwy ysbrydoliaeth Duw;" ac etto, cyfaddefir fod ei eglurder cyffredinol yn cael ei gymylu gan "bethau anhawdd eu deall." Poenir Cristionogion yn aml gan wrthddadleuon a dynir oddiwrthynt, ac annghredinwyr a'u gwnant yn esgus dros wrthod awdurdod dadguddiad. Gellir gofyn, beth yw eu dechreuad, eu heglurhad, eu defnydd, a pha mor bell y maent yn gysson â chymmeriad, ac âg amcan y Beibl fel llyfr ysbrydol ac addysgiadol?

502. Gellir ateb, fod eu dechreuad yn ddigon eglur. Nid ydyw yr ieithoedd yn mha rai y cyfansoddwyd y Beibl yn cael eu defnyddio. Y maent yn gwahaniaethu oddiwrth eu gilydd, ac yn amrywio oddiwrth yr eiddom ni; y mynegiadau, y delweddau (*images*), a'r meddyliau cyn-

[a] Er enghraifft, yr addewid i Abraham, y buasai efe yn dad hiliogaeth luosog, a gymhwysir yn llythyrenol at Moses, Deut. 1, 10; a chymhwysir hi gan Paul at y rhai a gyfranogant o'i ffydd ef, Rhuf. 4, 18.

[b] Mewn epistol arall, dywed yn benodol, mai yr hâd yn yr hwn y mae y cenedloedd i'w bendithio, yw *Crist*; ac yna, mai yr holl rai ydynt yn eiddo Crist, yw yr *hâd* ac etifeddion yr addewid, Gal. 3, 16, 29. I'r dosparth (*a*) y perthyna y cyfryw ranau ag Exod. 12, 46 (oen y pasc, Ioan 19, 36), a'r addewid o berthynas i Solomon, 2 Sam. 7, 14; a'r Salmau cyfatebol, megys 132, 11. I (*a*) neu (*b*) y perthyna Sal. 8, 2—6, a gymhwysir yn gyntaf at ddyn fel y penaf o greaduriaid Duw, ac oddiwrth hyn at ein Harglwydd, yr hwn, yn yr ystyr yma, sydd yn un a ni, neu (gellir dywedyd) ein gwrthgysgod: Salm 91, 11, 12, a gymhwysir yn gyntaf at "bawb a ddywedant am yr Arglwydd, 'Fy noddfa a'm hamddiffynfa yw'" (adn. 2); ac mewn modd neillduol, gan hyny, at Grist; ac amrywiol Salmau, y rhai, yn wreiddiol, a ddarluniant gystuddiau credinwyr unigol, sydd â'u cyflawniad llawnaf yn ein Harglwydd, Salm 69, 9, 21, 25; 109, 8; 41, 9; 118, 19, 20, 25, 26.

[c] Y cyfryw yw y prophwydoliaethau yn Esay 40, 3—5, lle y mae dyfodiad ein Harglwydd yn y cnawd, ac helaethiad ei wirionedd ef yn y diwedd, yn cael eu cymmysgu; yn Mal. 3, 1—3, lle y cawn yr un cyfeiriad dyblyg ag yn Joel 2, 28—32. Cymharer y dyfyniadau yn y Testament Newydd. O'r un cymmeriad yw y rhagfynegiadau am ddinystr Jerusalem, fel y rhoddir hwynt yn Math. 24, 25, lle hefyd y darlunir rhai o weithrediadau ofnadwy y farn ddiweddaf.

[d] Salmau 2, 22, 45, 110; ac, fe allai, 40, 16, a 72; Salmau 16, 22, 40, a gynnwysant brofiad y Messia yn ei ddyoddefaint; 2, 45, 72, a 110, a ddarluniant ei fuddugoliaethau a'i ogoniant.

nwysedig ynddo, a berthynant i wahanol oesoedd, gwledydd, a phersonau; y mae yr arferion a'r defodau desgrifiedig ynddo wedi myned heibio; ei bynciau ydynt y mwyaf helaeth a chyflawn, yn cynnwys hanesiaeth, mewn rhan, o'r holl genedloedd, ac o bob amseroedd; y gyfundraeth o wirionedd a ddadguddia sydd i ddylanwadu ar y byd hwn a'r hwn a ddaw; a chynnwysa orchymynion a dadleniadau a gyfeiriant at y ddau, a'r rhai hyny, o angenrheidrwydd, yn cael eu gosod allan mewn ymadroddion wedi eu cymmeryd oddiwrth un yn unig; ac y mae yr holl ddadguddiad yn cael ei gynnwys mewn cyfrol fechan. Bydded i'r rhai hyn, a ffeithiau cyffelyb, gael eu cofio; a gwelir ar unwaith, fod rhoddi mewn cylch mor fechan, a bod hyd y nod rhoddi o gwbl, i feddwl marwol a meidrol, yn nghanol y cyfnewidiadau perthynol i bob peth sydd yn ddynol, ddadguddiad fyddai yn rhydd oddiwrth anhawsderau, yn anmhosibl. Rhaid yw fod anhawsderau, a'r rhai hyny o'r fath sydd yn gofyn mwy o ymchwiliad nag y gall unrhyw berson unigol ei roddi, a'r cyfryw a adawant, ar ol yr ymchwiliad manylaf, lawer wedi hyny heb ei egluro. Rhaid oedd i'r Ysgrythyr gael ei hysgrifenu, naill ai heb un cyfeiriad at hanesiaeth neu brofiad cyffredin, ac, heblaw hyny, heb un cyfeiriad at ddim ond a fyddo yn adnabyddus i bob dyn o bob oes, neu, rhaid i anhawsderau fod yn lluosog: y maent, mewn rhai ystyriaethau, yn lluosog; ond tywyllweh y darllenwyr, ac nid eiddo yr ysgrifenwyr, sydd yn eu creu ac yn peru iddynt barhau.

503. Wrth gymharu y dosranau o bennod iv.; pen. i., dos. 5, a'r rhagarweiniadau i Ran II., gwelir fod yr anhawsderau Ysgrythyrol yn gyfryw ag sydd yn cael eu parhau yn ein mysg, (1af) gan annilysrwydd o berthynas i'r testun; (2il,) gan ystyr geiriau ac ymadroddion, cyssylltiad ymresymiadau, amcan ac awduriaeth llyfrau neillduol; (3ydd,) gan arferion a defodau yr oes a'r wlad yn mha un yr ysgrifenodd yr awdwyr ysbrydoledig; (4ydd,) gan amseriaeth, daearyddiaeth, ac hanesiaeth y gyfrol gyssegredig; (5ed,) gan wrthddywediad ymddangosiadol gorchymynion a gwirioneddau dadguddiad, wrth edrych arnynt fel pynciau dehonglyddol yn unig; ac, yn olaf, gan y gwrthddrychau gyda pha rai y mae dadguddiad yn gyfarwydd; ceir yn y desgrifiad olaf yr anhawsderau cynnwysedig yn holl gylch y gwirionedd ysbrydol a moesol a ddadguddir yn y gyfrol santaidd.

Rhoddwn eglurhad byr ar bob un o'r dosparthiadau yma:

504. 1. Y mae weithiau yn anhawdd penderfynu darlleniad y testun ysbrydoledig.

Gen. 49, 6, "diwreiddiasant gaer" (*shur*), ond nid oes un amgylchiad o'r fath yn cael ei nodi yn yr hanes, a byddai hyn mewn cymhariaeth yn ddiniwed, gwel 34, 25. Rhai a ddarllenant (*shor*), ych; "hwy a dòrasant linynau gàrau yr ychain;" ond nid ydyw hyn yn wir, 34, 28, 29; yn fwyaf tebyg, "*sar*," tywysog; yn eu digofaint, neu eu penryddid, "hwy a laddasant dywysog." Felly y mae y cyfieithiad Syriaidd.

505. 2. Ar ol penderfynu y testun, y mae anhawsderau wrth egluro geiriau ac ymadroddion,[a] cyssylltiad ymresymiadau,[b] amcan ac awduriaeth llyfrau neillduol,[c] neu mewn dau neu ragor wedi eu cyssylltu.[d]

Yr oedd llawer o'r egluriadau yn pen. iv., dos. 6, yn perthyn unwaith i'r dosparth hwn; yr oeddynt yn anhawsderau Ysgrythyrol, a'r eglurhad o honynt sydd ganlyniad ymchwiliad diweddar.

(a) Yn Ioan 1, 16, y mae "gras am ras" wedi creu anhawsder. "Am feddiannau (*benefits*) y ddeddf y mae genym fendithion yr efengyl," Chrysostom, Beza, Erasmus: "gras ychwanegol am ras wedi ei iawn ddef-

nyddio," Le Clerc: "gras ar gyfrif gras Crist," Grot.: "gras ar ras," h. y., cyflawnder; felly y mae Dodd, Wesley, Olshausen; fe allai eu bod yn gywir, er na phriodolir i *anti* (am) yr ystyr yma mewn un man arall yn y Testament Newydd. Gall fod yn Hebreigiaeth am "al," *ar*, ac y mae enghreifftiau o'r ystyr yma mewn awduron clasurol.

Heb. 12, 17, "Er iddo drwy ddagrau ei thaer geisio hi." Os yw "hi" yn cyfeirio at y rhagair (*antecedent*) agosaf, meddylia "edifeirwch," naill ai ei edifeirwch ei hun, neu eiddo ei dad, Dodd.; ond gall, fodd bynag, gyfeirio at y rhagair pellaf, bendith ei dad, *eulogian;* a chyduna hyn â'r hanes, Gen. 27, 34.

Heb. 9, 16, "Lle y byddo testament (*diathêkê*), rhaid yw dygwyddo marwolaeth y testamentwr;" hyny yw, naill ai lle y byddo ewyllys, rhaid i'r ewyllysydd farw cyn y gellir ei phrofi, neu iddi fod yn effeithiol; fel hyn y mae y cyfieithiad Cymraeg, Guyse, Stuart; neu, lle y byddo cyfammod, rhaid i'r aberth, marwolaeth yr hwn sydd i'w gadarnhau, gael ei ladd, Mich., Mack., Dodd., Bloomfield.

1 Cor. 11, 10, "Am hyny y dylai y wraig (1.) fod ganddi awdurdod (2.) ar ei phen, (3.) o herwydd yr angylion." "Fod ganddi awdurdod ar," hyny yw, medd rhai, fod ganddi orchudd-len (*veil-covering*), ond ni roddir yr ystyr yma i'r gair un amser mewn manau ereill. Ereill a'i deallant yn llythyrenol, ac yna, (2) wrth "ben" deallant ei gŵr, a chyfieithant, "Am hyny y dylai y wraig fod ganddi awdurdod yn, neu drwy y dyn," 1 Tim. 2, 11—13, (3) "o herwydd yr angylion," hyny yw, naill ai angylion drwg, y rhai a foddlonir drwy anweddeidd-dra, neu angylion da, y rhai ydynt yn sylwi ar ei hymddygiad, Preg. 5, 6, neu ddysgawdwr yr eglwysi, Dad. 3; neu ysbiwyr anfonedig gan y paganiaid. "Un o'r ychydig iawn o'r rhanau hyny o'r Ysgrythyr sydd yn hollol annehongladwy," Barnes.

Cynnyddir yr anhawsder yn aml os bydd yr iaith yn ffigurol.

Er enghraifft, y mae Salm 104, 1—3, yn ffigurol, a gall yr ymadroddion fod wedi eu cymmeryd oddiwrth natur, neu gallant fod wedi eu cymmeryd oddiwrth y tabernacl; goleuni yn cyfeirio at y Secina, y gylchlen (*curtain*) yn cyfeirio at y llen, tylathau ei ystafelloedd at y darnau o ba rai y cyfansoddid y tabernacl, cymylau ei gerbyd at symudiad y Secina, a'r cwmwl pan symudid yr arch; fodd bynag, yr adnodau olaf o'r Salm a gyfeiriant at natur.

Yn nesgrifiadau Ezeciel, y mae rhai yn eglur, a rhai yn fwriadol áneglur.

(b) 2 Pedr 1, 19, "Gair sicrach y prophwydi"—sicrach nâ pheth? "Sicrach nâ chwedlau," adn. 16, Chandler; ereill, sicrach nâ'r gweddnewidiad, Sherlock; ond yn well, "gair y prophwydi *wedi ei gadarnhau*," naill ai gan y gweddnewidiad, neu yn hytrach gan gyflawniadau y Testament Newydd. Yr oedd prophwydoliaeth fel lamp mewn lle tywyll, ac y mae y cyflawniad yn Nghrist fel y wawr.

(c) Gellir cymmeryd llyfr Job fel eglurhad ar yr anhawsderau perthynol i'r amcan a'r awduriaeth. Rhai a'i cyfrifant yn hen iawn, can foreued a Moses, neu foreuach, Michael. Schult. Lowth; ereill a'i ystyriant yn ddiweddar, wedi ei ysgrifenu yn amser, neu ar ol y Breninoedd, Heath, Warburton. Gyda golwg ar ei awduriaeth, dywed rhai ei fod wedi ei ysgrifenu gan Job, neu Elihu, neu ryw gydoeswr, felly Dupin, Lowth, Schult. Lightfoot; ei fod wedi ei gyfieithu gan Moses, felly Patrick, Grey; neu ei ysgrifenu ganddo, Michael. Lowth; neu gan Solomon, neu ryw gydoeswr, Dupin, Spanheim; neu gan Ezra, Warburton; rhai a'i ystyriant fel

hanes sylweddol, Lowth, Schult.; ereill fel aralleg, Michael. Warburton; ei amcan yw rhoddi siampl o amynedd, Schult. Grey; dangos fod cystudd yn gysson â duwioldeb, Lowth; egluro goruwch-lywodraeth Duw, neu wrthwynebu yr athrawiaeth Fanichæaidd o fodoliaeth gallu drygionus cyfartal i Dduw, Sherl.; cysuro yr Israeliaid yn yr Aifft, Michaelis; neu yn ystod y caethiwed, Heath; neu egluro y cyfnewidiad yn llywodraeth rag-luniaethol Duw ar ol y caethiwed, sef, cyflwyniad cyfundraeth mwy ysbrydol, yn lle y gyfundraeth o wobrwyon daearol ag oedd wedi ffynu yn flaenorol, Warburton; gellir ychwanegu fod llawer o'r amcanion uchod yn cael eu hateb gan y llyfr hwn, a bod ymchwiliadau cyffredin mewn cymhariaeth wedi taflu llawer o oleuni arno.

(d) Weithiau y mae anhawsderau yn y geiriau ac yn y cyssylltiad.

Un o'r geiriau anhawddaf yn yr Ysgrythyr yw yr *arsill* (*particle*) *ina*. Y pwynt cynnwysedig ynddo yw, pa un a ydyw yn golygu yn unig *mewn trefn i*, neu hefyd *gyda'r canlyniad o*. Os y cyntaf yn unig a olyga, yna y mae bob amser yn golygu y bwriad neu yr amcan gyda pha un y mae peth yn cael ei gyflawnu. Os yw yr olaf yn un o'i ystyriaethau, yna gall olygu canlyniad unrhyw weithred, heb olygu bwriad ar ran y gweithredydd. Y cyntaf a elwir ei feddwl *amcanawl* (*telic*, o *telos*), a'r ail ei feddwl *canlyniadol* (*ecbatic*, o *ek-baino*). Y mae awdurdodau yn gwahaniaethu. Tittman, Stuart, Robinson, Burton, ydynt oll yn dàl ei fod yn cael ei ddefnyddio yn y ddau ystyr yma; Winer, De Wette, Olshausen, a ddaliant mai yn yr ystyr flaenaf yn unig y defnyddir ef. Yr ystyr amcanawl yn ddiammeu yw y mwyaf cysson â'r defnydd clasurol, ac fel hyn yr arferir y gair yn gyffredin yn yr Ysgrythyr. Tybia rhai fod yr ystyr canlyniadol yn rhagori yn yr adnodau canlynol, Ioan 9, 2; Luc 11, 50; Rhuf. 11, 11; myn ereill mai yr ystyr amcanawl yn unig sydd hyd y nod yma.

Defnyddir ef hefyd weithiau i ddynodi, nid prif amcan gweithred, ond un ail-raddol, megys yn Rhuf. 5, 20; Rhuf. 11, 32; Ioan 5, 20; 1, 7; 15, 6.

Feallai fod yr arferiad o'r ystyr yma mewn canlyniad i'r defnydd a wneir o'r gair yn y Deg a Thriugain mewn adnodau lle nad oes dim yn arwyddo ystyr amcanawl yn yr Hebraeg nac yn y cyd-destun, ond yn wahanol, Gen. 22, 14; (Deg a Thriugain).

(e) Y mae anhawsderau weithiau yn y darlleniad ac yn yr ystyr.

Y mae Esay 53 wedi ei chyfnewid gan yr adysgrifwyr, a'i meddwl wedi ei anmharu. Mic. 5, 1—5, dyfynedig yn Math. 2, 6, a llawer o'r dyfyniadau yn y Testament Newydd. Esay 3, 6, 7; 6, 10; 8, 12—18; 16, 1—7; 48, 16, ar ba rai gwel Lowth.

506. (3.) Pan fyddo ystyr geiriau wedi ei benderfynu, y mae weithiau yn anhawdd deall yr arferiad at ba un y maent yn cyfeirio, yn nghyd a'r rhesymau drosto.

Preg. 11, 1, "Bwrw dy fara ar wyneb y dyfroedd; canys ti a'i cei ar ol llawer o ddyddiau." "Dyro fara i'r rhai trallodedig," Gill. "Haua dy hâd heb obeithio am y cynauaf:" hyny yw, bydd yn anmhleidgar yn dy haelioni, Jebb. "Bydd haelionus tra y gallot," Boothroyd. Yn hytrach, ymarfer ffydd gref yn Nuw; ymddyga yn dy roddion a'th ymdrechion fel y llafurwr, yr hwn sydd yn bwrw ei rawn ar y dyfroedd, ac yn aros am y cnwd; yr oedd dyfroedd yn gorchuddio tir y rheis o amser hau hyd yn agos y cynauaf, Dr. Clarke.

Y mae amryw arferion yn cael eu nodi yn yr adnodau canlynol yn Esay, y rhai a grëant anhawsderau; ond eglurir hwynt oll, fodd bynag, gan wth, yn ei nodiadau, Esay 3, 16, &c.; 49, 16, 23; 50, 1, 6; 51, 23; 2; 57, 6—9; 65, 3, 4.

507. (4.) Yr anhawsderau mewn amseriaeth ac hanesyddiaeth ydynt amrywiol.

Yn Gen. 4, 17, y mae adeilad boreuol dinas gan Cain wedi creu anhawsder, ac yr ydys wedi gofyn—pwy oedd yn ei phreswylio? Ychydig gyfrifiad, fodd bynag, a ddengys fod yn rhaid fod disgynyddion ein rhieni cyntaf, mewn 500 mlynedd wedi y crëad, yn gwneyd i fyny yn y cyfan amryw gannoedd o filoedd. Dr. A. Clarke.

Yr ydym wedi gweled fod anhawsderau mewn amseriaeth a rhifnodau yn cyfodi yn aml oddiwrth gam-ddarlleniadau, y debygoliaeth rhwng gwahanol lythyrenau rhifnodawl, ac oddiwrth ddefnyddio gwahanol ddullian o gyfrif.

Felly hefyd yn mysg awduron annghyssegredig. Cyrus a deyrnasodd ddeng mlynedd ar hugain, Cicero de Div., hyny yw, o'i ymuniad â Cyaxares; naw mlynedd, Ptol. Canon, hyny yw, o'r pryd y cymmerodd Babilon; saith mlynedd, Xen., hyny yw, o'r pryd y daeth yr unig frenin. Fe allai mai y cyfrifiad olaf yw eiddo Ezra, Ez. 1, 1. Shuckford.

508. Anhawsderau hanesyddol ydynt o ddau fath; y rhai a gyfodant oddiwrth gymhariaeth o wahanol ranau yr Ysgrythyr, a'r rhai a gyfodant oddiwrth gymhariaeth o'r Ysgrythyr âg ysgrifeniadau cyffredin (*profane*).

Cyfyd anhawsderau weithiau oddiwrth enwau priodol yr Ysgrythyr, rhai o'r cyfryw a sillebir yn amrywiol,[a] neu y mae y cyfeiriad at yr un person neu le yn hollol wahanol.[b]

[a] Eliam., Sam., Amiel., Chron., Nebuchad=nessar=ressar. Cywirir y cyfryw oddiwrth ranau cyfochrawg (*parallel passages*), hen gyfieithiadau, a Josephus.

[b] Am gymhariaeth o'r annghytundeb rhwng 2 Sam. 5, 23, a Cron. 11, gwel Traethawd cyntaf Kennicott.

509. (1.) Wrth gymharu rhanau cyfochrog hanesyddol yr Ysgrythyr, y rhai a ymddangosant yn wrthwynebol i'w gilydd, y mae yr egluriadau canlynol yn bwysig:—

(*a.*) Ffeithiau a ymddangosant yn wrthwynebol ydynt yn aml yn wahanol.

Yn Math. 1, 1, cawn linach ein Harglwydd drwy Joseph; ac yn Luc 3, 23, drwy Mair. Gwel, Arweiniad i'r Efengylau.

(*b.*) Y mae gwahanol haneswyr, wrth roddi yr un hanes, yn mynegu gwahanol amgylchiadau; rhai yn rhoddi mwy, a rhai yn rhoddi llai nâ'u gilydd; y mae yr hanes cyflawnaf yn cynnwys y byraf, ac nid ydyw y byraf yn gwrth-ddywedyd y cyflawnaf.

Cymharer Luc 2, 39, â Math. 2, 22, 23, lle y cydunant: gwahaniaethant yn yr holl adnodau blaenorol, ond heb un gwrthddywediad.

Ar alwedigaeth yr apostolion, cymharer Luc 5, 1—11; Math. 4, 18—22; Marc 1, 16—20. Rhydd rhai (fel Greswell) yr adnodau yn Luc yn ddiweddarach; ereill (fel Robinson) a ystyriant y cyfan, fel y mae yn sefyll, yn gymmodadwy.

Ar y ddau gythreulig, cymharer Marc 5, 1—21; Math. 8, 28; 9, 1; Luc 8, 26—40.

(*c.*) Y mae yr un nodiad yn gymhwysiadol at hanes yr hyn a ddywedir ar ryw achlysur neillduol. Rhydd un hanesydd hyd y nod y geiriau, ac un arall ddim ond y synwyr; neu rhydd y ddau ranau gwahanol o'r hyn a ddywedir, neu amrywiant y drefn, o herwydd rhyw reswm neillduol.

Y geiriau ar y swper; y teitlau ar y groes, Math. 19, 3—12; Marc 10, 2—12.

(*d.*) Pethau y dywedir iddynt gael eu cyflawnu gan un dyn a osodir allan mewn lle arall fel wedi eu cyflawnu gan un arall, yr hwn, fodd bynag, a

weithredai drosto;[a] ac weithiau defnyddir y rhif lluosog pan na fyddo y nodiad yn gymhwysiadol ond at un yn unig.[b] Nid oes yma yr un gwrthddywediad.

[a] Math. 8, 5, 6; Luc 7, 2, 3. Marc 10, 35, a Math. 20, 20.

[b] Math. 26, 8, ac Ioan 12, 4. Math. 27, 44, a Luc 23, 39—42.

(*e*) Gall hanes yr hyn a lefarwyd neu a gyflawnwyd greu anhawsder oddiwrth y ffaith fod ymadroddion cyffredinol i gael eu cyfyngu gan rai neillduol, ac ymadroddion aneglur i'w hesbonio drwy y rhai sydd eglur.

Marc 10, 10; Marc 6, 8; Luc 9, 3.

(*f*.) Y mae hanesion yr Ysgrythyr wedi eu casglu ar wahanol egwyddorion, ac i wahanol ddybenion. Ysgrifenwyd rhai mewn modd amseryddol ar y cyfan, neu mewn rhan, neu yn rhoddi dygwyddiadau yn un lluaws (*groups*). Rhaid myfyrio yr egwyddor ar ba un y trefnir hwynt, a rhaid cyssoni y cyfan yn gydunol â hi.

Trefn Marc a Luc, yn gyffredin, sydd amseryddol. Rhodda Matthew ffeithiau a dammegion wedi eu casglu yn lluaws (*groups*). Gwel Cyssondeb yr Efengylau, Rhan II. Weithiau, fodd bynag, rhydd Matthew y drefn gywir, ac awgryma y ffaith drwy yr ymadroddion a ddefnyddir. Er enghraifft, yn hanes y temtiad (pen. 4), y mae yn cadarnhau y drefn, "yna;" etto, Luc 4, a rodda drefn wahanol; ond nid ydyw yn cael ei chadarnhau, "a"——

Yn Gen. 1, 27, ni roddir ond hanes byr am greadigaeth dyn; rhoddir ef yn feithach yn pen. 2, 7, 21; ac mewn modd sydd yn creu gwrthddywediad ymddangosiadol.

Rhoddir trefn swper yr Arglwydd, a bradychiad Judas, gan Ioan, Mathew, a Marc; rhaid rhoddi Ioan 13, 26—35, rhwng Matthew 26, 25, a 26, a threfn Luc fyddai Luc 22, 21—33, 19, 20.

Gellir casglu gwir drefn Esay 38, 21, 22, oddiwrth 2 Bren. 20, 7, 8.

Y mae yr anhawsderau yma yn cael eu mwyhau gan gyflead presenol y Salmau a'r prophwydoliaethau. Gwel y drefn amseryddol o'r cyfan, Rhan II.

(*g*.) Weithiau y mae annghytundeb ymddangosiadol rhwng yr hanes gwreiddiol a'r cyfeiriad a wneir ati mewn lle arall; ac yn yr achos hyny, y mae yn gyffredin ddarlleniad annghywir, neu, weithiau, eglurhad arall.

Marc 2, 25, 26, "dan Abiathar," gwel 1 Sam. 21, 1, 2; Abimelech oedd yr offeiriad; nid oes yma ddarlleniad annghywir; nid yn nghylch amser; ond yn hytrach yn nyddiau Abiathar, yr hwn wedi hyny a ddaeth mor adnabyddus fel arch-offeiriad, a'r hwn oedd bresenol ar yr amser, 1 Sam. 22, 22.

Math. 23, 35, "Zecharias, fab Barachias," gwel 2 Cron. 24, 20, lle y gelwir ei dad ef yn Jehoiada; yn yr Hebraeg, yr un ystyr sydd i'r ddau enw (yr hwn y mae Jehofa yn gofalu am dano, neu yn ei fendithio); megys y gelwir Uzziah (nerth yr Arglwydd) yn Azariah (yr hwn y mae yr Arglwydd yn ei gynnorthwyo), 2 Cron. 26, 1; 2 Bren. 14, 21.

Act. 7, 16, "a brynasai Abraham;" ond Jacob a'i prynodd, Gen. 23, 19; Jos. 24, 32; heblaw hyny, yn Hebron, ac nid yn Sichem, y claddwyd Jacob, Gen. 50, 13. Y darlleniad mwyaf priodol, feallai, yw, ein tad, hyny yw, Jacob, a gadael allan "Abraham."

(*h*.) Cynnwysa y cyfeiriad weithiau fwy nâ'r hanes gwreiddiol, a symudir yr anhawsder wrth ystyried nad ydyw yr haneswyr ysbrydoledig boreuaf yn mynegu yr oll a ddygwyddodd.

Rhwymiad Joseph, Sal. 105, 18; dywediad ein Harglwydd, Act. 20, 35; ymddangosiad o eiddo Crist i Iago, 1 Cor. 15, 7; priodas Salmon a

Rachab, Math. 1, 5, yr hyn ni chofnodir yn yr Hen Destament. Felly hefyd Judas 9, 14; Dad. 2, 14.

510. (2.) Wrth gymharu hanesion yr ysgrythyr âg hanesion anysbryd-oledig, cyfarfyddir âg amryw anhawsderau; ond y mae y rhan fwyaf o honynt, fodd bynag, er ys amser maith, yn gwasanaethu er rhoddi profion ychwanegol o wirionedd y Beibl.

Yn Luc 2, 2, dywedir fod y trethiad wedi ei wneuthur gyntaf pan oedd Cyrenius yn rhaglaw ar Syria. Gresswell a Tholuck a gyfieithiant, Cymmerodd y cofrestriad yma le cyn bod Cyrenius yn rhaglaw; dywed Burton ac ereill, Y cofrestriad yma (yr hwn a orchymynwyd ddeuddeg mlynedd cyn hyny) a gymmerodd le gyntaf, hyny yw, arian dyledus o'i herwydd a dalwyd gyntaf, pan oedd Cyrenius yn rhaglaw. Y ffaith yw, gorchymynwyd y cofrestriad yma gan Augustus, dair blynedd cyn genedigaeth Crist; ond ni thalwyd y dreth hyd yn mhen deuddeg mlynedd ar ol hyny, pan oedd Cyrenius yn llywydd Syria.

Gweler ereill yn Mhrofion Paley, Rhan II., pen. 6, Cymdeithas y Traethodau Crefyddol, tud. 260. Yn ngweithiau Lardner y rhoddir y golygiad cyflawnaf o'r cydundeb rhwng hanesion cyssegredig a chyffredin.

Y mae llawer o anhawsderau cyffelyb wedi cyfodi, ac wedi eu hegluro drwy ymchwiliad pellach.

Noda Daniel bedwar o freninoedd Babilon a Phersia—Nebuchodonosor, Belsassar, Darius y Mediad, a Cyrus. Y cyntaf sydd dra adnabyddus; nodir yr ail, er o dan enwau ereill; Labynetus gan Herod, Nabonadius gan Berosus; nid oedd y trydydd yn fwy nâ brenin mewn enw, ac ni nodir ef gan neb, ond efe yw Cyaxares II. Xen., Cyssylltiad Prideaux, Llyfr 2. Dilynwyd Cyrus gan Cambyses; efe gan Smerdis; ac yntau gan Darius Hystaspes, Ezra 6, 1. Ei ganlynydd oedd Artaxerxes Longimanus, sef Artaxerxes Nehemiah. Llanwyd yr orsedd gan Artaxerxes arall, a dau o freninoedd o'r enw Cyrus, cyn i'r amherodraeth gael ei darostwng gan Alexander, c. c. 331. Cyduna hunaniaeth yr enwau, ynghyd â'r dyryswch perthynol i bob amseryddiaeth Bersiaidd ac Assyriaidd, i greu llawer o anhawsderau; ond cymmodir y rhan fwyaf drwy fyfyrdod gofalus.

Gwel, enghreifftiau ychwanegol yn Horne, 2, 618, yn Newton ar y Prophwydoliaethau, ac yn Nghyssylltiadau Prideaux, Shuckford, a Russell.

511. (5.) Wrth ystyried gwirioneddau a gorchymynion yr Ysgrythyr fel pethau i'w dehongli yn unig, ceir ynddynt rai gwrthddywediadau ymddangosiadol. Weithiau y mae gwrthddywediad ymddangosiadol rhwng ymadrodd llythyrenol ac un ffigurol, yr hwn a symudir drwy egluro y ddau yn gyssonawl.

(*a.*) Weithiau rhaid egluro geiriau un ymadrodd yn ffigurol.

"Ni *fynwch* chwi ddyfod," Ioan 5, 40; "*Ni ddichon neb* ddyfod ataf fi, oddieithr i'r Tad ei dynu ef," Ioan 6, 44. Cynnwysa y cyntaf, wrth ei gymharu â rhanau ereill, fod yn rhaid i ni, mewn trefn i gael bywyd tragywyddol, gredu fod pob un sydd yn clywed yr efengyl yn rhwym o'i chredu; fod dynion mor llygredig fel na chredant, a'u bod, o herwydd hyny, yn cael eu condemnio. Yr ail a sicrhâ *nas gall* dynion ddyfod. Beth, gan hyny, y mae hyn yn ei feddwl? Ai diffyg gallu, yr hyn yw yr ystyr briodol os na ddichon iddynt? neu ai diffyg ewyllys ydyw, yr hyn yw yr ystyr ffigurol? Y mae y ddau ystyr i'w cael yn yr Ysgrythyr. "*Ni allai* Ahiah weled oblegid ei henaint," Felly hefyd Jonah 1, 13. "Ni *fedrai*" brodyr Joseph "ymddyddan âg ef yn heddychol." "Pa wedd y *gellwch* lefaru pethau da, a chwi yn ddrwg?" lle y mae llywodraeth tuedd

gref yn cael ei golygu. At yr un olaf y mae ein Harglŵydd yn cyfeirio; ni wna dim llai nâ goruchwyliaeth ddwyfol arbenig ddarostwng y duedd yma; a chan mai yn yr ewyllys y mae, ein pechod ni ydyw.

Felly hefyd yn yr holl adnodau sydd yn llefaru am Dduw mewn ymadroddion cydweddol â gwendid y galluoedd dynol.

Cymharer hefyd Math. 11, 14, â Ioan I, 21.

Neu y mae y geiriau yn y ddwy ran yn gofyn cael eu hegluro yn ffigurol. Gwel adran 262.

(*b.*) Y mae haeriadau cyffredinol mewn un testun weithiau i gael eu cyfyngu gan ereill.

Yn Luc 16, 18; Marc 10, 11, 12, y mae ysgariaeth yn cael ei gwahardd yn mhob modd; ond yn Math. 5, 32; 19, 9, caniatëir ef, er am odineb yn unig; tra y dywedir yn 1 Cor. 7, 15, fod y credadyn yn rhydd i ysgaru oddiwrth y gŵr neu y wraig annghrediniol fyddo yn penderfynu ymadael.

Yn yr un modd cyfynger ac eglurer Gen. 13, 17; 23, 17, 18; Act. 7, 5.

(*c.*) Weithiau defnyddir yr un ymadroddion mewn gwahanol ystyriaethau mewn gwahanol destunau, ac y mae yn anhawdd gwybod pa fodd i'w cyfyngu yn mhob un.

Yn Math. 18, 21, 22, gorchymynir maddeuant mewn modd diammodol; ond yn Luc 17, 3, 4, ar edifeirwch. Yn yr olaf, defnyddir y gair mewn ystyr wahanol (Gerard), neu y mae yr ammod o edifeirwch yn cael ei rhagdybied yn Mathew; neu meddwl yr ymadrodd yn Luc ydyw, cynnifer gwaith ag y ceisio faddeuant, dyro ef iddo.

Cyfiawnhëir dyn drwy ffydd heb weithredoedd y ddeddf, Rhuf. 3, 28; "O weithredoedd y cyfiawnhëir dyn, ac nid o ffydd yn unig," Iago 2, 24. Llefara Paul am gyfiawnhad yr *annuwiol* gyda golwg ar ei *dderbyniad* gan Dduw; ac Iago am gyfiawnhad y *duwiol* gyda golwg ar ei *gymeradwyaeth* gyda Duw. Fuller. Neu, llefara Paul am gyfiawnhad yn ngolwg Duw, ac Iago am gyfiawnhad yn ngolwg dyn. Hoadly a Taylor. Neu, llefara Paul am ffydd gyda'i heffeithiau, ac Iago am gydsyniad yn unig. Grotius, Macknight. Amryw awdwyr a gyfyngant amryw eiriau yn yr adnodau; ond cytuna pawb fod rhyw gyfyngiad yn angenrheidiol.

Felly hefyd yn 1 Cor. 10, 33; Gal. 1, 10. Diar. 26, 4, 5.

Exod. 20, 5; Ezec. 18, 20, "Yn ymweled âg anwiredd y tadau ar y plant." "Y mab ni ddwg anwiredd y tad." Naill ai yr oedd cynllun Duw tua diwedd yr oruchwyliaeth Iuddewig wedi cyfnewid: ar y cyntaf arbedid y tadau, ond yn y diwedd yr oedd tadau a meibion, ac nid meibion yn unig, i ddyoddef. Fuller. Neu y mae y desgrifiad cyntaf yn perthyn yn unig i'r rhai hyny sydd yn ei "*gasáu ef.*" Pe buasai Judah, gan hyny, yn nyddiau Ezeciel, yn gyfiawn, ni chawsai ei ddwyn i gaethiwed am beccadau Manasseh. Llefarir yn y ddwy adnod am ddynion, nid fel unigolion, ond fel aelodau o gymdeithas, a chyfeiria y ddwy at y byd presenol.

(*d.*) Weithiau priodolir yr un weithred i wahanol oruchwylwyr, ac weithiau rhoddir darluniadau gwahanol, y rhai a ymddangosant yn annghyson, o'r un gwrthddrych, yn mha achosion y mae y weithred yn cael ei darlunio, naill ai mewn geiriau a ddefnyddir mewn gwahanol ystyriaethau, neu y mae ystyr yn mha un y mae yr ymadroddion yn wirionedd; ond y mae weithiau yn anhawdd penderfynu pa un yw y dehongliad cywir. Gwel tud. 237, 238.

Y mae Crist yn eiriol, Rhuf. 8, 34; Heb. 7, 25, fel y gwna yr Ysbryd, Rhuf. 8, 26, 27; un yn y nefoedd, a'r llall yn ein calonau ni. Gelwir Crist yn Ddyddanydd (neu Ddadleuydd), 1 Ioan 2, 1; fel hefyd y gelwir yr Ysbryd, Ioan 16, 7. Y mae un ynom, a'r llall yn y nefoedd.

Y mae dysgeidiaeth yr Ysgrythyr o berthynas i ddyfodiad ein Harglwydd yn cynnwys yr oll braidd o'r anhawsderau dehonglyddol at ba rai yr ydym wedi cyfeirio.

512. (6.) Ar ol i'r holl anhawsderau dehonglyddol yma gael eu hegluro, y mae ereill yn perthyn i'r *pethau a ddadguddir neu a orchymynir* yn yr Ysgrythyr, ac mewn gwrthddadleuon seiliedig ar yr anhawsderau yma y mae dynion yn ymhyfrydu fwyaf.

(*a.*) Y mae llawer o ranau wedi eu gosod dan y pen hwn, nad ydynt mewn modd priodol yn cynnwys ond pynciau o ddehonglyddiaeth yn unig.

Creadigaeth yr enfys ar ol y diluw, a'r haul a'r sêr ar y pedwerydd dydd, ydynt, mae yn debyg, anhawsderau dehonglyddol yn unig. Y rhan fwyaf o'r ysgolheigion Hebreig a gadarnhant mai meddwl syml y gwreiddiol yw, i'r haul a'r sêr gael eu gwneuthur neu eu gosod ar y pedwerydd dydd i lywodraethu y dydd a'r nos, ac i'r enfys gael ei osod, neu ddyfod ar ol y diluw, yn arwydd o'r cyfammod; crëwyd y ddau gan Dduw, ac yr oeddynt wedi bodoli yn flaenorol, ond y pryd hwnw y defnyddiwyd hwynt i'r amcanion yma.

Yr ydys wedi dyfynu Lef. 27, 28, 29, fel yn awdurdodi aberthau dynol, fel hefyd y gwneir âg ymddygiad Jephthah tuag at ei ferch, Barn. 11, 34; ond yr oedd aberthau dynol yn cael eu gwahardd mewn modd pendant, Deut. 12, 30, 31; Sal. 66, 3; Sal. 106, 37, 38. Yr oedd pawb a wneient ond cyffwrdd â chorff marw yn aflan; ac, heblaw hyny, nis gallesid aberthu unrhyw beth diofrydedig (*devoted*). Tebyg yw i Jephthah ddiofrydu ei ferch i forwyndod parhaus; ac, wedi y cyfan, nid yw y weithred yn cael ei chymmeradwyo.

Dywedir weithiau, drwy gyfeiliornad cyffelyb, fod prophwydoliaethau yn dwyllodrus, 2 Bren. 8, 10. Atebiad Eliseus i Hazael (*lv* ac nid *lo*). Yr addewid i Josiah, 2 Cron. 34, 28; 35, 23. Hanes Jonah. Rhai haeriadau fod y dydd diweddaf yn agos, 1 Cor. 10, 11, &c.

Rhai ymadroddion yn yr Hen Destament a ymddangosant fel yn amlygu teimlad dialgar; ond y mae rhai o'r ymadroddion yn ffigurol, Sal. 10, 15; y mae rhai yn brophwydoliaethau, ond yn unig fod yr amserau (*tenses*) yn y modd mynegol dyfodol (*indicative future*) yn hytrach nag yn y modd gorchymynol; ac ereill ydynt fygythion cyfiawnder dwyfol yn erbyn troseddwyr, Deut. 28.

Dywedir fod rhai gweithrediadau a briodolir i brophwydi yn wrthun neu anfoesol; ond yr oeddynt naill ai yn rhagarwyddol (*symbolical*), neu a osodid allan mewn gweledigaeth yn unig, neu nid oeddynt ond yn unig yn cael eu hadrodd gan y prophwyd. Esay 20, 3, "noeth," hyny yw, heb ei wisg uchaf, Lowth; neu, mewn gweledigaeth, Rosenm. Jer. 13, 4, 6; gweledigaeth (Lowth); Ezec. 4; Hos. 1, 2.

Dehonglir gorchymynion a mynegiadau heb y cyfyngiad neu yr eglurhad angenrheidiol; Ioan 6, 51—58, bwyta cnawd Crist; Math. 12, 36, "geiriau segur," drygionus, ac absengar; Math. 19, 23, "gŵr goludog," "un sydd yn ymddiried yn ei gyfoeth;" Marc 10, 24. Math. 5, 30, tori ymaith y llaw ddeheu; 5, 39, "Pwy bynag a'th darawo ar y rudd ddeheu, tro y llall ato hefyd;" llefarwyd y ddau ymadrodd yma mewn modd cymharol; gwna hyn yn hytrach nâ gwneuthur drwg.

Cynnwysa yr holl adnodau hyn wirioneddau pwysig a pheth anhawsder, ond ni pherthyn yr anhawsder ond i ddehonglyddiaeth yn unig.

(*b.*) Gellir cymmeryd y rhai canlynol fel enghraifft o anhawsderau yn ystyr yr Ysgrythyr.

1. Haerir fod gwrthddywediadau rhwng yr Hen Destament a'r Newydd, a rhwng dysgeidiaeth ein Harglwydd a dysgeidiaeth ei apostolion.

2. Dywedir fod llawer o bethau anmhosibl yn hanes y greadigaeth, ac yn yr ymgais i olrhain holl ddynoliaeth i un ffynnonell.

3. Dywedir fod rhai o'r gwyrthiau—hanes y cwymp, hanes Balaam, y meddiant cythreulig yn y Testament Newydd, er enghraifft—yn annghreddadwy.

4. Yr oedd llawer allan o le yn nghymmeriadau moliannus seintiau yr Hen Destament.

5. Rhoddwyd gorchymynion anngyhyffredin iddynt, megys i Abraham, ac i'r Israeliaid.

6. Y mae cospi eilun-addoliaeth â marwolaeth yn ymddangos fel yn caniatâu erlidigaeth, ac nis gellir cyfrif am lawer o sefydliadau y gyfraith.

7. Dyfynir rhanau o'r Hen Destament yn y Newydd mewn ystyriaethau hollol annaturiol.

8. Y mae rhai o athrawiaethau moesol ac ysbrydol yr efengyl, fel cyfundraeth ddiwygiadol, yn ddirgelaidd.

9. Uwchlaw y cwbl, y mae fod anhawsderau yn y Beibl yn annghysson â'i amcan fel dadguddiad cyffredinol.

513. Awn i chwilio yr olaf o'r gwrthddadleuon hyn yn gyntaf. Cyfaddefir fod anhawsderau yn y Beibl; ond a ydynt yn annghysson â'i ysbrydoliaeth a'i wirionedd, ac a ydynt yn attal ei ddefnyddioldeb i athrawiaethu, neu ddysgu, neu hyfforddi mewn cyfiawnder?

514. A sylwi ar y rhan olaf o'r gofyniad yma yn gyntaf, eglur yw fod y Beibl mewn rhanau annifeiriol, ac annghamsyniadwy, yn dadguddio egwyddorion hanfodol gwirionedd a dyledswydd. Nid oes genym ond agor y Testament Newydd, ac o'i holl dudalenau braidd gallwn dynu cyfundraeth o santeiddrwydd. Ysbrydoliaeth y natur ddwyfol, a phob addoliad cymmeradwy (Ioan 4, 24); edifeirwch a maddeuant pechodau yn enw Crist (Luc 24, 47); iachawdwriaeth yn neb arall (Act. 4, 12); dyledswydd pob dyn yn mhob man i edifarhau a chredu (Act. 17, 30; Marc 1, 15); bywyd tragywyddol drwy y Mab; marwolaeth dragywyddol fel canlyniad annghredinïaeth (Ioan 3); yr angenrheidrwydd am santeiddrwydd (Math. 7, 21); y sicrwydd am gymhorth yr Ysbryd i lywyddu ein llygredigaeth, ac i gynnorthwyo ein gwendid. Yr holl wirioneddau yma ydynt wedi eu hysgrifenu megys â'r goleuni, fel "y gallo yr hwn a ddarlleno redeg." Heblaw hyny, yn mhob oes, y mae amcan mawr y Beibl fel llyfr o addysg grefyddol, ac fel cronfa gwirionedd achubol, wedi ei ateb. Cymharer ffydd yr Iuddew iselaf, o berthynas i Dduw a chyfraith, â chyfeiliornadau ac ansicrwydd y doethaf o'r paganiaid—dadl Dusculaidd gyntaf Cicero â'r traethawd Cristionogol mwyaf cyffredin ar anfarwoldeb a'r adgyfodiad, ac ymddengys y gwahaniaeth ar unwaith. Cryna yr athronydd paganaidd ar bob cam, ac ofna hyd y nod y penderfyniadau i ba rai yr arweinir ef gan ei ymresymiadau, tra y mae barn y Cristion wedi ei ffurfio yn barod; ei unig anhawsder yw argraffu y gwirionedd yn ddigon dwfn ar ei galon ei hun, yn nghyd a chalonau ereill. Drwy brif orchymynion diamheuol yr Ysgrythyr, gall y mwyaf euog gael ei "gyflawn berffeithio i bob gweithred dda;" a thrwy ei hathrawiaethau, gall pob dyn gael ei ymneyd yn "ddoeth i iachawdwriaeth."

515. Eithr onid ydyw yr anhawsderau yma yn effeithio ar awdurdod y Beibl, ac yn gwanhau y prawf o'i ysbrydoliaeth? A all dadguddiad fod o awdurdod gyffredinol heb fod pawb yn ei ddeall? ac ai dadguddiad mewn gwirionedd yw yr hyn lle y mae cymmaint yn cael ei guddio?

Wrth ateb y gofyniad yma, gellir dywedyd fod pob peth a wyddom ni am weithredoedd Duw mewn natur yn agored i'r un gwrthwynebiad. Dangosodd yr Esgob Butler, yn y modd mwyaf diymwad, fod crefydd naturiol, crefydd ddadguddiedig, a rhagluniaeth Duw, yn nghyd a phob deddf o ddyledswydd ddynol sydd adnabyddus, oll yn agored i'r un anhawsderau. Y mae ynddynt oll y tywyllwch hwnw mewn ystyr, a'r diffyg mewn profion—y dirgelwch hwnw mewn trefniad a thriniaeth, ag sydd yn nodi allan ein cyflwr presenol fel un o ddysgyblaeth barhaus. Mewn gwirionedd, cymhwysir y gwrthddadleuon yma gyda llawer llai o rym at yr Ysgrythyr nag at ein hymarferion dyddiol; a'r ymresymiad sydd yn ceisio gosod y Beibl o'r neilldu, pe yn wirionedd, a yspeiliai Dduw o'i holl awdurdod, a dyn o'i holl gymhellion at rinwedd..... Rhaid dywedyd yn mhellach, cyhyd ag y byddo arferion ac iaith yn cyfnewid, nas gall dadguddiad, heb iddo gael ei roddi i bob cenedl, ac i bob oes, fod yn rhydd oddiwrth anhawsder. Y mae arferion ac ymadroddion, oeddynt gynt yn adnabyddus, yn awr wedi diflanu; ffeithiau a wyddid unwaith ydynt yn awr wedi eu hannghofio; gan hyny, y mae y cyssylltiad rhyngddynt hwy â ffeithiau ereill wedi ei golli. Y canlyniad yw, gradd o anwybodaeth, yr hwn nid ydyw yn caniatâu yr un gwelliant dychymmygadwy, oddieithr yr hyn a deimlid gan bawb yn annghysson â'u cyflwr presenol.

516. Ond yr ydym yn myned yn mhellach. Y mae hyd y nod anhawsderau yr Ysgrythyr, yn ieithyddol (*philological*), ac yn hanesyddol, yn rhoddi prawf grymus o burdeb a gwirionedd y Beibl. Nis gall neb yn awr ammeu iddo gael ei ddadguddio i genedlaethau olynol, ac mewn ieithoedd henafol. Y mae gan bob oes ei themtasiynau neillduol i anffyddiaeth, a chan bob un ei phrofion neillduol. Bydded i unrhyw un ddarllen Geirwiredd (*Credibility*) Lardner, yr hwn sydd waith nas gallasai gael ei ysgrifenu yn oes yr apostolion, oblegid yr oedd y ffeithiau ar ba rai y mae yn seiliedig yn ddiweddarach nâ'u hamser hwy; neu Horæ Paulinæ Paley, neu Horæ Apostolicæ a Horæ Evangelicæ Birks, ar annghyssonderau ymddangosiadol, a'r cydundeb gwirioneddol rhwng mynegiadau hanesyddiaeth gyffredin a'r un gyssegredig, rhwng yr Epistolau ac Actau yr Apostolion, neu rhwng y gwahanol Efengylau, a chanfydda ar unwaith fod anhawsderau yr Ysgrythyr yn cynnwys profion mewnol mwy penderfynol nag hyd y nod y rhai allanol; nid ydyw, drwy y cyfan, ond yr annghyssondeb ymddangosiadol rhwng yr ysgrifenwyr eu hunain a hanesyddiaeth gyffredin, a'u hannibyniaeth eglur y naill ar y llall, ac ar bob peth sydd yn ffurfio yr ymresymiad ond gwirionedd. Nis gallwn ymwrthod â dim, hyd y nod âg anhawsderau. Y mae pob elfen (yr annghyssondeb ymddangosiadol yn mhlith y lleill) yn hanfodol i roddi grym yn y cyfan.

Ac os dywedir fod yr anhawsderau yma yn rhy luosog, neu fod yr eglurhad o honynt wedi bod yn rhy araf, gellir ychwanegu fod yr eglurhad graddol yma yn angenrheidiol, er mwyn cynnysgaethu pob oes â phrofion newydd, a chynnyrchu dyddordeb parhaus yn yr Ysgrythyr, tra y mae y ffaith yn dangos fod profion y Beibl, fel ei athrawiaethau, yn perthyn i bob amseroedd.

517. Oddiwrth fyfyrio yr anhawsderau ieithyddol a hanesyddol, awn yn mlaen i chwilio yr athrawiaethol—dirgelion mawrion duwioldeb a drygioni,

"y pethau anhawdd" sydd yn dàl cyssylltiad âg iachawdwriaeth, yn nghyd ag â'r dyfodiant tywyll ac aneglur. Mor amlwg yw y fath nodiadau a'r canlynol: y mae dynion yn-syrthiedig; ein natur sydd lygredig; ein deall sydd wedi ei dywyllu. Nis gallai dadguddiad o'r fath ag y buasai ein chwaeth foesol ni yn ei gymmeradwyo lai nâ dwyn nodau o ddechreuad lawer îs nâ'r nefoedd. Rhai meidrol ydym ni; a pha beth sydd yn fwy naturiol nâ phan fyddo bôd Hollwybodol yn llefaru ar bynciau perthynol i achosion tragywyddol, ei fod yn llefaru mewn modd nad ydym ni yn ei ddeall ond mewn rhan; yn sicr buasai absenoldeb anhawsder (yr hyn y dadleuir am dano) mewn cyflwyniad oddiwrth yr hyn a broffesa fod yn ddoethineb anfeidrol, yn taflu arno, drwy yr amgylchiad hwnw, amheuaeth cryf, os nad anatebadwy. Gwel Gwrthddadl 8.

Gellir ychwanegu fod yr anhawsderau yma wedi urddasoli pob math o ddysgeidiaeth ddynol, drwy wneuthur y cyfan yn wasanaethgar i grefydd. Mewn modd hanesyddol, dechreuodd myfyrdod o lenyddiaeth glasurol, mewn amser diweddar, gyda myfyrdod o'r Beibl; ac oddiar hyny, y mae gwir grefydd a gwir ddysgeidiaeth wedi eu huno mewn rhwymau anwahanol. Fel hyn y mae pob gwybodaeth wedi ei santeiddio; a pha fodd bynag y gall Cristionogion unigol fod wedi gwneuthur eu hunain yn agored i'r cyhuddiad o fod yn elynion diwylliant meddyliol, y mae yn anmhosibl cynnwys y grefydd Gristionogol ei hunan yn y cerydd hwn.

Diamheu y gellir haeru mewn atebiad i'r ymresymiadau uchod, fod boddeliaeth anhawsderau Ysgrythyrol yn cael ei ganlyn gan un anngbyfleustra; y maent yn agored i gynnyrchu amheuaeth hyd y nod yn meddyliau Cristionogion, hyny yw, profant eu ffydd. Eithr onid ydyw hyn etto yn brawf o'u tu? Beth yw holl oruchwyliaethau Duw ond ein dysgyblaeth ni? Beth yw bywyd ond rhodiad drwy ffydd; hyny yw, drwy ymddiriediaeth barhaus arno Ef, yr hwn nis gallwn ddeall ei ffyrdd, ac mewn amgylchiadau sydd yn gofyn y fath ymddiried. Feallai y *gallasai* Ysbrydoliaeth symud pob anhawsder o'r Ysgrythyr, er nas gallwn ni ddywedyd pa fodd; ond sicr yw y collasem lawer heb ennill ond ychydig drwy y cyfnewidiad.

Yn lle ateb y gwrthddadleuon yma bob yn un ac un, sylwer ar, a chymhwyser y rheolau canlynol.

518. (1.) Rhaid esbonio y Beibl, eu gyhoeddiadau, a'i ddadguddiadau, yn unol â'r hyn mae yn proffesu fod;—sef, cyfrol ysbrydoledig, wedi ei bwriadu i osod allan drefn iachawdwriaeth drwy Grist, ac i ddwyn dynion at Dduw. Cyn belled ag y mae yn debyg i lyfrau ereill a ysgrifenwyd mewn iaith ddynol, rhaid iddo gael ei ddehongli yn ol yr un cyfreithiau a llyfrau ereill; rhaid i ni bob amser edrych ar y geiriau, y cyd-destun, y llefarydd, ac arferion a hanes ei oes; ond cyn belled ag y mae yn gwahaniaethu oddiwrth lyfrau ereill—sef ei fod yn ysbrydoledig, ac wedi ei fwriadu i bob amseroedd—pob rhan o hono yn rhag-gysgodi, neu yn eglur ddangos y groes, rhaid rhoddi i'w ymadroddion a'i awgrymiadau ystyr gyflawn (*plenary*) ac ysbrydol. Er enghraifft, yr oedd aberthau gosoded-ig y gyfraith, wrth edrych arnynt ynddynt eu hunain, yn waedlyd. Sicr yw nad ydynt yn cynnwys yr un awgrym eu bod yn rhag-ddangos marwolaeth ein Harglwydd. Nid oes amheuaeth, er hyny, o berthynas i'w prif amcan; ac yn y cyfamser, dysgent athrawiaeth fawr y ddirprwyaeth (*substitution*), i rai, feallai, yn dra eglur; a chynnyrchent yn nghalonau dynion rai o'r teimladau hyny a gynnyrchir gan y groes. Hefyd, nid yw yr addewid i Abraham yn cynnwys y fath eiriau ag sydd yn cyfeirio yn

unig ac yn eglur at ddyfodiad y Messia; ac ni allesid dehongli addewid gyffelyb yn Virgil neu Homer, gyda thegwch, fel yn meddu y cyfryw gyfeiriad. Ond nis gall y Cristion ammeu ei meddwl. Os nad oedd ysgrifenwyr yr Ysgrythyrau yn rhagweled yr holl wirioneddau allasid eu tynu o'u geiriau, yr oedd yr Ysbryd Glân yn eu rhagweled, a gwaith dehongliaeth yw dysgu ei amcan a'i ddyben ef yn yr hyn a ddadguddiwyd. Gan hyny, ni fyddai esbonio yr Ysgrythyrau ysbrydoledig yn mhob peth, fel pe na fyddent ond cyfansoddiadau dynol, heb roddi iddynt gylch ĉangach, a defnyddio rheol ysbrydol, a defnyddio geiriau Arglwydd Bacon, ond "dianrhydeddu yr Ysgrythyrau, a drygu yr eglwys." Gwel Gwrthddadl 7.

519. (2.) Fel ag y mae athrawiaethau i gael eu hesbonio yn unol â chynnwysfawredd yr Ysgrythyr; felly, nid oes un dehongliad o anhawsder i gael eu ganiatau ond yn gydunol â'r ffaith fawr o ysbrydoliaeth. Llawer a gymharant wyrthiau Moses â rhyfeddodau Livy, neu ysgrifeniadau Ezeciel gydag eiddo Æschylus, neu athrawiaethau ein Harglwydd âg athroniaethau Plato, a gellir symud yr anhawsderau yn mhob achos yn yr un ffordd. Os dywedir fod y gwyrthiau yn annghredadwy, a'r dychymmygion yn orwyllt, a'r ymresymiadau moesol yn wallus neu annaturiol; yn yr achos hwnw, symudir yr anhawsderau a'r egwyddorion sydd yn gosod awdurdod yr Ysgrythyr o'r neilldu. Os gwadwn ysbrydoliaeth, dylem chwilio profion, a sylwi ar wirioneddau moesol ac ysbrydol y Beibl; ond os caniatäwn ysbrydoliaeth, rhaid i'n dehongliad o'i anhawsderau adael y nodwedd ogoneddus hon o'i eiddo heb ei chyffwrdd. Rhaid gwrthod, gan hyny, y rhan fwyaf o'r ymadroddion a ddefnyddir yn y gwrthddadleuon blaenorol (2, 3, 9), am eu bod yn annghysson âg ysbryd ymofynydd gostyngedig a duwiol.

520. (3.) Rhaid ystyried yr Ysgrythyr o'r dechreu i'r diwedd fel cyfundraeth; a rhaid dehongli y gwahanol lyfrau a brawddegau fel rhanau cyfansoddawl a chyssylltiedig o un cyfangorff mawr. Yr holl oleuni a deffir gan y tudalen gyntaf ar yr olaf, neu gan yr olaf ar y gyntaf, a ellir yn ddibetrus ddefnyddio i'r dybenion o eglurhau ac amddiffyn, nid i brofi, mae yn wir, fod yr un ystyr i bob rhan, ond fod i bob rhan yr un dyben.

Canfyddir fod y rheol yma yn gwneyd i ffeithiau a gwirioneddau yr un peth ag a wneir gan y rheol gydberthynasol ar gyssondeb y ffydd, neu ar ranau cyfochrog (*parallel passages*) i ddehònglyddiaeth y geiriau. Er enghraifft, "Ac oddiar yr hwn nid oes ganddo y dygir oddiarno, ïe, yr hyn sydd ganddo," sydd frawddeg o eiddo ein Harglwydd. Ysgarer y geiriau yma oddiwrth y cyd-destun, oddiwrth ymadrodd cyfochrog mewn efengyl arall, oddiwrth yr egwyddor berthynol i'r llywodraeth ddwyfol a eglurir ganddynt, ac yr ydym yn colli y synwyr; ond esbonier hwynt mewn cyssylltiad â'r rhai hyn, ac y mae y cwbl yn eglur. Felly hefyd am wirioneddau Beiblaidd. Nid ydyw aberth a marwolaeth Abel, wrth edrych arnynt ynddynt eu hunain, yn ymddangos yn fwy nâ gweithred dda a diwedd anamserol unrhyw ddyn da; ond edrycher ar ei farwolaeth fel blaenffrwyth pechod, a'i aberth fel prawf o wir natur pob offrwm cymmeradwy; ac hefyd fel prawf o'r modd yr oedd ymwyboduarwydd o anhaeddiant yn dangos ei hunan yn yr oes gyntaf, a pha mor ddwfn y teimlid yr angen am aberth dirprwyol, ac y mae yr holl hanes yn gwisgo agwedd o bwysigrwydd a mawredd. Eglurer yn yr un modd ordinhadau y gyfraith, hanes bersonol llawer o'r hen seintiau, ac y mae amgylchiadau dibwys ynddynt eu hunain yn dyfod yn brofion newyddion o wirionedd mewnol, ac hyd y nod yn wersi er addysg yr eglwys drwy bob oes.

521. (4.) Megys y mae o bwys myfyrio yr Ysgrythyr yn gyssylltiadol (*connectedly*), felly y mae o fwy o bwys ei myfyrio yn ei gwir gyssylltiad, ac yn hwnw yn unig. Gall cyfundraeth dwyllodrus fod yn fwy niweidiol nâ bod heb un gyfundraeth o gwbl.

Er enghraifft, gellir edrych ar bläau yr Aifft fel drygau wedi eu hanfon yn unig er mwyn gwaredu cenedl o gaethiwed; yn y goleuni yma gallant ymddangos yn rhy drymion, a rhai o honynt hyd y nod yn wrthun. Ond wrth edrych arnynt fel arddangosion o'r gallu dwyfol, neu fel rhag-gysgodion o dynged yr anedifeiriol, neu o yspeiliad y tywysogaethau a'r awdurdodau ganddo Ef, yr hwn a ymorfoleddodd mor amlwg arnynt yn ei groes, neu fel ceryddon cyhoeddus ar eilun-addoliaeth, yn gymmaint a bod pob pla yn cael ei anfon ar eilun-dduw, ac fel pethau hir-gofiadwy a gadarnhäent ffydd yr Israeliaid, y mae eu hystyr yn dyfod yn eglur.

Etto, os edrychir ar eilun-addoliaeth fel cyfeiliornad meddyliol yn unig, neu os edrychir ar yr Iuddewon fel cyfundeb cyffredin, ymddengys cospi y pechod hwnw â marwolaeth yn rhy greulawn. *Mewn gwirionedd*, nid oedd ond cosp a weinyddid ar Israeliad gwrthgiliedig, yr hwn yn aml oedd wedi derbyn Jehofa fel ei frenin dewisiedig. Mewn *dwyf-lywodraeth* (*theocracy*), yr oedd yn drosedd gwladol; ac heblaw hyny, amcan mawr yr holl sefydliad oedd prynu yr hiliogaeth oddiwrth y cyflwr llygredig a thruenus a gynnwysid yn y pechod yma.

Yn yr un modd y mae gwirioneddau yr Ysgrythyr am berson ein Harglwydd yn derbyn llawer iawn o'u pwysigrwydd, a'u holl gyssondeb, oddiwrth yr undeb ynddo ef o'r natur ddynol â'r natur Ddwyfol. Ymddangosant yn wrthddywediadol (*contradictory*), os eglurir hwynt ar y dybiaeth mai dyn yn unig, neu mai Duw yn unig, ydoedd; cyssyllter y ddau olygiad, ac ymddengys y cwbl yn gysson a thra chysurlawn.

Y mae chwilio am goll yn ngweithredoedd yr hen saint, a phenderfynu fod y cofnodiad o'u beiau mor annghysson â Dwyfol ddechreuad y Beibl ag oedd y gweithredoedd eu hunain yn fychaniad ar wir grefydd, yn arwyddo damcaniaeth (*theory*) dwyllodrus. Tybier, er enghraifft, mai amcan y Beibl yw—dadguddio Duw a diwyllio dyn, a diflana y gwrthddadleuon.

Cymmerer, er enghraifft, dwyll Jacob, Gen. 27, 33—35, a sylwer ar ei wersi o berthynas i Dduw a ni ein hunain. Yr oedd ei ragoriaeth ar ei frawd, a'i etifeddiad o'r addewid, wedi cael eu rhagfynegu ar ei enedigaeth. Y mae yn lled debyg fod Isaac, Rebecca, a Jacob ei hunan, oll yn gwybod am y brophwydoliaeth yma. Ond, fodd bynag, er y wybodaeth yma, gwnaeth Isaac y brawd hynaf yn brif wrthddrych ei ffafr, yr hwn oedd wedi ymgyssylltu â theulu eilun-addolgar; yr oedd gan Jacob, wedi y cyfan, cyn lleied o ffydd yn yr addewid Ddwyfol, fel yn ddiangenrheidiol y symudodd y rhwystr oedd yn y flaenoriaeth a roddid i'w frawd drwy bryniad: a Rebecca, heb feddu mymryn mwy o ffydd, a gynhyrfodd ei mab i arfer y twyll drwy yr hwn y cyrhaeddodd y fendith. Euogrwydd a ffolineb yr holl weithrediad yma a ddygodd yn dra buan ei ffrwythau priodol. Gwendid Isaac a gospwyd drwy ymddyeithriad a gwasgariad ei blant. Esau, drwy ei ddiofalwch a'i ddrygioni, a gollodd y fendith; terfynodd annghrediniaeth Rebecca yn ei gwaith yn gorfod dyfod yn ymddibynol ar y mab y gwnaeth gam âg ef: ni welodd ei mab anwylaf byth ar ol hyny. Jacob a yrwyd o'i artref—a gafodd ei yspeilio a'i dwyllo gan Laban; daeth y wraig a ddirmygai yn fam y llwyth dewisedig, a dysgodd drueni ei bechod drwy dwyll ei blant ei hunan. Uwchlaw y cwbl, er i'r

addewid gael ei chyflawnu yn y diwedd, etto ni dderbyniodd Jacob ei hunan unrhyw fendith oddiwrthi. Yn lle bod mab ei fam yn ymgrymu iddo ef, y mae efe, yn ei berson ei hunan, yn ymgrymu i fab ei fam, ac yn dyfod yn ymddibynol ar ei blant ar ddiwedd ei fywyd. Yr oedd y gospedigaeth, mewn gwirionedd, yn gyflawn; ac nid llai yr addysg hefyd. Gellir dywedyd iddo, wedi y cyfan, etifeddu y fendith; ac y mae hyn yn wirionedd, oblegid "diedifarus yw doniau Duw;" ac nid yw ei ddewisiad ef o'i weision yn seiliedig ar deilyngdod personol, ond ar resymau, y rhai, yn y rhan-fwyaf o achosion, fel yn hwn, nid yw efe wedi gweled yn dda eu dadguddio. Gellir dywedyd hefyd i'r fendith gael ei sicrhau drwy foddion nas gallai un meddwl didwyll eu cymmeradwyo; ac y mae hyn yn wirionedd; ond gellir cymhwyso yr wrthddadl at weinyddiadau rhagluniaethol yn gyffredin yn gymmaint ag at yr Ysgrythyr. Y mae pechod dyn yn cael ei barhaus oruwch-lywodraethu er gogoniant Duw; ac nid yw y drefn yn effeithio ar gyfrifoldeb dyn, nac ar santeiddrwydd Duw; mewn gwirionedd, ni fyddai dadguddiad heb amgylchiadau cyffelyb i'r rhai hyn ynddo, yn gyfiawn tuag at Dduw, nac yn gywir tuag at ddyn.

522. (5.) Gweddus yw i ni ammeu penderfyniadau doethineb ddynol, ac ymchwiliadau rhesymegol pryd bynag y cymhwysir hwynt at bynciau sydd y tu hwnt i'n profiad ni, ac yn enwedig mewn perthynas i wirioneddau crefyddol. Hyd y nod mewn gwyddoniaeth, ni wyddom mewn gwirionedd ond ychydig tu hwnt i'r hyn y buom yn sylwi arno. "Beth yw goleuni?" "Beth yw gallu?" ydynt ofyniadau nad ydyw athroniaeth etto wedi eu hateb. Yr ydym ni yn llefaru am ddeddfau dysgyrchiad, ac yn sicrhau mai hwynthwy sydd yn cadw y planedau yn eu cylchoedd; ond nid yw dysgyrchiad ynddo ei hunan (fel y cyfaddefir) yn ddim ond mynegiad o ffaith unffurf (*uniform fact*). Y mae gwreiddyn clefyd, yn annibynol ar ail achosion ac arwyddion, yn hollol anadnabyddus; ac nis gall neb ddywedyd pa fodd y mae haint neu adwyth (*contagion or infection*) yn effeithio ar y corff. Y penderfyniad tebycaf ag y mae hyd y nod athroniaeth yn gyfeirio ato yw, fod y galluoedd mawrion yn y greadigaeth yma wedi eu gosod allan mewn modd uniongyrchol gan Dduw. Gwyrthiau a dirgelion ydynt yn lluosog yn mhob man, a'u rheoleidd-dra a'u mynychrwydd yn unig sydd yn difodi ein syndod ni. Cyssylltu â'r ffaith yma gyflwr syrthiedig, a bychandra cynhenid dyn, a phriodoldeb egwyddor Arglwydd Bacon, pan ddywed wrthym am holi natur yn barchus, ac nid dyhaeru (*dogmatize*) ar ei gweithrediadau, a ymddengys yn ddau mwy cyfiawn pan gymhwysir hi at y Beibl.

523. (6.) Na fydded i neb gynnyg rhoddi na dysgwyl cael dehongliad o bob anhawsder. Dywed Warburton, "Y mae dau fath o ranau tywyllion yn yr Ysgrythyr; gellir egluro un o honynt drwy gymhwysiad myfyrgar o dalentau yn cael eu hiawn ddefnyddio; ond y llall bob amser a encilia i gysgod gorsedd Duw, lle y byddai yn annuwioldeb i ni ruthro." "Gris olaf rheswm," medd Pascal, "yw gwybod fod aneirif (*infinitude*) o bethau uwchlaw iddo. Wedi i'r holl anhawsderau gael eu dad-ddyrysu, ac i bob gair o'r Beibl gael ei egluro, bydd yr anhawsderau trymaf o'r cyfan o hyd yn aros. Bydd dechreuad drygioni, dirgelwch y rhagwybodaeth a'r rhydd-oruchwyliaeth Ddwyfol, yn nghyd a llawer o gynllun y prynedigaeth, o hyd yn rhoddi ymarferiad i'n ffydd. Bydd i ni ddywedyd y pryd hwnw, fel y mae yn ddoethineb i ni ddywedyd yn awr, "O ddyfnder golud doethineb a gwybodaeth Duw! mor anchwiliadwy yw ei farnau ef, a'i ffyrdd mor anolrheiniadwy ydynt!"

Ar yr oll o'r Ddosran yma, gwel Horne "Ar Wrthddywediadau Ymddangosiadol yr Ysgrythyr," "Hermeneutics," Davidson, "Beirniadaeth Feiblaidd" Gerard, ac, ar y rhan olaf yn neillduol, "Darlithiau Hulseaidd" gan Benson.

PENNOD VII.

Ar Ddarlleniad Addysgiadol ac Ymarferol o'r Beibl.

"Y mae yr holl Ysgrythyr yn ymarferol, ac wedi ei bwriadu i weinyddu i'n diwylliant yn hytrach nag i'n cywreinrwydd."—Arnold, *Pregethau* (tud. 239).

"Nis gwn am well rheol i ddarllen y Beibl nâ'i ddarllen drwyddo o'r dechreu i'r diwedd; ac wedi gorphen unwaith, ei ddechreu wedi hyny. Cyfarfyddwn â llawer o ranau nas gallwn gael ond ychydig ddiwylliant oddiwrthynt; ond ni fyddant mor lluosog ynyr ail ddarlleniad ag yn y cyntaf, a byddant yn anamlach yn y trydydd nag yn yr ail."—John Newton (vi., 418).

524. Fel mai defnydd mawr athroniaeth yw "cynnysgaethu dyn â phethau angenrheidiol," felly defnydd mawr yr Ysgrythyr yw cynnyddu ein doethineb a'n santeiddrwydd. Nid ydyw casglu meddwl yr Ysgrythyr, a chynnull yn nghyd ei hathrawiaethau, ond cyflawniad rhan o'r amcan i ba un y cafodd yr Ysgrythyr ei rhoddi. Rhaid cymhwyso pob gorchymyn a phob addewid. Gallwn gael rhyw ychwanegiad at ein gwybodaeth, rhyw gynhyrfiad adfywiadol i'n teimladau, rhyw gefnogaeth neu arweiniad i'n dyledswydd, hyd y nod oddiwrth bob adnod. Myfyrdod ar y gwirionedd a ddadlena ei gyflawnder; a'i gymhwysder ymarferol ar bob llaw ar unwaith a'n syna ac a wobrwya ein hymchwiliadau.

525. Wrth ddarlleniad ymarferol ac addysgiadol o'r Beibl y meddylir y myfyrdod hwnw o'r llyfr santaidd sydd yn casglu ac yn cymhwyso y gwirioneddau cynnwysedig ynddo atom ni ein hunain, neu at byncisu mawrion cymmeriad a phrofiad crefyddol. Nid ydyw yn wahanol i ddehongliaeth, ond hyn yn hytrach yw y parhad a'r amcan o hono. Ateba dehongliaeth y gofyniad, "Pa beth yw meddwl y geiriau mewn rhyw ran neillduol?" Penderfyna duwinyddiaeth reolaidd (*systematic*) y cyssylltiad rhwng y meddwl hwnw â holl gyfundraeth y gwirionedd; ac ateba myfyrdod addysgiadol ac ymarferol o'r Ysgrythyr y gofyniad, "Pa beth y mae y geiriau hyn yn ei gynnwys? a pha wirionedd neu ddyledswydd a eglurir neu a awgrymir ganddynt o berthynas i'r bywyd dwyfol, ac i'm hanes personol?" Sylfaen y cyfryw fyfyrdod yw cyssondeb parhaus gwirionedd dwyfol, yn nghyd âg ymarferoldeb y cyfan. Yr hyn sydd angenrheidiol tuag at hyn yw, gwybodaeth gyffredinol o ddysgeidiaeth yr Ysgrythyr, ac ysbryd wedi ei feddiannu gan "ffurf yr ymadroddion iachus, yn y ffydd a'r cariad sydd yn Nghrist Iesu" (2 Tim. 1, 13). Gyda'r rhaghanfodion yma, bydd yn hawdd (gan fod un gwirionedd yn dàl cyssylltiad â'r llall) i Gristion "wasgaru ei hunan," fel y dywed Francke, "oddiwrth un gair dros yr holl Ysgrythyr."

526. Wrth dynu y cyfryw addysgiadau oddiwrth yr Ysgrythyr, y mae arnom angen yr un rheolau ag ydym eisoes wedi eu gosod i lawr er dehongliaeth Ysgrythyrol.

Y geiriau—y geiriau yn eu lle yn y frawddeg—y geiriau mewn cyssylltiad âg amcan yr ysgrifenydd—y geiriau mewn cyssylltiad â rhanau ereill yr Ysgrythyr—yw y dosparthiad yr hwn a gynnwys yr holl addysgiadau y gellir eu tynu yn gyfreithlawn oddiwrth fynegiadau gwirionedd dwyfol.

527. (1.) Gellir tynu gwersi oddiwrth *eiriau* yr Ysgrythyr.

Yn Rhuf. 14, 17, cawn ddesgrifiad o "deyrnas Dduw:" y cyfryw yw yr efengyl: teyrnasiad Duw ydyw; dechreua yn ei ras; sylfaenir hi ar ei allu; eglura ei lywodraeth.

Yn Heb. 3, 1, gelwir Crist yn "Apostol ac Arch-offeiriad ein cyffes ni." Y mae ystyr bwysig i bob un o'r ddau air; efe ar y cyntaf a ddewisiwyd; anfonwyd ef ganddo ef. Y mae yr euogrwydd o'i wrthod yn gyfartal idd ei fawrhydi ef. Effeithioldeb ei iachawdwriaeth a sicrhëir drwy appwyntiad dwyfol. Y mae yn Arch-offeiriad *dan yr efengyl;* gan hyny, er mai goruchwyliaeth o drugaredd ydyw, etto y mae arnom ni eisieu aberth a derbyniad, ac ymddibynwn am y ddau arno ef.

528. (2.) Gellir tynu gwersi oddiwrth y *geiriau yn eu lle* yn y frawddeg.

Yn 1 Pedr 5, 5, cynghorir ni i fod wedi ymdrwsio oddifewn â gostyngeiddrwydd, oblegid y mae Duw yn gwrthwynebu y beilchion. Eglur yw (1), Fod gostyngeiddrwydd, er yn cael ei ddirmygu gan y paganiaid, yn ras Cristionogol. (2.) Ein addurn mwyaf gwirioneddol (oblegid y mae y gair Groeg am "ymdrwsio" yn cynnwys hyn) yw golygiad cyfiawn, hyny yw, gostyngedig am danom ein hunain, a rhaid i'r addurn yma fod mewn cyssylltiad mor agos â ni, fel nas gall neb ei ddwyn ef ymaith (felly y golyga y Groeg). (3.) Gellir cymhell pob dyledswydd drwy gyfeirio at gymmeriad Duw. (4.) Y mae balchder yn bechod amlwg a chyhoeddus. (5.) Y mae yn hèr-feiddio Duw, ac y mae efe yn gosod ei hunan yn ei erbyn.

Felly hefyd yn Rhuf. 14, 17, darlunir teyrnas Dduw, fel cyfiawnder, a thangnefedd, a llawenydd yn yr Ysbryd Glân. Oddiwrth hyn, gellir casglu (1), mai drwy gyfiawnder yn unig y mae heddwch, (2,) ac mai ffrwyth cyfiawnder a heddwch yw llawenydd; (3,) mai nid cyfiawnder teyrnas Dduw yw y cyfiawnder sydd heb ddwyn heddwch na llawenydd.

529. (3.) Gellir tynu gwersi oddiwrth *eiriau yn eu cyssylltiad â'r* cyddestun.

Yn Math. 27, 52, darllenwn i lawer o gyrff y saint, y rhai a hunasant, gyfodi; ond yr oedd hyn *ar ol* adgyfodiad ein Harglwydd (adn. 55); efe, gan hyny, yw blaen-ffrwyth y rhai a hunasant, ac yr oedd y saint yn ddyledus iddo ef am bob peth a dderbyniasant.

Cyferbynier 1 Tim. 1, 15, âg adn. 4, a chasglwn fod traddodiadau yr Iuddewon a chwedlau y cenedloedd yn cael eu cymharu i ffugebau *(fables)*, a'r efengyl i wirionedd diamheuol.

530. (4.) Gellir tynu addysgiadau oddiwrth *amcan*, naill ai y llyfr neu y gyfran neillduol.

Er enghraifft, cymharer Ioan 8, 51, "Os ceidw neb fy ymadrodd I, ni wel efe farwolaeth yn dragywydd," â Ioan 20, 31, "Y pethau hyn a ysgrifenwyd fel y credoch chwi, ... a chan gredu, y caffoch fywyd yn ei enw ef," ac y mae yn canlyn mai drwy ufydd-dod i eiriau Crist y mae dangos ein ffydd ynddo; fod ffydd, nid yn unig yn derbyn ei aberth, ond ei ddysgeidiaeth, fel na fyddo i'r neb a dderbynio fywyd drwyddo ef byth

weled marwolaeth. Wrth gymharu yr adnod hon âg amcan uniongyrchol ein Harglwydd y(r hyn oedd yn profi nad oedd yn feddiannol ar ysbryd aflan), y mae yn canlyn nad ydyw athrawiaeth a sicrha fywyd tragywyddol yn debyg o fod yn dwyllodrus; fod gwirionedd cadwedigol i'w osod allan, hyd y nod gerbron y rhai a'u cablant; ac er fod dysgeidiaeth Crist yn ffolineb gyda dynion, etto rhaid iddi gael derbyniad ac ufydd-dod.

531. (5.) Gellir tynu addysgiadau oddiwrth ranau cyfochrog. Yn lle, fodd bynag, lluosogi enghreifftiau, cymmerwn un adnod, a chymhwyswn y rheolau a roddir yn awr i'w hegluro a'u hesbonio.

532. Yn 2 Tim. 1, 8, darllenwn, "Na fydded arnat gywilydd o dystiolaeth ein Harglwydd, nac o honof finau, ei garcharor ef; eithr cydoddef di gystudd â'r efengyl." Wedi penderfynu *meddwl* yr adnod, cymmerer, yn gyntaf, y geiriau:

1. Gelwir yr efengyl yn dystiolaeth. Gan hyny, nid rhyw haeriad disail ydyw.

2. Nid yw y Cristion i fod â chywilydd o'r efengyl hon. Y mae hyfder wrth roddi tystiolaeth dros Grist yn fynych yn ofynol, yn enwedig mewn amseroedd o erlidigaeth.

3. Nid rhyfyg disail yw yr hyfder yma, ond sicrwydd rhesymol, "*Am hyny*, na fydded arnat gywilydd."

4. Tystiolaeth ein Harglwydd yw yr efengyl; ei hamcan yw "dwyn tystiolaeth am Grist, yr hwn *yw* ein Harglwydd." Yr oedd Paul a Thimotheus yn gydweision (Phil. 1, 1), ac am hyny yr oeddynt yn sefyll yn yr un berthynas i Grist eu Harglwydd, i'r hwn, gan hyny, yr oeddynt yn rhwym o ufyddhau.

5. Ei garcharor *Ef* oedd Paul; dynion oedd wedi ei roddi mewn dalfa, ond nid oedd yn eu gallu i wneyd iddo fel y mynent, ac nid oedd yn dyoddef fel drwgweithredwr.

Yn ail. Cymmerer pob gair mewn cyssylltiad â geiriau ereill y frawddeg, a chasglwn y fath addysgiadau a'r rhai canlynol:—

1. Peidio cyfranogi o gystuddiau yr efengyl pan elwir arnom i hyny yw bod â chywilydd o dystiolaeth ein Harglwydd.

2. Yr hwn sydd â chywilydd o Gristionogion cystuddiedig, y rhai a ddyoddefant fel Cristionogion, y mae arno gywilydd o Grist ei hun.

3. Rhaid i ni ddwyn ein tystiolaeth i Grist, nid yn unig mewn tymmorau o lwyddiant, ond hefyd mewn tymmorau o gystudd.

4. Pregethai Paul yr efengyl hyd y nod yn ei rwymau.

5. Dygodd Paul dystiolaeth gysson i'r gwirionedd, etto y mae yn gofyn tystiolaeth gan Timotheus. Y mae, gan hyny, yn angenrheidiol i dystiolaethau gweision ein Harglwydd gael eu lluosogi.

6. Nid ydyw calon ofnus a phryderus yn addas i ddwyn tystiolaeth dros Grist, nac i ddyoddef cystudd yn ei achos ef.

Yn drydydd. Cymmerer y geiriau mewn cyssylltiad â'r cyd-destun. Amcan cyffredin yr apostol yn y rhan hon o'r epistol oedd annog Timotheus i ddyoddef cystudd dros achos Crist, ac argymhella yr annogaeth yma drwy resymau cryfion.

Wrth gymharu yr adnod hon â'r *bedwaredd* adnod, casglwn fod y duwiolion, er yn amgylchynedig gan beryglon, yn gallu llawenhau, a mwynhau cymmundeb hefyd â'u gilydd.

A'r *drydedd* adnod, a chasglwn fod y rhai sydd yn nghylch dyoddef am dystiolaeth Iesu yn sefyll mewn angen am ein gweddiau "nos a dydd."

A'r *bumed* adnod, a chasglwn y gall cofio ein henafiaid duwiol gynnyddu ein hyfder a'n ffyddlondeb mewn tymmorau o erlidigaeth.

A'r *chweched* adnod, a chasglwn fod y ddawn y mae gweinidog wedi ei dderbyn oddiwrth Dduw i gael ei gyffroi (ail-ennyn), mewn trefn nid yn unig i ddysgu, ond i ddyoddef.

A'r *seithfed* adnod, a chasglwn fod y doniau o nerth a chariad (i Grist ac eneidiau dynion), a phwyll, yn y cyflawniad o ddyledswyddau pwysig, i gyd yn rhwymo y Cristion i ffyddlondeb mewn dyoddef.

A'r *nawfed* adnod, a chasglwn y gwna meddwl am ein hiachawdwriaeth, yn nghyd a gras ac amcan Duw tuag atom, wasgaru ein hofnau gyda golwg ar gystudd tymmorol.

A'r *ddegfed* adnod, a chasglwn y dylai rhagoriaeth yr oruchwyliaeth efengylaidd, a chadarnhad ein ffydd drwy ymddangosiad ac adgyfodiad Crist, ein gwneyd yn fwy parod i ddyoddef: nid ydym yn dyoddef dros chwedl gyfrwys, ond dros wirionedd Duw.

Wrth gymharu geiriau yr adnod â geiriau yr adnodau blaenorol, casglwn addysgiadau ereill. Ofn erlidigaeth yw un o achosion aml gwrthgiliad. Y mae cywilydd gan ddynion dystiolaeth Crist, am eu bod yn anfoddlawn cyfranogi o gystuddiau yr efengyl. Y mae meddwl pwyllog, neu wir ddoethineb, i'w ganfod yn ein parodrwydd i ddyoddef cystudd yn hytrach nâ gwadu Crist. Pwyll bydol yn unig a amlygir drwy gystuddiau. Y mae ysbryd ofn yn ddrwg i'n sefydlogrwydd, ac nid rhodd Duw ydyw. Gwir allu a ganfyddir mewn dyoddefgarwch a ffyddlondeb. Y mae gan gariad y fath ddylanwad ar yr enaid, fel, pe byddem yn agored i'r drygau mwyaf, neu hyd y nod angeu, efe a'n ceidw yn ddigryn. Y mae gwrthgiliad yn arwyddo gwendid, perfelgarwch, ffolineb; oblegid sefydlogrwydd sydd ffrwyth gallu, pwyll, a chariad.

Yn bedwerydd. Dysgwn wersi ereill yr un mor bwysig wrth edrych ar amgylchiadau yr Ysgrifenydd, ac amcan yr Epistol. Amcan cyffredin yr Epistol yw, fod Paul, yr hwn oedd yn awr yn garcharor i'r Arglwydd, yn gofyn i Timotheus ddyfod ato; ac y mae, yn mlaen llaw, yn ymdrechu darparu a gwroli ei feddwl yn erbyn y cystuddiau oeddynt y pryd hwnw yn bwgwth yr eglwysi yn Ephesus ac yn Rhufain.

Ac edrych ar amgylchiadau Paul, dysgwn y gall un fyddo wedi ei garcharu er mwyn Crist, yn wastad, drwy lythyr, annog ereill i'w wasanaethu ef; fod y Cristion mor bell o golli ei gysur drwy gael ei garcharu, fel y mae yn briodol iddo annog ereill i ddyoddef, ac hyd y nod i ymwroli oddiwrth ei siampl ef; y dylem, mewn cystuddiau, fod yn dra gofalus rhag i ereill gael eu digaloni drwy ein dyoddefiadau ni; y gallwn ofyn i ereill gyfranogi o'n dyoddefiadau, os hydd hyny er ëangiad yr efengyl, ond fod yn rhaid i ni yn gyntaf gadarnhau eu meddyliau gyferbyn â'r hyn y gallant gael eu galw i'w ddwyn; fod yn bosibl i Gristionogion gael en temtio i wrthgiliad gan ddrygfyd, ac y dylent, am hyny, gael eu rhybyddio yn garedig, a gweddio drostynt gan y rhai sydd yn gweled ei ddyfodiad.

Wrth edrych ar Timotheus, gwelwn na ddylai Cristion brysuro ei symudiad o un maes o lafur, nac oedi myned i faes arall, rhag ofn cystuddiau; y dylai ymnerthu o ran ei feddwl gyda golwg ar yr hyn a ddichon ddyfod arno; y dylai dyoddefiadau ereill, nid ei ddigaloni ef, ond ei wneyd ar unwaith yn bwyllog ac yn ewyllysgar i fyned drwy ddyoddefiadau cyffelyb; ac hyd y nod mewn perthynas i Gristionogion enwog, pan y gelwir hwynt i wasanaethu Duw, gallai fod yn bwysig i symud ymaith y pryder ar anhawsderau y dichon iddynt eu teimlo o berthynas i'r alwad.

Wrth edrych yn gyffredin ar amcan yr Epistol, a chyssylltu geiriau y testun âg ef, gallwn ddysgu y fath wersi a'r rhai canlynol. Mewn tymmorau o erlidigaeth, y mae gwroldeb ysbrydol, cariad, a meddwl pwyllog yn anhebgorol angenrheidiol. Y mae yn briodol, mewn tymmorau o'r fath, i weision Duw gynhyrfu eu gilydd i bleidio yr achos cyffredin, ac annog eu gilydd i ffyddlondeb ac ufydd-dod mewn dyoddefaint. Cyn yr annogom arall i gymmeryd arno wasanaeth anhawdd, dylem, drwy weddio drosto a'i gynghori, geisio ei ddarparu ar ei gyfer. Yr addasrwydd i wasanaethu yn nheyrnas Crist ydynt roddion o eiddo yr Ysbryd Glân.

Pummed ffynnonell darlleniad addysgiadol yw cymhariaeth o'r adnod âg adnodau ereill yn yr ysgrifeniadau santaidd. Yn yr achos yma, nid cyfochredd (*parallelism*) geiriawl yn unig sydd yn awgrymu y wers, ond cyfochredd meddwl a gwirionedd.

Cymmerwn ymadrodd ar ol ymadrodd. "Am hyny, na fydded arnat gywilydd."

Yn Rhuf. 1, 16, a Phil. 1, 20, y mae Paul yn cadarnhau "nad oes arno ef gywilydd o efengyl Crist," a'r un gwroldeb y mae yn ei ofyn yn Timotheus. Oddiwrth hyn, gellir dywedyd nad ydyw dysgawdwyr ffyddlawn yn dysgwyl oddiwrth ereill yr hyn y maent hwy eu hunain yn ei wybod sydd anmhosibl; ac etto, y mae y rhai sydd yn annog i amynedd oreu yn ei ddangos drwy siampl cyn y byddont yn ei gymhell drwy orchymyn.

"Cydoddef di gystudd â'r efengyl."

Oddiwrth 1 Thes. 3, 2—4, dysgwn i Timotheus gael ei anfon i Thessalonica i sefydlu ac i gysuro yr eglwys, fel na buasai i neb gael ei ddigalonî drwy eu cystuddiau; a chasglwn oddiwrth Rhuf. 8, 17, 18, fod cyfranogiad o ddyoddefiadau yn hanfodol i gyfranogiad o ogoniant. Casglwn oddiwrth hyn, fod Timotheus mewn modd neillduol yn cael ei rwymo i gadw yr hyn oedd ef ei hunan wedi ei ddysgu, a bod y rhagolygiad o wynfyd dyfodol, yr hwn sydd gyfartal i'n dyoddefiad santaidd ac ymroddgar, yn ddigonol i ddifodi pob cywilydd o herwydd ein cystudd presenol.

Gellir cael gwersi cyfartal o ran eu pwysigrwydd a'u dyddordeb wrth gymharu ail frawddeg yr adnod â rhanau ereill. Gwel 1 Cor. 4, 9; 2 Cor. 11, 13—33, lle y dywed yr apostol fod cystuddiau yn sêl ei apostoliaeth; a 1 Pedr 4, 13; a Col. 1, 24, lle y r annogir Cristionogion, nid yn unig i ddyoddef cystuddiau, ond hefyd i orfoleddu ynddynt; a Dad. 12, 11, lle y mae diwedd cystuddiau yn cael eu gosod allan yn ngwynfyd-edigrwydd y rhai sydd yn awr gerbron yr orsedd. Drwy gyfeirio at 1 Pedr 3, 13, a 4, 17, gwelir nad ydyw hyd y nod yr annuwiol yn rhydd oddiwrth ddyoddefaint, ac mai y ffordd sicraf i ochelyd cystuddiau, neu, os na ellir eu gochelyd, o gael cysur ynddynt, yw, drwy feithrin ffyddlondeb fel Cristionogion.

533. Y rheolau yma ydynt o ddefnydd helaeth. Gellir eu cymhwyso at yn agos yr oll o'r Beibl; a chan fod myfyrdod o'r fath yma yn nodedig o addysgiadol, dichon y byddai o les rhoddi enghraifft neu ddwy etto o'u cymhwysiad.

Cymmerwn adnod o hanes ein Harglwydd. Yn Ioan 11, 15, darllenwn, "Ac y mae yn llawen genyf nad oeddwn I yno, er eich mwyn chwi, fel y credoch; ond awn ato ef." Meddyliwn fod ystyr y geiriau wedi ei gasglu oddiwrth ddefnyddiad cyffredin iaith, ac oddiwrth gymhariaeth â rhanau ereill o'r Ysgrythyr. Y rhai canlynol yw ffeithiau eglur yr adnod. Yr oedd Crist yn *llawen*. Yr oedd yn llawen *er mwyn* ei ddysgyblion. Yr oedd yn llawen am *nad oedd ef yno*. Yr oedd yn llawen am nad oedd ef

yno *fel y credent hwy*. Yr oedd, er hyny, yn caru Lazarus, ac yn penderfynu ei adferu, ac am hyny y dywedodd, "ond awn ato *ef*."

1. Yr oedd Crist *yn llawen*.

Gall llawenydd fod ar rai amseroedd yn weddus; wrth gyssylltu y ffaith yma âg adnodau 14, 35, 36, casglwn y gall dygwyddiad blin ynddo ei hunan fod yn ffynnonell llawenydd i'r Cristion; neu, wrth gyssylltu y ffaith hon â ffeithiau cyffelyb yn yn Ysgrythyr, cawn fod llawenydd ein Ceidwad bob amser yn seiliedig ar yr hyn a dueddai at leshad ei ddysgyblion, neu ogoniant ei Dad.

2. Yr oedd yn llawen *er mwyn* ei ddysgyblion.

Casgliad eglur yw fod meddwl haelfrydig yn teimlo dedwyddwch yn niwylliad rhai ereill; un arall yw, fod rhai o ymddygiadau Crist yn cael eu cynhyrfu gan amcan at les ei ddysgyblion. Y ddau wirionedd yma ydynt yn y frawddeg. Oddiwrth y cyd-destun cawn y gall un Cristion, weithiau, ddyoddef er lles ereill. Wrth gymharu yr ymadroddion yma â rhanau ereill yr Ysgrythyr, tynwn casgliad mwy cyffredinol fyth. Pob peth a wnaeth neu a ddyoddefodd Crist, a wnaed er mwyn ei eglwys. A waghäodd ef ei hunan o ogoniant, ac a ddaeth i'n byd ni mewn amgylchiadau o'r ymostyngiad dyfnaf? "*Er ein mwyn ni* y daeth efe yn dlawd." A aeth efe drwy ddyoddefiadau mwy amrywiol ac arteithiol nag a wyddai y natur ddynol o'r blaen am danynt? "Efe a gymmerth ein gwendid ni, ac a ddyg ein doluriau." A ymroddodd efe i'n llesoli ni, ac a santeiddiodd efe ei hunan i waith y gyfryngwriaeth? Yr oedd hyny er ein mwyn ni, fel y santeiddid ni drwy y gwirionedd (Ioan 17, 19). A gysurwyd ef gan lais o'r nefoedd? "Nid o'm hachos I y bu y llef hon," meddai efe, "ond o'ch *achos chwi*" (Ioan 12, 30). A adawodd efe y byd ar ol iddo ddyoddef? Yr oedd hyny am ei fod yn "fuddiol" i *ni*. A ydyw efe yn awr ar ddeheulaw y Mawredd yn y goruwch-leoedd? Y mae hyny fel, os pecha neb, y byddo i *ni* "Eiriolwr gyda'r Tad." Y mae hyd y nod gweinyddiad ei ragluniaeth yn cael ei ddwyn yn mlaen gyda golwg ar les ei eglwys. "Efe a geryddodd freninoedd *o'u plegid hwy*." Arbedodd yr hen Israeliaid er eu bod yn euog, ac efe a ddywed wrthynt, iddynt gael eu harbed er mwyn y gweision gwirioneddol a gafodd ef yn eu mysg hwynt, Esay 65, 8. Yn fwy cynnwysfawr fyth, y mae yn sicrhau fod pob peth er ein *mwyn ni*, ac mai ein heiddo ni yw bywyd ac angeu, pethau presenol a phethau i ddyfod, Rhuf. 8, 28; 2 Cor. 4, 15.

3. Yr oedd yn llawen *am nad oedd* efe yno, hyny yw, i iachau y claf.

Gall attal gwaredigaeth fod yn fendith. Wrth gymharu yr adnod yma âg adnodau 21 a 32, lle y mae Martha a Mair yn mynegu eu syndod *nad oedd* Crist yno, ac etto âg adnodau 44, 45, lle y dywedir i'r Iuddewon gredu, casglwn fod amcan Crist yn cael ei gyflawnu weithiau drwy foddion annghysson â dysgwyliadau ei ddysgyblion. Dysgir y gwirionedd yma mewn ffurf gyfyngedig yn y cyd-destun. Wrth gymharu y gwirionedd a geir allan fel hyn âg hanesion cyffelyb, deuwn i'r penderfyniad cyffredinol, nad ydyw ffyrdd Duw fel ein ffyrdd ni, na'i feddyliau ef fel ein meddyliau ni. Er enghraifft, gwerthwyd Joseph i'r Aifft yn ingoedd ei enaid, ac yn nghanol galarnadau ei dad. Yn yr Aifft, dyoddefodd demtasiwn chwerw a chareharlad, etto, ymddengys ei holl gystuddiau yn awr yn rhan o'r cynllun dwyfol, ac y mae yn sicr iddo fod yn foddion i gadw yn fyw ei deulu. Heblaw hyny, profodd yn fanteisiol i'w anrhydedd ei hunan; ac y mae hanes ei brofedigaethau yn awgrymu llawer gwers er diwylliant i bobl ieuainc yn mhob oes.

Rhaid fod dyoddefiadau Job yn ymddangos ar y cyntaf yn ddirgelaidd; ond ar ddiwedd ei hanes, fodd bynag, y mae y cyfan yn cael ei egluro, oblegid bendithiodd Duw ei ddiwedd yn fwy nâ'i ddechreuad, a rhoddodd iddo anrhydedd mewn cyfartalwch i'w gystuddiau blaenorol, ac y mae wedi trosglwyddo ei hanes i lawr fel addysg barhaus o amynedd a ffydd.

Y tri Hebrëwr ieuainc yn Babilon a gafwyd yn ffyddlawn yn mhlith yr anffyddlawn, a thaflwyd hwynt i'r ffwrn danllyd am eu hufydd-dod cydwybodol i'r gyfraith ddwyfol. *A oedd* Duw yno, ac a gyfryngodd efe ar eu rhan? Nid yn y ffordd y buasai dyn yn gobeithio, ond yn ei lwybr ef ei hunan. Gwnaeth eu dyoddefiadau yn foddion i roddi i'r eglwys addewid newydd am y Messiah (oblegid gwelid pedwerydd yn rhodio gyda hwynt); ac yr oeddynt hwy eu hunain heb eu niweidio, fel nad oedd cymmaint a sawyr y tân arnynt. Yn y diwedd hefyd, nid ar y dechreu, gorfodwyd y brenin paganaidd i gydnabod nad oedd un Duw yn alluog i waredu fel Duw yr Hebreaid. Yn mhob un o'r achosion yma, cyflawnwyd yr amcan dwyfol mewn modd hollol wahanol i ddysgwyliadau y dyoddefwyr. Yn yr un modd hefyd y gellir egluro y rhan hon o'r adnod fel yn dysgu y ffolineb o furiau goruchwyliaethau Duw yn ystod eu gweithrediad, a'r doethineb o aros hyd y dydd y gwneir y cyfan yn amlwg.

4. Hyn oll a wnaed fel y *credai* y dysgyblion.

Y mae Crist, gan hyny, yn ei ymddygiadau, yn awyddus i gymmyddu ein ffydd ni. Nid oedd ei ddysgyblion, fel yr ydys wedi tybied, yn hygoelus, ond yn wahanol i hyny. Nid tueddodd eu ffydd, ond argyhoeddiad, a chanlyniad profion. Am hyny, eu crediniaeth o'r pethau a ddatfuasant a ddylai ychwanegu at rym eu tystiolaeth. Wrth gymharu y rhan hon o'r adnod âg adnod 45, lle y dywedir i lawer o'r Iuddewon credu, fel canlyniad y wyrth, gellir casglu fod yr un arddangosiad o'r gallu Dwyfol âg sydd gyfaddas i gynnyddu ffydd credadyn yn gyfaddas i gynnyrchu argyhoeddiad yn yr anmhenderfynol. Wrth ei chymharu âg Ioan 20, 31, casglwn y dylai gwyrthiau yr efengyl gael yr un dylanwad arnom ni ag ar y rhai oedd yn llygad-dystion o honynt; y mae y cofnodiad o honynt gan dystion credadwy yn eu gwneuthur yn wyrthiau parhaus. Wrth ei chymharu âg adnod sydd yn golygu fod y dysgyblion wedi credu, casglwn fod ffydd yn caniatau cynnydd; ac wrth ei chymharu â Rhuf. 5, 1, lle y dywedir fod Cristionogion yn cael eu "cyfiawnhau drwy ffydd;" ac âg Actau 26, 18, lle y dywedir eu bod yn cael eu "santeiddio drwy ffydd;" ac â Gal. 2, 20; 2 Cor. 1, 24, lle y dywedir mai ffydd yw dirgelwch eu bywyd a'u sefydlogrwydd, casglwn fod y cynnydd hwn mewn ffydd yn werthfawr yn ngolwg yr Arglwydd, oblegid y mae yn dwyn gydag ef i'r Cristion gynnydd mewn defnyddioldeb a thangnefedd.

5. Yr oedd Crist, er hyny, wedi penderfynu myned ato *ef*.

Gallasai ei achos ymddangos yn beryglus, ond nid oedd y tu hwnt i gyrhaedd gallu Dwyfol. Y mae Crist yn aml yn gwneyd uwchlaw ein meddwl ni. Eithafion perygl y dyoddefydd oedd cyfleusdra y Prynwr.

Wrth gymharu yr adnod yma â'r un ganlynol, amlwg yw fod geiriau ein Harglwydd yn cael eu camddeall yn fynych, a'u camddeall o herwydd annghrediniaeth.

Wrth gymharu y rhan yma o'r adnod âg adnod 8, dysgwn fod Crist yn barod i wneyd ei hun yn agored i berygl personol mewn trefn i gysuro a gwaredu ei ddysgyblion.

Wrth ei chymharu âg adnodau 42—44, casglwn fod y cystudd ei hun yn cael ei symud pan fyddo amcan y cystudd wedi ei ateb. Oddiwrth yr holl

adnod, casglwn fod Duw yn llefaru wrthym ni yn nghystuddiau rhai eraill, sc os bydd i ni ddiystyru ei lais, byddwn yn fwy teilyg o gael ein ceryddu ein hunain.

534. Y mae myfyriwr yr Ysgrythyr weithiau yn awyddus i gael allan beth y mae yn ddysgu ar ryw un pwnc. Yn yr achos yma, defnyddia bob adnod, nid gyda chyfeiriad neilldual at yr hyn oll a gynnwysa, ond at y gwirioneddau y mae efe yn ei chwilio; y mae yr ymarferiad yma yn cynnwys myfyrdod rheolaidd (*systematic*) ac addysgiadol (*inferential*) o'r Beibl.

Os, er enghraifft, yr ewyllysia gael golwg gyflawn ar yr hyn a ddysgir yn yr Ysgrythyr o berthynas i gystudd, y mae yn chwilio ychydig o adnodau, ac yn cael yn fuan eu bod yn dechreu trefnu eu hunain yn ei feddwl. Yndeinia rhai â *chystudd yn gyffredinol*, rhai â *chystuddiau Cristionogion*, a rhai â *chystuddiau yr anedifeiriol*, tra y mae, drwy y cyfan, yn cael gwirioneddau a dyledswyddau wedi eu cymmysgu yn y modd mwyaf addysgiadol. Yn y diwedd y mae yn cael allan y fath ganlyniadau a'r rhai canlynol:—

Cystudd:—Dynion wedi eu geni iddo, Job 5, 6, 7. Sydd ganlyniad a cheapedigaeth pechod, Gen. 3, 16—19; Diar. 1, 31; 2 Sam. 12, 14; Salm 89, 30—32; Esay 57, 17; Jer. 2, 14—17. Am yr hwn, fodd bynag, nis gall wneyd iawn, Esay 5, 25; Lef. 26, 14—39; Galar. 3, 1—12; Dan. 9, 16—19. Appwyntir ef gan Dduw, yr hwn a reola ei fesur a'i barhad, Sal. 66, 11; Job 1, 21; Galar. 3, 33; 2 Bren. 14, 26, 27; Esay 9, 1; Jer. 46, 28; Gen. 15, 13, 14; Jer. 29, 10. Y mae yn fynych yn drwm ac yn chwerw, Sal. 18, 4, 5; 1 Pedr 4, 12; ond wedi ei dymheru â thrugaredd, ac yn llai nag yr ydym ni yn ei haeddu, Sal. 78, 38, 39; Esay 30, 20; Ezra 9, 13.

Cystudd a fendithir yn aml i'r Cristion; y mae yn dangos iddo ei gyfeiliornadau, Num. 21, 6, 7; Luc 15, 16, 17. Yn ei ddwyn yn ol at Dduw, ac yn ei gadw yno, Sal. 78, 34; Hos. 2, 6, 7; Esay 10, 20; Ezec. 14, 10, 11. Yn ei ddarostwng, yn profi ac yn perffeithio ei amynedd, ei ffydd, a'i ufydd-dod, Rhuf. 5, 3; 1 Pedr 1, 7; Judas 3, 4; Heb. 11, 17. Yn profi ac yn dangos ei ddidwylledd, Job 23, 10; Diar 17, 3. Yn ei addasu i fwy o ddefnyddioldeb; yn egluro y Beibl, ac yn puro ei galon, Mal. 3, 23. Yn tueddu at ëangiad yr efengyl, Act. 8, 3, 4; 2 Tim. 4, 17. Yn egluro gallu a chariad Duw, 2 Cor. 4, 7—11; Ioan 9, 1—3; 11, 4. Yn terfynu, pan yn cael ei iawn ddyoddef, mewn bendigedigrwydd mwy, 1 Pedr 4, 13, 14, &c.

Canfyddir ei ddylanwad yn Joseph a'i frodyr, Gen. 42, 21; yn Israel, Deut. 8, 3, 5; Dafydd, 2 Sam. 16, 12; Josiah, 2 Bren. 22, 19; Hezeciah, 2 Cron. 32, 25, 26; Manasseh, 2 Cron. 33, 12.

Cystudd, yn achos yr anedifeiriol, a luosogir, a hyny yn aml yn ddisymmwth, Sal. 32, 10; 16, 4; Diar. 6, 15; Esay 30, 13. Canlyniad anedifeirwch ydyw, Zech. 7, 11, 12; Diar. 1, 24—33. Y mae ynddo ei hunan yn aneffeithiol er argyhoeddiad; yn aml caleda y galon, neu cynnyrcha ofn gwasaidd, Esay 1, 5; Jer. 2, 30; Neh. 9, 27—29; Jer. 49, 5. Nid ydyw yn achos ofn i'r cyfiawn, Sal. 90, 1, 5. Y mae yn rhybydd i eraill, 1 Cor. 10, 5—11; 2 Pedr 2, 6. Gogoneddir Duw ynddo, Ezec. 28, 22, 23.

Gwelir ei ddylanwad yn Pharaoh, Ex. 8, 8—15; Ahaziah, 2 Bren. 1, 1—4; Gehazi, 2 Bren. 5, 27; Jehoram, 2 Cron. 21, 12—19; Athaliah, 2 Cron. 22, 10; Uzziah, 2 Cron. 26, 19, 21; Ahaz, 2 Cron. 28, 5—8, 22.

Y CRISTION CYSTUDDIOL, ei ddyledswydd yw arfer ymostyngiad ac amynedd, Sal. 39, 9; Iago 1, 4; 1 Pedr 2, 20. Cydnabod cyfiawnder ei geryddon, Mic. 7, 9. Gochelyd pechod, Iesu 5, 14. Ymddiried yn Nuw, Sal. 71, 20; Sal. 56, 11. Ei foli, Sal. 35, 18; Sal. 56, 8—12. Cymmeryd cefnogaeth oddiwrth drugareddau a fwynhäwyd, Sal. 42, 4, 5; 2 Cor. 1, 10. Cofio fod Duw wedi addaw bod gydag ef mewn amser o gyfyngder; y bydd iddo eigynnal, ei gysuro, a'i waredu yn y diwedd, Esay 43, 2; Sal. 27, 5, 6; 2 Cor. 7, 6; Sal. 107, 13.

Dylai y CRISTION CYSTUDDIOL gael ymweled âg ef, tosturio wrtho, ei amddiffyn, ei gysuro, a'i gynnorthwyo, Iago 1, 27; Job 6, 14; Salm 82, 3; 1 Thes. 4, 18; 1 Tim. 5, 10.

Eglurir cymmeriad y Cristion cystuddiol yn Joseph, Gen. 39, 20—23; Moses, Deut. 9, 18, 19; Job, 1, 22; Eli, 1 Sam. 3, 18; Ezra, Ez. 9, 5; Nehemiah, Neh. 1, 1; Daniel, Dan. 9, 3—19; Paul, Act. 20, 22—24; 2 Cor. 12, 7—9; Apostolion, 1 Cor. 4, 9—13; 2 Cor. 6, 4—10.

535. Etto, y mae y myfyriwr Ysgrythyrol yn awyddus i chwilio hanes yr Ysgrythyr mewn modd ymarferol, o berthynas i unrhyw ffaith neillduol; neu ddammegion, gyda golwg ar eu hamcan; ac yna y gofyniad yw, pa beth a ddysgir ar bwnc yr ymchwiliad gan bob darn ymadroddd (*phrase*), neu adnod.

Er enghraifft, gellir cael golygiadau amrywiol ar ddammegion y Mab Afradlon; naill ai fel arddangosiad o Phariseaeth a'i gwrthgyferbynydd, gyda Neander, neu fel arddangosiad o wir edifeirwch, a'r driniaeth a dderbynia dyn oddiwrth Dduw, gyda Lisco. A chymmeryd yr ail olygiad, cawn y cyssylltiad canlynol o feddyliau:—

i. Cawn yr angenrheidrwydd am edifeirwch, yn seiliedig (Luc 15, 11–32),

1. Yn y sefyllfa o bechadurusrwydd blaenorol:—
   (*a.*) Ei ddechreuad, ad. 12. Ystyfnigrwydd hunanddigonol; fy Nhad, dyro i mi.
   (*b.*) Ei natur, ad. 13. Ac ar ol ychydig ddyddiau.
   (*c.*) Ei ymddangosiad, ad. 13. Yno efe a wasgarodd.
2. Yn y trueni sydd yn canlyn pechod:—
   (*a.*) Y mae y dyn o hyd yn awyddus am fendigedigrwydd, ad. 14.
   (*b.*) Ac yn teimlo ei drueni, ad. 14. A ddechreuodd fod mewn eisieu.
   (*c.*) Ceisia waredigaeth yn ofer, ad. 15. Efe a aeth ac a lynodd.
   (*d.*) Sudda yn hŵy ac yn ddyfnach, ad. 15. Anfonwyd i borthi moch.
   (*e.*) Heb gael yr hyn a ddymunai, ad. 16.

ii. Darlunir natur edifeirwch:—

1. Y mae y pechadur yn dyfod i'w iawn bwyll, ad. 17.
2. Y mae yn canfod mawredd ei drueni, ad. 17. Pa sawl gwas, &c.
3. Ffurfia benderfyniad da, ad. 18. Mi a godaf
4. Cydnebydd ei euogrwydd, ad. 18. Fy nhad, pechais.
5. Darostynga ei hunan, ad. 19.
6. Ac y mae, drwy ffydd, yn dychwelyd yn weithredol, ad. 20. Efe a gyfododd, ac a ddaeth at ei dad.

iii. Canlyniadau edifeirwch, ad. 20—30.

1. Mewn cyssylltiad â Duw tosturiol, ad. 20—24.

(*a.*) Y mae Duw yn canfod y teimlad edifeiriol, ad. 20. Pan oedd efe etto yn mhell.
(*b.*) Y mae yn grasol iderbyn y pechadur, ad. 20. Ei dosturi.
(*c.*) Y mae yn rhwyddhau cyflawniad ei amcan, ad. 21.
(*d.*) Yn ei lwytho âg arwyddion o gariad a daioni, ad. 22, 23.
(*e.*) Ac yn galw am fynegiad cyffredinol o lawenydd, ad. 24.

2. Mewn cyssylltiad â'r hunan-gyfiawn, ad. 25—32.

(*a.*) Cynhyrfir cenfigen eu calonau, ad. 28. Efe a ddigiodd.
(*b.*) Cyhuddant Dduw o annghyfiawnder, ad. 29, 30.
(*c.*) Edrychant dros ddaioni grasol Dduw iddynt eu hunain, ad. 31.
(*d.*) A throseddant rwymedigaethau cariad cyffredinol, ad. 32.

Felly hefyd yn nammeg y gŵr goludog a Lazarus, yr ydym yn cael annghrediniaeth bydol, Luc 16, 19—31—

i. Yn ei arddangosiadau :—

1. Syched diwala am fwynhad, ad. 19. A wisgid â phorphor, ac yn cymmeryd byd da.

(*a.*) Ceisia bob math o fwynderau.
(*b.*) Ceisia yn y rhai yma ei holl foddlonrwydd,—yn helaethwych beunydd.
(*c.*) Ystyria y tymmorol fel ei unig ddaioni.

2. Anelusengarwch calon galed, ad. 20, 21.

(*a.*) Diystyra y tlawd fel yn annheilwng, ad. 20.
(*b.*) Ymgaleda yn erbyn iawnderau trueni, ad. 20.
(*c.*) Nid ydyw yn estyn un cymhorth, ad. 21.

ii. Yn ei gyflwr olaf :—

1. Didwyllir ef mewn modd arswydus, ad. 22, 23.

(*a.*) O berthynas i werth ei fwynderau, ad. 23.
(*b.*) O berthynas i werth yr iachawdwriaeth a ddeallir yn awr yn anmherffaith.
(*c.*) O berthynas i'r cyssylltiad rhwng Lazarus a Duw, yn mynwes Abraham.

2. Y mae ei gamsyniadau pechadurus o hyd yn aros, ad. 24.

(*a.*) Gyda golwg ar ymddiried mewn bod o had Abraham. Dad Abraham.
(*b.*) Gyda golwg ar obeithion dychymmygol am iachawdwriaeth. Trugarha.
(*c.*) Gyda golwg ar ei ddewisiad ansantaidd o gysur personol. Trochi pen ei fys, ac oeri fy nhafod.

3. Y mae yn hunan-gondemniedig gan gydwybod euog, ad. 25—31.

(*a.*) Fel yn cael ei drin yn gyfiawn, ad. 25.
(*b.*) Fel yn analluog, oddiwrth gyflwr ei feddwl, o waredigaeth, ad. 26.
(*c.*) Fel yn ddiesgus.
Oblegid nid oedd mewn angen am foddion gras, ad. 27—29.
Oblegid fod y moddion yma yn ddigonol i iachawdwriaeth, ad. 30—31.*

* Gwel Lisco ar y Dammegion.

536. Gellir cyrhaedd y canlyniadau yn y siamplau yma (y rhai a ellir eu helaethu yn fawr) drwy drefn wahanol i'r hon yn mha un y maent yn awr yn cael eu rhoddi. Yma cawn yn gyntaf y canlyniad, ac wedi hyny yr adnod sydd yn profi; ond wrth chwilio pwnc, trown yn gyntaf o adnod i adnod, ac wedi hyny gosodwn i lawr eu meddwl yn y ffurf o wers gyffredinol. Y testun a'r wers yw trefn yr ymchwiliad; y wers a'r prawf yw trefn yr addysg.

Yr ymarferiad o ganlyn allan wirionedd yn y modd yma yw un o'r rhai mwyaf addysgiadol y gall Cristion ymwneyd âg ef.

537. Er myfyrdod pellach ar y rhan yma o'r pwnc, gwel unrhyw lyfr cyffredin (*common-place*) ar y Beibl—yn enwedig "Beibl Talbot," a llyfrau cyffredin Strutt a Locke. "Testunau Ysgrythyrol wedi eu trefnu" sydd lyfr tra defnyddiol o bynciau wedi eu dosparthu o dan eu priodol benau, ac yn cael eu hegluro drwy siamplau Ysgrythyrol.

Ar bwnc y bennod yma, darlleniad addysgiadol o'r Ysgrythyr, gwel "Institutiones Hermeneuticæ," gan Rambach, llyfr iv., pen. 3; "Arweiniad i Fyfyrdod o'r Ysgrythyr," gan Francke; "Traethawd ar Gyfansoddiad Pregeth," gan Claude; ac yn enwedig am egluriadau, "Esboniad" Mathew Henry, un o'r trysorfeydd cyfoethocaf o wirionedd efengylaidd. Ceir lluaws o siamplau dedwydd hefyd yn ysgrifeniadau y Parch. R. Cecil, a'r Parch. W. Jay.

RHAN II.

Llyfrau y Beibl.

Arweiniad.

"Er fod llawer o lyfrau ereill yn gyffelyb i frethyn, yn yr hwn, oddiwrth siampl fechan, y gallwn gyda diogelwch farnu yr holl ddarn, etto y mae y Beibl fel gwisg dêg o frithlen (*arras*), o'r hon, er y gall edafedd eich sicrhau o brydferthwch y lliwiau, ac ardderchogrwydd y defnydd, etto, nid ydyw y cylchleni (*hangings*) un amser yn ymddangos i'w gwir fantais, ond pan yn cael eu harddangos yn eu cyflawn faintioli, ac yn cael eu gweled gyda'u gilydd."—*Boyle, ar Ieithwedd yr Ysgrythyr.*

1. Deuwn yn awr at fyfyrdod o lyfrau y Beibl.

Yr ydym eisoes wedi ystyried—

Dosparthiadau cyffredin yr Ysgrythyr: y ddau Destament: y gyfraith, y prophwydi, a'r ysgrifeniadau santaidd perthynol i'r Hen Destament: yr Efengylau, Epistolau, Actau, a Dadguddiad y Testament Newydd: pennodau, adnodau, a dosraniadau ereill:

Hawliau yr Ysgrythyr gyda golwg ar ei bod yn bur, yn wirionedd, ac yn ysbrydoledig (Pen. i., ii.):

Neillduolion yr Ysgrythyr fel dadguddiad o Dduw, o ddyn, ac o drefn iachawdwriaeth yn cymmodi y ddau, ac ar unwaith yn sicrhau tangnefedd a santeiddrwydd: dadguddiad wedi ei gyflwyno yn raddol, yn mhob man yn gysson; yn cael ei ddysgu, fodd bynag, heb gyhoeddiad ffurfiol o unrhyw gyfundraeth, er fod y cwbl yn cydgyfarfod yn y groes (Pen. iii., 1—5):

Egwyddorion dehongliaeth, a defnyddioldeb cynnorthwyon allanol; ac uwchlaw y cyfan, yr ysbryd yn mha un y dylai ymchwiliadau i feddwl yr Ysgrythyr gael eu gwneuthur (iv., yn enwedig dos. 2):

Myfyrdod rheolaidd o'r Ysgrythyr; y moddion goreu i'w chymhwyso at fywyd ymarferol, a'r anhawsderau o amrywiol fathau sydd yn gyssylltiedig â'r holl bynciau yma (v., vi., vii.).

Wedi edrych yn y modd hyn ar yr Ysgrythyr santaidd fel cyfangorff, awn rhagom i chwilio rhanau neillduol, ac i gymhwyso, mewn modd mwy manwl, y rheolau a'r egwyddorion sydd wedi bod eisoes dan sylw.

Dwy Ran y Beibl.

2. Y mae y Beibl yn gyfansoddedig o ddwy ran: yr Hen Destament a'r Newydd. Cynnwysa yr ail ddadguddiad cyflawn o'r ewyllys ddwyfol, a chynllun o iachawdwriaeth a gynnygir i bawb. Fe allai nad ydyw y cyntaf yn cynnwys yr oll a ddadguddiodd Duw mewn amseroedd boreuol i'n hiliogaeth ni, ond yn unig yr hyn a welodd ef yn angenrheidiol ei gadw. Y mae pob rhan o'r hyn sydd wedi cael ei ddadguddio fel hyn yn "fuddiol i athrawiaethu, i argyhoeddi, i geryddu, i hyfforddi, ac i sefydlu mewn cyfiawnder."

3. Y mae defnyddio y Testament *cyntaf* yn dra phwysig; a mynegiad syml o'r defnyddiad a ddengys y cyssylltiad rhwng y ddau.

1. Er i'r rhan fwyaf o hono gael ei lefaru wrth *un genedl*, etto y mae

yn gosod llawer o rwymedigaethau *ar ddyn fel dyn*, ac yn cynnwys egwyddorion moesol sydd yn gyffredinol a thragywyddol. Y gorchymynion a roddwyd i Adda, y deg gorchymyn, ac appeliadau yr holl lyfr, ydynt yn egluro ac yn cymhell gwirionedd moesol.

2. Hanes llywodraeth Duw yw llawer o hanes yr Hen Destament. Yn y llywodraeth hono, eglura ei gymmeriad ei hun a'n heiddo ninau; a pha fantais bynag y dichon i ysgrif ysbrydoledig fel hon ei rhoddi, yr ydym yn ei chael oddiwrth y rhan hon o'r cyfrolau santaidd.

3. Yn mhellach, yr anmbosiblrwydd o gael iachawdwriaeth *drwy gyfraith* a ddysgir yn eglur yn yr oruchwyliaeth foreuaf. Y ffydd batriarchaidd, yn nghyd â'i chyflwyniadau uniongyrchol neu draddodiadol, a derfynodd mewn llygredigaeth, yr hwn nis gallai hyd y nod y Diluw ei attal. Sefydliadau cyfreithiol pwysig, yn nghyd â'r defodau mwyaf addysgiadol ac ofnadwy, a fethasant gadw y bobl rhag eilun-addoliaeth, er i'r Deddfroddwr Mawr ei hunan gyfryngu dro ar ol tro; a phan, ar ol y caethiwed, y peidiodd eilun-addoliaeth, ymestynai ffurfioldeb ac anffyddiaeth ar bob tu, ac yn y diwedd gorchfygasant (Rhan ii., pen. iv). Yn y cyfamser, gwnaed prawf o allu crefydd naturiol yn mhlith y paganiaid; a'r canlyniad o'r cyfan—y canlyniad o'r arbrawf a ddygwyd yn mlaen dan bob ffurf o lywodraeth, yn nghanol gwahanol raddau o wareiddiwch, gyda gwybodaeth draddodiadol a goleuni uniongyrchol, yw y prawf fod, yn ein sefyllfa gwympedig, *diwygiad drwy gyfraith* yn anobeithiol, ac oddieithr i ryw gynllun arall gael ei gyflwyno, fod yn rhaid i'r hiliogaeth ddynol gael ei cholli. Yr Hen Destament, gan hyny, a roddwyd mewn rhan i ddangos i ni ein pechodau, ac i'n cau i fyny i'r ffydd, yr hon oedd i'w dadguddio (Gal. 3, 23.)

4. Y mae hefyd yn arweiniad i'r ffydd newydd yma, yn dysgu i'r ysbrydol a'r gostyngedig dan yr oruchwyliaeth gyntaf, mwy neu lai o'r cynllun gwaredigol oedd i gael ei ddadguddio dan yr ail. Dyma amean ei gysgodau, ei brophwydoliaethau, a'i aberthau; hyn hefyd oedd achos sicrhad maddeuant i'r edifeiriol, ac o ddadguddiad o Dduw parod i faddeu, er nad oedd achos cynnyrchiol maddeuant, y ddarpariaeth oedd i gymmodi cyfiawnder a thrugaredd, wedi ei chyflawn ddadlenu, nac yn cael ei chyflawn ddeall, hyd oni chafodd gwaith cyfryngol Crist ei orphen.

Diammeu fod dybenion ereill yn cael eu hateb gan yr oruchwyliaeth gyntaf hon. Cadwwyd gwybodaeth o Dduw, yr hyn, oni bai hon, allasai ddiflanu, ac effaith gwir grefydd, hyd y nod yn ei ffurfiau lleiaf perffaith, a eglurwyd; ond y rhai blaenorol, fe allai, yw y penaf.

Y mae perthynas y Testament Newydd â'r amcanion yma yn eglur. Yr *ail*, neu y cyfammod newydd, sydd gyflawniad dyblyg o'r cyntaf. Fel yr oedd y cyntaf yn gyfammod o gysgodau a rhagfynegiadau, y mae yr ail yn ei gyflawnu; yn gosod y ffaith yn lle y brophwydoliaeth, a'r sylwedd yn lle y cysgod. Ond, fodd bynag, fel dan y cyntaf yr oedd dadguddiad o Dduw ac o ddyledswydd yn anmherffaith, ac y cafodd santeiddrwydd ei wneyd, neu y daeth yn seremoniol, cenedlaethol, a chyfyng, felly, yr ail a lanwodd i fyny y gyfundraeth o wirioneddau a gorchymynion ag oedd fel hyn wedi ei rhanol ddadlenu, gan ei dadblygu a'i hegluro gyda chymhwysiad mwy ysbrydol, a sicrhau iddi raddau cyfoethocach o ddylanwad yr Ysbryd. Y mae yr efengyl, gan hyny, mewn ystyr ddyblyg, yn gyflawniad (*plerôsis*) o'r gyfraith.

4. Wrth edrych ar yr holl Feibl yn ei gyssylltiadau, yr ydym yn alluog i olrhain dadleniad cysson o wirionedd dwyfol yn ei amrywiol ranau.

Yn yr un-hennod ar ddeg flaenaf yn GENESIS, ac yn JOB, cawn frasluniau o'r grefydd batriarchaidd; ac yn y pennodau olaf o Genesis, cawn hanes y trosiad (*transition*) oddiwrthi i orchwyliaeth dymmorol a chysgodol y gyfraith. Yn y gweddill o BUM LLYFR MOSES, cawn y gyfraith *foesol*, yn eglurhau ar unwaith y cymmeriad dwyfol a'r ddyledswydd ddynol; y *seremoniol* yn rhag-gysgodi yr Iawn mawr; a'r *wladol* yn foddion cadwedigaeth y ddwy ereill. Yn sefydliad yr Iuddewon dan JOSHUA, wrth ei ystyried ynddo ei hun, neu fel arwyddlun o bethau dyfodol; yn ngwrthgiliad yr Iuddewon, eu cospedigaeth a'u gwaredigaeth dan y BARNWYR; yn sefydliad swyddau prophwydol a breninol yn ychwanegol at yr un offeiriadol mewn LLYFRAU DIWEDDARACH; ac yn nhueddiad aunghyfnewidiol ond amrywiaethol rhagluniaeth Duw tuag at ei bobl neillduedig, cawn ein gwybodaeth o'r cymmeriad dwyfol wedi ei hamrywio a'i helaethu. Yn y SALMAU, cawn fynegiadau calonau addolgar, a llawer sydd yn rhagfynegiadol am dano ef, yn yr hwn y mae calonau addoliadol yn ymddiried. Yn NGEIRIAU SOLOMON, dysgwn ddoethineb yn nghyd â gwagedd y byd, a dygir ni yn mlaen at y byd hwnw lle nad oes gwagedd na gorthrymder, ac ar yr un pryd arweinir ni yn mlaen y tu hwnt i osodiadau doethineb bydol ato Ef, yr hwn yw y ddoethineb dragywyddol. Yn ei GAN briodasol, gwelwn Dduw mewn perthynas newydd i'r eglwys, nid mwyach yn Arglwydd (Baali), ond yn briod (Ishi) iddi. Yn ESAY, cawn y Messiah fel prophwyd, aberth, a brenin, ac yn casglu oddiwrth olygfeydd perthynol i'r caethiwed ddesgrifiadau o waredigaeth ddyblyg. Yn JEREMIAH, darlunir yr un golygfeydd, ond yn dywyll, fel mewn dydd cymylog a niwlog. Yn EZECIEL, y mae offeiriadaeth gysgodol yr Iuddewon yn cael ei heangu i addoliad mwy gogoneddus ac ysbrydol. Ac yn DANIEL, gwelwn derfyniad pob gallu breninol yn amberodraeth ddiddiwedd y Messiah. Y prophwydi BYCHAIN a gyflwynant yr un golygiadau am y llywodraeth ddwyfol, naill ai mewn Rhagluniaeth neu mewn gras; ac y mae MALACHI yn cau i fyny yr hen ddadguddiad gyda rhagfynegiadau am ymddangosiad dyfodol Haul y cyfiawnder.

Yn y Testament Newydd, y mae MATHEW, wedi i'r ysbryd prophwydol fod yn ddystaw am 400 mlynedd, yn cyssylltu yr hen Ysgrythyr â'r rhai nwy diweddar, ac yn perffeithio prophwydoliaeth drwy nodi allan ei chyflawniad yn Nghrist. LUC a'i dadguddia ef fel goleuni i oleuo y Cenedloedd; MARC, fel y Duw *cadarn*; IOAN, fel Tad *tragywyddoldeb*, ac fel Tywysog *tangnefedd*. Yr ACTAU a barhâ i egluro cyflawniad yr hen ragfynegiadau, a chyssyllta ffeithiau yr efengyl â hanes yr Epistolau. Er fod pob un o'r Epistolau yn rhoddi y rhan fwyaf o athrawiaethau yr efengyl, etto y mae pob un yn eglur gynnwys rhyw wirionedd neillduol. Yr Epistolau at y THESSALONIAID a ddangosant allu hunan-brofiadol yr efengyl yn nghalonau credinwyr, a gosodant allan bethau rhagflaenol, yn nghyd â chanlyniad yr ail-ddyfodiad. Yr Epistolau at y CORINTHIAID a eglurant unoliaeth Cristionogol, ac athrawiaeth yr adgyfodiad. Yr Epistol at y RHUFEINIAID a rydd i'r rhai nad ydoedd Paul wedi ymweled â hwynt olygiad cyflawn o'r efengyl, heb un cyfeiriad at ddadguddiad blaenorol, gan helaethu fwyaf ar y gwirionedd mawr o "gyfiawnhad drwy ffydd." Profir symledd y ffydd hono, ei hannibyniaeth ar y gyfraith, mewn gwrthwynebiad i ddeddfoldeb y dysgawdwyr Iuddewig, yn yr Epistol at y GALATIAID. Dengys yr Epistol at yr HEBREAID y cyssylltiad rhwng y ffydd Gristionogol a'r ddeddf; IAGO ac IOAN (Ep. 1), y cyssylltiad rhwng ffydd Gristionogol a santeiddrwydd ymarferol; tra y mae yr

Epistol at yr EPHESIAID yn dangos fod iaith yn anallùog i osod allan y cyflawnder a gyflwynir o holl oludoedd gras, o'r Pen drwy yr holl gorff. Epistolau ereill a ymdriniant â dyledswyddau a gwirioneddau arbenig, a chwblhëir y gyfundraeth ddadguddiadol gan LYFR Y DADGUDDIAD, yr hwn sydd yn uno ac yn terfynu y prophwydoliaethau sydd yn myned o'r blaen, ac yn cyflwyno yr eglwys, ar ol ei holl brofedigaethau a'i chyfnewidiadau, yn gyntaf i'w gorphwysfa milflwyddiannol ar y ddaear, ac wedi hyny i wynfydedigrwydd diddiwedd yn y nefoedd.*

Gellir desgriflo y gyfrol sydd yn llefaru ar y pynciau hyn fel yn gynnwysedig o *ddwy* ran; ond ffurfiant, mewn gwirionedd, *un llyfr*; ac y mae y gwirioneddau a ddadguddia bob amser yr un, pa un bynag ai yn rhanol ai yn gyffawn y byddont yn cael eu dadlenu, yn ol eu sefyllfa mewn perthynas i'r groes.

5. Gweddus yw i ni, gan hyny, iawn werthfawrogi y ddau Destament. Myfyrier yr *Hen* i weled beth y mae Duw wedi ei wneuthur, a pha beth, gan hyny, yw efe. Gwelir ynddo ardystiad difrifol yn erbyn eilun-addoliaeth; profion nas gall neb gael ei gyfiawnhau drwy weithredoedd y ddeddf; dadleniad graddol o'r ewyllys ddwyfol, ac o gynllun y prynedigaeth. Gwerthfawroger ef am y rhesymau hyn, ond cofier hefyd, pan ei gwrthgyferbynir â'r *Newydd*, fod ysgrifenwyr ysbrydoledig yn llefaru am dano mewn ymadroddion darostyngol. Galwant ef yn "dywyllwch," "cnawd," "llythyren," "caethiwed," ac yn "wyddorion y byd," tra mae yr efengyl yn "oleuni," yn "ysbryd," yn "rhyddid," ac yn "deyrnas nefol." Ac fel hyn y mae egwyddorion pwysig mewn dehongliaeth yn cael eu hawgrymu, a rhwymedigaethau arbenig ein sefyllfa ni yn cael eu gosod allan. Yn awr, y mae rhwymedigaeth ddyblyg arnom i fod yn gyflawn yn ei holl ewyllys ef. Y mae ein goruchwyliaeth ni yn oleuni, byddwn, gan hyny yn ddoeth; ysbryd ydyw, gan hyny, byddwn santaidd; gallu ydyw, gan hyny, byddwn gryf.

6. Gellir dosranu pedwar llyfr ar bumtheg ar hugain yr Hen Destament ar wahanol egwyddorion. Weithiau, dosparthir hwynt yn ol eu cynnwysiad: y Pum-llyfr, y llyfrau hanesyddol, y llyfrau barddonol, a'r prophwydi. Y mae y rhaniad yma yn ddigon cywir, er fod rhai o'r llyfrau yn perthyn i ddau neu ragor o ddosparthiadau, ac nid ydyw y rhaniad wedi cael ei gadw bob amser. Weithiau, dosrenir hwynt yn ol trefn amser, a chan fod llawer o feddwl yr Ysgrythyr i'w gael allan drwy fyfyrdod amseryddol (*chronological*) o'r gwahanol lyfrau, nyni a'u trefnwn yn y modd yma, heb golli golwg, fodd bynag, ar yr amrywiaeth amcan a chynnwysiad ar ba rai y mae y rhaniad arall yn gorphwys.

Rhaid peidio esgeuluso y pwysigrwydd o rag-arweiniadau penodol i bob un o lyfrau y Beibl. Y cyfryw rag-arweiniadau a brofant yn fynych, fel y dywedodd yr Esgob Percy, "yr esboniadau goreu, ac yn aml iawn difodant yr angen am yr un o honynt." Fel arweinydd deallus, iawn gyfarwyddant y darllenydd ar ei darawiad cyntaf allan, a thrwy hyny arbeda iddo y drafferth o lawer o ymchwiliaeth; neu, fel darlunlen o wlad, yr hon sydd i'w theithio, rhydd iddo olygiad cyffredinol ar ei daith, a rhwystra ef mewn canlyniad i ymddyrysu a cholli y ffordd.

Dechreuwn gyda Phum Llyfr Moses a llyfr Job.

* Gwel Douglas ar "Wirioneddau Crefydd."

PENNOD I.

Pum Llyfr Moses a Llyfr Job.

Dos. 1. *Purdeb (genuineness) a Gwirionedd (authenticity) y Pum-llyfr.*

7. Yr holl gopiau cyflawn o'r Ysgrythyr a ddechreuant gyda'r Pum-llyfr. Gelwid hwynt gan yr Iuddewon "y gyfraith," neu yn fwy cyflawn, "y pum pummed (*five-fifths*) o'r gyfraith," neu, yn syml, y pummau; llyfr unigol a elwid "y pummed."[a] Yr amrywiol lyfrau a gymmerant eu henwau yn Hebraeg oddiwrth y gair neu y geiriau cyntaf. Cymmerir yr enwau Cymreig oddiwrth y cyfieithiad Groeg, a dynodant mewn rhan y pynciau â pha rai yr ymdriniant. Ystyr yr enwau a roddir ar y llyfrau yma, yn y Groeg Alexandriaidd, yw, "Y Pum Cyfrol," enw a ddefnyddiwyd ar y cyntaf, mae yn debyg, yn ol y dosraniad i bum llyfr, gan y beirniaid Alexandriaidd.[b]

8. Tystiolaeth pob traddodiad Iuddewig a phaganaidd yw, mai Moses oedd awdwr y Pum-llyfr; a chynnelir y dystiolaeth yma gan yr ysgrif ei hun.[c] Heblaw hyny, dyfynir y llyfr fel ei waith ef gan yn agos yr oll o'r ysgrifenwyr ysbrydoledig,[d] ac y mae ein Harglwydd a'i apostolion yn appelio ato fel un pur a gwirioneddol.[e] Dyfyniadau yr Hen Destament a ddechreuant gyda Josua, c. c. 1451, a chyrhaeddant dros fwy nâ mil o flynyddoedd, c. c. 430. Yn wir, y mae y cyfatebiadau rhwng y Pum-llyfr a'r llyfrau diweddarach mor lluosog ac mor gywir, fel y gallesid casglu meddwl y gyfraith, pe buasai y gyfraith ei hunan wedi diflanu, allan o'r rhanau ereill o'r Beibl; y mae gan bob cyfeiriad yn y llyfrau diweddaraf hefyd ei ddarn cyfatebol yn y Pum-llyfr.[f]

Mae tystiolaeth hanesiaeth gyffredin, wrth gwrs, yn llawer diweddarach nag eiddo yr Ysgrythyr. Dadleua Mahomet (o. c. 569) fod Moses yn ysbrydoledig, a'r gyfraith Iuddewig yn ddwyfol. Cydnabyddai Julian, y gwrthgiliwr (331), fod personau wedi eu dysgu gan Dduw yn byw unwaith yn mhlith yr Israeliaid, a phleidiai burdeb a gwirionedd y llyfrau hyn. Addefa Porphyry (233) eu purdeb, a dadleua dros wirionedd adroddiadau Sanconiathon oddiwrth eu cydundeb â'r hanes Foesenaidd. Y mae Nicolaus o Damascus, areithiwr enwog, a Strabo, y ddau yn gydoeswyr âg Augustus, yn priodoli y Pum-llyfr i Moses; fel hefyd y gwna Tacitus, Juvenal, a Longinus (o. c. 273).

Profion mewnol a gadarnhânt y golygiad yma. (1.) Eglur yw i'r llyfrau gael eu hysgrifenu gan Iuddew, yn llefaru iaith, ac yn meithrin syniadau ei genedl. (2.) Ysgrifenwyd hwynt gan Hebrewr cydnabyddus â'r

[a] "Hummashyn," ac "Humash, Humishah, Humeshi, Het."

[b] Havernick, *Teuchos*, yn gyffredin a olyga offeryn.

[c] Deut. 31, 9, 24, 26; Exod. 17, 14; 24, 4—7; 34, 27, 28; Num. 33, 2; Deut. 28, 58—61.

[d] Jos. 1, 7, 8; 23, 6. Cymharer 24, 26; 8, 32, 34; 1 Bren. 2, 3; 2 Bren. 22, 8; 2 Cron. 34, 14.

[e] Math. 15, 4; 5, 17, 18, &c.

[f] 2 Bren. 14, 6, a Deut. 24, 16. 2 Bren. 23, 2—25, a Lef. 26, 3—45; Deut. 27, 11 i 28, 68. Ezra 3, 2—6, a Lef. pen. 6, 7. Neh. 1, 7, 8, a Lef. 26; Deut. 4, 26, 27. Esay 1, 9, a Gen. 19, 2—4. Esay 12, ac Exod. 15, 2. Mic. 6, 5, a Num. 22, 5, &c. Amos 2, 9, a Num. 21, 21—24. Amos 4, 11, a Gen. 19, 24, 25.

Aifft ac Arabia, eu harferion, a'u dysgeidiaeth.[a] Ond yr oedd dysgeidiaeth Aifftaidd yn cael ei chuddio yn ofalus rhag dyeithriaid (Her. ii. c. 3, 100, 101, 164, 168). Nid oedd yn agored ond i'r offeiriaid yn unig, ac i'r teulu breninol, y rhai a gyfrifid fel offeiriaid. Rhaid, gan hyny, fod yr ysgrifenydd yn perthyn i'r dosparth hwn. (3.) Heblaw hyny, y mae cydundeb perffaith rhwng yr hanes a'r sefydliad, yr hyn a ddengys mai un awdwr oedd i'r ddau. Nid yw y cyfreithiau yn cael eu rhoddi yn y ffurf o osodiadau, ond y maent wedi eu cymmysgu â'r hanes, ac yn cael eu gosod i mewn fel yr oedd angen am danynt yn cyfodi. Y maent yn aml wedi eu byr-eirio, ac wedi hyny yn cael eu hail-adrodd gyda mwy o helaethrwydd, gyda'r fath gyfnewidiadau ag oedd yn ofynol gan wahanol amgylchiadau.[b] (4.) Nid ydyw y cydundeb rhwng ieithwedd y gwahanol lyfrau, ac amgylchiadau Moses, yn llai nodedig. Yr hanes yn nechreuad Exodus a Numeri sydd dòredig a swta. Yn Deuteronomium, y mae yn barhäol a thadol. Y mae hanes y cyn-ddiluwiaid yn fyr a syml; hanes yr Iuddewon yn gyflawn ac eglur; ac arddengys y cyfan yr undeb amcan hwnw sydd yn profi mai un oedd eu hawdwr.

Yr ammheuaeth cyntaf a gyhoeddwyd yn Lloegr ar y pwnc yma, oedd gan Thomas Hobbes, o. c. 1650, o leiaf dair mil o flynyddau ar ol cyhoeddiad y Pum-llyfr. Ac ni chyhoeddwyd ammheuon gan unrhyw ysgrifenydd adnabyddus yn foreuach nâ'r 13eg ganrif.

9. Nid ydyw y profion o wirionedd y Pum-llyfr yn llai penderfynol; ond o herwydd nad ydyw llawer o'r dygwyddiadau yn cael eu cofnodi ond yma yn unig, y maent, o angenrheidrwydd, yn llai cynnwysfawr nâ phrofion cyffelyb mewn cyssylltiad âg hanesyddiaeth gyffredin. Cadarnhëir amryw o fynegiadau y Pum-llyfr gan draddodiadau hen genedloedd.

Er prawf o'i gywirdeb cyffredinol, appelia Josephus at amryw ysgrifeniadau cyhoeddus, ac at lyfrau oedd ar gael yn ei amser ef (o. c. 70) a gadarnhäent yn y modd yma hanes y diluw, y waredigaeth o'r Aifft, a thröad allan y Canaanëaid. Cwblhad y greadigaeth mewn chwech o ddyddiau, neu chwech o gyfnodau neillduol, dosraniad amser i wythnosau, y seithfed dydd yn santaidd, y cyflwr o ddiniweidrwydd, neu yr oes euraidd, yr addewid am Waredwr galluog, y diluw, yr arch—ydynt draddodiadau wedi eu cadw yn mhlith braidd bob cenedl, ac yr ydys wedi dangos eu bod i'w cael yn y Dwyrain, er wedi eu hanffurfio yn rhyfeddol, hyd y nod yn yr oes yr oedd Moses yn byw. Horæ Mosaicæ, gan Faber, i. 1—136; Graves ar y Pum-llyfr, i.; Gweithiau Syr William Jones, ac Hindostan, gan Maurice. Gwel draddodiadau ereill yn Hanesyddiaeth Gyssegredig S. Turner, i., ac Egluriadau Dyddiol ar y Beibl, gan Kitto, Cyn-ddil. a'r Patriarchiaid.

Y mae math newydd o brawf wedi cyfodi fyny yn ein dyddiau ni. Er enghraifft, yr ydys wedi dywedyd mai arferion a chyfeiriadau Asiaidd, ac nid Aifftaidd, yw y rhai canlynol, neu eu bod yn ddiweddaraeh nâ'r myned allan o'r Aifft: adeiladu â phriddfeini, Exod. 1, 14; cadw asynod—anifeiliaid atgas gan yr Aifftiaid; presenoldeb eunuchiaid, yr hyn a awgrymir yn yr enw a roddir i gadben y gwarchodlu, Gen. 37, 36; y rhyddid mewn bywyd teuluol a awgrymir yn Gen. 39; defnyddio gwin, yr hwn, medd Herodotus, nid oedd yn cael ei wneyd yn yr Aifft; gwisgo modrwyau ac addurniadau ereill, 41, 42; sefydliad goruchwylwyr, 43, 16, 19; 44, 1;

[a] Gwel Gen. 13, 10; 40, 11, 16; (gwel tud. 286—7), 42, 9; 47, 20—6; Deut. 11, 10; Num. 13, 22.

[b] Cym. Exod. 21, 27, a Deut. 15, 12, 17. Num. 4, 24—33, a 7, 1—9. Lef. 17, 3, 4, a Deut. 12, 5, 6, 21. Exod. 22, 26, a Deut. 24, 6, 10—15.

yr arferiad o eistedd wrth y bwrdd, 43, 32. Ond pa fodd bynag, y maen *oll* wedi eu cadarnhau drwy ddarganfyddiad hen gof-adeiliau Aifftaidd. Y mae priddfeini i'w cael yn awr, ac enwau yr henaf o'r teyrnachau (*dynasties*) Aifftaidd yn argraffedig arnynt. Pwnc dosran gyfan o waith Rosellini yw y gelfyddyd o wneuthur gwin; ac hyd y nod ar y cof-adeiliau oddiar ba rai y mae yn cymmeryd ei egluriadau, ymddengys eunuchiaid, goruchwylwyr, addurniadau, a gwleddoedd, yn gosod allan y cyfryw arferion mewn cyfathrachiad cymdeithasol, a dulliau o eistedd ag sydd yn gynnwysedig yn y Pum-llyfr.

Fod yr Aifftiaid yn eillio, Gen. 41, 14, yn cario beichiau, nid ar yr ysgwydd, ond ar y pen, 40, 16; fod bugeiliaid yn cael eu trin gyda'r dirmyg mwyaf—yn wrthddrychau arabedd (*wit*) Aifftaidd; fod *caste* yn bodoli; fod dyeithriaid yn cael eu brodori (*naturalize*) drwy eu gwisgo yn yr hynod liain Aifftaidd, Gen. 41, 42; ydynt ffeithiau a gadarnhëir gan hen gerfluniau, neu nodir hwynt mewn modd penodol gan Herodotus fel yn perthyn yn neillduol i'r Aifft.

Gwel, "Yr Aifft a llyfrau Moses," gan Hengstengberg.

Heblaw hyny, cadarnhëir mynegiadau y Pum-llyfr gan ffeithiau hanesyddiaeth (*a*), cenedloniaeth (*ethnography*) (*b*), a daeareg (*geology*) (*c*), cyn belled ag y maent wedi eu heglur benderfynu.

(*a*). Nid oes gan un genedl gofnodau credadwy, nac hyd y nod dealladwy, yn cyrhaedd yn mhellach nâ'r diluw. Nid ydyw teyrnachau yr Aifft, yn ol y dehongliad ëangaf, yn rhedeg i fyny yn uwch nâ c. c. 2200 (Champollion). Teyrnasiad Yoa, yr Amherawdwr Chiniaidd cyntaf, a nodir gan Confucius (c. c. 450), nis gall fod yn foreuach nâ c. c. 2500; ac nid oes yr un sicrwydd hanesyddol cyn y flwyddyn c. c. 782 (Klaproth.) Nid ydyw amseriaeth enwog India yn cyrhaedd yn uwch nâ c.c. 2256, a'r pryd hwnw cawn Buddha ei hunan, cynnrychiolydd Noah fe allai (Col. Tod). Y fath yw tystiolaeth dynion cymhwys sydd wedi chwilio y cyfundraethau amseryddol henaf, gan broffesu bod heb un math o ogwyddiad at y Pum-llyfr.

(*b*.) Cenedloniaeth hefyd, yn ei dosraniad triphlyg, ieithegol (*philological*), anianyddol (*physiological*), a moesol (*ethical*), sydd yr un mor ffafriol i'r hanes Foesenaidd. Yr un mewn gwirionedd yw cyfundraethau cyfriniol (*mythological systems*) India, China, Groeg, a Scandinavia (Syr W. Jones); tra y mae y cenedloedd Semiaidd (*Shemitic*) oll yn undduwiol (*monotheistic*), yr hyn sydd yn dangos yr un dechreuad yn perthyn i bob un o honynt. Cydnabyddir y gellir darostwng yr holl ieithoedd adnabyddus i ychydig deuluoedd. Yr ieithoedd Indiaidd-Ewropaidd, Semiaidd, Ugraidd-Tartariaidd, Malayaidd, a'r rhai a elwir *Transfengetic*, y rhai a wneir i fyny yn benaf o eiriau unsill; yr Americaidd a'r Affricanaidd. Y mae y Chevalier Bunsen, a Mr. Schön, eisoes wedi olrhain yr Aifftaeg, yn nghyd ag amryw dafodieithoedd Affricanaidd, i wreiddyn Semiaidd. Yr ydys wedi profi mai Asiaidd yn benaf yw yr ieithoedd Americanaidd; ac yn mhlith yr oll, y mae yr ysgolheigion galluocaf yn cael y fath berthynasau ag sydd yn dynodi unoliaeth gwreiddyn (felly Humboldt, Klaproth, F. Schlegel, Balbi, Herder). Yn ieithegol ac anianyddol, "y mae yr hiliogaeth ddynol," medd yr olaf, "yn gyfangorff cynnyddol, yn ymddibynu ar un gwreiddyn cyffredin. Tystiolaeth olaf y Dr. Pritchard ydyw, "gyda chynnydd gwybodaeth yn mhob cyfeiriad, yr ydym yn barhaus yn cael llai o reswm dros gredu fod yr amrywiol hiliogaethau dynol yn cael eu hysgaru y naill oddiwrth y llall gan derfynau anorfod."

(*c.*) Ac nid tyst dibwys yw daeareg. Un o'i gwersi egluraf yw diweddarwch y "cyfnewidiad daearegol mawr diweddaf." "Nis gall dyddiad" sefyllfa bresenol y bellen ddaearol "gyrhaedd yn mhellach yn ol nâ phump neu chwech mil o flynyddau" (Saussure, Cuvier, De Luc).

Yn annibynol hyd y nod ar brawf allanol, y mae y mewnol o hono ei hunan yn benderfynol. Annghelfydd-dra (*artlessness*) yr ieithwedd, yr achyddiaethau lluosog, anmhleidgarwch yr awdwr yn cofnodi ffaeleddau yr Iuddewon, yn nghyd a'i eiddo ei hunan,[a] ydynt oll yn amlwg. Ychwaneger at hyn fod Iuddewaeth wedi ei sylfaenu ar wirioneddolrwydd tybiedig yr ysgrifeniadau yma. Rhoddant hanes sefydliadau Iuddewig, yn nghyd a rhesymau dros eu cynnal a'u cadw. Os oes yma ffugiaeth, pa bryd y gallasai gael ei gyflawnu? Nid pan gafodd cyfieithiad y Deg a Thriugain ei wneuthur (c. c. 275). Nid ar y dychweliad o Babilon (c. c. 536), Ezra 2, 62. Nid ar ymraniad y deyrnas (975). Nid yn nyddiau Samuel (1095). Nid yn y pedwar can mlynedd o flaen hyny. Oblegid ar bob cyfnod olynol, yr oedd miloedd a fuasent yn teimlo dyddordeb mewn darganfod y ffugiaeth, a gosod o'r neilldu y sefydliadau neillduol a beichus oeddynt yn sylfaenedig arni. Buasai meddwl y gallasai un dyn sicrhau cadwedigaeth yr enwaediad, y Pasg, gwyl y Pentecost, a gwyl y Pebyll, ar y tir fod y rheolau yma wedi eu cadw o'r dechreuad, ac am y rhesymau rhoddedig, pan y rhaid ei fod yn wybyddus, mai anwiredd oedd y mynegiadau yma, yn rhagdybied gwyrth fwy nâ'r un a gofnodir yn yr ysgrifen. A sylwer i'r sefydliadau yma gael eu dechreuad, nid yn nygwyddiadau cyffredin yr hanes, ond yn y gwyrthiau; fel y mae, nid yn unig yr hanes, ond pob gwyrth, yn cael ei chadarnhau ganddynt.[b]

10. Gellir ychwanegu fod rhai ysgrifenwyr yn tybied i awdwr y Pum-llyfr wneyd defnydd o amrywiol hen ysgrifeniadau wrth ddarparu y gyfrol hon. Oddiwrth hyn y ceir dyfyniadau o lyfrau ereill, ac oddiwrth hyn feallai y tarddodd y gwahanol enwau a gymhwysir mewn gwahanol ranau, gydag unffurfiaeth amlwg, at Dduw.

Er enghraifft, yn Num. 21, 14, 15, y mae "llyfr rhyfeloedd yr Arglwydd" yn cael ei ddyfynu, ac yn adnodau 27—30, y mae darn o ryfelgân o eiddo yr Ammoriaid. Felly hefyd yn Gen. 1—2, 3, yr enw a gymhwysir at y Goruchaf yn ddieithriad yw Duw (Elohim). Yn Gen. 2, 4—3, y mae yn Jehofah Dduw. Yn mhennod 5, Duw yn unig ydyw. Yn Gen. 6—9, defnyddir Duw a Jehofa yn ddiwahaniaeth, yn mhob man, oddieithr yn 9—29, lle y mae dyfyniad yn cael ei wneuthur; ac yn pen. 12, 12, ceir Jehofah yn unig. Yn pen. 14, cyflwynir enw newydd, "Duw Goruchaf," a defnyddir ef drwy y bennod.

Cyhoeddwyd y golygiad yma gyntaf gan Vitringa, Obs. Sac. i, pen. 4, dos. 23; ac y mae wedi cael ei bleidio gan Calmet, Horne, Pye Smith, Stuart, ac ereill. Y mae cyfeiliornadau a chaboliadau (*refinements*) rhai ysgrifenwyr diweddar wedi eu dwyn, fe allai, i warth anhaeddiannol.

11. Y mae hefyd ranau sydd raid eu bod wedi eu hychwanegu ar ol marwolaeth Moses.

Yn Deut. 34, rhoddir hanes ei farwolaeth a'i gladdedigaeth. Yn Gen. 36, 31—39, rhoddir cofres attodiadol o'r penaethiaid Edomaidd, ac mewn llawer rhan, y mae enw diweddaraf lle wedi cael ei roddi am, neu gyda'r

[a] Gwel hanes Abraham, Isaac, a Jacob; hefyd Deut. 26, 5; Exod. 2, 14; Num. 20, 10—13.

[b] Y mae Graves wedi ëangu yr ymresymiad yma yn rymus iawn: "Darlithiau ar y Pum-llyfr," i., ii.

enw gwreiddiol, megys yn Gen. 14, 14, lle y rhoddir Dan am Lais (gwel Jos. 19, 47); felly Gen. 13, 18 (Jos. 14, 15); Gen. 13, 3 (Gen. 28, 19); 14, 2, 7, 8; Deut. 3, 9; 4, 48.

12. Yn y canon Iuddewig, cedwir y Pum-llyfr ar wahan oddiwrth y gweddill o'r Ysgrythyr, am mai hwynthwy yw sylfaen y ddwyflywodraeth. Yr enw "cyfraith" a ddesgrifia brif bwnc y llyfrau, er mai eu gwir ganolbwynt yw y berthynas gyfammodol rhwng Jehofah ac Israel. Yn wir, nid ydyw yr oll o'r Hen Destament yn ddim ond hanes y cyfammod hwnw, o'r ddarpariaeth tuag ato, ac o'i ddadleniad graddol, nes iddo roddi lle i'r efengyl.

13. Gellir trefnu y dygwyddiadau cofnodedig yn y llyfrau hyn fel y canlyn:—

GENESIS.—Y *Greadigaeth*, 1, 2; y cwymp a'r byd cynddiluwiaidd, 3—6; y diluw, 7, 8, canlyniad drygioni: bendith Noah, ac ail-boblogiad y ddaear, 9, 10; y gwasgariad, 11; galwad a hanes Abraham, 12—25; Isaac, 26, 27; Jacob, &c., hyd farwolaeth Joseph, 28—50.—Cyfnod o 2369 o flynyddoedd (neu 3619, *Hales*).

EXODUS.—Yr Israeliaid ar ol marwolaeth Joseph, 1; genedigaeth Moses, a'i ddygiad i fyny, 2—6; y *mynediad allan o'r Aifft*, 7—15, 21; taith y flwyddyn gyntaf, eu cyfammod, eu cyfreithiau moesol ac ereill, y tabernacl, 15, 22—40.—Cyfnod o 145 o flynyddoedd.

LEFITICUS.—Cyfreithiau yr aberthau, 1—7; ar yr offeiriadaeth *Leftaidd*, 8—10; ar buredigaethau, 11—22; ar wyliau, &c., 23—27.—Un mis.

NUMERI.—Dygwyddiadau oddiwrth *rifo y bobl*, 1—4; o'r ail flwyddyn hyd y bedwaredd flwyddyn ar bumtheg ar hugain, amryw gyfreithiau, 5—10, 10, a theithiau yr Israeliaid, 10, 11—36.—Yn agos 39 o flynyddoedd.

DEUTERONOMIUM, neu y *gyfraith yn cael ei hail-adrodd*, y mae i hwn saith o ranau, yn rhoddi,—

1. Crynodeb o ragorfreintiau a hanes yr Israeliad, 1—4, 40.
2. Crynodeb o'u cyfreithiau, moesol, gwladol, a seremoniol, 4, 40—26.
3. Cyfarwyddiadau o berthynas i'r hyn sydd i'w gyflawnu ar ol croesi yr Iorddonen, yn cynnwys y bendithion a'r melldithion, 27, 28.
4. Annogaethau i ufydd-dod, 29, 30.
5. Hanes y dygwyddiadau canlynol, yn nghyd â chân Moses, 31, 32.
6. Bendith Moses, 33; ac yn
7. Hanes ei farwolaeth, 34.—Cyfnod o bump neu wyth wythnos.

Dos. 2. *Llyfr Job.*

14. Cymmer y llyfr yma ei enw oddiwrth y patriarch hybarch y cofnodir ei hanes ynddo. Cydnabyddir fod ei henafiaeth a byrdra ei ieithwedd yn ei wneyd yn anhawdd i'w ddehongli. Ond anfynych y mae yr anhawsderau yma yn perthyn i bynciau o bwys crefyddol.

Gan fod Job yn cael ei enwi yn yr Ysgrythyr mewn cyssylltiad â saint adnabyddus ereill (Ezec. 14, 14; Iago 5, 2), gellir gyda diogelwch gasglu ei fod yn berson sylweddol, ac nad ydyw yr hanes yn ffugiaeth. Cadarnhëir y penderfyniad yma gan y manylion a roddir am bersonau a lleoedd, yn nghyd â phrofion mewnol ereill. Mae yn debyg fod Uz, y wlad a breswylid ganddo, i'r gogledd-ddwyrain i Arabia Deserta.

Yr oes yn mha un yr oedd Job yn byw sydd bwnc ag sydd wedi cyn-

nyrchu llawer o ddadleu. Y farn fwyaf debygol a'i gesyd yn forenach nag Abraham. Gellir darllen y llyfr, gan hyny, rhwng yr 11eg a'r 12fed bennod o Genesis, fel attodiad i'r hanes hŷr a roddir gan Moses am gyflwr boreuol ein hiliogaeth.

Y rhesymau a ddygir yn mlaen o blaid y golygiad olaf ydynt fel y canlyn:—(1.) Einioes hir Job, yn cyrhaedd i 200 o flynyddoedd. (2.) Absenoldeb unrhyw gyfeiriad at y gyfraith Foesenaidd, neu weithredoedd rhyfeddol Duw tuag at Israel yn eu hymadawiad â thir y caethiwed, a'u taith i Ganaan; cyfeirir at y pethau yma yn barhaus gan ysgrifenwyr ereill fel yn egluro cymmeriad a llywodraeth y Jehofah. (3.) Absenoldeb unrhyw gyfeiriad at ddinystr Sodom a Gomorra; cymmerodd y dygwyddiad rhyfeddol yma le yn nghymmydogaeth y wlad lle yr oedd Job yn preswylio; yr hon, fel barn nodedig ac uniongyrchol yr Hollalluog ar y drygionus, nid ydyw yn debyg y gadewsid hi allan mewn ymresymiad o'r natur yma. (4.) Addoliad yr haul a'r lleuad yw yr unig ffurf o eilun-addoliaeth a nodir, a'r rhai hyny, yn ddiammeu, oedd y rhai henaf, pen. 31, 26—28. (5.) Yr arferion a'r defodau a nodir, y rhai ydynt yn perthyn i'r boreuaf o'r patriarchiaid. (6.) Y mae crefydd Job yr un ag oedd yn ffynu yn mhlith y patriarchiaid cyn yr oruchwyliaeth Foesenaidd. Crefydd o aberthau ydyw; ond heb un offeiriad yn gwasanaethu, na lle cyssegredig. (7.) At y rhesymau yma, y mae Dr. Hales wedi ychwanegu un wedi ei dynu oddiwrth seryddiaeth, ac yn seiliedig ar pennodau 9, 9, a 38, 31, 32. Dywed, yr ymddengys drwy gyfrifiad gwrthgerddol (*retrograde calculation*), mai y prif sêr y cyfeirir atynt, oedd cydser penaf gwanwyn a hydref oddeutu c. c. 2130, neu oddeutu 184 o flynyddoedd cyn genedigaeth Abraham.

Y mae yn deilwng o sylw, os oedd Job yn byw rhwng y diluw a galwad Abraham, fod genym brawf ychwanegol na ddarfu i Dduw erioed adael y byd heb fod ynddo dystion o'i wirionedd ef.

Ar y llaw arall, meddylia rhai eu bod yn canfod cyfeiriad at ddinystr Sodom, &c., yn pen. 15, 34; 18, 15; 20, 26; a dygant yn mlaen y cydundeb rhwng llawer o'r enwau a ddygwyddant yn y llyfr hwn, ac eiddo rhai o ddisgynyddion Abraham, drwy Ismael ac Esau, fel arwyddion o oes rhywfaint yn ddiweddarach. Priodolir ef gan rai o'r ysgrifenwyr yma i gyfnod boreuaf yr ymdaith yn yr Aifft.

Y mae amrywiaeth barn yn ffynu o berthynas i *awduriaeth* y llyfr. Rhai a'i priodolant i Job, ereill i Elihu, ac ereill i Moses. Pwy bynag oedd ei awdwr, profir ei awdurdod ganonaidd gan ei le yn yr Ysgrythyrau Iuddewig, a chydnabyddiad yr holl gasgliad gan ein Harglwydd a'i apostolion.

15. Gellir dosparthu y llyfr i dair o ranau:—

i. Yr *arweiniad hanesyddol* mewn rhyddiaith, 1, 2, yn rhoddi hanes cystudd disymmwth a thrwm yn cael ei ddwyn gydag amynedd annghyffredin.

ii. Yr *ymresymiad, neu y ddadl*, mewn barddoniaeth, ac mewn pump o ranau:—

1. Y gyfres *gyntaf* o ddadleuon, yn cynnwys cŵyn Job, 3; araeth Eliphaz, 4, 5; ateb Job, 6, 7; araeth Bildad, 8; ac ateb Job, 9, 10; araeth Sophar, 11; ac atebiad Job, 12—14.

2. Yr *ail* gyfres yn cynnwys araeth Eliphaz, 15; ac atebiad Job, 16, 17; araeth Bildad, 18; ac atebiad Job, 19; araeth Sophar, 20; ac atebiad Job, 21.

3. Y *drydedd* gyfres, yn cynnwys araeth Eliphaz, 22; ac atebiad Job, 23, 24; araeth Bildad, 25; ac atebiad Job, 26—31.

Y pwnc a ddadleuir hyd yma yw, pa un a ydyw dyoddefaint mawr yn brawf o euogrwydd mawr. Cadarnheir hyn gan gyfeillion Job, ac annogant ef i edifarhau a diwygio. Gwedir hyn gan Job, appelia at ffeithiau, a chŵyna yn chwerw ar ei gyfeillion am fwyhau ei yni drwy gam-gyhuddiadau.

4. Araeth Elihu, 32, 37.

Dadleua Elihu fod cystudd wedi ei fwriadu er daioni i'r dyoddefydd, hyd y nod pan fyddo, mewn modd priodol, yn ganlyniad pechod. Cerydda Job am gyfiawnhau ei hunan yn hytrach nâ Duw, ac amddiffyna y cymmeriad a'r llywodraeth ddwyfol.

5. Terfyna y ddadl gydag anerchiad yr Hollallnog (nid yn ymostwng i egluro ei ymddygiad, ond) yn egluro ei allu a'i ddoethineb, 38—41; atebiad Job a'i gyffesiad edifeiriol, 42, 1—6.

iii. Y *terfyniad* mewn rhyddiaith, 42, 7—17, yn rhoddi hanes derbyniad a llwyddiant Job.

16. Y mae *gwir* amcan y llyfr wedi bod yn achos llawer iawn o ddadleu. Hunanoldeb arianol oedd y cyhuddiad a ddygid yn erbyn Job, 1. Yn y diwedd, gwrthbrofir y cyhuddiad. Rhoddir sicrwydd i Job y gwna Barnwr yr holl ddaear farn, ac y mae o hyd yn penderfynu ymddiried ynddo, er i Dduw ei ladd ef, 19, 23—26. Eglurir fel hyn natur a gallu ffydd, yn gystal ag hunaniaeth (*identity*) gwir dduwioldeb yn mhob oes. Y cyfryw, fe allai, oedd un prif amcan o eiddo yr ysgrifenydd ysbrydoledig yn y cyfansoddiad hwn. Heblaw hyny, arddengys y llyfr rhagluniaeth Duw yn ei dirgelwch a'i thrugaredd, a gesyd allan gydag arucheledd anngbymharol ogoniant y priodoliaethau dwyfol. Eglura lygredigaeth dynion,[a] arddengys ffydd mewn Prynwr, ac mewn bywyd dyfodol,[b] llefara am aberth fel moddion appwyntiedig cymmeradwyaeth,[c] a dengys hefyd y budd o weddi eiriolaethol.[d]

Amlwg yw, nad ydyw y cyfan a ddywedir gan Job yn y dadleuon hyn i'w gymmeradwyo. Weithiau, y mae yr egwyddorion a gynnygir, ac weithiau y mae y penderfyniadau y deuir iddynt yn gyfeiliornus. Rhydd ysbrydoliaeth ddesgrifiad cywir o'r hyn a ddywedwyd neu a gyflawnwyd, heb, o angenrheidrwydd, gadarnhau priodoldeb y naill na'r llall.

17. Y gwersi ymarferol a awgrymir gan y llyfr ydynt yn amlwg a phwysig. Efelycher gostyngeiddrwydd Elihu. Er mai efe oedd yn alluog i lefaru oreu, etto efe lefarodd olaf. Anngharedigrwydd sydd o'r diafol (1, 9, 10). Dylai ei ddechreuad yn gystal a'i hyllder ein gosod ar ein gwyliadwriaeth yn ei erbyn..... Dynion perffaith ac uniawn ydynt yn mhlith y blaenaf i gyfaddef eu halogrwydd (1, 1; 40, 4; 42, 6). Gellir mesur ein cynnydd mewn santeiddrwydd wrth ein gostyngeiddrwydd..... Y fath ddoethineb sydd yn angenrheidiol i ddwyn dadl yn mlaen yn briodol, pan oedd hyd y nod Job yn methu..... Mor angenrheidiol yw dadguddiad penodol, pan y mae hyd y nod dynion da, yn meddiannu gwybodaeth gywir o Dduw, ac o lawer o egwyddorion ei lywodraeth, yn camddarllen y gwersi ysgrifenedig ar ei weithiau ef. Er mwyn unioni camddealltwriaethau dynol ar y cyfryw bynciau, y mae Duw ei hunan yn cyfryngu.

[a] 33, 8, 9; 34, 5, 9, 35.
[b] 19, 25—29; 33, 23—28.
[c] 1, 5; 42, 8.
[d] 42, 8, 9.

Dos. 3. *Ar Farddoniaeth Hebreig, a'r Llyfrau Barddonol.*

18. Gan mai llyfr Job yw y boreuaf o lyfrau barddonol y Beibl, gallai y byddai yn gyfleus yma i wneuthur ychydig nodiadau ar natur barddoniaeth Hebreig.

Y mae y rhan hono o'r Ysgrythyrau santaidd a elwir yn gyffredin y llyfrau barddonol, yn cynnwys Job, y Salmau, a'r Diarebion, ac y mae rhai yn ychwanegu Llyfr y Pregethwr a Chaniad Solomon. Gyda golwg ar ddyddiad, y mae rhai rhanau o honynt yn foreuach a rhai yn ddiweddarach nâ llawer rhan o'r llyfrau hanesyddol; ond rhesir hwynt gyda'u gilydd fel yn gyfansoddedig braidd yn gyfangwbl o farddoniaeth Hebreig. Yn y canon Iuddewig o'r Ysgrythyr, cynnwysir hwynt yn yr Hagiographa, neu yr *Ysgrifeniadau Cyssegredig*. Ysgrifeniadau y prophwydi hefyd ydynt, gan mwyaf, mewn ffurf farddonol.

Y mae rhagoriaeth neillduol barddoniaeth Hebreig i'w briodoli i'r defnyddiad o honi yn y gwasanaeth uchelaf, sef eiddo crefydd. Cynnwysa y gwirioneddau uchelaf a gwerthfawrocaf, yn cael eu mynegu yn yr iaith fwyaf briodol.

Y mae cymmaint o ansicrwydd o berthynas i hen gynaniad (*pronunciation*) yr iaith, fel y mae yn anhawdd penderfynu natur y mydryddiaeth Hebreig. Ond y mae llawer o oleuni wedi ei daflu ar y pwnc mewn amseroedd diweddar, gan Lowth, Jebb, ac ysgolheigion ereill. Gyda golwg ar brif nodweddau barddoniaeth Hebreig, gellir eu desgrifio mewn modd cyffredinol, fel yn gynnwysedig yn nghymmeriad arddunawl ac uchel yr ieithwedd (*style*), mewn defnyddiad o eiriau a ffurfiau o eiriau neillduol, mewn traethiad (*expression*) byr-eiriog, ac mewn hynodion neillduol yn nghyfansoddiad a chydgyssylltiad y brawddegau. Ymddengys yr hynodion yma yn y ffurfiau celfyddydol (*artificial*) isod.

Weithiau y mae yr holl gerdd wedi ei threfnu mewn modd llythyrenol (*alphabetical*); pob llinell yn dechreu gyda phob un o lythyrenau yr egwyddor yn eu trefn rheolaidd, neu bob pennill yn dechreu felly, neu gyfres o adnodau yn dechreu gyda'r un lythyren: gwel Salm 119, a Galar. 3. Yn Salm 119, yn y gwreiddiol, y mae wyth adnod olynol yn dechreu gyda'r un lythyren, yn cael eu canlyn gan wyth ereill o'r llythyren ganlynol, ac felly yn mlaen, drwy yr egwyddor, nes y rhenir yr holl Salm i bennillion llythyrenol (*alphabetical strophes*). Y mae deuddeg o'r cerddi egwyddorol yma yn yr Hen Destament.

Ymddengys fod ffurf gelfyddydol arall o farddoniaeth yn gynnwysedig mewn ail-adrodd yr un adnod neu syniad yn awr ac yn y man, neu ar ol rhifedi neillduol o adnodau, megys yn Salm 42, 5, 11; 43, 5; 107, 8, 15, 21, 31; Esay 9, 12, 17, 21; 10, 4; Amos 1, 3, 6, 9, 11, 13; 2, 1, 4, 6.

Ond hynodrwydd penaf barddoniaeth Hebreig yw yr hyn a elwir gan Lowth yn gyfochraeth (*parallelism*); hyny yw, y mae cydundeb arbenig, naill ai mewn meddwl, neu iaith, neu y ddau, rhwng rhanau pob brawddeg. Weithiau, nid ydyw yr ail fynegiad yn fawr mwy nag adseiniad o'r cyntaf; weithiau ychwanega ato feddylddrych newydd, a thra-ragora arno mewn grym ac ardderchogrwydd; weithiau, er mwyn cynnyddu yr argraff, y mae y prif feddylddrych yn cael ei fynegu mewn gwrth-gyferbyniad i ryw un arall. Ac, i raddau helaeth, o herwydd y dull hwn o gyfansoddi y brawddegau, y mae cymmaint o agwedd farddonol ar y cyfieithiad o'r llyfrau yma; oblegid, am ei fod gan mwyaf yn llythyrenol, y mae yn cadw llawer o ffurf ac o brydferthwch syml yr Hebreig.

Y mae y gyfochraeth farddonol yma yn caniatâu llawer o amrywiaethau mwy neu lai penodol. Y dosparthiad canlynol a eglura y pwnc:—

1. Rhai cyfochreddau ydynt yn raddiadol neu gyfystyr.

2. Ereill ydynt yn wrth-gyferbyniol (*antithetic*); gwel pen. iv., dos. 3, adran 286.

Cyfarfyddwn yn achlysurol â chyfystyriaeth deublyg (*double synonyme*) a chyferbyniaeth ddeublyg (*double antithesis*); megys yn Esa. 1, 3, 19, 20.

Nid ydyw cyfochraeth yn y ffurf o gyferbyniaeth ddeublyg yn annghyffredin yn y prophwydi. Y mae cyfochredd nodedig o brydferth yn yr agwedd yma i'w chael yn Hab. 3, 17, 18. Gwel hefyd Esay 9, 10.

3. Trydedd ffurf o gyfochraeth yw y cyfosodol (*synthetic*), neu y cyfluniol (*constructive*). Yn y ffurf yma, nid ydyw gair yn cyfateb i air, neu frawddeg i frawddeg, fel yn unol neu yn wrthwynebol o ran ystyr, ond y mae cydundeb a thebygoliaeth rhwng y gwahanol osodiadau, o berthynas i ddull a thröad yr holl frawddeg. Cynnwysa y math yma o gyfochreddau, y rhai hyny nad ydynt yn dyfod o fewn y ddau ddosparth blaenorol; ac y mae ei amrywiaeth yn fawr iawn.

Mewn cyfochredd o'r fath yma, y mae yr ysgrifenydd, yn lle adseinio y syniad blaenorol yn unig, neu ei osod mewn cyferbyniad, yn dirgymhell ei feddwl drwy feddylddrychau a chyfagweddau ychwanegol, gan gadw yn gyffredin, drwy y cyfan, gydundeb mewn ffurf rhwng y gwahanol ranau. Gwel, fel enghreifftiau, Job 3, 3—9; Salm 148, 7—13; Esay 1, 5—9; 58, 5—8. Ceir cyflawnder o enghreifftiau o gyfochreddau o'r fath yma yn yr Ysgrythyrau, ac yn enwedig yn y prophwydi.

Dywed Dr. Jebb am yr amryw fathau yma o gyfochreddau ar wahan, "fod pob math yn caniatâu llawer math o amrywiaethau ail-raddol; ac, mewn rhes o adnodau, fod yr amryw fathau o hyd yn cael eu cymmysgu; amgylchiadau sydd ar unwaith yn bywiogi ac yn prydferthu y cyfansoddiad, ac sydd yn aml yn rhoddi eglurder a manylrwydd nodedig i ddilyniad y meddwl."

Gellir ychwanegu fod barddoniaeth Hebreig, yn ol y byddo y testun ar raniadau, yn delynol (*lyric*), megys yn y Salmau; hanesiol (*epic*), megys yn Job; yn addysgiadol (*didactic*), megys yn y Diarebion; yn fugeiliol (*pastoral, or idyllic*), megys yn y Caniadau; a phrophwydol, megys yn y prophwydi boreuaf. Yr ydym yn achlysurol yn cael odl, er, fe allai, nad oedd wedi cael ei bwriadu gan y bardd, Gen. 4, 23; Job 6, 4, 7, 9, 13, 22, 29.

Wrth ddarllen y Beibl, y mae yn dra angenrheidiol deall cyfreithiau cyfochreddau barddonol; oblegid y mae y rhai hyn yn aml yn rhoddi cynnorthwyon dehongliadol pwysig. Gan fod un gangen o frawddeg yn aml yn mynegu yr un synwyr a'i changen gyfochrawg, y mae hyn yn gymhorth ac yn rhwyddineb mawr i eglurhau geiriau ac ymadroddion anhawdd.

Yn Meibl Gwahanranol (*Paragraph Bible*) Cymdeithas y Traethodau Crefyddol, y mae rhanau barddonol yr Ysgrythyr wedi eu hargraffu yn ol trefn y gwreiddiol, mewn cyfochreddau. Nid ydyw y cyfochreddau yma, mae yn wir, bob amser yn cael eu dynodi gan y dull o argraffu y testun Hebreig (oddigerth yn Ex. 15; Deut. 32; Barn. 5; ac 2 Sam. 22); ond gellir bob amser nodi allan y llinellau drwy dalu sylw i'r aceniadau.

Dos. 4. *Pum Llyfr Moses, yn cael eu trefnu a'u talfyru gyda Chynnorthwyon Achlysurol.*

19. Wrth fyfyrio y Beibl, fel y dylai gael ei fyfyrio, i amcanion ymarferol, gallwn yn fanteisiol edrych arno fel dadguddiad o Dduw, o ddyn, ac o iachawdwriaeth, a phob pennod yn taflu goleuni ar un neu ar yr oll o'r pynciau yma. Neu, gellir edrych arno mewn agweddau ereill. Yn unol â'r ffurf i ba un y mae gwahanol ranau y Beibl wedi eu taflu, gallwn ei ddesgrifio fel llyfr *bywgraffiadol*, yn cynnwys hanes bywydau credinwyr ac annghredinwyr, yn nghyd â hanes eu dylanwad a'u siampl; yn llyfr o *hanesyddiaeth*, dan ei ddosraniad deublyg, sef yr eglwys a'r byd; o *athrawiaeth*, yn graddol ddadlenu gwirionedd dwyfol; o *foesoniaeth*, yn dysgu holl gylch dyledswydd ddynol; o *osodiadau pendant*, sylfaenedig ar ewyllys Duw, ac, am hyny, yn gyfnewidiol, fel y mae moesoldeb yn annghyfnewidiol, gan ei fod yn sylfaenedig ar y cymmeriad dwyfol; ac o *ddoethineb ymarferol*, yn awgrymu ac yn egluro rheolau pwyllineb (*prudence*) dynol a dwyfol. Gallwn, yn unol â'r dosparthiad yma, ddarllen y cyfan, a gofyn yn mhob man, pa oleuni a deflir yma ar gymmeriad personol neu genedlaethol, ar foesoldeb, ar wirionedd ysbrydol, ar sefydliadau penodol, neu ar ddoethineb ymarferol. Y dosparthiad symlaf a mwyaf ymarferol, fodd bynag, yw yr un a awgrymwyd gyntaf. Myfyrier y Beibl i adnabod *Duw*, ei gymmeriad, ei berffeithderau, a'i lywodraeth; er adnabod *dyn*, ei gyflwr a'i dynged, ei ddyledswyddau a'i ragorfraint; er adnabod *Crist*, yn ei swydd a'i waith; a gwelir y gellir trefnu dan un o'r tri phen yma, yr oll a ddysga neu a ddadguddia yr Ysgrythyr.

20. Ar ol darllen rhyw un llyfr o'r Ysgrythyr drwyddo, awgrymiad addysgiadol yw,[a] y dylem ei ddarllen wedi hyny gyda chyfeiriad at ryw *un* pwnc. Y mae llawer o egluriadau o'r gwirionedd yn attal camsyniadau, yn ein dysgu pa fodd i'w gymhwyso, ac yn dyfnhau ei argraff ar y meddwl. Os cymhwyswn yr awgrymiad yma, dan arweiniad crybwyllion ac addysgiaeth eglurach yr efengyl, i Bum-llyfr Moses, cawn ef yn ddefnyddiol nodedig. Yn wir, nid oes un rhan o'r Ysgrythyr yn gyfoethocach yn y dadguddiadau triphlyg yma.

Wrth ddarllen hanesyddiaeth (gellir ychwanegu), ein gwaith yw crynhoi a chymharu ffeithiau neillduol yn y fath fodd ag i'w cyssylltu â'r cymhellion a'r egwyddor oddiwrth ba rai y tarddant, ac yna cymhwyso y gwersi a ddysgir yn yr hanes ysbrydoledig gyda doethineb ac eglurder. Ar y llaw arall, wrth ddarllen gorchymyn neu athrawiaeth, dylem yn hytrach geisio ei egluro yn y fath fodd ag i'w wneyd yn fwy dylanwadol ac effeithiol. Gadawer i ffeithiau arwain i fyny at egwyddorion, a gadawer i egwyddorion gael eu gosod allan a'u hegluro mewn ffeithiau priodol. Am y cyntaf, gwel nodiadau ar Genesis; ac am yr ail, gwel nodiadau ar y Diarebion.

21. Yn y crynodeb canlynol, ceir yr holl Feibl wedi ei drefnu yn amseryddol; y mae o bwys mawr iddo gael ei fyfyrio yn y drefn yma. Ceir y rhan fwyaf o hono hefyd wedi ei rhanu i ddosraniadau yn unol â'r ystyr. Y nodiadau ar odreu y ddalen ydynt, can belled ag y maent yn myned, yn dra chyfaddas i egluro y testun cyssegredig. Nid ydynt, fodd bynag, wedi eu bwriadu fel esboniad arno, ond yn unig fel cynnorthwyon i osod

[a] Esgob Llundain.—Pregethau y Grawys ar Efengyl St. Ioan, dyfynedig gan Nichols.

darllenwyr *ar y ffordd i wneuthur* esboniadau drostynt eu hunain, ac felly i gymhwyso egwyddorion sydd eisoes wedi eu trin.

Nodir am rag-awgrymiadau yr Hen Destament am y Messiah—ei berson, ei swydd, a'i waith—eu bod oll wedi eu hargraffu mewn llythyrenau *Eidalaidd*, ac yn y fath ffurf ag i ddàl y llygad ar unwaith. Er fod y rhai hyn, gan hyny, o'r pwys mwyaf, etto, nid yw y nodiadau yn cyfeirio atynt ond yn anfynych. Na fydded i'r darllenydd, fodd bynag, eu diystyru.

Mewn trefn i fyfyrio y Beibl yn addoliadol (*devotional*), gall y darllenydd yn fynych, gyda mantais, roddi heibio bob cynnorthwyon, a dewis ychydig o adnodau yn unig, gan nodi a chymhwyso y gwirioneddau a awgrymir gan bob gair yn y frawddeg (gwel pen. vii.) Y mae llawer wedi profi y cynllun hwn yn fwy argraffiadol nâ'r un anhawddach a ddesgrifir uchod. Y mae dau gynllun o fyfyrio ynddynt eu hunain yn gysson, er fod gwendid dynol wedi ein harwain i edrych arnynt fel yn wrthwynebol i'w gilydd. Pe gallem *fyfyrio yn addoliadol*, gan olrhain Duw, a Christ, a ni ein hunain, yn mhob man, a chymhwyso y cyfan wrth fyned yn mlaen, byddai i'r meddwl a'r galon fel eu gilydd ennill drwy y cynllun.

22. (i.) *O'r Greadigaeth*, 4004, *hyd farwolaeth Noah*, 2006 o *flynyddoedd.*

Dyddiad a lle.	Dygwyddiadau yn egluro dyfodiad a gwaith y Messiah; ac amgylchiadau cyffredin.	
c. c. 4004.	Y Greadigaeth.	Gen. 1, 2, 4—7.
Am y dyddiadau yma, gwel adran 355.	Sefydliad y Sabboth,	Gen. 2, 1—3.
	Creadigaeth Adda ac Efa yn cael ei darlunio yn fyr yn nil-adrodd,	Gen. 1, a'i Gen. 2, 8—25.
4004.	Cwymp dyn,	Gen. 3, 1—13.
Eden.[a]	*(Cyssylltiad y pechod cyntaf â chyffwr dyfodol dyn,*	Rhuf. 5. 14; 1 Cor. 15.)
Eden.	*Yr addewid gyntaf am Geidwad*; y tröad allan o Eden,	Gen. 3, 14, 24.
4003—2.	Genedigaeth Cain ac Abel,	Gen. 4, 1, 2.
Gerllaw Eden. 3875.	*Aberth yn cael ei nodi gyntaf*, eiddo Abel yn cael ei dderbyn,	Gen. 4, 3—7.
3875.	Trosedd a melldith Cain,	Gen. 4, 8—15.
3875—3504, Nod.	Cain yn adeiladu Enoch; ei hiliogaeth; araeth Lamech, &c.	Gen. 4, 16—24.
3874.	Genedigaeth Seth, ac Enos; y byd a'r eglwys yn wahanedig,	Gen. 4, 25, 26.
Gerllaw Eden. 3769.	*Achyddiaeth o Adda hyd Noah*; llinach y Messiah,	Gen. 5.
2468.	Drygioni y byd; Duw yn penderfynu ei ddinystro ar ol oediad o 120 o flynyddoedd; Noah yn pregethu (2 Pedr 2, 5),	Gen. 6.
2468.	*Y Cyfammod âg ef yn cael ei adnewyddu; y mae yn adeiladu arch* fel y gorchymynodd Duw,	Gen. 6, 18.
2348.	Noah yn myned i'r arch; y Diluw,	Gen. 7.
2347.	Y dyfroedd yn treio; Noah yn gadael yr arch,	Gen. 8.

[a] Tybir fod Eden naill ai yn agos i ben y môr-gainc Persiaidd, neu yn Armenia, gerllaw ffynnonellau y Tigris a'r Euphrates.

Dyddiad a lle.	Dygwyddiadau yn egluro dyfodiad a gwaith y Messiah; ac amgylchiadau cyffredin.
c. c. Armenia, neu *Ararat*, Gen. 8, 4. *Togarmah*, Ezec. 27, 14. 2247.	Cyfammod Duw â Noah yn cael ei adnewyddu, Gen. 9, 1—17. Noah a'i feibion; ei brophwydoliaeth o berthynas iddynt, [Gen. 9, 18, 27].[a]
o. b. 1757, c. c. 2233. Sinar, (Babilonia neu *Irak Arabi*.) 1998.	Babel; cymmysgiad yr ieithoedd; y gwasgariad, Gen. 11, 1—9. Achau Noah a'i feibion; Nimrod yn sylfaenu Babilon neu yr amherodraeth Assyriaidd, [Gen. 10.] *Achyddiaeth o Sem i Terah*; llinach y Messiah, [Gen 11, 10—26.]
	Marwolaeth Noah, Gen. 9, 28, 29.

Gen. 1. Ar yr hanes hwn o'r greadigaeth, gwel adr. 224; am fyrder a chyfanrwydd moesol yr holl hanes, gwel adr. 220. Y mae hanes y byd cyn y diluw yn cymmeryd i fyny saith pennod. Cymmer hanes gyffredin dynoliaeth am fwy nâ 400 mlynedd wedi hyny, bedair yn ychwanegol. Y mae hanes Abraham a'i ddisgynyddion am ddim ond 286 o flynyddoedd yn cymmeryd i fyny bedair ar bumtheg ar hugain o bennodau, a chynnwysa fanylion cyfoethog mewn doethineb foesol.

Gen. 1, 26. *Gwnawn:* Am ddadguddiad *graddol* y natur ddwyfol yn yr Hen Destament, gwel adr. 230.

Gen. 1, 2. Y greadigaeth yma a briodolir i Dduw. Yr holl athronwyr paganaidd a ddalient dragywyddolrwydd defnydd; hyd y nod y rhai a ddysgent i Dduw ei gyflunio i'w amrywiol ffurfiau. Dysga y bennod hon fwy o wirionedd o berthynas i'r greadigaeth nâ'r holl fythonau (*cosmogonies*) paganaidd gyda'u gilydd, ac y mae yn ei ddysgu yn y fath fodd ag i brofi ynfydrwydd eilun-addoliaeth. Yr hyn y dywedir yma i Dduw ei wneuthur, a addolid gan yr Aifftiaid ac ereill. Gwel Dechreuad Eilun-addoliaeth Baganaidd, gan Faber.

Gen. 2, 4. A rydd hanes *neillduol* am yr hyn oedd wedi ei gofnodi yn fyr yn 1, 27.

Gen. 2, 2, 24. Yr oedd cyfraith priodas a chyfraith y Sabboth wedi eu sefydlu cyn i ddyn gwympo. Cyssegrid y Sabboth ar y cyntaf gan y ffaith ei fod yn terfynu gwaith y greadigaeth. Eglur yw iddo barhau i gael ei gadw oddiwrth raniad amser i wythnosau, 8, 8—13; 29, 27, 28; cydnabyddiad y diwrnod cyn rhoddiad y gyfraith, Exod. 16, 22—30; a ffurf y gorchymyn, *Cofia!* O'r mynediad allan o'r Aifft, y Sabboth a gyssegrwyd yn mhellach gan waredigaeth yr Israeliaid ar y dydd hwnw (Exod. 20, a Deut. 5, 15). Yr ydym dan yr efengyl yn cadw y diwrnod sydd yn argoffa gwaredigaeth fwy, ac yn cyflwyno creadigaeth newydd. Y mae *y* dydd yn y saith wedi ei newid; ond y mae *dydd* mewn saith wedi ei gadw o'r dechreu, Act. 20, 7; Dad. 1, 10. Y dydd sydd i'w gadw fel dydd o orphwysfa, o ddiwylliant moesol, ac o addoliad llawen a santaidd, Ex. 31, 13; Esay 58, 13, 14.

[a] Adnodau wedi eu nodi fel hyn [ ], ydynt naill ai ail-adroddiadau, taflenau achyddol, neu mewn rhyw bethau ereill, yn llai cyfaddas i'w darllen yn *gyffredinol* neu yn deuluol.

Gen. 3, 6, 7. Noder hanes y pechod cyntaf (adr. 220), a chyssylltiad y pechod hwnw â'n cyflwr syrthiedig ni. Cymharer pen. 2, 3, â Rhuf. 5; 1 Cor. 15. Na ychwaneger dim at yr eglurhad ysbrydoledig, ac na chymmerer dim oddiwrtho. Y mae golygiadau uniawn ar y pwnc hwn yn gorwedd wrth wraidd pob cyfundraeth gywir o wirionedd (Ioan 3).

Gen. 3. Myfyrier cymmeriad a phersonolrwydd y temtiwr yn y goleuni a deflir ar y ddau gan ysbrydoliaeth, 2 Cor. 2, 11; 11, 3—14; Eph. 6, 11; Luc 22, 3; Actau 5, 3; Math. 13, 25. Darlunir yma ei gynllwynion a'i ddylanwad mewn ymadroddion sydd yn profi mai nid ffugiaeth yw yr hanes yma. Gwel adr. 463, 4.

Gen. 3, 15. Ar oediad cyflawniad yr addewid gyntaf, gwel adr. 382.

Noder ar yr holl hanes yma *gyfiawnder* Duw yn cospi pechod, a chymharer hanes Cain, 4; y diluw, 6; Sodom, 19; ac hyd y nod y Patriarchiaid. Noder hefyd ei *drugaredd*. Yr addewid *cyn* y ddedfryd; y felldith o lafurio yn cael ei gwneyd yn fendith; a chymharer pregethu Noah, oediad y diluw, a'r addewid o waredigaeth i Sodom pe cawsid ynddi ddeg o ddynion cyfiawn. Y mae Duw "yn rhybyddio fel y gallo beidio taraw." Y mae efe yn hir ymarhöus, ond yn gyfiawn hefyd.

Gen. 4, 4. Yr aberth cyntaf a'r ail a nodir yn yr Ysgrythyr a gymmeradwywyd mewn modd arbenig, Gen. 4, 4; 8, 20; ac mewn enghreifftiau diweddarach, mynegir eu cymmeradwyaeth, 12, 7, 8; 13, 18. Ordeiniad aberthiad gan Dduw ei hunan a nodir yn bennodol yn Gen. 15, 9. Gellir casglu beth a feddylid wrtho oddiwrth y Testament Newydd. Y teimladau a gynhyrfai ac a fynegai oeddynt y cyfryw ag sydd yn awr yn cael eu cynhyrfu, ond i raddau annhraethol uwch, gan aberth y groes, adr. 231, 245.

Ar "Aberth o Ddechreuad Dwyfol," gwel Magee ar yr Iawn, a Dechreuad Eilunaddoliaeth Baganaidd, gan Faber, ll. 2, pen. viii.

Gen. 4, 25. Y mae yr addewid am Waredwr mawr yn crogi yn awr, megys ag y bu wedi hyny, ar fywyd un person—Isaac, Joas, 2 Bren. 11.

Gen. 5. Y mae holl hanes yr Ysgrythyr yn ddefnyddiol. Y bennod yma, gydag undoniad trist, a ddarlunia gymmeriad a marwolaeth y cynddiluwiaid, ond sefydla oed y byd cyn-ddiluwiaidd, a phrofa ddisgyniad ein Harglwydd oddiwrth y dyn cyntaf, yr hyn sydd ar unwaith yn cadarnhau prophwydoliaeth, ac yn egluro gwirionedd.

Gen. 5, 24. Noder y tri esgyniad i'r nefoedd, ar dri chyfnod olynol o'r cynllun prynedigol—sef esgyniad Enoch, Elias, a'n Harglwydd; pob un yn brawf o anfarwoldeb, a'r olaf yn sylfaen hawl dyn iddo.

Lleddir Abel. Traws-symudir Enoch. Dewisir Jacob. Cymmerir Elias i'r nefoedd heb brofi marwolaeth. Ioan, ei gynnrychiolydd yn y Testament Newydd, a lofruddir mewn modd creulawn. "Iä, O Dad," yw yr unig eglurhad a fedr dyn ei roddi—eglurhad a gadarnhëir gan y Beibl. Salm 135, 6; Rhuf. 9, 20; Dan. 4, 35.

Gen. 8, 22. Hyd y nod natur a brofa ffyddlondeb Duw.

Gen. 11. Ar amseriaeth, fel y mae yn cael ei sefydlu gan y bennod hon, gwel adr. 356.

Gen. 11. 9. Gosoder pen. 10 ar ol 11, 9, oblegid yn 11, 1—9, y mae gan ddynion un iaith; yn 10 cawn hwynt yn wasgaredig.

23. (ii.) *O Farwolaeth Noah i Enedigaeth Moses*, 417 *o flynyddau.*

Dyddiad a Lle.	Dygwyddiad neu Hanes.
	1. *Job.*
C. C. Us, yn Idumea.	Nid ydyw cywir ddyddiad Job yn wybodus. Y mae rheswm da, fodd bynag, dros osod ei hanes o flaen eiddo Abraham; gwel *Rhagarweiniad* i Job, neu Drefniad Townsend, i., tud. 28; am ddosparthiad (*analysis*), gwel Rhan II., adr. 14—17. [Pen. 3, 31]; pen. 19, 25—27; 33, 23—28, ydynt gyfeiriadau uniongyrchol at waith y Messiah.
	2. *Abraham.*
1996. Ur, *Edessa*, yn awr *Orfa.*	Genedigaeth Abraham; prioda Sarai; gadawa Ur a'i berthynasau eilun-addolgar (Jos. 24, 2); Gen. 11, 27—32.
1922. Haran, *Charræ*, *Harran.*	Terah, Lot, a Sarai; marwolaeth Terah, (gwel Act. 7, 2—4.)
1921. Canaan.	Yn gadael Haran wrth orchymyn Duw gyda Sarai a Lot, Gen. 12, 1—9.
1921.	*Bendithion mawrion yn cael eu haddaw* iddo, Gen. 12, 1—9; gwel Act. 3, 25; Rhuf. 4; Gal. 3, 16.
1920.	Yn ymweled â'r Aifft; yn rhagrithio, Gen. 12, 10, 20.
1918.	Dychwela i Ganaan; Lot yn Sodom, Gen. 13, 1—13.
1917. Hebron.	*Addewidion yn cael eu hadnewyddu*; yn myned i Mamre, Gen. 13, 14—18.
1913. Siddim (El Ghor).	Cedorlaomer; Lot yn cael ei gymmeryd a'i waredu, Gen. 14.
1912. Hebron.	*Melchisedec* yn bendithio Abram, Gen. 14.
	Cyfammod Duw âg Abram, Gen. 15.
1910.	Hagar; genedigaeth Ismael, Gen. 16.
1897.	*Adnewyddiad y Cyfammod*; newidiad enwau; enwaediad, Gen. 17.
	Abraham yn llettya angylion, un o ba rai yw angel y cyfammod; Sodom; gwraig Lot; godineb Lot, Gen. 18; 19, 1—36; [19, 4—11, 30—36.]
1896. Gerar.	Abraham yn gadael Hebron; yn rhagrithio i Abimelech, Gen. 20.
	Genedigaeth Moab a Ben-ammi, [Gen. 19, 37, 38.]
	Genedigaeth Isaac; anfoniad Ismael ymaith; cyfammod âg Abimelech, Gen. 21, 1—34.
Moria (safle y deml).	Profi ffydd Abraham, Gen. 22, 1—19.
Macpelah, gerllaw Hebron.	Marwolaeth a chladdedigaeth Sarah, Gen. 23.
1856.	Hanes teulu Nachor, Gen. 22 [20, 24].
Beerseba; Bir-es Seba.	Abraham yn anfon ei was i Haran; Laban yn ei dderbyn ef; priodas Isaac, Gen. 24.
1850.	Abraham yn priodi Ceturah; plant o honi, Gen. 25, 1—6.
1836. Lahai-roi.	Genedigaeth Esau a Jacob; eu cymmeriad, Gen. 25, 19—28.
1821. Beerseba.	Abraham yn marw; Isaac ac Ismael yn ei gladdu, Gen. 25, 7—11.

Gen. 21. Dygodd teithiau Abraham beth gwybodaeth o'r wir grefydd drwy ran fawr o'r dwyrain. Cawn y canlyniadau yn argyhoeddiadau arosol (*lingering*) llawer o deuluoedd y cyfeirir atynt yn yr Ysgrythyr; ac y mae llawer o hen genedloedd yn proffesu olrhain eu crefydd yn ol at Abraham. Gwel Hales, ii, 124; Witsius, Ægypt, lib. 3.

Gen. 13, 7. Gweision. Ar eu dyledswyddau myfyrier hanes Eliezer (24, 1—60); Jacob (31, 38—41); Joseph (39, 1—6); Dafydd (1 Sam. 18, 5); Obadiah (1 Bren. 18, 3); gweision Naaman (2 Bren. 5, 2, 3, 13); a chymharer â'r enghreifftiau hyn orchymynion y Testament Newydd (Eph. 5, 6).

Gen. 14, 14. Ar ddehongliad allegawl (*allegorical*) gwel pen. iv. dos. 7.

Gen. 14, 16. Brawd, hyny yw, perthynas gyfochrol (*collateral*); yma nai, 277 (*f*).

Gen. 12. Y mae cyfammodau olianol (*successive*) yr Ysgrythyr yn bynciau o'r dyddordeb mwyaf. Gwnaed y cyntaf âg Adda, yr ail â Noah, a'r trydydd âg Abraham. Yr un âg Adda a ofynai ufydd-dod, ac a gyhoeddai farwolaeth gyfreithiawl, ysbrydol, naturiol, a thragwyddol (heb edifeirwch), fel canlyniad pechod. Yr oedd yr ail heb ammodau, a chyflawnir ef i'r dydd hwn, 9, 8—17. Y trydydd hefyd oedd heb ammodau, Gen. 12, 1—3, 7; 13, 14—17; 15, 17; 28, 10—15; Act. 3, 13—26; Gal. 3, 4; Rhuf. 4, er iddo gael ei gadarnhau mewn canlyniad i ffydd Abraham, 22, 16—18; 26, 1—5. Gelwir y cyfammod olaf hwn gan yr apostol yn gyfammod yr addewid mewn cyferbyniad i'r ddeddf, yr hon a elwir cyfammod gweithredoedd. Yr Efengyl, mewn cyferbyniad i'r ddau, a elwir—gwirionedd a gras, hyny yw, iachawdwriaeth wedi ei sylweddoli a'i sylfaenu, nid ar weithredoedd, ond ar ffafr anhaeddianol. Fod Abraham yn gweled yn y cyfammod a wnaed âg ef addewid am y Messiah dyfodol, sydd eglur oddiwrth resymiadau Pedr a Phaul (Act. 3, 25, 26; Gal. 3, 8). Cafodd yr addewid hon ei hadnewyddu yn fynych, a bu, yn nghyd a'r gwirioneddau pwysig at ba rai y cyfeiriai, am oesoedd lawer yn cyfansoddi sylfaen ffydd gyfiawnhäol. Y dysgwyliad am Geidwad dyfodol sydd yn seiliedig arni, a eglura werth yr enedigaeth-fraint (25, 34), cadwedigaeth cofnodau teuluol, yn nghyd a llawer o sefydliadau y grefydd batriarchaidd.

Gen. 12, 7. Amlwg yw fod gwybodaeth grefyddol y patriarchiaid yn dra chyfyngedig, ond yr oedd eu duwioldeb yn hynod. Lle bynag yr elai y patriarchiaid, adeiladent eu hallor, 12, 7; 13, 4. Beth bynag fuasai eu cyfyngder, eu noddfa oedd gweddi. Gorchymynent i'w plant eu hefelychu; cadwent yr addewid draddodiadol, a throsglwyddent hi yn ofalus; a chynnelid hwynt gan ffydd yn y cyfan (gwel adr. 242).

Olrheinier cymmeriad Abraham fel "cyfaill Duw," ac etto fel tad y rhai sydd yn *credu*.

Gen. 19. Achubir y duwiol, ond etto megys drwy dân, 1 Cor. 3, 13.

Gen. 21. Ymneillduodd hâd y cnawd oddiwrth hâd yr addewid; y cyntaf a erlidiant ac a ddirmygant yr ail, Gal. 4, 29.

Gen. 24. Priodas yn yr Arglwydd. Noder ei nodweddau neillduol, a'i chanlyniadau. Etto, am ugain mlynedd i ddyfod nid oedd un etifedd i'r addewid.

Dyddiad a Lle.	Dygwyddiad neu Hanes.	
	3. *Isaac a Jacob.*	
c. c. 1804. Lahai-roi.	Esau yn gwerthu ei enedigaeth-fraint i Jacob; Isaac yn gadael Canaan,	Gen 25, 29—35.
1804.	*Cadarnhau y Cyfammod âg Isaac yn Gerar,*	Gen. 26, 1—5.
1804. Beerseba.	Isaac yn twyllo; y cyfammod âg Abimelech,	Gen. 26, 6—33.

Dyddiad a Lle.	Dygwyddiad neu hanes.
c. c.	
1796.	Esau yn priodi dwy wraig o'r Hethiaid, Gen. 26, 34—5.
1773.	Marwolaeth Ismael; hiliogaeth, Gen. 25, 12—18.
1760.	Jacob yn derbyn bendith ei dad, ac yn ffoi rhag Esau, Gen. 27; 28, 1—5.
Beerseba.	
1760.	*Gweledigaeth Jacob yn Luz; yr addewidion yn cael eu parhau iddo*; yn aros gyda Laban, ei ewythr, Gen. 28, 10—12; 29, 1—14.
Padan-aram.	
1760.	Esau yn priodi merch i Ismael, Gen. 28, 6—9.
Arabia.	
1753.	Jacob yn priodi Leah a Rachel, Gen. 29, 15—30.
1752–1745.	Plant Jacob,—Reuben, Simeon, Lefi, a Judah, o Leah; Dan a Napthtali, o Bildad, morwyn Rachel; Gad ac Aser, o Zilpah, morwyn Leah; Isaachar, Zebulon, a Dinah, o Leah; Joseph o Rachel, Gen, 29, 31—35; 30, 1—24.
Padan-aram, *Mesopotamia, Al Jesireh.*	
1745.	Cytundeb Jacob â Laban; y mae yn dyfod yn gyfoethog, Gen. 30, 25—43.
1739.	Jacob yn dychwelyd i Ganaan; yn cael ei ganlyn gan Laban; eu cyfammod, Gen. 31.
Galeed.	
1739.	Gweledigaeth Jacob yn Mahanaim; yn ymdrechu â'r angel yn Peniel; yn cymmodi âg Esau; yn aros yn Succoth, Gen. 32; 33, 1—17.
Succoth (Gwel Jos. 13, 27.	
1736.	Jacob yn symud i Sichem, Gen. 33, 18—20; genedigaeth meibion Judah, [Gen. 38, 1—5.]
Sichem.	
1732.	Sichem yn treisio Dinah; lladdiad y Sichemiaid gan Simeon a Lefi, [Gen. 34.]
Bethel, Luz, Bethafen, (Hos. 10, 5), *Beit-in.*	Jacob yn symud; yn puro ei dŷ oddiwrth eilunod; *yr addewid yn cael ei hadnewyddu iddo*; ei enw yn cael ei gyfnewid i Israel, Gen. 35, 1—15.
	Rachel yn marw ar enedigaeth Benjamin, Gen. 35, 16—20.
1729.	Pechod Reuben; Jacob yn aros gydag Isaac, Gen. 35, 21—27.
Hebron.	
1729.	Hiliogaeth Esau, [Gen. 36.]

Gen. 26. Noder drygau ffafriaeth dadol—yn Isaac.

Gen. 27, 6. Sylwer pa fodd y mae gan bob rhinwedd ei ffugiaeth. Ceisier doethineb, ond nid fel y ceisiwyd hi gan Efa. Dylai gwŷr garu eu gwragedd, ond nid fel y gwnaeth Adda, 3, 6. Addoler Duw, ond nid gyda Chain, 4, 3, 5. Dylai gwragedd ufyddhau i'w gwŷr, ond nid mewn pechod, 12, 11. Plant a ddylent ufyddhau i'w rhieni, ond nid fel Jacob, 27, 13, 14. Ceisier cyflawniad ewyllys Duw, ond nid fel Rebecca. Gall tosturi fod yn anufydd-dod, megys yn Ahab, 1 Bren. 20, 34; hyfrydwch yn ngwasanaeth Duw yn hunanoldeb, Esay 58, 2; a sêl yn ddrwg, am ei bod heb wybodaeth, Rhuf. 10, 2. Gall hyd y nod ystyriaeth ddwys o ddyledswydd, fod heb gariad at Grist, parch i Dduw, na gwir ufydd-dod: gwel Act. 26, 9—11.

Gen. 27, 13—17. Y mae temtasiwn weithiau yn obaith, weithiau yn ofn, Gen. 3, 6; 12, 12. Temtiwyd Efa gan Ddiafol; Adda gan ei wraig; Sarah gan ei gŵr; Jacob gan ei fam.

Gen. 27. Y cyfryw yw bywyd. Yr oedd mab anwylaf Isaac yn bla iddo. Er fod Isaac ei hunan yn blentyn yr addewid (Gen. 21, 22), etto yr oedd yn ddyeithr yn nhir yr addewid (37, 1). Treuliodd yn agos ddeugain mlynedd o'i fywyd ar ei wely, ac nid oedd ganddo ond dau blentyn, un o ba rai, drwy ei briodas, a'r llall drwy ei dwyll, a chwerwasant y blynyddau

olaf o fywyd eu tad. Felly, gobeithiai Efa gael rhodd neillduol yn Cain (Gen. 4, 1), ond efe a brofodd yn llofrudd, adr. 248 (*b*).

Gen. 30. Cymharer 30, 1, a'r 35, 18, ac attalier tueddiadau annghymmedrol.

Gen. 34. Y mae pechod bob amser yn dyfnhau ac yn ymëangu. Pechodd Efa, a themtiodd ei gŵr. Cenfigenodd Cain, grwgnachodd yn erbyn Duw, ac wedi hyny lladdodd ei frawd. Gwerthodd Esau ei enedigaethfraint, a chymmysg-briododd â'r paganiaid. Digiodd wrth Jacob, ac wedi hyny ceisiodd ei fywyd. Ni feddyliodd Jacob ddywedyd ond un celwydd, ond yn y diwedd dywedodd amryw, ac yn gableddus, gwnaeth Dduw yn gyfranog o'i dwyll, Gen. 27, 20. Yn y bennod hon, cawn afradlonedd yn arwain i drawshudiad (*seduction*), trawshudiad yn arwain i ddigofaint, dialedd, twyll, a llofruddiaeth. Fuller.

Gen. 31. Putiphar yn cael ffafr er mwyn Joseph; Laban er mwyn Jacob, Gen. 30, 27; Soar er mwyn Lot, 19, 21; fel hefyd y cawsai Sodom ei harbed, pe cawsid ynddi ddeg o ddynion cyfiawn. Y fath anrhydedd y mae Duw yn ei roddi ar ei bobl, adr. 248.

Dyddiad a Lle.	Dygwyddiad neu Hanes.
	4. *Joseph, &c.*
C. C.	
1728.	Dau freuddwyd Joseph; cenfigen ei frodyr; yn cael ei werthu
Dothan.	i'r Ismaeliaid, ac i Putiphar yn yr Aifft, Gen. 37.
1726.	Er ac Onan yn cael eu lladd gan Dduw; godineb Judah a Tha-
Timnath.	mar; *Phares, un o henaflaid y Messiah, yn cael ei eni,* [Gen. 38, 6—30].
1719.	Joseph yn cael ei dderchafu, ei demtio, ei gamgyhuddo, a'i gar-
Aifft.	charu, Gen. 39.
1718.	Pobydd a thrulliad Pharaoh yn cael eu carcharu; Joseph yn de-
	hongli eu breuddwydion, Gen. 40.
1716.	Marwolaeth Isaac yn Mamre, Gen. 35, 28, 29.
1715.	Joseph yn dehongli breuddwydion Pharaoh; ei dderchafiad, Gen. 41, 1—49.
1712, 1711.	Genedigaeth dau fab Joseph, Manasseh ac Ephraim, Gen. 41, 50—52.
1708.	Dechreuad y saith mlynedd newyn, Gen. 41, 53—57.
1707.	Deg brawd Joseph yn dyfod i brynu ŷd; Simeon yn wystl, Gen. 42.
1706.	Deuant eilwaith i brynu ŷd; Joseph yn gwneyd ei hun yn adna-
	byddus iddynt; yn anfon am ei dad, Gen. 43—45.
1706.	Jacob a'i deulu yn dyfod i'r Aifft; yn sefydlu yn Gosen; yn cyf-
	arfod Pharaoh, Gen. 46 [8—25]; 47, 1—12.
1704—1701.	Joseph, drwy roddi ŷd i'r Aifftiaid, yn cynnyddu golud y brenin, Gen. 47, 13—26.
1689.	Jacob yn bendithio Ephraim a Manasseh, Gen. 47, 27-31; 48.
Aifft.	
1689.	*Prophwydoliaethau Jacob am ei feibion a Judah*; ei farwolaeth, Gen. 49.
Macpelah.	Joseph a'i frodyr yn claddu eu tad, Gen. 50, 1—13.
1689.	Joseph yn dangos caredigrwydd i'w frodyr, Gen. 50, 14—21.
1635.	Joseph yn rhagfynegu y dychweliad i Ganaan; yn eu gorchymyn
Aifft.	i ddwyn ei esgyrn ef yno; ei farwolaeth, Gen. 50, 22—26.
1577.	Yr Israeliaid yn lluosogi; brenin newydd yn cyfodi, ac yn eu
Aifft.	gorthrymu hwynt, Exod. 1, 1—21; [15—21.]
1573.	Pharaoh yn gorchymyn bwrw y plant gwrryw i'r afon, Exod. 1, 22.

Gen. 42, 21. Santeiddir cystudd pan y mae yn ein hadgofio am ein pechodau. Cyferbynier pryderweh tyner y brodyr hyn yn awr am deimladau eu tad, Gen. 44, 16—34, a'u diystyrwch flynyddoedd yn ol (37, 31, 32), a gwelir un arall o ffrwythau cystudd pan yn cael ei fendithio. Y mae y llyfr yma yn hynod gyfoethog mewn enghreifftiau cyffelyb.

Gen. 49, 10. Noder cyfyngiad graddol yr addewid o'r Messiah. Hâd y wraig, drwy Sem, Abraham, Isaac, Jacob, Judah, ac wedi hyny Dafydd.

Gen. 50, 20. Goruwch-lywodraethir nwydau drwg, er cyflawniad amcanion Duw. Felly y gwnaed â bradychiad Judas, annghyfiawnder Pilat, erlidigaeth Paul, Act. 4, 28; Phil. 1, 12.

Gen. 50, 25. "Yr ydys wedi sylwi yn briodol fod Joseph yn siampl ddysglaer yn mhob perthynas. Pan yn ddwy ar bumtheg oed, ymddengys heb gael ei lygru gan ddrygioni ei frodyr, na phleidgarwch ei dad; yn ei wrthwynebiad i bechod y blaenaf, a'i ufydd-dod dioedi i'r olaf (37, 2, 13; gwel 4, 8, 11). Er cael ei werthu yn annghyfiawn fel caethwas, etto, y mae yn ffyddlawn i'w feistr (39, 4—6). Ffôa rhag chwantau ieueugtyd, er bod yn agored i demtasiwn (39, 9). Er cael ei erlid, etto, fel Paul, y mae yn cael cyfleusderau i wneyd daioni yn y carchar (39, 22; 40, 7). Er i Pharaoh wenieithio iddo, etto ymwada â phob gallu o hono ei hunan i ddehongli y breuddwyd; ac o flaen y llys paganaidd, cydnabydda allu Duw (14, 16). Pan yn ddeg ar hugain, cyfodir ef yn ddisymmwth i'r anrhydedd uchaf, ac etto y mae yn dyfod yn gynllun mewn diwydrwydd a chyfiawnder (41, 38; 46, 48). Er ei fod yn llyswr (*courtier*), etto y mae yn eirwir, a chyda symledd mawreddog cydnebydd alwedigaeth isel ei gyssylltiadau (46, 31—34). Fel brawd, arddengys serch anniffoddadwy, nid yn unig at Benjamin, ond hefyd at y rhai a'u casasant ef (43, 29, 30; 45, 14; 44, 18—34; 45, 4—13; 50, 21). Fel mab, er ei fod yn arglwydd ar yr Aifft, etto dengys y parch mwyaf cariadus tuag at ei dad oedranus, yr hwn oedd yn awr yn ymddibynol arno (46, 29; 47, 7). Fel tad, ymddengys ei dduwioldeb yn yr enwau a roddodd ar ei blant (41, 51, 52); ac yn ei ddymuniad dwys am fendith Duw iddynt, wrth eu dwyn at wely angeu Jacob (48, 1, &c.). Bu fyw am bedwar ugain mlynedd yn nghanol y gogoniant bydol mwyaf, yn cael ei gylchynu gan bob temtasiwn i fydolrwydd ac eilun-addoliaeth; ond ei anadliad olaf a dystiolaethai mor gyflawn yr oedd ei galon a'i drysor yn addewidion Duw" (50, 25). Gwel hefyd Heb. 11, 22; 1 Ioan 5, 4.

Y mae y crynodeb yma (o Nichols) yn egluro amryw reolau dehongliadol (gwel adr. 248).

24. (iii.) *O enedigaeth Moses*, c. c. 1571, *i'w farwolaeth*, 120 *o flynyddoedd.*

Dyddiad a Lle.	Dygwyddiad neu Hanes.
	1. *Hyd y mynediad allan o'r Aifft.*
c. c. 1571—1532.	Genedigaeth, bwriad allan, gwaredigaeth, a bywyd boreuol Moses. Exod. 2, 1—10.
1531.	Moses, wedi lladd yr Aifftiwr, yn ffoi; yn priodi Sephorah, merch
Mid'an.	Jethro; genedigaeth Gersom, Exod. 2, 11—22.
1531.	Yr Israeliaid yn llefain oblegid y caethiwed, Exod. 2, 23—25; Salm 88.

Dyddiad'a Lle.	Dygwyddiad neu Hanes.
c. c. 1491. Horeb. (Act. 7, 30.)	*Duw* yn ymddangos i *Moses yn y berth losgedig*; *yn ei appwyntio ef* ac Aaron i ddwyn yr Israeliaid allan o'r Aifft, Exod. 3; 4, 1—17.
1491. Aifft. (Act. 7, 31.)	Moses yn gadael Midian; yn eyfarfod Aaron; ac y maent yn mynegu eu cenadwri, Exod. 4, 18—31.
	Moses ac Aaron yn gofyn rhyddhad yr Israeliaid; Pharaoh yn gwrthod, Exod. 5.
1491.	Duw yn adnewyddu ei gyfammod drwy ei enw Jehofah, Exod. 6, 1—13.
1491.	Hiliogaeth Reuben, Simeon, a Lefi, oddiwrth yr hwn y disgynodd Moses ac Aaron, [Exod. 6, 14—27.]
1491.	Moses ac Aaron yn cael eu hanfon eilwaith; yn cadarnhau eu cenadwri drwy wyrth; y dewiniaid yn eu hefelychu, Exod. 6, 28—30; 7, 1—13.
1491.	Pharaoh yn gwrthod i Israel fyned; yr wyth pla, Exod, 7, 14—25; 8; 9; 10, 1—20.
1491.	*Y Pasg* yn cael ei sefydlu, Exod. 12, 1—20.
1491.	Y nawfed pla, tri diwrnod o dywyllwch, Exod. 10, 21—27.
1491.	Yr Israeliaid yn cael eu gorchymyn i ofyn aur gan yr Aifftiaid; Pharaoh yn cael ei fwgwth â marwolaeth y cyntaf-anedig, Exod. 11, 1—8; 10, 28, 29; 11, 9, 10.
1491.	*Y Pasg yn cael ei fwyta* ar yr un dydd o'r mis a'r hwn y cafodd Crist ein Pasg ni ei offrymu drosom ni (gwel Hales, ii., 197); y cyntaf-anedig yn cael ei ladd, Exod. 12, 21—30.
1491. Rameses.	*Y mynediad allan* (o. B. 2513), Exod. 12, 31—36, a 40—42.

Drwy orchymyn Duw, gwnaed Nisan, neu Abib, ar y 14eg noson o ba un y cymmerodd y mynediad allan le, yn fis cyntaf o'r flwyddyn *eglwysig*, Exod. 12, 2. Gan fod y gweddill o hanes Moses wedi ei ddyddio yn benaf o'r cyfnod yma, rhoddwn y dyddiadau o'r amser hwnw.

Exod. 2, 25. Y mae Lightfoot a Townsend yn gosod y Salm 88ain yma (gwel 1 Cron. 2, 6). Cyfeirir hi gan Witsins ac ereill at y caethiwed (1 Cron. 6, 33.)

Exod. 3, 11. Noder petrusder Moses, hyd nes i'w amheuon a'i ofnau gael eu symud drwy amryw brofion gwyrthiol o Ddwyfoldeb ei genadwriaeth.

Eglur yw fod Israel yn yr Aifft wedi cael eu llygru gan eu cymmydogion; oddiwrth hyn y tarddai eu hannghrediniaeth a'u hansefydlogrwydd. Gwel Jos. 24, 14; Ezec. 20, 8; Jos. 5, 9; Lef. 24, 10.

Exod. 3, 14. "Angel yr Arglwydd" a lefara am dano ei hunan fel "Ydwyf yr Hwn ydwyf." Yr un yw ag a waredodd Jacob oddiwrth bob drwg (Gen. 48, 15); yr hwn a roddodd y gyfraith (Act. 7, 38; Exod. 19; 20; 20, 1); yr hwn arweiniodd Israel drwy yr anialwch (Exod. 23, 20, 21); ac a hawliai warogaeth gan Josua (Jos. 5, 15; 6, 2).

Exod. 7, 1. "Prophwyd," neu lefarwr, "i tithau" (3, 16). Prophwydo yn iaith yr Ysgrythyr, yw rhagddywedyd; ac hefyd, dysgu neu lefaru yn gyhoeddus. Gwel Tit. 1, 12; Act. 13, 1; 1 Cor. 11, 4, 5; 14, 1; Eph. 2, 20.

Exod. 7, 13. Pharaoh yn cael ei galedu. Ymddengys i'r *goddefgarwch* Dwyfol gynnyrchu yr effaith yma (8, 31—32).

Exod. 8. Yr oedd yr holl bläau yma yn arwyddocäol; profent allu Duw, a cheryddent eilun-addoliaeth. 1. Y Nile—gwaed; gwrthddrych o

addoliad yn cael ei droi yn wrthddrych o atgasrwydd. 2. Y llyffant cyssegredig ei hunan yn bla. 3. Llau, y rhai a ystyrid gan yr Aifftiaid mor halogedig, fel yr oedd myned â hwynt i mewn i deml yn ffieidd-dra, a orchuddiant yr holl wlad fel llwch. 4. Y mae y gleren (*gadfly*—Zebub), gwrthddrych parch yr Aifftiaid, yn dyfod yn artaith iddynt. 5. Yr anifeiliaid oeddynt yn wrthddrychau addoliad yr Aifftiaid, a syrthiant yn feirw gerbron eu haddolwyr. 6. Y lludw, yr hwn y mae yr offeiriaid yn arfer ei wasgaru fel arwyddion o fendithion, sydd yn dyfod yn gornwydydd. 7. Y mae Isis ac Osiris, duwiau y dwfr a'r tân, yn analluog i amddiffyn yr Aifft rhag tân a chenllysg Duw, hyd y nod mewn tymmor pan oedd ystormydd a gwlaw yn anadnabyddus. 8. Tybid fod Isis a Serapis yn amddiffyn y wlad rhag locustiaid. Gellai gwyntoedd gorllewinol ddwyn y gelynion hyn; ond ar wynt dwyreiniol, nid oedd yr Aifftiwr byth yn ofni, oblegid yr oedd y Môr Coch yn ei amddiffyn. Ond yn awr, y mae Isis yn methu, ac hyd y nod y gwynt dwyreiniol a fawrygid ganddo a dry yn ddinystr iddo. 9. Y lluoedd nefol eu hunain, gwrthddrychau addoliad, dangosir eu bod dan lywyddiaeth Ddwyfol. 10. Y mae y pla diweddaf yn egluro y cyfan. Yr oedd yr Aifft wedi gorthrymu cyntaf-anedig Duw; ac yn awr, y mae pob cyntaf-anedig yn yr Aifft yn cael ei ddinystrio. Sylwer, i'r ddau bla cyntaf gael eu rhagfynegu gan Moses, a'u hefelychu gan yr Aifftiaid. Methasant efelychu y gweddill, a chyfaddefasant iddynt gael eu gwneuthur drwy "fys Duw."

Gwel Traeth. Bryant a'r Esgob Gleig: Stackhouse, i, tud. 472.

Exod. 12, 1—20. Cynnwysa orchymyn a roddwyd bump diwrnod cyn y Pasg; hyny yw, ar neu cyn y 10fed Nisan. Yr hyn yw achos cyflead y ddosran yma.

Exod. 12, 21. Detholid anifail y Pasg ar y 10fed, y dydd yr aeth Crist i Jerusalem, Ioan 12, 12—19. Yn fore ar y 14eg, darperid yr anifail i'w aberthu, a rhwng y 9fed a'r 11eg awr—yr awr y bu Crist farw—lleddid yr anifail; taenellid ei waed ar eu preswylfeydd; ei gorff oedd yn wledd deulwaidd, yn eu cryfhau i'w taith. Ar ganol nos, lladdwyd y cyntaf-anedigion, ac yn nghanol y cyni yma, ond gyda holl dawelwch gorymdaith grefyddol, y mae yr Israeliaid yn gadael tir eu caethiwed. Mor addysgiadol yw y cysgod yma.

Dyddiad a Lle.	Dygwyddiad neu Hanes.
	2. *Dwy daith a deugain yr Israeliaid.*
c. c. 1491. Succoth, Bl. Eg. 1. 1 m. 15 dydd.	Y daith 1af. Ail-orchymyn y Pasg. Gorchymyn i neillduo y cyntaf-anedig. Symudiad esgyrn Joseph, Exod. 12, 37—39, a 43—51; 13, 1—19; Num. 33, 1—5.
Etham.	Yr 2il daith. Israel yn cael eu harwain gan golofn o gwmwl a thân, Exod 13, 20—22; Num. 33, 6.
1491. Pihahiroth, sef genau yr adwy.	Y 3edd daith. Pharaoh yn canlyn, Exod. 14, 1—9; Num. 33, 7.
Marah.	Y 4edd daith. Ffordd drwy y *Môr Coch* (gwel 1 Cor. 10, 1, 2). Dinystr byddin Pharaoh. Cân Moses. Y dwfr chwerw yn cael ei bereiddio, Exod. 14, 10; 15, 26; Num. 33, 8.
Elim. (*Wadi Gharendal.*)	Y 5med daith. Exod. 15, 27; Num. 33, 9.
Y Môr Coch.	Y 6ed daith. Num. 33, 10.

Dyddiad a Lle.	Dygwyddiad neu Hanes.
c. c. 1491,—2 m. 15d. Sin. Exod. 16, 1.	Y 7fed daith. Y bobl yn grwgnach am fara. Y sofl-ieir a'r manna. Cyfarwyddiadau yn nghylch y *manna* (gwel Ioan 6, 31, 49; Dad. 2, 17), Exod. 16, 1—36; Num. 33, 1.
Dophcah.	Yr 8fed daith. Num. 33, 12.
Alus.	Y 9fed daith. Num. 33, 13.
Rephidim.	Y 10fed daith. *Dwfr yn cael ei roddi o'r graig yn Horeb* (1 Cor. 10, 4). Joshua yn gorchfygu Amalec, tra y mae Moses yn gweddio, Exod. 17, 1—16; Num. 33, 14.
3m. 15d. Sinai.	Yr 11eg daith. Darparu tuag at roddiad y gyfraith, Exod. 19, 1—25; Num. 33, 15.
1491. 3m. 15d. Sinai.	Y gyfraith foesol yn cael ei rhoddi. Amryw ddeddfau (barnol yn benaf) yn cael eu gorchymyn. *Yr angel yn cael ei addaw yn arweinydd i'r Israeliaid.* Exod. 20—23.
	Y bobl yn addaw ufydd-dod; *gwaed y cyfammod* yn cael ei daenellu arnynt. Moses ac ereill yn cael golwg ar ogoniant Duw. Moses yn aros ddeugain diwrnod a deugain nos yn y mynydd. Exod. 24.
	Rheddiad y ddeddf seremoniol. Y *tabernacl* a'i ddodrefn, yr offeiriaid a'u gwisgoedd, &c. Y Sabboth yn cael ei orchymyn etto. *Yr aberth dyddiol* a'r *arogldarth*, Rhuf. 8, 3; Dad. 8, 3, 4. Llechau y gyfraith yn cael eu rhoddi i Moses. Exod. 25—31.
	Eilun-addoliaeth a'r llo aur; drylliad y llechau; y bobl yn cael eu cospi; symudiad y tabernacl y tu allan i'r gwersyll. Moses yn eiriol dros y bobl, ac yn gofyn am weled gogoniant Duw. Exod. 32, 33.
Bl. eg. 1. 6m. Sinai.	Y llechau yn cael eu hadnewyddu; enw yr Arglwydd yn cael ei gyhoeddi; Duw yn gwneyd cyfammod âg Israel. Moses yn aros ar y mynydd ddeugain diwrnod a deugain nos; ei wyneb yn dysgleirio, Exod. 34.
	Offrymau y bobl tuag at y tabernacl. Bezaleel ac ereill yn darparu y tabernaci a'i ddodrefn, Exod. 35—39.
1490. Bl. eg. 2.	*Moses yn cael gorchymyn i gyfodi y tabernacl* a'i eneinnio, ac i santeiddio Aaron a'i feibion, [Exod. 40, 1—16] (Ioan 1, 14; 2, 19—21: Col. 2, 9).
1490. Bl. eg. 2.	*Y tabernacl yn cael ei osod i fyny.* Gogoniant yr Arglwydd yn ei lenwi. Yr Israeliaid yn cael eu cyfarwyddo gan y cwmwl, Exod, 40, 17—38.
1m. 1d.	Deddfau ar amryw aberthau ac offrymau, [Lef. 1—7].
	Cyssegrigd Aaron a'i feibion fel offeiriaid, [Lef. 8.]
1m. 8d.	Offrymau Aaron. Tân yn ysu yr aberth, [Lef. 9.]
	Offrymau y tywysogion yn cael eu derbyn, Num. 7.
	Dinystr Nadab ac Abihu, Lef. 10.
	Am ddydd mawr y cymmod, a'r bwch diangol, Lef. 16; gwel Heb. 9; a 5, 1.
1m. 14d.	Yr ail basg yn cael ei gadw. Rhai yn cael caniatâd i'w gadw yn yr ail fis, Num. 9, 1—14.
	Deddfau o berthynas i fwydydd a phuredigaethau, [Lef. 11—15.]
	Deddfau amrywiol, moesol, seremoniol, a barnol. Llabuddio mab Selomith am gabledd, [Lef. 17—22, a 24.]
	Deddfau o berthynas i wyliau, &c., Lef. 23 a 24.
	Addewidion a bygythion prophwydol, Lef. 26.
	Deddfau am addunedau, cyflwyniadau (*devotions*), a degymau, [Lef. 27.]
2m. 1d.	Y llwythau yn cael eu rhifo; eu trefn, [Num. 1, 2.]
	Appwyntiad y Lefiaid i wasanaeth y tabernacl yn lle y cyntafanedig; eu dyledswyddau, Num. 3, 4.

Dyddiad a Lle.	Dygwyddiad neu Hanes.
c. c. 1490. Bl. eg. 2. 2m. 1d.	Sefydliad amryw seremoniau. Deddf y Nazareaid. Y ffurf o fendith, Num. 5—6.
	Cyssegriad y Lefiaid; eu hoedran, ac amser eu gwasanaeth [Num. 8]. Defnydd yr udgyrn arian [10, 1—10]. Y modd yr oedd y cwmwl yn arwain y bobl, 9, 15—23.
	Dyfodiad Jethro, a gwraig a meibion Moses. Cynghora Moses i appwyntio barnwyr i'w gynnorthwyo, Exod. 18, 1—16.
1491. 2 m. 20 d. Anialwch Paran. (*El Tyh.*)	Y 12fed daith. Trefn eu mynediad, [Num. 10, 11, 12 (Num. 33, 16), 28.]
	Moses yn dymuno ar Hobab fyned gydag Israel; Jethro yn dychwelyd i Midian, Num. 10, 29, 32; ac Exod. 18, 27.
	Y ffurf o fendith ar symudiad a gorphwysiad yr arch, Num. 10, 33—36.
	Y llosgiad yn Taberah. Y bobl yn tuchan am gig; Moses yn achwyn ar ei swydd; appwyntio deg a thriugain o henuriaid fel cynghor i'w gynnorthwyo; soflieir yn cael eu rhoddi iddynt mewn digofaint, Num. 11, 1—34.
Haseroth.	Y 13eg daith. Miriam yn cael ei tharaw â gwahanglwyf am wrthryfel, Num. 11—35 (Num. 33, 17), 12, 15.
5 m.—7 m. Cades Barnea, neu En Mispah. 1490. Bl. eg. 2. 7 m. 6 d.	Y 14eg daith. Yspïwyr yn cael eu hanfon allan i chwilio y tir; deg o honynt yn dywedyd yn ddrwg am dano; Caleb a Josua yn ffyddlawn, Num. 12, 16 (Num. 33, 18); 13.
	Israel yn grwgnach o herwydd mynegiad yr yspïwyr; Duw yn bwgwth; Moses yn eiriol; yn cael eu condemnio i grwydro deugain mlynedd, Num. 14, 1—39; Salm 90.
	Y bobl yn myned i fyny yn groes i ewyllys Duw, yn cael eu gorchfygu, Num. 14, 40—45.
	Deddf yr offrymau; tòrwr y Sabboth yn cael ei labuddio, [Num. 15.]
	Gwrthryfel Corah, &c.; anfoniad daeargryn, tân, a phla; *Aaron yn cael ei gymmeradwyo fel archoffeiriad* drwy flodeuad ei wialen, Num. 16, 17.
	Swydd a chyfran yr offeiriaid a'r Lefiaid, [Num. 18.]
	Dwfr neillduaeth; pa fodd i'w wneyd a'i ddefnyddio, [Num. 19.]
1490—1452. Bl. eg. 2—40.	Y ddwy daith ar bumtheg ereill o eiddo yr Israeliaid (o'r 15fed i'r 31ain) yw eu crwydriad yn yr anialwch am yn agos deunaw ar hugain o flynyddoedd, Num. 33, 19—35.
1452. Bl, eg. 40. 1 m. 1490. Cades.	Y 32ain daith. Marwolaeth Miriam, Num. 20, 1; 33, 36.
	Y bobl yn grwgnach am ddwfr; Moses ac Aaron yn troseddu; dim un o honynt i fyned i Ganaan, Num. 20, 2—13.
	Edom yn gwrthod ffordd i'r Israeliaid, Num. 20, 14—21.
Mynydd Hor.	Y 33ain daith. Marwolaeth Aaron; Arad yn ymosod ar Israel, ac yn cael ei orchfygu, Num. 20, 22—21, 3; 33, 37—40.
Salmonah.	Y 34ain daith. Y bobl yn grwgnach; anfoniad y seirff tanllyd; *y sarff bres yn cael ei gosod i fyny*, (gwel Ioan 3, 14); Num. 21, 4 (33, 41)—9.
Punon, Oboth, Iye-Abarim.	Teithiau y 35ain, 36ain, a'r 37ain. Num. 21, 10, 11; 33, 42—44.
Dibon-gad.	Y 38ain daith. Num. 33, 45.
	Yr Israeliaid yn aros yn Zared, Arnon, a Beer, Num, 21, 12—28.
	Sehon, yr Ammoriad, yn gwrthwynebu eu ffordd; yn cael ei orchfygu, Num. 21, 21—32.
	Og, o Basan, yn ymosod arnynt; yn cael ei orchfygu, Num. 21, 33—35.
Almon-diblathaim.	Y 39ain daith, Num. 33, 46.

Dyddiad a Lle.	Dygwyddiad neu hanes.
c. c. 1490,—Abarim. Gwastadedd Moab wrth yr Iorddonen.	Y 40fed daith. Num. 21, 18—20; 33, 47. Yr 41ain daith. *Hanes am Balaam* a Balac, (Luc 1, 78; Dad. 22, 16; 1 Cor. 15, 25.) Num. 22, 1 (33, 48)—41; 23; 24. Y 42ain daith. Eilun-addoliaeth Baal-Peor; sêl Phineas, Num. 25, 1 (33, 49)—18. Cyfrifiad y bobl y drydedd waith, [Num. 26.] Merched Salphaad; deddfau etifeddiaeth, Num. 27, 1—11; 36. Deddfau offrymau, addunedau, &c., Num. 28—30.
1451. Bl. eg. 40.	Lladdfa Midian; Balaam yn cael ei ladd, Num. 31. Tiriogaethau yn cael eu rhoddi i Reuben, Gad, a rhan o Manasseh, o'r tu dwyreiniol i'r Iorddonen, Num. 32. Cyfarwyddiadau i'r Israeliaid wrth fyned i Ganaan; terfynau y tir yn cael eu darlunio; wyth a deugain o ddinasoedd i'r Lefiaid, chwech o ba rai ydynt i fod yn ddinasoedd noddfa; y deddfau am lofruddiaeth, Num. 33, 50—56; 34; 35.

Exod. 12, 37. Cymmerir y drefn yma o'r teithiau o Num. 35. Gwelwn yma pa fodd y mae Duw yn diddyfnu ei bobl oddiwrth eilun-addoliaeth, pa fodd y mae yn eu cynnefino mewn profedigaeth, ac yn eu hyfforddi mewn ufydd-dod. Am esboniad ymarferol ysbrydoledig ar hanes yr Israeliaid yn yr anialwch, gwel Salm 78; 105; 106; 136; a 1 Cor. 10.

Lef. Y fath hanes addysgiadol am un mis. Aaron yn cael ei gyssegru, er prawf o'r santeiddrwydd gofynol mewn addoliad; ei feibion Nadab ac Abihu yn cael eu cospi am ddirmyg halogedig ar awdurdod ddwyfol (gwel Exod. 30, 9) yn mhen ychydig ar ol eu cyssegriad, yr hwn a gadarnhäwyd drwy wyrth, Exod. 24, 9; Lef. 9, 24; rhoddiad i fyny ei swydd gan Aaron yn arwydd effeithiol o ras, 10, 3; y cablwr yn cael ei labuddio.

Lef. 11. Fel y mae aberthau y gyfraith yn cyfeirio at Grist a'i iawn, felly y cyfeiria y puredigaethau aml at angen dyn am burdeb mewnol a dylanwad glanhäol yr Ysbryd Glân.

Cynnwysa y ddeddf seremoniol ddefodau tebyg iawn i'r rhai a arferir gan amryw genedloedd paganaidd; ond gyda gwahaniaethau amlwg (Spencer, de Leg. a Michaelis). Meddylia rhai (gyda Warburton a Maimonides) i'r blaenaf fenthycio oddiwrth yr olaf, ac ereill (gyda Gale a Stillingfleet) a feddyliant i'r olaf fenthycio oddiwrth y blaenaf; ereill (megys Calmet a Faber) a ddadleuant i'r cyfan gael eu cymmeryd oddiwrth osodiadau patriarchaidd boreuol, y rhai a lygrwyd gan y cenedloedd, ac a ddullweddwyd *(modified)* gan Dduw ei hunan, i gyfateb cyflwr neillduol yr Iuddewon. Y ddamcaniaeth olaf, yr hon yw y mwyaf tebygol o'r tair, a gadarnhëir gan y ffaith fod llawer o draddodiadau cyssefin yn gynnwysedig yn nghyfundraethau moesol, crefyddol, ac athronyddol, llawer o hen genedloedd.

Num. 9, 1—14. Y mae y ddosran yma allan o'i lle, gwel ad. 1.

Num. 35, 31, 32. Gwel adr. 329 (*h*), ar "foddlonrwydd."

Pan aeth teulu Jacob i'r Aifft, nid oeddynt yn rhifo ond deg a thriugain o eneidiau, Gen. 46, 27. Yn awr, gellir casglu fod eu hiliogaeth yn rhifo dros ddwy filiwn (pen. 26); mor helaeth yr oedd Duw eisoes wedi cyflawnu ei addewid.

Dyddiad a Lle.	Dygwyddiad neu Hanes.
c. c. 1451. Bl. eg. 40. 11 m. 1 d.	3. *Adolygiad a rhybyddeg (charge) ddiweddaf Moses.* Adolyga Moses hanes yr Israeliaid, a chyflwyna rai pethau newyddion, Deut. 1—4. Y gyfraith foesol yn cael ei hail-adrodd a'i chymhell, Deut. 5, 9; 10, 1—5, 10—22; 11. Y gyfraith seremoniol yn cael ei hail-adrodd, gyda gorchymynion yn erbyn eilun-addoliaeth, &c. [Deut. 12—16; 17, 1.] Y gyfraith farnol *(judicial)* yn cael ei hail-adrodd a'i hegluro. *Crist yn cael ei ragfynegu fel prophwyd, ar yr hwn yr oeddynt i wrandaw,* Deut. 17, 2—20 [18—26]. Moses yn cyfarwyddo Israel, ar ol myned i Ganaan, i ysgrifenu y gyfraith ar geryg, ac i gyhoeddi ei bendithion a'i melldithion ar fynydd Gerazim, ac ar fynydd Ebal, Deut. 27. Addewidion a melldithion prophwydol, Deut. 28. Yr appeliad diweddol at yr Israeliaid, Deut. 29; 30.

Deut. Ar y pwysigrwydd o gymharu y gyfraith fel y rhoddir hi yn Deuteronomium, â'r gyfraith fel y rhoddir hi yn y llyfrau horeuach, gwel Rhan II., adr. 8.

Dyddiad a Lle.	Dygwyddiad neu Hanes.
c. c. Bl. eg. 40. 11 m.	4. *Appwyntiad Josua; marwolaeth Moses.* *Ordeiniad Josua i ganlyn Moses,* Num. 27, 12—23. Moses yn cefnogi y bobl a Josua; yn gorchymyn i'r offeiriaid ddarllen y gyfraith yn gyhoeddus bob seithfed flwyddyn, Deut. 31, 1—13. Rhybyddeg Duw i Josua; Moses yn ysgrifenu cân o dystiolaeth; yn gorphen ysgrifenu y gyfraith, ac yn ei rhoddi i'r Leflaid, gyda rhagfynegiad am anufydd-dod Israel, Deut. 31, 14—29. Moses yn adrodd ei gân, ac yn annog Israel i osod eu calon arni, Deut. 31, 30; 32, 1—47. Moses yn esgyn mynydd Nebo i weled tir Canaan, ac i farw, Deut. 32, 48—52. Moses mewn modd prophwydol yn bendithio y llwythau, Deut. 33. Moses yn edrych ar dir yr addewid; yn marw; ei gladdedigaeth a'i gymmeriad, Deut. 34.

Dos. 5. *Amcan y Gyfraith—Crynodeb o'i Sefydliadau Crefyddol.*

25. Gellir gofyn, gan hyny, beth oedd dyben yr oruchwyliaeth henafol hon, ac i ba amcan y mae yn rhaid i ni ei myfyrio? Yr oedd ffydd a duwioldeb yn bod cyn iddi gael ei rhoddi. Y mae ffydd a duwioldeb yn aros yn awr, pan y mae wedi ei diddymu. Fel sefydliad, cyfaddefir ei bod yn feichus; ac os ei hamcan oedd rheoli addoliad Duw, rhoddi arddangosiad ffigurol o'r efengyl, neu ysgaru yr Iuddewon oddiwrth genedloedd ereill, gallesid cyrhaedd yr amcan yma drwy foddion mwy syml. Heblaw hyny, oni allasai rhai pethau, nad oeddynt wedi eu

hargraffu yn ddwfn ar feddyliau yr hen Iuddewon, gael eu dadguddio yn fwy eglur;—ysbrydoliaeth, er enghraifft, yr oruchwyliaeth ddyfodol, a gogoniannau bywyd tragywyddol? Mewn atebiad i'r gofyniadau uchod, cofier fod tuedd gref mewn dyn i annghofio Duw. Rhinwedd, gwirionedd, duwioldeb, ymostyngiad i'r ewyllys Ddwyfol, cydymffurfiad â'r gyfraith Ddwyfol, ac amcanu, uwchlaw pob peth, at y gogoniant Dwyfol, ydynt, nid yn unig yn bethau *nad* ydynt yn naturiol; ond pethau ydynt i ba rai y mae gan ddyn wrthwynebrwydd uniongyrchol. Heb ddadguddiadau olynol, neu ryw ddarpariaeth gyffelyb i'r un a geir yn yr Hen Destament, rhaid y buasai y teimladau a ddesgrifir gan yr ymadroddion yma, ynghyd a'r gwirioneddau ar ba rai y maent yn sylfaenedig, er ys amser maith wedi diflanu o'r ddaear. Cyrhaeddir y penderfyniad yma drwy gyfosiad o neillduolion (*induction of particulars*) mor gywir ag un mewn gwyddoniaeth. Yn awr, meddylier fod gan Dduw i ymwneyd â dynion ag ydynt bob amser yn dueddol at eilun-addoliaeth a barbareiddiwch, mewn cyflwr plentynaidd o ran deall, heb un chwaeth at fendithion ysbrydol pur, ac mor ddaearol, fel ag i fod yn analluog i'w hamgyffred hwynt; ei fod ef am argraffu ar y cyfryw feddyliau ei ddelw foesol ei hunan, yn ei berffeithderau anfeidrol, a'u dwyn i'w addoli ef gyda pharch dyladwy; dangos iddynt beth sydd yn eu calonau, fel ag i'w gwneyd yn ostyngedig o herwydd eu llygredigaeth; eu dysgu hwynt i'w gydnabod ef yn ei holl ffyrdd, fel y byddo iddynt ofni ei allu, ac ymddiried yn ei gariad; dyrchafu eu hyder yn Nuw eu tadau, eu Duw cyfammodol; tueddu eu calonau tuag at ei le santaidd, a'r rhagorfraint o gymmundeb âg ef;—tybier ei fod yn ewyllysio eu dynodi fel ei bobl *neillduol* (hyny yw, rhai prynedig a neillduedig); attal ymgyfathrachiad diangenrhaid rhyngddynt hwy a'u cymmydogion eilun-addolgar; uno pob dosparth o Israeliaid yn un corff, dan un brenin; eu dysgu i garu y naill y llall fel brodyr; attal y duedd, yn mhob cyfundeb, i gynnull cyfoeth mawr i ddwylaw ychydig, a'r gormes sydd yn tarddu oddiwrth y cyfryw gynnulliad; cynnyrchu diwydrwydd gonest yn mhlith y bobl; rhoddi i bob dyn yr argyhoeddiad fod ganddo enw a lle yn ei wlad; sicrhau darpariaeth gyfaddas i'r amddifad a'r weddw; darparu gorphwysfa a diwylliant moesol i bob gwasanaethwr; cyssylltu cynnaliaeth y dosparth dysgedig ac offeiriadol, mewn rhan o leiaf, âg ufydd-dod a duwioldeb y bobl, er eu cynhyrfu i ddiwydrwydd mewn dysgu y gyfraith;—tybier ei fod am ddadguddio ei hunan gydag hawliau newyddion; cynnal coffadwriaeth o'r hyn a wnaeth drostynt fel cenedl; dysgu iddynt ufydd-dod trylwyr; cynnyrchu meddyliau a theimladau cydunol â swydd, gwaith, a theyrnasiad y Messiah hwnw oedd i gael ei gyflwyno gan y sefydliadau amrywiol yma:—a thybier, yn olaf, o herwydd llygredigaeth euog dyn, a'r anmhosiblrwydd i ufydd-dod defodol ei lanhau mewn modd ysbrydol oddiwrth bechod, fod y gorchymynion a'r defodau yma, *wrthynt eu hunain yn unig*, yn aneffeithiol i sicrhau iddo fwy nâ maddeuant deddfol, nac i roddi iddo mewn un ystyr fywyd *tragywyddol*;—caniatäer fod y tybiau yma yn darlunio dyben y gyfraith, ac ymddengys ar unwaith ei chyfaddasrwydd i'w hamcan.

Yn awr, y mae y tybiau hyn mewn gwirionedd yn desgrifio ei hamcan, er y gellid ei gosod allan mewn dulliau amrywiol. Ai rheithlyfr *moesol* (*moral code*) yw y ddeddf? Dysg i ni ein dyledswydd tuag at ddyn a Duw. Ai defod-lyfr (*ritual observance*) ydyw? Dysg i ni ein ffaeleddau ein hunain, a santeiddrwydd; ac heblaw hyny, cyfeiria at y groes. Ai sefydliad gwladol ydyw? Rheola addoliad Brenin Anweledig, ceidw yr

Iuddewon fel bobl neillduedig, a chymhella gariad brawdol. Wrth ei hystyried fel dadguddiad o wirionedd (crefydd wrthddrychol—*objective religion*), y mae ei holl ranau yn addysgiadol. Wrth edrych arni fel *cysgod* o wirionedd i'w ddadguddio ar ol hyny, y mae yn cynhyrfu ac yn dyfnhau teimlad santaidd (crefydd destunol—*subjective religion*). Wrth edrych arni yn benaf fel trysorfa o'r wybodaeth draddodiadol foreuaf, y mae yn cadw y wybodaeth hono, gan ychwanegu llawer o'i eiddo ei hunan, er mwyn ei chadw, er yn ddiau fod amgyffrediad ysbrydol o'i gwirioneddau, yn awr, fel o'r blaen, yn hanfodol er iachawdwriaeth. Pa fodd bynag y dichon i amcan y gyfraith gael ei ddarnodi, y mae y prif ffeithiau o hyd yn aros. Dadguddia bechod dyn, santeiddrwydd a chariad Duw, maddeuant drwy aberth, a santeiddiad fel ei ganlyniad, gwaith ynghyd a theyrnas Crist, tra y darpara tuag at gadwraeth y gwirioneddau yma mewn byd sydd bob amser yn dueddol i annghofio yr hyn sydd ysbrydol, ac i gilio oddiwrth yr hyn sydd santaidd. Y mae yr holl sefydliad ar unwaith yn efengyl ac yn eglwys. Yr oedd yn cadw, ac yn gwylied duwioldeb, undeb, a dedwyddwch; y mae yn mhob peth yn deilwng o'i Hawdwr, ac o'r cymmeradwyaethau y mae Iuddewon duwiol wedi roddi iddi yn mhob oes, Salmau 19, 119.

26. Y cyfansoddiad Iuddewig oedd mewn egwyddor (*theory*) yn Ddwyflywyddiaeth (*theocracy*); arddangosiad gweledig o deyrnasiad Duw. Ystyrid Jehofah ei hunan fel brenin; rhoddwyd y deddfau ganddo ef; ystyrid y tabernacl (ac wedi hyny y deml) fel ei balas ef; yno y rhoddai amlygiadau gweledig o'i ogoniant; yno y dadguddiai ei ewyllys; yno yr offrymid "bara ei bresenoldeb;" yno y derbyniai ei weinidogion, ac y cyflawnai ei swydd fel penadur. Am hyny, y mae tir Palestina yn cael ei osod allan bob amser fel yn cael ei ddàl mewn modd uniongyrchol oddiwrth Dduw (Lef. 25, 23). Ato ef yr oedd heddwch a rhyfel, pynciau a benderfynir bob amser gan yr awdurdod uchaf, yn cael eu cyfeirio (Deut. 1, 41, 42; Jos. 10, 40; Barn. 1, 1, 2; 1 Bren. 12, 24); ac yr oedd eilun-addoliaeth yn drosedd. Gan hyny, mewn perthynas i'r Iuddewon, yr oedd Jehofah yn Dduw ac yn frenin.

27. Cedwid y cymmeriad dyblyg yma yn holl drefniadau yr hen gyfraith.

1. Yr oedd y Tabernacl, lle y cynnelid addoliad Duw o'r mynediad allan o'r Aifft hyd deyrnasiad Solomon, yn deml i Dduw, ac yn balas i'r Brenin anweledig. Ei "breswylfod santaidd" ef ydoedd. Yma y cyfarfyddai â'r bobl, ac y cymmunai â hwynt; a gelwid ef, am hyny, yn "Dabernacl y Gynnulleidfa." Adeilad hirgul (*oblong*) a chywir-onglog (*rectangular*) ydoedd, 55 o droedfeddi wrth 18, wedi ei adeiladu âg estyllod o ddraenen yr Aifft (*acacia*), wedi eu harwynebu âg aur, ac wedi eu huno â barau euraidd, ac yn sefyll ar seiliau o arlan. Amddiffynid y cyfan gan bedwar o orchuddiadau gwerthfawr. Exod. 26, 7—13. (Gwel Sittim.) Nid oedd y talcen dwyreiniol wedi ei gau âg estyllod, ond â llèn o gotwm, wedi ei chrogi wrth wiail arian, y rhai a gynnelid gan bump o golofnau wedi eu gorchuddio âg aur. Yr oedd y tu fewn wedi ei ddosparthu yn ddwy ran gan lèn o ddefnydd gwerthfawr, wedi ei brodio mewn modd cywrain â lluniau cerubiaid ac addurniadau ereill (Exod. 26, 36, 37.) Yr ystafell gyntaf oedd y Lle Santaidd. (Heb. 9, 2.) Yr un bellaf i mewn a lleiaf oedd, y "Santaidd Santeiddiolaf." *Yma* yr oedd arch y cyfammod, yr hon oedd flwch hirgul o goed, wedi ei goreuro, ac "uwch ei phen" lun dau gerub gydag adenydd ymledol. Uwchlaw y

rhai hyn yr oedd "y Gogoniant," arwyddlun y presenoldeb Dwyfol. Gorphwysai rhyngddynt, a deuai i lawr hyd at gauad yr arch—"y drugareddfa." Yn, neu yn agos i'r arch, yr oedd y llechau ceryg, llyfr y gyfraith, y crochan a'r manna, a gwialen Aaron (Exod. 25, 21; Deut. 31, 26; Heb. 9, 4.) Yn y gyntaf, neu y rhag-ystafell (*ante-room*), yr oedd allor aur yr *arogldarth* wedi ei gosod (Exod. 30, 1—10); y ganwyllbren, neu y lamp aur saith-gangenog (Exod. 25, 31—39); a'r bwrdd pren gorenredig, ar yr hwn yr oedd y bara dangos a'r gwin yn cael eu gosod (Exod. 25, 23—30.)

O amgylch y Tabernacl yr oedd cyntedd (*court*) ëang, oddeutu 180 troedfedd wrth 90 troedfedd, ac a ffurfid gan lèni o liain, wedi eu crogi â bachau arian ar wiail arian, y rhai a gyrhaeddent o un golofn i'r llall. Y colofnau yma oeddynt o ddraenen yr Aifft, ac i gyd yn ugain o rifedi; cynnelid hwynt, mae yn debygol, gan seiliau (*bases*) o bres, ac yr oeddynt yn 8 neu 9 troedfedd (5 cufydd) o uchder. Yr oedd y drws ar yr ochr ddwyreiniol, a chanid ef gan freithlen (*tapestry*) grogedig, wedi ei haddurno â lluniau mewn glas, a phorphor, ac ysgarlad (Exod. 27, 9, 19; 26, 36, 37.) Yn y cyntedd yma, yr hwn oedd yn agored oddi fyny, yr oedd holl wasanaeth cyhoeddus crefydd yn cael ei ddwyn yn mlaen, a'r holl aberthau yn cael eu cyflwyno. Yn agos i'r canol yr oedd yr allor bres fawr bedeir-onglog (5 cufydd yn mhob ffordd, a 3 o uchder), a phigynau ar ei chonglau, y rhai elwid "cyrn," (Exod. 27, 1—8; Sal. 118, 27.) Yr oedd esgynfa iddi ar y tu deau wedi ei wneuthur o bridd (Exod. 20, 24; 38, 1—7). Offerynau amrywiol yr allor yma oeddynt o bres, megys yr oedd y rhai perthynol i allor yr arogldarth o aur (Exod. 27, 3; 38, 3; 25, 31—40). Yn nghyntedd y tabernacl, rhwng yr allor bres a'r tabernacl, y safai y noe, wrth yr hon yr elai yr offeiriaid drwy eu golchiadau cyn dynesu at yr allor (Exod. 30, 15—21). Ar yr allor yr oedd tân yn llosgi yn barhaus, wedi ei gynneu ar y cyntaf yn wyrthiol, ac wedi hyny a gedwid i fyny gan yr offeiriaid (Lef. 9, 24; 6, 12; 10, 1).

Adeiladwyd teml Solomon yn ol yr un cynllun, a chynnwysai yr un dodrefn; ond yr oedd yn llawer ëangach, a'r defnyddiau yn fwy drud a pharhaus. Yn lle *un* cyntedd, yr oedd iddi *dri*, a'r un nesaf i mewn yn cyfateb i gyntedd y tabernacl. Yn lle y lleni, yr oedd muriau a cholofnresau; cynnrychiolid y noe bres gan y mor tawdd, 1 Bren. 7, 26; a'r deg noe fechan, 1 Bren. 7, 27—39. Yr oedd rhwysgfawredd gwasanaeth y deml yn fwy nag eiddo y tabernacl, ac yn cyfateb i allu helaethach y genedl, ac i'r dadguddiad eglurach a roddes Duw o'i awdurdod freiniol.

Synagogau yr Iuddewon a berthynent i ddyddiad llawer diweddarach. Adeiladau syml a dirodres oeddynt, yn mha rai y cyfarfyddai yr Iuddewon i weddio, i wrandaw Moses a'r prophwydi yn cael eu darllen, ac i dderbyn addysg. Nodir hwynt yn fynych yn y Testament Newydd, ac ymddengys iddynt gyfodi ar ol y caethiwed.

28. (2.) Fel yr oedd y tabernacl yn deml Dduw, ac yn balas y Brenin Mawr, felly yr oedd y Lefiaid yn offeiriaid, ac yn swyddogion gwladol.

O dan y gyfraith, cyfyngid yr archoffeiriadaeth i deulu Aaron, ac yn oes buraf yr oruchwyliaeth hono, i'r cyntafanedig yn y tŷ hwnw; ond fodd bynag, Nadab, ei fab henaf, a fu farw drwy ei annuwioldeb yn ystod archoffeiriadaeth ei dad, ac felly Eleazar a ddilynodd Aaron, ac oddiwrtho ef aëth y swydd mewn olyniaeth i Eli. Troswyd hi oddiwrtho ef i deulu Ithamar (pedwerydd mab Aaron); ond yn nyddiau Solomon, dychwelodd i deulu Eleazar, lle yr arosodd hyd y caethiwed. Yn ystod y deyrnach

Asmoneaidd, cynnelid hi gan deulu Lefiaidd neillduol (*private*), a thua diwedd y wladwriaeth Hebreig, yr oedd hawl yr olyniaeth yn cael ei diystyru yn hollol.

Cyssegrwyd Aaron gan Moses, ac yr oedd ei feibion yn offeiriaid dano ef. Yr archoffeiriad yn unig a elai i ystafell nesaf i mewn y tabernacl, a hyny unwaith yn y flwyddyn, ar ddydd y cymmod.

Yn nheyrnasiad Dafydd, yr oedd hiliogaeth Eleazar ac Ithamar mor lluosog, fel nas gallasent oll gyflawnu eu dyledswyddau cyssegredig ar yr un amser; rhanwyd hwy, gan hyny, i 24 o gylchoedd, pob un yn gwasanaethu wythnos olynol, ddwywaith yn y flwyddyn leuadol (*lunar year*), 1 Cron. 24. Yr oedd i bob cylch ei brif neu ei ben, a'r rhai hyn, mae yn debygol, oedd yr archoffeiriaid y cyfeirir atynt mor fynych yn yr efengylau. Arnynt hwy yr oedd holl ofal yr aberthau a'r gwasanaeth crefyddol yn y deml; rhoddid y rhan fwyaf o ddyledswyddau pwysig eu swydd i bob un drwy goelbren.

Yr oedd yr holl offeiriaid yn Lefiaid; hyny yw, yn ddisgynyddion o Lefi, drwy *Gersom ac Aaron*. Yr oedd gan Lefi, fodd bynag, blant ereill, ac yr oedd en holl hiliogaeth wedi eu hordeinio i ddyledswyddau cyhoeddus. Cynnorthwyent yr offeiriaid, ffurfient warchodlu y tabernacl, a throsglwyddent ef o le i le (Num. 4, 1—20). Yn amser Dafydd, yr oedd yr holl gorff wedi ei ranu i dri dosparth, a phob un o honynt wedi ei ddosranu i 24 o gylchoedd. Y dosparth cyntaf a weinyddai ar yr offeiriaid; yr ail a ffurfiai y côr cantorion yn y deml, a'r trydydd a weithredent fel porthorion a gwylwyr (1 Cron. 24, 25, 26) yn y deml ac wrth y pyrth.

Ymddengys yn debygol fod y Lefiaid oll yn gweithredu, pan nad oeddynt yn cyflawnu y gwasanaeth yn y deml, fel addysgwyr i'r bobl; hwynt hwy, mewn gwirionedd, oedd y dosparth dysgedig.

Tuag at gynnaliaeth y corff mawr hwn o bobl, yr oedd 48 o ddinasoedd, a darn o dir o gylch pob un, wedi eu gosod: y degfed o holl gynnyrch ac anifeiliaid y wlad (Lef. 27, 30; Num. 35, 1—8), yr oedd degfed o'r degfed hwn yn myned i'r offeiriaid; yr oeddynt hefyd oll yn cyfranogi o ddegfed arall o'r cynnyrch, yr hwn a gyfrenid gan y bobl yn gyffredin mewn gwledd-offrymau (*feast-offerings*), i ba rai yr oedd y Lefiaid yn cael en gwahodd. (Deut. 14, 22—27.)

Pan heb fod yn cyflawnu eu dyledswyddau neillduol, ymwisgai yr offeiriaid fel dynion ereill; ond pan yn cyflawnu y dyledswyddau hyn, eu peisiau, eu meitrau, eu gwregysau, &c., oeddynt oll o liain main gorwyn (Exod. 39, 27, 38.) Yr oedd gwisg yr archoffeiriad yn ardderchog ac arwyddluniol. Dros ei hugan wèn (*tunic*) gwisgai fantell o sidan glas, ac ar ei godrau glychau aur bychain (Exod. 28, 31—34). Ar hyn, yr oedd gwisg fèr heb lewys iddi—yr "ephod," o liain main, wedi ei chymmysg-weithio âg aur a phorphor; ac ar ddwy gàrai yr ysgwydd yr oedd maen gwerthfawr, ar ba rai yr oedd enwau y llwythau wedi eu cerfio (28, 5—12.) Y tu blaen yr oedd dwyfroneg barnedigaeth, wedi ei haddurno yn gyffelyb, a phob maen wedi ei gerfio yn yr un modd (28, 15—21.) Ar ei ben yr oedd math o feitr, wrth y tu blaen i'r hwn yr oedd llafn o aur wedi ei sicrhau, ac yn gerfiedig arno, "Santeiddrwydd i'r Arglwydd." Yn gyssylltiedig â'r ddwyfroneg yr oedd yr Urim a'r Thummin, drwy y rhai y galluogid yr offeiriad i wybod ewyllys y Brenin anweledig. Ni wyddis yn sicr pa fodd y rhoddid yr atebiad.

Cyssegrid yr holl offeiriaid i'w swydd âg "eneiniad santaidd," ac y mae ystyr ysbrydol yr holl sefydliad yn amlwg.

29. (3.) Yr oedd aberthau yn ffurfio y rhan fwyaf hanfodol o addoliad crefyddol yn mhlith yr Iuddewon, fel yn mhlith yr holl hen genedloedd. Y mae y pwnc, gan hyny, o bwys mawr, a chan fod y cyfreithiau perthynol iddo yn wasgaredig drwy bum llyfr Moses, rhoddwn eu cynnwysiad mewn ffurf gyssylltiadol.

i. Yr oedd y pethau a aberthid yn cael eu cymmeryd o'r deyrnas *lysieuol* a'r deyrnas *anifeiliaidd*. Y rhai o'r blaenaf a elwid aberthau diwaed (*prosphorai, Minchoth*), a'r rhai o'r olaf yn waedlyd (*zevachim, thusiai*, aberthau lladdedig). Yr halen mwnawl, arwyddlun purdeb, a ddefnyddid gyda'r ddau.

O'r deyrnas lysieuol y cymmerid y bwyd-offrymau (blawd, teisenau, ŷd crasedig, thus—*frankincense*), a'r diod-offrymau (*nesek, sponde*, Phil. 2, 17), o win, naill ai yn ei sefyllfa naturiol neu eplesedig (*fermented*). Y ddau fath yma o offrymau a gyssylltid yn gyffredin, ac ystyrid hwynt yn ychwanegiad at yr hedd-aberthau a wneid drwy dân, Num. 15, 5—11; 28, 7—15; Lef. 14, 10—21.

Nid oedd y diod-offrymau (*libations*) paganaidd yn annhebyg i'r diod-offrymau dan y gyfraith. Il. I. 462: Æn. 6, 254, gyda gwahaniaethau nodweddiadol, fodd bynag; yr oeddynt yn gynnwysedig o win a gwaed, Sall. Cat. dos. 32; Salm 14, 4; Zech. 9, 7.

Yr annifeiliaid a offrymid oedd ychain, geifr, a defaid. Rhaid oedd iddynt oll fod yn berffaith-gwbl, heb fod dan wyth niwrnod oed, na thros dair blwydd. Aberthid colomenod hefyd ar rai achlysuron, Exod. 22, 20; 12, 5; Lef. 9, 3. Nid oedd pysgod yn cael eu hoffrymu un amser, ac yr oedd aberthau dynol yn cael eu gwahardd mewn modd pendant, Lef. 18, 21; 20, 25.

ii. Nid oedd offrymau yn cael eu cyflwyno ond yn y cyntedd o flaen y cyssegr, y tabernacl, sef, ar ol hyny, y deml, Lef. 17, 1—9; Deut. 12, 5—7. Yn achlysurol, fodd bynag, offrymid aberthau mewn lleoedd ereill, a hyny yn ddigerydd, Barn. 2, 5; 1 Sam. 7, 17; 9, 12; 1 Bren. 18, 19—32.

iii. Amcan aberthau y gyfraith oedd mynegu diolchgarwch i Dduw, neu wneyd cymmod dros bechod. Amcan yr hedd-aberthau oedd y blaenaf: ac eiddo y pech-aberthau, a'r offrymau dros gamwedd, oedd yr olaf. Yr oedd iawn dros bechod yn cael ei wneuthur, cofier, nid drwy haeddiant neu effeithioldeb yr aberth a offrymid, ond drwy aberth mawr Mab Duw, yr hwn a gysgodid ganddo, ac yn yr hwn y credai yr addolwr ysbrydol. Yr oedd aberthau y ddeddf, fodd bynag, yn gwneyd iawn *cyfreithiol neu wladol;* yr oeddynt yn rhyddhau yr offrymydd oddiwrth gospedigaeth gyfreithiol trosedd.

iv. Yn offrymiad yr aberth, yr offrymydd ei hunan, wedi ei buro yn ol y gyfraith (1 Sam. 16, 5: Exod. 19, 14), a ddygai yr anifail at yr allor, a chan droi tuag at y cyssegr (Lef. 2, 3, 4: 3, 1: 17, 4), gosodai ei law ar ei ben (Lef. 1, 4: 3, 2: 4, 33), i ddynodi fod ei bechod ef a'i gospedigaeth yn cael ei drosi ar yr anifail. Yna, efe a'i lladdai (Lef. 1, 5); gallai yr offeiriad, fodd bynag, wneyd hyn, a chyflawnid y weithred weithiau ganddynt (2 Cron. 29, 24; Ezra 6, 24). Pan leddid yr anifail, derbyniai yr offeiriad y gwaed, a thaenellai, neu tywalltai ef yn agos i'r gwahanol offrymau, ond etto yn neillduedig oddiwrthynt. Tòrid yr anifail yn ddarnau gan yr offrymydd (Lef. 1, 6), a llosgid ei frasder ef gan

yr offeiriad. Mewn rhai aberthau, yr oedd yr anifail cyn, neu ar ol ei ladd, yn cael ei ddyrchafu neu ei godi fyny, a'i ysgwyd tua'r nef, yn arwydd o'i gyflwyniad i Jehofah.

v. Yr oedd amryw fathau o aberthau.

Poeth-offrymau, pech-aberthau, ac offrymau dros gamwedd, ac hedd-aberthau.

1. Poeth-offrymau; llosg-ebyrth (*ola, olokautoma*), oeddynt yn gynnwysedig mewn aberthu anifail gwrryw, a'i gwbl losgi yn tân. Lleddid yr aberth ar y tu gogledd i'r allor, amddifadid ef o'i groen (yr hwn a berthynai i'r offeiriaid, Lef. 7, 8), ac yna tòrid ef yn ddarnau gan yr offrymydd. Taenellid y gwaed o amgylch yr allor, a gosodid darnau yr aberth bob yn un ac un ar y tân, yr hwn a gadwai yr offeiriad i losgi bob amser.

Amcan poeth-offrymau oedd gwneyd iawn dros bechodau yn gyffredinol (Lef. 1, 4). Cyflwynid hwynt yn ddyddiol, yn enw y genedl (Ex. 29, 38—42; Num. 7, 15—17; 8—12), ar ddydd mawr y cymmod (Lef. 16, 3), ac ar y tair gwyl arbenig. Offrymid hwynt hefyd gan bersonau neillduol oeddynt yn Lefiaidd aflan, sef, menywod (Lef. 12, 6—8); gwahangleifion (Lef. 14, 21—31); Nazareaid (Num. 6, 11—14); a'r rhai y cyfeirir atynt yn Lef. 15, 1—15. Pan offrymid dwy golomen, gwnelid un o honynt yn boeth-offrwm, Lef. 5, 10. Yr oedd cannoedd o'r offrymau yma yn cael eu haberthu weithiau, Ezra 6, 17: I Cron. 29, 21; ac mewn amseroedd diweddarach, cyflwynid hwynt weithiau gan hyd y nod y paganiaid, megys y gwnaeth Augustus (Joseph. Rhyf. Jud. ii., 17).

2. Nid ydyw yn hawdd gwahaniaethu rhwng pech-aberthau ac aberthau dros gamwedd. Offrymid y blaenaf yn gyffredin dros bechod o anwaith (*sin of ommission*), a'r olaf dros bechod o waith (*sin of commission*) (Jahn ac ereill), er nad ydyw y gwahaniaeth yma bob amser yn ganfyddadwy, Lef. 5, 17—19; Num. 6, 11; Lef. 15, 25, &c. Yr ydys wedi meddwl mai yr un dros gamwedd a gynnwysai leiaf o euogrwydd, a'r pech-aberth fwyaf o euogrwydd. Weithiau ymddengys y rheol yma yn cael ei chroesi. Mewn gwirionedd y *mae* y ddau yn cael eu gwahaniaethu yn yr Ysgrythyr, a nodir yr achosion yn mha rai y mae pob un i'w offrymu.

Gorchymynir *aberthau dros gamwedd* yn Lef. 7, 1—10; ac hefyd y Num. 6, 12: gwel ad. 14: Lef. 14, 12: gwel ad. 19: Lef. 19, 20—22: Ezra 10, 19. Y pethau a offrymid oeddynt oen neu afr benyw, colomenod neu beilliaid, hwrdd neu oen, yn ol natur yr achos. Gorchymynir *pech-aberthau* yn Lef. 4, 6, 25—30. Offrymid hwynt gan yr archoffeiriad pan fyddai efe wedi troseddu a dwyn euogrwydd ar y genedl; pan fyddai yr holl genedl wedi pechu drwy ddiofalwch, ac edifarhau wedi hyny; ac ar ddydd mawr y cymmod. Yn yr achos cyntaf a'r diweddaf, gosodai yr archoffeiriad ei law ar ben yr anifail, gan gyffesu ei bechod. Yn yr ail achos, yr henuriaid a osodent eu llaw yr yr anifail. Yr oedd gweithredi adau dydd mawr y cymmod yn hynod o arwyddluniol: gwel Num. 29, 7—11; Lef. 16, 1—34: 23, 26—32; yr azazel, neu y bwch diangol, yr hwn a ddygai ymaith bechodau y bobl, a ffurfiai, gyda'r ail fwch, yr hwn a aberthid, un cysgod cyflawn o waith yr Arglwydd. Offrymid pech-aberthau hefyd gan ynadon a phersonau neillduol fyddent wedi pechu drwy anwybodaeth. Lef. 24, 22—26; ac ar amryw achlysuron o buredigaeth, Lef. 15, 25—30: 15, 2, 14, 15: Num. 6, 10—14: Lef. 14, 19—31: 9, 23.

Yn yr holl offrymau yma, y mae y drychfeddwl o iawn ddirprwyol yn gynnwysedig. Y gwaed oedd "y bywyd," ac yr oedd bywyd yr aberth yn cael ei dderbyn yn lle bywyd yr offrymydd, Lef. 17, 1; 5, 18: 14, 19.

3. Yr oedd yr aberthau diolch (*thank-offerings*), yn gynnwysedig mewn cyflwyno eidion, dafad, neu afr. Dygid ef gan yr offrymydd gydag arddodiad dwylaw, a lleddid ef ar du deau yr allor. Taenellid y gwaed o amgylch yr allor; llosgid y brasder. Y "balfais ddyrchafael," a'r "barwyden gyhwfanedig," a berthynent i'r offeiriad, a defnyddid y gweddill fel gwledd aberthol: gwel 1 Cor. 10, 18. Gelwid aberthau diolch am fendithion neillduol yn "aberthau o foliant" (*shelem thora, thusai omologias*); pan gyflwynid hwynt oddiar deimlad o ymroddiad duwiol, gelwid hwynt yn aberthau ewyllysgar. Offrymid hwynt weithiau mewn cyflawniad o adduned, Num. 6, 3. Hedd-aberth yw yr enw cyffredin ar yr holl rywogaeth yma; ac er fod cyflwyno diolchgarwch yn ffurfio rhan o amcan yr offrymydd, etto yr oedd yn cynnwys iawn, fel y profir gan yr enw a roddid arno, sef *hedd*-aberth.

Pob beth, gan hyny, o dan y gyfraith, a burid drwy waed—diolchiadau a gweithredoedd crefyddol ereill, pechodau dyn, a'i natur lygredig ei hunan. Am y cyntaf, yr oedd tywalltiad gwaed yr aberth; am yr ail yr oedd pech-aberthau, a'r aberthau dros gamwedd; ac am yr olaf, yr oedd yr holl *losg*-aberthau, perthynol i'r aberth dyddiol a'r gwyliau mawrion. Amcanai Duw fel hyn i argraffu ar feddyliau y bobl yr ystyriaeth o'u heuogrwydd hwy a'i santeiddrwydd ef; ac i ddadguddio iddynt mewn llinell ar ol llinell yr unig ffordd i ddyfod ato ef.

Nid oedd y puredigaethau aml a orchymynid gan y gyfraith yn llai awgrymiadol o'r angenrheidrwydd am santeiddrwydd ymarferol, ac am ddylanwad glanhäol yr Ysbryd.

Gwel ar y ddosran yma, Realworterbuch, gan Winer, neu yr erthygl ar Aberth, cyfieithiedig yn Mhedair Pregeth y Dr. Pye Smith.

30. (4.) Cynnelid gwyliau yr Iuddewon yn wythnosol, misol, a blynyddol. Heblaw hyny, cedwid pob saith mlynedd, a phob deug mlynedd a deugain, fel gwyliau neillduol.

Yr wyl *wythnosol* oedd y Sabbath, dydd cyssegredig i orphwysiad ac addoliad ewyllysgar (Sal. 68, 25—27, &c). Offrymid aberthau ychwanegol ar y dydd yma (Lef. 24, 8; Num. 28, 9). Addysgid plant; a'r rhai nad oeddynt yn mhell iawn a ymwelent â'r deml. Yn ddiweddarach nâ dyddiau y Pum Llyfr, ymddengys fod y bobl yn ymweled â'r prophwydi (2 Bren. 4, 23); ac ar ol y caethiwed, adeiladwyd synagogau yn llawer o drefi Palestina, lle yr oedd "y gyfraith a'r prophwydi" yn cael eu darllen a'u hesbonio (Act. 13, 15). Cynnelid yr *wyl fisol* ar ddydd y newydd-loer, a chyhoeddid hi drwy udganu mewn udgyrn arian (Num. 10, 10). Ni wahenddid llafur, ond offrymid aberthau ychwanegol. Newydd-loer y seithfed fis (Tisri, neu Hyd.) a ddechreuai y flwyddyn wladol. Y *gwyliau blynyddol* mawrion a orchymynid gan y gyfraith oeddynt dair; a phan gynnelid hwynt, gofynid i holl wrrywod y genedl wneyd eu hymddangosiad yn y cyssegr (Exod. 23, 14—17). Bwriedid hwynt oll i fod yn dymmorau o ddiolchgarwch llawen, ac yr oeddynt yn gofiannol o garedigrwydd a ffafr Duw.

1. Y pasg a gedwid er coffadwriaeth am ddinystr cyntaf-anedigion yr Aifftiaid, arbediad yr Israeliaid, a'u hymadawiad o'r Aifft. Dechreuai ar hwyr y 14eg o Abib; hyny yw, symudid pob lefain o'r tŷ ar y 14eg dydd, rhwng y ddau hwyr, a chyfrifid y wledd o'r 15fed i'r 21ain. Rhwng y

ddau hwyr hefyd, oen y pasg (naill ai hwrdd neu afr blwydd oed, Exod. 12, 1—16), a leddid gerbron yr allor (Deut. 16, 2—6). Taenellid y gwaed (ar y cyntaf ar byst y drws, ac wédi hyny) ar waelod yr allor; yr oen ei hunan a rostid yn gyfan, a dau fêr (*spits*) wedi ei gyru ar draws (*transversely*) drwyddo, ac wedi hyny a fwyteid gyda dail surion; torid y bara croyw gan ben y teulu, a rhenid ef i bob un; nid oedd llai nâ deg, na mwy nag ugain, yn cael eu derbyn i'r wledd. Ar ol i'r trydydd gwpanaid ("cwpan y fendith") gael ei yfed, yr oeddid yn canu mawl; yn gyffredin, mewn amseroedd diweddar, cenid Salm 115—118; ac weithiau, mewn ychwanegiad, Salm 120—137. Mewn cyssylltiad â'r wledd yma, ac yn agos i'w diwedd, y sefydlodd ein Harglwydd y Swper ddiweddaf (Math. 26; 1 Cor. 10; Marc 14). Offrymid aberthau ychwanegol yn ystod pob dydd o'r wyl; ac ar yr 16eg o Abib, cyflwynid y twysenau cyntaf o ŷd addfed yn y cyssegr, ac yna dechreuai y cynauaf (Exod. 12, 1—27; Lef. 23, 9—14).

2. Ar yr hanner canfed dydd ar ol ail ddydd y pasg (yr 16), dechreuai gwyl y *pentecost*, a elwid hefyd gwyl yr wythnosau (hyny yw, saith wythnos glir o'r 16eg o Abib). Hon yn briodol oedd gwyl diwedd cynauaf y tir. Offrymid torthau, wedi eu gwneuthur o'r blawd newydd a'r grawn, fel blaen-ffrwythau (Lef. 23, 17). Yr oedd llawer o boeth-offrymau yn awr yn cael eu haberthu (Lef. 23, 18—20), a'r Iuddewon oeddynt yn byw allan o Balestina, yn gyffredin, a ddewisent yr achlysur yma i ymweled â'r deml.

3. Yn yr hydref, o'r 15fed i'r 23ain o Tisri (October), cynnelid gwyl y *pebyll*; dydd mawr yr wyl oedd y 23ain (Lef. 23, 34—42; Ioan 7, 23). Yr oedd yn goffadwriaethol o daith yr Israeliaid yn yr anialwch, a bwriedid hi hefyd yn wyl cynnulliad i fewn *holl ffrwythau yr hydref*. Yr oedd pebyll yn cael eu gwneyd o gangenau coed yn mhob rhan o'r ddinas, ac yma y preswyliai y bobl am wythnos. Yr wyl yma oedd y fwyaf llawen o'r cyfan; gelwid hi "yr Hosannah fawr," ac yr oedd mwy o aberthau cyhoeddus yn cael eu hoffrymu nac ar unrhyw wyl arall (Num. 19, 13—37: cymharer â Lef. 23, 38—40; Num. 29, 39; Deut. 16, 14, 15). Yr Iuddewon diweddar a ychwanegent ddefodau ereill at wasanaeth cyffredin a chyfreithlawn yr wyl hon. Tynid dwfr allan o lyn Siloam, ac ar ol ei gario gyda rhwysg i mewn i'r deml, tywelltid ef gerbron yr allor (gwel Esay 12, 3). Offeiriaid hefyd a esgynent y grisiau a ysgarai gyntedd y gwragedd oddiwrth y cyntedd mewnol, gan gânu Salmau y graddau, Sal. 120—134. Nid ydyw yr arferion yma, fodd bynag, ond diweddar mewn cynhariaeth.

Y pummed dydd cyn gwyl y pebyll, y 10fed o Tisri (Hydref), oedd dydd mawr y cymmod, yr unig *ympryd* ordeiniedig dan y gyfraith (Lef. 23, 27—29: 25, 9; Act. 27, 9). Cwynfanai y bobl y pryd hwnw o herwydd pechodau y flwyddyn, a gwnelid iawn seremoniol gan yr arch-offeiriad, yr hwn ar y dydd yma yn unig a elai i mewn i'r Santaidd Santeiddiolaf, lle y taenellai waed yr afr a offrymasid. Yr oedd yr afr yma yn un o ddwy wedi eu dewis drwy goelbren i'w gwahanol ddybenion. Y llall, ar ol i bechodau y bobl gael eu cyffesu drosti, a'u gosod felly ar ei phen, a anfonid yn fyw i'w cholli yn yr anialwch (Lef. 16, 6—10). Cyflawnid hyn oll i wneuthur iawn dros bechodau y bobl (Lef. 16, 11—19).

Mewn amseroedd diweddarach, sefydlwyd *ymprydiau* ereill, yn gyssylltiedig â'r gwarchaëedigaeth ar Jerusalem (y 10fed o'r 10fed mis),

cymmeriad y ddinas (y 17eg o'r 4ydd mis), llosgiad y deml (y 9fed o'r 5fed mis), marwolaeth Gedalaiah (y 3ydd o'r 7fed mis) : gwel Jer. 52, 6, &c. ; Zech. 7, 3, 5 : 8, 19.

Cedwid y dydd cyntaf o leuad Tisri (Hydref) yn ddechreuad y flwyddyn wladyddol. Cyflwynid ef gyda difrifoldeb annghyffredin, ac oddiwrth hyn y deilliodd ei henw, "Gwyl yr Udgyrn," Jer. 23, 23—25. Yr oedd aberthau ac offrymau ychwanegol yn cael eu cyflwyno yn awr, Num. 29, 29 ; ac, yn wahanol i'r newydd-loerau cyffredin, cedwid ef fel gwyl.

Yr oedd hefyd ddwy wyl arall, er nad oeddynt yn osodedig gan y gyfraith, etto teilyngant sylw, am eu bod yn cael eu mynych nodi mewn hanesiaeth Iuddewig. Y *gyntaf* yw gwyl y Pwrim (hyny yw, y coelbrenau). Dygwydda ar y 14eg a'r 15fed o Adar (Mawrth), ac y mae yn goffadwriaethol o ddrylliad dyfais Haman i ddinystrio yr Iuddewon (Esther 3, 7 : 9, 26). Hefyd, gelwir ef dydd Mordecai (2 Mac. 15, 36). Y *llall* yw gwyl y *cyflwyniad* (*dedication*), a sefydlwyd hi mewn coffadwriaeth am adsefydliad addoliad Dwyfol yn Jerusalem, wedi i Antiochus Epiphanes gael ei orchfygu, ac i'r deml gael ei phuro, c. c. 164, Ioan 10, 22. Cedwid hi am wyth niwrnod, o'r 25 o Cisleu (Rhagfyr), a gelwid hi weithiau yn wyl y goleuadau, oddiwrth y lleuferiadau, (*illuminations*) yn mha rai yr oedd yr Iuddewon yn y tymmor yma yn ymhyfrydu.

Yr oedd pob seithfed flwyddyn yn Sabbathol ; ac yn ystod y flwyddyn hon, nid oedd y tir yn cael ei drin, na'r ffrwythau yn cael eu casglu, oddieithr gan y tlodion ; yr oedd y bobl, fodd bynag, yn rhydd i hela, i borthi eu deadelloedd, i gyweirio eu hadeiladau, ac i ymwneyd â masnach. Dechreuai y flwyddyn ar y laf o Tisri ; ac amcan y sefydliad oedd, rhoddi gorphwysiad i'r tir, dysgu cynnildeb a rhagweledigaeth, ac, fe allai, argraffu ar feddyliau y bobl yr ystyriaeth o'u hymddibyniaeth. Cynnelid gwasanaethiadau neillduol yn y deml yn ystod gwyl y Pebyll, Deut. 31, 10, 13 : gwel Exod. 23, 10, 11 : Lef. 25, 1—7 : Deut. 26, 33—35. Y sefydliad yma, megys y prophwydodd Moses (Lef. 26, 34, 35), a esgeuluswyd am hir amser, 2 Cron. 36, 21 ; ond ar ol y caethiwed, cedwid hi yn fwy gofalus.

Y flwyddyn ar ol y saith blwyddyn Sabbathol, neu y ddegfed a deugain, oedd y Jubili, Lef. 25, 8—11. Cyhoeddid y flwyddyn yma ar y 10fed o Tisri, dydd mawr y cymmod. Mewn ychwanegiad at reolau y flwyddyn Sabbathol, yr oedd creill gwîr neillduol (*peculiar*). Pob gweision, neu gaethion, a dderbynient eu rhyddid (Lef. 25, 39—46 : Jer. 34, 8, &c). Yr holl dir drwy yr holl wlad, a'r tai yn ninasoedd y Lefiaid, a werthasid yn ystod y deug mlynedd a deugain blaenorol a ddychwelid i'r gwerthwyr, oddieithr yr hyn oedd wedi cael ei gyssegru i'r Arglwydd, ac heb ei brynu (Lef. 25, 10, 13—17, 24—28 : 27, 16—21). Hefyd, pob tir gwystledig (*mortgaged*) a ryddhëid yn rhad.

Yr oedd perffeithrwydd y rhyddhad a sicrhëid drwy y trefniadau yma yn gwneyd y Jubili yn gysgod o'r efengyl (Esay 61, 2 : Luc. 4, 19).

Y mae defnyddioldeb moesol ac ysbrydol y gwyliau yma yn eglur. Tueddent oll i uno y bobl yn un frawdoliaeth santaidd, ac i'w cadw ar wahan oddiwrth y paganiaid. Cadwent goffadwriaeth am drugareddau oeddent wedi myned heibio. Eglurent y Santeiddrwydd Dwyfol. Ysgafnhäent faich tlodi, attalient orthrymder a chybydd-dod, ac yr oeddynt oll naill ai yn gysgodau o fendithion efengylaidd, neu yn awgrymu i feddwl ysbrydol wirioneddau efengylaidd.

31. Myfyrier yr holl gyfraith fel hyn; edrycher arni fel cyfundraeth wedi ei bwriadu i ddadguddio, neu awgrymu, neu argraffu, neu gadw gwirionedd ysbrydol, ac nid yn unig bydd i'r gwrthddadleuon yn ei herbyn gael eu symud, ond ymddengys y cyfan yn wers fawreddog ac addysgiadol, hynod o gyfaddas i gyflwr y genedl i ba un y rhoddwyd hi.

PENNOD II.

Llyfrau Hanesyddol a Barddonol hyd Farwolaeth Solomon.

Dos. 1. *Llyfrau Hanesyddol yr Ysgrythyr yn gyffredinol.*

32. Llyfrau hanesyddol yr Ysgrythyr—o Josua i Nehemiah—a gynnwysant hanes yr eglwys a'r genedl Iuddewig o'r sefydliad cyntaf yn Nghanaan hyd eu dychweliad o'r caethiwed yn Babilon. Y llyfrau, fel y maent wedi eu gosod yn y Beibl Cymraeg, ydynt ddeuddeg ar y cyfan, er nad oedd yr Iuddewon yn eu cyfrif yn fwy nâ chwech, am eu bod yn gosod Ruth gyda'r Barnwyr, Nehemiah gydag Ezra, ac yn cyfrif llyfrau deublyg Samuel, Breninoedd, a'r Cronicl, bob un yn un llyfr. Mewn amseroedd boreuol, fodd bynag, gosodid hwynt oll yn mysg y Prophwydi; ac yn y Beiblau Hebreig, y mae Josua, Barnwyr, Samuel, a'r Breninoedd, o hyd yn cael eu gosod yn y gyfres yma. Gan hyny, wrth ystyried y ffaith fod rhanau helaeth o'r Pum-Llyfr a'r prophwydi yn hanesyddol, a bod yr Iuddewon wedi mabwysiadu dosparthiad gwahanol, canfyddir nad ydyw dosparthiad diweddar o'r "llyfrau hanesyddol" yn hynod o briodol. Fodd bynag, gan ein bod wedi ei nodi, gallai fod yn dda roddi rhyw hyfforddiad yma o berthynas i'r llyfrau sydd yn ei wneyd i fyny.

33. Llyfrau hanesyddol yr Ysgrythyr a hawliant, fel y lleill, awdurdod ysbrydoledig, ac nid ydyw y profion cyffredin o'u hysbrydoliaeth yn wahanol oddiwrth eiddo y Pum-llyfr. Rhai o'r llyfrau yma a ddygant enwau prophwydi enwog, a phriodolir y gweddill i ysgrifenwyr a feddiannent yr un cymmeriad uchel. Hanesion y genedl Hebreig a gedwid yn unig gan ddynion wedi eu happwyntio i'w swydd; a'r ysgrifenwyr, y rhai a nodir yn achlysurol yn yr Ysgrythyr, fel awdwyr yr hanesiaeth gyssegredig, a elwir mewn modd penodol yn brophwydi neu weledyddion.[a] Heblaw hyny, y mae y rhan hanesyddol o'r Ysgrythyr drwyddi yn dangos adnabyddiaeth ëang â chymhellion dirgelaidd dynion, ac âg amcanion Duw;[b] dadguddia ei drugaredd a'i farn yn y rhagddywediadau egluraf;[c]

[a] Er enghraifft, ysgrifenwyd hanes Dafydd gan Samuel, Nathan, a Gad, 1 Cron. 29, 29: hanes Solomon, gan Nathan, Abïah, ac Ido y prophwydi, 2 Cron. 9, 29; hanes Rehoboam, gan Semaiah ac Ido, 2 Cron. 12, 15; hanes Abiah, gan Ido; hanes Jehosaphat, gan Jehu y prophwyd, 2 Cron. 20, 34; 1 Bren. 16, 1; ac hanes Uzziah a Hezeciah (ac fe allai eiddo y ddau frenin oedd rhyngddynt), gan Esay, 2 Cron. 26, 22; 32, 32. Darllenwn am amryw brophwydi, hyd y nod yn Israel wrthryfelgar, ac nid oes amheuaeth nad eu gwaith hwy oedd cofnodi yr hyn oedd yn cymmeryd lle yn y wlad.

[b] 1 Bren. 12, 26, 28; Esther, pennodau 5; 6.

[c] Gwel pen. ar Brophwydoliaeth, adran 453.

arddengys anmhleidgarwch digyffelyb, ac yn mhob man cymhella santeiddrwydd ymarferol. Y ffeithiau a gofnoda ydynt naill ai yn cael appelio atynt, neu eu dyfynu drwy yr holl Feibl; derbyniwyd yr ysgrifeniadau a'u cynnwysant i'r canon Hebreig; gosodir hwynt yn nghasgliad Ezra yn mhlith cynnyrchion prophwydi, a dyfynir hwynt gan yr apostolion, a chan ein Harglwydd. Nid ydyw fod cyfansoddiadau ereill yn cael eu henwi yn yr ysgrifeniadau yma, fel rhai yn cynnwys gwybodaeth helaethach, a bod rhai o honynt wedi eu hysgrifenu neu eu casglu yn mhen amser maith ar ol i'r dygwyddiadau a ddarlunir ynddynt gymmeryd lle, yn ffeithiau sydd yn creu unrhyw anhawsder, ac y maent yn berffaith gydunol â'r hyn a wyddom am drefn ysbrydoliaeth mewn amseroedd diweddarach. Heblaw hyny, y maent yn cyfrif am gymmysgiad achlysurol ymadroddion; y mae yn amlwg eu bod yn gyd-amserol â'r dygwyddiadau a ddesgrifiant, gydag ereill y mae yr un mor eglur eu bod yn perthyn i amseroedd diweddarach.

34. Y Beibl (fel y gwelsom) sydd *ddetholiad* oddiwrth hanesiaeth yr eglwys, yn cynnwys dim ond cymmaint ag oedd yn angenrheidiol i ddysgu i ni ein dyledswydd, dadguddio cymmeriad Duw, a'n darparu ni erbyn dyfodiad ei Fab. Hanes yr eglwys *yn unig* ydyw, er hyny, neu o'r paganiaid fel yn gyssylltiedig *â'i* dyoddefiadau a'i thynged; ac nid yw y neillduolrwydd yma i'w ganfod mewn unrhyw ran o'r Beibl yn eglurach nag yn y rhanau a elwir yn hanesyddol. Yn ystod yr amseroedd a gofnodir ganddo, yr oedd llawer o genedloedd yn bodoli yn hynod am ddysgeidiaeth a gwroldeb; am ddynion enwog, a gweithredoedd enwog, etto y mae eu holl hanes wedi ei golli, naill ai mewn dystawrwydd neu mewn ffugeb (*fable*), tra y mae hanes yr Iuddewon, y bobl a "breswylient eu hunain," ac "nad oeddynt yn cael eu cyfrif gyda'r cenedloedd," wedi cael ei chadw yn ofalus. Y fath yw gofal Duw am ei eglwys, ac mor anwyl yw ei lles yn ei olwg ef! Deut. 32, 8, 9.

Canfyddir neillduolrwydd arall yr un mor amlwg. Yr ydys yn myned heibio i ddygwyddiadau glwadol o bwys mawr; cyfyngir hanes teyrnasiadau meithion i ychydig frawddegau; amgylchiadau cenedlaethol a roddant le i bethau perthynol i fywyd unigol, hanesiaeth i fywgraffiaeth, a brenin galluog i weddw dlawd (2 Bren. 3; 4). Y mae gwaith yr ysgrifenwyr ysbrydoledig yn gadael allan fel hyn rai pethau, ac yn gŵyro oddiwrth y pwnc mewn manau ereill, yn cael ei egluro gan amcan y Beibl. Ei ddyben yw dadguddio gras a rhagluniaeth Duw, dangos gweithrediadau y natur ddynol, a bendigedigrwydd ufydd-dod, tra y cydweua drwy y cyfan addysgiadau a gwirioneddau darpariadol i waith a thyrnasiad y Messiah.

35. Pa fodd bynag, o fewn i'r terfynau yma y mae perffeithrwydd (*completeness*) hanesiaeth ysgrythyrol yn nodweddiadol ac yn addysgiadol. Eglura ar unwaith y ddeddf a'r prophwydi, y salmau a'r efengyl, yr amser dyfodol a'r gorphenol. I ddyn, i genedloedd, i'r eglwys, y mae pob pennod yn wers, a'r hanes, wrth ei fyfyrio yn ngoleuni y ddeddf a'r prophwydi, a'i gymhwyso yn ol cyfarwyddyd yr efengyl, a ddysga ac a eglura, naill ai drwy siamplau o ragoriaeth, neu wrthgyferbyniadau, ein dyledswydd ni, a bendigedigrwydd ufydd-dod.

Dos. 2. *Braslun byr o'r Llyfrau Hanesyddol yma.*

36. Wrth gadw at ddosraniad amseryddol o'r llyfrau, y mae yr ail gyfran o'r Ysgrythyr—o Josua i Solomon—yn hawdd i'w dosparthu i

ddwy ran; y *gyntaf* yn cyrhaedd o'r mynediad i mewn i wlad yr addewid hyd sefydliad y fonarchiaeth; a'r *ail* yn cyrhaedd hyd farwolaeth Solomon. Cynnwysa y cyfnod cyntaf hanes goresgyniad Canaan a'r sefydliad ynddi; diflaniad ysbryd ufydd-dod ar ol marwolaeth Josua; cospedigaeth ac adferiadau canlynol y bobl; a'r ail a ddesgrifia adfywiad yr ysbryd hwnw o dan Samuel a Dafydd. Cynnwysa Josua, Barnwyr, Ruth, a 1 Sam. 1—10, ddygwyddiadau a gyrhaeddant dros 365 o flynyddau. Cynnwysa 1 a'r 2 Sam., 1 Bren. i'r 11, 1 Cron., 2 Cron. i'r 9, y dygwyddiadau ereill a gyrhaeddant dros 120 o flynyddau yn mhellach. Cyduna pawb gyda golwg ar y cyfnod olaf, ond y mae llawer o amrywiaeth barn o berthynas i'r cyfnod blaenaf (gwel adr. 356).

Crynhoad byr—

Gellir dosparthu JOSUA i dair o ranau:—

1—12. Yn dárlunio *goresgyniad* Canaan, ynghyd a hanes adsefydliad yr enwaediad. Y gwersyll yn *Gilgal*. Y saith mlynedd rhyfel: dinystriad deg ar hugain o freninoedd.

13—22. *Dosraniad* gwlad Canaan wrth *goelbren*, pob llwyth yn derbyn cyfran yn gydunol â rhagfynegiadau Jacob a Moses. Y Tabernacl yn Siloh. Y ddau hanner llwyth yn dychwelyd.

23—24. Cynghorion olaf a marwolaeth Josua. 25 mlynedd.

Y BARNWYR a gynnwysa hanes *goresgyniadau* canlynol, wedi eu cwblhau yn anmherffaith, ac yn diweddu yn aml mewn priodasau cymmysg â'r Canaaneaid, y gwyriad at eilun-addoliaeth, 1—3, 4; 17, 22; mynegiad am saith o *wasanaethiadau* (*servitudes*), a *thri ar ddeg* o Farnwyr, o ba rai y mae Usher yn tybied fod Ehud a Samgar, Debora a Barac, yn gydoeswyr.

Pennodau 17—21, a berthynant i'r rhan foreuaf o'r hanes. 309 o flynyddau.

RUTH a rydd hanes dygwyddiadau a gymmerasant le oddeutu canol amser y Barnwyr, neu fe allai yn foreuach, gan fod Obed, mab Ruth, yn daid i Dafydd. Ei *ddisgyniad* o Judah a *roddir*, 4, 18. Gwel Gen. 38, 29; Math. 1, 3.

1 Sam. 1—10, a gynnwysa hanes brawdwriaeth (*judicature*) *Eli*, 1—5, ac eiddo Samuel, ynghyd a'r dygwyddiadau canlynol hyd y mynegiad am Saul, 5—10. 21 o flynyddau.

1 Sam. 10 i 2 Sam. 1, 27; a 1 Cron. 10, 12, a roddant deyrnasiad *Saul*, a hanes ei ryfeloedd, a'i anffydlondeb. 40 mlynedd.

2 Sam. 2, 1, i 1 Bren. 2, 10: 1 Cron. 11, 1, i 1 Cron. 29, 30, a roddant deyrnasiad *Dafydd*, ei fuddugoliaethau, ei gystuddiau, a'r achos o honynt; ei edifeirwch, a'i adferiad. 40 mlynedd.

1 Bren. 2, 12, i 11, 43; 2 Cron. 1, 1, i 9, 31, a roddant deyrnasiad *Solomon*, ei ogoniant, ac helaethiad ei deyrnas. 40 mlynedd.

SALMAU, CANIAD SOLOMON, DIAREBON, PREGETHWR.

Dos. 3. *Llyfrau Josua, Barnwyr, a Ruth.*

Llyfr Josua.

37. Y mae llyfr Josua yn gyfansoddedig o ddefnyddiau, wedi ei cynnull, yn ol pob tebygolrwydd, gan Josua ei hunan, ynghyd a dau neu dri o ychwanegiadau wedi eu gwneuthur gan ysgrifenydd diweddarach.

Gellir gasglu y ffaith gyntaf oddiwrth rediad cyffredin y llyfr, yr hwn sydd hanes cydoeswr a llygad-dyst o'r dygwyddiadau a ddesgrifir (5, 1; 6, 25): oddiwrth pen. 24, 26, oddiwrth gymmeriad Josua fel dysgawdwr, a phrophwyd ysbrydoledig (1 Bren. 16, 34: gwel Jos. 6, 26, a chymharer Eccl. 46, 1), ac oddiwrth draddodiad unol yr Iuddewon. Ymddengys fod yn rhaid i'r llyfr gael ei ysgrifenu cyn dyddiau Dafydd neu Solomon, oddiwrth 15, 63, wedi ei chymharu âg 2 Sam. 5, 7—9, ac oddiwrth 16, 10, wedi ei chymharu â 1 Bren. 9, 16. Gellir gweled ychwanegiadau at yr ysgrifau gwreiddiol yn 19, 47 (Barnwyr 18, 27—9; 15, 13. 19; gwel Barnwyr 1, 11—16), a 24, 29—32. Dyfynir y ffeithiau cofnodedig yn y llyfr yma amrywiol weithiau,[a] a cheir amryw brophwydoliaethau yn y llyfr ei hunan.[b]

Josua, buddugoliaethau yr hwn a ddesgrifir, oedd Ephramiad (g. 1536); yr oedd yn un o'r ysbiwyr, a bu yn was ffyddlawn, ac yn gydymmaith i Moses am flynyddau lawer. Caniatäwyd iddo esgyn Sinai gydag ef, ychydig cyn rhoddiad y gyfraith. Ymddengys hefyd fod gofal neillduol y tabernacl wedi ei roddi iddo, Exod. 33, 11. Wedi marwolaeth Moses, cymmerodd arno lywyddiaeth yr Israeliaid, wedi cael ei enwi yn foreu i'r swydd yma gan Dduw ei hunan. Yn wreiddiol gelwid ef Osea, ceidwad, neu un cadwedig; ond ar ol hyn, Moses a'i galwodd yn Josua—"efe a achub," neu "iachawdwriaeth Jehofah," mewn cyfeiriad, yn ddiau, at y gwaith oedd Duw i'w gyflawnu drwyddo. Y mae, yn y swydd yma, yn gysgod o'n Harglwydd.

Ei gymmeriad a'i hanes ydynt yn dra addysgiadol. Yr oedd yr Ysbryd ynddo, Num. 27, 18. Er fod ganddo addewid sicr am lwyddiant (pen. 1), etto efe, yn ddoeth, a ddefnyddiodd bob moddion tebyg i'w gyrhaedd. Anfonodd ysbiwyr, a dysgyblodd ei fyddin. Ni orphwysai, fodd bynag, ar y rhai hyn; ond dysgwyliai o hyd wrth Dduw. Fel hyn, cyn ymosod ar y Canaaneaid, efe yn edmygol (*solemnly*) a adnewyddodd ei ymgyssegriad ef a'r bobl (5); ac mewn gweddi, ceisiai gymhorth a bendithion neillduol mewn tymmorau o gyfyngder (10, 12—14). Amlwg yw mai "ymdrechion a gweddi," "sêl ac ymddibyniaeth," oedd ei reol ef. Cafwyd arddangosiad prydferth o'i dduwioldeb a'i ymroddiad, yn ei appeliadau olaf; ac y mae yr ysbryd o ymostyngiad cariadus yn mha un y derbyniwyd hwynt gan y bobl, yn arwydd ffafriol iawn o'i ddylanwad ef, a'u ffyddlondeb hwythau (23, 8). Ni fu dysgyblaeth yr anialwch yn ddifendith.

38. Gwelir yn Rahab allu a gwobrwyon ffydd; achubwyd hi ei hunan a'i thŷ, a daeth, er ei bod o hiliogaeth Canaan, yn un o henafiaid Dafydd a Christ. (Heb. 11, 31).

Ein buddugoliaethau ydynt o Dduw: Rhodder ufydd-dod trylwyr i holl orchymynion Duw: Dynoethiad a chospedigaeth a ganlynant bechod: Nid ydyw Duw dderbyniwr wyneb—ydynt wersi a ddysgir i ni yn hanes Jericho ac Achan, 7.

Y mae yr adnewyddiadau mynych o'r cyfammod a gofnodir yn y llyfr yma yn bwysig ac addysgiadol, 5; 23; 24. Yr Israeliaid oedd pobl ddewisiedig Duw, yr oeddynt hefyd yn eiddo iddo drwy ymgyssegriad personol. Cafodd y cyfammodau yma eu haml-adnewyddu yn ystod eu hanes.

[a] 1 Cron. 2, 7; 12, 18: Sal. 44; 114, 3, 5: Esay 28, 21; Hab. 3, 2.
[b] Gwel Jos. 1, 9: 3, 13 (gwel 4, 18); 6, 26 (gwel 1 Bren. 16, 34), &c.

Y mae dinystr y Canaaneaid yn rhybydd arswydus o ganlyniadau pechod yn y diwedd. Wrth eu cymharu â'r Israeliaid, fe allai eu bod yn bobl ddysgybledig a gwrol; ond ymddengys na wnaethant ond ychydig ymgais i yru allan y goresgynwyr. Fe allai eu bod yn ymddiried yn "ymchwydd yr Iorddonen," yr hyn ar yr amser yr aeth Josua i Ganaan (yr Alban Eilir) a wnelai y ffrwd, yn ol fel y tybient hwy, yn anmhosibl myned drwyddi; neu, fe allai, yn ol fel y dywedai un o honynt hwy, "fod arswyd Duw yr Hebreaid" wedi syrthio arnynt. Sicr yw, eu bod yn arswydus o bechadurus (Lef. 18, 24—30; Deut. 9, 4; 18, 10—12). Yr oedd eu heilun-addoliaeth, fel y mae eilun-addoliaeth bob amser yn gwneyd, wedi cynnyddu aflendid a chreulondeb. Yr oeddynt unwaith yn adnabod yr ewyllys Ddwyfol, oblegid hiliogaeth Noah oeddynt, ac am ganrifoedd bu goleuni dadguddiad boreu yn aros yn eu plith (Gen. 14). Cawsant eu rhybyddio—gan y diluw, hanes dinasoedd y gwastadedd, dinystr Pharaoh, dymchweliad diweddar eu cymmydogion dwyreiniol, yr Amoriaid, y mynediad drwy yr Iorddonen, dymchweliad Jericho, cadwedigaeth Rahab, ac argyhoeddiadau eu cydwybodau eu hunain. Ymddengys hefyd fod eu symudiad o Balestina yn hanfodol er cadwriaeth yr Israeliaid rhag dylanwad halogedig eilun-addoliaeth, a chawsant gynnyg ar ffoi. Mewn gwirionedd, hwyliodd llawer i ororau pell Môr y Canoldir, lle y sefydlasant diriogaethau blodeuog, a chadwasant fel hyn, i lawr i amseroedd diweddar mewn cymhariaeth, gofnodion am y Duw a ymladdodd yn eu herbyn.

Gall rhai wrthddadleu fod y rhyfel drwy yr hon y difäwyd hwynt yn un creulon, ac y gallasent gael eu symud drwy newyn neu haint. Ond digon o atebiad i'r wrth-ddadl *gyntaf* yw, fod y creulonderau yma yn rhai cyffredin i'r oes, ac wrth ddifetha pobl hynod am eu heuogrwydd, na chyfarwyddodd Duw i foddion ysgafnach gael eu defnyddio nag oedd mewn arferiad cyffredin (Jos. 8). Atebir yr *ail* wrth-ddadl gan y ffaith, nas gallasai unrhyw gynllun roddi arddangosion eglurach a mwy argraffiadol o allu a chyfiawnder Duw, ei ragoriaeth anfeidrol ar holl eilunod y cenedloedd hyny, a'i gasineb cyfiawn tuag at y pechodau i ba rai yr oeddynt wedi syrthio. Gellir ychwanegu mai drwy ddysgyblaeth gyffelyb yr oedd yr Israeliaid eu hunain yn cael eu ceryddu, a bod y gyfundraeth gyffredin a gynnwysir yn y dygwyddiadau yma yn hollol gyfatebol i drefn llywodraeth foesol y byd hyd heddyw; gyda hyn o wahaniaeth yn unig, fod dynion yn *awr* yn gweithredu fel offerynau digofaint Duw drwy oddefiad dystaw; a'r *pryd hwnw* dan ei lywodraeth uniongyrchol. Megys y gellir ystyried buddugoliaethau yr Israeliaid drwy ffydd, yn gysgodol o fuddugoliaeth olaf yr eglwys, a phob Cristion, drwy Iesu Grist, Tywysog ein hiachawdwriaeth ni, a Phen Tywysog a Pherffeithydd ein ffydd ni (Heb. 2, 10, 12, 2); felly y mae dinystr y Canaaneaid yn cymmeryd ei le gyda'r Diluw, a dymchweliad olaf Jerusalem, fel prawf amlwg o anfoddlonrwydd Duw yn erbyn pechod, a gellir ei ystyried fel arwyddlun o farn y dydd mawr, Sal. 109; Luc. 9.

39. Yn awr, y mae addewid Duw *mewn rhan* wedi ei chyflawnu: aeth yr Iuddewon i mewn i Ganaan; tabernacl Duw a osodwyd i fyny yn Siloh; y mae y gyfraith wedi ei chyhoeddi a'i derbyn. Yn ei moesoldeb, y mae yn hynod o santaidd; yn ei sefydliadau gwladwriaethol, y mae yn addas i gadw y bobl yn neillduol a gwahanedig, ac i osod allan sylweddolrwydd y llywodraeth Ddwyfol; ac yn ei seremoniau, y mae yn arwyddlun prophwydol o'r efengyl—ond *mewn rhan* yn unig. Yr addewid

gyntaf am fendith i'r holl genedloedd, yr hon a gadarnhäwyd i Abraham, ac a adnewyddyddwyd i'r Patriarchiaid ereill, er ei bod yn cynnwys meddiant o Ganaan, etto ymddengys yn rhy gynnwysfawr i ddiweddu yma. Y rhagfynegiad am fawredd dyfodol llwyth Judah; prophwydoliaeth Balaam; y prophwyd arall a mwy a gyhoeddwyd gan Moses; ac, yn enwedig, y prophwydoliaethau yn Deut. 31ain (gwel hefyd Lef. 26, a Deut. 28), yn rhagfynegu pechodau y bobl, a'u canlyniadau yn ngwasgariad eu hiliogaeth—tueddai y cwbl i gyfeirio sylw yr Israeliaid at oruchwyliaeth ëangach. Gwaharddent ef mewn modd eglur i ymfoddloni yn gyfangwbl ar Ganaan, neu ar ei ddeddf ef. Yr oedd pob peth yn arwyddo dyfod bendith gyffredinol, teyrnas, dadguddiad heb fod yn agos, gwlad, trigolion yr hon nid oeddynt i fyned allan byth mwyach. Nid oedd y dadguddiad o'r bendithion yma bob amser yn eglur; ond yr oedd yn ddigon eglur i gynhyrfu ymchwiliad, ac i gyfiawnhau ffydd. Nid oedd sefyllfa yr Israeliad duwiol, gan hyny, yn hollol annhebyg i'n heiddo ni. O Ganaan yr oedd *ef* yn edrych yn ol ar ragfynegiadau wedi eu cyflawnu, ac yn mlaen at ddyfodiant gogoneddus. Y mae llawer o'r hyn oedd yn ddyfodol iddo ef *yn awr* wedi myned heibio; ac yr ydym *ninau* hefyd yn edrych yn *ol* ar brophwydoliaethau wedi eu cyflawnu yn ogoneddus; y mae ereill etto i ddyfod, ac mewn rhyw ystyr y mae hyd y nod y rhai hyn wedi eu cyflawnu. Nid ydyw yr *holl* genedloedd hyd yn hyn wedi eu bendithio ynddo Ef. Y mae *trydydd* pwnc o fyfyrdod i'r Iuddew duwiol, ac i'r Cristion ymroddgar etto yn aros; ac y mae sicrwydd y prophwydoliaethau, cyflawniad pa rai sydd i ragflaenu hyn, yn cael ei gadarnhau i ni gan hanes y rhai sydd wedi myned heibio.

40. Teflir llawer o oleuni ar Josua a'r Barnwyr os myfyriwn hwynt mewn cyssylltiad â'r Pum-llyfr, i ba rai y perthynant yn fwy nag i Samuel. Y mae yr un cyssylltiad rhwng y llyfrau yma ag sydd rhwng yr efengylau a'r Actau.

Y *Pum-llyfr* a roddant hanes gweithrediadau y Deddf-roddwr mawr, yn nghyd a'r cyfreithiau ar ba rai yr oedd yr hen drefniant yn sylfaenedig. Rhydd Josua hanes sefydliad y genedl ei hunan, yn unol âg addewid aml adnewyddol Duw. Llyfr y Barnwyr a ddengys y llygredigaeth a ymlusgodd mor foreu i mewn i'r eglwys henafol.

Yn yr *Efengylau* ceir hanes bywyd y prophwyd mwyaf, a'r cyfreithiau ar ba rai y mae ei eglwys yn seiliedig. Yn llyfr yr Actau, ceir hanes ei sefydliad gweithredol yn unol âg addewid ei sylfaenydd. Y mae gan hanes y Barnwyr ei gwrthran (*counterpart*) mewn ffeithiau y cyfeirir atynt yn yr Epistolau. Wrth ddarllen yr amrywiol lyfrau gyda'u gilydd a'u cymharu; y cyssylltiad rhwng y ddwy oruchwyliaeth, ynghyd a'u nodau gwahaniaethol, a ymddangosant yn eglurach. Myfyrier defodau y ddeddf, yn ymgnawdoliad a marwolaeth Crist, a chymharer ymdrechion a buddugoliaethau yr Iuddewon âg eiddo yr eglwys. Gwneir gwrthgyferbyniadau (*contrasts*) yn amlycach drwy y gymhariaeth. Ymddengys anianawd ac ysbryd yr efengyl yn fwy gogoneddus; ac nid llai gogoneddus fydd cymmeriad a mawrhydi ein Harglwydd. Cyssylltai ef yn ei berson ei hunan swyddau y deddf-roddwr, yr offeiriad, a'r blaenor; swyddau a gyflawnid gynt gan Moses, Aaron, a Josua, ac yr oedd pob un o honynt, yn ei le priodol, yn gysgod o hono ef.

Llyfr y Barnwyr.

41. Ni wyddis yn sicr pwy oedd awdwr Llyfr y Barnwyr, er fod traddodiad Iuddewig yn ei briodoli i Samuel. Oddiwrth y llyfr ei hunan, casglwn iddo gael ei ysgrifenu ar ol dechreuad y fonarchaeth, 19, 1; 21, 25, a chyn esgyniad Dafydd i'r orsedd, 1, 21: 2 Sam. 5, 6—8. "*Ty Dduw*," gan hyny, a gyfeiria, fel yn Josua, at y tabernacl, 20, 18 (Jos. 9, 23), a'r caethiwed y sonir am dano yn 18, 30, at ryw wasanaeth (*servitude*) cydamserol; gwel Sal. 78, 60, 61, lle y defnyddir yr un ymadrodd. Llawer o'r ysgrifenwyr cyssegredig a gyfeiriant at y llyfr hwn, neu a ddyfynant o hono, 1 Sam. 12, 9—11, 2 Sam. 11, 21; Sal. 83, 11; 68; 89: Esay 9, 4: 10, 26.

Nid oedd y Barnwyr, gweinidogaethau pa rai am oddeutu 300 mlynedd sydd yn cael eu darlunio yma, yn olyniaeth reolaidd o lywyddion, ond gwaredwyr achlysurol oeddynt a gyfodid gan Dduw i waredu Israel oddiwrth ormes, ac i weinyddu cyfiawnder. Heb gymmeryd arnynt y cyflwr o awdurdod freiniol, gweithredent am amser fel rhaglawiaid Jehofah, y Brenin anweledig. Ymddengys nad oedd eu gallu yn annhebyg i eiddo *suffetiaid* (*seffetis*) Carthage a Thyrus, neu eiddo archoniaid Athen. Gellir desgrifio eu llywodraeth fel cynghrair werin-lywodraethol (*republican confederacy*); yr henaduriaid a'r tywysogion yn meddu awdurdod yn eu priodol lwythau.

Ymddengys, yn ol darluniad y llyfr hwn, fod cymmeriad moesol yr Israeliaid wedi myned drwy gyfnewidiad mawr. Yr oedd y genedlaeth a gydoesai â Josua yn wrol a ffyddlawn, ac yn rhydd, i raddau helaeth, oddiwrth y gwendid a'r ystyfnigrwydd a warthruddasant eu tadau (Barn. 2, 7). Yr oedd eu gwresogrwydd cyntaf, fodd bynag, wedi oeri peth, a syrthiasant fwy nag unwaith i'r fath gyflwr o ddifaterwch, nes yr oedd yn angenrheidiol i Josua eu ceryddu. Fe allai fod holl diriogaeth Palestina yn fwy nag oedd yn eisieu arnynt, neu yn fwy nag y gallent ei drin gyda defnyddioldeb. Gan i bob llwyth dderbyn ei gyfran, ymroddasant mor drylwyr i'w diwyllio, neu daeth tawelwch yn gymmaint hoffach ganddynt nâ rhyfel, fel yr aethant yn anfoddlawn i gynnorthwyo y lleill. Yr oeddynt oll, fodd bynag, yn ei chael yn llawer mwy cyfleus i wneyd caethweision o'r cenedloedd darostyngedig ganddynt nâ'u bwrw hwynt allan. Un annoeth oedd y drefn yma. Yr oedd hefyd yn bechadurus. Gwelwyd ei heffeithiau yn fuan. Cyfododd cenedlaeth arall. Wrth fyw yn nghymmydogaeth uniongyrchol eilun-addolwyr, ac eilun-addolwyr hyd y nod yn eu gwlad, yr Israeliaid a gymmerasant i fyny eu siamplau, a gydbriodasant â hwy, ac a halogwyd drwy eu ffieidd-dra, Barn. 2, 13. Heblaw hyny, y Canaaneaid, drwy gael llonydd, a gasglasant nerth i ragori yn erbyn yr hiliogaeth ddewisiedig; ac yr oedd y diweddaf, i'r un graddau, drwy ymollwng i benrhyddid, esmwythdra, ac eilun-addoliaeth, wedi colli egni a ffydd eu tadau. Fel hyn y mae pechod yn lluosogi yn y byd. Felly, pechod yn yr achos yma, fel bob amser, a ddygodd gydag ef ei gospedigaeth ei hunan. Nid ydyw pechaduriaid ond yn cael eu llanw â'u "ffyrdd *eu hunain;*" ac yn eu cospedigaeth, y mae Duw yn egluro ei gyfiawnder a'i wirionedd, Barn. 2, 14—18.

Gwers foesol fawr yr holl hanes a roddir yn yr hanner diweddaf o'r ail bennod.

Y mae yn dêg ychwanegu, fodd bynag, nad ydyw yr holl gyfnod i'w bystyried fel cyfnod didor o eilun-addoliaeth. Rhai o'r annhrefniadau a

nodwyd a effeithient ar ranau o'r wlad yn unig, tra yr oedd y gweddill mewn gwell cyflwr. Rhoddir hanes cyflawn o'r pechodau a achosant gospedigaeth, ac o'r gwaredigaethau a ganlynasant edifeirwch; tra y mae tymmorau hirion, yn ystod pa rai yr oedd y Barnwyr yn llywodraethu, a'r bobl yn ufyddhau i Dduw, yn cael eu darlunio mewn un adnod. Yn ychwanegol at luaws, y rhai yn ddiau a arosasant yn ffyddlawn yn nghanol y llygredigaethau yma, y mae yr apostol Paul yn ein hadgofio o amryw siamplau gorwych o ffyddlondeb gwrol, Heb. 11, 32.

Llyfr Ruth.

42. Gellir ystyried llyfr Ruth fel diweddiad (*sequel*) i lyfr y Barnwyr, ac yn rhagarweiniad i'r hanes sydd yn ei ganlyn. Cynnwysa bethau neillduol perthynol i deulu Elimelech, a dywed wrthym pa fodd y daeth Ruth, un o'r Moabiaid, yn wraig i Boaz, henafiad i Ddafydd, ac felly i Grist. Ni wyddis yn sicr pwy oedd ei awdwr, ond priodolir ef yn gyffredin i Samuel. Y mae yn y gwreiddiol lawer o ymadroddion na cheir eu cyffelyb ond yn Samuel a'r Breninoedd (Ruth 1, 17 : 4, 6, &c.) Olrheinia y llyfr achyddiaeth Dafydd i ffynnonell heb fod yn anrhydeddus i'r penadur hwnw; ac y mae y ffaith yma yn un prawf o wirionedd yr hanes. Dyfynir ei gyfrif achyddol yn Math. 1, 5, a Luc 3, 32.

Cymmerodd y dygwyddiadau a gofnodir le yn amser y Barnwyr, 1, 1; ond amlwg yw i'r hanes gael ei ysgrifenu rhyw amser yn ddiweddarach, 4, 7. Er nad ydyw y llyfr yma ond byr, etto, y mae yn hynod gyfoethog mewn siamplau o ffydd, amynedd, diwydrwydd, a charedigrwydd; ac nid ydyw yn llai felly mewn arwyddion o'r gofal neillduol y mae Duw yn ei gymmeryd o'n hamgylchiadau ni, "o hyd yn dwyn daioni allan o ddrwg ymddangosiadol." Anffodion Elimelech; pechod ei fab wrth briodi y Moabëes; colliad ei gŵr: y cyfan yn dibenu yn ei hargyhoeddiad hi, ac yn anrhydedd ei theulu mabwysiedig. Y fath gyfnewidiadau a gynnyrchwyd mewn deng mlynedd! Y maent wedi troi Naomi yn Fara.[a] Yr hon a aeth allan yn gyflawn a ddychwelodd etto adref yn wag. Ei gwroldeb a'i ffydd, fod bynag, a'i cynnaliant; ac yn ei thrallod, dengys ddoethineb cyfartal i'w thynerwch. . . . . Pan ddywedir wrth eu merched yr hyn y mae yn rhaid iddynt ddysgwyl os dychwelant gyda hi i Ganaan, y mae Orpah yn wylo, ond yn dychwelyd at ei heilunod; a glyna Ruth wrthi hi, gan ddangos dyfnder o serch ac o benderfyniad crefyddol, 1, 16; 2, 12. Derbyniodd ei gwobr "gan Arglwydd Dduw Israel, o dan adenydd yr hwn y daeth i ymddiried."

Rhagddywedwyd wrth yr Iuddewon y buasai y Messiah o lwyth Judah; ac *wedi hyny*, dadguddiwyd yn mhellach y buasai o deulu Dafydd. Yr oedd o bwys, gan hyny, i hanes y teulu yma gael ei ysgrifenu cyn cyflawniad yr addewidion yma.

Yn mabwysiad Ruth, yr hon oedd bagan a Moabëes, i eglwys Dduw, ac i wladwriaeth Israel, gwelwn belydr o obaith yn cyfodi ar y byd cenedlig; ac yn fwy fyth yn ei gwaith yn cael ei derbyn i linach y Messiah; ymddengys fel rhagddangosiad o'r dirgelwch mawr, y buasai efe yn santeiddio y cenedloedd,—yn eu huno â'i bobl ef, ac na fuasai wedi hyny ond un gorlan ac un bugail.

Cynnwysiad y llyfr hwn ydynt fel y canlyn:—

Hanes Naomi, o'i hymadawiad gyda'i gŵr o Ganaan i Moab, hyd ei dychweliad i dir Israel gyda'i merch-yn-nghyfraith, Ruth; pennod 1.

[a] Yr Esgob Hall.

Cydymweliad Boaz â Ruth, a'u priodas, 2—4, 12. Genedigaeth Obed, ac achyddiaeth Dafydd, 4, 13—22.

Dos. 4. *Llyfrau Samuel, y Breninoedd, a'r Cronicla.*

Llyfrau Samuel.

43. Yr adroddiad a roddir yn Ruth sydd fath o ŵyrad (*digression*) yn yr hanes cyssegredig, i amcan neillduol. Cymmerir llinell gyffredin yr hanes yn awr i fyny. Cynnysgaethir ni yn llyfrau Samuel â hanes y ddau Farnwr olaf, Eli a Samuel (y rhai nid oeddynt fel y lleill, yn wŷr o ryfel, ond yn offeiriaid), ynghyd a'r ddau frenin cyntaf, Saul a Dafydd.

Cyfrifid y ddau lyfr yma gynt fel un: cafwyd y dosparthiad presenol oddiwrth y Deg-a-Thriugain a'r *Vulgate*. Yn y cyfieithiadau yma, gelwir hwynt yn llyfr cyntaf ac ail lyfr y Breninoedd, am eu bod yn ffurfio rhan o hanes breninoedd Israel a Judah.

Nid yw pwnc awduriaeth y llyfrau yn rhydd oddiwrth anhawsder, ond y mae pwys penderfynol y profion o blaid yr hen olygiad, mai Samuel a ysgrifenodd 1 Sam. 1—24, ac i'r gweddill gael ei ysgrifenu gan Nathan a Gad, 1 Cron. 29, 29. Yr hanes, mae yn debygol, a gafodd ei ysgrifenu tua dyddiau olaf bywyd Samuel, 5, 5; 6, 18. Lle priodol y llyfrau yn y *canon;* y prophwydoliaethau a gofnodant;[a] y dyfyniadau a roddir o honynt mewn llyfrau diweddarach, ac yn y Testament Newydd,[b] a gynnwysant gyflawnder o brofion o'u hawdurdod.

Gad oedd gydoesydd â Dafydd, a gelwir ef yn weledydd iddo. Yr oedd hefyd, mae yn debygol, yn un o'i gymdeithion yn yr anialwch, 1 Sam. 22, 5. *Nathan* oedd gynghorydd enwog i Ddafydd, ac a anfonwyd amrywiol weithiau i draddodi iddo genadwriaethau Dwyfol, 2 Sam. 7, 2: 12, 1: Salm 51. Ceir ei enw yn Sech. 12, 12, fel cynnrychiolydd teulu mawr y prophwydi. Cynnwysa y llyfrau yma hefyd amrywiol awdlau gan wahanol awduron. Y mae cân Hannah yn hynod o herwydd ei thebygolrwydd i gân Mair (1 Sam. 2, 10; Luc 1, 46—55). Rhydd brophwydoliaeth amlwg am Grist, yr hwn yma a elwir yn Fessiah (yr Eneinniedig), ac yn frenin am y tro cyntaf.

Samuel, yr hwn, fel y penderfynwn, oedd awdwr rhan helaeth o'r llyfr cyntaf, oedd (fel yr arwydda ei enw) yn ateb dymunedig i weddiau ei fam, a chafodd ei gyflwyno i Dduw o'i fabandod. Er ei fod wedi ei wisgo âg awdurdod oruchel yn y wladwriaeth, etto rheolodd heb uchelgais, cyflawnodd ei swydd gydag uniondeb difrycheulyd, a rhoddodd hi i fyny heb anfoddlonrwydd. Yr oedd yn cael ei ofni a'i barchu gan Saul, a chaniatâwyd iddo gan y brenin hwnw i farnu Israel holl ddyddiau ei fywyd, 1 Sam. 7, 15. Y dadguddiadau a dderbyniodd, a'r ysbryd a'i nodweddai, oeddynt y fath, fel yr oedd holl Israel, o Dan i Beerseba, yn gwybod i Samuel gael ei sefydlu yn brophwyd i'r Arglwydd.

Y mae o bwys neillduol talu sylw i drefn amseryddol Samuel, ac eiddo llyfrau hanesyddol diweddarach.

44. Er mwyn deall y cyfammod a roddodd Duw i Ddafydd, yn sicrhau llywodraeth barhaus ei hâd, darllener a chymharer 2 Sam. 7: 23, 5: 1 Cron. 17: Sal. 89; 132. Gellir casglu ei chyflawniad rhanol yn Solomon oddiwrth 1 Cron. 28, 1—7; 1 Bren. 8, 15—16; 11, 9—13.

[a] Gwel 1 Sam. 2, 30; 2 Sam. 12, 10—12, &c.

[b] 1 Bren. 11, 26; 2 Bren. 2, 4—11; 1 Cron. 17. 24, 25; gwel Act. 13, 22; Math. 12. 3.

Fel yr oedd gogoniant tymmorol tŷ Ddafydd yn lleihau, anfonodd Duw brophwydi i gyhoeddi sefydlogrwydd y cyfammod yma, ac i sicrhau i Judah o berthynas i ogoniant annghymharol ei ganlyniedydd mawreddog, Amos 9, 11—15: Esay 9, 6, 7; 11; Jer. 23, 5, 6; 33, 14—26. Cyfeiria yr addewidion yma at deyrnasiad cyffredinol a pharhaus y Messiah, yr hwn sydd yn awr wedi ei dderchafu, ac yn dysgwyl hyd oni osodir ei elynion yn droedfainc i'w draed, Luc 1, 31—33, 69: Act. 2, 25—36; 13, 32—37.

Gellir casglu oddiwrth Esay 55, 3; Heb. 1, 5; ac Act. 2, 30, fod Dafydd ei hun yn deall y cyfammod yma fel yn cyfeirio at ein Harglwydd, ac at fendithion ysbrydol i'w derbyn drwyddo ef.

45. Yn Samuel cawn adnewyddiad o'r ysbryd prophwydoliaethol. O ddyddiau Josua hyd Eli, ymddengys nad oedd yr un "weledigaeth eglur" (1 Sam. 3, 1; Jer. 15, 1: Act. 13, 20; 3, 24). O dan y Barnwyr, arosai y cyfammod gwreiddiol megys yr oedd ar y dechreu. Yr oedd y sefydliad a'r offeiriadaeth Iuddewig heb eu cyfnewid. Y gyfraith, megys y rhoddwyd hi gan Moses, oedd yn ei llawn rym, ac, yn nghyflawniad ei rhagfynegiadau, cynnwysai brofion cyflawn o'i hawdurdod. Fodd bynag, yr oedd cyfnewidiadau mawrion ynmyned dros y wladwriaeth yn amser Samuel. Yr oedd drygau yn dyfod yn drymach. Llwyddiant yn fwy annghyffredin a diflanedig. Yr oedd yr offeiriadaeth i gael ei throsi, ac yr oedd y swydd freninol i'w sefydlu. O dipyn i beth, yr oedd y deyrnas ei hunan i gael ei dryllio a'i rhanu. Rhoddir caniatâd cyhoeddus i eilunaddoliaeth, a bydd angen ei geryddu yn gyhoeddus ac awdurdodol. Yna y canlyna cyfres o gystuddiau, y rhai a derfynant mewn symudiad a chaethiwed.

Yr oedd cyfnewidiadau mor bwysig yn gofyn cyfryngiad neillduol. Ac am hyny, yr oedd yn angenrheidiol adnewyddu ac helaethu dadguddiad prophwydol. Megys y gofynai Moses brofion neillduol o'i Ddwyfol appwyntiad i'w genadiaeth, felly y gwna Samuel. Ymddengys *ef*, gan hyny, fel *prophwyd;* a dechreua oes brophwydol, yr hon, heb un attaliad pwysig, a barha hyd ddyddiau Malachi.

Rhoddwyd iddo alwedigaeth oruwch-naturiol, a gweledigaeth brophwydol ar ddechreuad ei weinidogaeth. Anfonwyd ef at Eli, i ail-fynegu prophwydoliaeth oedd wedi cael ei chyhoeddi eisoes gan ŵr i Dduw, a chyflawniad y brophwydoliaeth hon, yn nghyd ag amgylchiadau ereill, a roddasant yn foreu brofion o'i awdurdod. Y bobl yn fuan a geisiasant frenin, a chan fod eu cais yn cynnwys diffyg ymddiried yn yr amddiffyniad a'r cariad a'u gwnaeth yn Ddwyflywodraeth (*Theocracy*), gwrthwynebwyd ef gan y prophwyd yn enw Duw. O'r diwedd, Duw a gydsyniodd, a rhoddwyd ar y prophwyd i wylied ar y cyfnewidiad, egluro cyfreithiau y deyrnas, dangos pwy oedd Duw wedi ei ddewis, ac yn y diwedd, trosglwyddo y deyrnas i berson ac i lwyth Dafydd. Can belled a hyn, yr oedd rhagfynegiadau a gweithredoedd y prophwyd, gan mwyaf, yn wladwriaethol.

Yn mherson ac yn nheyrnasiad Dafydd, fodd bynag, y mae prophwydoliaeth yn gwisgo cymmeriad newydd. Yn gyntaf, y mae ei deyrnas yn cael ei chadarnhau iddo (2 Sam. 2, 12—17: Sal. 89). Wedi hyny, rhagfynegir cymmeriad a theyrnas Solomon, ac yn gymmysgedig â hyn cawn ddadguddiadau o fath uwch a santeiddiach. Gwelsom fod yr addewid i Abraham yn dymmorol ac yn efengylaidd, felly hefyd y mae yr addewid a wneir yn awr i Dafydd. Cyhoeddwyd y Messiah i Abraham,

gyda mwy neu lai o eglurder, fel yr *hâd* addawedig; i Moses, fel y *prophwyd* oedd yn dyfod; i'r oll o'r oes hono fel *offeiriad;* ymddengys yn ychwanegol i Ddafydd fel *brenin.* Llefara, gan hyny, am awdurdod y Messiah, am wrthwynebiad a gelyniaeth breninoedd y ddaear, am ei deyrnwialen o gyfiawnder, am ei offeiriadaeth annghyfnewidiol, am ucheledd ei natur, am ei farwolaeth, am ei fuddugoliaeth ar angeu, ac am ei lywodraeth ar Iuddewon a chenedloedd (Sal. 2; 16; 45; 110, &c.). Y llwythau gorthrymedig, mewn ychydig dros gan mlynedd, a lywodraethant o fôr i fôr, ac y mae y tywyllwch cyssylltiedig â bod heb weledigaeth, yn rhoddi ffordd i'r hyn a ymddengys yn wawr dydd digwmwl.

Y mae yn deilwng o sylw hefyd, tra y mae Dafydd yn derbyn yr addewid am barhad ei deyrnas oddiwrth Samuel a Nathan, mai Dafydd ei hun a gyfarwyddir i gyssylltu y deyrnas yma â theyrnas ei Fab mwyaf. Y prophwydi a ddadguddiant ac a fwyhânt y cysgod, yntau a drosglwydda y brophwydoliaeth yn mlaen; y mae yn galw CRIST yn Arglwydd, ac yn mhob man yn talu ymostyngiad ewyllysgar i'w berson ac i'w gyfraith (Salm 110).

Yn ol fel y dygir teyrnas a chymmeriad Crist fel hyn i'r golwg, gwneir darpariaeth gyfartal i ddyfnhau yr argraffiad o'r prophwydoliaethau Cristionogol yma ar galonau y bobl, a'u cyfaddasu i gynnyrchu ffydd a duwioldeb. Rhoddir hwynt mewn Salmau, ac fel hyn trosglwyddir hwy i addoliadau yr eglwys. Y Salmau yma a ffurfiant yr ychwanegiadau pwysicaf a wnaethid etto at y dadguddiad Moesenaidd, ac y mae eu cyfaddasrwydd i gynnyrchu yn yr hen addolwyr obeithion Cristionogol yn amlwg. Prydferth iawn hefyd yw eglurder cynnyddol y prophwydoliaethau yma. Dadguddir *hâd* i Abraham. Wedi i'w hiliogaeth ddyfod yn llwythau, cyfyngir yr addewid i *Juda;* ac yn awr, pan mae y deyrnas yn ymddangos, rhoddir hi i *Ddafydd.* Nis gellir ychwaith briodoli y prophwydoliaethau yma i weniaith neu hunanoldeb. Nid Dafydd yw yr hwn sydd yn eu derbyn gyntaf. Ac nid ydyw yn eu cymhwyso, yn eu holl gyflawnder, ato ei hunan. Cymhwysa hwynt i un arall, a'r genad a'u traddoda yw Nathan; hwn oedd y prophwyd a roddodd gerydd i'w fab, ac a ddwys fygythiodd Solomon â chanlyniadau ei wrthgiliad. Yr oedd gan ffyddlondeb y gweision hyn o eiddo Duw ddybenion ereill, a mwy uniongyrchol, ond profa, mewn modd achlysurol, wirionedd eu cyhoeddiadau.

Dau Lyfr y Breninoedd.

46. Dau lyfr y Breninoedd (y rhai nid ydynt, mewn hen gopiau o'r Beibl Hebraeg, yn ffurfio ond un llyfr) a gynnwysant hanes Israel a Juda, o ddiwedd teyrnasiad Dafydd hyd y caethiwed Babilonaidd. Cymmerir dosparthiad presenol y llyfrau o'r Deg-a-Thriugain a'r Vulgate.

Ni wyddis dim *yn sicr* am yr awduriaeth: y farn fwyaf debygol yw, gan fod cofiannau o'u hamseroedd eu hunain wedi eu hysgrifenu gan amryw brophwydi, er gwasanaeth y deyrnas, i'r llyfrau presenol gael eu cydgasglu (*compile*) o'r ysgrifeniadau yma gan Jeremiah neu Ezra. Y mae traddodiad Iuddewig yn ffafriol i'r blaenaf, ac yn ddiweddar Havernich a bleidiodd yr un golygiad. Cyrhaedda y dygwyddiadau a ddarluniant hyd ryddhad Joachim o garchar yn Mabilon (chwech neu wyth ar hugain yn unig o ffynyddau ar ol dinystr Jerusalem). Profir awduriaeth ddiweddar gan ddefnyddiad mynych o'r ieithwedd Galdeaidd (De Wette, adr. 115, 6); ac y mae tebygoliaeth hynod o ran dullwedd rhwng y Breninoedd a Jere-

miah (Havern.) . . . . Y golygiad i'r llyfrau gael eu cynnull o wahanol ysgrifeniadau gan yr un llaw a gadarnhëir gan y llyfrau eu hunain. Arddengys bywiogrwydd mynych yr hanes fod y gwaith yn eiddo llygaddyst; a gwneir appeliadau parhaus at ysgrifeniadau swyddol, dan y teitl o Cronicl Breninoedd Israel a Juda—yr hwn deitl a roddir mewn man arall i gof-ysgrifau cenedlaethol, Esther 2, 23; 6, 1. Ymddengys fod y cyfan wedi cael ei adolygu gan yr un dyn oddiwrth y debygoliaeth o ran dullwedd a ieithwedd mewn amryw ymadroddion dibwys.

Y ddau lyfr a gynnwysant amryw brophwydoliaethau, yn nghyd âg arwyddion eglur ereill o ysbrydoliaeth; dyfynir y ddau fel yn bur a chanonaidd gan ein Harglwydd a'i apostolion (gwel Luc 4, 25, 27; Iago 5, 17).

Dyddiadau cymharol y Croniclau a'r Breninoedd a eglurant amrywiol wahaniaethau ymadroddol. Yn y Croniclau cawn ffurfiau Arameaidd,[a] geiriau ac ymadroddion, yn nghyd ag enwau diweddarach,[b] ac ymadroddion cyfystyr yn cael eu defnyddio am ereill agored i'w camsynied.[c]

Eglurir gwahaniaethau yn nhrefn y dygwyddiadau gan y ffaith nad oes neb o'r ysgrifenwyr yn proffesu rhoddi trefn fanwl o'r amser.[d] Yn yr un modd, eglurir pethau a ychwanegir, a adewir allan, ac a gwttogir, drwy gyfeirio at amcan gwahanol pob hanes.

Ceir gwahaniaethau ereill yn achlysurol, y rhai a wnant wrtheddau (*discrepances*); ond perthynant yn benaf i rifedi ac enwau. Y mae yn dra gwybodus fod y testun yn Samuel, Breninoedd, a'r Croniclau mewn cyflwr gwaeth nag eiddo un ran arall o'r ysgrifeniadau ysbrydoledig; a rhaid peidio priodoli i'r awdwr yr hyn a berthyna mewn gwirionedd i gamsyniadau copiwyr.[e] Gellir ychwanegu nad ydyw y camsyniadau yma yn effeithio ar un erthygl o ffydd, nac ar un reol ymddygiad; ac hyd nes y gallwn eu hunioni, dylent gael eu cydnabod yn onest.

Cynnwysa y ddau lyfr amryw brophwydoliaethau ysbrydoledig, a chyfeirir atynt, neu dyfynir hwynt yn y Testament Newydd.[f] Y mae yn hynod fod mawl-eiriau ysbrydoledig Dafydd i Dduw yn cael eu mabwysiadu yn sylweddol gan ein Harglwydd, ac yn cael eu priodoli gan Ioan i'r ysbrydion gwynfydedig a foliannant Dduw yn y nefoedd, 1 Cron. 29, 10, 11; Math. 6, 13; Dad 5, 12, 13.

Dau lyfr y Cronicl.

47. Yr Iuddewon a gyfrifent y llyfrau yma yn un, a gelwid hwynt yn eiriau dyddiau, hyny yw, dyddlyfrau, neu goflyfrau, mewn cyfeiriad feallai at yr hen gofysgrifau o ba rai yr ymddengys iddynt gael eu cyfansoddi. Dynodir hwy yn y Deg a Thriugain fel llyfrau o "bethau a adawwyd allan" (*paraleipomenon*), ac ystyrid hwynt fel math o attodiad i lyfrau blaenorol yr Ysgrythyr, yn rhoddi y wybodaeth a wnaethwyd yn angenrheidiol gan y cyfnewidiadau a ganlynasant y caethiwed. Rhoddwyd y teitl presenol iddynt yn gyntaf gan Jerome.

48. Priodolir awduriaeth y croniclau yn gyffredin i Ezra. Sicr yw eu bod yn cofnodi y dychweliad dan Cyrus, 2 Cron. 36, 21, 22, ac yn nodi ysgrifeniadau Jeremiah, 35, 25. Heblaw hyny, y mae dullwedd Ezra yn

[a] 2 Cron. 8, 10. [b] 1 Cron. 14, 2; 19, 12; 21, 2; 2 Cron. 16, 4.
[c] 1 Cron. 19, 4; 2 Cron. 22, 12. [d] Gwel Taflenau; eglur yw fod 1 Cron. 14; 2 Cron. 1, 14—17; 9, 25, allan o'r drefn amseryddol. [e] Gwel 2 Cron. 8, 18 (1 Bren. 9, 28); 1 Cron. 11, 11 (2 Sam. 23, 8); 20, 5 (2 Sam. 24, 9); 1 Cron. 18, 4 (2 Sam. 8, 4); 19, 18 (2 Sam. 10, 18). [f] 2 Cron. 2, 5, 6, yn Act. 7, 48, 49; 2 Cron. 19, 7, yn 1 Pedr 1, 17.

hynod o debyg i eiddo y Croniclau, a'r hanesyddiaeth a ymddengys yn barhad o'r Breninoedd, Ezra 1, 1—13, ac 2 Cron. 36, 23. Os yw y golygiad yma yn gywir, rhaid fod 1 Cron. 3, 19, 24, lle y ceir hanes achyddiaeth Zorobabel hyd amser Alexander, wedi cael ei ychwanegu gan ysgrifenydd diweddarach.

49. Y mae pwysigrwydd y ffaith fod yr hanesion yma wedi eu cyfansoddi oddiwrth ysgrifeniadau boreuach, a'r rhai hyny eu hunain yn waith prophwydi, yn cael eu hegluro yn dda yn y llyfrau yma. Ymddengys fod yr ysgrifeniadau yma wedi eu dyfynu yn llythyrenol, hyd y nod pan y mae y ffaith a gofnodir yn perthyn yn hytrach i amser yr ysgrifenydd nag i eiddo y casglydd; gwel 2 Cron. 5, 9; 8, 8. Nid amcan y casglydd oedd agweddu yr ysgrifeniadau yma, ond cyssylltu ei hanes ei hunan â hwynt. Hefyd, llawer o ranau ydynt yr un, neu yn agos a bod yr un, a rhanau o'r Breninoedd; ac feallai eu bod wedi eu cymmeryd i'r ddau fan oddiwrth yr un cofnodolion. Nid ydyw yr ysgrifeniadau y cyfeirir atynt, neu a ddyfynir, yn llai nâ dwsin; er feallai mai yr un ysgrifen yw tri neu bedwar o honynt.

Y mae llawer o bethau a berthynant yn gyffredin i lyfrau dyblyg Samuel, y Breninoedd, a'r Croniclau, er fod ynddynt hefyd wahaniaethau nodweddiadol. Traethant, gan mwyaf, am yr un cyfnod; a dylid eu darllen yn nghyd, a'u cymharu. Gellir fel hyn gasglu golygiad cynnwysfawr o hanesyddiaeth Iuddewig, a theflir llawer o oleuni ar ymadroddion byrion ac aneglur. Eu hamcanion gwahaniaethol, fodd bynag, ydynt mor amlwg a'u hunaniaeth sylweddol. Yn Samuel, rhoddir hanes ffurfiad y deyrnas a bywgraffiad, yn cynnwys mwy nâ hanes y breninoedd cyntaf. Llyfrau y Breninoedd, ar y llaw arall, a roddant hanes y Ddwyf-lywyddiaeth dan y llywodraeth freiniol, ac y maent yn gyfoethog mewn byr-gyfeiriadau at gymmeriad, pechodau, a chospedigaeth ganlynol y llywiawdwyr a'r bobl. Llyfrau y Croniclau etto a gyfeiriant mewn modd neillduol at ffurfiau a gweinidogaeth addoliad crefyddol, at achyddiaethau, ac, mewn canlyniad, at feddiannau yr amrywiol deuluoedd a llwythau, ac at bynciau ereill cyssylltiedig â'r dychweliad. Oddiwrth hyn y cawn daflenau achyddol ynddynt, ac oddiwrth hyn hefyd y rhoddant y fath bwys ar ofal duwiol Dafydd, Solomon, Hezeciah, a Josiah, mewn sefydlu addoliad cyhoeddus.

Er nad yw y taflenau achyddol yn y llyfrau yma, mewn cymhariaeth, ond o ychydig bwys i ni, etto yr oeddynt yn dra dyddorawl i'r Iuddewon, y rhai a wnaethwyd drwy addewidion prophwydol i fod yn hynod o ofalus yn y pethau yma. Y taflenau yma a roddant y llinach gyssegredig drwy yr hon y trosglwyddwyd yr addewid am yn agos 3,500 o flynyddau, yr hon, ynddi ei hunan, sydd ffaith annghyffelyb yn hanes yr hiliogaeth ddynol.

50. Y nodwedd fwyaf neillduol yn llyfrau hanesyddol yr Ysgrythyr, ac yn enwedig yn y Breninoedd a'r Croniclau, yw eu cymmeriad crefyddol a Dwyf-lywyddol. Hanes leygol (*secular*) a gofnoda y cyfnewidiadau cyhoeddus fyddo cenedloedd wedi myned drwyddynt, yn nghyd a'u hachosion a'u canlyniadau. Olrheinia hanesiaeth eglwysig gynnydd syniadaeth (*sentiment*), ac amrywiol ddylanwadau ereill yn eu perthynas â'r eglwys. Ond yma arddangosir brenin, eglwys, gwladwriaeth, oll o dan Dduw. Penderfynir cymmeriad pob brenin wrth ei ffyddlondeb i rwymedigaethau ei swydd. Dywedir am bob un, Efe a rodiodd yn ffyrdd Dafydd ei dad, ac felly llwyddodd; neu yn ffyrdd Jeroboam, yr hwn a wnaeth i Israel bechu, ac felly methodd. Y llyfrau yma ydynt yn werthfawr fel hanes Duw a'i gyfraith yn y genedl—a'r genedl hono yn fonarchaeth; fel y mae

llyfrau Josua neu y Barnwyr yn hanes Duw a'i gyfraith mewn pendefigaeth neu weriniaeth (*aristocracy or democracy*); neu fel y mae y llyfrau boreuaf yn hanes Duw a'i gyfraith yn y teulu. Cawn awgrymiadau yn y Prophwydi ac yn Actau yr Apostolion o'r hyn yw hanes Duw a'i gyfraith i fod yn y byd. Noder, gan hyny, y pwys a roddir ar adeiladaeth y deml; y cyfeiriadau aml at yr hen gyfraith, yn enwedig pan oedd y ddwy deyrnas yn tynu at eu terfyn, fel i gyfrif am eu dadfeiliad a'u cwympiad agos; cyfryngiad mynych y prophwydi, yn awr yn ceryddu y bobl, ac yna yn gwrthwynebu y brenin; diorseddiad ac olyniad breninoedd, a'r cyssylltiad a olrheinir bob amser rhwng yr amgylchiadau a ymddangosant yn ddygwyddiadau gwladol, a ffyddlondeb neu eilun-addoliaeth yr oes.* . . . . . Pe byddai cenedloedd yn ddoethion, yr ysgrifeniadau yma a brofent eu haddysgwyr goreu; y maent yn addas i ddysgu y byd yn gystal a'r eglwys.

51. Cyfansodda teyrnasiad Dafydd a Solomon dymmor euraidd y wladwriaeth Iuddewig. Dangosodd Dafydd o'r dechreu y pryder mwyaf ar fod pob cam a roddai tuag at feddiant o'r deyrnas yn cael ei gyfarwyddo gan Dduw, 2 Sam. 2, 1; 1 Sam. 23, 2, 4. Gweithredai bob amser fel ei "was ef;" ac ar ol ei sefydliad ar ei orsedd, ei bwnc blaenaf oedd pleidio yr anrhydedd Dwyfol, yn nghyd a lles crefyddol ei bobl (2 Sam. 6, 1—5; 7, 1, 2). Yn ystod y saith mlynedd rhyfel, ni ddyrchafodd ei gleddyf unwaith yn erbyn deiliad; ac ar ei diwedd, ni chospodd un gwrthryfelwr, ac ni chofiodd un trosedd, ond llofruddiad ei wrthwynebydd (2 Sam. 4, 10—12). Fel brenin, gan hyny, amcanai at lwyddiant y wladwriaeth; ac fel cynnrychiolydd gweledig Jehofah, safodd yn ei le priodol, heb geisio derchafu yn uwch, ond cydymffurfiodd yn fanwl âg ysbryd y Ddwyf-lywyddiaeth. Fe allai mai at y cymmeriad hwn o eiddo ei weinyddiaeth, yn hytraeh nag at ei rinweddau personol, y cyfeiriai Duw wrth ei ddesgrifio fel "gŵr wrth fodd ei galon" (1 Sam. 13, 14; gwel hefyd Act. 13, 22), yr hwn oedd i "gyflawnu ei holl ewyllys." Anmhosibl, yn wir, yw amddiffyn ei holl weithredoedd, neu edrych arno fel cymmeriad perffaith. Ac etto, wrth edrych ar dduwioldeb ei ieuengtyd, dyfnder ei edifeirwch, grym ei ffydd, gwresogrwydd ei addoliad, arucheledd ac amrywiaeth ei athrylith, gwres ac ëangder ei galon, ei wroldeb nodedig mewn oes o ryfelwyr, ei gyfiawnder a'i ddoethineb fel llywydd, ac, uwchlaw y cyfan, ei ymlyniad wrth addoliad ac ewyllys Duw, gallwn yn ddibetrus ei ystyried fel cynllun mewn awdurdod freiniol; ac ufydd-dod ysbrydol.

Solomon a gynnaliodd drefniadau, ac a gyfranogodd o fendithion ei dad. Cyrhaeddai ei lywodraeth o Fôr y Canoldir i'r Euphrates, ac o'r Môr Coch yn Arabia hyd eithafion Libanus (1 Bren. 4, 21, &c.) Yr oedd y talaethau trethedig o ba rai yr oedd yn cael ei chyfansoddi, i raddau helaeth, yn cael eu cadw mewn llwyr ymostyngiad, a chan eu bod o hyd yn cael eu llywyddu gan eu tywysogion eu hunain, yr oedd Solomon yn "frenin breninoedd." Daeth y Canaaneaid a arosasent yn Mhalestina naill ai yn ddeiliaid heddychlawn, neu yn weision ufydd. Yr oedd ei drysorau hefyd yn ddirfawr, ac yn gyfansoddedig yn benaf o yspeiliau rhyfel a ennillwyd gan ei dad oddiar lawer o genedloedd, ac a gasglwyd ganddo mewn rhan i'r amcan o adeiladu teml yr Arglwydd, ond mewn rhan hefyd er mwyn cynnal grym a gogoniant y deyrnas. Yr oedd doethineb Solomon yn fwy enwog nag hyd y nod ei gyfoeth. Y mae yn hynod yn yr Ysgrythyr, ac mewn adroddiadau dwyreiniol. Tair mil o ddiarebion (o ba rai y mae llawer yn

* Gwel 2 Bren. 5, 8; 10, 31; 17, 13, 15, 37; 19, 4—6. Hanes Elias; 1 Bren. 15, 3—5; 2 Bren. 11, 17.

aros) a roddasant brawf hirfaith o'i rinweddau a'i ddealldwriaeth. Mil a phump o ganiadau, o ba rai y mae genym y Caniadau a Salm 127, a'u gosodent yn mhlith y blaenaf o feirdd Hebreig; tra yr oedd ei wybodaeth berffaith o hanesiaeth naturiol yn cael ei dangos mewn ysgrifeniadau a gawsant eu hirfaith fawrygu, er eu bod yn awr wedi eu colli.

Fodd bynag, hyd y nod ei fawredd a'i bradychodd. Ei drysoran, ei wragedd, a'i gerbydau, oeddynt oll yn groes i ysbryd a gorchymynion y gyfraith (Deut. 17, 16, 17). Ei ormesiadau a ddyeithrasant serchiadau ei bobl, ac, uwchlaw y cyfan, arweiniwyd ef ar gyfeiliorn gan ei wragedd, fel yr adeiladodd demlau i Chemosh, neu Peor, eilun trythyll Moab; i Moloch, duw Ammon; ac i Astaroth, duwies y Sidoniaid. Ei ddyddiau olaf, gan hyny, a anesmwythwyd gan "wrthwynebwyr." Gwnaeth Jeroboam "ddrygioni" yn Edom; cyhoeddodd Damascus ei hannibyniaeth o dan Resin; a chyfarwyddwyd Ahiah i gyhoeddi i Solomon ei hunan, gan ei fod ef wedi tòri y cyfammod yn ol yr hwn y gwisgai ei goron, y buasai y deyrnas yn cael ei chymmeryd oddiwrtho, ac y buasai rhan o honi yn myned yn feddiant i'w was ef. Y mae rheswm i obeithio i'r cospedigaethau yma agor ei lygaid i ganfod mawredd ei bechodau, a bod ei ddyddiau olaf yn edifeiriol. Ei deyrnasiad, ar y cyfan, oedd hynod o lwyddiannus. "Yr oedd Judah ac Israel yn llawer, fel y tywod ar fin y môr mewn lluosogrwydd, yn bwyta, yn yfed, ac yn gwneuthur yn llawen." O Dan i Beerseba, preswylient yn ddiogel, pob un dan "ei winwydden, ac o dan ei ffigysbren ei hun."

Amgylchiad mawr bywyd Solomon oedd adeiladaeth y deml. Megys yr oedd yr adeilad yma yn gyflawniad prophwydoliaeth (2 Sam. 7, 13), ac megys yr oedd yn arwydd o bresenoldeb Duw gyda'i bobl (2 Sam. 7, 6, 10), felly yr oedd ynddo ei hunan yn brophwydoliaeth ac yn gysgod o'r bobl Iuddewig, ac o'r eglwys, ac yn brophwydoliaeth am bresenoldeb parhaus Duw (Jer. 7). Ei hanes, gan hyny, sydd yn ddangoseg o hanes yr Iuddewon eu hunain. Pan syrthiodd y deml, gwasgarwyd hwythau; ac fel y cyfodai o'i hadfeilion, ymgasglasant hwythau wedi hyny o'i chyleh; ac y mae hanesyddiaeth, gyda'r un faint o gywirdeb, yn dyddio, oddiwrth ddinystr y deml, ac oddiwrth oresgyniad cyntaf Jerusalem (gwel adr. 450), 1 Bren. 9, 7, 8; 2 Cron. 7, 20; yr oll o Jer. 7; Esa. 44, 28.

Dos. 5. *Y Llyfrau Barddonol—Y Salmau, Caniad Solomon, Diarebion, a'r Pregethwr.*

Y Salmau.

52. Llyfr y Salmau sydd gasgliad o emynau (*umnoi*) cyssegredig, wedi eu cyfansoddi ar wahanol amserau, ac yn enwedig gan Dafydd, 2 Sam. 23, 1. Meddwl y teitl Hebreig yw, "moliant;" yr un Cymreig, yr hwn a gymmerwyd o'r Deg a Thriugain, a olyga awdl gyfaddasedig at gerddoriaeth (*psallo*—taro tant); ac y mae hwn yn enw tra phriodol, yn gymmaint a bod y rhan amlaf o'r darnau yma wedi eu bwriadu nid yn unig i osod allan deimlad crefyddol, ond hefyd i'w canu yn addoliadol yn y gwasanaeth cyhoeddus.

53. Casglwyd a threfnwyd y Salmau gan Ezra a'i gymdeithion (c. c. 450), ac y mae y llyfr ei hunan yn dwyn profion ei fod wedi cael ei ffurfio o amryw gasgliadau llai. Dosparthir y Salmau yn yr Hebraeg a'r Deg a Thriugain i bump o lyfrau, a phob un o'r tri blaenaf yn cynnwys cyfansoddiadau rhyw awdwr neillduol.

i. 1-41. A gynnwysant Salmau Dafydd yn benaf, wedi eu casglu fe allai gan Hezeciah; gwel Diar. 25, 1, a 2 Cron. 29, 30.
ii. 42-72. Salmau gan feibion Corah, 42—47, a chan Dafydd, 51—65; 72.
iii. 73-89. Salmau gan Asaph, 73—83, a Chorah, 84—89, gan mwyaf.
iv. 90-106. } Ydynt rai goluchegol (*liturgic*) yn cynnwys Salmau yr Ha-
v. 107-150. } leliwia, a chaniadau y graddau; wedi eu casglu yn benaf at wasanaeth yr ail deml.

54. O'r awduron a nodir yn y teitlau, Dafydd oedd y cyfansoddydd helaethaf, er na chafodd yr holl rai y mae ei enw yn eu rhagflaenu yn yr Hebraeg (73), na'r rhai ychwanegol yn y Deg a Thriugain (12), eu hysgrifenu ganddo. Yn mhlith y blaenaf y mae Salm 139 a 122 (cymharer y Deg a Thriugain); ond y mae eu hieithweddau Caldeaidd, a'u dullwedd, yn cyfeirio at ddyddiad diweddarach. Ar y llaw arall, y mae yn debygol mai ei eiddo ef yw Sal. 99 a 104, y rhai hefyd a briodolir iddo yn y Deg a Thriugain. Hefyd, Sal. 2 a'r 95, y rhai nid ydynt yn cael eu nodi fel ei eiddo ef yn yr Hebraeg, nac yn y Deg a Thriugain, ydynt yn cael eu priodoli iddo yn y Testament Newydd, Act. 4, 24, 25, 26; Heb. 4, 7. Y mae enw *Asaph*, peucerdd Dafydd, neu eiddo ei hiliogaeth, yn gyssylltiedig âg un ar ddeg o honynt, 50, 73—83. Enwir meibion *Corah*, teulu arall o gantorion, fel awdwyr un ar ddeg yn ychwanegol; i'r teulu yma y perthynai *Heman*, yr Ezriad, a nai Samuel (Sal. 88; cymharer 1 Cron. 6, 22, 33 –38); ac enwir *Ethan* fel awdwr yr 89, er fod hyn yn gyfeiliornus, os oedd yn gydoeswr â Dafydd; gwel adnodau 38—44. Y mae enw *Solomon* yn gyssylltiedig â'r 72 a'r 127; ond feallai mai efe yw testun yn hytrach nag awdwr y blaenaf. Dywedir mai *Moses* yw awdwr Salm 90, a phriodolir y deg canlynol iddo gan feirniaid Iuddewig, ond nid ar dir da; gwel 97, 8, a 99, 6. Yr ydys wedi priodoli y Salmau dienw i amrywiol awdwyr; y Deg a Thriugain a noda Jeremiah fel awdwr yr 137, a Haggai a Zechariah fel awdwyr yr 146 a'r 147.

55. Y mae gwerth neillduol y Salmau yn ddyblyg:—

1. Y maent yn gynlluniau o addoliad cymmeradwy. Mewn rhanau ereill o ddadguddiad, desgrifir Duw yn llefaru wrth ddyn. Yma darlunir dyn yn llefaru wrth Dduw. Gallwn, wrth y llyfr yma, gan hyny, brofi mynegiadau a theimladau ein calon. Y mae genym yma reol, yn ol yr hon y gallwn wybod pa un a ydynt yn iachus ac yn gywir; pa un a yw y tân a gyfyd o fewn i ni wedi cael ei gynneu gan Dduw neu genym ni ein hunain.

2. Cynnwysant ragfynegiadau am hanes ein Harglwydd, ac, mewn modd hynod o lythyrenol, ei ddyoddefiadau a'i ogoniant; o berthynas i'w ddyoddefiadau, gwel Sal. 16; 22, 40; ac o berthynas i'w ogoniant, gwel Sal. 2; 45; 72; 110. Rhagddyweda Salm 132, 11, ei gyssylltiad â Dafydd. Salm 118, 22, ei wrthodiad gan yr Iuddewon. Salm 68, 18, ei esgyniad, a rhoddiad yr Ysbryd; a Salm 117, alwedigaeth y cenedloedd: gwel Rhuf. 15, 11.

Y mae yr eglwys Gristionogol, gan hyny, yn cymmeryd y Salmau fel ei hiaith hi ei hunan, neu fel iaith ei Harglwydd. Pan sonia yr ysgrifenydd am ei elynion, deallwn ef fel yn llefaru am elynion Crist a'i eglwys. Yn gyffredin, fodd bynag, y mae teimladau yr ysgrifenydd yr un a theimladau arferol Cristionogion; megys, pan y desgrifia yr ymddiried a'r cariad sydd yn perthyn yn gyffredin i Gristionogion pob oes; gwel Pregethau Arnold ar Ddehonglyddiaeth, tud. 143; gwel hefyd y Beibl Gwa-

hanranol (*Paragraph Bible*), Rhagarweiniad i'r Salmau, yn nghyd â nodiad wedi ei gyssylltu â hwynt.

Mewn golygiad llenyddol pur, yr ydys wedi galw y Salmau, nid yn anmbriodol, yn ganiadau cenedlaethol yr hiliogaeth Hebreig. Pan ystyrir hwynt felly, y mae y cyferbyniad rhyngddynt hwy a "chaniadau cenedlaethol" ereill yn ddigon amlwg.

Ymhyfryda pob dosparth o ysgrifenwyr i ganmawl y cyfansoddiadau hyn. Gelwid hwynt gan Athanasius, ac ar ei ol ef gan Luther, yn grynodeb o'r Beibl; Basil, ac ar ei ol ef yr Esgob Hall, a'u galwent yn "gynnwys-drefn o dduwinyddiaeth." "Nid yn unig yn eu hymresymiadau dwyfol," medd Milton, "ond hefyd yn nghelfyddyd fanwl cyfansoddiad, gellir yn hawdd wneuthur iddynt ragori mewn modd annghymharol ar bob math o farddoniaeth delynol." "Mewn rhediad a thân telynol," medd awdurdod diweddar, mewn grym a mawrhydi anorfod. . . . barddoniaeth yr hen Ysgrythyrau yw y mwyaf ardderchog a losgodd erioed yn mynwes dyn."—Syr D. K. Sandford. I'r Cristion, fodd bynag, eu prif werthfawrogrwydd yw, eu bod yn cynnwys y teimladau santeiddiaf, yn rhoddi llafar i gynhyrfiadau dynion goreu pob oes, ac iddynt gael eu canu ganddo Ef, yr hwn, er ei fod "yn llefaru fel na lefarodd dyn erioed," etto a ddewisodd anadlu allan ei enaid, mewn mawl ac yn ei ddyoddefaint olaf, yn ngeiriau Salm.

Dyfynir y llyfr hwn, neu cyfeirir ato mewn modd eglur yn y Testament Newydd, uwchlaw triugain a deg o weithiau. Y Salmau a ddyfynir, neu a gyfeirir atynt felly, ydynt wedi en nodi yn Nhaflen (B) fel hyn.*

56. Yr ydys wedi cynnyg amryw drefniadau (*classifications*) o'r Salmau. Dosparthir hwynt gan Tholuck yn ol eu cynnwysiad, i ganiadau o fawl, o ddiolchgarwch, o achwyniad, ac o addysg. Ereill a'u trefnant dan y penau, emynau o anrhydedd i Dduw; emynau perthynol i Seion a'r deml; emynau i'r Messiah, neu y Brenin; emynau cwynfanus neu ddeisyfiadol, ac awdlau cretyddol, megys Salm 23, 91, 119. Nis gellir gwneyd unrhyw drefniad cywir iawn, oblegid fod eu cynnwysiad yn fynych mor amrywiol. Y mae yr un canlynol (A), fodd bynag, yn ymarferol bwysig.*

1. *Salmau addysgiadol, neu athrawiaethol* (*didactic*): ar gymmeriad y dyn da a'r dyn drwg; eu dedwyddwch a'u trueni, 1, 5, 7, 9—12, 14, 15, 17. 24, 25, 32, 34, 36, 37, 50, 52, 53, 58, 73, 75, 84, 91, 92, 94, 112, 119, 121, 125, 127, 128, 133; ar ragoriaeth y gyfraith Ddwyfol, 19, 119; ar wagedd y bywyd dynol, 39, 49, 90: ar ddyledswydd llywodraethwyr, 82, 101; ar ostyngeiddrwydd, 131.

2. *Salmau o fawl ac addoliant;* yn cydnabod daioni a thrugaredd Duw, ac yn neillduol ei ofal am ddynion da, 23, 34, 36, 91, 100, 103, 107, 117, 121, 145, 146: yn cydnabod ei allu, ei ogoniant, a'i briodoliaethau yn gyffredinol, 8, 19, 24, 29, 33, 47, 50, 65, 66, 76, 77, 93, 95—97, 99, 104, 111, 113—115, 134, 139, 147, 148, 150.

3. *Salmau o ddiolchgarwch;* am drugareddau i unigolion, 9, 18, 22, 30, 34, 40, 75, 103, 108, 116, 118, 138, 144; am drugareddau i'r Israeliaid yn gyffredinol, 46, 48, 65, 66, 68, 76, 81, 85, 98, 105, 124, 126, 129, 135, 136, 149.

4. *Salmau duwiolfrydig* (*devotional*); yn mynegu edifeirwch, 6, 25, 32, 38, 51, 102, 130, 143; yn mynegu ymddiried mewn cystuddiau, 3, 16, 27, 31, 54, 56, 57, 61, 62, 71, 86; yn mynegu digalondid mawr, ond nid

* "Gwirionedd Cristionogol," Bickersteth.

heb obaith, 13, 22, 69, 77, 88, 143. Gweddiau yn amser cyfyngder mawr, 4, 5, 11, 28, 41, 55, 59, 64, 70, 109, 120, 140, 141, 143. Gweddiau mewn amddifadiad o addoliad cyhoeddus, 42, 43, 63, 84. Gweddiau lle mae y Salmydd yn ceisio cymhorth oddiar ystyriaeth o uniondeb ei achos, 7, 17, 26, 35. Gweddiau yn amser cystudd ac erlidigaeth, 44, 60, 74, 79, 80, 83, 89, 94, 102, 129, 137. Gweddiau o eiriolaeth, 20, 67, 122, 132, 144.

5. *Salmau nodedig o brophwydol;* 2, 16, 22, 40, 45, 68, 69, 72, 97, 110, 118, gan mwyaf yn perthyn i'r Messiah.

6. *Salmau hanesyddol;* 78, 105, 106.

Y Daflen ganlynol (B), yn dangos yr amgylchiad tebygol ar ba un y cyfansoddwyd pob Salm, sydd yn sylfaenedig ar "Gyssondeb yr Hen Destament gan Townsend."

Salmau.	Ar ol pa Ysgrythyr.	Yr amgylchiad tebygol ar ba un y cafodd pob Salm ei chyfansoddi.	c. c.
LLYFR I., YN Y DOSPARTHIAD IUDDEWIG.			
1.. ..	Nehem. 13, 3 ..	Ysgrifenedig gan Dafydd neu Ezra, ac a roddir fel rhagymadrodd i'r Salmau	444
2* ..	1 Cron. 17, 27 ..	Ar draddodiad yr addewid gan Nathan i Dafydd —prophwydoliaeth am Grist	1044
3.. ..	2 Sam. 15, 29 ..	Ar ffoedigaeth Dafydd rhag Absalom ..	1023
4 (*a*) ..	2 Sam. 17, 29 ..	Yn ystod y ffoedigaeth rhag Absalom ..	
5.. ..	2 Sam. 17, 29 ..	Yn ystod y ffoedigaeth rhag Absalom ...	
6.. ..	1 Cron. 28, 21 ..	A roddwyd i fewn oddeutu terfyn einioes Dafydd	1015
7.. ..	2 Sam. 16, 14 ..	Ar waradwyddiadau Simei	1023
8* (*a*)..	1 Cron. 28, 21 ..	A roddwyd i fewn oddeutu terfyn einioes Dafydd	1015
9.. ..	1 Sam. 17, 4, neu 1 Cron. 16, 43 .	Ar y fuddugoliaeth ar Goliath	1063
10.. ..	Dan. 7, 28.. ...	Yn ystod y caethiwed Babilonaidd	539
11... ..	1 Sam. 19, 3 ..	Pan gynghorwyd Dafydd i ffoi i'r mynyddoedd .	1062
12 (*c*) ..	1 Cron. 28, 1 ..	A roddwyd i fewn oddeutu terfyn einioes Dafydd	1015
13, 14, 15	Dan. 7, 28.. ..	Yn ystod y caethiwed Babilonaidd	539
16* ..	1 Cron. 17, 27, neu 1 Sam. 27 ..	Ar draddodiad yr addewid i Dafydd gan Nathan	1044[a]
17.. ..	1 Sam. 22, 19 ..	Ar lofruddiad yr offeiriaid gan Doeg	1060
18* ..	2 Sam. 22, 51 ..	Ar derfyniad rhyfeloedd Dafydd..	1019
19 (*a*) ..	1 Cron. 28, 1 ..	A roddwyd i fewn oddeutu terfyn einioes Dafydd	1015
20, 21 ..	2 Sam. 10, 19 ..	Ar y rhyfel â'r Ammoniaid a'r Syriaid.. ..	1036
22* ..	1 Cron. 17, 27 ..	Ar draddodiad yr addewid gan Nathan; neu mewn erlidigaeth drom	1044
23 (*d*) 24*	1 Cron. 28, 21, neu 1 Cron. 16, 43 .	A roddwyd i fewn oddeutu diwedd einioes Dafydd	1015
25, 26, 27	Dan. 7, 28.. ..	Yn ystod y caethiwed Babilonaidd	539
28, 29	1 Cron. 28, 21 ..	A roddwyd i fewn oddeutu diwedd einioes Dafydd	1015
30.. ..	1 Cron. 21, 30 ..	Ar gyflwyniad llawr dyrnu Ornan	1017
31* ..	1 Sam. 23, 12 ..	Ar erlidiad Dafydd gan Saul	1060
32, 33	2 Sam. 12, 15 ..	Ar faddeuad godineb Dafydd	1034
34.. ..	1 Sam. 21, 15 ..	Ar ymadawiad Dafydd â dinas Gath	1060
35.. ..	1 Sam. 22, 19 ..	Ar erlidigaeth Dafydd gan Doeg	1060
36, 37	Dan. 7, 28.. ..	Yn ystod y caethiwed Babilonaidd	539

Nodiad.—Y Salmau a nodir (*a*), a ystyrir gan Calmet fel o ddyddiad ac awduriaeth ammheüus. Yr ail ran o Ysgrythyr a ddynodir ar ol pump Salm, a ystyrir ganddo ef yn lle priodol y Salm. Meddylia ef i'r Salmau a nodir (*c*) a (*d*) gael eu cyfansoddi, y naill *yn* y caethiwed, a'r lleill *ar* y dychweliad o hono. Mewn Salmau ereill, cyduna yn sylweddol â Townsend.

[a] A gymhwysir at ein Harglwydd gan Pedr, Act. 2, 25—31; a chan Paul, Act. 13, 25, 36.

Salmau.	Ar ol pa Ysgrythyr.	Yr achlysur tebygol ar ba un y cafodd pob Salm ei chyfansoddi.	c. c.
38, 39 } 40,* 41 }	1 Cron. 28, 21 ..	A roddwyd i fewn oddeutu diwedd einioes Dafydd	1015
42 (*e*) ..	2 Sam. 17, 29 ..	Ar ffoedigaeth Dafydd rhag Absalom	1023
LLYFR II.			
43 (*c*) ..	2 Sam. 17, 29 ..	Ar ffoedigaeth Dafydd rhag Absalom	1023
44* ..	2 Bren. 19, 7 ..	Ar genadwri gableddus Rabsaceh	710
45* ..	1 Cron. 17, 27..	Ar draddodiad yr addewid gan Nathan.. ..	1044[a]
46.. ..	2 Cron. 20, 26..	Ar fuddugoliaeth Jehosaphat	896
47.. ...	2 Cron. 7, 10 ..	Ar symudiad yr arch i'r Deml	1004
48.. ..	Ezra 6, 22 ..	Ar gyssegriad yr ail Deml	515
49, 50 ..	Dan. 7, 28 ..	Yn ystod y caethiwed Babilonaidd	539
51.. ..	2 Sam. 12, 15 ..	Cyffes Dafydd ar ol ei odineb	1034[b]
52.. ..	1 Sam. 22, 19 ..	Ar erlidigaeth Dafydd gan Doeg	1060
53.. ..	Dan. 7, 28 ..	Yn ystod y caethiwed Babilonaidd	539
54.. ..	1 Sam. 23, 23 ..	Ar fradychiad y Ziphiaid o Dafydd	1060
55.. ..	2 Sam. 17, 29 ..	Yn ystod y ffoedigaeth rhag Absalom	1023
56.. ..	1 Sam. 21, 15 ..	Pan oedd Dafydd gyda'r Philistiaid yn Gath ..	1060
57.. ..	1 Sam. 24, 22 ..	Ar waith Dafydd yn gwrthodlladd Saul yn yr ogof	1058
58.. ..	1 Sam. 24, 22 ..	Parhad o Salm 57	1058
59.. ..	1 Sam. 19, 17 ..	Ar amgylchyniad dinas Dafydd gan Saul ..	1061
60 (*c*) ..	1 Bren. 11, 20 ..	Ar orchfygiad Edom gan Joab	1040
61 (*d*) ..	1 Cron. 28, 21..	A roddwyd i fewn oddeutu diwedd einioes Dafydd	1015
62.. ..	2 Sam. 17, 29 ..	Yn erlidigaeth Dafydd gan Absalom	1023
63 (*d*) ..	1 Sam. 24, 22 ..	Gweddi Dafydd yn anialwch Engedi	1058
64 (*c*) ..	1 Sam. 22, 19 ..	Ar erlidigaeth Dafydd gan Saul..	1060
65.. ..	1 Cron. 28, 21 ..	A roddwyd i fewn oddeutu diwedd einioes Dafydd	1015
66.. ..	Ezra 3, 13.. ..	Ar osodiad sylfaen yr ail deml	535
67.. ..	Dan. 7, 28 ..	Yn ystod y caethiwed Babilonaidd	539
68* ..	2 Sam. 6, 11 ..	Ar symudiad cyntaf yr arch	1045
69 (*c*) ..	1 Cron. 28, 21..	A roddwyd i fewn oddeutu diwedd einioes Dafydd	1015
70, 71 ..	2 Sam. 17, 29 ..	Ar wrthryfel Absalom	1023
72.. ..	1 Cron. 29, 19..	Ar wneuthuriad Solomon yn frenin gan ei dad	1015
LLYFR III.			
73 (*c*) ..	2 Bren. 19, 19 ..	Ar ddinystr Senacherib	710
74.. ..	Jer. 39, 10 ..	Ar ddinystr y ddinas a'r deml	588
75 (*c*) 76	2 Bren. 19, 35 ..	Ar ddinystr Senacherib	710
77* ..	Dan. 7, 28 ..	Yn ystod y caethiwed Babilonaidd	539
78.. ..	1 Cron. 28, 21, neu 2 Cron. 19, 56.	A roddwyd i fewn oddeutu diwedd einioes Dafydd	1015
79.. ..	Jer. 39, 10.. ..	Ar ddinystriad y ddinas a'r deml	588
80.. ..	Dan. 7, 28 ..	Yn ystod y caethiwed Babilonaidd	539
81* (*a*)..	Ezra 6, 22 ..	Ar gyflwyniad yr ail deml	515
82.. ..	2 Cron. 19, 7 ..	Ar appwyntiad Barnwyr gan Jehosophat ..	897
83.. ..	Jer. 39, 10, neu 2 Cron. 20 ..	Ar yr annghyfanedd-dra a achoswyd gan yr Assyriaid	588
84 (*d*) ..	Ezra 3, 13 ..	Ar sylfaeniad yr ail deml..	535
85 (*c*) ..	Ezra 1, 4	Ar orchymyn Cyrus	536
86.. ..	1 Cron. 28, 21 ..	A roddwyd i fewn oddeutu diwedd einioes Dafydd	1015
87.. ..	Ezra 3, 7	Ar y dychweliad o'r caethiwed Babilonaidd ..	536
88 (*c*) ..	Exod. 2, 25 ..	Yn ystod y drygfyd yn yr Aifft	1531
89.. ..	Dan. 7, 28 ..	Yn ystod y caethiwed Babilonaidd	539
LLYFR IV.			
90* (*c*)..	Num. 14, 45 ..	Ar fyrhad einioes dyn, &c.	1489
91 (*a*) ..	1 Cron. 28, 10...	Ar ol cynghor Dafydd i Solomon	1015

[a] A eglurir ac a gymhwysir at ein Harglwydd, Heb. 1, 8, 9; 1 Pedr 3, 22; Eph. 1, 22; Phil. 2, 9—11.

[b] I Asaph, gan Eichhorn, De Wette, a Rosenmüller.

Salmau.	Ar ol pa Ysgrythyr.	Yr achlysur tebygol ar ba un y cafodd pob Salm ei chyfansoddi.	c. c.
92, 93*	Dan. 7, 28.. ..	Yn ystod y caethiwed Babilonaidd	539
94.. ..	Jer. 39, 10 ..	Ar ddinystriad y ddinas a'r deml	588
95* ..	1 Cron. 28, 21 ..	A roddwyd i fewn oddeutu diwedd einioes Dafydd.	1015
96.. ..	1 Cron. 16, 4..	Ar symudiad yr arch i dŷ Obed-Edom	1051
97* (*d*), 98 (*d*), 99 (*e*), 100 (*d*)	2 Cron. 7, 10 ..	Ar symudiad yr arch i'r deml	1004
101 ..	1 Cron. 28, 21 ..	A roddwyd i fewn oddeutu diwedd einioes Dafydd.	1015
102* ..	Dan. 9, 27.. ..	Ar derfyniad agos y caethiwed	538
103 ..	2 Sam. 12, 15 ..	Ar faddeuad godineb Dafydd	1034
104* (*d*)	1 Cron. 28, 21 ..	A roddwyd i fewn oddeutu diwedd einioes Dafydd.	1015
105 (*d*), 106 (*d*)	1 Cron. 16, 43 ..	Ar symudiad yr arch o dŷ Obed-Edom	1051
LLYFR V.			
107 ..	Ezra 3, 7	Ar y dychweliad o'r caethiwed	536
108 (*d*)	1 Bren. 11, 20 ..	Ar orchfygiad Edom gan Joab	1040
109 ..	1 Sam. 22, 19 ..	Ar erlidigaeth Dafydd gan Joab	1060
110* ..	1 Cron. 17, 27 ..	Ar yr addewid drwy Nathan i Ddafydd	1044[a]
111, 112*, 113, 114	Ezra 3, 7 ..	Ar y dychweliad o'r caethiwed	536
115 (*d*)	2 Cron. 17, 26 ..	Ar fuddugoliaeth Jehosaphat	896
116, 117	Ezra 3, 7	Ar y dychweliad o'r caethiwed	536
118* (*d*)	1 Cron. 17, 27 ..	Ar yr addewid drwy Nathan i Ddafydd	1044[b]
119 ..	Neh. 13, 3.. ..	Llaw-lyfr (*manual*) addoliadol, gan Ezra	444[c]
120 (*e*), 121 (*e*), 122 ..	1 Cron. 28, 21 ..	A roddwyd i fewn oddeutu diwedd einioes Dafydd.	1015
123 ..	Dan. 7, 28.. ..	Yn ystod y caethiwed Babilonaidd	539
124 (*d*)..	1 Cron. 28, 21 ..	A roddwyd i fewn oddeutu diwedd einioes Dafydd.	1015
125 ..	Ezra 3, 7	Ar y dychweliad o'r caethiwed	536
126 ..	Ezra 1, 4	Ar orchymyn Cyrus	536
127, 128	Ezra 3, 7	Ar y dychweliad o'r caethiwed	536
129 ..	Ezra 4, 24.. ..	Ar wrthwynebiad y Samariaid	535
130 ..	Dan. 7, 28.. ..	Yn ystod y caethiwed Babilonaidd	539
131 (*c*)..	1 Cron. 28, 21 ..	A roddwyd i fewn oddeutu diwedd einioes Dafydd.	1015
132 (*e*)..	1 Cron. 15, 14 ..	Ar ail-symudiad yr arch	1051
133 (*d*)..	1 Cron. 28, 21 ..	A roddwyd i fewn oddeutu diwedd einioes Dafydd.	1015
134 ..	Ezra 3, 7	Ar y dychweliad o'r caethiwed	536
135 (*d*), 136 (*d*)	2 Cron. 7, 10 ..	Ar symudiad yr arch i'r deml	1004
137 ..	Dan 7, 28	Yn ystod y caethiwed Babilonaidd	539
138 ..	Ezra 6, 13.. ..	Ar adadeiladaeth y deml	519
139 (*a*)..	1 Cron. 13, 4 ..	Gweddi Dafydd pan wnaed ef yn frenin ar Israel	1048
140 ..	1 Sam. 22, 19 ..	Ar erlidigaeth Dafydd gan Doeg..	1060
141 ..	1 Sam. 27, 1 ..	Gweddi Dafydd pan y gŷrwyd ef o Judea	1055
142 ..	1 Sam. 22, 1 ..	Gweddi Dafydd yn ogof Adulam...	1060
143 ..	2 Sam. 17, 29 ..	Yn ystod y rhyfel âg Absalom	1053
144 ..	2 Sam. 17, 29 ..	Ar y fuddugoliaeth ar Absalom	1053
145 ..	1 Cron. 28, 10 ..	Dafydd, pan yn hen, yn adolygu ei fywyd blaenorol	1015
146 i 150	Ezra, 6, 22 ..	Ar gyssegriad yr ail deml	515

[a] A ddyfynir gan ein Harglwydd i brofi ei ddwyfoliaeth, Math. 22, 14; gan Pedr, Act. 2, 32—36; gan Paul, 1 Cor. 15, 25—28; Heb. 7, 1—28; 8, 1.

[b] A ddyfynir gan ein Harglwydd, Math. 22, 42; a eglurir gan Pedr, Act. 4, 11; 1 Pedr 2, 4, 5; Paul, Rhuf. 9, 32; Ephes. 2, 20, 21.

[c] Calmet, a'r rhan fwyaf o esbonwyr, a gymhwysant y Salm hon at y caethiwed.

A mabwysiadu y drefn yma, gellir gwneyd y dosparthiad amseryddol canlynol (C) o'r Salmau:—

c. c. 1531. Sal. 88, *Heman* yn yr Aifft.
c. c. 1489. Sal. 90, *Moses* yn yr anialwch.
c. c. 1063—1015. *Hanes a Phrofiad Dafydd*, 9, 11, 59, 34, 56, 142, 17, 35, 52, 31, 64, 109, 140, 54, 57, 58, 63, 96, 105, 106, 132, 141, 139, 68, 2, 16, 22, 45, 118, 60, 108, 20, 21, 32, 33, 51, 103, 3, 7, 4, 5, 42, 43, 55, 70, 72, 143, 144. . . . . 18, 62, 30, 91, 6, 8, 12, 19, 23, 24, 28, 29, 38, 39, 40, 41, 61, 65, 69, 78, 86, 95, 101, 104, 120, 121, 122, 124, 131, 133, 72, 145.
c. c. 1004. *Ar symudiad yr arch i'r deml*, 47, 97, 98, 99, 100, 135, 136.
c. c. 897—710. O *Jehosaphat i Hezeciah*, 82, 46, 115, 44, 73, 75, 76.
c. c. 588. Ar y *Goresgyniad gan yr Assyriaid*, 74, 79, 83, 94.
c. c. 539. Yn *y Caethiwed*, 10, 13, 14, 15, 25, 26, 27, 36, 37, 49, 50, 53, 67, 77, 80, 88, 89, 92, 93, 123, 130, 137.
c. c. 538—6. Ar *ddiwedd* y *Caethiwed*, ac ar y *dychweliad*, 102, 85, 126, 87, 107, 111—114, 116, 117, 125, 127, 128, 134.
c. c. 535. Ar *adadeiladaeth* a chyssegriad y deml, 66, 84, 129, 138, 48, 81, 146, 147—150.
c. c. 444. Y mae *Ezra yn cwblhau* y canon, ac yn ychwanegu y 1, a'r 119.

Cofier mai dychymmygol yw dyddiad ac achlysuron llawer o'r Salmau yma. Y mae barn Townsend am achlysur y rhai canlynol yn seiliedig ar brofion mewnol yn unig, 7, 47, 48, 81, 82, 84, 91, 97—100, 119, 139, 145. Am y lleill, y mae yn canlyn Lightfoot, Calmet, Horne, Gray, neu Hales. Y mae ymchwiliad wedi ychwanegu at ein gwybodaeth o'r ffeithiau ar ba rai y seilir y dyddiadau, ac wedi taflu amheuaeth ar gywirdeb trefniad Townsend o Sal. 25—27, ac amryw ereill. Gwel Sylwadau Arnod. Beibl Gwahn., Cymdeithas y Traethodau Crefyddol, Cyf. I., 563—662.

57. Perthyna teitlau i'r holl Salmau (oddigerth 34), y rhai ydynt cyn hyned, o leiaf, a chyfieithiad y Deg-a-Thriugain, ond nid ydynt o awdurdod ysbrydoledig. Gellir eu hystyried fel yn hanesyddol gywir, oddieithr pan fyddo profion mewnol yn eu herbyn.

Y teitlau yma a roddant naill ai enw yr awdwr (1), neu gyfarwyddiadau i'r alawydd (*musician*) (2), neu yr achlysur hanesyddol (3), neu y defnydd yn y ffurf-wasanaeth (*liturgy*) (4), neu ddullwedd y farddoniaeth (5), neu yr offeryn (6), neu y dôn (7) ar ba un y mae y Salm i'w chanu. Weithiau y pethau hyn oll a gyssylltir, Sal. 60.

1. Moses, Sal. 90. Sal. 73, gan Ddafydd, at yr hon y mae y Deg-a-Thriugain yn ychwanegu deuddeg o Salmau ereill. Enwir hefyd Solomon, Asaph, Heman, Ethan, a meibion Corah.

2. Y mae y geiriau "I'r Pencerdd" wedi eu gosod o flaen Sal. 53. Meddylia rhai fod y gerddoriaeth yn eiddo iddo ef. Gesenius ac Ewald a ystyriant "i" fel yn golygu "gan," a phriodolant "y pencerdd" i Dafydd.

3. Sal. 3, 7, 18, 34, 51, 52, 54, &c.

4. Sal. 17, 86, 90, 102, 145, &c.

5. Sal. 46, 65, 48, 16. Am 6 a 7, gwel isod.

Yr ymadroddion a geir ar ddechreuad y Salmau ydynt y rhai canlynol. Nid yw yn hawdd penderfynu eu hystyr, ac y mae amrywiaeth mawr iawn

hyd y nod mewn hen gyfieithiadau. Y cyfieithiad awdurdodedig a adawa y rhan amlaf o honynt heb eu cyfieithu, a gadewir hwynt allan gan Coverdale yn gyffrediu. Dewisodd Luther eu cyfieithu mor gywir ag y medrai. Gosodwn yn gyntaf yr ystyr fwyaf tebygol.

Y mae y gair a gyfieithir "ar" yn briodol pa un bynag ai at destun y Salm, neu at yr offeryn, neu y cywair (*cleff*), neu at y dôn ar ba un y cenid hi, y cyfeiria.

Aieleth Hasahar, hyny yw, math o foreu (haul neu wawr) = i'w chanu ar dôn yn dechreu gyda'r geiriau hyn (beirniaid Iuddewig), neu ar y Messiah, neu Dafydd, yr hwn, fel y tybir, a elwid felly (Luther, Hengstenberg, Tholuck), Sal. 22.

Alamoth, hyny yw, gwycyfon ac felly = "i leisiau uchalawol" (*treble voices*) (Gesenius, Hengstenberg, Tholuck), Sal. 46.

Al-taschith, hyny yw, na ddinystria = i'w chanu ar dôn yr awdl a ddechreua â'r geiriau yma, Sal. 57—59, 75.

Gittith = offeryn neu dôn berthynol i Gath, neu beroriaeth y winllan (*vintage melody*), Sal. 8, 81, 84.

Graddau, hyny yw, o'r grisiau, neu yr esgyniad = cân bereriniol i'r rhai oeddynt yn myned i fyny i Jerusalem, yn enwedig o'r caethiwed, gwel Sal. 122—4 (Lowth, Ewald, &c.), neu = caniad yn esgyn o benran i benran (*from clause to clause*), fel yn Sal. 121 (De Wette, Gesenius), neu = caniad a ddadgenid wrth esgyn grisiau cyntedd mewnol y deml (beirniaid Iuddewig), neu = caniad a ddadgenid gan y côr *uchaf* (Luther, Tholuck), Sal. 120—134.

Higgaion = cerddoriaeth offerynol, Sal. 9, 16, neu = fyfyrdod (Hengstenberg, Tholuck).

Jeduthun, Sal. 39, 62, 77, gwel 1 Cron. 25, 1, 3.

Jonath-elem-Rechocim, hyny yw, y golomen fud yn mysg dyeithriaid = y dôn a elwid felly, neu = destun y Salm, Dafydd yn Gath, Sal. 56.

Leannoth = i'w dadganu, Sal. 88.

Mahalath = dwsmel (*lute*), neu dôn a elwid felly, neu = dawns-dôn, Sal. 53, 88.

Maschil = Pryddest addysgiadol (Hengstenberg, Tholuck), neu = pryddest gywrain (Gesenius, De Wette), Sal. 13.

Michtam = Salm euraidd neu ragorol, neu = dirgelwch, hyny yw, Salm â meddwl cuddiedig iddi (Hengstenberg), neu ar grefydd guddiedig, hyny yw, profiadol, neu = pryddest *ysgrifenedig* (michtav), Gesenius, Rosenm., Tholuck, gwel Esay 38, 9: Salm 16, 56—60.

Muth-labban = ar farwolaeth ei fab, neu Goliath (Chald.), neu = ar offeryn, neu ar gân a elwid felly, neu gydag ychydig amrywiaeth yn y llafariaid = gyda llais gwyryf i fechgyn, hyny yw, uchalawon gwrrywaidd (*male-trebles*); neu i Benaiah, 1 Cron. 15, 18, 20: Sal, 9.

Neginoth = offer tàñau, Sal. 4, 6, 54, 56, 60, 61, 76.

Nehiloth= offer gwynt (*wind instruments*), neu = y rhanau (hyny yw, o'r da a'r drwg), Sal. 5.

Selah, = gorphwysiad, hyny yw, mewn cerddoriaeth *leisiol*, neu = derchafu (y llais), hyny yw, *forte*, neu = derchafu (Jehofah), (Kimchi, Ewald, De Wette), deg a thriugain o weithiau yn Sal. 3, yn Habb., neu = Da Capo.

Seminith, hyny yw, wythfed = isalaw (1 Cron. 15, 20, 21), neu = offeryn âg wyth o dànau, Sal 6, 12.

Sigaion = cân grwydrol, neu gynhyrfiol = neu alarnad (Gesenius, Rosenm., De Wette, Tholuck), Sal. 7.

Susan, hyny yw, lili = cân hynod o brydferth, neu offeryn a elwid felly, Sal. 60, 45, 69, 80; gydag *eduth* wedi ei ychwanegu, hyny yw, lili o dystiolaeth, enw tôn neu offeryn (Gesenius, Tholuck), neu = destun ardderchog o ragoriaeth addefadwy (Hengstenberg), Sal. 60, 80.

58. Wrth fyfyrio y Salmau, y mae dwy reol ddehonglyddol o'r pwys mwyaf:—

i. Penderfynu awdwr, dechreuad hanesyddol, ac amcan eglur y Salm. Taflenau B a C a ddangosant y ddau flaenaf, a'r daflen A yr olaf.

ii. Manwl ystyried meddwl yr hanesydd, ei hymadroddion, a'i chyfeiriadau; a chwilio oddiwrth ddyfyniadau yn y Testament Newydd,[4] neu oddiwrth rediad cyffredinol yr efengyl, pa fodd y mae i'w chymhwyso, naill ai at Grist neu at yr eglwys Gristionogol. Er, fe allai, fod pob Salm yn dàl cyssylltiad yn ei dechreuad a'i chyfeiriadau â goruchwyliaeth oedd "i ddiflanu," nid yw y cyssylltiad yn llai agos rhyngddynt oll mewn syniad a chymhwysder at yr oruchwyliaeth "sydd yn aros," ac wrth ei ddoeth fyfyrio, gellir gwneyd yr holl lyfr yn eiddo i ni ein hunain, a gall ddyfod i ni yn fynegiad o'r teimladau puraf yn y ffurf santeiddiaf.

Caniad Solomon, c. c. 1001.

59. Llais cyffredinol henafiaeth a briodola y bryddest hon i Solomon, a chadarnhëir y dystiolaeth yma gan brofion mewnol. Ei ganiadau oeddynt fil a phump, 1 Bren. 4, 32; a gelwir hon, mewn ieithwedd Hebreig, yn gân y caniadau; hyny yw, yr oreu o honynt oll.

Y mae y llyfr hwn bob amser wedi cael ei resu yn mhlith ysgrifeniadau canonaidd yr Hen Destament. Ni ddyfynir ef, mae yn wir, yn y Testament Newydd; ond yr oedd yn ffurfio rhan o'r Ysgrythyrau Iuddewig (Jos. Hyn. viii. 2—5, ac, yn erbyn Ap. 1, 8), cyfieithwyd ef gan awdwyr y Deg-a-Thriugain, cynnwysir ef yn yr holl hen restrebau (*catalogues*), a dygir tystiolaeth benodol iddo gan Melito (2il ganrif), Origen (mar. 253), Jerome (5fed ganrif), y Talmud Iddewig, a Theodoret o Cyprus (o. c., 450).

Ni wyddis yn sicr ar ba achlysur y cafodd ei hysgrifenu. Ymddengys fod yr arddulliad (*imagery*) wedi ei gymmeryd oddiwrth briodas Solomon, naill ai â merch Pharaoh (1 Bren. 3, 1: 7, 8: 9, 24, wedi eu cymharu â Can. 1, 9; 6, 12), neu â rhyw un o Balestina, a briododd rai blynyddoedd yn ddiweddarach (pen. 2, 1), o enedigaeth bendifigaidd (7, 1), ond islaw i'w gŵr (1, 6).

Beth bynag oedd achlysur y bryddest, wrth ei darllen cawn ddau gymmeriad yn llefaru ac yn gweithredu drwyddi; gelwir un Selomoh (yr heddychlawn), a'r llall wrth yr un enw gyda therfyniad benywaidd, Sulamith, megys Julius a Julia, 1, 6: 3, 11: 6, 13: 8, 12. Y mae hefyd gôr o wyryfon, merched Jerusalem, 2, 7: 3, 5: 5, 8, 9. Tua'r diwedd, y mae dau frawd i Sulamith yn ymddangos, 8, 8, 9, gwel 1, 6. Megys yn yr holl hen bryddestau, nid oes ynddi doriadau (*breaks*) i ddynodi cyfnewidiad yn yr olygfa, neu yn y llefarwyr. I gael allan y cyfnewidiadau yma, arweinir ni mewn rhan gan yr ystyr, ond yn benaf gan y

[4] Gwel pen. vi.

defnyddiad yn y gwreiddiol o ragenwau benywaidd a gwrrywaidd, o'r ail a'r trydydd person. Y mae esgeulusiad o'r gwahaniaeth yma wedi tywyllu llawer ar y cyfieithiad Saesoneg a Chymraeg.

i. Llefara Sulamith, 1, 2—6: wedi hyny, mewn cydymddyddan â Selomoh; Sul. 1, 7: Sel, 1, 8—11; Sul. 1, 12—14: Sel. 1, 15: Sul. 1, 16: 2, 1: Sel. 2, 2: Sul. 2, 3.

ii. Yn awr y mae Sulamith yn gorphwyso, yn cysgu, ac yn breuddwydio (Selomoh yn anerch merched Jerusalem, ac yn eu tyngedu i beidio ei deffroi, 2, 7: 3, 5): 2, 4—6, 8—3, 4.

iii. Merched Jerusalem yn gweled gosgordd priodasol yn dynesu, 3, 6—11.

iv. Cydymddyddan rhwng Selomoh a Sulamith. Llefara Selomoh, 4, 12—16 (cybelled a "gwasgaru ei pheraroglau"), Sul. 4, 16: Sel. 5, 1.

v. Golygfa nosawl; Sulamith yn chwilio am Selomoh; yn cyfarfod ac yn ymddyddan â merched Jerusalem; Sul. 5, 2—8: merched Jerusalem, 5, 9: Sul. 5, 10—16: merched Jerusalem, 6, 1: Sul. 6, 2, 3.

vi. Golygfa foreuol; Selomoh yn ymweled yn foreu â'i ardd, ac yn cyfarfod Sulamith; Sel. 6, 4—10; Sul. 6, 11, 12: y cydymddyddan yn parhau i 8, 8.

vii. Cyflwynir brodyr Sulamith; llefara y brodyr, 8, 8, 9: Sul. yn eu hateb, 8, 10—12: Sel. yn llefaru 8, 13: a Sul. yn ateb, golygfa ddiweddol, 8, 14.

Ac edrych arni yn llythyrenol, y mae yr holl bryddest yma yn ddesgrifiadol o gariad priodasol; un o'r uchelaf o'n serchiadau, ac y mae ein Harglwydd wedi ei ddefnyddio fel math o gysgod o'i eiddo ef ei hunan. Yn yr olwg yma, rhydd y llyfr arddangosiad prydferth o'r syniadau a'r arferion a ffynent yn mhlith yr Israeliaid, mewn bywyd priodasol a theuluol. Ond diau fod gan y byddest amcan uwch. Y mae enwau y ddau brif gymmeriad mor gyflawn o ystyr ag un a geir yn "Aralleg Bunyan." Y cyfnewidiad disymmwth o'r rhagenw unigol i'r un lluosog (1, 4, &c.) a ddynoda fod yn rhaid i Sulamith gael ei chymmeryd yn gynnulliadol (*collectively*). Heblaw hyny, y mae Sulamith a Selomoh i'w canfod mewn agweddau a ymddangosant, wrth edrych arnynt yn llythyrenol, yn dra annhebygol, 5, 7: 2, 14—16: 4, 8. Ac o'r amseroedd boreuaf, y mae Iuddewon a Christionogion wedi cymhwyso y cyfan at hanes pobl ddewisedig Duw, ynghyd â'u perthynas iddo ef. Cadarnhëir y golygiadau yma gan y ffaith fod yr undeb rhwng Crist a'i eglwys, neu rhwng Duw a'i bobl gynt, yn cael ei arddangos drwy yr holl Feibl dan yr un berthynas anwylaidd ag sydd yma yn cael ei dadlenu; gwel yn enwedig Sal. 45: Esay 54, 5, 6: 62, 5: Jer. 2, 2: 3, 1: Ezec. 16, 10, 13: Hos. 2, 14—23; Math. 9, 15: 22, 2: 25, 1—11: Ioan 3, 29: 2 Cor. 11, 2: Eph. 5, 23—27: Dad. 19, 7—9: 21, 2—9: 22, 17.

Y mae llawer o iaith y bryddest hon wedi cael ei chamddeall gan esbonwyr boreuol. Camsynia rhai drwy gymmeryd trefn ddychymmygol o esbonio, ac amcanu rhoddi ystyr gyfriniol (*mystical*) i bob amgylchiad bychan yn yr aralleg. Yn mhob darluniadau ffigurol, ceir bob amser lawer o bethau nad ydynt yn ddim ond dullwedd (*costume*). Y gwirionedd cyffredinol yn unig sydd i'w chwilio a'i egluro. Ereill, o diffyg deall ysbryd a gorlawnder barddoniaeth ddwyreiniol, ydynt wedi ystyried rhanau arbenig yn ddiffygiol mewn dillynder (*delicacy*), dychymmyg a gadarnhëir yn ddiachos gan y cyfieithiad awdurdodedig yn Saesoneg a

Chymraeg, ac felly gwrthwynebant y cyfan; er nas gellir cymhwyso yr wrthddadl gyda mwy o rym at y llyfr hwn nag at Hesiod a Homer, neu hyd y nod rhai o'r puraf o'n awduron ni ein hunain. Pan gofier mai y ffigur a ddefnyddir yn yr aralleg hon yw un o'r rhai mynychaf yn yr Ysgrythyr, ei fod yn cael ei ddefnyddio yn barhaus mewn pryddestau dwyreiniol sydd yn awr ar gael, i osod allan deimlad crefyddol,[a] fod llawer o ymadroddion a gymhwysir yn ein cyfieithiad ni at y person yn perthyn yn briodol i'r wisg,[b] fod gan bob cenedl ei golygiadau ei hunan am ddillynder (*delicacy*) (ac nid y dillynaf yn yr ystyr yma mewn un modd yw y mwyaf rhinweddol), nad oes dim yn cael ei ddesgrifio ond serch pur, fod Sulamith yn llefaru, ac yn cael llefaru am dani mewn modd cynnulliadol (*collectively*), ac mai y gwirionedd cyffredinol yn unig sydd i'w arallegu, canfyddir nad ydyw y cyfan yn ddarluniad anaddas o'r undeb sydd yn mhob oes rhwng Crist a gwir gredinwyr.

Y rhan hon o'r Ysgrythyr, drwy ei deall yn briodol, a weinydda i'n santeiddrwydd. Gellir ychwanegu, fodd bynag, ei bod yn arferiad gan yr Iuddewon i attal y llyfr oddiwrth eu plant, hyd oni fuasai eu barn wedi addfedu.

Llyfr y Diarebion (*oddeutu* c. c. 1000).

60. Cynnwysa llyfr *Diarebion Solomon* fwy nag a awgrymir gan yr enw. Diareb yw brawddeg fèr, yn cynnwys rhyw wirionedd moesol mewn modd cryno ac argraffiadol, ac weithiau cymhwysir yr enw at osodiadau dammegol (*enigmatical propositions*) o'r un duedd foesol neu ymarferol. Yn y llyfr hwn, fodd bynag, cawn yn ychwanegol at hyn lawer o annogaethau i bwyll a rhinwedd, yn nghyd â chanmoliaethau i wir ddoethineb. Y rhai olaf yw pwnc y naw pennod flaenaf. Heblaw hyny, y ddwy bennod olaf ydynt waith rhyw awdwr arall. Y rhai sydd eiddo Solomon ydynt ran, mae yn debygol, o'r 3,000 diarebion y dywedir iddo eu llefaru, 1 Bren. 4, 32, a ffurfient, heblaw y Caniadau a'r Pregethwr, yr unig weithiau o'i eiddo nad oedd amheuaeth am eu hysbrydolrwydd. Ceisiodd ddoethineb yn hytrach nag un rodd arall, ac anrhydeddodd Duw ei ddymuniad, drwy ganiatâu iddo fesur helaethach o honi nag a feddiannai neb o'i gydoeswyr. Cyflwyno cyfran o'r hyn oedd ef wedi ei dderbyn er lles parhaus ereill oedd amcan y casgliad yma. Y diarebion, o ddechreu y 25ain bennod hyd ddiwedd y 29ain, a gasglwyd gan bobl Hezeciah, yn mhlith y rhai yr oedd Hosea ac Esay.

Y mae addysg ddiarebol yn gyffredin yn hanes foreuol y rhan fwyaf o genedloedd, ac yn enwedig yn y dwyrain. Y dull hwn o gyflwyno addysg a ddena sylw, a gynhyrfa gywreinrwydd, sydd yn ffafriol i arferion myfyrgar, ac yn gwasgu gwirionedd ar y cof mewn modd sydd ar unwaith yn hyfryd ac argraffiadol. Cynnyddir prydferthwch a grym diarebion Solomon gan y gyfochraeth farddonol yn mha un y maent wedi eu hysgrifenu. Y mae pob brawddeg braidd yn wrthosodol (*antithetical*) neu yn eglurhäol, ac yn fynych sefydlir y darlleniad, a phenderfynir yr ystyr, drwy dalu sylw i ranau cyferbyniol. Prif amcan yr ysgrifenydd, fel y mynegir ar y dech-

[a] Gwel siamplau yn Narlithoedd Lowth ar Farddoniaeth Hebreig, 30, 31; Clarke, neu Rosenmuller, ar Ganiad Solomon. Stuart ar y Canon; Gweithiau Syr W. Jones, ii., 469; Ymchwiliadau Asiaidd, iii., 35[illegible]; ac yn Narlleniadau Beiblaidd Kitto.

[b] Pen. 5, 10, 14; 7, 2.

reu yw, "rhoi callineb i'r annghall, ac i'r bachgen wybodaeth a synwyr." Y mae y llyfr yma i foesoniaeth ymarferol yr un peth ag yw llyfr y Salmau i addoliad. Y mae ynddo wersi i bob oes a chyflwr. Gall pawb dynu oddiwrtho y cynghorion rhagoraf; a'r dyn, yr hwn a feddianna egwyddorion gwir dduwioldeb, a ffurfia ei fywyd yn ol rheolau y llyfr yma, nis gall lai nâ chyrhaedd anrhydedd a dedwyddwch. Nid yw yr awduron callaf wedi gwneuthur fawr mwy nag ymhelaethu ar gyfarwyddiadau, ac esbonio doethineb Solomon.

Er fod y rhan fwyaf o'i reolau yn seiliedig, yn benaf, ar ystyriaethau o bwyll (*prudence*), etto, y mae cymhellion crefyddol manwl naill ai yn cael eu rhagdybied, neu eu gorchymyn yn benodol. "Ofn yr Arglwydd," ganddo ef, "yw dechreuad doethineb," 1, 7; 9, 10. Crefydd yw sylfaen ei foesoldeb. Heblaw hyny, condemnir drygioni a chymhellir rhinwedd drwy appeliadau at y cymhellion santeiddiaf, megys awdurdod Duw, 16, 6; ei wybodaeth berffaith o galonau a ffyrdd dynion, 5, 21: 15, 11; gwobrwyon cyfiawnder, a chospedigaeth drygioni, drwy ei appwyntiad cyfiawn ef, 19, 29: 23, 17—19: 26, 10. Doethineb ymarferol, gan hyny, yn gorphwys ar, ac yn ymgyfodi allan o, gymmeriad crefyddol, yw amcan y gyfran hon o'r llyfr ysbrydoledig.

Myfyriwn ei wersi, bydded i'n hopiniynau am ddynion a phethau gael eu ffurfio yn eu hol, a thrysorwn hwynt yn ein cof fel y penaf o reolau pwyllineb.

Gellir dosparthu y llyfr i bump o ranau:—

i. Yn cynnwys traethiad cyssylltiadol ar werth a chyrhaeddiad gwir ddoethineb, 1—9.

ii. Yn cyrhaedd o 10, 22, 16, yn cynnwys yr hyn a elwir "diarebion," yn yr ystyr gyfyngaf o'r gair, a mynegir hwynt gyda grym a symledd mawr.

iii. Yn cyrhaedd o 22, 17—24, a gynnwysa rybyddion adnewyddol gyda golwg ar fyfyrio doethineb, fel yn rhan 1.

iv. Yn cynnwys diarebion detholedig gan ddynion Hezeciah, hyny yw, gan y rhai hyny a appwyntiodd efe i adferu gwasanaeth yr eglwys Iuddewig. Y rhai yma hefyd ydynt wir ddiarebion, 25—29.

v. Yn cynnwys pen. 30 a 31, a roddant gyfarwyddiadau doethion Agur i'w ddysgyblion Ithiel ac Ucal, yn nghyd â gwersi a roddwyd i Lemuel gan ei fam. Ni wyddis pwy oedd y personau yma. Y diarebion yn pen. 30 ydynt yn benaf yn ddammegol (*enigmatical*), a'r 31ain a rydd ddarlun cyfaddas i'r oes a'r wlad hono o ragoriaeth menywaidd.

Y desgrifiad a roddir o ddoethineb yn pen. 1, 20—23, 8: a 9, a berthyna mewn modd arbenig i ddoethineb Duw, fel y mae yn ddadguddiedig ac yn gorfforedig yn ei Fab ef, ac i'r Mab ei hun, fel y Gair tragywyddol. Cymharer Ioan 1, 1: 14, 10, â phennod 8. Hefyd, ceir rhag-grybwyllion am anfarwoldeb yn pennodau 4, 18: 12, 28: 14, 32: 15, 24. Y mae natur a chanlyniadau pechod yn cael eu hawgrymu, hyd y nod yn y geiriau a ddesgrifiant santeiddrwydd, 1, 20; gwel hefyd 1, 24: 16, 5: 21, 4: 24, 9; ac awgrymir yn eglur mai rhodd Ddwyfol yw santeiddrwydd yn 1, 23.

61. Y mae dwy reol euraidd i egluro a chymhwyso arwireddau (*maxims*) y llyfr yma.

1. Fel pob cyfreithiau cyffredinol, y mae eithriadau achlysurol yn perthyn i rai o honynt. Nid ydynt oll yn annherfynol neu gyffredinol.

Er enghraifft, Diar. 10, 27, "Ofn yr Arglwydd a estyn ddyddiau, ond blynyddoedd y drygionus a fyrhëir." Hyn yw y rheol yn fynych; ond llofruddiwyd Abel, ac estynwyd einioes Cain. Jonathan a Saul—un yn frawd i Dafydd, a'r llall yn wrthgiliwr—a syrthiant yn yr un rhyfel: "yr ŷd yn cael ei dòri i lawr gyda'r chwŷn, er i well amcan." Nid yw dynion mor debyg o'n drygu, os byddwn yn canlyn yr hyn sydd ddaionus, ac etto y mae erlidigaeth am ein daioni yn cael ei rhagdybied, 1 Pedr 3, 13. Y mae Duw, mewn gwirionedd, yn dysgu i ni wers ddeublyg—y bydd yn *sicr* o gospi, ac y cospa efe *ar ol hyn.* Dysgir y cyntaf gan fyrhad blynyddoedd y drygionus, a chospedigaeth bresenol; a dysgir yr ail gan estyniad eu blynyddoedd, a gohiriad cospedigaeth. Oddiwrth hyn y deillia y rheol a'r eithriad. Diar. 16, 7, "Pan fyddo ffyrdd gŵr yn rhyngu bodd i'r Arglwydd, efe a bair i'w elynion fod yn heddychol âg ef." Felly yr oedd gydag Abraham a'r Israeliaid, gyda Solomon a Jehosaphat; ond nid felly yr oedd gyda Dafydd, neu Paul.

2. Canfyddir a theimlir grym a sylweddolrwydd yr arwireddau yma yn eglur wrth eu myfyrio yn ngoleuni siamplau Ysgrythrol. Deddfau cynnwysfawr ydynt a ddeallir oreu pan yn cael eu chwilio mewn achosion neillduol.

Cymmerwyd yr enghreifftiau canlynol allan o Draethawd Nichol ar y llyfr yma; yr hwn sydd gynllun rhagorol o esboniad Beiblaidd.

Diar. 1, 7, "Ofn yr Arglwydd yw dechreuad doethineb, ond ffyliaid a ddiystyrant ddoethineb ac addysg." (Rehoboam, 1 Bren. 12, 13: meibion Eli, 1 Sam. 2, 25; yr athronyddion Athenaidd, Act. 17, 18.)

Diar. 1, 10, "Fy mab, os pechaduriaid a'th ddenant, na chytuna." (Adda, Gen. 3, 6: Balaam, Num. 22: Jehosaphat, 1 Bren. 22, 4: y prophwyd o Judah, 1 Bren. 13, 15—19, 24; sefydlogrwydd Micaiah, 1 Bren. 22, 13, 14.)

Diar. 1, 32, "Llwyddiant y rhai ffol a'u dyfetha." (Yr Israeliaid, Deut. 32, 15—25; Hos. 13, 6; Tyrus, Ezec. 28, 2, 16, 17; Sodom, Ezec. 16, 49.)

Diar. 3, 5, 6, "Gobeithia yn yr Arglwydd â'th holl galon; ac nac ymddiried i'th ddeall dy hun. Yn dy holl ffyrdd, cydnebydd ef, ac efe a hyffordda dy lwybrau." (Asa, 2 Cron. 14, 9—15; Hezeciah, 2 Bren. 19, 14, &c.; gwas Abraham, Gen. 24, 12—27; Nehemiah, 2, 4; Ezra, 8, 21—23; Dafydd, 1 Sam. 30, 6, 8.)

Diar. 4, 14, "Na ddos i lwybr yr annuwiolion." (Lot, Gen. 13, 10—13; Dafydd, 1 Sam. 27, 1.)

Diar. 4, 18, 19, "Ond llwybr y cyfiawn sydd fel y goleuni, yr hwn a lewyrcha fwy-fwy hyd ganol dydd." (Y doethion, Math. 2, 1—13; Nathanael, Ioan 1, 46—51; yr Eunuch, Act. 8, 27—40; Cornelius, Act. 10; Paul, 2 Cor. 3, 18.) "Ffordd y drygionus sydd fel y tywyllwch; ni wyddant wrth ba beth y tramgwyddant." (Ahab, 1 Bren. 18, 17; yr Iuddewon, Ezec. 18, 29; Jer. 5, 19, 25. Hefyd, eu hanwybodaeth, a'r achos o'u trueni presenol, yw eu gwrthodiad o'r Messiah, Deut. 28, 29.)

Diar. 5, 22, "Ei anwiredd ei hun a ddeil yr annuwiol." (Agag, 1 Sam. 15, 33; Adoni-bezec, Barn. 1, 7; Haman, Esther 7, 10; Judas, Math. 27, 3—5.)

Diar. 9, 8, "Cerydda y doeth, ac efe a'th gâr di." (Dafydd a garai Nathan; Pedr a garai ein Harglwydd, Ioan 21, 17; a'r ddau ddysgybl a gymhellasant eu ceryddwr i aros gyda hwynt, Luc 24, 25, 29.)

Diar. 10, 2, "Ni thycia trysorau drygioni." (Tyrus, Ezec. 26, 15;

27; 28; y gŵr goludog, Luc 16, 23). "Ond cyfiawnder a wared rhag angeu." (Noah, Gen. 7, 1; gyda Heb. 11, 7; Dan. 5, 6, cyferbynier Belsassar a Daniel.)

Diar. 10, 7, "Coffadwriaeth y cyfiawn sydd fendigedig." (Eliseus, 2 Bren. 13, 21; Jehoiada, 2 Cron. 24, 15, &c.; Dorcas, Act. 9, 36, &c.; Mair, Marc 14, 9.) "Ond enw y drygionus a bydra." (Absalom, 2 Sam. 18, 17; Jehoiacim, Jer. 22, 18, 19; Jezebel, 2 Bren. 9, 37; Jeroboam, mab Nebat, 2 Bren. 13, 14, 15.)

Diar. 10, 8, "Y galon ddoeth a dderbyn orchymynion." (Dafydd, 2 Sam. 7; mam ein Harglwydd, Ioan 2, 4, 5; y pendefig, Ioan 4, 50.) "Ond y ffol ei wefusau a gwymp." (Amaziah, 2 Bren. 14.)

Diar. 10, 24, "Y peth a ofno y drygionus a ddaw iddo." (Y Canaaneaid, Jos. 5; Belsassar, Dan. 5; Ahab, 1 Bren. 22; Haman, Esther 7, 7—10.) "Ond y peth a ddeisyfo y rhai cyfiawn, Duw a'i rhydd." (Hannah, 1 Sam. 1; Esther, 4, 16; 8, 15—17; Simeon 2, 29, 30; gwel hefyd Sal. 37, 4; Ioan 16, 23, 24.)

Diar. 10, 25, "Fel y mae y corwynt yn myned heibio, felly ni *bydd* y drygionus *mwy*." (Elah, 1 Bren. 16, 9; Zimri, 1 Bren. 16, 18, 19.) "Ond y cyfiawn sydd sylfaen a bery byth." (Abraham, Gen. 17, 1—8; Dafydd, 2 Sam. 7, 16; gwel hefyd Math. 7, 24. 25.)

Diar. 11, 2, "Pan ddel balchder, fe ddaw gwarth." (Miriam, Num. 12, 10; Uzziah, 2 Cron. 26, 16—21; Nebuchodonosor, Dan. 4, 30, &c.) "Ond gyda'r gostyngedig y mae doethineb." (Daniel, Dan. 2, 30; Joseph, Gen. 41, 16.)

Diar. 11, 5, 6, "Cyfiawnder y perffaith a'i hyffordda ef; ond o achos ei ddrygioni y syrth y drygionus. Cyfiawnder y cyfiawn a'u gwared hwynt; ond troseddwyr a ddelir yn eu drygioni." (Haman, Esther 7, 10; 8, 7; cyhuddwyr Daniel, Dan. 6, 24, &c.; marwolaeth Ahitophel, 2 Sam. 17, 23, yn gyferbyniedig âg adferiad Dafydd i'w orsedd.)

Diar. 11, 10, "Yr holl ddinas a ymlawenha o herwydd llwyddiant y cyfiawn." (Mordecai, Esther 8, 16.) "A phan gyfrgoller y drygionus y bydd gorfoledd." (Sisera, Barn. 5; Athaliah, 2 Bren. 11, 13, 20; gwel Dad. 19, 1—3.)

Diar. 11, 21, "Er maint fyddo cymhorth y drygionus, ni bydd dieuog." (Tŵr Babel, Gen. 11, 4, &c.; y breninoedd a ymgynghreiriasant, Jos. 9, 1, 2; Adonisedec, Jos. 10.) "Ond hâd y cyfiawn a waredir." (Mephiboseth, 2 Sam. 21, 7; Solomon, 1 Bren. 11, 12, 34; Abiam, 1 Bren. 15, 4; yr Israeliaid yn fynych, Exod. 3, 15, 17; 2 Bren. 8, 19.)

Diar. 11, 25, "Yr enaid hael a frashëir, a'r neb a ddyfrhäo, a ddyfrhëir yntau hefyd." (Abraham, Gen. 13, 9, 14; y weddw o Sarephtah, 1 Bren. 17, 10, &c.; y Sunamees, 2 Bren. 4.)

Diar. 12, 5, "Cynghorion y drygionus sydd dwyllodrus." (Gesem, Neh. 6, 2; Ismael, Jer. 41, 1—7; cyhuddwyr Daniel wrth Darius, Dan. 6, 8; eiddo Herod i'r doethion, Math. 2; y Phariseaid o berthynas i arian y deyrnged, Math. 2, 15; yr Iuddewon yn cynllwyn am Paul, Act. 23, 15.)

Diar. 12, 11, "Y neb a ganlyno oferwyr, disynwyr yw." (Canlynwyr Abimelech, Barn. 9; ac eiddo Absalom, 2 Sam. 15; ac eiddo Theudas a Judas, Act. 5, 36, 37.)

Diar. 12, 13, "Drwy drosedd ei wefusau y meglir y drygionus; ond y cyfiawn a ddaw allan o gyfyngder." (Adonïah, 1 Bren. 2, 23; cyhuddwyr Daniel, Dan. 6, 24; yr Iuddewon, Math. 27, 25.)

Diar. 12, 15, "Ffordd yr ynfyd sydd uniawn yn ei olwg ei hun."

(Meibion-yn-nghyfraith Lot, Gen. 19, 14; Phariseaid, Ioan 9, 34.) "Ond y neb a wrandawo ar gynghor sydd gall." (Moses, Exod. 18, 19—24; Apollos, Act. 18, 24—26; Pharaoh, Gen. 41, 37—45; Jacob, Gen. 43, 11; Nathanael, Ioan 1, 46, 47.)

Diar. 12, 19, "Gwefus gwirionedd a saif byth." (Caleb a Josua, Num. 13, 14; Nathan wrth Dafydd, 2 Sam. 7, 12—17, gyda Luc 1, 32.) "Ond tafod celwyddog ni saif fynyd awr." (Gehazi, 2 Bren. 5; Ananias, Act. 5.)

Diar. 12, 25, "Gofid yn nghalon gŵr a bair iddo grymu, ond gair da a'i llawenhâ hi." (Nehemiah, Neh. 2, 1, 2; y wraig oedd beehadures, Luc 7, 38, 50; Mair, Magdalen, Ioan 20, 11—18, gwel hefyd Luc 24, 17—32.)

Diar. 13, 7, "Rhyw un a ymffrostia, ei fod yn gyfoethog, ac heb ddim ganddo." (Haman, Esther 5, 13; eglwys Laodicea, wrth ei chymharu âg eglwys Smyrna, Dad. 3, 17; 2, 9; Ahab, 1 Bren. 21, 4, 16, 22.) "Ac arall ei fod yn dlawd, a chyfoeth lawer ganddo." (Math. Luc 5, 27, 28; Paul 2, Cor. 6, 10; Phil. 3, 8.)

Diar. 13, 24, "Yr hwn a arbedo y wialen sydd yn casâu ei fab; ond yr hwn a'i câr ef a'i cerydda mewn amser." (Eli, 1 Sam. 3, 13; Dafydd, 1 Bren. 1, 5, 6.)

Diar. 14, 6, "Y gwatworwr a gais ddoethineb, ac nis caiff." (Yr athronyddion Athenaidd, Act. 17, 18; Herod, Luc 23, 8; yr Iuddewon yn dysgwyl am y Messiah, ac yn gwrthod Crist, Act. 13, 41; Ioan 9, 29.) "Ond gwybodaeth sydd hawdd i'r deallus." (Dafydd, Sal. 119, 18, 98—100; gwel hefyd Iago 1, 5; Math. 11, 25.)

Diar. 14, 8, "Doethineb y call yw deall ei ffordd ei hun." (Job 28, 28; Deut. 4, 6; Preg. 12, 13.) "Ond ffolineb y ffyliaid yw twyll." (Gehazi, 2 Bren. 5, 20, 27; cyhuddwyr Daniel, Dan. 6, 24; Ananias a Sapphira, Act. 5, 1—11.)

Diar. 14, 32, "Y drygionus a yrir ymaith yn ei ddrygioni." (Hophni a Phinees, 1 Sam. 4, 11.) "Ond y cyfiawn a obeithia pan fyddo yn marw." (Jacob, Gen. 49, 18; Stephan, Act. 7, 55—60; Paul, 2 Tim. 4, 6—8; Pedr, 2 Pedr 1, 14, 16; 3, 13.)

Diar. 15, 1, "Ateb arafaidd a ddettry lid." (Y Reubeniaid, Jos. 22, 15, 21—30; Gedeon, Barn. 8, 1—3; Abigail, 1 Sam. 25, 23, &c.) "Ond gair garw a gyffry ddigofaint." (Rehoboam, 2 Cron. 10, 13, &c.; Paul a Barnabas, Act. 15, 39; Saul a Jonathan, 1 Sam. 20, 30—34.)

Diar. 15, 10, "Cerydd sydd flin gan y neb a dry oddiar y ffordd." (Asa, 2 Cron. 16, 10; yr Iuddewon, Esay, 1, 5: Jer. 5, 3; Ioan 8, 40.) "A'r neb a gasäo gerydd a fydd marw." (Amasiah, 2 Bren. 14, 11; 2 Cron. 25, 27: yr Iuddewon, 2 Cron. 36, 15—17: Luc 19, 42, 43.)

Y Pregethwr (c. c. 997.)

62. Yr enw Seisnig ar y llyfr hwn a gymmerwyd oddiwrth y cyfieithiad Groeg, a golyga (megys y gwna yr Hebraeg), un sydd yn casglu neu yn anerch cynnulleidfa, ac ar y cyfan mynegir ei ystyr yn gywir gan yr enw Cymreig, "Y Pregethwr." Er fod y tywysog enwog, awdwr y llyfr hwn, wedi ei gynnysgaethu mor helaeth â doethineb, etto efe a drodd ymaith oddiwrth Dduw i chwilio am ddedwyddwch mewn ymarferion daearol ac eilun-addolgar, 1 Bren. 11, 1—13; ond yn ei flynyddoedd diweddaf, wedi

ei wneyd yn ystyriol o'i ffolineb, y mae yma yn ysgrifenu ei brofiad. Feallai i'r gwirioneddau a roddir yma gael eu "dadgan" ganddo yn gyhoeddus, ac nid oedd rhoddi cyfarwyddiadau yn y modd hyn i'r bobl a ymdyrent i'w lys o bob parth i gael eu dysgu drwy ei ddoethineb, yn annghydweddol â'i sefyllfa nac â'i gymmeriad ef. Perthyna i'r llyfr ddyddordeb pellach, yn gymmaint a'i fod yn dwyn profion boddhaol o'r ffaith, i Solomon, tua diwedd ei oes, edifarhau am ei arferion halogedig, a'i egwyddorion penrhydd (*licentious*), os darfu iddo, fel y mae yn debyg, eu meithrin yn y fath lwybr.

Eglur yw, mai amcan mawr y llyfr yma yw dangos annigonolrwydd hollol pob galwedigaethau a gwrthddrychau daearol fel prif ddyben bywyd, cyfranu dedwyddwch sylweddol, a thynu dynion ymaith oddiwrth ddaioni *ymddangosiadol* at yr unig ddaioni sylweddol a pharhaus—ofn Duw a chymmundeb âg ef. "Gwagedd o wagedd, gwagedd yw y cwbl," yw ei wers gyntaf. "Ofna Dduw, a chadw ei orchymynion ef," yw ei wers olaf. Yn y cyflawniad o'r amcan hwn, rhydd yr ysgrifenydd fywgraffiad drychfarddawl (*dramatic*) o hono ei hun, lle y mae, nid yn unig yn ysgrifenu, ond yn ail gyflawnu yr amrywiol olygfeydd yn ei ymchwiliad ef am ddedwyddwch; gan ailadrodd ei brofiad blaenorol, ac ymddangos drwy ei frwdfrydedd yn amrywiol agweddau ei hunan blaenorol. Heblaw hyny, dengys i ni (ac y mae hwn yn amcan israddol i'r llyfr) pa fodd y dylai dynion ymddwyn yn nghanol y siomedigaethau amrywiol yn erbyn pa rai y bydd raid iddynt ymdrechu. Hyn yw yr achos o luosogrwydd ei rybyddion a'i gynghorion yn ei ddesgrifiadau o wagedd, a'i annogaethau i wneuthur ofn Duw a chyflawniad ein dyledswyddau moesol a chrefyddol ein prif ddaioni.

Y mae anhawsder a bywiogrwydd yr hanes yn cael eu mawr gynnyddu gan y ffurf yn mha un y mae wedi ei ysgrifenu. Ymddengys yr awdwr i fod am y foment y peth a ddesgrifir ganddo. Ymddengys fel yn cael (yr hyn alwasai ein hen ysgrifenwyr) yn iasau (*fyttes*) o fyfyrdod (1, 12—18), o foethusrwydd (*luxury*) (2, 1—11), o erwindeb (*grossnes*) a choethder, o gydwleddiad ac annyngarwch; iasau o adeiladu, a gwneyd llyfrau, a'r cwbl yn terfynu mewn methiadau a'r siomedigaethau chwerwaf. Yn olynol, cawn y gŵr gwyddonol a'r gŵr o bleser yn troi yn dynghedfenydd, defnyddiolwr, epicuriad, a stoiciad; yn llefaru yn mhob cymmeriad lawer o wirionedd, gan osod i mewn rai ymadroddion goleuedig a difrifol, ffrwyth addfedrwydd ei ddoethineb; ac yn y diwedd, cawn ddyn yn ei agwedd fwyaf mawreddog—yn gredadyn gostyngedig ac edifeiriol. Sylwer hefyd ei fod, nid yn unig wedi rhoddi desgrifiadau i ni o'r rhai hyn, ond y mae yn ei berson ef wedi rhoddi i ni y dynion eu hunain.

Pe cedwid y ffaith yma mewn golwg, gwnelid meddwl llawer o adnodau yn eglur. Llawer o'i benderfyniadau ydynt fynegiadau o synwyr cryf a chyrhaedd-bell, ac ereill o honynt ydynt yn hynod o santaidd ac ysbrydol (5, 1—3; 7, 29; 11, 5: 12, 1, 7); nid yw ereill etto ond mewn rhan yn wirionedd, ac y mae rhai yn hollol anwireddus (3, 19; 2, 16; 9, 2). Llawer ymdrech ofer sydd wedi ei gwneyd i gyssoni y rhai olaf hyn â rhanau ereill o'r Ysgrythyr, neu â dywediadau ereill o eiddo Solomon. Ond nid yn y modd yma y mae eu hegluro. Y mae pob desgrifiad yn ddarlun o fydolddyn synwyrlawn a siomedig, gyda *goleuni ychwanegol* wedi ei daflu arno oddiwrth ffynnonell Ddwyfol. Hanes gobeithion gorwyllt a ffaeleddau mawrion yw y llyfr, gyda darluniadau sydd rywbeth yn gryfach nâ gwirionedd, ac yn gymhwys i bob un. Swm y cwbl yw, ein bod i ofni Duw ac i gadw

ei orchymynion ef. *Y mae* y penderfyniad hwn yn *wirionedd*, fel hefyd y mae llawer o'r rhybyddion a'r appeliadau cydfynedol; ond y mae llawer o'r mater a gynnwysa *heb fod* yn wirionedd. Ac ar yr egwyddor yma y mae yn rhaid i'r cyfan gael ei egluro. Gall cymhariaeth egluro yr ymresymiad a'r dyben. Fel y mae genym yn Salm 45 lyfr y Caniadau bychan, felly, cawn lyfr y Pregethwr bychan yn Salm 73.

Tra y cyduna pawb mai dyben y llyfr yw derchafu crefydd fel "prif amcan" dyn (gellir ychwanegu) fod golygiadau gwahanol wedi eu cymmeryd o'r egluriadau a'r rhesymau. Myn rhai mai y wers fawr yw gwagedd pob peth daearol heb grefydd, ac yn ol y golygiad yma, fod pob eglurhad a phob rhan yn wirionedd. Ar y llaw arall, meddyliai Luther mai gwers y llyfr yw—bydd dduwiol; ac o berthynas i bob peth arall, bydd dawel; oblegid nid ydyw bywyd yn werth dy ofal. O fewn terfynau neillduol, y mae y ddau olygiad yn gywir. Ar wahan oddiwrth grefydd, gwagedd *yw* pob peth, ond nid ydyw pob peth yn *gyfartal* wageddus; ac mewn meddiant o grefydd, nis gall dim ein drygu, er nad ydyw doethineb a ffolineb y *pryd hwnw* yn bethau dibwys; ac nid ydyw yr un peth yn dygwydd i bawb fel eu gilydd. Ereill, etto, a roddant yr ymadroddion nad ydynt yn wirionedd yn ngeneuau gwrthddadleuwyr, tra y mae ereill yn eu gosod i lawr fel gofyniadau. Y golygiad cywiraf o'r cyfan, yn ddiau, yw yr un a roddwyd genym.[a]

Noder, fod *doethineb* yn y Pregethwr yn cael ei ddefnyddio yn yr ystyr o wyddoniaeth, neu gywreinrwydd; ac yn y Diarebion y mae yr un â *duwioldeb*.

Prawf rhyfeddol o lygredigaeth ein natur yw, fod anffyddwyr diweddar (Frederick Fawr, Voltaire, ac ereill) wedi rhoddi canmoliaeth wresog i'r rhanau hyny o'r Pregethwr, lle y mae Solomon yn cofnodi yr egwyddorion twyllodrus yr arweiniwyd ef gan ei ffolineb am y foment i'w cofleidio. Llwyr ddiystyrant wir ddoethineb y llyfr, pen. 12.

Cydnabyddir canoniaeth llyfr y Pregethwr gan yr ysgrifenwyr Cristionogol boreuaf, ac er na ddyfynir y llyfr mewn modd ffurfiol gan ein Harglwydd nâ'i apostolion, etto, y mae amryw gyfeiriadau ato yn y Testament Newydd.

Ni chyfrifid ef gan yr Iuddewon yn un o'u llyfrau barddonol, ac yn wir, ysgrifenwyd y cyfan mewn rhyddiaith, oddieithr 3, 2—8; 7, 1—14; 11, 17; 12, 7.

Dos. 6. *Y cyfan wedi ei Drefnu a'i Dalfyru, gyda Chynnorthwyon achlysurol.*

63. *O'r mynediad i Ganaan hyd farwolaeth Solomon* (475 *o flynyddau.*)

Rhan I. (25 o flynyddau.)

Dyddiad a Lle	Dygwyddiad neu Hanes.
c. c.	1. *Goresgyniad Canaan* (7 *mlynedd*).[b]
1451.	Archiad Duw i Josua, Jos. 1, 1—9.
Bl. eg. 41.	Yr ysbiwyr yn cael eu hanfon i Jericho; Rahab yn eu derbyn, Jos. 2.

[a] Stowe, Stuart, Hamilton, ac ereill. [b] Jos. 14, 7, 10.

Dyddiad a Lle.	Dygwyddiad neu hanes.
C. C.	
1451.	Josua yn adgofio Reuben, &c.,[a] o'u ymrwymiad (Num. 22);
1m. 1d.	addawant ufydd-dod. Cyfarwyddo yr Israeliaid o berthynas i'r mynediad drwy yr Iorddonen. Duw yn cefnogi Josua, [a]Jos. 1, 10—18; 3, 1—13.
10d.	*Y mynediad drwy yr Iorddonen* (O. B. 2553); cyfodiad y gof-adail; dychryn y Canaaneaid, Jos. 3, 14—17;[b] 4;[c] 5, 1.
1451.	Enwaediad yn cael ei adnewyddu; y Pasg; y manna yn darfod,
Gilgal.	Jos. 5, 2—12.
	Cadben llu yr Arglwydd yn ymddangos i Josua, gwel 330; darostyngiad gwyrthiol Jericho; melldith ar yr hwn a'i hadadeilado, Jos. 6, 1;[d] 5, 13—15; 6, 2—27.
	Gorchfygiad Israel o herwydd pechod Achan; y mae yn cael ei ddystrywio, Jos. 7.
	Meddianniad Ai drwy gyfrwystra, Jos. 8, 1—29.
Gilgal.	Y Gibeoniaid yn cael cyfammod â Josua, Jos. 9.[e]
	Gorchfygiad amryw freninoedd olynol, Jos. 10.[f]
1450—1445.	Y gweddill o'r gorchfygiadau, Jos. 11.
1444.	Y ddeddf wedi ei hysgrifenu ar allor geryg (Deut. 27), a'i chyhoeddi i'r holl bobl, Jos. 8. 30—35.[g]
Ebal a Gerizim.	Reuben, &c., yn dychwelyd i'w tir ar du dwyrain yr Iorddonen; cyfodant allor goffadwriaethol; Israel yn tramgwyddo, ac yn ceisio eglurhad, Jos. 22.
	2. *Dosparthiad Cyffredinol y Tir.*
1444.	Cyfrifiad y buddugoliaethau, [Jos. 12.]
	Y tir oedd etto heb ei oresgyn, [Jos. 13, 1—6.]
	Josua yn dosparthu y tir; y naw llwyth a hanner yn derbyn eu cyfran drwy goelbren;[h] y Lefiaid i beidio derbyn tir, [Jos. 13, 7—14; 14, 1—5].
	Etifeddiaeth Reuben, &c., ar du dwyreiniol yr Iorddonen, [Jos. 13, 15—33.]
Hebron, Cirjath,	Etifeddiaeth Caleb, [Jos. 14, 6—15; 15, 13—19.]
Arba,	Cyfran Judah, [Jos. 15, 1—12, 20—63.]
Jos. 21, 11.	Rhanau Ephraim a hanner llwyth Manasseh, [Jos. 16; 17.]
1444.	Gosod y tabernacl i fyny, Jos. 18, 1.
Silo.	Rhanau y lleill o'r llwythau; etifeddiaeth Josua, [Jos. 18, 2—28; 19.]
	Appwyntio dinasoedd noddfa, Jos. 20.
	Dinasoedd y Lefiaid, [Jos. 21.]
	3. *Gweithredoedd olaf Josua, &c.*
1427.	Siars Josua i henuriaid Israel, Jos. 23.[i]
Sichem.	Josua yn anerch y llwythau, ac yn adnewyddu y cyfammod,
Sichar T. N.	Jos. 24, 1—28.
1426.	Marwolaeth a chladdedigaeth Josua, Jos. 24, 29—31.
Sechem.	Claddu esgyrn Joseph, &c., Jos. 24, 32, 33.

[a] Am y drefn hon, gwel Amseriaeth Ysgrythyrol Bedford, dyfynedig yn Gray, tud. 147, neu Townsend, i., 495. [b] 3, 15; Gorlifiad yr Iorddonen; gwel adr. 404.

[c] 4, 19; 40 mlynedd, llai o bump diwrnod, adr. 358 *b*.

[d] Am drefn, gwel Horæ Mos. gan Faber, ii., 107.

[e] Bu y Gibeoniaid am oesoedd yn golofn o wirionedd hanesiaeth Iuddewig; megys y mae yr Iuddewon yn awr.

[f] Fel hyn, dangosodd Duw ei allu ar wrthddrychau addoliad y Canaaneaid.

[g] Am drefn, gwel *Horsley's Bib. Crit.*, i., 260; a chymharer pen. 1, 14; canlyna yn uniongyrchol ddiwedd y rhyfel.

[h] Er i'r dosraniadau yma gael eu gwneuthur drwy goelbren, etto, derbyniodd pob llwyth y fath etifeddiaeth ag a gyflawnai ragfynegiadau Jacob a Moses; ac fel hyn, eglurid ffyddlondeb Duw.

[i] Adn. 3, sylwer fel yr anrhydeddir Duw; gwel 198.

Dyddiad a Lle.	Dygwyddiad neu hanes.
	64. (Rhan II.)
	Rhyngdeyrnedd (Interregnum) a Llywodraeth y Barnwyr (330 *o flynyddau*).
c. c.	Buddugoliaethau ar ol marwolaeth Josua, Barn. 1, 1—26.
	Cenedloedd heb eu darostwng gan Israel, Barn. 1, 27—36.
1425.	*Angel yr Arglwydd* yn ceryddu yr Israeliaid am beidio gŷru allan
Bochim.	y Canaaneaid, Barn. 2, 1—5.
	Dechreuad eilun-addoliaeth yn Israel, Barn. 2, 6—13.
1413.	Hanes delw Micah, Barn. 17.
	Rhai Daniaid, ar ol ysbeilio Micah o'i ddelw, yn ymsefydlu yn Lais (Dan ar ol hyny), ac yn gosod i fyny eilun-addoliaeth,[a] Barn. 18.[b]
1406,	Hanes y Lefiad a'i ordderchwraig; lladdiad y Benjaminiaid, &c.
Gibeah, Jeba.	[Barn. 19; 20; 21].
	Caeth-gludiadau Israel am eilun-addoliaeth, a'u gwaredigaethau gan y Barnwyr, Barn. 2, 14—23; 3, 1—4.
1402—1394.	Caeth-gludiad yr Israeliaid *dwyreiniol* am wyth mlynedd i Mesopotamia; Othniel yn farnwr, Barn. 3, 5—11.
1354—1336.	Caeth-gludiad yr Israeliaid *dwyreiniol* am 18 mlynedd i Moab; barnwr, Ehud, Barn. 3, 12—30.
	Caeth-gludiad yr Israeliaid *gorllewinol* gan y Philistiaid; barnwr, Samgar, Barn. 3, 31.
1316—1296.	Caeth-gludiad yr Israeliaid *gogleddol* am 20 mlynedd gan y Canaaneaid; Deborah yn barnu; cân Deborah a Barac, Barn. 4; 5.
1256.	Caeth-gludiad yr Israeliaid *dwyreiniol* a *gogleddol* am 7 mlynedd i Midian, Barn. 6, 1—6.
Bethlehem, *Beit-el-lahm.*	Hanes Ruth, *hynafes i'r Messiah*, Ruth 1, 4.[c]
1249.	Gedeon yn barnu; *angel y cyfammod* yn ymweled âg ef, y mae yn
Sechem.	rhyddhau Israel odditan Midian; yn gwrthod cymmeryd ei wneuthur yn frenin, Barn. 6, 7—40; 7; 8.
1235—1232.	Traws-deyrnedd (*usurpation*) Abimelech; ffugeb (*fable*) Jotham, Barn. 9.
1232—1188.	Tola a Jair yn farnwyr, Barn. 10, 1—5.
1206—1188.	Y Philistiaid a'r Ammoniaid yn gorthrymu Israel am 18 mlynedd; Jephthah; ei adduned, Barn. 10, 6—18; 11.
1187.	Y Gileadiaid yn lladd yr Ephraimiaid, Barn. 12, 1—6.
1182—1157.	Ibsan, Elon, ac Abdon yn farnwyr, Barn. 12, 7—15.
1156—1116.	Y Philistiaid yn gorthrymu Israel 40 mlynedd, Barn. 13, 1.
1156.	Genedigaeth Samson, Barn. 13, 2—25.
1155.	Genedigaeth Samuel; *cân Hannah*, 1 Sam 1; 2, 1—11.
Silo.	Drygioni meibion Eli,[d] 1 Sam. 2, 12—21.
1143.	Galwad Samuel, 1 Sam. 3.
1136—1117,	Priodas Samson; ei orchestion, Barn. 14; 15, 1—19 [16, 1—3].
Silo.	Barn ar dŷ Eli, 1 Sam. 2, 22—36 [22—25].
1116.	Daliad a marwolaeth Samson, Barn. [15, 20]; 16, 4—31.
Gaza.	
1116,	Israel yn cael eu gorchfygu ddwywaith gan y Philistiaid; yr arch
Ebeneser.	yn cael ei dàl, a meibion Eli yn cael eu lladd; marwolaeth Eli, 1 Sam. 4 [19—22].

[a] Parhaodd eilun-addoliaeth hyd ddyddiau Eli, ac a adnewyddwyd gan Jeroboam, 1 Sam. 4, 10, 11. Oddiwrth hyn, feallai y gadawwyd Dan allan o blith y rhai seliedig, Dad. 7.

[b] Eglur yw fod y 5 pen. yma yn perthyn i'r oes foreuol hon; nid oedd Dan etto wedi ei sefydlu, 18, 1; yr oedd Phineas, ŵyr Aaron, yn fyw, 20, 28, a nodir drygioni Gibeah, Hos. 10, 9, fel pechod agored cyntaf Israel yn Nghanaan.

[c] Cymharer Ruth 1, 1, â Barn. 6, 4, yr unig newyn a nodir yn y Barnwyr; am resymau ereill, gwel Gray, tud. 166.

[d] Ar amseriaeth y rhan yma o lyfr y Barnwyr, gwel Townsend, i., 592, neu Calmet.

Dyddiad a Lle.	Dygwyddiad neu hanes.
C. C. 1116. Asdod, Azotus, Act. 8, 40; *Shdood*, 30 mill. i'r gor. o Jerusalem.	Yr arch yn cael ei gosod yn nhŷ Dagon; ei symudiad i Ecron (Akir), wedi hyn i Bethsemes (*Ain Shems*), ac oddiyno i Ciriath-jearim, lle yr erys hyd ei symudiad gan Ddafydd, Townsend, i., 612, 1 Sam. 5; 6; 7, 1, 2.
1112, Mispah.	Samuel yn farnwr; cynhyrfa yr Israeliaid i edifarhau; y Philistiaid yn cael eu gorchfygu, 1 Sam. 7, 3—17.
1095, Ramah yn Ephraim	Samuel yn gosod ei feibion yn farnwyr; eu llywyddiaeth lygredig; yr Israeliaid yn ceisio brenin; Duw yn gorchymyn i Samuel wrandaw arnynt, 1 Sam. 8.
	65. (Rhan III.)
	Teyrnasiad Saul (40 *mlynedd*).[a]
1096, Ramah.	Samuel yn ddirgelaidd yn eneinnio Saul fel brenin, ac yn rhoddi iddo dair o arwyddion, 1 Sam. 9; 10, 1—16.
Mispeh.	Saul yn cael ei ddewis a'i gyhoeddi yn frenin, 1 Sam. 10, 17—27.
Gilgal.	Saul yn gwaredu Jabes-Gilead; yn cael ei sefydlu (*inaugurated*) fel brenin; anerchiad Samuel i Israel, 1 Sam. 11; 21.
D. Jericho. 1094.	Saul yn casglu byddin yn erbyn y Philistiaid; y mae yn annfyddhau i Samuel, ac yn cael ei rybyddio o'i amddifadiad o'r freniniaeth, 1 Sam. 13, 1—15.
	Y Philistiaid yn cael eu gorchfygu; llŵ byrbwyll Saul yn peryglu Jonathan; y bobl yn ei waredu; buddugoliaethau Saul; ei deulu, 1 Sam. 13, 6—23; 14.
1080.	Saul yn taraw yr Amaleciaid; yn arbed Agag a goreuon yr yspail; yn cael ei argyhoeddi gan Samuel, 1 Sam. 15.
1064. Bethlehem.	Samuel yn ddirgelaidd yn eneinnio Dafydd yn *Bethlehem*, fel brenin dyfodol, 1 Sam. 16, 1—13.
	Buddugoliaeth Dafydd ar Goliath; Jonathan yn caru Dafydd, 1 Sam. 17, 1—40, 55, 56, 41—54, 57, 58; 18, 1—4, Sal. 9.[b]
1063.	Buddugoliaethau Dafydd; pruddglwyf Saul; y mae yn ceisio lladd Dafydd, 1 Sam. 18, 5—9; 16, 14—23;[c] 18, 10—16.
1062. Gibeah Naioth.	Dafydd yn priodi merch Saul; Saul yn gwneyd amryw gynnygion i'w ladd ef; Dafydd yn ffoi at Samuel; Saul yn anfon ar ei ol, 1 Sam. 18, 17, 30; 19, 1—3; Sal. 11; 1 Sam, 19, 4, 24; Sal. 59.
1062.	Cyfammod Dafydd a Jonathan, 1 Sam. 20.
1061. Nob a Gath.	Dafydd yn ffoi at Abimelech (lle mae ei anwiredd yn achosi marwolaeth yr offeiriaid o dŷ Eli), ac wedi hyny i Achis; yn cymmeryd arno ynfydu, 1 Sam. 21; Salm 56; 34.
Adulam.	Dafydd yn ffoi etto, amryw ganlynwyr yn ymuno âg ef, 1 Sam. 22, 1; Salm 142; 1 Sam. 22, 1 a'r 2 [1 Cron. 12, 8—18]; 2 Sam. 23, 13—17; 1 Cron. 11, 15—19.
Nob.	Dafydd yn myned i Mispah, wedi hyny Hareth; lladd yr offeiriaid gan Saul, 1 Sam. 22, 3—19; Sal. 52; 109; 17; 140; 35; 64.
Ceilah.	Abiathar yn ymuno â Dafydd; Dafydd yn gyrchfygu y Philistiaid, 1 Sam. 23, 1; 22, 20—23; 23, 6,[d] 2—5, 7—12; Salm 31.
1060. Ziph.	Saul yn erlid Dafydd; goresgyniad yn peru iddo ddychwelyd, 1 Sam. 23, 13—23; Salm 54; 1 Sam. 23, 24—28.
1059. Engedi, Haseson Tamar.	Saul yn erlid Dafydd; Dafydd yn arbed bywyd Saul; Saul yn cydnabod ei fai, 1 Sam. 23, 29; 24; Salm 57; 58; 63.
1058. Ziph.	Marwolaeth Samuel; Dafydd a Nabal, 1 Sam. 25.
	Dafydd etto yn arbed bywyd Saul, 1 Sam. 26.

[a] Act. 13, 21. [b] Gwel Lightfoot a Town. i., 638.

[c] Y drefn yma a sefydlwyd gan yr Esgob Horsley. Cymharer 17, 33, 38, 39, 42, 56, a 16, 18, a gwelir fod 16, 14—23, yn perthyn i gyfnod diweddarach nâ 17, 1—40.

[d] Gwel Townsend ar y drefn.

Dyddiad a Lle.	Dygwyddiad neu hanes.
c. c. 1057.	Dafydd yn ffoi i Achis, 1 Sam. 27, 1—7; Salm 141; amryw yn dyfod ato. [1 Cron. 12, 1—7].
	Dafydd yn gwneyd rhuthr ar yr Amaleciaid, ac yn dychwelyd gyda'r ysbail i Gath, 1 Sam. 27, 8—12.
1056.	Y Philistiaid yn darparu i ryfel, ac yn dyfod cyn belled a Sunem; Dafydd yn dyfod gyda hwynt; Saul yn ymofyn â dewiness Endor, 1 Sam. 28.
	Dafydd yn cael ei droi allan o fyddin y Philistiaid; amryw yn ymuno âg ef ar ei ffordd yn ol i Siclag, 1 Sam. 29, [1 Cron. 12, 19—22].
	Dafydd, ar ei ddychweliad i Siclag, yn cael allan ei bod wedi ei hanrheithio gan Amalec, a'i deulu wedi ei gymmeryd; y mae yn ymlid ar ol Amalec, ac yn eu taraw, 1 Sam. 30.
Gilboa (*Djebel Gilbo*)	Saul wedi ei orchfygu mewn brwydr, a'i feibion wedi eu lladd, yn dyfetha ei hunan, 1 Sam. 31, [1 Cron. 10, 1—14].
Siclag (16 D. Dd. Gath ?)	Amaleciad yn cymmeryd arno ei fod wedi lladd Saul, a rhoddir ef i farwolaeth gan Ddafydd, 2 Sam. 1, 1—16.
	Galarnad Dafydd am Saul a Jonathan, 2 Sam. 1, 17—27.
	66 (Rhan IV.)
	Teyrnasiad Dafydd (40 *mlynedd*).
Hebron, 1056.	Cydnabod Dafydd yn frenin ar Judah, 2 Sam. 2, 1—7.
	Isboseth yn cael ei gyhoeddi yn frenin Israel, 2 Sam. 2, 8—11.
1054.	Rhyfel cartrefol yn tori allan; Dafydd yn myned gryfach cryfach; Abner ac Isboseth yn cael eu lladd yn fradwrus, 2 Sam. 2, 12—32; 3; 4.
1049. Hebron. Jerusalem.	Gwneuthur Dafydd yn frenin ar holl Israel; ei luoedd; y mae yn difeddiannu y Jebusiaid o fynydd Seion, ac yn byw yno, 2 Sam. 5, 1—3; 23, 8—12 [18, 39]; 5, 4, 5, 6—10; 1 Cron. 11, 1—3 [12, 23—40]; 11, 10—14, 20 [26—47], 4—9.
1048.	Hiram o Tyrus yn llongyfarch Dafydd; teulu Dafydd; y mae yn gorchfygu y Philistiaid ddwywaith, 2 Sam. 5, 11—25[a] [13—17]; 1 Cron. 14, 1—17.
1046. O Ciriath-jearim i dŷ Obededom, ac oddiyno i Seion Sal. 132.	Dafydd yn symud yr arch; Uzzah, ac efe heb fod yn Lefiad, yn cael ei daraw am gyffwrdd â'r arch (gwel Num. 4, 15); 2 Sam. 6, 1—11; 6, 12, 23; Sal. 68; 132; 105; 96; 106; 1 Cron. 13, 1—4,[b] 5—14; 15, 1—16, 43 [5, 24][c].
	Gwarafun i Dafydd adeiladu y deml, bendithion mawrion yn cael eu haddaw iddo; ei weddi a'i ddiolchgarwch, 2 Sam. 7; 1 Cron. 17; Sal. 2; 45; 22; 16; 118; 110.
1041.	Buddugoliaethau ar Philistia, Moab, Syria, ac Edom, 2 Sam. 8; 1 Cron. 18; Sal. 60; 108.
	Caredigrwydd Dafydd i Mephiboseth, 2 Sam. 9.[d]
1038—1037. Medeba.	Dafydd yn gorchfygu Ammon a Syria, [2 Sam. 10]; 1 Cron. 19; Sal. 20; 21.
1036 a 1034 Jerusalem.	Gwarchae ar Rabbah; godineb a llofruddiaeth Dafydd, 2 Sam. 11, 1 [11, 2—12, 23]; 26, 31; 1 Cron. 20, 1, 3; Sal. 51; 32; 33; 103.[e]
1033.	Genedigaeth Solomon; Amnon, *mab henaf* Dafydd yn treisio Tamar, ei chwaer, *unig* ferch Dafydd; Dafydd yn methu cospi y drygioni hwn, 2 Sam. 12 [24, 25; 13, 1—22].

[a] Adn. 24; gwel 2 Bren. 7, 6.
[b] Townsend, gan ganlyn y Cronicl, a esyd symudiad yr arch ar ol goresgyniad Seion, a darllena 13, 1—4, ar ol 2 Sam. 5, 1—3.
[c] Adn. 4; gwel 6, 31. [d] Gwel 1 Sam. 20, 15.
[e] Sal. 51 yw Salm edifeiriol Dafydd, a Sal. 103 yw Salm ei ddiolchgarwch am faddeuant. *Maddeuwyd* y trosedd; ond fel *cerydd*, cafodd y rhan fwyaf o weddill bywyd Dafydd ei chwerwi.

Dyddiad a Lle.	Dygwyddiad neu Hanes.
c. c.	
1031.	Absalom yn lladd Amnon, ac yn ffoi, 2 Sam. 13, 23—39.
1028.	Absalom yn cael ei ddwyn yn ol, a'i adferu i bresenoldeb ei dad, 2 Sam. 14, 1—7, 15—17, 8—14,[a] 18—33.
1025.	Absalom yn cyfodi gwrthryfel yn erbyn Dafydd, 2 Sam. 15, 1—12.[b]
1024.	Dafydd a'i ganlynwyr yn ffoi; Sadoc ac Abiathar yn cael eu hanfon yn ol gyda'r arch; Dafydd yn ceisio gan Husai ymuno âg Absalom i ddymchwelyd cynghorion Ahitophel, 2 Sam. 15, 13—37; Sal. 3.
1024. Bahurim	Twyll Siba tuag at Mephiboseth; Simei yn melldithio Dafydd, 2 Sam. 16, 1—14; Sal. 7.
Jerusalem.	Husai yn dymchwelyd cynghor Ahitophel; Ahitophel yn ymgrogi, 2 Sam. 16, 15—23; 17, 1—26.
Mahanaim, 65 G. Dd.	Dafydd yn cael ymborth, yn benaf drwy Barzilai, 2 Sam. 17, 27—29; Sal 42;[c] 43; 55; 4; 5; 62; 143; 144; 70; 71.
Jerusalem.	Absalom yn cael ei orchfygu a'i ladd gan Joab, 2 Sam. 18.
Ephraim.	Dafydd yn dychwelyd, yn maddeu i Simei; Mephiboseth yn dangos bradwriaeth Siba; diolchgarwch Dafydd i Barzilai, 2 Sam. 19; 20, 3.
1023.	Gwrthryfel Seba (yn Abel) 2 Sam. 20, 1, 2, 4—26.
1021.	Y tair blynedd newyn, 2 Sam. 21, 1—14.
1019.	Y rhyfeloedd diweddaf â'r Philistiaid; moliant Dafydd am fuddugoliaethau; ei elynion yn cael eu darostwng, 2 Sam. 21, 15—22, 1 [22, 2—51]; 1 Cron. 20, 4—8; Sal. 18.
1018.	Dafydd, mewn balchder, yn rhifo Israel; y pla, 2 Sam. 24, 1—9;[d] 10—25;[e] 1 Cron. 21, 1—5; 27, 23, 24; 21, 6, 7, 8—30.
1016. Jerusalem.	Dafydd yn parotoi defnyddiau, ac yn cyfarwyddo Solomon o berthynas i adeiladaeth y deml, 1 Cron. 22.
	Gwrthryfel Adoniah; eneinniad Solomon, a'i gyhoeddi yn olynydd Dafydd; Adoniah yn ymostwng, 1 Bren. 1 [1—4[f]].
	Dafydd yn trefnu cylchoedd yr offeiriaid, &c. [1 Cron. 23—26].
	Trefn swyddogion y wladwriaeth [1 Cron. 27, 1—22, 25—34].
	Dafydd yn galw cymmanfa ddifrifol, ac yn eu hannog hwynt a Solomon gyda golwg ar waith y deml; offrymau y tywysogion a'r bobl; diolchgarwch Dafydd; SOLOMON yn cael ei gydnabod yn frenin, 1 Cron. 28 [11—21]; 29, 1, 25; Sal. 72; 91; 145.
	Siars olaf Dafydd i Solomon; gorchymyna i Joab a Simei gael eu rhoddi i farwolaeth; geiriau olaf Dafydd; ei farwolaeth, 1 Bren. 2, 1—9; 2 Sam. 23, 1—7; 1 Cron. 29, 26—30; 1 Bren. 2, 10, 11.
	Salmau Dafydd, achlysur a dyddiad pa rai sydd anadnabyddus, Sal. 6; 8; 12; 19; 23; 24; 28; 29; 38; 39; 40; 41; 61; 65; 69; 78; 86; 95; 101; 104; 120; 121; 122; 124; 131; 133; 139.
	67. (Rhan v.)
	Teyrnasiad Solomon (40 *mlynedd*).
1016. Gibeon, *Jib*, 17 G. O. Gilgal.	Poeth-offrymau Solomon; Duw yn rhoddi dewisiad iddo; yntau yn gofyn am ddoethineb; cyfoeth ac anrhydedd yn cael eu hychwanegu iddo, 1 Bren. [2, 12]; 3, 4—15;* 2 Cron. 1, 1—5* [6—12].
1015. Jerusalem.	Barn ddoeth Solomon, 1 Bren. 3, 15—28* [2 Cron. 1, 13].
	Adoniah yn rhoddi Joab i farwolaeth; Abiathar yn cael ei ddiswyddo; Simei i aros yn Jerusalem, 1 Bren. 2, 13—38

[c] Dafydd yn croesi yr Iorddonen, Sal. 42, 6.
[d] Y mae Samuel yn gadael allan y fyddin sefydlog (300,000) yr hon a gynnwysir yn y Cronicl, ac y mae Samuel yn cynnwys Jerusalem (30,000), y rhai a adewir allan yn y Cronicl, gwel Lightfoot.
[e] Ad. 13, h. y., tair blynedd gyflawn yn ychwanegol; cymharer 1 Cron. 21, 12; gwel adran 358 (*d*).
[f] Ar y drefn, gwel Townsend, yr hwn a wahaniaetha oddiwrth Lightfoot.

[a] Y mae y synwyr yn gofyn y cyfnewidiad yma (Horsley).
[b] 15, 7, 40 mlynedd, hyny yw, ar ol eneinniad Dafydd (Lightfoot), neu darllen 4, fel Josephus, Syriaeg, Hales.

Rhanau a nodir fel hyn (*) sydd yn rhoddi yr hanes gyflawnaf.

Dyddiad a Lle.	Dygwyddiad neu Hanes.
c. c.	
1015.	
Tyrus, Tsur,	Solomon yn cael defnyddiau a gwŷr i adeiladu y deml,
102 G. Jer.	1 Bren. 5, 1—18 [2 Cron. 2, 1—18].
1012.	Rhoddi Simei i farwolaeth am fyned i Gath, 1 Bren. 2, 39—46.
Jerusalem.	Solomon yn priodi merch Pharaoh, 1 Bren. 3, 1—3.
1012—1005.	Adeiladaeth y deml, 1 Bren. 6, 1—8 [15—36]; [7, 13—50];
1 Bren. 6.	6, 9—14; 37, 38; 7, 51; [2 Cron. 3, 1—9];[a] [3, 4, 22];
1—37.	[10—14]; [3, 15—4, 22]; [5, 1].
1005.	Cyssegriad y deml, 1 Bren. 8, 1—11, 62—64, 12—61, 65, 66;
Jerusalem.	2 Cron. [5, 2—14;[b] 7, 4—7; 6—7, 3, 8, 10]; Sal. 47;[c] 97;
	98; 99; 100; 135; 136.
1002.	Adeiladau ereill gan Solomon; y mae Duw yn gwneyd cyfammod âg ef, 1 Bren. 7, 12 [9, 1—9]; 2 Cron. 7, 11, 22.
	Ennilliadau (*acquisitions*) Solomon; y mae yn dwyn allan drefniadau Dafydd gyda golwg ar y gwasanaeth yn y deml,
	1 Bren. 9, 10—14, 15—25 [2 Cron. 8, 1—10, 12—16].
1001.	Solomon yn dwyn merch Pharaoh i'w balas newydd,
Jerusalem.	1 Bren. 9, 24 [2 Cron. 8, 11].
	Caniad Solomon ar yr achlysur [Can. 1—8][d].
	Mawredd Solomon, 1 Bren. 4, 1—28 [2—19]; 10, 26; 9,
	26—28; 10, 14—25, 27—29; [2 Cron. 9, 26, 25; 1, 14;
	8, 17, 18; 9, 13—21, 24; 1, 15—17; 9, 27, 28].
	Doethineb Solomon, 1 Bren. 4, 29—33; [2 Cron. 9, 22]; Diar.
	1, 31; [5; 6, 24—35; 7].
993.	Enwogrwydd Solomon; brenines Seba yn ymweled âg ef,
Jerusalem.	1 Bren. 4, 34; 10, 1—13 [2 Cron. 9, 23, 1—12].
980—977.	Gwragedd Solomon yn ei hudo at eilun-addoliaeth; Hadad a Rezon yn cael eu cynhyrfu yn ei erbyn, 1 Bren. 11, 1—25.
977.	Ahiah yn prophwydo i Jeroboam ddosparthiad y deyrnas; Solomon yn ceisio lladd Jeroboam, yr hwn sydd yn ffoi i'r Aifft,
	1 Bren. 11, 26—40.
	Solomon yn ysgrifenu y Pregethwr, fe allai fel mynegiad o edifeirwch, Preg. 1—12 [3—11, 8].
976, Jerusalem.	Marwolaeth Solomon; Rehoboam ei fab yn ei ganlyn,
	1 Bren. 11, 41—43 [2 Cron. 9, 29—31].
	68. *Rhaniad y Deyrnas.*
976.	Ar esgyniad Rehoboam, y bobl, yn cael eu blaenori gan Jeroboam,
Sich m.	yn gofyn ysgafnhad yn eu beichiau,
	1 Bren. 12, 1—5 [2 Cron. 10, 1—5].
	Rehoboam, yn gweithredu yn ol cynghor y gwŷr ieuainc, ac nid yn ol eiddo yr henafgwyr, yn gwrthod cais y bobl,
	1 Bren. 12, 6—15 [2 Cron. 10, 6—15].
	Y deg llwyth yn gwrthryfela; Judah a Benjamin yn glynu wrth Rehoboam, ac yn ffurfio teyrnas Judah,
	1 Bren. 12, 16—19 [2 Cron. 10, 16—19].
	Y deg llwyth yn gwneuthur Jeroboam yn frenin arnynt, ac yn ffurfio teyrnas Israel, 1 Bren. 12—20.

[a] Ad. 3, o'r mesur cyntaf, *h. y.*, y cufydd hŵyaf a ddefnyddid cyn y caethiwed, yn agos llathen.

[b] Ad. 11, "*gwisg wèn,*" yn ychwanegol at 1 Breninoedd. Offrymodd yr Iuddewon yr aberth, wedi hyny, gweddiasant, ac wedi hyny disgynodd y tân; oddiwrth hyn y deilliodd y drefn yma (Townsend).

[c] Sal. 47, 5; gwel 2 Cron. 5, 13. Y Salmau ereill oll ydynt gymhwys i, ac feallai a ddefnyddid yn y gwasanaeth hwn. Nid ydyw dyddiad eu cyfansoddiad yn adnabyddus.

[d] Cymharer 4, 8; 7, 4, â Cron. 8, 6.

PENNOD III.

Llyfrau Hanesyddol a Phrophwydoliaethol, o Farwolaeth Solomon hyd ddiwedd Canon yr Hen Destament.

Dos. 1. *Byr-olygiad Hanesyddol o'r Tymmor hwn. Y Prophwydi mewn Cyssylltiad âg Hanesyddiaeth.*

69. Terfynodd gogoniant Israel gyda theyrnasiad Solomon. Y deyrnas o hyny allan a ranwyd. Deg llwyth, o ba rai yr oedd Ephraim yn benaf, a ymysgarasant oddiwrth y lleill, ac a ffurfiasant deyrnas Israel; yr oedd Judah a Benjamin yn awr mewn undeb, a hwynthwy yn unig oedd yn aros yn ffyddlawn i dŷ Ddafydd. Wrth yr olaf, fodd bynag, yn y diwedd, yr ymunodd y rhan fwyaf o'r Lefiaid, a llawer o'r rhai a ofnent Dduw allan o'r holl lwythau, 2 Cron. 11, 13—16.

70. Ceir gwrthgyferbyniadau (*contrasts*) tarawiadol, a gwersi buddiol yn hanes y teyrnasoedd yma.

Jeroboam, brenin cyntaf Israel, a'r hwn oedd ei hunan yn Ephraimiad, a gyfodwyd i'r orsedd gan Dduw, a rhoddwyd addewid ammodol iddo y buasai ei deyrnas ef fel eiddo Dafydd (1 Bren. 11, 38). Ond nid oedd gan Jeroboam na ffydd nac ufydd-dod Dafydd. I gynnal annibyniaeth ei deyrnas, sefydlodd offeiriadaeth neillduol, a gosododd i fyny allorau a delwau eilunol yn Dan a Bethel. Efe, fel hyn, a ffurfiodd gyfundraeth o eilun-addoliaeth, gan wadu mewn modd ymarferol unoliaeth ac ysbrydolrwydd Duw, a pharhau, mewn ffurf helaethach, y drygioni am ba un y rhwygwyd y deyrnas oddiwrth Solomon (Deut. 28, 15; 1 Bren. 11, 11). Yn anffodus, cyfranogai y bobl o'i deimladau, a thrwy ei ddylanwad ef, daeth eilun-addoliaeth byth wedi hyny yn rhan o'r grefydd genedlaethol. Efe ei hun, gan hyny, a warthnodir mewn hanesyddiaeth fel "Jeroboam, mab Nebat, yr hwn a wnaeth i Israel bechu."

O amser Jeroboam, y brenin cyntaf, hyd Hosea, y pedwarydd-ar-bumtheg a'r olaf, ni chawn gymmaint ag un brenin yn ddieuog o'r llygredigaeth cyffredinol. Dywedir am frenin ar ol brenin, iddo "wneuthur yr hyn oedd ddrwg yn ngolwg yr Arglwydd." Jehu, mae yn wir, a ddinystriodd brophwydi Baal, ac am ei ufydd-dod rhanol gwobrwywyd ef âg helaethach bendith dymmorol. "Ond nid edrychodd Jehu am rodio yn nghyfraith Arglwydd Dduw Israel â'i holl galon, canys ni thrôdd efe oddiwrth bechodau Jeroboam, yr hwn a wnaeth i Israel bechu." Y genedl a efelychai ei breninoedd. Yr oedd rhai eithriadau; ond yn nyddiau Elias, yr oedd angen dadguddiad uniongyrchol i'w darganfod; ac allan o'r cannoedd o filoedd o ba rai yr oedd Israel yn gynnwysedig, nid oes ond 7,000 yn cael eu nodi fel rhai heb blygu y glin i Baal.

Y rhybyddion a gawsant eu rhoddi a wnelent y cyflwr ofnadwy yma yn fwy euog. Gwyddai Jeroboam am ba beth y gwrthododd Duw Solomon, ac efe ei hunan a geryddwyd yn fynych gan Ahiah ac ereill. Ymddangosodd y prophwydi Jehu a Micheah, Elias ac Eliseus, o fewn ystod hanner can mlynedd; a gwnaeth y ddau olaf fwy o wyrthiau nag a gyflawnwyd gan un prophwyd er dyddiau Moses a Josua. Yn mhen ychydig flynyddoedd ar ol eu gweinidogaeth faith hwynt, daeth Jonah, Hosea, ac Amos. Cadarnhäwyd holl genadwriaethau y prophwydi yma drwy geryddon Dwyfol. Jeroboam a'i deulu a dòrwyd ymaith, fel hefyd y gwnaethwyd â Baasa a Zimri. Yn ystod y 254 o flynyddau y parhäodd y fonarchaeth, naw o wahanol deuluoedd a feddiannasant yr orsedd, ac y mae braidd y cyfan o'u hanes yn cael ei wneyd i fyny o dywallt gwaed ac annhrefn. Zechariah, mab Jeroboam yr ail, wedi teyrnasiad o chwech mis, a laddwyd gan Salum; ac yntau ei hun, wedi teyrnasiad o un mis, gan Menahem, ei fab a'i ganlyniedydd. Lladdwyd Pecaiah gan Pecah, a rhoddwyd Pecah i farwolaeth gan Hosea; ac y mae y rhan fwyaf o'r drygioni yma yn cael ei briodoli i ymlyniad llygredig wrth weithredoedd ac eilun-addoliaeth eu brenin cyntaf, 1 Bren. 14, 9, 10; 2 Bren. 17, 21—23. *Efe* a dybiai yr ymddygiad hwnw yn hanfodol er sefydlogrwydd ei deyrnas. Yn wir, "y mae ffordd sydd uniawn yn ngolwg dyn, ond ei diwedd hi yw ffyrdd angeu."

Y diffyg ymddiried yn y gallu Dwyfol, a'r diystyrwch ar y gyfraith Ddwyfol, yn mha rai y dechreuodd y drygau yma, a brofasant yn foddion, yn gystal ag yn brif achos dymchweliad y deyrnas. Ceisiodd Pecah gynghrair â Resin o Syria yn erbyn Ahaz o Judah. Bu Pecah ar y cyntaf yn fuddugoliaethus, ac Ahaz, gan efelychu pechod ei gymmydog, a appeliodd am gymhorth at Tiglath-Pileser, mab Pul, brenin Assyria. Efe a ddaeth, ac a orchfygodd yr Israeliaid, gan ddwyn i Media y ddau lwyth a hanner o'r tu hwnt i'r Iorddonen, a gosod y lleill dan deyrnged. Hyn oedd dechreuad y caethiwed, a dylasai gael ei gymmeryd yn rhybydd amserol (738, c. c). Yn mhen deng mlynedd ar ol hyn, am fod So, brenin yr Aifft, yn ofni nerth Assyria, efe a hudodd Hezeciah a Hosea i attal y deyrnged oedd eu blaenoriaid wedi ymrwymo i'w thalu. Y gwrthryfel yma a ddygodd i fyny Salmaneser, mab Tiglath-Pileser, yn nghyd â llu mawr; ac yn y diwedd, syrthiodd Samaria; dygwyd Hosea ymaith i Ninefe, a chyssylltwyd Israel â'r goron Assyriaidd.

Ar ol hyny poblogwyd y wlad orchfygedig gan ymsefydlwyr oddiwrth oror y Tigris a'r Euphrates. Cymmysg-briodasant â'r rhai hyny o'r Israeliaid oeddynt wedi aros ar ol, ac yn y diwedd, cymmerasant yr enw Samariaid. Ar y cyntaf, gwasanaethent "Duw y wlad," ac "addolent eilunod;" ond drwy i Josiah ddinystrio yr allor yn Bethel, a chario yn mlaen ei ddiwygiad hyd y nod i Zabulon, ymorphwysasant mewn cyfundraeth gredöawl oedd yn agos cyn bured ag eiddo yr Iuddewon, er yn llai rheolaidd mewn rhai o'i chyflawniadau. *Ni wyddis* beth a ddaeth o'r deg llwyth. Y mae arferion, defodau, a gwynebpryd cyffelyb i'r eiddynt hwy wedi eu darganfod yn mhob rhan o'r byd. Ymddengys fod llawer o honynt ar amseroedd gwahanol wedi dychwelyd i'w gwlad eu hunain. Cyfeiriai Cyrus ei gyhoeddiad at holl bobl yr Arglwydd (Ezra 1, 1—3), ac y mae rhai o'r defodau cyssylltiedig â chyssegriad y deml yn awgrymu fod gweddillion o'r holl lwythau yn bresenol; tra yr ymddengys fod llawer o Israeliaid wedi ymsefydlu yn Galilea a Peræa yn mhell cyn dyddiau ein Harglwydd (1 Mac. 5, 9—24).

71. Yr oedd tynged Judah yn dra gwahanol. O ugain o freninoedd, yr *oll* wedi disgyn o Dafydd, y rhai a feddiannasent yr orsedd am 388 o flynyddau, enwir chwech o honynt gyda pharch mawr (Asa, Jehosaphat, Uzziah, Jotham, Hezeciah, a Josiah), a chymmeradwyir ereill. Yr oedd amryw o honynt, fodd bynag, yn hynod o ddrygionus; Jehoram, Ahaz, Manasseh, ac Amon, a gyflwynasant addoliad eilunol i'r deml ei hunan, a llanwasant Jerusalem â gwaed.

Cyfeiliornad dinystriol yr Iuddewon, yn wladol a chrefyddol, oedd eu hymgynghreiriad âg eilun-addolwyr, dechreuad yr hwn oedd bydolrwydd a diffyg ymddiried, ac a dueddai i'w cydymffurfio hwynt â'u cymmydogion eilun-addolgar. Gwelsom i Ahaz geisio cymhorth Tiglath-Pileser yn erbyn breninoedd Israel a Syria; ac er iddo, ar y cyntaf, gael ei waredu rhag drwg bygythiedig, etto, mewn gwirionedd, ni dderbyniodd "un cymhorth o gwbl" oddiwrth yr Assyriaid. Canlyniad cyntaf y cynghrair yma oedd talu teyrnged drom, ac effeithiau ereill a ddilynasant yn fuan. Aeth â'r rhan fwyaf o drysor Hezeciah, ac oni buasai cyfryngiad neillduol, buasai yn myned â'i orsedd. Collodd Manasseh ei ryddid drwyddo, a Josiah (yr hwn a deimlai yn rhwymedig i wrthwynebu mynediad Necho yn mlaen tua'r dwyrain i Charcemis) ei fywyd. Dygwyd Joahaz, ei fab, yn gaeth i'r Aifft. Joacim (brawd a chanlynydd Joahaz), yr hwn oedd yn ddyledus i Necho am ei orsedd, a ddiorseddwyd gan Nebuchodonosor. Yn fuan ar ol hyny, diorseddwyd ei fab Jechoniah gan yr un brenin, a chymmerwyd ef i Babilon; a chafodd Sedeciah, ar ol llw difrifol o ymostyngiad, ei wneyd yn frenin yn ei le. Drwy gael ei demtio gan Pharaoh Hophra, ac yn erbyn rhybyddion Jeremiah, efe a wrthryfelodd, yr hyn a ddygodd Nebuchodonosor y drydedd waith yn erbyn Jerusalem. Ar ol gwarchae o ddeunaw mis, y ddinas a gymmerwyd ar hanner nos; rhoddwyd y rhan fwyaf o'r trigolion i farwolaeth, lladdwyd plant Sedeciah, ac efe ei hun (â'i lygaid wedi eu tynu allan) a ddygwyd mewn cadwynau i Babilon. Ar yr amser hwn, neu ychydig fisoedd yn ddiweddarach, Nebuzaradan, cadfridog Nebuchodonozor, a losgodd y ddinas, a ddystrywiodd y deml, ac a ddygodd ymaith y gweddill o'r llestri cyssegredig, a'r rhan fwyaf o'r genedl, ac ni adawodd ar ol ond ychydig o dlodion i drin y tir.

Y mae yn hynod na wnaethwyd un ymdrech i boblogi (*colonize*) y wlad, megys y gwnaethwyd yn achos Israel; cadwodd Rhagluniaeth Duw hi fel hyn yn wag i gael ei hadfeddiannu gan y bobl ar ddiwedd eu caethiwed. Ar ymweliad cyntaf Nebuchodonosor â Jerusalem (606), cymmerodd Daniel a'i gyfeillion ymaith i Babilon; ar yr ail, pan ddygodd ymaith Jechoniah (597), cymmerwyd Ezeciel hefyd; gadawwyd Jeremiah, a phrophwydi ereill y caethiwed, yn y wlad.

72. Wrth gymharu y ffeithiau hyn â phrophwydoliaeth, cawn rhai casgliadau addysgiadol. Yr oedd yr holl ddygwyddiadau a nodwyd allan yn frysiog fel hyn wedi cael eu rhagddywedyd, ac etto, yn mhob un y mae cyflawniad prophwydoliaeth yn cynnwys gwers foesol, ac nid ydyw mewn un achos yn diddymu rhyddid yr oruchwyliaeth ddynol drwy ba un y cafodd ei chyflawnu.

Er enghraifft, y mae Ahiah yn rhagfynegu rhaniad y deyrnas, caethiwed Israel, ac hyd y nod y lle i'r hwn yr oeddynt i gael eu gwasgaru (1 Bren. 14, 15). Rhagfynegir dymchweliad Samaria gan Esaiah, megys y

gwnaethai Hosea, yn nghyd â'r dyddiad; cadwedigaeth Judah, ac, yn y diwedd, ei dinystr gan Babilon, yr hon oedd y pryd hwnw yn deyrnas eiddil a chyfeillgar; y mae y drygfyd yn ddiobaith i Samaria, oblegid yr oedd "Ephraim i gael ei dòri rhag bod yn bobl;" ond nid oedd i fod felly i Judah, oblegid y mae adferiad yn cael ei addaw. Person ac enw yr adferydd, ei wlad, yr hon nid oedd braidd yn adnabyddus y pryd hwnw, y dychweliad yn cael ei ddwyn oddiamgylch drwy ddinystr Babilon, amgylchiadau y gwarchae, adadeiladaeth y ddinas a'r deml—y mae yr holl ddygwyddiadau yma, yn nghyd â llawer iawn ereill, yn cael eu rhagfynegu, a darllenwn yn yr Ysgrythyr am gyflawniad y prophwydoliaethau yma; ond yn mhob achos, y mae y wers foesol a rhyddid yr oruchwyliaeth ddynol yn aros heb eu cyffwrdd. Er enghraifft, nid caredigrwydd i Jeroboam oedd ei appwyntiad ef, ond cerydd i deulu dirywiedig Dafydd; a'r achos uniongyrchol o hono oedd ffolineb Rehoboam, yr hwn a weithredai dan gynhyrfiad nwydau dynol, yn annibynol ar y brophwydoliaeth Ddwyfol. Hawdd canfod y fath gyfnewidiad allasai llinach o freninoedd duwiol yn Israel ei wneuthur yn nhynged y bobl hyny; ond yr oedd dymchweliad olaf ei breninoedd priodol, er wedi ei ragfynegu, yn ganlyniad addas i'w pechodau hwynt; y pechodau hyny, fodd bynag, a geryddwyd yn fynych. Yr oedd y brophwydoliaeth o hyd yn foesol, a'r oruchwyliaeth ddynol o hyd yn rhydd. Rhagfynegwyd methiant ymosodiad Senacherib ar Jerusalem; ac yr oedd yn ganlyniad priodol i'w ryfyg yn "cyfodi yn uchel ei lygaid yn erbyn Sanct Israel" (Esay 37, 23). Gwaredigaeth Hezeciah hefyd, er iddi gael ei rhagfynegu, etto nid ydoedd mewn un ystyr yn llai bendith wedi cael ei rhoddi mewn atebiad i agwedd ostyngedig a gweddïgar. Heblaw hyny, gallasai Judah ac Israel gael eu cospi yn uniongyrchol gan Dduw; ond mewn gwirionedd, goddefir i'r ddwy genedl weithio allan eu cospedigaeth eu hunain. Eu hanufydd-dod hwynt oedd y moddion a ddefnyddiwyd er cyflawniad y gair Dwyfol. Yn holl ranau prophwydoliaeth, fel y mae Davison wedi nodi, yr ydym yn cael "*gallu* goruwch-lywodraethol Duw a *goruchwyliaeth* dyn yn cyduno i gwblhau prophwydoliaethau, a'r cwblhad hwnw yn *amcan moesol*, mewn cydymffurfiad â dedfryd o eiddo y gyfraith Ddwyfol." Yn rhai o hanesion y Beibl, ni chawn ond y cyntaf a'r ail yn unig; megys, pan alwodd Amon, yr hwn oedd dywysog drygionus, ei fab yn Josïah (1 Bren. 13, 2), heb wybod y brophwydoliaeth nes yr ydoedd wedi ei chyflawnu; neu, megys pan roddodd Cæsar Augustus orchymyn, yr hwn a ddygodd Mair i Bethlehem (Luc 2, 4); neu, pan yrodd y waedd "Galilea" gan y lluaws Iuddewig yr Iesu at Herod (Luc 23, 5). Ond yn y prophwydi, yr ydym yn gyffredin yn cael y *tri* yn gyssylltiedig; gallu Dwyfol, goruchwyliaeth ddynol, a'r cyfryw *dueddiadau yn nghalonau* pawb sydd yn dàl perthynas â hwynt, ag sydd yn gwneuthur cyflawniad prophwydoliaethau yn gysson âg egwyddorion llywodraeth foesol Duw. Gall dirgelwch fod yn y ffaith, ond nid ydyw, am hyny, yn llai addysgiadol neu wirioneddol. Am enghreifftiau, gwel 1 Bren. 22, 34; 2 Bren. 9, 34—37, a chyflawniad Jer. 29, 10—15.

73. Gellir trefnu a thalfyru llyfrau y tymmor yma fel y canlyn:—

(1.) 1 Bren. 12—2 Bren. 17 / 2 Cron. 12—31.[a] } Yn rhoddi hanes Judah ac Israel o raniad y freniniaeth hyd gaethgludiad Israel gan Salmaneser: 254 o flynyddau.

[a] Nid ydyw 2 Cron. yn rhoddi ond hanes Judah yn unig, nid oes ugain adnod yn perthyn i Israel; cynnwysa y ddau lyfr lawer o ffeithiau ychwanegol.

JONAH: hanes ei genadiaeth i Ninefe.

JOEL: difrodiad Judah; tywalltiad yr Ysbryd; barnedigaethau yn erbyn amrywiol genedloedd.

AMOS: prophwydoliaethau o berthynas i amrywiol deyrnasoedd ac Israel.

HOSEA: yn rhybyddio Israel; yn rhagfynegu dymchweliad, ac yn cyfeirio at y dyddiau diweddaf.

ESAIAH: amryw brophwydoliaethau a rhybyddion i Israel a Judah; hefyd i amrywiol genedloedd, 1—36; hanes, 36—39; y dychweliad a'r dyddiau diweddaf, o'r 40 hyd y diwedd.

MICAH: prophwydoliaethau i Israel a Judah, ac am y dyddiau diweddaf.

NAHUM: yn fuan ar ol dinystr Samaria, efe a ragfynega ddinystr Ninefe.

(2.) 2 BREN. 18—25. } Yn rhoddi hanes gwanychiad a chwymp brenin-
2 CRON. 32—36. } iaeth Judah, ac o'r caethgludiad gan Nebuchodonosor: 184 o flynyddau.

ESAIAH, NAHUM: gwel uchod.

SEPHANIAH: yn rhybyddio Judah; yn prophwydo yn erbyn amrywiol genedloedd; yn llefaru am y dychweliad a'r dyddiau diweddaf.

JEREMIAH: yn *Jerusalem* a'r Aifft, a rydd brophwydoliaethau am Judah, Israel, ac amrywiol genedloedd, 1—39, 46—50, 40—45, yn hanesyddol yn benaf; nid ei eiddo ef yw 51.

HABACUC: a brophwyda ar y dychweliad ac ar y Caldeaid.

DANIEL: yn *Babilon*, hanes, 1—6; prophwydoliaethau ar amrywiol deyrnasoedd a Christ, 7—9 (10—12; gwel dan 3).

OBADIAH: yn prophwydo am Edom a'r dyddiau diweddaf.

EZECIEL: wrth y *Chebar*, a rydd amryw brophwydoliaethau ar Israel, Judah, cenedloedd paganaidd, a'r dyddiau diweddaf.

(3.) HAGGAI, ZECHARIAH: yn Jerusalem, 536—520, c. c.
DANIEL: 10—12, yn Babilon.
ESTHER: yn Babilon: *Nehemiah*, yn Babilon ac yn Jerusalem, 457—445, c. c.
Yn rhoddi hanes am adferiadau cyd-ddilynol dan Zorobabel (536, c. c.), *Ezra* (457, c. c.); *Nehemiah* (445, c. c.); adadeiladaeth a chwbl orpheniad y deml, gyda phrophwydoliaethau am wahanol deyrnasoedd (Dan.) a'r dyddiau diweddaf.

MALACHI: a gerydda y llygriadau yn y gwasanaeth Dwyfol; a ragfynega ddyfodiad "Elias" a'n Harglwydd, 436—397, c. c.

Taflen o'r Prophwydi, yn dangos pa bryd y prophwydasant.



Y mae y dyddiad ar ol enw pob brenin yn cyfeirio at ddechreuad ei deyrnasiad.—Rhoddir Joel ddwywaith o herwydd ei bod yn ammheüus yn mha dymmor yr oedd yn byw.

Dos. 2. *Natur prophwydoliaeth yn ystod y tymmor yma. Prophwydoliaethau wedi eu trefnu.*

74. Y mae yr ysbryd prophwydol a welsom yn cael ei adfywio yn nyddiau Samuel a Dafydd (Rhan ii., adr. 45) yn dyfod yn fwy gweithgar fyth yn ystod tymmor olaf hanes yr Iuddewon. Yr ydym yn cael un-ar-bumtheg o brophwydi olynol, ysgrifeniadau pa rai sydd yn aros, mewn ychwanegiad at awdwyr rhai o'r Salmau, yn nghyd â'r dosparth mawr a ymddangosasant yn Israel a Judah, megys Elias ac Eliseus, heb adael ar eu hol unrhyw gofnodion parhaus o'u dysgeidiaeth. O'r prophwydi sydd â'u hysgrifeniadau yn gynnwysedig yn yr Ysgrythyr, Jonah, Amos, a Hosea, a anerchasant yr Israeliaid cyn dinystr Samaria, fel hefyd y gwnaeth Esaiah a Micah, er mai i Judah, yn benaf, y prophwydodd y rhai olaf. *Ar ol* caethgludiad y deg llwyth, prophwydodd Jeremiah yn fyr o berthynas iddynt hwy, megys y gwnaeth Ezeciel. Pa fodd bynag, y rhan amlaf o'r prophwydoliaethau ydynt yn perthyn i amgylchiadau Judah, cenedloedd paganaidd, a'r eglwys.

75. Gellir gweled golwg gryno (*synoptical*) ar brophwydoliaethau yr Ysgrythyr yn adr. 76; ac er nad ydyw yn berffaith gywir, etto rhydd ddrychfeddwl priodol o'r pynciau, ac o gydgyssylltiad y cyfan. Yr achos o'i annghywirdeb rhanol, neu, yn hytrach, ei annghyflawnder (*incompleteness*) yw, fod dygwyddiadau rhagfynegedig mewn cyssylltiad mor agos â'u gilydd, a phrophwydoliaethau wedi eu cymmysgu gymmaint âg addysg foesol, fel nas gellir eu gosod yn nghyd ond yn unig yn ol tuedd ac amcan cyffredin pob un. Y mae hyn wedi ei wneuthur, ac y mae y gwersi a ddysgir gan yr olwg yma yn eglur ac yn bwysig.

1. Wrth gymharu y daflen yma o brophwydoliaeth â gwyrthiau yr Hen Destament, gwelir fod y prawf gwyrthiol yn cael ei dynu ymaith fel y mae prophwydoliaeth yn helaethu mewn cwmpas ac eglurder. Cyn dechreuad cyfnod olaf prophwydoliaeth, er enghraifft, yn nyddiau Elias, y mae gwyrthiau yn fynychach mewn cymhariaeth, ond nid oes genym hyd y nod yr amser yma ddim yn gyffelyb i amseroedd Moses a Josua. Yn awr y maent yn peidio. Dadguddiad prophwydol a helaethir, a chan ei fod yn cael ei gyflawniad fel y mae yn helaethu, y mae yn llanw lle pob math arall o brawf. Y fath eglurhad tarawiadol a roddir ar bwysigrwydd anfeidrol yr efengyl, gan y ffaith fod yr holl hen ffurfiau o arbrofion yn cyduno i brofi cenadwriaeth Crist. Efe a gyflawna hen brophwydoliaethau, ac a rodda rai newyddion, tra y mae hyd y nod ei berson a'i fywyd yn ffurfio corfforiaeth (*embodiment*) wyrthiol o allu, doethineb, a chariad.

2. Y mae prophwydoliaeth ar y pwnc o genedloedd paganaidd yn dyfod yn fwy cyflawn yn yr oes y mae y cenedloedd hyny yn ymddangos fel yn buddugoliaethu fwyaf. Yr oedd eu buddugoliaethau, a'r ysbryd ffrostgar ac eilun-addolgar a feithrinid gan y buddugoliaethau yma, yn dwys brofi ffydd gwir gredinwyr, ac yn ymddangos fel yn ysgwyd sylfeini eu crefydd, Sal. 79, 80; Galarnad. Gan hyny, ceryddir balchder y gorchfyg-

wyr, a chadarnhëir ffydd yr eglwys gan gyfres o brophwydoliaethau yn dadgan dymchweliad hyd y nod y cenedloedd hyny y rhagfynegir eu llwyddiant. Gwel brophwydoliaethau Esaiah am amryw genedloedd; eiddo Nahum am Assyria; Habacuc am y Caldeaid; Obadiah am Edom; eiddo Jeremiah, Ezeciel, a Daniel.

3. Y mae ëangiad graddol dadguddiad Dwyfol, nid yn unig fel ag i gynnwys rhes helaethach o bynciau, ond hefyd fel ag i gyrhaedd amrywiol genedloedd, yn hynod o addysgiadol. Cenedloedd yn unig a anerchir gan Jonah a Nahum yn eu prophwydoliaethau *ysgrifenedig*. Cenedloedd yn unig hefyd yw testun prophwydoliaethau Habacuc ac Obadiah; ac yn y rhan fwyaf o'r prophwydi ereill, rhoddir pennodau cyfain iddynt. Nad yw Duw Dduw un lle neu bobl sydd eglur. Llywodraetha ei ragluniaeth dros y ddaear, ac y mae yr holl bobloedd yn ddarostyngedig iddo. Gwir fod cenedloedd paganaidd yn cael eu cyflwyno i brophwydoliaethau yr Ysgrythyr, fel i hanes yr Ysgrythyr, oblegid eu cyssylltiad â'r byd, neu â'r genedl ddewisedig, ond y mae y *wers* yn *aros*. Pawb ydynt o fewn cylch ei lywodraeth ef; ac awgrymir yn eglur fod pawb, cyn hir, i ddyfod yn ufydd i'w gyfraith ef.

4. Nodir hefyd mai cyfnod dadfeiliad a chwymp y freniniaeth dymmorol (eiddo Israel a Judah) yw y cyfnod dewisedig i roddi dadleniad llawnach ac eglurach o deyrnas newydd ac ysbrydol. Fel y mae yr oruchwyliaeth gyntaf yn ymddangos megys yn prysuro ymaith, gwrthddrychau ac addewidion yr ail a roddir i fyny ger ein bron. Yr holl brophwydi sydd yn llefaru am y dinystr, a llefarant hefyd am yr adferiad; a chymmysgant â'r adferiad fendithion rhagfynegedig o fath na fu y byd erioed etto yn eu meddiannu. Y drefn yma a eglur ddengys annghyfnewidioldeb y cynghor Dwyfol. A gwna fwy nâ hyny. Gesyd allan drugaredd Ddwyfol. Rhaid fod prophwydoliaeth a dygwyddiadau diweddar yn cynnyrchu y dyryswch mwyaf yn nghalon Iuddew duwiol o dan oruchwyliaeth a addawai fendith dymmorol fel arwydd o'r ffafr Ddwyfol. Yr oedd yr holl ymweliadâu bygythiedig a gweithredol yn cael eu haeddu; ond nid oedd efe yn cael unrhyw esmwythder yn y ffaith hono. I esmwythâu cynhyrfiadau ei ffydd gystuddiedig, rhoddwyd i fewn y prophwydoliaethau efengylaidd. Drwy eu cyfrwng hwynt, anfonwyd gobeithion yr eglwys yn mlaen i'r dyfodiant pell, a chafodd ammheuon presenol eu llonyddu. Gan hyny, megys ar y cyntaf, y goleuai prophwydoliaeth dywyllwch ein natur syrthiedig, felly y mae yn awr yn goleuo tywyllwch gras wedi ei gamddefnyddio, neu ei esgeuluso. Pa faint o angen y cysur hwn oedd ar hyd y nod y prophwydi ysbrydoledig, a welir oddiwrth Alarnad Jeremiah, ac oddiwrth amryw o'r Salmau, Sal. 79, 4, 9; 74, 2, 20.

Yn y cyfamser hefyd, y mae ysbrydolrwydd gwir grefydd, a natur y gwaith hwnw ar ba un y mae yn seiliedig, yn cael eu dadlenu yn fwy eglur. Dyga y prophwydi allan wir feddwl yr hen gyfraith, gan roddi pwys ar isafiaeth addoliad defodol (*ritual*), gan ragddangös gydag eglurder gwir efengylaidd aberth mawr y groes, y Ddwyfol natur, a llywodraeth ganlynol y dyoddefydd, Esay 53; Dan. 9. Ystyriaeth effeithiol yw, fod y dadguddiad eglur yma o ysbrydolrwydd wedi cael ei wneyd ar amser pan yr oedd pob sefydliad crefyddol cyhoeddus yn llygredig, ac wedi i'r deml ei hun gael ei dinystrio.

5. Y mae y wers hynotaf etto yn aros. Tra mae yn agos yr oll o'r prophwydi yn cyfeirio at yr efengyl a theyrnasiad ein Harglwydd, y mae pob un yn llefaru mewn iaith sydd ar unwaith yn briodol a neillduol. Y maent oll yn rhagfynegu dyfodiant gogoneddus, a'r un dyfodiant gogoneddus; ond yr ymadroddion yn mha rai y rhagfynegant am dano ydynt wedi eu cymmeryd naill ai oddiwrth ddrygfyd bygythiedig, neu ddaioni myfyriedig. Y dyfodol sydd naill ai yn wrthgyferbyniol i ddrygfyd presenol, neu yn derfyniad bendith bresenol. Er enghraifft, y mae Joel yn rhagweled goresgyniadau annghyfanneddol Judah, ond yn y diwedd golygfa yr annghyfannedd-dra yw yr Aifft ac Edom; tra mae Judah yn cael trigo byth, a Jerusalem o genedlaeth i genedlaeth, 3, 19, 20. Rhagwela Amos ddymchweliad Samaria a Seion; ond y tu hwnt i'r drygau yma, y mae yn gweled golygfa wahanol. "Yn y dydd hwnw y codaf babell Dafydd, yr hon a syrthiodd, ... ac a'i hadeiladaf fel yn y dyddiau gynt," 9, 11. A'r cyfryw yw cymmeriad yr holl brophwydoliaethau hyd derfyn y caethiwed. Adferiad yn llythyrenol yw y pwnc cyntaf, ond y prophwydoliaethau sydd yn ei rhagfynegu a fenthycant oddiwrtho ymadroddion wedi eu bwriadu i osod allan ogoniant y dyddiau diweddaf.

Ar ol y caethiwed, adeiladaeth y deml yw testun blaenaf rhagfynegiadau ysbrydoledig. Rhagfynega Haggai ei gogoniant dyfodol, 2, 6—9; ac, o dan y cysgod o Zorobabel, dengys fuddugoliaethau ein Harglwydd, 2, 21—23. Y mae Zechariah yn rhagfynegu ei chwblhad, 1, 16, 17; a thrwy y weithred arwyddluniol o goroni Josua yr offeiriad, cyssyllta â'r gwaith hwn ddyfodiad yr hwn a elwir Blaguryn (Esay 4, 1; 11, 1; Jer. 23, 5), yr hwn a adeilada deml yr Arglwydd, ac a ddyga y gogoniant, 6, 10—15. Ymddengys Malachi etto *ar ol* adeiladaeth y deml. Yr hyn oedd yn angenrheidiol y pryd hwnw oedd addoliad didwyll, ac offeiriadaeth santaidd, 1, 10, 11; 3, 10. Y mae efe, gan hyny, yn rhagfynegu cyfammod newydd, a dyfodiad cenad, yr hwn a bura feibion Lefi; fel y byddo offrwm Judah a Jerusalem yn "felus gan yr Arglwydd, megys yn y dyddiau gynt," 3, 4. Yma, gan hyny, megys mewn lleoedd ereill, cymmera prophwydoliaeth ei hymadroddion oddiwrth gyflwr y bobl a anerchir ganddi. Rhagfynega fendith gynnar, ac mewn ymadroddion sydd yn gwneuthur y fendith yma yn wystl ac yn gysgod o fendithion anfeidrol cyfoethocach sydd i'w tywallt yn y dyfodiant pell. Awgrymir rheolau dehonglyddol pwysig gan y ffaith yma.

76. Golygiad Taflenol o'r Prophwydi, yn dangos

Rhanau sydd benaf yn	Jonah, c. 840–784.	Amos, 810–785.	Hosea, 800—725.	Esaiah, 765—698.	Joel, 810–795.	Micah, c.c. 758—699.
Foesol, Addoliadol ..	..	..	..	25—27, 11 ..	..	..
I Israel	..	2, 8.	4—13.	9, 8—21; 28 ..	..	2; 4, 6.
I Judah	..	..	4—15, &c.; 12, 2.	1—5; 22, 8, &c.; 29; 30.	1, 8. 2, 12.	
Hanesyddol	1—4.	..	..	36—39.	..	..
Prophwydol (a)—						
Israel	..	2–9, 10	3. 5, 8–6, 3.	7, 1—25; 8; 9–8; 15, 11 14, 24–28; 17.	..	1.
Judah	..	1, 2, 4, 5	..	22, 1; 24; 52. 8,5—9.	1; 2. 27.	7.
Assyria, Ninefe	3, 4.	..	..	9; 14; 30; 31 ..	..	..
Babilon, Chaldea	..	..	..	13; 14, 24—28; 21.	..	..
Aifft	..	..	..	19; 20.	..	..
Ethiopia	..	..	..	18.	..	..
Edom	..	1, 11.	..	21, 11.	..	..
Moab	..	2, 1.	...	15; 16.	..	..
Syriaid	..	1, 1, 3, 5	..	7, 1—9; 8; 17..	..	..
Tyrus	..	1, 9.	..	23.	..	..
Cenedloedd ereill	..	Ammon, 1; Philistia, 1.	..	Arabia, 21, 13, &c.	..	..
Prophwydol (b)— *Dyfodiad cyntaf* ein Harglwydd	1, 17.	..	11,1; 13, 14.	7, 14; 9; 40—63.	2, 28.	5.
Dygwyddiadau canlynol, pa le—	..		..	.. ..	..	...
Enwir Israel ..	..	9, 11–15.	13, 14 1, 10; 2, 14. 23 3, 5	28,5; 10. 20, &c. 8.	10–12.	2, 12
Judah	..	..	14.	22, 20; 24, 14, &c.; 9; 1—5; 27—35.	40. i 66.	2, 28–3. 4, 5
Cenedloedd	..	9, 12. Gwel Act. 15, 17.	..			7.
Dychweliad yr Aifft	..	..	..	19, 18—23.		
Assyria, etto ..	..	..	..	19, 23—25.		
Adferiad Moab ..	..	..	..	.. ..	..	..
,, Elam ..	..	..	..	.. ..	..	..

trefn a phrif bynciau eu prophwydoliaethau.

Nahum, 720—698.	Sephaniah, 640—609.	Jeremiah, 628—585.	Habacuc, 612—598.	Daniel, 606—534.	Obadiah, 588—583.	Ezeciel, c. c. 595—536.	Haggai, 520—518.	Zechariah, 520—510.	Malachi, 436—397. c. c. 420.
..	..	Galar. 1—5. ..	3						
..	..	.. ..	..	..	..	..	1; 2, 10—19	1, 1-7; 7.	1; 2; 3, 7—18.
..	..	28; 29; 32 .. 1—25; 36—43, 7; 52.	..	1, 6.					
..	..	30; 31.							
..	1.	1—25; 27; 29; 30—31. 26; 33; 34; 44; 46; 26; 50.	1.	9.	..	9—24; 33; 36; 37; 39—48?	..	1, 7—7; 11.	
1—3	2, 13.	... ..	..	..	..	31, 3—18.			
..	..	25, 12; 37; 50; 51.	2.	2, 36; 4, 19; 5, 25.					
..	..	43; 44, 29; 46, 50.	..	..	..	29—31.			
..	2, 12.	.. ..	..	..	..	30, 4—6.			
..	..	49, 7; Galar. 4, 21.	..	..	1.	25—35.			
..	2, 9.	48	..	..	..	25.			
..	..	49, 23							
..	..	.. ..	..	..	..	26—28.			
..	Ammon, 2; Philistia, 2.	Ammon, 49; Philistia, 47; Arabia, Persia, 49.	..	Persia, Grecia, Rhufain, 11; y pedair breniniaeth. 7.	..	Ammon, 21, 28; 25; Philistia, etto; Gog, 38; 39.			
..	..	31, 22; 30. ..	..	9, 24—26; 7, 13.		34, 23, &c.	2, 7, 9.	2, 10, 11; 9, 9; 11, 12; 12, 10; 6; 13; 1, 7.	3; 4, 1—3;
..	..	.. ..	..	7; 12.					
..	..	30; 33; 31; 23, 5.	..	..	17—21.	6. 10. 39. 23. &c.			
..	3, 8-20	3, 13	..	..		28; 29, 21; 36, 25; 34, 20, 21, 40—48.	2, 6, 7	1, 7-7; 8—14.	3, 4.
..	..		..	7—12.	..	..			
..	..	48, 47.							
..	..	49, 39.							

Dos. 3. *Llyfrau Jonah, Joel, Amos, Hosea, Esaiah, Micah, a Nahum.*

Llyfr Jonah (c. c. 840—784).

77. Jonah a ganlynodd Eliseus fel cenad oddiwrth Dduw at y deg llwyth, a blodeuodd rhwng 120 a 180 o flynyddau wedi marwolaeth Solomon. Mae yn debyg ei fod yn byw yn nheyrnasiad Joahaz, pan oedd Hazael yn cyflawnu prophwydoliaethau Eliseus, 2 Bren. 8, 12: 10, 32. Rhagfynegodd helaethiad tiriogaeth a byr-lwyddiant Israel dan Jeroboam yr ail, yn nheyrnasiad yr hwn, mae yn debyg, yr oedd y prophwyd ei hunan yn byw, 2 Bren. 14, 25. Brodor ydoedd o Gath-hepher, yn Zabulon neu Galilea, ac y mae fel hyn yn brawf o anwiredd y Phariseaid, na chododd prophwyd o Galilea, Ioan 7, 52. Nid oes ammheuaeth nad efe yw yr henaf o'r prophwydi sydd a'u hysgrifeniadau wedi dyfod i lawr i ni.

Hanes syml yw y llyfr yma, gyda'r eithriad o pen. 2, a mynega i Jonah gael ei anfon ar genadwriaeth i Ninefe (yr hon y pryd hwnw oedd brif ddinas y byd cenedlig, ac yr oedd yn hynod am ei gogoniant, yn gystal ag am ei drygioni), ac iddo amcanu ffoi i Tarsis; ond iddo gael ei oddiweddyd gan ystorom, ei fwrw i'r môr, ei lyncu gan bysgodyn mawr, ac iddo aros yn ei fôl am dri niwrnod (pen. 1); pan, drwy weddi daer at Dduw, y mae yn cael ei waredu, pen. 2. Ar adnewyddiad gorchymyn Duw, y mae yn myned i Ninefe, ac yn cyhoeddi eu dinystr; y mae y Ninefeaid yn credu ei air, yn ymprydio, yn gweddio, ac yn edifarhau, ac yn cael eu harbed yn rasol, pen. 3. Yn ofni cael ei gyfrif yn brophwyd gau, y mae Jonah yn cwyno yn rwgnachlyd yn erbyn trugaredd Duw, ac yn ewyllysio marw. Gadawa y ddinas, a chysgodir ef gan gicaion, yr hwn, fodd bynag, sydd yn gwywo yn fuan; ac yn nghanol ei rwgnachrwydd a'i wrthryfel, dysgir i Jonah oddiwrth ei ofal o berthynas i'r cicaion briodoldeb trugaredd Duw i'r Ninefeaid, pen. 4.

Y mae yn amlwg nad yw y llyfr hwn yn ddim ond adroddiad hanesyddol, nid yn unig oddiwrth ystyr eglur yr iaith a ddefnyddir, ond hefyd oddiwrth y modd y mae bodoliaeth a gweinidogaeth Jonah, yn nghyd â phrif ffeithiau ei hanes, yn cael cyfeirio atynt gan ein Harglwydd (Math. 12, 39—41: 16, 4: Luc 11, 29, 30), yr hwn sydd yn cydnabod ei swydd brophwydol, fel y gwna âg Elias, Esaiah, a Daniel, ac yn gosod allan ei fodoliaeth yn môl y pysgodyn fel ffaith wirioneddol; fel ffaith, y mae hefyd yn sylfaenu arni y sicrwydd o ddygwyddiad cyffelyb yn ei hanes ei hunan; ac wedi nodi pregethiad y prophwyd yn Ninefe, ac edifeirwch y trigolion, y mae yn terfynu drwy ddywedyd, "Wele, un mwy nâ Jonas yma."

Gan yr ystyrir mai Jonah ei hunan oedd yr awdwr (penderfyniad a gadarnhëir gan ieithweddau Chaldaeg y gwreiddiol), y mae yr hanes am bechod y prophwyd yn rhoddi eglurhad arall ar y gofal manwl am wirioneedd sydd yn hynodi y gyfrol ysbrydoledig.

Y gwersi ysbrydol yn yr hanes yma ydynt yn dra addysgiadol. Y mae y prophwyd yn ei berson ei hunan yn arwydd prophwydol o Grist. Ei waredigaeth wyrthiol o'i dri diwrnod o farwolaeth "yw y cysgod agosaf a chyflawnaf a geir yn yr holl Ysgrythyr o Grist yn gorwedd yn y bedd" (Cradock).

Y darlun cyntaf, gan hyny, a gyfarfyddwn yn agoriad y canon prophwydoliaethol sydd un a ddengys allan, er yn wanaidd, y ffaith fawr o adgyfodiad ein Harglwydd (Davison).

Dengys yr holl hanes hefyd y gwrthgyferbyniad egluraf rhwng tirion-deb trugaredd Duw a gwrthryfel, grwgnachrwydd, a hunanoldeb ei was; ac hefyd rhwng y parodrwydd gyda pha un yr edifarhäodd y Ninefeaid wrth bregeth prophwyd a ymwelodd â hwynt fel dyeithr-ddyn, a'r modd yr ymddygodd yr Israeliaid at weision Jehofah, y rhai oeddynt yn byw ac yn llafurio yn eu plith.

Gallai y llyfr wasanaethu i ddysgu i bobl Israel nad oedd y tosturi a'r ffafr Ddwyfol yn gyfyngedig iddynt hwy yn unig, ond eu bod yn cael eu hestyn at ddeiliaid ereill o lywodraeth Duw, ac ar yr un pryd i arwyddo iddynt hwy eu tynged uchel o ddwyn y newyddion am iachawdwriaeth i'r byd paganaidd, ac i gadw i fyny ddysgwyliad am y cyfnod dedwydd hwnw, pan fyddo edifeirwch a maddeuant pechodau yn cael eu pregethu yn enw Crist yn mhlith yr holl genedloedd. Os nad ydyw yr hanes yn gysgod ffurfiol, y mae yn siampl sylweddol o anianawd (*genius*) yr efengyl.

Y llyfr a gyflwyna i bawb gefnogaeth i ymostyngiad a gweddi, i ffyddlondeb mewn cyhoeddi gair Duw i'r euog, ac i ymroddiad trylwyr i'w ewyllys ef.

Llyfr Joel, c. c. 810—795.

78. Nid oes genym yn y Beibl ddim o hanes personol Joel, ac nid yw traddodiad yn rhoddi llawer o oleuni o berthynas iddo. Mab ydoedd i Pethuel (Joel 1, 1), a dywedir ei fod o lwyth Benjamin. Cesglir oddiwrth ei ysgrifeniadau ei fod yn byw yn Judah, nid yn ddiweddarach mae'n debyg nâ theyrniasiad Uzziah, yr hon a gyrhaeddodd o 810 c. c. hyd 758 c. c.; oblegid pan noda efe elynion ei wlad, y mae yn enwi y Phœniciaid, y Philistiaid, yr Idumeaid, a'r Aifftiaid, pen. 3, 4—19; ond nid ydyw yn gwneyd un cyfeiriad at yr Assyriaid a'r Babiloniaid; yr hyn mae yn debyg fuasai yn ei wneuthur, pe buasai y ddwy amherodraeth yma yn ei amser ef yn beryglus i'r Iuddewon. Heblaw hyny, awgryma yr holl lyfr fod y prophwyd yn byw mewn adeg pryd nad oedd pobl Israel wedi myned i'r eithafion hyny o lygredigaeth, yr hwn, mewn amseroedd diweddarach, a dynodd i lawr arnynt y fath geryddon trymion. Yr oedd Uzziah yn wir wedi dechreu ymgryfhau yn ei galon, 2 Cron. 26, 16; ond hyd etto ymddengys fod y drygioni yn bwnc prophwydoliaeth yn hytrach nag yn bwnc o hanes, er ei fod yn cael ei roddi mewn ffurf hanesyddol. Yr oedd yn gydoeswr a Hosea ac Amos; ac fel yr anerchent hwy *Israel*, yr anercha efe *Judah*.

Yn y bennod gyntaf (1—2, 11), y mae y prophwyd, yn y modd mwyaf grymus ac argraffiadol, yn darlunio difrodiad cyfagos, byddinoedd cyddilynol o locustiaid (1, 4), a sychder llosgedig (ad. 18, 19), gan osod allan yn y ffurf yma, mae yn debyg, y drygau a ganlynent oresgyniadau dyfodol.

Wedi hyny, annoga i edifeirwch, ympryd, a gweddi (2, 12—17), gan addaw symudiad y drygau yma, a bendithion efengylaidd cyfoethog. Rhagfynega yn yr ymadroddion egluraf dywalltiad yr Ysbryd Glân (2, 18—31; Act. 2, 1—21; 10, 41), a dinystr Jerusalem; rhoddir y brophwydoliaeth yma gyda'r fath rym, fel y mae, i ryw fesur, yn ddarluniadol o'r farn ddiweddaf (2, 30; Math. 24, 29).

Yn pen. 3, rhagfynega gynnulliad y cenedloedd i ddyffryn Barn yr Arglwydd (Jehosaphat), a'u dinystr, sefydliad Jerusalem fel dinas santaidd,

a'r cyflwr gogoneddus o heddwch a llwyddiant oedd i'w fwynhau gan yr eglwys yn nyddiau y Messiah.

Ei ieithwedd sydd yn hynod o eglur a dillyn; heb fod yn dywyll ond yn unig tua'r diwedd, lle y cysgodir ei cheinion gan gyfeiriadau at ddygwyddiadau ydynt etto heb eu cyflawnu. Y dinystr deublyg a ragfynegir yn pennodau 1—2, 11, y cyntaf gan y locustiaid, a'r ail gan y gelynion i ba rai yr oeddynt hwy yn rhagflaenoriaid; y mae y ddau yn cael eu gosod allan mewn ymadroddion cymhariaethol, a hynod o gyfaddas i gymmeriad deublyg y desgrifiad (Gray).

Yr oedd Joel yn cael ei ddàl mewn parch mawr gan yr hen Iuddewon, a dyfynir ef gan Pedr a Phaul, Act. 2: Rhuf. 10, 13.

79. Gellir ychwanegu fod amrywiaeth golygiadau yn bodoli o berthynas i ystyr y desgrifiad a roddir yn pennodau 1—2, 12.

Rhai a gymmerant y cyfan yn llythyrenol, ac a'u cymhwysant naill ai at y newyn a'r sychder, am yr hwn y llefara Amos, 4, 7, 8, neu at y saith mlynedd newyn a annghyfanneddodd Judea yn nyddiau Joram, 2 Bren. 8, 1—3. Edrycha ereill ar y desgrifiad fel yn ffigurol, ac a'i cymhwysant at y rhuthrgyrch (*invasion*) gan Tiglath-Pileser, Salmaneser, Sennacherib, a Nebuchodonozor, neu at ddarostyngiad y wlad gan yr Assyriaid, y Persiaid, y Groegiaid, a'r Rhufeiniaid. Ereill, megys Olshausen, a gyssylltant y golygiadau yma, ac a'u hystyriant fel desgrifiad o ddrygfyd cyffredinol agos, yn llythyrenol a ffigurol. Eglur yw fod y "Locust" yn cael ei ddefnyddio yn yr Ysgrythyr gyda'r cyfeiriad deublyg yma (gwel arwyddion, *symbols*); ac yn yr ail bennod, ymddengys fod ymadroddion yn cael eu defnyddio mewn ystyr ddeublyg, megys y defnyddiwyd ymadroddion cyffelyb ar ol hyny gan ein Harglwydd, Math. 24, gan gyfeirio at ymweliad boreuach, ac un dyfodol a therfynol. Yn wir, fel y mae gwaredigaethau mawr a Dwyfol yn rhagddangos gwaredigaeth y Groes, felly y mae pob ymweliad barnol yn ein cynnysgaethu â ffigurau er desgrifio y Farn ddiweddaf.

Llyfr Amos, c. c. 810—785.

80. Ymddengys fod Amos yn cydoesi â Hosea, ac fel yntau, wedi cael ei anfon at y deg llwyth. Prophwydodd y ddau yn ystod teyrnasiad Uzziah a Jeroboam yr ail, a gwelodd Amos ei weledigaeth gyntaf "ddwy flynedd o flaen y ddaeargryn," yr hon a ddygwyddodd, fel y dysgwn oddiwrth Zechariah, yn nyddiau Uzziah (Zech. 14, 5, gwel hefyd Esay 5, 25).

Ymddengys iddo brophwydo yn Bethel (7, 10—13), ond nid oedd yn perthyn i deyrnas Israel, gan ei fod yn drigianydd, ac, fe allai, yn frodor, o Tecoa, dinas a safai i'r deau o Jerusalem, ar derfynau tir porfa helaeth ("anialwch") mynydd-dir Judah. Bugail ydoedd wrth ei alwedigaeth, a chasglydd ffigys gwylltion (7, 14): "Nid prophwyd, na mab i brophwyd;" hyny yw, nid un wedi ei ddwyn i fyny i'r swydd hono, ond wedi ei alw drwy gommisiwn anwrthwynebol Duw (3, 8: 7, 15) i brophwydo i Israel. Cyfeiria at y ffaith yma pan gyhuddid ef gan Amaziah, yr offeiriad eilunaddolgar yn Bethel, o ymgynghreirio yn erbyn Jeroboam. Dylasai ei alwedigaeth flaenorol symud ymaith bob drwgdybiaeth o gyssylltiad gwleidiadol â thŷ Dafydd, ac eglura i ni y gras sydd yn dewis ei weinidogion "o bebyll y bugail, yn gystal ag o balas y brenin," gan addasu pob un i'r dyledswyddau i ba rai y gelwir ef: gwel 1 Cor. 1, 27, 29.

Llefara Amos am dano ei hunan fel awdwr y prophwydoliaethau yma (7, 8; 8, 1, 2), a sefydlir ei gymmeriad prophwydol gan dystiolaeth Stephan, y merthyr cyntaf, a Iago (Act. 7, 42, 43; 15, 15—17), a chan gyflawniad manwl ei brophwydoliaethau. Nodir y llyfr hwn yn yr holl gofrestri boreuol o'r awduron canonaidd (gwel Rhan i., adr. 160).

Y mae ieithwedd Amos yn syml, ond nid ydyw mewn un modd yn ddiffygiol mewn prydferthwch darluniadol. Gellir casglu ei ddull o fyw oddiwrth yr egluriadau a ddewisa, y rhai, gan mwyaf, ydynt wedi eu cymmeryd oddiwrth alwedigaethau gwledig (*rural*); llawer o honynt ydynt yn wreiddiol a tharawiadol, tra y maent oll yn meddiannu bywyd a hoender natur. Ei wybodaeth am ddygwyddiadau perthynol i'r hen amseroedd (9, 7), ac am ereill mwy diweddar, na chofnodir mewn un man arall (6, 2), rhediad rheolaidd ei feddyliau, a chywirdeb ei iaith, ydynt oll yn tueddu i ddangos fod galwedigaeth bugail, er yn un gyfrifol, ac, yn aml, yn beryglus (3, 12), yn ffafriol i ddiwylliad meddyliol, fel yn nyddiau Moses a Dafydd.

Yr oedd pobl Israel yn awr yn prysur lenwi i fyny mesur eu hanwiredd. Cenadwriaeth Amos, gan hyny, oedd bwgwth yn hytrach nâ chysuro. Yn mhlith pethau ereill, cerydda lygredigaeth eu harferion, yr hwn oedd yn cadw i fyny gyda'u llwyddiant. Cyhudda ddynion uchel o bleidgarwch fel barnwyr, a gormes tuag at y tlawd; ac y mae yn rhagfynegu caethgludiad y deg llwyth i wlad estronol, fel cospedigaeth oddiwrth Dduw, prophwydoliaeth a gyflawnwyd yn mhen oddeutu triugain mlynedd wedi hyn, pan ddinystriodd Salmaneser, brenin Assyria, y deyrnas.

Dechreua y llyfr hwn drwy gyhoeddi barnedigaethau Dwyfol yn erbyn y taleithiau o amgylch Judea[a] (1, 2). Yna gesyd y prophwyd, gyda manylwch, eu pechodau o flaen yr Ephraimiaid; yr hyn a wnaeth Duw er eu dychwelyd ato ei hunan; a'r cospedigaethau oedd yn nghadw iddynt am eu cyndynrwydd (3—6,). Canlynir hyn gan weledigaethau arwyddluniol, yn arddangos cospedigaethau dilynol oedd i ddisgyn ar yr Israeliaid, a phob un yn drymach nâ'r un flaenorol. Cyhoeddir sicrwydd dyfodiad agos eu dinystr (8, 9—14). Ond heblaw y drygfyd hwn, awdurdodir y prophwyd i ragfynegu pethau newyddion yn y dyfodiant pell. A therfyna drwy roddi sicrwydd na fydd i Dduw gwbl ddinystrio tŷ Israel; ond y byddai iddo, ar ol ei ogrynu a'i lanhau yn mysg y cenedloedd, ei gyfodi i fyny etto i fwy gogoniant nâ'i un blaenorol, yn nheyrnas y Messiah (9, 11—15). Y mae y cenedloedd i gyfranogi o fendithion y deyrnas hon (gwel Act. 15, 16, 17).

Llyfr Hosea, c. c. 800—725.

81. Hosea, yn dra thebyg, oedd yn frodor a phreswylydd o Israel. Bu fyw yn ystod teyrnasiad chwech neu saith o'i breninoedd olaf, o Jeroboam II. i Hosea, cyfnod o yn nghylch triugain mlynedd. Yr oedd yn gydoesydd ag Esaiah, er iddo ddechreu prophwydo ychydig amser o'i flaen ef (Esa. 1, 1; Hos. 1, 1).

Prophwydoliaethau Hosea ydynt wedi eu cyfeirio braidd yn gyfangwbl at y deg llwyth. Anercha hwynt dan yr enwau Israel, Samaria, yr hon, er dyddiau Omri, oedd eu prif-ddinas; Ephraim, yr enwocaf o'r llwythau, i'r hwn y perthynai Jeroboam, eu brenin cyntaf. Yr eilun-addoliaeth a ddechreuwyd yn ei ddyddiau ef yn Dan a Bethel oedd yn awr wedi parhau am fwy nâ 150 o flynyddau, ac wedi gwasgaru drygioni yn mhob ffurf yn

[a] A gyflawnwyd yn muddugoliaethau Assyria a Babilon.

mhlith pob dosparth. Y cyfnod byr diweddaf o lwyddiant allanol o dan Jeroboam II. a ganlynwyd yn fuan gan wrthryfel a dadfeiliad cyffredinol. Yr oedd y breninoedd a'r tywysogion yn anfadiaid ac yn llofruddwyr (7, 3—7); yr offeiriaid eilun-addolgar oeddynt wedi gwasgaru eu gwleddoedd atgas, a'u horaclau twyllodrus, dros yr holl dir (4, 12—14; 10; 12; 13, 2); y pleidiau uchel yn y wladwriaeth a dröent am gymhorth, weithiau i Assyria, a phrydiau ereill i'r Aifft (2 Bren. 15, 19; 17, 4); tra yr oedd yr holl genedl yn gyffredinol yn pwyso ar gymhorth dynol (5, 13; 7, 8—12; 8, 9, 10; 10, 13); canlynid amcanion bydol a phechadurus gan Ephraim gyda'r un awydd a'r Canaaneaid (12, 7, 8); yr oedd diogelwch diofal wedi dallu pob meddwl (5, 4; 12, 8); gan roddi lle mewn tymmor o berygl i edifeirwch y gwefusau yn unig (7, 16); a gwreiddyn yr holl ddrygau ereill oedd, fod Duw a'i air yn cael eu hannghofio (4, 1—6; 8, 12.)

Y prophwyd, yn y modd dwysaf, a gondemnia y cyflwr yma, gan ddefnyddio y cymhariaethau tarawiadol oddiwrth odineb i geryddu eu heilun-addoliaeth—cymhariaethau a gynnwysant droseddiad ar gyfammod difrifol, yn nghyd âg ysgariaeth serchiadau y bobl oddiwrth Dduw. Eglurwyd y gwersi yma yn llofruddiad pedwar o freninoedd olynol, ac yn annhrefniadau cyffredinol y deyrnas.

Parhäwyd y rhybyddion a'r appeliadau yma am driugain mlynedd, ond yn ddilwyddiant: siampl ddysglaer o ffyddlondeb dyfal-barhäol yn wyneb yr annghefnogaethau mwyaf.

Gan fod Hosea yn y prophwydoliaethau yma yn llefaru yn y person *cyntaf* (3, 1, 2, 3), diammeu iddynt gael eu casglu ganddo ef ei hunan. Cynnwysant lawer o ragfynegiadau pennodol, a'r rhai hyny wedi eu cyflawnu yn llythyrenol; a dyfynir y llyfr gan Matthew, gan Paul, a chan ein Harglwydd, Math. 2, 15: Rhuf. 9, 25, 26: 1 Cor. 15, 35: Math. 9, 12, 13: 12, 7.

Wrth ystyried y cyfnod hirfaith drwy ba un y cyrhaeddodd gweinidogaeth Hosea, gallai ymddangos yn rhyfeddol fod ei ysgrifeniadau yn cael eu cynnwys mewn cylch mor fychan; ond rhaid cofio, megys yn achos ereill o'r prophwydi, nad oes un rheswm i dybied fod y llyfr hwn yn cynnwys y cyfan a fynegwyd ganddo. Ni chofnodir o'i gyflwyniadau ysbrydoledig ond y rhanau hyny yn unig y gwelodd yr Ysbryd Glân yn addas eu cadw er lles yr Iuddewon a'r byd.

Y mae iaith Hosea i ni yn nodedig o anhawdd. Ei ieithwedd sydd hynod o gryno a swta, a gorlawn o ffigurau a chymhariaethau, a'r rhai hyny yn aml wedi eu mawr gydgymmysgu; a'r symudiadau o un pwnc a ffigur i un arall ydynt yn aml a disynnwyth. Anfynych y mae yr achlysuron neillduol ar ba rai y cafodd ei brophwydoliaethau eu cyhoeddi, ynddynt eu hunain yn eglur, ac ni nodir hwynt gan yr awdwr un amser. Rhai rhanau o honynt, fodd bynag, ydynt yn hynod gyffröus, bywiog, ac arddunol.

Y mwyaf nodedig o'i brophwydoliaethau yw y rhai lle y rhagfynega gaethgludiadau a dyoddefiadau Israel;[a] gwaredigaeth Judah oddiwrth Senacherib, darlun o iachawdwriaeth drwy Grist;[b] cospedigaeth Judah a'i dinasoedd;[c] sefyllfa bresenol yr Iuddewon;[d] eu dychweliad dyfodol, a'u huniad

[a] 5; 5—7; 9, 3, 6—11; 10, 5, 6, 15; 13, 16.
[b] 1, 7; cymharer 2 Bren. 19, 35. [c] 5, 10; 8, 4. [d] 3, 4.

â'r cenedloedd dan y Messiah;[a] a galwad ein Ceidwad o'r Aifft;[b] tra y mae prynedigaeth olaf ei bobl oddiwrth angeu a'r bedd yn cael ei fynegu mewn ymadroddion uchelawg.[c]

Nid yw yr holl brophwydoliaethau yma yn gyfartal mewn eglurdeb; ond nis gall dim ragori ar rediad efengylaidd y rhan amlaf o honynt. Y prophwydoliaethau hyn ydynt, yn y gwreiddiol, wedi eu cymmysgu â ffurf ymadroddol sydd yn dra chyffelyb i eiddo yr hen gyfraith (Hengstengberg).

Pennodau 6, 13, 14, ydynt yn dra chyfoethog o fynegiadau a dueddant i gynhyrfu y teimladau hyny o edifeirwch a ffydd sydd yn gweddu y Cristion a'r eglwys yn mhob oes.

Gellir dosparthu y llyfr hwn i ddwy ran, yn cynnwys, yn 1af, Hanes arwyddluniol (*symbolical*), pen. 1—3; ac, yn 2il, Traethiadau prophwydoliaethol, pen. 4—14.

1. Rhydd y rhan gyntaf arddangosiad arwyddluniol o hanes pobl Dduw am yr amser a aeth heibio, y presenol, a'r dyfodol. Darlunia eu mabwysiad, eu gwrthryfel a'u troion anffyddlawn, eu cerydd a'u gwrthodiad, derbyniad y cenedloedd i mewn, ac edifeirwch a dychweliad dyfodol Israel. Y tair pennod yma ydynt dalfyriad o'r holl lyfr; a'r addewidion grasol a gynnwysant, y rhai nid ydynt yn cael eu nodi yn y saith pennod ganlynol, a ailymddangosant yn yr unfed-ar-ddeg, ac a ddiweddant y llyfr.

2. Yn yr ail ran, yr hon a gynnwysa amryw draethiadau prophwydol wedi eu cyhoeddi ar wahanol amseroedd, y pethau a ddadguddiwyd o'r blaen mewn ffurf arwyddluniol a eglurir yn mhellach drwy y cymhariaethau mwyaf bywiog. Dechreua gyda cheryddon a bygythion, y rhai a gyflwynant i sylw yn y rhaglawr (*fore-ground*) amryw drychinebau arswydus; ond yn raddol, cliria y gorwel, ac y mae gogoniant yr amser diweddaf yn tywynu allan gyda dysgleirdeb digwmwl.

Yr ydys wedi gwneuthur amryw gynnygion i drefnu pennodau diweddaf y llyfr mewn modd amseryddol, ond yn aflwyddiannus. Y mae yr amcan cyffredin yn eglur, ond nid yw yr ysgrifenydd wedi rhoddi i ni un arwydd arall o drefn yr amrywiol brophwydoliaethau, ond yn unig eu lle yn y llyfr ei hunan.

Yr ydym wedi desgrifio hanes priodas Hosea fel un arwyddluniol. Rhai (Augustine, Grotius, Horsley) a'i cymmerant fel hanes lythyrenol; meddylia ereill na olygir dim rhagor nâ phriodas â dynes Israelaidd; ond y rhan amlaf (Jerome, Rosenmuller, Lowth, Hengstengberg) a edrychant arni fel aralleg yn unig, neu fel gweledigaeth. Gellir ychwanegu fod manylrwydd hanesyddol y cyfan, a defnyddiad enwau, mor gysson â'r dybiaeth mai dammeg neu weledigaeth ydyw, ac â'r dybiaeth mai dygwyddiad sylweddol a ddarlunir, Ezec. 23; Luc 16, 20—31.

Llyfr Esaiah, c. c. 765—698.

82. Er fod Esaiah wedi rhoddi i ni yn achlysurol brofion digonol o'i ostyngeiddrwydd, ei dosturi dros ei gydwladwyr, a thros y cenedloedd, anrheithiadau y rhai a gyhoeddir ganddo,[d] etto, nid ydyw wedi dywedyd wrthym ond ychydig iawn o'i hanes ei hunan. Galwwyd ef i'r swydd brophwydol yn nheyrnasiad Uzziah, brenin Judah, a pharhäodd i brophwydo yn ystod teyrnasiadau Jotham, Ahaz, ac Hezeciah, ac fe allai hefyd yn ys-

[a] 1, 10; 2, 23; 1, 11; 3, 5; 14, 4, 8.
[b] 11, 1 (gwel Math. 2, 15); 6, 2 (gwel 1 Cor. 15, 4).
[c] 13, 14 (gwel 1 Cor. 15, 55). [d] 6, 5; 66, 2; 21, 3; 16, 9.

tod cyfran o deyrnasiad Manasseh. Ni *wyddis* dim am ei achyddiaeth, ond am fod enw ei dad yn cael ei nodi, penderfyna yr Iuddewon mai prophwyd ydoedd. Ychwanegant fod Esaiah yn perthyn i'r teulu breninol, a'i fod yn dad-yn-nghyfraith i Manasseh, gan yr hwn y dywedant iddo gael ei roddi i farwolaeth, drwy gael ei dòri â llif, am wrthddywedyd, neu ychwanegu at y gyfraith Foesenaidd[a] (Esay 6, 1, wedi ei chymharu âg Exod. 33, 20). Gelwir ei wraig yn brophwydes (8, 3), ac yr oedd ganddo ddau fab, enwau a hanes pa rai a fwriadwyd i egluro ac i gymhell ei brophwydoliaethau (7, 3; 8, 3, 4). Ystyr ei enw yw "iachawdwriaeth Jehofa;" ac y mae, i raddau helaeth, yn ddarluniadol o'i gymmeriad a'i ysgrifeniadau. Sillebir ef yn y Testament Newydd (oddiwrth y Deg a Thriugain a'r Vulgate) yn Esaias. Yr oedd ei dad yn cael ei gymmeryd yn fynych yn lle Amos, y prophwyd, enw yr hwn (*Amos*) a ysgrifenir yn y Deg a Thriugain yn yr un modd ag Amos (*Amotz*), tad Esaiah, *Amos*.

Ni wyddis faint oedd parhad ei weinidogaeth. Y mae holl deyrnasiad Uzziah, &c., hyd Hezeciah, yn gwneyd i fyny 112 o flynyddoedd. O flwyddyn olaf Uzziah i'r 14eg o Hezeciah, pan y cawn yr olion olaf o Esaiah mewn hanesyddiaeth (2 Bren. 20, 1; Esa. 38, 1), y mae saith a deugain o flynyddau; ac os, yn unol â'r traddodiad Iuddewig, y bu fyw hyd ddyddiau Manasseh, rhaid ei fod dros 100 mlwydd oed.

Pan ymosododd Esaiah ar ei swydd, meddiennid yr orsedd gan Uzziah, neu Azariah. Ei gymmeriad cyffredinol oedd uniondeb a duwioledd; ac yn ei deyrnasiad ef mwynhäodd y genedl lwyddiant tymmorol mawr. Canlynwyd Uzziah gan ei fab Jotham, cymmeriad cyffredinol yr hwn oedd debyg i eiddo ei dad; ond caniatëid i'r allorau eilun-addolgar aros o hyd, ac o herwydd y cynnydd mewn moethau, a mwynderau anianol, yr oedd gwir dduwioldeb yn parhaus ddadfeilio. Y brenin nesaf, Ahaz, oedd dywysog drwg ac eilun-addolgar iawn; ac yr oedd ei deyrnasiad ef yn drychinebus dros ben. Troseddid cyfraith Duw yn y modd mwyaf dibryder, a'r deml, nid yn unig a anweddid ac a yspeilid, ond yn y diwedd cafodd ei chau i fyny. Yn ystod y tymmor yma, daeth Esaiah yn mlaen yn gyhoeddus fel ceryddwr pechod; ond ei gynghorion a'i rybyddion a gawsant eu dibriso. Yr oedd cymmeriad *Hezèciah* yn wahanol i eiddo ei dad. Efe a ddilëodd eilun-addoliaeth, a adferodd deml ac addoliad Jehofa, ac a ryddhäodd y bobl oddiwrth ormes estronol. Ymddygodd yn barchus iawn tuag at Esaiah; ac yn ystod dygwyddiadau cynhyrfus ei deyrnasiad, cymmerodd y prophwyd ran bwysig yn ffurfiad y cynghorion cyhoeddus.

83. Cynnwysa bywyd Esaiah flynyddau olaf teyrnas Israel. Yr oedd Samaria yn flodeuog dan Jeroboam II., cydoeswr Uzziah; ond bu wedi hyny am amryw flynyddau yn cael ei llywodraethu gan draws-feddianwyr, ac yn y diwedd, yn y chweched flwyddyn o deyrnasiad Hezeciah, dymchwelwyd y deyrnas, ac alltudiwyd ei thrigolion.

Nid oes yn ei brophwydoliaethau, fodd bynag, ond ychydig sydd yn dàl perthynas â chyflwr Israel, gan eu bod yn gyfeiriedig yn benaf at Judah.

Y mae o bwys cofio y berthynas rhwng Judah a chenedloedd cymmydogaethol. Cafodd Judah amryw ryfeloedd â Moab, Edom, ac â'r Philistiaid. Er eu bod o fewn terfynau Judah, ac wedi cael eu darostwng gan Ddafydd, etto, yr oeddynt yn barhaus yn ymdrechu cynnal i fyny sefyllfa annibynol; ac yn ystod teyrnasiad breninoedd gweiniaid ac annuwiol, yr oedd eu hymdrechion yn gyffredin yn llwyddiannus. Yr oedd Assyria

[a] Gwel Heb. 11, 37.

wedi cynnyddu mewn nerth, ac yn estyn ei buddugoliaethau i bob tu. Yr oedd yr Aifft wedi cael ei darostwng gan Ethiopia, a'r ddwy wlad wedi cael eu huno dan yr un deyrnedd (*dynasty*). Assyria a'r Aifft oeddynt eill dwy yn darparu erbyn ymdrech ddyfodol, a phob un yn olynol a geisiasant ymgynghreirio â Judah, ac âg Israel. Amlwg yw mai yr ymddygiad diogelaf i'r teyrnasoedd Iuddewig, gyda golwg ar eu lles tymmorol a'u cymmeriad crefyddol, fuasai peidio ymuno âg un o'r ddwy. Nid oedd Babilon y pryd hwn, fel y mae Havernick wedi dangos, ond teyrnas ail-raddol, yn ymdrechu am annibyniaeth yn erbyn Assyria, ac yn graddol gyfodi i bwysigrwydd. Oddiwrth hyn canfyddir doethineb Merodach-Baladan yn anfon cenadaeth at Hezeciah, a gwelir hefyd yr angenrheidrwydd am ddysgeidiaeth Ddwyfol i ragfynegu gallu dyfodol Babilon, yn nghyd â darostyngiad teyrnas Judah *ganddi*.

Dau ddygwyddiad mwyaf nodedig y tymmor yma oedd traws-oresgyniad (*invasion*) Judah gan alluoedd unedig Syria ac Israel, yn nghyd â dinystr canlynol teyrnas y deg llwyth; a thraws-oresgyniad Judah gan yr Assyriaid, yn y bedwaredd flwyddyn ar ddeg o Hezeciah, yr hwn a derfynodd yn ngorchfygiad Senacherib. O fewn yr un tymmor, a thuag ugain neu ddeng mlynedd ar hugain yn foreuach nâ'r ffeithiau a grybwyllwyd olaf, y syrthia dau gyfnod mwyaf nodedig amseriaeth; A. U. C., 753 C. C., a chyfnod Nabonassar, 747 C. C. Ychydig o flaen amser Esaiah, yw dyddiad yr Olympiad cyntaf, 776 C. C.

84. Yr ydys wedi dadleu llawer mewn amseroedd diweddar o berthynas i burdeb Esaiah, ac yn enwedig y gyfran olaf o'i brophwydoliaethau, pen. 40—66.

Y rhesymau yn erbyn purdeb y gyfran hon o'i lyfr a sylfaenir yn benaf ar neillduolion perthynol i'w ieithwedd, megys ymadroddion Chaldaeg, ac amrywiaethau ymadroddol rhwng y rhanau blaenaf a'r rhanau olaf o'i ysgrifeniadau. Yr holl wrthddadleuon yma, fodd bynag, ydynt wedi cael eu cyfarfod gan ffeithiau wedi eu cymmeryd o'r llyfr ei hunan,[a] a phrofir purdeb y cyfan gan henafiaeth cyffredinol, a chan y Testament Newydd. O'r tri ugain a chwech o bennodau, dyfynir saith a deugain, mewn modd uniongyrchol neu anuniongyrchol, gan ein Harglwydd neu ei apostolion; ac allan o'r un waith ar hugain y mae Esaiah yn cael ei enwi mewn modd *penodol*, cawn ddyfyniadau o bennodau 1, 6, 9, 10, 11, 29, 40, 42, 53, 61, 65. Gan hyny, y mae y golygiad fod yr oll o Esaiah (y rhanau diweddaraf a boreuaf) wedi eu hysgrifenu gan yr un awdwr, yn cael ei gadarnhau gan ddysgawdwyr ysbrydoledig.

85. Gellir dosparthu y llyfr i ddwy o brif ranau.

(i.) Y rhan gyntaf, 1—39, a gynnwysa anerchiadau prophwydol, ac ysgrifeniadau o wahanol ddyddiadau, y rhan fwyaf o ba rai a ymdriniant yn uniongyrchol â moesau, duwioldeb, a llwyddiant y genedl. O'r rhai hyn y mae pedair dosran :—

1. Ceryddon, rhybyddion, ac addewidion, yn cael eu rhoddi i Judah ac Israel, yn benaf yn ystod y rhan foreuol o weinidogaeth y prophwyd, yn nghyd â phrophwydoliaethau am lwyddiant yr efengyl, a dyfodiad y Messiah i farn, 1—12.

[a] Er enghraifft, y mae Chaldaegieithau (*Chaldaisms*) yn Esaiah, ac yr ydys wedi gwneuthur hyn yn un rheswm dros briodoli y llyfr i wahanol awduron. Y mae Hirzel, fodd bynag (De. Chal. Bib. Origine, 1830), wedi dangos fod Chaldaegieithau i'w cael, yn enwedig yn y rhanau barddonol o'r Ysgrythyr; nad oes ond pedair gwir Chaldaegiaith yn Esaiah, a bod y rhai hyn oll i'w cael yn y rhan y cyfaddefir ei bod yn bur, 7, 14 (?); 29, 1; 18, 7; 21, 12.

2. Prophwydoliaethau o berthynas i geuedloedd cymmydogol gelyniaethus, yn mha rai y desgrifir pechodau a dinystr Assyria, Babilon, Moab, yr Aifft, Philistia, Syria, Edom, a Thyrus, 13—23.
3. Ysgrifeniadau perthynol, mae yn debyg, i amser Ahaz ac Hezeciah, yn darlunio pechodau a thrueni y bobl, gan ddesgrifio y goresgyniad Assyriaidd; dinystr Samaria; dychryn, cyfyngder, a gwaredigaeth Israel yn y diwedd; yn nghyd â llawer o gyfeiriadau hefyd at ddychweliad yr Iuddewon dan yr efengyl, a dinystr holl elynion yr eglwys, 24—35.
4. Hanes y goresgyniad gan Senacherib, a dinystr ei fyddin mewn atebiad i weddi Hezeciah. • Clefyd Hezeciah, ei adferiad gwyrthiol, ac estyniad ei einioes am bumtheg mlynedd, 36—39.

(ii.) Y prophwydoliaethau a ffurfiant yr *ail* ran o'r llyfr (40—66) a berthynant yn benaf i ddygwyddiadau pell, a chymmerant i fyny yr holl dymmor, o'r caethiwed hyd ddiwedd yr oruchwyliaeth Gristionogol. Defnyddir y waredigaeth o Babilon fel arlun o waredigaeth anfeidrol fwy, a chyssyllta y prophwyd y ddau ddygwyddiad yma yn y fath fodd, fel mai anfynych yr ymdrinia â'r cyntaf heb gyfeirio at yr ail. Mynegir amcan yr holl gyfran yma o'r llyfr yn 40, 1, 2.

Y pethau a ragfynegir mewn modd neillduol yw, gwaredigaeth yr Iuddewon gan Cyrus (dros 200 o flynyddau cyn ei eni), a dymchweliad eu gorthrymwyr;[a] y dychweliad i Judea, a sefydliad eu hen lywodraeth[b] (*polity*); dyfodiad, cymmeriad, appwyntiad, dyoddefiadau, marwolaeth, a gogoniant y Messiah;[c] cwymp eilun-addoliaeth, a galwad y byd cenedlig;[d] drygioni yr Iuddewon yn cyrhaedd ei eithafion yn eu gwrthodiad o'r Messiah, a'u gwrthodiad hwythau mewn canlyniad gan Dduw, eu dychweliad a'u hadferiad dyfodol,[e] a pherffeithrwydd buddugoliaethus yr eglwys yn y diwedd.[f] Y pynciau hyn ydynt yn fynych yn cael eu cymmysgu gyda'u gilydd, ac weithiau symudir yn ddisymmwth o'r naill i'r llall.

Nodir swydd yr Ysbryd Glân hefyd mewn modd neillduol, er yr awgrymir fod cyflawn ddadguddiad o'i ddylanwad yn cael ei gadw hyd amseroedd yr efengyl, 63, 10—14; 44, 3.

Rhifedi ac eglurder y prophwydoliaethau a gyfeiriant at yr efengyl ydynt, yn wir, mor darawiadol, fel y mae Esaiah wedi cael y teitl o "y prophwyd efengylaidd," a gellir rhesu ei ysgrifeniadau braidd yn mhlith llyfrau *hanesyddol* y gyfrol ysbrydoledig.

Cawn yn ysgrifeniadau Esaiah amryw brophwydoliaethau oedd â chyflawniad boreuol neu uniongyrchol yn perthyn iddynt, a'r rhai hyn, fel y cyflawnid hwynt, a gadarnhäent ffydd y bobl yn y rhagfynegiadau oedd â'u cyflawniad bellaf. Er enghraifft, yr oedd Syria ac Israel i gael eu gorchfygu gan Assyria cyn y buasai bachgen bychan y prophwyd yn gallu dywedyd "fy nhad."[g] Yr oedd gogoniant Cedar i fethu mewn un flwyddyn,[h] eiddo Moab mewn tair blynedd,[i] eiddo Ephraim mewn 65 o flynyddau,[k] eiddo Tyrus mewn 70 o flynyddau;[l] tra yr oedd estyniad rhagfynegiadol bywyd Hezeciah,[m] o angeurheidrwydd, yn sefydlu awdurdod y prophwyd, ac yn egluro rhagluniaeth Duw.

[a] 44, 28; 45, 1—5: 47. [b] 44, 28. [c] 40, 3, 4; 42, 1, 6, 7; 49, 1; 55, 4, 5; 53, 12; 61, 1, 2; 50, 6; 53, 4—12. [d] 49, 5, 12; 65, 1. [e] 53, 3; 65, 62. [f] 59, 19; 65, &c. [g] Esay 8, 4. [h] 21, 16. [i] 16, 14. [k] 7, 8. [l] 23, 15. [m] 38, 5, 9.

Nid oedd prophwydoliaethau ag oeddynt fel hyn yn addysgiadol fel profion, yn llai felly fel gwersi moesol. Yr oedd yr Iuddewon yn falch o'r Aifft, "eu gogoniant," ac yn ymddiried yn Ethiopia, "eu dysgwyliad." Cyhoedda Duw farn ar y ddwy, a thrwy hyny dysgodd y ffolineb o ffoi atynt am amddiffyniad ac am gymhorth. Y prophwydoliaethau yn erbyn Edom a Babilon ydynt hefyd yn gyfoethog mewn addysgiadau. Cysurent Iuddewon duwiol yn y rhag olwg ar y gwasgfeuon oedd y genedl yn nghylch eu dyoddef, a dysgant beth yw y pechodau sydd yn mhob oes wedi tynu lawr farn Duw.

Creulonderau a gormes y paganiaid ydynt yn ddigon hynod, ac y mae y rhai hyn yn mhob man yn cael eu condemnio. Sylwwn hefyd ar gondemniad balchder yn Mabilon a Moab, yn Tyrus ac Ephraim,[a] cybydd-dod a chydgymmysgiad gwahaniaethau moesol yn Judah,[b] calon wedi ymroddi i bleserau bydol yn Jerusalem a Babilon,[c] ac hunanoldeb ac anghredin-iaeth yn mhob man. Yr ysgrifeniadau prophwydol yma, gan hyny, a gadael prophwydoliaethau o'r neilldu, ydynt yn mhlith y mwyaf addysgiad-ol o'r dadguddiadau â pha rai y mae Duw wedi bendithio ein hiliogaeth.

Llyfr Micah, c. c. 758—699.

86. Geilw Micah ei hunan yn Forasthiad, ac yr oedd yn frodor o Morasthi, yn agos i Gath, neu (os yr un yw y ddau le) Maresah, lle o beth pwysigrwydd i'r deau o Judah (1, 1, 15). Ymddengys ei fod wedi cael ei anfon heb fod yn hir ar ol i Hosea, Amos, ac Esaiah, ddechreu eu gweinidogaeth; ac y mae yn ail adrodd y ceryddon a'r rhybyddion oeddynt hwy wedi eu cyhoeddi i Israel ac i Judah. Ysgrifenwyr Groegaidd (Epiphanius ac ereill) a ddywedant iddo gael ei ladd gan Jehoram, mab Ahab; ond y maent hwy yn ei gymmeryd yn lle Micheah, mab Jimlah, 1 Bren. 22, 8—28; fodd bynag, nid yw yn ymddangos i Micah ddyoddef merthyrdod, ond bu farw mewn heddwch yn nyddiau Hezeciah, Jer. 26, 18, 19. Achubodd un o'i brophwydoliaethau fywyd Jeremiah, yr hwn fuasai wedi cael ei roddi i farwolaeth am ragfynegu dinystr y deml, pe na buasai yn ymddangos fod Micah wedi rhagfynegu yr un peth fwy nâ chan mlynedd cyn hyny. Efe ei hunan a ysgrifenodd ei brophwydoliaethau (3, 1, 8), a chyfeirir ato fel prophwyd gan Jeremiah, ac yn y Testament Newydd, Math. 2, 5; Ioan 7, 42. Ymddengys hefyd fod ei iaith yn cael ei dyfynu gan Sephaniah (3, 19); Ezeciel (22, 27); *fe allai* gan Esaiah (2, 2—4; 41, 15), a chan ein Harglwydd, Math. 10, 35, 36.

Gellir dosparthu ei brophwydoliaethau i dair o ranau.

Y *gyntaf* a ddesgrifia ddinystr cyfagos y ddwy deyrnas, gan nodi, mewn modd neillduol, amryw o drefi a phentrefi Judah yn ei gymmydogaeth ei hun, pen. 1. Wedi hyny, cerydda a bygythia y tywysogion, y prophwydi, a'r bobl, am eu pechodau cynnyddol; gan gyflwyno, fodd bynag, awgrymiadau o drugaredd (2, 3). Yn yr *ail* ran, y mae yn myned yn mlaen i ddadlenu tynged ddyfodol a mwy rhagorol y bobl; gan aros yn hir ar ddedwyddwch a gogoniant yr eglwys dan deyrnasiad Crist, mewn prophwydoliaeth sydd yn cynnwys crynodeb ardderchog o'r rhanau olaf o Esaiah; wedi hyny, y mae yn troi at waredigaeth agosach yr Iuddewon, a dinystr y gallu Assyriaidd (4, 5). Y *drydedd* ran a ddengys resymoldeb, purdeb, a chyfiawnder y gofynion Dwyfol, mewn gwrthgyferbyniad

[a] 14, 13; 16, 6: 23, 9: 28, 3. [b] 5, 8, 20. [c] 22, 13: 47, 8.

i anniolchgarwch, annghyfiawnder, a choelgrefydd y bobl, yr hyn a achosodd eu dinystr. Oddiwrth fyfyrdod o'r drygfyd yma, try y prophwyd am gefnogaeth at wirionedd a thrugaredd annghyfnewidiol Jehofa, ac arddengys hwynt gerbron y bobl fel y cymhellion cryfaf i edifeirwch calonog, (6, 7).

Y mae gan Micah lawer o brydferthwch barddonol Esaiah, ac o nerth Hosea. Y mae ei ieithwedd, fodd bynag, rai gweithiau yn dywyll, a hyny o herwydd byrder a symudiad disymmwth o un pwnc i'r llall.

Rhagfynega y goresgyniadau gan Salmaneser[a] a Senacherib[b] mewn geiriau eglur; gwasgariad Israel;[c] peidiad prophwydoliaeth;[d] dinystr cyflawn Jerusalem;[e] ac nid yn llai eglur, waredigaeth Israel;[f] dinystr Assyria, a'r gelynion sydd yn cael eu harddangos gan Assyria;[g] genedigaeth Crist, a'i natur Ddwyfol, oblegid yr oedd ei fynediad allan "er tragywyddoldeb;"[h] cyhoeddiad ei efengyl o Fynydd Seion,[i] a'r canlyniadau, ac ymledaeniad ei deyrnas dros yr holl genedloedd.[k]

Llyfr Nahum, c. c. 720—698.

87. Y mae llyfr Nahum yn eglurhad tarawiadol ar ddefnyddiad moesol prophwydoliaeth, ei haddasrwydd i gysuro (felly yr arwydda enw y prophwyd) y credadyn, a'i nerthu i gyflawnu ei ddyledswyddau presenol.

Ni wyddis dim am Nahum ei hunan, oddieithr ei fod yn perthyn i Elcos, lle sydd yn awr yn anadnabyddus, ond haera Jerome (yr hwn oedd yn byw fil o flynyddoedd ar ol hyny) mai lle perthynol i Galilea ydoedd. (Rhag. i'r Esb.)

Tebyg yw iddo brophwydo yn Judah, wedi i'r deg llwyth gael eu caethgludo, a rhwng y ddau oresgyniad o eiddo Senacherib. Pan y rhaid fod dymchweliad Samaria yn awgrymu i Judah lawer o ofnau am ei diogelwch ei hunan, pan oedd Jerusalem wedi cael ei hamddifadu o'i thrysor gan Hezeciah, gyda'r gobaith ofer o droi ymaith gynddaredd Senacherib, a phan oedd sôn pell am orchfygiad rhan o'r Aifft yn ychwanegu at y dychryn cyffredinol, yn y cyfnod gofidus yma, cyfodir y prophwyd i ddadguddio gallu a thynerwch Jehofa (1, 1—8), i ragfynegu dymchweliad yr amherodraeth Assyriaidd (1, 9—12), marwolaeth Senacherib, a gwaredigaeth Hezeciah (1, 13—15). Wedi hyny, darlunir dinystr Ninefe yn y modd mwyaf bywiog, a chyda manylrwydd neillduol; a dywed hanes gyffredin wrthym fod y prophwydoliaethau yma wedi cael eu cyflawnu yn llythyrenol (gwel adr. 190.)

Mewn trefn i iawn ddeall Nahum, rhaid ei gymharu â Jonah, o'r hwn y mae yn barhad ac yn attodiad. Y ddwy brophwydoliaeth a ffurfiant ranau cyssylltiadol o'r un hanes foesol; eglurir attaliad barnedigaethau Duw yn Jonah, a'u cyflawniad hwynt yn Nahum. Ychydig flynyddau yn ddiweddarach, cyhoeddwyd un bygythiad arall uwchben y ddinas ddiofrydedig gan Sephaniah (2, 13), ac yn mhen ychydig wedi hyny (606 c. c.) cafodd y cwbl eu cyflawnu.

Yr oedd Ninefe, dinystr yr hon a ragfynegwyd gan y prophwyd, y pryd hwnw yn brif-ddinas amherodraeth fawr a blodeuog. Dinas hynod oedd am ei helaethrwydd a lluosogrwydd ei thrigolion, ac yr oedd yn ganolbwynt

[a] 1, 6—8 (2 Bren. 17, 4, 6). [b] 1, 9—16 (2 Bren. 18, 13). [c] 5, 7, 8. [d] 3, 6, 7. [e] 3, 12. [f] 2, 12; 4, 10: 5, 8. [g] 5, 5, 6; 7, 8, 10. [h] 5, 2 (Math. 2, 6.) [i] 4, 1—8 (Esay 2, 2—4). [k] 4, 1—7, cymharer Luc 1, 33; 5, 5, cymharer Eph. 2, 14; 7, 17, 18, cymharer Luc 1, 72, 73.

prif farsiandïaeth y byd. Fodd bynag, nid oedd ei chyfoeth yn deilliaw yn gyfangwbl oddiwrth fasnach. Yr oedd yn "ddinas waedlyd," "llawn celwydd ac yspail" (3, 1). Yspeiliai y cenedloedd cymmydogaethol; a chymharir hi gan y prophwyd i deulu o lewod, "yn llanw âg ysglyfaeth eu ffau, a'u lloches âg yspail" (2, 11, 12). Ar yr un pryd, yr oedd wedi ei hamgaeru yn gryf; ei muriau mawrion, can troedfedd o uchder, yn nghyd â'u pumtheg cant o dŷrau, a herient bob gelynion. Etto, cafodd ei dinystrio mor drylwyr, fel nad oedd cymmaint a'i hol yn aros yn yr ail ganrif ar ol Crist, a bu y man y safai arno yn hir yn bwnc o ansicrwydd.

Nid oes un llyfr yn rhagori ar hwn mewn arucheledd darluniadol. Ni chynnwysa ond un bryddest, yr hon a ddechreua gyda desgrifiad difrifol o briodoliaethau a gweithrediadau Jehofa (1, 2—8). Yna (1, 9—14) canlyna anerchiad i'r Assyriaid, yn desgrifio eu dyryswch a'u dymchweliad; teflir adnodau 12 a'r 13 i mewn rhwng ymsangau (*parenthesis*), i gysuro yr Israeliaid âg addewidion am orphwysfa ddyfodol, a gwaredigaeth oddiwrth ormes. Darlunia pen. 2 warchaëdigaeth a chwymp Ninefe, yn nghyd â dychryn y trigolion. Desgrifia pen. 3 gyflawn ddymchweliad y ddinas, yn nghyd âg amryw achosion a arweiniodd i hyny. Fel siampl, cyflwynir No-Ammon (Thebes), dinas fawr a chadarn yn yr Aifft, yr hon a syrthiodd dan farnedigaethau Duw (3, 8—10) i egluro fod cospedigaeth gyffelyb yn dyfod ar yr Assyriaid.

Dos. 4. *Llyfrau Sephaniah, Jeremiah, Habucuc, Daniel, Ezeciel, ac Obadiah.*

Llyfr Sephaniah, c. c. 640—609.

88. Cymmerodd cyfwng (*interval*) o ddeg a deugain o flynyddoedd le rhwng terfyniad prophwydoliaethau Esaiah, Micah, a Nahum, a dyddiau Sephaniah, Jeremiah, ac ereill o'r prophwydi diweddaraf, yn ystod pa amser ni bu yr un prophwyd sydd a'i ysgrifeniadau wedi ein cyrhaedd, oddigerth fod Joel yn perthyn i'r tymmor yma. Ymddengys fod y gwersi a ddysgid drwy ddinystr Samaria, a chan y prophwydi boreuaf, yn enwedig Esaiah, wedi cael eu gadael i gynnyrchu eu heffeithiau priodol ar feddyliau y bobl. Heblaw hyny, teyrnasiad drygionus Manasseh a gymmerodd i fyny yn agos yr oll o'r cyfwng yma, ac ymddengys fel pe byddai yn gwneuthur diwygiad drwy ddysgeidiaeth brophwydol yn anobeithiol. Fodd bynag, adfywiodd yr ysbryd prophwydol gyda Josiah, a Sephaniah ("Jehofa a wyliodd") yw y boreuaf o brophwydi ei oes. Ymddengys iddo brophwydo tua dechreuad teyrnasiad Josiah, o'r hyn lleiaf, cyn y ddeunawfed flwyddyn, pan ddistrywiwyd allorau Baal. Mae yn debyg iddo gynnorthwyo Josiah yn ei ymdrechion i adferu addoliad y gwir Ddaw. Ni wyddis dim am y prophwyd yn bersonol, ond oddiwrth deitl y llyfr hwn. Gan ei fod yn olrhain ei achau yn ol am bedair o genedlaethau, mae yn debyg ei fod o waedoliaeth uchel. Rhai o'r Iuddewon, ac Eichhorn, a dybiant ei fod wedi disgyn oddiwrth y brenin Hezeciah; ond o'r braidd y mae y penderfyniad yma yn cael ei gyfiawnhau gan y testun, ac o'r braidd y mae can mlynedd (yr amser rhwng Hezeciah a'r prophwyd) yn ddigon i roddi lle i dri o henafiaid gyfryngu rhyngddynt.

Cynnwysa y bennod gyntaf fygythiad cyffredinol o ddialedd yn erbyn Judah, a'r rhai a arferent ddefodau eilun-addolgar; Baal, ei offeiriaid duon eu gŷnau (Chemarin), a Malcham (Moloch), ydynt oll yn cael eu con-

demnio, à chyhoedda mai "agos yw dydd mawr trallod a chyfyngder" (1—2, 3). Yr ail bennod a ragfynega y barnedigaethau oedd yn nghylch disgyn ar y Philistiaid, yn enwedig y rhai hyny o honynt oedd ar lànau y môr (Cerethiaid), y Moabiaid, yr Ammoniaid, a'r Ethiopiaid; ac, mewn ymadroddion hynod o gywir, desgrifia annghyfannedd-dra Ninefe; dechreuodd y prophwydoliaethau yma gael eu cyflawnu yn muddugoliaethau Nebuchodonesor.

Yn y drydedd bennod, y mae y prophwyd yn cyhuddo Jerusalem, yn ceryddu ei phechodau, ac yn terfynu gyda'r addewidion mwyaf hyfryd am ei hadferiad dyfodol, ac am gyflwr dedwydd pobl Dduw yn y dyddiau diweddaf (3, 1—7; 3, 8—20).

Ceir cyd-darawiadau ymadroddol rhwng Esaiah a Jeremiah yn aml, ac yn fwy fyth felly rhwng Sephaniah a Jeremiah. Gellir ychwanegu fod prophwydoliaeth Jeremiah yn cwblhau yr olygfa a roddir yma am y difrodiadau oedd i'w dwyn oddiamgylch drwy Chaldea yn Philistia a Judah.

89. Nododd y Dr. Keith y neillduolrwydd manwl gyda pha un y mae Sephaniah, Amos, a Zechariah yn rhagfynegu tynged pedair o brif ddinasoedd Philistia—Gaza, Ascelon, Asdod, ac Ecron.

Wrth gymharu Amos 1, 6, 7, 8; Zech 9, 5; a Seph. 2, 4—6, gwelir am *Gaza*, fod moelni i ddyfod arni, ac y cawsai ei hamddifadu o'i brenin. Yn bresenol, yn nghanol adfeilion o fynor gwyn, arwydd o'i gorwychedd blaenorol, ychydig bentrefi o laid sych yw unig breswylfod ei thrigolion. Am Ascelon ac Asdod, dywedir y byddant eill dwy "heb breswylwyr," ac felly y maent. Preswylir Gaza; ond er fod adfeilion Ascelon ac Asdod yn aros, etto nid oes trigolion ynddynt. Yr oedd tynged Ecron i fod yn wahanol i bob un o'r lleill: "diwreiddir hi." Yn awr, y mae hyd y nod ei henw wedi ei golli, ac ni wyddis yn mha fan y safai. Eglur yw fod prophwydoliaeth a rhagluniaeth—rhagfynegiadau a'r dygwyddiadau sydd yn eu cyflawnu, yn cael eu llywodraethu gan yr un law.

Llyfr Jeremiah, c. c. 628—585.

90. Jeremiah oedd fab i Hilciah, offeiriad o Anathoth, yn Benjamin. Galwwyd ef i'r swydd brophwydol oddeutu triugain a deg o flynyddau wedi marwolaeth Esaiah, yn y drydedd flwyddyn ar ddeg i'r brenin Josiah, a phan nad oedd ond ieuanc iawn (1, 6), ac etto yn byw yn Anathoth. Ymddengys iddo aros yn ei le genedigol am amryw flynyddau; ond o'r diwedd, mewn canlyniad, mae yn debyg, i erlidigaeth oddiwrth ei gyd-drefwyr, ac yn enwedig oddiwrth ei deulu ei hun (11, 21; 12, 6), yn gystal ag o dan gyfarwyddyd Dwyfol, i gael maes helaethach i'w lafur, gadawodd Anathoth, a daeth i Jerusalem. Ymwelodd hefyd â dinasoedd Judah, ac yn y cyfan, prophwydodd dros ddeugain mlynedd (11, 6).

Yn ystod teyrnasiad Josiah, diammeu ei fod yn gydweithredydd gwerthfawr â'r brenin duwiol yn y diwygiad crefyddol. Mae yn debyg oddiwrth ei nodiad am Joahaz (22, 10—12), iddo brophwydo heb un attalfa yn ystod ei deyrnasiad ef. Ond pan ddaeth Joacim i'r orsedd, attaliwyd ef yn ei weinidogaeth. Trôdd yr "offeiriaid a'r prophwydi" yn gyhuddwyr iddo, a gwaeddasant, gyda'r bobl yn gyffredin, am ei roddi i farwolaeth (26). Ni feiddiai y tywysogion hèrio Duw fel hyn mewn modd cyhoeddus; ond cafodd Jeremiah ei osod mewn caethiwed, neu attaliwyd ef gan ei elynion rhag ymddangos yn gyhoeddus. Dan yr amgylchiadau yma, derbyniodd orchymyn oddiwrth Dduw i ysgrifenu ei brophwydoliaethau, ac wedi

gwneuthur hyn, anfonodd Baruch i'w darllen hwynt yn y deml ar ddydd ympryd. Dychrynwyd y tywysogion, ac ymdrechasant gyffroi y brenin drwy ddarllen rhôl y brophwydoliaeth iddo. Ond bu hyny yn ofer; y brenin anystyriol, wedi gwrandaw ar dair neu bedair o ddalenau, a rwygodd y rhôl yn ddarnau, ac a'i taflodd i'r tân, gan orchymyn i gymmeryd Jeremiah a Baruch mewn dalfa yn uniongyrchol. Fodd bynag, Duw a'u hamddiffynodd; ac yn fuan ar ol hyny, drwy gyfarwyddyd Dwyfol, ysgrifenodd Jeremiah yr un prophwydoliaethau drachefn, gyda rhai ychwanegiadau (36).

Yn nheyrnasiad byr y brenin nesaf, Joacim, cawn ef o hyd yn derchafu ei lef rybyddiol (gwel 13, 18; cymharer 2 Bren. 24, 12, a phen. 22, 24—30), er yn aneffeithiol.

Pan warchaëodd byddin Nebuchodonosor ar Jerusalem, yn nheyrnasiad Sedeciah, ac yr enciliodd wrth y newydd fod cymhorth yn dyfod o'r Aifft, gorchymynodd Duw i Jeremiah gyhoeddi y buasai y Chaldeaid yn dyfod drachefn, gan gymmeryd y ddinas, a'i llosgi â thân. Am iddo ymadael o Jerusalem, cyhuddwyd ef o droi at y Chaldeaid, a thaflwyd ef i garchar, lle yr arosodd hyd nes y cymmerwyd y ddinas. Nebuchodonosor, yr hwn oedd wedi ffurfio barn fwy cyfiawn am ei gymmeriad, a roddodd orchymyn penodol i'w gadben, Nebuzaradan, ar iddo nid yn unig ddarparu ar gyfer y prophwyd, ond hefyd gwneuthur yn ol ei gynghor. Pan roddwyd i'r prophwyd ei ddewisiad, ar iddo naill ai myned i Babilon, lle yn ddiau y cawsai ei anrhydeddu yn y llys breninol, neu aros gyda'i fobl ei hun, efe a ddewisodd yr olaf. Wedi hyny, ymdrechodd berswadio blaenoriaid y bobl i beidio myned i'r Aifft, ond aros yn eu gwlad, gan sicrhau iddynt, drwy genadwri Ddwyfol, os gwnaent felly, y buasai Duw yn eu hadeiladu. Gwrthododd y bobl ufyddhau, ac aethant i'r Aifft, gan gymmeryd Jeremiah a Baruch gyda hwynt (43, 6). Pan yn yr Aifft, ymdrechai o hyd i ddychwelyd y bobl at yr Arglwydd (44); ond nid yw ei ysgrifeniadau yn rhoddi unrhyw hysbysrwydd o berthynas i'w hanes ar ol hyny. Haneswyr henafol, fodd bynag, a haerant i'r Iuddewon, yn dramgwyddedig wrth ei geryddon ffyddlawn, ei roddi i farwolaeth yn yr Aifft: yn Tahpanhes medd Jerome.

Yr oedd Jeremiah yn gyd-oeswr â Sephaniah, Habacuc, Ezeciel, a Daniel. Rhwng ei ysgrifeniadau ef ac eiddo Ezeciel, y mae llawer o bwyntiau dyddorol, o ran cyffelybrwydd a gwrthgyferbyniad. Llafuria y ddau brophwyd i'r un amcan, ac yn agos yr un amser. Prophwydodd un yn Mhalestina, a'r llall yn Nghaldea; etto, yr un o ran sylwedd yw y ddwy genadwri. Gwahaniaetha y ddau brophwyd, fodd bynag, yn fawr oddiwrth eu gilydd yn eu dulliau mabwysiedig o ymadroddi, ac yn eu cymmeriad personol. Yn hanes Jeremiah, dygir o'n blaen ddyn yn cael ei yru, megys o'i anfodd, o ddinoddedd ac unigedd, i'r cyhoeddusrwydd a'r perygl cyssylltiedig â'r swydd brophwydol. Er ei fod yn naturiol yn fwyn a theimladwy, ac yn tueddu i alaru yn ddirgel o herwydd y drygioni a'i cylchynai, yn hytrach nag i ruthro i wyneb, ac argyhoeddi y drwg-weithredwyr, etto, ar alwad Duw, efe a safodd i fyny, ac a brofodd ei hunan yn gampwr ffyddlawn a diofn i'r gwirionedd, yn nghanol gwarthrudd, dirmygiadau, a bygythion. Y nodweddiadau yma a gydgyfarfyddant ynddo mor amlwg, fel y mae Havernick yn ei ystyried yn brawf o Ddwyfol ddechreuad ei genadwri. Yn Ezeciel, ar y llaw arall, y gwelwn allu ysbrydoliaeth Ddwyfol yn gweithredu ar feddwl sydd yn naturiol yn un o'r rhai cryfaf, ac yn llyncu i fyny holl alluoedd yr enaid. Cyduna ieithwedd Jeremiah â'r

golygiad yma am nodweddiad ei feddwl. Hynodir hi mewn modd neillduol gan deimlad. Ymhyfryda mewn ymadroddion tyner, a rhydd y desgrifiadau mwyaf effeithiol o druenusrwydd ei bobl.

Nid ymddengys fod prophwydoliaethau y llyfr hwn, gyda golwg ar amser, yn sefyll fel y cawsant eu traddodi. Nid ydyw yn hawdd dweyd paham y maent wedi eu gosod felly, na pha fodd y mae eu darostwng i drefn amseryddol. Cynnygia *Blayney* y drefn ganlynol:—Y prophwydoliaethau a draddodwyd (1) yn nheyrnasiad Josiah, yn cynnwys 1—12; (2), yn nheyrnasiad Joacim, 13,—20; 22; 23; 25; 26; 35; 36; 45—48; 49, 1—33; (3), yn nheyrnasiad Sedeciah, 21; 24; 27—34; 37—39; 49, 34—39; 50—52; (4), yn ystod gweinyddiaeth Gedaliah, ac yn yr Aifft, 40—44; ymddengys fod pen. 52 wedi ei gwneyd i fyny o bennodau diweddaf y Breninoedd (gwel 24, 18—25, 21), ac ailadrodda rhan o bennodau 39 a 40. Oddiwrth ben. 51, 34, yn nghyd â dyddiad diweddar rhai o'r ffeithiau, gellir ystyried yr holl bennod fel gwaith ysgrifenydd diweddarach, ac fe allai mai gwaith Ezra ydyw.

Ewald a gynnygia raniadau seiliedig ar drefn bresenol y pennodau, ac ymdrecha ddarganfod y cynllun yn ol pa un y maent wedi eu trefnu. Sylwa ef fod amryw ranau yn cael eu blaenori gan yr ymadroddion, "Y gair yr hwn a ddaeth at Jeremiah oddiwrth yr Arglwydd," 7, 1; 11, 1; 18, 1; 21, 1; 30, 1; 32, 1; 34, 1, 8; 35, 1; 40, 1; 44, 1; neu, "Gair yr Arglwydd, yr hwn a ddaeth at Jeremiah," 14, 1; 46, 1; 47, 1; 49, 34; fod rhai rhaniadau creill, hanesyddol yn benaf, yn cael eu nodi yn amlwg gan fynegiadau am amser yn eu rhagflaenu, 26, 1; 27, 1; 36, 1; 37, 1; a bod dwy ran arall ynddynt eu hunain yn amlwg ddigon, 29, 1; 45, 1; ac yn ffurfio fel hyn bump o lyfrau, sef,

i. Y *rhagarweiniad*, 1. ii. Ceryddon am bechodau yr *Iuddewon*, 2—24, yn cynnwys saith dosran, sef, 2; 3—6; 7—10; 11—13; 14—17, 18; 17, 19—20; a 21—24. iii. Golygiad cyffredinol ar yr *holl genedloedd*, y paganiaid yn gystal a phobl Israel, yn cynnwys dwy ddosran, 25 a 26—49, yn nghyd âg attodiad hanesyddol o dair dosran, 26, 27, a 28, 29. iv. Dwy ddosran yn darlunio gobeithion *amseroedd gwell*, 30, 31, a 32, 33; at ba rai, megys yn y llyfr o'r blaen, yr ychwanegir attodiad hanesyddol mewn tair dosran, 34, 1—7; 34, 8—22; 35. v. Y *diweddiad* mewn dwy ddosran, 36 a 45. Tybia *Ewald* fod hyn oll wedi cael ei drefnu yn Mhalestina, yn ystod y cyfnod byr o orphwysdra rhwng cymmeriad y ddinas ac ymadawiad Jeremiah i'r Aifft, lle yr ystyria i'r prophwyd, wedi ychydig amser, ysgrifenu tair dosran, 37—39; 40—43; a 44, yn nghyd â 46, 13—26, yn cwblhau ei brophwydoliaeth foreuaf o berthynas i'r *Aifft*, a gwneuthur, fe allai, rhai ychwanegiadau at ranau ereill oeddynt wedi eu hysgrifenu o'r blaen.

Proffesa Jeremiah fod yn awdwr yr holl brophwydoliaethau yma, ond ysgrifenwyd rhai o honynt gan ei ddysgybl, 1, 1, 4, 6, 9; 25, 13; 29, 1; 30, 2; 51, 60; 45, 1.

Yr ydys weithiau wedi edrych arno fel prophwyd i'r cenedloedd (1, 5—10). Sicr yw iddo draddodi llawer o brophwydoliaethau a ddalient berthynas â chenedloedd pellenig, ac i'r prophwydoliaethau yma gael eu cyhoeddi i'r cenedloedd hyny eu hunain (27, 3); ond i Jerusalem yn benaf yr anfonwyd ef.

Rhagfynegodd dynged Sedeciah,[a] amser penodol y caethiwed Babilonaidd,[b] a dychweliad yr Iuddewon.[c] Cwymp Babilon,[d] ac eiddo llawer o

[a] 34, 2, 3; cymharer 2 Cron. 36, 19; 2 Bren. 25, 5; Jer. 52, 11.
[b] 25, 11, 12 (gwel Dan. 9, 2). [c] 29, 10—14 (Ez. 1, 1). [d] Jer. 25, 12.

genedloedd,[a] a ragfynegir hefyd mewn prophwydoliaethau a gawsant eu cyflawnu yn olynol, yr hyn a gadwodd i fyny ffydd yr Iuddewon yn y rhai hyny a berthynant i'r Messiah.[b] Rhagfynega yn eglur iawn ddiddymiad deddf Moses; llefara am yr arch, fel wedi ei hannghofio; rhagfynega lwyddiant crefydd fwy ysbrydol nâ'r hen oruchwyliaeth, teyrnas gyfryngol y Messiah, yr hwn a alwa, "Yr Arglwydd ein cyfiawnder;" darlunia effeithioldeb ei iawn; rhagoriaeth yr efengyl, mewn rhoddi santeiddrwydd yn gystal a maddeuant; galwad y cenedloedd; ac iachawdwriaeth Israel yn y diwedd.[c]

Galarnad Jeremiah.

Math o attodiad yw y llyfr hwn i brophwydoliaethau Jeremiah, ac, yn yr Ysgrythyrau gwreiddiol, ffurfiai ran o honynt. Mynega, mewn modd tyner a theimladwy, ddyfnder galar y prophwyd, o herwydd annghyfannedd-dra y ddinas a'r deml yn Jerusalem, caethgludiad y bobl, cyfyngderau y newyn, attaliad addoliad Dwyfol, yn nghyd â drygau ereill gyda pha rai yr ymwelwyd â'i gydwladwyr o herwydd eu pechodau. Y prif amcan oedd, dysgu yr Iuddewon yn eu drygfyd i beidio diystyru "cerydd yr Arglwydd," ac i beidio "ymollwng" pan yn cael eu "hargyhoeddi ganddo," ond i ddychwelyd at Dduw mewn edifeirwch dwys, cyffesu eu pechodau, a gostyngedig ddysgwyl wrtho ef yn unig am faddeuant a gwaredigaeth.

Nid oes un llyfr o'r Ysgrythyr yn fwy cyfoethog mewn mynegiadau o deimlad gwladgarol, neu o'r edifeirwch a'r ymddiried sydd yn weddus i'r Cristion cystuddiedig.

Y mae ffurf y pryddestau yma yn hynod o reolaidd. Gyda'r eithriad o'r olaf (pen. 5), y maent yn yr Hebraeg gwreiddiol yn benenwadau (*acrostics*) egwyddorol (*alphabetical*), yn mha rai y mae pob pennill yn dechreu gyda llythyren newydd. Perthyna y neillduolrwydd yma hefyd i'r drydedd, sef, fod y tair llinell flaenaf yn mhob pennill yn dechreu gyda'r un lythyren.

Fel cyfansoddiad, y mae y llyfr hwn yn hynod am yr amrywiaeth lluosog o ddesgrifiadau tyner a theimladwy a gynnwysa; arddengys y galar mwyaf dwfn, a theilwng o'r pwnc y mae wedi fwriadu egluro.

Llyfr Habacuc, c. c. 612—598.

91. Ni wyddis dim gydag un sicrwydd am rieni a bywyd Habacuc; ond oddiwrth y ffaith nad ydyw yn sôn dim am Assyria, a'i fod yn llefaru am y goresgyniad Chaldeaidd fel yn agos wrth law, cesglir iddo brophwydo yn Judah, yn nheyrnasiad Joahaz a Joacim, ychydig cyn y goresgyniad gan Nebuchodonosor (1, 5; 2, 3; 3, 2, 16—19). Yr oedd, gan hyny, yn gyd-oeswr â Jeremiah, a dywedir iddo aros yn nghanol annghyfannedd-dra ei wlad, yn hytrach nâ chanlyn ei frodyr i gaethiwed. Yn nyddiau Eusebius, dangosid ei fedd yn Bela, yn Judah.

Eglur yw i'r llyfr yma gael ei gyfansoddi ganddo ef (1, 1; 2, 1, 2), a dyfynir ef fel gwaith prophwyd ysbrydoledig gan yr ysgrifenwyr efengylaidd, Heb. 10, 37, 38; Rhuf. 1, 7; Gal. 3, 11; Act. 13, 14.

O'r holl genedloedd a flinasant yr Iuddewon, ac, ynddynt hwy, eglwys Dduw, y penaf oedd yr Assyriaid, y Chaldeaid, a'r Edomiaid; a chafodd

[a] Gwel (Rhan. ii., adr. 77). [b] 23, 3—8; 30, 9; 31, 15; 32, 36; 33, 26.
[c] 3, 15—18; 31, 31—34 (gwel Heb. 10, 15); 23, 5, 6; 31, 31—34; 33, 8 (Heb. 8, 8—13); 50, 4, 5; 19, 20.

tri o'r prophwydi eu danfon mewn modd neillduol i ddadgan eu tynged. Rhagfynega Nahum ddinystr yr Assyriaid; Habacuc eiddo y Chaldeaid: ac yn fuan cawn Obadiah yn rhagfynegu dinystr Edom.

Dechreua y prophwyd drwy gŵyno oblegid y drygioni a'r trawsedd annghyfreithlawn oedd yn ffynu yn mhlith yr Iuddewon. Yna y mae Duw yn cyhoeddi y bydd iddo wneuthur gwaith rhyfedd yn eu dyddiau hwynt, a chyfodi i fyny y Chaldeaid, y rhai, fe allai, y pryd hwnw oeddynt genedl gyfeillgar, ac y buasent hwy yn myned dros eu holl dir, ac yn cymmeryd meddiant o'u preswylfeydd. Yn y desgrifiad yma, rhydd y prophwyd hanes y tri darostyngiad (yn nheyrnasiad Joacim, Jeconiah, a Sedeciah); yn rhagfynegu cynddeiriogrwydd eu hymosodiad, a chyflymdra eu buddugoliaethau; y mae wedi hyny yn cyferbynu yr olygfa yn fŷr; yn cyfeirio at falchder a gau-ymddiried y buddugoliaethwyr, ac yn eglur awgrymu "cyfnewidiad" ac ynfydrwydd Nebuchodonosor; ac ymddadleua y prophwyd yn ostyngedig â Duw am anfon y fath farnedigaethau ar ei bobl drwy genedl fwy drygionus nâ hwynthwy eu hunain.

Yna derbynia a chyflwyna atebiad Duw, sef y bydd y weledigaeth, er iddi oedi, yn sicr o ddyfod; y bydd y cyfiawn byw trwy ffydd, a'u bod i ddysgwyl am dani. Wedi hyn, rhagfynega y barnedigaethau sydd i syrthio ar y Chaldeaid am eu creulondeb a'u heilun-addoliaeth: ni fydd eu delwau cerfiedig o unrhyw les na chymhorth iddynt; ond yr Arglwydd yn unig "yn ei deml santaidd" (2).

Wrth glywed yr addewidion a'r bygythion yma, diwedda y prophwyd ei lyfr mewn cân aruchel o fawl a gweddi. Molianna y dadleniadau a wnaethai Jehofah eisoes o'i allu a'i ras,[a] gweddia Dduw am warediad buan ei bobl, a therfyna drwy fynegu ei ymddiried yn Nuw, ac nas gallai unrhyw gyfnewidiad ei ddinystrio. Amcan y Salm yma, yr hon yn ddiau a fwriadwyd i'w defnyddio yn yr addoliad cyhoeddus, yw cyfranu cysur i'r Iuddewon duwiol dan y drygau oedd ar ddyfod arnynt.

Hen ysgrifenwyr Iuddewig a gymhwysant 2, 3, at amser y Messiah, ac edrycha yr apostol arni fel pe byddai cyflawniad pellach fyth yn perthyn iddi, Heb. 10, 37, 38. Mewn gair, gan mai ffydd—dysgwyliad amyneddgar wrth Dduw, ac ymddiried ynddo ef—yw egwyddor fawr y bywyd dwyfol, felly, yn mhob oes, y mae perffaith iachawdwriaeth yn bwnc o ffydd yn hytrach nag o olwg. Cymmeriad y Cristion yw, ei fod yn "byw drwy ffydd," ac mewn perthynas i'r waredigaeth addawedig oddiwrth bechod a'i holl ffrwythau, ei agwedd yw, "ei fod yn dysgwyl am dani."

Gwel Rhuf. 1, 17; Gal. 3, 2: Rhuf. 5, 1—3: 1 Cor. 1, 7.

Llyfr Daniel, c. c. 606—534.

92. Ni wyddom ond ychydig am Daniel yn mhellach nâ'r hyn a ellir ei gasglu oddiwrth ei ysgrifeniadau ef ei hunan. Nid oedd yn offeiriad fel Jeremiah ac Ezeciel; ond yr oedd, megys Esaiah, o lwyth Judah, ac, mae yn debyg, o'r tŷ breninol, Dan 1, 6, 3. Dygwyd ef i Babilon yn y bedwaredd flwyddyn o Joacim (hyny yw, c. c. 606), wyth mlynedd o flaen Ezeciel, ac, fe allai, rhwng y ddeuddegfed (Ignatius) neu y ddeunawfed (Chrysostom) flwyddyn o'i oedran, 1, 4. Cafodd ei osod yn llys Nebuchodonosor, lle y daeth yn gyfarwydd yn ngwybodaeth y Chaldeaid; fodd bynag, mewn cymhariaeth iddynt hwy, fel y mynegir ganddo ef ei hunan,

[a] Teman yw Edom; Cusan, rhan o Arabia (Chusistan); gwel hefyd Num. 13, 15; Exod. 15, 15; Num. 31, 2—11; Barn. 3, 10; 7, 1.

rhoddodd Duw iddo ddoethineb rhagorach. Cyfodwyd ef drwy Nebuchodonosor i sefyllfa uchel, ac o ddylanwad mawr; a chynnaliodd y sefyllfa yma, ond nid yn ddidor, dan y teyrnachau (*dynasties*) Babilonaidd a Phersiaidd. Bu farw mewn oedran têg, wedi prophwydo yn ystod yr oll o'r caethiwed (1, 21); a thraddododd ei brophwydoliaeth olaf ddwy flynedd yn ddiweddarach, sef yn y drydedd flwyddyn o deyrnasiad y brenin Cyrus.

Y dygwyddiad cyntaf a ennillodd ddylanwad i Daniel yn llys Babilon oedd dadleniad a chyhoeddiad breuddwyd Nebuchodonosor. Cymmerodd hyn le yn yr ail flwyddyn o deyrnasiad *cyflawn* y brenin hwnw, hyny yw, yn 603. Yn mhen tair blynedd ar hugain ar ol hyn, fel y meddylia Usher (c. c. 580), cafodd ei gymdeithion eu gwaredu o'r ffwrn dân (3); fe allai fod Daniel ei hunan, ar yr amser hwnw, yn cyflawnu pethau perthynol i'r amherodraeth mewn rhyw le arall. Deng mlynedd yn ddiweddarach, cymmerodd ail freuddwyd Nebuchodonosor le (4); ac yn ystod saith mlynedd ei ynfydrwydd, meddylir fod Daniel yn gweithredu fel ei raglaw (*viceroy*). Dyddiad y dygwyddiadau a gofnodir yn pen. 5 yw, c. c. 538, tua diwedd teyrnasiad Belsassar, pan yr ymddengys fod Daniel yn byw yn annghyhoedd, ad. 12, 13. Y noson hono lladdwyd y brenin, a chyfnewidiwyd y teyrnach. Y mawredd a roddodd Belsassar ar Daniel yn oriau olaf ei deyrnasiad a gadarnhäwyd gan Darius a Cyrus.

Gwelir fod y llyfr wedi ei ranu yn ddwy ran; yr hanesyddol, 1—6, a'r prophwydol, 7—12. Ysgrifenwyd pennodau 2, 4,—7, yn y Galdaeg, a'r rhelyw yn yr Hebraeg. Mynegir i'r rhan olaf o'r llyfr gael ei ysgrifenu gan Daniel; llefarir am dano ef yn y rhan flaenaf yn y *trydydd* person, ond addefir yn gyffredin mai efe yw awdwr yr holl lyfr. Ezeciel a lefara am dano (c. c. 584) fel siampl ddysglaer o uniondeb a doethineb, gan ei resu gyda Noah a Job, 14, 14, 18, 20; 28, 23. Ein Harglwydd a'i dyfyna fel prophwyd, Math. 24, 15. Cyfeiria Paul ato yn Heb. 11, 33, 34; ac yn y Dadguddiad, cymmerir ei iaith gan Ioan, fel cynllun i'w eiddo ei hunan. Gellir canfod yr ymchwiliad manylaf i burdeb y llyfr hwn yn Nhraethawd Hengstenberg ar Daniel, ac yn Rhagarweiniad Cyffredinol Havernick. Y mae y blaenaf wedi ei gyhoeddi yn Saesneg, ac ymddengys crynodeb o hono yn Horne (Arweiniad).

Gellir rhanu y gyfran olaf o'r llyfr, fel y blaenaf, i gyfnodau. Cymmerodd y weledigaeth brophwydol gyntaf le yn y flwyddyn gyntaf o deyrnasiad Belsassar (c. c. 555), 7; yr ail, ddwy flynedd yn ddiweddarach (553), 8; y drydedd yn y flwyddyn gyntaf o deyrnasiad Darius y Mediad (538), 9; a'r olaf yn y drydedd flwyddyn o deyrnasiad Cyrus (534), 10—12. Hefyd, y mae breuddwyd Nebuchodonosor (2) yn brophwydoliaethol.

Y mae llawer o eglurder hanesyddiaeth yn perthyn i ragfynegiadau y llyfr hwn, ac y maent er ys amser maith wedi ffurfio rhan bwysig o brofion yr Ysgrythyr. Yn wir, o Porphyry i lawr, unig loches anffyddiaeth sydd wedi bod mewn haeru iddynt gael eu hysgrifenu ar ol y dygwyddiadau a ddesgrifiant; dyfais hollol ddisail mewn gwirionedd.

Cynnwysa pen. 2 hanes byr o'r teyrnasoedd a ffurfiant brif bwnc y llyfr. Y ddelw a gynnrychiola y freniniaeth Fabilonaidd dan deyrnach Nebuchodonosor, amherodraeth y Mediaid a'r Persiaid, yr un Roegaidd, a'r un Rhufeinaidd. Gwelir yr olaf yn cael ei rhanu i ddeg o deyrnasoedd, ac yn rhoddi ffordd i freniniaeth y Messiah, yr hon a osodir allan drwy gareg wedi ei thòri o'r mynydd, nid â llaw—o ddechreuad isel, ond gwyrthiol; nerthol fel mynydd, ac, yn y diwedd, yn rhagori ar y meteloedd dillynaf,

a'r gorseddau daearol mwyaf ysplenydd. Yn y pennodau dilynol, y mae un neu arall o'r teyrnasoedd yma yn ymddangos drachefn a thrachefn.

Yn pen. 7, darlunir y pedair blaenaf o'r teyrnasoedd yma drwy anifeiliaid, pob un o honynt yn hynod gynnwysfawr. O'r deg teyrnas i ba rai yr ymrana y bedwaredd, darostyngir tair gan gorn bychan, neu y gallu Pabaidd, ad. 8. Y mae y gallu yma (am yr hwn y darllenwn etto ar ol hyn) yn arfer ei ormes am 1260 o flynyddau, ac yna daw goruchafiaeth y saint. Cyfeiria y golygiad yma o'r pedair amherodraeth mewn modd neilldduol at eu cyssylltiadau crefyddol, megys y cyfeiriai y golygiad blaenorol at eu cyssylltiadau gwladol.

Yn pen. 8, cawn hanes amherodraeth y Mediaid a'r Persiaid, ac eiddo y Groegiaid, yn dechreu gyda Cyrus ac Alexander: yr hwrdd â'r ddau gorn, un o honynt yn fwy nâ'r llall, yn arddangos y teyrnach Mediaidd a Phersiaidd, gyda'i fuddugoliaethau, ad. 4, a'i dymchweliad gan Alexander, y corn hynod; yna cawn ei fuddugoliaethau ef, a rhwygiad ei deyrnas i bedair o ranau, allan o ba rai y daw corn bychan, Antiochus Epiphanes mae yn debygol, yr hwn oedd ormeswr twyllodrus a chyfrwys. Y mae henafiaeth agos oll yn cadarnhau y golygiad yma am "gorn bychan" pen. 8; ond y mae rhesymau dros benderfynu fod y cymhwysiad yma yn rhagweiniol a rhanol, ac i gwbl gyflawniad y brophwydoliaeth gymmeryd lle dan y gallu Rhufeinig.

Pen. 9 a ragfynega ddyfodiad y Messiah. Yn mhen saith wythnos, hyny yw, naw mlynedd a deugain, a chyfrif o orchymyn Artaxerxes, Ezra 7, 8—11, c. c. 457, yr oedd muriau y ddinas i gael eu hadadeiladu, er mewn amseroedd cythryblus. Mewn triugain a dwy o wythnosau (434 o flynyddau), yr oedd Crist i ymddangos yn ei weinidogaeth, ac yn nghanol un wythnos, hyny yw, oddeutu tair blynedd a hanner, yr oedd i gael ei dòri ymaith.

Pen. 10 a arddengys wrthwynebiad tywysog Persia i orchymyn Cyrus, yn mhlaid yr Iuddewon, a'r ymdrech lwyddiannus yn ei erbyn gan Michael, y tywysog; gwel Dad. 12, 7.

Yn pen. 11, y mae hanes Persia a Groeg yn cael eu hailgymmeryd i fyny, gydag ychwanegiadau pwysig. Rhagfynegir am bedwar o freninoedd Persia (Cambyses, mab Cyrus, Smerdis, Darius, a Xerxes), ac am gyfodiad Alexander. Yna canlyna hanes ei deyrnas ef, a'i ddilynwyr yn yr Aifft (y deau), a Syria (y gogledd), hyd amseroedd Antiochus Epiphanes, a Ptolemy Philometer, adnod 25. Dynodir eu cymmeriadau a'u tynged mewn modd eglur. Yn adn. 30, rhagfynegir gorchfygiad Syria gan y Rhufeiniaid; ac oddiyno i ddiwedd y llyfr, y mae genym gyfres o ragfynegiadau, a cheir eu cyflawniad gan rai yn hanes Antiochus, ond gan y rhan amlaf yn hanes eglwys Crist, ac eiddo y babaeth hyd ddiwedd amser. Dilys yw, fod yr adnodau olaf yn pen. 11 yn cael eu cymhwyso yn 2 Thes. 2, at Annghrist, a chyfeirir yn llyfr y Dadguddiad at y 1260 o flynyddau yn pen. 12, fel yr amser ar ol yr hwn y mae gwaredigaeth fawr i gael ei heffeithio yn mhlaid yr eglwys.

Am yr esboniad llythyrenol a chyfyngedig cyflawnaf ar Lyfr Daniel, gwel Esboniad Moses Stuart, a "Dygwyddiadau ac Amserau Gweledigaethau Daniel," gan Dr. Lee. Am ymchwiliad helaeth i'w gymhwysiad at ddygwyddiadau yr oruchwyliaeth efengylaidd, yn nghyd âg ymchwiliad cyflawn i'w gyfeiriadau at hanesiaeth gyffredin foreuol, gwel Birks ar y "ddwy gyntaf," ac ar y "ddwy olaf," o weledigaethau Daniel. Am arddangosiad poblogaidd a tharawiadol o'r gweledigaethau a'u cyflawniad,

gwel Treith. 13—17, gan yr Esgob Newton, a Phrofion Prophwydoliaeth, gan Dr. Keith. Er mwyn deall llawer o ymadroddion y llyfr, ac hefyd o'i ffeithiau, fel y barna y rhan amlaf, cymharer Dad., pennodau 11—20.

Y mae gwersi moesol y gyfran yma o wirionedd yn hollol ar wahan oddiwrth y rhagfynegiadau hyn. Ysgrifenwyd ef yn nhywyllwch y caethiwed mwyaf arswydus a adnabyddodd pobl Dduw erioed, ac etto, cynnwysa rai o'r dadguddiedigaethau mawreddusaf am ogoniannau dyfodol yr eglwys .... Heblaw hyny, gwelir rhagluniaeth Duw yn mhob man yn gweithio ac yn goruwch-lywodraethu pob peth er daioni iddi. ... Cyrhaedda rhagfynegiadau y llyfr o sefydliad amherodraeth y Mediaid a'r Persiaid hyd yr adgyfodiad cyffredinol, a chadarnhëir ffydd credinwyr drwy gyflawniad rhagfynegiadau cyfryngol (*intermediate*), yn dadgan cospedigaeth agos dau o frenimoedd balch ac annuwiol, yn nghyd âg ail-adeiladaeth Jerusalem.... Y mae hanes temtasiynau Daniel a'i gymdeithion, eu sefydlogrwydd a'u gwaredigaeth, yn dra addysgiadol, ac yn egluro ar unwaith ddirgelwch y goruchwyliaethau Dwyfol, yn nghyd â'r ysbryd ffyddlawn, yn yr hwn yr ymostynga dynion da iddynt.... Rhoddwyd yr addewid am adadeiladaeth y deml i brophwyd edifeiriol a gweddïgar, ac yr oedd yr addewid yn fwy cynnwysfawr nâ'r weddi a gyflwynodd. Efe a ofynai o berthynas i Jerusalem; ond dywedai yr ateb hefyd am Messiah y Tywysog. Y cyhoeddiad eglur am iawn Crist, ac am yr amser yn yr hwn yr oedd i ymddangos (9, 24—26); ei fawredd dyfodol, a'i ddyfodiad gyda chymylau y nef (gwel Act. 1, 11), a wnant y gyfran hon o'r llyfr yn un o'r dyddordeb mwyaf i'r eglwys.

Llyfr y Prophwyd Ezeciel, c. c. 595—574.

93. Yr oedd Ezeciel (*Duw a gynnorthwya, neu a lwydda*), fel Jeremiah, yn offeiriad yn gystal ag yn brophwyd. Dygwyd ef yn gaeth gyda Joacim, gan Nebuchodonosor, c. c. 599, un flynedd ar ddeg cyn dinystr Jerusalem. Traddodwyd ei holl brophwydoliaethau yn Chaldea, ar làn yr afon Chebar (Khabûr), yr hon a ddylifa i'r Euphrates, yn Carchemis, oddeutu 200 o filltiroedd i'r gogledd o Babilon. Yma y preswyliai (1, 1; 8, 1), ac yma y bu ei wraig farw (24, 18). Dywed traddodiad iddo gael ei roddi i farwolaeth gan un o'i gyd-alltudion, arweinydd yn eu plith, yr hwn a geryddwyd ganddo am ei eilun-addoliaeth; a'r hyn a elwid ei feddrod a ddangosid yn y canol-oesoedd, heb fod yn mhell o Bagdad.

Dechreuodd Ezeciel brophwydo yn y bummed flwyddyn ar ol caethiwed Joacim (1, 2), hyny yw, yn nheyrnasiad Sedeciah, a pharhäodd, o leiaf, hyd y seithfed flwyddyn ar hugain o'i gaethiwed ei hunan (29, 17). Y flwyddyn y prophwydodd gyntaf oedd hefyd y ddegfed ar hugain o ddechreuad teyrnasiad Nabopolassar, ac o gyfnod diwygiad Josiah. At un o'r ffeithiau yma, neu, fe allai, at ei oedran ei hunan (gwel Num. 4, 3) y cyfeiria yn pen. 1. Ei ddylanwad gyda'r bobl sydd amlwg oddiwrth yr ymweliadau mynych a delid iddo gan yr henuriaid, y rhai a ddelent i ymofyn pa genadwri a anfonwyd gan Dduw drwyddo (8, 1; 14, 1; 20, 1, &c.).

Ei ysgrifeniadau a ddangosant nerth mawr, ac amlwg yw, fod ynddo addasrwydd mawr hefyd i wrthwynebu y "meibion wyneb-galed a chadarn galon," at y rhai yr anfonwyd ef. Ei brif nodwedd, fodd bynag, oedd cyssegriad ei holl fywyd i'w waith. Y mae bob amser yn meddwl ac yn teimlo fel *prophwyd*. Yn yr ystyr yma, canfyddir wrthgyferbyniad hynod rhwng ei ysgrifeniadau ef ag eiddo ei gyd-oesydd, Jeremiah, hanes

personol a theimladau yr hwn sydd yn cael eu cofnodi yn fynych. Ei fod, er hyny, yn ddyn o deimladau cryfion, sydd amlwg oddiwrth yr hanes byr y mae wedi roddi i ni am farwolaeth ei wraig (24, 15—18).

Canolbwynt ei brophwydoliaethau yw dinystr Jerusalem.

Traddodwyd rhagfynegiadau Ezeciel mewn rhan o flaen, ac mewn rhan ar ol dinystr Jerusalem. *Cyn* y dygwyddiad yma, ei brif bwnc oedd galw i edifeirwch y rhai oedd yn byw mewn diogelwch diofal; eu rhybyddio rhag pwyso ar y gobaith y gallasent, drwy gymhorth yr Aifftiaid, fwrw ymaith yr iau Fabilonaidd (17, 15—17; cymharer Jer. 37, 7); a'u sicrhau hwynt fod dinystr eu dinas a'u teml yn anocheladwy, ac yn agosâu yn gyflym.

Ar ol y dygwyddiad yma, ei ofal penaf oedd cysuro yr Iuddewon alltudiedig drwy addewidion am waredigaeth ddyfodol, ac adferiad i'w gwlad eu hunain, a'u cefnogi hwynt drwy sicrwydd am fendithion dyfodol. Ei brophwydoliaethau yn erbyn cenedloedd estronol a ddeuant rhwng y ddwy ddosran fawr yma, a chawsant eu traddodi gan amlaf rhwng yr awgrymiad fod Nebuchodonosor yn gwarchae ar Jerusalem (24, 2) a dyfodiad y newydd ei fod wedi ei chymmeryd (33, 21). Y cyfnodau ar ba rai y traddodwyd y prophwydoliaethau ar y pynciau gwahanol yma ydynt yn cael eu dynodi yn fynych.

Rhenir y llyfr gan Havernick i naw dosran, ac ymddengys yn debygol fod y trefniad yma wedi ei wneyd gan Ezeciel ei hunan.

1. Galwedigaeth Ezeciel i'r swydd brophwydol, 1—3, 21. Yma ymddengys Duw mewn cwmwl, ac oddirhwng y cerubiaid, rhydd gommisiwn i'r prophwyd; dengys iddo rol (llyfr) wedi ei ysgrifenu â chymmeriadau prophwydol, a gorchymyna iddo fwyta, hyny yw, ei fyfyrio yn dda.

2. Prophwydoliaethau ac arddangosiadau arwyddluniol, yn rhagfynegu y dinystr oedd ar ddyfod ar Judah a Jerusalem, 3, 22—7. Gosodir allan 390 mlynedd gwrthgiliad *Israel*, a'r deugain mlynedd yn ystod pa rai y bu Judah yn nodedig o wrthryfelgar, drwy y warchäedigaeth gysgodol, yn pen. 4. Y barnedigaethau triphlyg o newyn, cleddyf, a gwasgarfa a ddarlunir drwy y dangosiadau arwyddluniol yn pen. 5.

3. Gweledigaethau a gyflwynwyd i'r prophwyd flwyddyn a dau fis yn ddiweddarach nâ'r rhai blaenorol, yn mha rai y dangosir iddo y deml wedi ei halogi drwy addoliad Thammuz (Adonis wedi hyny); yr addolwyr yn troi, fel eilun-addolwyr Persiaidd, tua'r dwyrain; y farn ganlynol ar Jerusalem a'r offeiriaid; ychydig o ffyddloniaid yn cael eu nodi fel eithriadau (9); a therfyna drwy addewidion am ddedwyddach amseroedd, ac addoliad purach, 8—11. Noder fel y mae arwydd y presenoldeb Dwyfol yn cael ei symud yn raddol; symuda o'r deml yn gyntaf, ac wedi hyny o'r ddinas.

4. Ceryddon a rhybyddion neillduol, 12—19. Yma, drwy ddwy arwydd (12), dengys i'r caethion beth oedd y dynged oedd ar orddiwes y bobl; dynoetha y prophwydi gau, y rhai, yn Jerusalem a Babilon (Jer. 23, 16; 29, 8), a lefarent am heddwch a gorphwysdra, Ezec. 13, 18; ailadrodda ei fygythion wrth ryw henuriaid a ddaethant ato mewn gobaith o gael rhywbeth oddiwrtho i wrthddywedyd Jeremiah, 14; gesyd Israel allan fel gwinwydden ddiffrwyth (15), ac fel putain warthus (16). "Trwy un eryr (Nebuchodonosor), yr hwn oedd *wedi* cymmeryd ymaith frig y gedrwydden (Joacim), a thrwy eryr arall (Pharaoh), at yr hwn yr oedd y winwydden a adawsid (Sedeciah) yn troi, dengys ddiwreiddiad y cwbl; a chan droi i geryddu Sedeciah am y llw yr oedd yn awr yn ei dori (cym-

harer ad. 15 âg 2 Cron. 36, 13), rhagfynega adblaniad a llwyddiant y cyfan dan Messiah y *Blaguryn.*"[a] (17). Dengys mai canlyniad eu gweithredoedd *eu hunain* yw eu dyoddefiadau presenol (18), ac nid eiddo gweithredoedd eu tadau yn unig.

5. Cyfres arall o rybyddion, yn cael eu rhoddi oddeutu blwyddyn yn ddiweddarach, pan wrthryfelodd Sedeciah, ac y trôdd at yr Aifft; Sedeciah i'w ddymchwelyd, Joacim i gael ei dderchafu (21, 26; gwel 17, 15), a phob cyfnewidiadau dyfodol yn darparu erbyn Crist (21, 27), 20, 23.

6. Prophwydoliaethau a gyhoeddwyd ddwy flynedd a phum mis yn ddiweddarach, ar y dydd y dechreuodd y gwarchae ar Jerusalem (24, 1; cymharer 2 Bren. 25, 1), yn dadgan ei chwbl ddymchweliad. Ei wraig ei hunan yn cael ei symud y dydd hwnw; nid ydyw yn wylo, fel arwydd y buasai cwymp Jerusalem iddynt hwy yn ddrygfyd a fuasai yn eu caledu, heb adael nac amser na chyfleustra i alaru.

7. Prophwydoliaethau yn erbyn cenedloedd estronol (25—32), yn cyrhaedd dros y tymmor o dair blynedd, yn ystod pa amser gwarchaewyd ar Jerusalem, ac ni chafodd un brophwydoliaeth ei chyhoeddi yn erbyn Israel; gwel 24, 27. Cyflawniad buan llawer o'r prophwydoliaethau yma, heblaw rhoddi prawf i bob oes o wirionedd yr Ysgrythyr, a gynnysgaethai yr Israeliaid â sicrwydd o berthynas i gyflawniad y lleill.

8. Ei brophwydoliaethau o berthynas i Israel yn cael eu hadnewyddu; yr arwydd addawedig (ffôadur o Jerusalem) wedi dyfod (cymharer 24, 26, â 33, 21). Annogaethau i edifeirwch; prophwydoliaeth yn erbyn Edom; goruchafiaeth Israel, a llwyddiant teyrnas Dduw ar y ddaear, yn cael eu rhagfynegu (33—39).

9. Dangosiadau arwyddluniol o amseroedd y Messiah; gogoniant a phrydferthwch y ddinas a'r deml newydd (40—48).

Addefir fod y pennodau diweddol yn aneglur. Edrycha rhai arnynt fel yn ddarluniadol o'r hyn oedd teml Solomon; ac ereill, o'r hyn oedd yr ail deml i fod; ac ereill, etto, o adeilad gogoneddus oedd i gael ei gyfodi ar ol hyn. Oddiwrth y desgrifiad ei hunan, oddiwrth yr iaith gyffelyb yn y pennodau olaf o'r Dadguddiad, ac oddiwrth rediad cyffredinol iaith brophwydoliaethol, y rhan fwyaf o awdurdodau (Havernick, Fairbarn, ac ereill) a edrychant ar y cyfan fel yn ddarluniadol o ëangder, gogoniant, a llwyddiant sicr teyrnas Dduw.

Llyfr Obadiah, c. c. 588—583.

94. Y mae yr amser y traddododd Obadiah ei brophwydoliaeth i raddau yn ansicr; ond mae yn debygol iddo wneyd hyny rhwng dinystr Jerusalem gan y Chaldeaid, dan Nebuchodonosor (588, c. c.), a gorchfygiad Edom, yr hyn a gymmerodd le bum mlynedd ar ol hyny. Ereill a roddant ddyddiad boreuach i'r llyfr hwn (amser Hezeciah), ond gyda llai o reswm. Nid ydyw hanes personol y prophwyd yn wybyddus; ond y mae amryw bersonau enwog o'r un enw ag ef yn cael eu nodi yn yr Ysgrythyr. Fel cyd-oesydd Jeremiah ac Ezeciel, ymdrinja â'r un pynciau. Ysgrifeniadau y tri ydynt, ar rai achlysuron, yn debyg i'w gilydd.[b]

Nid oedd gan yr Israeliaid elyn mwy nâ'r Edomiaid. Yr oeddynt yn falch o'u doethineb, ad. 8, ac o'u sefyllfa greigiog ac anorfod, ad. 3. Ond

[a] Leifchild.

[b] Obad. 1—4; Jer. 49, 14—16; Obad. 6, 8; Jer. 49, 9, 10; Obad. 9; Ezec. 25, 13, ad. 12, ac Ezec. 35, 15.

rhagfynega y prophwyd ddadleniad eu trysorau, a cherydda eu hymddygiad anngharedig tuag at yr Iuddewon, eu perthynasau, pan yn llawenychu yn eu trueni, a phan yn annog Nebuchodonosor i'w llwyr ddyfetha hwynt (Salm 137, 7); yr oedd dydd yr ad-daliad am hyn oll i ddyfod yn fuan. "Fel y gwnaethost y gwneir i tithau," ad. 15.

Ond yr oedd yr hiliogaeth ddewisedig eu hunain newydd gael eu dwyn i gaethiwed; yr oedd y tir santaidd wedi ei adael; ac am hyny, gallasai y cerydd a gyhoeddid yn erbyn yr Edomiaid beidio ymddangos yn wahanol i'r hyn oedd eisoes wedi disgyn ar hâd Jacob. Y mae y prophwyd, gan hyny, yn myned yn mlaen i ddadgan y buasai Edom fel pe buasai erioed heb fod, ac y cawsai ei llyncu i fyny am byth (prophwydoliaeth aydd wedi ei chyflawnu yn hynod); tra y buasai Israel, ar ol eu cwymp presenol, yn cyfodi etto; y cawsent feddiannu nid yn unig eu tir eu hunain, ond hefyd Philistia ac Edom, a gorfoleddu yn y diwedd yn nheyrnasiad santaidd y Messiah. Gwel Rhan I., adr. 188. Cymharer Amos 1, 11, 12; 9, 11—15; Joel 3, 19, 20; Ezec. 35.

Y Caethiwed.

Yr oedd y Caethiwed Babilonaidd yn oruchwyliaeth neilldnol, ac ar yr amser y cymmerodd le, yn oruchwyliaeth annghyffelyb o eiddo Rhaglunaeth. Pobl Israel, yn amser y Barnwyr, a ddygwyd yn aml dan eu gelynion; ac yr oedd yr arch, arwydd y presenoldeb Dwyfol, unwaith wedi gadael Silo, ac wedi cael ei chario ymaith i dir y Philistiaid. Ond yr oedd drygau llawer mwy a thrymach yn cydfyned â'r Caethiwed.

Yr holl dir oedd yn awr wedi ei ddifrodi, yr arch wedi ei dinystrio, y deml wedi ei llosgi i'r llawr, a Jerusalem wedi ei hanrheithio; tra yr oedd corff y bobl wedi eu traddodi i ddwylaw gelynion barbaraidd, a'u cymmeryd o'u tir eu hunain i wlad bellenig. Nid hawdd yw darlunio teimladau torcalonus a synfawr y gweision ffyddlawn i Dduw, oedd â'u coelbren wedi syrthio yn yr amseroedd adfydus hyny. Ond yn llyfr byr y "Galarnad," gan y prophwyd Jeremiah, yr hwn oedd yn byw yn nghanol y golygfeydd hyny, cawn gofnodiad effeithiol o honynt, yr hwn a rydd ddarluniad ffyddlawn o'r ymweliad hwn, ac o'i ganlyniadau.

Er fod y dygwyddiadau yma yn ofidus iawn, etto cawsant eu goruwchlywodraethu mewn modd hynod er dadleniad pellach o feddwl Duw, a chynydd gwir grefydd. Mawr dueddai caethiwed yr Iuddewon yn Mabilon i'w gwella oddiwrth y pechod o eilun-addoliaeth, i'r hwn, am gynnifer o oesoedd, yr oeddynt wedi bod mor chwannog; canlyniad ag y methodd eu holl rybyddion, eu ceryddon, a'u barnedigaethau blaenorol, ei gynnyrchu. Gwasgarodd ofn Johofah yn mysg y paganiaid, a thynodd oddiwrth Cyrus, oddiwrth Nebuchodonosor, ac oddiwrth Darius, gydnabyddiaethau o'i berffeithderau a'i hawliau. Hefyd, parotôdd y ffordd i ddyfodiad y Messiah, a goruchwyliaeth yr efengyl, drwy gymmeryd ymaith y pethau hyny a gynnwysent ogoniant yr oruchwyliaeth Iuddewig, a thrwy achosi i'r Iuddewon gael eu gwasgaru drwy ran fawr o'r byd adnadyddus. Daeth yr Iuddewon gwasgaredig hyny, drwy ddwyn gyda hwynt yr Ysgrythyrau a gynnwysent y prophwydoliaethau am y Messiah, yn foddion i daenu peth gwybodaeth o'r wir grefydd, a chyfodi i ryw raddau ddysgwyliad cyffredinol am ddyfodiad y Ceidwad.

Y dygwyddiadau yma oeddynt hefyd o bwys mawr, am eu bod yn arddangosiad tarawiadol o gyflawniad prophwydoliaeth. Yn mhell cyn di-

frodiad a chaethiwed y ddwy deyrnas, Israel a Judah, yr oedd tynged pob un o honynt wedi ei rhagfynegu. Pan safai y ddwy deyrnas yma i fyny yn nghyd yn amser eu hysgariad, nis gallasai unrhyw ymchwiliad dynol benderfynu pa un o honynt fuasai y mwyaf sefydlog a llwyddiannus. Ymddangosai y fantais yn hytrach fel yn meddiant Samaria, wrth ystyried ei bod yn helaethach ei thiriogaeth, ac yn fwy ei rhifedi. Ond penderfynwyd y pwnc gan lais prophwydoliaeth. Y tri phrophwyd blaenaf sydd yn cyfeirio at y pwnc yma, Hosea, Amos, ac Esaiah, ydynt oll yn dadgan mai Israel fuasai y cyntaf i syrthio, a chael ei chwbl ddinystrio. Yr oedd Israel i gael ei "thòri rhag bod yn bobl o fewn pum mlynedd a thriugain," Esa. 7, 6—8; a phrophwydoliaeth Hosea a ragddangosai mai y gallu Assyriaidd fuasai yr offeryn yn ngweinyddiad y farn Ddwyfol, Hos. 11, 5, &c.

Y rhagfynegiad pendant cyntaf am gaethiwed Judah a wnaed yn nheyrnasiad Hezeciah, ar yr achlysur o ddangosiad trysorau, a chyfoeth, a gogoniant ei deyrnas ganddo i'r cenadau o Babilon, Esa. 39, 2; 2 Cron. 32, 27. Ac y mae cyflawniad y prophwydoliaethau ar bwnc y caethiwed Babilonaidd yn dra nodedig. Y maent nid yn unig yn darlunio y drygfyd oedd yn nghylch gorchuddio y bobl Iuddewig, ond hefyd dadlenant *resymau* ac *amcanion* rhagluniaeth Duw wrth eu dwyn oddiamgylch. Gosodant ef allan fel ymweliad barnol am bechod a llygredigaeth mor fawr, fel nad ydoedd i'w gymmeryd ymaith mewn unrhyw ffordd arall; ac fel wedi ei fwriadu, nid yn gospedigaeth i'w dinystrio, ond i'w tywys i edifeirwch ac ymostyngiad. Rhagfynegant hefyd *amser ei barhad*, yr hwn a gyfyngant i driugain a deg o flynyddau, a'i *ganlyniad*, gyda sefyllfa edifeiriol y galon, a *rhediad y dygwyddiadau* ar ba rai yr oedd y canlyniad hwnw i ymddibynu. Adferiad Judah, yr hyn oedd ddygwyddiad mor annhebyg i ddyfod oddiamgylch, fel nas gallesid ei ddysgwyl yn ol rhediad cyffredinol pethau, a ragfynegwyd mor eglur a'r caethiwed. Gwel Esaiah 14, 3; 44, 26—28; 45, 1—4, 13; Jer. 25, 9—13; 29, 10—14; 50, 4, 5; 51; Ezec. 11, 16, 17; 12, 15; 20, 34, yn nghyd â rhanau ereill.

Yr ydys eisoes wedi sylwi ar neillduolion nodweddiadol prophwydoliaeth yn ystod y tymmor yma (Rhan ii.) Mesur ei therfynau, ac eglurder ei chyhoeddiadau yn erbyn y paganiaid, ei dadleniadau efengylaidd o deyrnas ddyfodol, ysbrydolrwydd cynnyddol ei gorchymynion, ydynt yn hynod addysgiadol, a gwneir hwynt oll yn briodol, os nid yn angenrheidiol, gan gyflwr isel yr eglwys Iuddewig.

Yr Adferiad.

Yr oedd Babilon yn awr wedi syrthio, megys y rhagfynegwyd, ac y mae rheswm dros gredu fod Daniel yn sefyll yn uchel yn ffafr y gorchfygwr Cyrus. Y mae yn debyg iddo ddangos i'r brenin hwnw brophwydoliaethau Esaiah; ac yn awr, ar ddiwedd y triugain mlynedd, gan fod Cyrus yn cael y gallu breninol yn ei law ei hunan, efe a gyhoeddodd orchymyn, yn yr hwn, wedi cydnabod goruwch-lywodraeth Jehofah, y rhoddodd ganiatâd i'r Iuddewon, mewn unrhyw ran o'i amherodraeth ef, ddychwelyd i'w tir eu hunain, ac adadeiladu y ddinas a'r deml yn Jerusalem. Ceir canlyniadau y gorchymyn yma, yn nghyd â hanes ganlynol yr Iuddewon hyd ddiwedd canon yr Hen Destament, yn y gweddill o lyfrau y Beibl. Y mae o bwys talu sylw i drefn amseryddol y llyfrau. Gwelir eu trefniad yn Rhan ii., adr. 6.

Dos. 5. *Llyfrau Ezra, Haggai, Zechariah, Esther, Nehemiah, Malaeci.*

Llyfr Ezra, c. c. 536—457.

95. Yr oedd Ezra yn un o'r caethion yn Mabilon, lle, mae yn debygol, y cafodd ei eni. Yr oedd yn ŵyr i Seraiah, yr arch-offeiriad, yr hwn a laddwyd yn Jerusalem (2 Bren. 25, 18—21), ac felly, disgynai oddiwrth Aaron. Efe oedd "ysgrifenydd cyflym," neu ddysgawdwr, yn hytrach, yn nghyfraith Duw. Yr oedd yn ddyn o ostyngeiddrwydd mawr (9, 10—15), o sêl danllyd dros anrhydedd Duw (7, 10; 8, 21—23), yn galaru yn ddwys o herwydd pechodau y bobl, ac nid arbedai unrhyw drafferth i'w dwyn i edifeirwch (9, 3; 10, 6, 10). Ymunodd â'r Iuddewon yn Jerusalem lawer o flynyddau ar ol eu dychweliad, ac aeth i fyny yno gyda'r ail fintai.

Ysgrifenwyd rhan o'r llyfr (4, 8—6, 19; 7, 1—27) yn y Galdaeg, a chynnwysa, yn benaf, ymddyddanion a gorchymynion yn yr iaith hono. Llefara Ezra am dano ei hunan fel yr awdwr yn 7, 27, 28; 8, 1, 25—29; 9, 5. Yr holl gyfnod a gynnwysir yn y llyfr a gyrhaedda o 536 i 457, c. c., neu oddeutu triugain a phedair ar bumtheg o flynyddau.

Gwneir yr hanes yn y llyfr hwn i fyny o ddwy gyfran, yn cael eu hysgaru oddiwrth eu gilydd gan gryn gyfnod o amser. Cynnwysa y *gyntaf* hanes yr alltudion (*exiles*) dychweledig, ac adadeiladaeth y deml, yr hyn oedd wedi ei orchymyn gan Cyrus, yn y flwyddyn c. c. 536, ac a gwblhäwyd yn nheyrnasiad Darius Hystaspes, yn y flwyddyn c. c. 515. Yr *ail* ran a gynnwysa hanes taith bersonol Ezra i Jerusalem, gyda chenadwriaeth oddiwrth Artaxerxes, yn y flwyddyn c. c. 457; a'i ymdrechion i ddiwygio y bobl.

Gellir rhanu cynnwysiad y llyfr fel y canlyn:—

(i.) *Dychweliad yr Iuddewon*, o'u caethiwed yn Mabilon, ac adadeiladaeth y deml.

Cyhoeddiad Cyrus am adadeiladaeth Jerusalem a'r deml, pen. 1. Y bobl a ddychwelasant gyda Zorobabel, ŵyr Joacim, y brenin, a Josua, ŵyr Josadac, yn nghyd a'u hoffrymau at y deml, 2. Adeiladaeth allor y poeth-offrwm, a gosodiad i lawr sylfaen y deml, 3. Gwrthwynebiad y Samariaid, ac attaliad y gwaith, 4. Prophwydoliaethau Haggai a Zechariah; ail-ddechreuad yr adeiladaeth; llythyr y Samariaid at Darius, 5. Gorchymyn Darius; cwblhad, yn nghyd â chyssegriad y deml, 6.

(ii.) *Taith Ezra* i Jerusalem, a'r *diwygiadau* a effeithiodd.

Commisiwn Artaxerxes i Ezra, a'i daith ef a'i gymdeithion o Babilon i Jerusalem, 7, 8. Galar Ezra o herwydd pechodau y bobl; ei gyffes a'i weddi, 9. Edifeirwch a diwygiad y bobl, 10.

Dylid darllen llyfr Ezra mewn cyssylltiad â phrophwydoliaethau Haggai a Zechariah.

Yn nychweliad yr Iuddewon o Babilon, gwelwn gyflawniad prophwydoliaethau Esaiah (44, 28) a Jeremiah (25, 12; 29, 10); rhagfynegodd y blaenaf enw eu gwaredwr, a'r olaf amser penodol eu gwaredigaeth, yn nghyd â'r agwedd o ran y galon mewn cyssylltiad â pha un y buasai yn cael ei ddwyn oddiamgylch. Yr oedd yr adferiad yma i'r eglwys, y deml, a'r addoliad Iuddewig, yn amgylchiad o'r pwys mwyaf, fel yn tueddu i gadw gwir grefydd yn y byd, ac i ddarparu y ffordd i ymddangosiad y Gwaredwr mawr, henafiad i ba un oedd Zorobabel, neu Sesbassar, yr hwn yn rhagluniaeth Duw â appwyntiwyd i arwain ei fobl ef o Babilon.

Llaferir llawer gan y prophwydi am y waredigaeth yma i'r bobl Iuddewig, fel yr arddangosiad mwyaf gogoneddus o ragluniaeth Duw; ac, fel gwaredigaeth eu cyndeidiau allan o'r Aifft, gellir edrych arni fel cysgod o'r iachawdwriaeth fawr drwy Grist, ac o daith ei bobl waredigol i'r Ganaan nefol, o dan ofal ac arweiniad Duw eu Ceidwad, Esa. 32, 2; 42, 16; 51, 11.

Yn mhlith y goruchwyliaethau nodedig a gofnodir yn yr hanes yma, gallwn sylwi yn neillduol ar y modd hynod y tueddodd Duw galonau amryw dywysogion paganaidd, Cyrus, Darius, ac Artaxerxes, i bleidio ac amddiffyn ei bobl, ac i'w cynnorthwyo yn y gwaith o ail-adeiladu eu dinas a'u teml, 1: 4: 6: 7. Sylwer hefyd ar y modd y goruwch-lywyddodd Duw wrthwynebiad y Samariaid, drwy fod gorchymyn Darius yn llawer mwy ffafriol nag eiddo Cyrus (Ezra. 1: a 5: 6). Hefyd, y mae dangosiad arall o ragluniaeth neillduol a gwahaniaethol Duw yn nghyflawniad ei addewidion i'w bobl. Tra yr oedd poblogaeth o estroniaid wedi eu planu yn nhir *Samaria*, y rhai, fel ag i attal dychweliad yr hen breswylwyr, a lanwasant diriogaeth Israel â biliogaeth baganaidd, ymddengys fod lle digonol wedi ei adael yn nhir *Judah* i'r Iuddewon gael eu dychwelyd a'u hadfer iddo.

Ymddengys i Ezra, yn wahanol i Nehemiah, aros yn Jerusalem. Dywedir iddo fyw i'r un oed a Moses, 120 o flynyddau; ac edrychir arno ef gan yr Iuddewon fel y nesaf ato, oblegid y gwasanaeth a wnaeth i'w crefydd. Ymddengys iddo arfer awdurdod wladol am yn agos ddeuddeg mlynedd. Darllenwn am dano yn y llyfr nesaf yn cyflawnu ei ddyledswyddau cyssegredig, ac yn cydweithredu yn selog, mewn llwybreiddio diwygiad y bobl, gyda Nehemiah, yr hwn a'i canlynodd ef yn y llywodraeth.

Llyfr Haggai, c. c. 520—518.

96. Meddylir yn gyffredin i Haggai gael ei eni yn y caethiwed, ac iddo ddychwelyd o Babilon gyda Zorobabel (Ezra 2, 2). Efe yw y cyntaf o'r tri phrophwyd a flodeuodd yn mhlith yr Iuddewon ar ol eu dychweliad i Judea, ac a gyfodwyd i fyny gan Dduw i gefnogi Zorobabel a Josua, yr archoffeiriad, i ail-ddechreu y gwaith o adeiladu y deml, yr hwn oedd wedi cael ei attal am yn agos pedair blynedd ar ddeg, drwy i'r Samariaid cyfrwys ymdrechu dymchwelyd gorchymyn Cyrus (Ezra 4, 24). Er i'r attalfa yma gael ei symud, etto ni ddangosai yr Iuddewon unrhyw awydd i ail-ymosod ar y gwaith. Dywedent nad oedd yr amser wedi dyfod i adeiladu tŷ yr Arglwydd. Yr oeddynt yn fwy awyddus i adeiladu ac addurno eu tai eu hunain, i drin eu maesydd, a llnosogi eu deadelloedd. Y bydolrwydd hwn, fodd bynag, a ddygodd gydag ef ei gospedigaeth ei hunan. Yr oeddynt yn "edrych am lawer," ac nid "oedd ond ychydig." Anfonwyd diflaniad a mallder i'w ceryddu am yr hyn ddylasai fod yn waith blaenaf iddynt, a chyfodwyd Haggai a Zechariah i'w diwygio a'u cefnogi hwynt, 1, 4—11; 2, 15—19; Zech. 8, 9—12.

Cynnwysa y llyfr yma bedair cenadwri brophwydol (1, 1; 2, 1, 10, 20), a thraddodwyd hwynt oll mewn oddeutu pedwar mis. Y maent mor fyrion, fel y tybir nad ydynt ond yn unig talfyriad o'r prophwydoliaethau gwreiddiol.

Yn y genadwri gyntaf, cerydda Haggai yr Iuddewon am esgeuluso y deml, ac addawa y buasai y ffafr Ddwyfol yn cydfyned â'i hadeiladaeth. Yn mhen pedwar diwrnod ar hugain ar ol y brophwydoliaeth yma, Zorobabel a Josua, a'r holl bobl, a ail-ymroddasant i'r gwaith, a chefnogid hwynt gan genadwri rasol oddiwrth Dduw, pen. 1.

Oddeutu pedair wythnos ar ol hyn, ymddengys fod sêl y bobl wedi oeri; a chyfodai llawer o amheuon yn eu meddyliau. I symud y rhai hyn, cyhoedda Haggai fod Arglwydd y lluoedd gyda hwynt, ac y buasai gogoniant y deml newydd yn fwy nag eiddo yr un flaenorol, 2, 1—9.

Dau fis ar ol hyn, y mae Haggai yn eu hanerch hwynt y drydedd waith, ac yn ceryddu eu diofalwch, gan addaw iddynt fendith Ddwyfol, o'r amser y gosodwyd i lawr sylfaen tŷ yr Arglwydd, 2, 10—19. Ar yr un dydd, traddodwyd prophwydoliaeth arall, yn gyfeiriedig at Zorobabel, pen a chynnrychiolydd teulu Dafydd, a'r person gyda'r hwn y dechreuodd llinach y Messiah (drwy Joseph a Mair; gwel Math. 1, 12; Luc 3, 27) ar ol y caethiwed, gan addaw cadwedigaeth pobl Dduw, yn nghanol cwymp a dinystr teyrnasoedd y byd, 2, 20—23.

Y ddau ragfynegiad neillduol yma, y rhai a ennillasant i Haggai gymmeriad prophwyd (Es. 5, 1; 6, 14), a gyfeirid gan yr Iuddewon at amser y Messiah, Eph. 2, 14; Heb. 12, 26, 27 (Grotius). Yr oedd y Dysgawdwr mawr ei hunan i wneuthur ei ymddangosiad yn yr *ail* deml; ac er i'r deml hono gael ei hadadeiladu braidd yn gwbl gan Herod, etto gwaith graddol iawn oedd hyn, yn cymmeryd i fyny fwy nâ chwech a deugain o flynyddau; ac nid oedd yr ysgrifenwyr Iuddewig un amser yn llefaru am deml Herod, ond fel yr *ail* deml. Yn y rhagfynegiad diweddol lleferir am Grist ei hunan o dan y cysgod o Zorobabel; ac y mae y cynhyrfiadau tymmorol a ragflaenasant ei ddyfodiad cyntaf, ac ydynt i flaenori ei *ail* ddyfodiad, yn cael eu darlunio fel ysgydwad a dymchweliad teyrnasoedd daearol.

Llyfr Zechariah, c. c. 520—510.

97. Mae yn debyg fod Zechariah, fab Barachiah, ac *ŵyr* Ido, yn perthyn i'r llwyth offeiriadol (gwel Neh. 12, 4), ac iddo ddychwelyd o Babilon pan yn dra ieuanc gyda Zorobabel a Josua. Nid yw yn eglur pa un a oedd Ido yn brophwyd neu beidio (cymharer yr Hebraeg â'r Deg a Thriugain). Dechreuodd Zechariah, ei *ŵyr*, brophwydo oddeutu dau fis ar ol Haggai (1, 1; Ezra 5, 1; 6, 14; Hag. 1, 1), yn yr ail flwyddyn i Darius Hystaspes, a pharhäodd i brophwydo am ddwy flynedd, 7, 1. Yr un oedd ei amcan cyffredinol ag eiddo Haggai, sef cefnogi a chymhell yr Iuddewon i ail-adeiladu y deml. Yr Iuddewon, fel y dywedir wrthym, "a lwyddasant drwy y brophwydoliaeth" (Ezra 6, 14), a chwblhäwyd y deml mewn oddeutu chwech mlynedd.

Casglodd Zechariah ei brophwydoliaethau ei hunan (1, 9; 2, 2), a dyfynir ef yn fynych iawn yn y Testament Newydd. Yn wir, gan Zechariah y mae y cyfeiriadau mynychaf, oddigerth Esaiah, at gymmeriad a dyfodiad ein Harglwydd.

Yr ydys wedi ammeu purdeb y pennodau diweddol, 9—14. Mede ac ereill a'u priodolant i Jeremiah, gan ystyried y darlleniad yn Math. 27, 9, 10, a phrawf mewnol, yn ffafriol i'r golygiad yma. Jahn, Blayney, Hengstenberg, ac ereill, a briodolant y cwbl i Zechariah, gan dybied y darlleniad, fel y gallai yn hawdd fod, yn gamsyniad o eiddo adysgrifwyr.[a]

Er mai amcan uniongyrchol Zechariah oedd cefnogi yr Iuddewon yn adferiad yr addoliad cyhoeddus, etto y mae ganddo amcanion ereill mwy

[a] Y mae yr enw yn eisieu mewn rhai Llaw-ysgrifau yn y Syriac; ceir Zacharis mewn ereill; ac y mae yn ddigon hawdd cymmeryd *Zriou* yn lle *Iriou*.

pell a phwysig. Ei brophwydoliaethau ef, fel eiddo Daniel, a gyrhaeddant hyd "amseroedd y cenedloedd"; ond yn Zechariah, meddianna hanes y bobl ddewisiedig ganol-bwnc ei ragfynegiadau; a gosodir yr hanes hono allan mewn prophwydoliaeth uniongyrchol, ac mewn gweithredoedd neu weledigaethau arwyddluniol.

Gan fod Zechariah yn gyflawn o ddelweddau (*imagery*) arwyddluniol, yn lle crynodeb byr, rhoddwn fraslun o'i wahanol weledigaethau, yn nghyd a'r dehongliadau hyny a gymmeradwyir gan yr esbonwyr enwocaf.

98. Gellir rhanu llyfr Zechariah i dair rhan:—

1. Pennodau 1—6, yn cynnwys naw o weledigaethau, yn ychwanegol at y rhybyddion a roddir yn 1, 1—6. Y *gyntaf* a ddengys, er fod tri ugain a deg o flynyddau wedi myned heibio oddiar y nawfed o Sedeciah, yr adeg yn fuan ar ol pa un y llosgwyd y deml, a bod y gweddill o'r holl ddaear yn cael gorphwysdra, etto, fod yr Iuddewon o hyd yn cael eu haflonyddu; angel Duw (hyny yw, naill ai Messiah neu yr eglwys) a ofyna pa hyd; ac mewn atebiad, llefarir geiriau daionus a chysurlawn yn nghlywedigaeth y prophwyd, 1, 7—17. *Yna* y mae y prophwyd yn gweled y cyrn, neu y pedair teyrnas, gan ba rai yr oedd yr Iuddewon wedi, neu etto i gael eu gwasgaru; ac hefyd bedwar o seiri, neu gynnorthwywyr, drwy gymhorth pa rai yr oedd y cyrn i gael eu bwrw allan, 1, 18—21. Yn awr, y mae y prophwyd yn cael *trydedd* weledigaeth, sef dyn â llinyn mesur ganddo, i arwyddo ail-adeiladiad ac helaethiad Jerusalem; hi a ymëanga dros derfynau, neu a fwrw i lawr ei muriau, a bydd Jehofah ar unwaith yn fur o dân o'i hamgylch, ac yn ogoniant yn ei chanol. Annoga yr Iuddewon ydynt o hyd yn Mabilon i ddychwelyd, a rhagfynega ychwanegiadau pellach etto, 2, 1—13. *Wedi hyny*, prophwyda am burdeb cynnyddol yr offeiriadaeth yn mherson Josua, ac oddiyno â yn mlaen at swydd Crist, fel Blaguryn allan o wreiddyn Dafydd (Esa. 4, 2: Jer. 23, 5: 33, 15); a Chareg i fod yn sylfaen, a chanddi saith o lygaid, i osod allan berfeithrwydd dealltwriaeth, a'i naddiad a'i haddurniad yn Ddwyfol. Yn ei ddyddiau ef, pawb a breswylient yn ddiogel ac mewn heddwch, 3, 1—10. Yn y *bummed* weledigaeth, y mae y prophwyd yn canfod canwyllbren aur, yn cael ei chyflenwi drwy fod dwy olewydden yn dyferu eu holew iddi; a dengys y rhai hyn pa fodd, drwy fod Ysbryd yr Arglwydd yn Zorobabel a Josua, y buasai y deml a'r eglwys yn cael eu cwblhau, heb gymhorth allanol (adnod 6), ac yn erbyn pob gwrthwynebiad (adnod 7), 4, 1—14; cymharer adnod 12 â Dadguddiad 11, 4. *Yna*, drwy weledigaeth y llyfr yn ehedeg, dysgir iddo y barnedigaethau cyflym sydd i ddisgyn ar ladron ac anudonwyr. Drwy weledigaeth *arall*, sef ephah, neu fesur, a gwraig yn eistedd ynddo a thalent o blwm arni, a dwy wraig hedegog yn dwyn y cyfan i wlad Sinar, dysgir iddo farnedigaeth *drom* rhyw genedl sydd wedi cyflawnu mesur ei hanwiredd, a'r hon sydd i gael ei gosod a'i sefydlu yn y Dwyrain, 5, 1—4, 5—11. Yn yr *wythfed* weledigaeth, canfyddir mynyddoedd—amcanion Dwyfol sefydlog—yn anfon allan gerbydau a meirch, offerynau rhagluniaeth Ddwyfol.* Hwy a dawelant ysbryd y prophwyd (ad. 8: cymharer Barn. 8. 3), drwy weinyddu cospedigaeth ar Babilon (ad. 8: cymharer Jer 1, 14).[a] Yn y weledigaeth

[a] Mae yn debyg fod y pedwar cerbyd yn dynodi y pedair amherodraeth yn ngweledigaeth Daniel: y meirch cochion, y Babiloniaid; y rhai duon, y Persiaid, y rhai a ddymchwelasant Babilon; y rhai gwynion, y Macedoniaid, oedd i fod mewn heddwch â'r Iuddewon; a'r rhai brithion a gwineuon, y Rhufeiniaid. Y mae yr ystyr *gyffredin* o leiaf yn eglur.

olaf neu *derfynol*,[a] canfyddir Josua wedi ei goroni â dwy goron, un o arian a'r llall o aur, ac y mae, yn y cyflwr hwnw, yn dyfod yn gysgod o Grist, y Blaguryn, yr hwn, gan uno ynddo ei hunan y swydd offeiriadol a breninol, sydd i adeiladu teml yr Arglwydd, ac i ddwyn y gogoniant, 6, 1—15.

2. Pennodau 7, 8. Yn yr ail ran, daw cenadon o Babilon i ddysgu gan y prophwyd pa un a oedd Duw wedi cadarnhau yr ymprydiau newyddion oedd wedi eu sefydlu ar ddechreuad y caethiwed er dinystriad y ddinas a'r deml. Ateba y prophwyd, nad oedd Duw wedi eu cadarnhau hwynt, ac mai yr hyn a geisia efe yw dychweliad at ufydd-dod, yr hyn a wrthodir gan y cenadon, neu y bobl, 7, 1—14. Yn canlyn y mae prophwydoliaethau wedi eu cymmysgu â rhybyddion; y mae tymmorau o ympryd i ddyfod yn wleddoedd llawen, a'r Iuddewon i fod yn fendith gyffredinol, 8, 1—23: ad. 13, 23.

3. Pennodau 9—14. Y drydedd ran a gynnwysa hanes yr Iuddewon, ac eiddo yr eglwys, hyd ddiwedd amser. Syria, Tyrus, a Sidon, ydynt i gael eu gorchfygu; ond cedwir tŷ yr Arglwydd, hyd y nod pan y mae byddinoedd paganaidd, ac Alexander (9, 6), yn myned drwy y tir; ac yn y diwedd, y mae y Messiah i ddyfod, ac i sefydlu teyrnas dangnefeddus, yr hon sydd mewn amser i ymëangu dros yr holl ddaear (ad. 9; Math. 21, 4, 5); 9, 1—17. Eilunod ydynt i gael eu gwrthod yn mhob man, ac y mae Judah, ac hyd y nod Ephraim, i gael eu dychwelyd (ad. 7); 10, 1—12. Ond y mae golygfa dorcalonus i gymmeryd lle cyn hyny. Rhagfynegir dinystr Jerusalem etto, mewn ymadroddion wedi eu cymmeryd, mae yn debygol, oddiwrth hanes ei dymchweliad cyntaf; y swydd brophwydol a ddisgyna i'r anmharch mwyaf (ad. 12); tòrir y ffyn neu y bachau, y rhai a osodant allan swydd y bugail, ac anrhydeddir bugeiliaid gau cyflogedig: cyflawnir hyn oll yn ninystr Jerusalem gan y Rhufeiniaid, yn ngwrthodiad annuwiol yr Iuddewon o Grist, y tanbrisiad (*undervaluation*) gwarthus o hono gan Judas, ac yn ngwendid ac anwybodaeth y llywodraethwyr Iuddewig: "y fraich wedi gwywo, a'r llygad deau wedi ei dywyllu" (ad. 17); 11, 1—17. Er hyn oll, bydd Jerusalem yn faen beichus i'r holl genedloedd. Daw yr Iuddewon i wylo am eu pechodau, yn enwedig y pechod a'u dinystriodd hwynt, croeshoeliad ein Harglwydd (Ioan 19, 37), a maddeuir iddynt, 12, 1—13, 1. Yr eilunod a dòrir ymaith; prophwydi gau a beidiant; y swydd brophwydol ei hun a ddwg erlidigaeth; wedi taro y bugail, gwasgerir y defaid, er y cedwir gweddill o honynt yn nymchweliad gwladwriaeth Israel, 13, 2—9. Fodd bynag, Jerusalem a ddinystrir, a'r bobl a wasgerir. Esgyna Crist oddiar yr Olewydd, a'r Cristionogion Iuddewig a yrir allan oddiyno gan erlidigaethau, ac ëangant yr eglwys ar bob tu, gan y bydd y muriau a gylchynent y bobl a'r wladwriaeth Iuddewig wedi eu symud ymaith.[b] Yna, ac am hir amser wedi hyny, y mae yr eglwys i aros mewn cyflwr cymmysglyd o lwyddiant a dyoddefaint; ac yn y diwedd, nid nos, ond dydd mwy gogoneddus nag erioed, a dywyna dros yr holl ddaear, a'r byd a ddaw yn "Santeiddrwydd i'r Arglwydd," 14.

[a] Neu weithrediad arwyddluniol.

[b] Edrycha rhai, fodd bynag, ar holltiad Mynydd yr Olewydd fel yn cyfeirio at ddyfodiad ein Harglwydd yn ei ogoniant cyn y Milflwyddiant (gwel Rhan i., adr. 447). Cymmerwyd y golygiad a roddir uchod yn benaf o "Gymhorth" Leifchild.

Gellir yehwanegu fod amryw Salmau yn cael eu priodoli yn y Deg a Thriugain i Haggai a Zechariah (138, 146—148); ac er nas gellir, gyda sicrwydd, benderfynu dim o berthynas i'r Salmau neillduol yma, y mae yn dra thebygol fod rhywbeth a fynai y ddau brophwyd â chyfansoddiad rhai o'r Salmau a gynnyrchwyd ar ol y dychweliad o'r caethiwed.

Llyfr Esther, c. c. 462—452.

99. Ychydig mewn cymhariaeth o'r Iuddewon a gymmerasant afael yn y cyfleustra i ddychwelyd i dir eu tadau. Y rhan amlaf o'r llinach bresenol oeddynt wedi eu geni yn Mabilonia; gwnaethant y wlad hono yn gartref iddynt, a chasglasant o'u cylch gysuron, nad oedd yn hawdd ymadael â hwynt. Nid aeth mwy nâ 50,000 o bersonau i fyny dan Zorobabel; a'r ail fintai, dan Ezra, dros driugain a deg o flynyddau ar ol hyny, ni chyfrifai yn y cyfan ond oddeutu 6,000 o bersonau. Etto, y mae yn debygol i finteioedd ereill, mewn amseroedd diweddarach, geisio dinas a theml Dduw; ond arosodd corff mawr y bobl o hyd yn nhir eu halltudiad.

Tybia rhai i'r llyfr yma gael ei ysgrifenu gan Mordecai; ond y farn fwyaf debygol (ac un a ddichon gyfrif am adawiad allan enw Duw) yw, mai cyfran (*extract*) ydyw o gofnodiadau Persia. Y mae yn dra gwybyddus fod y breninoedd Asiaidd yn peru i hanesion eu teyrnasiadau gael eu hysgrifenu a'u cadw. Rhanau amrywiol o lyfrau y Breninoedd a'r Croniclau, a brofant fod gan freninoedd Israel a Judah y cyfryw hanesion. A'r llyfr hwn ei hun a dystia fod cofnodion hanesyddol cyffelyb gan Ahasferus, 2, 23; 6, 1; o ba rai, fel yr ymddengys yn debygol, y cafwyd yr hanes yma am yr Iuddewon, o dan y frenines Esther: gwel pen. 10, 2. Cyfrifa y dybiaeth yma am arferiad y gair Persiaidd *Pwrim*, 9, 24—32; am y manylion a roddir o berthynas i amherodraeth Ahasferus, ac am y manylrwydd gyda pha un y mae enwau ei weinidogion, a meibion Haman, yn cael eu cofnodi; hefyd, am fod yr Iuddewon yn cael eu nodi ynddo yn y trydydd person yn unig, ac am fod Esther yn cael ei dynodi dan y teitl "y frenines," a Mordecai drwy y cyfenw "yr Iuddew." Cyfrifa hefyd am y gwahansangau (*parentheses*) hyny a gymmerant le yn nghwrs yr hanes; amcan pa rai, fel yr ymddengys, yw rhoddi yr egluriadau angenrheidiol i ddarllenydd Iuddewig; ac am derfyniad disymmwth yr hanes, drwy un frawddeg yn dàl perthynas â gallu Ahasferus, ac un arall yn darlunio mawredd Mordecai.

Y ffeithiau a gofnodir yma a ddeuant i fewn rhwng y chweched a'r seithfed bennod o Ezra. Y mae sefydliad gwyl y *Purim*, a'i chadwedigaeth barhaus hyd yr amser presenol, yn brawf o wirionedd y llyfr yma. Y mae wedi ei dderbyn bob amser gan yr Iuddewon fel yn ganonaidd, a daliant ef gyda'r parch mwyaf.

Gellir cyfleu cynnwysiad y llyfr hwn fel hyn:—

Mynega am wledd freninol Ahasferus, ac ysgariaeth Fasti, pen. 1. Dyrchafiad Esther i'r orsedd Bersiaidd, a'r gwasanaeth a wnaed i'r brenin gan Mordecai, drwy ddadguddio bradwriaeth yn erbyn ei fywyd, 2. Dyrchafiad Haman, a'i ddinystr amcanedig ar yr Iuddewon, 3. Cystudd cànlynol yr Iuddewon, a'r mesurau a gymmerwyd ganddynt, 4. Difethiad bradwriaeth Haman yn erbyn Mordecai, drwy offerynoliaeth Esther; yr anrhydedd a wnaed i Mordecai; a dienyddiad Haman, 5, 6, 7. Methiant bradwriaeth gyffredinol Haman yn erbyn yr Iuddewon; sefydliad gwyl y *Pwrim*, er coffadwriaeth am y waredigaeth yma; a dyrchafiad Mordecai, 8, 9, 10.

Dengys llyfr Esther pa fodd y cafodd yr Iuddewon hyn eu cadw, pan yn wasgaredig yn mysg y paganiaid, ac hyd y nod pan yn cael eu diofrydu gan ereill i ddinystr. Er nad ydyw *enw* Duw i'w ganfod yn y llyfr, etto canfyddir ei law yn eglur, yn *rhagflaenu* drwg bygythiedig, yn ei *ddirymu*, a'u *oruwch-lywodraethu* i ddwyn daioni mwy i'r Iuddewon, ac hyd y nod i'r paganiaid, 1, 2, 4—10. Ac nid diogelwch yr Iuddewon yn Mabilon yn unig oedd mewn perygl, gan fod gallu Persia y pryd hwnw yn oruchel yn Jeruaselem, a thrwy holl Asia; pe llwyddasai Haman, rhaid fuasai i'r Iuddewon drwy y byd farw, a chyda hwynt yr oll o eglwys weledig Duw.

Noder a mawryger rhaglaniaeth Duw, yn defnyddio yr hyn a ymddengys yn amgylchiad mwyaf distadl i gyflawnu ei ewyllys (ö). Sylwer hefyd ar ffydd Mordecai, yr hwn oedd a'i ofn o gyfraith annghyfnewidiol y Persiaid yn llai nâ'i ymddiried yn ffyddlondeb Duw (4, 14). Er na wyddai *pa fodd*, etto rhagwelai ryddhad i Israel; a gofyna am gymhorth Esther, yn hytrach er ei hanrhydedd *hi*, nag er eu gwaredigaeth *hwy*.

Llyfr Nehemiah, c. c. 445—428.

100. Yr oedd y llyfr yma gynt wedi ei uno âg Ezra, er iddo gael ei ysgrifenu, neu ei gasglu gan Nehemiah. Mae yn debygol i ben. 7, 6—73, gael ei chasglu, ad. 5; fel hefyd y cafodd 12, 1—26 (ad. 23). Ceir yn y gweddill brofion eglur o awduriaeth Nehemiah (gwel 1—7, a 12, 27—43: 13, 6—31.

Llyfr Nehemiah a gymmer i fyny hanes yr Iuddewon oddeutu deuddeg mlynedd wedi terfyniad llyfr Ezra; a rhydd hanes y diwylliadau yn ninas Jerusalem, a'r diwygiadau a ddygwyd oddiamgylch gan Nehemiah yn mhlith y bobl.

Er fod y deml wedi ei hail-adeiladu o dan weinyddiaeth Ezra, etto yr oedd muriau a phyrth y ddinas o hyd yn y cyflwr dadfeiliedig yn mha un y gadawodd y Chaldeaid hwynt; ac, mewn canlyniad, yr oedd y preswylwyr yn agored i ymosodiadau pob gelyn. Nehemiah oedd yr offeryn a gyfodwyd i fyny er eu hamddiffyniad. Er mai Iuddew a chaethwas ydoedd, etto yr oedd, drwy oruchel lywodraeth Duw, wedi cael ei wneuthur yn heilyn (*cup-bearer*) i frenin Persia; yr hon oedd un o'r swyddi mwyaf anrhydeddus ac ymddiriedol yn y llys. Er ei fod fel hyn yn nghanol esmwythder a chyfoeth, etto, pan glywodd am gyflwr adfydus ei gydwladwyr, y newydd a'i cystuddiodd yn ddwys. Gwnaeth ef yn bwnc gweddi daer; ac, wedi pedwar mis, pan oedd tristwch ei wynebpryd wedi dadlenu i'r brenin alar ei galon, rhoddwyd cyfleustra iddo i ddymuno am genad i fyned i Jerusalem. Y brenin (wedi dylanwadu arno, mae yn debygol, gan Esther, ei frenines), a appwyntiodd Nehemiah yn llywodraethwr Jerusalem, gyda gorchymyn i ail-adeiladu y muriau, ac amddiffyn y bobl, 1: 2, 1—8.

Ail-adeiladaeth mur y ddinas a gwblhäwyd mewn deuddeg a deugain o ddyddiau, er yr holl rwystrau a daflwyd ar eu ffordd gan Sanbalat a Thobiah, y rhai oeddynt brif ddynion yn nhrefedigaeth wrthwynebol Samaria: ar y cyntaf gwawdient yr ymdrech, yna bygythient ymosod ar y gweithwyr, ac yn y diwedd, defnyddient amryw gynlluniau i wanhau awdurdod Nehemiah, ac hyd y nod i gymmeryd ei fywyd. Yn ychwanegol at y peryglon allanol yma, cyfarfyddodd Nehemiah âg anhawsderau oddiwrth ei bobl ei hun, y rhai a gyfodent oddiwrth y drygfyd cyffredinol, ac a gynnyddid drwy osodiadau (*exactions*) creulawn y pendefigion a'r llywodraethwyr.

Symudwyd y gofidiau yma ar wrthdystiad difrifol Nehemiah, ac efe ei hun a roddodd iddynt siampl darawiadol o gynnildeb yn ei swydd. Ymddengys hefyd fod rhai o'r prif ddynion yn Jerusalem, ar yr amser yma, mewn cynghrair â Thobiah yn erbyn Nehemiah, 2, 9—20: 3.—6. Fel hyn y cafodd y mur ei adeiladu "mewn amseroedd blinion," Dan. 9, 23; a'i gwblhâd a hynodwyd gan lawenydd drwy gyflwyniad difrifol dan gyfarwyddyd Nehemiah, 12, 27—43.

Nehemiah a gyfeiriodd ei sylw yn nesaf at fesurau ereill er daioni cyffredinol. Appwyntiodd amryw swyddogion, 7, 1—3: 12, 44—47; a chynhyrfodd yn mhlith y bobl fwy o ddyddordeb mewn crefydd, drwy esboniad cyhoeddus o'r gyfraith; drwy gynnaliad digyffelyb o wyl y pebyll, a chadwedigaeth ympryd genedlaethol; a thrwy ddarbwyllo y bobl i wneyd cyfammod difrifol "ar rodio o honynt yn nghyfraith Duw," 8—10.

Gan fod preswylwyr y ddinas hyd yn hyn yn nifer rhy fychan i sicrhau ei llwyddiant, dygodd Nehemiah un o bob deg o drigolion y wlad i wneyd ei breswylfod yn yr hen brif ddinas, yr hon y pryd hwn oedd yn cynnwys can lleied o gymhellion i ymsefydlu ynddi, fel "y bendithiodd y bobl yr holl wŷr a ymroddasant yn ewyllysgar i breswylio yn Jerusalem," 7, 4: 11, 1—19. Yn yr holl gyflawniadau cyhoeddus pwysig hyn, ymddengys fod Nehemiah wedi mwynhau cymhorth Ezra.

Yn mhen oddeutu deuddeg mlynedd (5, 14), dychwelodd Nehemiah i Babilonia; ond aeth yn ol wedi hyny i Jerusalem, ac ymdrechodd gynnyrchu diwygiad pellach yn mhlith ei gydwladwyr, yn benaf, drwy adgyweirio y llygriadau oedd wedi ymlusgo i fewn yn ystod ei absenoldeb, 13. Tybir fod holl weinyddiaeth Nehemiah wedi parhau am oddeutu un ar bumtheg ar hugain o flynyddau, a therfyna *Hanes* yr Hen Destament gyda'r llyfr hwn.

Ceir yn Nehemiah siampl ardderchog o wir wladgarwch, yn sylfaenedig ar ofn Duw (5, 15), ac mewn ceisio lles crefyddol y wladwriaeth. Ei ofal am y gyfraith Ddwyfol, ei barch i'r Sabbath (13, 18), ei gydnabyddiaeth ostyngedig o Dduw yn mhob peth (1, 11: 2, 18), ei ganfyddiad ymarferol o gymmeriad Duw (4, 14: 9, 6—33), ei waith yn uno gwyliadwriaeth gyda gweddi (4, 9, 20), ei ostyngeiddrwydd yn priodoli daioni ynddo ei hunan i ras Duw (2, 12: 7, 5), ydynt yn hynod o gymmeradwyol. Yn y nawfed bennod, cawn grynodeb addysgiadol o hanes yr Iuddewon, yn ei oleuni mwyaf pwysig, yn dangos ar unwaith pa beth yw Duw, a pha beth yw dynion. Yn wir, nid oes ond ychydig lyfrau o'r Beibl yn cynnwys eglurhad cyfoethocach o'r athroniaeth Ddwyfol—hyny yw, o wir grefydd yn cael ei dysgu drwy siampl.

Llyfr Malachi, c. c. 420—397.

101. Malachi ("fy nghenad") yw yr olaf o brophwydi yr Hen Destament, fel mai Nehemiah yw yr olaf o'i haneswyr; ac y mae amser ei weinidogaeth yn cyd-daraw yn agos â gweinyddiaeth Nehemiah. Yr oedd yr ail deml yn awr wedi ei hadeiladu, a gwasanaeth yr allor, yn nghyd a'i hoffrymau a'i haberthau, wedi eu sefydlu; oblegid ysbryd halogedig a thwyllodrus yn y gwasanaeth hwnw, yn enwedig yn mysg yr offeiriaid, y mae efe yn ymdrechu i'w adgyweirio. Cwyna hefyd fod ysgariaethau, a phriodasau cymmysg gydag eilun-addolwyr, wedi lluosogi yn fawr—yr un

drygau ag a gondemnir mor ddifrifol gan Nehemiah.[a] Yr oedd yn byw rhwng y blynyddau 436 a 397 c. c.

Dechreua Malachi ei genadwri drwy adgofio yr Iuddewon pa fodd yr oedd Duw wedi eu dewis hwynt o flaen Edom, a cherydda hwynt am eu hymddygiadau anniolchgar; cerydda yr offeiriaid (1, 6: 2, 1), a'r bobl (2, 11); cyfeiria at y sefydliad Dwyfol oedd yn gwneuthur dau yn un cnawd, ad. 15, fel y buasai yr hâd yn santaidd; bygythia hwynt oll â chospedigaeth a gwrthodiad, a chyhoedda y bydd i Dduw "wneuthur ei enw yn fawr yn mysg y cenedloedd," o herwydd ei fod wedi blino ar annuwioldeb Israel, 1: 2.

Wedi hyny, y mae yn dadgan dynesiad Crist i'r deml hono, a'i buredigaeth o'r gwasanaeth a'r addolwyr, drwy athrawiaeth, barn, a thrugaredd; a noda ddedwyddwch yr ychydig hyny, y rhai, mewn amseroedd llygredig, a ymgynghorent gydag amcanion crefyddol, a'r rhai a gedwir gan Dduw, ac a ddangosir yn y diwedd i bob dyn mai ei eiddo ef ydynt, 3—4, 1.

Terfyna ei lyfr drwy sicrhau fod iachawdwriaeth yn dynesu, rhagfynega dyfodiad rhagflaenydd Haul y Cyfiawnder, ac annoga gadwedigaeth y gyfraith hyd y dydd hwnw, Lue 1, 17.

102. Prophwydoliaethau olaf yr Ysgrythyr, gan hyny, ydynt yn gyffelyb i'r rhai boreuaf. Ceryddant lygredigaeth, ac addawant waredigaeth. Cynnaliant awdurdod yr oruchwyliaeth gyntaf, a dadguddiant yr ail. Y mae y prophwyd o hyd yn athraw; a'i eiriau olaf ydynt am y gyfraith ac ufydd-dod ysbrydol, ac wedi hyny am yr efengyl a'i gogoniant iachusol, 4, 2.

Dos. 6. *Y cyfan wedi ei Drefnu a'i Dalfyru.*

O Farwolaeth Solomon hyd ddiwedd y Canon.

103. (1.) *Hanes y ddwy Deyrnas.*

JUDAH.	C. C.	ISRAEL.
REHOBOAM yn frenin (17 o flynyddau), 1 Bren. 14, 21, *r. g.* (Judah): 2 Cron. 12, 13, *r. g.* (*teyrnasodd*).	976 [975, Usher.]	*Jeroboam*, yn frenin (22 o flynyddau); ymsefydla yn Sichem, 1 Bren. 12, 25.
Rehoboam, pan yn darparu i ymosod ar y deg llwyth, yn cael ei wahardd gan **Semaiah**, 1 Bren. 12, 21—24; 2 Cron. 11, 1—4.		
Rehoboam yn cadarnhau ei deyrnas; offeiriaid a Leflaid Israel yn dyfod ato, teulu Rehoboam [2 Cron. 11, 5—23].	974	Jeroboam, wedi gosod i fyny y lloi aur yn Dan a Bethel, yn cael ei geryddu gan **Wr Duw**, 1 Bren. 12, 26—33; 13, 1-10.
		Drwy gael ei hudo gan hen brophwyd o Bethel, y mae Gŵr Duw yn anufyddhau i air yr Arglwydd, ac yn cael ei ladd gan lew, 1 Bren. 13, 11—32.
Eilun-addoliaeth Rehoboam a Judah, 1 Bren. 14, 22—24; 2 Cron. 12, 1.	973	Y lloi yma wedi eu benthycio o'r Aifft, lle y bu Jeroboam yn aros.

Sylwer.—Enwau prophwydi a argreffir yma mewn llythyren ddu, breninoedd newyddion mewn prif-lythyrenau Rhufeinaidd, a breninoedd cyntaf teyrnachau *(dynasties)* newyddion mewn llythyrenau Italaidd.

[a] Mal. 2, 11, cymharer Neh. 13, 23—27: Mal. 2. 8: 3, 8, 10; Neh. 13, 10, 11, 29.

JUDAH.	C. C.	ISRAEL.
Sisac yn anrheithio Jerusalem, 1 Bren. 14, 25—28; 2 Cron. 12, 2—12.	972 [970, Usher.]	Er cael ei rybyddio ddwy waith, gan Wr Duw, a chan Ahiah, etto ymlyna wrth ei eilunaddoliaeth.
Cymmeriad a marwolaeth Rehoboam, 1 Bren. 14, 21, *r. o.* 29, 31; 2 Cron. 12, 13, *r. o.* 14—16.	959 [958, Usher]	Ymddengys y weithred yma yn un gyfrwys. Ymddangosai yn ffurf o addoliad, rhyw beth yn debyg i'r un sefydledig yn Jerusalem, a denai sylw y llwythau; ond yn y diwedd, profodd yn ddinystr i'r deyrnas.
ABIAH, neu ABIAM, yn frenin (3 blynedd), 1 Bren. 15, 1, 2, 6; 2 Cron. 13, 1, 2.		
Abiah yn gorchfygu Jeroboam mewn rhyfel, 2 Cron. 13, 3—21.	958	
Ei galon heb fod yn berffaith.	957	**Ahiah** yn ceryddu Jeroboam. 1 Bren. 13, 33, 34; 14, 1—18.
Cymmeriad a marwolaeth Abiah. ASA yn frenin (41 o flynyddau), 1 Bren. 15, 3—10; 2 Cron. 13. 22; 14, 1.	956	Y mae hanes ymweliad gwraig brenin Israel âg Ahiah, i wybod tynged ei mab claf, ond duwiol, yn dra effeithiol, 14.
	955	Marwolaeth Jeroboam. NADAB yn frenin (2 flynedd), 1 Bren. 14, 19, 20; 15, 25, 26.
	953	Nadab yn cael ei ladd yn Gibbethon. *Baasa* yn frenin (24 o flynyddau), 1 Bren. 15, 27—34.
ASA yn bwrw eilun-addoliaeth ymaith, ac yn cadarnhau ei deyrnas, 1 Bren. 15, 11—15; 2 Cron. 14, 2—8; 15, 16—18.	951	
Buddugoliaeth Asa ar yr Ethiopiaid, 2 Cron. 14, 9—15.	944	
Asa, drwy annogiad **Azariah**, yn gwneyd cyfammod difrifol â Duw, 2 Cron. 15, 1—15, 19.	942	
Asa yn llwgr-wobrwyo Ben-hadad, brenin Syria, i ymosod ar Baasa, 1 Bren. 15, 16—22.	941	Brenin Syria yn ymosod ar Baasa pan yn ceisio adeiladu Ramah,
	—	2 Cron. 16, 1—6.
Asa, wedi cael ei geryddu gan **Hanani** am appelio at Ben-hadad, yn cael ei fwrw ganddo i garchar, 2 Cron. 16, 7—10.		Ad. 1, *h. y.*, 36ain flwyddyn o *deyrnas* Asa (Lft.), neu darllener 24ain (Hales).
Ei gynghrair eilunaddolgar â Syria, a'i garchariad o'r prophwyd, yn profi yn ddinystr iddo, ar ol ei holl ddiwygiadau. Yn ei glefyd, nid ydyw yn ymddiried yn Nuw, ond yn ei feddygon.	931	Bwgwth Baasa gan **Jehu**; ei farwolaeth, Elah yn frenin (2 flynedd), 1 Bren. 16, 1—8.
	930	Elah yn cael ei ladd. *Zimri* yn frenin (7 niwrnod); yn dinystrio tŷ Baasa. Omri yn cael ei ethol yn frenin. Zimri yn dinystrio ei hunan, 1 Bren. 16, 9—20.
	926	*Omri* yn frenin (12 mlynedd, yn cynnwys 6 o ryfel gartrefol â Tibni). Samaria yn cael ei hadeiladu, 1 Bren. 16, 21—26.
Marwolaeth Asa. JEHOSAPHAT, yn frenin (25 o flynyddau); ei dduwioldeb a'i lwyddiant, 1 Bren. 15, 23, 24; 22, 41—47; 2 Cron. 16, 11—14; 17, 1; 20, 31—33; 17, 2—19; cymharer ad. 6 a 20, 33.	917 [915 914 i 912, Usher] 910 i	Omri yn marw. AHAB yn frenin (22 o flynyddau.) Ailadeiladiad Jericho gan Hiel, yr hwn a feda felldith Josua, 1 Bren. 16, 27—34. 1 Bren. 16, 25, cymharer Micah 6, 26; 1 Bren. 16, 34; Jos. 6, 26. **Elias** yn prophwydo am newyn; yn cyfodi mab y wraig weddw; ei brawf gyda phrophwydi Baal. **Eliseus**
Ei gyfeiliornad mawr yw ei gynghrair	906	

JUDAH.	C. C.	ISRAEL.
âg Ahab, merch yr hwn, Athaliah, a briodwyd gan ei fab. Hyn achosodd ei ymgyrch i Ramoth, yr hyn fu yn agos a myned â'i fywyd.	902 a 901	yn brophwyd, 1 Bren. 17—19. Benhadad yn gwarchae ar Samaria. Y Syriaid yn cael eu gorchfygu ddwy waith. Ahab yn cael ei fygwth, 1 Bren. 20.
	900	Ahab yn ysgellio gwinllan Naboth. **Eliseus** yn ei geryddu, 1 Bren. 21.
Jehosaphat yn ymweled âg Ahab, ac yn ymuno âg ef yn y rhyfel yn erbyn y Syriaid, 2 Cron. 18.	898	Ahab yn gwneyd rhyfel yn erbyn Syria, ac yn cael ei ladd, fel y rhagfynegodd Micheah. AHAZIAH yn frenin.
Jehosaphat yn cael ei geryddu gan **Jehu**, am ymuno âg Ahab. Efe a ymwela â'i deyrnas, ac annoga y barnwyr, &c., i fod yn ffyddlawn, 2 Cron. 19; Sal. 82.	—	1 Bren. 22, 1—35, 36—40, 51—53. [Ad. 39; gwel Amos 3, 15.]
Dymchweliad Moab, &c. Jehoram yn rhaglaw, 2 Cron. 20, 1—30; Sal. 115; 46.	— 897	Sal. 82 yn cael ei lleoli yma oddiwrth brofion mewnol (Townsend).
Jehosaphat yn ymuno âg Ahaziah. Wedi ei geryddu, ac i'w longau golli, gwrthoda uno mewn ymgyrch ar ol hyny. 1 Bren. 22, 48, 49; 2 Cron. 20, 35, 37.	—	Sal. 115 a 46 (Wells, Rosenmüll). Ymddengys fod ysgolion y prophwydi (Naioth), 1 Sam. 10, 10; 19, 20; 2 Bren. 2, 2, erbyn yr amser yma wedi hyfforddi nifer mawr o ddysgawdwyr crefyddol.
Wedi hyny, ymuna â Joram yn erbyn Moab, ac achubir ef yn unig drwy wyrth, 2 Bren. 3.		Ahaziah yn syrthio yn glaf, ac am iddo anfon i ymofyn a Baalzebub, ceryddir ef gan **Elias**.
Ar y drafnidiaeth rhwng Judea ac India, gwel Cyss. Prid., i. tud. 7. [Ar 2Cron. 20, 13; gwel Joel 2, 16.]		JEHORAM, neu JORAM, ei frawd, yn frenin (12 mlynedd), 2 Bren. 1; 3, 1—3.
		Elias yn cael ei symud. Cydnabyddiad **Eliseus** fel ei olynydd; ei wyrthiau, 2 Bren. 2.
	894	Joram, drwy gymhorth Jehosophat a brenin Edom, yn gorchfygu Moab, 2 Bren. 3, 4—27.
		Eliseus yn cynnyddu olew y wraig weddw; yn addaw mab i'r Sunamees, 2 Bren. 4, 1—17.
2 Bren. 9, 2, 13. Gan hyny, darllener ŵyr yn 1 Bren. 19, 16; ac wrth fod Elias yn eneinio Jehu, dealler iddo orchymyn Eliseus i wneyd hyny. Eneiniwyd Jehu i ddifodi tŷ Ahab.	893 892	Naaman yn cael ei wella, 2 Bren. 5. **Eliseus** yn gwneuthur i haisarn nofio; yn dadguddio bwriad y brenin Syriaidd, ac yn taro ei fyddin â dallineb, 2 Bren. 6, 1—23.
Jehoram yn dechreu teyrnasu mewn undeb â Jehosaphat, 2 Bren. 8, 16.	891	Benhadad yn gwarchae ar Samaria; newyn yn canlyn; adferiad cyflawnder drwy ffoedigaeth ddisymmwth y Syriaid, 2 Bren. 6, 24—33; 7.
2 Cron. 21, 5. Rhoddir tri dyddiad am ddechreuad teyrnasiad Jehoram; c. c. 897, pan oedd yn rhaglaw yn ystod absenoldeb ei dad, (2 Bren. 1, 17; 3, 1); 891 (2 Bren. 8, 16); ac 889. (Lft.)	890	**Eliseus** yn cyfodi mab y wraig weddw i fywyd; gwyrthiau ereill, 2 Bren. 4, 18—44; 8, 1, 2.
Marwolaeth Jehosaphat. JEHORAM neu JORAM, yn frenin (8 mlynedd); ei deyrnasiad drygionus a chythryblus. Llythyr **Elias**, yr hwn a ysgrifenwyd cyn eisymudiad, yncael ei ddwyn ato, 1 Bren. 22, 45—50; 2 Bren. 8, 17—22; 2 Cron. 20, 34; 21, 1—18.	889 i 887	2 Bren. 4, 44. Dyma y *ddeuddegfed* wyrth gan Eliseus; gwnaeth Elias chwech. Gesyd Townsend 4, 18, ar ol 4, 17; ond eglur yw fod yspaid o ddwy flynedd, neu yn debyg i hyny, yn cyfryngu rhyngddynt. 2 Cron. 21, 12. Meddylia Lightfoot i lythyr Elias gael ei anfon i Jehoram

JUDAH.	C. C.	ISRAEL.
		yn 897. Darllena Hales *Eliseus.* Tybia Wall fod rhyw Elias *arall.* Patrick ac ereill a gymmerant y golygiad a roddir yn y golofn gyferbyn-fol.
Dechreua Ahaziah ei deyrnasiad fel rhaglaw (*viceroy*) i'w dad, 2 Bren. 9, 29.	886	
Marwolaeth Jehoram. AHAZIAH yn frenin (1 flwyddyn); ei deyrnasiad drygionus, 2 Bren. 8, 23, 24, 25—27; 2 Cron. 21, 19, 20; 22, 1—4.	885	Y Sunamees yn dychwelyd. Hazael yn lladd Ben-hadad, ac yn ol prophwydoliaeth Eliseus yn dyfod yn frenin Syria, 2 Bren. 8, 3—15.
Ahaziah yn ymuno â Joram yn erbyn Hazael, ac wedi hyny yn ymweled âg ef yn Jezreel, 2 Bren. 8, 28, 29	884	Joram, wedi cael ei glwyfo mewn rhyfel yn erbyn y Syriaid, yn ymneillduo i Jezreel.
	—	2 Cron. 22, 5, 6. Eneinnio Jehu, 2 Bren. 9, 1—13.
Ahaziah yn cael ei ladd gan Jehu, 2 Cron. 22, 7—9.	—	Joram yn cael ei ladd gan Jehu, 2 Bren. 9, 14—28.
[*Athaliah* yn trawsfeddiannu yr orsedd (6 mlynedd). Achubiad Joas, mab Ahaziah], 2 Bren. 11, 1—3; 2 Cron. 22, 10—12.	883	*Jehu* yn frenin (28 o flynyddau); yn lladd Jezebel, meibion Ahab, brodyr Ahaziah, ac addolwyr Baal, 2 Bren. 9, 30—37; 10, 1—31.
JEHOAS, neu JOAS, yn frenin (40 mlynedd.) Lladd Athaliah, 2 Bren. 11, 4—12, 2; 2 Cron 23—24, 3.	877	
	860	Hazael yn gorthrymu Israel, 2 Bren. 10, 32, 33.
Joas yn adgyweirio y deml, 2 Bren. 12, 4—16; 2 Cron. 24, 4—14.	855	Marwolaeth Jehu. JOAHAZ yn frenin (17 o flynyddau), 2 Bren. 10, 34—36; 13, 1, 2.
Marwolaeth Jehoiada, 2 Cron. 24, 15, 16.	850	Hanes Jonah, Jon. 1.—4? [gwel 808].
	849	Israel yn cael eu rhoddi fyny gan Dduw i Hazael a Ben-hadad, ac yn cael eu gwaredu, 2 Bren. 13, 1—7.
	842	
	841	Joas yn dechreu teyrnasu mewn undeb â Joahaz, 2 Bren. 13, 10.
Joas a'r bobl yn syrthio i eilun-addoliaeth; Zechariah yn eu ceryddu hwynt, ac yn cael ei ladd yn nghyntedd y deml (gwel Math. 23, 35). Y Syriaid yn gwneyd rhyfelgyrch yn erbyn Joas, 2 Cron. 24, 17—22, 23, 24; 2 Bren. 12, 17, 18	840	
Joas yn cael ei ladd gan ei weision. AMAZIAH yn frenin (29 o flynyddau), 2 Bren. 12, 19—21; 14, 1—6; 2 Cron. 24, 25—27; 25, 1—4.	838	Marwolaeth Joahaz. JEHOAS, neu JOAS, yn frenin (16 o flynyddau). Y mae yn ymweled âg Eliseus, yr hwn sydd yn addaw tair buddugoliaeth. Hazael yn marw, 2 Bren. 13, 8, 9, 11, 14—19, 22—24.
	838	Eliseus yn marw, corff marw yn cael ei daflu i fedd Eliseus, ac yn adfywio, 2 Bren. 13, 20, 21.
	836	Joas yn gorchfygu y Syriaid dair gwaith, 2 Bren. 13, 25.
Amaziah yn cyflogi byddin yr Israeliaid i'w gynnorthwyo yn erbyn Edom; ond ar orchymyn prophwyd, yn eu hanfon adref, 2 Cron. 25, 5—10.	827	Yr Israeliaid, a anfonwyd ymaith gan Amaziah, wrth ddychwelyd, yn anrheithio dinas edd Judah, 2 Cron. 25, 13.

JUDAH.	C. C.	ISRAEL.
Amaziah yn taraw yr Edomiaid, ac yn addoli eu duwiau, 2 Cron. 25, 11; 2 Bren. 14, 7; 2 Cron. 25, 12, 14—16.		
Amaziah yn cynhyrfu brenin Israel i ryfela âg ef, ac a gymmerir yn garcharor ganddo, 2 Bren. 14, 8—14.	826	Joas yn gorchfygu brenin Judah, ac yn anrheithio y deml,
	—	2 Cron. 25, 17—24.
	823	Marwolaeth Joas. JEROBOAM II., yn frenin (41 o flynyddau); y mae yn teyrnasu yn ddrygionus, 2 Bren. 13, 12, 13; 14, 15, 16, 23, 24.
	822	Adfera Jeroboam derfyn Israel, yn ol gair **Jonah**, 2 Bren. 14, 25—27.
Lladd Amaziah. UZZIAH, neu AZARIAH, yn frenin (52 o flynyddau). Teyrnasa yn dda yn ystod dyddiau Zechariah, 2 Bren. 14, 17—22; 15, 1—4; 2 Cron. 25, 25; 26, 15.	808 i 800	[Jonah 1—4 ?] Gwel, c. c. 850.
	801	**Hosea** yn gwneuthur ei appeliad cyntaf at y deg llwyth [Hos. 1—3].
Amos 7, 10—19, a roddir gan Lightfoot ac ereill ar ol 2 Bren. 14, 28.	793	**Amos** yn cyhoeddi barn yn erbyn y cenedloedd cylchynol, ac yn erbyn Israel a Judah, [Amos 1, 9].
Ar gynnydd byddin Uzziah, rhagfynega **Joel** ddymchweliad Judah, Joel 1-3.	787	1. 3, gwel 2 Bren. 16, 9; ad. 6, gwel 2 Bren. 18, 8; 1, 8, gwel 2 Cron. 26, 6; ad. 11, gwel Num. 20, 14; 5, 27, gwel 2 Bren. 10, 32; 17, 6.
	783	Marwolaeth Jeroboam, 2 Bren. 14, 28, 29. *Rhyngdeyrnedd am unflynedd ar ddeg.* Sefyllfa Israel yn ystod y rhyngdeyrnedd. **Hosea** yn cyhoeddi barn [Hos. 4].
Hos. 1; 2; 3. Felly Lightfoot, Gray, ac ereill; gwel 1, 1. Y mae y tri phlentyn wedi cael enwau yn dynodi *lle* y drygioni yn nhŷ Ahab (ad. 4; gwel 1 Bren. 21, 1); eu cospedigaeth, *methu cael trugaredd yn y drygfyd* (*calamity*), a'u gwrthodiad,—*ddim yn bobl i Dduw mwyach.* Y maent, fodd bynag, i'w casglu at eu gilydd etto dan y Messiah, eu hunig Ben, ad. 11; ad. 7; gwel 2 Bren. 19, 35.	771	ZECHARIAH, y pedwerydd o Jehu, yn frenin (6 mis). Salum yn ei ladd ef, 2 Bren. 15, 8—12.
	770	*Salum* yn frenin (1 mis). Menahem yn ei lofruddio, 2 Bren. 15, 13—15. *Menahem* yn frenin (10 mlynedd); 2 Bren. 15, 16—18.
	769	Pul, brenin Assyria, yn dyfod yn erbyn Israel, ac yn cael ei lwgr-wobrwyo i ddychwelyd, 2 Bren. 15, 19, 20.
Uzziah yn cael ei daraw â gwahanglwyf, am drawsfeddianu swydd yr offeiriad. Jotham yn rhaglaw, 2 Bren. 15, 5; 2 Cron. 26, 16—20, 21.	765	
	761	Marwolaeth Menahem. PECAHIAH yn frenin (2 o flynyddau), 2 Bren. 15, 21—24.
2 Bren. 15, 5, neilldu, hyny yw, yn unig, ar ei ben ei hun; gwel 120.	759	Pecahiah yn cael ei ladd gan Pecah. *Pecah* yn frenin (20 mlynedd), 2 Bren. 15, 25—28.
Esaiah yn cael ei neilldu o drwy weledigaeth i'r swydd brophwydol. Prophwyda am deyrnas Crist, ac am farn ar y bobl o herwydd eu pechodau, Esa. 1, 1; 6; 2; 3; 4; 5.	757	[Esai. 1. 1. Ar y drefn gwel Townsend, 2. 230. Esai. 7.—10, 4. Ar y drefn, cymharer 7. 1 âg 2 Bren. 16, 5.

JUDAH.	C. C.	ISRAEL.
Marwolaeth Uzziah. JOTHAM yn frenin (16 o flynyddau); ei lwyddiant, 2 Bren. 15, 6, 7, 32—35; 2 Cron. 26, 22, 23; 27, 1—6.	756	Esai. 1. 2—31. Ar y drefn, gwel ad. 7, 8, cymharer â 2 Cron. 28, 6—9. Esai. 6. 1, gwel Ioan 12, 41. Esai. 6, 13, gwel 2 Bren. 25, 12.
Micah yn ceryddu drygioni Judah, Mic. 1; 2.	753	Esai. 2, 19, gwel Dad. 6, 15. 2 Cron. 27, 2, gwel pen. 26, 19.
Judah yn dechreu cael ei blino gan Syria ac Israel. Marwolaeth Jotham, 2 Bren. 15, 36—38; 2 Cron. 27, 7—9.	742	Esa. 7, 8, gwel 2 Bren. 17, 24. Teyrnasiad Ahaz.... 15 ,, Hezeciah 29 ,, 2il Manas. 21 — 65 o flyn. Esai. 7, 16, gwel 2 Bren. 15, 29. Esai 8, 1, pin *dyn*, *h. y.* ysgrifenu cyffredin; gwel Dad. 13. 18; 21, 17. Mic. 1, 5, gwel 2 Bren. 16, 32. Mic. 1, 13, gwel Jer. 34, 7.]
AHAZ yn frenin (16 o flynyddau), 2 Bren. 16, 1, 2—4; 2 Cron. 28, 1—4.		
Goresgyniad Pecah gan Resin. **Esaiah** yn prophwydo ar yr achlysur, ac yn condemnio cynghrair bwriadedig Ahaz âg Assyria, 2 Bren. 16, 5; Esa. 7—9; 10, 1—4.		
Esaiah yn prophwydo dinystr Damascus, yn nghyd â dinystr y deg llwyth, Esa. 17.		Esai. 17, gwel 2 Bren. 16, 9; 18, 11.
Judah yn cael ei hanrheithio gan Syria ac Israel; yr olaf yn adfer eu caethion, drwy gynghor **Oded**, 2 Cron. 28, 5—15.	740	
Ahaz yn cael ymosod arno gan elynion, yn cyflogi Tiglath-pileser, brenin Assyria, yn eu herbyn hwynt. **Obadiah** ac **Esaiah**, 2 Bren. 16, 6—8, 9; 2 Cron. 28, 16, 21, 17—19, 20; Obad.: Esa. 1, 2—31; 28.	740	Tiglath-pileser yn anrheithio Gilead, Galilea, a Naphtali, ac yn dwyn eu trigolion yn gaethion i Assyria, 2 Bren. 15, 29. Esai. 5, 21, gwel 2 Sam. 5, 20.
Cyssegr-yspeiliad ac eilun-addoliaeth Ahaz, 2 Cron. 28, 22, 23—25; 2 Bren. 16, 10—18; Hos. 5; 6.	738	Pecah yn cael ei ladd gan **Hosea**, 2 Bren. 15, 30, 31.
Obad. Ar y drefn, gwel 2 Cron. 28, 17.		[Ar y dyddiad, gwel adr. 358 *c.*] *Aflywodraeth am naw mlynedd.*
	730	*Hosea* yn frenin (9 mlynedd). Salmaneser, brenin Assyria, yn goresgyn ei diriogaeth, ac yn ei ddwyn dan deyrnged, 2 Bren. 17, 1—3.
Marwolaeth Ahaz, 2 Bren. 16, 19, 20; 2 Cron. 28, 26, 27; Esa. 14, 28—32.	726	
HEZECIAH yn frenin (29 o flynyddau), 2 Bren. 18, 1, 2; 2 Cron. 29, 1.		Esai. 14, 28—32, yn erbyn Philistia, gwel 2 Cron. 26, 6. Yr oedd Ahab, yr hwn a'u darostyngodd, wedi marw; ond etto yr oedd gwiber allan o'r nyth hono, Hezeciah, i'w brathu hwynt, 2 Bren. 18, 8.
Y Diwygiad gan Hezeciah, 2 Bren. 18, 3, 4—6; 2 Cron. 29, 2, 3—36; 30; 31.		
Moab yn cael ei bygwth, Esa. 15; 16.		Esai. 15. Dinystr Moab gan Salmaneser yn cael ei ragfynegu. Annogir hwynt i adnewyddu eu teyrnged, 16, 1; gwel 2 Bren. 3, 4.
Micah yn cynnorthwyo diwygiad Hezeciah, Mic. 3—7.		
Gwel Jer. 26, 18; Mic.	723	Salmaneser yn ymosod ar Hosea, ac yn ei garcharu am wrthod talu y deyrnged. **Hosea** yn rhagfynegu caethgludiad y deg llwyth, ac yn annog i edifeirwch, 2 Bren. 17, 4; Hos. 7-14.

JUDAH.	C. C.	ISRAEL.
Llwyddiant Hezeciah, 2 Bren. 18, 7, 8.		Cymharer ar y drefn, Hos. 12, 1.
	723	Salmaneser yn gwarchae ar Samaria, 2 Bren. 17, 5; 18, 9.
	721	Y deg llwyth yn cael eu dwyn yn gaethion i Assyria, 2 Bren. 17, 6—23; 18, 10—12.
Prophwydoliaeth am ddychweliad y deg llwyth, am gospedigaeth yr Aifft, ac am argyhoeddiad yr Aifft, ac Assyria, Esa. 18; 19.		

Hanes Judah o ddymchweliad Israel hyd ddiwedd y Caethiwed, C. C. 720 *hyd* C. C. 536; 184 *o flynyddau.*

104. (2.) *Hanes Judah hyd y Caethiwed,* 114 *o flynyddau.*

Dyddiad a Lle.	Dygwyddiad neu Hanes.
C. C. 715.	Bygwth Tyrus, Esa. 23. Prophwydoliaeth o berthynas i'r goresgyniad gan Assyria, Esa. 10, 5; 14, 27.
714.	Anrheithiad ac adferiad Judea yn cael eu rhagfynegu, &c., Esa. 24 [26, 17, 18]; 27.
713, Judæa.	**Esaiah** yn prophwydo y goresgyniad gan Assyria, yn nghyd â dinystr Babilon. Senacherib yn dyfod i fyny yn erbyn Judah, ond, wedi cael ei heddychu drwy deyrnged, yn dychwelyd. **Esaiah** yn bygwth yr Aifft, ac yn rhybyddio Jerusalem,
[a] Am y dyddiad, gwel ad. 16.	Esa. 22, 1—14; 21;[a] 2 Bren. 18, 13—16; 2 Cron. 32, 1—8; Esa. 36, 1; 20; 29—31.
Jerusalem.	Clefyd Hezeciah; ei gân o ddiolchgarwch. **Esaiah** yn rhagfynegu bendithion teyrnas Crist, a barnedigaethau gelynion Seion, 2 Bren.
[b] Ar y drefn, gwel Towns. 2, 347.	20, 1—6, 8, 9—11, 7; Esa. 38, 1—6, 22, 7, 8, 21, 9—20; 2 Cron. 32, 24; Esa. 32—35.[b]
713.	Ninefe yn cael ei bygwth gan **Nahum**. Nah. 1—3.
712. Jerusalem.	Hezeciah yn ei falchder yn dangos ei drysorau i'r cenadon o Babilon. **Esaiah** yn rhagfynegu y caethgludiad Babilonaidd, 2 Bren. 20, 12—19; Esa. 39; 2 Cron. 32, 25, 26.
711. Judæa.	Yr ail oresgyniad gan Senacherib; dinystriad ei fyddin, 2 Bren. 18, 17—37 [26—28]; 19, 1—37; Sal. 44, 73, 75, 76; Esa. 36, 2 [11, 12], 22; 37, 1—38; 2 Cron. 32, 9—21, 22, 23.
710—699.	Amrywiol brophwydoliaethau gan **Esaiah**. Esa. 40—66 [57, 3—9].
697. Jerusalem.	Cyfoeth Hezeciah; ei farwolaeth. MANASSEH yn frenin (55 o flynyddau); ei annuwioldeb arswydus; barnedigaeth yn cael ei chyhoeddi gan brophwydi Duw,
[c] Towns. 2. 427.	2 Bren. 20, 20, 21; 21, 1—16; 2 Cron. 32, 27—31, 32, 33; 33, 1—10. **Esaiah** yn rhagfynegu caethgludiad Sebna, Esa. 22, 15—25.[c]
678. Samaria.	Y cenedloedd paganaidd a drawsfudwyd i Samaria yn lle yr Israeliaid, o herwydd cael eu blino gan lewod, yn gwneuthur cymmysgedd o grefyddau, 2 Bren. 17, 24—41.
677. Babilon.	Manasseh yn cael ei gymmeryd yn gaeth gan frenin Assyria; ei argyhoeddiad a'i adferiad; y mae yn gosod i lawr eilun-addoliaeth, 2 Cron. 33, 11—17.*
642. Jerusalem.	Marwolaeth Manasseh. AMON yn frenin (2 flynedd); ei annuwioldeb, 2 Bren. 21, 17—22; 2 Cron. 33, 18—23.
640.	Amon yn cael ei ladd gan ei weision. JOSIAH yn frenin (31 o flynyddau), 2 Bren. 21, 23—26; 22, 1, 2; 2 Cron. 33, 24, 25, 34, 1, 2.
628.	Josiah yn ymroddi i osod i lawr eilun-addoliaeth, 2 Cron. 34, 3—7.

* Nid oes un hanes am edifeirwch Manasseh yn cael ei roddi yn y Breninoedd.

Dyddiad a Lle.	Dygwyddiad neu Hanes.
c. o. 628.	Galwedigaeth **Jeremiah**; dadleua â'r Iuddewon ar gyfrif eu pechodau, Jer. 1, 2 [3, 1—5].
623. Jerusalem.	Josiah yn darparu tuag at adgyweirio y deml. Wedi darganfod llyfr y gyfraith, y mae Josiah yn ymgynghori â **Huldah**; pera efe iddo gael ei ddarllen yn gyhoeddus, ac adnewydda y cyfammod, 2 Bren. 22, 3—20; 23, 1—3, 4—20; 2 Cron. 34, 8, 28, 29—32,* 33.
623.	**Zephaniah** yn annog i edifeirwch. [Zeph. 1, 2, 3].
622. Jerusalem.	Y Pasg yn cael ei gadw yn y modd mwyaf mawreddog gan Josiah, 2 Bren. 23, 21—23, 24—27; 2 Cron. 35, 1—19.
612. [a] Am drefn, gwel ad. 6.	**Jeremiah** yn ceryddu gwrthgiliad y bobl, ac yn wylo oblegid y caethgludiad oedd yn agosâu, Jer. 3[a] [6—11], 12—25; 4—6.
612.	**Habaccuc** yn rhagfynegu barn, [Hab. 1—3].
611.	**Jeremiah** yn annog y bobl i edifeirwch, ac yn galaru oblegid y drygau oedd ar ddyfod arnynt, Jer. 7—10.
610.	**Jeremiah** yn adgofio y bobl am gyfammod Josiah, Jer. 11; [15], 12.
609. Megido a Jerusalem.	Josiah yn cael ei ladd mewn rhyfel yn erbyn brenin yr Aifft. **Jeremiah** a'r bobl yn galaru ar ei ol. JOAHAZ yn frenin (3 mis), 2 Bren. 23, 29, 30, 28, 30, *r. o.*, 31, 32; 2 Cron. 35, 20—27; 36, 1—2.
Riblah.	Joahaz yn cael ei ddiorseddu a'i garcharu gan Pharaoh-Necho, ac wedi hyny yn cael ei ddwyn i'r Aifft. JOACIM yn teyrnasu (11 o flynyddau), 2 Bren. 23, 33, 34, 35, 36, 37; 2 Cron. 36, 3, 4, 5.
[b] Jer. 1—12, yn nyddiau Josiah; Towns. 2, 434-9.	**Jeremiah** yn traddodi amryw brophwydoliaethau, ac yn appelio at yr Iuddewon o berthynas i'r caethiwed, a dinystr Jerusalem, Jer. 13—19.[b]
	Jeremiah yn rhagfynegu tynged Pasur, Jer. 20; ac eiddo Salum, hyny yw, Joahaz a Joacim, 22, 1—23.
608.	**Jeremiah** yn cael ei ddàl a'i brofi, Jer. 26.
606. [c] Am drefn, gwel ad. 2. Cymharer Ez. 29, 17.	**Jeremiah** yn rhagfynegu dymchweliad byddin Pharaoh-Necho, brenin yr Aifft, gan Nebuchodonosor, Jer. 46,[c] 1—12.
	Ufydd-dod y Rechabiaid i'w tad yn cael ei wrthgyferbynu âg anufyddod yr Iuddewon, Jer. 35.
	Jeremiah yn rhagfynegu caethgludiad yr Iuddewon am driugain a deg o flynyddau, yn nghyd â'r farn ganlynol ar Babilon, Jer. 25.
Jerusalem.	**Jeremiah** yn peru i Baruch ysgrifenu ei brophwydoliaethau ef mewn llyfr, a'u darllen wedi hyny yn gyhoeddus yn y deml, Jer. 36, 1—8; 45.
606.	Nebuchodonosor yn cymmeryd Jerusalem, ac yn gosod Joacim mewn cadwynau, gan fwriadu ei ddwyn ef i Babilon; ond wedi hyny y mae yn ei ryddhau, yn ei osod o dan deyrnged, ac yn anrheithio y deml. 2 Bren. 24, 1; 2 Cron. 36, 6, 7; Dan. 1, 1, 2.
	Nebuchodonosor yn gorchymyn i benaeth ei eunuchiaid ddewis ac anfon i Babilon rhai o'r teulu breninol, ac o'r pendefigion, i sefyll yn mhalas y brenin. **Daniel**, Hananiah, Misael, ac Azariah (y rhai hefyd a elwid Beltesassar, Sadrach, Mesach, ac Abednego) yn cael eu cymmeryd yno, Dan. 1, 3, 4, 6, 7.

* Gyda chyfaddasiad (*qualification*), gwel 2 Bren. 23, 26, a Jer. 3, 10, &c.; y cyfnewidiad oedd allanol yn benaf.

105. (3.) *O gymmeriad cyntaf Jerusalem,* c. c. 606, *hyd orchymyn Cyrus, am adferiad yr Iuddewon,* c. c. 536; 70 *o flynyddau.*

Dyddiad a Lle.	Dygwyddiad neu Hanes.
c. c.	*Dygwyddiadau yn Jerusalem, yn nghyd â dygwyddiadau cyd-amserol yn Mabilon.*
Babilon.	**Daniel** yn cael triniaeth dda, Dan 1, 5, 8—17.
605.	Baruch eilwaith yn darllen y Llyfr Prophwydoliaethol; Joacim yn ei losgi, Jer. 35, 9—32.
603.	Joacim yn gwrthryfela yn erbyn Nebuchodonosor, 2 Bren. 24, 1, *r. o.*, 24.
Babilon.	**Daniel** gerbron Nebuchodonosor, Dan. 1, 18—21.
	Dehongla freuddwyd Nebuchodonosor, Dan 2; rhydd ddesgrifiad o'r amherodraeth *Fabilonaidd*, 32; un y *Mediaid* a'r *Persiaid*, 32—39; yr un *Facedonaidd-Roegaidd*, 32—39; a'r un *Rufeinaidd*, 33, 40—43; *yn nghyd â theyrnas y Messiah*, 34, 35, 44, 45.
599.	Marwolaeth Joacim. JOACHIN neu JECONIAH, yn frenin (3 mis). 2 Bren. 24, 5—9; 2 Cron. 36, 8, 9; Jer. 22, 24—30; 23.
	Nebuchodonosor yn cymmeryd Jerusalem yr ail waith. Joachin, gyda llawer o'i ddeiliaid, yn cael ei ddwyn i Babilon. SEDECIAH neu MATTANIAH, yn frenin (11 o flynyddau), 2 Bren. 24, 10—19; 2 Cron. 36, 10—12; Jer. 52, 1, 2; 24.
597.	Prophwydoliaethau am barhad y caethiwed, Jer. 29, 1—14, 16—20, 15, 21—32.
	Am adferiad yr Iuddewon, Jer. 30, 31.
595.	Prophwydoliaethau yn erbyn y cenedloedd cylchynol. Hananiah, y gau-brophwyd, yn cael ei fygwth, Jer. 27, 28, 48, 49.
	Prophwydoliaethau yn erbyn Babilon, Jer. 50, 51.
Babilon.	Gweledigaeth **Ezeciel** yn Mabilon; ei gommisiwn,[a] Ezec. 1, 2, 3, 1—21. Prophwyda am ofidiau trymion yn Jerusalem, Exec. 3, 22—27 [4—7].
594.	Gweledigaethau yr eilun-addoliadau a achlysurasant y caethiwed, Ezec. 8, 10 [11].
Babilon.	Amryw brophwydoliaethau yn erbyn y prophwydi gau, Jerusalem, a'r genedl Iuddewig, Ezec. 12—19 [16, 18; 5—18].
593.	Prophwydoliaethau cyfyngedig at Henuriaid yr Iuddewon, Ezec. 20 [21—23].
Jerusalem.	Gwrthryfel Sedeciah a'i ddrygioni, Jer. 37, 1, 2; 2 Bren. 24, 20; 2 Cron. 36, 13; Jer. 52, 3.
	Drygioni yr offeiriaid a'r bobl (yr hyn a achosodd y caethiwed, ad. 15, 16), yn nghyd â byr hanes o'r barnedigaethau canlynol, 2 Cron, 36. 14—21.
590.	Nebuchodonosor yn gwarchae ar Jerusalem y drydedd waith, 2 Bren. 25, 1; Jer. 39, 1; 52, 4; 37, 3, 4.
Babilon.	**Ezeciel** yn rhagfynegu dinystr Jerusalem, Ezec. 24.
Jerusalem.	Prophwydoliaeth am y ddinas yn cael ei chymmeryd. Y bobl ar air **Jeremiah** yn rhyddhau eu caethweision Hebreaidd, Jer. 34, 1, 10,[b]
589.	**Jeremiah** yn cael ei gau fyny yn y carchar; ei brophwydoliaethau yno, Jer. 32, 33.[c]
Babilon.	**Ezeciel** yn Mabilon, yn prophwydo yn erbyn yr Aifft, Ezec. 29, 1—16;[d] ac yn erbyn Tyrus, Ezec. 26; gwel Esa. 23.
Jerusalem.	Y Chaldeaid yn cyfodi y gwarchae i fyned yn erbyn byddin yr Aifft, yr hon oedd yn agoshau. **Jeremiah** yn prophwydo dinystr y Philistiaid, Jer. 37, 5.
	Ar ymadawiad y fyddin Galdeaidd, y mae y bobl yn adalw eu caethweision, am yr hyn y mae **Jeremiah** yn eu bygwth hwynt, ac yn rhagfynegu dychweliad buan y Caldeaid, Jer. 34, 11—22; 37, 6—10.

[a] Am y drefn, gwel Towns., cyf. ii.

[b] Gwel Towns., ii., 559.

[c] Am drefn, gwel 32, 2.

[d] Ar y drefn, cymharer 29, 1, â 26, 1; ad. 17—21 a ysgrifenwyd 16 mlynedd yn ddiweddarach.

Dyddiad a Lle.	Dygwyddiad neu Hanes.
C. C.	
587.	**Jeremiah** yn cael ei garcharu etto, Jer. 37, 11—21; parhâ i fygwth Sedeciah, 21; gosodir ef yn naeardy Malchiah, 38; 39, 15—18.
	Ezeciel yn Mabilon, yn prophwydo etto yn erbyn yr Aifft a Ninefe, Ezec. 30, 20—26; 31.[a]
	Jerusalem yn y diwedd yn cael ei chymmeryd. Sedeciah yn cael ei ddwyn i Babilon. Rhyddhâd Jeremiah, 2 Bren. 25, 2, 4—7; Jer. 52, 5—7; 39, 2—7, 11—14.
	Nebuzaradan yn llosgi y deml, ac yn dwyn ymaith y bobl, gan adael ychydig bersonau tlodion i drin y tir, 2 Bren. 25, 8—21; Jer. 52, 12—30; 39, 8—10; Salm 74;[b] 78; 83; 94.
	Jeremiah yn wylo o herwydd annghyfannedd-dra ei wlad, Galarnad 1—5.
	Gedaliah yn cael ei osod yn llywodraethwr. **Jeremiah**, a llawer ereill, yn ymuno âg ef, 2 Bren. 25, 22—24; Jer. 40, 1—16.
	Ismael yn lladd Gedaliah, ac yn ceisio dwyn y bobl drosodd at yr Ammoniaid. Johanan yn ei attal ef; y bobl, gan ofni y Caldeaid, yn ffoi i'r Aifft, yn groes i orchymyn Duw, 2 Bren. 25, 25, 26; Jer. 41; 42; 43, 1—7.
	Jeremiah yn prophwydo yn erbyn yr Aifft a'r Iuddewon eilun-addolgar, Jer. 43, 8—13; 46, 8—13—28; 44.
	Crynodeb byr o'r caethgludiadau gan Nebuchodonosor, Jer. 52, 28—30.
	Y Gweddill o Hanes yr Iuddewon yn y Caethiwed—Babilon.
Babilon.	**Ezeciel** yn rhagfynegn cyflawn annghyfanneddiad Judea, Ezec. 33, 21—33.
587.	Prophwydoliaethau yn erbyn Ammon, Moab, Edom, Philistia, Tyrus, a'r Aifft, Ezec. 25; 27; 28; 32.
	Ezeciel yn appelio at y caethion, Ezec. 33, 1—20.
	Llywodraethwyr drygionus yn cael eu bygwth; adferiad yr Iuddewon yn cael ei addaw; *prophwydoliaethau am deyrnas y Messiah*, Ezec. 34; 37 [17, rhan olaf].
	Prophwydoliaethau am yr eglwys a'i gelynion, ac am argyhoeddiad yr Iuddewon, Ezec. 38; 39.
573.	Gweledigaeth **Ezeciel** o'r deml ddyfodol, Ezec. 40, 48.
572.	Y brophwydoliaeth olaf yn erbyn yr Aifft, Ezec. 29, 17—2; 30, 1—19.
570.	Nebuchodonosor yn gosod delw i fyny, Dan. 3.
569.	**Daniel** yn dehongli ail freuddwyd Nebuchodonosor, Dan. 4, 1—27.
568—563.	Cyflawniad breuddwyd Nebuchodonosor, yn ei wallgofrwydd a'i adferiad canlynol, Dan. 4, 28—37.
561.	Efel-Merodach, brenin Babilon, yn rhyddhau Joachin, 2 Bren. 25, 27—30; Jer. 52, 31—34.
558.	Gweledigaeth gyntaf **Daniel** o'r creaduriaid byw, Dan. 7.
556.	Gwledd Belsassar; Babilon yn cael ei chymmeryd, Dan. 5.
	Gweledigaeth **Daniel** o'r Hwrdd a'r Bwch, Dan. 8.
538.	Gweddi **Daniel** am adferiad Jerusalem. Prophwydoliaeth y deng wythnos a thriugain, Dan 9; Salm 102.
537.	**Daniel** yn cael ei daflu i ffau y llewod, Dan. 6.
536.	Gorchymyn Cyrus am adadeiladaeth y deml, ac adferiad yr Iuddewon i'w gwlad eu hunain, 2 Cron. 36, 22, 23; Ezra 1, 1—4; Salm 126; 85.
Jerusalem a Babilon.	Salmau a ysgrifenwyd yn ystod cyfyngderau a chystuddiau yr eglwys, yn benaf yn y Caethiwed Babilonaidd, Salm 10, 13, 14, 15, 25, 26, 27, 36, 37, 49, 50, 53, 67, 77, 80, 89, 92, 93, 123, 130, 137.

[a] Ar y drefn, cymharer 30, 20, â 29, 1.

[b] Cymharer ad. 5, 7; Towns. ii., 579.

106. (4.) *O orchymyn Cyrus,* c. c. 536, *hyd brophwydoliaeth olaf yr Hen Destament,* c. c. 420—397; *oddeutu* 139 *mlynedd.*

Dyddiad a Lle.	Dygwyddiad neu Hanes.
c. c.	
	1. *O ddychweliad yr Iuddewon hyd gyssegriad yr Ail Deml.*
536. Jerusalem.	Dychweliad yr Iuddewon. Cyrus yn adferu llestri y deml. Allor yn cael ei hadeiladu, Ezra 1, 5—11 [2]; 3, 1—7; Salm 87, 107, 111, 112, 113, 114, 116, 117, 125, 127, 128, 134.
535. Jerusalem.	Sylfaeniad yr ail deml, dan gyfarwyddyd Zorobabel, Ezra 3, 8—13; Salm 84, 66.
534.	Y Samariaid yn attal adeiladaeth y deml, Ezra 4, 1—5, 24; Salm 129.
Babilon.	Gweledigaeth olaf **Daniel**, Dan. 10—12.
520. Jerusalem.	Adeiladaeth y deml yn cael ei hail-gychwyn. **Haggai** a **Zechariah** yn cymhell y bobl i weithio, ac yn eu hannog i edifeirwch, Ezra 4, 24; 5, 1; Hag. 1, 1—11; Ezra 5, 2; Hag. 1, 12—25; 2, 1—9; Zech. 1, 1—6; Hag. 2, 10—23; Zech. 1, 7—21; 2—6 [2—5].
519.	Adeiladaeth y deml yn cael ei attal etto, a'i gychwyn eilwaith, Ezra 5, 3—17; 6, 1—13; Salm 138; Zech. 7; 8.
516.	Cyssegriad yr ail deml, Ezra 6, 14—22; Salm 48, 81, 146, 147, 148, 149, 150.
	2. *O'r gwrthwynebiad i'r Iuddewon yn nheyrnasiad Xerxes, hyd farwolaeth Haman.*
486.	Gwrthwynebiad yn nheyrnasiad Xerxes, Ezra 4, 6.
464.	Gwrthwynebiad yn nheyrnasiad Artaxerxes Longimanus, Ezra 4, 7—23.
462. Susan.	Artaxerxes (neu Ahasferus) yn ysgaru Fasti, ei frenines, Esther 1.
458.	Ezra yn cael gorchymyn i ymweled â Jerusalem, Ezra 7 [2—14].
457.	Artaxerxes yn gwneuthur Esther yn frenines, Esther 2, 1—20.
Jerusalem.	Ezra yn dyfod i Jerusalem, yn peru i'r bobl roddi ymaith eu gwragedd paganaidd, Ezra 8—10 [18—44].
	Prophwydoliaethau olaf **Zechariah**, Zech. 9—14.
Susan.	Mordecai yn darganfod y fradwriaeth yn erbyn Ahasferus, Esther 2, 21—23.
453, 452.	Dyfais Haman i ddinystrio yr Iuddewon, a'i ddinystr. Gwyl y Pwrim, Esther 3—10.
	3. *O gommisiwn cyntaf Nehemiah hyd derfyniad y Canon.*
445. Susan.	Nehemiah yn derbyn commisiwn oddiwrth Artaxerxes i ymweled â Jerusalem, ac i ail-adeiladu y mur, Neh. 1; 2, 1—8.
Jerusalem.	Nehemiah yn dyfod i Jerusalem, Sanbalat yn ymdrechu attal y gwaith; yr adeiladwyr yn gweithio dan arfau, Neh. 2, 9—20; [3;] 4.
	Nehemiah yn rhyddhau yr Iuddewon a ormesid gan usuriaeth; ei haelfrydedd ef ei hunan, Neh. 5.
	Yr Iuddewon yn cwblhau ac yn cyssegru y mur, Neh. 6; [12, 27—43].
Susan.	Nehemiah yn dychwelyd i Persia, Neh. 7, 1—4.
444.	Yr ail gommisiwn i Nehemiah, a'r diwygiad, Neh. 7 [6—73]; 8; 9; [10]; 11 [12, 1—9, 44—47]; 13, 1—3; Sal. 1, 119.

Dyddiad a Lle.	Dygwyddiad neu Hanes.
c. c. 433.	**Malachi** yn prophwydo yn erbyn y llygredigaethau a gyflwynwyd yn ystod absenoldeb Nehemiah yr ail waith, Mal. 1; 2; 3, 1—15.
428.	Diwygiad pellach gan Nehemiah, Neh. 13, 4—31.
397.	Prophwydoliaeth olaf yr Hen Destament, Mal. 3, 16—18; 4.
	Achyddiaethau gwahanredol (*detached*), &c., a roddwyd i mewn, mae yn debyg, ar derfyniad y Canon, 1 Cron. 1:—9; Neh. 12, 10—26.

Dos. 7. *Amseriaeth (Chronology) yr Ysgrythyr, a Hanes foreuol gyffredin (profane).*

107. Y mae amseriaeth hanes foreuaf Assyria a'r Aifft—y cenedloedd henaf a nodir yn yr Ysgrythyr, yn cynnwys anhawsderau, y rhai, yn nghyflwr presenol ein gwybodaeth, ydynt yn annadrysedig. Y mae Ctesias a Herodotùs (y ddau hanesydd cyffredin ar ba rai yr ymddibynwn am wybodaeth o berthynas i *Assyria*) yn gwahaniaethu 800 mlynedd mewn amseriaeth, a gwahaniaethant yn gyfatebol yn eu teyrnachau (*dynasties*). Gwna Herodotus barhad y llywodraeth Assyriaidd yn Asia Uchaf yn 520 o flynyddau; a Ctesias (awdurdod hanesyddol yr hwn sydd isel iawn) a'i gwna yn 1305 (Diod. Sic. ii., 21). Tybir, mewn un cyfrif, fod Semiramis yn byw c. c. 2017, ac mewn un arall (Dr. Hales), c. c. 747. Y modd i egluro yr anhawsderau hyn, a rhai ereill, yw cymmeryd bodoliaeth dwy amherodraeth Assyriaidd yn ganiatäol, tybiaeth a gynnelir gan rai rhanau yn Herodotus (i. p. 95, 102, 106, 185). Yr anhawsderau yn yr hanes *Aifftaidd* a gyfodant oddiwrth y ffaith, fod llawer o deyrnachau cydamserol yn cael eu rhoddi gan hen awdurdodau, ac yn fynych y mae amryw enwau gan yr un brenin.

Yn y Taflenau ar Hanesiaeth Aifftaidd, defnyddiwn amseriaeth y Beibl Cymreig. Am y ffeithiau, defnyddiwn Daflenau Mr. Cory, cyhoeddedig gan Pickering; ac am Hanesiaeth Assyriaidd, defnyddiwn Daflenau y Dr. Russell.

Gellir nodi, nad oes gwahaniaethau pwysig rhwng awdurdodau cymmeradwy o ddyddiad teml Solomon (c. c. 1012) i lawr, oddieithr yn mherthynas i Assyria (1012 hyd 771). Am yr oll o'r tymmor olaf yma, cymmerwn ddyddiadau "Fasti Clinton," y rhai nid ydynt ond anfynych yn gwahaniaethu mwy nâ blwyddyn oddiwrth eiddo y cyfieithiad awdurdodedig.

Hanes Daflenol o'r Aifft, &c., o'r Diluw hyd ddyddiau Solomon—Allan o Usher.

Yr Aifft.		Palestina, &c.	
c. c. 2348	Y Diluw.	c. c. 2234	Nimrod yn sefydlu llywodraeth freiniol. (Hales 2554).
2192	Sylfaeniad teyrnas yr Aifft.* 16eg, neu y deyrnach ddaearol gyntaf.		

* Defnyddir y talfyriadau (*abbreviations*) canlynol yn y Daflen yma:—(D.) Diodorus Siculus. (E.) Eratosthenes. (H.) Herodotus. (M.) Manetho. (M. J.) Manetho yn ol Josephus. (M. M. ac M. T.) Y llechres Memphiaidd a Thiniaidd o Fanetho. (S.) Sanchoniatho. (Y. S.) Y Beibl. Hefyd, dyfynir Champollion, Wilkinson, Syncellus, yn ngbyd ag hen awduron clasurol.

Hanes Taflenol o'r Aifft, &c.—*parhad.*

	Yr Aifft.		Palestina, &c.
c. c.		c. c.	
2192	1. *Menai.* Menes (H.), Misor (S.), Mizraim (Y. S.)		Sylfaeniad Babilon.
2130	2. *Thoth* 1. Athothes (E.), Tosorthus (M. M.,) dyfeisydd llythyrenau a meddygiaeth (*medicine*), Æsculap.	2147	Assur (neu Nimrod? neu Ninus?) yn sylfaenu Ninefe.
2071	3. *Thoth* II. Athothes (E.), Kenkeres (M. T.)	2124	Marwolaeth Nimrod. Ninius? neu Belus?
2039	4. *Diabies* (E.), Messochris (M. M.)	2069	Ninus, ardderchogydd Ninefe.
2021	5. *Pemphos* (E.), Sonthis (M. M.) Dechreuad y Pyramidiau?	2059	*Yr Amher. Asyriaidd.* Cymmeryd Babilon.
2002	Goresgyniad y bugeiliaid; ni fwriwyd hwynt allan yn llwyr am 511 o flynyddau. Breninoedd brodorol, 17eg deyrnach.	2017	Semiramis yn canlyn Ninus.
2002	Breninoedd o'r Bugeiliaid.—1. *Salatis.*	1996	Genedigaeth Abraham.
1983	2. *Beon.*	1978	Buddugoliaethau Semiramis.
1939	3. *Apachnas.*		
1936	6. *Keres.*		
1920	7. *Osirtesen* I. Tosertasis (M. M.), Misartesen (Pliny); y mae amryw bigadeiliadau (*obelisks*) a cholofnau wedi eu gadael ganddo.	1975	Ninyas yn canlyn Semiramis. Abraham yn ymweled â'r Aifft.
1903	4. *Apophis.*		Yn awr y canlyn teyrnasiad tua deg ar hugain o freninoedd, yn ol Eusebius, neu un ar bumtheg ar hugain, yn ol Syncellus, ac yn terfynu gyda Sardanapalus (gwel tud. 533, 536).
1897	Osirtesen yn dryllio gallu y bugeiliaid.		
1877	8. *Amun Muthah* I.		
1861	9. *Amun Muthah* II.		
1845	10. *Osirtesen* II.		
1842	5. *Janias.*		
1829	11. *Osirtesen* III.		
1813	12. *Amun Muthah* III., gadawodd amryw gofgolofnau.	1836	Genedigaeth Jacob.
1792	6. *Kertos.*		
1772	13. *Hakor?* Acheres (M. M.), Alisphragmuthosis (M. J.)		
1768	7. *Aseth.*		
1755	14. *Amos.* Gwarchae y bugeiliaid yn Avaris.		
1748	Gyriad y bugeiliaid allan; marwolaeth *Aseth.*		
1748	14. *Amos* ei hun. 18fed deyrnach. Amosis (M.), Cheops (? Her.)		
1730	15. *Amenoph* I.	1728	Gwerthu Joseph. Dehongla freuddwyd Pharaoh; ei ddyrchafiad.
1715	Rhaglawiaeth hyd Thothmos III. Joseph (Y.S.), Chebron (*Hebrewr?* M.), Amenenthe (Champ), Amun-neit-gori (Wilk.), Amnuth (Arwyddluniol). Ymddangosiad y Phœnix, neu 2il Hermes; tybir mai Joseph, yr Hebrëwr, ydoedd.		
1710	16. *Thothmos* I., ac Amesse. Mæris (H.), Mephres (M. J.)		Jacob yn myned i'r Aifft.
1706	Rheoliad y Calender. Phœnix.		
1688	*Thothmos* ei hunan.		
1676	17. *Thothmos* II. Mephra Muthosis (M. J.)		
1649	18. *Thothmos* III. Mæris (H.), Thmosis (M. J.)		
1635	Terfyniad y Rhaglywiaeth; gweithiau adeiladol mawrion.		Marwolaeth Joseph.
1610	19. *Amenoph* II. (M.) Anouphis (E).	1577	Yr Israeliaid yn lluosogi.
1579	20. *Thothmos* IV. Orus (M. J.), Soris (M.); Erlidigaeth ar yr Israeliaid.	1571–32	Genedigaeth a bywyd boreuol Moses.
1543	Rhaglyw *Achencheres.* Chnubus Gneurus (E).		
1543	21. *Amenoph* III., ac *Amun Tvohn.* Rathek. (Arwyddl.), Danaus (Gr.), Rathoti (M. J.)		
1530	Danaus yn cael ei daflu allan gan Amenoph.	1531	Moses yn Midian.

Hanes Taflenol o'r Aifft, &c.—*parhad.*

Yr Aifft.		Palestina, &c.	
c. c.		c. c.	
1504	Danaus a'i fab yn gyru Amenoph i Ethiopia.		
1504	22. *Amun me Anamek.* Achencheres II. (M. J.), Chonchères (Syn.), Bocchoris (Tac.), Busiris (Groegiaid.)		
1492	Marwolaeth Amenoph.		Y Mynediad allan.
1491	Y bugeiliaid yn cael eu gyru allan am y tro olaf gan Danaus; y mynediad allan; Bocchoris yn boddi. Syn. a ddywed i hyn gymmeryd lle 700 mlynedd ar ol Menes, ac ar ol pump ar hugain o deyrnasiadau.	1491–51	Yr Israeliaid yn yr anialwch.
1491	23. *Ramesses* I. Sethos (T.), Suphis (M. M.)		
1490	24. *Amun, neu Phthah me Phœnicheen, neu Armeen.* Armais (M.), Hermæus (M. J.)	1466	Danaus (Eratos).
		1451	Y Siars i Josua.
1486	25. *Ramesses* II. Sethros (T.), Souphis (M. M.), Sesostris(Grgd.), Sesoosis(D.) Rhyfelwr mawr.	1444	Gorchfygiad Canaan.
		1433?	Deucalion (Eratos).
1418	26. *Amenoph* IV. Phthamen (Wilk.), Menephtha (Champ.), Menecheres (M. M.)	1402	Y Barnwyr. Othniel.
1399	27. 19eg deyrnach. *Phthamen Se Phthah,* Sethos (M.), Musthis (E.)		Ehud.
		1383?	Erectheus (Eratos).
1366	28. *Osiri men Phthah.* Rapsaces (M.), Phius (M. M.)		Samgar. Deborah.
1331	29. *Osiri ta Remerrer.* Ammenemes (M.)	1313	Cadmus (Eratos).
1323	30. *Ramesses* III. Aphrops (M.), Sesoosis II. (D.), Sesostris II. (M.), Mæris (Her.) addurna Thebes.	1283?	Pelops (Eratos).
1321	Cylch (*cycle*) Mæris yn dechreu.		
1263	31. *Ramesses* IV. Ammenephthes (M.)	1261	Hercules (Eratos).
1223	32. *Ramesses* V. Menthe Suphis (M. M.)		Gideon.
1222	33. *Nitocris a Ramesses* VI. Nitocris a Thuoris (M. M.), Nitocris (E.), Proteus (D.), 20*fed deyrnach.*	1225?	Argonautiaid (Erat.).
		1213	Rhyfel Thebaidd 1af.
		1198	Rhyfel Thebaidd 2il.
1209	34. *Ramesses* VII. (Syn.), Rhemphis (D.)		Jephthah.
1194	35. *Ramesses* VIII. Ousiomares (Syn.)	1192	Gwarchae Troy (Er.)
1179	36. *Ramesses* IX. Rhamsinitus (H.), Nileus (D.), Sethos Nilus (E).	1183	Terfyn rhyfel Troy.
		1176	Orestes yn Argos.
1164	37. *Ramesses* X. (Syn.) Semphucrates (E.)	1116	Marwolaeth Samson.
1149	38. *Ramesses* XI. (Syn.), Chuthen Taurus (E.)	1112	Samuel.
1134	39. *Amun Mai Pouee,* Rhamesse Jubasse (Syn.)	1106	Heraclidæ.
1119	40. *Amunmeses.* Rhamesse Vaphris (Syn.)	1056	Dafydd yn frenin.
	Y deyrnwialen a drosir yn awr i'r Aifft Isaf.	1045	Marwolaeth Codrus.
1101	Yn yr 21ain deyrnach y mae naw brenin Thebaidd, a saith o rai Tanitaidd (*Tanite*) adnabyddus yn teyrnasu 130 mlynedd	1044	Yr ymfudiad Ionaidd.
		1016	Solomon yn frenin.
971	22ain deyrnach. Sheshonk neu Sisac.	976	Rhaniad y deyrnas.

Assyria.						Yr Aifft, &c.	
Y mae Thonus Concholerus a Sardanapalus yn teyrnasu o 841 i 773. Yn 800 ymwela Jonah â Ninefe; yn 773 y mae llywodraethwyr Media a Babilon yn gwrthryfela. Gwarchaeir ar Ninefe, ac yn 771 trenga Sardanapalus yn ei balas drwy dân. Ffurfir tair teyrnas, y penaf o ba rai, ar y cyntaf, yw Assyria.						c. c.	
						972	Sisac (Sesostris?) yn goresgyn Judea, 2 Cron. 12, 9.
Assyria.		*Babilon.*		*Media.*		812	Bocchoris.
Pul yn teyrnasu dros y cyfan; yn gwneyd i Israel dalu teyrnged, 769. Yn rhoddi ei deyrnas i							
c. c.		c.c.		c. c.		776	[Cyfnod yr Olympiad].
747	Tiglath Pileser.	766	Belesis, neu	776	Arbaces, yr hwn a fwriadodd yn erbyn Sar-	773	So (neu, gwel isod).
740	Buddugoliaethau yn Syria.	747	Nabonassar.				

Amseriaeth yr Ysgrythyr.—*parhad.*

Assyria.

Assyria.		*Babilon.*		*Media.*	
c. c.		c. c.		c. c.	
738	2 Bren. 16.	733	Nadius.		danapalus yn ffurfio gwerin-lywodraeth Fediaidd, Phraortes yn llywydd.
730	Salmaneser, 2 Bren. 17.	731	Porus.		
		726	Jugæus.		
721	Darostyngiad Samaria.	721	Merodach Bal., Esai. 39.		
714	Sennacherib.			753	[Sylfaeniad Rhufain.
713	Sennacherib yn goresgyn Judea.			743	[Y Rhyfel Fesseniaidd gyntaf.]
712	Sennacherib yn goresgyn Judea yrail waith 2 Bren. 19.			720	[Y diffyg cyntaf ar y lleuad sydd yn cael ei gofnodi, 19eg o Fawrth.]
711	Sennacherib yn cael ei lofruddio yn nheml Nisroch.				
710	Esarhaddon. Nodir brenin-oedd ereill, ond y maent yn amheus.	710	Babilon yn annibynol dan Merodach, yr hwn a enfyn at Hezeciah; etto yn ddibynol hyd	710	Dejoces y brenin yn cael ei ladd.
				672	[Tullus Hostilius.]
699	Esarhaddon yn cymmeryd Babilon.			657	[Byzantium yn cael ei hadeiladu]
677	Esarhaddon yn dwyn Manasseh i Babilon.				Phraortes.
667	Ninus III., neu Saosduchinus.			641	Cyaxares I.
650 neu 630	Chinaladanus, Nebuchodonosor, neu Sardanapalus II.	625	Nabopolassar, tad Nebuchodonosor fawr.		

Yr Aifft, &c.

c. c.	
753	[Llywyddion deng-mlwyddol yn Ath.]
725	So, yr Ethiopiad, yn goresgyn Judea, 2 Bren. 17, 4.
713	Trawslywodraeth Sevechus, yr offeiriad.
711	Tiraca, yr olaf o'r Ethiopiaid, yn ymladd â Senacherib, 2 Bren. 19, 9. Esa. 37, 9.
685	Llywodraethu yr Aifft gan ddeuddeg brenin am bumtheg neu ugain mlynedd.
670	Psammitichus yn eu dymchwelyd, ac yn teyrnasu; yn eymmeryd Asdod; gwel Esa. 20.
647	Gwneyd Memphis yn brifddinas; Psammitichus yn eyflwyno yr iaith Roeg.
616	Pharaoh-Necho II., 2 Cron. 35, 36.
610	Llynges; ymgais at uno Môr y Canoldir â'r Môr Coch drwy Gamlas, ac yn methu.
609	Necho yn goresgyn Asia.
606	Nebuchodonosor yn ei orchfygu.
600	Psammis yn canlyn Necho.
594	Apries, neu Pharaoh Hophra, yn cynghreirio gyda Sedeciah yn erbyn Nebuchodonosor.
571	Nebuchodonosor yn diorseddu Apries, Jer. 44, 30; 46; Ezec. 29, 30, 32.

Babilon a Phersia.

c. c.	
625	Nabopolassar, brenin Babilon, yn honi annibyniaeth Assyria.
623	Nebuchodonosor, ei fab, yn priodi merch Cyaxares, y Mediad.
608	Gwarchae ar Ninefe gan Babilon a Media dan Nebuchodonosor.
606	Yn ei chymmeryd a'i huno â Media.
606	Yn cymmeryd Jerusalem.
606	Nebuchodonosor yn gorchfygu Necho.
604	Nebuchodonosor yn teyrnasu ei hunan, yn sylfaenu yr amherodraeth Fabilonaidd, &c.
587	Nebuchodonosor yn gorchfygu Judea.
582	Nebuchodonosor yn cymmeryd Susan. Dan. Ezec.
573	Nebuchodonosor yn cymmeryd Tyrus, ar ol gwarchaedigaeth o dair blynedd ar ddeg.

Media a Phersia.

c. c.	
641	Teyrnach y Kaianiaid, Kair-Kobad neu Cyaxares I. dan y Scythiaid, yn eu bwrw allan ac yn cymmeryd Ninefe. Cyn yr amser yma nid oes yr un hanes gredadwy am Persia, Kai-Kans, neu Astyages.
621	[Draco, Athen.]
619	[Tarquin I., Rhufain.]
601	Genedigaeth Kai-Khosru. (Cyrus.)
595	[Sappho, Solon, Thales].
572	[Æsop yn blodeuo].

Amseriaeth yr Ysgrythyr.—*parhad.*

Assyria.				Yr Aifft, &c.	
	Babilon a Phersia.		*Media a Phersia.*		
C. C.		C. C.		C.C.	
570	Rhoddi i fyny y ddelw aur.			569	Gwneyd Amasis yn frenin gan Nebuchodonosor; yr Aifft yn llwyddiannus iawn.
561	Efil-Merodach yn canlyn.	560	[Peisistratus, Athen].		
559	Efil-Merodach yn cael ei ladd gan Cyrus.	559	Cyaxares, II. (Darius). Cyrus yn Gadfridog, ac yn llywyddu.		
558	Neriglassar (Bels) yn canlyn.				
556	Gwarchae ar Babilon; yr "Ysgrifen ar y pared."		Sylfaeniad yr amherodraeth *Bersiaidd* gan Cyrus.	554	Solon yn ymweled â'r Aifft.
555	Darius yn frenin Babilon a Media.			536	Pythagoras yn ymweled â'r Aifft.
551 neu 553	Nabonadius yn llywyddu; yn ymgeisio at fod yn annibynol.	551	Zoroaster. Marwolaeth Cyaxares. Cyrus yn teyrnasu ei hunan.	535	Rhoddi yr Aifft dan deyrnged gan Cyrus.
540	Gwarchae ar Babilon etto.	546	Yn gorchfygu Crœsus ac Asia Leiaf.		
538	Babilon yn cael ei chymmeryd gan Cyrus, a'i chyssylltu â'r amherodraeth Bersiaidd.	538 535	Yn cymmeryd Babilon, A'r Aifft.	525	Psammenitus yn gwrthryfela, ac yn cael ei orchfygu, Esa. 19. Yr Aifft yn dalaeth Bersiaidd; diwedd teyrnach Pharaoh.
529	Marwolaeth Cyrus mewn rhyfel (Her.) mewn heddwch (Xen.)				
525	Cambyses, ei fab, yn ei ganlyn; yn gorchfygu yr Aifft.				
522	Smerdis y Magiad.				
521	Yn cael ei ladd, a'i ganlyn gan Darius Hytaspes, Dan. 11, 2.				
518	Babilon yn gwrthryfela, ac yn cael ei dinystrio.				
508	Gorpheniad y Camlas Aifftaidd (gwel 610, yr Aifft).			486	Yr Aifft yn gwrthryfela (ac etto) a Orchfygir.
499	Macedon a Thrace dan deyrnged. Ioniaid yn gwrthryfela, a'r Atheniaid yn cynnorthwyo. Rhyfel yn erbyn Groeg.			484	
492	Dwy hynt yn erbyn Groeg yn cael eu gorchfygu.			460	Gwrthryfela etto, dan Inarius, a gynnorthwyir gan Athen.
490	Yr Aifft yn gwrthryfela.				
484	Xerxes yn canlyn Darius; yn darostwng yr Aifft, Dan. 11, 2.				
480	Hynt yn erbyn Groeg yn methu.			448	Herodotus yn ymweled â'r Aifft.
465	Lladd Xerxes; Artaxerxes I; Longim. yn canlyn, Neh. 2, 6; Themistocles yn Persia.			414	Annib. Amyrtæus, naw brenin yn canlyn; Pausiris, Psammitichus II. &c.
457	Esther yn frenines.				
454	Ezra yn ymweled â Jerusalem.				
445	Nehemiah.				
425	Xerxes II. yn canlyn, ac yn cael ei ladd; Sogdianus.				
424	Darius II; Nothus.			350	Gorchfygir gan Ochus, y Persiad. Gwel tud. 414.
414	Yr Aifft yn adennill ei hannibyniaeth.				
405	Artaxerxes Mnemon. Gwel tud. 414.				

PENNOD IV.

Hanes Wladol a Moesol yr Iuddewon o Malachi hyd Ioan Fedyddiwr.

Dos. I. *Braslun o Hanes Wladol yr Iuddewon yn ystod yr amser rhwng yr Hen Destament a'r Newydd.*

108. Er nad oes genym yn yr Ysgrythyr hanes o'r tymmor yma, etto cyfeirir yn aml mewn prophwydoliaeth at ei ddygwyddiadau, a llawer o honynt a daflant oleuni ar y Testament Newydd. Sylfaenir y braslun canlynol, yn benaf, ar Josephus a llyfrau y Maccabeaid.

109. Taflenau Amseryddol o'r Tymmor hwn.

Palestina.

c. c.	
[413	Jehoiada yn arch-offeiriad.]
373	Johanan yn arch-offeiriad.
351	Ochus, brenin Persia, yn planu Iuddewon yn agos i'r Môr Caspiaidd.
341	Jaddua yn arch-offeiriad.
332	Alexander, wedi dinystrio Tyrus, yn ymweled â Jerusalem; yn planu Iuddewon yn Alexandria.
324	Marwolaeth Alexander; ei deyrnas yn cael ei rhanu.
321	Onias yn arch-offeiriad.
320	Ptolemy Lagus yn cymmeryd Jerusalem; yn planu Iuddewon yn Alexandria a Cyrene.
312	Seleucus yn ennill Syria; cyfnod y Seleucidæ.
306	Amherodraeth Alexander yn cael ei rhanu i bedair teyrnas, megys y rhagddywedwyd gan Daniel.
300	Simon y Cyfiawn yn arch-offeiriad.
292	Eleazar yn arch-offeiriad.
285	Dechreuad cyfieithiad y LXX yn Alexandria.
251	Onias II. yn arch-offeiriad.
246	Ptolemy Euergetes yn offrymu aberthau yn Jerusalem
216	Ptolemy Philopater, wedi cael ei attal rhag myned i mewn i'r santaidd santeiddiolaf, yn amcanu dinystrio yr Iuddewon yn Alexandria, ond yn cael ei rwystro mewn modd gwyrthiol.
203	Antiochus Fawr yn ennill Palestina.
200	Sylfaeniad sect y Saduceaid.
199	Scopas, cadfridog Aifftaidd, yn ennill Judea i frenin yr Aifft.
198	Antiochus yn adennill Judea.
195	Onias III. yn arch-offeiriad.
176	Heliorodus, pan yn ceisio yspeilio y deml, yn cael ei attal gan angel.
170	Antiochus Epiphanes yn cymmeryd Jerusalem, yn lladd 40,000 o bersonau, ac yn halogi y deml.

Persia, Syria, a'r Aifft.

c. c.			
405	Artaxerxes Mnemon, Persia.		
401	Marwolaeth Cyrus yr ieuengaf.		
381	Artaxerxes Ochus, Persia.		
350	Adennilliad yr Aifft gan y Persiaid.		
335	Darius Codomanus, Persia.		
331	Alexander yn gorchfygu Persia ar y Granicus, 334; yn Issus, 333; yn Arbela, terfyna yr amherodraeth Bersiadd		
324	Ptolemy Lagus, yr Aifft.		
312	Seleucus I.; Nicator, Syria.		
312	Amherodraeth Seleucus yn cyrhaedd o Antioch i India.		
291	Seleucus ar y Tigris yn cael ei hadeiladu.		
285	Dionysius (Alex.) yn penderfynu y flwyddyn heulawg (*solar year.*)		
	Yr Aifft.	c c.	*Syria,*
285	P. Philadelph.	280	Antiochus I.
		261	Ant. II. Theos.
247	P. Euergetes I.	246	Sel. II. Callinic.
		226	Sel. III. Keraun
222	P. Philopater.	223	Ant. III. Mawr.
205	P. Epiphanes.		
190	Y fyddin Rufeinig gyntaf yn Asia.		
		187	Sel. IV. Philop.
		175	Ant. IV. Epiph.
181	P. Philometh.	164	Ant. V. Eup.
		162	Demetr.—Soler yn cael ei orch-a'l ladd ganddo.

Ewrop.

c.c.	
404	Euclid.
401	Enciliad deug mil.
397	Zeuxis.
389	Plato.
363	Mantinea, marwolaeth Epaminondas.
356	Genedigaeth Alexander.
345	Aristotle.
338	Demosthenes.
334	Apelles.
295	Epicurus.
281	Theocritus.
280	Pyrrhus, brenin Epirus, yn myned i Itali.
268	[Berosus.
261	Manetho, Aifftiaid.]
264	Y rhyfel Buniaidd (*Punic*) gyntaf.
258	Regulus yn garcharor.
236	Archimedes.
220	Plautus.
224	Y Colossus yn Rhodes yn cael ei ddymchwelyd.
220	Hannibal.
218	Yr ail rhyfel Buniaidd.
216	Rhyfel Cannæ.
210	Zeno.
202	Hannibal yn cael ei orchfygu yn Affrica, gan Scipio Affricanus.
190	Scipio Asiaticus.

Tafienau Amseryddol, &c.—*parhad.*

Palestina.		Syria a'r Aifft.				Ewrop, &c.	
c.c.		c.c.	*Aifft.*	c.c.	*Syria.*	c.c.	
167	Antiochus yn erlid yr Iuddewon.			150	Alexander Balas		
165	Judas Maccabæus yn puro y deml, ac yn sefydlu gwyl y cyssegriad.						
161	Judas Maccabæus yn cael ei ladd; Jonathan, ei frawd, yn ei ganlyn.						
149	Onias yn adeiladu teml yn yr Aifft fel yr un yn Jerusalem.					149	Y trydydd rhyfel Buniaidd, parha dair blynedd.
144	Jonathan yn cael ei ladd gan Tryphon, a chanlynir ef gan Simon, yr hwn a wneir yn llywydd gan Demetrius.	146 144	P. Physcon. P. Physcon.	146 144	Demet. Nicat. Ant.VI., Theos.	148 148	Dinystrio Carthage. Dinystrio Corinth.
141	Y llywodraeth a'r offeiriadaeth yn cael eu cadarnhau gan yr Iuddewon i Simon a'i hiliogaeth.			143 139	Tryphon. Ant. VII.		
135	Y Phariseaid.			130	Demet. Nic. II.	136	Scipio Nasica.
135	Simon yn cael ei lofruddio; John Hyrcanus, ei fab, yn ei ganlyn.			127 123	Alexander. Ant. VIII.	133	Tiberius Gracchus.
130	John Hyrcanus yn taflu ymaith yr iau Syriaidd, ac yn gwneuthur ei hunan yn annibynol. Dinystria y deml ar fynydd Gerazim.	116	P. Lathyrus.				
110	Yr Esseniaid.			111	Ant. IX.	111	Y rhyfel Jugurthunaidd (pum mlynedd).
107	Aristobulus yn canlyn ei dad, Hyrcanus, ac yn argymmeryd y teitl o frenin.			108 93	Ant.VIII. a IX. Phil. ac Ant. X.		
106	Alexander Jannæus yn canlyn ei frawd, Aristobulus, ac yn teyrnasu am 27 mlynedd.	88	P. Alexander.	92	Demetrius Euc.	100 88	Geni Julius Cæsar. Rhyfel cartrefol. Marius a Sylla.
79	Jannæus yn marw. Alexandra, ei wraig, yn ei ddilyn, ac yn gwneuthur ei mab, Hyrcanus, yn archoffeiriad, ac yn ffafrio y Phariseaid.	81	P. Auletes?	83 69	Tigranes o Armenia. Ant. XI.	81	Araeth gyntaf Cicero.
70	Alexandra yn marw. Hyrcanus yn dilyn; ond gorfodir ef i roddi fyny y goron i'w frawd ieuengaf, Aristobulus.					71 69	Spartacus. Lucullus yn gorchfygu Mithridates a Thigranes.
65	Pompey Fawr yn darostwng Syria yn dalaeth Rufeinig. Hyrcanus yn ymdrechu adennill y goron.	55	P. Auletes.	65	Pompey yn ei gwneyd yn dalaeth Rufeinig.		

Taflenau Amseryddol, &c.—*parhad.*

Palestina.		Syria a'r Aifft.				Ewrop.	
c.c.		c.c.	*Aifft.*	c.c.	*Syria.*	c.c.	
63	Wedi i Hyrcanus ac Aristobulus appelio ât Pompey, penderfyna o blaid y blaenaf; y mae yn cymmeryd Jerusalem, ac yn rhoddi Judea dan deyrnged.		*Llywodraethwyr Rhufeinig.*			63	Bradwriaeth Cataline.
57	Y mae Aristobulus a'i fab, Alexander, wedi cyfodi cythrybliadau, yn cael eu gorchfygu gan Gabinius, rhaglaw Rhufeinig Syria.	55	Gabinius.		*Llywodraethwyr Rhufeinig.*	60	Y driwyriaeth *(triumvir.)* gyntaf; Pompey, Cæsar, Crassus.
54	Crassus yn yspeilio y deml.	51	Cleopatra.	51	Bibulus.	60	Catullus.
47	Antipater, wedi cael ei appwyntio gan Julius Cæsar yn rhaglaw Judea, a esyd Herod ei fab yn llywydd Galilea, a Phasael yn llywydd Jerusalem.			50	Q. M. Scipio.	57	Sallust.
44	Muriau Jerusalem yn cael eu hadadeiladu.			47	S. Cæsar.	50	Cornelius Nepos, Varro.
43	Gwenwyno Antipater; Herod a Phasael yn dial ei farwolaeth.			43	Cassius.	49	Brwydr Pharsalia.
40	Y Parthiaid, wedi cymmeryd Jerusalem, yn lladd Phasael, ac yn gosod Antigonus, mab Aristobulus, ar yr orsedd. Herod yn ffoi i Rufain, ac yn cael ei wneyd yn frenin Judea.			38	Ventidius.	46	Cæsar yn diwygio y calendar.
37	Herod yn cymmeryd Jerusalem, yn tòri pen Antigonus, ac yn cael ei sefydlu fel brenin Judea; teyrnasa 34 mlynedd.			39	Y Parthiaid yn goresgyn Syria, 50; ac yn cael eu gyru allan mewn modd creulawn gan Vent.	44	Lladd Cæsar. Diodorus Sic.
35	Herod yn gwneuthur Aristobulus, brawd Mariamne, ei wraig, yn arch-offeiriad; ond efe a'i lladdodd ef wedi hyny.	30	Yn cael ei gwneyd yn dalaeth Rufeinig gan Octavius.	34	Plaucus.	42	Brwydr Philippi.
25	Herod yn adadeiladu Samaria; yn ei galw yn Sebaste.			27	Messala C.	44	Yr ail driwyriaeth; Oct., Ant., Lepidus.
22	Herod yn dechreu adeiladu Cæsarea. Ychwanegir Trachonitis, Auranitis, a Batanea, at ei lywodraeth.			22	Agrippa.	36	Bwrw Lepidus allan o'r driwyr.
17	Herod, ar ol darparu am ddwy flynedd, yn dechreu ail-adeiladu ac helaethu y deml.			13	S. Saturnius a T. Volumnius.	33	Rhyfel rhwng Oct. ac Ant.
6	Zecharias yn derbyn y genadwri o berthynas i enedigaeth Ioan Fedyddiwr. Canon y Testament Newydd yn dechreu.					31	Brwydr Actium.
						27	Octavius yn amherawdwr, gyda'r teitl o Cæsar Augustus.
						31	Mæcenas.
						29	Horace.
						27	Propertius.
						25	Livy.
						21	Tibullus.
						20	Ovid.
						5	Dion. Halicarn.

110. Ar ol Nehemiah (c. c. 420), parhäodd Judea am yn agos can mlynedd dan lywodraeth breninoedd Persia. Peidiodd, fodd bynag, a bod yn llywodraeth neillduol, ac unwyd hi â rhaglawiaeth (*satrapy*) Syria; ac ymddiriedwyd gweinyddiad y llywodraeth i'r archoffeiriad, dan reolaeth y llywydd Syriaidd yn unig. Gwnaeth yr undeb hwn o'r llywodraeth wladol ac eglwysig y swydd yma yn fuan yn un o uchelgais mawr i wahanol aelodau teulu Aaron, a bu yn achlysur o lawer o ymrafaelion cynhyrfus a gwarthus.

111. Ar ddymchweliad y fyddin Bersiaidd gan Alexander, syrthiodd Syria dan ei awdurdod ef; a chymmerwyd Tyrus ar ol gwrthwynebiad cadarn. Wedi hyny, aeth Alexander yn mlaen i Judea, i gospi yr Iuddewon, y rhai, o barch i'w llŵ i frenin Persia, a roddasant i'r Tyriaid adgyfnerthion o ymborth, ac a wrthodasant hyny iddo ef. Ond (fel y dywedir) wrth ei fod yn agosâu at Jerusalem, ac yn gweled gosgordd difrifol o'r bobl yn dyfod i'w gyfarfod, yn cael eu blaenori gan yr archoffeiriad Jaddua, a'r holl hiliogaeth offeiriadol, yn eu gwisgoedd swyddol, yr Arglwydd a drôdd ei galon i'w harbed, ac i fod yn ffafriol iddynt. Cadarnhäodd iddynt y rhydd-fwynhad o'u deddfau a'u crefydd; rhyddhäodd hwynt oddiwrth dalu teyrnged yn ystod y blynyddau Sabbothol; a phan adeiladodd ddinas Alexandria, gosododd nifer mawr o Iuddewon ynddi, a chaniatäodd iddynt yr un rhagorfreintiau a'i ddeiliaid Groegaidd. Ar ddosparthiad amherodraeth Alexander, Judea yn y diwedd a syrthiodd i gyfran Ptolemy Lagus, a ffurfiai rhan o deyrnas yr Aifft. Y tywysog hwnw a symudodd lawer o'r bobl i Alexandria; cadarnhäodd iddynt eu rhagorfreintiau, ac aeth mor bell a derchafu rhai o honynt i swyddau o awdurdod ac ymddiried. Daeth yr Aifft, drwy ddëoliadau olddilynol, a symudiadau gwirfoddol, a pharhäodd yn hir, yn fangre bwysig o eiddo y boblogaeth Iuddewig. Dylanwad moesol y cyfnewidiad yma a nodir isod.

Yn amser Ptolemy Lagus, mwyhäwyd llwyddiant yr Iuddewon yn fawr gan weinyddiaeth wladol archoffeiriad rhagorol, Simon y Cyfiawn. Adgyweiriodd eu dinas a'u teml, a chadarnhäodd hwynt â muriau cedyrn ac uchel, a gwnaeth gronfa ddwfr ëang, "fel y môr mewn amgylchedd." Dywedir iddo gwblhau canon yr Hen Destament, drwy ychwanegu llyfrau Ezra, Haggai, Zechariah, Nehemiah, Esther, a Malachi. Y mae yr Iuddewon hefyd yn sicrhau mai Simon oedd "yr *olaf* o'r synagog fawr," yr hon a ddarlunir fel yn gynnwysedig o 120 o bersonau, yn mhlith y rhai yr oedd Ezra, Haggai, Zechariah, Nehemiah, a Malachi. Ymddengys mai rhes olddilynol oeddynt o ddynion ymroddgar a gwladgar, y rhai a hynodasant eu hunain ar ol y caethiwed, drwy eu llafur yn casglu ac adolygu y llyfrau cyssegredig, yn nghyd â sefydlu a diwygio sefydliadau gwladol a chrefyddol eu gwlad. Bu Simon farw yn y flwyddyn c. c. 291.

Ar ol i'r genedl Iuddewig fod dan deyrnged i freninoedd yr Aifft am oddeutu can mlynedd (yn ystod y triugain olaf o ba rai y mwynhäodd dangnefedd diattal, agos, dan gysgod eu hawdurdod), daeth, yn nheyrnasiad Antiochus Fawr, yn ddeiliad i freninoedd Syria (c. c. 198). Rhanasant y wlad i bump o daleithiau, tair o ba rai oedd ar du gorllewinol yr Iorddonen, sef Galilea, Samaria, a Judea (er fod yr holl wlad wedi yr amser yma yn cael ei galw yn fynych yn *Judea*, a dwy ar y tu dwyreiniol, sef Trachonitis a Peræa, ond caniatëid o hyd i'r Iuddewon gael eu llywodraethu drwy eu cyfreithiau eu hunain, dan yr archoffeiriad a chynghor o'r genedl.

Gan fod Judea yn sefyll rhwng Syria a'r Aifft, effeithid yn fawr arni

gan y rhyfeloedd mynych y cymmerai y gwledydd hyny ran ynddynt. Y drygau i ba rai yr oedd drwy hyn yn agored a fwyhëid gan halogrwydd a cham-ymddygiadau ei harchoffeiriaid a'i phrif ddynion, yn nghyd â drygioni cynnyddol y bobl.

112. Gwelodd Duw yn dda gospi yr Iuddewon am y gwrthgiliad yma drwy law Antiochus Epiphanes, brenin Syria, yr hwn a ddaeth, a chyda phob amgylchiad o greulondeb a halogrwydd, a yspeiliodd ddinas a theml Jerusalem, ac a laddodd neu a gaethiwodd nifer mawr o'r trigolion (c. c 170). Am dair blynedd a hanner amddifadwyd hwynt yn hollol o'u rhyddid gwladol a chrefyddol. Cymmerwyd ymaith yr aberth dyddiol; y deml ei hunan a gyflwynwyd gan Antiochus i Jupiter, delw yr hwn a osodwyd i fyny ar allor y poeth-offrwm; gwaherddid cadw cyfreithiau Duw dan y cospedigaethau trymaf; pob copi o'r ysgrifeniadau cyssegredig y gellid cael gafael ynddo a losgwyd; a gorchymynid i'r bobl, dan boen marwolaeth, i aberthu i eilunod. Ni bu yr Iuddewon erioed o'r blaen yn agored i erlidigaeth mor greulawn. Ond er fod y gwrthgilwyr yn lluosog, etto arosodd ychydig yn ffyddlawn; a diammeu i'r dygwyddiadau hyn gael eu gwnëyd yn offerynol i dynu sylw y paganiaid cylchynol at yr egwyddorion mawrion hyny, dros ba rai yr oedd llawer o'r Iuddewon yr amser hwnw yn foddlawn peryglu eu bywydau.

113. O'r diwedd Duw a gyfododd i fyny waredwr i'w bobl yn nheulu pendefigaidd yr Asmonæaid. Mattathias, yr hwn oedd offeiriad enwog am ei dduwioldeb a'i benderfyniad, a thad pump o feibion, a gefnogodd y bobl, drwy ei siampl a'i annogaethau, "i sefyll i fyny dros y gyfraith;" ac wedi casglu o'i gylch nifer mawr o ddynion ffyddlawn, efe a argymmerodd y gwaith o ryddhau y genedl oddiwrth ormes ac erlidigaeth y Syriaid, ac adferu addoliad Duw Israel; ond gan ei fod yn hen iawn pan ymosododd ar y gwaith mawr yma, ni fu byw i weled ei gwblhad. Ar ei farwolaeth, Judas, ei fab henaf, a'i canlynodd yn llywyddiaeth y fyddin (c. c. 163), a chynnorthwyid ef gan ei bedwar brawd, yn enwedig gan Simon, yr henaf o honynt, yr hwn oedd yn ddyn enwog am ei bwyll a'i ddoethineb. Yr arwydd-air ar ei faniar oedd, Ex. 15, 11, "Pwy sydd debyg i ti, O Arglwydd, yn mhlith y duwiau?" Y geiriau Hebraeg ydynt, *Mi Camoka Baelim Jehovah;* ac oddiwrth y llythyrenau cyntaf yn y geiriau yma, M C B I, y deilliodd y gair *Maccabi*, neu *Maccabee*, yr hwn, wedi hyny, a ddaeth yn gyfenw y teulu, a chymhwysid ef hefyd at bawb a ymunent â'u hachos.

Ar ol amryw fuddugoliaethau ar luoedd Antiochus, ennillodd feddiant o Jerusalem a'r deml. Ei ofal cyntaf oedd puro y ddau le oddiwrth holl olion eilun-addoliaeth. Y deml a gyssegrwyd o'r newydd i wasanaeth Duw, a'r aberth dyddiol a adferwyd. Yr ail-gyssegriad yma o'r deml, ac adfywiad yr addoliad, a gofid byth wedi hyny drwy wledd flynyddol am wyth diwrnod. Cymmerodd le ar amser alban arthan (*winter solstice*), a gelwid hi y gyssegr-wyl, Ioan 10, 22.

114. Daeth Judea dan y tywysogion Maccabeaidd yn wladwriaeth rydd, yn cael ei chynnal gan luoedd rheolaidd, amddiffynfeydd cedyrn, yn nghyd â chynghreirian a galluoedd ereill, yn cynnwys hyd y nod Rhufain ei hun. Dechreuodd y wlad fwynhau ei ffrwythlondeb a'i thangnefedd blaenorol, ac ëangwyd ei therfynau yn nghyfeiriad Syria, Phœnicia, Arabia, ac Idumæa. Nid oedd y llwyddiant yma, fodd bynag, ond o fyr barhad. Dadfeiliad yr Aifft a Syria, yn nghyd â chynnydd graddol y gallu Rhufeinig, a arweiniodd yn fuan at ddymchweliad y werin-lywodraeth Iuddew-

ig. Arweiniodd Pompey ei fyddin i Judea, gwarchaeodd ar, a chymmerodd Jerusalem, a gosododd Judea dan deyrnged i'r Rhufeiniaid; er ei bod o hyd yn cael ei llywyddu gan y tywysogion Maccabeaidd. Yr olaf o'r teulu hwnw a orchfygwyd gan Herod, yr hwn oedd Idumead, drwy enedigaeth, ond o'r grefydd Iuddewig; yr oedd yn hoffddyn gan Rufain, a thrwy ei briodas â Mariamne, yr oedd yn dàl cyssylltiad â'r teulu Asmoneaidd. Efe a helaethodd y deyrnas, ond a ddarostyngodd allu yr archoffeiriadaeth, yr hon, yn lle bod yn swydd etifeddol, yn cael ei dàl am fywyd, oedd yn awr yn cael ei rhoddi a'i chynnal tra y gwelai y brenin hwn yn dda. Yr oedd yn ormeswr creulawn ar ei bobl, ac hyd y nod i'w blant ei hun, tri o ba rai a roddodd i farwolaeth; yr oedd yn gaethwas i'w nwydau, ac yn ddiystyr drwy ba foddion y boddlonai ei uchelgais. Ond i gadw yr Iuddewon yn ymostyngol, ac i gyfodi colofn barhaus i'w enw, efe, ar draul ddirfawr, a adgyweiriodd y deml yn Jerusalem, ac a ychwanegodd lawer at ei hardderchogrwydd.

115. Yn yr unfed flwyddyn ar bumtheg ar hugain o deyrnasiad Herod, tra yr oedd Augustus yn Amherawdwr Rhufain, y cafodd Ceidwad y byd ei eni.

Canlynwyd Herod yn llywodraeth rhan o Balestina gan ei fab Archelaus, yr hwn a weithredai gyda chreulondeb mawr; ac yn y ddegfed flwyddyn o'i lywodraeth, drwy i achwyniad gael ei wneuthur yn ei erbyn gan yr Iuddewon, alltudiwyd ef gan Augustus i Vienne, yn Gaul, lle y bu farw. Wedi hyny, anfonwyd Publius Sulpitius Quirinius (yr hwn, yn ol y dull Groegaidd o ysgrifenu yr enw, a elwir gan Luc yn Cyrenius), llywydd Syria, i ddarostwng y gwledydd y bu Archelaus yn teyrnasu drostynt yn dalaeth Rhufeinig, a gosodwyd llywydd ar Judea, dan y teitl prwyadur *(procurator)*, yn ddarostyngol i lywydd Syria. Yn ystod gweinidogaeth ein Ceidwad, llywyddid Judea a Samaria gan brwyadur Rhufeinig, yr hwn a feddiannai awdurdod bywyd ac angeu; tra yr oedd Galilea yn cael ei llywyddu dan awdurdod y Rhufeiniaid gan Herod Antipas, mab Herod Fawr, dan y teitl o detrarch.

Dos. 2. *Braslun o Hanes Moesol a Chrefyddol yr Iuddewon yn ystod yr amser rhwng yr Hen Destament a'r Newydd.*

116. Rhwng terfyniad canon yr Hen Destament ac amser ein Harglwydd, ymddengys yr Iuddewon megys mewn goleu newydd. Eu cyfathrach â'r Iuddewon yn Mabilon, a lleoedd ereill, a'r ceryddon trymion yr aethant drwyddynt, oeddynt wedi lleihau eu tuedd at eilun-addoliaeth, a'u cadarnhau yn eu ffydd eu hunain. Ymofynent â'r Ysgrythyrau hefyd yn fynychach nag o dan y fonarchiaeth foreuach, ac yr oedd synagogau wedi eu sefydlu yn y rhan amlaf o ddinasoedd Palestina.

Yn ystod yr un tymmor, yr oedd ymgyfathrachiad yr Iuddewon â chenedloedd ereill wedi dyfod yn fwy cyffredinol. Cyn foreued ag amser y caethiwed, ffurfiwyd trefedigaeth yn yr Aifft, ac fel hyn yr oedd y gyfraith yn cael ei throseddu (Deut. 12), a'r cyssylltiadau a'u rhwyment wrth y ddinas santaidd yn cael eu gwanhau. Yr oedd eu cyssylltiad â'r Aifft o'r blaen wedi bod yn ffrewyll, ac yn awr yr oedd wedi dyfod yn fagl. Ymsefydlodd trefedigion, naill ai o ddewisiad neu o angenrheidrwydd, yn Asia Leiaf, yn Groeg, yn Affrica, ac yn Italì, fel, pan ymddangosodd ein Harglwydd, nid oedd braidd wlad yn yr holl amherodraeth Rufeinig, lle nad oedd trefedigaeth Iuddewig i'w chael. Yr oedd yn agos a bod yn wirionedd i'r llythyren, fod gan Moses yn *mhob* dinas rai yn ei bregethu, Act. 15, 21.

Fel canlyniad yr ymgyfathrachiad yma, cafodd iaith wreiddiol Palestina, fel y gwelsom, ei darostwng i amrywiol ddylanwadau (Rhan I., adr. 34); llawer o'r Iuddewon a'i hannghofiasant, a daeth yr iaith Roeg mor gyffredin yn nhrefi Judea ag yn y rhai Aramæaidd. Hyn a achlysurodd gyfieithiad o'r Hen Destament i'r iaith Roeg, a gwaith yr Iuddewon yn derbyn i'w ffydd burach hwynt rai o bethau gwrthun athroniaeth baganaidd. Oddiwrth hyn hefyd y daeth y cenedloedd, i raddau helaeth iawn, i fod yn adnabyddus â'r Ysgrythyrau Iuddewig, yn nghyd â bod dysgwyliad cyffredinol drwy yr holl Ddwyrain am ddyfodiad y Messiah.

117. Hefyd, yr oedd dylanwadau ereill, o natur grefyddol uniongyrchol, yn gweithio.

Y rhan amlaf o ddefodau y gyfraith a dderbynient eu pwysigrwydd oddiwrth eu cymmeriad arwyddluniol. Athrawiaethau oeddynt mewn gweithrediad; ac er nad oedd rhai o honynt wedi eu bwriadu ond yn unig er cadw yr Iuddewon ar wahan oddiwrth y cenedloedd cymmydogaethol, etto, amcan y rhan amlaf o honynt oedd, dysgu gwersi duwiol a moesol, neu gyfeirio sylw at swydd a gwaith y Messiah.

Tua therfyn y tymmor yma, fodd bynag, edrychid dros bob peth ysbrydol yn y gyfraith, ac ni thelid sylw ond i'r defodau yn unig. Bu hyn yn achos i amryw sectau gyfodi, ac y mae gwybodaeth o'u credo yn ein cynnorthwyo i ddeall cyfeiriadau ein Harglwydd. Heblaw hyny, y mae y wybodaeth yma yn dra addysgiadol, yn gymmaint a'i bod yn egluro twyll y natur ddynol, yn nghyd â'i thueddiadau yn ein hamser ni. Yn Judea, mewn gwirionedd, canfyddwn y cyfeiriad a gymmerir gan y meddwl dynol y mhob man fel y byddo gwir grefydd yn dadfeilio. Yr oedd yno yn gyntaf y duedd draddodiadol, dan ddylanwad pa un y cafodd elfenau dynol estronol eu cymmysgu â'r rhai Dwyfol. Gosodwyd i fyny ffurfiau a grebachent ac a ddinystrient sylwedd duwioldeb, yn lle y rhai a dyfent o honi; diryment y gyfraith drwy draddodiadau. Yn lle yr hanfod sylweddol, daeth y seremoniau meirw. Hyn oedd *Phariseaeth*, neu Iuddewaeth ddeddfol. Ond eithafion a gadarnhant eu gilydd. Yr ychwanegiadau estronol a gyflwynid gan un sect a wrthodid gan y lleill; a chyda gwrthodiad yr ychwanegiadau y daeth gwrthodiad o lawer oedd yn wirionedd. Oddiwrth hyn y cyfodedd *Saduceaeth*, neu Iuddewaeth resymol, yr hon a ddiweddai yn aml mewn anffyddiaeth. O ran amser, yr oedd yn foreuach nâ Phariseaeth; ond ni flodeuodd erioed nes i'r gyfundraeth hono ffynu. Nid oedd un o'r cyfeiliornadau yn cyfarfod angenion dynion o wresocach teimlad addoliadol. Credai y Pharisead ormod, a'r Saducead rhy fach. Yn ngolwg y drydedd sect yma, methai y ddau a chanfod meddwl yr Ysgrythyr, yr hwn nid yw ar y wyneb, ond odditanodd, ag a raid ei gyrhaedd drwy fyfyrdod dyfn-ddwys, a dehongliadau allegawl (*allegorical*). Oddiwrth hyn y cyfododd yr *Esseniaid*, cynnrychiolwyr y fonachaeth yn mhob oes. Mor hawdd yw gochelyd cyfeiliornadau rhai ereill, ac etto mahwysiadu cyfeiliornadau yr un mor ddinystriol ein hunain!

Y mae yn deilwng o sylw, nad oedd y tair sect Roegaidd—y Stoiciaid, yr Epicureaid, a'r Pythagoreaid—yn gwahaniaethu yn fawr iawn oddiwrth y sectau Iuddewig. Dangoswyd hefyd gan Syr John Malcolm, fod y tair prif sect yn mhlith y Mahometaniaid wedi syrthio i'r un cyfeiliornadau. Y Sunisiaid yw y traddodiadwyr; y Sheasiaid a ymlynant wrth y Coran; a'r Sufisiaid a geisient eu crefydd yn yr hyn a alwai Mahomed yn "syniad Dwyfol tufewnol." (Hanes Persia, pen. 22.)

Ar ol amser ein Harglwydd, adwaenid y sectau yma wrth enwau gwahanol. Y Phariseaid a elwid yn olynol yn Rabbinistiaid (dysgyblion, h. y., i'r Rabbiniaid, neu yr athrawon penaf); Cabalistiaid (hyny yw, traddodiadwyr); a'r Talmudistiaid. Y rhai a ddalient athrawiaeth y Saduceaid gyda golwg ar ragoriaeth testun llythyrenol Pum Llyfr Moses, eithr heb ddàl eu cyfeiliornadau ereill, a elwid Caraitiaid, neu Ysgrythyroliaid. Yr Esseniaid hefyd a adnabyddir mewn hanesyddiaeth fel Therapeutæ (hyny yw, enaid-feddygon), er y meddylia rhai fod yr enw yma yn cael ei roddi ar sect wahanol, ond cyffelyb. (Burton's Bampton Lecture, Nodiad 32; a Hanes yr Eglwys gan Neander, i.)

118. Y mae yn addysgiadol sylwi, tra yr oedd y Phariseaid yn defnyddio traddodiad er darganfod gwirionedd, fod y Saduceaid, i'r un amcan, yn defnyddio arbwylleb rhesymolig (*rationalistic logic*), megys y gwnelai yr ysgolorion (*schoolmen*) mewn amseroedd diweddarach; a bod y sectau yma yn ddyledus am eu dechreuad i dueddiadau y natur ddynol, ac i ddadfeiliad crefydd ysbrydol. Y pwnc mawr rhyngddynt, fodd bynag, oedd ar helaethrwydd ac awdurdod traddodiad. Y Saducead, er ei fod yn foddlawn ei gymharu â chymmaint o Ysgrythyr ag a gredid ganddo, a wrthodai ei awdurdod; y Pharisead a'i derbyniai fel yn Ddwyfol.

119. Corff y traddodiad y cyfeirid ato yn y dadleuon yma a gasglwyd yn yr ail ganrif, neu yn ddiweddarach nâ hyny, gan y Doctoriaid Iuddewig, ac yn enwedig gan R. Judah, y Santaidd, un o ddisgynyddion Gamaliel (Lightfoot), a hoffddyn un o'r Antoniaid.

Gelwir y casgliad yn Mishna, neu yr ail-adroddiad.[a] Doctoriaid diweddarach a ychwanegasant ato amrywiol esboniadau, dan yr enw Gemara (y cwblhad); a'r ddau waith yn nghyd—y Mishna a'r Gemara—a elwir y Talmud; oddiwrth air Hebreig yn dynodi *dysgu*. Y Mishna, yn nghyd â'r esboniadau a gasglwyd gan Rabbiniaid Jerusalem yn y bedwerydd neu y bummed ganrif, a elwir Talmud *Jerusalem*. Casglwyd esboniadau y Talmud *Babilonaidd* yn y chweched ganrif, gan Rabbiniaid a breswylient yn Mabilon. Yr un yw y Mishna, neu y testun, yn mhob un o honynt. Cyfododd y traddodiadau a'u cyfansoddent oddeutu 300 mlynedd cyn Crist, a chyda yr eithriad o au-ychwanegiadau (*interpolations*), nid oes amheuaeth nad y cyfryw oeddynt ag a gyfarfyddodd ein Harglwydd yn nyddiau ei weinidogaeth bersonol.

Ceir yn y Talmud lawer o esboniadau *beirniadol a gramadegol* ar destunau yr Ysgrythyr. Yr esboniadau yma, yn nghyd âg ereill ag oedd traddodiad wedi eu trosglwyddo i lawr, a gasglwyd at eu gilydd yn un llyfr, dan y teitl Masora (neu *traddodiad*). Nid ydys yn cyduno pa bryd y dechreuwyd yr esboniadau Masoretaidd yma. Rhai ysgrifenwyr Iuddewig a ddadleuant fod llawer o honynt cyn hened ag amser Moses. Meddylia Kimchi, ac ereill, iddynt ddechreu gyda'r adolygiad (*revision*) o Lawysgrifau yr Ysgrythyr, a effeithiwyd gan Ezra; ac ereill etto (yn mhlith pa rai y mae Eben Ezra, 1150) a farnant iddynt gael eu dechreuad yn ysgol Tiberias, rhwng canrifoedd y drydedd a'r chweched ar ol Crist. Meddylia Eichhorn ei fod yn brofadwy nad ydynt yn gynnyrch unrhyw oes unigol, ond iddynt gael eu hysgrifenu ar wahanol adegau pell oddiwrth eu gilydd, a rhai o honynt mewn amseroedd diweddar mewn cymharianeth. Cyhoeddwyd y cyfan yn Meibl Rabbinaidd Bomberg (Venice, 1518—36). Y maent wedi eu hargraffu wrth ochr y testun, ac ar ddiwedd pob llyfr. Yr

[a] Deuterôsis.

ydys amrywiol weithiau wedi argraffu darnau o'r Masora hwn (dan y teitl Masora lleiaf), a cheir rhanau o honynt yn agos yn yr holl argraffiadau o'r Ysgrythyrau Hebreig.

Mae yn debyg mai i'r Masoritiaid yr ydym yn ddyledus am y nodau (*points*), yr acenion (*accents*), a'r rhan amlaf o'r diwygiadau yn y testun argraffedig, yn nghyd â swm mawr o hyfforddiad cywrain, ond dibwys, ar eiriau a llythyrenau yr Ysgrythyr. Rhai o'u diwygiadau ydynt yn *feirniadol:* awgrymant ddosparthiad priodol geiriau, Sal. 55, 16; 123, 4; trawsddodiad cydseiniaid, eu cyfnewidiad a'u gadawiad allan, 1 Bren. 7, 45; Ezec. 25, 7; Amos 8, 8; *gramadegol* neu *orgraffyddol*, megys mewn amrywiol ranau o Bum Llyfr Moses (gwel y Pum Llyfr), ac Ex. 27, 5; a *mwytheiriol* (*euphemistic*), neu *eglurhaol*, 1 Sam. 5, 6; 6, 4; Deut. 28, 17; 2 Bren. 18, 27; Esa. 26, 12.

Noda y Masoritiaid *saith* rhan yn mha rai, yn yr Hebraeg, y darllenir geiriau (Keri) nad ydynt wedi eu hysgrifenu (Kethib), 2 Sam. 8, 3; 16, 23; *pump*, lle y mae geiriau wedi eu hysgrifenu, nad ydynt yn cael eu darllen, 2 Bren. 5, 18, &c.

Argymmerent hefyd i gyfrif y geiriau a'r llythyrenau yn mhob llyfr, yn gystal a chystrawiadau a ffurfiau anarferol, ac i nodi llawer o ffeithiau nad ydynt o un pwys, oddieithr fod y gofal a arferwyd fel hyn i'w casglu yn tueddu i wylied purdeb y testun cyssegredig. Nodant, er enghraifft, fod *llythyren ganol* y gyfraith yn Lef. 11, 42; y *geiriau* canol yn Lef. 10, 13; ac mai yr *adnod* ganol yw Lef. 13, 13. Y llythyren ganol o'r Salmau sydd yn 80, 14, a'r adnod ganol yw 78, 36. Mynegant hefyd pa mor aml y dygwydda yr un gair yn mhob llyfr, ac yn yr holl Feibl.[a]

Y llythyrenau canol oeddynt wedi eu hysgrifenu, ac y maent o hyd yn cael eu hargraffu, mewn sefyllfa anarferol, neu yn rhai o faintioli anarferol, a dywed y Cabalistiaid fod ystyr ysbrydol dwfn yn perthyn iddynt.

120. Y Cabala (neu *derbyniedig*) oedd y dehongliad cyfriniol o'r Ysgrythyr y dywedir fod Adda, Abraham, a Moses, wedi ei dderbyn oddiwrth Dduw, a dywedant iddynt hwy ei drosglwyddo lawr drwy Josua i'r tri ugain a deg henuriad a'u canlynwyr, y doctoriaid rabbinaidd. Cymhwysir y gair hefyd at yr oll o'r gyfundraeth athronyddol a ffynai yn mhlith y Rabbiniaid, y rhai a dybient fod pob llythyren o'r Ysgrythyr yn cynnwys rhyw ddirgelwch (gwel enghreifftiau, Rhan i., adr. 428.)

121. Y *Phariseaid* a ffurflent y sect luosocaf yn mhlith yr Iuddewon.[b] Ystyr eu henw yw esbonwyr, neu ysgaredig, naill ai am eu bod yn esbonio y gyfraith drwy draddodiad, neu am eu bod yn ystyried eu hunain yn fwy santaidd nag ereill,[c] Ioan 7, 49. Cynnrychiolent ysbryd deddfol Iuddewaeth, a chan eu bod yn arddangos y cymmeriad cenedlaethol yn fwyaf cywir, hwynthwy oedd y sect enwocaf yn mhlith y bobl. Yr oeddynt yn mysg gelynion chwerwaf ein Harlwydd.

Y cyfryw oedd eu cymmeriad cyffredinol; mewn rhai, fodd bynag, yr oedd crefydd yn arddangosiad o sêl onest, ond camsyniol, Rhuf. 10, 3.

Y *Saduceaid* a gymmerant eu henw naill ai oddiwrth Tsedek, cyfiawnder, neu oddiwrth Sadok, dysgybl i Antigonus Sochæus, y dysgawdwr Mishnaidd cyntaf, a llywydd y Senedd fawr (c. c. 250). Gwadent awdurdod traddodiad, ac edrychent yn ddrwgdybus ar bob dadguddiad a wnaed yn ddiweddarach nâ Moses. Gwrthwynebent bob dadleniad cynnyddol o wirionedd Dwyfol, hyd y nod o'r cyfryw wirionedd ag a gynnwysir yn eglur yn Mhum Llyfr Moses; ac yr oeddynt felly yn fynych yn camddeall y llyfrau hyny y proffesent eu derbyn. Ar y tir yma, gwadent athrawiaethau yr adgyfodiad, ac anfarwoldeb yr enaid. Nis gellir cyfrif am eu gwadiad o fodoliaeth angel ac ysbryd ar un

[a] Arweiniad De Wette, i. 256; Proleg. Walton, viii. 8; Tiberias Buxtorf.
[b] Cyfrifa Josephus hwynt yn 6,000, yn benaf o'r urdd offeiriadol. Sylfaenwyd c. c. 135.
[c] Gwel Hor. Heb. Lightfoot, ar Math. 15, 2, adr. 4.

egwyddor, oddieithr pan fyddo dynion wedi myned unwaith yn amheus, fod eu hannghrediniaeth yn dàl perthynas agos â hygoeledd. Gorchymynion y gyfraith oedd yr unig ranau a ystyrient fel yn eglur; edrychent ar bob peth arall fel yn ansicr. Heb wadu Rhagluniaeth mewn modd ffurfiol, gwnelent Dduw, cyn belled ag yr oedd hyny yn bosibl, yn syllydd segur ar amgylchiadau y bydyssawd, ac arweinid hwynt gan y golygiad yma at gyfundraeth o ddeistiaeth, yr hon a osodai awdurdod dadguddiad o'r neilldu braidd yn hollol. Derbynid eu hathrawiaethau yn ffafriol gan ddynion ieuainc Judea, a chynnyrchent (fel y cadarnheir gan Josephus) dueddiadau oerion a gwrthwynebus. Y Saduceaid gan mwyaf oeddynt bersonau cyfoethog, y rhai a arweinient fywyd o esmwythder a mwynhad daearol, heb ddyrchafu eu meddyliau i geisio unrhyw beth uwch. Oddiwrth eu sefyllfa, ennillent rhai o'r swyddogaethau pwysicaf yn y wlad. Saduceaid oedd Caiaphas, yr hwn a gondemniodd ein Harglwydd;[a] a dywed Josephus fod Herod, yr hwn a deimlai mor ddwys wrth weinidogaeth Ioan, yn perthyn i'r sect hon.[b] Y mae efe fel hyn yn ein cynnysgaethu âg eglurhad o allu cydwybod ar gyfundraeth o anffyddiaeth, yr hon yr oedd ei galon yn hytrach nâ'i ben wedi ei mabwysiadu.

122. Y *Galileaid* oeddynt yn dàl perthynas agos â'r Phariseaid yn eu golygiadau crefyddol, er eu bod yn gwahaniaethu oddiwrthynt yn eu credo wladyddol. Cawsant eu dechreuad oddiwrth Judas o Galilea (Gamala), yr hwn, "yn nyddiau y dreth," a ddysgai fod pob uwch-lywodraeth estronol yn anysgrythyrol, ac mai Duw oedd unig frenin yr Iuddewon. Gan eu bod yn ei ystyried yn annghyfreithlawn gweddio dros dywysogion estronol, offryment eu haberthau ar wahan. Am fod ein Harglwydd a'i ddysgyblion o Galilea, ymdrechai y Phariseaid ei wneyd ef yn un o'r sect hon.

Saduceaid yn benaf oedd yr *Herodianiaid* o ran eu daliadau crefyddol (cymharer Marc 8, 15, â Math. 16, 6); ond sect wladyddol yn hytrach nâ chrefyddol oeddynt. Cymmerasant eu henw a'u golygiadau oddiwrth deulu Herod, yr hwn a dderbyniai ei awdurod oddiwrth y llywodraeth Rufeinig. Eu hegwyddor hwynt oedd cefnogi undeb â Rhufain drwy weniaith ac ymostyngiad annherfynol, ond yn benaf drwy gyflwyno i Judea arferion y gorchfygwyr. Yr undeb hwn âg eilun-addoliaeth er mwyn lles bydol, mae yn debyg, oedd y lefain rhag pa un y rhoddai ein Harglwydd ei ddysgyblion ar eu gocheliad.

Mae yn debyg fod y rhai mwyaf tanbaid o'r blaid yma yn cael eu galw yn Zelotiaid. Ceir eu hanes ychydig cyn dinystr Jerusalem, a chyfeirir atynt fe allai yn Act. 21, 38.

Nodir gwell dosparth o Zelotiaid yn Act. 21, 20; 23, 3.

123. Philo a gyfrifa yr Esseniaid yn 4,000, ac mae yn debyg eu bod yn ddyledus am eu dechreuad i'r Aifft. Rhoddent i fyny bleserau a chyfleusderau bywyd, ac yr oeddynt yn eu credo yn dyngedfenwyr cyhoeddus, Math. 19, 12; Col. 2, 16—19; a thybir fod rhai rhanau o Ioan yn cyfeirio at eu hathrawiaethau; ond gan eu bod wedi ymneillduo oddiwrth gorff y bobl Iuddewig, nid ydynt yn cael eu nodi mewn modd ffurfiol yn hanesion gweinidogaeth ein Harglwydd.

124. Yr *ysgrifenyddion* oeddynt alwedigaeth (*profession*) ddysgedig, ac nid sect grefyddol. Eu gwaith oedd gwneuthur copiau o'r gyfraith a'i hegluro. Oddiwrth hyn gelwid hwynt yn gyfreithwyr,[c] a doctoriaid o'r gyfraith.[d] Fel crefyddolion yr oeddynt yn gyffredin yn ffafrio y Phariseaid, ac am hyny enwir hwynt yn fynych mewn cyssylltiad â hwynt (Math. 23), er fod gan yr holl sectau eu cyfeillion yn yr alwedigaeth yma.[e]

Mae yn debyg fod ysgrifenyddion y bobl yn aelodau o'r Sanhedrim, ac nid o'r urdd offeiriadol. Yr oedd y corff yma, y Sanhedrim, yn cynnwys triugain a deuddeg o aelodau, o ba rai yr oedd pedwar ar hugain yn offeiriaid, a phedwar ar hugain yn henuriaid (Dad. 4, 4); a thebyg mai ysgrifenyddion y bobl oedd y gweddill (gwel 1 Cron. 27, 32).

125. Yr oedd y Proselytiaid yn amser ein Harglwydd yn gorff lluosog iawn. Rhoddid yr enw i'r cenedloedd hyny a gymmerent arnynt eu hun-

[a] Act. 4, 6; 5, 17. [b] Math. 14, 2.
[c] Math. 22, 35, wedi ei chymharu â Marc 12, 28. [d] Luc 5, 17, 21. [e] Math. 2, 4.

ain rwymedigaethau deddf Moses. Ymunent i offrymu aberthau i Dduw Israel yn nghyntedd allanol y deml. Cymmerai y Phariseaid lawer iawn o boen i wneyd y proselytiaid yma, a chynnorthwyid hwy yn eu hymdrechion gan ddiflaniad awdurdod yr hen grefyddau, a'r parch gyda pha un yr oedd y paganiaid yn dàl Duw yr Iuddewon. Nid oedd gan y dysgawdwyr hyn ddrychfeddwl gwirioneddol am eu crefydd, ac am hyny, nis gallasent gyfranu yr un; nid oedd eu dychweledigion, gan hyny, yn gwneyd dim ond cyfnewid eu hofergoeledd, dystewi cyhuddiadau y gydwybod, a dyfod yn ddwywaith mwy nag o'r blaen yn "feibion uffern." Gelwid y rhai hyn yn Broselytiaid Cyfiawnder, ac yr oeddynt yn fynych yn mhlith gelynion chwerwaf y ffydd Gristionogol.

126. Yr oedd hefyd gorff mawr o genedloedd a elwid (mewn amseroedd diweddarach) yn Broselytiaid y Porth,[a] y rhai a ymrwyment yn unig i ymwrthod âg eilun-addoliaeth, i addoli y gwir Dduw, ac i ymattal rhag pob ymarferion paganaidd. Yr oeddynt yn gyffredinol wedi clywed am ddyfodiad y Messiah, ac yr oeddynt yn rhydd oddiwrth y rhan amlaf o ragfarnau yr Iuddewon. Ac am hyny, llwyddodd y grefydd newydd yn fawr iawn yn eu plith hwynt.

Gelwir hwynt yn y Testament Newydd yn "wŷr o Israel yn ofni Duw," ac yn "broselytiaid crefyddol," Act. 13, 16, 43, ac ymddengys eu bod yn lluosog yn Damascus a Thessalonica (13, 50; 17, 4; gwel hefyd 10, 2).

127. Honai y Samariaid gyfran yn nghyfammod Moses; ond y mae ein Harglwydd yn eu gwahaniaethu hwynt oddiwrth ddefaid cyfrgolledig tŷ Israel, ac oddiwrth y cenedloedd (Math 10, 5, 6). Y rhai hyny o honynt oedd yn byw yn amser ein Harglwydd oeddynt wedi tarddu o'r trefedigwyr, â pha rai y poblogwyd Samaria gan frenin Assyria, wedi dygiad y deg llwyth ymaith (2 Bren. 17). Anfonwyd offeiriad caethgludedig i'w dysgu, ac er eu bod ar y cyntaf yn ystyried Jehofah fel math o Dduw noddol *(tutelary)*, ac er fod llawer o'u cyfundraeth grefyddol yn llygredig; etto, ymgeisiasant ar ol hyny am gael eu huno â'r Iuddewon. Gyda'r amcan yma, Sanballat, y Cusiad (nid y Sanballat yn Neh. 13, 28), a geisiodd ac a gafodd gymhorth offeiriad Iuddewig, Manasses, yr hwn a orfodwyd gan yr Iuddewon i alltudiaeth. Cwmpeini lluosog o ganlynwyr a ymsefydlasant gydag ef yn Samaria. Wedi hyny, adeiladasant ar fynydd Gerizim deml annibynol, yr hon a safodd hyd amser John Hyrcanus, c. c. 109, a sefydlasant yr hyn a ystyrid ganddynt hwy yn gadwriaeth mwy trefnus o gyfraith Moses. Yr oeddynt yn seilio eu ffydd a'u hymarferiad ar Bum Llyfr Moses yn unig, ac yn gwrthod yr holl ysgrifeniadau ysbrydoledig ereill.

Yr ymraniad yma a oruch-lywodraethwyd er lles cyffredinol. Y mae y copi Samaritanaidd o'r gyfraith wedi ei gadw yn efalus, ac yr oedd yr elyniaeth rhwng yr Iuddewon a hwythau yn gwneuthur pob un o'r pleidiau yn fwy eiddigeddus dros burdeb eu gwahanol destunau. Y Samariaid hefyd oeddynt yn rhydd oddiwrth y culni a'r balchder a ffynent i raddau gormodol yn mhlith eu cymmydogion. Am eu bod eu hunain o ddisgyniad basdarddaidd (*spurious*), ac yn cael eu dirmygu gan bawb o'u cylch, mae yn debyg fod ganddynt ystyriaeth gyfiawnach am ëangder yr efengyl. Edrychent ar yr holl genedloedd fel yn meddiannu hawl i gyfranogi o'i

[a] Yr oedd yr enw hwn yn anhysbys i Gristionogion cyn y 14eg ganrif (Lardner). Rhoddir ef, fodd bynag, yn Maimonides (A. D. 1200), ac y mae yn ddiau fod y dosparth yma yn bodoli yn nyddiau ein Harglwydd.

bendithion. Derbyniasant, gan hyny, oddiwrth ein Harglwydd un o'r awgrymiadau penodol cyntaf, mai efe oedd y Messiah (Ioan 4); ac heblaw hyny, cawsant eu mynych nodi ganddo yn ystod ei weinidogaeth.

Gan nad oeddynt yn derbyn dim ond Pum Llyfr Moses, y mae yn hynod ddyddorawl sylwi ar y rhanau hyny ar ba rai y seilient eu crediniaeth yn nyfodiad Ceidwad. Cyfeiriant at Deut. 18, 15—19; a phenderfynant mai efe yw Iachawdwr y byd, oddiwrth Gen. 12, 3; 22, 18; 26, 4; 28, 14, &c.

Wedi amser y Gwaredwr, cyfododd tair sect i fyny yn eu plith; dwy o honynt, y rhai a seiliwyd gan Simon Magus, a'i ddysgybl Menander, a flodeuasant am flynyddoedd, ac a gymmerid yn fynych gan ysgrifenwyr paganaidd yn lle Cristionogion.

128. Gellir sylwi yn mhellach, mai nid gorddangosion (*phenomena*) unigol yw y sectau yma, yn cael eu cyfyngu i'r gwledydd ac i'r amseroedd yn mha rai yr ymddangosasant. Gosodant allan y natur ddynol yn mhob amseroedd; ac nid ydyw y gorchymynion a'r gwirioneddau cyfaddasedig iddynt hwy yn llai cyfaddas i ninau.

PENNOD V.

YR EFENGYLAU.

Rhagarweiniad.

129. Deuwn yn awr at y Testament Newydd, y dadguddiad cyflawnaf ac olaf o eiddo Duw. Nid oedd yr hen oruchwyliaeth yn perffeithio dim. Ar wahan hyd y nod oddiwrth y cam-arferion drwy ba rai yr oedd wedi ei llygru, yr oedd ynddi ei hunan yn anmherffaith, Gal. 3, 21; Heb. 7, 18; 9, 9, 11. Er hyny, beth bynag oedd yn eisieu yn yr hen sefydliad, sydd yn cael ei gyflawnu yn ymgnawdoliad, bywyd, a marwolaeth ein Harglwydd; ffeithiau sydd yn gwneyd i fyny bwnc yr efengylau, fel y mae esboniad arnynt yn gwneyd i fyny bwnc yr epistolau. Efe ei hunan, mewn gwirionedd, yw yr efengyl. Ei ddyfodiad a'i waith, ar wahan hyd y nod oddiwrth yr hyn oll a ddysgodd yn uniongyrchol, a gyfansoddant y newyddion da o lawenydd mawr i'r holl bobl. A oedd dynion yn sefyll mewn angen am aberth sylweddol dros bechod, yn yr hwn y buasai defodau y gyfraith yn derbyn eu heglurhad a'u diwedd? Offrymwyd yr aberth hwnw ganddo ef. A oedd angen rheol bywyd perffaith ar ddynion? Rhoddwyd y rheol hono ganddo ef pan drigodd yn ein plith ni; ac y mae efe yn dwyn anfarwoldeb i oleuni, nid yn gymmaint drwy ei ddysgu, neu ei addaw, a thrwy y ffaith weithredol ei fod ef ei hunan wedi adgyfodi oddiwrth y meirw yn ein natur ac ar ein rhan ni. Yn wir, nid oes un pwnc mewn crefydd ag y mae yn hanfodol i ni ei wybod, nad ydyw bywyd Crist yn ei egluro. Ynddo ef gwelwn Dduw ei hunan wedi ei ddadguddio—ei drugaredd, ei gyfiawnder, ei ffyddlondeb, a'i allu; ac ynddo ef gwelwn ein natur ein hunain gyda'r un eglurdeb; ei phechadurusrwydd yn ei ddyoddefiadau ef; ei dyledswyddau yn ei siampl ef; ei urddas, os ydym mewn undeb âg ef, yn ei esgyniad a'i ogoniant.

Y mae yr amcan deublyg yma o eiddo ein Harglwydd—cyflawnu yr hen sefydliad, a bod ei hunan yn sylfaen un newydd—yn egluro neillduolion yn yr Efengylau, a fyddent heb hyny yn anesboniadwy.

Er enghraifft, eglura hyn sylwedd, ac hyd y nod ffurf ei ddysgeidiaeth. Efe a gyflawnodd gysgodau a rhagfynegiadau, y rhai, mewn hen amseroedd, a wasanaethent fel trysorfa gwirionedd ysbrydol. Ei wersi a roddir yn fynych mewn dammegion, a brofent galonau yr anonest a'r anystyriol, ac a adgofient bawb am wir gymmeriad eu goruchwyliaeth eu hunain. Ar yr un tir, y mae ei weithredoedd ef yn fynych yn arwyddluniol. Golchodd draed ei ddysgyblion; cymmerodd blant bychain, ac a'u gosododd yn eu canol hwynt; ac yn ei holl wyrthiau, edrychai yn ofalus ar yr amcan deublyg yma—i awgrymu y rheol gywir i ddehongli yr hen gyfraith, ac i ddysgu dirgelion ei deyrnas ei hun.

130. Hefyd, i'r achos yma y gellir priodoli mai yn *raddol* yr oedd dadguddiadau ein Harglwydd yn cael eu dadlenu, ac nad oeddynt un amser yn cael eu rhoddi yn gyflawn nes oedd efe wedi adgyfodi. Yr oedd achosion o hyn heblaw yr un yma. Yr oedd rhagfarnau ei ddysgyblion yn nerthol; ac ar gyfrif hyny, yr oedd dadguddiad *graddol* o'r gwirionedd yn ofynol; oblegid nid oeddynt, ar y cyntaf, yn alluog i'w ddwyn. Heblaw hyny, ei reol ef oedd gwobrwyo *ffydd* mewn ychydig drwy gyfranu mwy, fel yr oedd efe ei hun yn eu dysgu. Ond ymddengys mai y prif reswm oedd, fod athrawiaethau yr efengyl yn cyfodi allan o'r ffeithiau, ac o herwydd hyny, nis gallasent gael eu dadguddio cyn bod y ffeithiau eu hunain wedi eu cyflawnu. Hyn a achosodd neillduolion cyffelyb i'r rhai canlynol. Efe yn gyntaf a rydd awgrym o ryw athrawiaeth, neu ddygwyddiad, yna ailadrodda y wers yn fwy penodol, ac y mae wedi hyny naill ai yn ei dadguddio yn eglur, neu yn cyfeirio ei ddysgyblion at ddysgeidiaeth yr Ysbryd oedd i ddyfod. Yn mhob man, y mae yn gochelyd dadleniad cyflawn o'i gymmeriad; ac hyd y nod yn gwahardd i ereill ei fynegu. Cyfynga ei weinidogaeth i gylch bychan, ac i bobl ddirmygedig. Anfynych, os byth, y cyhoedda athrawiaethau, ond cyflawna y gweithredoedd sydd yn sylfaen iddynt. Dyoddefa, ac oddiwrth hyn canlyna athrawiaeth yr Iawn. Dadleua, a'r canlyniad yw, athrawiaeth y dylanwad ysbrydol. Cyfyd o'r bedd, a'r canlyniad yw, ein hadgyfodiad a'n gogoniant ninau. Y gwir yw, fel y nodwyd gan Macknight, daeth ein Harglwydd o'r nef, nid i *ddysgu* yr efengyl yn gymmaint ag i fod yn *wrthddrych* iddi, gan adael i'r ysbryd fod yn brif ddehonglydd o honi. Yr ydym, gan hyny, yn myfyrio y gyfraith yn yr Efengylau; yr Efengylau yn yr Epistolau; a'r oll *yn Nghrist*.

"*Yr oll yn Nghrist*," meddwn etto. Oblegid Ceidwad personol yw gogoniant yr efengyl, a myfyrdod ar Geidwad personol yw offeryn mawr ein santeiddrwydd ni. Nid myfyrdod ar wirionedd ac ymarferiad o foesoldeb yn unig yw crefydd, ond cymmundeb â Duw ydyw drwy ei Fab. Nid arderchogrwydd moesol yn unig yr ydym i'w garu, ond Crist; nid ydyw ein crediniaeth i fod yn gymmaint ynddi *hi* ag ynddo *ef*. Hyn yw yr achos o neillduolrwydd pob dysgeidiaeth apostolaidd. Yn lle cymmeradwyo a gorchymyn rhinwedd, dywedant wrthym am "ganlyn ei ol ef," a gwneuthur yr hyn sydd "yn rhyngu bodd" yn ei olwg. Darluniant angeu fel undeb âg ef, a rhoddir "dilyn yr Oen pa le bynag yr elo" fel swm dyledswydd Gristionogol, a bendigedigrwydd Cristionogol. Os rhaid myfyrio yr efengylau mewn trefn i ddeall hyd y nod moesoldeb y Testament Newydd, y mae hyn yn llawer mwy angenrheidiol er deall ei athrawiaethau.

131. Pregethau a dammegion ysgrifenedig ein Harglwydd, ydynt, i ni,

gyda'r Beibl yn ein dwylaw, yn ddigon eglur. Gellir casglu y rheolau a ddysgant eu hystyr a'u cymhwysiad oddiwrth Rhan I., Dos. 7, &c. Efallai fod cynnwysiad ei wyrthiau yn llai amlwg. Eglur yw fod iddynt ystyr allanol a mewnol.

Yn allanol, y maent yn fynegiadau o allu (*dunameis*). Cynnyrchant syndod, ac felly, fel "rhyfeddodau" (*terata*), cynhyrfant ymchwiliad; rhoddant dystiolaeth o genadwri ddwyfol, ac y maent, gan hyny, yn arwyddion (*semeia*). Yn mhob un o'r cymmeriadau yma, y maent yn bwysig. Yr oedd cyssondeb gweithrediadau natur wedi cael ei droi yn ymresymiad yn erbyn Rhagluniaeth weithredol. Mewn gwyrthiau, y mae parhad a helaethrwydd y llywodraeth ragluniaethol yn cael eu hamddiffyn a'u profi. Dangosant mai un peth yw deddf naturiol, ac mai peth arall yw goruchwylydd bywiol. Ac nid ydynt yn llai cynnwysfawr fel profion. *Yn fewnol*, y maent hyd y nod yn fwy pwysig yn y gwersi moesol a ddysgant. Gyda'u gilydd, fe allai y gellir eu galw yn *brynedigol* (*redemptive*), fel yr oedd y rhan amlaf o wyrthiau yr hen oruchwyliaeth yn *farnol;* y rhai boreuaf yn egluro cyflwr o gyfraith, a'r rhai diweddaraf gyflwr o ras. Heblaw hyny, y mae i bob gwyrth ei nodwedd hanfodol ei hunan, a dysga rhyw wirionedd neu ddyledswydd, ac y mae yn aml yn rhagarwyddo dyfodiant gogoneddus. Mewn gwirionedd, y mae gwyrthiau ein Harglwydd mor ddammegol a'i ddammegion, a dylid eu myfyrio i'r un amcanion. Ei waith ei hun, ei deyrnas, a'n dyledswydd ninau, sydd yn cael eu hegluro yn y cyfan.

132. Os yw y gwirionedd o ymyriad gwyrthiol yn creu anhawsder yn meddwl yr ymofynydd, byddai yn dda ei adgofio nad ydyw gwyrth, er ei bod uwchlaw natur, yn groes i natur; a gellir dywedyd hyd y nod fod y cyssondeb manylaf rhyngddynt. Yr hyn a elwir yn ddeddfau natur, nid ydynt yn ddim mwy nag unffurfiaethau o fodoliaeth neu o drefnganlyniad (*sequence*), ac y maent, mewn gwirionedd, mewn rhyw fan neillduol, yn cynnwys gallu *dwyfol*. Ni chyfrifant am ddim; ac wedi i ni gyrhaedd y ddeddf uchaf dywedwn, "Yma ymddengys fod Duw ei hunan yn cyfryngu: nis gellir olrhain ail achosion yn mhellach." Damcaniaeth yn unig, gan hyny, yw deddf naturiol (fel eiddo symudiad, er enghraifft), ac nid ydyw yn *allu bywiol*. Nid yw ond y rheol yn ol pa un y mae rhyw oruchwylydd yn gweithio, ac y mae y goruchwylydd hwnw yn gweithio yn wyrthiol—hyny yw, yn oruwch-naturiol—er gyda chyssondeb. Nid ydyw gwyrthiau yr efengyl, gan hyny, yn rhagdybied rhagor o ymyriad nag sydd eisoes i'w gael mewn unrhyw gyfran o wyddoniaeth anianyddol.

133. Hefyd, y mae cyfeiriadau yr Efengylau at ymyriad goruwch-naturiol bodau drygionus wedi creu anhawsdra, ond gellir ei eglurhau i foddlonrwydd. Rhai a ddywedant fod y cyfryw ymyriad yn perthyn yn neillduol i amser ein Harglwydd, a'i fod yn awr wedi cael ei attal. Ac ychwanegir ei fod yn naturiol i ymddangosiad Duw yn y cnawd gynnyrchu gweithgarwch annghyffredin yn y galluoedd drygionus; eu hamcan *hwynt* oedd, amddiffyn eu hachos eu hunain; ond amcan Duw yn caniatau hyny, oedd ei ogoniant ei hun. Y mae ereill wedi tybied fod yr Ysgrythyr, pan yn llefaru am glefyd fel canlyniad goruchwyliaeth Satanaidd, yn codi fyny y llèn, ac yn dadguddio dirgelwch sydd o hyd yn wirionedd. Awgrymir mai diafliaid yw achosion cyntaf dyoddefaint; er y caniatëir hefyd i ail-achosion weithio; ac ychwanegir eu bod yn ein hamser ni yn gweithredu gyda gallu mor sylweddol, a chanlyniadau a ymddangosant mor naturiol, ag yn nyddiau ein Harglwydd. Y mae pob un o'r dehongliadau yma yn

gysson â ffeithiau anianyddol. Yr hyn a elwir gan ddynion yn achosion o glefyd ydynt, naill ai ail achosion, neu arwyddion. Ni welir y goruchwylydd sydd yn eu dechreu. Gan hyny, wrth eu priodoli i achos estronol, y mae yr Ysgrythyr yn gysson âg athroniaeth; ac wrth eu priodoli i ysbryd, nid ydyw yn annghysson hyd y nod âg awgrymiad rheswm naturiol.

134. Un nodiad yn mhellach ar natur ein Harglwydd. Yr Efengylau a roddant fywyd Un, yr hwn oedd Dduw a Dyn; a rhaid i ni beidio synu os ceir hwynt yn llefaru am dano yn awr dan un o'r cymmeriadau hyn, a phryd arall dan y cymmeriad arall.

Dos. 1. *Yr Efengylau yn eu perthynas â'u gilydd.*

135. Ystyr y gair efengyl yw newyddion da, a chwbl gyduna â'r gair Groeg* drwy ba un yr adnabyddir y gyfran yma o'r Ysgrythyr santaidd.

Ysgrifenwyd yr Efengylau ar wahanol amserau, o dan arweiniad yr Ysbryd Glân, gan y personau sydd â'u henwau wrthynt. Nid ydynt yn rhoddi hanes cyflawn o fywyd y Ceidwad, ond y cyfryw ffeithiau a phregethau ag sydd yn egluro natur, ac, i wahanol ddarllenwyr, yn profi dwyfol ddechreuad y gyfundraeth Gristionogol. Nid ydyw y pedwar llyfr, mewn gwirionedd, yn gwneuthur buchdraeth, ond cofiant, a dim ond un. Ffurfiant un Efengyl—"Efengyl bedair-ochrog," fel y gelwid hi gan Origen—a thrwy ei hunoliaeth a'i hamrywiaeth rhyfeddol, y mae yn addas i dynu sylw ac addysgu pob dosparth o gymmeriad yn mhob oes.

136. Yr Efengyl *gyntaf* (gan Mathew) a fwriadwyd i'r Iuddewon. Nid ydyw efe, gan hyny, yn rhoddi unrhyw eglurhad ar arferion nac ar leoedd Iuddewig. Olrheinia achyddiaeth ein Harglwydd drwy ei dad tybiedig i Abraham, a dengys pa fodd y mae y Testament Newydd yn gyflawniad o'r Hen Destament. Yr *ail* Efengyl (gan Marc), a ysgrifenwyd er addysg i'r dychweledigion Rhufeinig. O herwydd hyny, cyssylltir egluriadau âg arferion a lleoedd Iuddewig. Dewisir hanes (*narrative*) o flaen treithiad (*discourse*), ac erys yr ysgrifenydd ar weithredoedd yn hytrach nag ar ddysgeidiaeth ein Harglwydd. Ei Efengyl sydd yn drwyadl ymarferol, ac er nad ydyw wedi ychwanegu ond pedair ar hugain o adnodau nad ydynt i'w cael yn Efengylau Mathew a Luc, etto y mae y cyfan yn hynod gyfaddas i gynheddfau ac arferion grymus ac ymarferol y bobl Rhufeinig. Y *drydedd* Efengyl a ysgrifenwyd gan Luc, i'w defnyddio gan y Cenedloedd yn gyffredinol. Yma etto, ymddengys Crist mewn agwedd newydd; nid fel gweinidog yr enwaediad—ei gymmeriad yn Mathew—nac etto fel y *Llew* o lwyth Juda, "Arglwydd pob awdurdod a gallu"—ei gymmeriad yn Marc—ond fel Ceidwad y *byd*. Olrheinir ei achyddiaeth drwy ei fam i Adda, pen yr holl deulu dynol. Tra y llefara Mathew am y deuddeg apostol a anfonwyd at Israel, y mae Luc yn sôn am y deg dysgybl a thriugain a anfonwyd megys at genedloedd y ddaear. Ceir amryw o ddammegion yn yr Efengyl yma yn unig, ac yn eu plith, y Samariad daionus, a'r mab afradlon—un yn ddarostyngol i'r Iuddew balch, a'r llall yn gysurol i'r Cenedlddyn edifeiriol. Gwneir arferion Iuddewig a mynegiadau amseryddol yn ddeallus i estron, tra y mae cyflawnder ei gofnodiad o bregethau ein Harglwydd yn cyfarfod cywreinrwydd y cymmeriad Groegaidd. Yn y *bedwaredd* Efengyl, cawn rywbeth sydd yn cyfarfod â'r tueddiadau golygianol uchaf mewn dynion; yn diwygio yr hyn oedd

* *Euaggelion*, gwel Luc 2, 10.

dwyllodrus yn y cyfundraethau o athroniaeth grefyddol yn mhlith Iuddewon a phaganiaid, ac yn cyflawnu yr hyn oedd ddiffygiol mewn dadguddiedigaethau blaenorol. Nid oes yr un wedi llefaru mor gyflawn am gymmeriad dwyfol ein Harglwydd, neu am y bywyd mewnol ysbrydol sydd yn tarddu oddiwrth undeb âg ef. Fel yr oedd Efengyl Mathew yn cael ei galw yr un faterol, felly gelwid Efengyl Ioan yr un ysbrydol, neu ddwyfol.[a]

Fel hyn, y mae yr efengyl yn sefyll yn "*bedair-ochrog*," gydag ochr yn gwynebu pob ochr o'r byd ysbrydol: Mathew yn anerch yr Iuddew, ac yn dadguddio Messiah y brenin; Luc yn anerch y Groegwr, ac yn dadguddio y *dyn;* Marc yn dangos gallu a nerth bywiol gwirionedd; ac Ioan, ei gariad swynol a gorchfygol. Arddengys Mathew yr hyn sydd Iuddewig ac is-raddol yn ein Prynwr; Ioan yr hyn sydd ysbrydol a dwyfol ynddo; Marc ei awdurdod ar natur ac ar ddiafliaid; a Luc ei hanes personol fel dyn. Ynddynt oll, dangosir Iesu Grist fel y Messiah, yr Athraw, y Cynllun, y Brawd, a'r Duw.

Dos. 2. *Purdeb yr Efengylau.*

137. Yr ydys eisoes wedi rhoddi y profion cyffredinol o *burdeb* y Testament Newydd. Y profion o burdeb llyfrau neillduol o'r Ysgrythyr a symiwn i fyny, yn fŷr, mewn ffurf daflenol. Yr awduron y cyfeirir atynt a berthynant i'r *ddwy ganrif a hanner gyntaf* o'n cyfnod ni.

Y rhanau ymadrodd ar ba rai y mae y daflen wedi ei ffurfio a ellir eu gweled yn cael cyfeirio atynt yn Nhraethawd Less ar Awdurdod, &c., y Testament Newydd. Am ranau wedi eu nodi fel hyn †, gwel Arweiniad Davidson i'r Testament Newydd, cyf. i.—iii. Gellir gweled tystiolaethau tystion diweddarach yn Haeddgrediaeth (*Credibility*) Lardner. Canfyddir yno hefyd amryw o'r tystiolaethau boreuaf, ond y mae cyfres Less wedi ei darparu yn fwy gofalus nâ'i eiddo ef.

	Barnabas. o.c. 122.	Clement o Rufain. 98.	Ignatius. m. 107.	Polycarp. m. 166.	Papias. 119.	Ereill o'r ganrif laf y cyfeirir atynt gan Eusebius.	Justin Ferthyr. 148.	Tatian. 158.	Basilides. 122.	Irenæus. 176.	Hegesippus. 175.	Y Marcosiaid. 140.	Athenagoras. 176.	Theophilus. 179.	Clement Alex. 217.	Tertullian. 198.	Ammonius. 200.	Julius Africanus. 210.	Origen. 213.	Yr holl lyfrau wedi eu chwilio gan Eusebius.	Yr eglwysi yn Lyons a Vienne. 170.	Velentiniaid. 140.	Marcion. 150.	Heracleon. 140.	Celsus. 150.
Mathew	‡	‡	‡	‡	1	1	1	1	‡†	1	‡†	‡†	1	1	1	1	1	1	1	1	.	††	.	‡†	†
Marc ...	.	‡	‡	.	1	1	1	1	.	1	.	.	.	.	1	1	1	.	1	1	.	‡†	.	.	-
Luc a'r Actau	.	‡	‡	‡	.	1	1	1	.	1	.	‡†	.	.	1	1	1	1	1	1	‡	.	‡†	‡†	†
Ioan.....	.	‡	‡†	.	.	1	1	1	.	1	.	.	.	1	.	1	.	1	1	1	‡	.	.	‡†	‡†

Y tystiolaethau a nodir ‡ ydynt yn llai penderfynol nâ'r rhai a nodir 1 neu †, er yr ystyrid y rhan amlaf o honynt yn llawn ddigonol mewn achos o feirniadaeth gyffredin. Gellir gweled rhai rhanau-ymadrodd ereill yn ngweithiau Davidson a Lardner. Ni chynnwysir hwynt uchod, am nad ydynt yn benderfynol.

[a] Gan Clement.

Canfyddir profion o *awdurdod* yn Rhan I., Dos. 4. Y tystiolaethau yma ar burdeb yr efengylau ydynt yn gymhwysiadol i'r oll, gydag eithriadau dibwys. Y ben. 1af a'r 2il yn Math., yr un adnod ar ddeg olaf yn Marc, y ben. 1af a'r 2il yn Luc, y ddwy adnod olaf yn Ioan, Ioan 7, 53;—8, 1, a Ioan, 5, 34, ydynt wedi cael eu hammeu; er fod eu purdeb yn cael ei gydnabod yn awr yn gyffredinol. Y mwyaf amheüus yw yr adnodau a nodir olaf.

Dos. 3. *Arweiniadau yr Efengylau.*

Yr Efengyl yn ol Mathew.

138. Mathew oedd frodor o Galilea, a daliai y swydd o dderbynydd cyllid, dan y llywodraeth Rhufeinig, wrth fôr Tiberias (Math. 9, 9). Gelwir ef Lefi gan Marc a Luc (Marc 2, 14; Luc 5, 27—32), yr hyn, fe ddichon, oedd ei enw Hebreig, gan ei bod yn debyg iddo gymmeryd yr enw Mathew ar dderbyniad swydd Rufeinig. Ar alwad Crist, gadawodd ei alwedigaeth, a daeth yn un o'r dysgyblion ychydig amser cyn traddodiad y bregeth ar y mynydd. Wrth nodi enwau yr apostolion, llefara am dano ei hun fel Mathew y publican (10, 3), yn awyddus am fawrhau gras Duw yn ei alwedigaeth. Enghraifft nodedig o ostyngeiddrwydd yw yr iaith yn mha un y desgrifia ei ymwrthodiad â'i ragolygiadau bydol er mwyn Crist, ac eglura un o'r egwyddorion ar ba rai y cafodd yr efengylau eu cyfansoddi. Nid yw yr ysgrifenwyr un amser yn gwneüthur eu hunain yn amlwg, nac yn rhoddi unrhyw fanylion o berthynas i'w hanes personol. Eu testun yw, nid hwynthwy eu hunain, ond Crist Iesu eu Harglwydd.

Nid ydyw dyddiad cywir yr efengyl yma yn wybyddus. Gosodir ef gan rai mor foreu ag o. c. 37[a]; gan ereill mor ddiweddar a 63. Pwys y profion, fodd bynag, sydd yn bleidgar i ychydig flynyddau yn ddiweddarach nâ'r dyddiad boreuaf (*hyny yw*, oddeutu o. c. 42), ac y mae yn sicr iddi gael ei hysgrifenu cyn dinystr Jerusalem.

Yr oedd yn draddodiad cyffredinol yn yr eglwys foreuol fod efengyl yn bodoli, wedi ei hysgrifenu gan Mathew yn y Syro-Galdaeg. Y mae yn debyg iddo ysgrifenu rhai nodion o fywyd ein Harglwydd yn iaith lafaredig Palestina. Ond cynnelir gwreiddiolder a phurdeb yr efengyl Roegaidd gan y profion cadarnaf. Nid oes dim o olion unrhyw efengyl Hebreig yn awr yn aros. Heblaw hyny, yn Mhalestina, yr iaith Roeg oedd iaith llyfrau, a masnach, a bywyd cyffredin. Wrth edrych, gan hyny, ar arferion ei gydwladwyr, yn nghyd â diddymiad dynesol y wladwriaeth Iuddewig, yr oedd ganddo bob cymhelliad i ddefnyddio yr iaith hono.

Gellir dosparthu ei Efengyl fel hyn:—

Pen. 1, 2. A gynnwysant fynegiad byr am fabandod a phlentyndod ein Harglwydd.

Pen. 3.—4, 12. Hanes ei ymroddiad i'w weinidogaeth gyhoeddus, yn nghyd â dygwyddiadau darpariadol i hyny.

Pen. 5.—7. Dangosiad o Grist fel dysgawdwr cyhoeddus, yn cael ei egluro yn y bregeth ar y mynydd.

[a] Tillemont, Owen, a Tomline, 38; Irenæus, yn ddiweddarach nâ 60.

Pen. 8, 9. Dangosiad o Crist fel gwneuthurwr gwyrthiau, yn rhoddi mewn un golygiad amryw wyrthiau o wahanol fathau, wedi eu cyflawnu mewn gwahanol leoedd.

Pen. 13. Dangosiad o Grist fel dysgawdwr drwy ddammegion, mewn rhai o'r cyfryw y mae hefyd awgrymiadau prophwydol.

Pen. 10.—20. Cawn addysg, gwyrth, a hanes, mewn trefn mwy rheolaidd, ac yn

Pen. 20.—28. Cawn hanes dyoddefiadau olaf, marwolaeth, ac adgyfodiad ein Harglwydd.

Amcan eglur yr ysgrifenydd yw, achub coffadwriaeth ei Athraw rhag gwarth, diarfogi rhagfarnau ei gydwladwyr, a gosod gerbron, i oesoedd dyfodol, wir gymmeriad y Messiah, drwy roddi hanes syml o'r hyn a wnaeth ac a ddyoddefodd ein Harglwydd. Ymddengys hyn oddiwrth ei appeliadau mynych at y prophwydi (1, 23; 2, 6, 15, 18; 3, 3; 4, 15; 8, 17, &c.), ei hanes am wrthbrofiadau yr amrywiol sectau Iuddewig, ei ofal wrth gofnodi y rhanau hyny o bregethau ein Harglwydd oedd yn fwyaf tebyg o ddeffroi ei genedl ei hun i ystyriaeth o'u pechodau, i unioni eu gobeithion am deyrnas ddaearol, ac i'w darparu tuag at dderbyniad y Cenedloedd i'r eglwys. Er addysg neillduol Cristionogion Iuddewig, y mae yn rhoddi rhagfynegiadau ein Harglwydd o berthynas i Jerusalem, a'r rhesymau drwy ba rai yr amcanai gymmodi ei ddysgyblion â gwrthwynebiadau ac erlidigaeth am eu hymlyniad wrtho ef.

Yr Efengyl yn ol Marc.

139. Ymddengys fod yn perthyn i Marc, heblaw yr enw Lladinaidd *Marcus*, yr enw Hebreig *Ioan*. Mab ydoedd i Mair, dynes dduwiol o Jerusalem, yn nhŷ yr hon y byddai yr eglwys foreuol yn aml yn ymgynnull, a'r hon a roesawodd yr apostol Pedr wedi ei waredigaeth o'r carchar gan yr angel, Act. 12, 12. Nai oedd Marc i Barnabas, cydymmaith Paul yn ei deithiau, Col. 4, 10. Yr oedd y ddau yma yn Jerusalem oddeutu amser gwaredigaeth Pedr, a hwy a gymmerasant Marc gyda hwynt yn eu cenadiaeth, Act. 12, 25. Aeth gyda hwynt i Antioch; ac oddiyno, ar eu taith gyntaf, can belled a Perga, yn Pamphylia, lle y gadawodd hwynt, ac y dychwelodd i Jerusalem, Act. 13, 5, 13. Cawn ef wedi hyny yn Antioch, gyda Phaul a Barnabas, yn dymuno myned gyda hwynt ar eu hail daith; ond Paul, gan ei ystyried yn anaddas i'r gwaith, yn gymmaint ag iddo eu gadael hwynt ar yr achlysur blaenorol, oedd yn anfoddlawn i'w gymmeryd ef. Achosodd y penderfyniad yma ymrafael poeth, ac ysgariaeth dymmorol rhwng y ddau apostol; a Barnabas, dan ddylanwad ei serch at ei berthynas, mae yn debyg, a "gymmerodd Marc, ac a hwyliodd i Cyprus." Nid oes amheuaeth na ddarfu i Marc, wedi hyny, gydnabod ei fai, beth bynag oedd—pa un a oedd yn ddiffygiol yn hunan-ymwadiad gwrol y cenadwr, neu a oedd yn ammeu y priodoldeb o bregethu yr efengyl i'r paganiaid—oblegid ymddengys fod Paul ar ol hyn wedi rhoddi ynddo ei ymddiried a'i serch, fel y mae yn ei gymmeradwyo i'r eglwysi. Gwel Col. 4, 10; 2 Tim. 4, 11; Philem. 24.

At y nodion yma, y rhai a gasglwyd oddiwrth yr ysgrifenwyr santaidd, er-

eill a ychwanegant i Marc, wedi hyny, fyned i'r Aifft; ac iddo, wedi planu eglwys yn Alexandria, farw yno.

Oddiwrth hyn, ymddengys fod Marc, er nad oedd ef ei hun yn un o'r deuddeg, yn gyfaill ac yn gydymmaith i'r apostolion; a chan ei fod yn byw yn Jerusalem, yr oedd yn y man lle y cymmerodd y dygwyddiadau pwysicaf yn mywyd ein Harglwydd le, a'r lle y cyflawnodd lawer o'i wyrthiau. Ond yn ychwanegol at y cyfryngau gwybodaeth yma, tystiolaeth gydunol ysgrifenwyr Cristionogol boreuol ydyw, fod Marc yn canlyn Pedr (drwy yr hwn, mae yn debyg, y dygwyd ef i wybodaeth o'r gwirioneedd, gwel 1 Pedr 5, 13), yn ystod cyfran helaeth o'i weinidogaeth; ac, wedi mwynhau cyfeillgarwch agos yr apostol hwnw am rai blynyddoedd, iddo ysgrifenu yr hanes yma o fywyd ein Harglwydd dan ei gyfarwyddyd uniongyrchol ef. Felly y mae Justin yn galw ei efengyl yn "Efengyl St. Pedr." Rhai esbonwyr a dybiant fod cyfeiriad at y ffaith yma yn 2 Pedr 1, 15, 16.

Y mae y prawf mewnol yn ffafriol i arolygiaeth Pedr. Nid oes braidd symudiad na gweithred o eiddo Crist yn cael ei mynegu, lle nad oedd Pedr yn bresenol; a rhoddir adroddiad manwl o'r dygwyddiadau hyny yn mywyd ein Ceidwad, y rhai, o angenrheidrwydd, a gawsant yr argraff ddyfnaf ar feddwl Pedr. Y mae llawer o bethau anrhydeddus i Pedr yn cael eu gadael allan yn Marc; tra, ar y llaw arall, y mae diffygion Pedr yn cael eu cofnodi yn gyflawn. Cym. Marc 8, 29, â Math. 16, 17. Gwel hefyd Marc 8, 33; 14, 31—71.

Nid ydyw yn sicr pa amser yr ysgrifenwyd yr efengyl hon. Rhoddir iddi amrywiol ddyddiadau, rhwng o. c. 48 a 65. Tybia rhai iddi gael ei hysgrifenu yn Rhufain, ereill yn Cæsarea; ond cyduna pawb ei bod wedi ei bwriadu i ddychweledigion Rhufeinig.

Prif neillduolion Marc fel ysgrifenydd ydynt, (1.) Ei fod yn rhoddi hanes gweithredoedd yn hytrach nâ phregethau ein Harglwydd. Ei ddesgrifiadau ydynt yn fwy argraffiadol nag eiddo Mathew na Luc. Defnyddia yn fynych yr amser presenol, cyflwyna bersonau fel llefarwyr, ac y mae yn aml yn fanwl yn ei ddesgrifiadau o bersonau a lleoedd. Mewn llawer o enghreifftiau lle y mae hanes yr un dygwyddiadau yn cael ei rhoddi gan Mathew a Marc, y mae yr olaf yn fynych yn llanw fyny fraslun y blaenaf, gan roddi rhagor o eglurder i'r darluniad. Cymharer Marc 5, 22—43, â Math. 9, 18—26; Marc 9, 14—29, â Math. 17, 14—21.

Yr Efengyl yn ol Luc.

140. Cydnabyddir yn gyffredin mai Luc, ysgrifenydd yr efengyl sydd yn dwyn ei enw, oedd "Luc y physigwr anwyl" a nodir gan Paul yn Col. 4, 14. Yr oedd, yn ol tystiolaeth rhai o'r tadau, yn frodor o Antioch. Oddiwrth ei adnabyddiaeth drwyadl o'r iaith Roegaidd, yn gystal ag oddiwrth ei enw Groegaidd, *Loukas*, gellai ymddangos fel un o ddisgyniad Cenedlig. Ond oddiwrth y brawddegau Hebreig a ddygwyddant yn ei ysgrifeniadau, ac oddiwrth ei wybodaeth drylwyr o'r grefydd, y seremoniau, a'r arferion Iuddewig, y mae yn dra thebyg ei fod yn moreu ei oes yn broselyt Iuddewig; ac, wedi iddo dderbyn yr efengyl, daeth yn gydymmaith selog i Paul mewn llawer o'i lafur a'i deithiau, Act. 16, 10; 20, 5, &c. Dysgwn oddiwrth Act. 28, 15, a Philem. 24, ei fod gyda'r apostol yn amser ei garchariad cyntaf yn Rhufain; ac oddiwrth 2 Tim. 4, 11, mai Luc yn unig a arosodd gydag ef yn ystod amser ei ail garchariad.

Tybir yn gyffredin fod Luc yn ysgolhaig. Y mae ei ieithwedd yn fwy clasurol nag eiddo yr efengylwyr ereill. Gan ei fod yn physigwr, y mae mwy o benodolrwydd celfyddydol yn perthyn i'w ddesgrifiad o glefydau, ac i'w hanesion am welliadau cyflawnedig gan ein Ceidwad a'i apostolion, nâ'r efengylau ereill.

Nid oes genym wybodaeth sicr o berthynas i'r gofyniadau *pa le*, a *pha bryd* y cafodd yr efengyl yma ei hysgrifenu. Tybia rhai iddi gael ei hysgrifenu yn ystod yr amser y bu Luc yn gydymmaith i Paul, fe allai yn ystod ei garchariad yn Rhufain, o gylch y flwyddyn o. c. 62 neu 63. Ereill a roddant iddi ddyddiad boreuach, a thybiant iddi gael ei hysgrifenu yn Phillippi, oddeutu o. c. 57, gwel 2 Cor. 8, 18—21. Ond pa fodd bynag y mae gyda golwg ar hyn, eglur yw iddi gael ei hysgrifenu yn wreiddiol i ddarllenwyr Cenedlig, megys y cafodd eiddo Mathew ei bwriadu yn wreiddiol i'r Iuddewon. Y mae ganddo o flaen ei lygaid bob amser yr "iachawdwriaeth a ddarparwyd i'r holl bobl," a "goleuni i oleuo y Cenedloedd" (2, 31, 32), a chan ei fod yn ysgrifenu at baganiaid oeddynt wedi cilio mor bell oddiwrth Dduw, bu yn ofalus i gofnodi mynegiadau ein Harglwydd o berthynas i drugaredd rad Duw i'r pechaduriaid penaf (7, 36—50; 15; 18, 10—14; 19, 5—10; 23, 40—43, &c).

Yr ydys yn gyffredin yn ystyried efengyl Luc fel bywgraffiad mwy rheolaidd nag un o'r efengylau ereill. Ymddengys ei fod wedi cadw trefn amseryddol ei brif ffeithiau, gan derfynu amrywiol gyfnodau ei hanes gyda nifer o amgylchiadau ac ymadroddion achlysurol (*incidental*), y rhai a berthynant i'r gyfran hono o amser, ond nid yw yn ofalus i'w gosod yn eu trefn briodol.

Y ffeithiau ychwanegol pwysig a lluosog sydd wedi cael eu rhoddi gan Luc, a osodant werth neillduol ar ei efengyl ef. Mynega ymddyddanion yr Iesu gydag eglurder nodedig, yn nghyd â'r achlysuron oddiwrth ba rai y cyfodasant, nodiadau y rhai oedd yn bresenol, a'u canlyniadau. Er yn cynnwys hysbysiaeth ychwanegol i'r hyn a roddir gan Mathew, etto, nid ydyw ei efengyl yn dwyn y cymmeriad o ysgrifen attodiadol; ond eglur yw mai gwaith annibynol a gwreiddiol ydyw. Yn gyffredin, y mae dammegion ac ymadroddion efengyl Luc yn llai cyflawn nag eiddo un Mathew.

Yr Efengyl yn ol Ioan.

141. Ioan, brawd ieuengaf Iago, yr hwn gydag ef a alwwyd i'r apostoliaeth, oedd fab i Zebedeus a Salome. Ei dad oedd bysgotwr, ac yn byw yn Bethsaida, yn Galilea, ar làn llyn Gennessaret. Ymddengys fod y teulu mewn amgylchiadau cysurus; o'r hyn lleiaf, cawn fod Zebedeus yn cadw gweision cyflogedig, Marc 1, 20, a bod Salome yn un o'r gwragedd a gyfranent tuag at gynnaliaeth yr Iesu, Math. 27, 56.

Wedi cael ei ddwyn i fyny gan fam dduwiol yn ngwybodaeth ac yn nghariad y gwir Dduw, ymddengys iddo ddyfod yn foreu yn ddysgybl i ragflaenor ein Harglwydd, ac iddo gael ei gyfarwyddo ganddo ef at Iesu, yr hwn a ddilynodd, gan y bernir yn gyffredin mai efe oedd un o'r ddau ddysgybl a nodir yn pen. 1, 37—41. Derbyniwyd ef yn fuan, gyda'i frawd Iago, a Phedr, i gymdeithasiad neillduol â'r Ceidwad, yr hwn a'u dewisodd hwynt fel tystion o'r dygwyddiadau pwysicaf yn ei fywyd, Marc 5, 37; Math. 18, 1; 26, 37.

O'r holl apostolion, ymddengys fod Ioan yn cael ei ffafrio mor neillduol â serch ac ymddiried ein Harglwydd, fel y gelwid ef "y dysgybl, yr hwn

yr oedd yr Iesu yn ei garu." Yr oedd ganddo serch mawr at ei feistr; ac er iddo ffoi gyda'r apostolion ereill pan ddaliwyd yr Iesu, etto, efe a adfeddiannodd ei sefydlogrwydd; yr oedd yn bresenol yn ystod prawf a chroeshoeliad ein Harglwydd, ac efe a ymddiriedodd iddo am ofalu dros ei fam (19, 26, 27).

Dywedir i Ioan aros yn Jerusalem hyd farwolaeth Mair, oddeutu y flwyddyn o. c. 48. Wedi i Paul ymadael âg Asia Leiaf, aeth Ioan i lafurio yno, gan breswylio yn benaf yn Ephesus, ac efe a sefydlodd amryw o eglwysi yn y wlad hono. Yn fuan ar ol hyny, yn ystod yr erlidigaeth dan Domitian (neu, yn ol ereill, oddeutu diwedd teyrnasiad Nero), alltudiwyd ef i Patmos, ynys yn y Môr Ægeaidd, lle cafodd weledigaethau Llyfr y Dadguddiad. Ar esgyniad Nerva i'r orsedd, efe a ryddhäwyd, ac a ddychwelodd i Ephesus, lle y parhäodd i lafurio am y gweddill o'i fywyd. Bu farw yn y ganfed flwyddyn o'i oedran, oddeutu o. c. 100.

Yn ol tystiolaeth gyffredinol henafiaeth, ysgrifenodd Ioan ei efengyl yn Ephesus, oddeutu y flwyddyn 97, yn mhell wedi dinystr Jerusalem. Nid ydyw, gan hyny, yn sôn dim am brophwydoliaethau ein Harglwydd o berthynas i'r dygwyddiad hwnw, a gwasgariad yr Iuddewon; yr oedd y prophwydoliaethau hyny y pryd hwnw wedi derbyn eu cyflawniad.

Ystyrir yn gyffredin fod y tair efengyl ereill gan Ioan o'i flaen pan oedd efe yn ysgrifenu, yn gymmaint a'i fod yn gadael allan bob peth oedd wedi cael ei ddesgrifio ganddynt hwy gyda manylrwydd digonol. Tybia efe fod dygwyddiadau mawrion bywyd ein Ceidwad, yn nghyd â'i brif addysgiadau, eisoes yn adnabyddus i'w ddarllenwyr. Os ar unrhyw amser y mynega yr hyn sydd wedi cael ei adrodd gan yr efengylwyr ereill, gwna hyny yn gyffredin er mwyn cyflwyno rhyw ymadrodd (*discourse*) pwysig o eiddo ein Harglwydd, neu am ei fod yn dàl cyssylltiad arbenig â phrif amcan ei efengyl ef.

Gosodir allan yr amcan oedd gan yr efengylwr mewn golwg yn dra eglur yn pen. 1, 1—18; 20, 31. Ymddengys mai ei ddyben oedd cyflwyno i'r byd syniadau cyfiawn a chyfaddas am natur wirioneddol, swydd, a chymmeriad ein Prynwr dwyfol. I'r dyben yma yn neillduol y cofnodir y rhanau hyny yn mywyd ein Ceidwad a arddangosant yn fwyaf amlwg ei allu a'i awdurdod dwyfol, a'r ymadroddion hyny o'i eiddo yn mha rai y llefarai yn fwyaf eglur am ei natur ei hun, am y gwaith a roddwyd iddo gan ei Dad, ac am effeithioldeb ei farwolaeth fel iawn dros bechodau y byd. Ac o'r efengyl yma y ceir y profion lluosocaf a mwyaf penderfynol o ddwyfoliaeth ein Harglwydd. Etto, nid oes yr un o'r efengylwyr wedi darlunio agweddau (*lineaments*) tyneraf dynoliaeth ein Harglwydd gyda mwy o ddillynder a phrydferthwch, ac nid oes yr un wedi dadlenu mwy o serchiadau a theimladau mewnol calon y Ceidwad nag efe. Hanes ein Harglwydd yn Galilea a roddir yn benaf yn yr efengylwyr ereill; yn Ioan gwelir ef yn Judea yn gyffredinol. Yma cawn ef yn bresenol mewn tri phasg, o leiaf; nid ydyw y lleill yn rhoddi ond hanes un yn unig. Y mae dwy ran o dair o'r efengyl yma yn newydd; ceir yr ychwanegiadau mwyaf pwysig yn pennodau 13—17, ac yn pen. 11. Nid ydyw yn cofnodi ond chwech gwyrth, ac y mae yn gadael allan y rhan fwyaf o'r dammegion, yn nghyd â'r bregeth ar y mynydd.

Tebyg yw mai yr efengyl yma a *ysgrifenwyd ddiweddaf* o holl lyfrau y Beibl; a thra y profai natur ddwyfol Crist, yr oedd hefyd yn adgyweirio amryw o'r heresiau a gyfodasant i fyny yn oes gyntaf Cristionogaeth, ac yn cynnwys atebiad i rai sydd yn ffynu yn ein hoes ni.

Dos. 4. *Amseriaeth yr Efengylau.*

142. Amseriaeth yr efengylau sydd bwnc â llawer o ddyddordeb a chryn anhawsder yn perthyn iddo. Bydd yn ddigonol nodi allan y profion a'r canlyniadau sydd wedi cael eu penderfynu drwy ymchwiliad manwl diweddar.

1. Y cyfnod Cristionogol presenol, o. c. 1, yw A. U. C. 754, a sefydlwyd ef yn y 6fed ganrif, gan Dionysius Exiguus. Daeth i gael ei ddefnyddio yn yr 8fed ganrif, a mabwysiadwyd ef gan Bede. Yn fuan ar ol hyn, cawn ef yn cael ei ddefnyddio mewn gweithrediadau cyhoeddus gan Pepin a Charlemagne. Yn awr, bu Herod Fawr farw, A. U. C. 750, ychydig cyn y Pasg (hyny yw, rhwng y rhan olaf o Fawrth a'r rhan olaf o Ebrill); mynegiad a wneir gan Josephus, ac a gadarnhëir gan seryddiaeth yw, i ddiffyg gymmeryd lle ar y lleuad yn y flwyddyn hono, yr hwn y dywedir iddo ddygwydd ychydig cyn marwolaeth Herod. Felly, wrth ganiatâu pedwar neu chwech mis i ymweliad y Magiaid, a'r ffoedigaeth i'r Aifft, nis gallasai genedigaeth ein Harglwydd fod yn ddiweddarach nâ Ionawr, 750, neu Hydref, 749, gwel Math. 2, 1—6; Hen. Jos. xvii., xviii, 1; xvii, 9, 3. Y mae annghywirdeb, gan hyny, yn y cyfnod Cristionogol o bedair blynedd o leiaf, ac y mae yn agos yr holl amseryddwyr yn cyduno yn y penderfyniad yma.

Cadarnhëir y penderfyniad i'r hwn y mae tystiolaeth Josephus yn arwain gan brofion ereill. Oddiwrth Luc 3, 1, 2, 23, dysgwn i Ioan ddechreu ar ei weinidogaeth yn y 15fed flwyddyn o Tiberius, a bod Crist, pan y bedyddiwyd ef, oddeutu deng mlwydd ar hugain oed. Y *debygoliaeth* yw, i'r ddau ymosod ar eu gwaith pan oeddynt oddeutu deg ar hugain (gwel Num. 4, 3, 35, 39, 43, 47). Yr oedd Tiberius mewn undeb âg Augustus yn A. U. C. 764 (ac y mae Luc yn y *gwreiddiol* yn awgrymu ei fod yn dyddio o'r amser hwnw), fel y mae y 15fed flwyddyn o Tiberius yn dechreu A. U. C. 779. Ganwyd Crist, gan hyny, yn A. U. C. 750, neu 749 ..... Etto, oddiwrth Ioan 2, 20, dysgwn fod y deml wedi bod y pryd hwnw chwech a deugain o flynyddoedd yn cael ei hadeiladu (Groeg). Dywed Josephus i Herod ddechreu y gwaith yma yn y 18fed flwyddyn o'i deyrnasiad (yr hyn a gyfrifir o farwolaeth Antigonus, A. U. C. 714). Gan hyny, pan lefarodd ein Harglwydd hyn (yr amser oedd dyddiad ei Basg cyntaf, pan oedd efe, mae'n debyg, oddeutu deng mlwydd ar hugain a hanner oed), yr oedd y 65fed flwyddyn o ddechreuad teyrnasiad Herod yn cerdded, neu A. U. C. 779. Yn ol y cyfrifiad yma, gan hyny, rhaid i Grist gael ei eni yn A. U. C. 749. Heblaw hyny, y mae gan y Tadau Lladinaidd draddodiad, i Grist gael ei osod i farwolaeth dan drafnodiaeth (*consulate*) y Gefeilliaid (Gemini), Rubellius a Fufius, hyny yw, A. U. C. 782—3, yr hyn, a chyfrif ei weinidogaeth yn dair blynedd a hanner, a'n dwg etto i A. U. C. 749, fel dyddiad ei enedigaeth.

2. Gosodir allan ein Harglwydd gan y golygiad yma fel yn dechreu ei weinidogaeth pan oedd yn ddeng mlwydd ar hugain. Tybia Usher, o herwydd ei fod yn edrych dros rhan o'r profion, ac yn camddeall Luc 3, i'n Harglwydd ddechreu ar ei weinidogaeth yn ei 34ain mlwydd, hyny yw, o. c. 30. Caniatëir yn awr yn gyffredin mai cyfeiliornad yw y casgliad yma.

3. Y mae hefyd amrywiaeth barn o berthynas i barhad ei weinidogaeth, Nid ymddengys fod y tri efengylwr cyntaf yn rhoddi ond dygwyddiadau cyssylltiedig âg un Pasg yn unig; tra y mae yr olaf yn nodi tri, ac yn dra thebygol, bedwar (gwel Dos. nesaf). Tybia Usher mai tri yn unig a

nodir, ac oddiwrth hyn, gwna barhad gweinidogaeth ein Harglwydd yn ddwy flynedd a hanner. Tybia Greswell a Robinson fod pedwar yn cael eu nodi, a gwnant ei weinidogaeth yn dair, neu yn dair blynedd a hanner.

4. Y mae dyddiad marwolaeth ein Harglwydd, wrth gwrs, yn adnabyddus; nis gellir cael ond tybiaeth am ddydd ei enedigaeth. Cyfrifa Lardner i Grist gael ei eni rhwng Awst a Thachwedd, 748, neu 749; a dadleua Greswell iddo gael ei eni yn Ebrill 5ed, 750. Cyn foreued a'r 3edd a'r 4edd ganrif, yr oedd y ddwy brif ganghen o'r eglwys yn cadw y 6ed o Ionawr a'r 25ain o Ragfyr, fel gwyl ei enedigaeth a'i fedydd.

Dos. 5. *Yr Efengylau yn cael eu Cyssoni.*

143. Tra mae yr efengylau, fel y gorweddant o'n blaen, yn goffadwriaeth werthfawr o fywyd ein Harglwydd, etto, y mae yn hynod o ddyddorawl eu cymharu hwynt, a phenderfynu trefn amseryddol y dygwyddiadau a ddarluniant. Yr efengylwyr ydynt eu hesbonwyr eu hunain. Mewn pethau bychain yn gystal a phethau pwysig, y mae pob adroddiad yn attodiadol (*supplementary*) i'r lleill. Nodwedd eu tystiolaeth yw unoliaeth mewn amrywiaeth. Ac nid yw y fantais yma yn ymddangos ond yn unig wrth gymharu yr adroddiadau eu hunain.

144. Y mae y gorchwyl yma yn un hawdd. Gwneyd trefn *amseryddol manwl* o'r dygwyddiadau a'r ymadroddion sydd yn fwy anhawdd, ond yn dra addysgiadol. Gallai pawb ffurfio golygiad crynodebol o'r efengylau, ond gofyna cyssondeb *amseryddol* lawer o ymchwiliad dysgedig. Fe allai mai y drefn oreu yw yr un a fabwysiadwyd yn Nghyssondeb (*Harmony*) Cymdeithas y Traethodau Crefyddol, yr hon sydd yn seiliedig ar eiddo y Dr. Robinson, wedi ei chymharu yn ofalus â Chyssondebau Creswell a Wieseler.

145. Wrth benderfynu trefn y dygwyddiadau yn yr efengylau, y pwnc cyntaf i'w benderfynu yw, pa sawl Pasg a ddygwyddodd yn ystod gweinidogaeth ein Harglwydd. Un yn unig a nodir gan y tri efengylwr blaenaf, a nodir tri o leiaf gan yr olaf (Ioan 2, 13; 6, 4; 13, 1), ac fe allai bedwar (5, 1)*. Rhai, megys Syr I. Newton a Dr. Macknight, a dybiant fod hyd y nod bump yn cael eu nodi ganddo, ond nid oes profion boddlonol o hyn. Ychydig a ddadleuant nad oes ond un; a llawer, megys Lardner, Bengel, Benson, fod tri; ond y rhan amlaf, yn cynnwys Grotius, Lightfoot, Newcome, Hengstenberg, a ddaliant fod pedwar.

146. Yr oedd golygiad eithafol (*extreme*) yn wrthwynebol i bob ymdrech i ffurfio cyssondeb o'r efengylau yn gyffredin unwaith ar y Cyfandir, a chafodd ei phleidio gan Osiander (1537), a Lutheriaid ereill. Yn unol â'r golygiad yma, dadleuid fod pob un o'r efengylau yn cynnal trefn amseryddol fanwl; a'r holl ddygwyddiadau, gan nad pa mor uniaethol y gallent ymddangos, a gadwent leoedd amrywiol mewn unrhyw ddwy o'r efengylau, a ystyrid fel yn wahaniaethol. Yn ddiweddarach, ac mewn lleoedd ereill, ffynodd golygiadau cywirach, yn enwedig drwy esboniadau Calfin a Bengel. Cydnabyddir yn awr yn gyffredin nad ydyw yr efengylwyr yn proffesu ymlynu wrth drefn amseryddol, ac nas gellir gwneuthur un cyssondeb heb rhyw drawsgyflëad. Yr holl gyssonwyr diweddar a gydunant yn yr egwyddor yma, ac ni wahaniaethant ond yn unig yn y

* Gwel ar Ramadeg yr adnod yma, os darllener hi heb y fannod, Winer, § 19, 4, Math. 27, 15; Marc 15, 16; ac ar y pwnc yn gyfangwbl, Cyssondeb yr Efengylau, Cymdeithas y Traethodau Crefyddol.

pwysigrwydd a gyssyllta pob un â threfn rhyw un o'r efengylwyr. Yn y Taflenau Amseryddol a roddir gan Dr. Robinson, nid ydyw trefn Ioan byth yn cael ei chyfnewid, er fod rhanau helaeth o'r efengylwyr ereill yn cael eu cyflwyuo rhwng y dygwyddiadau a gofnodir ganddo. Nid ydyw trefn Marc yn cael ei chyfnewid ond dwywaith, nac eiddo Luc fawr yn fynychach; trefn Mathew a gyfnewidir amlaf o'r cyfan, er nad ydyw y cyfnewidiadau yn un mân o bwys mawr. Y tair efengyl blaenaf a elwir weithiau yn gydolygol, oddiwrth y ffaith fod eu hadroddiadau yn gyfochrog i raddau llawer iawn helaethach nag eiddo Ioan.

147. Wrth gymharu yr efengylau, canfyddir dau beth yn amlwg iawn. Cynnwysant lawer o gytundebau geiriol mor nodedig ag i gau allan y dybiaeth mai rhai damweiniol ydynt;[a] a chynnwysant rhai annghytundebau ymddangosiadol. Yr ydys wedi esbonio y ffaith gyntaf mewn amryw ffyrdd. Y farn gyffredin unwaith oedd, fod yr efengyl a ysgrifenwyd gyntaf yn cael ei rhydd-ddefnyddio gan ysgrifenwyr canlynol; ac y mae pob un o'r tair efengyl blaenaf wedi bod yn cael eu hystyried yr efengyl a gafodd ei defnyddio yn y modd yma. Yn awr, fodd bynag, nid oes ond ychydig bleidwyr i'r golygiad yma. Nid ydyw yr ysgrifenwyr ysbrydoledig eu hunain yn sôn dim am y fath ymddibyniaeth ag a gynnwysid yn yr ymarferiad yma. Heblaw hyny, nid ydyw y rhanau a'r ymadroddion a geir ynddynt yn gyffredin ond ychydig mewn cymhariaeth i'r rhai sydd yn perthyn yn neillduol i bob un, fel y mae y golygiad yma yn creu mwy o anhawsderau nag a eglurir ganddo. Yr *ail* olygiad yw, fod yr holl efengylwyr yn defnyddio rhyw efengyl gyffredin sydd yn awr wedi ei cholli, ond y mae y diffyg o unrhyw gynnaliaeth draddodiadol i'r golygiad yma, yn nghyd â'r anhawsder i'w gymhwyso fel ag i egluro ffeithiau cydnabyddedig, wedi peru i'r rhan fwyaf o feirniaid ei wrthod. Yr *awgrymiad* diweddaraf yw, fod yr holl efengylau yn seiliedig ar hanesion oeddynt eisoes, drwy adroddiadau mynych, yn adnabyddus i'r ysgrifenwyr ysbrydoledig. Sicr yw fod y prif ffeithiau yn mywyd a dysgeidiaeth ein Harglwydd wedi cael eu cyhoeddi flynyddau lawer cyn i'r efengylau gael eu hysgrifenu, ac oddiwrth yr amgylchiad yma, rhaid fod llawer o ymadroddion a desgrifiadau yn adnabyddus i'r ysgrifenwyr ysbrydoledig. Olshausen a gyssyllta y blaenaf â'r olaf o'r golygiadau yma; meddylia efe i Mathew a Luc gael eu hysgrifenu yn annibynol, a bod gan Marc efengyl Mathew o'i flaen. Y golygiadau yma ydynt yn bwysig, yn benaf am eu bod yn gwasanaethu i symud gwrthddadleuon seiliedig ar gytundeb geiriol amlwg yr ysgrifenwyr ysbrydoledig. Canfyddir fod y golygiad olaf yn egluro y ffeithiau heb ychwanegu llawer at yr anhawsderau.

148. Nid ydyw annghytundebau yr efengylau yn lluosog, ond y maent yn amlwg; a thebyg yw eu bod wedi creu mwy o anhawsder na'u cytundeb neillduol. Y canlynol ydynt enghreifftiau:—

Yr achyddiaethau, Math. 1, 1—17; Luc 3, 23—32. Ceir fod yr anhawsder yn cael ei symud gan y ffaith fod Mathew yn olrhain disgyniad ein Harglwydd drwy Joseph, a Luc drwy Mair.

Galwad Pedr, Math. 4, 18—22; Marc 1, 16—20; Luc 5, 1—11. Y mae Greswell yn tybied dau amgylchiad; ond nid ydyw Robinson yn tybied ond un, gan ddàl, gyda Spanheim, fod un efengylwr yn cyflwyno yr hyn y mae y llall wedi ei adael allan, ac nad oes yr un annghytundeb.

[a] Nid ydyw y cyfleithiad Cymreig a Saesneg bob amser yn rhoddi drychfeddwl cyflawn o'r unoliaeth ymadroddol nodedig a geir yn yr amrywiol efengylau: gwel Cyssondeb yr Efengylau, gan Dr. Stroud.

Y bregeth ar y mynydd, Math. 5, 1; Luc 6, 20. Meddylia Greswell i'r bregeth gael ei thraddodi ddwywaith; Robinson ond unwaith, a bod hanes Luc yn diweddu yn 6, 19. Trydydd esboniad a eglura "mewn gwastadtir" (*epi*, 6, 17) fel yn golygu man gwastad ar y mynydd, Math. 5, 1.

Y ddau gythreulyn (*demoniacs*), Math. 8, 28; Luc 8, 26; Marc 5, 2. Dywed Mathew fod dau; nid ydyw Marc a Luc yn nodi ond un. Sylwa Le Clerc fod y cyfrif llawnaf yn cynnwys y byraf, ac nad ydyw y byraf yn gwrthddywedyd y llawnaf. Darllena Mathew Gergesiaid, er fod gwahaniaeth yn y darlleniad. Yr oedd Gergesa, fodd bynag, yn gynnwysedig yn nosparth Gadara.

Gwas y Canwriad, Math. 8, 5—12; Luc 7, 1—10. Tybia rhai fod dau amgylchiad cyffelyb wedi cymmeryd lle, ond iddynt ddygwydd yn yr un ddinas, ac yn nghylch yr un amser. Yr hyn a ddywedir gan Mathew i'r canwriad ei wneuthur, a briodolir gan Luc i henuriaid yr Iuddewon, ac i'w gyfeillion ef; nid ydyw hwn yn ddull annghyffredin o lefaru; cymharer Marc 10, 35, â Math. 20, 20. Trydydd esboniad a dybia i'r canwriad a'r henuriaid fyned at Grist; efe yn ddiweddarach yn y dydd nâ hwy.

Y ddau ddyn dall yn agos i Jericho, Math. 20, 29—34; Marc 10, 46—52; Luc 18, 35—43. Ceir yma amryw anhawsderau. Llefara Mathew am *ddau*, Marc a Luc am *un*. Dywed Mathew a Marc i'r amgylchiad gymmeryd lle wrth fod Crist yn ymadael o Jericho; dywed Luc iddo gymmeryd lle pan oedd "efe yn nesâu *at* Jericho." Greswell, ar ol Lightfoot, a ystyria fod yma ddwy wyrth wahanol; un yn cymmeryd lle ar waith Crist yn myned i Jericho, a'r llall wrth ei fod yn ei gadael. Gall y gair a ddefnyddir gan Luc, fodd bynag, olygu (yn helleniaidd) *bod yn agos;* yn cyfateb i'n hymadrodd ni, "yn y gymmydogaeth." 1 Bren. 21, 2; Deut. 21, 3; Ruth 2, 20; Phil. 2, 30. De Wette, ac amryw ereill, a gyfieithant, pan oedd Crist yn tynu yn agos i *Jerusalem*, wrth Jericho, &c.; gwel ad. 31; 19, 29, 41.

Dengys yr enghreifftiau yma anhawsderau yr hanes, ac eglurant y gwahanol ddulliau sydd wedi eu mabwysiadu i'w symud hwynt. Yn ol unrhyw ddehongliad, y mae gwersi moesol yr hanes yn anmharedig.

149. Awgrymir gwersi pwysig yn fynych gan fyfyrdod o'r efengylau mewn modd cydolygol (*synoptically*), ac yn ol y drefn amserol.

Edrycher, er enghraifft, ar hanes bywyd boreuol Crist. Y weithred gyntaf o addoliad a dalwyd iddo gan Genedloedd, anrhegion pa rai a brofasant yn gyflawnder rhagluniaethol i'w deulu, pan yn ffoi rhag digofaint eiddigus Herod. Rhoddir hanes canlynol ein Harglwydd hyd nes oedd yn ddeuddeg oed mewn un frawddeg,—"A'r bachgen a gynnyddodd, ac a gryfhäodd yn yr ysbryd, yn gyflawn o ddoethineb; a gras Duw oedd arno ef."

Nid ydoedd mewn brys i ymosod ar ddyledswyddau mwyaf cyhoeddus ei swydd. Hyd y nod ar ol ei fedydd, y mae cyfnod o amryw fisoedd yn myned heibio cyn y dadlena ei hun (ar y Pasg yn Jerusalem) fel "Dysgawdwr wedi ei anfon oddiwrth Dduw." Treulir y cyfnod yma (mewn rhan) yn yr anialwch, yn gorchfygu temtasiwn, ac yn myned drwy ddyoddefiadau dirgelaidd. Efe a ddysgodd, fel hyn, ar y dechreu, i gynnal y temtiedig. Y temtasiynau yma a ragflaenent ei weinidogaeth gyhoeddus, ac a ganlynent ei gydnabyddiad cyhoeddus gan ei Dad, yn ei fedydd. Clywwyd yr un llais wedi hyny yn agos i'r croeshoeliad. Arwyddion o ffafr neillduol yn aml a ragflaenant ddyoddefiadau arteithiol, ac y mae y ddau yn darparu ar gyfer cyflawniad dyledswyddau pwysig.

Y mae y cydnabyddiad triphlyg o faboliaeth yn addysgiadol; y cyntaf,

yn ei enedigaeth, i osod allan ei natur ddwyfol (Luc 1, 35); yr ail, yn ei fedydd, i ddangos dwyfoliaeth ei genadwri; y trydydd, yn ei wedd-newidiad, i ddangos ei fawrhydi a'i awdurdod breninol,—"Gwrandewch arno ef." Cadarnhäwyd y cwbl yn ei adgyfodiad; ac efe "a eglurwyd yn Fab Duw mewn gallu."

Y cyhoeddiad cyntaf am Grist a gyfeiria at ei deyrnas ef, Math. 3, 2; a'r ail at ei aberth, Ioan 1, 29.

Gwyrth gyntaf ein Harglwydd a gyflawnwyd yn Galilea, a dysgai nas gallasai, yn ei gymmeriad swyddol, gydnabod unrhyw berthynas ddaearol (Ioan 2, 4); iddo ef ddyfod, nid fel Ioan, yn sarug ac annghymdeithasol, ond yn cydymdeimlo â dyn yn mhob amgylchiad o lawenydd yn gystal ag o alar. Dysgai hefyd fod dwfr y puredigaeth o dan y gyfraith i roddi lle i wîn ei deyrnas ef: y dadguddiad cyfoethocaf yn cael ei gadw yn ddiweddaf.

Y cyntaf o'i weithredoedd cyhoeddus (Ioan 2, 15), ac un o'i rai olaf, oedd puro y deml, yr hyn a ddangosai mai efe oedd ei Harglwydd, ac a gyflawnai brophwydoliaeth o eiddo Malachi (pen. 3, 1). Awgrymodd hefyd mai ei gorff ei hun (fel ei eglwys ar ol hyny) oedd i fod y wir deml o hyn allan (Ioan 2, 21), lle y buasai Duw ei hunan yn preswylio.

Ei bregeth gofnodedig gyntaf oedd wrth Nicodemus ar adenedigaeth, ar iachawdwriaeth drwy ffydd, ac ar gariad Duw tuag at y byd yn rhoddiad ei Fab. Cyhoeddodd ar yr un amser ei fod yn Fab Duw, ac yn Fab y dyn; fod ei deyrnas i gael ei sefydlu yn nghalonau dynion; a'i fod ef ei hunan i gael ei dderchafu fyny, nid ar orsedd ddaearol, ond ar y groes. Gan hyny, yr oedd amgylchiadau cyntaf ei fywyd yn Jerusalem yn gosod allan wirioneddau oedd mewn sylweddolrwydd arswydus yn gorfforedig yn y rhai olaf. Ei *ail* bregeth oedd i'r wraig o Samaria, yr hon a ddiweddodd yn argyhoeddiad llawer o'r Samariaid. Y llwyddiant helaeth cyntaf ar genadwri ein Harglwydd a gymmerodd le mewn dosparth oedd yn fwyaf dirmygedig, a lle nad oedd wedi cyflawnu dim gwyrthiau. Y gwrthodiad *cyntaf* a gafodd oedd yn Nazareth.

Mor addysgiadol yw sylwi, er fod "yr holl luaws dysgyblion" wedi llawenychu a moliannu Duw ar eu ffordd i Jerusalem, "am yr holl weithredoedd nerthol y rhai a welsant," etto, o fewn wythnos, yr oedd un wedi gwadu ein Harglwydd, ereill wedi cysgu yn ystod ei ing, a'r oll o honynt wedi ei adael. "Sathrodd y gwinwryf ei hunan," er nad oedd y brophwydoliaeth hono, ychydig ddyddiau cyn hyny, yn ymddangos yn debyg o gael ei chyflawnu.

Y dydd ar ol hyn, traddododd ddammeg y llafurwr annghyfiawn, gan honi ei fawrhydi ei hun fel "y mab," a chan ragfynegu ei farwolaeth.

Ymddengys i'r ymrafael rhwng y dysgyblion yn nghylch pa un o honynt fuasai fwyaf, gael ei benderfynu drwy i'n Harglwydd gymmeryd tywel, ac ymwregysu, a golchi eu traed hwynt, gan eu dysgu fel hyn, fod y mwyaf yn eu plith i fod megys un yn gwasanaethu. Cymharer Luc 22, 24—30, â Ioan 13, 1—20.

Er i Pilat gyhoeddi nad ydoedd yn cael dim bai ynddo, ac er i Herod gydnabod nad oedd un cyhuddiad yn ei erbyn yn haeddu angeu, etto, sylw gofalus i drefn yr hanes a ddengys iddo gael ei groeshoelio ar y cyhuddiad o gabledd—gwneuthur ei hunan yn *gyfartal a Duw*. Rhaid mai hyn oedd ei wir gymmeriad, neu ynte condemniwyd ef yn gyfiawn.

Canfyddir mai *wedi* i Judas Iscariot adael y gymdeithas y rhoddodd ein Harglwydd y gorchymyn newydd i'w ddysgyblion, y sefydlodd y swper

ddiweddaf, ac y traddododd yr araeth ymadawol dyner a gofnodir yn Ioan 14—16.

Cymmerir i fyny yn agos *un rhan o dair* o'r efengylau gan y dygwyddiadau a gymmerasant le yn y saith niwrnod olaf o fywyd ein Ceidwad, a chymmeryd i fewn ei groeshoeliad. Efe ei hun a eglura y lle helaeth a roddir i'r amgylchiadau yma. "Daeth yr awr y gogonedder Mab y dyn. Yn wir, yn wir, meddaf i chwi, oni syrth y gronyn gwenith *i'r ddaear a marw*, hwnw a erys yn unig; eithr os bydd efe marw, efe a ddwg ffrwyth lawer."

150. Nid llai addysgiadol yw y cyssylltiad rhwng gwyrthiau â dammegion. O berthynas i ddammegion, gwel Rhan I., adr. 418. Gyda golwg ar y gwyrthiau, gallwn gymmeryd yr 8fed a'r 9fed o Fathew. Y mae Crist yn gyntaf, â *chyffyrddiad*, yn iachau y dyn a gyhoeddwyd gan y gyfraith yn aflan (8, 2—4); ac wedi hyny y mae yn myned yn mlaen i honi mewn modd ymarferol ei awdurdod ar glefydau (14—17), ar gythreuliaid eu hunain (16), ar y greadigaeth anianyddol (23—27), ac ar anifeiliaid afresymol (28—34). Beth all fod yn fwy cyflawn nâ'r golygiad yma o'i deyrnasiad? Yn mheu. 9, canfyddwn efyn ei deyrnas ysbrydol, yn maddeu pechod (1—8), ac yn ateb gweddi, uniongyrchol (20—22), eiriolus (23—26), unol (27—31), anlafaredig (32—33). Dichon y gellir ammeu mai y rhai hyn yw agweddau nodweddiadol y gwyrthiau hyn, ond y mae iddynt agweddau nodweddiadol, a'n doethineb ni yw ymofyn pa rai ydynt, a'u chwilio.

Felly hefyd o berthynas i'r amgylchiadau yn mha rai y cyfododd Crist y meirw. Yn achos merch Jairus, nid oedd yr ysbryd ond newydd adael y corff; yr oedd mab y wraig weddw o Nain yn cael ei ddwyn tua'r bedd; a'r gorchymyn i Lazarus a roddwyd i un oedd wedi bod yn farw "eisoes bedwar niwrnod." Crist, gan hyny, a gyfododd y marw oddiar y gwely, oddiar yr elor, ac o'r bedd; cyfres esgynol o anhawsderau, ond oll yn bosibl gydag ef. Heblaw hyny, mewn golygiadau ereill, yr oedd i bob gwyrth ei gwersi priodol ei hun.

Dos. 6. *Pynciau i sylwi arnynt wrth ddarllen yr Efengylau.*

151. Wrth fyfyrio y Testament Newydd, yn enwedig yr efengylau, y mae yn angenrheidiol ymchwilio a chymharu. Yr ysgrifeniadau ysbryddoledig ydynt yn anfeidrol gyfoethog mewn gwirionedd, ac y mae pob adnod wedi ei chyssylltu yn y fath fodd â'r gweddill o'r llyfr, fel y gallai ymofynydd deallgar yn hawdd ëangu ei ymchwiliadau oddiwrth un adnod dros yr holl Ysgrythyr. Heb amcanu dyspyddu pynciau o ymchwiliad nodwn y canlynol. Gall y llythyrenau gael eu cyssylltu â phob adnod neu beidio, yn unol â chwaeth y darllenydd.

A. Pa *gyfaleddau* (*analogies*) rhwng pethau naturiol ac ysbrydol y gellir eu holrhain yma?

a. Pa brophwydoliaeth a *gyflawnir* yma? Pa le y mae? Pa bryd yr ysgrifenwyd hi? Pa rheol ddehongliyddol a eglurir?

B. Pa *fendith* sydd yma yn cael ei cheisio, neu ei chydnabod, neu ei haddaw, a phaham?

C. Pa *arferiad* y cyfeirir ato yma?

c. Pa nodwedd o *gymmeriad* a roddir yma? da neu ddrwg? yn perthyn i'n cyflwr naturiol neu adnewyddol? pa fanteision a gyssylltir âg ef?

D. Pa athrawiaeth a ddysgir yma? pa fodd yr eglurir hi? beth yw ei dylanwad ymarferol?

d. Pa *ddyledwydd* a gymhellir yma, a pha fodd? oddiwrth pa gymhellion?

D. Pa *anhawsder* a geir yma mewn hanes neu mewn athrawiaeth? a pha fodd y mae ei egluro.

E. Pa *brofiad efengylaidd*, neu heb fod yn efengylaidd, a gofnodir yma?
e. Pa siampl a roddir yma o'n blaen, mewn pechod neu santeiddrwydd? pa wersi?
F. Pa *ffeithiau* a fynegir yma? pa athrawiaeth neu ddyledswydd a eglurir ganddynt? a ydych yn eu canmol neu yn eu beio? a phaham?
G. Beth yw sefyllfa *ddaearyddol* y wlad, neu y lle yma? a pha beth yw ei hanes?
H. Pa ffeithiau o *hanesiaeth naturiol*, neu *hanesiaeth gyffredinol*, a eglurir, neu a gyfeirir atynt yma?
I. Pa *sefydliad* neu ordinhad a nodir yma? ar bwy y mae yn rhwymedig? beth yw ei dyben? beth yw y cyssylltiad rhyngddi hi a sefydliadau ereill?
i. Pa *addysgiadau* y gellir eu casglu oddiwrth y ffaith, neu y ddammeg, neu y wyrth yma?
K. Pa *wybodaeth* o'r natur ddynol, neu ddiffyg gwybodaeth, a arddangosir yma?
L. Pa ymadroddion arddunol o sel addoliadol?
l. Pa sefydliad Lefiticaidd a nodir yma? paham y cafodd ei sefydlu?
M. Pa *wyrth* a gofnodir yma? gan bwy y gwnaed hi? yn enw pwy? beth oedd y canlyniadau? a pha beth a ddysgir?
N. Pa beth teilwng o sylw sydd yn yr *enw* yma?
P. Pa *waharddiad* a roddir yma? pa un ai gair, neu feddwl, neu weithred, y mae yn ei gondemnio?
p. Beth yw ystyr y *ddammeg* a roddir yma? pa wirionedd perthynol i Dduw, Crist, dyn, "y deyrnas," a ddysgir yma?
P. Pa *addewid* a roddir yma, ac i bwy?
R. Pa brophwydoliaeth a gofnodir yma, ? a gyflawnwyd hi? pa fodd? pa bryd?
S. Pa *bechod* sydd yma yn cael ei gyhoeddi?
s. Pa *sect* a gyflwynir i sylw yma? nodwch ei daliadau.
T. Pa *gysgod* a *olrheinir* yma?
t. Pa *fygythiad*? a gyflawnwyd ef?
U. Pa weithred *annghyflawnadwy* o eiddo dyn da? pa *ragoriaeth anarferol* mewn dyn annuwiol?
W. Pa *wae* gyhoeddir yma? pa *rybydd* a roddir? yn erbyn pwy? a phaham?
X. Pa beth a ddysgir yma am waith, cymmeriad, neu berson Crist?
x. Pa arucheledd mewn meddwl neu mewn iaith sydd yma? pa gasgliad sydd yn canlyn?

Gwersi i'w casglu wrth gymharu adranau (passages).

152. Yn lle nodi y gwersi a ddysgir mewn adnodau unigol, y mae eu cymharu, weithiau, yn ddefnyddiol, mewn trefn i gael allan, a chyferbynu y dyledswyddau neu y gwirioneddau a gynnwysant. Y rhai canlynol (wedi eu cymmeryd o Gymborth Nichol), ydynt enghreifftiau. Gellid ychwanegu llawer atynt.

Rhoddwch enghreifftiau o bresenoldeb yr Arglwydd yn yr addoliad cyhoeddus, yn y deml, ac yn y synagog; ei ymostyngiad i ddefodau a seremoniau cyfraith Moses (Luc 4, 16; Ioan 7, 37); ei ymneillduad i weddio yn ddirgel, ac o dan ba amgylchiadau (Math. 14, 23; 26, 36; Marc 1, 35; Luc 6, 12); ei weddiau dros ereill (Luc 22, 32, dros Pedr; Ioan 17, dros ei eglwys; Luc 23, 34, dros ei elynion); ei weddiau gydag ereill (Luc 9, 28).

Rhoddwch enghreifftiau o'i ymostyngiad i ewyllys ei Dad nefol (Ioan 4, 34; 5, 30; 18, 11); ei sêl (Ioan 2, 17; 4, 31—34; Luc 9, 51, &c.); ei waith yn rhoddi tro gwelliadol i ddygwyddiadau ac amgylchiadau (Math. 9, 27; Luc 12, 15; Ioan 4, 32; 6, 27; 7, 37); ei ostyngeiddrwydd (Ioan 8, 50; 13, 1, &c.); a'i hunan-ymwadiad.

Rhoddwch egluriadau o'r modd yr ymddygai ein Harglwydd fel mab (Luc 2, 51; Ioan 19, 26); fel cyfaill (Ioan 11); fel deiliad (Math. 17, 24); ac fel dysgawdwr (Math. 11, 29).

Rhoddwch enghreifftiau o'i geryddon, a dangoswch eu sylfeini hwynt yn yr achosion canlynol (ei apostolion, megys Pedr, Math. 16, 23; Luc 22, 61; Ioan 21; Iago ac Ioan, Luc 9, 55; Thomas, Ioan 20, 27; Judas, Ioan 12, 7, 8; dysgyblion ereill, Luc 24, 25). Pa bechodau a ymddangosent yn dwyn allan ei gerydd llymaf (Ioan 8, 44; Math. 23)?

Pa beth a ddywed ein Harglwydd am annghrediniaeth (Math. 11, 21; Ioan 3, 36); am gybydd-dod a drygau ereill; ac am rinweddau neillduol?

Pwy mewn modd neillduol sydd yn wrthddrychau cymmeradwyaeth ein Harglwydd, ac am ba beth (Math. 8, 10; 15, 28; 26, 13; Luc 10, 42; 21, 3)?

Pa bryd y rhoddodd ein Harglwydd dramgwydd, a pha beth a'i hachlysurodd (Marc 6, 3; Ioan 6, 66; 19, 7)?

Pa gyhuddiadau a ddygwyd yn erbyn ein Harglwydd? Ar ba enwau drwg y cafodd ei alw? Cesglwch yr amrywiol resymau a roddwyd gan unigolion dros ei ganlyn, neu dros ei wrthod ef (Marc 6, 3; 10, 22; Ioan 7, 41). Pa reswm y mae efe yn ei roddi?

Rhoddwch enghreifftiau o lywodraeth ein Harglwydd ar ei dymher, o dan amgylchiadau a dueddent i'w mawr gynhyrfu (Math. 27, 14; Luc 22; Ioan 13); ac o'i waith yn cydymddwyn â gwendidau rhai ereill (Ioan 20, 27; Math. 26, 41).

O dan ba amgylchiadau y trodd ein Harglwydd oddiwrth y rhai a appelient ato, ac y gwrthododd gydsynio â'u cais (Marc 8, 11, 12; 10, 35, &c.; Luc 23, 8), neu yr ymddangosodd megys yn rhwystro eu dyfodiad (Math. 8, 19, 20; Marc 5, 19; Luc 14, 25, &c.)?

Dywedir yn Esaiah 52, 13, y buasai iddo "wneyd yn gall." Gwel ei gallineb yn gwrthod ymyraeth dim âg amgylchiadau gwladol (Luc 12, 13, Ioan 6, 15); ac mewn arfer moddion er amddiffyn ei fywyd (Math. 4, 12; Marc 3, 6, 7; Ioan 7, 1—10; 10, 39; 11, 53, 54); ac hefyd ei ddoethineb mewn cyfaddasu ei addysgiadau i'w wrandawwyr.

Pa beth a ddywed ein Harglwydd o berthynas i'r egwyddor fawr a'i cynhyrfai yn yr hyn oll a wnelai (Ioan 4, 34)? hefyd, gyda golwg ar amcan ei ddyfodiad i'r byd (Math. 20, 28; Luc 19, 10; Ioan 9, 39; 10, 10; 18, 37)?

Pa fodd y mae ein Harglwydd yn desgrifio cyflwr dyfodol o ddedwyddwch ac o drueni? Pa fodd y darlunia ei deyrnas a'i ail ddyfodiad?

PENNOD VI.

LLYFR YR ACTAU.

Dos. 1. *Yr Efengyl a'r Cenedloedd.*

153. Ac yn awr y mae yr efengyl yn nghylch cael ei gwasgaru yn mysg y cenedloedd. Yn Llyfr yr Actau rhoddir hanes ei llwyddiant yn Judea (1—7), yn Samaria (8), ac wedi hyny "hyd derfynau eithaf y ddaear" (10—28). Gofyniadau addysgiadol, gan hyny, ydynt—pa mor bell yr oedd angen yr efengyl ar y cenedloedd? a pha wirioneddau newyddion a ddadguddiodd iddynt?

Rhai a atebant drwy haeru i'r efengyl gael ei chroesawi i'r byd cenedlig yn benaf fel cyfraith o foesoldeb perffaith; ereill, gyda Paley, a gadarnhant mai ei phrif ragoriaeth oedd ei dadguddiad o fywyd tragywyddol; ac

ereill a ddywedant yn mhellach, ei bod mewn modd hanfodol yn ddadguddiad o *grefydd*, gan nad oedd moesoldeb y paganiaid ond gwladyddol neu lëygol yn unig, ac nid yn ysbrydol neu grefyddol. Nid ydyw yn dywedyd dim, meddant, am berthynas dyn â Duw, ac nid oedd yn seilio syniad moesol ar ei gymmeriad neu ei ewyllys. Ychwanegir fod Josephus, mewn modd penodol, yn nodi y neillduolrwydd yma. Y mae moesoldeb heb grefydd, medd efe, gan genedloedd ereill; yn mhlith yr Iuddewon yn unig y gwneir crefydd yn sylfaen rhinwedd.

Er nad ydyw y mynegiadau yma yn rhoddi boddlonrwydd, etto, y mae pob un o honynt yn cynnwys cyfran o'r gwirionedd. Ni chyrhaeddwn yr holl wirionedd heb eu cyssylltu, ac ychwanegu ereill na chynnwysir ynddynt. Gellir, mewn gwirionedd, ei symio i fyny mewn un frawddeg—Dadguddiad Iesu Grist, a Duw ynddo ef, yw yr efengyl—ond y mae y crynodeb yma yn cynnwys neillduolion, ac y mae yn rhaid eu gosod i lawr yn fanwl, cyn y canfyddwn ei sylwedd a'i phrydferthwch.

154. (1.) Gwybodaeth anmherffaith iawn oedd gan ddynion am eu natur a'u heuogrwydd, ar wahan oddiwrth yr efengyl. Yr oedd y ffaith eu *bod* yn bechaduriaid yn eglur i bawb. Ond ni wyddent, neu yr oeddynt wedi annghofio, helaethrwydd eu pechod, a'r angenrheidrwydd iddo gael ei gymharu â chyfraith berffaith; ei fod yn cael ei fwyhau, oblegid ei fod yn tarddu oddiwrth *natur* lygredig; a'r euogrwydd hyd y nod o'r llygredigaeth hwnw, yr hwn oedd ei hunan yn ganlyniad, nid damwain neu amgylchiadau, neu unrhyw duedd lygredig yn y defnydd (*ùle*), o ba un y cafodd dyn ei ffurfio, a llai fyth y gallasai fod yn ganlyniad tuedd ddrygionus mewn unrhyw weithred o eiddo Duw, ond yn ffrwyth troseddiad gwirfoddol dyn. Gan hyny, cyfraith yn profi mesur ein heuogrwydd, hanes yn olrhain ein dinystr ni ein hunain, a phrawf yn dangos nad ydyw *natur* dyn yn well nâ'i ymarferiad, ydynt, yn yr ystyr fanylaf, yn ddadguddiadau; ac ymddangosant mor hanfodol i'n hedifeirwch ag i'n hadferiad. Unwaith, meddiannai pawb dynion wybodaeth o'r gwirioneddau yma; ond yn awr nis gellir ei hadennill ond yn unig o'r Beibl.

155. (2.) Nid ydoedd y paganiaid yn llai truenus o ran eu hanwybodaeth am Dduw. Pa un ai un ai llawer ydoedd, neu, fel y daliai y rhan amlaf, ei fod yn llawer ac yn un; pa un, fel y daliai y Stoiciaid, a oedd Duw yn bob peth, a phob peth yn Dduw, ac mai mater ei hunan oedd y dylifiad pellaf o'r Duwdod; neu, fel y cyfyngid yr athrawiaeth gan y Platoniaid, ai ysbryd i gyd oedd Duw, ac mai Duw oedd yr holl ysbryd-oedd, yn deilliaw oddiwrtho ef, ac yn cael eu llyncu i fyny yn y diwedd ynddo ef; neu, ai bôd ydoedd, megys y dysgai Epicurus, nad oedd yn cymmeryd unrhyw sylw o amgylchiadau daearol, nid oedd neb yn gwybod. *Gwyddai* pawb, fodd bynag, fod drygau yr addolwyr wedi eu corffori yn ngwrthddrychau yr addoliad poblogaidd, ac mai anystyriaeth dawel, neu ddirmyg rhinweddol, neu ofn euog, oedd y teimladau gyda pha rai yr edrychid arnynt. Yr oedd Duw o santeiddrwydd, o ragluniaeth, ac o gariad, yn cael ei lywyddu gan uniondeb, naill ai yn berffaith anadnabyddus, neu, os gwnaethid ef yn bwnc o ddadl, edrychid arno gyda dychryn. "Hon," medd Cicero, "yw egwyddor gyffredin yr holl athroniaethau, sef nad ydyw y Duwdod byth yn cael ei anfoddloni, nac yn anfon unrhyw ddrwg ar ddynion;" egwyddor a gynnwysir mor gyflawn yn y cymmeriad moesol a briodolid i'r duwiau, ag yn yr anystyriaeth ddideimlad a dybid mor hanfodol i'w mawrhydi.

156. (3.) Y mae dylanwad y drygau a enwwyd eisoes ar gyfundraeth-

au moesol y paganiaid, yn eglur. Nid oedd y perthynasau a'r gwirioneddau ar ba rai yr oedd moesoldeb yn seiliedig, yn cael eu canfod ond yn anmherffaith, a'r rhwymedigaethau a gyfodent oddiwrthynt a deimlid yn fwy anmherffaith fyth. Yn Groeg, edmygedd o natur allanol oedd grefydd, ac wedi hyny o gelfyddyd; yn Rhufain, edmygedd o wlad oedd grefydd, ac yna o lywodraeth; ac yn Groeg a Rhufain yr oedd yn gynnwysedig mewn grym a chwaeth. Cydnabyddai y ddwy rinwedd wladyddol; ac ar y cyntaf, yr oedd Rhufain yn mawrygu ffyddlondeb teuluaidd fel y rhinwedd wladyddol uchaf; ond nid oedd gan grefydd yn un o'r ddwy wlad unrhyw duedd foesol dda, ac yn y ddwy, daeth crefydd yn brif weinyddes penrhyddid a drygioni.

157. (4.) Ac nid attelid y duedd yma gan unrhyw grediniaeth o anfarwoldeb ymwybodus. Adgyfodiad y meirw a wrthodid yn gyffredinol, fel peth gwrthun. Anfarwoldeb yr enaid, mewn modd priodol, nid oedd neb yn ei ganiatâu. Yr oedd ychydig yn dueddol i ddàl y gallasai eneidiau dynion fyw mewn cyflwr o hanner ymwybodusrwydd llènawg, neu hyd y nod fwynhau cymdeithas eu duwiau *am amser;* ond yr oedd y profion mor weiniaid, a'r anhawsderau mor bwysig, fel y gorfodwyd Socrates, y penaf o'r athronwyr paganaidd, i gyfaddef nad oedd ond y duwiau yn unig yn gwybod pa un ai byw neu farw oedd oreu.

158. (5.) Nid ydys drwy y mynegiadau yma yn bwriadu gwadu y gellir cael yn ysgrifeniadau rhai hen athronwyr, clasurol a dwyreiniol, gipolwg ar wirionedd mwy dwyfol, yn foesol a golygiannol. Y mae y cyfryw leddywyniadau i'w cael. Ymdrechodd Plato, fel sylfaenydd Buddhiaeth, i ddwyn ffydd dyn yn ol oddiwrth dduwiau gweledig aneirif (*theoi genetoi*) at yr Anweledig mawr (*on*); ymadrodda Socrates yn hyawdl ar "y daionus," "y prydferth." Ond ar y llaw arall, pan y mae Plato a Socrates yn llefaru yn fwyaf cywir, cyfaddefant nad ydynt ond yn dychymmygu gyda golwg ar y gwirionedd, ac nas gellir dywedyd pa un a yw eu penderfyniadau yn gywir ai peidio, hyd nes yr ymddangoso rhyw ddysgawdwr Dwyfol .... Yr oedd y gwir anhawsdra yn yr holl ymofyniadau yma yn aros; anhawsder a dynodd filoedd i ganlyniadau a gondemnid gan eu hegwyddorion penaf. Os yw dyn fel yma yn euog—os rhinwedd yw hyn—os ydyw Duw yn gyfiawn—os ydyw bywyd arall yn beth sylweddol; pa fodd y mae i ddyn gyrhaedd y purdeb a'r gwynfydedigrwydd am ba rai yr ydym fel hyn yn breuddwydio? Yn absenoldeb goleuni, *gwadent* y gwirioneddau a *ofnent;* neu, yn erbyn goleuni, *canlynent* y drygioni a garent, hyd oni fedent ffrwyth eu hymarferiad mewn lleihad gwybodaeth a phechod dyfnach.

159. (6.) Yr oedd cyflwr moesol y Cenedloedd, at ba rai y daeth yr efengyl, yn gyfryw yn gywir ag y buasai eu hanwybodaeth, a'r tueddiadau llygredig yn mha rai y gwreiddiodd yr anwybodaeth hono, yn ein harwain i ddysgwyl iddo fod. Desgrifiwyd ef gan Paul yn yr Epistol at y Rhufeiniaid; ac y mae Wetstein, Tholuck, ac ereill, wedi dangos oddiwrth awdurdodau henafol, nad oes un cyffyrddiad gormodol, a rhy dywyll, yn narlun yr apostol.

Dyma y drygau oedd i gael eu gwrthwynebu gan yr efengyl; a hi a ddarostyngodd y drygau yma. Yr oedd yr efengyl yn addas i'r angenion oedd yn cael eu dynodi gan y drygau yma. Ysgafnhäodd yr angenion yma, a hi yn y diwedd a'u symuda hwynt ymaith am byth.

160. Y cyfryw yw natur yn mhob man heb ddadguddiad—dyn heb Dduw. Y drygau a olrheinir fel hyn yn Groeg a ail ymddangosant yn India, ac yn nghanol ein gwareiddiwch gorllewinol. Dyn heb y Beibl, a

dyn yn gwrthod y Beibl (yr olaf yn fwyaf cyflym) yn tueddu at yr un cyflwr; ac i symud ymaith y cyflwr yma, y mae yr efengyl wedi ei bwriadu. Ei hanfod yw bywyd a gwaith ein Harglwydd. Yr oedd efe yn *ddyn:* dibechod a santaidd, fel yr oedd dyn unwaith. Efe a ufyddhäodd i'r gyfraith a droseddasom ni, ac wrth ufyddhau iddi, efe a'i heglurodd ac a'i cymhellodd. Bu efe farw drosom, gan ddangos drwy hyny yr hyn a haeddai ein pechodau ni, yn nghyd â'r modd y gallwn gael maddeuant oddiwrthynt oll. Yn ein natur, ac fel ein cynnrychiolydd, efe a orchfygodd angeu, ac a esgynodd at Dduw, yn ernes ac yn brawf o'n derchafiad ninau. Yn y nefoedd, y mae yn ffurfio rhwymyn yr undeb rhwng Duw a dyn, yn cynnwys ein natur ni gyda'i natur Ddwyfol ef; ac yn barod, er ein llesâd ni, i ddefnyddio ffrwythau ei weinidogaeth, sef ei allu gyda Duw, a'i gydymdeimlad â'n gwendidau ni. .... Yr oedd efe yn *Dduw,* dysgleirdeb gogoniant y Tad, gwir lun ei berson ef, y Duw tragywyddol mewn ffurf ddynol, ac fel hyn yn cyflawnu dymuniadau llawer am rhyw wrthddrych i'w barchu ac i'w garu. Dangosodd yn ei weithredoedd beth yw Duw; yn ei dynerwch a'i santeiddrwydd, dadguddiodd y perthynasau hyny, yn mha rai, fel yr ydym ni eisoes yn gwybod, y mae efe yn sefyll i ddyn; a dadlenodd ereill sydd hyd y nod yn fwy cyfaddas i ddylanwadu ar ein calonau. Yr oedd dynion wedi casglu oddiwrth ei weithredoedd ei fod yn Greawdwr a Chynnaliwr; ac ofnent y gallasai ddyfod yn Farnwr. Ond yma canfyddir ef fel ein Brawd, ein Prynwr, a'n Cyfaill. Y mae y Deddf-roddwr yn dyfod yn ufydd i'w gyfraith ei hun, ac yn dwyn ei chospedigaeth; tra y mae ei sefyllfa yn sicrwydd i ni o ddigonolrwydd ei aberth. Nid oedd neb yn gwybod euogrwydd dyn gystal, ac nid oedd neb yn gwybod gystal am hawliau ei lywodraeth ei hunan; y cyntaf a ddilëwyd, a'r olaf a anrhydeddwyd yn ei ddyoddefiadau ef. Heblaw hyny, wrth ddwyn oddiamgylch amcan mawr ei genadwri, cyflawnodd waith yn yr hwn y cydgyfarfydda elfenau pob gallu: dros ddyn a chyda Dduw. "Wedi ei dderchafu," y mae yn "tynu pawb" ato; a thrwy esgyn i fyny, derbyniodd roddion i ddynion, edifeirwch a maddeuant pechodau, santeiddrwyd a bywyd tragywyddol. Mewn gair, dadguddiad yw yr efengyl o ddyn, ac o Dduw; o berthynasau newyddion, ac o foesoldeb perffaith; o fywyd tragywyddol, yn cael ei brofi, nid gan resymau, ond gan ffeithiau; ac, uwchlaw y cwbl, o gyfundrefn gymmodawl, yr hon sydd yn cyssoni, yn cymhell, ac yn egluro ei holl ddadleniadau ereill, ac yn ei haddasu i fod yn "newyddion da o lawenydd mawr i'r holl bobl." Y mae ar unwaith yn gyhoeddiad o gyflawnder, santeiddrwydd, a chariad anfeidrol.

161. Fe allai y byddai yn fuddiol nodi yma y gwahaniaeth sydd rhwng amrywiol lyfrau y Testament Newydd. Yn yr efengylwyr, cawn yr efengyl wedi ymgnawdoli; daeth Crist *i fod* yn efengyl, ac *i wneuthur* yr hyn oedd i ffurfio sylfaen ei eglwys. Yn yr efengylau, gan hyny, er fod llawer yn cael ei ddadguddio, etto y mae llawer yn cael ei lènu gan ymadroddion tywyll. Ei farwolaeth, ei adgyfodiad, rhoddiad yr Ysbryd, natur ei deyrnas, galwad y Cenedloedd, ei ail ddyfodiad, ydynt oll yn cael cyfeirio atynt, eu rhagfynegu, neu eu cyflawnu; ond, er hyny, yn yr efengylau, edrychwn am y ffeithiau sydd i roddi pwys i ryw ddadleniadau dyfodol ar y pynciau yma, yn hytrach nag am ddysgeidiaeth eglur. Nid oes un gwirionedd ysbrydol nas gellir ei gael yn yr hanes; ond, er canfod cyflawn ystyr yr hanes hwnw, y mae dadguddiadau diweddarach yr Ysbryd yn angenrheidiol..... Yn Llyfr yr Actau, dysgwn ystyr llawer o ddysgeidiaeth ein Ceidwad oddiwrth gymmeriadau a bucheddau Cristionogion, a

gweithrediadau rhagluniaeth Duw. Yn yr Epistolau, canfyddwn athrawiaeth a dyledswydd, yn eu cyssylltiadau a'u tueddiadau, a'r cyfan yn cael ei egluro a'i gymhell mor berffaith ag y gwelodd Ysbryd Duw hyny yn angenrheidiol i'n cyflwr presenol ni. Yn Llyfr y Datguddiad, olrheiniwn hanes yr athrawiaethau yma, fel y maent wedi eu corffori yn yr eglwys hyd ddiwedd amser. Yr Epistolau a *eglurant* ac a *gymhwysant* yr hyn y mae yr Efengylau yn ei *ddarlunio*. Y Dadguddiad a gwblha yr hyn a ddechreuir yn yr Actau; ac y mae pob rhan yn gyflawniad o'r llall, a'r ffeithiau perthynol i fywyd ein Harglwydd yn sylfaen i'r cwbl.

Dos. 2. *Arweiniad i Lyfr yr Actau.*

162. Cynnwysa y llyfr yma hanes foreuol yr eglwys Gristionogol, mewn dwy brif ddosran; y gyntaf yn dàl perthynas â lledaeniad Cristionogaeth yn Mhalestina, yn benaf drwy offerynoliaeth Pedr, pen. 1—12; a'r ail yn rhoddi hanes ei gwasgariad drwy wledydd ereill, gan mwyaf drwy lafur Paul (13—28). Tra y mae y llyfr fel hyn yn ymranu yn ddwy ddosran, etto y mae yn darlunio yr eglwys mewn tair *sefyllfa*. Desgrifir y *gyntaf* yn pen. 1.—11, 18, lle y mae yr eglwys yn hollol Iuddewig, er fod dysgybl Rhufeinig wedi ei fedyddio gan Pedr yn Cæsarea, o. c. 30—41. Ceir yr *ail* gyfnod yn pen. 11, 19, hyd pen. 15. Y mae yr elfen Iuddewig o hyd yn ffynu, ond y mae dysgyblion cenedlig yn lluosog, o. c. 42—50. Rhoddir y *drydedd* yn pen. 16.—28, ac yma cawn sefyllfa y cenedloedd yn cael ei ddarnodi, a llawer o eglwysi yn cael eu ffurfio yn mhlith y paganiaid, o. c. 51—63.

Nid ydyw, fodd bynag, i gael ei ystyried yn hanes rheolaidd a chyflawn o'r eglwys. Llawer o weithrediadau pwysig, at ba rai y cyfeirir mewn manau ereill, ydynt wedi eu gadael allan. Ni rydd unrhyw hanes am yr eglwys yn Jerusalem ar ol carchariad a gwaredigaeth Pedr, nac am gyflwyniad yr efengyl i Rufain, nac am lawer o fordeithiau a llongddrylliadau Paul, a nodir yn 2. Cor. 11, 25; tra nad oes ynddo braidd ddim hysbysiaeth am lafur helaeth apostolion ereill, heblaw Pedr a Phaul.

Megys y mae yr Efengylau yn mhell o fod yn cynnwys mynegiad cyflawn o'r hyn oll a ddywedodd ac a wnaeth ein Harglwydd bendigedig, ac mai hanesion ydynt sydd yn hytrach yn darlunio ei gymmeriad, ei waith, a phrif ddygwyddiadau ei fywyd, yn ngbyd a chyflwyniad cyntaf yr oruchwyliaeth Efengylaidd; felly, nid ydyw yr Actau yn gofnodiad cyflawn o lafur ei apostolion ef; ond mynegiad o ffeithiau ydyw yn hytrach, y rhai a gadarnhant wirionedd y grefydd Gristionogol, ac a eglurant ei gallu a'i gweithrediad; a phrofant hawliau y cenedloedd i gael eu derbyn i'r eglwys, yn ngwyneb y gwrthddadleuon a ddygid yn erbyn hyny gan yr Iuddewon crediniol.

Rhoddwyd ychydig o hanes Luc, awdwr y llyfr yma, yn y rhagymadrodd i'w efengyl ef, ac o'r hon y mae yn eglur fod y llyfr yma yn barhad, oblegid y mae y ddau yn cael eu cyflwyno i'r un person, a chymmerir yr hanes i fyny yn yr Actau yn y man y gadawwyd ef yn yr efengyl. Oddiwrth ei ddefnyddiad mynych o'r gair *ni*, eglur yw ei fod yn bresenol pan gyflawnwyd llawer o'r gweithrediadau a nodir ganddo. Aeth gyda Phaul o Troas i Phillipi (16, 11); ac y mae yn debyg iddo aros yno hyd ail ymweliad yr apostol, ddwy flynedd ar ol hyny, pryd y gadawodd y ddinas hono yn ei gymdeithas (20, 6); ac o'r pryd hwnw hyd derfyniad yr hanes, ymddengys fel cydymmaith i'r apostol. Aeth gydag ef i Jerusalem, ac

wedi hyny i Rufain, lle yr arosodd gydag ef, o leiaf, am ystod y rhan gyntaf o'i garchariad, megys yr ymddengys oddiwrth ddau o'r epistolau a ysgrifenwyd gan Paul o'r ddinas hono, Col. 4, 14: Philem. 24. Am nad ydyw ei enw yn ymddangos yn yr Epistol at y Phillipiaid, a ysgrifenwyd heb fod yn hir iawn ar ol hyny, yr ydys wedi tybied ei fod y pryd hwnw wedi ymadael â Rhufain. Ond ar ail garchariad Paul yn Rhufain, y mae Luc etto gydag ef, 2 Tim. 4, 11.

Ni wyddis yn iawn *yn mha le*, neu ar ba amser penodol, yr ysgrifenwyd y llyfr yma. Pa fodd bynag, gan fod yr hanes yn cael ei pharhau hyd yr ail flwyddyn o garchariad cyntaf Paul yn Rhufain, ac yn tòri ymaith yn y fan hono heb nodi canlyniadau ei brawf neu ei ryddhad, gellir tybied iddo gael ei ysgrifenu tua o. c. 63; ac y mae geiriau diweddol yr hanes yn hytrach yn awgrymu fod yr ysgrifenydd y pryd hwnw mewn pellder oddiwrth yr apostol, ac nid mewn cyfathrachiad uniongyrchol âg ef. Yr ydys, gan hyny, wedi nodi Antioch fel y lle yr ysgrifenwyd ef ynddo; ac yr ydys, gyda llawer o reswm, wedi tybied mai preswylydd yn y lle hwnw oedd Theophilus (gwel Horæ Efan. gan Birks).

Y mae hanes y llyfr yma yn dra addysgiadol.

162. (1.) Sylwer pa fodd y mae natur Ddwyfol ein Harglwydd yn cael ei chydnabod. Offrymir gweddi ato gan Stephan (7, 59, 60), a chadarnhëir gan Pedr ac Ananias fod y gyfryw weddi yn ddarluniadol o'r Cristion (2, 21: 9, 14: gwel 1 Cor. 1, 2.) Llefara Pedr am Grist fel Arglwydd pawb oll (10, 36, felly hefyd 14, 23; 20, 35); ac y mae y teitl yma yn cael ei briodoli yn ddiwahaniaeth drwy yr holl lyfr i'r Tad, ac i'r Mab (10, 36: 9, 34, 35, 42; 11, 16, 20—23; 13, 2, 7, 10—12, 48). Y fath yw dysgeidiaeth cyfundraeth sydd yn condemnio *eilun-addoliaeth*, ac yn hawlio y parch goruchaf i *Dduw yn unig*.

Ei swydd a'i waith a ddadguddir yr un mor eglur. Yn union ar ol ei esgyniad, cyfeiriodd Pedr ato fel cyflawniad yr addewid a roddwyd i'r tadau, fel yr hâd yn yr hwn yr oedd yr holl genedloedd i gael eu bendithio (3, 20—26). A chyhoeddent y gwirionedd *beunydd* o dŷ i dŷ (5, 42). Pan argyhoeddwyd Paul, efe "yn ebrwydd a bregethodd *Grist*." Pum mlynedd ar hugain yn ddiweddarach nâ hyn, yr hanes olaf a gynnwysa y llyfr yw, ei fod yn dysgu "y pethau am yr Arglwydd Iesu" (9, 20; 28, 31). Gwel hefyd 2, 22—40; 10, 34—43; 13, 16—41; 17, 18, 22—31..... Wrth chwilio yr hanes ysbrydoledig yn fanylach ar y pwnc yma, cawn nad oes ond un genadwri yn mhob man,—yn Jerusalem i'r Iuddewon, yn yr anialwch i'r Ethiopiad, i Gornelius hael a duwiolfrydig yn Cæsarea, i'r Groegiaid beilchion yn Athen, ac yn mhob man traddodir hi yn gyflawn ac heb un attaliad (cymharer 2; 8, 35; 10, 42, 43; 17, 31), a bod ffydd ynddi yn hanfodol i iachawdwriaeth (4, 11, 12). Cynnwysa iachawdwriaeth faddeuant pechod, cyfiawnhad cyflawn gerbron Duw, a santeiddrwydd (2, 38; 13, 39; 26, 18), y cyfan wedi eu prynu drwy ddyoddefiadau a marwolaeth Crist (17, 3; 20, 28), a'u cyfranu drwy yr Ysbryd (5, 31; 1, 4; 2, 33); ac fel y mae Crist yn Geidwad ac yn Arglwydd, felly efe yw y Barnwr (10, 42; 17, 31)..... Os gelwir y rhai hyn yn athrawiaeth Paul, ac nid yn eiddo Pedr neu Grist, atebwn y camddarluniad drwy gyfeirio at y ffeithiau a gofnodir, yn enwedig yn y llyfr yma (10, 43; Ioan 3, 16, &c.)

(2.) Ac nid ydyw natur a swydd yr Ysbryd Glân yn cael eu dadguddio yn llai eglur. Geilw Pedr ef yn Dduw (5, 3, 4), ac ystyria bechod Ananias fel gwadiad o'i hollwybodaeth. Yr hwn a elwir gan Esaiah yn Jehofah,

a elwir gan Paul yn Ysbryd Glân (28, 25; Esa. 6, 8, 9), tra y mae ei bersonolrwydd (hyny yw, ei fodoliaeth, fel goruchwylydd deallgar ac unigol) yn cael ei gynnwys yn eglur ac yn fynych (8, 29; 10, 19; 13, 2; 16, 7; 20, 28).

Yr oedd ei swydd naill ai yn wyrthiol, yn cyflwyno doniau i iachau, ac i lefaru â thafodau, &c. (2, 17; 1 Cor. 12, 10), neu yn gyffredin. Yn yr apostolion, canfyddid ei allu yn ngoleuad eu meddyliau, symudiad eu rhagfarnau, eu gwroli i'w gwaith, a'u galluogi i gadarnhau eu tystiolaeth drwy wyrthiau nad allasai neb eu hammeu na'u hegluro (3, 1—11; 4, 31; 5, 12—16). Dangosodd ei allu ar yr Iuddewon a wrandawent yr efengyl, drwy eu hargyhoeddi hwynt o bechod (2, 36, 37; gwel Ioan 16, 8), a chyfnewid hyd y nod lofruddwyr ein Harglwydd i fod yn siamplau mewn daioni. I'r un gallu yr ydym i briodoli unoliaeth y Cristionogion cyntaf (4, 31, 32); eu hymroddiad a'u haelfrydedd (2, 45); eu llawenydd wrth ddychweliad y cenedloedd, er ei fod yn ymddangos yn drefniant dirgelaidd (11, 23, 24); eu sefydlogrwydd a'u ffydd. Yr un dechreuad oedd i ddoethineb a chariad, sêl a thangnefedd, Stephan—yr oedd "efe yn gyflawn o'r Ysbryd Glân" (7, 55); ac hyd y nod yr holl eglwysi a gyfranogent o'r fendith (13, 52). Mor addysgiadol a chysurol yw, fod goruchwyliaeth yr Ysbryd wedi cael ei chyflwyno, nid yn unig gydag addewidion neillduol (Luc 11, 13; Ioan 16), ond gydag hanes arddangosiadau cyfoethog o ras. Os canfyddwn waith ein Harglwydd yn yr Efengylau, yn yr Actau gwelwn waith y Goruchwylydd bendigedig, i'r hwn, cyn belled ag y mae a fyno dyn âg ef, y mae gwaith ein Harglwydd yn ddyledus am ei holl lwyddiant. Nid oes arnom eisieu ond mwy o'i ddylanwad i berffeithio y buddugoliaethau a ddechreuir yn yr hanes yma.

(3.) Gan y cawn yn y llyfr yma ddarluniad o gymmeriadau credinwyr unigol, felly yr ydym yn casglu oddiwrtho gymmeriad a threfn eglwysi cyntaf Crist. Fel yr ennillai yr apostolion ddysgyblion, dysgent hwynt i gyfarfod yn barhaus yn enw Crist, ar y dydd cyntaf o'r wythnos; cyfarwyddent hwynt yn yr ordinhadau Cristionogol, a gosodasant weinidogion cyfaddas i borthi a gwylied y praidd, Act. 2, 42; 6, 1—6; 14, 23; 20, 7, 18, 28—32. Ar gymmeriad y rhai oedd i gyfansoddi yr eglwysi cymharer y desgrifiadau a roddir o honynt yn mhob epistol; ac ar gymmeriad y swyddogion, y llythyrau bugeiliol at Timotheus a Thitus. Rhaid peidio byth annghofio mai sefydliad Dwyfol yw yr eglwys, ac y mae yn cydgyssylltu manteision pob ffurf o gymdeithas, i ba rai y mae dynion wedi eu casglu. Nid *caste* ydyw, oblegid ni ddirmyga neb, ac ni wrthoda neb; etto y mae, fel *caste*, yn cadw trefn gyssegredig yn nghanol cyfnewidiadau dynol: *pawb* ydynt freninoedd ac offeiriaid i Dduw. Nid *cymdeithas ddirgelaidd* ydyw, oblegid nid ydyw yn celu dim; ac etto, y mae gan ei haelodau fywyd cuddiedig, a llawenydd, â'r hwn nid ydyw y dyeithr yn ymyraeth. Nid *cenedl* ydyw, oblegid dewisa bersonau unigol o blith pob un o'r cenedloedd, a chynnwysa hwynt oll yn y diwedd; ac etto y mae ei therfynau wedi eu gosod allan yn eglur, ond eu bod yn fwy helaeth. Nid *teulu* ydyw, etto y mae ei rhwymau yn llawn mor dyner, ond yn unig eu bod yn annhraethol ëangach. Un amcan gan yr efengyl oedd dadguddio Crist; ac amcan arall, nid llai amlwg, oedd ffurfio pobl i'w ogoniant ef. Ac y mae y ddau amcan yma yn egluro doethineb a chariad Duw.

(4.) Fel y mae yr efengyl yn ymëangu, sylwer ar y dylanwadau a'i gwrthwynebant, yn nghyd a'r esgusodion a ffurfir i gyfiawnhau gwrthwynebiad iddi. Yr Iuddewon a'i gwrthwynebent fel "yn groes i'w cyfraith

hwynt." Yn mysg y Cenedloedd, megys yn Thessalonica, haerid ei bod yn anngbyfeillgar i Cæsar. Mewn manau ereill, cyhuddent hi o ddymchwelyd y byd a'i wyneb i waered. Ac er nad oedd yr oll o'r cyhuddiadau yma ond esgusodion yn unig, etto yr oedd arnynt rhyw fesur o liw gwirionedd. Gwir reswm y gwrthwynebiad, gan yr Iuddew, oedd, fod yr efengyl yn dysgu cyfiawnder, nid o weithredoedd, ond o ffydd, Rhuf. 10, 3; 1 Cor. 1, 21—25;—gan y Groegwr, ei bod yn dysgu ffolineb llawer, ac annigonoldeb yr oll, o'i ddoethineb ymffrostgar ef; gan y Rhufeiniwr, ei bod yn hawlio yr *unig* addoliad, yn dadguddio nid llawer o dduwiau, ond *un;* a chan bawb, ei bod yn gofyn gostyngeiddrwydd a santeiddrwydd.

Nid ydyw y dylanwadau yma, fel y mae gwaethaf y modd, yn gwahaniaethu ond mewn ffurf yn unig oddiwrth y rhai y mae yr efengyl yn barhaus yn gorfod ymdrechu yn eu herbyn.

Olrheiniwn hwynt yn yr Epistolau, megys yn ein dyddiau ni, yn gweithredu, nid yn unig i wrthwynebu yr efengyl, ond hefyd i'w llygru ac i'w gwyrdroi (Rhan ii., pen. 7).

Dos. 3. *Amseriaeth yr Actau a'r Epistolau. Trefn y cyfan.*

164. Nid ydyw amseriaeth yr Actau a'r Epistolau ond yn unig yn ail mewn dyddordeb i amseriaeth yr efengylau. Yr holl gyfnod cynnwysedig yn yr Actau sydd oddeutu tair ar ddeg ar hugain o flynyddau; yn y cyfrif yma, y mae Winer, De Wette, Eichhorn, Davidson, a Birks, yn cyduno. Usher a Michaelis a'i gwna yn ddeuddeg ar hugain; Greswell a Schott, yn un ar ddeg ar hugain; a rhyw ychydig a'u gwnant yn ddwy, ac hyd y nod bedair blynedd yn llai. Y mae y prawf, fodd bynag, yn gryf o blaid y rhifedi uchaf, ond am fod y dyddiadau yn ymddibynu yn benaf ar ffeithiau mewn hanesyddiaeth gyffredin, a chyd-darawiadau bychain, i ba rai y rhoddir pwys gwahanol gan wahanol ymchwilwyr, y mae braidd yn anmhosibl cyrhaedd sicrwydd.

Casglwn oddiwrth Gal. 1, 18; 2, 1; Act. 9, 26, i dymmor o dair blynedd gyflawn (gwel y Groeg) fyned heibio rhwng argyhoeddiad Paul a'i ymweliad cyntaf â Jerusalem; ac y mae yn debyg mai *yn* y bedwaredd flwyddyn ar ddeg (gwel y Groeg) ar ol yr un amgylchiad yr ymwelodd â hi y *drydedd* waith (Act. 15, 2); talwyd *ail* ymweliad ychydig cyn marwolaeth Herod Agrippa (11, 30; 12, 23). Darllenwn am ddau ymweliad arall ar ol y trydydd ymweliad (18, 18, 22; 20, 6). Yn y cyfamser, treuliodd yn agos dair blynedd yn Ephesus (20, 31), blwyddyn a hanner yn Nghorinth (18, 11), tri mis yn Groeg (20, 3), ac aeth ddwywaith drwy ran helaeth o Asia Leiaf, Macedonia, a Groeg. Carcharwyd ef am *ddwy* flynedd ar ol ei bummed ymweliad â Jerusalem. Galwwyd Ffelix y pryd hyny yn ol, ac anfonwyd Paul i Rufain, lle y bu yn byw ac yn pregethu am ddwy flynedd gyflawn, yn ei dŷ ardrethol ei hunan, heb neb yn gwarafun iddo (28, 30, 31).

Y ffeithiau yma, yn nghyd âg ereill a ymddangosant yn fychain a dibwys, a sefydlant ddyddiadau yr holl hanes. Bu Herod Agrippa, fel y mynega Josephus, farw yn o. c. 44. Collodd Ffelix ei brwyadaeth (*procuratorship*), fel y gellir casglu oddiwrth hanes Josephus, yn o. c. 60. Rhaid hefyd fod Paul wedi cyrhaedd Rhufain o gylch y flwyddyn 61, oblegid yn o. c. 64, dechreuodd erlidigaeth y Cristionogion dan Nero (Tac. An. xiv., 65); ac ar ol yr amser hwnw, yr oedd y fath ddiogelwch ag y llefara Luc am dano yn anmhosibl.

165. Wrth gyfrif yn ol, gan hyny, o'r flwyddyn o. c. 61, cyrhaeddwn y penderfyniadau canlynol:—

Usher.	Tillemont.	Lardner.	Wieseler.	Hanes Len.	Davidson.	Birks.	Yr Amser o'r Flwyddyn.	
o. c.	o. c.	o. c.	o. c.	o. c.	o. c.	o. c.		
63	61	61	61	61	61	61	Gwanwyn	Paul yn cyrhaedd Rhufain, yn gadael Syria yn 60.
60	58	58	58	58	58	58	Pentecost	Paul yn ymweled â Jerusalem, Act. 24, 27; yr oedd yn Philippi ar y *Pasg*, 20, 6.
59	57	57	57	56	57	57	..	Paul, wedi gadael Ephesus 20, 1, yn treulio diwedd y flwyddyn yn *Groeg*, 20, 3.
56	..	..	..	54	54	55	Ionawr ..	Paul yn treulio yn agos dair blynedd yn Ephesus (dwy flynedd a thri mis, neu ychwaneg), 19, 8, 10; 20, 31.
56	53	53	54	53	53	54	Mai	Paul yn ymweled â Jerusalem, 18, 22.
..	..	..	..	..	52	52	..	Paul yn treulio blwyddyn a hanner yn Nghorinth, 18, 11.
..	..	..	..	50	..	51	..	Paul yn gwneyd ail daith drwy Asia a Groeg.
52	51	50	50	50	51	50	Haf	Paul yn ymweled â Jerusalem, 15, 2.
..	..	..	..	45	..	45	..	Taith gyntaf Paul at y Cenedloedd, 13, 14.
44	44	44	45	43	44	44	Pasg	Paul yn Antioch ac yn Jerusalem, 11, 30; 12.
..	..	..	..	42	..	43	..	Paul flwyddyn yn Antioch, 11, 26.
..	..	..	..	41	..	41	..	Paul yn Tarsus.
38	37	39	43	40	41	40	..	Paul yn ymweled gyntaf â Jerusalem, 9, 26; Gal. 1, 18.
35	34	36	40	37	38	37	..	Argyhoeddiad Paul, Gal. 2, 1. Gwel uchod, o. c. 50.
33	..	..	39	37	..	36	..	Marwolaeth Stephan.
33	33	..	30	30	..	30	Pasg	Y Croeshoeliad.

Yr olaf o'r colofnau yma, yr hon, ar y cyfan, a ystyriwn y mwyaf cywir, sydd wedi ei chymmeryd o'r Horæ Evangelicæ, ac nid ydyw yn gwahanjaethu ond ychydig oddiwrth Davidson ac awdwr Hanes Lenyddol y Testament Newydd. Cydunir yn dra chyffredinol yn y ddau brif dyddiad, o. c. 44 a 61; y dyddiadau ereill ydynt yn ymddibynu ar lywyddiaeth Aretas (9, 24, 25), presenoldeb Gallio yn Nghorinth (18, 12), gorchymyn Claudius (18, 2), a phynciau ereill cyffelyb; y cyfan yn rhy fanwl i wneuthur ymchwiliad penodol iddynt yn y man yma. Gellir gweled y profion wedi eu gosod i lawr yn fyr yn Arweiniad Davidson, Cyf. ii.; ac yn fwy cyflawn yn Hanes Lenyddol y Testament Newydd, pen. vi., neu yn Horæ Evangelicæ Birks, tud. 146. Rhoddir y penderfyniadau *cyffredin* yn y dyddiadau yn y Taflenau canlynol.

166. Amseriaeth y Testament Newydd o groeshoeliad ein Harglwydd (o. c. 30) hyd ddiwedd y canon (o. c. 97), tri ugain a saith o flynyddau.

Y Flwyddyn Rufeinig, yr Amherawdwr, ac o. c.		Dygwyddiadau.
	30.	Rhagarweiniad i'r Actau, 1 1–14.
783—8.	30—35?	Dygwyddiadau hyd appwyntiad y diaconiaid, 1, 15–6, 6.
	35—40.	Dygwyddiadau hyd argyhoeddiad Cornelius, 6, 7, 10.
Caligula	40—43.	Dygwyddiadau hyd ledaeniad yr efengyl yn Antioch, 11, 1–26.
4—7.	43—46.	Dygwyddiadau hyd ddiwedd y daith genadol gyntaf, 11, 27–14, 28.
Claudius 10—14.	46—54.	Dygwyddiadau hyd ddiwedd yr ail daith genadol, 15, 1;–18, 22. 1 Thes. (o.c. 52), 2 Thes. (53), Gal. (53, felly Tate, &c.), a ysgrifenwyd yn ystod y daith yma.
Nero 1—6.	55—60.	Dygwyddiadau hyd ddiwedd y drydedd daith genadol, ac appeliad Paul at Cæsar, 18, 23;–26. 1 Cor. (57), 2 Cor., Gal. (57, felly Hug.,&c.), Rhuf. (58), a ysgrifenwyd yn ystod y daith yma.
814—6.	60—63.	Mordaith Paul i Rufain, ei breswyliad yno, 27, 28.
Nero 6—9.	61. Jerusalem.	*Iago* yn ysgrifenu at Gristionogion Iuddewig yn gyffredinol, 1–5.
	62. Rhufain.	*Paul* yn ysgrifenu ei Epistol at yr Ephesiaid, 1–6. Yn fuan ar ol ysgrifeniad yr epistol yma, y mae Timotheus ac Epaphroditus yn dyfod i Rufain; a'r olaf yn dwyn newyddion gydag ef o Colosse. Gwel Col. 1. 1–7.
		Paul yn ysgrifenu at y Colossiaid, 1—4.
		Paul yn ysgrifenu at Philemon ar ran Onesimus, yr hwn, wedi ffoi oddiwrth ei feistr i Rufain, a argyhoeddwyd, Philem.
	63. Rhufain.	*Paul* yn ysgrifenu at y Philippiaid, 1—4.
	63. Itali, tra yn aros am Timotheus.	*Paul* yn ysgrifenu ei agoriad i'r Hen Destament, yr Epistol at yr Hebreaid, 1–13. Timotheus yn cael ei ryddhau, Heb. 13. Paul yn ymweled â Crete, 63, yn gadael Titus yno, ac yn myned i Macedonia, 64.
	63. Babilon.	*Pedr* yn ysgrifenu ei epistol cyntaf at Iuddewon a Chenedloedd gwasgaredig ac erlidiedig, 1 Pedr 1–5.
	64.	*Paul* yn ysgrifenu at Timotheus i Ephesus, 1 Tim. 1, 6.
		Paul[a] yn ysgrifenu at Titus, 1–3.
		Paul yn gauafu yn Nicopolis, yn Dalmatia, a Throas.
	64. Syria.	Judas yn ysgrifenu ei epistol (gwel isod).
	Rhufain.	*Pedr*, mewn dysgwyliad am ferthyrdod, yn ysgrifenu at ddychweledigion Iuddewig a Chenedlig, y rhai oedd ar wasgar drwy Pontus, &c. Merthyrdod Pedr.
	65.	*Paul* yn dyfod i Rufain yn garcharor, ac yn cael ei ddwyn gerbron Nero, 65.
	66, Rhufain.	*Paul* yn ysgrifenu ei ail Epistol at Timotheus, 2 Tim. 1, 3. Yn cael ei ferthyru yn Rhufain (Usher, 67).
		Dinystr Jerusalem (o. c. 70).
		Ioan yn ysgrifenu ei epistol cyntaf, 1—5 (neu o. c. 68).
		Ioan yn ysgrifenu ei ail epistol (neu o. c. 68).
		Ioan yn ysgrifenu ei drydydd epistol (neu o. c. 68).
	75? Syria.	*Judas* yn ysgrifenu ei epistol (gwel 64 o. c., a Rhagar. i Judas).
	96, Patmos.	*Ioan* yn ysgrifenu y *Dadguddiad*, i lanw lle olyniaeth o Brophwydi, 1–22.
	97. Ephesus.	*Ioan* yn terfynu y canon drwy ysgrifenu ei *Efengyl* (meddylia rhai, o flaen yr epistolau.)

[a] Y rhai hyny a ammheuant ail garchariad Paul, ac a dybiant iddo gael ei roddi i farwolaeth yn 64 o. c., a osodant 1 Tim. ar ol Act. 19, 41, neu 20, 1, a Titus ar ol 2 Cor. Gwel o. c. 57.

PENNOD VII.

Yr Epistolau a Llyfr y Dadguddiad.

Dos. 1. *Ar Fyfyrdod o'r Epistolau.*

167. Yn y pumtheg pennod flaenaf o'r Actau, gwelsom yr efengyl yn ymwasgaru drwy yr holl fyd adnabyddus. Yn mhen pump ar hugain o flynyddoedd wedi marwolaeth ein Harglwydd, ymddengys fod eglwysi wedi cael eu ffurfio yn Asia a Phalestina, yn Mabilon a'r Aifft, yn Groeg ac Itali; "mor gadarn y cynnyddodd gair yr Arglwydd ac yr amlhäodd." Lle bynag yr oedd y gwirionedd wedi myned, yr oedd wedi cyfarfod â'r un gwrthwynebiad, ond mewn gwahanol ffurfiau, ac wedi cynnyrchu yr un canlyniadau tangnefeddus a santeiddiol. Fodd bynag, yr oedd cofnodiad mwy parhaus o wirionedd nag allasai "geiriau adeiniog" ymadrodd roddi iddo yn angenrheidiol. Yr ysbryd fu hyd yma yn gwrthwynebu yr efengyl oedd yn awr wedi dechreu ei llygru; ac y mae mewn hudolwyr drygionus duedd gref i fyned waeth-waeth. Amcan *yr Epistolau*, gan hyny, yw egluro mewn ysgrifen yr hyn oedd o'r blaen, i raddau helaeth, wedi ei ddysgu mewn ymadrodd, cadw y gwersi yma mewn coffadwriaeth dragywyddol, a rhoddi y fath ddiwygiadau anuniongyrchol i gyfeiliornadau dechreuol ag a fuasent, ond eu gweddigar fyfyrio, yn cadw yr eglwys ar ol hyny rhag syrthio i heresi.

I gael allan eu meddwl—

168. (1.) Sylwer gan bwy, ac at bwy, y cawsant eu hysgrifenu. Nid ydyw y rheol yma mor hanfodol mewn cyssylltiad âg hanesiaeth neu epistolau, ag mewn cyssylltiad â phrophwydoliaeth; oblegid y blaenaf, yn gyffredin, ydynt yn hunan-ddehongliadol; ond y mae, er hyny, yn bwysig.

O'r un epistol ar hugain, y mae o leiaf dri ar ddeg o honynt wedi eu hysgrifenu gan Paul, ac yn dwyn ei enw ef. Gan mai efe mewn modd penodol oedd apostol y Cenedloedd, y mae yn trin yn helaeth ddirgelwch eu galwedigaeth i ragorfreintiau cyfartal a'r Iuddewon crediniol. Dadleua eu rhyddid oddiwrth iau Moses, annoga hwynt i sefyll ynddo, a phrofa eu bod yn ddarostyngol i gyfraith fawr ffydd a chariad. Mewn amddiffyniad i'w hathrawiaeth, gwrthwynebodd Pedr yn ei wyneb, dyoddefodd dramgwydd y groes (Gal. 5, 11), a syrthiodd yn y diwedd yn ferthyr i'r gwirionedd hwn, a gwirioneddau cyffelyb (gwel Rhagarweiniad i'r 2 Epistol at Timotheus). Ei frawddegau, yn aml, ydynt yn faith a dyrys. Ei ieithwedd sydd lawn o feddwl, tueddol i wyro oddiwrth y testun, ond yn hynod gywir, yn cael ei manwl wylied, ac yn gyfoethog mewn cyfeiriadau at yr Hen Destament. Dylai ei epistolau gael eu hegluro y naill wrth y llall, a chan hanesiaeth. Yn yr Epistol at yr Hebreaid, y mae wedi dangos yn y modd mwyaf argraffiadol pa fodd y mae Crist yn gwblhad a dibeniad i'r *gyfraith*, fel mewn manau ereill y dengys pa fodd y mae i gyfraith.

Pedr, awdwr dau epistol, a ysgrifena gan mwyaf fel apostol yr enwaediad. Dylai ei ysgrifeniadau ef hefyd gael eu darllen mewn cyssylltiad â'r rhanau hyny o'r Hen Destament at ba rai y mae braidd yn mhob brawddeg yn cyfeirio. Iago, gweinidog yr eglwys oedd yn Jerusalem, a ysgrif-

enodd pan oedd gwres ei chariad cyntaf yn dechreu oeri; a phan oedd ffydd oer negyddol yn ymddangos fel yn bygwth dinystrio pob ufydd-dod ysbrydol. Hyn a eglura rediad yr epistol. Nid annhebyg oedd cyflwr yr eglwysi a anerchwyd gan IOAN. Ei ieithwedd sydd gyfoethog mewn arwirebau (*aphorisms*), ac y mae yn ofynol edrych ar ei haeriadau cryfion naill ai yn ngoleuni rhanau ereill o'i ysgrifeniadau ef ei hunan, neu o eiddo Paul. Ni ysgrifenodd JUDAS ond un epistol, ac y mae hwnw yn debyg i'r ail gan Pedr, drwy yr hwn y gellir ei egluro. Y Dadguddiad etto a lefara mewn iaith sydd wedi ei chymmeryd yn helaeth iawn o'r Hen Destament, ac y mae yn angenrheidiol ei gymharu âg Ezeciel, Daniel, a phregethau ein Harglwydd.

I bwy yr ysgrifenwyd pob llyfr? sydd hefyd yn ofyniad pwysig. Yr efengylau a fwriadwyd i addysgu pob dosparth, a llawer o'r hyn a gynnwysant a gyfeiriwyd at bawb. Rhaid cofio mai at Gristionogion proffesedig yn unig, rhai wedi eu galw allan o'r byd, a'u huno mewn cymmundeb ysbrydol, y cyfeiriwyd yr epistolau ar y cyntaf. Cyfeiriwyd tri at ddysgyblion annghyhoedd; tri at efengylwyr; dau, yr Hebreaid a Iago, at gredinwyr Iuddewig yn unig; dau yn mhellach, 1af ac 2il Pedr, at gredinwyr Iuddewig yn fwyaf neillduol; dau ereill, 1af Ioan a Judas, at ddysgyblion Crist yn gyffredinol; y pump olaf a elwir yn epistolau cyffredinol; y naw ereill a anfonwyd at wahanol eglwysi, cynnwysedig yn benaf o gredinwyr Cenedlig. Yn mhob achos, y mae yr awdwr a'r achlysur yn aml yn egluro ac yn esbonio mynegiadau epistol; ond am nad oes genym ond un efengyl i Iuddew a Chenedlddyn, y mae y cymhorth a geir fel hyn yn llai pwysig yn y cyssylltiad yma nag mewn manau ereill.

(2.) Sylwer ar amcan neillduol pob epistol.

Rhyngodd bodd i'r Ysbryd Dwyfol ddysgu dynoliaeth nid drwy draethodau ffurfiol, ond mewn llythyrau ysgrifenedig dan ei arweiniad ef, ac wedi eu cyfaddasu i gyfarfod achosion neillduol, a phob un o'r llythyrau wedi ei fwriadu i gyfarfod â rhyw un achos. Ymofyner, gan hyny, beth yw *amcan amlwg* pob epistol—yr amcan *amlwg*, oblegid camddefnyddio dysgeidiaeth yw chwilio am rhyw amcan cuddiedig, ac esbonio pob rhan mewn cydymffurfiad a *hwnw*, yn groes i'r ystyr naturiol. I'r dyben yma, y mae cynllun Mr. Locke yn deilwng o bob canmoliaeth. Darllener epistol drwyddo ar un eisteddiad, a sylwer ar ei rediad a'i amcan. "Os rhoddodd y darlleniad cyntaf (medd efe) i mi beth goleuni, rhoddodd yr ail fwy; ac felly, parhëais i fyned yn mlaen, gan ddarllen yr holl epistol drosodd bob tro, nes y daethym yn feddiannol ar olygiad cyffredinol da o 'amcan yr ysgrifenydd,' prif ganghenau ei draethawd, y rhesymau a ddefnyddiai, yn nghyd â threfniad y cyfan. Cyfaddefaf nad ydyw hyn i'w gyrhaedd drwy un neu ddau o ddarlleniadau brysiog, rhaid ei ddarllen drachefn a thrachefn, gyda sylw manwl ar rediad yr ymadrodd, ac esgeulusdra perffaith o'r rhaniadau i bennodau ac adnodau. Y llwybr diogelaf yw, tybied nad oes i'r epistol ond un dyben ac un amcan, hyd nes, drwy ddarlleniadau mynych, y gorfodir chwi i ganfod ynddo faterion gwahanol ac annibynol, y rhai a ymddangosant yn ddigon eglur." Bydded i'r cynllun yma gael ei fabwysiadu gan unrhyw Gristion gostyngedig a gweddigar, hyny yw, gan unrhyw un sydd â'i galon, ar y cyfan, mewn undeb âg eiddo yr ysgrifenydd, ac yn gyffredin iawn efe a ganfydda y meddwl yn amlwg. Yn y cyfamser, ac fel bendith bresenol, efe a deimla ac a werthfawroga addewidion a gwirioneddau neillduol i raddau anadnabyddus iddo

o'r blaen. Yr ysgrythyr, mewn gwirionedd, sydd bren bywyd; ei ffrwythau addfed ydynt yn anfeidrol werthfawr, ac hyd y nod ei ddail ydynt i iachâu y Cenedloedd.

I gynnorthwyo y darllenydd i gael allan amcan yr epistolau, yr ydym wedi nodi allan y gwahanranau a'r prif ddosranau yn mhob un. Mewn Beiblau Gwahanranol (*Paragraph Bibles*), caiff y darllenydd y dosranau yma wedi eu nodi yn y dull o argraffu. Yn absenoldeb y cyfryw gynnorthwyon, gall copi cyffredin o'r Beibl gael ei nodi fel ag i'w dangos gyda llawer iawn o fantais.

(3.) Sylwer ar y cyfeiliornadau ffynedig, yn erbyn pa rai y mae gwirioneddau yr efengyl mewn modd neillduol wedi eu cyfeirio.

Y *cyntaf* o'r cyfeiliornadau yma a darddodd allan o olygiadau ffurfiol a choelgrefyddol yr Iuddewon. Ymlynent o hyd wrth eu deddf seremoniol, a barnent, os oedd Cenedloedd i gael eu derbyn i ragorfreintiau cyfartal, fod yn rhaid i hyny gymmeryd lle drwy enwaediad. Eu geiriau oeddynt, "Onid enwaedir chwi, ni ellwch fod yn gadwedig." Act. 15, 1. Cyfododd dadl bwysig yn Antioch allan o'r pwnc yma, ac er iddi gael ei phenderfynu yn nacäol drwy gyfarwyddyd uniongyrchol yr Ysbryd Glân, etto, ymgyfododd drachefn a thrachefn, gan rwystro lledaeniad yr efengyl, a dyeithro, ac yn aml rhanu yr eglwys. Safodd Paul o'r dechreu yn wrol a phenderfynol. Efe a ddaliai, tra y gallai, ac fe allai y dylasai, Iuddew ymostwng i'r ddefod hono am ystod parhad yr hen gyfraith, y buasai Cenedlddyn drwy gymmeryd ei enwaedu yn rhoddi i fyny ei ryddid, ac yn gwadu cyffredinolrwydd yr efengyl a chyfiawnder y groes. Cynnelir y golygiad yma yn ei holl bregethu, ac yn agos yn yr oll o'i epistolau, Act. 15, 1—31; 21, 17—25; 2 Cor. 11, 3; Gal. 2, 4; 3—5; 6, 12; Col. 2, 4, 8, 16; Phil. 3, 2; Tit. 1, 10—14, &c.

Tra y gwnelai tuedd Iuddewig y credinwyr boreuol ddrygau mewn un cyfeiriad, gwnelai ysbryd athroniaeth lygredig ddrygau mewn cyfeiriad arall; gan brofi, fel y sylwodd Burton, yn fwy gwrthwynebol i Gristionogaeth nag erlidigaeth ei hunan. Ymddangosai yr ysbryd yma mewn gwahanol agweddau, ond yr hanfod, gan mwyaf, oedd rhesymoliaeth balch, yr hwn a wrthodai wirionedd pob athrawiaeth na allesid gwneuthur iddi gyduno â rhyw gyfundraeth flaenorol, neu a ffurfiai bob peth a dderbyniai i'w chyfundraeth ei hunan. Y Groegiaid a geisient ddoethineb. Y duedd yma a ymddangosodd yn foreu yn yr amrywiol sectau Gnosticaidd (*gnôsis*, gwybodaeth) a gyfodasant yn yr eglwys; enw yw hwn, fodd bynag, a gymhwysid yn dra chyffredinol, a chynnwysai bleidwyr golygiadau gwahanol iawn.

Un sect a gynnwysid dan yr enw cyffredinol yma, a elwid hefyd Docetæ, neu Ymddangoswyr (*Seemers*), am na fedrent ddeall pa fodd y gallai person dwyfol (fel y dadleuant fod ein Harglwydd) ymuno â'r hyn oedd yn ddynol. Dadleuent mai *ymddangosiad* yn unig oedd ei gorff ef, ac mai mewn *ymddangosiad* yn unig yr oedd yn byw ar y ddaear. Gwadai yr heresi yma ei berthynas frawdol â ni, yn nghyd â gwirionedd ei Iawn, gwel 1 Ioan, Rhagarweiniad, a 4, 23.

Sect arall, yr hon (oddiwrth Cerinthus, ei sylfaenydd) a elwid yn Gerinthiaid, a dynent gasgliad gwrthwynebol oddiwrth yr un egwyddor. Gwadent ddwyfoliaeth Iesu, a thybient fod y Crist yn ddylifiad (*emanation*) o'r Duwdod, yr hwn a ddisgynodd ar y dyn Iesu yn ei fedydd, ac a arosoddd felly arno ef hyd ei farwolaeth, pryd y gadawodd y Crist ef, ac yr esgynodd i'r nefoedd, 1 Ioan 2, 22; 4, 15; Efengyl Ioan.

Mewn amseroedd diweddarach, ac wedi gorpheniad canon yr ysgrythyr, cymmerodd y tueddiadau yma ffurf mwy penodol. Ysgol Alexandria, drwy gymhwyso athrawiaethau Plato at yr efengyl, a gyhoeddasant y golygiadau mwyaf anhygoel am y natur ddwyfol, am Grist, ac am ddyn. Yn ddiweddarach fyth, yr athrofâwyr a gymhwysent resymeg Aristotle at addysgiadau yr ysgrythyr, a hawlient yr un awdurdod i'w *casgliadau* hwy (gwel Rhan I., adr. 463—5) ag oedd yn cael ei hawlio i fynegiadau penodol y Beibl. Yr holl ymgeisiadau yma a gyfodasant oddiwrth yr un egwyddor, sef, mai ein rheswm ni yw mesur gwirionedd crefyddol, ac a arweiniodd i'r un canlyniadau, sef llygriad y gwirionedd a rhaniad yr eglwys. Dysgant i ni y doethineb o gyfodi ein ffydd i uchelder dadguddiad Duw, a'r ffolineb o dynu dadguddiad i lawr i iselder ein dealltwriaeth ni. Nid ydyw y byd, *drwy ddoethineb*, yn adnabod Duw.

Yr oedd *trydydd* cyfeiliornad yn ffynu yn mhlith yr holl sectau, Iuddewig a Chenedlig—y ffurfiol a'r athronyddol. Cymmerai arno amrywiol agweddau, er nad ydoedd yn cynnrychioli ond un egwyddor. Defodaeth heb ysbrydolrwydd, gwybodaeth (*gnosis*) heb ymarferiad, cyfiawnhad drwy ffydd heb santeiddrwydd. Dyma y gredo a geryddai yr apostolion, ac a dderbynid yn eu hamser hwynt yn ffafriol gan yr Iuddewon. Llawer o'r Gnosticiaid a'i dalient, ac yn mhersonau y Nicolaiaid, tynodd allan gondemniad dwys yr apostolion diweddaraf. Hon, mewn gwirionedd, yw yr egwyddor o grefyddolrwydd penrhydd yn mhob oes, ac y mae amryw ranau o'r epistolau wedi eu cyfeirio yn ei herbyn. Canlynwyr Balaam (cyfystyr a Nicolaiaid), y rhai a nodir gan Pedr a Judas, a berthynent i'r un dosparth.

Nid ydyw enwau y sectau yma (oddigerth yr olaf) ar lawr yn yr ysgrythyr, ond y mae eu hegwyddorion. Ac y mae mantais ddeublyg yn hyn. Dysgir ni i beidio cyfyngu dysgeidiaeth dynion ysbrydoledig i'w hamseroedd hwynt eu hunain, a chynnysgaethir ni â llythyrau, yn mha rai y mae, nid sectau, ond egwyddorion—ffurfioldeb hunan-gyfiawn, rhesymolder balch, ac anfoesoldeb ymarferol—yn cael eu bythol gondemnio. Fodd bynag, y mae gwybodaeth o'r sectau yma yn egluro y natur ddynol, yn profi ein hangen am ddadguddiad, ac am ostyngeiddrwydd wrth ei fyfyrio, ac yn taflu goleuni *ar*, ac yn rhoddi grym *yn*, nysgeidiaeth y Beibl.

Y fath brawf o lygredigaeth dynoliaeth yw hanes gwirionedd dwyfol yn y byd. Terfynodd dadguddiad cyntaf Duw yn y dychymmygion drygionus a ragflaenent y diluw; yr ail yn eilun-addoliaeth Israel a Judah, ac wedi hyny yn ffurfioldeb a dymchweliad y genedl; y trydydd dadguddiad o'i eiddo a gyfarfyddodd ar y dechreu â'r gwrthwynebiad chwerwaf, a byth ar ol hyny y mae y byd, dan amrywiol ddylanwadau, wedi ceisio llygru yr hyn na all mewn un modd arall ei ddarostwng.

4. Y mae rheol o'r pwys mwyaf etto yn aros. Cymharer yn ofalus amrywiol ranau y Testament Newydd, yn enwedig yr epistolau, a chasgler oddiwrth y cyfan olygiad cysson a chynnwysfawr am wirionedd a dyledswydd.

Ymddengys yr angenrheidrwydd o wneyd hyn â'r Testament Newydd wrth ei gymharu fel cyfansoddiad â'r gyfraith. Y cyfan o'r oruchwyliaeth gyntaf a ddadguddiwyd drwy un person—Moses, ac i un gynnulleidfa wedi ymgasglu i'w derbyn. Cyfansoddwyd y Testament Newydd gan wyth o wahanol awdwyr, a chyfeiriwyd ef at lawer o gynnulleidfaoedd a phersonau gwasgaredig dros y ddaear. Ysgrifenwyd y gyfraith yn yr ieithwedd egluraf, gyda chyflawnder cyfundraethol, cyfaddaswyd hi i'r cynneddfau

gwanaf, ac ni ofynai ymostyngiad ond i orchymynion penodol yn unig. Y Testament Newydd, ar y llaw arall, sydd gyfansoddedig o gyfarwyddiadau neillduol, llawer o ba rai a gawsant eu rhoddi mewn modd damweiniol ac anuniongyrchol, a'r cyfan braidd a gyfeiriwyd at y rhai oeddynt eisioes wedi eu galw allan o'r byd, ac wedi gweled yr ordinhadau, neu wedi credu y gwirioneddau y dysgid hwy i'w cynnal. Heblaw hyny, gofynir ufyddd-dod i beth bynag a ddysgwyd drwy air a siampl, yn gystal a thrwy epistolau ;[a] ac y mae y cyfan, er ei fod yn ddigon eglur i bawb ddeall a chael eu cadw, yn ddigon cyfoethog a dwfn i alw i ymarferiad y ddealltwriaeth ysbrydol santeiddiaf.

Gallwn benderfynu, gan hyny, fod yn rhaid cymharu a myfyrio y Testament Newydd yn y modd manylaf mewn trefn i'w wneuthur yn safon ffydd ac ymarferiad. Y ffeithiau perthynol i fywyd ein Harglwydd, eu dylanwad ymarferol ar yr eglwys foreuol, ac esboniadau ysbrydoledig yr apostolion, rhaid eu chwilio hwynt oll; rhaid hefyd egluro yr egwyddorion a'r dyledswyddau cynnwysedig ynddynt; a rhaid i'r cyfan gael ei ddidwyll gredu a'i ymarfer o flaen holl awgrymiadau a dyfeisiadau dyn.

169. Y rhai canlynol ydynt yn mhlith y gwirioneddau pwysicaf a drinir yn yr epistolau. Ceir y rhanau lle yr ymdrinir â hwynt gyflawnaf ar ddiwedd y rhagarweiniadau i'r epistolau a enwir. Rhaid cymharu y rhanau yma yn ofalus, a chymharu hefyd ymadroddion neillduol ynddynt, ac ymadroddion cyffelyb mewn manau ereill, y rhai a geir mewn unrhyw Feibl â chyfeiriadau ymyl-ddalenol.

Angen dyn am iachawdwriaeth, *Rhuf.* Cyfiawnhad drwy ffydd, *Rhuf.*
Ffrwythau ffydd mewn profiad Cristionogol, *Rhuf.*
Ffrwythau ffydd mewn cymmeriad Cristionogol, *Heb.*
Ffrwythau ffydd drwy yr *Efengyl*, 1 *Pedr.*
Ffrwythau cyfiawnhad a'i fendithion canlyniadol, *Rhuf.*
Cyssylltiad dyn â Christ, a chyssylltiad dyn âg Adda, *Rhuf.*
Ffynnonell prynedigaeth, *Rhuf.*; a'r gras neillduol a gyflwynwyd ynddi i'r Cenedloedd, *Eph.*
Perthynas yr efengyl â'r Iuddewon, *Rhuf.* (gwel. *Heb.*)

Moesoldeb, ei wir natur a'i fawr bwysigrwydd, *Rhuf.*
Moesoldeb, cymhellion efengylaidd i, *Rhuf.*; cymhellion neillduol, yn rhwymedig mewn modd cyfiawn ar yr Iuddew, *Heb.*; ac ar gredinwyr oddiwrth y paganiaid, *Eph.*
Prif ddyledswyddau Cristionogion tuag at Dduw, *Rhuf.*, *Eph.*; tuag atynt eu hunain, *Rhuf.*; tuag at eu perthynasau, *Cor.*; tuag at eu cyd-ddynion, *Rhuf.*; tuag at y llywodraeth wladol, *Titus*; a thuag at eu cyd-gredinwyr, *Cor.*
Santeiddrwydd yn hanfodol i wir grefydd, 1 *Ioan.* Santeiddrwydd *mawr* ei ffrwyth priodol, a'i ddiogelwch penaf, 2 *Pedr.*

Y rhyfel ysbrydol, *Eph.*
Erlidigaeth, ei chysuron a'i gwersi, *Phil.* Gwrthgiliad, ei berygl a'i arwyddion, *Heb.*, 2 *Pedr.*

Y cymmeriad a'r awdurdod apostolaidd, *Cor.* Gau athrawon, eu cymmeriad a'u diwedd, *Cor.*

[a] 1 Cor. 4, 16, 17; 11, 2; Gal. 1. 6-9; Phil. 4, 9.

Gweinidogion Cristionogol, eu cymmeriad, eu cymhwysderau, a'u dyledswyddau, *Tim.*
Gweinidogion Cristionogol, dyledswyddau yr eglwys tuag atynt, *Tim.*
Diaconiaid, &c., eu cymmeriad a'u dyledswyddau, *Tim.*

Yr eglwys, ei haelodau, ei dysgyblaeth, ei hymraniadau, a'i hordinhadau, *Cor.*
Yr eglwys, ei haelodau, eu dyledswyddau, eu doniau, rhagoriaeth cariad, *Cor.*

Mawrhydi Crist, yn hanfodol a chyfryngol, *Heb.* Ymgnawdoliad Crist, a'i ddyben, *Heb.*
Goruchelledd ei swydd, fel prophwyd, arweinydd, ac offeiriad, *Heb.*
Rhagoriaeth ei aberth, *Heb.*

Arwyddolrwydd ac israddoliaeth yr hen oruchwyliaeth, *Heb.*
Ein rhyddid ysbrydol ni mewn perthynas iddi, *Heb.*

Llygredigaeth Cristionogaeth a ffyniant anffyddiaeth yn yr "amser diweddaf," *Tim.* Pa fodd y cyfarfyddir â hyn, *Tim.*

Adgyfodiad y corff, *Cor.* Ail ddyfodiad ein Harglwydd, 2 *Thess.*
Y farn a'i chanlyniadau—bywyd tragywyddol, marwolaeth dragywyddol, 2 *Pedr.*

Dos. 2. *Purdeb yr Epistolau.*

170. Yr ydys eisoes wedi rhoddi y prawf cyffredinol o burdeb yr Epistolau. Cyn belled ag y mae yn dàl perthynas âg Epistolau neillduol, gellir rhoddi i mewn ffurf daflenol fèr. Am eglurhad, gwel pen. v., adr. 137.

Epistolau.	Clement o R.	Ignatius.	Polycarp.	Papias.	Justin Ferthyr.	Tatian.	Irenæus.	Eglwys Lyons.	Canon Muratori.	Athenagoras.	Theophilus.	Cyprian.	Clement Alex.	Tertulian.	Caius.	Origen.	Arolygwyd yr Ysgrifenwyr gan Eusebius.
Rhufeiniaid ..	‡ ‡	‡	‡	..	..	..	1	‡	..	..	1	..	1	1	1	1	Oll.
1 Corinthiaid	1	‡	1	..	‡ †	1	1	..	..	1	..	1	..	1	1	1	,,
2 Corinthiaid	..	..	..	..	..	..	1	..	..	* †	..	1†	1	1	1	1	,,
Galatiaid	..	..	..	..	..	..	1	..	..	..	..	...	1	1	1	1	,,
Ephesiaid ..	..	1	1	..	..	..	..	..	..	..	..	..	1	1	1	1	,,
Philippiaid ..	..	1	1	..	..	..	1†	‡	..	..	..	..	1	1	1	1	,,
Colossiaid ..	..	..	..	..	..	..	1	..	..	..	‡†	...	1	1	1	1	,,
1 Thessalon.	..	..	‡	..	..	..	1	..	..	..	..	..	1	1	1	1	,,
2 Thessalon.	..	‡ †	‡	..	‡ †	..	1	..	..	..	..	..	1	1	1	1	,,
1 Timotheus	..	..	‡	..	..	..	1	..	1 †	..	1	..	1	1	1	1	,,
2 Timotheus	..	..	..	..	..	..	1	..	1 †	..	1†	..	1	1	1	1	,,
Titus	..	..	..	..	..	1 †	1	..	1 †	..	...	..	1	1	1	1	,,
Philemon ..	..	..	..	..	..	..	..	..	1 †	..	..	..	..	‡	1	1	,,
Hebreaid	‡	..	..	..	1	..	..	..	..	..	..	..	1	1	..	..	,,
Iago.....	‡ †	..	..	..	..	..	..	..	1 †	..	..	...	..	..	..	‡†	Gan mwyaf.
1 Pedr	..	..	‡	1	..	..	1	..	..	..	..	..	1	1	..	1	Oll.
2 Pedr	‡ †	..	...	..	..	..	..	..	..	..	..	...	..	..	..	1	Gan mwyaf.
1 Ioan	..	..	‡ †	1	..	...	1	..	1 †	..	..	1	1	1	..	1	Oll.
2 a 3ydd Ioan	..	..	..	..	..	..	..	...	..	..	..	..	‡†	..	..	‡	Gan mwyaf.
Judas	..	..	..	..	..	..	..	..	1 †	..	..	..	1	1	..	1	,,
Dadguddiad	..	..	..	1 †	1	..	1	..	1 †	..	1	..	1	1	..	1	,,

Dos. 8. *Cynnorthwyon i* 1 *Thessaloniaid, &c., hyd Judas.*

Epistol Cyntaf Paul yr Apostol at y Thessaloniaid.

Corinth, o. c. 52.

171. Thessalonica oedd brif-ddinas un o bedwar dosparth Macedonia, a phreswylfod y llywodraethwr Rhufeinig. Helaethid ei masnach a'i chyfoeth, a dygid iddi boblogaeth gymmysgedig o Roegiaid, Rhufeiniaid, ac Iuddewon, o herwydd ei sefyllfa ar y ffordd fawr Egnatiaidd, ac wrth ben porthladd rhagorol. Y mae yn awr, fel y bu o'i dechreuad, yn dref fasnachol flodeuog, ac yn dwyn yr enw cyffelyb o *Saloniki*. Ei sefyllfa ddaearyddol, a'i phwysigrwydd morwrol, a'i haddasent i ddyfod yn un o gychwyn-fanau yr efengyl yn Ewrop, ac a eglurent y ffaith, mai o'r ddinas yma y seiniodd gair yr Arglwydd allan i "bob man" (1, 8).

Pregethwyd yr efengyl yma gyntaf gan Paul a Silas, yn fuan ar ol eu rhyddhad o garchar Philippi, Act. 17, 1—10. Yn unol â'i arferiad cysson, Paul a anerchodd yr Iuddewon yn gyntaf, ac wedi hyny llefarodd, gyda mwy o lwyddiant, wrth y Cenedloedd. Nid ymddengys yn eglur pa faint o amser a dreuliodd yma, ond amlwg yw iddo fod yma am fwy nâ thair wythnos, yn ymresymu â'r Iuddewon yn y synagog ar y Sabbothau. Cymharer Act. 17, 4, 5; 1 Thes. 2, 9; 2 Thes. 3, 8; a Phil. 4, 16.

Yr eglwys a ffurfiwyd ganddo yn ystod yr amser yma a gyfansoddid mewn rhan o Iuddewon a phroselytiaid Iuddewig, llawer o ba rai oeddynt wragedd uchelradd a dylanwadol (Act. 17, 4); ond yn benaf o ddychweledigion oddiwrth baganiaeth (1, 9).

O herwydd iddo gael ei yru ymaith drwy greulondeb yr Iuddewon, gadawodd Paul yr eglwys oedd newydd ei phlanu yn y fath anhawsderau, fel y teimlai bryder o berthynas iddynt, a chynhyrfwyd ef i anfon Timotheus o Athen i'w cefnogi a'u cysuro dan yr erlidigaethau yr oeddynt yn agored iddynt (3, 1, 2). Dychwelodd Timotheus at Paul i Gorinth (i ba le, yn y cyfamser, yr oedd yr olaf wedi myned), a dygodd iddo y fath hanes dymunol am sefydlogrwydd y Cristionogion Thessaloniaidd, fel y llanwwyd ef o lawenydd a diolchgarwch (3, 6—9), ac ail-gyffröwyd ei awydd i ymweled â hwynt. Ond wedi cael ei fynych siomi yn ei gynlluniau gyda golwg ar hyn (2, 17, 18), ysgrifenodd y llythyr yma atynt o Gorinth, o. c. 52.

Gan fod hwn yn un o'r blaenaf o Epistolau Paul, cynnwysai rybydd difrifol ar iddo gael ei ddarllen yn gyhoeddus yn yr eglwys (5, 27).

i. Yn y rhan flaenaf o'r Epistol yma (1;—3), mynega yr apostol ei ddiolchgarwch a'i lawenydd am y modd yr oedd y Thessaloniaid wedi derbyn yr efengyl, ac am eu ffyddlondeb a'u sefydlogrwydd yn nghanol erlidigaethau a chystuddiau; amddiffyna ei ymddygiad ef ei hunan a'i gyd-lafurwyr wrth bregethu yr efengyl; a chyhoedda ei bryder cariadus am eu llesâd.

ii. Cymmerir y gweddill o'r Epistol i fyny gan gynghorion ymarferol; gan eu rhybyddio yn erbyn y pechod am yr hwn yr oedd eu dinas yn hynod; a'u hannog hwynt i feithrin y rhinweddau Cristionogol, ac yn neillduol arwain bywyd gwyliadwrus a sobr, teilwng o'u sefyllfa ddedwydd, a'u gobeithion uchel (4, 1—12; 5). Llefarir geiriau o gysur neillduol i'r rhai a deimlent yn alarus ar ol y meirw, y rhai a ymddangosent fel yn dychymmygu y buasai eu cyfeillion ymadawedig yn colli rhyw fanteision pwysig oedd i gael eu mwynhau yn unig gan y rhai hyny a fuasent yn byw hyd ddyfodiad yr Arglwydd (yr hwn a ddysgwylient ar frys); a'r rhai, mewn

canlyniad, oeddynt wedi ymroddi i alar gormodol o'u herwydd hwynt. Gan lefaru ar awdurdod ddwyfol benodol, sicrhâ iddynt y bydd i'r duwiolion ymadawedig gael eu hadgyfodi ar ddyfodiad Crist, ac y buasai hyny yn cael ei ganlyn gan gyfnewidiad y rhai byw; ac annoga hwynt i gymmeryd gafael yn y cysur a ddeillia oddiwrth y gobaith gogoneddus yma, 4, 13—18.

Cyssyllter a darllener 1, 1, 2; 2, 1, 13, 17; 3, 1, 6, 11; 4, 1, 9, 13; 5, 1, 4, 12, 14, 15, 16, 19, 23, 25, 27, 28.

Ail Epistol Paul at y Thessaloniaid.

Corinth, o. c. 53.

172. Mae yn debyg i'r Epistol yma, fel yr un blaenorol, gael ei ysgrifenu o Gorinth, ac heb fod yn hir ar ol hwnw (yn gynnar yn o. c. 53), tra yr oedd Silas a Timotheus o hyd yn nghwmpeini Paul (1, 1). Ymddengys mai ei brif amcan oedd diwygio mympwy gyfeiliornus oedd yn dechreu ffynu yn mhlith Cristionogion Thessalonica, sef fod ymddangosiad y Ceidwad a diwedd y byd yn agos. Seiliwyd y golygiad yma, mewn rhan, ar gamddealltwriaeth o rai ymadroddion yn y llythyr blaenaf, ac ymddengys ei fod yn cael ei ddàl gan rai a hònent hawl i ysbrydoliaeth. Yr oedd yno hefyd bersonau a esgeulusent eu galwedigaethau tymmorol ar dwyll-resymau crefyddol, ac yr oeddynt yn euog o ymarweddu yn afreolus.

Cymmerir i fyny ddechreuad a diwedd yr Epistol gan gymmeradwyaethau cariadus, yn gymmysgedig â chefnogaethau i ddyfalbarhad, annogaethau i santeiddrwydd, a chyfarwyddiadau o berthynas i gynnaliad dysgyblaeth mewn cyssylltiad âg aelodau segur ac afreolus, 1; 2, 13—17; 3. Yn mhen. 2, 1—12, y mae Paul yn dynoethi y cyfeiliornad o ddysgwyl dyfodiad agos dydd yr Arglwydd. Er adgofio y Cristionogion Thessaloniaidd o'r hyn a lefarwyd ganddo pan oedd gyda hwynt, dywed mai sôn a wnaeth y buasai y dygwyddiad hwnw yn cymmeryd lle yn annysgwyliadwy yn hytrach nâ'i fod yn agos, a bod yn rhaid iddo gael ei ragflaenu gan wrthgiliad mawr, yn nghyd â goruchafiaeth dymmorol y "dyn pechod," y trawsfeddiannydd ysbrydol (yr hyn, fodd bynag, nas gallasai gymmeryd lle hyd oni chawsai rhwystrau neillduol eu symud), gan sefydlu cyfundraeth o gyfeiliornad ac hudoliaeth, drwy ba un y buasai llawer yn cael eu dwyn ymaith.

Y mae y cytundeb rhwng y corn bychan yn mhrophwydoliaeth Daniel a'r dyn pechod yn yr Epistol yma, yn hynod o darawiadol. Yn Daniel, nid ydyw yn cyfodi nes y mae yr amherodraeth Rufeinig yn cael ei dryllio; yn Paul, nid ydyw yn cael ei ddadguddio nes y mae yr amherodraeth hono —yr hyn sydd yn attal (2, 7)—yn cael ei chymmeryd oddiar y ffordd. Yn Daniel, y mae yn dyfetha y saint; yn Paul, y mae yn gwrthwynebu neu erlid. Yn Daniel, y mae yn ymfawrhau uwchlaw pob duw; yn Paul, ymdderchafa uwchlaw pob peth a elwir yn Dduw. Yn Daniel, y mae yn newid amseroedd a chyfreithiau; yn Paul, efe yw yr un digyfraith (ad. 8, Groeg). Yn Daniel, y mae, drwy ei ystryw, yn peru i ddichell lwyddo; ac yn Paul, y mae yn dyfod gyda rhyfeddodau gau, a phob dichell annghyfiawn, y rhai a gredir gan lawer, Dan. 8, 25; 11, 36. Mor hynod yw cyssylltiad prophwydoliaeth! Chwe chant o flynyddau o'r blaen, rhagfynegai Daniel gyfodiad y gallu yma; yehwanega Paul rai darluniadau; ac y mae ei hanes i gael ei ddadguddio yn fwy cyflawn gan Ioan.

Y mae y brophwydoliaeth yma, ar dir arall, yn deilwng o aylw diolchgar. Dywed wrthym, tra y mae dyfodiad yr Arglwydd yn agos, ei fod hefyd yn mhell; yr oedd llawer o ddygwyddiadau i gyfryngu; a chyda holl oleuni

prophwydoliaeth rhaid i'w ddyfodiad fod, gyda golwg ar yr amser penodol, yn anadnabyddus. Wrth gymharu yr adran yma âg ereill, dysgir gweision Crist i edrych ar dreigliad llawer o ganrifoedd cyd-ddilynol heb dramgwyddo wrth oediad ei ymddangosiad, na digaloni wrth ffyniant drygioni a thwyll dan broffes o'i enw ef. 1 Tim. 4, 1—3; 2 Tim. 3, 1—8; 2 Pedr 2; Dad. 11—13; 17; 22.

Cyssyllter a darllener fel y canlyn:—1, 1, 3, 11; 2, 1, 5, 13, 15, 16; 3, 1, 6, 16, 17, 18.

Epistol Paul yr Apostol at y Galatiaid.

Epheesus neu Gorinth, o.c. 53 *neu* 57.

173. Galatia oedd dalaeth ëang yn nghanolbarth Asia Leiaf. Derbyniodd ei henw oddiwrth y Gauliaid, y rhai a orchfygasant y wlad, ac a ymsefydlasant ynddi oddeutu 280 c. c.; gelwid hi hefyd Gallo-Græcia, ar gyfrif y trefedigwyr Groegaidd a ymgymmysgasant â hwynt ar ol hyny. Oddeutu 189 c.c., syrthiodd dan awdurdod Rhufain, a daeth yn dalaeth Rufeinig yn 26 c.c. Nid oedd y preswylwyr wedi eu gwareiddio ond mewn rhan, ac yr oedd eu cyfundraeth eilun-addoliadol yn hynod o wrthun a ffiaidd.

Teithiodd Paul a Silas drwy y diriogaeth yma oddeutu o.c. 51, a ffurfiasant eglwysi ynddi, â pha rai yr ymwelodd Paul etto ar ei ail daith, yn mhen tair blynedd ar ol hyny. Tebyg yw i'r epistol yma gael ei ysgrifenu yn fuan ar ol ei daith gyntaf: gwel Act. 16, 6; 18, 23; Gal. 1, 6, 8; 4, 13, 19.

Ymddengys i lawer o'r dychweledigion hyn, yn mhlith pa rai yr oedd nid ychydig o broselytiaid Iuddewig, wedi derbyn yr efengyl gyda llawenydd a pharodrwydd mawr o enau yr apostol, gael eu llygru gan ryw ddysgawdwyr Iuddewig, y rhai a ddysgent fod cadw gorchymynion seremoniol deddf Moses yn hanfodol i iachawdwriaeth. Ymddengys fod y blaid yma hefyd yn ammeu awdurdod yr apostol, gan led-awgrymu ei fod islaw i Pedr a'r apostolion ereill yn Jerusalem, oddiwrth ba rai yr oeddynt hwy yn proffesu bod wedi derbyn eu golygiadau a'u hawdurdod. I benderfynu y materion pwysig yma, yn mha rai, fel y mae yn amlwg, yr oedd yr apostol yn ystyried fod bywyd ac enaid Cristionogaeth mewn perygl, yr ysgrifenodd efe yr epistol yma â'i law ei hun (6, 11), yn wahanol i'w arferiad cyffredin o draethu ei lythyrau wrth ysgrifenydd arall. Gellir ei ddosparthu i dair o ranau.

i. Ar ol ei anerchiad cyffredin, y mae Paul yn hòni ei awdurdod gyflawn ac annibynol fel apostol i Grist; traetha hanes ei argyhoeddiad a'i gyflwyniad i'r weinidogaeth, gan ddangos iddo ef dderbyn ei wybodaeth o wirionedd Cristionogol, nid drwy addysgiad dynol, ond drwy ddadguddiad uniongyrchol; a bod yr apostolion ereill wedi cydnabod ei alwedigaeth ddwyfol, ac ymddwyn tuag ato fel eu cydradd (1; 2).

ii. I brofi ei athrawiaeth, fod dynion yn cael eu cymmeradwyo gyda Duw drwy ffydd yn unig, ac nid drwy ddefodau seremoniol y gyfraith, y mae yn appelio at brofiad y Galatiaid oddiar eu dychweliad at Gristionogaeth, ac at amgylchiad Abraham, yr hwn a gafodd ei gyfiawnhau a'i achub drwy ffydd; a dengys mai amcan y gyfraith oedd, nid diddymu cyfammod yr addewid oedd wedi cael ei wneuthur âg Abraham, ond darparu y ffordd i'r efengyl, a dangos yr angenrheidrwydd am dani (3). Y mae yn

gwrthgyferbynu cyflwr addysgol a darostyngol pobl Dduw dan y gyfraith â'u cyflwr mwy dedwydd dan yr efengyl, pan, drwy y brynedigaeth gan Fab Duw, y gosodwyd hwynt mewn meddiant o ragorfreintiau a bendithion meibion; a chan anerch y rhai hyny o'r Galatiaid oedd wedi bod yn baganiaid, y mae yn eu hadgofio, ei bod yn wrthun neillduol ynddynt hwy syrthio yn ol i gaethiwed ofergoeledd, gan eu bod wedi eu gwaredu o gaethiwed eilun-addoliaeth, yr hwn sydd yn llawer mwy isel a thruenus (4, 1—11). Appelia atynt mewn modd tyner fel ei blant ysbrydol, gan ddwyn ar gof iddynt eu serch blaenorol tuag ato; yna, gan anerch y rhai a bwysent ar gyfraith a llythyren yr Hen Destament, dengys iddynt fod hanes dau fab Abraham yn rhoddi eglurhad goleu ar gyflwr ac ysbryd perthynasol y pleidiau gwrthwynebol; ac o wrthodiad un a gwynfyd y llall (4, 11—31).

iii. Y mae yn annog y credinwyr i sefyll yn sefydlog yn eu rhyddid Cristionogol, a pheidio ei gamddefnyddio; dengys iddynt fod santeiddrwydd calon a bywyd yn cael ei sicrhau dan yr efengyl drwy awdurdod Crist, a gras yr Ysbryd Glân (5); gwasga arnynt yr angenrheidrwydd am gydymddygiad, tynerwch, cariad, ac haelfrydedd; ac wedi condemnio athrawiaeth y gau-ddysgawdwyr eilwaith, terfyna ei epistol gyda mynegiad, yr hwn a ellir ei ystyried fel swm y cyfan (6).

Tebygola yr epistol yma i'r epistolau at y Corinthiaid, ac i'r un a anfonwyd at y Rhufeiniaid. Fel y blaenaf, amddiffyna awdurdod apostolaidd Paul, a dengys iddo gael ei ddysgu mewn modd uniongyrchol gan Grist. Fel yr olaf, ymdrinia â'r athrawiaeth o gyfiawnhad drwy ffydd yn unig, oddiwrth yr hon, yn fuan ar ol i Paul eu gadael, ac er syndod mawr iddo, y cafodd y Galatiaid eu gwyrdroi gan y gau-athrawon, y rhai a fynent fod ymostwng i ddeddf Moses yn hanfodol i iachawdwriaeth, ac a led-awgryment, fe allai, fod Paul ei hunan, mewn lleoedd ereill, wedi bod yn dysgu yr un athrawiaeth. Sylwer ar lymder a thynerwch ei gerydd (3, 1; 4, 19); y lle a roddir i santeiddrwydd, nid fel sail ond fel ffrwyth iachawdwriaeth, ac yn anwahanol oddiwrthi (5, 6, 22). Sylwer hefyd cyn lleied o bwys ellir roddi ar wresogrwydd teimlad crefyddol fel prawf o gadernid egwyddor grefyddol (4, 15, 20).

Y mae yn ddyddorawl sylwi mai Gauliaid (eu henw yn Groeg yw Galatiaid) mewn enw a chymmeriad oedd y personau at ba rai y cyfeiriwyd yr epistol hwn.[a] Dangosant yr holl barodrwydd i dderbyn argraffiadau, a'r awydd am gyfnewidiad, ag sydd wedi eu priodoli i'r bobl yma gan awduron o Cæsar hyd Thierry. Derbyniasant yr apostol fel angel, a buasent yn tynu eu llygaid ac yn eu rhoddi iddo; ond hwy a "symudwyd yn fuan" gan y gau-athrawon at "efengyl arall," ac yna, dan ddylanwad yr un gwresogrwydd, dechreuasant "gnoi a thraflyncu eu gilydd" (4, 14, 15; 5, 15).

Cyssyllter a darllener fel y canlyn,—1, 1, 6, 11; 2, 15; 3, 1, 6, 10, 15, 19, 24; 4, 1, 8, 12, 17, 21; 5,[b] 1, 7, 13, 16, 19, 22; 6, 1, 2, 6, 11, 17, 18.

[a] Gwel Bywyd ac Epistolau Paul gan Conybeare a Howson, i., 261.

[b] Ar gynnaliad rhyddid ysbrydol yn erbyn y rhai a ddysgent fod ufydd-dod defodol yn hanfodol i iachawdwriaeth, a'r rhai a ddysgent fod "ewyllys addoliad" yn ufydd-dod cymmeradwy, gwel 3, 5, 6; Rhuf. 7, 1—6; Col. 2, 16—23.

Epistol Cyntaf Paul yr Apostol at y Corinthiaid.

Ephesus, o. c. 57.

174. Corinth oedd ddinas fawr, a phrif-ddinas talaeth Rufeinig Achaia, yn y rhan ddeheuol o Groeg. Yr oedd ei sefyllfa ar y culdir rhwng Peloponnesus (a elwir yn awr, y Morea) a Groeg ogleddol, yn rhoddi iddi rym masnach y tir o'r gogledd i'r deau; tra yr oedd, drwy ei dau borthladd ar y moroedd Ionaidd ac Ægeaidd, yn derbyn, ar un llaw, farsiandiaeth gyfoethog Asia, ac ar y llall, farsiandiaeth Itali a'r Gorllewin. O herwydd meddiannu y manteision yma, daeth Corinth yn lle o fasnach helaeth iawn. Hynodid hi hefyd gan ei hadeiladau cyhoeddus gorwych, a chan ei meithriniad o'r celfau cain, a dysgeidiaeth foesgar. Yr oedd y campau Isthmiaidd hefyd (at ba rai, mae yn debyg, y cyfeirir yn 9, 24—27), y rhai a gynnelid yn agos i'r ddinas, wedi dyfod yn enwog rhyfeddol, ac yn tynu lluaws mawr o ddyeithriaid o bob parth. Daeth Corinth, oddiwrth yr achosion yma, yn nodedig am gyfoeth a moethusrwydd, ac yn gyfartal felly am halogrwydd a thrythyllwch, y rhai a feithrinid yn fawr gan yr addoliad oedd wedi ei sefydlu yno i Venus; fel y daeth yn y diwedd, y ddinas fwyaf lygredig a moethus yn Groeg.

Cofnodir mynediad cyntaf y grefydd Gristionogol i gaerau drygioni yn yr Actau, pen. 18. Yr oedd Paul y pryd hwnw ar ei ffordd o Macedonia i Jerusalem. Wedi treulio peth amser yn Athen, efe a ddaeth i Gorinth, ac ymunwyd âg ef yno gan Silas a Thimotheus. Efe a bregethodd yr efengyl yn y ddinas hono ar y cyntaf i'r Iuddewon; "ond wedi iddynt hwy ymosod yn ei erbyn, a chablu," efe a ymwrthododd â'u cymdeithas hwynt, ac a drôdd at y Groegiaid. Rhai, fodd bynag, o'r Iuddewon penaf a gredasant. Cyfarfuwyd â'i ofnau a'i anhawsderau wrth gyflawnu y gwaith hwn (gwel pen. 2, 3; Act. 18, 9, 10) â dadguddiad neillduol, yn rhoddi sicrwydd iddo o bresenoldeb yr Arglwydd gydag ef, ac o'i amcan i gasglu eglwys yno. Parhäodd Paul i lafurio yn Nghorinth am fwy nâ blwyddyn a hanner, ac wedi hyny canlynwyd ei ymdrechion gan ddysgeidiaeth Apollos, Act. 18, 27, 28. Fel hyn, cafodd eglwys luosog a blodeuog ei ffurfio; gosodwyd athrawon arnynt, a thelid parch cysson i ordinhadau Crist.

Ymddengys, fodd bynag, i'w heddwch, cyn hir, gael ei aflonyddu gan bersonau neillduol, y rhai a ymdrechent impio manylion *athroniaeth ddynol* ar athrawiaethau Crist. Ymdrechai yr athrawon gwrthbleidiol fychanu yr apostol, drwy ei osod allan yn ddiffygiol mewn teleidion ieithweddol, a medrusrwydd araethyddol, ac hyd y nod ammeu ei awdurdod apostolaidd; dadleuent hefyd dros ddull penrhydd o fyw, dan yr esgus o ryddid Cristionogol. Achosodd hyn ymraniadau ac afreoleiddiwch; ac yr oedd yr eglwys yn prysur ddadfeilio oddiwrth ei ffydd, ei phurdeb, a'i chariad gwreiddiol.

Ymddengys i'r Epistol yma gael ei ysgrifenu o Ephesus, ar ol i Paul dalu un ymweliad â Chorinth, a phan oedd yn nghylch talu ymweliad arall; gwel pennodau 2, 1; 4, 19; 16, 5. Oddiwrth Act. 18, 1, a 20, 1—3, dysgwn i Paul ymweled ddwywaith âg Achaia, ac yn ddiau â Chorinth; ac iddo, ar yr ail achlysur, fyned yno o Ephesus, wedi treulio dwy flynedd yn y ddinas hono. Cadarnhëir yn mhellach i'r Epistol yma gael ei ysgrifenu yn ystod y tymmor hwnw, gan amrywiol gyfeiriadau damweiniol. Gwel pennodau 15, 32; 16, 8; a pen. 16, 9, wedi ei chymharu âg Act. 19, 20—41; hefyd, yr anerchiad oddiwrth eglwysi *Asia*, yn pen. 16,

19 (gwel Rhan. i., adr. 398); ac yn mhellach, yr anerchiad oddiwrth Priscilla ac Aquila, y rhai oeddynt yr amser hwnw yn Ephesus, Act. 18, 26.

Ymddengys fod yr Epistol yma wedi ei fwriadu mewn rhan fel atebiad i lythyr oedd wedi cael ei dderbyn gan Paul oddiwrth yr eglwys, yn gofyn am gynghor a chyfarwyddyd mewn rhyw bethau (gwel pen. 7, 1); ac mewn rhan i ddiwygio yr annhrefn a ffynai yn eu plith, am yr hwn yr oedd wedi clywed gan rai o'u haelodau hwynt (1, 11; 5, 1; 11, 18), yr hwn a gynnyrchodd ynddo bryder mawr, ac a'i cynhyrfodd i anfon Timotheus i Gorinth (4, 17).

Y drygau yr ymdrechai Paul eu diwygio yn mysg y Corinthiaid a berthynent i'r pynciau canlynol:—

Ymraniadau pleidgar (1, 10—16; 3, 4—6). Tuedd at *athroniaeth* ac *hyawdledd* (1, 17, &c.). *Anfoesoldeb* hynod a ganiatëid yn eu mysg (5). Dygid *cwynion cyfreithiol* yn mlaen gan y naill yn erbyn y llall gerbron barnwyr paganaidd, yr hyn oedd yn groes i reolau doethineb a chariad Cristionogol, ac yn aml yn groes hyd y nod i egwyddorion cyfiawnder (6, 1—8). *Ymfwythiadau penrhydd* (6, 9—20). Yn eu cynnulliadau crefyddol, yr oedd yr aelodau menywaidd o'r eglwys, yn yr ymarferiad o'u doniau ysbrydol, wedi dangos ymddygiad anfenywaidd, drwy osod y *gorchudd* o'r neilldu, yr hwn oedd nôd gwahaniaethol eu hystlen (11, 3—10). Yr oedd *swper yr Arglwydd* wedi ei llygru drwy y dull o'i chadw (11, 20—34); yn gymmaint a bod rhai yn ei gwneyd yn achlysur o gyfeddach, ac yn ffynnonell darostyngiad i'w brodyr tlodion, ad. 20, 21. Yr oedd *doniau gwyrthiol*, yn enwedig y *ddawn o dafodau*, wedi cael eu camddefnyddio (14). Ac yr oedd athrawiaeth bwysig yr adgyfodiad wedi cael ei gwadu, neu ei hammeu (15, 12).

Y pynciau ar ba rai yr oedd y Corinthiaid wedi ceisio cyfarwyddiadau Paul ydynt, 1, *Priodas*, a'r dyledswyddau perthynol iddi yn eu hamgylchiadau hwynt (7); 2, yr effaith a gynnyrchodd eu dychweliad at Gristionogaeth ar eu sefyllfa flaenorol o enwaediad neu gaethiwed (7, 17—24); ac yn 3, eu dyledswydd gyda golwg ar *fwyta pethau wedi eu haberthu i eilunod* (8). Yr oeddynt hefyd, mae yn debyg, wedi cyfeirio rhyw ofyniadau ato o berthynas i ddefnyddiad doniau ysbrydol, a'r drefn i'w cadw yn eu cynnulliadau crefyddol.

Nid ydyw cymmeriad Paul ei hunan yn ymddangos mewn un Epistol yn fwy gogoneddus nag yn hwn. Y mae ei ymhoniad o awdurdod apostolaidd wedi ei gymmysgu yn y modd mwyaf prydferth â gostyngeiddrwydd, ac amheuaeth dduwiol o hono ei hun (2, 3; 9, 16, 27). Y mae yn diwyd ddefnyddio moddion, etto y mae yn hynod ymddibynol (3, 6, 9; 15, 10). Cyssyllta ffyddlondeb â'r tynerwch mwyaf (3, 2; 6, 12; 4, 14); ac er ei fod yn feddiannol ar y doniau uchelaf, etto dewisa gariad o'u blaen hwynt oll (13, 1). Dyma gynllun, nid yn unig i weinidogion, ond hefyd i Gristionogion neillduol pob oes.

Y mae yr Epistolau yma yn dra addysgiadol i'r rhai a gymmerant arnynt fod heb ddim cydymdeimlad âg ofergoeledd, ac heb ond ychydig o barch i awdurdod. Cyssylltant yn y modd mwyaf tarawiadol fynegiadau ysbryd rhydd a gwrol â'r athrawiaethau mwyaf ymostyngol. Meithrinant y gobeithion uchelaf i ddyn, ac i wirionedd, a dangosant i ni yr unig lwybr drwy yr hwn y gall y gobeithion yma gael eu cyflawnu.

Heblaw hyny, y mae dyddordeb mawr yn perthyn i'r Epistolau yma mewn ystyriaethau ereill. Y maent, yn eu cynnwysiad, yn fwy amrywiaethol nâ holl ysgrifeniadau ereill yr apostol; a thaflant fwy o oleuni nag

unrhyw Epistol arall ar gyflwr yr eglwys foreuol, a'r tueddiadau drygionus yn erbyn pa rai yr oedd yr efengyl yn gorfod ymdrechu hyd y nod yn mhlith dynion da.

Cyssyllter a darllener fel y canlyn, 1, 1, 4, 10, 13, 17, 26; 2, 1; 3, 1, 10, 16, 18; 4, 1, 6, 8, 14; 5, 1, 9; 6, 1, 9, 12;—7, 1, 17, 25, 29; 8, 1; 9, 1, 24; 11, 14, 23;—11, 2, 17, 23, 27; 12, 1, 31; 13, 1, 13; 14, 1, 34, 36;—15, 1, 12—20, 35, 51;—16, 1, 5, 10, 12, 13, 15, 17, 19, 21, 23.

Ail Epistol Paul yr Apostol at y Corinthiaid.

Macedonia, o. c. 57.

175. Ni fu Paul yn hir ar ol ysgrifenu yr Epistol blaenorol cyn gadael Ephesus, a myned i Troas. Yma dysgwyliai gyfarfod Titus (yr hwn a anfonasai i Gorinth), a chael gwybodaeth am sefyllfa yr eglwys, ac am effeithiau ei Epistol blaenorol (2, 12). Ond pan na chafodd ef yno, efe a groesodd drosodd i Macedonia, lle y symudwyd ymaith ei bryder gan ddyfodiad a mynegiad Titus. Dysgodd Paul oddiwrtho fod ei geryddon ffyddlawn wedi cyffroi yn meddyliau y Cristionogion Corinthiaidd alar duwiol, a gofal ymarferol am ddysgyblaeth briodol yr eglwys. Ond gyda'r arwyddion hyfryd hyn, yr oedd ereill o duedd ofidus. Yr wrth-blaid gyssylltiedig â'r athrawon gau oedd o hyd yn diraddio ei awdurdod apostolaidd, ac yn camddarlunio ei egwyddorion a'i ymddygiad; hyd y nod yn defnyddio ei lythyr blaenorol i ddwyn cyhuddiadau yn ei erbyn, fel un wedi methu cyflawnu ei addewid o ddyfod i ymweled â hwynt, ac wedi mabwysiadu dull awdurdodol o ysgrifenu, gydag ond ychydig o gyssondeb, fel yr haerent, â'i berson a'i ymadrodd dirmygus.

Ysgrifenodd yr apostol yr ail Epistol yma o dan y cynhyrfiadau cryfion a chymmysglyd a gynnyrchwyd gan y newydd yma; yn yr hwn y mae iaith eymmeradwyaeth a chariad wedi ei chymmysgu âg iaith cerydd, ac hyd y nod bygythiad; ac efe a'i anfonodd ef gyda Titus ac ereill, gan fwriadu eu canlyn yn fuan, yr hyn hefyd, mae yn debyg, a wnaeth. Amcanwyd ef i ddwyn rhagddo waith y diwygiad, i roddi grym pellach i'w awdurdod ef yn erbyn gwrthddadleuon ac argymmeriadau yr athrawon gau, ac i ddarparu y Corinthiaid erbyn ei ymweliad bwriadol, pan y dysgwyliai weled pob annhrefn yn eu plith wedi ei symud ymaith, a'u cyfraniadau i'w brodyr cystuddiedig yn barod (8, 18; 9, 3, 5; 10, 2, 11; 13, 1, 2, 10).

Er fod yr Epistol hwn a'r llall yn llawn o gyfeiriadau at amgylchiadau neillduol eglwys Corinth, etto, nid ydynt, ar gyfrif hyny, yn llai pwysig ac addysgiadol; oblegid cynnwysant gyfarwyddiadau a rhybyddion cyfaddasedig i lawer o amgylchiadau cyffredin bywyd, y rhai nas gallasid eu cyflwyno i sylw gyda chymmaint o fantais mewn traethiad mwy cyffredinol ar athrawiaethau a dyledswyddau Cristionogaeth. Rhoddir i lawr egwyddorion a rheolau o gymhwysiad cyffredinol, yn enwedig mewn gwrthwynebiad i ymbleidio a drygau ereill a gyfodant yn aml yn yr eglwys, ac mewn cefnogi y ddyledswydd bwysig o haelfrydedd Cristionogol.

Y prif bethau cynnwysedig yn yr Epistol hwn ydynt y canlynol:—

i. Yr apostol, wedi mynegu ei ddiolchgarwch am y cysur dwyfol a roddwyd iddo yn ei ddyoddefiadau er mwyn Crist, a esyd i lawr ei resymau dros oedi ymweled â Chorinth; a chyfeiria at achos y person euog ar yr hwn yr oedd dysgyblaeth wedi cael ei gweinyddu; yr hwn, gan ei fod yn edifarhau, y mae yr apostol yn annog yr eglwys i'w adferu i'w chymmundeb (1, 12;—2, 13).

ii. Cyfeiria at ei ymdrechion yn ngwasanaeth yr efengyl, a'i lwyddiant; ac at ei berthynas bersonol â'r Corinthiaid; ac arweinir ef gan hyn i lefaru am y gwahaniaethau rhwng y weinidogaeth dan yr Hen Gyfammod ac o dan y Newydd; gan ddangos rhagoriaeth gogoniant yr olaf (3). Darlunia yr egwyddorion a'r cymhellion a'u llywodraethent ef a'i frodyr yn nghyflawniad eu gweinidogaeth, yn nghanol profedigaethau a chystuddiau mawrion, ac annoga y Corinthiaid i beidio rhwystro amcanion yr efengyl, drwy esgeuluso dysgyblaeth a phurdeb Cristionogol (4;—7).

iii. Yna, gan gymmeryd i fyny y pwnc y cyfeiriwyd ato yn yr Epistol blaenorol, y mae, gyda difrifoldeb swynol, yn eu hannog i wneyd casgliad i'r rhai tlodion yn mhlith y saint yn Jerusalem, ac yn dangos amrywiol fanteision y cyfryw wasanaeth (8; 9).

iv. Amddiffyna ei awdurdod apostolaidd yn erbyn awgrymiadau yr athrawon gau; ac y mae (gyda hwyrfrydigrwydd amlwg) yn cyferbynu ei ddoniau, ei lafur, a'i ddyoddefiadau ei hunan, â chymmeriad ac ymddygiad y twyllwyr a safent yn wrthwynebol iddo (10; 11); er prawf o'r gymmeradwyaeth ddwyfol iddo, cyfeiria at weledigaethau a dadguddiedigaethau rhyfeddol oedd wedi eu rhoddi iddo (12, 1—11); dengys fod ei ymddygiad ei hunan yn amlwg, yn ddidwyll, ac anmhleidgar; ac, ar ol rhoddi rhai annogaethau caredig i hunan-ymchwiliad, a chariad a santeiddrwydd, terfyna yr Epistol gyda gweddi a bendith (12, 11—21; 13).

Cyssyllter a darllener fel y canlyn, 1, 1, 3, 8, 12, 15, 23; 2, 5, 12, 14; 3, 1, 4, 12; 4, 1, 3, 7, 12; 5, 5, 11, 16, 20; 6, 1, 11, 14; 7, 1, 2, 5, 11, 13; 8, 1, 16; 9, 1, 6; 10, 1, 7, 12; 11, 1, 5, 13, 16; 12, 1, 14, 19; 13, 1, 5, 11, 14.

176. (i.) Nid y rhan leiaf addysgiadol o'r Epistolau yma yw y goleuni a daflant ar egwyddorion ac ysbryd yr apostolion. Yn 1 Cor., dengys Paul mai nid dyn ond Crist yn unig yw canolbwnc undeb i'r eglwys, nad ydyw gweinidogion ond cydlafurwyr yn cael eu defnyddio a'u haddasu gan Dduw, i'r hwn y maent yn ddyledus am eu holl lwyddiant. Nid ydynt, gan hyny, i'w gordderchafu, nac i'w dirmygu. Y mae gwir weinidog Crist i'w adnabod oddiwrth ei amynedd, ei hunan-ymwadiad, ei santeiddrwydd, a'r ysbryd yn mha un y derchafa ei Arglwydd, 1 Cor. 1, 10; 4, 21; 2 Cor. 4;—7; 1 Thess. 2, 1—12; 3. 2 Tim. Mewn manau ereill, fodd bynag, y mae yn trin yn helaeth ar fawrhydi ac awdurdod ei swydd, 2 Cor. 10—12; Gal. 1; 2; 1 Cor. 15, 9, 10; Eph. 3, 8. Yn yr oll o'r adnodau yma, ymddengys fod yr amcan yn driphlyg, sef cadarnhau a phrofi ei athrawiaeth, a gwrthbrofi yr athrawon gau, 2 Cor. 11, 3; gosod siampl odidog o flaen Cristionogion, a gweinidogion Cristionogol, Phil. 3, 1; 4, 9; Heb. 13, 7—14; ac, uwchlaw y cwbl, egluro gallu a dylanwad dwyfol ras, 2 Cor. 12, 9; Gal. 1, 24; 1 Tim. 1, 16. Rhydd y cyfan hefyd brofion pwysig o wirionedd yr efengyl.[a]

(ii.) Gellir, oddiwrth amryw ranau, gasglu cymmeriad y gau-athrawon, yn erbyn pa rai y mae yr eglwys yn cael ei mynych rybyddio. Rhai a ddysgent Iuddewaeth, gan wadu digonoldeb y groes a rhyddid yr eglwys; yr oedd rhai yn ddysgawdwyr athronyddol, yn llygru symledd y gwirionedd; ac ereill yn "gŵn," yn troi gras Duw i drythyllwch, 1 Cor. 1, 10; —4; 2 Cor. 11; Gal. 1, 1—12; 4, 9—20; 5, 7—15; Col. 2, 16—23;

[a] Ceir eglurhad ar ostyngeiddrwydd yr apostolion, ac ar offeiriadaeth yr holl eglwys, wrth sylwi pa fodd y gofynnant am weddiau y dychweledigion, 2 Cor. 1, 11; Rhuf. 15, 30; Eph. 6, 19; Col. 4, 3, 4; 1 Thess. 5, 25; 2 Thess. 3, 1.

Act. 15, 13—31; 2 Thess. 2, 1—12; 2 Pedr 3; Judas 4—19; 1 Tim. 6, 20. 2 Tim. 2, 16; 1 Ioan 2, 18—24; 4, 1—6; 2 a 3 Ioan.

(iii.) Y mae yr eglwys yn llawer ac yn un, 1 Cor. 11, 16; 14, 33; Gal. 1, 22; 1 Thess. 2, 14; Act. 16, 5; 1 Cor. 12, 12—27; Eph. 4, 3—5; 5, 25—32; Col. 1, 18—24; Gal. 3, 28; Math. 16, 28:—wedi ei dewis (Eph. 1, 4; 1 Pedr. 5, 13):—wedi ei charu (Eph. 5, 25; Dad. 1, 5):—wedi ei phrynu gan Grist (Heb. 9, 12; 1 Pedr 1, 18, 19), ac yn ddarostyngedig iddo (Rhuf. 7, 4; Eph. 5, 24). Crist yw ei Sylfaen a'i Phen (Eph. 2, 20; 1 Pedr 2, 4, 6; Eph. 1, 22; 5, 23; Col. 1, 18). Yr eglwys yw ei gorff a'i briodasferch (Eph. 1, 23; Col. 1, 24; Dad. 21, 9; 22, 7).

(iv.) Am gymmeriad cyffredinol ei haelodau, gwel y desgrifiadau a roddir ar ddechreu pob Epistol, yn enwedig 1 Cor. 3, 9—17; 2 Cor. 6, 14—17; 1 Thess. 1, 2—10; 2, 13, 14; 3, 6; 4, 9, 10; Eph. 2, 13—22; Phil. 1, 7; Col. 1, 3—8; 1 Ioan. Dylai yr eglwys yn gyfan, a phob aelod o honi, fod yn ddelw o Grist, 2 Cor. 3, 18; Rhuf. 8, 14, 29; Eph. 1, 4, 5; 4, 23, 24; 1 Pedr. 4, 1; ac yn deml i'r Ysbryd, 1 Cor. 3, 16, 17; 2 Cor. 6, 16; 1 Tim. 3, 15; 1 Ioan 3, 24; 4, 12, 15; Ioan 14, 23; 17, 21—23.

(v.) Y mae yr Ysgrythyr yn hynod o benodol ar ddyledswyddau Cristionogion tuag at eu gilydd. Y cyfiawnder a'r haelfrydedd dyledus arnynt fel *dynion* tuag at eu cyd-ddynion (gwel Rhuf., Rhan ii., adr. 179), hefyd tuag at eu brodyr; ond y mae dyledswyddau ereill yn orphwysedig arnynt heblaw y rhai hyn, a chymhellir y cyfan drwy resymau perthynol i Gristionogaeth yn neillduol, wedi eu cymmeryd, mewn gwirionedd, oddiwrth eu cydberthynas â'u gilydd drwy gariad a gras eu Harglwydd, 1 Cor. 16, 13—16; 2 Cor. 13, 11; Rhuf. 2, 3—10; Gal. 6, 2; Eph. 4, 1—16; Col. 3, 12—15; Phil. 2, 1—16; 1 Thess. 4, 9; 5, 11—21; 1 Pedr. 1, 22; 4, 8—11; 5, 1—7; 2 Tim. 2, 22; Iago 2, 1—18; Heb. 10, 25; 13, 7—17; 1 Ioan 3, 13—23; 4, 7, 11, 21; 5, 16—17.

(vi.) Dyledswyddau perthynasol Cristionogion. Mewn perthynas i briodas, 1 Cor. 7; Gal. 3, 28; Eph. 5, 22—33; Col. 3, 16—19; 1 Pedr 3, 1—7; Heb. 13, 4; Tit. 2, 4, 5. Ar wir fawrhydi a phriodol ymddygiad gwragedd Cristionogol, gwel adnodau blaenorol, a 1 Cor. 11, 1—16, 14, 34, 35; 1 Tim. 2, 9—15. Fel rhieni, Eph. 6, 4; Col. 3, 21; 1 Tim. 5, 8; 3, 4, 5; Tit. 2, 4; 2 Ioan. Fel plant, Eph. 6, 1, 2; Col. 3, 20; Heb. 12, 9; 1 Tim. 5, 1; 1 Pedr 5, 5 (gwel Job 32, 6, 7). Fel meistriaid, Eph. 6, 9; Col. 4, 1; Philem. 16; Iago 5, 4. Fel gweision, 1 Cor. 4, 2: 7, 22: Gal. 3, 28: Eph. 6, 5, 6; Col. 3, 22, 23: 1 Tim. 6, 1, 2: Tit. 2, 9, 10: Philem. 11: Luc 12, 41—43; 16, 10. 12. Fel dynion, gwel Rhufeiniaid. Siamplau: Rhieni, Gen. 18, 19; 42, 4. 2 Tim. 1, 5. Plant, Ruth 1, 14: Esth. 2, 20: 2 Tim. 3, 15. Meistriaid, Gen. 17, 23: Jos. 24, 15: 2 Sam. 6, 20: Act. 10, 2. Gweision, 2 Bren. 5, 2: Act. 10, 7.

(vii.) Haelfrydedd: ei gymhellion a'i fesur, 1 Cor. 16, 1, 2; 2 Cor. 8: 9: Rhuf. 12, 13: 15, 26, 27: 1 Tim. 6, 17—19: 1 Ioan 3, 17—19: Iago 1, 27: 2, 8: Heb. 6, 6: mewn derbyn cyd-gristionogion, Rhuf. 12, 13: Heb. 13, 1, 2: 1 Tim. 5, 10: Tit. 1, 7, 8: 3 Ioan.

Oddiwrth hyn ymddengys, er, ar y cyntaf, i aelodau yr eglwys yn Jerusalem "werthu eu meddiannau, fel yr oedd pob peth ganddynt yn gyffredin," etto, nad ydoedd hyn wedi ei fwriadu fel rheol; tra yr annogir pawb i gyfranu megys y mae yr Arglwydd yn eu llwyddo.

(viii.) Mewn trefn i ddiogelu y cariad a'r cysur cynnwysedig yn y berthynas yma, rhaid i eglwys Crist gael ei chadw yn rhydd oddiwrth anmhurdeb ac annhrefn. Cerydd, cefnogaeth, beiad, diarddeliad, adferiad—y maent oll i'w harfer er lles y corff. 1 Cor. 5: 2 Cor. 6, 14—18: 3, 17: 10, 8: 13, 10: Gal. 6, 1: 2 Thess. 3, 6—15: 1 Tim. 5: 6: 2 Tim. 3, 1—5: 4, 2: Tit. 1, 10:—3, 10: Judas 22; Dad. 2, 14—16, 20—23.

(ix.) Y pechod o ymraniadau, a'r modd i'w hadgyweirio, 1 Cor. 1, 10; 4, 21: 2 Cor. 11: Rhuf. 16, 17, 18: 1 Tim. 1, 3—7: 6, 3—5, 20: Tit. 3, 9—15: Heb. 13, 8, 9. Gwel ar gyd-oddefgarwch Cristionogol.

(x.) Ar gyd-oddefgarwch Cristionogol mewn perthynas i faterion y gallai dynion da wahaniaethu yn eu barnau arnynt, 1 Cor. 8:—10: Rhuf. 4, 1: 15, 7: Math. 18, 10: Phil. 2, 1—7: Iago 4, 11, 12: Act. 15, 8, 9: 11, 17: 1 Pedr 3, 8.

(xi.) Yr iawn ddefnydd o ddoniau gwyrthiol, megys prophwydoliaeth, &c., a eglurir yn helaeth yn yr Epistolau yma. Bwriadwyd y doniau yma i gadarnhau gwirionedd yr efengyl, cynnorthwyo tuag at ei gwasgariad cyflym, ac yr oeddynt yn anhebgorol i brofi gwirionedd dadguddiad newydd. *Yn awr*, yr ydym yn cael ein cyfeirio am brofion ac am wybodaeth ysbrydol i'r Ysgrythyrau. Addysg allanol, profiad personol, myfyrdod gofalus, ac ysbryd o ymddibyniaeth duwiol ar ddysgeidiaeth Duw yn ei air, a gyflawnant le doniau gwyrthiol, 2 Tim. 2, 1: 3, 3, 15, 16: 2 Thess. 2, 15: 2 Pedr 1, 15—21: 3, 1—4: 14—17: Iago 1, 5. Dysgwn yn y rhanau yma, fodd bynag, y dylai eglwys Crist gael ei hadeiladu drwy wasanaeth ewyllysgar a chydunol yr holl aelodau, yn ol eu hamrywiol ddoniau, 1 Cor. 12: 14: Rhuf. 12, 4—8: Gal. 3, 1—5: Eph. 4, 7—13: Heb. 2, 1—4.

(xii.) Sylwer ar natur a thra-ragoriaeth cariad Cristionogol, 1 Cor. 13: Col. 3, 12, 14; Gal. 5: 6; 1 Tim. 1, 5; 1 Ioan 3, 10—24.

(xiii.) Sylwer ar bwysigrwydd a chysur athrawiaeth yr adgyfodiad oddiwrth y meirw, a pha fodd y cadarnheir hi gan adgyfodiad ein Harglwydd. 1 Cor. 15; Rhuf. 8, 11, 19—25; 1 Thess. 4, 13—17; Dad. 20, 11—13; Ioan 5, 21, 28.

(xiv.) Sylwer hefyd gyda'r fath drefn a duwiolfrydedd y mae swper yr Arglwydd i'w chadw, a noder nad ydyw yn aberthol ond yn gofiannol. 1 Cor. 11, 17—34; 10, 15—18; Math. 26, 26—30; Act. 2, 42—47; 20, 7.

Yr Epistol at y Rhufeiniaid.

Corinth, o. c. 58.

177. Yr Epistol at y Rhufeiniaid a gyfeiriwyd at y Cristionogion a breswylient yn mhrif-ddinas yr amherodraeth fawr hono, oedd â'i llywodraeth yn cyrhaedd yn agos dros yr holl fyd adnabyddus.

Darparwyd y ffordd gan Ragluniaeth Ddwyfol i'r efengyl gael ei chyflwyno i Rufain drwy ymsefydliad llawer o Iuddewon ynddi. Fod sefydliad yr addoliad Iuddewig yn Rhufain wedi effeithio cryn lawer ar y bobl gyffredin, sydd eglur oddiwrth fynegiadau ysgrifenwyr paganaidd. Llefara Ovid am y synagogau fel lleoedd o gydgynnulliad cyffredinol; ac yn ddiweddarach fyth, y mae Juvenal yn gwawdio ei gydwladwyr am droi yn Iuddewon.

Pa amser a chan bwy y pregethwyd yr efengyl gyntaf yn y ddinas amherodrol, sydd anadnabyddus. Gellir casglu i hyn gymmeryd lle yn fore,

oddiwrth y ffaith fod ffydd y Cristionogion Rhufeinig, pan ysgrifenodd Paul y llythyr yma, yn "cael llefaru am dani drwy yr holl fyd," pen. 1, 8. Y mae yn debyg i rai "o'r dyeithriaid o Rufeinwyr, Iuddewon, a phroselytiaid," oedd yn bresenol yn Jerusalem ar ddydd mawr y Pentecost (Act. 2, 10), ddwyn gyda hwynt i Rufain wybodaeth o'r efengyl. Ac nid ydyw yn annhebyg hefyd, wrth ystyried yr ymgyfathrachiad parhaus oedd rhwng Rhufain a'r taleithiau, fod rhai o'r dychweledigion lluosog at Gristionogaeth, yn Judea, Asia Leiaf, a Groeg, wedi myned â'r efengyl yn fore i'r brif-ddinas. Fod rhai o'r personau a weithredent yn sefydliad yr eglwys yn Rhufain (dau o ba rai a nodir gan Paul fel wedi eu hargyhoeddi o'i flaen ef) yn gyfeillion neillduol i Paul, â pha rai y cyfarfyddodd tra yn pregethu yn Asia ac yn Groeg, sydd eglur oddiwrth ffurf yr anerchiadau yn pen. 16, 3—16.

Traddodiadau rhai o'r hen dadau, sef, mai Pedr oedd sylfaenydd yr eglwys yn Rhufain, a ymddangosant yn annghysson â'r profion cynnwysedig yn yr Epistol hwn, yn gystal ag yn llyfr yr Actau, yr hwn a ddengys fod Pedr yn Jerusalem ar yr amser yr haerir ei fod yn Rhufain. Yn awr, pe buasai Pedr, nid yn unig wedi bod yno, ond hefyd wedi sylfaenu yr eglwys, a llywyddu drosti, y mae yn anmhosibl credu y buasai Paul yn peidio cyfeirio at y ffaith hono. Ac yn mhellach, pe buasai Pedr yn Rhufain pan ysgrifenodd Paul yr Epistol yma, buasai yn sicr o gael ei gynnwys yn y gyfres neillduol o enwau personau at ba rai yr oedd anerchiadau yn cael eu hanfon yn pen. 16.

Penderfynir dyddiad yr Epistol yma mewn modd hynod o benodol gan y ffeithiau canlynol. Nid oedd Paul etto wedi bod yn Rhufain (1, 11, 13, 15). Bwriadai fyned yno ar ol ymweled yn gyntaf â Jerusalem (15, 23—28), a hyn oedd ei amcan yn ei arosiad am dri mis yn Nghorinth, Act. 19, 21. Yr oedd yn nghylch dwyn casgliad o Macedonia ac Achaia i Jerusalem (15, 26, 31); ac efe a ddygodd y casgliad yma o Gorinth i Jerusalem ar ddiwedd ei ymweliad, Act. 24, 17. Pan ysgrifenodd yr Epistol, yr oedd Timotheus, Sosipater, Gaius, ac Erastus, gydag ef (16, 21, 23). Gaius oedd ei lettywr, a phreswyliai yn Nghorinth, 1 Cor. 1, 14. Erastus ei hunan oedd Gorinthiad, ac wedi cael ei anfon ychydig cyn hyny o Ephesus, gyda Timotheus, ar eu ffordd drwy Gorinth i Macedonia, Act. 19, 22; 1 Cor. 16, 10, 11; a dywedir yn benodol yn yr Actau (20, 4), fod y tri blaenaf gyda Phaul yn Nghorinth. Phœbe, fodd bynag, gyda yr hon yr anfonwyd y llythyr, oedd yn aelod o'r eglwys yn mhorthladd Corinthiaidd Cenchrea (16, 1). Gan hyny, pan oedd Paul yn darparu i ymweled â Jerusalem, yr oedd un o'r rhai a argyhoeddwyd ganddo yn ymadael â Chorinth, mewn cyfeiriad gwrthwynebol, i Rufain, a dygwyd yr Epistol hwn ganddi i'r ddinas hono. Ac fel hyn, penderfynir ei ddyddiad yn o. c. 58.

Gellir casglu beth oedd cymmeriad yr eglwys Rufeinig oddiwrth yr Epistol ei hun. Yr oedd yn gynnwysedig o amryw ddychweledigion oddiwrth Iuddewaeth (3, 4, 14, &c.); ond eglur yw fod y rhan amlaf o ddechreuad Cenedlig (1, 13; 15, 14, 15). Yr oedd o bwys iddynt oll gael dadleniad cyflawn ac ysbrydoledig o wirionedd dwyfol; a rhoddir hyn iddynt. Yr oedd yr athrawiaeth o gyfiawnhad drwy ffydd wedi cael ei defnyddio i gyfiawnhau ymarferiadau anfoesol (3, 8); ac heblaw hyny, yr oedd ymrysonau wedi cyfodi rhwng y dychweledigion Iuddewig a'r Cristionogion Cenedlig (11, 17, 18; 14). Yr oedd y crediniwr Iuddewig yn anfoddlawn i edrych ar ei frawd Cenedlig a dienwaededig fel un cyfartal iddo yn

nheyrnas Çrist (3, 9; 15, 7—11); ac ar y llaw arall, yr oedd y dysgybl Cenedlig goleuedig yn dueddol i drin y rhagfarnau a arosent yn meddwl yr Iuddew gyda dirmyg (14, 3). Yma, gan hyny, dangosir fod athrawiaeth cyfiawnhad yn cynnyrchu santeiddrwydd. I'r Cristion Iuddewig, y mae *gwirionedd* a'i hawliau yn cael eu dadlenu; a *chariad* a'i hawliau i'r Cristion Cenedlig; a dysgir i'r ddau mai ffydd yn Nghrist, ac ymostyngiad iddo, yw unig ammodau lle yn yr eglwys, a chyfran yn y cyfammod. Yn yr holl ymddadleuaeth yma, gosodir i lawr egwyddorion ag ydynt o'r gwerth mwyaf i'r eglwys yn mhob oes.

Gellir dosranu yr Epistol fel y canlyn (gwel adr. 171, *nodiad*) :—

1, 1, 8, 13, 16, 18, 24; 2, 1, 17, 25; 3, 1, 5, 9, 21, 27, 29, 31; 4, 1, 6, 9, 10, 13, 18, 23; 5, 1, 3, 6, 11, 12; 6, 1, 12, 15; 7, 1, 7, 13; 8, 1, 12, 18, 26, 28, 31; 9, 1, 6, 16, 14, 19, 30; 10, 1, 14, 18; 11, 1, 7, 11, 16, 22, 25, 33; 12, 1, 3, 6, 9, 14; 13, 1, 11; 14, 1, 13; 15, 1, 5, 8, 14; 16, 1, 17, 21, 25.

178. Gan fod yr Epistol at y Rhufeiniaid yn ymdrin â'r athrawiaeth sydd wedi cael ei hystyried fel maen-prawf eglwys wirioneddol, a chan ei fod befyd y mwyaf cyflawn a rheolaidd o holl ysgrifeniadau yr apostol, dosranwn y cyfan, gan ddangos rhediad yr ymresymiad a'r eglurhad. Canfyddir yn ddigon amlwg fod pwysigrwydd adnodau neillduol yn ymddibynu i raddau helaeth ar eu cyssylltiad a'u tuedd.

(I.) *Rhagarweiniad* (1, 1—17).

(1.) Yr anerchiad (1, 1—7).
(2.) Rhagarweiniad, a barn Paul am yr efengyl (8—17).

(II.) *Esboniad Athrawiaethol* (1, 18:—11, 36).

(*a.*) *Pechadurusrwydd* yr hiliogaeth ddynol.
(1.) Cyflwr y Paganiaid,—
Yn eu perthynas â Duw (1, 18—23).
Yn eu perthynas â dyledswydd ddynol (24—32).
(2.) Cyflwr yr Iuddewon,—
Nis gall gwybodaeth yn unig gadw (2, 1—11).
Y mae hyd y nod yn cynnyddu euogrwydd (12—29).
(3.) Cymhariaeth rhwng Iuddewon a Chenedloedd,—
Nad ydyw gwerth goruchwyliaeth yr Hen Destament yn cael ei leihau (3, 1—8).
Y maent oll yn euog, ac mewn angen iachawdwriaeth (9—20).
(*b.*) *Trefn yr efengyl o iachawdwriaeth* yn cael ei hegluro, ynddi ei hunan, ac yn ei chanlyniadau.
(1.) Y cynllun yma yn cael ei egluro, ei fod fel dadguddiad o gyfiawnder a thrugaredd dwyfol yn cadw allan—
Bob ymffrost (3, 21, 26—28), ac
Yn cadw pawb ar yr un tir (29—31).
(2.) Dynion santaidd gynt yn cael eu cyfiawnhau drwy ffydd—
Eglurir hyn yn Abraham (4, 1—5); Dafydd (6—8).
Enwaediad yn arwydd (9—12), a'r ddwyflywodraeth (13—17) yn ganlyniad y cyfammod; ac, am hyny, yn ganlyniad cyfiawnhad, yn hytrach nag yn wasanaethgar iddo.
(3.) Ffydd Abraham yn cael ei darlunio. Ei chanlyniadau (4, 8—25).
(4.) Ffrwythau ffydd mewn profiad Cristionogol, mewn cyfranu tangnefedd, llawenydd, a gobaith (5, 1—11).

(5.) Dangosir rhagoriaeth ffydd drwy gymhariaeth rhwng Adda, pen yr biliogaeth syrthiedig, a Christ, awdwr bywyd ysbrydol, i bob un sydd mewn undeb âg ef (5, 12—21).

(c.) Fod y *ffordd* yma o *iachawdwriaeth (charis, dikaiosune)* yn ffafriol i *santeiddrwydd.* (Gwel 3, 8.)

(1.) Nis gallwn fyned rhagom mewn pechod fel yr amlhäo gras, oblegid yr ydym yn un a Christ ein Pen, yn ei fedydd, ei farwolaeth, a'i fywyd (6, 1—14); adnodau 12—14 a eglurant y drychfeddwl mai Crist yw ein Brenin yn gystal a'n Pen.

(2.) Ac nis gallwn fyned rhagom mewn pechod am ein bod dan ras ac nid dan y ddeddf.

Oblegid y mae gweision un arall yn rhwymedig i ufyddhau i'w meistr, ac heblaw hyny—

Llywodraethir dynion yn fwy gan yr awdurdod hono a gydnabyddir ganddynt o'u calon. Er ei bod yn dyfod yn iau, etto, os bydd yn gyfiawn, rhyddid ydyw, ac y mae iddi ganlyniadau gogoneddus (ü, 15—23).

(3.) Eglura yr un gwirionedd ag yn 6, 2, drwy siampl sylfaenedig ar gyfraith (7, 1—7).

Cyfyd dwy wrthddadl oddiwrth hynyma:

(4.) Naill ai pechod yw y gyfraith—

Nage; oblegid y mae yn dadguddio pechod, ac yn ei argraffu ar y gydwybod (7, 7—12).

(5.) Neu, er ei bod ynddi ei hunan yn dda, etto y mae wedi dyfod yn farwolaeth (7, 13—25).

Nac ydyw; oblegid yr ydym ni ("ein dyn oddifewn") yn cydnabod ei bod yn ysbrydol, hyd y nod pan na fyddom yn ufyddhau iddi; ffaith a gydnabyddir gan yr ailenedig a'r diailenedig.

Y ddwy ffaith a gyfarfyddant â'r wrthddadl, a dangosant ein hangen ni am gyfundraeth newydd.

(d.) Gan fod y *gyfraith* wedi *methu cyfiawnhau a santeiddio,* y mae yn ail-adrodd, ac yn ymhelaethu ar y gwirionedd mai *Crist drosom ni,* a *Christ ynom ni,* yw ein cyfiawnhad a'n santeiddrwydd.

(1.) Cristionogion yn cael eu cyfiawnhau yn Nghrist, a'u santeiddio ynddo, drwy yr Ysbryd; bydd y santeiddiad yma yn gyflawn (8, 1—11).

(2.) Dyledswydd a rhagorfraint y Cristion (8, 12—17).

(3.) Y cyssylltiad rhwng perffeithiad y greadigaeth a pherffeithiad plant Duw (8, 18—25).

(4.) Bendithion ereill (8, 29, 27, 28—30, 31—39).

(e.) Fel y mae yr apostol, yn pen 1, 18:—3, 20, wedi egluro perthynas Iuddewon a Chenedloedd â'r gyfraith, felly, yn pen. 9, 1:—11, 36, y mae yn egluro *perthynas y ddau â'r efengyl.*

Fod iachawdwriaeth yn Nghrist i bob un ar y sydd yn credu, yw y penderfyniad i ba un y mae yr apostol wedi dyfod; ond os felly, y mwyrif mawr o'r Iuddewon a gollir, a chymmerodd y Cenedloedd eu lle; ymddengys y canlyniad yma yn galed, ac yn frawychus neillduol i'r Iuddew. Cyferfydd yr apostol â'r teimlad yma.

(1.) Mynega ei fod ef ei hunan yn teimlo yn ddwys wrth eu cyflwr gwrthodedig (9, 1—6).

(2.) Nis gellir dywedyd, fodd bynag, fod yr addewid heb ei chyflawnu,

neu fod y gwahaniaeth yma yn y driniaeth yn beth annghyffelyb, oblegid—

Nid oedd yr addewid yn cyrhaedd holl hâd Abraham, ond plant Sarah yn unig; ac nid oedd yn cyrhaedd holl hiliogaeth Sarah, dim ond Jacob (7—13), a sylfaen y gwahaniaeth oedd, nid *teilyngdod sylweddol* y personau, ond etholedigaeth Duw.

Nid oes un lle i gasglu oddiwrth hyn fod Duw yn annghyfiawn, oblegid y mae pob trugaredd o du Duw yn brawf o'i garedigrwydd, ac yn hollol anhaeddiannol.

Dangosir yn mhellach fod gan Dduw hawl i wahaniaethu yn ei ymddygiadau, a'i fod yn gwneyd hyn, oddiwrth achos Pharaoh (14—18).

(3.) Ond onid ydyw y drychfeddwl yma o amcan, o du Duw, yn ein rhyddhau ni oddiwrth fai? Y mae yr apostol yn ateb y gofyniad yma, yn gyntaf, drwy osod allan fod gan Dduw hawl i wneuthur yn ol ei ewyllys, gan awgrymu nas gall fod dim allan o le yn yr ymarferiad o'r hawl yma; ac yn ail, fod cyfiawnder a thrugaredd Duw yn cael eu dadlenu yn fwy dysglaer yn yr ymarferiad o'r ewyllys hono (19—24), drwy fod pawb yn cael eu cadw ar yr un tir, yn Iuddewon a Chenedloedd (24).

(4.) Y galwad yma o'r Cenedloedd, ac iachawdwriaeth gweddill yn unig o'r Iuddewon, ydynt yn cael eu rhagfynegu, neu y mae ganddynt eu rhagreolau *(precedents)* yn yr Hen Destament (25—29).

(5.) Er fod methiant a gwrthodiad yr Iuddewon, mewn un ystyr, yn unol â'r bwriad Dwyfol, etto canlyniadau annghrediniaeth ydynt mewn gwirionedd (30—33).

Pen. 10. Ymhelaethir ar y meddwl diweddaf yn pen. 10. Ar ol iddo etto fynegu ei ofid o herwydd annghrediniaeth yr Iuddewon, dengys mai canlyniad annghrediniaeth yw eu gwrthodiad, ac y bydd pawb a alwant ar enw yr Arglwydd, yn Iuddewon a Chenedloedd, yn gadwedig (1—13).

Yna gwrthddadleuir nas gallasai yr Iuddewon *alw* ar un na chlywsant am dano (14—17), ac y mae yr apostol yn ateb drwy ddangos eu bod wedi clywed, ac nad oedd eu gwrthodiad o'r gwirionedd i'w briodoli i anwybodaeth, ond i annghrediniaeth anufydd; ffaith ag oedd, yn ei holl agweddau, wedi cael ei rhagfynegu gan eu prophwydi hwynt eu hunain (18—21).

Pen. 11. Y mae yr apostol yn myned rhagddo i egluro ei fynegiadau.

(6.) Rhaid peidio meddwl fod Israel, fel cyfangorff, wedi eu gwrthod.

Nid Iuddewon, fel Iuddewon, ond Iuddewon fel annghredinwyr, sydd wedi eu gwrthod; "Canys," medd efe, "yr wyf finau hefyd yn Israeliad" (1), ac, megys yn nyddiau Elias, yr oedd miloedd na phlygasant i Baal, felly yn awr, y mae gweddill, yn ol etholedigaeth gras, wedi eu dewis, nid er mwyn eu gweithredoedd, ond o ffafr rydd, tra y mae ereill wedi colli y fendith drwy annghrediniaeth (2—10).

Ac wrth lefaru am yr Iuddewon fel cenedl, nid ydyw hyn yn wrthodiad cyflawn;

Rhoddodd eu hannghrediniaeth hwynt achlysur i gyhoeddi y gwirionedd i'r Cenedloedd, a bydd eu dychweliad hwynt yn gyssylltiedig â gwasgariad cyffredinol gwirionedd (11—15), ac y mae ffydd y tadau yn fath o ernes o hyn oll (16).

(7.) Gostyngeiddrwydd, ffydd, a mawrygiad parchus o gyfiawnder a thrugaredd Duw, yn nghyd â gobaith am y canlyniad cyffredinol yma, sydd yn gweddu i'r holl Gristionogion Cenedlig (17—24), ac—

(8.) Heblaw hyny, bydd i Israel, fel cyfangorff, gael eu dychwelyd at Dduw (25—32).

(9.) Y mae holl gynllun yr iachawdwriaeth yn brawf o ddoethineb a chariad anchwiliadwy Duw (33—36), a bydd i'r cyfan yn y diwedd droi yn ogoniant iddo.

(III.) *Dadleniad gwirionedd Moesonawl (Ethical).*

(i.) Mewn cyssylltiad âg ymddygiad yn gyffredinol.

(1.) Y mae pob athrawiaeth flaenorol yn cyfeirio at gyssegriad yr holl fywyd, fel y canlyniad priodol, a chyda'r ymgyssegriad yma y mae pob santeiddrwydd yn dechreu (12, 1, 2).

Y mae hyn yn sylfaenedig ar ostyngeiddrwydd, hyny yw, ar olygiad gwirioneddol ac iachus am danom ein hunain, ac am ein sefyllfa (12, 3).

Cynnwysa yr ymgyssegriad yma—

(2.) Berthynas y Cristion â'r eglwys (12, 4—13), yn cynnwys cariad, ffydd, a gobaith; ac yn—

(3.) Perthynas y Cristion â'r byd (12, 14—21).

(4.) Pen. 13. Canfyddir yr ysbryd yma o ymgyssegriad yn eglur yn yr ymostyngiad i'r gallu llywodraethol, yr hwn a feddianna rym cyfraith Ddwyfol (1—7). Ufydd-dod mewn achosion fel hyn sydd ffurf arall o ddeddf fawr cariad (8—10), yr hon, dan yr efengyl, sydd mewn modd neillduol yn rhwymedig, megys y mae pob santeiddrwydd ysbrydol (11—14).

(ii.) Mewn perthynas i'n hymddygiad gyda golwg ar bethau nad ydynt anhebgorol (14, 1; 15, 7).

Yma, goddefgarwch yw ein rheol. Gall yr hwn sydd yn ystyried pethau nad ydynt anhebgorol yn rhwymedig fod y Cristion gwanaf, ond y mae Duw wedi ei dderbyn ef; y mae yn gwneuthur pob peth i Grist, yr hwn yw ei farnwr; ac yn unol â'i gydwybod ei hunan, yr hon, mewn modd is-raddol, yw ei gyfraith.

Nid ydyw, gan hyny, yn llai ei roesaw, ac nid ydyw, drwy wawd na cherydd, i gael ei demtio i droseddu yr hyn y mae efe ei hunan yn ei gredu (14, 2—23).

Siampl Crist, ac amcan eithaf yr Ysgrythyrau, a ddysgant y ddyledswydd yma hyd y nod ar dir mwy ëang, sef y daioni cyffredin (15, 1—7).

Ail-adroddir y wers, fod Cenedloedd ac Iuddewon yn un corff, a bod iachawdwriaeth pob un yn eglur offyddlondeb a thrugaredd Duw (15, 8—13.)

(IV.) *Cyfluyniadau Personol.*

(1.) Eglurhad ar berthynas yr apostol a'r Cenedloedd, ac o'i ddifrifoldeb ar eu rhan (15, 14—21).

(2.) Mynegiad am rai o'i deithiau bwriadedig (15, 22—23).

(3.) Anerchiadau (16, 1—23), yn nghyd â gocheliadau o berthynas i'r rhai a achosent ymrafaelion (17—20).

(4.) Y terfyniad (24—27).

179. Sylwer yn yr Epistol yma ar y gwirioneddau canlynol, yn athrawiaethol a moesol.

(i.) Angen mawr dyn am iachawdwriaeth, mewn canlyniad i'w ënogrwydd, ei lygredigaeth, a'i drueni (1, 18—3, 20, cymharer 6, 19—21: 8,

6—8): Gal. 3, 10—22: Eph. 2, 1—3: 4, 18, 19: Col. 3, 5—10: Heb. 9, 1—9: 10, 1—11: 1 Pedr 4, 3: Tit. 3, 3: Salm 130, 3: 143, 2.

(ii.) Unig ffordd cyfiawnhad—drwy ffafr rydd Duw, a ffydd yn nghyfiawnder Crist; yn cael ei hesbonio a'i hegluro oddiwrth hanes Abraham a Dafydd (3, 21: 4, 25: 5, 16: 8, 1): Gal. 3, 6—29: Eph. 2, 8—10: Phil. 3, 7—10: Titus 3, 4—7: Heb. 10, 11—18: Salm 22, 30, 31: Esa. 42, 21: Jer. 23, 5, 6. Y mae y ffydd yma yn santeiddio; gwel Iago ac Act. 26, 18.

(iii.) Heddwch a chymmod, gobaith a llawenydd, ydynt ffrwythau ffydd (5, 1—11: 10, 15: 14, 17): 2 Cor. 5, 18—21: Eph. 2, 11—20: Col. 1, 19—27: 1 Pedr 1, 18—21: Esa. 32, 71: Sal. 85, 8—10: 16, 9—11.

(iv.) Fel y mae pawb yn bechaduriaid drwy anufydd-dod un, felly y mae cyfiawnder a bywyd tragywyddol drwy ufydd-dod Crist (5, 12—31); 1 Cor. 15, 20—23, 45—49: 1 Tim. 1, 14: Gen. 3, 6: 5, 3: Esa. 53, 10—12.

(v.) Y cymhellion efengylaidd i ufydd-dod; rhyddhad oddiwrth lywodraeth a chondemniad yr hen gyfraith, undeb bywiol â Christ, ac ymostyngiad i'w awdurdod ef, dylanwad cymhelliadol ei gariad, effeithioldeb ei farwolaeth a'i adgyfodiad, gallu trawsgyfnewidiol ei siampl, cymhorth addawedig ei Ysbryd, a gobaith gwobr dragywyddol; mewn gair, holl serchiadau a dymuniadau ein bywyd newydd (6, 1:—7, 25): 2 Cor. 5, 14—17: 6, 14—18: Gal. 2, 19, 20: 5, 24: 6, 14: Eph. 2, 4—10: Col. 2, 6—17: 3, 1—3: Tit. 2, 10—14: 1 Pedr 2, 20—25: 4, 1, 2: 2 Pedr 1, 4—9: Phil. 3, 17, 18: Salm 116, 16: Jer. 31, 31—34: Act. 26, 18.

(vi.) Y rhagorfreintiau cyssylltiedig â chyfiawnhad—mabwysiad, y presenoldeb mewnol, tystiolaeth a chymhorth yr Ysbryd, sicrwydd am iachawdwriaeth gyflawn ac etifeddiaeth ogoneddus (8, 1—27; 5, 5); 2 Cor. 1, 21, 22; Gal. 4, 1—7; Eph. 1, 14: 6, 18: 1 Pedr 1, 3—9: 1 Ioan 3, 1—3, 19—21.

(vii.) Ffynnonell prynedigaeth—cariad goruwch-lywodraethol, a bwriad tragywyddol Duw (8, 28—39); Eph. 1, 3—10; 2 Thess. 2, 13—17: 1 Pedr 1, 2—5; 2, 7—10; 2 Tim. 1, 9—12; Ioan 17, 9—24.

(viii.) Prif ddyledswydd Cristionogion, yn unigol, yn gymdeithasol, fel aelodau o eglwys Crist, ac fel deiliaid y llywodraeth wladol (12, 1: 15, 7.)[a] Y mae moesoldeb Cristionogol yn gofyn uniondeb cyffredinol a pharhaus; rhaid iddo fod yn ffrwyth calon wedi ei hadnewyddu;[b] yn seiliedig ar grefydd, hyny yw, ar gyssegriad y dyn yn ei holl alluoedd a'i serchiadau i Dduw;[c] y mae mewn angen am ddylanwad santeiddiol yr Ysbryd Glân:[d] ac nis gellir ei gyflwyno yn gymmeradwy ond yn unig drwy gyfryngdod Crist.[e] Y moesoldeb yma yw y pwnc penaf i'r credadyn; oblegid y mae ei gyfiawnhad yn berffaith, tra y mae ei santeiddiad yn anmherffaith; a'i gyrhaeddiad yw amcan bywyd y Cristion, megys yr oedd yn un o amcanion dyfodiad ein Harglwydd.[f]

[a] Cymharer y rhanau canlynol, y rhai ydynt oll yn ymdrin â moesoldeb, a chanfyddir nad oes un pechod yn cael ei esgusodi, ac nad oes un gangen o gyfiawnder yn cael ei gadael allan o ddeddflyfr y Cristion. Rhuf. 12, 1; 15, 7; 1 Cor. 6; 11, 1—16; 2 Cor. 4; 6, 14—18; Gal. 5; 6; Eph. 4—6; Phil. 1, 27; 2, 16; 3, 18; Col. 3, 1; 4, 6; 1 Thess. 4; 2 Thess. 3, 6—15; 1 Tim. 2, 9—15; 6; 2 Tim. 3, 1—9; Tit. 1, 12; 3, 8; Philem.; Heb. 13; Iago i gyd (gwel 2, 10); 1 Pedr 1, 22; 2, 3; 2, 11; 3, 17; 4, 8—11; 5, 1—7; 2 Pedr 2; 3, 11—14; 1 Ioan, 2, 3—11, 15—17, 29; 3, 3—18, 24; Judas.

[b] Eph. 4, 22—24; Col. 1, 22, 23; Phil. 2, 3—5; Rhuf. 12, 2. A'r holl ranau a lefarant am gymhellion i ufydd-dod, ac hyd y nod gyfluniad yr Epistolau, yn gyfeiriedig fel y maent at Gristionogion, gan sylfaenu gorchymynion ar athrawiaethau, ac ufydd-dod ar ffydd, Salm 51, 10; Exec 36, 25, 27.

[c]. Rhuf. 12, 1; 1 Cor. 6, 20; 2 Cor. 5, 15; 6, 14—18; 7, 1; 8, 5; Phil. 1, 20; 1 Pedr 2, 24; 4, 2; Eph. 5, 25—27; 1 Thess. 5, 23, 24; 1 Ioan 3, 3.

[d] Rhuf. 15, 16; Phil. 4, 13; Heb. 9, 14; 1 Pedr 1, 22.

[e] Eph. 1, 6; Phil. 1, 9—11; 1 Pedr 2, 5; 1 Ioan, 3, 6—10; Col. 3, 17.

[f] Eph. 4, 11—13; 5, 25—27; Phil. 2, 12; 3, 13; Tit. 2, 11—14.

Amrywiol ddyledswyddau moesoldeb ydynt yn hawdd eu trefnu. Perthynant i Dduw—i ni ein hunain—ac i ereill. Yn wir, gwneir y cyfan, yn rhwymedig gan gyfraith Ddwyfol, a rhaid i'r cwbl gael ei gyflawnu oddiar gymhellion crefyddol. Etto, y mae y gwahaniaeth yn gyfleus ac ysgrythyrol. Cydnabyddir ef yn y 12fed o'r Rhufeiniaid, ac mewn lleoedd ereill. Ymroddiad bywiol i Dduw a orchymynir gyntaf, ad. 1, 2; yna y rhinwedd personol o ostyngeiddrwydd, ad. 3; ac yn olaf, y dyledswyddau rhwymedig arnom tuag at eglwys Crist, a thuag at y byd.

(ix.) O berthynas i Dduw, y mae yn orphwysedig arnom—i chwilio allan ei gymmeriad a'i ewyllys, yn enwedig fel y maent yn cael eu dadguddio yn ei Fab;[g] i arfer ffydd a chariad, ymostyngiad a pharch priodol;[h] i efelychu ei berffeithderau moesol, ac ufyddhau i'w orchymynion;[i] ac i ddangos ein teimladau drwy weithredoedd o addoliad cymmeradwy.[j], Swm ein serch yw cariad parchus, a swm ein gwasanaeth yw ymroddiad bywiol.[k]

[g] 2 Cor. 4, 6; 2 Pedr 1, 2, 3; 1 Ioan 5, 20; Ioan 17, 3; Salm 9, 10.

[h] 1 Ioan 5. 10—12; 1 Cor. 8, 3; 1 Ioan 4, 9; Heb. 12, 9; 1 Pedr 1, 10—21; 5, 6; Iago 4, 7, 10; 2 Cor. 7, 1; Eph. 5, 20; Heb. 12, 28; Siamplau, Heb. 11; Math. 8, 10; Salm 18, 1; Ioan 21; Job 2, 10; 2 Sam. 15, 26.

[i] 2 Cor. 3, 18; Eph. 4, 32; 5, 1; Col. 3, 13; Math. 5, 44, 45, 48; 1 Ioan 4, 11; 1 Ioan 2, 3—5; Ioan 14, 23; Rhuf. 16, 19; Siamplau, ein Harglwydd, Eph. 5, 2; 1 Pedr 2, 21; Abraham, 12, 1—4.

[j] Rhuf. 10, 9, 10; Heb. 10, 25; Phil. 4, 6; Iago 1, 5, 6; 1 Ioan 3, 22; Ioan 14, 13; Eph. 5, 19, 20; Col. 3, 16, 17; Marc 14, 26; Siamplau, Act. 1, 14; 2, 1, 2; 4, 24—31; Luc 4, 15, 16; Act. 18, 4.

[k] 1 Ioan 5, 2—5; Marc 12, 29, 30; Deut. 6, 5; 10, 12; 30, 6: Rhuf. 12, 1; 1 Cor. 6, 20; 2 Cron. 30, 8.

(x.) Mewn perthynas i ni ein hunain, gweddus yw i ni fod yn ostyngedig, peidio meddwl un amser am ein doniau yn uwch nag y dylem, a chofio yn wastad mai *rhoddion* ydynt;[a] bod yn llariaidd, yn attal ac yn cadw pob nwydau digofus o fewn terfynau priodol;[b] bod yn foddlawn i'n cyfran,[c] yn gymmedrol,[d] yn hunan-ymwadol,[e] yn ofalus i gadw, er gwasanaeth i Dduw, ein hiechyd a'n bywyd,[f] yn ddiwyd,[g] yn bur.[h]

[a] Rhuf. 12, 3; 1 Cor. 4, 7; 2 Cor. 12, 7; Gal. 6, 3; Phil. 2, 3, 4; Eph. 4, 2; Col. 3, 12; Iago 4, 6; 1 Pedr 5, 5, 6. Siamplau, Gen. 18, 27; 32, 10; 18, 13; 1 Cor. 15, 9; Phil. 2, 5—8. Ffug-ostyngeiddrwydd yn cael ei gondemnio, Col. 2, 18—23; 2 Cron. 12, 6; 1 Bren. 21, 29.

[b] Eph. 4, 2; Col. 3, 12; Tit. 3, 2; Gal. 5, 3; Iago 3, 13, 17; 1 Pedr 3, 4—15; Siamplau, Num. 12, 2; Salm 131, 1; 1 Thess. 2, 7; Crist, 2 Cor. 10, 1; Math. 11, 29.

[c] Heb. 13, 5; Phil. 4, 6; 1 Tim. 6, 6—8; Math. 6, 25; Siamplau, Paul, Phil. 4, 11, 12.

[d] Rhuf. 13, 11—13; Gal. 5, 23; 1 Cor. 7, 30; 9, 25—27; Tit. 2, 2, 11, 12; 2 Pedr 1, 6; Luc 21, 34.

[e] Rhuf. 14, 20; 15, 1; 8, 13; 2 Cor. 8, 9; 6, 4, 5—10; 1 Cor. 8, 13; Col. 3, 5; Phil. 2, 4; 1 Pedr 4, 1, 2; 2 Tim. 2, 4, 15; Siamplau, Act. 2, 45; 1 Cor. 8, 13; Heb. 11, 24, 25.

[f] Eph. 5, 29: 1 Tim. 5, 2; Act. 16, 27, 28; 27, 34; Math. 10, 23; Act. 14, 6, 7.
[g] Rhuf. 12, 11; Eph. 4, 28; 1 Thess. 4, 11, 12; 2 Thess. 3, 11, 12; Col. 4, 12, 13, gwel Diar. 6, 6—8; 22, 13. Dyledswydd bwysig yw bod yn ddiwyd i geisio ein diwylliant ysgrythyrol, Phil. 2, 12; 3, 14; Heb. 6, 3, 4; 2 Pedr 1, 5, 10; Ioan 6, 10; 2 Cor. 8, 7; Heb. 6, 12; Gal. 6, 9. Eglur yw mai yr amcan sydd i fod gan y Cristion yw, cyrhaedd *sefydlogrwydd* mewn cymmeriad.
[h] Rhuf. 13, 13; 16, 8; 1 Cor. 5, 11; 6, 9, 13—18; 2 Cor. 7, 2; Gal. 5, 19, 21; Eph. 4, 19; 5, 3, 5; Phil. 3, 19; Col. 3, 5—8; 1 Thess. 4, 3; Heb. 13, 4; 2 Pedr 2, 13, 14; Tit. 3, 12.

(xi.) Yn ein perthynas âg ereill, dylem arfer cyfiawnder a geirwiredd—y rhinweddau o *gydgyfranogiad*, megys eu gelwir—heddwch a chariad, y rhinweddau o *haelfrydedd* neu ewyllys da i ereill.

1. Y mae cyfiawnder yn rhwymedig arnom tuag atynt: hyny yw, cyflawniad cyfiawn dysgwyliad cyfiawn.[i] Rhaid i ni barchu eu rhyddid, a pheidio eu gorthrymu na'u condemnio yn ddiachos:[j] peidio yspeilio, chwennych, na thwyllo eu meddiannau;[k] peidio eu habsenu na'u camddarlunio gyda golwg ar eu cymmeriad;[l] parchu eu dedwyddwch, a pheidio cenfigenu wrth eu teilyngdod na'u gradd;[m] parchu eu bywydau, a pheidio ymrafaelio â hwynt na'u casâu;[n] parchu eu rhinweddau, a pheidio attal oddiwrthynt unrhyw ddiolchgarwch, mawrygiad, na chariad, y byddo ganddynt hawl gyfiawn iddo.

[i] Rhuf. 13, 7; Iago 2, 6; 5, 4; Mal. 3, 5; Zec. 7, 7—10; ac yn aml yn yr Hen Destament. Siamplau, Job 29, 14; Jer. 23, 25 (Josiah); Luc 23, 51 (Joseph); yn enwedig ein Harglwydd, Salm 98, 9; Esa. 11, 4. Annghyfiawnder yn nodwedd berthynol i annuwiolion a rhagrithwyr, 1 Cor. 6, 1; Math. 23, 23.
[j] Rhuf. 14, 4; 2 Cor. 1, 24; Gal. 2, 4, 5; Col. 2, 16, 17, 20; Iago 3, 1; 4, 11, 12; 1 Pedr 5, 3.
[k] Eph. 4, 28; 5, 3—5; 1 Cor. 6, 10; 1 Pedr 4, 15; Col. 3, 5; Salm 10, 3.
[l] Rhuf. 1, 29; 2 Cor. 12, 20; 1 Tim. 3, 11; 5, 13; Tit. 3, 2; Siamplau. Y diafol, Job 1; Dad. 12, 10; Salm 4, 20.
[m] Rhuf. 13, 7; Eph. 6, 5; 1 Pedr 2, 17, 18; Math. 22, 21; Phil. 2, 3; 1 Cor. 12, 21; 1 Pedr 5, 5,
[n] Rhuf. 12, 19; Gal. 5, 20; Col. 3, 21; Eph. 4, 31; 1 Ioan 3, 15—17; Lef. 19, 17, 18.

Darnodir gwerth cymharol duwioldeb ac uwch-raddoliaeth. Nid ydyw duwioldeb i'w ddirmygu oblegid tlodi, ac nid ydyw drygioni i'w barchu ar gyfrif cyfoeth, Iago, 2, 1—9; Judas 16.

2. Y mae geirwiredd, neu wirioneddolrwydd, yn ddyledus arnom i ereill. Dyma sylfaen pob cyfathrachiad ymddiriedol rhwng bodau deallol, ac y mae yn hanfodol i rinwedd. Ei wrthgyferbynolion, rhagrith, gweniaith, absen, celwydd, ydynt naill ai yn cynnyrchu, neu yn ganlyniadau llawer o ddrygau.

Eph. 4, 25: 5, 4: Col. 3, 9. Gwel, Salm 51, 6: Diar. 12, 19, 22.

Sylwer ar wreiddyn celwydd, Gen. 3, 4; Ioan 8, 44: Act. 5, 3: a'i ddiwedd, Dad. 21, 8, 27; 22, 15. Yn naturiol i ddyn, Salm 58, 3; Esa. 57, 4; yn atgas gan Dduw, Diar. 6, 16—19; Esa. 59, 2, 4. Celwyddau a ffurfiant un o nodau y gwrthgiliad mawr, 2 Thess. 2, 9: 1 Tim. 4, 2 1 Ioan 2, 22.

3. Hefyd, y mae amrywiol ddyledswyddau yn ddyledus arnom i ereill mewn cyssylltiadau neillduol, a rhwymir ni gan *gyfiawnder* i'w cyflawnu; gwel Cor. a Titus.

Ac yma, feallai, y byddai moesoldeb paganaidd yn terfynu. Y mae gan yr efengyl, fodd bynag, orchymynion mwy gogoneddus. Yn ychwanegol at y dyledswyddau sydd yn tarddu oddiwrth yr hyn sydd *ddyledus* i ddyn, mae yn gorchymyn y rhai ereill, y dyledswyddau o dangnefedd, a chariad, a haelfrydedd tuag at bawb, yn annibynol ar gymmeriad neu deilyngdod. Serch naturiol sydd deimlad *dyledus* rhwng y rhai a ddaliant berthynas â'u gilydd. Diolchgarwch yw y dychweliad lleiaf y gall yr hwn sydd yn derbyn caredigrwydd ei dalu i'w gymmwynasydd. Clodforedd yw y mawrygiad a delir i rinwedd. Ond heblaw, a thros ben y rhai hyn, y mae yr efengyl yn gorchymyn ewyllys da cyffredinol, hyd y nod er gwaethaf drygioni a gwrthwynebiad.

Annoga bawb i arfer tuedd dangnefeddus, a thymher dawel, amyneddgar, gyfeillgar, ynom ein hunain; ac i wneyd pob ymdrech briodol i gynnyrchu teimlad cyffelyb mewn ereill. Ni orchymynir un ddyledswydd mewn modd mwy difrifol nâ hon; a gellir casglu oddiwrth ddesgrifiadau, yn gystal a gorchymynion y Beibl, mai heddwch yn ein cartrefleoedd, yn ein heglwysi, mewn cenedloedd, a thrwy yr holl fyd, yw y peth mwyaf angenrheidiol i sicrhau dedwyddwch personol a chymdeithasol, ac mai ffrwyth yr efengyl yw y cyfryw dangnefedd.

Rhuf. 12, 18: 14, 19: 2 Cor. 13, 11: Gal. 5, 22: Eph, 4, 3: 1 Thess. 5, 13, 14: Heb. 12, 14: Iago 3, 16, 18: 1 Pedr 3, 11: 2 Tim. 2, 22.

Y mae heddwch, fel gwirionedd, yn un o briodoleddau Duw, Phil. 4, 9: Col. 3, 15: 1 Thess. 5, 23: 2 Thess. 3, 16; ac o'r efengyl, Eph. 6, 15. Mewn gwerthfawrogrwydd, nid ydyw yn ail ond yn unig i wirionedd ac egwyddor, Gal. 2, 11—16; Iago 3, 17, 18.

Mewn trefn i'w gadw, meithriner y tymherau sydd yn ffafriol iddo, Eph. 6, 10—18: Gal. 5, 16—26: Phil. 2, 2: Iago 4, 1—11: 1 Pedr 3, 4; 1 Tim. 2, 2. Ymwrthoder â phob iaith chwerw ac ymrafaelgar, 1 Cor. 10, 32; Eph. 4, 31; a cheisier ef gan Dduw yr heddwch, 1 Tim. 2, 2; Salm 122, 6—8. Os bydd wedi ei golli, efelycher Abraham, Gen. 13, 8; neu Abimelech, 21, 25—32; neu yr Israeliaid, Jos. 22.

Yn mhellach, fel y mae crefydd yn dechreu mewn cariad at Dduw, felly y mae yn diweddu mewn cariad at ddyn, ac ewyllys da cyffredinol; ei hegwyddor yw, dymuniad am ddaioni ereill; yn ei gweithrediad, y mae yn ein dysgu i ochelyd twyll (yr hwn sydd i gariad yr hyn yw rhagrith i wirionedd), gweniaith, a sengarwch, i arfer haelfrydedd, i ddangos ysbryd amyneddgar a maddeugar, ac y mae, pan yn berffaith, yn sicrhau ymgyssegriad y bywyd ei hunan er daioni ein cyd-ddynion.

Y mae esgeulusiad o'r ail radd yma o ddyledswyddau wedi gwneyd drwg annhraethol yn y byd. Yn mhob man, y mae dynion wedi annghofio mai nid cyfiawnder noeth yw y rheol ysgrythyrol. Y mae cariad bob amser yn gyfiawn, ond nid ydyw cyfiawnder bob amser yn gariadus, a gofynir y ddau gan foesoldeb Cristionogol. Gallai cofio y gwirionedd yma wasanaethu i'n darostwng; a diau y gwasanaethai i egluro perffeithderau Duw, o ba rai y mae ein hewyllys da ni yn gysgod gwanaidd, ac a gymmeradwya yr efengyl i sylw mawrygus dynoliaeth.

Rhuf. 12, 10, 19, 20: 1 Cor. 4, 12, 13: Gal. 5, 14: 6, 10: 1 Thess. 3, 12: Iago 2, 8: 1 Pedr 3, 9: Luc 6, 30—36, &c.

(xii.) Yn olaf, yn yr Epistol yma cawn ddadguddiad o fwriad neillduol Duw o berthynas i'r Iuddewon, a gwasgariad yr efengyl yn mhlith y Cenedloedd, a dychweliad cyffredinol Iuddewon a Chenedloedd yn y

dyddiau diweddaf. Pen. 9 i 11; darllener y *tair yn nghyd*, a phen. 15, 8—12. Cymharer Eph. 3, 1—12: Jer. 31, 33; Ezec. 36—39; Zec. 12—14.

180. Pa mor gyfoethog bynag yw yr Epistol yma mewn rhanau sydd mewn modd ffurfiol yn ymdrin â gwirioneddau Cristionogol, nid ydyw yn llai cyfoethog o ymadroddion achlysurol, a'r rhai hyny yn gyflawn o feddwl ysbrydol.

(1, 1.) Gelwir yr efengyl yn agos yr un mor aml yn efengyl *Duw* ag yn efengyl *Crist*. Eiddo *Duw* ydyw, oblegid dechreuodd yn nghynghor ei gariad, eglura ei gyfiawnder, a dadguddiwyd hi drwy ei Ysbryd ef. Y mae yn efengyl Crist, oblegid efe yw ei thestun *(theme)*; a phregethir hi gan ei weision, ac yn ei enw ef. Gwel 1 Cor. 1, 24; Phil. 2, 11.

(1, 3.) Adgyfodiad Crist yw prawf ac effaith perffeithrwydd ei waith; dechreuad ei deyrnasiad, ac ernes ein hadgyfodiad ninau, Act. 2, 24; 17, 31; Eph. 1, 20; Heb. 2, 14; Rhuf. 4, 25. Yma, gwneir y ffaith yn brawf o'i natur Ddwyfol. Fel dyn, gallasai Crist farw; fel y Duw byw, yr Ysbryd yn bywhau, nid oedd bosibl i angeu ei attal ef, Act. 2, 24; Ioan 20, 9.

(1, 13—15.) Yr ydym, mewn modd is-raddol, yn ddyledus i rwystriad Paul i ymweled â Rhufain am yr Epistol yma, yr hwn sydd yn fendith i bob amseroedd. Heblaw hyny, parotôdd y ffordd i'r anerchiadau calonog hyny, gyda pha rai, ar ol hyny, y croesawwyd Paul i'r ddinas amherodrol, Act. 28, 14, 15. "O hyd yn tynu daioni allan o ddrwg ymddangosiadol."

(1, 17.) Bu Crist farw i gyfiawnhau Duw wrth weinyddu trugaredd. Bu fyw i arddangos y santeiddrwydd Dwyfol, ac i anrhydeddu y gyfraith Ddwyfol. Ufyddhäodd hyd *angeu*, fel y gallasai osod i lawr sylfaen ein derbyniad ni; hyny yw, sylfaen maddeuant a santeiddiad. Oddiwrth hyn, gelwir cynllun cyfiawnhad yn "gyfiawnder Duw." Amddiffyna santeiddrwydd Duw, tra yr eglura ei ras; a rhydd i'r pechadur sydd yn credu deitl perffaith ein Prynwr cyfiawn.

(1, 19—21.) Eglur yw, mai nid anwybodaeth yw achos *cyntaf* gwrthwynebiad dyn i Dduw. Ei wrthwynebiad yn hytrach yw achos ei anwybodaeth. Dechreuad atheistiaeth, ymarferol neu broffesedig, sydd yn y *galon*, Salm 53.

(1, 25.) Y mae yr un galon sydd yn groes i santeiddrwydd yn dueddol at gyflawniadau crefyddol. Natur, gan gyfeirio at Achos Mawr Cyntaf; cydwybod yn golygu Deddfroddwr Goruchel; chwaeth, ac hyd y nod syniant, drwy awgrymu y drychfeddwl am un sydd yn anfeidrol dêg a da, a gydunant i wneuthur Duw yn angenrheidrwydd naturiol..... Gellir nodi fod cynnydd cyfeiliornad wedi bod yn wastad tuag i waered (ad. 23). Dynion ar y cyntaf a addolent ddelw wedi ei gwneyd ar lun *dyn* llygredig, ac yn y diwedd a addolent *ymlusgiaid*.

(1, 22.) Yr oedd dyn mor bell oddiwrth deimlo trueni ei gyflwr, fel yr ymffrostiai yn ei ddoethineb pan oedd ei ffolineb yn ymddangos yn fwyaf eglur.

(1, 26.) Dechreua llygredigaeth dyn mewn Annuwiaeth, a diwedda mewn halogrwydd moesol. Rhoddir y rhesymau am hyn yn adnodau 25 a 32. Y mae yr adnodau yma yn desgrifio, nid y Rhufeiniaid, ond *dyn*.

Fel hyn, y mae yn agos pob gair, brawddeg, ac adnod, yn awgrymiadol, naill ai ynddi ei hunan, neu wrth ei chymharu â rhanau ereill o'r Beibl. Os nad all ein myfyrdod o'r ysgrythyr fod, mewn rhyw ystyriaethau, yn rhy gynnwysfawr, nis gall fod, mewn ystyriaethau ereill, yn rhy fanwl.

Epistol Cyffredinol Iago. Jerusalem, o. c. 61.

181. Yr oedd dau apostol o'r enw *Iago,* neu Jacob; un o ba rai oedd fab i Zebedeus, a brawd i Ioan, ac a roddwyd i farwolaeth gan Herod, fel y mynegir yn Act. 12, 2; a'r llall, yr hwn a elwid Iago Leiaf, neu Fychan (Marc 15, 40), mewn cyfeiriad, fe allai, at ei faintioli, oedd fab i Alpheus, neu Cleopas (gwel Math. 10, 3: Marc, 3, 18: Act. 1, 13: Luc 24, 18); ac am ei fod yn berthynas agos i'n Harglwydd, gelwid ef yn frawd iddo, Gal. 1, 19, &c. Tybir yn gyffredin mai yr olaf o'r rhai hyn oedd ysgrifenydd yr Epistol yma.[a]

Ar ol i'r rhan amlaf o'r apostolion fyned i wledydd ereill, ymddengys i Iago aros yn barhaus yn Jerusalem, i arolygu amgylchiadau yr eglwys yn y ddinas a'r gymmydogaeth hono (gwel Act. 12, 17; 15, 13—29; 21, 18—24; Gal. 1, 18, 19; 2, 9, 12); ac yn cynnal y fath enwogrwydd uchel am santeiddrwydd, fel ag i gael ei alw, hyd y nod yn mysg ei gydwladwyr annghrediniol, wrth yr enw anrhydeddus o "*Y Cyfiawn.*" Yr oedd y priodoldeb mwyaf, gan hyny, mewn gosod Iago i ysgrifenu y llythyr yma at ei bobl ei hun, gan ddangos iddynt, nid athrawiaethau neillduol yr efengyl, yn gymmaint a'i dylanwad derchafedig a santeiddiol. Oblegid efe a wyddai yn dda eu bod wedi dyfod i ymarfer gormod â phroffesu crediniaeth yn ngair Duw, pa un bynag ai gan Moses neu gan Grist y llefarid ef, heb adael iddo effeithio ar eu calonau na'u buchedd. Oddiwrth hyn y tarddodd yr annghytundeb ymddangosiadol (ond nid sylweddol) rhyngddo ef a Phaul ar y pwnc o gyfiawnhad drwy ffydd. (Gwel Rhan i., adranau 285, 279, 511 *c*).

Prawf nodedig o gyfaddasrwydd yr efengyl i'n cyflwr, ac o'n tuedd ni i'w chamddefnyddio, yw, fod dynion, pan *gyflwynwyd* yr efengyl gyntaf, yn anfoddlawn i gael eu cyfiawnhau drwy ras yn unig; a hyn a achlysurodd ysgrifeniad yr Epistol at y Rhufeiniaid, a'r un at y Galatiaid. Yn awr, pan y mae yr efengyl wedi ei *sefydlu,* y mae yn ei gŵyrdroi drwy edrych dros bwysigrwydd gweithredoedd fel prawf a chanlyniad angenrheidiol ffydd gadwedigol. Y mae gan yr efengyl, fodd bynag, genadwri briodol at y ddwy blaid.

Tybir i'r Epistol yma gael ei ysgrifenu ar ol yr Epistol at y Rhufeiniaid; hyny yw, nid cyn o. c. 58, ac y mae yn debygol yn 61, y flwyddyn o flaen merthyrdod yr apostol. Rhoddir dyddiad *boreuach* gan Neander, Davidson, ac ereill, sef oddeutu o. c. 45. Y mae holl rediad yr Epistol, fodd bynag, yn arddangos cyflwr o ddirywiad oedd ar unwaith yn waradwyddus ac yn helaeth, a'r fath nas gallasai fodoli braidd ar ddechreuad yr efengyl.

Gan fod y rhai a anerchai yr apostol mewn amgylchiadau profedigaethus, dechreua gyda chefnogaethau a chynghorion neillduol o gyfaddas i'w cyflwr (1, 1—15). Wedi hyny, y mae yn desgrifio natur gwir grefydd, yn ei dechreuad, ac yn ei heffeithiau ar y galon ac ar y fuchedd (1, 16—27); yn cymhell cariad didwyll ac anmhleidgar, heb un golygiad at gyflwr ac amgylchiadau allanol (2, 1—13); ac yn dynoethi rhagrith y dyn sydd yn cymmeryd arno feddiannu ffydd, tra nad ydyw ei weithredoedd yn cyfateb i'w eiriau, gan ddyfynu siamplau Ysgrythyrol i ddangos fod y ffydd a gymmeradwyir gan Dduw bob amser wedi cael ei phrofi drwy weithredoedd (2, 14—27). Yna, i roddi attalfa i ryw ddrygau ymledaenol a gyfodent oddiwrth awydd i ddyfod yn ddysgawdwyr a beirniaid, y mae

[a] Gwel, fodd bynag, Cyclopædia Kitto, Erthygl, Iago.

yn rhybyddio ac yn ceryddu ar y pynciau hyny. Mewn cyfres o gymhariaethau tarawiadol, arddengys ddrygau tafod aflywodraethus; ac y mae yn gwrthgyferbynu ysbryd dadleugar, cenfigenllyd, a digofus ysgolion doethineb daearol, â chymmeriad pur, tangnefeddus, mwyn, a haelfrydig y ddoethineb sydd o ddechreuad nefol (3). Dadlena effeithiau ysbryd y byd, fel y dangosir ef yn ymddygiad y rhai sydd dan ei ddylanwad; ac annoga ymostyngiad i Dduw, a gwrthwynebiad i'r diafol. Geilw ar bechaduriaid a rhagrithwyr i edifarhau, ac i ymostwng gerbron Duw; a rhybyddia Gristionogion rhag llefaru yn ddrwg y naill am y llall, rhag senu, ac eistedd mewn barn ar eu gilydd (4, 1—12). Cerydda ryfyg y rhai sydd yn ffurfio eu cynlluniau bydol, heb unrhyw ystyriaeth o'u hymddibyniaeth ar Dduw; yn nghyd â chybydd-dod a gormes y cyfoethogion (4, 13—17; 5, 1—6). Yna, gan droi at y Cristionogion dyoddefus, y mae yn eu cefnogi i fod yn amyneddgar yn y rhagolygiad am ddyfodiad yr Arglwydd; rhybyddia hwynt yn erbyn tyngu; cymmeradwya weddi fel yr ymarferiad goreu mewn galar, a moliant fel y mynegiad goreu o lawenydd; rhydd gyfarwyddiadau neillduol i'r cleifion; gorchymyna iddynt gyffesu eu beiau y naill i'r llall, ac eiriol dros eu gilydd; eglura effeithioldeb hyn yn achos Elias; ac yn olaf, cymhella y ddyledswydd o geisio achub brawd cyfeiliornus; a dengys effeithiau bendigedig y fath ymdrech pan yn llwyddiannus (5, 7—20.)

Mor addysgiadol yw siamplau Ysgrythyrol. Dyfynir hanes Abraham i brofi fod gwir ffydd yn cynnyrchu buchedd santaidd. Heblaw hyny, dywed yr hanes wrthym i Abraham gael ei alw yn mhen mwy nag ugain mlynedd ar ol iddo gael ei ddwyn i gyflwr o gyfiawnhad, i arddangos dylanwad ei egwyddorion, drwy ei barodrwydd i offerymu hyd y nod ei unig fab, Gen. 15, 6: 22, 9—12. Y mae y ffaith yma etto yn wers i ni, ac yn brawf diymwad fod ffydd gyfiawnhäol, ar ol unwaith ei meddiannu, yn arosol. Y mae yn fwy o *gyflwr* nag o *weithred.*

Cyssyllter a ddarllener fel y canlyn:—1, 1, 2, 5, 9, 12, 16, 19, 22, 26: 2, 1, 12; 14, 21, 25; 3, 1, 13; 4, 1, 4, 9, 11, 13: 5, 1; 7, 9, 12, 13, 19.

Epistol Paul yr Apostol at yr Ephesiaid. Rhufain, o. c. 62.

182. Y mae cyflawnder o brofion, mewnol ac allanol, i'r Epistol yma gael ei ysgrifenu gan yr apostol Paul. Ond yr ydys wedi ammeu at bwy yr anfonwyd ef, oblegid fod yr enw *Ephesus,* yn pen. 1, 1, yn eisieu mewn rhai hen lawysgrifau. Tybia rhai mai hwn yw yr Epistol at y Laodiceaid y sonir am dano yn Col. 4, 16. Ereill ydynt wedi meddwl, oddiwrth gymmeriad cyffredinol ei gynnwysiad, ac absenoldeb pob cyfeiriadau lleol a phersonol, mai cylch-lythyr ydoedd at eglwysi Asia Leiaf. Ond y peth mwyaf tebyg yw, fod y darlleniad derbyniedig yn pen. 1, 1, yn gywir; ac i'r Epistol gael ei ysgrifenu at y Cristionogion Ephesiaidd; er ei fod yn debygol fod yr eglwysi ereill yn y parth hwnw, o ba un yr oedd Ephesus yn ganolbwynt, yn gynnwysedig yn mwriad ac amcan yr apostol.

Dyma y golygiad a gymmerir gan Usher, Hug, Michaelis, ac ereill. Ar y llaw arall, tybia Paley, Wetstein, a Greswell, iddo gael ei gyfeirio at eglwys Laodicea. Cynnelir ei gymmeriad *cylch-lythyrol* gan y profion lluosocaf.

Ephesus oedd ddinas fawr yn Ionia a phrif-ddinas talaeth Rufeinig Asia. Ei phrif enwogrwydd oedd teml Diana; yr hon oedd yn hynod o ardderchog, wedi ei chyfoethogi â thrysorau dirfawr, ac yn cael ei hystyr-

ied fel un o ryfeddodau y byd. Ei thrigolion oeddynt nodedig am foethusrwydd a thrythyllwch, ac ymarferiad o'r celfyddydau dewinol.

Nodir dau ymweliad o eiddo Paul âg Ephesus yn llyfr yr Actau (18, 18—26; 19). Y tro cyntaf, pan ar ei ffordd i Jerusalem, pregethodd un Sabboth yn y synagog, a gadawodd ar ei ol Priscila ac Aquila, â pha rai yn fuan yr ymunodd Apollos. Ar ei ail ymweliad, arosodd Paul yno fwy nâ dwy flynedd, feallai ar gyfrif pwysigrwydd y lle, fel prif eisteddle eilun-addoliaeth, a chanolbwynt dylanwad, a choronwyd ei lafur ef â llwyddiant mawr yn mhlith y dinaswyr, yn nghyd â thrigolion y wlad oddiamgylch. Yn mhen oddeutu blwyddyn ar ol hyn, pan ar ei daith o Facedonia i Jerusalem, cafodd gyfarfod gyda henuriaid yreglwys Ephesiaidd yn mhorthladd cymmydogaethol Miletus.

Tybir mai yr Epistol hwn oedd y cyntaf a ysgrifenwyd gan Paul tra y bu yn garcharor yn Rhufain, oddeutu pum mlynedd, felly, ar ol ei drydydd cyfarfyddiad â hwynt; ac fel y ddau a'u canlyna, y mae yn hynod am effeithioldeb ac uchelder neillduol mewn meddwl a theimlad. Ymddengys fel pe buasai ei holl feddwl wedi cael ei orlenwi â rhagoriaeth annghymharol rhagorfreintiau a gobeithion y credinwyr yn Nghrist, cymmeriad oll-gynnwysfawr yr oruchwyliaeth Gristionogol, ei buddugoliaethau sicr, a'i chanlyniadau gogoneddus.

Yr oedd yr apostol, oddiar ei bryder am y credinwyr Ephesiaidd, yn nghylch anfon Tychicus atynt; ac efe a ysgrifenodd yr Epistol yma, un o amcanion pa un oedd, symud unrhyw deimladau ofnus, neu ddigalondid, a allasent gael eu cynnyrchu yn eu meddyliau gan y newydd am ei garchariad ef; ac attal y penboethiaid Iuddewig rhag cymmeryd mantais o'r amgylchiad hwnw i ddarostwng ei awdurdod apostolaidd, neu i wrthwynebu y gwirionedd mawr yn yr hwn yr oedd efe yn ymogoneddu, sef unoliaeth a chyffredinolrwydd yr eglwys fel corff Crist.

Gellir dosparthu yr Epistol yn ddwy rhan:—i. *Athrawiaethol* (1—3); ac yn ii. *Ymarferol* (4—6).

i. Ar ol yr anerchiad agoriadol, y mae Paul yn tori allan mewn geiriau o foliant[a] i Dduw am fendithion y brynedigaeth, yn enwedig am eu hymledaeniad i blith y Cenedloedd, o'r hyn y cawsant ernes yn medydd yr Ysbryd; erys ar ddau arddangosiad rhyfeddol gras hollalluog, y cyntaf, yn ngogoneddiad Crist, a'r ail yn ei bobl ail-enedig (1; 2, 1—10), ac adgofia yr Ephesiaid am eu cyflwr paganaidd gynt o farwolaeth ysbrydol a phellder oddiwrth Dduw, ac o'r cyfnewidiad mawr yn eu sefyllfa, gan eu bod yn awr, drwy ei drugaredd oruchel ef, wedi eu derbyn i gymmundeb y saint, (2, 11—22).[b]. Yna, gan ddarlunio ei hunan fel carcharor yn achos Iesu Grist er mwyn y Cenedloedd, y mae yn llefaru am y dadguddiad a'r commisiwn neillduol a roddwyd iddo ef mewn perthynas iddynt hwy; seilia arno annogaeth i beidio cymmeryd eu digaloni gan ei ddyoddefiadau ef; a rhydd iddynt sicrwydd o'i weddiau ef ar iddynt gael eu goleuo a'u cryfhau yn fwy fwy, a chael cyflawn fwynhad o freintiau cariad prynedigol Crist (3).

ii. Yn y pennodau dilynol o'r Epistol hwn, y rhai, gan mwyaf, ydynt yn ymarferol, y mae yr apostol yn dymuno arnynt gynnal ymarweddiad ac

[a] Sylwer pa fodd y mae gweddiau a diolchiadau yn cael eu hoffrymu dan yr efengyl, drwy yr Ysbryd, ac yn enw y Mab, Rhuf. 8, 26; 1, 13—23; 3, 14—21; 6, 18; 1 Ioan 5; Iago 1; Judas 20; Phil. 1, 3—11; Col. 1, 9—12.

[b] Ar y ffafr a ddangosid i ddychweledigion paganaidd, gwel Rhuf. 4; 5; Col. 2, 9—14; 1 Pedr 1, 18;—2, 10.

ysbryd teilwng o'r rhagorfreintiau uchel y galwwyd hwynt iddynt; yn eu hadgofio o'r amcanion mawrion, i gyrhaedd pa rai y bwriadwyd y doniau ysbrydol a roddwyd iddynt; yn gorchymyn dull o fyw hollol wrthgyferbynicl i eiddo y paganiaid o'u cylch, ac i'w bywydau blaenorol hwynt eu hunain;[a] annoga hwynt mewn modd neillduol i gynnal unoliaeth, geirwiredd, llariaidd-dra, gonestrwydd, a diwydrwydd; i fod yn bur yn eu bymadroddion; i fod yn garedig a haelionus, yn unol â siampl Crist; ac i uniondeb a santeiddrwydd cyffredinol mewn ymarweddiad (4; 5, 1—20). Wedi hyny cymhella hwynt, drwy resymau perthynol yn unig i'r efengyl, i gyflawnu eu dyledswyddau perthynasol mewn modd anrhydeddus (5, 21; 6, 9); gan derfynu drwy annogaethau bywiog i sefydlogrwydd, gwyliadwriaeth, a gweddi; yn cael eu canlyn gan gymmeradwyaeth i Tychicus, dygiedydd yr Epistol, a chan y bendithion apostolaidd (6, 10—24).[b]

Ceir llawer o addysgiadau oddiwrth yr amgylchiadau dan ba rai yr ysgrifenwyd yr Epistol yma, ac oddiwrth hanes ganlynol yr eglwys yn Ephesus. Yr Epistol sydd yn aros fwyaf ar oludoedd anchwiliadwy doethineb a chariad Duw, a ysgrifenwyd pan oedd ei awdwr mewn rhwymau. Y mae calon wedi ei llenwi â'r meddyliau mwyaf ysbrydol a nefol yn manwl sylwi ar ddyledswyddau, perthynasol a moesol (4, 28; 5, 6, 1, 9), ac yn eu cymhell drwy appeliadau seiliedig ar ein perthynas â Christ ac â'r Ysbryd Glân (4, 32; 5, 2—25; 6, 5; 4, 30). Nid ydyw yr eglwysi at ba rai yr ysgrifenwyd yr Epistol yma yn cael llawer o'u beio ynddo, ond ychydig flynyddau ar ol hyn, yr oeddynt mewn cyflwr tra gwahanol, Dad. 2, 1—7; 3, 14—19. Y mae eu hanes yn rhybydd difrifol i Gristionogion pob oes.

Cyssyllter a darllener fel y canlyn:—1, 1, 3, 15; 2, 1, 11, 19; 3, 1, 14; 20; 4, 1—7; 17, 25, 26, 28, 29, 31; 5, 3, 15, 25; 6, 1, 4, 5, 10; 21, 23.

Yr Epistol at y Colossiaid. Rhufain, o. c. 62.

183. Colosse oedd un o brif ddinasoedd Phrygia, yr hon, pan ysgrifenwyd yr Epistol yma, oedd yn wlad ffrwythlawn a chyfoethog iawn, er ei bod yn awr o dan yr iau Foslemaidd, ac y mae rhanau helaeth o honi yn anniwylliedig. Ymwelodd Paul ddwywaith â Phrygia, Act. 16, 8; 18, 23; ond ambeuir iddo gyrhaedd Colosse. Y mae rhediad yr Epistol yn ffafrio y penderfyniad na fu efe yno (gwel yn neillduol, 2, 1); ond sicr yw ei fod yn adnabod amryw o'r Cristionogion Colossaidd, o ba rai y mae Archippus, y gweinidog, a Philemon yn cael eu henwi yn benodol. Wedi i'r Colossiaid glywed am garchariad Paul, hwy a anfonasant ato Epaphras, eu gweinidog, i gysuro yr apostol, ac i'w hysbysu o berthynas idd eu sefyllfa hwynt. Carcharwyd Epaphras hefyd yn fuan ar ol iddo gyrhaedd Rhufain, Philem. 24.

Ysgrifenwyd yr Epistol yma yn ystod carchariad cyntaf Paul yn Rhufain (1, 24; 4, 18); ac feallai oddeutu ei ddechreuad, neu yn nghylch yr un amser, a'r Epistolau at yr Ephesiaid a Philemon; oblegid ymddengys eu bod oll wedi eu hanfon gyda'r un cenadau, Tychicus ac Onesimus, yr olaf o ba rai oedd yn dychwelyd at Philemon, ei feistr, i Colosse. Yr oedd yr hanes a roddwyd am yr eglwys gan Epaphras, ar y cyfan, yn foddlonawl. Ymddengys, fodd bynag, fod yno ryw berygl oddiwrth athrawon gau, y

[a] Gwel. Col. 3, 1—13.

[b] Ar ryfel se arfogaeth y Cristion, gwel 6, 10—18; 1 Thess. 5, 6—10; 1 Pedr 5, 7, 8; Heb. 4, 12; 2 Cor. 6, 7.

rhai a amcanent gyssylltu Cristionogaeth â golygiannau (*speculations*) yr athronwyr (2, 4—8), ac â defodau coel-grefyddol (2, 16).

Awgryma y debygoliaeth fawr sydd rhwng yr Epistol yma a'r un at yr Ephesiaid, fod rhyw debygoliaeth yn nhueddiadau y ddwy eglwys.

Mewn gwirionedd, rhaid i'r ddau Epistol gael eu darllen yn nghyd. "Y mae un," fel y sylwa Michaelis, "yn esboniad ar y llall." Heblaw hyny, y mae y ddau yn hynod gyfoethog mewn arddangosion o ogoniant yr efengyl.

Yr oedd yr Epistol hwn i'w anfon i Laodicea, ac yr oedd y Colossiaid i dderbyn o Laodicea yr Epistol a orchymynodd efe i'w ddanfon iddynt *hwy*, fe allai yr Epistol presenol at yr Ephesiaid.

Gellir dosparthu yr Epistol yn ddwy ran—athrawiaethol ac ymarferol.

i. Wedi yr anerchiad cyffredin, mynega yr apostol ei ddiolchgarwch am effeithiau yr efengyl yn mhlith y Colossiaid, yn nghyd â'i ddymuniad a'i weddi ar iddynt barhau i fyned rhagddynt mewn gwybodaeth ysbrydol, ac mewn rhinweddau Cristionogol (1, 1—14); gesyd gerbron ogoniant dwyfol a chyfryngol y Prynwr, a rhydd olygiad aruchel (*sublime*) ar holl athrawiaeth y cymmod drwy Grist, yn ei helaethrwydd, fel yn effeithio ar bob bodau creadigol, ac yn ei chymhwysiad unigol at gredinwyr, yn eu dychweliad personol at Dduw (1, 14—21.) Yna y mae yn llefaru am ei lafur a'i ddyoddefiadau ef ei hunan fel apostol y Cenedloedd, a mynega ei bryder dyfn-ddwys am eu sefydlogrwydd a'u dyfal-barhad hwynt (1, 21; 2, 5).

Rhybyddia hwynt yn erbyn cyfeiliornadau neillduol; gan ddangos nas gall unrhyw olygiannau athronyddol, unrhyw ordinhadau na thraddodiadau dynol, unrhyw orlymderau didryfaidd (*ascetic*), gyfodi yr enaid uwchlaw pethau llygredig, a'i alluogi i sylweddoli gwrthddrychau anweledig a thragywyddol. Ond ar y llaw arall, fod iachawdwriaeth berffaith yn Nghrist; a bod ffydd ynddo ef, nid yn unig yn ein cymmodi â Duw, ond hefyd, drwy ein huno â Phrynwr esgynedig, yn arwain ein meddyliau a'n dymuniadau at bethau sydd uchod (2, 6; 3, 4).

ii. Y mae wedi hyny yn helaethu y cymhwysiad o'r athrawiaeth flaenorol, yn dangos gweithrediad y ffydd fywiol yma, mewn darostwng tueddiadau ein hen natur bechadurus, ac mewn cynnyrchu a chynnal santeiddrwydd amrywiedig y dyn newydd; ac, uwchlaw pob peth, cariad brawdol, yr hwn sydd i gael ei arfer mewn addoliad cymdeithasol, ac adeiladaeth eu gilydd (3, 4—16). Rhydd gyfarwyddiadau byrion am gyflawniad dyledswyddau teuluaidd (3, 18—25; 4, 1); annoga y Colossiaid i ddyfal-barhau mewn gweddi a diolchgarwch, ac i fod yn gysson yn eu hymarweddiad gerbron y byd (4, 1—6); ac, yn ddiweddaf, dywed y buasai Tychicus ac Onesimus yn rhoddi iddynt hysbysrwydd cyflawn am ei holl amgylchiadau ef; ac enfyn anerchiadau oddiwrth ei gydlafurwyr, ac efe ei hunan, yn mhlith ereill, at eu gweinidog; gan ychwanegu dymuniad effeithiol, wrth lawnodi y llythyr, ar iddynt gofio ei rwymau ef (4, 6—18).

Cyssyllter a darllener fel y canlyn:—1, 1, 3, 9, 19, 21, 24; 2, 1, 6, 8, 16, 20; 3, 1, 5, 12, 16, 18, 20, 22; 4, 1, 2, 5, 7, 10, 15, 18.

Epistol Paul at Philemon. Rhufain, o. c. 62.

184. Y cynllun ysbrydoledig hwn o ohebiaeth Gristionogol gyfrinachol a anfonwyd gan yr apostol Paul at Philemon, un o'r rhai a ddychwelwyd drwyddo ef, yr hwn a breswyliai yn Colosse (cymharer adn. 2, 10, 19, â Col. 4, 9, 17), ac am yr hwn ni wyddis mwy nag a ellir ei gasglu oddiwrth y llythyr yma. Oddiwrth hwn, yr ydys wedi tybied fod Philemon yn

henuriad, neu yn ddiacon, yn yr eglwys, ac mai Appia oedd ei wraig. Ymddengys mai Archippus oedd y gweinidog yn Colosse, Col. 4, 17.

Eglur yw i'r Epistol yma gael ei ysgrifenu (gwel adn. 1, 10, 23), a'i anfon yr un amser a'r un at y Colossiaid (gwel Col. 4, 8); cymharer hefyd adn. 23, 24, â Col. 4, 10—14. Onesimus, testun yr Epistol hwn, a dygiedydd y ddau, oedd gaethwas (gwas teuluaidd, mae yn debyg) i Philemon, yr hwn, wedi ffoi oddiwrth ei feistr, a weithiodd ei ffordd i Rufain; ac a argyhoeddwyd yno, drwy offerynoliaeth Paul, adn. 10. Yn mhen amser, y mae Paul, gan feddwl mai cyfiawnder oedd iddo ddychwelyd at ei feistr, yn ysgrifenu y llythyr ardderchog a deniadol hwn i'r dyben o sicrhau iddo dderbyniad caredig.

Ar ol cyfarchiad serchog oddiwrtho ef ei hun a Timotheus, mynega yr apostol ei ddiolchgarwch wrth glywed am y cymmeriad rhagorol a feddiannai Philemon fel Cristion; ac yna, yn y modd mwyaf esmwyth, cyflwyna brif bwnc ei lythyr; gan ddymuno, fel "Paul yr henafgwr," a charcharor yn awr am ei ffydd gyffredin, am yr hyn y gallasai fel apostol ei orchymyn. Gan gydnabod trosedd Onesimus, mynega y cyfnewidiad dedwydd oedd wedi cymmeryd lle ynddo; ac awgryma fod ei ffoedigaeth wedi cael ei goruwch-lywodraethu er lles i'w feistr, yn gystal ag iddo ef ei hunan; a dymuna arno ei dderbyn yn ol, nid fel caethwas mwyach, ond fel brawd Cristionogol anwyl. Wedi hyny, y mae mewn modd tyner yn cynnyg gwneyd i fyny unrhyw golled oedd Philemon wedi ei gael, tra yr awgryma pa mor fawr oedd rhwymedigaethau ei gyfaill iddo ef.

Y mae y llythyr byr yma yn anmhrisiadwy, am ei fod yn dangos siampl o ostyngeiddrwydd, a rhyddid mewn ymgyfathrachiad cyfeillgarwch Cristionogol; ac nis gallwn lai nâ thybied i addfwynder ac ymddygiad yr apostol fod yn llwyddiannus.

Cyssyllter a darllener, 1, 1, 4, 8, 21, 23, 25. Cymharer â holl ysbryd yr Epistol yma, 1 Tim. 6, 1, 2; Iago 1, 9—11; Philip 2, 3—8.

Epistol Paul yr Apostol at y Philippiaid.

Rhufain, o. c. 63.

185. Philippi oedd ddinas o Macedonia, yr hon a helaethwyd gan Philip o Macedon, ac a boblogwyd wedi hyny gan Julius Cæsar, yr hwn a roddodd i'r bobl ragorfreintiau dinas Rufeinig; hynodir hi fel y lle cyntaf yn Ewrop i dderbyn yr efengyl, ac anfonwyd Paul yno mewn modd neillduol gan yr Ysbryd Glân, yn wrthwynebol i gynlluniau blaenorol yr apostol, Act. 16. Ar ei ddyfodiad i Philippi, canlynodd Paul ei gynllun arferol o draddodi ei genadwri i'r Iuddewon yn gyntaf; y rhai, fodd bynag, fel yr ymddengys, nid oeddynt ond ychydig mewn nifer. Y rhai a gyfarfyddent i addoli mewn lle i weddio y tu allan i'r ddinas, oeddynt wragedd yn benaf; un o ba rai, estrones dduwiol o Asia, oedd y cyntaf i dderbyn Cristionogaeth. Rhoddir hanes llafur llwyddiannus Paul a Silas yn Philippi, a'r erlidigaeth a gyfodwyd yn eu herbyn, yr hon a arweiniodd i'w ymadawiad disymmwth oddiyno, yn Actau pen. 16. Eglur yw oddiwrth Act. 20, 1, 2, 6, i Paul ymweled wedi hyny â Philippi cyn ei garchariad cyntaf yn Rhufain. Ymddengys iddo adael Luc ar ei ol yno ar ei ymweliad cyntaf (16, 12; 17, 1). Luc hefyd, yr hwn oedd gydag ef ar ddechreuad ei garchariad (Act. 27; Col. 4, 14) oedd yn awr, mae yn debyg, wedi ei adael (2, 20, 21).

Y mae yn amlwg mai yn Rhufain y cafodd yr Epistol hwn ei ysgrifenu

(gwel pen. 1, 12—14; 4, 22); ac, fe allai, yn ystod rhan olaf carchariad cyntaf yr apostol yn y ddinas hono. Oblegid yr oedd Paul, pan ysgrifenodd ef, yn dysgwyl i'w achos gael ei benderfynu yn fuan, ac yn gobeithio y cawsai ei ryddhau (1, 15, 27; 2, 23, 24). Ymddengys iddo gael ei ysgrifenu ar yr achlysur o ddychweliad Epaphroditus, yr hwn a anfonwyd gan eglwys y Philippiaid i Rufain â chyfraniad arianol er cyflawnu angenion yr apostol yn ystod ei garchariad, a'r hwn, wrth gyflawnu y genadwri yma, a syrthiodd i glefyd peryglus; a pharodd y newydd o hyn drallod mor fawr i'r Philippiaid, fel y penderfynodd yr apostol, ar ei adferiad, ei ddanfon yn ol yn gynt nag oedd wedi fwriadu (2, 24—30).

Ymddengys mai yr eglwys yn Philippi oedd un o'r rhai mwyaf pur a haelfrydig yn yr oes hono. Ei haelodau a ddangosent y serch tyneraf tuag at Paul. Dwywaith pan oedd yn Thessalonica, ac unwaith pan yn Nghorinth, darfu iddynt yn haelionus anfon iddo gyfraniadau er ei gynnaliaeth, y rhai a dderbyniwyd ganddo, er attal yr efengyl i fod yn feichus i ddychweledigion mwy diweddar (4, 15, 16: 2 Cor. 11, 9). Yr oeddynt hefyd gyda llawenydd wedi dyoddef llawer, oblegid eu hymlyniad wrth y Ceidwad (1, 28—30). Yr oedd eu hymddygiad bob amser wedi bod mor gysson a rheolaidd, fel nad oedd ganddo ddim i'w wneyd ond llawenychu drostynt. Am hyny, y mae yn yr Epistol hwn yn tywallt allan ei galon mewn ymadroddion gwir ddiolchgar a chymmeradwyaethau gwresog, yn gymmysgedig, fodd bynag, âg annogaethau a chynghorion. Gellir doparthu yr Epistol i dair o ranau:—

i. Wedi gwneuthur rhagarweiniad serchog, mynega Paul ei ddiolchgarwch i Dduw dros y Philippiaid, ynghyd â'i ddymuniad dwys am eu cynnydd mewn gwybodaeth a santeiddrwydd (1, 1—11). Fel na byddai iddynt lwfrhau o'i blegid ef, y mae yn sicrhau fod ei garchariad ef wedi bod yn llwyddiant, ac nid yn attaliad i'r efengyl; fod rhai yn casglu gwroldeb oddiwrth ei rwymau ef, ac ereill yn pregethu Crist o gynhen. Oad i Grist gael ei bregethu a'i dderchafu, pa un bynag ai drwy lafur ai merthyrdod Paul, y mae efe ei hunan yn fwy nâ boddlawn. Meddylia mai y blaenaf yw y mwyaf tebygol; a chynghora y Philippiaid, er pob peth, i gynnal ymarweddiad teilwng o'r efengyl; i fod yn sefydlog, a gwrol, yn unol, haelfrydig, a gostyngedig, gan efelychu siampl eu Harglwydd bendigedig, ac adgofia hwynt mai eu cyssondeb a'u defnyddioldeb yw ei wobrwyon uchelaf ef. Addawa anfon Timotheus atynt, rhydd reswm dros anfon Epaphroditus, a darlunia gymmeriad y ddau (1, 12: 2).[a]

ii. Annoga hwynt i lawenychu yn eu rhagorfreintiau Cristionogol; ac i fod ar eu gwyliadwriaeth yn erbyn y dysgawdwyr Iuddewaidd, y rhai a ymfalchïent mewn rhagoriaethau yn mha rai y gallasai efe ei hunan fwy nâ chystadlu â hwynt; ond y rhai, faint bynag a werthfawrogai efe unwaith, a ystyriai yn awr yn ddiwerth mewn cymhariaeth i dra ragoriaeth gwybodaeth o Grist; yna, gan gyfeirio at ei uchelgais santaidd ef ei hunan i ymdrechu am berffeithrwydd, y mae yn cymmeradwyo ysbryd cyffelyb i'r Philippiaid; gan ddàl, mewn gwrthgyferbyniad i hyn, gam-ymddygiad y gau-broffeswyr, yn erbyn pa rai yr oedd efe o'r blaen wedi bod yn eu rhybyddio hwynt (3—4, 1).

iii. Rhoddir rhybyddion i aelodau unigol o'r eglwys; canlynir hwynt

[a] Y mae dyoddef erlidigaeth gyda sefydlogrwydd yn ein cydymffurfio â Christ, ac yn arwydd o farn ddyfodol, 1, 27: 2 Thess. 1, 5, 6: 1 Pedr 1, 6—10: 3, 14: 4, 7, 12—18: 1 Ioan 3, 13.

gan annogaethau i lawenydd santaidd, cymmedroldeb, gweddi, a diolchgarwch; ynghyd âg i fyfyrio ac ymarfer pob peth sydd yn wir, yn gyfiawn, yn bur, yn serchog, a chanmoladwy (4, 2—9). Terfyna yr Epistol mewn cydnabyddiaethau diolchgar am yr amrywiol brofion o serch, a gofal, a chydymdeimlad a gafodd efe oddiwrth y Philippiaid, yn mha rai yr oedd yn llawenychu er eu mwyn hwynt; gan awgrymu, fodd bynag, gyda lleddneisrwydd mawreddog, ei foddlonrwydd i dlodi neu gyfiawnder, a diwedda gyda chyfarchiadau a bendithiad (4, 10—23).

Cyssyllter a darllener fel y canlyn:—1, 1, 12, 15, 21, 27: 2, 1, 5, 12, 17, 19, 25: 3, 1, 2, 12, 15: 4, 2, 4, 6, 8, 10, 15, 20, 21, 23.

Epistol Paul yr Apostol at yr Hebreaid.

Rhufain, o. c. 63.

186. Gan na chyfarwyddodd yr Ysbryd Glân awdwr yr Epistol yma i osod i lawr ei enw, nac i nodi y personau at ba rai yr anfonwyd ef, nis gall penderfyniad y pynciau yma fod yn hanfodol er ei iawn-ddefnyddio; ac nid ydyw yn rhyfeddod fod llawer o amrywiaeth barn o berthynas iddynt. Fodd bynag, y grediniaeth ffynadwy bob amser yw, mai yr Apostol Paul yw ei awdwr; etto, y mae rhai, mewn amseroedd hen a diweddar, wedi meddwl fel arall. Dengys y nodiadau canlynol nerth y profion o du y farn mai Paul yw ei awdwr.

(1.) Rhaid fod y rhai yr anfonwyd y llythyr atynt yn adnabod yr ysgrifenydd (gwel pen. 10, 34: 13, 18, 19, 23); ac wrth ei gadw a'i gylchanfon, yr oedd yn anhawdd iddynt fethu cyflwyno eu gwybodaeth. Yn awr, y tadau *boreuol* o'r eglwysi Dwyreiniol ac Alexandriaidd, yn yr ail a'r drydedd ganrif, a ddywedant wrthym fod yr "henafiaid" (y rhai yr oedd yn rhaid eu bod yn gydoeswyr â, os nad hwy oedd y personau hyny a dderbyniasant y gwreiddiol) wedi ei drosglwyddo i lawr iddynt hwy fel ysgrif o eiddo Paul. A'r mwyaf dysgedig yn eu plith, Clement o Alexandria, Origen, ac Eusebius, er eu bod yn ymwybodus o rai anhawsderau ac amheuon ar y pwnc, etto ystyrient y dystiolaeth yma fel yn benderfynol.—(2). Cadarnhëir hyn gan adnabyddiaeth fanwl yr awdwr â'r gyfundraeth Iuddewig—mor deilwng o ddysgybl i Gamaliel; a'r dyddordeb a deimlai yn iachawdwriaeth y bobl Iuddewig—mor debyg i'r hyn a fynegir yn Rhufeiniaid, 9, 10, 11, a Phil. 3.—(3.) Yr ychydig gyfeiriadau personol a geir yn yr Epistol ydynt oll yn berffaith gydweddol â'r hyn a wyddom o hanes Paul. —(4.) Ac nid oes dim yn neillduoli yr ieithwedd neu driniaeth y pwnc nas gellir ei gymmodi i foddlonrwydd âg Epistolau ereill Paul. Os ydyw yn gwahaniaethu oddiwrthynt mewn modd rheithegawl, o ran hyd geiriau a chwblhad brawddegau, nid ydyw oblegid hyny ond yn fwy tebyg i areithiau yr apostol a gofnodir gan Luc. Byddai dull cyfansoddiad mor rheolaidd yn amrywio yn naturiol oddiwrth lythyrau o gymmeriad gwahanol, wedi eu hysgrifenu dan amgylchiadau gwahanol. Etto, gall y darllenydd gofalus gael weithiau yr ymadroddion cryno, y traws-symudiad disymmwth, y rhesymau cyfeiriedig at feddyliau a gwrthddadleuon dirgelaidd y darllenwyr, a'r dyblygiadau achlysurol, a'r ymsangau meithion, yn tarddu oddiwrth enaid cynneuedig a gorlawnder o deimlad, sydd yn nodweddu ysgrifeniadau ereill yr apostol. Fel hyn, y mae y prawf mewnol, yn gystal a'r un allanol, yn ymddangos o blaid barn y tadau boreuol, mai eiddo Paul yn sylweddol yw yr Epistol hwn; er ei fod, fel y meddylia rhai beirniaid, yn mabwysiadu yn achlysurol ieithweddiad ei gydymmaith Luc.

Anmhosibl dywedyd paham y mae yr Epistol yma, fel un Cyntaf Ioan, yn ddienw. Fe allai fod yr apostol yn ewyllysio i'w wrandawwyr, neu ei ddarllenwyr cyntaf, deimlo grym ei gynnwysiad cyn gwybod oddiwrth bwy yr oedd wedi dyfod, am fod yr Iuddewon yn gyffredin yn rhagfarnllyd iawn yn ei erbyn.

Eglur yw i'r Epistol gael ei ysgrifenu at *Gristionogion Hebreaidd*; y rhai, fel yr ymddengys, oeddynt yn breswylwyr rhyw ddinas neu oror neillduol (gwel pen. 13, 23); eu bod yn ffurfio cymdeithas neu eglwys drefnus, yn hon oedd wedi bodoli am beth amser; wedi cael gweinidogion, y rhai a symudwyd gan angeu (13, 7); a chanddynt ddysgawdwyr yn awr, i ba rai yr annogir hwynt i ufyddhau (13, 17). Yr ydys wedi tybied yn gyffredin eu bod yn preswylio yn Mhalestina, naill ai yn Jerusalem neu Cæsarea.

Y mae yr Epistol yn hynod gyfaddas i'r dosparth yma; yn agored, fel yr oeddynt, i'r perygl o syrthio yn ol at Iuddewaeth, neu o gyssylltu pwys gormodol â'r hen gyfraith. Gesyd yr ysgrifenydd o'u blaen awdurdod oruchel, gosodiadau neillduol, a thra ragoriaeth gogoniant yr oruchwyliaeth Gristionogol, fel yn cyduno i wneuthur annghrediniaeth yn fwy anesgusodol, a gwrthgiliad yn fwy pechadurus a dinystriol.

Y mae yn deilwng o sylw, fel y mae yr holl ymresymiaeth yn cyfateb y personau at ba rai yr ysgrifenwyd yr Epistol. Gan fod yr ysgrifenydd yn anerch Iuddewon, y mae yn arddangos mewn amlygrwydd priodol bob peth oedd yn cael ei gyfiawn barchu ganddynt hwy; yn tynu ei holl egluriadau (12, 16, 18; 13, 2, 10, 12, 14), a siamplau o'r hyn sydd yn fawreddog a rhagorol (11), oddiwrth eu hysgrifeniadau a'u hanes hwynt eu hunain. Pan yn nghylch mynegu unrhyw beth croes i olygiadau a theimladau Iuddewig, y mae yn gochelgar barotoi eu meddyliau ato (5, 11); ac y mae bob amser yn ymresymu ar eu hegwyddorion hwynt eu hunain. Edrychai yr Iuddewon arnynt eu hunain fel rhai wedi cael eu ffafrio mewn modd neillduol, drwy feddiannu y dadguddiad Dwyfol a benododd Moses fel y deddfroddwr, Aaron a'i hiliogaeth fel offeiriaid, a holl ddefodau y deml fel addoliad Duw. Nid ydyw yr apostol yn colli golwg ar y neillduolrwydd yma; ond drwy gyfaddasu llinell ei ymresymiad iddo, dengys nad ydyw y ffydd Gristionogol ond cwblhad o'u ffydd hwynt.

Gellir dosparthu yr Epistol yma i ddwy ran: amcan y *gyntaf* yw egluro ystyr, a phrofi israddoliaeth yr oruchwyliaeth Iuddewaidd; ac amcan yr *ail* yw cadarnhau a chysuro y credinwyr Iuddewaidd yn eu proffes grefyddol.

i. Ar ol sylwi fod goruchwyliaeth Moses a'r un Gristionogol wedi dyfod oddiwrth yr un awdwr Dwyfol, dengys yr ysgrifenydd ysbrydoledig ragoriaeth annhraethadwy yr olaf, yn gymmaint a'i bod wedi cael ei chyflwyno gan y Messiah.—1. Un mwy nâ'r *prophwydi*, ac hyd y nod nâ'r angylion; ymostyngiad a marwolaeth yr hwn oedd mor bell oddiwrth leihau ei ogoniant, fel mai hyn oedd moddion cyflawniad ei waith mawr prynedigol (1, 2).—2. Un mwy nâ Moses, eu deddfroddwr parchedig, yr hwn, wedi y cyfan, nid oedd ond gwas. Yma y mae yr apostol yn ddifrifol rybyddio y Cristionogion Hebreaidd, rhag iddynt, drwy annghrediniaeth, golli yr orphwysfa bresenol â'r gogoniant dyfodol, o ba un nid oedd Canaan, i'r hon yr arweiniodd *Josua* eu tadau ond cysgod (3 : 4, 1—13).—3. Yna, gan fod yr Iuddewon yn briodol yn cyssylltu y pwys mwyaf â'u hoffeiriadaeth a'u haberthau hwynt, y mae yn gosod allan yn helaeth ragoriaeth, gogoniant, ac effeithioldeb *offeiriadaeth* ac aberth Crist; dengys fod cymhwysderau angenrheidiol archoffeiriad, sef ei fod wedi ei benodi gan

Dduw, ac yn alluog i gydymdeimlo â dynion, i'w cael yn yr Arglwydd Iesu (4, 16: 5, 10): ac wedi dyfynu o'r Ysgrythyr fynegiad fod offeiriadaeth oruchel a thragywyddol y Messiah yn cael ei chysgodi gan Melchisedec, y mae yn gadael ei ymresymiad, i geryddu y rhai a anerchai am fychander eu cynnydd mewn gwybodaeth Gristionogol, gan ychwanegu rhybyddion a chefnogaethau (5, 11: 6). Yna, gan ddychwelyd at ei ymresymiad, y mae mewn amryw bethau yn cymharu offeiriadaeth Crist â'r archoffeiriaid Iuddewig (7: 8). Wedi hyny, eglura natur arwyddluniol a thymmorol y gwasanaeth Lefiaidd, yr hwn a sylweddolir yn Nghrist; cymhara wasanaeth yr archoffeiriad yn y cyssegr bydol âg eiriolaeth Crist fry yn mhresenoldeb Duw; a chyferbyna rinwedd cysgodol y mynych aberthau Iuddewig âg effeithioldeb hanfodol a pharhaus yr un Iawn perffaith a holl-ddigonol (9: 10, 1—18).

ii. Ar yr ymresymiad yma y mae yr apostol yn seilio ei gymhwysiad ymarferol. Ar ol rhoddi annogaeth gyffredinol i sefydlogrwydd mewn ffydd, i obaith, ac i fod yn gynnorthwyol y naill i'r llall, y mae yn gosod allan fawredd euogrwydd, a chanlyniad arswydus gwrthgiliad. Yna, wedi adgofio y credinwyr Hebreaidd am eu gwroldeb a'u hymlyniad ffyddlawn o dan brofedigaethau blaenorol, dengys iddynt, mewn trefn i fyned yn mlaen yn ffordd iachawdwriaeth, yr angenrheidrwydd anhebgorol iddynt gynnal bywyd o *ffydd* (10, 19—25). Ar ol darlunio natur ffydd, profa mai hi sydd wedi bod yn brif egwyddor crefydd yn mhob oes; ac eglura ei gweithrediad nerthol, a'i heffeithioldeb buddugoliaethus mewn cyfres hir o wroniaid, merthyron, a chyffeswyr, o Abel hyd ddiwedd goruchwyliaeth yr Hen Destament; ac, uwchlaw y cwbl, yn Iesu Grist ei hun, temtasiynau a dyoddefiadau yr hwn oeddynt yn llawer mwy nâ'r eiddynt hwy (11: 12, 1—3). Cefnoga hwynt yn mhellach, drwy eu hadgofio nad oedd eu cystuddiau yn ddim ond dysgyblaeth llaw Tad, a'u bod wedi eu bwriadu er lles iddynt yn y diwedd (12, 4—11); cynghora hwynt i gyd-ystyried eu gilydd, ac i wylied y naill dros y llall gyda thynerwch; rhybyddia hwynt rhag iddynt, fel Esau, werthu rhagorfreintiau ysbrydol am fwynderau presenol (12,12—17); a chyffröa hwynt drwy gyferbynu gogoniannau materol arswydus cyfraith Moses â gogoniannau ysbrydol difrif-ddwys ond hyfryd yr efengyl; a dywed wrthynt y byddai y perygl o esgeuluso eu rhagorfreintiau mewn cyfartaledd i'w mawredd hwynt (12, 18—29). Wrth derfynu, y mae yn rhoddi gorchymynion penodol ar amryw ddyledswyddau ymarferol, ac yn diweddu gydag anerchiadau a bendithiad (13, 1—25.)

187. Sylwer ar y gwersi canlynol yn yr Epistol yma:—

Mawrhydi Crist, fel gwir lun y Tad, Creawdwr pob peth, adferydd dyn syrthiedig, Brenin cyfiawn, a gwrthddrych addoliad angylion.

1, 1:—2, 9: Col. 1, 13—19: 2, 10: 2 Cor. 4, 6: 1 Pedr 3, 22: 1 Ioan 1, 1: 2: Dad. 4, 11: 5, 6—13: 19, 11—21: Ioan 1, 1—18: 3, 13—21, 31, 36: Zech. 9, 9: Salm 2: Esa. 12, 2: Act. 10, 40—2.

Ei ymgnawdoliad a'i amcanion. Y mae yn rhoddi dadguddiad cyflawn, yn dyoddef, yn cydymdeimlo, yn cynnorthwyo; ac fel Tywysog ein hiachawdwriaeth ni, y mae yn arwain i ogoniant. Y mae y ddadl fod ar ddynion angen eiriolaeth seintiau yn cael mwy nâ'i chyfarfod gan ddynoliaeth a chydymdeimlad ein Harglwydd.

2, 10—18; 4, 15; 5: 2 Cor. 5, 18—21; Phil. 1, 5—11; 2, 7, 8; Gal. 4, 4—7; Rhuf. 8, 3; Gen. 3, 15; Esa. 7, 14; Ioan 1, 14.

Ei ragoriaeth ar Moses, Josua, ac Aaron, a'r ddyledswydd ganlynol o wrandaw ar ei lais, yn nghyd a'r pechod ofnadwy o annghrediniaeth a gwrthgiliad.

3, 1—4, 13; gwel Num. 12, 1—10; Jos. 11, 15—23; Dad. 7, 9—17; Esa. 9, 6, 7; Ioan 6, 32—58.

4, 14;—6, 20; 2, 17, 18; 10, 19—23; Eph. 2, 18; 3, 12; Exod. 28, 29; Sal. 110. Cymharer 2 Pedr 2, 15—22.

Rhagoriaeth neilldnol offeiriadaeth Crist,[a] y cyfammod newydd, a Christ fel Cyfryngwr,[b] a'r aberth a offrymwyd gan ein Harglwydd,[c] yn nghyd a'r syniadau a'r cyfrifoldeb cyfatebol i bob un.[d] Rhydd yr apostol arwyddocad yr hen oruchwyliaeth a'i hamrywiol ordinhadau. Yr oedd y cyfan yn *gysgod* daionus bethau i ddyfod (10, 1); ond arwyddocad rhanau neilldnol yn unig a eglurir yma.

Gall y santaidd santeiddiolaf, fel yr elai yr archoffeiriad i mewn iddo, osod allan y nefoedd i'r hon yr aeth Crist, 9, 1—14, 21; Lef. 16. Gall y cyssegr, fel preswylfod Duw, osod allan ein Harglwydd (Ioan 2, 21; Col. 2, 9,) neu yr eglwys, Eph. 2, 19—22; 1 Pedr 2, 5, 9; y ganwyllbren aur, a ddarlunia yr eglwys fel wedi ei goleuo gan air ac Ysbryd Duw, Dad. 1, 20; 4, 5; Phil. 2, 15, 16; Math. 5, 14—16; yr arogldarth oedd yn arddangos gweddiau a moliant y saint, Heb. 13, 15; Dad. 8, 3, 4; Exod. 30, 1—8, 34—36; yr ail len a gysgodai gnawd Crist, yr hwn a rwygwyd i ni gael dyfodfa at Dduw, 10, 19, 20; Marc 15, 37, 38; Exod. 26, 31—33; y crochan a'r manna a osodai allan y gwir fara, Dad. 2, 17; Ioan 6, 48—51; Exod. 16, 32—34; a'r drugareddfa oedd ddangosiad o orsedd gras, at yr hon y mae yr edifeiriol yn cael rhydd-ddyfodiad *drwy* waed Crist, yr hwn yw yr iawn dros bechod, 9, 5, wedi ei chymharu â 4, 16; Col. 2, 10—17; Rhuf. 3, 25; Sal. 40, 6—8; Exod. 25, 10—22.

Y mae israddoliaeth yr hen oruchwyliaeth yn cael ei gyhoeddi amrywiol weithiau, Heb. 7, 22; 9, 9; Gal. 3, 1—5; 4, 9, 10; 2 Cor. 3; Ioan 1.

Fel mai ffydd yw dyledswydd fawr yr efengyl, yr hon a gymhellir gan ffeithiau sydd wedi cael eu chwilio eisoes, felly y mae yr apostol yma yn ei hegluro drwy siamplau allan o'r Hen Destament. Er gwaethaf dirgelwch, anhawsderau, profedigaethau, ac oediadau, yr hen saint a ymddiriedent yn y gair Dwyfol, a gweithredent yn unol, nid â'r hyn a welent, ond â'r hyn a gredent. Felly y mae yn rhaid i ninau wneuthur. Ffydd yw egwyddor ein maddeuant a'n sefydlogrwydd.

11, 1;—12, 13; Rhuf. 4, 13—25; 5, 1, 2; 8, 24; 2 Cor. 4, 13;—5, 8; 1 Pedr 1, 8.

Addysgiadau ymarferol yr Epistol yma ydynt yn hynod am y cymhellion nodedig o briodol, at ba rai y mae yr ysgrifenydd ysbrydoledig yn appelio.

Byddwn ddiolchgar, sefydlog, ac ufydd, oblegid peidiodd tywyllwch a dychryn yr hen gyfraith, ac y mae teyrnas ansigledig wedi ei dadguddio, 12, 18—29; 1 Pedr 2, 4—10.

Byddwn foddlawn, er nad oes yr un etifeddiaeth ddaearol wedi ei gosod

[a] 7, 1;—8, 6; Dad. 5, 6—13; 1, 5, 6; Eph. 1, 7; Col. 1, 14; 1 Ioan 2, 2; Math. 20, 28.

[b] 8, 7; 9, 1—22; 2 Cor. 3; 1 Cor. 11, 25; Rhuf. 3, 19, 31; 5, 2; 6; Ioan 14, 6; Exod. 34, 28; 2, 1—17.

[c] 9, 23;—10, 18; Eph. 5, 2; Tit. 2, 14.

[d] 10, 19—37; 2, 1—18; 4, 16; Rhuf. 8, 28—39; 15—17; 1 Cor. 10, 1—12; Dad. 3, 1—4; Rhuf. 11, 21.

o'n blaen. Y mae addewid Josua, a gofal Duw Josua, o hyd yn aros, 13, 5, 6. Sylwer ar brydferthwch y rheswm a roddir, i'r Iuddew yn neillduol, dros arfer llettygarwch, 13, 1.

Canlynwn athrawon ffyddlawn, na fydded i ni ollwng gafael yn athrawiaeth annghyfnewidiol Crist, gwrthwynebwn draddodiadau gweigion a gwasanaeth defodol, ymunwn â Christ y tu allan i'r gwersyll, a dysgwyliwn am y Jerusalem newydd yn lle yr un a gollwyd, 13, 7—14.

Y mae y bendithiad diweddol (adn. 20, 21), yn ogoneddus o gynnwysfawr, ac yn gyfoethog mewn cyfeiriadau at brif athrawiaeth yr Epistol, sef y Cyfammod Newydd, a mawrhydi a graslonrwydd y Cyfryngwr.

Epistol Cyffredinol Cyntaf Pedr. Babilon, o. c. 63.

188. Pedr, enw gwreiddiol yr hwn oedd Simeon, neu *Simon*, oedd frodor o Bethsaida, ar fôr Galilea; a mab i Jonas (ac oddiwrth hyn y gelwir ef Bar-jona, Math. 16, 17). Yr oedd ar amser ei ymddangosiad cyntaf yn yr hanesyddiaeth Efengylaidd wedi priodi, ac yn byw yn Nghapernaum, Marc 1, 29, 30; ac, fel meibion Zebedeus, canlynai yr alwedigaeth o bysgota. Dygwyd ef at Iesu gan ei frawd Andreas, yr hwn oedd wedi bod yn ddysgybl i Ioan Fedyddiwr, ond a arweiniwyd gan dystiolaeth ei athraw i ymuno â'r Dysgawdwr Dwyfol. Parhäodd y ddau frawd i ganlyn eu galwedigaeth am beth amser ar ol hyn, hyd nes y galwwyd hwynt gan ein Harglwydd i fod yn barhaus gydag ef, Math. 4, 18—20; ar ol hyn buont yn ganlynwyr ymroddgar iddo.

Y ffeithiau lluosog a fynegid am Pedr yn ystod yr amser y bu gyda'r Arglwydd, a daflant lawer o oleuni ar ei gymmeriad ef yn y tymmor hwnw. Ei dduwioldeb didwyll, ei ymlyniad gwresog wrth ei Feistr, a'i sêl dros ei anrhydedd ef, a ymddangosant wedi eu cymmysgu â rhyw fesur o fyrbwylldra ac ansefydlogrwydd; ond y mae cyfnewidiad mawr yn ganfyddadwy ynddo ar ol ei gwymp, a'i adferiad, ac wedi iddo gael ei "wisgo â nerth o'r uchelder," fel y mae yn cyflawn gyfiawnhau yr enw a roddodd ein Harglwydd mewn modd prophwydol arno ef, gan ei alw yn *Cephas* neu *Petros;* y blaenaf yn air Syriaidd, a'r olaf yn un Groegaidd, a'r ddau yn golygu *maen* neu *graig*. Anrhydeddwyd Pedr, yn uniongyrchol ar ol tywalltiad yr Ysbryd Glân, drwy iddo gael ei awdurdodi i agor drysau teyrnas nefoedd, yn gyntaf i'r Iuddewon, ac wedi hyny, yn achos Cornelius a'i deulu, i'r Cenedloedd.

Nid ydyw y ffeithiau yma yn golygu fod unrhyw fawrhydi goruwchawdurdodol yn perthyn iddo; tra y mae Math. 23, 8; Gal. 2, 2, yn eglur brofi nad oedd yn meddiannu dim o'r fath beth—a charnhëir y penderfyniad yma gan dystiolaeth henafiaeth.

Ni wyddis dim yn sicr am y rhan ddiweddaf o fywyd Pedr, ond tybir, ar ol ei ymweliad âg Antioch, yr hwn a gofnodir yn Gal. 2, 11, iddo aros yn Jerusalem am rai blynyddau, ac iddo wedi hyny ymweled â Syria, a'r gwledydd a enwir yn arysgrifen yr Epistol yma, yr hwn a ysgrifenwyd ganddo wedi iddo fyned i'r amherodraeth Barthiaidd. Dywed rhai iddo, wedi hyny, fyned i Rufain, ac iddo gael ei roddi i farwolaeth yno drwy gael ei groeshoelio, mewn cyflawniad o brophwydoliaeth ein Harglwydd o berthynas iddo, Ioan 21, 18, 19. Ereill a ddadleuant iddo farw yn Mabilonia.[a] Y ddwy blaid a gydunant, fodd bynag, iddo gael ei osod i

[a] Gweler ar un tu, Hanes Eglwysig Gieseler, i, adr. 27, Philadelphia; ac ar y llall, Cenadwri a Merthyrdod St. Pedr, gan Simon, Llundain, 1852.

farwolaeth yn gynnar yn nheyrnasiad Nero, feallai o. c. 64 neu 65, ac yn yr erlidigaethau a gyfodwyd gan yr amherawdwr hwnw. Y traddodiad i Pedr ymweled â Rhufain yn nyddiau Claudius, sydd yn hollol amddifad o seiliau credadwy (gwel y Rhagarweiniad i'r Rhufeiniaid).

Priodolir yr Epistol yma yn gyffredin i o. c. 63, er fod rhai yn rhoddi iddo ddyddiad boreuach. Y mae yn sicr fod Marc, yr hwn oedd yn awr gyda Pedr (5, 13), feddwl ymadael â Phaul yn o. c. 62, pan ysgrifenwyd yr Epistol at y Colosiaid, Col. 4, 10, a'i fod yn absenol oddiwrth Paul yn o. c. 64. Y ffeithiau yma ydynt yn ffafriol i'r dyddiad olaf.

Ysgrifenwyd yr Epistol yma at y Cristionogion Iuddewig oeddynt yn wasgaredig drwy wahanol Daleithiau Asia Leiaf; ond etto, nid yn hollol ddigyfeiriad at y dychweledigion Cenedlig lluosog a gynnwysai yr eglwysi hyny (1, 14; 4, 3). Ymddengys iddo gael ei ysgrifenu o Babilon (5, 13), yr hwn, fel y mae rhai wedi tybied, sydd enw cyfrinol am Rufain. Ysgrifenwyr perthynol i eglwys Rufain ydynt wedi pleidio y dybiaeth yma, mewn trefn i brofi y pwnc dadleugar o breswyliad Pedr yn y ddinas amherodrol. Ond nid oes prawf fod yr enw *Babilon*, yn y tymmor boreu hwn, yn cael ei roddi un amser i Rufain; ac nid oes un rheswm dros i enw o'r fath yma gael ei gymhwyso ati yn yr amser hwnw, na phaham y buasai Pedr yn dewis enw ffigurol, yr hwn, er ei fod yn cyfateb i ddullwedd arwyddol *(symbolical)*, etto nid oes dim yn eglurach nâ'i fod yn hollol anaddas mewn ysgrifen epistolaidd. Ymddengys, gan hyny, mai mwy rhesymol yw cymmeryd yr enw yn ei ystyr eglur a naturiol, fel yr holl enwau ereill yn yr ysgrifeniadau apostolaidd, a'i briodoli naill ai i diriogaeth Babilonia, i Babilon, neu i Seleucia, yr hon oedd wedi ei hadeiladu o adfeilion yr hen ddinas, ac yn ei chymmydogaeth uniongyrchol. Yr oedd yr Iuddewon yn dra lluosog yn y dosparth hwnw, ac nid oeddynt yn debyg o gael eu hesgeuluso gan "apostol yr enwaediad;" ac y mae yn dra thebyg fod eglwys Gristionogol wedi ei phlanu yn eu plith.

Darlunir yr Epistol yn gywir gan Leighton, fel "crynodeb byr ac eglur iawn o'r cysuron a'r hyfforddiadau angenrheidiol i gefnogi a chyfarwyddo y Cristion ar ei daith i'r nef; drwy ddyrchafu ei feddyliau a'i ddymuniadau at y dedwyddwch hwnw, a'i nerthu yn erbyn pob gwrthwynebiad, oddiwrth lygredigaeth fewnol, a themtasiynau a chystuddiau allanol, ar ei ffordd. Cynnwysa lawer o benau athrawiaethol, ond y rhai penaf, a'r rhai yr ymdrinir fwyaf â hwynt, ydynt y tair yma, *ffydd, ufydd-dod*, ac *amynedd;*—i gadarnhau mewn crediniaeth, i gyfarwyddo mewn gwaith, ac i gysuro mewn dyoddefaint; ac y mae yn fynych yn gosod o flaen y rhai yr ysgrifenai atynt siampl ddigyffelyb yr Arglwydd Iesu, a mawredd eu rhwymedigaethau hwynt i'w ganlyn ef."

Gosodir amcan cyffredinol yr Epistol i lawr yn 5, 12, a gellir dosparthu y cyfan i ddwy ran, oddieithr y cyfarchiad (1, 1, 2), y rhagarweiniad (3—12), a'r diweddiad (5, 13, 14).

i. Annogaethau cyffredinol i gariad a santeiddrwyd (1, 13:—2, 10).

ii. Annogaethau neillduol ar ddyledswyddau neillduol (2, 11:—5, 12).

Fel hyn, tra y mae i'r Epistol amcan ymarferol, y mae mor efengylaidd a phe buasai yn benaf yn athrawiaethol. Cyfeiria yn mhob man at Grist; at ei Iawn, yr hwn a ragfynegwyd gan y prophwydi, a fyfyrir gan angylion, ac a ordeiniwyd er cyn sylfaeniad y byd; at ei adgyfodiad, ei esgyniad, ac anfoniad yr Ysbryd; at ei siampl fel Ceidwad dyoddefgar, ac at olygfeydd ofnadwy y farn ddiweddaf. Fel ei anwyl frawd Paul, dyga

athrawiaethau yr efengyl yn mlaen fel y cymhellion mawrion i santeiddrwydd ac amynedd; ac fel efe, disgyna i gymhell pob dyledswydd berthynasol, tra y rhydd y golygiad uchelaf o'n rhagorfreintiau fel credinwyr yn Nghrist.

Yr ydys eisoes wedi sylwi ar ei ostyngeiddrwydd, fel yr eglurir ef gan Efengyl Marc. Ei sylw anrhydeddus o Paul, 2 Pedr 3, yr hwn a'i ceryddodd yn gyhoeddus, ac a ysgrifenodd y cerydd hwnw yn ei Epistol at y Galatiaid, at ba rai yr oedd Pedr ei hunan yn awr yn ysgrifenu, Gal. 2, 11; 1 Pedr 1, 1; 2 Pedr 3, 1, sydd ddangosiad arall o'r un ysbryd. Yn y modd yma eglura ei orchymyn ei hunan, 1 Pedr 5, 5, ac amlwg yw ei fod heb annghofio gwersi ein Harglwydd yn ei ddyddiau diweddaf.

189. Sylwer mai y gair anllygredig yw moddion appwyntiedig cynnydd y Cristion mewn santeiddrwydd, 1 Pedr 2, 3; Col. 1, 5, 6: 2 Pedr 1, 8: 3, 18: Ioan 17, 17: Salm 119.

Cymharer a darllener, 1, 1, 3, 10, 17: 2, 13, 17, 18. 3, 1, 7, 8, 18: 4, 1, 7, 12: 5, 1, 5, 8, 10, 11, 14.

Epistol cyntaf Paul yr Apostol at Timotheus.

Macedonia, o. c. 64 *neu* 57.

190. Yr ydys wedi galw y ddau lythyr at Timotheus, a'r llythyr at Titus, yn Epistolau bugeiliol. Y maent yn orlawn o gyfarwyddiadau o berthynas i adolygiad yr eglwys, yn nghyd a dyledswyddau ereill y weinidogaeth Gristionogol. A cheir ynddynt hefyd luaws o hyfforddiadau addas i'r eglwysi eu hunain.

Preswyliai Timotheus yn Lydia, ac feallai mai brodor ydoedd oddiyno, Act. 16, 1, 2. Ei dad oedd Roegwr, a'i fam a'i nain oeddynt Iuddewesau duwiol, y rhai a'i dygasant ef i fyny yn ofalus mewn gwybodaeth o'r ysgrythyrau, 2 Tim. 3, 14. Argyhoeddwyd ef, mae yn debyg, gan Paul, ar ei ymweliad cyntaf â Lydia, Act. 14, 6 (gwel 1 Tim. 1, 2: 2 Tim. 1, 2: 1 Cor. 4, 17); a phan ymwelodd yr apostol â'r lle yr ail waith, dewisodd ef yn gydymmaith yn ei deithiau a'i lafur. Lleferir am dano yn mhob man mewn ymadroddion o ganmoliaeth uchel, 1 Thes. 3, 2; Phil. 2, 20; a cheir ynddo enghraifft ardderchog o athrylith a gras mawr yn cydgyfarfod mewn un ieuanc mewn blynyddau ac eiddil o iechyd (4, 12; 5, 23).

Y mae yn anhawdd, os nad yn anmhosibl, penderfynu pa bryd yr ysgrifenwyd yr Epistol yma. Eglur yw iddo gael ei anfon i Timotheus yn Ephesus, a phan oedd Paul naill ai yn Macedonia neu ar ei ffordd yno (gwel 1, 3). Dysgwn oddiwrth Act. 20, 1, i Paul ymadael o Ephesus, a myned i Mocedonia, ar ol y cynhwrf a achoswyd gan Demetrius; ac y mae rhai beirniaid dysgedig wedi tybied i'r Epistol yma gael ei ysgrifenu ar yr amser hwnw. Y mae amryw anhawsderau pwysig, fodd bynag, ar ffordd y dybiaeth yma.

(1.) Cyn i Paul fyned o Ephesus, yr oedd wedi anfon Timotheus ac Erastus o'i flaen i Macedonia, gan addaw eu canlyn hwynt (Act. 19, 22), ac y mae yn annebyg iawn i Timotheus ddychwelyd o'r daith faith yma cyn i Paul ymadael âg Ephesus.

(2.) Yr oedd Timotheus, ar yr amser tybiedig, gyda Phaul yn Macedonia (gwel 2 Cor. 1, 1); ond pan ysgrifenodd Paul yr Epistol hwn, ymddengys, nid yn unig fod Timotheus yn Ephesus, ond hefyd fod yr apostol yn dysgwyl iddo aros yno am beth amser (gwel pen. 3, 15: 4, 13). Yr

oedd Timotheus hefyd gyda'r apostol ar ol hyny yn Nghorinth, pan ysgrifenodd yr Epistol at y Rhufeiniaid (Rhuf. 16, 21), a phan yr ymadawodd â Groeg i ddychwelyd i Syria, Act. 20, 4). Er y gallasai Paul fod wedi aros peth amser yn Macedonia, ac ysgrifenu yr ail Epistol at y Corinthiaid ychydig cyn ei ymadawiad â'r wlad hono, etto y mae yn anhawdd tybied i Timotheus ymuno âg ef mor fuan yno, os oedd wedi gorchymyn iddo aros yn Ephesus (gwel pen. 1, 1).

(3.) Yn mhellach, yn yr Epistol yma mynega Paul ei fwriad i ddyfod yn fuan i Ephesus (3, 15). Ond ar yr amser sydd yn awr dan sylw, ymddengys, oddiwrth Act. 19, 21, a 20, 3, fod Paul, ar ol myned drwy Macedonia ac Achaia, wedi bwriadu myned i Jerusalem; nid ar hyd ffordd gwmpasog Troas ac Ephesus, ond yn uniongyrchol drwy Groeg i Syria.

Yr ystyriaethau hyn, yn nghyd ag ereill, ydynt wedi arwain llawer i benderfynu fod yn rhaid i'r Epistol yma gael ei ysgrifenu ar amser diweddarach, sef ar ol carchariad cyntaf yr apostol yn Rhufain, a thra ar daith, yr hon, fel y tybir, a argymmerodd ychydig cyn ei garchariad olaf. Y prif anhawsdra yn y dybiaeth yma yw, mynegiad Paul wrth henuriaid yr eglwys yn Ephesus, pan gyfarfyddodd â hwynt yn Miletus, Act. 20, 25; ond mai casgliad o eiddo Paul ei hunan oedd hwn, a ymddengys oddiwrth adnodau 22, 23, lle y dywed nad oedd yn gwybod beth a ddygwyddai iddo, eithr fod yr Ysbryd Glân yn tystio iddo fod "rhwymau a blinderau yn ei aros." (Gwel hefyd Phil. 1, 23, wedi ei chymharu â pen. 2, 17, 23, 24). Ar y cyfan, rhaid ystyried y pwnc yma o hyd yn amheüus. Ond ymddengys yr anhawsderau perthynol i'r dyddiad diweddaraf yn llai nâ'r rhai cyssylltiedig â'r boreuaf.

Y mae i'r Epistol ddau brif amcan:—

(i.) Gwrthweithio athrawiaethau gau y dysgawdwyr Iuddewig, y rhai, tra yn proffesu ymlyniad wrth y Gyfraith, a ddysgent athrawiaethau croes i'w gofynion santaidd. Eu gau-ddysgeidiaeth hwynt, a'r gwirioneddau gwrthwynebol, a ddangosir yn rymus yn pen. 1; 4, 7—10; 6, 3—5, 20, 21. Cymharer Act. 20, 27—32: 2 Cor. 4, 1—7.

(ii.) Cyfarwyddo a chefnogi Timotheus gyda golwg ar rwymedigaethau ei swydd; gan ei ddysgu (yn 1) am addoliadau cyhoeddus, pen. 2, 1—8; (2.) dyledswyddau ac ymddygiad gwragedd Cristionogol, pen. 2, 9, 12; cymharer 1 Cor. 11, 3—16: 14, 34—40; 1 Pedr 3, 1—6; (3.) swyddogion eglwysig, pen. 4, 1—13; (4.) ei ddysgeidiaeth ei hunan, pen. 3, 14;—4; (5.) ei santeiddrwydd personol, pen. 4, 11—16; ac (yn 6.) ei weinyddiaeth eglwysig mewn ymdrin â throseddwyr, a gwragedd gweddwon, a henuriaid da a drwg, a chaethion a chyfoethogion; a dyledswyddau yr amrywiol ddosparthiadau hyn o bersonau, pen. 5, 6: cymharer Titus 1, 10:—3, 10. Gyda'r pethau yma, ceir hefyd amryw apeliadau dwys a serchiadol, cyfeiriadau tyner at argyhoeddiad Paul ei hunan, a rhagolygiadau difrifol o ddyfodiad Crist.

Mynegir amcan yr Epistol yn yr adranau canlynol:—1, 3, 4: 3, 15: 6, 20, 21.

Cyssyllter a darllener yn nghyd:—1, 1, 3, 5, 18; 2, 1, 9; 3, 1, 8, 14; 4, 1, 6, 12: 5, 1, 3, 17, 19, 20, 22, 23, 24; 6, 1, 3, 6, 11, 17, 20.

191. Yn yr Epistolau at Timotheus a Titus—yr Epistolau bugeiliol—cawn y dadguddiad egluraf a roddir yn yr Ysgrythyr am gymmeriad (*a*), cymhwysderau (*b*), a dyledswyddau (*c*), y gweinidog Cristionogol. Er fod y cyfan yn aml yn cael eu desgrifio yn yr un adran, etto gellir eu trefnu fel hyn:—

(*a*) 1 Tim. 1; 2 Tim. 1, 6—8; 2, 1—8, 14—26: 2 Cor. 4, 1—7: Act. 20, 27—32.
(*b*) 1 Tim. 3, 1—7: Tit. 1, 5—11: 1 Pedr 5, 1—3.
(*c*) 1 Tim. 4, 6:—6, 21: Tit. 1, 13: 2, 1:—3, 11 (gwel Rhuf. 16, 17, 18): 2 Tim. 3, 14:—4, 5.

Gyda'r holl adranau yma, cymharer desgrifiadau Paul o'i brofiad, ei gymhellion, a'i lafur ef ei hunan (gwel Cor.): y mae yn gynllun o'r weinidogaeth efengylaidd.

Darlunir cymhwysderau diaconiaid yn 1 Tim. 3, 8—13: Act. 6, 2—6; gwel hefyd Phil. 1, 1, lle y mae y gweinidogion a'r diaconiaid yn cael eu hanerch gyda'r holl saint.

Ar y llaw arall, dylai yr eglwysi roddi i'w gweinidogion gynnaliaeth (*a*), serch a pharch (*b*), ac, o fewn terfynau priodol, ufydd-dod (*c*).

(*a*) 1 Tim. 5, 17, 18: Gal. 5, 6, 7: 1 Cor. 9, 4—14; 2 Thess. 3, 8, 9: Math. 10, 10: Luc 10, 7.
(*b*.) 1 Tim. 5, 17; 1 Thess. 5, 12, 13.
(*c*.) Heb. 13. 17: am y terfynau, gwel 1 Cor. 11, 1: Phil. 3, 17: Heb 13, 7: 1 Pedr 5, 3.

Yr Epistolau yma a gynnwysant hefyd yr hanes gyflawnaf am lygriad agosäol Cristionogaeth (*a*), ac o ffyniad helaeth anffyddiaeth (*b*), yn yr hyn a eilw yr Ysgrythyr yn amseroedd diweddaf.

(*a*.) 1 Tim. 4, 1—5: 2 Tim. 3, 1—13: 2 Thess. 2, 1—12: 2 Pedr 2; Judas 17, 18.
(*b*.) 1 Thess. 5, 2: 2 Pedr 3: Dad. 13, 11, 14: Luc 12, 35—38: 18, 8.

I ddiwygio y cyfeiliornadau yma, yr ysgrifenwyr ysbrydoledig a'n cyfarwyddant i apelio at athrawiaeth a siampl apostolaidd, ac at yr Ysgrythyrau yn gyffredinol, 1 Tim. 4, 6—11: 2 Tim. 3, 14:—4, 5: 2 Thess. 2, 13—17: 2 Pedr 1, 12—21: Judas 20, 21. Y mae y cynllun Ysgrythyrol yma i attal cyfeiliornad yn dra addysgiadol.

Epistol Paul at Titus. Macedonia, o. c. 64 *neu* 57.

192. Ni wyddis ddim yn sicr am Titus, yn fwy nâ'r hyn a gawn yn Epistolau Paul. Dysgwn oddiwrth gyfeiriadau achlysurol ato mai Groegwr ydoedd o enedigaeth, Gal. 2, 3, ac iddo gael ei ddwyn at Gristionogaeth drwy offerynoliaeth Paul, Gal. 1, 4. Aeth i fyny gyda Phaul a Barnabas i Jerusalem, Gal. 2, 1; ac wedi hyny, aeth gyda Phaul yn ei deithiau; ac enwir ef yn aml ganddo mewn modd cymmeradwyol a serchiadol, 2 Cor. 2, 1, 2, 13: 7, 5, 7: 8, 16—24: 12, 17—21.

Gan ei fod yn fab rhieni cenedlig, ac felly mewn amgylchiadau gwahanol i Timotheus, ni chafodd ei enwaedu. Buasai enwaediad, yn ei achos ef, fel yr ymresymai Paul, yn fradychiad egwyddor, Gal. 2, 5.

Ar amser ysgrifeniad yr Epistol yma, yr oedd Titus wedi ei adael gan yr apostol yn Nghrete, er mwyn sefydlu a threfnu yr eglwysi yno (1, 5). Nid hawdd penderfynu pa bryd y cymmerodd hyn le; ni roddwyd cyfleustra i hyn gan yr unig ymweliad o eiddo yr apostol â Chrete, yr hwn a gofnodir yn Act. 27, 7, 8; oblegid yr oedd y pryd hwnw ar ei daith i Rufain fel carcharor—nid oedd ei arosiad ond byr, ac nis gallasai ddysgwyl treulio y gauaf canlynol yn Nicopolis (gwel 3, 12).

Tybia rhai y gallasai Paul fod wedi bod yn Nghrete ar ei daith o Gorinth i Ephesus, yr hon a nodir yn Act. 18, 18; ac iddo ysgrifenu yr Epistol hwn wedi hyny o Ephesus, ac ar ol ffurfio y bwriad o dreulio y gauaf canlynol yn Nicopolis, tref rhwng Antioch a Tharsus (gwel 3, 12). Ereill a osodant ymweliad Paul â Chrete rhwng ei ymadawiad âg Ephesus am Macedonia a'i ail ymweliad â Chorinth, a nodir yn Act. 20, 2. Ond y

dybiaeth fwyaf gyffredin yw, fod yr ymweliad hwn â Chrete wedi cael ei wneuthur ar daith a gymmerodd ar ol ei garchariad cyntaf yn Rhufain, pan yr hwyliodd i Asia, gan gymmeryd Crete ar ei ffordd, gan adael Titus yno; ac iddo ysgrifenu yr Epistol hwn o Macedonia, pan ar ei ffordd i Nicopolis."

Tybir yn mhellach, i Titus, yn unol â dymuniad Paul, ymuno â'r apostol yn Nicopolis, a myned gydag ef wedi hyny ar ei daith olaf i Rufain, gan ei fod ef yno gydag ef yn ystod rhan o dymmor ei ail gareharia d, 2 Tim. 4, 10; ac iddo fyned wedi hyny i Dalmatia, mae yn debyg, i bregethu yr efengyl, neu i ymweled âg eglwysi oeddynt eisoes wedi eu ffurfio feallai yno. Ni hysbysir ni pa beth a ddaeth o hono ar ol hyn. Y traddodiad yw, iddo ddychwelyd i Grete, a marw yno yn yr oedran o 94.

Ni wyddom ddim am ddygiad cyntaf yr efengyl i Grete; ond gan fod llawer o Iuddewon o'r ynys hono yn gwrandaw ar Pedr ar ddydd y Pentecost (Act. 2, 11), a'u bod yn lluosog yno (Philo), mae yn debyg i'r ffydd Gristionogol gael ei dwyn yno gan ddychweledigion o'u plith hwynt. Ymddengys hefyd, oddiwrth yr Epistol hwn, fod Paul wedi bod yn llafurio yno gyda llawer o lwyddiant; ond iddo drwy rhyw foddion gael ei frysio oddiyno cyn y gallasai osod yr eglwysi mewn trefn reolaidd.

Ymddengys fod y gorchwyl a ymddiriedwyd i Titus yn Nghrete yn un hynod o anhawdd. Er fod natur wedi cynnysgaethu yr ynys hon â phob peth a dueddai i wneuthur dyn yn ddedwydd, a'r trigolion gynt wedi bod yn hynod am ddoethineb eu cyfansoddiad a'u cyfreithiau, etto, yn mhell cyn hyn, yr oedd sefyllfa cyfraith a moesoldeb wedi suddo yn isel iawn. Yr oedd y bobl o gymmeriad ansefydlog, twyllodrus, ac ymrafaelgar; ac wedi llwyr ymroddi i drythyllwch ac annghymmedroldeb. Ymddengys fod yr apostol yn ystyried rhai o'r Iuddewon oedd wedi ymsefydla yn eu plith fel yn fwy peryglus ar rai ystyriaethau nâ'r brodorion eu hunain.

Y mae tebygolrwydd mawr rhwng yr Epistol hwn a'r Epistol cyntaf at Timotheus; a thybir yn gyffredin iddynt gael eu hysgrifenu o gylch yr un amser. Perthyna hynodrwydd mawr i'r Epistol yma, yn gymmaint a'i fod, mewn ychydig iawn o le, yn cynnwys swm mawr o hyfforddiant, mewn athrawiaeth, moesoldeb, a dysgyblaeth. Ei gynnwysiad sydd fel y canlyn:—

Wedi cyfarchiad apostolaidd, yn dangos yr amcan i ba un yr oedd Paul wedi gwisgo Titus âg awdurdod neillduol, desgrifia y cymhwysderau gofynol yn y rhai oedd i gael eu hordeinio i'r weinidogaeth; y rhai oeddynt yn fwy angenrheidiol o herwydd egwyddorion peryglus y gau-athrawon oedd ganddynt i'w gwrthwynebu, ynghyd a chymmeriad cyffredinol y Cretiaid (1). Wedi hyny, y mae yn nodi yr addysgiadau oedd i gael eu rhoddi i amryw ddosparthiadau o bersonau, gan gymhell ar yr hen a'r ieuainc y rhinweddau ddylasai fod yn eu hynodi: gan annog Titus ei hunan (yr hwn oedd ddyn ieuanc) i roddi siampl yn ei ymarweddiad ei hun o'r rhinweddau oeddynt i gael eu cymhell ganddo; gan ddysgu gweision i fod yn ufydd a ffyddlawn; oblegid bwriadwyd iachawdwriaeth yr efengyl i bob graddau a dosparthiadau o ddynion; er eu santeiddio yn y byd hwn, a'u darparu hwynt i fyd uwch a gwell (2). Yna, cyfarwyddir Titus i orchymyn ufydd-dod i lywodraethwyr, ac ymddygiad mwyn ac heddychlawn tuag at bob dyn; gan gofio eu pechadurusrwydd blaenorol eu hunain, a'u hiachawdwriaeth drwy ras Duw. Gwesgir yr ystyriaeth o rwymedigaeth anhebgorol Cristionogion i ragori mewn gweithredoedd da; rhoddir gocheliadau yn erbyn ymwneyd âg ymofyniadau ysgafn, a dadleuon difudd; ac

wedi rhoddi rhai cyfarwyddiaadau byrion ereill i Titus, terfynir yr Epistol gyda chyfarchiadau a bendithiad (3).

Nodwedd nodedig yn yr Epistol yma yw, fod y rhai perthynol i'r dosparth *iselaf* yn cael eu hannog i *addurno* yr efengyl (2, 10), a thra y priodolir ein hiachawdwriaeth yn gyfangwbl i ras (2, 11), i "ddaioni a chariad Duw ein Hachubwr" (3, 4), gwneir y ffaith hon yn sylfaen yr annogaethau dwysaf i santeiddrwydd (2, 14: 3, 8).

Ar y dyledswyddau dyledus ar Gristionogion i'r llywodraeth wladol, Tit. 3, 1: Gwel Rhuf. 3, 1—10; 1 Pedr 2, 13—17: 2 Pedr 2, 10: Judas 8.

Ail Epistol cyffredinol Pedr. o. c. 64 *neu* 65.

193. Cyfeirir yr Epistol hwn at yr holl gredinwyr (1, 1), ac yn enwedig at yr un personau a'r un cyntaf (3, 1). Amgylchiad sydd yn rhoddi iddo ddyddordeb difrifol yw, iddo gael ei ysgrifenu ychydig cyn merthyrdod yr apostol (1, 14).

Megys y mae yn yr Epistol blaenorol yn annog amynedd dan erlidigaeth, felly yma, annoga i ddyfal-barhad yn y gwirionedd yn nghanol ffyniant cyfeiliornad, ac anffyddiaeth ymarferol. Dywed wrthynt mai y modd goreu i ymgadw rhagddynt yw, drwy gynnyddu mewn duwioldeb (1, 3—11); a rhoddir hefyd brawf penderfynol o wirionedd yr Ysgrythyr gan dystiolaeth anwrthwynebol, a phrophwydoliaeth gyflawnedig (1, 16—21). Rhybyddia athrawon gau, a'r rhai a ddechreuent roddi ffordd i'w hudoliaeth, o'u heuogrwydd a'u perygl, mewn iaith gref a chynhyrfus (2, 1—22), a sicrha hwynt fod ail-ddyfodiad yr Arglwydd, er iddo drwy hir amynedd gael ei hir oedi, mor sicr a'r gwirionedd am y diluw (3, 1—3). Wedi hyny, dengys yr ochr oleu i'r un gwirionedd, a gorchymyna i Gristionogion fod yn ddiwyd a santaidd (3, 14—18). Gan apelio at ddysgeidiaeth Paul fel cadarnhad i'w olygiadau, sylwa pa fodd yr oedd dynion wedi gwyrdroi dysgeidiaeth yr apostol hwnw, fel ag i wneyd iddo gefnogi yr arferion mwyaf niweidiol, a bod y drwg hwn i gael ei ddiwygio, nid drwy esgeuluso yr Ysgrythyrau hyny, ond drwy ostyngeiddrwydd a pharodrwydd mwy i dderbyn addysg (5, 15, 16).

Ni wyddis yn iawn pa sect o hereteciaid sydd yma yn cael eu condemnio. Y mae eu hymarferion penrhydd (2, 10—15), eu cybydd-dod, eu gwadiad o'r Arglwydd (2, 1), eu haddewidion o ryddid (2, 19), yn cael eu darluuio yn eglur, yr hyn a wasanaetha i gyssylltu pleidwyr y cyfryw olygiadau, a'r rhai a nodir (yn agos yn hollol yn yr un geiriau) gan Judas, a chan Ioan, Dad. 2, 14, &c.

Ar burdeb yr Epistol hwn, ac eiddo yr Epistol amheuedig *(antilegomena)*, gwel adr. 170, a Rhan i., adr. 153, 155.

Mor dueddol y mae dynion yn ymddangos i wyrdroi y gwirionedd. Tybiai y Thessaloniaid fod dyfodiad ein Harglwydd i fod yn uniongyrchol; a'r rhai yr ysgrifenai Pedr am danynt a dybient ei fod yn cael ei oedi am amser anmhenodol. Yn nghanol tueddiadau o'r fath yma, nis gallasai dim llai nâ'r Ysbryd Dwyfol gadw yr apostolion yn wyliadwrus ac amyneddgar, ac nis gallasai dim llai nâ nerth yr un Ysbryd ddysgu pysgodwyr i lefaru fel y gwnaent am Dduw, am bechod, ac am y farn a fydd. Y mae arucheledd, ysbrydolrwydd, a chyssondeb, y dadguddiadau yma, yn rhai o'r profion mwyaf penderfynol o ysbrydoliaeth Ddwyfol.

Yr ydym yn trysori geiriau olaf dynion mawr. Ymddengys santeidd-

rwydd o'r pwys mwyaf, a sefydlogrwydd y fendith fwyaf, i Pedr, yn y rhagolwg ar ferthyrdod uniongyrchol. Ei orchymyn olaf yw, "Cynnyddwch mewn gras a gwybodaeth ein Harglwydd a'n Hiachawdwr Iesu Grist;" a'i dystiolaeth olaf sydd i ddwyfoliaeth ei Arglwydd,—"Iddo ef y byddo gogoniant yr awrhou ac yn dragywyddol, Amen," 2 Pedr 3, 18.

Cymhellir diwydrwydd a duwioldeb mawr oddiwrth amryw ystyriaethau, 1, 5, 11: Heb. 3, 14; 4, 11: 6, 7—18: Gal. 6, 9: Col. 1, 23: Dad. 3, 11; 1 Ioan 3, 10—24.

Ar y farn ddiweddaf a'i chanlyniadau, gwel 3, 10—13; Rhuf. 2, 16: 3, 5, 6: 14, 10—12: 1 Cor. 4, 5: 2. Cor. 5, 10: 1 Thess. 3, 13: 2 Thess. 1, 7—10; Phil. 1, 10: 2, 16; Heb. 9, 27: 2 Tim. 4, 1: Judas 24: Dad. 20, 11—15: Math. 13, 40: 16, 27: 25, 31—46: Ioan 5, 22—29: Act. 10, 42: 17, 30, 31: Salm 96, 13; Preg. 12, 14.

Cyssyllter a darllener, 1, 1, 3, 12, 16, 19: 2, 1, 4; 3, 1, 5, 8, 11, 14, 17.

Ail Epistol Paul yr Apostol at Timotheus.

Rhufain, o. c. 65 *neu* 66.

194. Ymddengys i'r Epistol yma gael ei ysgrifenu pan oedd Paul yn garcharor yn Rhufain (gwel pen. 1, 8, 16: 4, 6); ac y mae yn debyg, yn ystod yr *ail* garchariad, ac ychydig cyn ei ferthyrdod. Cesglir na chafodd ei ysgrifenu yn ystod ei garchariad cyntaf, mewn rhan, oddiwrth absenoldeb amryw o'r rhai oedd gydag ef y pryd hwnw (gwel Phil. 1, 1: Col. 1, 1: Philemon, adn. 1: Heb. 13, 23; cymharer hefyd pennod 4, 10, 11, â Colosiaid 4, 10, 14); ac oddiwrth y gwahaniaeth yn nysgwyliadau yr apostol, y rhai oeddynt yn awr yn sefydledig ar ymddattodiad buan (cymharer pen. 4, 6, â Philemon 1, 25; 2, 24: Philemon, adnod 22: Heb. 13, 23): yn gystal ag oddiwrth yr amgylchiadau o gaethiwed ac unigrwydd cynnyddol, yn mha rai yr oedd yr apostol wedi ei osod (cymharer pen. 1, 17, 18, âg Act. 28, 30, 31, a Phil. 1, 13). Ond y mae prawf mwy penderfynol i'w gael oddiwrth amryw gyfeiriadau achlysurol at amgylchiadau nad oeddynt, fel y mae yn amlwg, wedi cymmeryd lle ond ychydig amser cyn i'r Epistol hwn gael ei ysgrifenu. Sonir am gochl a llyfrau oedd wedi eu gadael yn Troas (4, 13), lle bu Paul am bum mlynedd cyn ei garchariad cyntaf yn Rhufain; am Trophimus, yr hwn oedd wedi cael ei adael yn glaf yn Miletus (4, 20), ond yr hwn oedd wedi bod gyda'r apostol yn Jerusalem yr amser y cymmerwyd ef i fyny gyntaf, Act. 21, 29: am Erastus, fel wedi aros yn Nghorinth (4, 20), lle nad oedd Paul wedi bod oddiar ei ymweliad yno bum mlynedd cyn hyny, *pan oedd Timotheus gydag ef*, Act. 20, 4. Yr holl amgylchiadau yma a dueddant i ddangos mai rhaid oedd i'r Epistol yma gael ei ysgrifenu ar ddyddiad diweddarach, fe ddichon o gylch y flwyddyn 65 neu 66; yn mhen dwy flynedd ar ol ysgrifeniad ei Epistol cyntaf. Ymddengys iddo dreulio yr amser rhwng ei ddau garchariad yn Asia, Philem. 22; Phil. 2, 24: 1, 25: Macedonia, 1 Tim. 1, 3: yn gauafu yn Nicopolis, Tit. 3, 12. Ni ddywedir wrthym paham y dychwelodd i Rufain, ond cafodd ei garcharu yn fuan fel drwg-weithredwr, 2 Tim. 2, 9; ac yn mysg ei gyhuddwyr yr oedd Alexander, y dysgawdwr Iuddewaidd o Ephesus, "yr hwn a wnaeth iddo ddrygau lawer," 4, 14.

Os yw y golygiad yma yn gywir, ac os hwn yw yr Epistol olaf a ysgrifenodd yr apostol cyn ei ferthyrdod, y mae wedi ei wisgo â dyddordeb

neillduol, fel yn cynnwys cyfarwyddiadau olaf un "nad oedd yn ol i'r penaf o'r apostolion."

Un o amcanion ysgrifeniad yr Epistol yma oedd ceisio gan Timotheus ddyfod ato ar frys (4, 9), oblegid fod ei gyfeillion ereill wedi ei adael (gwel 4, 10—12). Dymunai gael presenoldeb Timotheus a Marc, fel y gallasent ei gysuro yn ei brofedigaethau, a'i gynnorthwyo yn ngwaith y weinidogaeth (gwel ad. 11). Y mae absenoldeb unrhyw gyfeiriad at Pedr yn taflu goleuni ar y pwnc a gyfodwyd (ar dal. 489), o berthynas i le ei ferthyrdod.

Gan ddechreu gyda mynegiadau cryfion o'i serch a'i gariad, y mae yn rhoddi i'w fab Timotheus gyfres o annogaethau difrifol i sefydlogrwydd, diwydrwydd, ac amynedd yn ei waith; i wroldeb a dyoddefgarwch mewn erlidigaethau; ac i'r ymarferiad o bob rhinweddau personol; gan ei gefnogi ef drwy adalw i'w feddwl ei addysg foreuol mewn duwioldeb, ac mewn gwybodaeth o'r Ysgrythyrau; dyg ar gof iddo rai oedd wedi profi yn anffyddlawn yn awr y brofedigaeth; rhybyddia Timotheus a'i bobl rhag gau-athrawon, dadleuon ofer, a phroffeswyr twyllodrus, cynnydd y rhai y mae yn ei ragfynegu; prophwyda am yr amseroedd blinion oedd etto i ddyfod; a gwasga ar feddwl Timotheus yr angenrheidrwydd iddo fod yn ofalus, yn ffyddlawn, a selog yn nghyflawniad ei weinidogaeth, drwy yr ystyriaeth fod ei yrfa ef ei hunan bron dyfod i ben, ac amser ei ymddattodiad yn agosâu.

Trwy yr holl lythyr hwn at ei gyfaill anwyl, dengys Paul ei fod yn llwyr argyhoeddedig o wirionedd yr egwyddorion a gofleidiwyd ganddo, ei fod wrth eu hamddiffyn yn cael ei ddedwydd gyfodi uwchlaw y dyoddefiadau yr oedd wedi myned drwyddynt, a'r rhai oedd etto i ddyfod, a'i fod yn teimlo sicrwydd gorfoleddus o gymmeradwyaeth a gwobrwy ei Feistr mawr.

Cyssyllter a darllener, 1, 1, 3, 6, 8, 13, 15; 2, 1, 8, 14, 19, 22; 3, 1, 10, 14; 4, 1, 6, 9, 14, 16, 19, 22.

Cynnwysa yr Epistol yma olygiad gogoneddus o'r cysur a fwynhëir gan Gristionogion yn nghanol dyoddefaint, ac yn y rhagolygiad ar angeu, 1, 9—18: 2, 9—13: 4, 6—8, 16—18. Y mae y serch ysbrydol mwyaf santaidd at Dduw a Christ nid yn unig yn gydweddol â chyfeillgarwch dynol, ond yn ei gynnyrchu, 1, 2—5: 4, 9, 21. Ni cheir rhagorfraint a dyledswydd, gras a santeiddrwydd, mewn un man wedi eu cyssylltu yn fwy agos â'u gilydd, 2 Tim. 2, 19. Yn y llygriad ar Gristionogaeth ag oedd yn agosân, cyfarwydda Paul Timotheus i ymlynu wrth yr egwyddor wir geidwadol o burdeb; nid gwyrthiau, na dadguddiad newydd, ond yr athrawiaeth yn yr hon yr oedd Timotheus wedi cael ei ddysgu, a'r Ysgrythyrau hyny sydd yn gwneyd dyn Duw yn berffaith, ac yn gwbl gyfaddas i bob gweithred dda, 3, 14—17: 2 Thess. 2: 2 Pedr 1, 15—21: 3, 1—4, 14—17. Mor addysgiadol yw, ein bod yn ysgrifeniadau olaf Pedr a Phaul, ac nid yn llai felly yn ysgrifeniadau Ioan (Dad. 22), ac yn y rhagolygiad ar yr heresiau oedd i ffynu yn yr eglwys, yn cael ein cyfarwyddo i fyfyrio y Beibl, a'n bod drwy hyn yn cael ein harwain i beidio dysgwyl unrhyw ddadleniad ychwanegol o'r ewyllys ddwyfol. Y Groes—ein gobaith, ein cynllun, ein cymhelliad: Y Goron—ei phurdeb, ei sicrwydd, ei bendigedigrwydd: Y Gair—yn ei addewid. ei orchymyn, a'i athrawiaeth oll yn gyflawn—ydynt yn mhlith mynegiadau diweddaf y llyfr cyssegredig. Nid oes achos i'r eglwys ofni, ond iddi barhau i osod y rhai hyn gerbron.

Epistol Cyffredinol Judas. Syria, o. c. 75 *neu* 64.

195. Judas, awdwr yr Epistol hwn, a elwid hefyd Lebbæus a Thaddæus, Math. 10, 3: Luc 6, 15. Yr oedd yn frawd, neu yn berthynas agos, i'n Harglwydd, ac yn un o'r deuddeg apostol. Ni ddarllenwn ond ychydig yn ychwaneg am dano yn yr efengylau nag iddo ofyn i'n Harglwydd pa fodd y bwriadai ddadguddio ei hunan i'w ddysgyblion ac nid i'r byd, Ioan 14, 22. Tybir i'w Epistol gael ei ysgrifenu at Gristionogion Iuddewaidd yn Syria ac Arabia, lle y dywedir iddo ef lafurio: megys ag yr ysgrifenwyd ail Epistol Pedr at bersonau o gymmeriad cyffelyb yn Asia. Y mae yn dra thebygol fod un wedi gweled ysgrifeniadau y llall. Cymharer 2 Pedr 2. Y rhai a dybiant mai Pedr a welodd ysgrifeniadau Judas a roddant i'r olaf y dyddiad o 64 neu 65 o. c., megys y gwna Lardner, neu dyddiant ef yn foreuach; tra y penderfyna ereill iddo gael ei ysgrifenu oddeutu o. c. 75, neu hyd y nod yn ddiweddarach.

Eglur yw mai amcan yr Epistol yw gosod yr eglwys Gristionogol ar ei gwyliadwriaeth rhag y gau-athrawon hyny, y rhai oeddynt yn penderfynu troi yr oll o grefydd yn grediniaeth olygianol *(speculative)*, a phroffes allanol, ac a amcanent hudo y dysgyblion i anufydd-dod a phenryddid. Gellir dosparthu y cyfan yn ddwy ran: y cyntaf yn ddarluniadol o gospedigaeth, 5—7; a'r ail o gymmeriad y twyllwyr yma, 8—19. Er mwyn rhoddi y dysgyblion ar eu gwyliadwraeth rhag cael eu harwain ar gyfeiliorn ganddynt, cyfeiria yr apostol at yr Israeliaid a gwympasant yn yr anialwch, at yr angylion a gwympasant o'u gogoniant gwreiddiol, at ddinasoedd y gwastadedd, y rhai a wnaed yn siampl o ddialedd Dwyfol; a dengys fod tynged gyffelyb yn aros yr hudoliaethwyr drygionus yma. Adgofia hwynt fod cyfodiad personau o'r fath yn nghyfnod olaf y byd wedi ei ragfynegu; annoga hwynt i sefydlogrwydd a gweddi, ac i ymdrechion dros iachawdwriaeth rhai ereill; a therfyna drwy gyflwyno moliant iddo ef, yr hwn yn unig allasai eu cadw yn ddigwymp. Gwel 2 Pedr 2, 3: 2 Thess. 2: 2 Tim. 3.

Llawer o ddadleuon sydd gan annuwiolion i'w dwyn yn mlaen yn erbyn barnedigaeth. "Yr oeddynt wedi profi gwaredigaeth:" ond yr oedd Israel felly hefyd, ad. 5. "Yr oeddynt wedi bod yn byw yn agos i Dduw, a'i ffafr ef a'u dyrchafodd hwynt;" felly y bu yr angylion colledig, 6. "Ni wnaethant ond rhoddi ffordd i duedd naturiol," felly y gwnaeth Sodom, 7. Gellir, fel hyn, ddefnyddio yr Hen Destament i egluro y Newydd, a dwyn yn mlaen ffeithiau i brofi egwyddorion.

Dos. 4. *Cynnorthwyon i* 1, 2, *a'r* 3 *Ioan a'r Dadguddiad.*

Epistol cyntaf Ioan. Tua diwedd y ganrif gyntaf, neu 68.

196. Er fod yr ysgrif ysbrydoledig yma yn cael ei galw yn Epistol, etto y mae yn dwyn mwy o nodweddau pregeth ar athrawiaethau a dyledswyddau Cristionogaeth. Ymddengys ei fod wedi ei gyfeirio at gredinwyr yn gyffredinol, yn enwedig at bersonau cenedlig a breswylient yn Asia Leiaf, yn mysg pa rai y bu Ioan ei hunan yn llafurio (2, 7: 2, 12—14, 20—27). Ni thybiodd yr ysgrifenydd yn angenrheidiol i osod ei enw wrtho; ond y mae y debygoliaeth neillduol, mewn sylwedd ac ymadroddion, sydd rhyngddo ac ysgrifeniadau ereill yr apostol Ioan, yn cadarnhau tystiolaeth yr eglwys foreuol, ac yn rhoddi prawf boddlonawl mai efe oedd

ei awdwr. Sicr yw iddo gael ei ysgrifenu gan un oedd yn meddu adnabyddiaeth o berson, ac yn llygad-dyst o weithredoedd ein Harglwydd (1, 1—4; 4, 14). Tybir yn gyffredin iddo gael ei ysgrifenu o Ephesus, ond ar ba ddyddiad penodol sydd ansicr; y mae dyddiad diweddar yn dra thebygol oddiwrth y cyfeiliornadau a gondemnir yma.

Amlwg yw mai un o amcanion yr Epistol yma yw gwrthwynebu cyfeiliornadau oeddynt eisoes yn ffynu. Yr oedd rhai yn ammeu *urddas* Dwyfol ein Harglwydd, a gwadent ei fod yn Fab Duw. Geilw yr apostol y rhai hyn yn dwyllwyr ac anghrist[a] (2, 22: 4, 15: 5, 1). Ereill a wadent ei ddynoliaeth, ac felly a wrthwynebent gyssylltiad sylweddol Crist a dynion (Heb. 2, 16: 4, 15), a sylweddolrwydd ei farwolaeth a'i Iawn. Dadleuent hwy nad oedd ei ymgnawdoliad ond ymddangosiad, ac mai *cudd-chwedl (myth)* oedd hanes ei fywyd. Yr apostol, mewn ymadroddion cryfion, a gondemnia y twyll yma (4, 3), a thystia iddo ef ei hunan deimlo corff ei Arglwydd â'i ddwylaw (1, 1). Ymddengys fod y drydedd blaid yn dàl mai digon oedd addoli Duw â'r ysbryd, ac y gallasai y corff gael pob mwyniant dichonadwy. Gwrthwyneba yr apostol y gredo anfoesol yma, drwy ddangos fod pob pechod yn drosedd sylweddol (3, 4): fod cymmundeb â Duw yn puro y Cristion, ac mai drwy y purdeb yma yn unig y gallwn gael ein cydnabod yn eiddo iddo ef (3, 8—10: 2, 5: 4, 13: 5, 11).

Y cyfeiliornadau a geryddir fel hyn a addfedasant yn fore i heresiau, ac adnabyddid eu pleidwyr wrth wahanol enwau (gwel adr. 191 (3).). Pa un a oeddynt yr amser yr ysgrifenwyd yr Epistol yma wedi cynnyddu cymmaint, fel ag i ffurfio sectau neillduol, sydd ammheüus; ond y mae ei gynnwysiad y fath ag sydd yn dymchwelyd y cyfeiliornadau hyn a'u cyffelyb, mewn amseroedd hen a diweddar, ac y mae yn yr ystyr yma o werth neillduol.

Tra y mae yn amlwg mai un o amcanion yr apostol oedd adgyweirio cyfeiliornad ffynadwy, nid hwn oedd yr unig amcan, nac, fe allai, yr un penaf. Cyflwynir ac ymdrinir â phynciau ereill o'r dyddordeb mwyaf, ac yn ymyl y rhai hyn ymddengys adgyweirio cyfeiliornad megys yn cael ei ystyried yn israddol.

i. Dysgir i ni wir natur cymdeithas â Duw (1, 3[b]). Y mae efe yn Oleuni (1, 5) a Chariad; a golyga gymdeithas gydymffurfiad âg Ef. Am ei fod Ef yn *oleuni*, rhaid i ddyn gael ei buro a'i brynu (1, 7: 2, 2);

[a] Nid ydyw y gair Anughrist yn dygwydd ond yn unig yn yr Epistolau. Meddylia naill ai un yn honi ei fod yn Grist, neu un gwrthwynebol iddo; a'r cyfryw yw pawb sydd yn gwadu mai yr Iesu yw y Messiah (neu y Crist), neu fod y Messiah wedi dyfod yn y cnawd. Pan, fel mewn dadleuon diweddar, y cymhwysir y gair at y Gwrthgiliad mawr (2 Thess. 2, 3—10), meddylia mai y gwrthgiliad hwnw yw y gwrthwynebiad penaf i'n Harglwydd yn ei ddysgeidiaeth a'i awydd.

[b] Sylwer ar y dadguddiad a roddir yma o destun y ddysgeidiaeth apostolaidd (1, 1, 2)' a'i chanlyniad (3). (1.) Tragywyddolrwydd Crist, a'i undeb â'r Tad, Ioan 1, 1: 16, 28: 17, 5, 24. (2.) Ymddangosiad Crist yn y cnawd, ac i bob Cristion, Ioan 1, 14. (3.) Bywyd tragywyddol ynddo *ef*, Ioan 10, 28: 1 Ioan 5, 11. Yn ei chanlyniadau, y mae y genadwri yma yn dwyn i gymmundeb âg apostolion, â Duw, ac â Christ; âg *apostolion*, oblegid yr ydym yn cyfranogi, h. y., yn "cydfwynhau" â hwynt (Act. 4, 32) faddeuant, cariad, a dysgyblaeth dadol, Rhuf. 5, 1: Dad. 1, 9; â *Duw*, oblegid cyfranogwn o'i santeiddrwydd (2 Pedr 1: 2 Ioan 2, 29: 5, 18), a'i fendigedigrwydd; â *Christ*, am ein bod yn cyfranogi o'i gyfiawnhad—ni arglwyddiaetha pechod mwyach arno ef—ei adgyfodiad, ei fabwysiad, a'i ogoniant. Y meddylddrych yma o "gymdeithas," ffurf iselach o'r hon yw cyfraniad arianol, gan eu bod yn cael eu gosod allan drwy yr un gair, *Koinonia*, a eglura lawer o adnodau.

goleuni, ac am hyny rhaid i ddyn fod yn santaidd (2, 3—7); *cariad*, ac am hyny rhaid i ni garu ein gilydd (2, 27). Ac ond gwadu Crist, yr holl fendithion hyn a gollir (2, 22—24).

ii. Dysgir i ni fendigedigrwydd a dyledswyddau maboliaeth. Y mae, nid cymdeithas yn unig, ond mabwysiad hefyd, yn rhagorfraint berthynol i ni yn Nghrist; ac etto arweinir ni i'r un canlyniadau. Y mae Duw yn gyfiawn; ac fel ei blant ef, rhaid i ninnau hefyd fod yn gyfiawn (2, 29: 3, 3). Daeth Crist i gymmeryd ymaith bechod; ac ynddo ef nid oes bechod; rhaid i ni gael ein cydffurfio âg ef (3, 4—10). Rhoddodd ef ei fywyd drosom, ac yn hyn y mae ei gariad yn gynllun i ni (11—18). Gan fod ei ysbryd genym, cawn gyfranogi o'i fendithion ereill hefyd (19—24). Ac etto, gwader Crist, yn enwedig yn ei natur ddynol, a chollir y bendithion yma (3, 19: 4, 6).

iii. Dechreuodd gyda y gwirionedd mai *goleuni yw Duw*; ac oddiwrth hyn dangosodd beth sydd gynnwysedig mewn cymdeithas a mabwysiad; y mae yn awr yn cymmeryd golygiad arall. *Duw, cariad yw* (4, 7, 8). Mai cariad yw ei hanfod, a ddangoswyd yn nghenadwri a chymmeriad ei Fab ef, ac y mae yn un o ammodau anhebgorol maboliaeth (5, 21). Cariad at Dduw ac at ein gilydd, ffydd yn Nghrist, yr ymddiried hwnw sydd yn bwrw allan ofn, y maent oll yn mhlith y canlyniadau a sicrhëir gan y dadguddiad yma. Bydded i ni ond yn unig credu yn wirioneddol fod Duw yn rhoddi i ni fywyd tragywyddol, a bod y bywyd yma yn ei Fab ef, ac yna deuwn yn santaidd a dedwydd: derbyniwn faddeuant a chyfran yn mhlith y rhai a santeiddiwyd. Os gwrthodwn y gwirionedd yma, neu unrhyw gyfran o hono, gadewir ni heb un gobaith. Fel y byd, gorweddwn mewn drygioni (5, 18):

Hynod mor hyfryd yw sylwi pa fodd, oddiwrth santeiddrwydd (goleuni) a chariad Duw y mae efe yn casglu athrawiaeth y prynedigaeth, ac yn profi yr angenrheidrwydd am santeiddrwydd. Cymharer 1, 5;—2, 11: a 4, 7—13.

197. Feallai mai nodwedd gyffredin yr Epistol yma a roddodd achlysur i'r golygiad a goleddid er yn fore, sef fod Ioan yn hynod am serchogrwydd ei dymher; ac ymddengys y golygiad yma yn gywir. Er hyny, nid oes yr un wedi llefaru yn fwy chwerw yn erbyn athrawiaethau gau. Gall y Cristion mwynaf fod yn fab y daran (Luc 3, 13—19) pan fyddo anrhydedd Crist mewn perygl; a gellir arfer rhyddfrydedd wrth gondemnio pechod, yn gystal ag wrth garu y brodyr.

Y gwirionedd y pwysir fwyaf arno yn yr Epistol yma yw, yr angenrheidrwydd am santeiddrwydd, fel prawf ac fel ffrwyth o eiddo ffydd, 1, 6: 2, 3—11, 29: 3, 3—15, 19, 21, 24: 5, 18: Rhuf. 8, 16; Iago 2, 17—26: Tit. 1, 16; 2, 11, 12; Eph. 2, 10; Ioan 15, 2.

Ail Epistol Ioan.

198. O'r tair adnod ar ddeg a wnant i fyny yr Epistol yma, ceir sylwedd wyth o honynt yn y cyntaf; ac oddiwrth unrywiaeth yr ieithwedd a'r pwnc, penderfynir iddynt gael eu hysgrifenu yn nghylch yr un amser, ac o berthynas i'r un materion. Cyfeirir ef at foneddiges Gristionogol a'i phlant, er mwyn eu hannog i barhau yn y gwirionedd, a gochelyd rhoddi cefnogaeth i dwyllwyr. Geilw hi yn Electa, feallai am mai hyn oedd ei henw, neu, yn fwy tebygol (gwel ad. 13), ar gyfrif hynodrwydd ei duwiol-

deb. Nid oes braidd yr un sail i'r dybiaeth fod rhyw eglwys, neu yr eglwys yn gyffredinol, yn cael ei hanerch o dan y teitl yma.

Dengys Epistol wedi ei gyfeirio fel hwn, gyda'r fath serch gwyliadwrus y dylai gweinidogion yr efengyl feithrin duwioldeb y rhai a ennillwyd ganddynt, a dengys yr un mor eglur pa mor bwysig yn ngolwg Duw yw sefyllfa y fam Gristionogol, a'r difrifoldeb gyda pha un y dylai ymroddi er lles crefyddol ei phlant.

Trydydd Epistol Ioan.

199. Mai y *Gaius*, neu *Caius*, at yr hwn yr anfonwyd yr Epistol yma, oedd y person a nodir yn Rhuf. 16, 23, a 1 Cor. 1, 14, sydd yn dra thebygol, er nad yn hollol sicr; yn gymmaint ag yr ymddengys ei fod yn Gristion enwog, a hynod am ei lettygarwch i Efengylwyr a chenadau Cristionogol. Mynega yr apostol ei lawenydd cariadus am y prawf hwn, yn gystal a phrofion ereill o'i dduwioldeb; dywed wrtho am fod yn ochelgar rhag Diotrephes, yr hwn oedd yn hynod am ei uchelgais a'i derfysgedd, a chymmeradwya Demetrius i'w gyfeillgarwch; gan adael materion ereill hyd oni chyfarfyddent yn bersonol.

Feallai fod yr enw "Yr Henuriad," sef yr un a argymmerir gan awdwr yr Epistol hwn a'r un blaenorol, yn cael ei briodoli fel teitl o anrhydedd i Ioan, pan oedd yr holl apostolion ereill wedi marw; oblegid efe oedd yr hynaf o'r holl eglwys; neu, gallasai ei ddefnyddio yn wylaidd, ond gydag hyniad o awdurdod, ar yr achlysur presenol.

Wrth gymharu y ddau Epistol yma â'r un at Philemon, gwelir yn eglur fod yr apostolion yn ysgrifenu fel apostolion hyd y nod yn eu llythyrau cyfrinachol, a'u bod, beth bynag fuasai testun eu gohebiaethau, yn cyfranu i bob un arogl Crist.

Dadguddiad Ioan. Patmos, o. c. 96.

200. Gelwir y llyfr yma yn *Ddadguddiad* (hyny yw, yr amlygiad neu y dadleniad o'r hyn oedd o'r blaen yn guddiedig), am ei fod yn cynnwys, yn benaf, faterion prophwydoliaethol, y rhai a ddadguddiwyd *i* Ioan *gan* ein Harglwydd Iesu Grist. Cymmerodd hyn le pan oedd efe yn Ynys Patmos, yn y Môr Ægeaidd, lle yr alltudiwyd ef, fel y tybir yn gyffredin, gan yr Amherawdwr Domitian, o. c. 94 neu 95. Tybia rhai yn wir i hyn gymmeryd lle lawer yn foreuach, yn ystod yr erlidigaeth dan Nero, o. c. 67 neu 68; ond nid yw y rhesymau a ddygir o blaid y golygiad yma mewn un modd yn benderfynol. Irenæus, Eusebius, ac yn y 3edd ganrif, Victorinus, mewn modd penodol a briodolant y llyfr i oes Domitian; y mae tystiolaeth Clement o Alexandria, Origen, a Jerome, yn ffafriol i'r golygiad yma, ac nid oes yr un traddodiad arall yn yr eglwys *foreuol*. Cadarnhëir hyn hefyd gan brofion mewnol, megys ffyniant erlidigaeth, a'r dirywiad mawr a ymddengys fod wedi cymmeryd lle yn yr eglwys Ephesiaidd, yr hon, mor ddiweddar ag o. c. 62, a ganmolid yn wresog gan Paul am ffyddlondeb a chariad ei haelodau. Gellir ychwanegu, na chafodd un llyfr ei esbonio yn foreuach, ac nad oes yr un yn rhagori arno yn urddas ac aruchelledd ei gyfansoddiad.

Tebygola y llyfr yma yn fawr, mewn ffurf a sylwedd, i eiddo Ezekiel a Daniel. Ymddengys, yn wir, mai parhad ydyw o brophwydoliaethau Daniel, ond wedi ei roddi yn fwy cyflawn a manwl; y prif bethau ydynt yr un, ac y mae y terfyniad yn hollol unol. Cynnwysa ddwy o brif ranau :—

Rhan I. (1.—3) a berthyna i'r "pethau sydd;" yn cynnwys gweledigaeth ddarpariadol, yn arddangos perffeithderau Dwyfol, a chydymdeimlad dynol y Prynwr, yn nghyd a'r anerchiadau neu yr Epistolau at y Saith Eglwys; pob un o ba rai a wneir i fyny o dair o ranau:—1. Y *rhagarweiniad*, yn cyfeirio yn mhob achos at rai o'r priodoliaethau perthynol i'r Hwn sydd yn anerch yr eglwys, a nodir yn y weledigaeth flaenorol, yn yr hwn y canfyddir trefn gynnyddol, a chyfaddasrwydd i rediad cyffredinol yr Epistol sydd yn canlyn; 2. Desgrifiad o *nodweddau yr eglwys*, yn nghyd a chefnogaeth, rhybydd, neu gerydd cyfaddas; ac yn 3. *Addewidion am wobr* i'r rhai sydd yn gorchfygu, y rhai a roddir i'r holl eglwysi.

II. Cymmerir gweddill y llyfr (4.—22) i fyny gan "y pethau a fyddant ar ol hyn." Cynnwysa gyfres o weledigaethau, y rhai, drwy gyfrwng arwydd-luniau ac iaith ffigurol, a osodant allan ryfeloedd a dyoddefiadau pobl Dduw, a'i farnau ef ar eu gelynion; a therfyna gyda darluniad o eglwys Crist, y Jerusalem Newydd, ar ol y farn ddiweddaf. Y prif bethau cynnwysedig yn y brophwydoliaeth yma yw y rhai canlynol:—

Y weledigaeth ragarweiniol, yn arddangos y gogoniant Dwyfol (4.), y rhôl seliedig, a'r Oen yr hwn yn unig sydd deilwng i'w hagoryd (5). Agoriad y chwech sêl gyntaf (6). Seliad y 144,000 o lwythau Israel; ymddangosiad ac addoliad y llu aneirif o blith yr holl genedloedd; ac agoriad y seithfed sêl (7, 8, 1). Gweledigaeth yr angel yn offrymu arogldarth wrth yr allor; yn cael ei chanlyn gan udganiad y chwech udgorn cyntaf (8, 2—13 :-9). Gweledigaeth yr angel cryf, a'r rhôl fechan agored yn ei law; yr hon, ar ol y saith daran, a chyhoeddiad yr angel, y cyfarwyddir Ioan i'w bwyta (10). Mesuriad y deml a'r allor; y ddau dyst; eu prophwydoliaeth, eu marwolaeth, eu hadgyfodiad, a'u hesgyniad; udganiad y seithfed udgorn (11). Gweledigaeth y wraig yn cael ei herlid gan y ddraig; y rhyfel rhwng Michael a'r angylion, a'r ddraig a'i hangylion hithau; cadwedigaeth y wraig yn yr anialwch (12). Y bwysfil yn dyfod i fyny o'r môr, a'r ail fwystfil yn dyfod i fyny o'r ddaear (13). Gweledigaeth yr Oen a'r 144,000 a'r Fynydd Sion; cyhoeddiadau y tri angel, y cynauaf, a'r gwin-gynauaf (14). Y saith angel a'r saith bla; saith phiol yn llawn o ddigofaint Duw (15). Tywalltiad saith phiol y saith bla (16). Desgrifiad yr angel a'r wraig yn eistedd ar y bwystfil (17). Angel arall yn cyhoeddi cwymp a dinystr Babilon (18), yr hyn a ganlynir gan ganiadau o foliant a gorfoledd (18: 19, 1—10). "Gair Duw," yn nghyd a'i ganlynwyr ffyddlawn, gan yr hwn y mae y bwystfil a'r gau-brophwyd, a'r breninoedd ymgynghreiriol, yn cael eu dymchwelyd a'u gorchfygu (19, 11—21). Rhwymiad y ddraig, a'i charchariad am fil o flynyddoedd, yn ystod pa rai y mae y saint yn byw ac yn teyrnasu gyda Christ; ar derfyniad y rhai hyn y mae Satan, wedi ei ollwng yn rhydd drachefn, unwaith etto yn casglu y cenedloedd yn nghyd i wneuthur rhyfel yn erbyn "y ddinas anwyl," pan y mae efe a'i luoedd gwrthryfelgar yn cael eu dymchwelyd am y tro olaf, a'u bwrw i'r llyn o dân (20, 1—10). Gweledigaethau y farn ddiweddaf, y nef a'r ddaear newydd, a'r Jerusalem nefol (20, 10 :—22, 5); yn cael eu canlyn gan anerchiadau diweddol oddiwrth yr angel, oddiwrth Grist, ac oddiwrth yr apostol, yn mynegu dechreuad Dwyfol, sicrwydd hollol, a chyflawniad buan y prophwydoliaethau yma (22, 6—21).

Yn fyrach, y mae y cwbl wedi cael ei symio i fyny fel hyn:—

Cawn *yn gyntaf* saith Epistol at y saith eglwys (1.—3); ac yn *seithfed*, tua'r diwedd, y Jerusalem Newydd neu nefol (21.—22).

Cawn *yn ail*, saith se[illegible]gaeth, yn *arwyddluniau*
yn drydydd, u[illegible]ion ar genedloedd
yn bedwerydd, tr[illegible]l eu cyflawnu
rhyfela yn erbyn [illegible] feinig, a'r
yn bummed, saith p[illegible] 10.
yn chweched, y mae t[illegible]
(17—20.)

Gyda'r gwrthddrychau canolbart[illegible]
Satan, y mae y bwystfil a'r gau-brop[illegible]
feydd rhagarweiniol neu ddiweddol.

201. Cyfarfyddwn, wrth ddehongli y [illegible]
derau. Mae yn wir fod ystyr gyffredino[illegible]
eglur, gan eu bod yn fynych yn seiliedig a [illegible] eu
defnyddio gydag unffurfiaeth, ond nid ydyw [illegible]uniau
at ddygwyddiadau neillduol mewn un mo[illegible]nddengys
egwyddor a fabwysiadwyd gan y Deon Woodho[illegible] o dderbyn-
iad cyffredinol, sef, oddieithr fod iaith ac arwydd[illegible] Dadguddiad yn
gofyn cymhwysiad gwahanol, fod ei brophwydoliae[illegible]au i'w cymhwyso at
ddygwyddiadau a gymmerant le yn nheyrnas gynnyddol Crist, neu yn hanes
yr eglwys Gristionogol o'r oes apostolaidd hyd ddiwedd amser. Hanes yr
eglwys yw y Beibl, gydag eiddo cenedloedd ereill, cybelled yn unig ag y
maent yn dàl cyssylltiad â hi. Ac nid ydyw ond rhesymol dysgwyl yn y
Dadguddiad am yr un gwirionedd cyffredinol ag sydd i'w gael mewn manau
ereill. Ac y mae holl gyssondeb yr Ysgrythyr yn pleidio y golygiad yma.

Ar weledigaethau prophwydol y Dadguddiad.

Megys nad oes yr un gyfran arall o'r Ysgrythyr santaidd yn fwy anhawdd, felly nid oes yr un ag egluriadau mwy amrywiaethol wedi eu rhoddi iddi. Gellir trefnu y gwahanol ddamcaniaethau o dan dri o benau.

I. Ystyria rhai fod y rhan fwyaf o'r prophwydoliaethau yma wedi cael eu cyflawniad yn oesoedd boreuol yr eglwys.

Yn y golygiad yma y mae Grotius, Hammond, Wetstein, Eichhorn, De Wette, Lee, Stuart, a Hug yn cyduno, ac wrth gwrs dadleuant dros ddyddiad boreuaf y llyfr. Hwn yw y dehongliad *cyflawnedig (preterist)*.[a]

Y Proffeswr Stuart, yr hwn a bleidia y golygiad yma, a ddospartha y cyfan i dri o ddrwg-ddiweddiadau *(catastrophes)* mawrion; y cyntaf (pen. 6—11) yn darlunio dinystr Jerusalem, *a dymchweliad y gallu erlidigaethus Iuddewig*, drwy gyfres o farnedigaethau Dwyfol; ac, ar yr un pryd, waredigaeth y Cristionogion:—yr ail (pen. 11—19) a ddarlunia *ddinystr gallu erlidigaethus Rhufain*, a goruchafiaeth Cristionogaeth ar baganiaeth:—a'r trydydd (pen. 20—22), yr ymdrechiadau mawrion olaf (sydd o hyd i ddyfod) o eiddo galluoedd annghristiaidd paganaidd, yn terfynu mewn llwyr ddymchweliad y galluoedd hyn eu hunain; a'r cwbl yn cael ei ganlyn gan y farn ddiweddaf, cospedigaeth dragywyddol y drygionus, a chyflwr gogoneddedig y cyfiawn.

II. Ail ddosparth o esbonwyr, yn cynnwys y rhan amlaf o ysgrifenwyr Protestanaidd, a ystyriant y prophwydoliaethau yma fel darluniad o nodweddau mawrion yn hanes y byd, neu yr eglwys, o'r oes apostolaidd hyd ddiwedd amser.

[a] Y braslinellau yma, yn gystal a rhanau o'r rhagarweiniadau i amryw o'r Epistolau, ydynt wedi eu cymmeryd o'r Beibl Gwahanredol (*Paragraph*) i'r Llogell, cyhoeddedig gan Gymdeithas y Traethodau Crefyddol.

Er fod rhai rhanau o'r llyfr yn cael eu trin megys yn gydamserol (*synchronological*), etto edrycha y dehongliad yma ar y mynegiad fel hanes *barhaol*, yn cyrhaedd yn mlaen hyd ddiwedd amser. Ei phleidwyr yw Mede, Syr I. Newton, Vitringa, Esgob Newton, Scott, Forbes, Frere, Cuninghame, Woodhouse, Elliott, Keith, a Birks.

Tra y cydunant yn y golygiad cyffredinol yma, dangosant, fodd bynag, yr amrywiaeth mwyaf mewn barn o berthynas i gymhwysiad y gwahanol arwydd-luniau; rhai a'u hestynant i raddau mwy neu lai at ddygwyddiadau hanesiaeth gyffredin, tra y mae ereill yn eu cyfyngu yn gyfangwbl at amgylchiadau yr eglwys.

Yn ol y cynllun dehonglyddol a fabwysiadwyd gan y diweddar *T. Scott*, y saith SEL gyntaf (pen. 6) a ragfynegant, yn gyntaf, lwyddiant boreuol Cristionogaeth, ac wedi hyny ddymchweliad graddol amherodraeth erlidigaethus Rhufain baganaidd, drwy farnedigaethau olynol, nes iddi gael ei therfynu yn nhroedigaeth yr amherawdwyr at Gristionogaeth. Yn y pedwar UDGORN cyntaf (pen. 8), rhagfynegir dinystr graddol yr amherodraeth Rufeinig gan y Gothiaid, yr Huniaid, y Mooriaid, a'r Vandaliaid; ac yn y *pummed* a'r *chwecked* (pen. 9), darlunir lledaeniad Mahometaniaeth, ar y cyntaf dan y Saraceniaid, ac wedi hyny dan y Tyrciaid. Dehonglir pen. 11. fel rhagfynegiad o gyflwr llygredig yr hyn a elwid yn eglwys Gristionogol, am dymmor o 1260 o flynyddau; yn ystod yr oll o hono, fodd bynag, y mae nifer digonol o dystion yn dyoddef dros y gwirionedd, ac yn ardystio yn erbyn y llygredigaethau hyn, nes, yn y diwedd, y maent yn cael eu lladd, a'u tystiolaeth yn cael ei dystewi am ond ychydig iawn o amser. Ystyrir yr amgylchiadau olaf a nodwyd fel rhai i ddyfod. Cyfeiria pen. 12 etto, gyda mwy o fanylwch nag o'r blaen, at y chwyldröad drwy yr hwn y daeth yr amherodraeth Rufeinig yn un Gristionogol mewn proffes. Rhagfynega pen. 13 gyfodiad, sefydliad, ac awdurdod amherodraeth Rhufain *Babaidd*, fel y *bwystfil deg corniog;* yr offeiriaid Rhufeinig fel y *bwystfil deugorn;* a'r Pab fel *delw* y bwystfil. (Tybir fod y rhai hyn wedi hyny yn cael eu darlunio yn fwy cyflawn yn pen. 17). Cyfeiria pen. 14 at yr ymdrechion a wneir gan wir gredinwyr yn erbyn y gallu annghristiaidd hwn. Y saith PHIOL (pen. 16) a ragfynegant gyfres o farnedigaethau (yr oll, neu y rhan amlaf o lawer o ba rai ydynt etto heb eu cyflawnu), drwy ba rai y bydd i'r amherodraeth Babaidd, a Rhufain ei hunan, gael eu llwyr ddifrodi, megys y mynegir yn pen. 18.

Y mae gwaith manylgraff *Mr. Elliot (Horæ Apocalypticæ)* yn myned yn mlaen ar egwyddorion cyffelyb, ond gyda mwy o fanylwch, a llawer iawn o wahaniaethau pwysig, yn y cymhwysiad. Tybia efe fod y chwech SEL gyntaf (pen. 6) yn gosod allan chwech o gyfnodau nesaf i'w gilydd yn hanes yr amherodraeth Rufeinig, rhwng oddeutu o. c. 96 a 324; sef, 1af, Cyfnod o goncwest a llwyddiant:—2il, Rhyfel cartrefol a thywallt gwaed:—3ydd, Gormes ardrethol a thrymder drygfyd:—4ydd, Difrodiad ëangfaith:—5ed, Erlid a merthyru Cristionogion:—6ed, Dymchweliad paganiaeth gan Gystenyn. "Seliad gweision Duw" (pen. 7, 1—8) a ddynoda gadwedigaeth gweddill ffyddlawn yn ystod y gwrthgiliad mawr. Y CHWECH UDGORN cyntaf (pen. 8, 9) a ddesgrifiant gyfres o orthrymderau barnol ar yr amherodraeth Rufeinig, drwy oresgyniadau y Gothiaid, y Vandaliaid, yr Huniaid, y Saraceniaid, a'r Tyrciaid. Y "llyfr bychan," a'r gweledigaethau canlynol (pen. 10; 11, 1—13), ydynt ddadguddiad attodiadol, yn cyfeirio yn benaf at gyfnod y Diwygiad; *mesuriad y Deml* yn dynodi ysgariaeth y wir eglwys oddiwrth yr un wrthgiliedig; a'r *ddau dyst* (pen.

11, 3—13) yn gosod allan olyniad deublyg o eglwysi Cristionogawl ffyddlawn yn mharthau Dwyreiniol a Gorllewinol y byd Cristionogol. Yn pen. 11, 14—19, cymmerir yr hanes brophwydoliaethol i fyny cylwaith gydag udganiad y *seithfed udgorn;* ond rhwystrir hi wedi hyny yn pen. 12, 13, gan gyfres neillduol o weledigaethau; sef eiddo "y wraig wedi ei gwisgo â'r haul" (pen. 12), yn darlunio yr ymdrech rhwng yr Eglwys Gristionogol a'r ddraig baganaidd; y *bwystfil cyntaf* â'r *deg corn* (pen. 13, 1—10), yn dynodi y gallu Rhufeinig dan ei ben Pabaidd; yr *ail fwystfil deugorn* (pen. 13, 11—18) yn gosod allan lywodraeth yr Eglwys Rufeinig, a'i dwy urdd o wyr llên (*clergy*); a "delw y bwystfil" yn arddangos cynghorion cyffredinol yr Eglwys Babaidd. Ar ol cyfres o weledigaethau cyfryngol (*intermediate*) ereill yn pen. 14, eir yn mlaen â'r hanes brophwydoliaethol yn pen. 14—16, drwy dywalltiad y saith PHIOL, y rhai a gymhwysir at ddygwyddiadau a gyfodasant allan o'r Chwyldröad Ffrengig, a ddechreuodd yn 1789. Y *chweched*, yr hon a ddehonglir fel yn gosod allan farnedigaethau ar yr amherodraeth Dyrcaidd, yn ol y cynllun yma, a ffurfia y llinell derfynol, yr hon sydd yn ysgaru yr hyn sydd wedi myned heibio oddiwrth yr hyn sydd i ddyfod.

Y *Dr. Keith* a ddehongla y *chwech sêl gyntaf* (pen. 6), fel yn gosod allan eglwys Crist, a'r amrywiol ffurfiau o grefyddau gau oedd i ymosod arni; sef, y sêl 1af, Yn darlunio yr Arglwydd Iesu Grist, a'r grefydd Gristionogol; yr 2il, Mahometaniaeth; y 3edd, Pabyddiaeth yn yr oesoedd tywyll; 4edd, Anffyddiaeth; 5ed, Cyflwr isel ac erlidigaethus y wir eglwys mewn oesoedd a aethant heibio; 6ed, "Dydd mawr digofaint yr Arglwydd," sydd etto heb ei gyflawnu. Eglura y chwech UDGORN cyntaf (pen. 8, 9), fel yn desgrifio y gyfres o ddygwyddiadau a derfynasant yn nifodiad yr amherodraeth Rufeinig. Cymhwysa y gweledigaethau yn pen. 10 at ddygwyddiadau yn Ewrop, yn ystod ac ar ol tymmor y Diwygiad. Ystyria mai eglwysi ffyddlawn Crist yw y *ddau dyst* (pen. 11); ac nad ydyw adeg eu *prophwydo mewn sachlian* am 1260 o flynyddau wedi myned heibio etto. *Y wraig wedi ei gwisgo â'r haul, &c.* (pen. 12), a gynnrychiola hanes Cristionogaeth, ac ymdrechion yr eglwys yn erbyn ei gelynion paganaidd a phabyddol. Y *bwystfil* cyntaf a'r ail (pen. 13), yw Rhufain amherodrol a phabaidd. Y saith PHIOL (pen. 14, 15), yw barnedigaethau Duw ar y Babaeth; cyflawnwyd y *pump* cyntaf o honynt yn y chwyldröad Ffrengig, ac yn y rhyfeloedd a'i canlynodd; ac y mae y *chweched* phiol, yr hon a ddynoda ddadfeiliad a diddymiad yr amherodraeth Dyrcaidd, yn awr yn cael ei chyflawnu.

Y *Deon Woodhouse*, gan fabwysiadu fel egwyddor sylfaenol gyfeiriad *crefyddol* yr holl arwyddluniau, a edrycha ar y SELIAU fel yn rhoddi braslun cyffredinol o hanes yr eglwys Gristionogol;—y *tair gyntaf* yn cyrhaedd i'r canol oesoedd; y *bedwaredd* yn gosod allan yr ormes Babyddol; y *bummed* yn arddangos merthyron yr holl dymmor; a'r *chweched* yn darlunio buddugoliaethau yr eglwysi Diwygiedig, a dymchweliad dynesol holl elynion Duw. Tybia efe fod yr UDGYRN yn myned dros yr un tir, ond gyda mwy o fanylwch; gan ddesgrifio ymosodiadau hereticiaid a llygrwyr annghristiaidd ar y grefydd Gristionogol; y *pedwar* cyntaf yn perthyn i'r ymosodiadau a wnaed arni yn ei hoesoedd boreuol gan elynion Iuddewig a phaganaidd; y *pummed* i heresi y Gnosticiaid; a'r *chweched*, i'r galluoedd Mahometanaidd. Ystyria y PHIOLAU fel yn arwyddo gweinyddiadau di-

lynol dialedd Duw ar elynion ac erlidwyr ei eglwys, y rhai ydynt etto heb eu cyflawnu.

Cynllun dehonglyddol arall, seiliedig ar yr un egwyddor gyffredinol a'r un blaenorol, ond yn amrywio llawer yn ei gymhwysiad, a'r hwn a gynnygir mewn gwaith a gyfenwir "Llyfr y Dadleniad, gyda Nodiadau," sydd fel y canlyn:—Y SELIAU (pen. 6), a gynnrychiolant gyfnodau gwahanol yn hanes yr eglwys; sef, 1af, Buddugoliaethau boreuol yr efengyl; 2il, Erlidigaeth drom; 3ydd, Cystudd, newyn, a drygfyd cyffredinol, yn dymmorol ac ysbrydol; cyflawnedig yn ngoresgyniadau yr amherodraeth Rufeinig gan genedloedd Gogleddol, ac yn nhywyllwch a dadfeiliad yr eglwys; 4ydd, Llygriad arswydus, gwrthgiliad, ac erlidigaeth; yn cynnwys y tymmor o sefydliad y Babaeth hyd y Diwygiad; 5ed, Tymmor o dawelwch ac adfywiad cymharol, yn dechreu gyda'r Diwygiad, ac yn cyrhaedd hyd yr amser presenol; 6ed, Ysgydwad yn mysg y cenedloedd, chwyldröad cyffredinol, a dychryn mawr, o hyd i ddyfod, ond etto yn agos. Gan fod, yn ol y cynllun yma, y *saith sêl*, a'r *saith udgorn*, a'r *saith phiol*, o hyd i ddyfod, ni wneir un cynnyg i'w hegluro; ond ystyrir y gyfres o weledigaethau yn pen. 12.—16, 16, fel yn eglurhäol o'r gweledigaethau yn pen. 6—9, ac yn gydamserol â hwynt:—pen. 6 yn cyfateb i pen. 12, 13; pen. 7 yn cyfateb i pen. 14, 15; pen. 8, 9, yn cyfateb i pen. 16, 1—16; a phen. 11, 15—19, yn cyfateb i 16, 17—21.

Yn ol golygiad arall a gymmerir ar gynllun y llyfr hwn, rhoddir ystyr mwy cyffredinol i lawer o'r arwyddluniau; a meddylir nad ydyw y pynciau wedi eu cyfleu mewn trefn amseryddol gyda manylwch. Er enghraifft, tybir nad ydyw y golygfeydd cyflwynedig ar udganiad y pedwar *udgorn cyntaf* (pen. 8, 7—12) yn cyfeirio mewn modd unigol at unrhyw leoedd, amseroedd, na phersonau neillduol, ond eu bod yn rhagfynegu golygfeydd o ddifrodiad, y naill yn cyfodi uwchlaw yr un blaenorol mewn arwyddion dychrynllyd o wae; y *wlad*, a'i maesydd ffrwythlawn, yn dyoddef yn gyntaf; wedi hyny, y gororau arforawl, a'r *môr*; yna yr *afonydd*, yn nghyd a'r dinasoedd ar eu glànau; ac yn ddiweddaf, *goleuadau* y nefoedd. Dadleuir fod cyflwyniad rhanau amrywiol o'r greadigaeth yn yr arwyddluniau yma, ymddyrchiad y gyfres i uchraddiaeth (*climax*), a bod y mynegiad yn mhob un yn cael ei adrodd, sef fod y drydedd ran o bob un wedi cael effeithio arnynt, yn awgrymu natur *gyffredinol* y brophwydoliaeth. Yn yr un modd, pan, ar dywalltiad y *pedair phiol gyntaf* (pen. 16, 2—9), yr effeithir yn olynol ar y *tir*, y *môr*, yr *afonydd*, a'r *haul*, gan farnedigaethau oddiwrth Dduw, a hyny mewn modd mwy arswydus ac ëang fyth, ni edrychir ar y gweledigaethau hyn fel yn meddu unrhyw gymhwysiad cyfyng ac unigol; ond edrychir arnynt mewn cyssylltiad â'r gweledigaethau sydd yn canlyn (pen. 16, 12—21), fel yn gosod allan farnedigaethau Duw yn dyfod gyda chyflawnder cynnyddol ar y cyfryw a barhant mewn gwrthryfel yn ei erbyn ef.

Un cynllun cynnygiedig ar yr egwyddorion yma (*Biblical Review*, 1847), sydd o ran sylwedd fel y canlyn:—Fod y *chwech* SEL gyntaf (pen. 6) yn gosod allan farnedigaethau olynol Duw ar y *genedl Iuddewig*, ac yn terfynu yn ei llwyr ddymchweliad, ar gyfrif ei gwrthwynebiad i deyrnas Crist, a'i herlidigaeth o'i bobl ef; tra y mae y gweledigaethau yn pen. 7 yn dangos cadwedigaeth gweision Duw, yn gyntaf yn mhlith y bobl Iuddewig, ac wedi hyny yn mhlith y cenedloedd:—Fod yr UDGYRN (pen. 8, 9), y rhai

a ffurfiant ganolbwnc y gyfundraeth nesaf o weledigaeth, yn *arwyddluniau cyffredinol* o ddifrodiad helaeth a gwasgfeuon trymion ar genedloedd *paganaidd* ac *eilun-addolgar* (gwel pen. 9, 20); iddynt gael eu cyflawnu mewn rhan yn y drygau a syrthiasant ar yr amherodraeth Rufeinig, a'r rhai a arweiniasant i'w dinystr:—Fod y gweledigaethau canlynol (pen. 10, 11, 1—13), wedi eu bwriadu i arwain y meddwl yn mlaen oddiwrth y barnedigaethau ar yr annuwiolion at amser cyflawniad addewidion Duw i'w bobl;—Fod dwy weledigaeth y *deml a'r allor*, a'r *ddau dyst*, yn ddarluniad cyffredinol o swydd, cyflwr, a rhagolygiadau yr eglwys Gristionogol—terfynir y gyfres yma o weledigaethau gydag udganiad y seithfed udgorn, pan gwblhëir barnedigaethau Duw, ac y darostyngir y byd dan ei lywodraeth ef, pen. 11, 14—19:—Fod cyfres newydd yn dechreu gyda pen. 12, y gweledigaethau yn pen. 13 yn gosod allan y ddwy brif oruchwyliaeth a ddefnyddir gan Satan yn ei wrthwynebiad i Grist; sef y *bwystfil cyntaf* (ad. 1—10), yn dynodi gallu daearol gormesol, yn gwrthwynebu llywodraeth Duw, ac yn erlid ei bobl ef; a'r *ail fwystfil* (ad. 11—18), yr hwn a gynnorthwya y cyntaf, ac a gynnrychiola allu yr offeiriadaethau gau, y rhai ydynt yn seiliedig ar dwyll, ac a ddygir yn mlaen drwy gyfrwng yspeiliaeth gymdeithasol, a gormesiaeth ar iawnderau y bobl;—Fod y saith PHIOL, neu lestri o bläau, yn pen. 16, ar ol gweledigaethau rhagarweiniol yn pen. 14, 15, yn arddangos drygau trymion a helaeth ar garwyr y byd hwn, ac o awdurdod a choelgrefydd yn mysg Cristionogion proffesedig; a bod y *wraig yn eistedd ar y bwystfil* (pen. 17), a *Babilon* (pen. 18), yn ddarluniad deublyg o'r un gwrthddrych, sef pob cyfundraethau annghristiaidd ac erlidigaethus, yn trawsfeddiannu enw a lle gwir eglwys Crist, yn cael eu cynnal gan awdurdodau gwladol, a'u llywodraethu gan egwyddorion daearol; ac fel hyn, yn cyfeirio yn eglur at Rufain a'r Babaeth, ond nid atynt hwy yn unig.

III. Dosparth arall o ddehonglwyr, gan gymmeryd golygiad hollol wahanol i'r rhai a nodwyd eisoes, a ystyriant fod y rhan fwyaf, os nid yr oll, o'r gyfres yma o brophwydoliaethau, yn perthyn, yn eu hystyr gyfyngaf a chyflawnaf, i'r *dyddiau diweddaf*.

Y dehongliad yma yw y *dyfodol*, ac y mae wedi cael ei bleidio gan Maitland, Burgh, ac ereill.

Yn ol y cynllun yma, golygir yr holl ran brophwydol o'r Dadguddiad fel arddangosiad o ddygwyddiadau sydd i gymmeryd lle ychydig cyn ail ddyfodiad Crist, a chyflawniad pob peth; yr *Israel* y lleferir am danynt yma yw yr Israel *llythyrenol*—y ddau dyst ydynt ddau berson, Moses ac Elias, y mae yn debygol,—y *dyddiau* yn y cyfnodau amseryddol ydynt ddyddiau llythyrenol,—ac annghrist neu *fwystfil* y Dadguddiad, dan ei ben diweddaf, sydd annghrist anffyddol personol, yr hwn sydd i deyrnasu drosholl helaethrwydd yr hen amherodraeth Rufeinig, ac i erlid y saint, a gorfoleddu arnynt, am dair blynedd a hanner, hyd oni ddelo Crist i'w ddystrywio. Ystyria Mr. Burgh, mai y llyfr neu hawlfraint *(title-deed)* etifeddiaeth Crist, yr hon sydd wedi ei phrynu (Eph. 1, 14), ond hyd etto heb ei hadferu o ddwylaw y trawsfeddianydd, yw y "llyfr seliedig" (pen. 5, 6);—ac mai agoriad y seliau yw dadleniad gweithredoedd Crist, pan y bydd iddo amddiffyn ei etifeddiaeth, a chymmeryd meddiant o'i orsedd—a bod yr holl weledigaethau canlynol yn cael eu cymmeryd i fyny gan ddygwyddiadau y cyfnod mawr olaf hwnw.

202. Os o herwydd anhawsderau y llyfr hwn y temtir neb i drin yr Ysgrythyrau prophwydol gydag ysgafnder, cofier ei bod yn dra thebygol fod prophwydoliaeth henafol yn gymmaint o ddirgelwch i Iuddew ag yw Llyfr y Dadguddiad i ni. Na chawsai mab i Dafydd weled llygredigaeth, y buasai y mab hwnw yn cael ei gyfrif gyda throseddwyr, ei osod i farwolaeth waradwyddus, ac etto eistedd yn dragywyddol ar ei orseddfa ef, a ymddangosent yn ddirgelion dyfnion. Cyflawnwyd hwynt oll, fodd bynag, a gwasanaethent yn y cyfamser i gynnal gobeithion y rhai oedd yn dysgwyl "am ddyddanwch yr Israel:" ac felly am y llyfr yma.

203. Beth bynag yw yr amrywiaeth barn all fodoli yn mhlith esbonwyr, o berthynas i'r amserau a'r gwledydd, y dygwyddiadau a'r personau pennodol, at y rhai y tybir fod y gweledigaethau yma yn cyfeirio, y maent yn cyduno gan mwyaf am gymmeriad cyffredinol ac amcan y llyfr, ynghyd a'r gwersi sydd i'w tynu oddiwrtho—gwersi sydd, i raddau mwy neu lai, yn gymhwysiadol at bob oes yn hanes yr eglwys.[a] Fel hyn y mae pawb wedi dysgu oddiwrth y darluniadau arwyddluniol yma, fod Crist wedi ei ddyrchafu i'r anrhydedd uchaf yn y nefoedd, a'i fod yn arfer llywodraeth gyffredinol ar y ddaear—fod cyflwr eglwys Crist i fod am hir amser yn un o drallod a rhyfel—mai sefydlogrwydd a ffyddlondeb yw ein dyledswydd ni—y buasai y gelyn mawr, ar ol dymchweliad yr Iuddewon, gwrthwynebwyr cyntaf yr eglwys, yn defnyddio galluoedd ereill yn ei herbyn—y buasai cynlluniau gwladyddol, a galluoedd bydol, yr erlidiwr a'r gau-brophwyd, yn ymgynghreirio i geisio ei dystrywio neu ei llygru hi—mai nodau y cyssylltiadau halogedig yma yw balchder, rhwysgedd bydol, ysbryd erlidigaethus, a bywyd diofal a moethus (13, 7: 18, 3—24)—y buasai yr eglwys, tra yn agored i ymosodiadau y gelynion hyn, bob amser o dan amddiffyniad Dwyfol—fod dymchweliad sicr yn aros pob peth gwrthwynebol i deyrnas Crist—fod y cyssylltiad mwyaf cysson ac agos yn bodoli, hyn y nod yn awr, rhwng y byd gweledig a'r un anweledig—fod gweddi a mawl yn parhaus esgyn at orsedd Duw, a chenadon o ddigofaint a thrugaredd yn disgyn oddiyno—fod rhagluniaeth a llywodraeth Duw yn cynnwys pob gwrthddrychau a dygwyddiadau, ac yn eu gwneuthur yn wasanaethgar i'r amcanion goreu—y bydd i'r eglwys, ar ol myned drwy gyflwr o iselder, rhyfel, a gorthrymder, gael ei dwyn i gyflwr o anrhydedd, heddwch, a dedwyddwch—fod y Ceidwad, yr hwn a brynodd ei bobl drwy aberthu ei hun, yn edrych ar ei bobl bob amser gyda thynerwch a thosturi anfeidrol, ei fod yn eu cynnorthwyo ac yn eu hamddiffyn â'i nerth Hollalluog, ac y bydd iddo eu derbyn yn y diwedd i'w deyrnas nefol—ac, yn ddiweddaf, pan y bydd y bôd ansantaidd wedi ei ysgymmuno, y bydd i holl ganlynwyr Crist, o bob oes a gwlad, gael eu huno yn un gymdeithas ogoneddus, yn arddangos santeiddrwydd perffaith, ac yn mwynhau dedwyddwch tragywyddol yn mhresenoldeb eu Duw a'u Ceidwad. Dyma rai o'r gwirioneddau pwysicaf a gynnwysir yn y llyfr hwn; gosodir hwynt gerbron gyda bywiogrwydd a nerth neillduol; ac y maent wedi cyfranu llawer tuag at ffydd a chariad, gwroldeb ac amynedd, gobaith a llawenydd, holl ganlynwyr yr Arglwydd.

204. Yn mysg gweledigaethau prophwydol y Dadguddiad, ymddengys un yn hynod amlwg (17, 18): ac y mae yn casglu pwysigrwydd yn gystal

[a] Gwel Delta ar y Dadguddiad, Nisbet, 1850.

ac eglurder mwy oddiwrth awgrymiadau prophwydol ereill, y rhai, fel y mae yn eglur, a gyfeiriant at yr un pwnc, 2 Thess. 2, 3—12: 1 Tim. 4, 1—5. Y mae unoliaeth anghyffredin rhwng y rhan amlaf o'r esbonwyr goreu wrth egluro y prophwydoliaethau cyssylltiadol yma; er fod rhai yn eu hystyried yn perthyn i ddygwyddiadau sydd o hyd i ddyfod. Ystyrir hwynt yn rhagfynegu cyfodiad a goruchafiaeth dymmorol rhyw allu gwrthgiliadol mawr, yn nghanol yr eglwys Gristionogol, yr hwn tuasai yn cael ei hynodi gan y nodweddau canlynol:—

1af. Llygriad mawr ar grefydd, yr hwn lygriad, drwy dwyll yn gystal a thrwy nerth, a wasgerir ac a gynnelir ganddo drwy y byd, 2 Thess. 2, 3, 8—10: 1 Tim. 4, 1, 2: Dad. 17, 2—5: 18, 3—5: 19, 2. 2il, Anfoesoldeb a phenryddid dirfawr, yn gyssylltiedig â meudwyaeth falch a hunangyfiawn, 1 Tim. 4, 2, 3. 3ydd, Honiadau rhyfygus a chableddus, trawsfeddianniad o ragorfreintiau Dwyfol, gwrthryfel yn erbyn Duw, ac erlidigaeth ar ei bobl, 2 Thess. 2, 4, 5: Dad. 17, 6—14: 18, 6—20: 19, 2. 4ydd, Cyfoeth mawr, gorwychedd a moethusrwydd, Dad. 17, 4: 18, 7, 8, 11—19. 5ed, Ymddibyniad ar gynnaliaeth a chymhorth galluoedd gwladol, gormes y rhai a ganiatëir ac a amddiffynir ganddo, Dad. 17, 1, 2, 15, 17: 18, 3, 9.

Y fath yw y darlun a dynir gan law prophwydoliaeth o'r gwrthwynebydd a'r gelyn hwn i Dduw, sydd yn eistedd yn ei deml ef, a chanfyddir y sylwedd o hono yn ddigon eglur yn hanes rhan fawr o'r byd Cristionogol. Allan o'r cyflawnder o brofion a roddir gan ysgrifeniadau yr eglwys, yn ystod y nos dywell a hirfaith y mae wedi myned drwyddi, ac hyd y nod gan gyflwr presenol y byd, y mae yn ddigonol nodi rhai o brif nodweddau cymmeriadol y gyfundraeth o ddrygioni, yn yr hon, mewn modd arbenig, y mae cyflawniad y prophwydoliaethau yma i'w canfod. Llygredigaethau mawrion yn yr athrawiaeth ac addoliad Cristionogol:—gweddwdod gorfodol a gerwindeb anorchymynedig, yn gyssylltiedig â gorwychedd anllad, a defod-lyfr Iuddewig twyllodrus:—argymmeriadau cableddus o deitlau ac urddas Dwyfol, honiadau o anffaeledigrwydd, ac awdurdod oruchel dros gydwybod:—gollyngdod a maddeuant o bechodau, prophwydoliaethau a gwyrthiau twyllodrus:—gormesiad ac erlidiad pobl Dduw, yn cael eu dwyn yn mlaen drwy gyduniad a chymhorth llywodraethwyr daearol:—y mae yr holl bethau hyn wedi cael eu dadlenu, i raddau mwy neu lai, yn y cyfundraethau gwrthgristiaidd hyny, sydd, yn Nwyreinbarth a Gorllewinbarth Ewrop, wedi ffynu i raddau mor helaeth, er rhwystr i wasgariad gwirionedd Dwyfol, ac er hudoliaeth ddinystriol i filoedd, y rhai, wedi eu dallu gan gyfeiliornad, a drengant yn eu pechodau.

Nid golygfeydd ofnadwy y gwrthgiliad yma, fodd bynag, yw golygfeydd diweddol y llyfr yma. Y rhai "drygionus," neu "yr un digyfraith," "a ddifetha yr Arglwydd âg ysbryd ei enau," 2 Thes. 2, 8. Yr hon a lygrodd y ddaear a fernir, Dad. 19, 2. A'r dygwyddiad mawr yma, yr hwn a achosa alar i rai ar y ddaear, fydd yn achlysur o lawenydd a diolchgarwch mawr yn y nef, Dad. 18, 9—19; 19, 1—6. Clywir yno y floedd "Allelwia" eilwaith, ac eilwaith, ac eilwaith; a gelwir ar weision Duw ar y ddaear i ymuno yn y gân.

205. Y mae ein gwaith ar ben. Y pennodau cyntaf yn Mathew a ddangosant Grist yn ei wendid; o ddisgyniad breiniol, mae yn wir, ac yn derbyn yr addoliad dwysaf, ond etto yn dlawd ac erlidiedig; yr olaf o'r Dadguddiad a'i dengys gydag adgofion o'i ddyoddefaint—oblegid Oen ydyw o hyd—ond yn fuddugoliaethus, "yn teyrnasu yn oes oesoedd." Yn Genesis gwelwn Baradwys yn cael ei cholli, a dyn yn cael ei yru allan o bresenoldeb yr Arglwydd; yn y Dadguddiad y mae mwy nâ Pharadwys wedi ei hadennill, ac *unwaith etto* y mae dynion mewn cymmundeb â Duw (22, 3, 4, 5), cymmundeb annherfynol. Dibenodd Malachi gyda "melldith," geiriau olaf Ioan ydynt eiriau o fendith (22, 21). Mor nodweddiadol yw holl amrywiol ranau y Gyfrol Ysbrydoledig: mor gyflawn yw y cyfan.

GOFYNIADAU

AR

LAW-LYFR Y BEIBL;

SEF

Arweiniad i Fyfyrdod o'r Ysgrythyrau Santaidd.

Gofyniadau yn dàl perthynas â'r rhanau hyny o'r llyfr sydd yn gyfaddas i fyfyrwyr fyddo wedi myned yn mhell yn mlaen a ddynodir drwy [a]. Gofyniadau y mae yn angenrheidiol i'r Athraw eu hegluro a nodir [b]. Am hyfforddiad cysson o bynciau neillduol, gwel y Mynegai i'r Llyfr ei hunan.

RHAN I.

Rhagarweiniad, adran 1—5.

Paham y dylai y Beibl gael ei fyfyrio? Rhoddwch syniadau Boyle, Payson, a Pollok. Pa ddau ocheliad sydd yn anhebgorol angenrheidiol wrth fyfyrio llaw-lyfr i'r Beibl? Rhoddwch ystyr y geiriau canlynol:—Beibl, Testament, Oraclau Duw, y Canon, Gair Duw. Pa fodd y rhanai yr Iuddewon lyfrau yr Ysgrythyr, a pha beth yw y dosraniad presenol a dderbynir ganddynt?

[a]Rhoddwch ystyr darddiadol liber, [b]llyfr, *diatheke, suntheke;* Hagiographa, canon, ac eiddo enwau Hebreig dosraniadau yr Ysgrythyr.

[a]Yn Ioan 10, 34, dyfynir cyfran o'r 82fed Salm, fel pe byddai wedi ei gymmeryd o'r gyfraith: Pa fodd yr ydych yn egluro y gwrthddywediad ymddangosiadol yma? Rhoddwch enghreifftiau cyffelyb. Gwel adr. 49, ac adr. 128.

PENNOD I.

PURDEB YR YSGRYTHYRAU.

Dos. 1. *Purdeb yn cael ei ddarnodi a'i brofi.*

Pa bryd y dywedir fod testun yn bur? yn llygredig? yn ffugiol? Beth yw effaith argraffu ar y pwnc o burdeb yr Ysgrythyr? Nodwch yr argraffiadau boreuaf o'r Ysgrythyrau Hebreig: y boreuaf o'r rhai Groeg. Beth yw y testun derbyniedig? (Gwel adr. 55.) Yn amser dyfeisiad y gelfyddyd o argraffu, yr oedd rhifedi lluosog o gopïau llawysgrifawl o'r Ysgrythyr i'w cael yn llyfrgelloedd Europ: Pa nifer o lawysgrifau o'r Ysgrythyr yn Hebraeg a Groeg sydd wedi ei cymharu? Beth yw dyddiad cyffredinol y llawysgrifau Hebreig, ac eiddo yr hynaf yn Groeg? Rhoddwch enwau a dyddiadau y rhai canlynol, A, B, C, D, I, a mynegwch pa le y maent i'w cael. [a]Cymharwch ystyr *rescript* a *palimpsest*. Cymharwch y llawysgrifau clasurol ac Ysgrythyrol yn eu rhifedi a'u dyddiadau. Mynegwch pa mor bell y mae dyfyniadau o'r Ysgrythyr yn ysgrifeniadau y Tadau, &c., yn ffurfio rhan bwysig o'r profion Ysgrythyrol. Y mae cywirdeb a rhifedi y cyfryw ddyfyniadau yn hynod: Eglurwch y mynegiad yma. Rhoddwch enwau ysgrifenwyr eglwysig rhwng y bummed a'r ail ganrif, a ddyfynant yn helaeth o'r Ysgrythyr. Pa brawfiadau a wnaeth Dr. Bently ac Arglwydd Hailes gyda golwg ar hyn, a pha beth oedd y canlyniad? O berthynas i'r testun Hebreig, nid ydym yn pwyso ar ysgrifenwyr Cristionogol, ond ar y Targumiau: Nodwch y tri phenaf, eu dyddiad, a'u nodwedd tebygol. Pa sawl un sydd genym o gwbl? Mynegwch pa gyfieithiadau a wnaed rhwng y nawfed ganrif a'r un gyntaf. Pa nifer sydd o hen gyfieithiadau Syriaidd? Beth oedd y *Peshito*, a pha beth yw hanes y Vulgate? Rhoddwch ddyddiad a chymmeriad cyffredinol cyfieithiadau Symmachus, Aquila, Theodotion, a'r Deg a Thriugain. Beth oedd Beibl chwech-golofnog Origen? Rhoddwch hanes debygol cyfieithiad y Deg a Thriugain. Beth yw ystyr Homologoumena ac Antilegoumena? a pha lyfrau a gynnwysir yn mhob un? Nodwch unrhyw ffeithiau a ddangosant y gofal sydd wedi ei gymmeryd i gadw cywirdeb testun presenol yr Ysgrythyr, a rhoddwch y canlyniad cyffredinol i ba un y mae yr ymchwiliadau yma wedi arwain. Nodwch unrhyw ddarlleniadau pwysig a fabwysiadwyd gan Griesbach, yn y Rhufeiniaid, y Galatiaid, a thrwy y Testament Newydd yn gyffredinol. Mynegwch pa mor bell y mae y rhai hyn yn cael eu cadarnhau gan olygwyr beirniadol ereill. [a]Mynegwch y ffeithiau a benderfynwyd gan Hamilton o berthynas i'r darlleniadau amrywiol yn yr Hen Destament. Cymharwch y ffeithiau hyn yn gyffredinol â'r darlleniadau amrywiol yn Terence, a rhoddwch sylwedd cynghor Bengel i Reuss.

[a]Mynegwch werth beirniadol yr hen gyfieithiadau a enwwyd yn y gofyniadau hyn, (1) mewn penderfynu testun, ac yn (2) mewn penderfynu ystyr yr Ysgrythyr. (Gwel adr. 65.)

[a]Nodwch allan yn y Testament Groeg y darlleniadau amrywiol y cyfeiriwyd atynt yn y gofyniadau blaenorol.

Dos. 2. *Ieithoedd Gwreiddiol yr Ysgrythyr, adr.* 25—41.

Rhoddwch hanes enwau yr iaith Hebraeg bresenol, a mynegwch ffeithiau a dueddant i brofi mai math o Phœniciaeth yw yr Hebraeg bresenol.

I ba deulu o ieithoedd y perthyna yr Hebraeg? Rhoddwch enwau aelodau ereill y teulu hwnw, a mynegwch yn mha diriogaethau yr oedd pob un yn cael ei llefaru—yr Aramæaeg, y Galdaeg, y Syriaeg, y Samaritanaeg, yr Arabaeg, yr Ethiopaeg: Pa rai o'r ieithoedd yma sydd yn cael eu llefaru yn awr? Pa mor bell y rhoddant gynnorthwyon i ddehongli yr Hebraeg? Rhoddwch enwau'r ysgrifenwyr yn nhri phrif gyfnod yr Hebraeg. Pa brawf a roddir gan nodweddau neillduol y cyfnodau gwahanol yma o burdeb yr Ysgrythyr, a pha reolau dehonglyddol a awgrymir ganddynt. Rhoddwch enghreifftiau o'r ymadroddion perthynol i bob cyfnod. Groeg Hellenaidd yw eiddo y Testament Newydd: Mynegwch ddechreuad y ddadl a gyfododd ar y pwnc yma mewn amseroedd diweddar, a pha bethau a dybid fod yn gynnwysedig ynddi. Mynegwch beth yw elfenau y dafodiaith Roegaidd gyffredin, ac enwch y prif rai a ysgrifenasant yn mhob tafodiaith. Beth oedd dylanwad buddugoliaethau Alexander ar Roeg y Dwyrain? O ba le y daeth yr elfen Iuddewig neu Hebreig i Roeg y Deg a Thri ugain? Pa ddylanwad gafodd y Deg a Thri ugain ar Roeg y Testament Newydd? Nodwch unrhyw elfenau ereill perthynol i Roeg y Testament Newydd, heblaw y rhai sydd wedi eu henwi yn barod. Pa wersi a ddysgir gan nodweddau neillduol tafodiaith y Testament Newydd, ac at ba lyfrau y gallwn gyfeirio am hyfforddiad cyflawn o berthynas iddi? (Gwel adran 322, 324, 327.)

[a]Dos. 3. *Llawysgrifau yr Ysgrythyr, adran* 42-64.

Pa fodd y penderfynir oedran hen lawysgrifau, pa mor bell y gellir gwneyd hyn oddiwrth y dyddiad ysgrifenedig arnynt, oddiwrth eu hanes adnabyddus, ac oddiwrth eu defnyddiau? Rhoddwch ddechreuad ac ystyr yr enwau canlynol—cyfrol, memrwn, llafnau, cyfundraeth o gyfreithiau, ieithwedd, papyr. Pa brawf sydd genym mewn hen awduron clasurol fod y pethau yma yn cael eu defnyddio mewn cyssylltiad âg ysgrifenu? Ar y pwnc yma nodwch ddyddiad, nodwedd neillduol, a phwysigrwydd llawysgrifau a gafwyd yn Herculaneum, a llawysgrif Dioscorides sydd yn awr yn Vienna. Mynegwch pa fodd y cafodd y Testament Newydd ei ddosranu ar y cyntaf. Beth oedd y *titloi* a'r *kaphalia*, a'r dosraniadau Ammoniaidd, a'r canonau Eusebaidd? Pa bryd y dechreuwyd defnyddio llythyrenau euraidd? Mynegwch pa brawf o ddyddiad llawysgrif a roddir gan frasluniau o'r cynnwysiad, gan ddefnyddiad nodau pwysleisiol, gan yr olysgrifau i amrywiol lyfrau, gan ddotiau adnoddiadol; gan ffurfiau y llythyrenau, gan attalnodau, gan ddosraniadau i bennod ac adnod. Dangoswch y penderfyniadau nacâol, i ba rai y mae y ffeithiau yma yn arwain. [[b]Mynegwch y penderfyniadau cadarnhäol, y rhai a benderfynant ddyddiadau llawysgrifau mewn amryw achosion tybiedig.]

Mynegwch yr hyn sydd wedi ei wneuthur, oddiar gyhoeddiad y testun derbyniedig, er penderfynu cywirdeb y testun presenol. Rhoddwch enwau y gwahanol olygwyr a chymharwyr mewn trefn briodol. Pa fodd yr oedd Griesbach yn dosranu hen lawysgrifau yr Ysgrythyr? Beth oedd dosraniad Scholz? Pa mor bell y mae Hahn a Lachmann yn cyduno mewn egwyddor ag un o'r ddau olygydd yma? Beth yw yr olwg a gymmerir gan Tregelles ar werth cymharol llawysgrifau? Pa mor bell y mae y golygiad yma yn ymddangos yn gywir? Nodwch gymmeriad a dyddiad y llawysgrifau prif-lythyrenol (*uncial*) o'r Testament Newydd. Pa lawysgrifau mewn llythyrenau brysiog (*cursive*) sydd wedi cael eu chwilio, a pha fodd y rhif-nodir hwynt?

Pa ffeithiau sydd yn gwneuthur hanes y testun Hebreig yn ferach nag eiddo yr un Groegaidd? Beth a olygir wrth y testun Masoretaidd? Pa fodd y dosperthir llawysgrifau Hebreig? Rhoddwch hanes yr offer clasurol diweddar er diwygio y testun Hebreig, yn nghyd a'r canlyniad o hono. Beth a olygir wrth y teuluoedd Dwyreiniol a Gorllewinol? Pa ffaith sydd yn ymddangos yn benderfynol iawn gyda golwg ar gywirdeb cyffredinol testun yr Hen Destament a'r Newydd? (adran 64.)

[a]Dos. 4. *Hen Gyfieithiadau o'r Ysgrythyr, adran* 65—74.

Rhoddwch ddechreuad a chymmeriad cyffredinol y Deg a Thri ugain, yr hen gyfieithiad Italaidd, y Vulgate, yr Ethiopaidd, y Coptiaidd, a'r un Thebaiaidd, yr un Gothaidd, yr Armeniaidd, a'r un Slavonaidd. Pa gyfieithiadau diweddar, mewn cymhariaeth, a wnaed o'r Vulgate? Beth yw hanes a gwerth beirniadol y Pum Llyfr Samaritanaidd? Yn mha lythyren y mae wedi ei ysgrifenu, a pha fodd y mae yn gwahaniaethu oddiwrth y cyfieithiadau Samariaidd diweddar? Beth yw dechreuad y Peshito, a pha beth yw ei werth beirniadol? Pa gyfieithiadau Syriaidd ereill sydd? I ba gyfnod y perthyna y cyfieithiad Arabaidd presenol? Mynegwch pa rai o'r cyfieithiadau yma sydd yn ddefnyddiol er penderfynu y testun, a pha rai a wasanaethant mewn ffordd o ddehongliad yn unig?

[a]Dos. 5. *Darlleniadau Amrywiol yr Ysgrythyr, adran* 75—112.

Mynegwch, mewn modd cyffredinol, ddechreuad cyfeiliornadau wrth wneuthur copïau llawysgrifawl o'r Ysgrythyrau. Esboniwch ac eglurwch (1) ddylanwad seiniau a ffurfiau cyffelyb, terfyniadau cyffelyb, ymadroddion cyfystyr, cyfnewidiadau tafodieithol, absenoldeb dosraniadau, camsyniadau oddiwrth yr hyn a elwir "*custodes linearum*," ac egluriadau ymylddalenol.

[b]Gellir ystyried y camsyniadau uchod fel rhai damweiniol. Eglura ereill ddylanwad awydd i beidio drygu llawysgrif pan unwaith yr oedd camsyniad wedi ei wneuthur, i wneyd yr iaith yn fwy eglur, i wneyd darnau cyfochrog yn gydffurf, i wneyd i'r testun ateb amcanion pleidiol, a chamsyniadau cyffredin oddiar ddiofalwch. Mynegwch rai o'r darlleniadau amrywiol sydd wedi tarddu o'r gwahanol achosion yma, yn nghyd a'u cymmeriad cyffredinol.

Yn mha le y gallwn gael rheolau er penderfynu gwerth cymharol darlleniadau amrywiol? Beth a olygir wrth brofion allanol, ac wrth brofion mewnol? Pa mor bell y cyduna y ddau yn ein testun presenol? Ar ba beth y mae gwerth darlleniad yn ymddibynu? (adr. 94.) Rhoddwch reolau cyffredinol er penderfyniad y darlleniad priodol, pan ellir sefydlu y darlleniad hwnw drwy brawf allanol. Pan na fyddo y prawf allanol yn benderfynol, mynegwch pa reolau perthynol i brawf mewnol a ystyrir y mwyaf pwysig. Adran 103—109. Pa mor bell y gellir caniatau gwelliadau dychymmygol (adran 95—102), wrth ddiwygio testun yr Hen Destament neu y Newydd? Rhoddwch y prawf dros burdeb 1 Ioan 5, 7, yn nghyd a'r prawf yn ei erbyn. I ba benderfyniad yr arweinia y prawf hwnw?

Dos. 6. *Y Cyfieithiad Seisonig [a'r un Cymraeg] yr un ar y cyfan a'r testun gwreiddiol, adran* 113—134.

Pa mor bell y gellir ystyried y cyfieithiad Seisonig o'r Beibl fel Beibl yr eglwys foreuol? Rhoddwch farnau y Pwyllgor a appwyntiwyd yn amser y werin-lywodraeth; ac eiddo Geddes; Clarke; a Doddridge. Rhenir y diwygiadau ar bynciau llai pwysig i bedwar dosparth—mynegwch beth yw y rhai hyny. Diwygiwch yr adnodau canlynol (adr. 115), lle y rhoddir ystyr annghywir i'r gwreiddiol. Diwygiwch y rhai canlynol (adr. 116), lle nad ydyw ystyr gyflawn y gwreiddiol yn cael ei roddi. Diwygiwch y rhai canlynol (adr. 117), lle y mae dullwedd neillduol y gwreiddiol yn cael ei hesgeuluso. Diwygiwch y rhai canlynol (adr. 118), lle y mae yr un gair yn y gwreiddiol yn eu troi i eiriau gwahanol yn y cyfieithiad. A diwygiwch y rhai canlynol (adr. 119), lle y mae geiriau gwahanol yn y gwreiddiol yn cael eu troi i'r un gair yn y cyfieithiad. Rhoddwch ystyr yr ymadroddion anarferedig canlynol (adr. 120).*

Eglurwch y geiriau cyfieithiedig a nodir yn adr. 122. Beth yw ystyr a gwerth darlleniadau ymyl-ddalenol yn y cyfieithiad Saesonig a Chymreig —yn nghyd a'r geiriau mewn llythyrenau Eidalaidd? Pa mor bell y mae y dosparthiad presenol i bennodau ac adnodau yn awdurdodol? Beth yw ei ddechreuad? Rhoddwch enghreifftiau yn mha rai y tywyllir yr ystyr gan raniadau annghywir. Pa fodd y dosrenir llawysgrifau boreuol o'r Hen Destament? Beth yw dyben y llythyrenau a roddir yn awr rhwng dosraniadau, yn y testun Hebreig? Pa fodd yr oedd yr Iuddewon gynt yn cyfeirio at yr Hen Destament? Beth yw yr effaith y mae y diwygiadau yma yn ei gael ar y penderfyniad mai yr un, ar y cyfan, yw ein Beibl ni ag eiddo yr eglwys gynnwynol?

Pa gyfieithiadau Saxonaidd o'r Beibl sydd o hyd yn bodoli? Beth yw dyddiad a hanes cyfieithad Wycliffe? Pa un oedd y cyhoeddiad argraffedig cyntaf o'r Beibl Seisonig? Nodwch yr amrywiol gyfieithiadau Seisonig a gyhoeddwyd rhwng 1532 ac 1610. Rhoddwch hanes y cyfieithiad Cymreig o'r Hen Destament a'r Newydd. Beth yw y cyfieithiad awdurdodedig? Mynegwch y fantais o gael Beibl YSGRIFENEDIG. Mynegwch y perygl neillduol i'r hwn yr ydym yn agored wrth ei ddefnyddio.

PENNOD II.

GWIRIONEDD AC AWDURDOD YR YSGRYTHYR.

Dos. 1. *Y mae yr ysgrythyr yn hawlio cael ei hystyried fel dysgair Ysbrydoledig, ac fel yr unig ddysgawdwr ysbrydoledig, adran* 135 —145.

Beth y mae yr ysgrythyr yn ei honi o berthynas i genadwri ein Harglwydd, a pha fodd y mae yn profi yr honiad yma? Beth yw ei honiad am gommisiwn pump allan o wyth o'r apostolion? Pa fodd y mae yr

* Y mae y diwygiadau yma braidd oll yn bwysig, naill ai i wneyd y synwyr yn fwy eglur, neu i ateb gwrthddadleuon. Llawer o'r adnodau at ba rai y cyfeiriant, a roddir i lawr mewn Rhagarweiniadau yn mhlith anhawsderau yr ysgrythyr, pan nad ydynt, mewn gwirionedd, ond anhawsderau yn cyfodi oddiwrth gyfieithiad annghywir.

Ysgrythyr yn profi yr honiad yma? Pa fodd y cadarnhëir awdurdod Marc a Luc? Beth y mae yr ysgrythyr yn ei honi gyda golwg ar gommisiwn Paul, a pha fodd y profir yr honiad hwnw? Mynegwch y prawf a roddir yn yr Ysgrythyr, i ddangos fod awdurdod Ddwyfol yn perthyn i'r *Ysgrifeniadau* apostolaidd. Pa fodd yr edrychir yn y Testament Newydd ar yr Hen Destament? Rhoddwch raddau dilynol y prawf o wirionedd eich mynegiad. Gan hyny, beth yr ydych chwi yn ei hawlio i'r Beibl ar awdurdod y Beibl?

Nid rheol ond *unig rheol* ffydd ac ymarferiad ydyw. Eglurwch y gwahaniaeth yma. Nodwch dair rheol arall sydd wedi cael eu gosod mewn cystadleuaeth âg ef. Paham nad ydynt hwy i gael eu derbyn? Mynegwch allan o'r ysgrythyr y ffeithiau sydd yn cadarnhau y penderfyniad mai y Beibl yw unig reol ffydd ac ymarferiad. Ni chedwir ni gan Brotestaniaeth, ond gan ffydd yn Nghrist: Eglurwch y mynegiad yma.

Dos. 2. *Ysbrydoliaeth, adran* 146—150.

Darnodwch ysbrydoliaeth yr Ysgrythyr, gan ei wahaniaethu oddiwrth ffeithiau a damcaniaeth o berthynas iddo. Beth, fel yr ymddengys, oedd yr hen olygiad, a pha fodd y daeth damcaniaethau am ysbrydoliaeth i gael eu dadleu mor ddifrifol oddiar y Diwygiad? Rhoddwch olygiadau Haldane, Priestley, Kant, a Doddridge. [b]Mynegwch wrthddadleuon yn erbyn rhyw rai o'r golygiadau yma. A ydyw ysbrydoliaeth yr un mor helaeth o ran ei ystyr a dadguddiad? Rhoddwch wahaniaethiad Scott. Pa beth a ddylai damcaniaeth gywir ei gynnwys? Dangoswch o'r Ysgrythyr fod ysgrifenwyr yr Hen Destament a'r Newydd yn honi eu bod yn ysbrydoledig. Dangoswch allan o'r ysgrythyr pa ffeithiau sydd yn gysson âg ysbrydoliaeth, ac a ddylent gael eu cynnwys yn mhob damcaniaeth a ddichon gael ei ffurfio.

Dos. 3. *Y Canon, adran* 151—166.

Beth a olygir wrth fod llyfr yn ganonaidd? Y mae canoneiddrwydd yn sylfaenedig ar ysbrydoliaeth, ac nid ysbrydoliaeth ar ganoneiddrwydd: Eglurwch y gwahaniaeth yma. Y mae canoneiddrwydd yn bwnc triphlyg: Pa fodd hyny? Rhoddwch y profion o ganoneiddrwydd y pedair Efengyl, yr Actau, ac Epistolau Paul. Paham yr oedd y llyfrau Ailganonawl (*Deutero-canonical*) yn cael eu hammeu? Beth yn awr yw effaith y prawf yr aethant drwyddo? Pa mor bell y mae barn eglwys neu gynghor ar awdurdod ganonaidd unrhyw lyfr yn profi ei ganoneiddrwydd? Pa sawl hen gyfres o lyfrau canonaidd y Testament Newydd sydd yn aros? Rhoddwch sylwedd eu tystiolaeth. Y mae y prawf o ganoneiddrwydd yr Hen Destament yn driphlyg—awdurdod y Newydd, tystiolaeth ysgrifenwyr Iuddewig, a'r hen gyfresiadau: Rhoddwch sylwedd pob un o'r mathau gwahanol yma o brofion (adn. 157—160). Pa lyfrau o'r Hen Destament *na cheir* cyfeiriad atynt yn y Newydd? Nodwch y penaf o'r hen gyfresau. Pa fodd (y tybir) y darfu i lyfrau yr Hen Destament gael eu casglu a'u cadw? Beth oedd y Synagog Fawr?

Gellir rhanu y prawf o ganoneiddrwydd yr Apocrypha i'r mewnol a'r allanol: Mynegwch pa fodd y mae y prawf allanol yma yn gwahaniaethu oddiwrth y prawf allanol o ganoneiddrwydd yr Ysgrythyr. Y mae y prawf mewnol hefyd yn ei erbyn: Mynegwch beth yw hwn. Beth yw gwerth llyfrau yr Apocrypha? Dosparthwch hwynt yn ol eu gwerth.

Dos. 4. *Profion Ysgrythyrol, adran* 167—213.

Pa bryd y dywedir fod llyfr yn wirioneddol? Pa mor bell y mae y prawf o burdeb y Beibl yn profi ei wirioneddolrwydd (adr. 168)? Mynegwch sylwedd y rhan gyntaf o brofion Paley (adr. 169). Nodwch ysgrifenwyr Iuddewig a phaganaidd sydd yn cyfeirio at unrhyw ffeithiau cofnodedig yn yr Efengylau neu yr Actau. Nodwch y prif ysgrifenwyr eglwysig sydd a'u gweithiau yn profi purdeb ac awdurdod gyffredinol llyfrau yr Ysgrythyr, gan eu dosparthu hwynt i ganrifoedd.

Y mae prawfiadau yn gasgliadol a phenderfynol; yn wyrthiol, prophwydol, a moesol; yn allanol a mewnol: Gwahaniaethwch y dosparthiadau yma. Pa bynciau perthynol i grefydd naturiol a benderfynir gan brofion yr un ddadguddiedig? Y mae prawf allanol yn uniongyrchol, yn olddrychol, a rhagolygiadol: Darnodwch bob un, ac enwch ysgrifenwyr sydd wedi eu hegluro hwynt. Nodwch ranau o'r ysgrythyr sydd yn apelio at bob un. Y mae prawf mewnol yn foesol, ysgrythyrol, neu lênyddol, profiadol, ac ysbrydol: Eglurwch y rhai hyn, a nodwch ysgrifenwyr sydd wedi esbonio pob un.

Prawf allanol.—Pa beth yw gwyrth, ac i ba beth, fel moddion, y mae yr Ysgrythyr yn priodoli llwyddiant yr efengyl? (adr. 174). A oedd gallu gwyrthiol yn beth cyffredin yn yr eglwys foreuol, ac a oedd yn rhan bwysig o'r prawf o genadwriaeth ddwyfol? Pa mor bell y mae yr Ysgrythyr yn ei ddal i fyny, fel yn ddigonol i gynnyrchu argyhoeddiad? Pa fodd y dangoswch nad ydoedd Crist yn twyllo y bobl, ac nad oedd efe ei hun yn cael ei dwyllo? Pa mor bell y mae hanes yr apostolion yn profi eu didwylledd? Os gwadwn wyrthiau yr efengyl, rhaid i ni dybied un sydd fwy nâ hwynt: Beth yw hon? Beth yw arbrofion Leslie? Beth yw y canlyniad o'u caniatau hwynt?

Prophwydoliaeth sydd fath o wyrth: Pa fodd hyny? Pa beth a ofynir gan bob prophwydoliaeth mewn trefn iddi ddyfod yn brawf prophwydol? (adr. 180). Rheda profion prophwydol drwy yr holl Feibl: Rhoddwch enghreifftiau hyd amser y diluw, hyd roddiad y ddeddf, hyd ddyddiau Solomon, yn ystod cyfnod prophwydoliaethol yr hanesiaeth Iuddewig; cyn, yn ystod, ac ar ol y caethiwed. Y mae pob prophwydoliaeth yn ddarostyngedig i un amcan: Pa beth yw hwnw? Rhoddwch rifedi y prophwydoliaethau sydd yn cyfeirio at ein Harglwydd, a pha rai sydd wedi eu cyflawnu. Dangoswch, oddiwrth rifedi, a gwrthddywediad ymddangosiadol y prophwydoliaethau hyn, mai nid effaith cywreinrwydd dynol ydynt. Ar ba egwyddor y cyflwynir hanes cenedloedd Paganaidd yn mhrophwydoliaethau yr Ysgrythyr? Nodwch amcanion moesol rhoddiad y prophwydoliaethau yma. Math o brophwydoliaeth yw addewidion cyflawnedig: Beth yw meddwl y mynegiad yma? Dangoswch pa fodd y mae prophwydoliaethau perthynol i'r Iuddewon yn cyfansoddi prawf o wirionedd yr Ysgrythyr. Cyferbyniwch hwynt â'r prophwydoliaethau am Edom. Nodwch y prophwydoliaethau perthynol i Babilon a Ninefeh, gyda ffeithiau allan o ysgrifenwyr cyffredin sydd yn profi cyflawniad y prophwydoliaethau. Pa mor bell y gosodir prophwydoliaeth allan yn yr ysgrythyr fel prawf o genadwriaeth Ddwyfol? (adr. 191).

Prawf moesol mewnol.—Pa mor bell y mae dyn yn addas i farnu am brawf moesol mewnol yr Ysgrythyr? Nodwch ac eglurwch y pedair nodwedd benaf sydd yn perthyn i'r Ysgrythyr, fel cyfundraeth foesol. Beth yw neilldduolrwydd dysgeidiaeth yr Ysgrythyr am ffydd? Cymharwch foesoldeb

yr Ysgrythyr âg eiddo cyfundraethau ereill (adr. 201). Y mae tegwch a didwylledd yr ysgrifenwyr ysbrydoledig yn brawf o'u geirwiredd: Pa fodd y gall y pethau hyn fod yn brofion? Dyfynwch siamplau. Y mae cymmeriad Crist yn rhan o brawf moesol yr Ysgrythyr: ar ba beth y mae gwerth y prawf yma yn ymddibynu? Pa dri pheth sydd yn amlwg yn hanes ein Harglwydd? Rhoddwch enghreifftiau o'i rinwedd. Er fod ei gymmeriad yn gwahaniaethu oddiwrth bob arlun cenedlaethol, etto y mae yn gynllun i bob credadyn: Eglurwch y mynegiad yma, ac eglurwch ei rym fel prawf o ddechreuad Dwyfol yr efengyl. Gellir cyfrif effeithiau yr efengyl fel rhan o'i phrawf moesol: rhoddwch dystiolaeth epistolau Clement o Rufain, ac ysgrifenwyr boreuol ereill, ar y pwynt yma. Beth oedd effeithiau yr efengyl yn Groeg, Rhufain, a Chaercystenyn? Beth yw cyfaddefiad Gibbon? Rhoddwch enwau gweithiau lle y ceir profion pellach ar y pwnc yma.

Prawf mewnol llényddol.—Nodwch pa fathau gwahanol o gyssondraethau (*harmonies*) sydd wedi cael eu holrhain a'u chwilio. Nodwch lyfrau sydd yn ymchwilio i'r cydundeb rhwng y ddwy oruchwyliaeth—rhwng crefydd naturiol a dadguddiedig,—rhwng hanes gyssegredig a chyffredin—rhwng daearyddiaeth Ysgrythyrol a hanesiaeth naturiol, a rhwng gwahanol ranau yr Ysgrythyr ei hun. Rhoddwch enghreifftiau o'r cyssondeb yma. Enwch rai o'r ffeithiau a nodir gan Paley yn ei Horæ Paulinæ, a dangoswch wirioneddolrwydd tebygol adroddiadau yr Actau oddiwrth hanes Barnabas. Pa fodd yr esboniwch ymweliad Phylip â Cæsarea, Act. 8, 40?

Prawf mewnol, ysbrydol, a phrofiadol.—Appelia prawf profiadol mewn rhan at bob dyn, ac mewn rhan at Gristionogion yn unig: Eglurwch y gwahaniaeth yma, a dangoswch ei fod yn cael ei ganiatau gan yr ysgrythyr. Y mae tair gradd yn perthyn i'r prawf profiadol: Enwch hwynt. I bwy, yn benaf, y mae y prawf yma yn werthfawr? Y mae pob cyfundraeth grefyddol wedi ei cyfaddasu, i raddau mwy neu lai, i'r natur ddynol: Dangoswch pa fodd y mae yr efengyl yn gwahaniaethu oddiwrth ereill. Rhoddwch grynodeb o brofion yr Ysgrythyr. Dangoswch pa mor bell y maent yn ddealladwy (adr. 212). Y mae yr ymofynydd annheg, fodd bynag, heb ei argyhoeddi, ac oddiwrth hyn y mae prawf newydd yn cyfodi: Pa beth ydyw? A'r Cristion diofal, paham? Ac yn yr achos olaf yma, pa beth sydd yn feddyginiaeth ddeublyg?

PENNOD III.

Nodweddau Neilldduol yr Ysgrythyr fel Dadguddiad oddiwrth Dduw.

Dos. 1, 2. *Y mae yn Ddadguddiad o Dduw, ac o'r natur ddynol.* *adr.* 214—227

Pa fodd y gellir edrych ar yr Ysgrythyr? Fel dadguddiad oddiwrth Dduw, cyferbyniwch hi â dadguddiadau ereill. Dangoswch pa fodd y mae yn ddadguddiad o'r natur ddynol. Y mae, mewn modd cyffredinol, yn

drysorfa o wirionedd ysbrydol: eglurwch y gwirionedd hwn, a mynegwch pa ofyniadau sydd bob amser yn briodol. Eglurwch gyflawnder a byrder yr Ysgrythyr mewn rhanau neillduol, oddiwrth ei nodwedd neillduol, fel dadguddiad o wirionedd ysbrydol. Dadguddiad ydyw o Dduw *santaidd*, yn ei berthynas â dyn fel pechadur: Eglurwch y gwirionedd yma oddiwrth ranau hanesyddol a phrophwydol yr Ysgrythyr, ac oddiwrth ei dysgeidiaeth o berthynas i Grist. Pa ddwy reol ymarferol sydd yn cael eu hawgrymu gan y ffeithian hyn? Er mai nid dadguddiad o wyddoniaeth yw y Beibl, etto gellir dysgwyl iddo fod yn rhydd oddiwrth gyfeiliornad, ac yn cynnwys llawer o ddoethineb cuddiedig: Dangoswch y gwahaniaeth yn y pethau yma, rhwng yr Ysgrythyr a hen gyfundraethau athronyddol. Nodwch unrhyw gyfeiliornadau y mae cyfundraethau ereill wedi syrthio iddynt. Rhoddwch enghreifftiau o fanylrwydd mynegiadau yr Ysgrythyr, pan yn llefaru am y ddaear, am yr hiliogaeth ddynol, ac am yr awyr a'r cyrff nefol. Yn gyffredinol, fodd bynag, llefara yr Ysgrythyr am ffeithiau cyffredin mewn iaith gyffredin, hyd y nod pan na byddo yr iaith hono, i fanylrwydd, yn athronyddol: Beth yw y rhesymau ymddangosiadol dros y drefn yma? Pa fodd y trinir pynciau moesol yn yr Ysgrythyr? Dangoswch y cyssondeb rhwng dysgeidiaeth yr Ysgrythyr a ffeithiau cyfaddefedig ar sylw a llywodraeth dyn ar ei gredo, a pha ffaith sydd yn yr Ysgrythyr yn cael ei hychwanegu at ein gwybodaeth o berthynas i'r pynciau moesol yma?

Dos. 3. Y *mae yn Ddadguddiad graddol a chynnyddol, adr.* 228—238.

Dadguddiad graddol a chynnyddol yw yr Ysgrythyr (adr. 228): Pa mor bell y mae gwirionedd Duw yn addas o gynnydd? Pa fodd y darlunir y natur Ddwyfol yn yr Ysgrythyr? swydd a phersonolrwydd yr Ysbryd Glan? gwaith a pherson ein Harglwydd? Beth a olygir wrth angel yr Arglwydd? Pa awgrymiadau sydd yn yr Hen Destament o athrawiaeth y Testament Newydd am y Drindod? Cymharwch y dadguddiedigaethau a roddwyd i'r Patriarchiaid, i Moses, ac i'r Prophwydi. Pa mor bell y mae yr un cynnydd yn nadguddiad gwirionedd ymarferol? Eglurwch eich golygiad, a rhoddwch ddesgrifiad Butler o'r ffaith. Ar ba dir y mae trefniad amseryddol o'r Ysgrythyr yn bwysig? Rhoddwch siamplau. Mynegwch barhad, a chymmeriad cyffredinol y goruchwyliaethau Edenaidd, Patriarchaidd, Moesenaidd, ac Efengylaidd. Y mae dadleniad gwirionedd yn terfynu gyda'r Ysgrythyr: Beth yw meddwl a phwysigrwydd y mynegiad yma? Rhoddwch olygiad Boyle.

Dos. 4. *Unoliaeth y Beibl, adran* 239—245.

Y mae gan y Beibl un amcan (adr. 239): I ba beth y mae yr unoliaeth hwn i'w briodoli? Eglurwch y ffaith yma, a chyferbyniwch hi â nodwedd neillduol cyfundraethau ereill. Nid ydyw crefydd, pa un bynag ai yn bersonol neu wrthddrychol yr ystyrir hi, erioed wedi newid: Eglurwch y mynegiad yma. Dangoswch pa mor bell y mae y ddeddf yn un a'r efengyl, a pha fodd y mae desgrifiadau olynol yr Ysgrythyr o'r natur ddynol yn cyduno y naill â'r llall. Y mae yr unoliaeth hwn yn brawf o ddechreuad Dwyfol yr efengyl: Pa fodd? Gellir casglu dwy wers oddiwrth hyn: Mynegwch ac eglurwch hwynt. Paham y mae yr Hen Destament i'w fyfyrio yn gystal a'r Newydd?

Dos. 5. *Nid ydyw yn Ddadguddiad o Wirioneddau Rheolaidd, neu o Reolau Pennodol, adran* 246—253.

Nid *cyfundraeth* o wirioneddau, neu o reolau pennodol, yw yr Ysgrythyr (adran 246): y mae y ffaith yma yn naturiol ac yn nodedig: Eglurwch y mynegiad yma yn achos yr Hen Destament a'r Newydd. Dangoswch pa fodd y mae Duw, ei gymmeriad, a'i lywodraeth, yn cael eu dadguddio. Dangoswch pa fodd y dadguddir dyn, a rhoddwch enghreifftiau o bechadurusrwydd ac annghyssonderau dyn, ac o rinwedd a gwendid Cristionogol. Dangoswch y fantais o'r cynllun hwn o ddadguddiad, gyda golwg ar ei ddylanwad ar galonau, ac addasrwydd y Beibl i gael ei gyfieithu. Ymddengys y nodwedd yma yn anhebgorol angenrheidiol i gyfrol sydd wedi ei bwriadu i bob gwlad, y mae yn gwneuthur cymhariaeth ac adfyfyriad yn bwysig, ac yn darparu dynion i dderbyn pob gwirionedd a dyledswydd: Eglurwch y mynegiadau yma. Pa dair gwers ellir gasglu oddiwrth y ffeithiau yma? (adr. 252, 253). Rhoddwch olygiadau Arnold, Bacon, a Cecil, ar bwnc y bennod yma.

PENNOD IV.

Ar Ddehongli yr Ysgrythyr.

Dos. 1. *Ar yr angenrheidrwydd am ofal wrth fyfyrio yr Ysgrythyr, adran* 254—269.

Trefnwch lyfrau y Beibl yn ol galwedigaeth neu waith eu hawduron, y lleoedd yn mha rai, a'r amser ar yr hwn, yr ysgrifenwyd hwynt; yr amcan mewn golwg, a'r personau a anerchid gan yr ysgrifenydd; a dangoswch pa fodd y mae y nodweddau yma yn gwneyd gofal mawr yn angenrheidiol wrth fyfyrio y Beibl. Y mae yn agos yr oll o'r iaith sydd yn llefaru am wirionedd ysbrydol yn gymhariaethol: dangoswch pa fodd y mae fel hyn yn iaith gwyddoniaeth feddyliol (ysbryd, sylw, adfyfyriad, &c.), yn yr iaith sydd yn llefaru am Dduw. Pa egluriadau a ellwch eu rhoddi ar y ffaith yma? (adr. 257). Y mae pethau cyffredin yn awgrymu ymadroddion crefyddol: Dyn a'i serchiadau a awgrymant ddesgrifiadau o Dduw (adr. 259): Eglurwch y ddwy ffaith yma. Nid ydyw ymadroddion cymhariaethol sydd yn llefaru am Dduw a chrefydd (fel rhai cymhariaethau), yn ormodiaith: eglurwch y mynegiad yma. Dangoswch mor hawdd y gellir gwneyd i'r cyfryw ymadroddion ymddangos yn wrthddywediadol. Y mae ffeithiau o'r hanesiaeth Iuddewig, a defodau o sefydliad Dwyfol, yn awgrymu ymadroddion crefyddol: Eglurwch y mynegiad yma. Pa fodd yr oedd y meddylddrych am santeiddrwydd ac am euogrwydd yn cael ei awgrymu i'r Iuddew? Cymmerwch hanes yr Iuddewon, a dangoswch pa ymadroddion crefyddol a gymmerir o honi. Defnyddir rhai ymadroddion yn y Testament Newydd mewn ystyriaethau newyddion: Rhoddwch ystyr glasurol ac ysgrythyrol y gair am ostyngeiddrwydd. Rhoddwch siamplau ereill; Ffydd, drygfyd, didwylledd, gweniaith.

Darnodwch ac eglurwch drofeg, cyffelybiaeth, trawsenwad, a chyfforddwyr, allan o'r Ysgrythyr. Pa air sydd yn cynnwys y tri olaf o'r rhai hyn? Darnodwch ac eglurwch aralleg, dammeg, ffughanes, dychymmyg, cysgod, arwyddlun. Pa mor bell y perthyna y ffigurau yma yn neillduol i'r Ysgrythyr? (adr. 269.) Rhoddwch olygiad Marsh am unoliaeth termau a ffigurau.

Dos. 2. *Yr ysbryd yn mha un y dylid myfyrio y Beibl, adran* 270—273.

Rhaid myfyrio yr Ysgrythyr mewn ysbryd crefyddol. A ydyw y rheol yma yn cyfateb i ryw un mewn eangenau ereill o ymchwiliad? O ba le y tarddodd yr *angenrheidrwydd* am ddysgeidiaeth Ddwyfol? Mynegwch beth yw *ffynnonell* yr addysgiad yma, yn nghyd a'r *moddion* drwy ba rai y mae ei sicrhau. Pa wirioneddau ganfyddir gan ysbryd hawdd i cymmeryd ei ddysgu? Pa mor bell y mae y drefn sydd yn rhoddi y flaenoriaeth i ysbryd duwiolfrydig a hawdd ei ddysgu yn eael ei chadarnhau yn y Beibl? Rhoddwch, ar y pwnc yma, olygiadau Pascal, Anselm, Tholuck, Hagenbach, a Neander.

Dos. 3. *Rheolau Dehongliaeth, adran* 274—309.

Beth yw y rheol ddehonglyddol gyntaf? Mynegwch rai o wirioneddau yr Ysgrythyr sydd wedi eu dadguddio yn eglur. Pa fodd y troseddodd Origen a Coccæus yr egwyddor ddehonglyddol gyntaf yma? Beth yw yr effaith o gymhwyso egwyddor Origen at hanes y gwyrthiau a gofnodir yn yr Efengylau? Beth a feddylir wrth Hebreigiaethau yn y cyfieithad Seisonig a Chymreig? Pa fodd y mae yr Hebraeg, yn fynych, yn cyflwyno meddwl ansoddol? Rhoddwch enghreifftiau. Beth a olyga yr ymadrodd "meibion Belial?" Nodwch ac eglurwch ranau ereill, lle y defnyddir ymadroddion cyffelyb. Pa fodd y mae yr Hebraeg, weithiau, yn mynegu cymhariaeth? Pa fodd y defnyddir enwau lluosog yn aml yn yr Hebraeg? Pa fodd y defnyddir enw priodol rhieni neu hynafiaid yn fynych yn yr Ysgrythyr? Eglurwch feddwl mynych mab, brawd, a nodwch unrhyw wrthddywediadau ymddangosiadol y mae y ffaith hon yn eu symud ymaith. Pa fodd y defnyddi rhifedi yn fynych yn yr Ysgrythyr? Mynegwch y defnydd a wneir o ddeg, deugain, deg a thri ugain. Pa fodd y mae berfau o weithrediad neu fodoliaeth syml yn cael eu defnyddio yn aml? Rhoddwch enghreifftiau. Yr un enw, yn aml iawn yn yr Ysgrythyr, sydd gan wahanol bersonau: Eglurwch y mynegiad yma (adr. 279 *d*). Rhoddwch enwau cyffredin breninoedd yr Aifft, Philistia, Amalec, Rhufain. Pa Herodau gwahanol a nodir yn y Testament Newydd? Yr un enw yn aml sydd gan wahanol leoedd: Eglurwch hyn. Nodwch allan wahanol ddinasoedd Cæsarea, Antioch, a Mispeh. Beth yw Magog? Y mae gwahanol enwau yn fynych ar yr un lleoedd a'r un personau: Nodwch enwau ereill Jethro, Lefi, Didymus, Judas, Cæsarea, Môr Galilea, y Môr Marw, Abyssinia, yr Aifft, y Nilus, Môr y Canoldir, y Tir Santaidd, Ahaziah, Jehoahaz, Jehoiada, ac Uzziah.

Nodwch yr *ail* reol ddehonglyddol. Rhoddwch ystyriaethau gwahanol y gair ffydd, enawd, iachawdwriaeth, gwaed, gras. Mynegwch y modd y cymhwysir y rheol yma at iaith ffigurol, ac eglurwch y cymhwysiad. Ar ba egwyddor y sylfaenir ymadroddion ffigurol yn gyffredin? Pa fodd y mae iaith ffigurol yn gosod allan bersonau mewn awdurdod? Pa fodd y darlunia gyfnewidiadau gwladyddol? Rhoddwch ystyr corn, gwialen, goleuni, priodas, fel ymadroddion ffigurol.

Nodwch y *drydedd* reol ddehonglyddol. Desgrifir ac esbonir ffydd yn yr unfed bennod ar ddeg o'r Hebreaid: Eglurwch feddwl yr adnod gyntaf. Dangoswch yn mha un o'r enghreifftiau rhoddedig y cyfeiria ffydd at y "pethau yr ydys yn eu gobeithio," ac yn mha un at y "pethau nid ydys yn eu gweled." Dangoswch y fantais o gael Beibl o egluriadau yn hytrach nag un o ddarnodiadau. Dangoswch yr ystyr a roddir yn yr Ysgrythyr i *berffeithrwydd, dirgelwch*, a gwyddorion y byd hwn. Hyd y nod mewn adroddiadau syml, cyfyngir ystyr geiriau gan y cyd-destun: Eglurwch y mynegiad yma. Pan na byddo unrhyw ddarnodiad neu gyfyngiad ffurfiol yn y cyd-destun, gwneir yr ystyr weithiau yn fwy eglur gan ymadroddion cyffelyb neu wrthwynebol: Eglurwch y mynegiad yma, a dangoswch pa fodd y gellir cyssoni Iago a Phaul drwyddo. Esboniwch 1 Ioan 3, 9.

Beth a olygir wrth gyfochredd? (adr. 286). Rhoddwch enghreifftiau o gyfochreddau cyfystyr, o gyfochreddau graddiadol, ac o gyfochreddau cyferbyniol. Beth yw Salm 11, a pheth yw Salm 132? Pa wirionedd ysbrydol a ddysgir yn yr olaf? Beth yw cyfochreddau cyfosodol? (Gwel ar y llyfrau barddonol, tudal. 292). Eglurir y meddwl weithiau gan gyfeiriadau yn y cyd-destun: Yn mha ystyr y mae Dafydd yn haeru ei gyfiawnder yn Sal. 7, 8? Beth yw meddwl Ioan 9, 3, a Iago 5, 14? Pa bryd y defnyddir geiriau mewn gwawdiaith? (adr. 287 *b*). Rhoddwch enghreifftiau o'r dull ymadrodd yma yn yr Ysgrythyr.

Beth yw swydd banynau ac ymsangau mewn cyfansoddiad, a phaham y mae o bwys talu sylw iddynt? Pa fodd y mae ymsang yn cael ei nodi allan yn aml yn yr Ysgrythyrau? Rhoddwch ystyrion cyffredin y geiriau, "gan hyny," "drwy," "yn awr," "yn hytrach." Yn yr ysgrifeniadau ysbrydoledig, ceir cydymddyddanion aneglur yn aml, lle na byddo y dadleuon, y gwrthddadleuon, a'r atebion wedi eu nodi yn amlwg: Rhoddwch enghreifftiau yn eu hegluro hwynt, a nodwch unrhyw neillduolion ieithweddol cyffelyb sydd yn creu anhawsder (adr. 291). Dangoswch y pwys o dalu sylw i'r cyd-destun wrth fyfyrio iaith ffigurol yr Ysgrythyr. Eglurwch, wrth y rheol yma, 1 Pedr 3, 21; Hos. 4, 12; Ioan 6, 37; Math. 26, 28; 1 Cor. 3, 25.

Rhoddwch i lawr y *bedwerydd* reol ddehonglyddol. Pa fodd y gallwn gasglu amcan unrhyw gyfran o'r Ysgrythyr? (adr. 294, 295, 296). Beth yw amcan yr Ephesiaid, y Diarebion, yr Efengylau, a'r Beibl? Beth am Salm 90ain? beth sydd yn debygol am Ganiadau y Graddau? am y Colossiaid a'r Galatiaid? beth am pennodau 51—55 yn Esaiah? Weithiau y mae amcan llyfr, ac amcan dosran neillduol o hono, yn gwahaniaethu: Cymhwyswch y nodiad hwn i egluro dammeg y Mab Afradlon, i ddehongli yr orphwysfa y sonir am dani yn Hebreaid 4, a'r desgrifiad a roddir o Melchisedec, yn yr un Epistol. Dangoswch y gwahaniaeth rhwng Epistol Iago, a'r Epistol at y Rhufeiniaid; rhwng yr Epistol at y Rhufeiniaid, a'r un at y Galatiaid, a chyssonwch y mynegiadau ynddynt drwy gyfeiriad at amcan pob un.

Beth yw y *bummed* reol ddehonglyddol? Pa beth yw gwirionedd a dyledswydd Ysgrythyrol? I ba beth y mae yn cyfateb mewn gwyddoniaeth naturiol? Dangoswch bwysigrwydd y rheol yma drwy gyfeiriad at hanes yr Iuddewon. Cymmerwch y desgrifiad a roddir o Dafydd yn 1 Sam. 13, 14, a dangoswch ei ystyr oddiwrth adnodau cyfochrog: Felly hefyd Gal. 3, 27, a 6, 17. Y mae rhanau cyfochrawl yn bwysig iawn wrth egluro y gwersi cynnwysedig mewn enwau priodol: Eglurwch hyn oddiwrth achos Horeb yn Salm 106, ac oddiwrth hanes Balaam. Y mae tri math o

gyfochreddau geiriol: Nodwch hwynt, a mynegwch ddefnydd pob un. Weithiau y mae i'r un ymadroddion ystyriaethau hollol wahanol: Eglurwch y mynegiad yma (adr. 301). Dangoswch pa fodd y gall sylwi ar y ffeithiau hyn gyssoni gwrthddywediadau ymddangosiadol. Y mae dau ocheliad yn angenrheidiol wrth ddefnyddio rhanau a ymddangosant yn gyfochrog: Nodwch hwynt. Beth feddylir wrth gyfochreddau o feddyldrychau? Trwy gyfeirio at y cyfryw gyfochreddau cyflawnhewch roddiad y cwpan yn swper yr Arglwydd i'r holl gymmunwyr. Mynegwch y dehongliadau ysgrythyrol ac anysgrythyrol o Math. 16, 18. Wrth ddefnyddio cyfochreddau o'r fath, pa un sydd yn rhoddi y meddwl y talfyredig neu y cyflawn, y ffigurol neu y llythyrenol? cymhwysswch yr egwyddor gynnwysedig yn eich atebiad er egluro Phil. 3, 9; Gal. 6, 15; a 1 Pedr 4, 18. Beth a olygir wrth gyssondeb y ffydd, a pha fodd y mae yn cael ei ddesgrifio yn y Beibl? Ar ba beth y mae cyssondeb y ffydd yn seiliedig? Rhoddwch egluriadau (1, 2, 3) o gymhwysiad cyssondeb y ffydd mewn dehongliaeth. Mynegwch beth sydd yn gyfatebol iddo mewn athroniaeth naturiol. Dangoswch pa fodd y defnyddir rhanau cyfochrog wrth ddehongli iaith ffigurol. Pa fodd y mae iaith ffigurol yn cynnwys y cyfan a gynnwysid yn yr un ymadrodd, pe defnyddid ef yn llythyrenol? Rhoddwch grynodeb o'r rheolau yma, a dangoswch pa mor bell y maent yn gymhwysiadol at iaith yr Ysgrythyr, yn nghyd ag eiddo bywyd cyffredin.

Dos. 4. *Ar Ddefnyddioldeb a Chymhwysiad Rheolau mewn Dehongliad, adran* 310, 311.

Beth yw defnydd rheolau dehonglyddol? Darganfyddant a phrofant yr ystyr: Mynegwch yn mha achosion y gwnant felly. Dangoswch bwysigrwydd ysbryd duwiolfrydig mewn ymchwiliad crefyddol. Beth yw gwir ystyr geiriau yr Ysgrythyr? Pa ystyr i eiriau sydd i'w ddewis yn gyffredin, a phaham? Pa mor bell y mae y cyd-destun yn penderfynu y meddwl? Pa bryd y mae amcan unrhyw ran yn penderfynu y meddwl? Beth a ofynir mewn rhanau y dywedir eu bod yn gyfochrog? Ar ba beth y gorphwysa cyssondeb y ffydd? Beth yw ei brif ddefnyddioldeb, a pha bryd y mae yn gymhwysiadol mewn ymresymu yn unig? Pa fodd y darnodir duwinyddiaeth mewn perthynas i ddehongliaeth? Rhoddwch olygiadau Tholuck, Winer, Whitaker, a Horsley, ar ddehongliadaeth Ysgrythyrol.

[a]Dos. 5. *Ar gymhwysiad o'r rheolau yma at fyfyrdod o'r Ysgrythyrau Gwreiddiol, adran* 312—338.

Mewn iaith lefaredig penderfynir ystyr geiriau gan arferiad lleferydd cyffredin: Pa fodd y penderfynir yr ystyr mewn cyssylltiad âg iaith farw? Beth yw ystyr ddeublyg awdurdod? Pa mor bell y mae geiriaduron yn awdurdodol? Nodwch rai o'r gramadegau Hebreig boreuaf; rhoddwch gymmeriad cyffredin gramadegau Gesenius, ac Ewald, a gweithiau Delitisch. Beth yw y prif ramadegau er cyrhaedd gwybodaeth o'r ieithoedd perthynol i'r Hebraeg? Nodwch rai o'r prif ramadegau a'r geiriaduron Groeg, yn enwedig y rhai cyfaddasedig er myfyrdod o'r Ysgrythyr. Nodwch werth y darnau o'r cyfieithiadau gan Origen a Jerome, y Deg a Thri ugain, y Targumiau, y Peschits, a'r Vulgate. Cymharwch y rhanau a gyfieithiwyd gan Jerome ei hunan â'r rhai a gymmerwyd ganddo o'r hen gyfieithiad

Italaidd. Nodwch a darluniwch y cyfieithiadau Lladinaidd Rhufeinig, ac hefyd y cyfieithiadau Lladinaidd Protestanaidd. Beth yw cymmeriad cyfieithad Luther, ac i ba gyfieithiadau diweddar y mae yn sylfaen? Nodwch y prif gyfieithiadau Ffrengig, Isellmynaidd, Ysbaenaidd, ac Italaidd. Beth yw gwerth cyfieithiadau diweddar wrth eu cymharu â geiriadur da?

Beth yw swydd geirdarddiaeth (adr. 320). Rhoddwch wreiddyn yr ymadrodd Hebreig am y ffurfafen, gwneuthur cyfammod, *iereus*, o'r gair Groeg cyffredin am "weinidog." Olrheiniwch ystyr yr Hebraeg am "wneuthur Iawn," ac eiddo y gair Groeg am yr un drychfeddwl. Olrheiniwch ystyriaethau y gair Groeg *thuein*. Dangoswch bwysigrwydd geirdarddiaeth wrth ddehongli ystyr enwau priodol. Pa mor bell y mae geirdarddiaeth yn arweinydd i'r ystyr mewn cyfieithiad? Pa un ai yr arferiad o eiriau neu eirdarddiaeth sydd i'w dewis fel arweinydd?

Beth yw lle cyffelybrwydd wrth benderfynu ystyr geiriau? Mynegwch beth yw ystyr gyffredin *yod*, wedi ei gosod i derfynu enw, ac eiddo enw berfol yn dechreu â *mem*. Beth yw ystyr cyffredin y ffurfiau Hiphil o ferfau? Beth yw dechreuad defnyddiad berfau canolryw yn y Testament Newydd mewn ystyr weithredol? Rhoddwch enghreifftiau. Cyfieithiwch y Groeg o Math. 6, 16; 6, 11; a chyfiawnhewch eich dehongliad.

Pa le sydd yn deilwng mewn cyfieithad i dystiolaeth ieithoedd cyddrasol. Esboniwch ac eglurwch eu defnyddioldeb, *a, b, c, d*.

Yn achos y Testament Newydd, cawn gymhorth arferiad clasurol i esbonio ystyr ymadroddion neillduol: Eglurwch y ffaith yma drwy gyfeiriad at Roeg Act. 17, 31; 1 Tim. 2, 10; Gal. 2, 14; Luc 15, 12; Marc 14, 72; Ioan 5, 5; Luc 22, 42. Enwwch yr awduron sydd wedi rhoddi egluriadau helaeth ar y pwnc yma. Rhoddwch siamplau o'r cynnorthwyon dehonglyddol a geir oddiwrth weithiau Philo a Josephus (adr. 324). Enwwch yr awduron sydd wedi rhoddi egluriadau helaeth ar y pwnc yma.

Pa mor bell y mae gwybodaeth o'r Hebraeg yn gwasanaethu i egluro Groeg y Testament Newydd? Rhoddwch siamplau o Hebreigiaethau perffaith ac anmherffaith yn y Testament Newydd. Nodwch y gweithiau yn mha rai y mae Hebreigiaethau y Testament Newydd yn cael eu hegluro yn fwyaf cyflawn.

Beth yw defnydd yr egluriadau a'r arnodiadau henafol, yn nghyd ag ysgrifeniadau y tadau boreuol? Eglurwch ddefnyddioldeb yr ysgrifeniadau yma drwy esboniad ar Math. 5, 18; 6, 7; 1 Ioan 2, 12; Luc 9, 51. Rhoddwch enwau a dyddiadau y prif arnodiadau Groegaidd, a mynegwch yn mha le y mae casgliad o arnodiadau ymyl-ddalenol wedi eu cymmeryd o hen lawysgrifau, i'w cael. Yn mha le y gallwn gael golwg ar egluriadau o ymadroddion duwinyddol, ac yn mha le y ceir golwg ar eu hesboniadau ar yr Ysgrythyr?

Beth yw gwerth y Deg a Thri ugain i amcanion dehonglyddol? Olrheiniwch wreiddyn defnyddiad *diatheke, alètheia, nomos, sugkrinein, to tes amartias, o erchomenos*, yn y Testament Newydd, a rhoddwch ystyr pob un. Nodwch ieithweddau Hellenaidd ereill yn y Testament Newydd. Rhoddwch ystyr cymmod, dyhuddiant, Iawn, tros-osodiad, boddlonrwydd, prynedigaeth, iachawdwriaeth (adr. 329 *k*). Beth a olygir wrth "gymmod" yn y Testament Newydd, a pha beth yn yr Hen? Pa gyfnewidiad deublig a gymmer le ynddo? Darnodwch ddigofaint mewn cyssylltiad â Duw. Beth yw ystyr "iawn" yn y Testament Newydd, a pha beth yn yr Hen. Rhoddwch y Groeg a'r Hebraeg am wneyd iawn, dyhuddo, boddloni, a mynegwch ddau ystyr y geiriau yma. Pa fodd y mae y gair

Hebraeg am iawn yn dàl perthynas â phrynedigaeth? (adr. 329 *f*). Rhoddwch ystyriaethau prynedigaeth, a dywedwch beth y gelwir pris ein prynedigaeth ni. Mynegwch yn mha ystyriaethau y defnyddir prynedigaeth yn y Testament Newydd. Rhoddwch ystyr boddlonrwydd, a mynegwch yn mha le y defnyddir ef yn yr Ysgrythyr? Pa ciriau y mae *tros-osodiad* yn eu cynnrychioli? Nodwch ranau lle y mae athrawiaeth tros-osodiad yn gynnwysedig. Mewn pa beth y mae iachawdwriaeth yn gwahaniaethu oddiwrth brynedigaeth? Pa air sydd yn cysssylltu iachawdwriaeth âg aberth? Nodwch y mynegai Groeg, a'r un Hebraeg goreu, neu rhyw lyfrau ereill yn mha rai y gall y darllenydd gael allan gyfochreddau geiriawl gwirioneddol yr Ysgrythyrau gwreiddiol.

Mynegwch pa fannod a feddianna yr iaith Roeg. Pa fodd y gosodir allan y fannod *anmhennodol?* Pa feddylddrych a gyflwynir gan ddefnyddiad y fannod bennodol? Cymharwch yr arferiad Seisonig a Chymreig â'r un Groeg am ddefnyddiad y fannod mewn cyssylltiad â phethau hollol adnabyddus, neu a ystyrir fel yn bresenol i'r synwyrau (adr. 333, *a*, 1—4). Arferir y fannod mewn achosion y byddo y defnyddiad yn ymddibynu ar y cyd-destun (*b* 1—3): Eglurwch y rheol yma, a chymharwch hi â'r Saesoneg a'r Gymraeg.

Mynegwch arferiad y Groeg o berthynas i enwau dansoddol, enwau yn cynnrychioli gwrthddrychau mewn natur, yn bodoli yn unigol neu yn sylweddau naturiol cyflawn, o berthynas i eiriau yn gosod allan rhywogaeth, dosparthiadau o oruchwylwyr, drychfeddyliau adnabyddus i bob dosparth o ddarllenwyr, ac eglurwch eich rheol. Nodwch ac eglurwch y gwahaniaeth rhwng Ioan, Luc, a Mathew wrth ddefnyddio y fannod, mewn achosion neillduol. Enwwch yr eithriadau i'r rheol olaf yma (adr. 334, *a*, *b*, *c*). Pa amcan a atebir yn aml drwy adael y fannod allan? (adr. 336). Yn nghyflëad geiriau, mynegwch pa bryd y gosodir y fannod o flaen y cyntaf yn unig (*a*, *b*, *c*, *d*), a pha bryd yr ail osodir hi (*e*, *f*). Nodwch unrhyw adnodau lle y gwneir yr athrawiaeth gynnwysedig yn eglurach drwy dalu sylw i rym y fannod. Rhoddwch yn fyr hanes ymchwiliadau diweddar i'r pwnc yma. Beth yw golygiadau Boyle a Cecil ar fyfyrdod o'r Ysgrythyrau gwreiddiol?

Dos. 6. *Am ddefnydd Cynnorthwyon Allanol i fyfyrio y Beibl, adran* 339—404.

Beth yw defnyddioldeb myfyrdod o gynnorthwyon allanol mewn trefn i ddehongli yr Ysgrythyr? Rhai a'u gwnant yn brif destunau eu myfyrdod, ereill a'u diystyrant: Pa ffeithiau ddylent ddiwygio y ddwy duedd yma?

Eglurir ystyr yr Ysgrythyr yn aml *gan wybodaeth o'r golygiadau a ffynent yn mhlith yr Iuddewon* yn amser ein Harglwydd: Rhoddwch siamplau ("teyrnas nefoedd," "geni drachefn," "pechodau y galon," &c.). Nodwch brif ffynnonellau ein gwybodaeth o'r opiniynau hyn, a rhoddwch ocheliad sydd yn cael ei awgrymu er ein harwain wrth eu defnyddio (adr. 342).

Y mae *gwybodaeth o opiniynau y ceuedloedd* oeddynt yn amgylchynu yr Iuddewon yn fynych bwysig: Nodwch arferion neu opiniynau a ffynnent yn yr Aifft neu Phœnicia, ac yn mhlith y Persiaid, sydd yn egluro ffeithiau neu fynegiadau yn yr Ysgrythyr. Nodwch opiniynau cyffredin yn mysg y Gnosticiaid, yr Epicureaid, a'r Stoiciaid, sydd yn cael eu beio

yn y Testament Newydd. Golygiadau yr Ebioniaid a daflant oleuni ar ddysgeidiaeth Paul am Ddwyfoliaeth ein Harglwydd, ac annefnyddioldeb y gyfraith Foesenaidd: Pa fodd? Pa ocheliad a ddylid ei gofio wrth gymhwyso yr egwyddor yma?

Y mae gwybodaeth o hanes henafol gyffredin yn ddefnyddiol: Pa ffeithiau tebygol sydd yn egluro ymadrodd yn Gen 46? Beth yw yr esboniad goreu ar Deut. 28, a'r 24 o Fathew? Eglurwch Act. 9, 31: 17, 16, drwy hanesiaeth gyffredin, a dangoswch oddiwrth yr un peth fawrhydi ymddygiad Paul, fel y desgrifir ef yn Act. 24, 25.

Felly, y mae *hanesiaeth eglwysig* hefyd: Dangoswch pa fodd yr oedd y dysgyblion yn deall ac yn cadw Marc 16, 15—20. Beth oedd barn foreuol Cristionogion yn gyffredinol am Ddwyfoliaeth ein Harglwydd? Beth oedd eu barn am y ddyledswydd o chwilio yr Ysgrythyrau? Rhoddwch brofion. Os dywedir fod y ffydd hon yn cael ei gwneyd yn yr achosion yma i orphwys ar opiniynau dynion, beth yw eich atebiad? (adr. 349).

Nodwch y dyddiadau y cafodd prif gyfeiliornadau eglwys Rhufain eu cadarnhau gyntaf mewn modd ffurfiol. Beth yw y casgliad cyfreithlawn oddiwrth y ffeithiau yma? Nodwch y gwahaniaeth rhwng hanes o'r fath yma a'r Ysgrythyr.

Y mae *gwybodaeth o amseriaeth* yn bwysig: Eglurwch bwysigrwydd amseriaeth wrth dynu gwersi moesol o'r Beibl (adr. 353). Beth yw y prif gyfnodau amseryddol? Oddiwrth ba gyfnodau y cyfrifa yr Iuddewon? O ba le yr ydym ni yn casglu hŷd y cyfnod rhwng y crëad a'r diluw? Ar gyfrifiad pwy y mae y cyfleithiad Saesonig a'r un Cymreig yn seiliedig? Pa destun y maent yn ei ganlyn? Beth yw cyfrifiad yr Iuddewon diweddar? Mynegwch y gwahaniaeth rhwng y Deg a Thri ugain a'r Hebraeg yn y cyfnod rhwng y crëad a'r diluw, rhwng y diluw a'r mynediad allan o'r Aifft: Beth yw dechreuad y gwahaniaeth yma? Mynegwch y gwahaniaeth rhwng amseryddwyr yn y cyfnod rhwng y mynediad allan o'r Aifft a sylfaeniad y Deml. Beth yw barn Usher, ac ar ba adnod y mae yn seiliedig? Beth yr ymddengys yw barn Paul? Beth yw cyfrifiadau Josephus? Nodwch unrhyw gyfrifiad arall a ellwch ei gofio. Trwy ba resymau y mae awduron wedi amddiffyn yr amseriaeth hwyaf, yn gyffredinol, a thrwy ba resymau yr amddiffynant yr un feraf? Pa olygiad sydd, ar y cyfan, yn ymddangos yn fwyaf tebygol? Eglurwch yr anhawsdra i ffurfio amseriaeth gywir oddiwrth y rhwyddineb gyda pha un y gellid gwneyd camsyniadau wrth adysgrifio, oddiwrth y moddau gwahanol o gyfrif y flwyddyn, ac oddiwrth amryw neillduolion cyfrifiadol a geid yn mysg yr Iuddewon (adr. 358, *a-d*). Pa fodd y cyssonwch y gwrthddywediad ymddangosiadol yn Daniel 1, 1, a Jer. 25, 1: Gen. 46, 26, 27, ac Act. 7, 14: Ezra. 2, a Neh. 7, 3. Pa ddwy rheol ymarferol sydd yn bwysig wrth ffurfio cyfundraeth amseryddol." Beth yw canol-bwnc amseryddol Actau yr Apostolion, yr Epistolau, ac amseriaeth yn gyffredinol? Pa gymhorth y mae y daflen o ddiffygion (*eclipses*) yn ei roddi i benderfynu amser dechreuad y flwyddyn Iuddewig, a pha fodd? Yn mha le y mae diffygion o'r fath wedi eu cofnodi?

Y mae *gwybodaeth o hanesiaeth naturiol* yn fynych yn ddefnyddiol: Mynegwch arferion y balm a'r gedrwydden sydd yn egluro Salm. 92, 12. Eglurwch Deut. 32, 11, oddiwrth arferion yr eryr. Nodwch nodweddau neillduol perthynol i'r asyn, y ddafad, a'r llew, sydd yn taflu goleuni ar ranau o'r Ysgrythyr (adr. 359). Nodwch bethau perthynol i oleu a balm a daflant oleuni ar ranau o'r Ysgrythyr. Rhowch wir gym-

meriad, defnydd, a lle y mae hyny yn adnabyddus, ystyr arwyddluniol y gwahanol blanigion a choedydd a nodir yn yr Ysgrythyr (adr. 360). Felly hefyd am sylweddau daearol a mewnol (adr. 361.) Felly am feini a chreigiau. Felly am feini gwerthfawr. Felly am feteloedd.

Y mae *gwybodaeth o arferion a defodau* yn ddefnyddiol: Beth, fel y mae yn debygol, oedd preswylfeydd dynolrhyw? Beth oedd lliw cyffredin y babell ddwyreiniol? ei ffurf? Pa adeilad nodedig yn yr Ysgrythyr a adeiladwyd yn ol cynllun y babell? O ba le y cymmerodd yr Iuddewon gynlluniau eu hadeiladau? I ba ddyben yr ymddengys fod bwthynod yn cael eu ddefnyddio yn Mhalestina? Pa fath rai oedd tai y tlodion? Pa adnodau a gyfeiriant at y ffaith yma? Darluniwch un o dai y cyfoethogion, y muriau, yr ystafelloedd, y cyntedd, y gronglwyd. Nodwch ranau o'r Ysgrythyr sydd yn cael eu hegluro gan y ffeithiau yma? Desgrifiwch y drws dwyreiniol, y ffenestr, y cloion, y ffumerau. Pa ddodrefn a gynnwysai yr ystafelloedd yma, pa lestri? Nodwch destunau o'r Ysgrythyr sydd yn cael eu hegluro gan y ffeithiau hyn. Beth oedd cymmeriad cyffredin trefi Palestina? I ba ddyben oedd y lle agored yn agos i'r pyrth? Pa adnodau a eglurir gan y ffeithiau yma? Beth oedd yn gwneyd i fyny y wisg Iuddewig? Beth yw ystyr gyffredin y gair "noeth" yn yr Ysgrythyr? Pa fodd yr oedd llewis yn cael eu gwisgo? Pa bryd y "dynoethid" y fraich? Pa fodd y defnyddid y wisg allanol? Beth a olygir wrth yr arffed? Beth wrth y fynwes? Mewn pa beth yr oedd cyfoeth dwyreiniol i raddau helaeth yn gynnwysedig? Beth oedd yn cael ei arwyddo mewn anrheg o wisg? Mynegweh beth a ddefnyddid weithiau yn grys sengl. Beth a arwyddai y wisg rwygiedig? Beth oedd yn cael ei ddwyn yn y gwregys? Pa fodd a chan bwy yr oedd llodrau yn cael eu gwisgo? Pa fodd y gwisgid y traed? I ba ddybenion ereill y defnyddid yr esgid? Beth oedd dattod yr esgidiau yn ei arwyddo? Pa fodd y gwisgid y pen? Darluniwch pa fodd y trinid gwallt y pen a'r farf. Beth oedd ymborth cyffredin yr Israeliaid? (adr. 366). Pa fodd yr oedd bara yn cael ei wneuthur a'i grasu? Pwy oedd yn gwneyd hyn? Desgrifwch amser a chymmeriad cyffredin y prydiau bwyd Iuddewig, agwedd y gwesteiwyr, a pha fodd y bwytëid yr ymborth? Nodwch unrhyw gyfnewidiad yr ymddengys fod arferion yr Iuddewon yn y peth hwn wedi myned drwyddo. Beth oedd y ddiod gyffredin? Beth oedd finegr yr Ysgrythyr? Beth oedd y gwin a'r myrr a wrthodwyd gan ein Ceidwad, a phaham y gwrthododd ef? Pa fodd y defnyddir y gair "cwpan" yn yr Ysgrythyr? Beth oedd gwin cymmysgedig? Pa fodd yr oedd gwahanol fathau o olew yn cael eu defnyddio yn Mhalestina? Eglurwch y "blwch enaint" toredig yn Marc 14, 3, a'r "tywyllwch eithaf" yn Math. 8, 12.

Nodwch ffynnonellau y cyllid breninol yn hanes foreuol Palestina, a pha drethi oedd o ddechreuad Persiaidd neu Assyriaidd. Beth oedd y tair phrif dreth yn Judea yn nyddiau ein Harglwydd? I ba beth yr oedd cyfnewidwyr arian yn angenrheidiol? Pwy oedd y Publicanod? Pwy oedd y pen Publican? Oddiwrth ba dreth yr awgrymodd ein Harglwydd y dylasai efe fod yn rhydd, a phaham?

Nodwch y prif bwysau Iuddewig, a rhoddwch eu pwysau mor agos ag y galloch mewn mesur Troy Seisonig. Nodwch yr hyd-fesurau Iuddewig (byr a hir), a'u gwerth mewn mesur Seisonig? Nodwch y mesur Iuddewig i gynnwys hylifau, a'r mesur i gynnwys pethau sychion, a'u gwerth mewn mesur Seisonig. Enwwch yr arian Iuddewig, a'i gwerth mewn arian Seisonig. Pa fodd y mae y cyfrifiadau olaf yma yn gosod allan werth arian

Iuddewig mewn cymhariaeth i werth diweddar? Mynegwch pa arian Iuddewig sydd yn cael eu nodi yn y Testament Newydd, a rhoddwch eu gwerth. Pa bryd y bathwyd siclau gyntaf? Beth a olygir wrth sicl yn llyfrau boreuaf y Beibl? Beth yw y darn bathol cyntaf a nodir yn yr Ysgrythyr, a pha faint yw ei werth? Pa faint oedd gwerth y *drachnia* Groegaidd? Nodwch unrhyw wersi a ddysgir gan y taflenau yma (adr. 376).

Pa flwyddyn ddefnyddiai yr Iuddewon wrth gyfrif? Gan bwy y defnyddir pob un? Beth yw dechreuad enwau presenol y misoedd Hebreig? Pa fodd y cyfrifid y dydd? Pa fodd y cyfrifid y nos ar gyfnodau olynol? Pa wahaniaeth oedd rhwng y dull Iuddewig a'r un Rhufeinig o gyfrif? Eglurir amryw adnodau gan y ffeithiau hyn, nodwch rai o honynt. Cyssonwch fynegiad Ioan i Grist gael ei ddwyn allan ar y *chwecked* awr, ac eiddo yr efengylwyr ereill, yr hwn sydd yn cynnwys mai y *drydedd* awr ydoedd. Pa faint o amser yr ymddengys i Grist dreulio mewn gweddi? (Marc 6, 48). Pa fodd yr ydych yn egluro, "Ac wedi tridiau yr adgyfodaf," pan na fu yn y bedd ond diwrnod a hanner yn unig?

Trowch i'r adnodau canlynol, ac eglurwch yr arferion y cyfeirir atynt ynddynt:—Act. 18, 3; Marc 14, 15; Rhuf. 8, 23; Act. 20, 37; Luc 12, 4; Math. 22, 11, 12. Beth oedd yr arwydd o ddirmyg yn mhlith yr Iuddewon? Darluniwch y ddau fath o westdai oedd yn gyffredin yn y dwyrain. Desgrifiwch y dulliau dwyreiniol o gladdu a galaru. Pa fodd yr oedd croeshoeliad ein Harglwydd yn gyflawniad prophwydoliaeth? At ba arferion y cyfeirir yn Ioan 7, 37; Luc 19, 12; Dad. 2, 17? Mynegwch y dybenion i ba rai y defnyddid seliau yn y dwyrain. Nodwch unrhyw adnodau a eglurir gan eich mynegiad.

Cymmerwch ddarlunlen (*map*), a nodwch allan le ymsefydliad cyntaf dynoliaeth. Dangoswch y gwledydd yn mha rai y gwladychodd gwahanol feibion Noah. Symudwch i Libanus, a nodwch allan y lleoedd canlynol, yn nghyd a ffeithiau nodedig cyssylltiedig â hwynt:—Mesopotamia, Arabia, Petræa, Arabia Felix, Libanus, ac Antilibanus, Cœlo-Syria, Baalbec, Damascus, "Ynysoedd y Môr," Achaia, Tarsis. Nodwch allan borfeydd Basan, a rhoddwch gymmeriad y wlad. Desgrifiwch ddyffryn yr Iorddonen, gwastadedd Saron, a dangoswch pa fodd y mae Judea wedi ei chau i fyny ar bob tu. Rhoddwch sefyllfa a hanes dyffryn Esdraelon, Jericho, Hebron, Gilgal, Silo, a Beerseba.

Rhoddwch wahanol enwau Palestina. Beth yw ei hŷd a'i lled? Pwy a'i meddianodd ar ol y gwasgariad, a pha fodd y rhanwyd hi gan Josua? Pa fodd y rhanwyd hi gan Solomon? Pa fodd yr oedd yn rhanedig yn nyddiau cin Harglwydd? Paham y dirmygid Galilea gan yr Iuddewon? Rhoddwch enwau yr Hen Destament ar Ituræa, Auranitis, Gaulonitis, Batanea. Beth yw y tri dosparthiad diweddaraf o'r wlad? Mynegwch pa fodd y cafodd y wlad ei llywodraethu o c. c. 37 i o. c. 44. Mynegwch beth oedd cyllid pob rhan o'r wlad ar farwolaeth Herod Fawr. Beth yw ymddangosiad anianyddol Palestina? Rhoddwch y prif uchelfanau, a dyfnder y Môr Marw, a dyffryn yr Iorddonen. Desgrifiwch y cynnyrchion, a dangoswch pa fodd y mae cyflwr anianol y wlad yn gyfaddas i amcan Duw yn gosod yr Israeliaid ynddi. Rhoddwch ei phoblogaeth ar yr amser presenol, ac yn amser Dafydd. Cymharwch ei ffrwythlondeb mewn amseroedd hen a diweddar, a rhoddwch yr eglurhad Ysgrythyrol o'r gwahaniaeth. Rhoddwch enwau, yn nghyd ag ymddangosiad cyffredin, a sefyllfa Jerusalem. Beth oedd ei maintioli yn amser Titus? Rhoddwch hanes mynydd Moriah. Beth yw helaethrwydd ac ystyr y gair "teml" yn yr

Ysgrythyrau Cymreig? Rhoddwch yn fyr, hanes y deml gyntaf, ac eiddo yr âil (adr. 393). Beth yw meddwl Ioan 2, 20? Pa fodd y mae Haggai 2, 9, yn cael ei chyflawnu? I ba ddyben y sefydlwyd y farchnad yn y deml? Yn mha le yr oedd cyntedd y gwragedd? Mynegwch yr arysgrifau oedd wedi eu gosod gerllaw iddo. Yn mha le yr oedd cyntedd yr Israeliaid, a'r offeiriaid? Yn mha le yr oedd y lle Santaidd? Y Santaidd Santeiddiolaf? Pa beth a gafwyd yno pan ddinystriwyd y ddinas gan Titus? O ba le yr ydym yn dysgu ffurf y canwyllbren, bwrdd y bara gosod, a'r udgyrn Santaidd a ddefnyddid yn yr addoliad Iuddewig? Yn mha le yr oedd marchnad y defaid? Pa le yr oedd y Prætorium a Gabbatha? Darluniwch daith ein Harglwydd y nos y bradychwyd ef (adr. 394). Yn mha le y mae dyffryn Jehosaphat, ac am ba beth y mae yn nodedig? Rhoddwch hanes Glyn Hinnom, a pha enw yn y Testament Newydd sydd wedi ei gymmeryd oddiwrtho? Mynegwch pa drychinebau y mae y ddinas wedi myned drwyddynt er amser ein Iachawdwr. I ba le y symudodd llawer o'r Iuddewon ar ol dinystr Jerusalem? Beth yw ystyr Asia yn y Testament Newydd? A pha beth yn aml yw ystyr "môr," "tueddau?" Pa fodd yr oedd yr Iuddewon yn defnyddio y gair "Groeg" yn nyddiau ein Harglwydd? Paham y gelwir y wraig o Ganaan, a nodir yn Marc 7, 26, yn Syro-Phœniciad? Beth yw cymhwysiad y gair "Groegwr" yn y Testament Newydd? Eglurwch Ioan 4, 4; Esa. 28, 1; Obad. 3: a chyssonwch Luc 24, 50, âg Act. 1, 12, Eglurwch ystyr y gwahanol enwau Arabaidd a geir yn gyffredin mewn darlunleni o'r Dwyrain,

Rhoddwch enwau y blynyddoedd Iuddewig yn eu trefn, yn nghyd a'r gwyliau. Darluniwch chwyl (*progress*) tymmorau y flwyddyn. Enwch y ffrwythau yn nhrefn eu haddfediad. Nodwch unrhyw neillduolrwydd yn hinsawdd Judea gyda golwg ar wres, gwlaw, y gwyntoedd, y Simoom, ffynnonau, oerfelgarwch y nos; a nodwch rhyw adnodau o'r Ysgrythyr sydd yn cael eu hegluro gan y ffeithiau yma. Pa fynegiad o eiddo Philo, o berthynas i'r Aifft, sydd yn rhoddi cadarnhad i Zech. 14, 18? Pa beth neillduol sydd yn y modd y mae yr Ysgrythyr yn llefaru am y tywydd? Mynegwch pa le y gellir cael hyfforddiad cyflawn ar ddaearyddiaeth anianyddol tiroedd y Beibl. Nodwch wyliau, tymmorau, a chynnyrchion Judea fis ar ol mis (adr. 493). Cymharwch amseroedd gauaf a haf yn Mhalestina ac yn Lloegr (adr. 404). Pa bryd y mae amser hau ac yn gynhauaf yn Mhalestina? Pa bryd y mae y cynnar, a pha bryd y mae y diweddar wlaw? Beth yw effaith pob un? Pa mor bell y mae gwlaw yn arferol yn yr haf? Beth yw sefyllfa yr Iorddonen yn mis Ebrill, a pha ran o'r Ysgrythyr a eglurir gan y ffaith? Pa fodd y meddylia Lamy fod yr Iuddewon yn dosparthu y gyfraith? Pa ffaith sydd yn egluro sêl y bobl, fel y cofnodir ef yn 2 Cron. 30, 23? Pa wirioneddau a ddysgir gan yr amser y croeshoeliwyd ein Harglwydd, ac yr adgyfododd oddiwrth y meirw? Beth a ddysgir gan dywalltiad yr Ysbryd ar ddydd y Pentecost? Pa ffaith sydd yn gwneuthur y gymhariaeth a roddir yn Math. 23, 27—29, yn hynod briodol? (adr. 404).

Dos. 7. *Ar ddehongliad yr Arallegau yn yr Ysgrythyrau, Adran* 405—433.

Y mae rhai rhanau o'r Ysgrythyr yn caniatâu ac yn gofyn ystyr ddeublyg: Pa rai ydynt, ac o dan ba enw cyffredinol y cynnwysir hwynt? Mynegwch pa fodd y mae arallegau yn gwahaniaethu oddiwrth ddammeg-

ion. Pa mor bell yr ydym i ddysgwyl cydgordiad rhwng ystyr geiriol ac ystyr arallegol unrhyw gyfran o'r Ysgrythyr? Dan ba amgylchiadau y mae dammegion yn hynod briodol? Beth sydd ofynol cyn myned yn mlaen i ddehongli aralleg? (adr. 409),

Nodwch y rheol *gyntaf* er dehongli arallegau. Pa fodd y mae penderfynu amcan aralleg? (adr. 410). Pa fodd y penderfynwn amcan Salm 80ain, y Caniadau, a'r Dammegion? Pa fodd y penderfynir amcan cysgod? Pa egwyddor a osodir i lawr ar y pwnc yma yn yr Epistol at yr Hebreaid? Wedi penderfynu yr amcan, beth a wneir i ddehongliadau annghysson âg ef? Eglurwch eich mynegiad. Mynegwch ac eglurwch yr ymddyddaniad (adr. 412) oddiwrth ddammeg y Mab Afradlon. Pa mor bell y mae holl fanylion aralleg i gael eu hesbonio mewn modd ysbrydol? Nodwch y ddwy reol ddehonglyddol arall (adr. 414, 415). O ba reol gyffredin y mae y rhai hyn yn gyfagweddiad (*modification*)? Eglurwch bob un o'r rheolau. Enwch ddammegion yr Hen Destament. Nodwch yr egwyddor ar ba rai y mae Neander wedi trefnu dammegion y Testament Newydd? Rhoddwch drefniadau y Dr. Gray, a Greswell, a Lisco. Ar olygiadau gwahanol am ba beth y mae y trefniadau yma yn gorphwys?

Paham y mae rheolau dehonglyddol arallegau yn gymhwysiadol at lawer o hanes yr Iuddewon? Dangoswch beth oedd yn gysgodol yn eu hanes a'u sefydliadau hwynt. Beth yw mynegiad Augustine ar y pwnc yma? Nodwch y rheolau cymhwysiadol at y cyfryw ddehongliad. Ar y fath yma o ddehongliadau, rhoddwch ocheliadau seiliedig ar siampl yr ysgrifenwyr ysbrydoledig. Pa fodd yr oedd yr hen Iuddewon yn arallegu yr Ysgrythyr? Rhoddwch enghreifftiau. Pa fodd y mae ereill wedi ei harallegu? Rhoddwch enghreifftiau (adr. 429). Mynegwch drydydd lwybr, yr hwn hefyd sydd ddrygionus, a rhoddwch enghreifftiau. Pa ystyriaethau a'n cynnorthwyant i iawn ddefnyddio dehongliadau arallegawl? Y mae cysgodau, nid yn unig yn eglurhäol, ond hefyd yn brophwydol; ac y maent, gan hyny, yn perthyn i brawf: Eglurwch y mynegiad yma. Pa weithiau ar ddammegion, cysgodau, a dehongliad arallegol yn gyffredinol sydd yn cael eu nodi yma?

Dos. 8. *Ar Ddehongliad Prophwydoliaeth, Adran* 434—454.

Beth yw ffynnonellau anhawsderau dehonglyddiaeth brophwydol? Pa fodd y desgrifir prophwydoliaethau yn yr Ysgrythyr? Dangoswch pa fodd y mae y desgrifiadau yma wedi achosi amrywiaethau yn yr ieithwedd. Llefarir am ddygwyddiadau dyfodol fel yn bresenol, fel wedi myned heibio, ac fel yn parhau: Eglurwch bob un o'r mynegiadau yma. Rhoddwch enghreifftiau yn mha rai y mae yr amser pennodol yn cael ei ddadguddio i'r prophwyd, ac enghreifftiau yn mha rai y mae dygwyddiadau dyfodol yn cael eu cydgymmysgu, neu eu gosod allan fel yn barhaus, pan nad ydynt felly. Y mae iaith brophwydol yn aml yn gymhariaethol: Paham? Mewn eglurhad ar y nodiad yma, rhoddwch yr enwau a'r desgrifiadau a gymhwysir yn y prophwydi at Grist, ac at ei eglwys (adr. 436). Dangoswch fod llawer o iaith y Testament Newydd wedi ei benthycio yn yr un modd oddiwrth y cyfammod âg Abraham, hanes gwaredigaeth yr Israeliaid o'r Aifft, y gyfraith Lefiticaidd, tymmor sefydliad y deyrnas, a chyflwr pobl Dduw gynt yn nyddiau y prophwydi. Pa bwnc dehonglyddol sydd yn ymgyfodi o'r neillduolrwydd yma? Rhoddwch enghreifftiau o gymhwysiad deublyg at y cysgod ac at y gwrthgysgod. Pa fodd y cyflawnir

y prophwydoliaethau hyny yn mhob un o'r achosion uchod? Pa fodd y mae i rai prophwydoliaethau fwy nag un cyflawniad? Pa reolau dehongl-yddol sydd yn hynod gymhwysiadol at fyfyrdod o'r Prophwydi? Eglurwch y *rheol gyntaf*, ac eglurwch hi allan o Esaiah a Zechariah. Mynegwch yr *ail*. Pa fodd y darlunir cystuddiau, a chyfryngiadau neillduol, a llawenydd gwaredigaeth? Dangoswch pa fodd y gellir casglu y ffaith fod geiriau yn cael eu defnyddio yn ffigurol, oddiwrth y geiriau eu hunain, oddiwrth y cyd-destun, oddiwrth adnodau cyfochrog. Rhoddwch y *drydedd* reol mewn dehonglyddiaeth brophwydol. Rhoddwch enghreifftiau o ragfynegiadau cyfochrawg. Mynegwch y *bedwaredd* reol. Beth a ymddengys oddiwrth y Testament Newydd yw pwnc mawr prophwydoliaeth? Pa wersi a ddysgir gan y ffaith yma?

Nodwch bynciau yn mha rai y mae dehongliadau llythyrenol ac ysbrydol prophwydoliaeth yn cyduno (adr. 445, 1—4). Mynegwch yn mha beth y gwahaniaethant (adr. 446), yn nghyd a seiliau eu gwahaniaethiad. Rhoddwch sylwedd cynllun Powel fel y rhoddir hi yn ei Fynegai, ac eiddo Mr. Bickersteth. Pa fodd y mae y cynllun o ddehongliad llythyrenol y prophwydoliaethau a ddyfynir gan Powel a Bickersteth? Pa fodd y gwna yr un ysbrydol? Mynegwch yn mha ystyriaethau y defnyddia yr Ysgrythyr yr ymadrodd "dyfodiad Crist." Yn mha beth y mae cyssondeb sylweddol rhwng y ddau gynllun yma?

Beth yw y golygiad a gymmerir yn gyffredin am barhad dydd prophwydoliaethol, ac ar ba beth y sylfaenir y golygiad yma? Beth yw y golygiad am "amser?" Pa mor bell y mae yn ymddangos fod Duw yn bwriadu rhoddi i ni wybodaeth fanwl o berthynas i amseroedd a thymmorau prophwydoliaeth. Rhoddwch enghreifftiau o brophwydoliaethau cyflawnedig, yn mha rai y mae aneglurder mawr yn y cyfrifiad. Rhoddwch farn Syr Isaac Newton ar y pwnc. Yn nghanol anhawsderau y cynlluniau yma, y mae dwy ffaith sydd yn dra chyssurol: Eglurwch hyn.

Yn mha lyfrau y gallwn gael golygiad cyflawn ar holl brophwydoliaethau yr Ysgrythyr? Pa mor bell y mae prophwydoliaeth yn llenwi y llyfrau hanesyddol? Nodwch unrhyw brophwydoliaethau sydd i'w cael yn rhanau hanesyddol yr Ysgrythyr. Yn mha le y gallem gael ymdriniaeth gyflawn ag iaith arwyddluniawl yr Ysgrythyr? Rhoddwch ystyr arwyddluniawl y gwahanol ymadroddion cynnwysedig yn adran 454.

PENNOD V.

Ar Fyfyrdod Rheolaidd o'r Ysgrythyr.

Dos. 1. *Ar Fyfyrdod o Athrawiaethau yr Ysgrythyr, Adran* 455—464.

Yn mha wahanol ffurfiau y gall dadguddiad gael ei roddi? Ar ba ddwy egwyddor wahanol y gellir trefnu gwirionedd? Darnodwch gyfundraeth wirioneddol o dduwinyddiaeth. Pa mor bell y mae y gorchwyl o drefnu sydd yn cael ei ofyn gan gyfundraeth o'r fath yn cynnwys rhywbeth perthynol yn neillduol i'r Ysgrythyr? Dangoswch y berthynas sydd rhwng dehongliaeth a duwinyddiaeth reolaidd. Esboniwch pa fodd y mae gorchymyn yn cynnwys athrawiaeth, ac athrawiaeth orchymyn. Mynegwch y ddau olygiad eithafol a goleddir am bwysigrwydd myfyrdod rheolaidd o'r Ysgrythyr. Dangoswch gyfeiliornadau pob un. Darnodwch dduwinyddiaeth athrawiaethol ac ymarferol, a dangoswch pa fodd y gellir ffurfio cyfundraeth. O ba le y mae ein cyfundraeth ni i'w chymmeryd ar

y cyntaf. Pa reolau dehonglyddol sydd yn dàl cyssylltiad â hyn? Dangoswch beth a feddylir wrth ddàl athrawiaethau mewn cyssondeb, ac eglurwch eich meddwl. Rhaid i wirionedd gael ei gynnal gyda golwg arbenig ar yr amcanion ymarferol i ba rai y mae yr Ysgrythyr yn ei ddadguddio: Eglurwch y rheol yma mewn cyssylltiad âg "*etholedigaeth*," "dylanwad Satanaidd," "canlyniadau y pechod cyntaf," a'r "Drindod." Gyda pha gyfyngiad yr ydym i dderbyn casgliadau wedi eu tynu gan ein rheswm ni oddiwrth osodiadau seiliedig ar yr Ysgrythyr? Eglurwch eich atebiad, a rhoddwch syniad Jeremy Taylor, ac eiddo y merthyr Ridley, ar y pwnc yma; rhoddwch y rheolau er penderfynu pwysigrwydd cymharol gwirionedd duwinyddol (1—4). Oddiwrth y rheolau yma, dangoswch y pwysigrwydd sydd i'w gyssylltu â marwolaeth ac adgyfodiad ein Harglwydd. Nodwch unrhyw egwyddorion a ddylent reoleiddio cymhwysiad pob rheol er ffurfio cyfundraeth o dduwinyddiaeth (adr. 464). Pa fodd y mae i ni egluro y mynegiadau Ysgrythyrol sydd (1) yn priodoli yr un weithred i wahanol bersonau, ac (2) yn priodoli pethau a ymddangosant yn wrthwynebol i'r un person? Pa fodd y mae i ni gyssoni y gwynfydau yn Mathew â'r addewid am iachawdwriaeth drwy ffydd yn unig?

Dos. 2. *Ar Fyfyrdod o Orchymynion yr Ysgrythyr, Adr.* 465—472.

Pa mor bell, ac ar ba seiliau, y mae gwybodaeth o athrawiaeth Ysgrythyrol yn hanfodol i santeiddrwydd? Y mae yr Ysgrythyr yn llyfr o egwyddorion mewn dwy ystyr: Pa rai ydynt? Dangoswch oddiwrth ddysgeidiaeth ein Harglwydd fod y nodiad yma yn gymhwysiadol at y deg gorchymyn, yn gystal ag at yr efengyl. Hyd y nod gorchymynion penodol a gynnwysant egwyddorion pwysig: Eglurwch y mynegiad yma. Pa ddwy reol (gan yr Archesgob Secker) sydd yn bwysig wrth ddehongli gorchymynion y gyfraith? Y mae gorchymynion yn foesol, pendant, a chymmysgedig: Nodwch un neu ddau o bob math. Rhoddwch ddarnodiadau Taylor, Butler, a Doddridge. Nodwch ddrygau troseddiad un o honynt. Pa mor bell y mae dyledswyddau pendant yn foesol, a dyledswyddau moesol yn bendant? Nodwch y prif bethau yn mha rai y mae y ddau yn gwahaniaethu. Rhoddwch reolau er cymhwyso pob un (adr. 472, 2—4).

Dos. 3. *Ar Fyfyrdod o Addewidion yr Ysgrythyr, Adran* 473—480.

Paham y mae myfyrdod o addewidion yr Ysgrythyr yn hynod bwysig? Dangoswch fod addewidion Duw yn fynegiadau o'i gynghor *digyfnewid*. Addewidion ydynt naill ai yn gyffredinol neu yn neillduol: Nodwch rai o bob math. Pa mor bell y mae addewidion o fendithion tymmorol yn gyffredinol? Pa derfyniad sydd i'w cyflawniad o dan yr efengyl? Addewidion ydynt naill ai yn ammodol neu yn ddiammodol: Gwahaniaethwch rhyngddynt. Beth yw addewidion am fendith ysbrydol i Gristionogion unigol? Beth yw y gwahaniaeth rhwng addewidion a gwahoddiadau yr efengyl? Cynnwysa ymddiried yn yr addewidion Dwyfol amynedd yn gystal a ffydd: Cyfiawnhewch ac eglurwch y mynegiad yma. Nid ydyw addewidion yn sail na mesur dyledswydd, y maent yn gymhellion i ymdrech a gweddi, a iawn ddefnyddir hwynt pan fyddont yn cynnyddu ein santeiddrwydd: Eglurwch hyn.

Dos. 4. *Ar Fyfyrdod o Siamplau yr Ysgrythyr, Adran* 481—487.

Wrth fyfyrio siamplau yr Ysgrythyr er mwyn eu hefelychu, y mae yn ofynol cadw mewn cof bedair o egwyddorion cyffredinol: Beth yw y rhai

hyny, a rhoddwch egluriadau (adr. 481. 1—4)? Pa fodd y mae i ni farnu am holl weithredoedd dynion drwg neu dda a gofnodir yn yr Ysgrythyr? Pa bryd yr ydym i *beidio* eu hefelychu? Beth, gan hyny, yw defnydd siamplau Ysgrythyrol? Pa fodd y maent yn cynnorthwyo i ddehongli yr Ysgrythyr? Pa fodd y maent yn ein dysgu i gymhwyso rheolau Ysgrythyrol, a pha beth yw eu defnydd ymarferol mewn cynnyddu ein santeiddrwydd? Pa fodd y gwneir hwynt yn fwyaf argraffiadol? Rhoddwch syniadau Luther a Neander o berthynas i'r pwysigrwydd o'u myfyrio hwynt.

Pa bryd yr ydym i efelychu arferion dynion ysbrydoledig mewn pethau o natur foesol, a pha mor bell yr ydym i'w hefelychu mewn pethau sydd yn dàl perthynas â sefydliad *pendant*? Cymhwyswch gwahaniaethau cynnwysedig yn eich atebiad at "gusan caredigrwydd," "golchi traed dysgyblion," a "chariad-wleddoedd;" at yr amgylchiadau cydfynedol â gweinyddiad Swpper yr Arglwydd, pregethiad yr efengyl i'r Iuddewon, ac at gredinwyr yn yr eglwys foreuol. Y gorchymyn yw ein cyfraith ni; nid ydyw y siampl yn cynnorthwyo ond yn unig i'w ddehongli: Eglurwch hyn.

PENNOD VI.

Ar Ddyfyniadau yn y Testament Newydd o'r Hen Destament, ac ar Anhawsderau Ysgrythyrol.

Dos. 1. *Dyfyniadau, Adran* 488—500.

Pa mor bell y mae yn fanteisiol ymdrin âg anhawsderau yr Ysgrythyr ar ei ben ei hun, fel pwnc o ymchwiliad? Beth yw defnyddioldeb amlwg anhawsderau yr Ysgrythyr? I ba ddybenion daionus y gallai myfyrdod o'r dyfyniadau o'r Hen Destament a roddir yn y Newydd gael ei gyfeirio? (adr. 489). Pa nifer o ddyfyniadau, uniongyrchol ac anuniongyrchol, y mae y Testament Newydd yn eu cynnwys? O ba ranau o'r Hen Destament y maent yn benaf wedi eu cymmeryd? Beth yw dyfyniadau prophwydol? Pa rai sydd yn arddangosol, pa rai yn egluriadol, pa rai yn ddarluniadol? Beth yw rhifedi y dyfyniadau "prophwydol" a gyfeiriant at ein Harglwydd, neu ei eglwys? O ba gyfieithiad y mae y dyfyniadau yn y Testament Newydd wedi eu cymmeryd yn gyffredin? Beth (wrth eu hystyried mewn modd geiriawl) yw cymmeriad cyffredinol y dyfyniadau eu hunain?

[a] Pa mor bell y gellir defnyddio dyfyniadau yn y Testament Newydd i ddiwygio cyfieithiad y Deg a Thri ugain, ac i ddiwygio y testun Hebreig? [a] Nodwch unrhyw adnodau lle y dylai y cyfieithiad o'r Testament Newydd gael ei gydffurfio â'r Hen Destament. Y dyfyniadau yn gyffredinol a roddant yr ystyr yn hytrach nâ'r geiriau, er fod y geiriau weithiau yn cael eu gwneyd yn sylfaen yr ymresymiad: Eglurwch bob un o'r mynegiadau uchod. Ar ba egwyddor gyffredin y gwneir y dyfyniadau yma? O ba le y mae Matthew yn dyfynu yn gyffredin? O ba le y mae Paul? Rhoddwch enghreifftiau lle y mae y dyfyniad yn amrywio oddiwrth y gwreiddiol, yn nghyd a'r rheswm am yr amrywiaeth (adr. 492). Rhoddwch enghreifftiau lle y mae y rhan ddyfynedig yn gadael allan gyfran o'r gwreiddiol, ac enghreifftiau yn mha rai y mae meddwl y gwreiddiol yn cael ei egluro gan y dyfyniad. Dangoswch, drwy ddyfyniadau o'r Hen Destament yn y Newydd, fod bywyd drwy ffydd, iachawdwriaeth drwy Grist, a'r ddyledswydd o santeiddrwydd, yn cael eu dysgu yn y ddau Destament. Dangoswch, yn yr un modd, pa fodd y mae y ddau yn dysgu Dwyfoliaeth y Messiah, a

goruchwyliaeth yr Ysbryd Glân. Felly hefyd am fyd arall, a barn ddyfodol. Dangoswch pa mor bell y mae y dyfyniadau yma yn rhoddi prawf o wirionedd yr Ysgrythyr. Pa nifer o brophwydoliaethau a ddyfynir yn y Testament Newydd, fel wedi eu cyflawnu yn Nghrist, ac yn ei eglwys?

Dangoswch pa reolau neu egwyddorion dehonglyddol a ganiatëir gan y dyfyniadau yma o berthynas i orchymynion a gwirioneddau yr Hen Destament, ac o berthynas i'w hanesiaeth. Pa mor bell y mae addewidion cyffredinol a roddwyd dan yr Hen Destament yn awr yn cael ei cyflawnu? Nodwch ac eglurwch egwyddor cyflawniad deublyg, yn nghyd a chyflawniadau mynych prophwydoliaeth. Pa egluriadau a roddir ar y cyflawniad deublyg yma? A ydyw ar y cyfan yn gwanhau y prawf oddiwrth brophwydoliaeth? (adr. 509),

Dos. 2. *Anhawsderau Ysgrythyrol, Adran* 501—523.

Beth yw *dechreuad* anhawsder yr Ysgrythyr? Mynegwch pa fodd y trefnir yr anhawsderau yma? *Enwwch anhawsderau yn narlleniadau amrywiol y testun. * Beth yw darlleniad tebygol Gen. 49, 6? * Dangoswch yr anhawsderau yn Ioan 1, 16; "Gras am ras," Heb. 12, 17; "ei thaergeisio *hi*," 9, 16; "lle y mae *testament*," 1 Cor. 11, 10; yn 2 Pedr 1, 19. Mynegwch yr anhawsderau cyssylltiedig â llyfr Job, ei amcan a'i awduriaeth. * Rhoddwch ddechreuad yr anhawsderau o berthynas i ystyr *ind*. Pa ddau olygiad a gymmerir o'i ystyr, a phwy sydd yn eu cymmeryd? * Nodwch unrhyw ranau lle y mae anhawsderau yn y darlleniad a'r ystyr. Beth a olygir wrth "fwrw bara ar wyneb y dyfroedd?" Preg. 12, 1. Pa fodd y mae Dr. Clarke yn esbonio adeiladiad dinas yn nyddiau Cain? Dangoswch pa fodd y mae y dulliau gwahanol o gyfrif yn cynnyrchu anhawsderau mewn amseriaeth. Anhawsderau hanesyddol ydynt o ddau fath (adr. 508, gwel adr. 509 a 510). Pan fyddo yr un person yn cael ei alw ar ddau enw, tebyg i'w gilydd, pa fodd y mae y ddau enw i'w cyssoni? Nodwch ffeithiau Ysgrythyrol a ymddangosant yn wrthwynebol; ond y rhai, mewn gwirionedd, ydynt yn wahanol. Y mae hanes gyflawnach yn cynnwys yr un byrach: Eglurwch yr egwyddor yma oddiwrth yr Efengylau. Y mae hanes o'r hyn a ddywedwyd ar achlysuron neillduol weithiau yn amrywio: Dangoswch ac eglurwch y ffaith yma. Pethau a wnaed gan un a ddywedir weithiau, mewn man arall, iddynt gael eu gwneuthur gan arall, neu gan amryw: Darluniwch ac eglurwch y ffaith yma. Y mae hanesion yr Ysgrythyr yn cael eu hysgrifenu weithiau ar wahanol egwyddorion: Nodwch adnodau lle y mae y gwrthddywediadau ymddangosiadol sydd wedi tarddu oddiwrth y ffaith yma, yn cael eu hegluro ganddi (adr. 509, *f.*). Pa fodd yr eglurwch Marc 2, 25, 26: Math. 23, 35: Act. 7, 16? Nodwch unrhyw ffeithiau hanesyddol yn perthyn i amseroedd yr Hen Destament, sydd yn cael eu nodi yn y Testament *Newydd*, ac heb gael eu nodi yn yr *Hen*. Beth yw meddwl Luc 2, 2? Pa le y gellir cael ychwaneg o enghreifftiau cyffelyb o annghytundeb ymddangosiadol rhwng hanesiaeth ysbrydoledig a chyffredin? (adr. 510). Wrth ba enwau y mae y pedwar brenin a nodir yn Daniel gan cael eu hadnabod mewn hanesiaeth gyffredin? Pa amgylchiadau sydd wedi gwneuthur amseriaeth Bersiaidd ac Assyriaidd yn hynod o anhawdd.

O'r gwrthddywediadau ymddangosiadol yn yr Ysgrythyr, y mae rhai yn bynciau o ddehongliad, tra yr ymddengys fod ereill yn perthyn i'r gwirioneddau dadguddiedig: Rhoddwch siamplau o eiriau sydd i'w hesbonio yn ffigurol. Esboniwch Ioan 6, 44, a chyfiawnhewch eich esboniad

allan o'r Ysgrythyr. Y geiriau mewn un gyfran ydynt i'w cyfyngu weithiau gan y geiriau mewn un arall: Eglurwch y rheol yma. Defnyddir geiriau weithiau mewn gwahanol destunau mewn amrywiol ystyriaethau, a gellir mabwysiadu moddau gwahanol i'w cyssoni: Eglurwch a chyssonwch Rhuf. 3, 2, a Iago 28, 24: Exod. 20, 5: Ezec. 18, 20. [b] Trefnwch ac eglurwch y gwahanol ranau o'r Ysgrythyr ar ddyfodiad ein Harglwydd (gwel tud. 225). Llawer o adnodau a ymddangosant fel yn cynnwys anhawsderau athrawiaethol, pan nad ydynt yn anhawdd mewn gwirionedd ond mewn dehongliaeth yn unig: Eglurwch hyn (adr. 512, *a*). Ar ol i anhawsderau dehonglyddol gael eu symud, y mae anhawsderau mewn synwyr yn aros: Nodwch a threfnwch hwynt (adr. 512, *b*). Pa fodd y gallwn ddangos nad ydyw anhawsderau yr Ysgrythyr yn annghysson â'i hysbrydoliaeth? Dangoswch fod yr Ysgrythyr yn eglur ar bob pwnc hanfodol o wirionedd a dyledswydd. Dangoswch nad ydyw anhawsderau yr Ysgrythyr yn cymmeryd dim ymaith oddiwrth rym ei phrofion. Dangoswch pa fodd y mae yr anhawsderau yma yn rhoddi prawf Ysgrythyrol o'i gwirionedd. Dangoswch pa fodd y mae hyd y nod anhawsderau athrawiaethol yn naturiol a defnyddiol (adr. 517). Rhoddwch reolau i egluro yr anhawsderau Ysgrythyrol hyny sydd yn tarddu o'r gwirioneddau dadguddiedig. Pa fodd y cyfiawnhewch aberthau y gyfraith? Pa fodd y dehonglwch yr addewid a roddwyd i Abraham? (518, 1). Paham na ddylem symud anhawsderau ar draul ysbrydoliaeth yr Ysgrythyr? Pa ddehongliadau sydd yn cael eu cau allan gan yr egwyddor yma? Dangoswch pa fodd y mae yn bwysig myfyrio y Beibl yn ei gyssylltiad, a chymhwyswch eich eglurhad at aberth a marwolaeth Abel, pläau yr Aifft, cospedigaeth eilun-addoliaeth yn mysg yr Iuddewon, ac at fynegiadau yr Ysgrythyr am berson ein Harglwydd. Ar ba egwyddor yr ydym i gyfiawnhau yr hanes a roddir yn yr Ysgrythyr am yr hen saint, megys, er enghraifft, am dwyll Jacob, Gen. 27? Dangoswch pa wersi a ddysgir yn yr hanes hono. Paham na ddylid ymddiried i benderfyniadau doethineb ddynol, o berthynas i'r Ysgrythyr? Paham nad ydyw symudiad ymaith bob anhawsder yn beth i'w ddysgwyl? Rhoddwch olygiadau Warburton a Phascal ar y pwnc yma. Nodwch lyfrau lle yr ymdrinir â'u holl fater yn fwy cyflawn.

PENNOD VII.

Ar Ddarlleniad Addysgiadol Ymarferol o'r Beibl.

Adran 524—537.

Beth yw prif ddefnydd yr Ysgrythyr? Beth a feddylir wrth ddarlleniad ymarferol ac addysgiadol o'r Beibl? Dangoswch pa wersi sydd i'w casglu oddiwrth *eiriau* Rhuf. 14, 17: Heb. 3, 1: oddiwrth y geiriau yn eu cyssylltiad yn y frawddeg yn 1 Pedr 5, 5 ([a] cymharwch y Groeg): Rhuf. 14, 17; oddiwrth eiriau yn eu cyssylltiad â'r cyd-destun yn Math. 27, 52: 1 Tim. 1, 15; oddiwrth eiriau yn eu cyssylltiad â'r amcan, yn Ioan 8, 51. Cymmerwch 1 Tim. 1, 8, ac eglurwch gymhwysiad y rheolau yma, drwy ddwyn allan yr amrywiol wersi a gynnwysa; gwnewch felly hefyd âg Ioan 11, 15.

Os ein hamcan fydd cael allan ddysgeidiaeth yr Ysgrythyr ar unrhyw un pwynt, pa lwybr sydd raid ei gymmeryd? Dygwch allan ddysgeidiaeth yr Ysgrythyr o berthynas i gystudd; olrheiniwch ei hanes a'i ddylanwad

ar y Cristion ac ar yr anedifeiriol (adr. 524); rhoddwch siamplau eglurhäol o'ch penderfyniadau. Gan gymhwyso y rheolau cyffredinol yma at ddammegion, nodwch y gwersi cynnwysedig yn mhob rhan o ddammeg y Mab Afradlon (Luc 15); yn nammeg y Gwr Goludog a Lazarus, Luc 16. Nodwch y gwahaniaeth mewn achosion fel hyn rhwng y drefn o ymchwilio a'r drefn o brofi a dysgu. Yn mha le y ceir cymhorth i ymdrin yn mhellach â phwnc y bennod yma?

RHAN II.

Arweiniad. *Adran* 1—6.

Nodwch pa bynciau sydd wedi eu chwilio yn y rhan gyntaf o'r traethawd yma, a pha bynciau sydd i ymdrin â hwynt yn yr ail ran.

Mynegwch bedwar prif ddefnydd yr Hen Destament (adr. 3). Y mae yr Efengyl mewn ystyr ddeublyg yn gyflawniad o'r gyfraith. Dangoswch yr ystyr ddeublyg yma, ac eglurwch hi. Beth sydd genym yn yr un bennod ar ddeg gyntaf yn Genesis, ac yn Llyfr Job? Pa fodd y dosperthir y gyfraith? Rhoddwch amcan cyffredin llyfrau Josua, y Barnwyr, a'r llyfrau hanesyddol ereill; yn nghyd ag eiddo y Salmau, y Diarebion, y Pregethwr, Caniad Solomon, Esaiah, Jeremiah, Ezeciel, a'r prophwydi bychain. Rhoddwch amcan cyffredinol Efengylau Mathew, Marc, Luc, Ioan; gydag eiddo llyfr yr Actau; a'r Epistolau at y Thessaloniaid, y Corinthiaid, y Rhufeiniaid, y Galatiaid, yr Hebreaid, Epistol Iago, Epistol cyntaf Ioan, yr Epistol at yr Ephesiaid, a llyfr y Dadguddiad. Pa mor bell y mae unoliaeth yn cael ei gadw yn y llyfrau amrywiol yma? Yn mha beth y cynnwysir pwysigrwydd yr Hen Destament? Pa fodd y gwathgyferbynir ef â'r efengyl yn y Testament Newydd?[b] Pa egwyddorion dehonglyddol a awgrymir gan y ffaith yma? Pa ddyledswyddau a gymhellir? Pa fodd y gellir trefnu llyfrau y Beibl? Pa un yw y mwyaf pwysig, ai trefniad amseryddol o honynt, neu drefniad yn ol y pynciau yr ymdrinir â hwynt? Pa drefn a fabwysiadir yn y tudalenau dilynol? Rhoddwch olygiad yr Esgob Percy ar bwysigrwydd rhagarweiniadau neillduol i lyfrau neillduol.

PENNOD I.

Pum Llyfr Moses, a Llyfr Job.

Dos. 1. *Purdeb a gwirionedd y Pum Llyfr, adrân* 7—13.

Rhoddwch enwau Iuddewig a Groegaidd Pum Llyfr y Gyfraith, yn nghyd a'u tarddiad a'u hystyr. Pa fodd y profir purdeb y Pum Llyfr allan o'r Ysgrythyr? Dros ba gyfnod y mae y dyfyniadau o honynt yn cyrhaedd? Nodwch rai o honynt. Pa mor bell y mae hanesiaeth gyffredin yn cadarnhau y penderfyniad? Nodwch yr awdurdodau. Pa brofion *mewnol* sydd dros eu purdeb? (adr. 1—4.) Pa bryd y mynegwyd amheuaeth o burdeb y llyfrau yma gyntaf.

Pa fodd y gallwn brofi eu gwirionedd? Pa appeliad a wneir gan Josephus? Pa adroddiadau sydd yn cyduno â'i fynegiad? a pha le y mae y traddodiadau hyny i'w cael? Pa brofion y mae Hengstenberg ac ereill wedi eu casglu oddiwrth gofgolofnau yr Aifft? Mynegwch yr arfer-

ion a eglurir ganddo. Nodwch ffeithiau *hanesyddol* sydd yn cadarnhau mynegiadau y Pum Llyfr. Nodwch unrhyw ffeithiau cadarnhäol o honynt mewn cenedloniaeth o dan ei dosraniad triphlyg (9, 6)—ieithegol, anianyddol, a moesol. Beth yw y prawf *mewnol* o'u gwirionedd? Beth yw ymresymiad Graves? Tybia Vitringa fod amrywiol ysgrifeniadau yn cael eu defnyddio wrth ysgrifenu Genesis: Ar ba ffeithiau y mae y dybiaeth yma yn seiliedig? Pwy sydd wedi ei phleidio? a pha fodd y mae wedi ei dwyn i anmharch? Pa ranau o'r Pum Llyfr y rhaid eu bod wedi eu hychwanegu neu eu cyf-agweddu (*modified*) ar ol marwolaeth Moses? (adr. 11). Beth yw gwir natur y Pum Llyfr fel llyfrau crefyddol? Rhoddwch fraslun o gynnwysiad Genesis, Exodus, Lefiticus, Numeri, Deuteronomium, gan nodi gwahanol gyfnodau neu bynciau pob llyfr, yr amser dros yr hwn y cyrhaedda pob un, yn nghyd ag ystyr pob un o'r teitlau.

Dos. 2. *Llyfr Job, adran* 14—17.

Beth yw dechreuad yr anhawsderau a geir yn Llyfr Job? Pa reswm sydd dros benderfynu fod Job yn berson sylweddol? Pa bryd y mae yn debygol ei fod yn byw? Rhoddwch resymau (adr. 1—7) dros eich golygiad. Pa resymau a roddir weithiau dros ddyddiad diweddarach? Pa olygiadau gwahanol sydd o berthynas i awduriaeth y Llyfr? Pa fodd y dosperthir y llyfr? (i. ii. iii.) Rhoddwch olygiad Eliphaz, Bildad, a Sophar am gystudd, yn nghyd a golygiad Elihu. Beth yw prif amcan y llyfr? Pa fodd y gallwn dderbyn fel gwirionedd yr hyn oll a gynnwysa y llyfr? Nodwch unrhyw wirioneddau a ddysgir yn y llyfr (adr. 16), ac unrhyw wersi ymarferol a awgrymir ganddo.

Dos. 3. *Ar Farddoniaeth Hebreig, a'r Llyfrau Barddonol, adran* 18.

Pa rai yw llyfrau barddonol yr Ysgrythyr? A oes unrhyw ranau ereill o'r Ysgrythyr mewn ffurf farddonol heblaw y llyfrau barddonol? Yn mha beth y mae prif ragoriaethau barddoniaeth yr Ysgrythyr yn gynnwysedig? Beth yw nodweddau llênyddol barddoniaeth yr Ysgrythyr? Nodwch unrhyw ffurfiau celfyddydol a berthynant yn neillduol i farddoniaeth Hebreig. Dangoswch y tri math o gyfochreddau y mae Lowth wedi eu nodi yn marddoniaeth yr Ysgrythyr. Rhoddwch enghreifftiau o bob un. Trefnwch bryddestau yr Ysgrythyr yn ol eu testunau. Paham y mae o bwys deall egwyddorion cyfochraeth? Pa mor bell y mae y neillduolion yma yn cael eu nodi mewn Beiblau argraffedig, yn yr Hebraeg neu yn y Gymraeg? Pa fodd y gallwn nodi allan y llinellau barddonol yn yr Hebraeg gwreiddiol?

Dos. 4. *Y Pum Llyfr yn cael eu trefnu a'u talfyru, adran* 19—24.

Nodwch nodweddau neillduol yr Ysgrythyr fel llyfr o fywgraffiadaeth, hanesiaeth, athrawiaeth, moesoneg, sefydliadau pendant, ac fel llyfr o ddoethineb ymarferol. Nodwch ddosparthiad cyffelyb yn cyfeirio at brif bynciau yr Ysgrythyr. Pa awgrymiad a roddir o berthynas i ddarllen unrhyw lyfr o'r Ysgrythyr drwyddo? Pa fodd y dylem fyfyrio gorchymyn, a pha fodd y dylem fyfyrio hanesiaeth? (adr. 20). Beth ddylid ei gadw yn neillduol mewn golwg wrth ddarllen yr Hen Destament? Pa gynllun sydd bwysig mewn myfyrdod addoliadol o'r Beibl?

Pa amser sydd yn cymmeryd lle rhwng y greadigaeth a marwolaeth Noah?—rhwng marwolaeth Noah a genedigaeth Moses?—rhwng genedig-

aeth Moses a'i farwolaeth ef? (adr. 22—24). Nodwch, mewn trefn, gynnifer o awgrymiadau ag sydd bosibl am ddyfodiad a swydd y Messiah (gweler y darlleniadau argraffedig mewn llythyrenau Italaidd), sydd i'w cael yn mhob un o'r Pum Llyfr, ac yn Llyfr Job? Beth yw amcan Gen. 2, 8—25? Rhoddwch resymau dros y drefn a briodolir i Gen. 11, 1—9 (tud. 297): 25, 12—18: Exod. 12, 1—20, 21—30: Num. 9, 1—14: Sal. 90. Pa bryd y dechreua blwyddyn eglwysig yr Iuddewon, ac oddiwrth ba ffaith y cymmer ei dechreuad? Dangoswch, oddiwrth y lle a roddir yn Genesis i hanes 2000 o flynyddau cyntaf y byd, un amcan tebygol o eiddo y gyfrol ysbrydoledig (nodiad ar Gen 1). Pa beth neillduol sydd gyda golwg ar greadigaeth defnydd yn y bennod gyntaf o Genesis? (1, 2). Olrheiniwch ddechreuad ac amcan y dydd Sabbath (Gen. 2, 2, 24). Beth yw y cyssylltiad rhwng y pechod cyntaf a chyflwr syrthiedig dyn? Pa fodd y gallwn gasglu fod y temptiwr y llefarir am dano yn Gen. 3, yn bersonoliaeth neillduol? Nodwch rhyw brawf yn llyfr Genesis o gyfiawnder a thrugaredd Duw. Beth a wyddis am aberthau boreuol? Beth oedd yn cael ei ddangos ganddynt? (Gen. 4, 4). Pa bwysigrwydd sydd yn perthyn i'r 5ed bennod o Genesis? ac i'r 11eg? Nodwch y tri esgyniad i'r nefoedd o dan dair goruchwyliaeth wahanol (5, 24). Pa brawf sydd genym yn mysg cenedloedd cyffredin o deithiau Abraham? (Gen. 12.) Rhoddwch siamplau cofnodedig yn yr Ysgrythyr o dduwioldeb a chydwybodolrwydd mewn gweision (13, 7). Rhoddwch nodweddau neillduol y cyfammodau olynol a nodir yn yr Ysgrythyr rhwng Duw a dyn (Gen. 12). Nodwch rhai nodweddau neillduol yn nghrefydd y Patriarchiaid (12, 7). Siampl o ba beth yw y 24ain bennod yn Llyfr Genesis, a pha wersi a ddysgir ganddi? Y mae gan bob rhinwedd ei rhith: Rhoddwch enghreifftiau o'r gwirionedd yma o Genesis, a llyfrau ereill. Dangoswch o'r llyfr yma gynnydd pechod, natur temptasiwn, yr anrhydedd a rydd Duw ar ei bobl, effaith cystudd santeiddiol (Gen. 34: 27: 31: 42). Dangoswch gyfyngiad graddol yr addewid am y Messiah. Dangoswch pa fodd yr oedd cymmeriad Joseph yn siampl ddysglaer i ddynion yn mhob sefyllfa. Dangoswch o'r Pum Llyfr gymmeriad angel yr Argtwydd (Ex. 3, &c.). Beth galedodd galon Pharaoh? (Ex. 7, 13). Nodwch gynnwysiad moesol pläau yr Aifft (Ex. 8). O ba le y casglwn drefn y rhan fwyaf o deithiau plant Israel? Dangoswch y debygoliaeth rhwng y Pasg a Christ (Exod. 12, 21). Beth yw y wers a ddysgir gan buredigaethau lluosog y gyfraith? (Lef. 11). Pa olygiadau gwahanol sydd wedi eu rhoddi am ddechreuad defodau y ddeddf seremoniol? (Lef. 11). Rhoddwch wahanol olygiadau, a pha olygiad sydd yn ymddangos yn fwyaf tebyg o fod yn gywir.

Dos. 5. *Amcan y Gyfraith, a Chrynodeb o'i Sefydliadau, adran* 25—31.

Yr oedd duwioldeb yn bodoli yn y byd cyn rhoddiad y gyfraith: Paham, gan hyny, yr oedd yn angenrheidiol? Rhoddwch wahanol dybiau ar rai, neu yr holl o honynt, y buasai y fath sefydliad o'r gyfraith yn addas i ateb amcanion pwysig. Dangoswch ei gwerth fel rheithlyfr moesol, cyfreithol, a gwladyddol. Y mae yr un mor addysgiadol fel *dadguddiad* ag fel *cysgod*; y mae yn efengyl ac yn eglwys: Eglurwch hyn.

Beth yw y cyfansoddiad gwladwriaethol Iuddewig? Nodwch nodweddau neillduol yn y gyfraith Iuddewig sydd yn cael eu hegluro gan eich atebiad (adr. 26). Beth oedd y tabernacl, yn ei berthynas â Duw fel brenin? Eglurwch ef—ei gynnwysiad, a'i ddodrefn. Yn mha beth yr

oedd teml Solomon yn gwáhaniaethu oddiwrth y tabernacl cyntaf? Mynegwch ddechreuad ac amcau y synagogau. Pwy oedd y Lefiaid? I ba ddau ddosbarth yr oeddynt wedi eu rhanu? Pa fodd y llenwid yr archoffeiriadaeth ar gyfnodau gwahanol yn yr hanesiaeth Iuddewig? Beth oedd gwaith y Lefiaid hyny nad oeddynt yn offeiriaid? Pa fodd y cynnelid y Lefiaid? Desgrifiwch wisg yr offeiriaid.[b] Beth yw ystyr ysbrydol y sefydliad? Beth oedd y pethau a aberthid dan y gyfraith? Yr oedd rhai heb fod yn waedlyd: Eglurwch hwynt? Yr oedd ereill yn waedlyd: Enwwch a gwahaniaethwch bob un. Yr oedd rhai yn fwyd-offrymau, ac ereill yn ddiod-offrymau: Yn mha le yr offrymid hwynt? Beth oedd amcan deublyg yr offrymau? Pa mor bell, ac yn mha fodd yr oedd yr offrymau dan y gyfraith yn effeithiol? (iii). Gyda pha seremoniau neu gyflawniadau yr oedd aberthau yn cael eu cyflwyno? Beth a arwyddid gan bob rhan o'r seremoni? Pa sawl math oedd o aberthau? Beth oedd y poeth-offrwm? Pa bryd, ac i ba amcan, yr offrymid ef? Beth oedd yr offrymau dros gamwedd a'r pech-aberthau? Pa bryd yr offrymid hwynt, a chan bwy? Eglurwch ddefodau y bwch diangol. Pa feddylddrych a gynnwysir yn yr holl aberthau yma? Beth oedd aberthau dyrchafael? Beth oedd aberthau ewyllysgar? Beth yw yr enw cyffredin ar y dosparth yma? Pa mor bell yr oedd iawn yn gynnwysedig, hyd y nod yn y rhai hyn? Pa wirionedd deublyg a ddysgid gan y gosodiadau yma? Pa bryd y cynnelid y gwyliau Iuddewig? Beth oedd yr wyl wythnosol, a pha fodd y treulid hi? Beth oedd yr un fisol, a pha beth oedd y rhai blynyddol? Rhoddwch ddechreuad y Pasg. Nodwch adnodau o'r Ysgrythyr a eglurir gan eich esboniad. Nodwch nodweddau neillduol gwyl y Pentecost, a gwyl y Pebyll. Nodwch adnodau a eglurir gan eich esboniad (adr. 30, 1—3). Rhoddwch ddyddiad a chyflawniadau dydd y cymmod. Beth yw yr unig ympryd Iuddewig sydd wedi ei sefydlu drwy awdurdod Ddwyfol? Enwwch ymprydiau ereill. Pa bryd y cadwai yr Iuddewon ddechreuad y flwyddyn wladol? Gyda pha ddefodau yr oedd yn cael ei chadw? Beth oedd dechreuad gwyl y Purim, a gwyl y Cyflwyniad? Rhoddwch amcan y flwyddyn Sabbothol, a pha fodd y cedwid hi? Pa mor bell yr oedd y sefydliad yma yn cael ei gadw yn yr hen amseroedd? Pa un oedd blwyddyn y Jubili? Pa reolau a wnaed yn y gyfraith o berthynas iddi, a pha beth y mae yn ei harddangos? Beth, debygwch chwi, oedd amcan y gwyliau mynych yma? Rhoddwch amcan yr hen gyfraith unwaith etto (adr. 31).

PENNOD II.

Llyfrau Hanesyddol a Barddonol, hyd Farwolaeth Solomon.

Dos. 1. *Y Llyfrau Hanesyddol yn gyffredinol, adran* 32—35.

Beth, yn fyr, yw amcan llyfrau hanesyddol yr Hen Destament? Pa sawl un a gyfrifir yn y Beibl Cymreig? Pa nifer a gyfrifai yr Iuddewon? Pa mor bell y mae y drefn yma o'r llyfrau hanesyddol yn cael ei chaniatau gan y dosraniad Iuddewig? Gan bwy yr ysgrifenwyd llyfrau hanesyddol yr Hen Destament? Rhoddwch brofion o awdurdod ysbrydoledig y llyfrau yma. Pa brawf sydd genym fod llyfrau ereill yn cael eu defnyddio wrth eu darparu hwynt? Ar ba egwyddor o ddetholiad y mae hanes yr

Ysgrythyr yn seiliedig, a pha ddwy nodwedd a eglurir ganddi? Yn mha ystyr y mae hanesiaeth yr Ysgrythyr yn gflyawn? (adr. 34).

Dos. 2. *Braslun o'r Llyfrau Hanesyddol, Adran.* 36.

Gosodwch yn eu trefn briodol wahanol ranau o lyfrau hanesyddol yr Ysgrythyr, o'r mynediad i Ganaan hyd farwolaeth Solomon. Rhoddwch y cyfnod cynnwysedig yn mhob un, yn nghyd a'r prif bynciau. Paham y priodolir Ruth i gyfnod yn nghylch canol tymmor y Barnwyr?

Dos. 3. *Llyfrau Josua, y Barnwyr, a Ruth, adran* 37—42.

Rhoddwch y prawf o burdeb a gwirionedd Josua. Pa ranau o'r llyfr a ychwanegwyd gan ysgrifenydd diweddarach? Rhoddwch hanes bersonol Josua, a dangoswch yn mha ystyr y mae efe yn gysgod o'n Harglwydd. Eglurwch ei bwyll a'i ffydd. [b]Nodwch unrhyw wersi a ddysgir yn y llyfr (adr. 38). Darluniwch ddinystr y Canaaneaid, ac amddiffynwch yr amgylchiad rhag rhai o'r cyhuddiadau a ddygir yn ei erbyn (adr. 38). Pa wersi pwysig a ddysgir ganddo? Nodwch gospedigaethau cyffelyb. Pa mor bell, hyd yr amser hwn, y mae yr addewid a roddwyd i'r Patriarchiaid o berthynas i hâd Abraham wedi cael ei chyflawnu? Pa mor bell y mae ein sefyllfa ni yn gyffelyb i eiddo yr hen Israeliaid? Y mae y cyssylltiad rhwng llyfrau Josua a'r Pum-llyfr fel y cyssylltiad rhwng yr Actau a'r Efengyl: Eglurwch y mynegiad yma, a nodwch unrhyw wersi a awgrymir ganddo.

Dangoswch, allan o lyfr y Barnwyr, pa bryd yr ysgrifenwyd ef; ac oddiwrth y gweddill o'r Ysgrythyr, ei fod yn cael ei ddyfynu, ac yn cael cyfeirio ato gan ysgrifenwyr diweddarach. Beth oedd y Barnwyr? [a]A ydyw eu henwau yn dygwydd mewn cenedloedd ereill? Olrheiniwch gynnydd moesol y bobl yn ystod eu gweinyddiaeth. Beth yw gwers yr holl hanes? Pa eithriadau oedd i'r cyflwr llygredig yma?

I ba gyfnod y perthyna llyfr Ruth. I ba beth yr ymddengys ei fod wedi ei fwriadu yn bennodol? Nodwch unrhyw wersi a awgrymir gan y ffeithiau ysgrifenedig yn y llyfr (adr. 42).

Dos. 4. *Llyfrau Samuel, y Breninoedd, a'r Cronicelau, adran* 43—51.

Beth yw amcan llyfrau Samuel? Pa fodd y cyfrifir hwynt yn y Deg a Thriugain? Beth yw y golygiad cyffredin am awduriaeth y llyfrau? Pwy oedd Gad, Nathan, a Samuel? Rhoddwch gymmeriad pob un. Beth oedd natur y cyfammod â Dafydd, a pha mor bell y cyflawnwyd ef ynddo ef ei hunan, neu yn ei ganlynydd; yn mhwy y derbynia ei wir gyflawniad? Pa fodd y deallai Dafydd ei hunan y cyfammod? Cawn yn Samuel adnewyddiad yr ysbryd prophwydol: Pa amgylchiadau yn nghyflwr yr Iuddewon yn ei amser ef, oedd yn gwneyd y cyfryw adnewyddiad yn briodol? Pa neillduolion sydd yn mhrophwydoliaethau Dafydd o berthynas i'n Harglwydd? Beth yw gwasanaeth y Salmau mewn cyssylltiad â phrophwydoliaeth?

Mynegwch amcan llyfrau y Breninoedd? Pwy ystyrir yn gyffredin yw eu casglwr, neu, mewn rhan, eu hawdwr? Dangoswch pa brawf sydd o blaid y golygiad yma. Pa fodd y profwn eu hawdurdod? (adr. 46). Pa wahaniaethau amlwg sydd rhwng llyfrau y Breninoedd a'r Cronicelau? Pa fodd yr ydym i gyfrif am yr annghytundeb rhwng y ddau mewn rhifedi ac mewn enwau?

Rhoddwch ystyr yr enwau Hebreig a Groeg ar lyfr y Croniclau. Beth yw dechreuad y teitl presenol, a pha beth yw amcan tebygol yr ysgrifenwyr? Pwy a ystyrir yn gyffredin fel eu hawdwr, ac, yn ol y golygiad yma, pa ranau o'r llyfr sydd raid eu bod yn waith ysgrifenydd diweddarach? Yn mha le yr ymddengys i'r awdwr gael y rhan fwyaf o'i ddefnyddiau? Cymharwch lyfrau deublyg Samuel, y Breninoedd, a'r Croniclau; a mynegwch beth, fel yr ymddengys, yw y pwnc a gedwir mewn golwg yn mhob un. Beth yw amcan uniongyrchol neu anuniongyrchol y taflenau achyddol a gedwir yn yr ysgrifeniadau yma? Yr hanesion yma ydynt oll yn Ddwyf-lywyddol: Eglurwch a phrofwch hyn. Pa wersi ellir gasglu oddiwrth hynyma? Yn mha ystyr yr oedd Dafydd yn ŵr wrth fodd calon Duw? Profwch eich esboniad. Beth oedd cyflwr y deyrnas yn nheyrnasiad Solomon? Beth oedd dechreuad ei wrthgiliad, a pha beth oedd ei ganlyniadau? Dangoswch pa fodd y mae ei hanes ef yn dàl cyssylltiad â hanes yr Iuddewon.

Dos. 5. *Y Llyfrau Barddonol, adran* 52—62.

Mynegwch ystyr gwahanol enwau llyfr y *Salmau.* Pa fodd y rhenid y llyfr, a chan bwy y mae yn debygol i'r oll gael eu casglu? Dangoswch pa rai a briodolir i Ddafydd, pa rai i Asaph, pa rai i feibion Corah. Nodwch enwau awduron ereill.

Pa werth neillduol a briodolir i'r cyfansoddiadau yma? Pa mor bell y mae yr eglwys Gristionogol yn cymmeryd iaith y Salmau fel ei heiddo ei hun? Pa fodd y gellir edrych ar y Salmau mewn ystyr lênyddol? Rhoddwch farn Milton ac ereill ar eu barddoniaeth. Pa fodd y trefnir hwynt gan Tholuck, gan Beckersteth, a pha beth yw trefn Townsend? [a]Trefnwch hwynt yn gyffredin yn ol eu dyddiadau tebygol (Taflenau, B. C.). Beth yw awdurdod ac amcan cyffredin teitlau y Salmau? Rhoddwch ystyriaethau gwahanol y gair "ar," a'r geir "i'r," fel y defnyddir hwynt yn y teitlau. [a]Rhoddwch ystyriaethau y gwahanol eiriau a geir yn y teitlau, yn nghyd a'r un a ddewisir genych. Pa ddwy reol sydd yn bwysig wrth fyfyrio y Salmau? (adr. 58.)

Ar ba awdurdod y priodolir *Cân y Caniadau* i Solomon? Ar ba seilian y gosodir hi yn y canon? Ar ba achlysur y tybir yn gyffredin iddi gael ei hysgrifenu? Beth yw y cymmeriadau yn y Bryddest, a pha fath yw ei goseiliad *(stucture)?* Beth, fel y mae yn debygol, yw ei hystyr ysbrydol? Rhoddwch eich rhesymau dros y golygiad yma. Yn mha le y ceir siamplau o arddulliadau *(imagery)* cyffelyb yn cael eu defnyddio i egluro gwirionedd ysbrydoledig? I ba gamddefnydd dehongliadol y mae yn agored? (adr. 59.)

Pa mor bell y mae teitl y *Diarebion* yn cywir ddesgrifio y llyfr a elwir felly? Pwy oedd awduron y llyfr? Pa gymhorth y mae y cyfochreddau barddonol yn ei roddi i ddehongli y llyfr? Beth yw amcan y llyfr? Pa mor bell y mae duwioldeb yn cael ei ragdybied neu ei orchymyn? At bwy y mae y desgrifiad a roddir yn mhennodau 8fed a'r 9fed o ddoethineb i'w gymhwyso mewn modd neillduol? Nodwch unrhyw wirioneddau ysbrydol a ddysgir yn y llyfr. Rhoddwch y ddwy reol a osodir i lawr fel yn bwysig wrth esbonio ac egluro y Diarebion. Cymmerwch bob diareb a ddyfynir ac a ddarlunir, a dangoswch pa fodd y mae y darluniad yn egluro y ddiareb (adr. 61).

Beth yw ystyr y teitl *Pregethwr*? Gyda pha olygiad y mae yn debygol i'r llyfr gael ei ysgrifenu, a pha oleuni a dafla ar gymmeriad Solomon?

Drwy ba ddull neillduol y cyrhaeddir amcan y llyfr? Pa fodd yr esboniwch y syniadau annghywir a gynnwysa y llyfr? Nodwch Salmau sydd mewn modd byr yn rhoddi syniadau y llyfr hwn, ac eiddo Caniad Solomon. Nodwch y golygiadau sydd wedi cael eu cymmeryd ar ymresymiadau y llyfr yma. Pa brawf o lygredigaeth y natur ddynol a roddir gan y modd y mae y llyfr hwn wedi cael ei drin? A ydyw, mewn modd priodol, yn llyfr barddonol?

Dos. 6. *Y cyfan yn cael ei drefnu, adran* 63—68.

Rhoddwch y lle yn eu hanesion neillduol i'r rhanau canlynol, yn nghyd a'ch rhesymau, Jos. 2: 8, 30—35: 22: Barnwyr 18, 21: Ruth 1: 4: 1 Sam. 16, 14—23: 2 Sam. 14, 8—14. Rhoddwch ddyddiadau y mynediad i Ganaan, a sylfaeniad y deml. Cyssonwch unrhyw wrthddywediadau, 2 Sam. 24; a 1 Cron. 21 (adr. 464, *b. e*). [b]Nodwch unrhyw wersi yn yr hanesion yma.

PENNOD III.

Llyfrau Hanesyddol a Phrophwydoliaethol hyd Derfyniad y Canon.

Dos. 1. *Byr-clygiad Hanesyddol o'r Tymmor hwn, adran* 69—73.

Pa lwythau ymunodd â theyrnas Juda, a pha rai â theyrnas Israel? Pa adddewid ammodol gafodd Jeroboam o berthynas i'w deyrnas? Beth oedd ei bechod cyntaf, a'i bechod mawr? Beth oedd cymmeriad cyffredin ei olynwyr? Pa fodd y rhybyddiodd ac y cyfarwyddodd Duw ef? Dangoswch y modd y cadarnhaodd Duw ei air, ac y cospodd eu pechodau hwynt? Rhoddwch yn fyr ddechreuad caethiwed Israel, yn nghyd a hanes ganlynol y wlad. Beth oedd cymmeriad cyffredin brenin-oedd Juda? Beth oedd prif gyfeiliornad gwladlywiad (*policy*) Juda, a pha fodd y cospwyd ef? (adr. 71). Dangosweh y cyssondeb rhwng rhagwybodaeth Ddwyfol a rhyddid dynol, fel y mae yn cael ei ddarlunio yn rhaniad y deyrnas. Eglurwch yr un gwirionedd oddiwrth ffeithiau ereill mewn hanesyddiaeth Iuddewig. [b]Nodwch unrhyw wersi a awgrymir. Rhoddwch nodiadau Davidson (adr. 72.) Dosparthwch lyfrau prophwydoliaethol a hanesyddol y tymmor yma yn ol eu trefn amseryddol. Dangoswch, oddiwrth daflen y prophwydi, pa rai o honynt oedd yn gydoeswyr, a nodwch dymmorau rhwng 840 c. c. a 510, pryd na cheid prophwydi sydd a'u hysgrifeniadau wedi cyrhaedd ein hamseroedd ni.

Dos. 2. *Natur Prophwydoliaeth yn ystod y Tymmor yma, adran* 74—76.

Rhoddwch rifedi y phrophwydi, a mynegweh pa rai o honynt a anerchent Israel, a pha rai a anerchent Juda. Pa fodd y gellir rhanu y pynciau yr ymdrinir â hwynt mewn prophwydoliaeth? Enwwch y prophwydi a brophwydant am Israel, Juda, Assyria, Babilon, yr Aifft, Ethiopia, Edom, Moab, Tyrus, dyfodiad cyntaf ein Harglwydd, yn nghyd a dygwyddiadau ar ol hyny. Nodwch unrhyw bynciau prophwydoliaethol ereill (adr. 76).

Pa mor bell y mae gwyrthiau yn darfod yn ystod cynnydd yr ysbryd prophwydoliaethol? Pa undeb o wyrth a phrophwydoliaeth sydd yn nysgeidiaeth ein Harglwydd, a pha wersi a gesglir oddiwrth hyn? (adr. 75, 1.) Pa bryd y mae prophwydoliaeth am genedloedd paganaidd yn fwyaf lluosog, a pha wersi a gesglir oddiwrth hyn? (adr. 75, 2, 3.) Pa bryd y mae prophwydoliaethau ar deyrnas y Messiah fwyaf lluosog, a pha wersi y mae hyn yn eu dysgu? Pa brofion sydd genym fod y cyfryw brophwydoliaethau yn angenrheidiol i gryfhau ffydd gweision Duw? Pa neilldwolion sydd yn iaith brophwydol y tymmor yma? (adr. 75, 5). Eglurwch eich atebiad drwy ymadroddion wedi eu cymmeryd oddiwrth Joel, Amos, Haggai, Zechariah, a Malachi.

Dos. 3. *Llyfrau Jonah, Joel, Amos, Hosea, Esaiah, Micah, Nahum, adran* 77—87.

Pa bryd y blodeuodd Jonah? Pa brophwydoliaethau a draddododd am Israel? Beth yw amcan ei brophwydoliaethau ysgrifenedig? Pa brawf sydd genym fod ei adroddiad yn hanes lythyrenol? Pa wersi a ddysgir yn y llyfr am adgyfodiad ein Harglwydd, am gymmeriad Duw, ac am y paganiaid? Pa wersi a ellir eu casglu gyda golwg arnom ni ein hunain? (adr. 77.)

Pwy oedd yn cael eu hanerch gan Joel, a pha bryd yr oedd yn byw? Beth yw testunau ei brophwydoliaethau? Beth yw cymmeriad ei ieithwedd? Pa brawf sydd genym o'i awdurdod Ddwyfol? (adr. 78). Pa ddehongliadau sydd wedi cael eu rhoddi ar bennodau 1:—2, 12? (adr. 79.)

Pa bryd y prophwydodd *Amos*, a phwy oedd yn cael eu hanerch ganddo? Pa fynegiad sydd yn ei brophwydoliaeth a duedda i sefydlu ei dyddiad? Beth oedd ei alwedigaeth wedi bod, a'r gwersi a ddysgir oddiwrth hyny? Pa brofion sydd genym mai efe ei hunan ysgrifenodd ei brophwydoliaethau? Beth yw cymmeriad ei ieithwedd, a pha oleuni a deflir ar ei ddull o fyw gan gynnwysiad ei brophwydoliaethau? Beth yw cymmeriad cyffredinol ei anerchiadau? Rhoddwch gynnwysiad y llyfr (adr. 80).

Pwy oedd *Hosea*, a pha bryd yr oedd yn byw? Rhoddwch enwau ei gydoeswyr. I bwy y mae efe yn prophwydo yn benaf, a pha beth oedd cyflwr cyffredin y bobl a anerchai? Pa ffigur a ddefnyddia yn aml, a pha beth yw ei ystyr? Pa hyd y prophwydodd, a siampl o beth yw ei hanes? Pa fodd yr ydych yn cyfrif am fyrdra cymharol ei lyfr? Nodwch brophwydoliaethau o'i eiddo a gyflawnwyd mewn modd neilldwol yn ein Harglwydd, a chyn ei ddyfodiad. Beth oedd cymmeriad cyffredinol ei ieithwedd, a pha fath gyfeiriadau y dywed Hengstenberg fod yn gynnwysedig ynddi? Rhoddwch gynnwysiad y llyfr, a'r golygiadau gwahanol sydd wedi eu mabwysiadu o berthynas i'w briodas (adr. 81).

O ba le yr ydym yn casglu y ffeithiau yn hanes *Esaiah?* Mynegwch draddodiadau luddewig o berthynas iddo. Rhoddwch ystyr ei enw, a pha beth y gelwir ef yn y Testament Newydd. Pa hyd y rhaid iddo fod yn prophwydo? Nodwch beth oedd cyflwr teyrnas Judah yn ystod teyrnasiad y pedwar brenin a enwir yn nechreuad ei lyfr. Beth oedd cyflwr Judah ac Israel yn ystod y cyfnod yma? Nodwch gyflwr Moab, Edom, Assyria, Babilon, a'r Aifft. Dangoswch pa fodd y mae y ffeithiau yn hanes pob un o'r gwledydd yma yn egluro ei brophwydoliaethau. Pa ddau gyfnod nodedig a ddygwyddasant yn ystod ei fywyd ef? Yr ydys wedi amheu gwirionedd rhan o Esaiah: Nodwch pa ran, ac, yn fyr, profwch ei gwirionedd (adr. 87). Rhoddwch raniadau y llyfr, yn nghyd a pha brophwydol-

iaethau a draddodwyd gydag eglurder neillduol. Nodwch unrhyw brophwydoliaethau a gawsant eu cyflawnu yn ystod, neu yn fuan ar ol amser y prophwyd ei hunan. Beth yw addysgoldeb moesol y prophwydoliaethau hyny? (adr. 85).

Mynegwch yr hyn a wyddis am *Micah*, ac, yn fyr, rhoddwch y profion o wirionedd ei brophwydoliaethau. Rhoddwch gynnwysiad a rhaniadau ei lyfr, neillduolion ei ieithwedd, ac unrhyw ragfynegiadau nodedig a draddodwyd ganddo (adr. 86).

Beth a wyddis am *Nahum?* Am ba beth y mae ei brophwydoliaeth yn fwyaf hynod? Pa ragfynegiadau neillduol a gynnwysa? A pha ragfynegiadau ereill y mae angen cymharu ei eiddo ef? Rhoddwch yn fyr hanes Ninefe. Mynegwch gynnwysiad y llyfr (adr. 87).

[b] Rhoddwch ffeithiau hanesyddol am gyflawniad rhagfynegiadau yn y holl brophwydi yma.

Dos. 4. *Llyfrau Sephaniah, Jeremiah, Habacuc, Daniel, Ezeciel, ac Obadiah, adran* 88—94.

Pa yspaid o amser sydd rhwng Nahum a *Sephaniah?* Beth oedd cyflwr y ddwy deyrnas yn ystod yr amser yma? Gyda pha frenin y mae y swydd brophwydol yn adnewyddu? Beth, fel y mae yn debygol, oedd amcan Sephaniah? Mynegwch yr hyn a wyddis am ei hanes bersonol. Pa ddefodau eilunaddolgar neillduol y cyfeirir atynt yn y llyfr yma? Nodwch brif bwnc ei ragfynegiadau. I ieithwedd pwy y mae ei eiddo ef yn gyffelyb? Rhoddwch grynodeb y Dr. Keith o'r prophwydoliaethau am Gaza, Ascelon, Ashdod, ac Ecron; a dangoswch y modd y maent wedi eu cyflawnu. Pa wersi a ddysgir oddiwrth hyn? (adr. 89.)

Mynegwch yr hyn sydd wybyddus i ni o hanes bersonol y Prophwyd *Jeremiah?* Pa gynnorthwyon neu rwystrau a dderbyniodd oddiwrth freninoedd Judah? Pa fodd y triniwyd ef gan Nebuchodonozor? Pa le y bu farw? Pwy oedd ei gydoeswyr, ac â pha brophwyd y gellir ei gymharu? Cyferbyniwch y ddau? Rhoddwch y trefniad o'u brophwydoliaethau a gynnygiwyd gan Blaney, a chan Ewald. Pa ranau o'i brophwydoliaethau a ysgrifenwyd gan un arall? Paham yr ystyrir ef fel prophwyd y cenedloedd? Nodwch unrhyw ragfynegiadau neillduol hynod a draddodwyd ganddo. Beth yw pwnc *Galarnadau* Jeremiah? Beth yw neillduolrwydd ieithwedd y llyfr yma, ac o ba fath arddulliau y mae yn gyflawn? Nodwch unrhyw wersi a ddysgir ynddo.

Pa bryd y mae yn debygol i *Habacuc* brophwydo, a pha le y dyfynir ei brophwydoliaeth fel llyfr ysbrydoledig? Pa dri goresgyniad a ragfynegir? Nodwch y prif bethau cynnwysedig yn y llyfr yma. Beth yr ymddengys yw amcan y bennod olaf? Pa fodd y cymhwysir 2, 3, gan ysgrifenwyr Iuddewig? (adr. 91).

Nodwch yr hyn a wyddis am fywyd *Daniel.* Rhoddwch y dyddiadau o'r eglurhad ar freuddwyd Nebuchodonozor, a'r ffwrn danllyd boeth; ac ail freuddwyd Nebuchodonozor. Nodwch, yn fyr, y profion o swydd brophwydol Daniel. Dangoswch pa fodd y mae ei lyfr wedi ei ranu, a pha gyfran o hono sydd yn y Galdaeg? Rhoddwch ddyddiadau yr amrywiol weledigaethau prophwydol. Beth yw amcan pennod 2 a phennod 7? Yn mha beth y mae yr amcanion yma yn gwahaniaethu? Beth yw amcan pennod 8? Beth yw y "corn bychan"? Pa brophwydoliaeth bennodol am y Messiah a roddir yn pennod 9? Mynegwch amcan pennod 11. Rhoddwch enwau yr awduron sydd wedi esbonio helaethaf ar y llyfr yma,

yn nghyd a'u golygiadau gwahanol. Nodwch y gwersi ysbrydol nodedig a awgrymir yn y llyfr hwn (adr. 92).

Pa bryd y prophwydodd Ezeciel? Beth a wyddis am ei hanes bersonol? Pa bryd y bu yn prophwydo? At ba beth y mae y deng mlynedd ar hugain a nodir ganddo yn pennod 1. yn cyfeirio? Beth oedd neillduolrwydd ei gymmeriad? Beth yw canolbwnc ei ragfynegiadau? Beth oedd ei amcan cyn cymmeryd Jerusalem, ac ar ol hyny? Pa fodd y mae Havernick yn rhanu y llyfr? Esboniwch y ffigur yn pennod 17. Beth yw meddwl tebygol yr wyth pennod olaf? (adr. 93).

Rhoddwch ddyddiad tebygol prophwydoliaethau *Obadiah*, a mynegwch pwy oedd ei gydoeswyr. Beth yw prif bwnc ei bropbwydoliaethau, a pha fodd y cyflawnwyd hwynt? Pa brophwydi ereill sydd yn llefaru am yr un pwnc?

Y *Caethiwed.*—Pa wasgfeuon oedd yn dàl cyssylltiad â'r caethiwed? Pa fantais a ddeilliodd drwy y caethiwed? Pa wahaniaeth nodedig sydd rhwng y rhagfynegiadau perthynol i Judah, a'r rhai perthynol i Israel? Pa ragfynegiadau a gyflawnwyd yn y caethiwed? Beth oedd ei achos moesol? Pwy oedd prif offeryn yr adferiad? Beth yw neillduolion prophwydoliaeth yn ystod y tymmor yma?

Dos. 5. *Llyfrau Ezra, Haggai, Zechariah, Esther, Nehemiah, Malachi, adran* 95—102.

Pwy oedd Ezra, a pha beth a wyddis am ei hanes bersonol? Pa gyfran sydd wedi ei hysgrifenu yn y Galdaeg? Pa gyfnod sydd yn gynnwysedig yn ei lyfr, a pha fodd y gwyddom pwy oedd ei awdwr? I ba ddwy ran y mae wedi ei ddosparthu? Rhoddwch ei gynnwysiad yn gyffredinol. Mewn cyssylltiad â pha brophwydi y dylai llyfr Esther gael ei ddarllen? Pwy oedd Zorobabel? O ba beth y mae y dychweliad o Babilon yn gysgod? Nodwch unrhyw drefniadau rhagluniaethol nodedig a wnaed gan Dduw mewn cyssylltiad â'r adferiad yma. Beth sydd wybyddus am y blynyddoedd olaf o fywyd Ezra? (adr. 95).

Rhoddwch ddyddiad llafur *Haggai*, a'r amcan i'r hwn y mae yn ymddangos iddo gael ei anfon. Beth oedd cyflwr yr Iuddewon ar y pryd? A pha gospedigaeth yr ymwelwyd â hwynt? Pa gyfnod a gymmerir i fyny gan ei ragfynegiadau? Mynegwch y pedair genadwri brophwydoliaethol a gynnwysir yn ei lyfr. Pa ragfynegiadau a draddodwyd ganddo o berthynas i'n Harglwydd? At ba deml y mae yn cyfeirio yn neillduol, a pha fodd y cyflawnwyd ei ragfynegiadau? (adr, 96).

Mynegwch yr hyn sydd yn cael ei wybod am Zechariah, yn nghyd âg amcan uniongyrchol ei brophwydoliaethau. Pa amheuon a fodolant o berthynas i awduriaeth pennodau 9—14? Beth yw y golygiad cyffredin, a pha fodd y mae y cyfeiriad yn y Testament Newydd yn cael ei egluro? Beth yw un o amcanion eithaf ei ragfynegiadau? Beth yw yr ieithwedd sydd yn ffynu yn Zechariah? Rhoddwch feddwl tebygol y naw gweledigaeth gyntaf yn pennodau 1—6, a'r gweledigaethau diweddol yn pennodau 9—14. Rhoddwch amcan y pennodau cyfryngol. Pa Salmau a briodolir yn y Deg a Thri Ugain i Haggai a Zechariah? (adr. 97—98).

Pa mor bell y dychwelodd yr Iuddewon yn gyffredinol i Judea ar yr adferiad? Beth yw dechreuad tebygol llyfr Esther? Pa ffeithiau a bleidiant y dybiaeth yma? Rhwng pa ranau o lyfr Ezra y gellid darllen llyfr Esther? Mynegwch gynnwysiad y llyfr. Rhoddwch unrhyw wersi a awgrymir ganddo (adr. 99).

A pha lyfr yr oedd *Nehemiah* gynt yn unedig? Pa brofion sydd o berthynas i'w awduriaeth? Beth yw prif bwnc y llyfr? Rhoddwch hanes bersonol Nehemiah. Mynegwch yr anhawsderau oedd ganddo i ymdrechu yn eu herbyn wrth adadeiladu muriau y ddinas. Pa brophwydoliaeth a gyflawnwyd fel hyn? Nodwch brif weithredoedd ei weinyddiad, a pha hyd y parhäodd. Nodwch y gwersi a ddysgir yn y llyfr yma (adr. 100).

Pa debygoliaeth sydd rhwng llyfr Nehemiah ac eiddo *Malachi?* Rhoddwch fraslun o brophwydoliaethau Malachi. Cymharwch ragfynegiadau cyntaf a diweddaf yr Ysgrythyr, a dangoswch beth sydd yn perthyn yn gyffredin i'r naill fel y llall (adr. 102).

Dos. 6. *Y cyfan wedi ei drefnu, adran* 103—106.

Enwwch mewn trefn y prif ddygwyddiadau perthynol i deyrnas Judah, a'r rhai perthynol i deyrnas Israel hyd ddymchweliad yr olaf. Rhoddwch mewn trefn amseryddol enwau y prophwydi mwyaf nodedig yn mhob teyrnas. Mynegwch pa deyrnachau a deyrnasasant yn Israel, a pha rai yn Judah. Nodwch unrhyw anhawsderau amseryddol yn yr hanesion yma, yn nghyd a'r modd i'w symud ymaith (gwel blynyddoedd 941, 892, 890, 887, 738). Dangoswch yn mha le yr ydym i roddi Salm 82, 115, 46; Amos 7, 10—19; Jonah; Hosea 7:—14 (403). Rhoddwch drefn Townsend o'r deg pennod flaenaf yn Esaiah (gwel tud. 402). Eglurwch Esaiah 14, 28—32; Esa. 16, 1. Dangoswch gywirdeb y cyfrifiad yn Esa 7, 8 (tud. 403).

Rhoddwch fraslun o'r dygwyddiadau yn Judah o gaethiwed Israel hyd gaethgludiad Judah. Rhoddwch enwau prophwydi yn ystod yr un cyfnod. Prif bwnc eu phrophwydoliaethau. Pa fodd y penderfynwn ddyddiadau Esa. 21, 32—35; 22, 15—25; Jer. 3, 46? (adr. 104).

Nodwch y dygwyddiadau a gymmerasant le yn Babilon a Jerusalem o gaethgludiad Daniel (c. c. 605) hyd ddiwedd y caethiwed yn nyddiau Cyrus (536). Enwwch y prophwydi. Mynegwch pa le yr oeddynt yn byw, yn nghyd a sylwedd eu prophwydoliaethau. Rhoddwch ddyddiad ac ystyr Dan. 2; 4; 7; 5; 6. Pa sawl gwaith yn ystod y cyfnod yma y gwarchaewyd ar Jerusalem, ac ar ba amgylchiadau y tarddodd y gwarchaedigaethau? I ba achos moesol y priodolir y caethgludiad. Rhoddwch adnodau i brofi hyn (tud. 406). Rhoddwch ddyddiad Jer. 32, 33; Ez. 29, 1—16; 17—21; 30, 20—26. Nodwch Salmau y mae yn debyg iddynt gael eu hysgrifenu yn ystod y tymmor yma (530—1), adr. 105. Mynegwch brif ddygwyddiadau hanesiaeth Iuddewig hyd derfyniad y Canon. Enwwch y personau enwocaf a gymmerasant ran yn ailadeiladiad y ddinas neu y deml, a'r prophwydi a'u cynnorthwyasant. Nodwch y Salmau a ysgrifenwyd yn y tymmor yma (adr. 106).

Dos. 7. *Amseriaeth yr Ysgrythyr, a Hanes foreuol Gyffredin, adran* 107—109.

Beth yw gwreiddyn yr anhawsderau yn hanes Assyria? Pa fodd yr ydys wedi cynnyg cyfarfod â'r anhawsderau hyn? Nodwch, mewn trefn, y prif ddygwyddiadau yn hanes Palestina, &c., o c. c. 2234, hyd raniad y deyrnas yn 976. Nodwch unrhyw ddygwyddiadau cydamserol yn yr Aifft. Nodwch rai o'r prif ddygwyddiadau yn hanes Assyria, Babilon, Media, a'r Aifft, hyd uniad y blaenaf o dan Cyrus. Nodwch, yn yr un modd, ddygwyddiadau dilynol hyd deyrnasiad Artaxerxes Mnemon (405).

PENNOD IV.

HANES WLADOL A MOESOL YR IUDDEWON O MALACHI HYD ENEDIGAETH IOAN FEDYDDIWR.

DOS. 1. *Braslun o'u Hanes Wladol, adran* 110—115.

Mynegwch gyflwr yr Iuddewon dan y Persiaid, a pha gyfnewidiadau gymmerasant le yn ystod yr amser hwnw. Eu cyflwr dan Alexander ac o dan y Ptolemiaid. Am beth y mae yr Iuddewon yn ddyledus i Simon y Cyfiawn? Beth yw hanes cyssylltiad Judea a Syria, a pha fodd y terfynodd y cyssslltiad hwnw? Rhoddwch hanes Antiochus Epiphanes. Rhoddwch hanes y Maccabeaid, a dechreuad eu henw. Pwy oedd Herod Fawr, a pha fodd y daeth i feddiant o'r deyrnas? Beth oedd llywodraeth y wladyn amser ein Harglwydd? (tud. 419).

DOS. 2. *Eu Hanes Foesol a Chrefyddol, adran* 116—128.

Pa effaith y mae yn ymddangos i'r caethiwed ei gael ar yr Iuddewon? Pa leoedd o ymgynnulliad sydd yn ymddangos fod wedi ymgyfodi oddiwrth yr amgylchiad hwnw? Pa effaith gafodd eu caethiwed ar y paganiaid, ac ar yr iaith Hebraeg? Dangoswch wreiddyn moesol Phariseaeth a Sadduceaeth, ac athrawiaeth yr Esseniaid. Nodwch sectau ereill a ddalient yr un golygiadau yn Groeg a Phersia. Rhoddwch enwau diweddarach y sectau Iuddewig hyny. Beth oedd yr egwyddor ddehongłyddol a fabwysiadwyd gan y Phariseaid, a pha beth oedd un y Sadduceaid? Beth oedd golygiadau pob un am draddodiad? Yn mha le y mae traddodiadau yr Iuddewon i'w cael? Beth yw y Mishna, y Gemara, a'r Talmud? Beth yw Targum Jerusalem, a pha beth yw yr un Babilonaidd? Pa ddyddordeb neillduol sydd yn perthyn i'r traddodiadau yma? Beth yw y Masora? Gwahaniaethwch rhwng y lleiaf a'r mwyaf. Am beth yr ydym yn ddyledus i'r Masoritiaid? Beth a olygir wrth y Keri, a pha beth wrth y Kethib?[b] Eglurwch lythyrenau neillduol yn y testun Hebreig. Beth yw y Cabala, a pha beth yw ei ddechreuad?

Nodwch y prif ddygwyddiadau perthynol i'r Phariseaid a'r Sadduceaid; y Galileaid a'r Herodaniaid. Pwy oedd y Zelotiaid, a pha beth y mae yn debygol oedd "Surdoes Herod?" Pwy oedd yr Esseniaid, a pha beth oedd nifer pynciau eu ffydd? Pwy oedd yr ysgrifenyddion? Pwy oedd y Sanhedrim? Mynegwch y gwahaniaeth rhwng y ddau ddosparth o broselytiaid. Pa ddosparth oedd yn derbyn yn fwyaf ffafriol ddysgeidiaeth ein Harglwydd? Pa fodd yr ydych yn cyfrif am y ffaith yma? Dan ba enw y lleferir am danynt yn llyfr yr Actau? Rhoddwch hanes dechreuad y Samaritaniaid. Pa fodd y mae eu hanes wedi ei goruchlywyddu er daioni? Pa fodd y derbynient yr efengyl? Ar ba adnodau y seiliant eu ffydd am ddyfodiad y Messiah? Pa sectau darddodd oddiwrthynt yn nyddiau boreuol yr eglwys Gristionogol? Y sectau Iuddewig yma a gynnrychiolant dueddiadau y natur ddynol: Eglurwch hyn (adr. 128).

PENNOD V.

Y Testament Newydd.

Rhagarweiniad, adran 129—134.

Crist yw pwnc yr efengyl, a chyflawniad y gyfraith, yn dadguddio Duw a'r natur ddynol: Eglurwch y mynegiad yma. Pa fodd y gallwn esbonio y defnydd mynych a wnelai ein Harglwydd o ddammegion? Pa fodd yr eglurwch ddadleniad graddol gwirionedd yn y Testament Newydd? Moesoldeb yw efelychu Crist: Eglurwch bwysigrwydd y mynegiad yma.

Rhoddwch wahanol deitlau gwyrthiau ein Harglwydd, yn nghyd a'u hystyriaethau. Beth yw y prif wahaniaeth rhwng gwyrthiau yr efengyl ag eiddo yr hen oruchwyliaeth? Nodwch unrhyw wersi a ddysgir gan wyrthiau ein Harglwydd. Pa mor bell y mae gwyrthiau yn gysson â rhediad natur? Pa ddau olygiad sydd wedi ffynu o berthynas i'r cyssylltiad, fel y mae yn cael ei osod allan yn yr Efengylau—rhwng goruchwyliaeth satanaidd a chlefyd.

Dos. 1, 2. *Yr Efengylau, adran* 135—137.

Beth yw ystyr y gair Efengyl? I roddi pa beth y mae yr Efengylau yn ymddangos wedi eu bwriadu? Rhoddwch amcan neillduol pob Efengyl, a'r modd y mae Crist yn cael ei osod allan yn mhob un, ac ynddynt oll? Pa brofion sydd genym o burdeb yr Efengylau? Nodwch ysgrifenwyr boreuol sydd naill ai yn appelio atynt, neu yn eu dyfynu. Yn mha le y mae tystiolaethau yr ysgrifenwyr hyny i'w cael? Pa ranau sydd wedi cael eu amheu gyda golwg ar eu purdeb?

Dos. 3. *Arweiniad i'r Efengylau, adran* 138—141.

Rhoddwch hanes *Matthew*, a dyddiad tebygol ei Efengyl. Pa olygiadau gwahanol sydd wedi eu coleddu am yr iaith yn yr hon yr ysgrifenodd ei Efengyl? Rhoddwch fraslun o'i Efengyl. Nodwch ei hamcan neillduol, a dangoswch pa fodd y cyrhaeddir ef.

Rhoddwch yr hyn sydd yn wybyddus o hanes *Marc*. Pa fodd y profir awdurdod ei Efengyl? Pa brofion mewnol sydd o adnabyddiaeth Pedr â'r Efengyl yma? Beth yw dyddiad, yn nghyd a neillduolion yr Efengyl?

Rhoddwch hanes *Luc*, yn nghyd a dyddiad a neillduolion ei Efengyl.

Rhoddwch hanes *Ioan*, cyn belled ag y mae yn wybodus. Beth yw dyddiad tybiedig, a pha beth yw neillduolion ei Efengyl? Beth, fel yr ymddengys, yw ei amcan drwyddi? Pa ddygwyddiadau neu bregethau sydd yn ysgrifenedig yma nad ydynt i'w cael mewn un man arall?

Dos. 4. *Amseriaeth yr Efengylau, adran* 142.

Pa gamsyniad sydd yn nyddiad presenol y cyfnod Cristionogol? Rhoddwch yr adnodau yn Luc a Ioan, a mynegiadau y Tadau Lladinaidd, sydd yn cadarnhau tystiolaeth Josephus. Beth oedd oedran ein Harglwydd pan ddechreuodd ei weinidogaeth, a pha hyd y parhäodd y weinidogaeth hono? Pa mor bell y mae genym wybodaeth sicr am y dyddiau y ganwyd ac y croeshoeliwyd ein Harglwydd?

Dos. 5. *Yr Efengylau yn cael eu cyssoni, adran* 143—150.

Beth a feddylir wrth drefniad cydolygol (*synoptical*) o'r Efengylau, a phaham y mae yn bwysig? Paham y mae trefniad amseryddol o'r Efeng-

ylau yn fwy anhawdd? Pa sawl Pasc a nodir yn yr Efengylau? Pa olygiadau gwahanol sydd wedi eu coleddu o berthynas i'r posiblrwydd o ffurfio cyssondebau (*harmonies*) o'r Efengyl? Wrth wneyd hyn, pa mor bell y mae yn ofynol newid trefn pob Efengyl? Pa egluriadau sydd wedi eu rhoddi ar y cydundeb geiriol mynych rhwng y gwahanol Efengylau? Nodwch yr un mwyaf tebygol. Eglurwch wrthddywediadau ymddangosiadol yr achyddiaethau, galwad Pedr, y Bregeth ar y Mynydd, y ddau gythreulig, gwas y canwriad, y ddau ddall yn agos i Jericho. Darluniwch y pwysigrwydd o fyfyrdod amseryddol o'r Efengylau. O dan ba amgylchiadau y talwyd y weithred gyntaf o addoliad i'n Harglwydd? Mynegwch pa wersi ysbrydol a ddysgir oddiwrth demptiad Crist. Pa bryd y cydnabyddwyd ei Fabolaeth? At ba beth y mae y cyhoeddiad cyntaf a'r ail o berthynas i Grist yn cyfeirio? Nodwch ac eglurwch arwyddocad ei wyrth *gyntaf*, ei weithred gyhoeddus *gyntaf*, a'i bregeth ysgrifenedig *gyntaf*. Y mae ymddygiad dysgyblion ein Harglwydd yn ystod yr wythnos olaf o'i weinidogaeth yn hynod effeithiol: Pa fodd felly? Ar ba gyhuddiad y condemniwyd ein Harglwydd? Pa fodd y gallwn gyfrif am y lle helaeth a roddir yn yr Efengylau i hanes marwolaeth ein Harglwydd? Rhoddwch fraslun o'r gwyrthiau cofnodedig yn yr 8fed a'r 9fed o Fatthew, a nodwch eu harwyddocâd ysbrydol. Dangoswch fod yr enghreifftiau o gyfodiad y meirw a nodir yn yr Ysgrythyr yn dangos yn raddol ei awdurdod ar y bedd.

Dos. 6. *Pynciau i sylwi arnynt wrth ddarllen yr Efengylau, adran* 151, 2.

Pa bynciau a alwant am sylw neillduol wrth fyfyrio yr Efengylau? Y mae cymhariaeth o'r Efengylau ar bynciau neillduol weithiau yn gwneyd y meddwl yn fwy eglur ac argraffiadol: Eglurwch hyn.

PENNOD VI.

Llyfr yr Actau.

Dos. 1. *Efengyl y Cenedloedd, adran* 153—161.

I ba dair rhan y gellir dosparthu llyfr yr Actau? Pa olygiadau gwahanol sydd wedi eu dadgan am werth yr Efengyl at y bobloedd Genedlig? Yn mha beth y mae ei gwir werth yn gynnwysedig? Rhoddwch sylwedd ei dysgeidiaeth mewn gwrthgyferbyniad i wybodaeth y Cenedloedd am euogrwydd dynol, a chymmeriad Duw, am foesoldeb, am fywyd dyfodol, ac, uwchlaw y cwbl, am gynllun o iachawdwriaeth. Dangoswch pa fodd y mae efengyl Crist yn rhoddi gwybodaeth ar yr holl bethau yma. Dangoswch y cyssylltiad sydd rhwng yr Efengylau, yr Actau, a'r Epistolau.

Dos. 2. *Yr Actau, adran* 162—3.

Dangoswch gynnydd triphlyg eglwys Crist fel y mae yn cael ei ddarlunio yn yr Actau. Pa mor bell y mae yn hanes gyflawn o'r eglwys foreuol? Mynegwch pa gyssylltiad oedd rhwng Luc a Phaul. Pa bryd ac yn mha le y tybir i lyfr yr Actau gael ei ysgrifenu? Pa brofion a gynnwysir yn y llyfr hwn o Ddwyfoliaeth ein Harglwydd? Dangoswch, oddiwrth bregethu yr apostolion ysbrydoledig, beth yw yr efengyl. Pa fodd y mae swydd a natur yr Ysbryd Glân yn cael eu dadguddio yma? Dangoswch oddiwrth yr hanesyddiaeth yma beth oedd cymmeriad a threfn eglwysi

cyntaf Crist. Am ba achosion y gwrthwynebid yr efengyl gan yr Iuddewon, y Groegiaid, a'r Rhufeiniaid?

Dos. 3. *Amseriaeth yr Actau a'r Epistolau, adran* 164—166.

Pa gyfnod a gynnwysir yn llyfr yr Actau? Rhoddwch y gwahanol olygiadau. Gan gymmeryd o. c. 44 fel dyddiad marwolaeth Herod Agrippa, a 61 fel dyddiad dyfodiad Paul i Rufain, rhoddwch ddyddiadau ereill o ddygwyddiadau a gofnodir yn yr Actau. Am ba ddyddiadau y mae braidd yr holl amseryddwyr yn cyduno? Yn mha le yr ymdrinir â'r holl bwnc? Nodwch y prif ddygwyddiadau cofnodedig yn yr Actau a'r Epistolau, eu trefn, a dyddiad tebygol pob Epistol.

PENNOD VII.

Yr Epistolau a Llyfr y Dadguddiad.

Dos. 1. *Ar Fyfyrdod o'r Epistolau, adran* 167—169.

Beth yw amcan yr Epistolau? Nodwch gymmeriad cyffredin ac amcan pob un o'r ysgrifenwyr, cyn belled ag y mae y pethau hyn yn dylanwadu ar eu Hepistolau. Nodwch eu nodweddau neillduol hwynt, at ba rai yr anfonwyd pob Epistol. Beth yw cynllun Locke er cael allan amcan amlwg yr Epistolau? Beth sydd yn bwysig er cael allan y dosranau gwahanredol yn yr Epistolau? Nodwch dri phrif gamsyniad yn yr eglwys foreuol. Pa ddylanwad a arferwyd gan Iuddewaeth, gan athroniaeth, gan wybodaeth heb santeiddrwydd? Nodwch gyfeiliornadau y Docetæ, y Cerinthiaid, y Platoniaid Alexandriaidd, a'r Nicolaiaid. Pa brawf y mae hyn yn ei roddi o lygredigaeth y natur ddynol? Dangoswch y pwys o gymharu yr Epistolau y naill â'r llall.

Dos. 2. *Purdeb yr Epistolau, adran* 170.

Gan dystiolaeth pa awduron yn y tair canrif gyntaf y profir purdeb yr Epistolau? [b]Yn mha le y gellir gweled yr awdurdodau yma?

Dos. 3. 1 *Thessaloniaid i Judas, adran* 171—195.

Nodwch sefyllfan a phwysigrwydd Thessalonica. Rhoddwch hanes cyflwyniad yr Efengyl yno, achos ysgrifeniad yr Epistol cyntaf, y pethau a gynnwysai; enwwch y rhaniadau. Rhoddwch achos ac amcan yr Ail Epistol. Dangoswch y tebygolrwydd rhwng "corn bychan" a'r "dyn pechod," a ddesgrifir yn 2 Thess. Pa wirioneddau a gesglir oddiwrth yr Epistol yma, ac adnodau ereill, o berthynas i ail-ddyfodiad ein Harglwydd?

Rhoddwch darddiad y *Galatiaid*, yn nghyd a'u cymmeriad cyffredinol. Pa bryd y derbyniasant yr efengyl, ac i ba ddyben yr anfonwyd yr Epistol yma atynt? Rhoddwch brif gynnwysiad yr Epistol. Cymharwch ef â'r Epistolau at y Rhufeiniaid a'r Corinthiaid, a nodwch y gwersi pwysig a ddysgir ynddo. Rhoddwch y prif raniadau.

Beth oedd sefyllfan a chymmeriad *Corinth?* Pa bryd y derbyniodd yr efengyl? Beth oedd gwreiddyn yr annghydfod yn yr eglwys yma? Pa bryd, ac yn mha le yr ysgrifenwyd yr Epistol cyntaf? Pa ddrygau y mae yn amcanu eu diwygio? Pa fodd y mae yn egluro cymmeriad Paul, a pha

olygiad a rydd ar duedd haelfrydig a darostyngol yr efengyl? Dan ba amgylchiadau yr ysgrifenwyd yr *ail Epistol at y Corinthiaid?* Beth yw y prif bynciau a drinir ynddo? Rhoddwch grynodeb o ddysgeidiaeth yr Ysgrythyr ar yr awdurdod a'r cymmeriad apostolaidd—ar gymmeriad athrawon gau—ar yr eglwys—cymmeriad ei haelodau—eu dyledswyddau, eu hamcanion a'u hysbryd—eu dyledswyddau perthynasol fel Cristionogion—eu haelfrydedd, ei gymhellion a'i fesur—dysgyblaeth yr eglwys—pechod ac adgyweiriad rhwygiadau—iawn ddefnyddiad doniau gwyrthiol—ar gariad Cristionogol—ar yr adgyfodiad—ac ar swper yr Arglwydd.

Pa brofion sydd genym i Iuddewaeth gael ei chyflwyno yn gynnar i *Rufain?* Pa fodd y mae yn debygol i'r efengyl gael ei chyflwyno i'r ddinas hono? Pa wrthwynebiad sydd i'r dybiaeth mai Pedr a'i cyflwynodd yno gyntaf? Nodwch y ffeithiau sydd yn penderfynu dyddiad yr Epistol at y Rhufeiniaid. O ba bleidiau yr oedd yr eglwys Rufeinig yn cael ei chyfansoddi? Beth yw y ddwy brif wers a ddysgir i'r pleidiau a'i cyfansoddent? Rhoddwch raniadau yr Epistol. Dosrenwch yr Epistol, gan nodi y prif raniadau (i. ii., *a, b, c, d, e,* iii. a iv). Rhoddwch fyr-olygiad ar ddysgeidiaeth yr Ysgrythyr, ar angen dyn am iachawdwriaeth—ar gyfiawnhad drwy ffydd—ar ffrwythau ffydd—ar y cyssylltiad rhwng ein cyflwr pechadurus ni a phechod Adda—y cymhellion efengylaidd i edifeirwch—y rhagorfreintiau cyssylltiedig â chyfiawnhad—ffynnonell prynedigaeth—prif ddyledswyddau Cristionogion tuag at Dduw, tuag atynt eu hunain, a thuag at ereill—eu dyledswyddau cydgyfranogol, hyny yw, o gyfiawnder a gwirionedd—a'u dyledswyddau o haelfrydedd, hyny yw, o heddwch a chariad. Dangoswch y pwys a roddir yn yr Ysgrythyr ar santeiddrwydd. Beth ellir gasglu yw amcan Duw gyda golwg ar yr Iuddewon?

Paham y gelwir yr efengyl yn efengyl Duw a Christ? I ba ddyben y sonir yn y Rhufeiniaid am adgyfodiad Crist? Eglurwch ymadrodd "cyfiawnder Duw." Pa mor bell y mae anwybodaeth o Dduw yn achos ein gwrthryfel yn ei erbyn? Pa wersi ellir gasglu oddiwrth Rhufeiniaid i, 13—15; 25, 26? Pa *Iago* oedd awdwr yr Epistol? Yn mha le y llafuriai? At bwy a pha bryd yr ysgrifenwyd ei Epistol ef? Cymharwch ei ddysgeidiaeth âg eiddo Paul. Dangoswch pa fodd y mae y cyfeiliornadau a ffynent ar y pynciau yr ymdrinir â hwynt gan y ddau yn egluro y natur ddynol a'r efengyl. Rhoddwch fraslun o'r Epistol a'i raniadau. Pa wersi a ddysgir gan yr appeliad at siampl Abraham?

At bwy yr ysgrifenwyd yr Epistol at yr *Ephesiaid?* At bwy y tybia ereill iddo gael ei ysgrifenu? Pa olygiad sydd yn cyssoni y ddwy dybiaeth? Pa fodd y cyflwynwyd yr efengyl i *Ephesus?* Beth oedd cymmeriad cyffredinol y bobl? Pa bryd yr ysgrifenwyd yr Epistol? Rhoddwch fraslun o hono, yn nghyd a'i raniadau.

Pa fodd yr ydym i weddio dan yr efengyl? Dangoswch o'r Ysgrythyr natur rhyfel y Cristion, a'i arfau. Nodwch unrhyw wersi a awgrymir gan yr Epistol.

Mynegwch yr hyn a wyddis am *Colosse,* a chyflwyniad yr efengyl yno. Nodwch enwau anrhydeddus mewn cyssylltiad â'r eglwys yn amser Paul. Pa bryd yr ysgrifenwyd yr Epistol? I ba Epistol arall y mae yn debyg? Pa fodd y rhanir ef? Rhoddwch fraslun o'r cyfan.

Rhoddwch ddyddiad ac amcan yr Epistol at *Philemon.* O ba nodweddau y mae yr Epistol yma yn gynllun? Rhoddwch ei raniadau, a dangoswch â pha ranau ereill o'r Ysgrythyr y gellir ei gymharu. Am ba beth yr oedd *Philippi* yn hynod? Pa bryd y cyflwynwyd yr efengyl i'r ddinas, a pha

beth oedd cymmeriad yr eglwys yno? Pa bryd, ac ar ba achlysur, yr ysgrifenwyd yr Epistol? Nodwch ei gynnwysiad a'i raniadau.

Rhoddwch y rhesymau o blaid y golygiad mai Paul oedd awdwr yr Epistol at yr *Hebreaid*. At bwy yr anfonwyd yr Epistol? Dangoswch gyfaddasrwydd neillduol yr Epistol i'r dosparth yr anfonwyd ef atynt. Mynegwch ymresymiad a chasgliadau ymarferol yr Epistol.

Rhoddwch fraslun o ddysgeidiaeth yr Ysgrythyr ar urddas Crist; ei ymgnawdoliad; ei uwchafiaeth ar brif ddysgawdwyr yr hen oruchwyliaeth, a rhagoriaeth ei offeiriadaeth a'i aberth. Eglurwch arwyddocad cysgodol yr hen oruchwyliaeth, yn nghyd a gallu ffydd. Nodwch allan unrhyw wersi yn yr Epistol yma sydd yn cael eu cymhell gan resymau hynod o briodol.

Nodwch y prif ffeithiau yn mywyd Pedr, a'r gwahanol olygiadau o berthynas i'w ymweliad â Rhufain. O ba le ac at bwy yr ysgrifenwyd yr Epistol cyntaf? Rhoddwch grynodeb Leighton o hono. Rhoddwch hefyd fraslun o'r cyfan. Nodwch gymmeriad efengylaidd yr Epistol yma, yn nghyd ag unrhyw wersi a ddysgir ynddo o berthynas i ostyngeiddrwydd. Rhoddwch raniadau yr Epistol. Dangoswch brif foddion cynnydd y Cristion mewn santeiddrwydd.

Pa rai yw yr Epistolau *bugeiliol?* Pwy oedd *Timotheus?* Beth oedd ei gymmeriad? I ba adegau gwahanol yr ydys wedi priodoli dyddiad yr Epistol Cyntaf? Pa resymau sydd yn erbyn y dyddiad boreuaf? Rhoddwch raniadau yr Epistol. Nodwch unrhyw wirioneddau neu ddyledswyddau a eglurir mewn cyssylltiad â'r Epistol hwn, a rhoddwch grynodeb o ddysgeidiaeth yr Ysgrythyr o berthynas iddynt.

Beth a wyddis am *Titus?* Pa ddyddiadau gwahanol sydd wedi eu priodoli i'r Epistol at Titus? Rhoddwch y rhesymau o blaid pob un. Beth oedd cymmeriad cyffredinol y Cretiaid? I ba Epistol arall y mae hwn yn debyg? Rhoddwch y cynnwysiad. Pa wersi a ddysgir yma i weision, a pha fodd y dangosir y dylai gras gynnyddu santeiddrwydd? Beth yw dyledswyddau Cristionogion i'r llywodraeth wladol?

At bwy y danfonwyd *Ail Epistol Pedr?* Rhoddwch fraslun o'r Epistol. Pa ymarferion a gondemnir gan Pedr a Judas. Nodwch gyfeiliornadau gwrthwynebol o berthynas i ail ddyfodiad ein Harglwydd. Beth oedd geiriau olaf Pedr?

Rhoddwch grynodeb o ddysgeidiaeth yr Ysgrythyr ar bwysigrwydd duwioldeb mawr, ac ar y farn ddiweddaf, a'i chanlyniadau.

Pa bryd, ac yn mha le yr ysgrifenwyd *Ail Timotheus?* Rhoddwch y profion o'r dyddiad yma, y prif bynciau y sylwir arnynt yn yr Epistol, a'i raniadau. Nodwch unrhyw wersi a ddysgir ynddo, a chymharwch eiriau olaf Paul, Pedr, ac Ioan.

Rhoddwch ddyddiad tebygol Epistol *Judas*, a mynegwch yr hyn a wyddis am yr awdwr. Beth yw amcan yr Epistol? Pa atebion a awgrymir yn yr Epistol hwn i'r dadleuon a ddygir yn mlaen weithiau yn erbyn cospedigaeth y drygionus? Pa fodd yr ydym drwy hyn yn cael eiu dysgu i gymhwyso ffeithiau yr Hen Destament?

Dos. 4. *Cynnorthwyon at Ioan a'r Dadguddiad, adran* 196—205.

Beth yw amcan *Epistol Cyntaf Ioan*, ac ar ba seiliau y dadleuir iddo gael ei ysgrifenu ganddo ef? Pa dri chyfeiliornad sydd yn cael eu condemnio mewn modd neillduol ynddo? Rhoddwch fraslun o resymau yr

Epistol. Eglurwch y gair Annghrist, fel y mae yn cael ei ddefnyddio yn yr Ysgrythyr (nodiad *a*). Beth yw prif amcan addysgiaeth apostolaidd, a pha beth a olygir wrth gymundeb neu gymdeithas (*b*)? Pa dybiaeth am gymmeriad Ioan sydd yn ymddangos ei bod wedi cael ei chasglu oddiwrth yr Epistol yma? Pa wirionedd y sefir fwyaf arno ynddo?

Beth yw awduriaeth ac amcan *Ail Epistol Ioan?* Pa wersi ellir gasglu oddiwrtho?

Rhoddwch sylwedd *Trydydd Epistol Ioan.* Ar ba sail, debygol, y mae yr enw "henuriad" yn cael ei roddi i Ioan? Pa wersi ellir dynu oddiwrth yr Epistol hwn?

Pa ddyddiadau sydd wedi eu rhoddi i lyfr y *Dadguddiad*, a pha resymau sydd o blaid y dyddiad diweddaraf? I ba lyfrau yn yr Hen Destament y mae yn debyg? Rhoddwch ddau brif raniad y llyfr. Rhoddwch hefyd grynodeb o'r cyfan. Beth yw egwyddor ddehonglyddol gyffredin y Deon Woodhouse? Nodwch y tair cyfundraeth ddehonglyddol sydd wedi eu mabwysiadu mewn cyssylltiad â'r holl lyfr, yn nghyd a phleidwyr pob un. Rhoddwch fraslun o bob un o'r dulliau y dehonglir ef. Pa wirioneddau sydd yn cael eu dadguddio yn eglur yn y llyfr, pa gyfundraeth ddehonglyddol bynag a fabwysiedir?

Dangoswch nodweddau y gallu mawr gwrthgiliedig a osodir allan yn y Dadguddiad, a mynegwch pa fodd y desgrifir ef mewn rhanau ereill o'r Beibl.

Cymharwch y bennod gyntaf o Fathew, a'r un gyntaf o Genesis, ac hefyd y bennod olaf yn Malachi, a'r un olaf yn y Dadguddiad, a nodwch unrhyw ffeithiau a ddygir fel hyn i wrthgyferbyniad, yn nghyd a'r gwersi a ddysgant.

MYNEGAI.

ABERTH, yn cael son am dano gyntaf yn yr Ysgrythyr 297; ei ystyr, dan y gyfraith, 104, 135, 315; yn hanfodol er iachawdwriaeth, 96.
Aberthau diolch, 315.
Aberthau dros gamwedd, 314.
Abimelech, breninoedd a elwir felly, 112.
Abner yn fwy cyfiawn nâ Joab, yn cael ei egluro, 120.
Abraham, ei deithiau, 298; yr addewid yn cael ei rhoddi iddo, 299, 322; yn cael ei gyflawnhau drwy ffydd, 253, 461, 169—70; pa fodd i gyfranogi o'i fendith, 243.
Actau, llyfr yr, 446—7; yn egluro duwdod a swyddau y Mab a'r Ysbryd, 447—8.
Achau yr Ysgrythyr, defnydd o, 297, 330.
Adgyfodiad, athrawiaeth o, 467. Crist, arwyddocad a phwysigrwydd ei adgyfodiad, 237; cysgod yn yr Hen Destament; y blaenffrwyth, 205.
Adda, effaith ei bechod, 235, 297.
Addewidion, dadguddiad o gynghor Duw, 242; cyffredinol a neillduol, diammodol ac ammodol, 242—3, yn gwahaniaethu oddiwrth wahoddiadau, 244; dylent arwain at weddi a santeiddrwydd, 244.
Addoliad, yn gymmeradwy, y weithred gyntaf a gofnodir o, 297; cyhoeddus, yn mhlith yr Iuddewon, 310; yn ddyledswydd, 473.
Agag, gwahanol freninoedd a elwir felly, 112.
Aifft, hanes o, 87, 409; prophwydoliaethau ar, 364; ei hinsawdd, 201; pläau yr, 150, 303; defodau yr, 286; tuedd yr Iuddewon i ymddiried yn, 372—79.
Ail ddyfodiad Crist, 226.
Alexander ar y ddwy oruchwyliaeth, 79.
Alexander, ei fuddugoliaethau, 417.
Almon, arwyddlun, ystyr o, 165.
Amcan, pwys o nodi; pa fodd i'w ddysgu, 122; effaith o, wrth benderfynu ystyr, 123; wrth ddiwygio annghydfodau, 124; wrth dynu addysgiadau, 271.
Amlieithyr Complutensiaidd, 4; Llundain, 17, 21.
Ammon, prophwydoliaethau am, 364.
Amos, llyfr, 368.
Amser mewn prophwydoliaeth, 226.
Amserau, cyfieithiad o, 38.
Amseryddiaeth, anhawsder neillduol mewn, oddiwrth ddulliau ysgrifenu, 39; o gyfrif, 260—61; yr Hen Destament, 157—9; hawliau cymharol yr Hebraeg, y Deg a Thriugain, a'r Samaritanaidd, 159; defnyddioldeb o, wrth ddysgu gwirionedd moesol, 154; gwahanol brifnodau o, 155; rheolau i ffurfio cyfundraeth, 161; anhawsderau mewn, 259; hen, yn cadarnhau gwirionedd y Pumllyfr, 287; yr Efengylau, 435—6; yr Actau a'r Epistolau, 449—51. (Gwel Assyria, Aifft, Pum-llyfr.)
Amynedd yn gynnwysedig mewn ffydd, 488.
Ananias, ei bechod a'i farwolaeth, 447.
Anfarwoldeb, yn cael ei gredu gan seintiau yr Hen Destament, 253; yn cael ei amheu gan baganiaid, 444.
Anhawsderau yr Ysgrythyr, pa mor bell y dylid eu myfyrio, dechreuad o, 249; mewn geiriau ac amcan, 256—63; mewn gwirioneddau dadguddiedig, 264; defnyddioldeb o, 265; nid ydynt oll i gael eu symud, 269.
Anifeiliaid, ystyrion arwyddluniol o, 229.
Anselm, ar wybodaeth a phrofiad, 107.
Antilegomena, 7, 57; Gambier ar, 49.
Antioch, gwahanol ddinasoedd a elwir felly, 113.
Antiochus yn goresygn Judea, 418; yn cael rhagddywedyd am dano gan Daniel, 384.
Angel Jehofah, 90, 303.
Annghariad, pechod o, 291.
Annghrediniaeth yn bechod mawr, 234; yn cael ei ddangos yn nammeg y gwr goludog, 272.
Annghrist, dechreuad ac ystyr o, 499.
Apis, y ddelw Aifftaidd, 304, 398.
Apocrypha, ddim yn ganonaidd, 60; gwerth hanesyddol o, 61; pryd y gwnaed yn ganonaidd gan Rufain, 153; Augustin ar, 49.
Apostolion, eu dyoddefiadau a'u teithiau, 66, 152; eu tegwch, 76.
Arabaeg, 10; cyfieithiadau, 26; geiriau mewn darlunleni diweddar, 200.
Arabia, rhaniadau o, 191; prophwydoliaethau am, 365.
Aralleg, mathau o, 106; rheolau i ddehongli, 205—6; dulliau Iuddewig o arallegu ar eiriau a llythyrenau; dull rhesymolig, ar ffeithiau i'w gwadu hwynt, 212; gweithiau ar ddehongliad arallegawl, 221. (Gwel Ffigurau, Cysgodau, Dammegion.)
Aramaeg, 10; geiriau yn y Testament Newydd, 14.
Arch-offeiriad, 311.
Arfer clasurol o berthynas i eiriau y Testament Newydd, 323,
Arferiad, grym, 98.
Arferion teuluaidd yn mhlith yr Iuddewon, 179—80.
Aristeas, ei hanes, 23.
Arnodiadau ymyl y ddalen, 29; darllenladau, 42.
Arnodiau, ar yr Ysgrythyr, 139—40.

Arnold, ar gariad cynnyddol at yr Ysgrythyr, 84; ar ddarlleniad ymarferol o'r Ysgrythyr, 270.
Arogl-darth, 135.
Asen yn y dwyrain, ymadroddion yn cael eu hegluro, 163.
Asia, ystyr, yn y Testament Newydd, 199.
Asmoniaid, eu hanes, 418.
Assyria, amherodraeth, dystawrwydd yr Ysgrythyr ar, 85; ei hanes, 409; prophwydoliaethau am dani, 364.
Atheistiaeth yn tarddu o'r galon, 477.
Athen, eilun-addoliaeth yn, 152.
Athrawiaeth, pa fodd yr eglurir drwy siampl, 294.
Athrawiaethau yr Ysgrythyr, sail moesoldeb, 238; i'w dàl yn gysson, 234: gwerth cymharol o, 236—7; athrawiaethau hanfodol yr un yn mhob oes, 51; cymmysgedig â gorchymynion, 99; cyfenwau, 109; ymadroddion yn profi (gwel Rhuf.) pa fodd y ffurfir cyfundraethau, 234.
Athrawon gau, tri math o, 497—8.
Athrawon luddewaidd, eu cymmeriad, 455.
Athroniaeth, ei dylanwad, 454—462; dylanwad niweidiol ar yr eglwys foreuol, 454—5.
Augustus, pwy; gwahanol freninoedd a elwir felly, 112.
Awdurdod, dau ystyr i, 132.
Azazel, ystyr o, 314.

Babilon, prophwydoliaethau yn cael eu cyflawnu, 72; caethiwed yn, 388—9: gwaredigaeth o, cysgod o brynedigaeth, 218; ei chyflwr yn nyddiau Esay, 373, prophwydoliaethau am, 364.
Bacon, ar chwilio am athroniaeth yn yr Ysgrythyr, 214; ar ddehongliaeth, 205.
Balaam, ei gymmeriad, 125.
Balm Gilead, 164.
Banynau, pwys o, 121; gwahanol ystyrion i, 37.
Bara gosod, 310.
Barddoniaeth, neillduolion o, 292—3.
Barn olaf, 496; rhinweddau gofynol yn, 237; yn cael ei chysgodi yn yr Hen Destament, 224.
Barnabas, ei hanes, 80; ei ymddygiad tuag at Marc, 80.
Barnwyr, llyfr y, 324; cyflwr moesol yr Israeliaid dan, 324.
Bathon boreuol, 177—86.
Baxter, ei reol er symud amheuon, 83.
Bedydd, ei arwyddocaâ, 122.
Beddau, 189.
Beersheba, addysgiadau mewn cyssylltiad â, 192.
Beibl Gwahanranol, 293; Gwahanranau, pwys o nodi, 43.
Beibl neu Destament, argraffiadau o, gan Alter, 17; Athias, 21; Bengel, 17; Beza, 4; Birch, 17; Boothroyd, 22; Curcellæus, 17; De Rossi, 22; Elzevir, 4; Erasmus, 4, 17; Fell, Griesbach, 17; Hooght (Van der), Houbigant, 21—2; Jahn, 22; Kennicott, 4, 22; Koppe, 150; Lachmann, 18; Matthæi, Mill, 17; Scholz, 18; Stephens, 4; Tregelles, &c., 18.
Beibl, rhesymau dros ei fyfyrio, 1; ysbryd yn mha un y dylai gael ei fyfyrio 1—2, 108—9; ystyr y gair, 2; enwau Ysgrythyrol o, 2—3; amcan o, 122; ysgrifenwyr o, amgylchiadau yn mha rai yr ysgrifenwyd ef, 101; pa fodd y dylai gael ei fyfyrio, 269; ei ddyben mawr, dylanwad o, ar santeiddrwydd, 77; cyssondebau, 79—80; neillduolion o, fel dadguddiad, 84; golwg gyffredinol ar ei lyfrau, 282—4; pa fodd y dosparthir, 284; fel hanesyddiaeth, bywgraffiad, 294; ei ddadguddiad triphlyg, 294; i'w fyfyrio gan bawb; barn y Cristionogion boreuol, 153; yn meddu awdurdod Ddwyfol; yr *unig* awdurdod Ddwyfol, 51; y llyfr i'r ieuengtyd, 100. (Gwel Testament, Rhaniad, Prawf, Dehongliaeth, Purdeb, Gwirionedd, *Canon*.)
Benson ar anhawsderau Ysgrythyrol, 269.
Bereaid, eu myfyrdod o'r Ysgrythyr, a'i ganlyniadau, 90 (gwel Actau 17).
Berfau gweithredol, pa fodd y defnyddir yn yr Ysgrythyr, 112.
Bickersteth, ei olygiad o berthynas i brophwydoliaethau Ysgrythyrol, 224.
Birch, ei Auctarium, 62.
Birks ar Amseriaeth yr Actau, 450; ar gyssondeb gwahanol ranau yr Efengylau, 79—80.
Blwyddyn, gwladol ac eglwysig, 187; Sabbathol y Jubili, 315—17.
Blwyddyn Sabbothol, 315.
Bomberg, ei Feibl, 421.
Boyle ar yr Ysgrythyr, 1; ar ddadleniad Ysgrythyrol, 93.
Breninoedd, golwg gymharol ar deyrnasiad breninoedd Israel a Judah, 255—7.
Breninoedd, llyfrau y, 328—9; i'w cymharu â'r Croniclau, 330—31; 404.
Bridges ar Dduwinyddiaeth Reolaidd, 232.
Brown, ei gyssondeb o Brophwydoliaethau yr Ysgrythyr, 228.
Bugeiliaid yn yr Aifft, 151, 287.
Burton, Darlithiau Bampton, 421.
Bushe ar Brofion, 49.
Butler, ei gyssondeb, 79; ar anhawsderau yr Ysgrythyr, 265; ar hanes y Cread, 85; ar orchymynion moesol a phendant, 240.
Bwyd dwyreiniol, 182—3.
Byd, 193; gwyddorion y, dull y, 117.

Cabala, 422.
Cabalistiaid, 421—2.
Cæsarea, 112.
Caethiwed, ei achosion a'i ganlyniadau, 388; prophwydoliaethau, 388; dychweliad o, 389.

Caiaphas, Saduceaid, 423.
Cainan, ei le mewn achyddiaeth, 156—7.
Caldeaid, prophwydoliaethau am, 379.
Caldëaeg, 10; pennodau yn, 383, 390.
Calendar yr Iuddewon, gwersi a ddysgir gan, 202—4.
Campau Isthmiaidd, 462.
Caanan, ystyr o, 111; ei rhaniadau, 193; gwraig o, yn cael ei galw yn Roeges, 199.
Canaaneaid, eu cospedigaeth, yr addysgiadau o hyny, 322; rhai yn cael eu harbed, 324; nid oedd y felldith arnynt yn effeithio dim ar y cyfiawn, 111.
Caniad Solomon, canoneiddrwydd, ysbrydol, 340—42; arwyddocad, cam-driniaeth wrth ddehongli, 341.
Caniad y Graddau, 123, 339.
Canon, ystyr o; llyfrau o, 3; pa fodd y cadwyd, 59; pa fodd y penderfynwyd, 55, 56, 58; llechresi o'r llyfrau, 57, 58; Ail-ganonaidd, 57; neu antilegomena, 7. (Gwel Apocrypha.)
Canonau Eusebiaidd, 16.
Capellus, ei wasanaeth mewn Beirniadaeth Feiblaid, 21.
Capernaum, ei sefyllfa ddaearyddol, 79.
Caraitiaid, 421.
Careg wen, 190.
Cariad yn cymhell i ufydd-dod, 467; swm y gyfraith, 476; Cristionogol, ei ragoriaeth, 467; Duw, cariad yw, 500.
Casgliadau o'r Ysgrythyr, awdurdod o, 234—5.
Casineb, yn mha ystyr y gorchymynir, 110.
Cecil a Jay, cynlluniau o esboniad ymarferol, 280.
Cecil ar Gyssylltiad y Ddau Gyfammod, 84; ar fyfyrdod rheolaidd yr Ysgrythyr, 99; ar gyfoethogrwydd yr Ysgrythyr, 148.
Cedrwydden, arwydd-lun o'r cyfiawn, 162.
Ceiniog, 41.
Cenedloedd, effaith llywodraeth Iuddewig, 419; eu hangen o'r efengyl, 442—4; pa fodd mae'n cael ei gyfarfod gan yr efengyl, 443; darpariad i'w derbyn i'r eglwys, 362—4—70.
Cenedloniaeth, defnydd o, 287.
Cerbydau, ystyr o, mewn gweledigaethau, 393.
Cerub, 229.
Claddedigaeth ddwyreiniol, 189.
Claude, ei Draethawd, 280.
Cnawd, ystyr o, 114.
Codex, Deddf-lyfr, ystyr o, 15; Cod. Alex. Vati, &c., 4, 15, 19; darlleniadau o Cod. Alex. 22, 30.
Colossiaid, llythyr at, 481—2.
Complutum, Testament Newydd, 4.
Corinth, ei chymmeriad a'i phwysigrwydd, 462.
Corinthiaid (y), Llythyrau at, 462—7.
Corn bychan prophwydoliaethol Daniel, 384—459.
Corwyntoedd, effeithiau o, 291.
Craig yr eglwys, 127; creigiau yr Ysgrythyr, 175.
Creadigaeth, addysgiadau yn hanes y, 296.
Crediniaeth, pa fodd y rheolir, 89.
Crefydd, gwrthddrychol a thestunol, 96; ystyr y gair yn yr Ysgrythyr, 41; angen naturiol, 477.
Cretiaid, eu cymmeriad, 494.
Crist, prif destun yr Ysgrythyr, 85; prophwydoliaeth, 221; ei waith, pa fodd y rhag-ddywedwyd, 69; parotoadau a wnaethwyd gyferbyn a'i ddyfodiad, 295; ei farwolaeth a'i adgyfodiad, 237; Salmau ar ei gymmeriad, 225; dadguddiadau graddol o, 91; dirgeledigaethau mewn cyssylltiad â, 87; achos anianol ei farwolaeth, 79; teithiau ar nos ei fradychiad, 196; ei Dduwdod, athrawiaeth yr eglwys foreuol, 153; yn cael ei phrofi o'r Hen Destament, 253 (gwel Angel); ei gnawdoliaeth a'i urddas, 487; ei ragoriaeth ar Moses ac Aaron, 483; pob gwirionedd ynddo ef, 426; yn yr efengylau, 428; ei ddysgeidiaeth, 425; ei iawn, 237; parhad ei weinidogaeth, 435; ei faboliaeth yn cael ei gydnabod; ei farwolaeth; ei wyrth, ei bregeth, a'i weithred gyhoeddus gyntaf, 438—39.
Cristionogion, enwau neillduol yn y Testament Newydd, 80; eu rhageriaethau, pa fodd y gosodir allan yn yr Ysgrythyr, 98; yn rhwym o wasgaru yr efengyl, 246.
Croniclau, llyfrau y, 329—32; perthynasau â'r Breninoedd a Samuel, 330.
Cus, 113.
Cwymp, hanes y, ei ddyfnder moesol, 86.
Cybydd-dod yn cael ei gondemnio, 97, 187, 346.
Cyd-destun, defnydd o, i benderfynu ystyr 116, 17, 310; i awgrymu addysgiadau, 272, 3.
Cyfammod, ystyr o, 2; y newydd yw yr hen wedi ei ddadlenu a'i gwblhau, 282.
Cyfammodau gwahanol, yn cael eu henwi yn yr Ysgrythyr, 299; gyda Dafydd; efe yn eu cyfeirio at y Messiah, 328.
Cyfansoddiad Iuddewig yn cael ei ddarlunio, 310.
Cyfarchiad dwyreiniol, 189.
Cyfatebiad, ffynnonell y rhan fwyaf o iaith ar wirionedd ysbrydol, 102; defnydd o, i benderfynu ystyr geiriau, 136—7.
Cyfeiliornad, ei gynnydd tuag i waered, 301, 477; cyfeiliornadau yr eglwys foreuol, 454.
Cyfiawn, ystyr o, 120.
Cyfiawnder Duw, paham y gelwir cyfiawnhad felly, 477.
Cyfiawnhad drwy ffydd, golygiad yr Ysgrythyr am, 473; Paul ac Iago yn cael eu cymharu, 122—4; bendithion canlynol i, 473.
Cyfieithiad o'r Ysgrythyr, boreuol, 5, 23, &c.

Almaenaidd, Cyfieithiad, 134.
Armenaidd, 6, 25.
Awdurdodedig, Cyfieithiad, 44.
Cymreig, 45.
Eidalaidd, hen, 23.
Ffrengig, 134.
Georgiaidd, 25.
Gothaeg, 24.
Isellmynaidd, 134.
Italaidd, 134.
Lladinaidd, diweddar, 133.
Sahidaidd, 6.
Seisnig, 25.
Slafonaidd, 25.
Ysbaenaidd, 134.
(Gwel hefyd Arabaeg, Aifftaeg, Ethiopaeg, Persiaeg, Groeg, Ysgrythyr, Syriaeg, Vulgate.)
Cyfieithiadau, defnyddioldeb o, er dehongli, 134.
Cyfieithiadau Seisnig: awdurdodedig, pa beth, 44; cywreinrwydd cyffredinol o, 44—5; Wycliffe, Tyndale, Coverdale, 44; Genefaidd, Douayaidd, Rheiniaidd, &c., 45. Rhagoroldeb yr un Cymreig, 36.
Cyflwyniad, gwyl y, 317.
Cyfnod Iwlaidd, 435.
Cyfnod Nabonassar, 373; cyfnodau neu brifnodau amrywiol, 155.
Cyfochredd, defnydd o, mewn dehongliaeth, 119; cyfystyr, 119; cyferbyniadol, 119; cystrawol, 293.
Cyforddwyn, 106.
Cyfraith, y, ei gwir ddyben, 289; braslun o'i hammodau, 310—18; dechreuad y seremoniol, 307; pa fodd i'w dehongli, 240.
Cyfrwysdra bydol, yn fynych yn ddinystriol, 356.
Cyffelybiaeth, 106.
Cyffiniau, ystyr o, 199.
Cyllid Judæa yn nydd ein Harglwydd, 195; gwahanol fathau o, pa fodd y casglwyd, 184.
Cymdeithas â Christ, 499.
Cymhariaeth, pa fodd y gosodir allan yn Heb., 110; Ysgrythyr ag Ysgrythyr (gwel Cyfochreddau).
Cymmod, ystyr o, 141—2.
Cynnydd Cristionogol drwy y gair, 491.
Cynghor Duw yn cytuno â'i addewidion, 242.
Cysgodau, 104—5; 206—7; 211—13, 310; rhanadwy i (1.) Bersonol,—Adda, Aaron, Josua, Solomon, &c.; (2.) Hanesyddol,—Y Sarff bres; (3.) Gosodiadau Crefyddol, Tabernacl, Trugareddfa, Aberth, Pasg, &c. (Gwel ar yr egwyddor gyffredinol, 207—14—16, 217).
Cyssondeb y ffydd, ystyr o, a rheolau ar, 127—9.
Cyssondeb yr Efengylau, pa fodd y ffurfir, 437.
Cystudd, 272; santeiddiedig, 277; dysgeidiaeth yr Ysgrythyr ar, gydag enghreifftiau, 277.
Cyssylltiad hanesyddol y ddau Destament, 413—19.
Cythreuliaid, ystyr o, 41; diafol, ei bersonolrwydd, 297. (Gwel Satan).

Dadguddiad cynnyddol, 90; unoliaeth o, 94.
Dadguddiad, dyddiad a chynnwysiad, 501; ei brif destun; tair damcaniaeth o ddehongliaeth, 503—4; addysgiadau dadguddiedig yn, 508; pennodau terfynol o, yn cael eu cymharu â phennodau ereill o'r Ysgrythyr, 509.
Dadguddiad graddol o wirioneidd yn yr Hen Destament a'r Newydd, 426.
Dadguddiad ysgrifenedig, mantais o, 48; rhybydd o berthynas i'r defnydd o, 48.
Dadl, anhawsder o ddwyn yn mlaen, 291.
Dadleniad yn yr Ysgrythyr, 90—3; camdriniaeth o, 93.
Dafydd, gwr yn ol calon Duw, 124; ei gyfiawnder yn cael ei egluro, 119; ei brophwydoliaethau am Grist, 327; Crist yn cael son am dano dan ei enw, 216; ei gymmeriad a'i deyrnasiad, 231; ei bechod a'i gospedigaeth, 254.
Daearbyg, pa beth, 175.
Daeareg, 287.
Daearyddiaeth, defnyddioldeb o, 190; anhawsderau yn cael eu hegluro gan, 199; braslun o, 190—3.
Damascus, ei chymmeriad, 191.
Dammegion, pa beth ydynt, 106; pa fodd yn gwahaniaethu oddiwrth ffigyrau, 205; pa bryd y defnyddir, 206; pa mor bell y gellir myned â'r dehongliad, 208; amcan, 207; yr Hen Destament, 209; y Testament Newydd yn cael ei ddosparthu, 209—11; y Samariad a'r Mab Afradlon, 207; rheolau ar, 206—9; llyfrau ar, 214; paham y defnyddiwyd gan ein Harglwydd wrth ddysgu, 426. (Gwel Lisco, Neander, Aralleg.)
Daniel, llyfr, 283, 382; amseriaeth, rhaniadau, ac addysgiadau ysbrydol, 383—5. Daniel yn siampl i ddynion ieuainc, 385.
Darlleniad ymarferol o'r Ysgrythyr, awgrymiadau ar, 270—94; duwinyddiaeth ymarferol, pa beth, 234.
Darlleniadau a gwelliadau tybiedig, 34.
Darlleniadau amrywiol, rhif o, 8, 9; dechreuad o, 27—31; anhawsderau yn cael eu hachosi gan, 256—61. (Gwel Darlleniadau a Gwelliadau).
Daubuz ar iaith arwyddluniol, 220.
Davidson, ei Feirniadaeth Feiblaidd, 22, &c.
Davison ar brophwydoliaeth, 70.
Deddf seremoniol, ei dechreuad a'i dyben, 307—10.
Defaid, cynffon o, paham yr offrymasid; arferion o, 163.
Defodau yn esbonio testunau, 178, 188; anhawsderau yn, 258.

Deg, arfer o berthynas i, 111.
Deg a Thriugain. (Gwel Cyfieithiad Groegaidd).
Dehongliadau dychymmygol, 109, 212—14.
Dehongliaeth, rheolau, 109—131; yn cael ei ganiatau gan ddyfyniadau yn y Testament Newydd, 216; cynnorthwyon i, 149; o'r Salmau, 340; Caniad Solomon, 340; Diarebion, 343; Pregethwr, 347; Joel, 367; Zechariah, 393. (Gwel llyfrau neillduol.)
Delta ar Ddadguddiad, 508.
Deugain, defnydd neillduol o, 112.
Deuteronomi, 289.
Diaconiaid, eu cymhwysderau a'u dyledswyddau, 493.
Diarebion, llyfr y, 342—6; rheolau er ei fyfyrio, 343; enghreifftiau o esboniad, 344—6.
Diod ddwyreiniol, gwinegr, &c.; enghraifft gyffrous o anysgogrwydd ein Harglwydd, 183.
Dirgelwch, 41, 117.
Dirmygion, gwahanol fathau o, 189.
Diwrnod Iuddewig, pa fodd y rhenir, 186.
Docetæ, 451.
Dodrefn dwyreiniol, 180.
Doethineb,—gyda'r llariaidd, 108; ein Harglwydd, 77, 426; eiddo dyn i'w ddrwgdybio, 269; bydol, ffolineb o, yn Jeroboam, 398; yn cael ei brofi gan gystudd, 273; yn y Diarebion a Phregethwr, 348.
Doniau gwyrthiol, eu defnydd, 467. (Gwel Leslie).
Doniau yn cynnyddu wrth eu defnyddio, 236.
Dosparthiad amseryddol o'r Ysgrythyr 92, 295—308; 348—54.
Drygioni, pa fodd y goruwch-lywodraethir, 302.
Duw, ei natur, pa fodd y dadguddir, 90; yn Ysbryd, 127; ei gymmeriad; ei lywodraeth, 97; yn unig a anrhydeddir yn yr Ysgrythyr, 75; yn cael ei egluro yn Genesis, 297.
Duwinyddiaeth osodedigaethol, pa beth, 234.
Duwinyddiaeth, pa beth yw, 131; gosodedigaethol ac ymarferol, 234. (Gwel Duwinyddiaeth Reolaidd).
Duwinyddiaeth Reolaidd, pa fodd y ffurfir, 232; yn gwahaniaethu oddiwrth ddehongliaeth, 233; niwed o wrthod, 233; canonau ar ffurfio, 234; enghreifftiau o, 465, 473.
Duwioldeb uchel yn cael ei gymmeradwyo, 495—6.
Dwylaw yn cael eu gosod ar aberth, ystyr o, 313.
Dychymmygion yr Ysgrythyr, 106.
Dyddiadau y Beibl Cymreig, o ba le y cymmerir, 156; gwrtheddau o, dechreuad o, 160.
Dyfyniadau o'r tadau, 5; dylanwad o, ar destun y Deg a Thriugain, 30; yn y Testament Newydd; yn cael eu dosparthu, 288; rhif o, oddiwrth y Pumllyfr, 250; amrywiaethau yn, rhesymau dros, 251; gadawiad allan yn, 252; yn y Dadguddiad, 252; gwirioneddau yn cael eu dysgu yn, 252.
Dyledswyddau Cristionogion tuag at Dduw, tuag at ddyn, tuag atynt eu hunain, 473—4; dyledswyddau cyfiawnder, geirwiredd, a chariad, 475; dyledswyddau perthynasol, 475—6.
Dyledswyddau perthynasol, pa fodd y dysgir ac y cymmeradwyir, 426, 466.
Dyn, pa fodd y dadguddir, 84, 97—98.
Dyn pechod, 154, 459.
Dystawrwydd yr Ysgrythyr, 88.

Ebioniaid, 151.
Ecron, prophwydoliaethau am, 378.
Edifeirwch, dau ystyr o, 40; yn cael ei gymhwyso at Dduw, 103—4; yn rhodd ac yn ddyledswydd, 234; yn angenrheidiol, ond nid yw yn effeithiol, yn cael ei ddangos drwy enghreifftiau, 415, 247; drwy ddammegion, 278.
Edom, prophwydoliaethau ar, 364; cyflawniad o, 71.
Efengyl yn gymhwys i angenion dyn, 81; cytundeb rhyngddi a phrofiad Cristionogion, 81—2; cyferbynu â chyfundraethau gau, 94; ei phrif ragoriaeth, 96; dylanwad o, yn mhlith cenedloedd paganaidd, 77—8.
Efengylau, yr, eu canoneiddrwydd, 56; awdurdod, 93—4; ystyr o, cyssylltiad y pedair, 428—9; cytundebau geiriol, 436—7; cyssondeb y, 436; gwrtheddau ymddangosiadol, 437—8; pynciau i sylwi arnynt wrth fyfyrio, 440.
Efengylwyr, ystyr yr enw, 428; tegwch o, 75.
Eglwys, ei chymmeriad a'i haelodau; ei dysgyblaeth, 448; yn cael ei ddarlunio yn hanesyddol yn yr Actau, 447; dyledswydd tuag at weinidogion, 493; y Beibl, hanes o, 85; hâd Abraham, 217.
Eidalaidd, yr hen gyfieithiad, 23.
Eilun-addoliaeth, dan y gyfraith, yn droedd, 310.
Eli, pa fodd y cospwyd, 154.
Elias, ei wyrthiau, 68, 399.
Elihu, ei ostyngeiddrwydd, 291.
Eliseus, 68, 400; ei hunan-ymwadiad, 186.
Enwau priodol, eu pwysigrwydd, 125, 135.
Ephesiaid, llythyr at, 122—3; 479; rhybyddion yn cael eu tynu oddiwrth hanes yr eglwys Ephesiaidd, 481.
Epicuriaid, 151, 420.
Epistolau, pa fodd i'w myfyrio, 452—6.
Eryr, arferion yr, yn egluro yr addysgiaeth Ddwyfol, 162.
Esay, llyfr, 371.

Esbonwyr Groegaidd, defnydd o, 140.
Esdraelon, dyffryn, 192.
Esgob cyffredinol, pa bryd y cymhwysir at y pab, 153.
Esgusodion yr annuwiol, 498.
Esgyniadau i'r nef dan wahanol oruchwyliaethau, 297.
Esseniaid, 420, 423.
Esther, llyfr, 395—6.
Ethiopaeg, 11; cyfleithiadau, 24.
Etholedigaeth, pa fodd y dysgir, 235.
Euthalius, ei ddosraniadau, 16.
Exodus, llyfr, 289.
Ezeciel, llyfr, 385—7.
Ezra, llyfr, 390—1.

Fabricaii Codex Psend., 62.
Ffranche ar ddarlleniad ymarferol o'r Ysgrythyr, 270.
Fürst, ei Fynegai, 144.
Ffelix, ei gymmeriad, 98, 152.
Ffug-hanesion yr Ysgrythyr, 106.
Ffugiol, ystyr o, 3.
Ffydd yn cael ei hegluro, 116; amrywiol ddefnyddiad o'r gair, 114; yn cynnyrchu gweithredoedd da, 124—238; rhodd Duw, 90; cyfrifoldeb dyn am, 234; pa fodd y cynnyrchir, 90; egwyddor ufyddod a llwyddiant, 75; enghreifftiau o, 98, 253; yn caniatau cynnydd, 276; yn cael ei dysgu yn yr Hen Destament, 253.
Ffynnonau, eu gwerth, 201.

Gair Duw, grym yr enw, 3.
Galar dwyreiniol, 189.
Galarnadau, llyfr y, 381.
Galatiaid, y, eu dechreuad a'u cymmeriad, 460; Epistol at, 460; yn cael ei gymharu âg Epistolau ereill, 123; amrywiol ddarlleniadau o, 8; amcan o, 123—4.
Galileaid, 423.
Gaza, prophwydoliaeth am, 378.
Gehenna, tarddiad yr enw, 199.
Geirdarddiaeth, pa mor bell yn arweinydd, 135.
Geiriaduron, awdurdod o, Hebreig, 132; Groegaidd, 133.
Geiriau Aifftaidd yn y Pum-llyfr, 12; yn y Testament Newydd, 14; cyfleithiadau Aifftaidd, 24.
Geiriau aneglur yn y cyfleithiad Cymreig, 39.
Geiriau annghynnefin yn yr Ysgrythyrau Cymreig, 41.
Geiriau heb eu cyfleithu sydd yn yr Ysgrythyr, 42.
Geiriau Lladinaidd yn y Testament Newydd, 14.
Geiriau Persiaidd yn yr Ysgrythyr, 14; cyfleithiad Persiaidd, 26; athrawiaeth Bersiaidd yn nghylch drygioni, 150.
Geiriau, eu hystyr gyffredin, 109; i'w dewis 130; addysgiadau oddiwrth, 271; defnydd geirdarddiaeth wrth egluro, 135.
Gemara, 421.
Genesis, llyfr, 289.
Geni drachefn, 149.
Gerard, ei Reithiau, 137.
Gibbon ar effeithiau yr efengyl, 79.
Gilgal, addysgiadau cyssylltiedig â, 192.
Gill, ei Esboniad, 150.
Gnosticiaid, 454
Godineb, ystyr ffigurol o, 230.
Gofyniadau wrth ddarllen y Testament Newydd, 440.
Gogoniant, y, 311.
Goleuhad ysbrydol, terfynau, 108—9.
Goleuni, ystyr o, 104—16; Duw yn oleuni, 499.
Gorchymyn, y deg, rheolau i ddehongli, 240; moesol a phendant, 240—2.
Gorchymynion, neillduolrwydd o eiddo yr Ysgrythyr, 73—4; yn seiliedig ar athrawiaethau, 238; moesol a phendant, 241; rheolau ar, 241. (Gwel Cyfraith).
Goruchwyliaeth, yr hen, 487—8.
Goruchwyliaethau dilynedig, cymmeriad a pharhad, 91—2.
Gostyngeiddrwydd, drychfeddwl o, yn newydd i'r Groegwyr, 105; Pedr yn siampl o, 491; Elihu, 291; anrhydedd a osodir ar, 236, 271; pa fodd y dysgwyd gan ein Harglwydd, 236, 439.
Graves ar y Pum-llyfr, ymresymiad o, 288.
Groeg, mwyaf gwareiddiedig a mwyaf eilun-addolgar, 78, 152.
Groeg, yr iaith, ei helfenau, 13; Helleniaeth, 12; Geiriaduron a Gramadegau â chyfeiriad neillduol at y Testament Newydd, 14, 133; bannod Roegaidd, pwysigrwydd o, 38; rheolau o, 146; llyfrau ar, 148.
Groegwr, 199.
Groegwyr, ystyr neillduol o, 199.
Grotius ar Brofion Ysgrythyrol yn brawf o gymmeriad, 83.
Gwaed, gwahanol ystyrion o, 115; paham yr offrymwyd mewn aberthau, 313—14.
Gwawdiaith, enghreifftiau o, 120.
Gweddi Cristionogion yn cael ei deisyf gan yr apostolion, 466; pa fodd yr offrymir dan yr efengyl, 480; yn cael ei chefnogi drwy addewid, 245.
Gweddwdod, pa bryd y gwnaethpwyd yn orfodol, 153.
Gweinidog, 135; gweinidogion Cristionogol, eu cymhwysderau a'u dyledswyddau, 492.
Gweision, eu dyledswyddau, 299; gallant addurno yr efengyl, 466.
Gwestdai dwyreiniol, 189.
Gwinegr, pa beth, 183.
Gwirionedd, crynodebau o, 95—109; 233, 350.
Gwirionedd yr Ysgrythyrau, pa beth, 49; profion o'u hawl, 50—5; profion o, 62, *et seq.* (Gwel Purdeb; Profion.)
Gwirionedd ysbrydol yn cael ei ddadguddio mewn iaith ffigurol, 102.

Gwirioneddau hanfodol, pa beth, 109, 237.
Gwisg ddwyreiniol, "noeth" yn cael ei egluro, 181.
Gwlaw dan reolaeth Duw, 204; yn anarferol yn y cynhauaf, 203; cynnar a diweddar, 202.
Gwrthddywediadau ymddangosiadol yr Ysgrythyr, eu dechreuad, 39, 104, 111, 112, 124, 126, 159—60, 188, 237; pa fodd y cyssonir (y tu-dalenau blaenorol, &c.), 259—63.
Gwrtheddau ymddangosiadol, yn Llyfrau Croniclau a Breninoedd, 328—9; yn yr Efengylau, 438. (Gwel Gwrth-ddywediadau.)
Gwyddoniaeth, cytundeb yr Ysgrythyr â, 88; eithriadau, 89; ni ddylem chwilio am dano yn yr Ysgrythyr, 87.
Gwyliau Iuddewig, 202—3: 315—18.
Gwyrthiau, profion o, 66; rhif o, 66; llyfrau ar, 65; ein Harglwydd, 440; Elias, 339.

Habacuc, llyfr, 381—2.
Haelioni, 247; ei gymhelliadau a'i fesur, 466.
Hagenbach ar yr ysbryd yn mha un y mae yn rhaid myfyrio yr Ysgrythyrau, 108.
Haggai, llyfr, 391; prophwydoliaethau am Grist, 392.
Hales, ei Amseryddiaeth, 162.
Hall, Esgob, ar rinwedd, 241; ar hanes Ruth, 325.
Hanesiaeth naturiol, ei defnyddioldeb, 162; Llysieneg, 165—74; mwnyddiaeth yr Ysgrythyr, 174—5; enghreifftiau neillduol, 162—3.
Hanesyddiaeth, pa fodd i'w myfyrio, 294; cyffredin, ei defnyddioldeb wrth ddehongli, 151; eglwysig, ei defnydd, 152
Hanesiaeth y Beibl, ar ba egwyddor yr ysgrifenwyd, 84; yn cael ei hystyried fel yn arallegawl, 105, 211; anhawsderau, 256—60.
Hebraeg, enw, cymmeriad, a hanes, 9, 11, 12; cynnorthwyon er ei myfyrio, 132.
Hebreaid, Epistol at, 485.
Hebreigiaethau yr Ysgrythyr, 110.
Hedd-aberth, 315.
Heddwch, ffrwyth ffydd, 473; pa fodd i'w feithrin, 476.
Helleniaethau y Testament Newydd, 12, 140.
Hen Destament,—ystyr enw, 2; amrywiol ddarlleniad o, 8; tystiolaeth ein Harglwydd i, 51, 55; hanesiaeth foesol, 85; etto yn addysgiadol, 95; braslun o, 282; defnydd o, 281; ei bwysigrwydd a'i israddoldeb i'r Testament Newydd, 284; yw y Newydd wedi ei lenu, 211; ei addewidion tymmorol, pa mor bell yn gymhwysiadol, 242.
Henafiaid, am eu hiliogaeth, 111.
Herculaneum, llaw-ysgrifau a gafwyd yn, 16.
Heresjau yn yr eglwys foreuol, 454.
Herod, personau a elwir felly, 112; dyddiad marwolaeth Herod Agrippa, 449; Herod Fawr, 419.
Herodianiaid, 423.
Hinsawdd Judea, 211—4.
Hody ar y Deg a Thringain, 7.
Homologoumena, 7.
Horeb a Sinai, 113,
Horne, ei Ragarweiniad, 22, &c.
Horsley ar y Beibl Seisnig, 109.
Hosea, llyfr, 369—71; priodas y prophwyd, ystyr o, 871.
Hunan-dwyll yn cael ei egluro, 98.
Hyfder yn y ffydd, 272.

Jacob, ei ymddygiad tuag at Esau a'i ganlyniadau, 268—9.
Iachawdwriaeth drwy y gyfraith wedi ei brofi yn annobeithiol, 282; ystyr o, 115—20—43; angen dyn am, 472; drwy dân, 122.
Iago, Epistol; ei hanes, 478; perthynas ei Epistol âg Epistolau ereill, 124.
Jahn, ei Henafiaeth, 187.
Iaith ffigurol, dechreuad o, 102; rhybyddion ar, 103—4, 128; natur gyffredin o, 105—16; rheolau er dehongli, 115—22—28. (Gwel Arallegau, Prophwydoliaeth).
Japheth, prophwydoliaeth ar, 70.
Iawn, 141; pa fodd y dysgwyd dan y gyfraith, 314—15.
Iawn, athrawiaeth yr, 143.
Iawn, pa beth, 141.
Iawn, y drychfeddwl o, pa fodd y dysgir, 104; ystyr, 141—4; pwysigrwydd o, 237; dydd o, 316.
Idumæa (Gwel Edom).
Jehosaphat, 399.
Ieithoedd perthynasol yr Ysgrythyr, 9; defnydd o, mewn dehongliaeth, 137.
Ieithoedd Hebreig a Groegaidd, pwysigrwydd o dalu sylw i, 38.
Jephthah, ei addunedd, 263.
Jeremiah, llyfr, 378—9; trefniad gwahanol ei ragddywediadau, 390—1.
Jericho, prophwydoliaeth o barthed, 320—1; ei hanes, 192.
Jeroboam, ei gymmeriad, 355.
Jerusalem, ei hanes, 196—9.
Jethro, ei wahanol enwau, 113.
Ioan, Efengyl, 433—4; Epistolau, 498—501.
Job, llyfr, 289; addysgiadau oddiwrth, 291; prophwydoliaethau am Grist yn, 298; anhawsderau o, 257; geiriau neillduol yn, 12.
Joel, llyfr, 367—8.
Jonah, llyfr, 366—7.
Jones ar y canon, 62.
Iorddonen, 191.
Joseph, ei hanes a chymmeriad, 275, 301.
Josephus ar y canon, 2; ei hanes o Felix, 152; defnydd o, mewn dehongliaeth, 138.
Josua, yr arch-offeiriaid, 394.

Josua, llyfr, 320; perthynas i'r Pum llyfr, 323; addysgiadau oddiwrth ei fywyd, 321.
Israel a Judah, gwahanol hanesion, 355; ystyr ysbrydol "Israel," 217.
Jubili, blwyddyn y, 317.
Judæa, gwres, tymmorau, 200—4.
Judas, Epistol; cyssylltiad âg 2 Pedr, 498.
Iuddewon, prophwydoliaethau am, 71—2; eu hanes a'u defodau yn gysgodol, 105, 217; dyben Duw o berthynas i, 476.
Ina, ystyr o, 258.

Keith ar brophwydoliaeth, 72, &c.
Kennicott, ei lafur, 4, 22.

Lamy, ei *Apparatus Biblicus*, 204.
Lardner, 79.
Leighton, ei grynodeb o 1 Pedr, 490.
Leland ar Ddadguddiad, 79.
Leslie ar Wyrthiau, 67.
Lefiaid, 311—12.
Lefiticus, llyfr, 289.
Libanus, 191—7; arogl, 162.
Lightfoot, ei Horæ Hebraicæ, 150.
Lisco ar y Dammegion, 210; ar y Mab Afradlon, a'r gwr goludog, 278—9.
Locke ar Dduwinyddiaeth, 107; ar wirionedd cyffredinol, 234; ei Lyfr Cyffredin, 280; ar yr Epistolau, 453.
Luc, Efengyl, 432—3.
Luther, ei gyfleithad, 134; ar fyfyrio hanesiaeth Ysgrythyrol, 247.
Llaw-lyfr, amcan o, 1, 2.
Llaw-ysgrifau prif-lythyrenawl, 19.
Llaw-ysgrifau, yr henaf adnabyddus, 156; oed, pa fodd i benderfynu, 14—17; defnyddiau o, 15; awduron clasurol, 4; rhif o, 4, 21, 22; amgylchiadau yn ffafriol i gywirdeb yr Ysgrythyrau, 7; gwerth cymharol o, 17, 21; dosparthiad yr Hebreig, 22; Groegaidd, gan Bentley, Tregelles, &c. 18; prif-lythyrenawl, a brysiog, 19—21. (Gwel Codex, Purdeb, Groeg, Hebraeg, Masora).
Llew, arferion, 164.
Llwon, pa mor bell yn ganiataol, 246.
Llwyni, addoliad y, 241.
Llyfrau hanesol yr Ysgrythyr, Iuddewig, trefniad o, 318; gan bwy yr ysgrifenwyd, 318; ar ba egwyddorion, 319; cymmeriad crefyddol hanesiaeth yr Hen Destament, 330; trefn amseryddol o, 319—20, 348—54.
Llyfrau prophwydoliaethol yn cael eu talfyru, 358—9; golwg daflenawl o, 360—4.
Llygredd y natur ddynol, 81, 95, 154, 236.
Llygriadau Cristionogaeth, pa fodd y cyfarfyddwyd, 493—7—8; yn mha le yn dechreu, 454—66.
Llysieueg yr Ysgrythyr; llechres o'r holl blanigion, 165—74.
Llythyrau, pa fodd i'w hysgrifenu, 501; neillduol, yn yr Ysgrythyrau Hebreig, 421.
Llythyrenau Eidalaidd, ystyr o, yn yr Ysgrythyr, 42.
Llywodraeth, dyledswydd Gristionogol tuag at, 495.

Mab, y gair, pa fodd y defnyddir, 110—11.
Mabwysiad, dau fath o, 189; breintiau cyssylltiedig a, 500.
Macabëaid, 418.
Magog, 113.
Malachi, llyfr, 397—8.
Malais, 41.
Mamau, eu dylanwad, 501.
Manasseh, ei edifeirwch, 404.
Marc, Efengyl, 431—2.
Marsh, ei Feirniadaeth Feiblaidd, 22, 101.
Masora, 421; testun Masoretaidd, 21, 22.
Matthew, Efengyl, 430—1.
Media, hanes, 411—13.
Meddwl yr Ysgrythyr, 100.
Meddwdod, ystyr o, mewn dehongliaeth, 128.
Meini gwerthfawr yr Ysgrythyr, 176—7.
Melchisedec, 9.
Memrwn, 15.
Mesopotamia, 191.
Messiah, parotoadau erbyn ei ddyfodiad, 295.
Mesurau Ysgrythyrol, 185.
Meteloedd, 177—8.
Micah, llyfr, 375—6.
Michaelis, ei Ragarweiniad, 17.
Milwriaeth Gristionogol, 481.
Mill, ei Arwyddluniaeth, 228.
Mishna, 421.
Misoedd Iuddewig, taflenau o, 202.
Mizpeh, 113.
Moeseg, pa fodd y dysgir yn yr Ysgrythyr, 89.
Moesoldeb Cristionogol, neillduolion o, 473; yn seiliedig ar athrawiaethau, 233.
Montfaucon, ei *Palæographia Græca*, 17.
Môr Marw, 114.
Môr y Canoldir, 114, 181.
Môr, ystyr o, 199.
Moriah, Mynydd, 196.
Moses, ei onestrwydd, 75; pa fodd yr anrhydedda Dduw, 75.
Mynegion Hebreig a Groegaidd, 144.
Myrrh, 164—5.

Nahum, llyfr, 376—7.
Natur ddynol, dysgeidiaeth yr Ysgrythyr am, 85—95; darluniau o, 95; ei thueddiadau i'w canfod yn y sectau Iuddewig, 425.
Nathan, ei gymmeriad, 326.

Neander ar y Dammegion, 209—10; ar hanesiaeth eglwysig, 247; ei arwyddair, 108.
Nebuchodonosor, ei freuddwydion, 406–7.
Nehemiah, llyfr, 396; yn siampl o wladgarwch a duwioldeb, 397.
Nero, wrth ba enw y gelwir yn yr Ysgrythyr, 112; anrhydedd yn ddyledus iddo, 155; Paul yn cael tori ei ben wrth ei orchymyn, 496.
Newton, esgob, ar brophwydoliaeth, 65.
Newton, John, ar gyfundraethau o dduwinyddiaeth, 232; ar ddarlleniad ymarferol o'r Beibl, 270.
Newton, Syr I., ar amserau prophwydoliaeth, 227.
Nicolaiaid, ychydig hanes o, 455.
Nile, 114.
Ninefe, ei hanes, 410; rhagddywediadau o berthynas i, 72, 364; cyflwr, yn nyddiau Nahum, 376.
Nodau yr Arglwydd Iesu, 125.
Nodweddau, pa fodd y gosodir allan yn Hebraeg, 110.
Noeth, ystyr o, 181.
Nos, pa fodd y rhanwyd yn mhlith yr Iuddewon, 187.
Numeri, llyfr; amcan a chynnwysiad, 289.

Obadiah, llyfr, 387—8.
O.C., yr amseriad cywir o, 435.
Offeiriaid, ystyr o, 135; eu dyledswyddau, cynnaliaeth, &c., 312—13.
Offrymau dan y gyfraith, 313.
Olew, gwerth o; pa fodd y defnyddiwyd fel meddyginiaeth, 164; mewn gwleddoedd, 183.
Olewydd, Mynydd yr, 198—200.
Oraclau Duw, pa beth, 2.
Ordeinio, amrywiol ystyrion o, 40.
Origen, ei Feibl chwe-plyg, 23.

Pabyddiaeth, ei newydd-bethau, 154; dehongliadau annghywir o, 122, &c.; yn ychwanegu at yr Ysgrythyr, 93; dylanwad niweidiol, 100.
Paganiaeth, ei dylanwad, 78; ei hanwybodaeth o euogrwydd dyn, cymmeriad Duw, a bywyd dyfodol, 442—4.
Palestina, ei henwau, 193; maint a rhaniadau, 193—4; hinsawdd, 196; mynyddoedd, 195; poblogaeth yn yr hen amseroedd a'r diweddar, 196.
Paley ar y Profion, 63; ei Horæ Paulinæ, 80; ar rinweddau addoliadol, 98.
Palmwydden, arwyddlun o'r Cristion, 162.
Papyrfrwyn, 15.
Paradwys, ystyr o, 14.
Parch yn angenrheidiol wrth fyfyrio yr Ysgrythyr, 1, 108, 269.
Pascal ar fyfyrdod o'r Ysgrythyr, 107; ar anhawsderau Ysgrythyrol, 269.
Pasg, 304—15—16; pa bryd y cynnelid, 161; defodau yn, 188; cysgod o Grist, 204—9.
Patriarchiaid, eu goruchwyliaeth, 93; eu duwioldeb, 299; eu golygiadau yn nghylch bywyd dyfodol, 253.
Paul, ei gymmeriad, awdurdod apostolaidd, 465; geiriau olaf, 496; ei Epistolau, awdurdod a chanoneiddrwydd o, 50, 56. (Gwel Ffelix.)
Pebyll dwyreiniol, 178.
Pechod yn cael ei gospi, fel yn dianrhydeddu Duw, 74; pa fodd y darlunir ac yr eglurir, 97—8; y pechod cyntaf, yn ddinystriol, 86, 297; canlyniadau, 235, 301; pa fodd y cospir mewn cenedloedd, 356; yn cael son am dano yn Job, 290.
Pedr yn cael ei anrhydeddu, drwy fod yn offeryn y troedigaethau cyntaf, 127; ei ostyngeiddrwydd, 491; ei eiriau ysgrifenedig diweddaf, 496.
Pentecost, 316.
Penwisg, 182.
Penyd, 153.
Perffeithrwydd, ystyr o, 117.
Petra, hanes o, 200.
Pingre, ei daflenau, 162.
Pläau yr Aifft, 268; eu harwyddocad, 303—4.
Platoniaeth, ei dylanwad, 455.
Platoniaid Alexandriaidd, eu dylanwad, 455.
Playfair, ei amseryddiaeth, 162.
Poeth-offrymau, 314.
Porter, Scott, 22, 36.
Potelau dwyreiniol, 190.
Powel, ei grynodeb o brophwydoliaethau, 223.
Prætorium, pa beth, 198.
Pregethwr, llyfr y, y wir allwedd i, 346—7.
Preswylfeydd dwyreiniol yn cael eu darlunio. 178—9.
Pridd a sonir am, yn yr Ysgrythyr, 174—5.
Priodas, 296; annuwiol, niwed o, 98; ei dyledswyddau, 466; ystyr o, mewn arwyddluniau, 231.
Profion o wirionedd yr Ysgrythyr yn cael eu dosparthu, 64—5; allanol a mewnol, 65; moesol, 65; llênyddol, 79; ysbryddol, 80; diffyg ffydd yn, pa fodd i'w symud, 83. (Gwel Gwirionedd yr Ysgrythyrau, Ysgrifenwyr Eglwysig, Purdeb, Pum-llyfr.)
Profion tebygol, 64.
Prophwydoliaeth, yn adfywio yn Samuel, 327; dadguddiadau graddol o, 328, addysgiadau moesol o, 86, 227; neilluolion o, o barthed i amser ac iaith, 214—15; yr olaf o'r Hen Destament, 398; yr olaf o'r Newydd, 510; natur o, fel prawf, 67; yn llenwi yr Ysgrythyr, 68; oll yn wasanaethgar i un amcan, 69; prophwydoliaethau am Grist, 69, 221; cenedloedd paganaidd, 70; moesol ac

efengylaidd, 86; cymhwysiadau deublyg neu aml o, 218—19, 254; rheolau debongliaeth, 219—20; yn cael ei chadarnhau gan y Testament Newydd, 254; dwy gyfundraeth o, 222; cytundeb, 226; gwahaniaeth, 222; prophwydoliaethau mewn llyfrau hanesol, 228; arwyddluniau o, 228; amser mewn, 226; llyfrau fel profion, 65.
Proselytiaid, 423.
Prydiau bwyd yn y dwyrain, 182.
Prynedigaeth, ystyr o, 142; ei ffynnonell yw cariad Duw, 473.
Ptolemy, enw cyffredin, 112.
Publicanod, 184.
Pum-llyfr Moses, ei enwau; purdeb, 285—6; yn cael ei amheu gyntaf gan Hobbes, 286; gwirionedd, 286—7; amrywiol ysgrifeniadau a ddefnyddiwyd wrth ddarparu, 288; geiriau neillduol yn, 12.
Purdan, ar ba ymadrodd y tybir y gorphwysa, 122.
Purdeb, yn cael ei egluro, 3; effaith argraffu ar y pwnc, 3; profion o, 3—9, 62; y Pum-llyfr, 285; Essay, 373; yr Efengylau a'r Epistolau, 429—30.
Puredigaeth dan y gyfraith, arwyddocad ysbrydol o, 315.
Purim, gwyl y, 317.
Pwysau, 185.
Pwysigrwydd gwirioneddau, pa fodd y ceir allan, 236.
Pythoniaethau henafol, yn cael eu cymharu â'r Ysgrythyr, enghreifftiau o, 88.
Pharaoh yn cael ei galedu gan drugaredd, 238, 303; breninoedd a elwir felly, 112.
Phariseaid,—Phariseaeth, 420—22.
Philemon, Epistol at, 482.
Philippiaid, Epistol at, 483.
Philistia, prophwydoliaeth yn erbyn, 364-5.
Phoeniciaeg, 9; defodau, 150.

Rabab, ei ffydd; henafes o'r Messiah, 321.
Rambach, ei "Institutiones Hermeneuticæ," 280.
Rebecca, addysgiadau oddiwrth ei hanes, 268.
Rhagarweiniad i lyfrau yr Ysgrythyr, yr esboniadau goreu, 284. (Gwel y llyfrau neillduol.)
Rhagluniaeth,—Duw, yn cael ei egluro, 291, 396; addysgiadau oddiwrth, 414; dirgelwch o, 376; Duw mewn hanesyddiaeth, 75; yn gofyn ymostyngiad, 276.
Rhagwybodaeth, yn gysson â rhyddid dynol, 357.
Rhaniadau Ammoniaidd, 16.
Rhaniadau yn mhlith Cristionogion, y pechod a'r gwelliant o, 467.
Rhaniadau yr Hen Destament, 2, 43; y Testament Newydd; rhaniadau Euthaliaidd, 16; i bennodau ac adnodau, 43; annghywirdeb, a rheol, achlysurol, 43. (Gwel Rhaniadau Ammoniaidd, Canonau Eusebiaidd.)
Rheis, pa fodd yr hauir, 258.
Rheolau dehongliaeth, 109—29; a'r defnyddioldeb o, 130. (Gwel Prophwydoliaeth, Dammeg, &c.)
Rhesymoliaeth, drygau o, 421.
Rhieni, eu dyledswyddau; enghreifftiau o rieni duwiol, 466.
Rhif luosog, pa fodd y defnyddir, 111.
Rhifedi, cam-gyfieithiadau o, 39; yn dueddol i wallau, 39; neillduolrwydd yn y defnydd o, 111.
Rhinweddau, eu ffugiaethau ganddynt, 300.
Rhufeiniaid, Epistol at, amcan, cymhwysiad ac ymresymiad, 467; cymmeriad yr eglwys, 468; amrywiol ddarlleniadau, 8; amcan, 124; yn cael ei gyssoni âg Iago, 262.
Rhwymo a gollwng, 149.
Rhyddid ysbrydol, mewn pethau nad ydynt anhebgorol, 461, 472.
Ridley, y merthyr, ar ddirgelion Ysgrythyrol, 236.
Rossi, De, llawysgrifau, 4, 22.
Ruth, addysgiadau oddiwrth ei hanes, 325; llyfr, 325; lle yn hanesyddiaeth, 359.
Ryan ar effeithiau crefydd, 79.

Sabbath, pa bryd y sefydlwyd; pa fodd i'w gadw, 296; ddeddf y, yn gynnwysedig, 240; taith dydd Sabbath, 186.
Saducëaid, eu rhifedi, eu credo, a'u hanfoesoldeb, 420—2.
Saith; Deg a Thriugain, 112.
Salm egwyddorol, 292, 301.
Salmau, enw, rhaniad Iuddewig o, 332; gwerth, 333; awduriaeth, 333; trefniad Townsend, Tholuck, &c., 334; trefniad amseryddol, 335—6; eu teitlau, 339—40; rheolau er eu myfyrio, 340; llawlyfr addoliad, 92, 328; wedi eu trefnu fel y cyfryw, 334.
Samaria, coron balchder, 200.
Samariaeg, 10; Pum-llyfr, 10, 25; amseryddiaeth, 156.
Samariaid, eu dechreuad a'u golygiadau, 356, 424.
Samuel, llyfrau, 326—8.
Sandalau, defodau cyssylltiedig â, 181.
Sanhedrim, pa fodd y cyfansoddwyd, 423.
Santeiddrwydd, drychfeddwl o, pa fodd y dysgir, 104—5; pwysigrwydd goruchel o, 73, 237; yn cael ei ddwyn yn mlaen gan yr efengyl, 78; cynnyrch ffydd, 75.
Satan, ei gymmeriad, a'i bersonolrwydd, 297; ei weithrediadau ef, a'n dyledswydd ninnau, 235.
Schmidt, ei Fynegai, 145.

Schoetgenius, Horæ Heb. 149.
Scholz, Testament Newydd, 18.
Sectau, yn cael eu henwi, 420—5; Iuddewig, yn dangos yr hyn'yw y natur ddynol, 425.
Secharias, fab Barachias. 260.
Sechariah, llyfr, 392—4; ieithwedd y, 12; ei enw yn cael ei ddyrysu gydag enw Jeremiah, 392; Salmau a briodolir iddo, 395; ystyr ei ragddywediadau, 392.
Sedeciah, cyflawniad hynod o brophwydoliaeth ar, 161.
Sêl, enghraifft o, 204; yn cael ei dirgymhell ar bawb, 475.
Selio, 190.
Selotiaid, pwy, 423.
Sephaniah, llyfr, 377-8; ieithwedd, 11.
Seryddiaeth yn cynnorthwyo amseryddiaeth, 161.
Siamplau yr Ysgrythyr, pa fodd i'w defnyddio, 244; yn cael eu cymhwyso i egluro egwyddorion, 294; wedi eu bwriadu i gynnorthwyo santeiddrwydd, 247.
Silo, 193.
Simon y Cyfiawn, 417.
Simoom, 201.
Sinai, 112, 195.
Sodom, euogrwydd 154.
Sohar, R. Simeon, 150.
Solomon, ei gymmeriad a'i deyrnasiad, 331—2; ei bechod a'i ganlyniadau, 154; prophwydoliaethau am, 326.
Zorobabel, henafiad Crist, 392.
Stoiciaid, 151, 420.
Sufisiaid, 420.
Swper yr Arglwydd, yn gofiannol, nid yn aberthol, 467; o ddau fath, 126; arferion boreuol yn, 248; pa fodd i'w chadw, 467.
Synagogau, dechreuad o, 311.

Tabernacl, y, 310; gwyl y pebyll, 316; defod ar, 190.
Taflenau o bwysau, &c., 185.
Tai dwyreiniol, 179.
Talbot, ei Feibl, 280.
Talmud, pa beth, 421.
Targumiau amrywiol, 5; defnyddioldeb, 133, 150; dechreuad o, 421.
Tarsis, 191.
Taylor, ei Fyneg-eiriau Hebreig a Seisnig, 145.
Tegwch yr ysgrifenwyr ysbrydoledig yn cael ei egluro, 75.
Teml, y, cysgod o Grist ac o'r eglwys, 217; hanes y, ynl gyssylltiedig âg eiddo'r Iuddewon, 332; gwahanol enwau ar, 40; byr-hanes o, 196—7.
Testament Newydd, 425; cyssylltiad llyfrau y, 282; neillduolion o, 282—4; 426; prif ffynnonell athrawiaeth, 234; llyfrau y, 283; cyflawniad yr Hen, 253—84; yn cael ei osod allan yn Nghrist, 426; i'w fyfyrio drwy gymhariaeth, 441—2; ystyr athrawiaeth, 236.
Testament Newydd Hellenig, 114.
Testament Rhemiaidd, 45.
Textus receptus, 4.
Teyrnas nefoedd, neu Dduw, 149, 271.
Teyrnasoedd yn cael eu derbyn oddiwrth Rufain, 190.
Tiberias, dinas, 199.
Timotheus, dyddiad a chynnwysiad yr Epistolau at, 491—2.
Titus, dyddiad, amcan, a chynnwysiad o, 493.
Troddodiad, pynciau o, 421.
Trafnidiaeth, ni ddylai fod yn rhwystr i santeiddrwydd, 247; Nehemiah, yn siampl, 396.
Traws-enwad, 106.
Traws-sylweddiad, 93, 153.
Trefydd Palestina, 180.
Tregelles, egwyddor o ddosparthu llawysgrifau, 18.
Trethi, 184.
Trindod, pa beth, pa fodd y dadguddir yn yr Hen Destament, 90—1.
Trofegau, 105—7. (Gwel Iaith ffigurol).
Trommius, ei Fynegai, 145.
Tros-osodiad, 143.
Theodotion, cyfieithiad, 6.
Therapeutæ, 421.
Thessaloniaid, Epistolau at, 458—9.
Thessalonica, ei chymmeriad, 458.
Tholuck ar wybodaeth grefyddol, 107; a dosraniad gramadegol, 109.
Thomson ar bwys cymharol gwirionedd, 237.

Ufudd-dod efengylaidd, cymhelliadau i, 474.
Uffern, ystyr o, 40.
Un dyfodol, yr, 140, 222, 225.

Voltaire, ei gam-driniaeth o Lyfr y Pregethwr, 348; gwrthwynebiadau i' Ysgrythyrau, 42—92.
Vulgate, hanes y, 6, 24; gwallau yn y testun, 24; defnyddioldeb o, 133.

Warburton ar anhawsderau Ysgrythyrol 269.
Wemyss, ei Agoriad i Iaith Arwyddluniol yr Ysgrythyr, 228.
Wetstein, ei Destament Newydd, 150.

Ymadroddion cyfochrawg, pwys o gymharu; cyfochreddau geiriol, 126—7; cyfochreddau o feddyldrychau, 126; dylanwad ar y testun, 30; addysgiadau

pwysfawr oddiwrth, 272; pwys o fyfyrio, yn cael ei egluro, 120.
Ymarweddiad, dodrefn, cariad, ystyr o, 40—2.
Ymherodraeth Rufeinig, rhagfynegiadau am dani, 76, 383.
Ymprydiau Iuddewig, 316.
Ymsangau, 120,
Ymweled pechodau y tadau ar y plant, 238—62.
Yn hytrach, ystyr o, 121.
Yna, gan hyny, 121.
Ysbryd Glân, yn angenrheidiol wrth ddarllen y Beibl, 108; pa fodd y dadguddir, 90; ei bersonolrwydd, â'i swydd, 447—8; yn cael ei roddi ar ddydd y Pentecost, 205.
Ysbrydoliaeth, addysg yr Ysgrythyr ar, 53; damcaniaethau o, 54; pa beth a ganiata, 55; pa fodd y mae yn agweddu dehongliaeth, 266.
Ysgolion y prophwydi, 400.
Ysgrifeniadau Cyssegredig, pa beth, 2.
Ysgrifenwyr eglwysaidd, eu tystiolaeth ar burdeb yr Ysgrythyr, 5; y pedair canrif gyntaf yn cael eu trefnu, 63.
Ysgrifenyddion, 423.
Ysgrythyr, myfyrdod o, 1, 108—9. (Gwel Beibl, Hen Destament, Dadguddiad ysgrifenedig).
Ysgrythyrau Groegaidd, cyfieithiadau boreuaf o, y Deg a Thriugain, 7; hanes a gwerth cymharol o; prif argraffiadau o; cyfieithiadau a wnaethpwyd oddiwrth, 23; llawysgrifau o, 4, 19; dyfyniadau o, yn y Tadau, 5, 6; defnydd o, mewn dehongliaeth, 140; hanes testun y Testament Newydd, 17; *textus receptus*, 4. (Gwel Aristeas, Origen, Darlleniadau amrywiol).
Ysgrythyrau Hebreig, copiau argraffedig boreuaf o, 4; llawysgrifau o, 4, 5; argraffidau beirniadol o, 21; testun Hebreig yn cael ei gymmedroli gan ymadroddion yn y Testament Newydd, 251; anhawsderau yn, 255. (Gwel Targumiau, Masora).
Ystyr briodol geiriau, pa beth, 105.

MYNEGAI YR ALLWEDD.

	TUD.
Arallegau yr Ysgrythyr, y modd i'w dehongli	529
Anhawsderau Ysgrythyrol	534
Amcan y Gyfraith, a chrynodeb o'i sefydliadau	538
Amseryddiaeth yr Ysgrythyr	546
Actau, Llyfr yr	549
Beibl, yr ysbryd yn mha un y dylid myfyrio y	521
Barddoniaeth Hebreig—Llyfrau Barddonol	537
Cyfieithiadau (hen) o'r Ysgrythyr	514
Cynnorthwyon allanol, eu defnydd	525
Darlleniadau amrywiol yr Ysgrythyr	514
Dehongliaeth, rheolau	521
Dyfyniadau yn y Testament Newydd o'r Hen	533
Darlleniad Addysgiadol o'r Beibl	535
Efengylau, yr..	548
„ Arweiniad i'r	548
„ Amseryddiaeth yr	548
„ yn cael eu cyssoni	548
„ y Cenedloedd	549
Epistolau, ar fyfyrdod o	550
„ purdeb yr..	550
Gwirionedd ac Awdurdod yr Ysgrythyr	515
Hanes Foreuol Gyffredin	546
Hanes Wladol a Moesol yr Iuddewon	547
Ieithoedd gwreiddiol yr Ysgrythyr	512
Iob, Llyfr	537
Ioan i Dadguddiad	552
Llawysgrifau yr Ysgrythyr	513
Llyfrau Hanesyddol	539
„ Barddonol	541
„ Josua, Barnwyr, a Ruth	540
„ Samuel, Breninoedd, a'r Croniclau	540
„ Ezra, Haggai, Zechariah, Esther, Nehemiah, a Malachi ..	545
Nodweddau Neillduol yr Ysgrythyr fel Dadguddiad oddiwrth Dduw	518
Profion Ysgrythyrol	517
Prophwydoliaeth, dehongliad	530
Pumllyfr Moses, a Llyfr Iob, yn cael eu trefnu a'u talfyru.. ..	537

TUD.
Purdeb a Gwirionedd y Pumllyfr 536
Prophwydoliaeth, ei natur 542

Rheolau mewn dehongliad 523

Thessaloniaid i Judas.. 550

Unoliaeth y Beibl 519

Ysgrythyrau, Purdeb yr 512
Ysbrydoliaeth.. 516
Y Canon 516
Yr Ysgrythyr yn Ddadguddiad o Dduw ac o Ddyn.. 518
" yn ddadguddiad graddol a chynnyddol 519
" ar ddehongli yr 520
" yr angenrheidrwydd am ofal wrth fyfyrio yr.. .. 520
" nid ydyw yn Ddadguddiad o Wirionedd Rheolaidd.. 520
" myfyrdod rheolaidd o.. 531
" myfyrdod o Athrawiaethau yr 531
" myfyrdod o Orchymynion yr.. 532
" myfyrdod o Addewidion yr 532

WILLIAM MORGAN EVANS, ARGRAFFYDD, CAERFYRDDIN.